



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search


Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>




Bl for value of Bob Own, Crown

Per. 14198 e 285
1857







Y

TRAETHODYDD.

AM Y FLWYDDYN 1857.

LLYFR III. O GYFRES NEWYDD, A LLYFR XIII.
O'R DECHREUAD.

TREFFYNNON :


ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS.

MDCCLVII.



CYNNWYSIAD.

	tu dal.
Adgofion Tad	341
Arddangosiad Trysorau Celfyddyd	329
Bugeilgerdd	194
Caethfasnach : ei Hanes a'i Diddymiad	437
Caniadau Maes y Plwm	242
Cymdeithasau Yswiriant	33
Cymhwysder yr Ysgrythyrau i gyflawni eu hamcan fel Dad- guddiad Dwyfol	97
China a'i Gwrthryfeloedd	112
Dyfalbarhâd y Ffordd i Lwyddiant	462
Egwyddorion Crediniaeth	86
Fy Mab	64
Hanes Athroniaeth	5, 257, 415
Manchester	323
Mendelssohn—ei Fywyd a'i Weithiau	275
Myfyrdod Glân y Môr... ..	240
Mynyddoedd y Byd	171
NODIADAU LLENYDDOL	127, 251, 378, 501
Oriau gyda Bacon	346, 491
Pwysigrwydd Ymarferiadau Da	129
Rhesymeg	155, 361, 476
Sefyllfa Wareiddiol y Cymry... ..	230, 297, 385
Taith i'r Dwyrain	201
TREU AB FYD AC EGLWYS	125, 248, 374
Yr Enaid yn cael Gorphwysdra yn Nghrist	455



Y TRAETHODYDD.

HANES ATHRONIAETH.

Y MAE yn hysbys i'n darllenwyr mai ein hamcan yn yr erthyglau hyn ydyw rhoddi braslun o hanes athroniaeth o'i dechreuad hyd yn awr. Yn y rhifyn diweddaf, ni a olrhenciasom, yn dra helaeth, hanes Cyfodiad yr Athroniaeth Roegaidd. Yr ydym yn awr yn symud i—

§ 2. OES EURAIDD YR ATHRONIAETH ROEGAIDD.

Yr ydym eisoes wedi teithio oddeutu 200 o flynyddoedd ar ein llwybr; ac nid ydym yn ammheu na bydd ein darlennydd, wrth adolygu yr ysgolion sydd wedi bod dan sylw, yn rhyfeddu pa fodd y mae yn briodol galw y cyfnod yr ydym yn myned ato yn awr yn oes *euraidd* yr athroniaeth Roegaidd. Rhaid cyfaddef fod achos i'r rhyfeddod hwn; canys wrth ganfod y blaid o Ymresymwyr yn ffynu fel yr oeddynt yn mhrif eisteddle y ddoethineb Roegaidd, pa fodd y gellir llai na synu fod y fath gyfnewid- iad wedi cymeryd lle mor ddisymwth? Wele, felly y mae y ffaith, ac nid oes genym ddim ond credu y ffaith, a chofio fod "cawri ar y ddaear yn y dyddiau hyny." A'r cyntaf yn y gyfres ydyw

SOCRATES—

Enw ag sydd yn cael ei seinio gyda pharch gan filoedd o Gristionogion, o herwydd yr egwyddorion uchel a'i llywodraethent bob amser. Ganwyd ef yn Athen yn y fl. 469 neu 470 C.C., ac yr oedd yn llygad-dyst o lwyddiant Protagoras a'i blaid, ac y mae yn debyg ei fod yn hyddysg yn hanes athroniaeth ei gynoeswyr er dechreuad ei genedl. Y mae rhai yn dywedyd ei fod wedi cael ei addysgu gan Anaxagoras ac Archelaus; eraill a ddywedant ei fod wedi gwrandaw darlithiau Parmenides; ac eraill a fyntumiant ei fod wedi dysgu areithyddiaeth oddiwrth un o'r Ymresymwyr o'r enw Prodicus. Nis gellir rhoddi nemawr goel i'r haeriadau hyn, yn enwedig yr olaf, canys y mae yn cael ei wrthbrofi yn foddhäol gan yr athronydd ei hun. "Yr ydych yn fy nirmygu i," meddai, "oblegid eich bod wedi afradu arian ar Protagoras, Georgias, Prodicus, ac amryw eraill, yn gyfnewid am eu dysgeidiaeth; tra yr ydwyf fi yn gorfod tynu fy holl athroniaeth o fy ymenydd fy hun." Mab ydoedd i un o'r enw Sophroniscus, cerfiedydd, a Phaenarete, yr hon oedd fydwraig. Nid yw yn ymdangos fod yr ystori ei fod wedi denu sylw Crito, Atheniad goludog, par

yn gwrandaw ar areithiau Anaxagoras ac Archelaus, yn teilyngu crediniaeth; yr hwn, meddir, wrth weled ei astudrwydd, a chael ei foddhau gan ei ddealldwriaeth, a'i dyrchafodd o'r "gweithdŷ," gan ei ddiwallu â llyfrau, a'i gynnorthwyo i gyrrhaedd cymborth dysgawdwyr uchel.

Yr oedd y byd mewn sefyllfa beryglus ar yr anser yr ymddangosodd Socrates ymhlith doethion Athen. Groeg oedd brenines y ddaear y pryd hwnw; a gogoniant Groeg oedd Athen. Yr oedd y rhyfel â Phersia wedi terfynu yn llwyddiannus; yr oedd y rhyfel Peloponnesaidd heb gymeryd lle. Rhwng y ddau amgylchiad, wele y buddugoliaethau ar Salamis a Marathon yn ei dyrchafu yn fawr. Yr oedd ei llyngesoedd hefyd yn teyrnasu ar y moroedd; a mawredd Groeg yn cael ei gydnabod yn gyffredinol. Ond yr oedd dynion yn ymlygru yn ofnadwy yn y ddinas flodeuog; yr oedd Solon wedi goddef i gaethwasiaeth gael lle ymhlith ei ddeddfau, a'r canlyniad o hyn y oedd, fod yr Atheniaid yn esgeuluso llafurio eu hunain, ac yn byw yn y glythineb mwyaf yn nghanol y danteithion yspleneiddiaf, heb ymofyn am ddim ymhellach nag fel y darlunir hwy mewn cyfnod diweddarach gan hanesydd teithiau a llafur apostol mawr y cenedloedd: "A'r holl Atheniaid, a'r dyeithriaid, y rhai oedd yn ymdeithio yno, nid oeddnt yn cymeryd dim hamdden i ddim arall, ond i ddywedyd neu glywed rhyw newydd." Yr oedd Solon hefyd wedi caniatâu i ferched gael eu gwerthu yn gaethion, yr hyn sydd un o warthruddiadau erchyllaf unrhyw gymundeb gwladol. Yn Athen y gellid golygu fod enaid gwlad Groeg; a pha beth bynag oedd Athen, dyna oedd bithau. Yno yr oedd y celfyddydau a'r gwyddiannau Groegaidd yn cael eu hefyddu a'u hymarfer gydag astudrwydd mawr. Yno yr oedd yr ysgolion athronyddol i gyd wedi dyfod wneub yn wneub. Llenwid ei phyrth gan ddoethion yn addysgu eu dysgyblion; ac adseiniid muriau ei hadeiladau garwch gan ddarlithiau hyawdl ei hareithwyr penigamp. Ond yr oedd Socrates yn canfod fod diffyg yn yr holl ddysgeidiaeth, ac ymddangosodd ar beolydd Athen i arddangos y diffyg hwnw yn ei liw priodol.

Yr oedd athroniaeth wedi cael ei dwyn i gyfyngder mawr ar y pryd ag yr ymddangosodd Socrates. Yr oedd gwrthdybiau yr Ioniaid a'r Egeaiaid wedi arwain i ganlyniadau tra niweidiol; ie, i'r casgliad nad oedd y fath beth a gwirionedd yn bod. Dyma, yn ol pob tebyg, yr hyn a ddysgid gan yr ymresynwyr Athenaid; a gwelodd Socrates mai ei ddyledswydd oedd eu gwrthwynebu. Ac felly yr ydys yn ei gael yn teithio ar hyd heolydd y ddinas goeth dan ymofyn am ddoethineb, ac yn gwneuthur ei ran i wrthweithio y dylanwad ammheuyddol ag oedd yn ffynu, ac yn arwain i anfoesoldeb gwarthus. Y mae yn darlunio ei hun yn crwydro ar hyd yr heolydd, ac yn cyfarfod âg un o'r doethion, yr hwn yn ol ei dyb ei hun oedd yn rhwym o fod yn ddoethach nag ef; ond ar ol ei chwilio yn fanwl, daeth i ddeall nad oedd yn ddoeth mewn gwirionedd, a phan ddywedodd hyny wrtho, efe, ynghyda'r rhai a'i canlynent, a ffromasant yn fawr; a Socrates a ddywedai wrtho ei hun, "Yr wyf yn ddoethach na'r dyn hwn; canys y mae yn ymddangos nad oes yr un o honom yn gwybod dim gwerthfawr; ond efe, er nad yw yn gwybod, a dybia ei fod yn gwybod; myfi, gan nad wyf yn gwybod, nid wyf yn fy nhybied fy hun yn wybodus. Yr wyf yn ymddangos, gan hyny, mewn un pwnc bychan yn gallach nag ef."

I myned oddiwrth y naill ddoethawr at ddoethawr arall, y mae yn rhûd i'r farn a ffurfiodd am y doethawr cyntaf; ac y mae yn

dywedyd wrth yr Atheniaid, "O Atheniaid, yr argraff a wnaethpwyd ar fy meddwl i oedd hyn: Y dynion mwyaf eu clod a ymddangosent i mi y rhai mwyaf diffygiol braidd o'r oll; ymddangosai dynion eraill o lawer llai o fri yn llawer mwy rhesymol." Aeth wed'yn at feibion yr awen, gan ddysgwyl yn ddiffael fod ei ddoethach i'w gael yn eu plith hwy. Ond yn ofer yr ymofynodd â hwy; "ac y mae arnaf gywilydd, O Atheniaid," meddai, "ddywedyd y gwirionedd, ond yr wyf dan orfod i'w ddywedyd; o'r braidd yr oedd un dyn yn bresennol ag nad allai lefaru yn well ynghylch eu barddoniaeth nag y gallent hwy." Penderfynodd, gan hyny, mai nid gyda hwy y trigai deall, "canys (i fenthyca ei eiriau ef) y maent yn siarad llawer o bethau hyfryd a choeth, ond nid ydynt yn deall un mymryn o'r hyn y maent yn ei ddywedyd." Yna y mae yn troi at gelfyddydwr, &c., mewn llawn sicrwydd eu bod yn wybodus mewn pethau na wyddai ef; felly yr oeddynt hefyd yn y pethau hyny; "ond ymddangosent hwythau wedi syrthio i'r un camsyniad a'r beirdd; pob un, o herwydd ei fod yn fedrus yn ei gelfyddyd ei hun, a hōnai ei fod y dyn doethaf mewn pethau eraill, a'r pethau mwyaf; a'r camsyniad hwn o'r eiddynt a guddiai hyny o ddoethineb a feddent." Gwir, ynte, fel pe dywedasai, y dywedai Apollo mai myfi yw y doethaf o blant dynion, canys mi a ddyagais ddiagon i ddeall nad wyf yn gwybod ond megys dim.

Ac yr ydym yn dychmygu ei glywed yn siarad ymhellach, ac yn dywedyd, Pa ryfedd fod anwybodaeth yn gorchuddio ein doethion, a'r sagddu y bobl? Nid ydynt yn chwilio am wirionedd a doethineb yn y dull y gallant ddysgwyl ei gyrhaedd, nac yn y dull ymha un y rhaid ei gyrhaedd, os cyrhaeddir ef hefyd. "Bydded i ronynau gael eu cysylltu gan y ddeddf gyfunol a fynir; bydded iddynt deithio ar ddamwain drwy yr èangder, neu bydded iddynt gael eu harwain gan ryw ddealldwriaeth mawr; eto y mae y gofyniad yn aros, *Pa beth ydwyf fi?*" Nid ydynt yn rhoddi un cyn-northwy i ateb y gofyniad hwn. Ond y mae yn rhaid ei ateb mewn rhyw ffordd neu gilydd. Unrhyw saer neu grydd ag a all fy rhoddi ar y llwybr i gael ateb i'r gofyniad hwn, a fyddai yn gymwynaswr i mi." Hyd yn awr, yr oedd yr holl athronwyr wedi bod yn treulio ac yn ymdreulio mewn ymchwiliadau i natur ac achosion cyntaf pethau. Yn lle dechreu gyda'r ymofynydd (*subject*), yr oeddynt yn cychwyn gyda'r gwrthddrych (*object*). Eithr y mae Socrates yn troi ei feddwl arno ei hunan i ddechreu, ac felly yn troi ffrwd athroniaeth oddiwrth y grëadigaeth allanol at y grëadigaeth feddyliol; a daeth athroniaeth, drwy hyny, fel y sylwa Cousin, yn "athroniaeth foesol, gymdeithasol, a dynol. Nid ydyw hyn yn golygu mai dyn yw ei hunig wrthddrych; ymhell oddiwrth hyny, y mae yn ymestyn, fel y rhaid iddi yn wastad, at y wybodaeth o bethau yn gyffredinol; ond y mae yn gwneuthur hyny drwy gychwyn oddiwrth bwynt sefydlog, sef y wybodaeth am y natur ddynol. Socrates oedd y dyn a agorodd y cyfnod newydd hwn, ac a gynrychiolodd ei nodwedd yn ei berson ei hun. Socrates, fel y dywedwyd, a wnaeth i athroniaeth ddisgyn o'r nesoedd i'r ddaear, yn yr ystyr ag y cipiodd hi oddiwrth athrawiaethau anianyddol, a seryddol, a materyddol, ac amgyffredyddol yr ysgolion Ionaid ac Italaidd, gan ei dwyn yn ol at efridiaeth y meddwl dynol, nid fel terfyn, ond fel pwynt cychwynol pob athroniaeth." Ni ffrifodd unrhyw ysgol neillduol, ac ni threuliodd ei amser i ddadlu dros athrawiaethau neillduol. Dywedyd wrth y dysgybl a wnai, "Dyma'r ffordd, rhodia ynddi." Y mae yn wir i'w

ddoniau fel ymddyddanwr swyno lliaws mawr o ieuencyd i wrandaw arno, ac i'w syniadau coeth ar bethau hydreddio eu meddyliau i fesur tra ehel-aeth; a dyna ei amcan ef wedi ei gyrrhaedd.

Y mae cryn ddadlu wedi bod ar, pa un a ddylid ystyried Socrates, o ran ei athrawiaeth, yn arddansoddwr; ac y mae yn ymddangos yn ddiammheuol, os talodd sylw i arddansodiaeth ei gynoeswyr a'i gydoeswyr, nad oedd hyn ond bychan o'i gymharu â'i sylw i Foeswydd. Y mae adran o waith Aristotle yn dywedyd fel y canlyn:—"Socrates a gadwodd ei sylw gyda rhinweddau moesol, ac efe yn gyntaf a chwiliodd am ddarnodion dan-soddawl y rhai hyn. O'i flaen, nid oedd Democritus wedi talu sylw ond i ran o Anianyddiaeth (*Physics*), nac yn darnodi ond y poeth a'r oer. Ond Socrates, gan edrych yn ddyfnach, a geisodd gael allan natur pethau, hyn yw, a geisodd yr hyn sydd yn hanfodi." Ymddengys oddiwrth yr ymadroddion olaf fod Socrates wedi troi ei sylw at bynciau athronyddol y Groegiaid; ond nid oes genym fawr o le i gasglu iddo dreulio llawer o'i amser i'w cyhoeddi a'u dysgu. Nid oeddynt yn gyfundraeth iddo ef. Ei ddull ef i gael allan wirionedd oedd troi oddifewn at y syniadau hynny ag a alwyd gan Reid yn "synwyr cyffredin"—sef egwyddorion neu syniadau cyffredin y meddwl dynol ymhob man ac ymhob sefyllfa. Nis gellir golygu iddo wneyd hyn gyda'r un medrusrwydd a manyldeb ag y gwnaed ef gan Reid yn Ysgotland. Ond yr oedd wedi ei wneyd yn ddigon eglur i wrthsefyll holl athroniaeth yr Ymresymwyr. Eu hathroniaeth hwy oedd hyn:—Gan mai dyn ydyw y safon wrth ba un y gallwn farnu gwirionedd, a bod dyn yn dra gwahanol dan wahanol amgylchiadau, y mae yn canlyn fod gwirionedd yn cyfnewid hefyd—yr hyn sydd yr un peth a dywedyd fod gwirionedd yn ymddibynu ar ddyn; a phe na buasai dyn, ni buasai gwirionedd. Yn awr, neddai Socrates, y mae hyna yn dra arwynebol. Y mae yn wir mai dyn ydyw safon gwirionedd pethau mewn un ystyr, ac os treiddiwch yn ddwfn i'w gyfansoddiad ef, chwi a gewch fod o dan yr holl ymddangosiadau cyfnewidiol ryw wirioneddau sefydlog, y rhai sydd yn aros yr un; ac y mae y gwirioneddau hyn yr un yn mhawb. "Y mae dynion yn gwahaniaethu, ond y mae dynion yn cyttuno: y maent yn gwahaniaethu ar yr hyn sydd gyfnewidiol; y maent yn cyttuno ar yr hyn sydd yn dra-gywyddol. Gwahaniaeth ydyw tiriogaeth tyb; cyttundeb ydyw tiriogaeth gwirionedd: bydded i ni ymdrechu treiddio i'r diriogaeth hono." Fe allai mai at hyn y cyfeiria Socrates dan y gair *Daemon*, er fod beirniaid yn methu a chydweled mewn perthynas i ystyr y gair yn ei athroniaeth. Rhai a dybiant ei fod yn golygu y gydwybod wrth y gair; ond y mae yn ymddangos i ni, yn hytrach, ei fod yn golygu yr enaid yn ffd o ansawdd dwyfol, ac yn perthyn i'r duwiau; ac o ganlyniad ei fod yn golygu fod pa beth bynag yn ei feddwl a ymddangosai yn anghenrheidiol a thragywyddol, yn perthynu i'r duwiau, a galwai hwy yn *Daemon*. Yr oedd y *Daemon* gydag ef ar bob amser ac ymhob lle, yn ei ddysgu mewn gwahanol bethau.

Dywedir yn gyffredin fod Socrates yn oleu iawn ar y pwnc mawr o anfarwoldeb yr enaid. Ond y mae yn anhawdd dywedyd gyda pha eglurder y deallai efe y pwnc hwn, yn gystal a bodolaeth Duw. Yr oedd yn gwneuthur yr enaid yn rhywbeth agos iawn i Dduw, oblegid ei ddealldwriaeth; ac ar y tir hwn yr oedd yn ei olygu yn anfarwol. Yr oedd rhyw arddunedd ofnadwy yn yr ymadrodd hwnw a ddywedodd ychydig cyn cysgu y cwsg olaf dan ddylanwad y gwenwyn a'i lladdodd, ac y mae yn cynnwys

cymysgedd o ffydd ac amhheuaeth:—"Y mae yn awr yn bryd i ni ymad-ael, myfi i farw, chwithau i fyw; ond pa un yw y dynghed oreu sydd yn anadnabyddus i bawb ond y duwiau."

"Y mae dau beth," medd Aristotle, "y rhai y gellir yn gyfiawn dybied mai Socrates yw eu hawdwr, sef *Ymresymu Cyfisol (induction)*, a *Darnodiadau Dansoddawl (abstract definitions)*." Gellid tybied, ar un olwg, oddiwrth y dyfyniad hwn, fod Aristotle yn cyfiwyno i Socrates y clod a berthyn yn gyfiawn i'n cydwladwr mawr, Arglwydd Bacon. Ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt; canys tra y mae cyfosiad y Groegwr yn seiliedig ar gyfatebiant pethau i'w gilydd, y mae cyfosiad y Sais yn cael ei ddwyn ymlaen drwy ddilyn y ffeithiau eu hunain. Wele ddull cyfisol Socrates yn cael ei arfer gan Aristippus, y Cyreniad, i gyfiawnhâu ei waith yn byw gyda Lais. Yr Aristippus hwn ydoedd un o ddygybllion Socrates. "A ydych chiwi yn tybied, Diogenes, fod rhywbeth yn chwithig mewn preswyllo tŷ ag y bu eraill yn preswyllo ynddo o'ch blaen? Nac ydwyf. Neu forio mewn llong ymha un y moricodd lliaws o ddynion o'ch blaen? Nac ydwyf. Yn ol yr un dull o ymresymu, ynte, nid oes dim yn chwithig mewn byw gyda gwraig gyda pha un y bu llawer o ddynion yn byw o'ch blaen." Ac wrth y darnodiadau dansoddawl, y mae yn debyg, y golygai Socrates, rhoddi eglurhâd rhesymol a dealladwy, mewn geiriau eglur, o'r hyn ydyw y pethau yr ymwneir â hwy. "Efe a gredai fod Rheswm yn llawn o wirionedd, ac nad oedd arno ond anghen un i'w dynu allan ger bron y byd. Y cyfryw un oedd efe ei hun; a'i brif offerynau oedd darnodiadau. Drwy ddarnodiad, efe a alluogai y meddyliwr i wahaniaethu y meddylddrych neill-duol y chwynychai ei hysbysu, oddiwrth y myrdd o feddylddrychau eraill ag oedd yn ei gymylu. Drwy ddarnodiad efe a alluogai ddyn i fyfyrto ar hanfod (*essence*) peth, oblegid nad oedd wedi cymeryd dim i'r darnodiad ar nad oedd yn hanfodol" (Lewes). Yr oedd yr ymresymwyr ag oeddynt yn arwain y meddwl Groegaidd yn Athen y pryd hyn, wedi dysgu i'w dysgybllion fod geiriau yn bethau anorchfygol o nerthol, ond cael allan y ffordd i'w defnyddio yn fedrus. Drwy eiriau fe ellid arwain y werin fel y mynid, a geiriau oedd y prif allu i ddyrchafu dynion yn y wladwriaeth. Ond, ebe Socrates, y mae yn ddiau y gall geiriau fy nghynorthwyo i fy adnabod fy hun; a thrwy eiriau gallaf wahaniaethu pethau oddiwrth eu gilydd. Ac fe wél y darllenydd, oddiwrth y sylwadau ychydig yn ol ar y gŵr hwn, mai wrth ofyn am ddarnodiadau yr oedd yn cael y llaw drechaf ar yr ymresymwyr.

Y mae yn ymddangos i Socrates ymwrthod braidd yn hollol âg unrhyw ymchwiliadau i anianyddiaeth, yr hyn qedd prif nodwedd athroniaeth cyn ei amser ef. Ei reswm am hyn a welir yn yr ateb canlynol o'i eiddo i Aristophanes, yr hwn a'i beiai am beidio troi ei sylw at bethau allanol natur:—"Nid oes genyf amser at y cyfryw bethau, a dywedaf i chiwi y rheswm paham: nid ydwyf eto yn alluog, yn ol yr argraff ar deml Delphi, i—*Adnabod fy hun*; ac y mae yn ymddangos i mi yn beth gwrthun iawn i mi, tra yn anwybodus am danaf fy hun, fyned i ymholi ar bethau na pherthynant i mi." Fe allai na ddylid ystyried y froddeg yna yn ddim mwy na dynodiad o dueddiad meddyliol yr athronydd; canys y mae genym bob lle i gredu ei fod wedi gwneuthur ymchwiliad trwyadi i ddamcaniaethau anianyddol yr athronwyr a'i rhagflaenasent.

"Y mae y gwasanaeth a wnaeth Socrates i athroniaeth yn ddeublyg—

yn negyddol ac yn gadarnhäol. Yn *negyddol*, yn gymaint ag iddo ysgöi pob dadleuon ofer; gwrthwynebodd ymresymiaidau dychymygl ar dir sylweddol; ac yr oedd yn meddu y ddoethineb i gydnabod ei anwybodaeth pan yr oedd hyny yn anghenrheidiol; ond heb gymeryd arno benderfynu yn hollol pa beth sydd yn alluog o gael ei wybod yn gywir, na pha beth sydd heb fod. Yn *gadarnhäol*, yn gymaint ag iddo ymchwilio, gyda medrusrwydd mawr, y tir sydd yn perthynu yn uniongyrchol i'n deall, ac o ba un y mae dyn yn ganolbwynt; heb wneuthur unrhyw ymchwiliad dwfndreiddiol, pa fodd bynag, i'r amrywiol feddylddrychau a thueddiadau ag sydd yn effeithio ar ymarferiad. Efe oedd y cyntaf i nodi fod ewyllsrydd a natur o dan lywodraeth deddfau penodol; cyfeiriodd at ffynnonellau priodol pob gwybodaeth; ac yn olaf, gosododd ger bron destumau newydd i ymchwiliadau athronwyr." Yr oedd efe wedi cael y byd yn ymbalfalu mewn tywyllwch am wirionedd, ac ar ol methu ei gael, wedi dyfod i haeru, mewn effaith, nad oedd yn bod. Efe a dynodd athroniaeth megys o'r gors leidfog yr aethai iddi wrth chwilio am y dechreuad o bethau, ac a'i gosododd ar dir diogel i ddechreu ei hymchwiliad o newydd. "Adnabydd dy hun," meddai; a chiliodd oddiar y maes.

Gan mai ei brif amcan oedd dysgu dynion *pa fodd* i feddwl, yn hytrach na *pha beth* i feddwl, nid rhyfedd fydd cytarfod â gwahanol farnau ymhlith ei ddysgyblion, y rhai a ddosberthir yn wahanol ysgolion. Y rhai a gysylltir o ran trefn amser â Socrates ydyw yr ysgol Cyrenaidd; yr ysgol Cynigaidd; yr ysgol Megaraidd, o ba un hefyd y deilliodd ysgol Eli ac ysgol Eretria; ac yn olaf, yr ysgol Blatonaidd. Dechreuwn gyda, yn

1af, Yr Ysgol Cyrenaidd.

Gelwir hi felly, y mae yn debygol, am fod ei sylfaenydd, ARISTIPPUS, yn enedigol o Cyrene yn Affrica. Blodeuai oddeutu 366, neu 380 o flynyddau cyn Crist. Daethai i Groeg i'r campau Olympaidd; a chan ei fod o haniad uchel, ac wedi clywed llawer am ymddyddanion yr Atheniaid clodfawr, aeth ato i ymofyn dysgeidiaeth. Yr oedd yn ddyn wedi llwyr ymroddi i hunanfoddineb; a dywedir fod ei londer ymron yn ddiderfyn. O ganlyniad, yr oedd yn cael yn ei fynwes ei hun ryw orawydd parhäus am bleser a boddineb, a chan hyny, dyna, yn ol ei farn ef, y daioni penaf i ddyn. Barnai mai ei ddyledsrydd oedd ysgöi annedwyddwch, ac ymgyrhaedd am ddedwyddwch; ond fod hyny yn fwy cyrhaeddadwy i'r dyn doeth a rhinweddol (o'r fath ag oedd yn ei feddwl ef). Ond os gofynid iddo beth oedd dedwyddwch, efe a atebai mai boddio y duedd neu y chwant fyddo yn bresennol yn y meddwl. Cofier hefyd mai rhyw dueddiadau corfforol oedd y rhai hyn. Ychydig o ysbryd yr athraw a geir yma, er fod y dull athronyddol yn cael ei ddilyn. Y mae Aristotle yn ei restru ymhlith yr Ymresymwyr (*Sophists*) o ran ei ddaliadau ar sicrwydd gwybodaeth. Ond tra y myntumiai Aristippus nas gallem ymddibynu ar ein synwyrâu gyda golwg ar wrthddrychau allanol, canys nid yw y synwyrâu yn cyfiwyo gwybodaeth gyflawn am y gwrthddrych ynddo ei hun; eto ni a allwn ymddibynu, meddai, ar *deimladau* ein synwyrâu, canys y mae y rhai hyn yn sicr o fod yr hyn a ymddangosant; ac yn awr yr wyf yn cael fy mod, ar ol profi teimlad pleserus, yn dymuno cael teimlad cyffelyb drachefn a thrachefn. Pleser, gan hyny, yw dyben mawr bywyd; a phleser

yw y gwreiddyn neu y brif annogaeth i bob gweithred. Gan hyny, y mae yn debygol mai dyna wreiddyn yr athrawiaeth hono mewn Moeswydd ag sydd yn dysgu mai y "prif ddedwyddwch" yw sylfaen moesokdeb gweithredoedd. Ba i'r gŵr hwn amryw ddysgybllion, y rhai a ddilynasant yr athrawiaeth ymhellach nag ef; ond y mae yr ysgol hon, ymhlen ennyd, yn ymdoddi i'r ysgol Epicuriaidd.

2il, Yr Ysgol Cynigaidd.

Ystyr y gair Cynig ydyw "ciaidd," neu cyffelyb i gi. Cynnelid yr ysgol yn Cynesarges, sef yn "nheml y ci gwyn." Ei phrif ddyinion oedd- ynt ANTISTHENES a DIOGENES; ac fel yr oedd eu henw, felly yr oedd ynt hwythau yn cael eu nodweddu gan ryw geidd-dra atgas. Antisthenes a fodeuai oddeutu 380 C.C. Yr oedd wedi ei ddwyn i fyny wrth draed yr areithiwr hyawdl Gorgias, a bu ar ol hyny yn derbyn gwersi oddiwrth Socrates. Os oedd Aristippus yn gosod germod o bwys ar hunanfodddad presennol, yr oedd Antisthenes wedi myned i'r eithafion cyferbyniol. Rhinwedd, meddai y blaenaf, ydyw cyrhaedd y pleser uwchaf; rhinwedd, meddai yr olaf, ydyw hunanymwadu i'r eithafion mwyaf. Yr oedd Socrates wedi dywedyd mai mewn cysylltiad â doethineb yr oedd gwir bleser i'w gael; a chan hyny, meddai Aristippus, dyna fy athraw yn cydnabod pwys- fawrogrwydd pleser; a'r holl wahaniaeth sydd rhyngwyf ag ef ydyw ein bod yn gwahaniaethu ynghylch y llwybr gorsu i'w gyrhaedd. Gallai Antisthenes ddyfod ymlaen a dywedyd,—Ond y mae holl hanes bywyd ein hathraw yn dangos i ni tu hwnt i ammheuaeth nad hunan-fodddad oedd amcan ei fywyd; ac yr oedd, yn hytrach, yn cosbi ei hun yn y peth hwn. A dyna addysgiadau ac esiamplau yr athronydd yn cael eu benthycu i brofi dau beth hollol wrthwynebol. Yr oedd Antisthenes mor wrthwyn- ebol i olygiadau y Cyreniaid, fel y dywedai mai gwell ganddo fyddai bod yn wallgof nag yn drachwantus; a phan ddywedwyd wrtho ei fod yn cael ei ganmawl gan lawer, efe a ddywedodd, "A ydyf wedi gwneuthur rhyw- beth allan o le, ynte, fy mod yn cael fy nghanmawl?" Y mae yn deiau i'r gŵr hwn gosbi ei gorff yn fawr, a dyoddef yn drwm o herwydd ei dyb- iau ffol; ond barnai y gallai wrth hyny gyrhaedd rywbryd i'r perffeithrwydd hwnw o rinwedd ag oedd yn nodweddu y Duwdod ei hun. A chan ei fod yn golygu mai rhinwedd oedd prif degwch creadigaeth, gellir dywedyd iddo braidd ymwrthod â phob peth arall. Nid oedd yn ymofyn ynghylch pa un a ellid cyrhaedd gwybodaeth am bethau allanol y bydysawd ai peidio, a chredai "fod pob tybiau yn gyffelyb, ac nad oes un dyn a all wrth- ddadliu tyb un arall. Credai hefyd mewn un Bôd Dwysfeli, yr hwn oedd uwchlaw y rhai a addolidd gan y trigolion." Y prif un ymhlith ei ddys- gybllion oedd Diogenes, yr hwn, meddir, a dreuliodd ei oes mewn twb, ac a ddiystroedd yr anrhydedd hyd yn nod o siarad âg Alexander Fawr; ac am ba un yr adroddir lliaws mawr o chwedlau tra digrifol a dyddorol, yn ar- ddangos hunanfodddineb Pharisaeidd yr hen wr er ei holl hunanymwadiad ym- ddangosiadol. Yr oedd amryw eraill ymhlith dysgybllion Antisthenes; ond ni wnaethant ond dilyn camrau eu hathraw, hyd oni unwyd yr athroniaeth gydag athroniaeth Euclid o Megara, fel ag i gyfansoddi Stoicaeth. Y mae rhyw symledd rhyfeddol yn nodweddu yr athroniaeth Cynigaidd; ac ar ryw olwg, y mae yn cael ei seilio ar "synwyr cyffredin" dynolryw. Yn

lle myned i ddadlu yn hir ar unrhyw beth, a gwastraffu geiriau lawer i eglurhâu pynciau, ac i dwyllu cynghor ág ymadroddion heb wybodaeth, y bobl hyn a apeliant at ffeithiau yn ebrwydd. Dywedent, mewn ymddygiad, "*Facts are stubborn things.*" Yr oedd Zeno wedi dywedyd nad oedd y fath beth a symudiad (*motion*) yn bod mewn gwirionedd. Aeth Diogenes ynghyd a'i wrthbrofi; ond nid drwy draethu yn ddwfn a dysgedig, a chrugo darnodiadau tywyllion ar eu gilydd, ond drwy gyfodi ar ei draed, a rhodio! Dyna y ffaith, meddai Diogenes. Nid ydym yn tybied fod y Cynigiad wedi deall yn gywir beth oedd ymresymiad Zeno, ac nis gellir caniatâu fod ei ateb yn foddhäol. Dengys, er hyny, y llwybr ymha un y dysgai, ac y chwiliai am, wirionedd. Y mae yn ymddangos fod cyfansoddiad a thueddiadau corfforol y dynion hyn, yn ogystal a'r Cyreniaid hefyd, wedi dylanwadu yn fawr ar eu hathroniaeth.

3ydd, Yr Ysgol Megaraidd.

Gelwir hi felly am mai un EUCLID, brodor o Megara, oedd ei sylfaenydd. Blodeuai oddeutu 400 C.C. Nid yr un gŵr ydyw hwn ag "Euclid" ein hathrofäau, a dychryn lliaws o efrydwy'r ieuainc a digalon. Dywedir ei fod wedi efrynu athroniaeth yr Eleatiaid cyn dyfod yn ddsygybl i Socrates; ac y mae ei athroniaeth yn fath o gyfuniad o athroniaeth yr Eleatiaid ac athroniaeth Socrates. "Pe buasai Euclides wedi byw ddeng mlynedd ar hugain yn foreuach, buasai yn Eleatid, neu ynte yn un o'r Ymresymwyr." Dywedai, gyda'r Eleatiaid, fod un *Böd maur*; a chyda Socrates cyfeiriai at ei gymeriad moesol, a dywedai mai *daioni* oedd hwnw. Yn awr, yn ol yr athroniaeth hon, yr un ystyr sydd i'r geiriau *ontology* a *deontology*—sef yr hyn *sydd*, a'r hyn a *ddylai fod*; a chan mai *daioni* yw prif nodwedd y Böd goruchel, a chan nad ellir golygu fod dim yn bodoli yn wirioneddol ond y Böd hwnw, y mae yn canlyn nad oes dim yn bodoli yn wirioneddol ond *daioni*, neu *Y Da*, ac nad yw pob peth ag sydd yn wrthwynebol iddo yn meddu ond bodolaeth ymddangosiadol, ac nid gwirioneddol. Y blaid hon oeddynt ddadleuwyr ymhob ystyr o'r gair, ac ymdrechion mawrion a wnawd ganddynt i wrthbrofi tybiau dynion, y rhai a ddysgent mai y pethau hyny a gyflwynid i'r meddwl gan y synwyrâu oedd y rhai mwyaf gwirioneddol a sicr. Dilynwyd y llwybr hwn ymhell gan rai o'r ysgol hon, yn enwedig Stilpo o Megara. O'r ysgol hon y deilliodd yr ysgolion Elianaidd ac Eretriaidd; ond gan nad oes dim neillduol ynddynt yn galw am draethu arnynt, awn heibio iddynt at haul mawr y byd athronyddol, sef

PLATO.

"Gellir dywedyd," medd Lewes, "fod Plato ac Aristotle yn cynnwys holl athroniaeth Groeg; pwy bynag sydd yn gydnabyddus â hwy, a wŷr yr oll oedd gan Groeg i'w ddsygu." "Y mae pawb," ebe Coleridge, "yn cael eu geni naill ai yn Aristoteliad neu yn Blatoniad." Diogenes Laertius a ddywed fod Socrates ar un noswaith wedi breuddwydio breuddwyd lled ddyeithr. Tybiai fod alarchen, heb adein, ar ei glun, yr hon mewn ychydig fynyddau a gafodd adenydd, ac a ehedodd ymaith, dan wneuthur seiniau tra soniarus a hyfryd. A'r ail fore, wele ddyn ieuanc yn dyfod ato, yr hwn, meddih, oedd o du ei fam yn perthyn i'r deddfwr mawr Solon. A phan ganfyddodd Socrates y llanc, ei freuddwyd a saethodd yn ebrwydd i'w feddwl, a gwelodd ddefnyddiau ei gyflawniad. Enw y llanc hwn oedd Plato.

Ganwyd Plato yn Athen, tua'r fl. 430 neu 429 cyn Crist. Dywedir ei fod wedi efrynu o dan un Ariston, yr hwn oedd yn godymwr nodedig; a dywedir i Plato unwaith wisgo y llawryf yn y campau Isthmiaidd. Ond yn ei gysylltiad â Socrates—wrth draed yr hwn y parhâodd ddeng mlynedd—y nae a fynom ni ág ef. Bu gyda'i athraw hyd ei farwolaeth, ac iddo ef yr ydym yn ddyledus am rai o brif esboniadau Socrates ar ei athrawiaethau, yr hyn a wnaeth, y mae yn debyg, oblegid ei fod yn rhagweled mai peth hawdd iawn i'w gyd-ddysgyblion oedd troi athrawiaethau yr "hen ŵr" o'u hystyr briodol, fel y mae yn eglur y gwnaeth Aristippus ac Antisthenes. Yr oedd sobrwydd a chymedroldeb Socrates wedi cael ei ddilyn gan yr olaf i eithafion gwrthun; ac yr oedd ei feddylddrych am gysylltiad dedwyddwch a rhinwedd wedi arwain y blaenaf i fyw yn dra rhydd, os nad anfoesol. O ganlyniad, ebe Plato, y mae anghenrheidrwydd yn galw am i weithion ac ymddyddanion fy athraw gael eu croniclo, fel na byddo pawb yn gallu eu darnio a'u gŵyrdroi fel y mynont. Y mae cryn lawer c'ddadlu wedi bod ynghylch awduriaeth amryw o'r gweithion a briodolir i Plato; ac y mae yn cael ei gydnabod yn lled gyffredinol fod yr epistolau sydd yn myned dan ei enw yn weithion ffugiol. Ar ol marwolaeth Socrates, aeth ef a'r dysgyblion eraill i Megara, ac arosasant yno dros dymmor gydag Euclides, rhag ofn cynddeiriogrwydd yr Atheniaid oedd wedi marwolaethu eu hathraw. Aeth Plato oddiyno i Cyrene, ac oddiyno i'r Aipht, gan gynyddu ei ystôr o wybodaeth yn barhâus. Ond tra yr oedd efe ymaith, yr oedd ieuencyd meddylgar Groeg yn cyfeirio eu gwynebau tuag Athen i chwilio am Plato, ac i erfyn am ganiatâd i eistedd wrth ei draed i dderbyn ei ddsgeidiaeth. "O'r diwedd dychwelodd, ac ysgolorion awyddus a dŷasant o'i amgylch. Gyda meddwl wedi ei gyfoethogi yn ddirfawr drwy deithiau pellenig, ac astudiaeth barhâus, efe a ddechreuodd efelychu ei hoffus feistr, ac a ymroddodd i gyfranu addysg. Fel Socrates, efe a roddai ei addysg yn rhad. Yn nghanol llwyni godidog Hecademus y sefydlodd ei Athrofa."

Ond pa beth oedd ei addysg? Y mae rhai yn barnu ei fod wedi dewis rhanau neillduol o ddaliadau pob athronydd a fu o'i flaen, ac wedi dilyn dull annibynol Socrates o'u chwilio, ac yn y diwedd wedi cyfansoddi cyfundraeth ei hun. Cousin a ddywed fod ei athrawiaeth ar ddrychfeddyliau wedi ei chymeryd yn hollol oddiwrth y Pythagoriaid, a dengys hanesyddiaeth ei fod mewn gohebiaeth gyda Phythagoriaid Magna Græcia. Ac yn wir, hawdd yw dychymygu fod dyn o'r fath feddwl aruthrol yn sefyll megys ar ysgwyddau pawb a fu o'i flaen, ac yn dewis pob peth a ymddangosai yn deilwng, ac â'i alluoedd cryfion ei hun yn eu ffurfio yn un cyfanwaith prydferth â grymus. Ond efe oedd perchen ei athroniaeth, ar ol y cyfan. Athronydd fuasai ef, pe na buasai Pythagoras na Socrates wedi ei ragflaenu. Y mae yn ymddangos fod y Ffrencwr dysgedig, M. Cousin, yn barnu mai Dewisyddiaeth oedd cyfundraeth Plato; ond nid all y golygiad yna fod yn gywir, canys y mae yn fwy tebyg mai ei ddyben yn dyfod â gwahanol gyfundraethau gogyfer â'u gilydd oedd, fel y gallai gyfranu addysg yn well, a dangos lle yr oedd gwirionedd, drwy ddangos lle nad oedd. Golygiad annheilwng o Plato yw tybied fod ei athroniaeth fel dwfr, yn gyfuniad o ddwy elfen, ac heb feddu dim ond y ddwy elfen yn ei gyfansoddiad; canys yr oedd yno elfen arall ag oedd yn treiddio yn annhraethol ddyfnach na'r rhai a feirniadid ganddo. "Efe a ychwanegodd ac a ddullweddodd olygiadau rhai eraill," medd Lewes, "ond ni ddygodd i fewn

unrhyw elfen newydd i athroniaeth ei oes." Y mae yn ymddangos fod Mill hefyd yn eoleddu syniadau cyffelyb, er yn gorfod caniatáu fod Plato wedi ffurfio cyfundraeth o athrawiaethau yn ei feddwl ei hun; ond nid oedd newydd-deb ynddynt. Diammaheol ydyw fod llawer o wir yn huna; ond y mae perygl iddo gamarwain y darlennydd anghyfarwydd i feddwl nad oedd y meddyliwr cadarnaf a droediodd y ddaear yn ddarn angen nag efelychwr gwasaidd o'r rhai a'i rhagfaenasant. Y mae yn wir fod ei ddall o chwilio am wirionedd yn Socrataidd, a lliaws o'i ddaliadau yn fenthyciol; ond eto y mae ei athroniaeth yn oynnwysa rhywbeth—rhyw enaid—nad oedd yn holl athroniaeth ei hynafiaid.

Yr ydym eisoes wedi dywedyd i Socrates greu cyfaod newydd yn hanes athroniaeth. Dywedodd wrth ddynion am droi iddynt eu hunain i chwilio am wirionedd; a chyflwynodd iddynt ddau offeryn i'w cynorthwyo yn yr ymchwiliad,—laf, Darnodiad; 2il, Cyfosiad; ond nid oedd efe yn eu defnyddio fawr tu hwnt i derfynau Moeawydd. Ond wela Plato yn cyfodi, ac yn cymeryd y ddau arf, ac yn ychwanegu dau atynt; ac yna: yn troi ei sylw at athroniaeth yn gyffredinol—sef arddansoddiath. Y ddau arf ychwanegol hyn oedd, Dadansoddiad a Chydresiad—neu, i roddi i'r darlennydd y termau arbwyllegol, *Analysis* a *Synthesis*. Plato a dynai yn holl adeilad yn dalgiau mân i gael allan y gwirionedd oedd yn uno y cyffan; ac oddiwrth wirioneddau neu hanfodion cyffredinol yr oedd yn gallu adeiladu bydysawd. Y mae yn ofynol bod yn fanwl gyda gosod allan *ddull* y dyn mawr hwn, onidde cymylir ysplenydd-dra ei ogoniant dihafal fel athronydd; canys mewn cysylltiad â'i ddull y mae ei athrawiaethau yn cael eu deall oreu. Cofied y darlennydd mai wrth *ddull* Plato y golygix ei drefn o chwilio am wirionedd. A rhag ofn y dychon y darlennydd ymbalfalu mewn tywyllwch ar hyn, tybiwn mai gwell fyddai esbonio ychydig yma ar y gair dull (*method*), yr hwn, ar ol amser Socrates, sydd yn bwac pwysig mewn athroniaeth. Ac nis gwyddom y gallem gyfarfed â gwell eglurhâd na'r un canlynol, yr hwn a roddir yn y *Traethodydd* am 1846, mewn erthygl ragorol ar "Plato:"—"Tuedd rhai meddyliau ydyw esgyn oddiwrth bethau unigol at syniadau cyffredinol; ond tuedd eraill ydyw disgyn oddiwrth syniadau cyffredinol at bethau unigol. Y mae un yn dechreu gyda'r gwrthddrychau unigol sydd o gwmpas ei draed, ac yn diweddu gyda'r deddfau sydd yn llywodraethu cyrau pellaf y greadigaeth: y mae y llall yn dechreu gyda'r deddfau hyn sydd mor fyr a chryno eu geiriau ag ydyw deddfau yr 'ail lech,' ac yn eu hagog, eu hebbonio, a'u cymhwyso, nes dangos eu bod yn dyweyd pethau mor agos atom a phaham y mae y mwg yn esgyn oddiwrth y tân sydd o fy mlaen—paham y mae ffiam y ganwyll yn gron, yn geuol, ac yn bigfam—a phasut y medr y gwibedyn gerdded a'i draed i fyny. Mae y blaenaf yn darllen natur yn fanwl, ac yna yn ysgrifenu cynnwysiad y bennod a ddarllenodd mewn gosodiad cyffredinol; ond y mae yr olaf yn darllen y cynnwysiad i ddechreu, ac yna yn chwilio y bennod i edrych a ydyw y pethau hyn felly. *Induction* ydyw y blaenaf, *deduction* ydyw yr olaf—ac ymhob dyn sydd â digon o nerth meddwl ganddo i feddwl drosto ei hun, i osod ei sêl bersonol wrth ei feddyliau, ac i wneyd iddynt adlewyrchu ei ddell ei hun, ac nid dwyn delw ac argraff rhyw Cesar llênnyddol, gwelis tuedd at un o'r ddwy ochr, at un o'r ddau ddull yma o feddwl.

"Mae ambell feddwl o'r gradd uchaf all yn dangos yr un medrwrwydd.

wrth esgyn a disgyn, wrth ymresymu i fyny ag wrth ymresymu i lawr, megys Newton; mae eraill wedi dangos gallu bron anghredadwy i ymresymu allan benderfyniadau neillduol oddiwrth osodiadau cyffredinol—i ddangos fod celfyddydau cyfain yn ymlechu mewn un gosodiad, fel cnydau toreithiog mewn un gronyn, a fforestydd äang mewn un fesen—heb feddä ond ychydig o'r gallu cyferbyniol, y gallu uchaf a roes Duw i ddyd, y gallu sydd yn gwneyd darganfyddwr."

Yn awr, dull Plato oedd chwilio am wirioneddau neu feddylddrychau cyffredinol; a dadgylimu neu ddadansoddi pob peth, nes cael allan yr hyn oedd yn perthyn i bob un yn gyffredin. Ei enwad ef ei hun ar hyn oedd "chwilio am yr un ymhlith y lliaws," neu dreiddio i "ddingelwch hanfodiad." Y mae yn rhaid cydnabod fod rhywbeth Pythagoraidd yn y meddylddrych gwreiddiol am hyn; ond yn llaw Plato, y mae y cwbl yn dyfod yn Blatonaid. Yr ymddyddan canlynol o waith yr athronydd ei hun a arddengys ei ddull yn y modd egluraf:—

"A gawn ni fyned ymlaen yn ol ein dull arferol? Y dull hwnw, fel y gwyddoch, ydyw cynnwys o dan un meddylddrych cyffredinol y lliaws pethau ag sydd yn bodoli ar wahân oddiwrth eu glydd, ond sydd yn meddu yr un enw. A ydych yn deall?"

"Yn berffaith.

"Ni a gymerwn y peth a fynoch. Er enghraifft, y mae lliaws o welyau ac o fyrddau?"

"Bid siŵr.

"Ond onid ydyw y ddau fath hyn yn cael eu cynnwys, un o dan y meddylddrych am wely, a'r llall o dan y meddylddrych am fwrdd?"

"Yn ddiannheuo!

"Ac yr ydym yn dywedyd fod y saer yr hwn a wnaeth un o'r pethau hyn, yn gwneuthur y gwely neu y bwrdd yn ol y meddylddrych sydd ganddo am y naill a'r llall. Cawsyd nid yw efen yn gwneuthur y meddylddrych ei hunan. Onid ydyw hyn yn anmhosibl?"

"Gwir iawn, y mae hyn yn anmhosibl.

"Yn awr, pa enw a roddwn ar y gweithiwr yr hwn yr ydyw yn awr yn myned i'w enwi?"

"Pa weithiwr?"

"Hwnw ag sydd yn gwneuthur yr hyn ag y mae yr holl weithwyr eraill ar wahân yn wneuthur.

"Yr ydych yn siarad am ddyd rhyfeddol o fedrus!"

"Amynedd; chwi a'i rhyfeddwch yn fwy eto. Y mae y gweithiwr hwn yn meddu, nid yn unig y dalent i wneuthur holl weithoedd celfyddyd, ond hefyd holl weithoedd natur; planigion, anifeiliaid, a phob peth arall; mewn gair, efe ei hunan. Efe sydd yn gwneuthur y Nefoedd, y Ddaear, a'r Duwiau; a phobpeth yn y Nefoedd, y Ddaear, ac Uffern.

"Y fath ddoethineb annhraethol a chyffredinol sydd yn yr un a ddarlunir genych!"

"A ydych yn fy amnheu? Ond dywedwch i mi; a ydych yn tybied nad oes y fath weithiwr? neu, a ydych yn meddwl y gallai un wneuthur hyn oll mewn un ystyr, ond mewn ystyr arall nos gallai neb ei wneuthur? Ai nid allech chwi eich hunan lwyddo yn rhyw fodd?"

"Ymha fodd?"

"Nid ydyw yn anhawdd; gwneir hyn yn fynych, ac mewn byr amser. Cymerwch ddrych, a throwch ef o amgylch ar bob ochr: mewn eiliad chwi a fyddwch wedi gwneuthur yr haul, a'r ser, y ddaear, eich hunan, yr anifeiliaid a'r planigion, y celfyddydwaith, a phob peth a enwasom.

"Ië, y delweddau (*images*), yr ymddangosiadau, ond nid y pethau gwirioneddol.

"O'r goreu; yr ydych yn amgyffred fy meddwl. Y mae yr arlunydd yn weithiwr o'r dosbarth hwn, onid ydyw?"

"Bid siŵr.

"Ond yr wyf yn tybied dywedwch nad yw yr oll a wneir ganddo ond ymddangosiad-ol. Ac eto y mae yr arlunydd mewn rhyw ddull yn gwneuthur gwely. Onid yw?"

"Ydyw, y mae yn gwneuthur un ymddangosiadol. Ond beth am y saer? Oni chan-istasoch nad y gwely a wnaeth efe oedd y meddylddrych sydd yn cyfansoddi yr hyn ag yr ydym ni yn alw yn hanfod y gwely, ond gwely neillduol?"

"Dywedais felly, mae'n wir.

"Yn ganlynol, os nad yw yn gwneuthur yr hyn sydd mewn gwirionedd yn hanfodi, ai ni raid i ni ddywedyd nad yw yn gwneuthur dim sylweddol, ond yn unig rhywbeth tebyg i'r sylweddol, ond eto ymddangosiadol? A phe disgrifiai rhyw un waith y saer, neu unrhyw greffwr arall, fel yn berffaith sylweddol, byddai ei ddesgrifiad, yn ol pob tebyg, yn anghywir, oni fyddai?"

Dyna, ddarlleneydd, yr hyn ydyw "chwilio am yr un ymhlith y lliaws," a "threiddio dirgelwch hanfodiad." Yr egwyddor o hono ydyw hyn: y mae pob ymddangosiad neillduol yn sylfaenedig ar feddylddrych cyffredinol: y mae yn rhaid fod dyn yn bod cyn y gallasai dynion fod: nid *un* dyn, cofier, a olygir, ond yr "*idea*" o ddyn; canys nid yw dynion ond math o bersonoliad o'r meddylddrych. Felly y mae yn rhaid nad ydyw gwely, neu fwrdd, neu gareg, yn ddim ond ymddangosiad gweledig a theimladwy o'r "*idea*" cyffredinol am y cyfryw bethau. Nid ydyw y pethau hyn yn neillduol, megys dynion, ceryg, gwelyau, ond damweiniau o'r "*idea*" cyffredinol. Dywedai Plato fod sylwedd yn bodoli er tragywyddoldeb, ond fod Duw, pan ddaeth i'w drefnu o fod yn *chaos* i fod yn fyd, wedi trefnu peth o hono yn "ddelweddau dealldwriaethol," a'r gweddill yn fater.

Fe allai mai dyledswydd arnom cyn myned ymhellach ydyw gwneyd sylw o'r gair "*idea*," yr hwn a gyfieithir yn "ddelwedd," ac yn "feddylddrych." Nid yr un ystyr oedd i'r gair yn athroniaeth Plato, ag a roddir iddo yn awr, ac er amser Des Cartes. Yn athroniaeth Plato, ystyr y gair oedd, rhywbeth ag oedd yn y meddwl ei hun, yn annibynol hollol ar y synwrau; gair a "ddefnyddid gan Plato"—fel y sylwa Hamilton, *Edin. Rev.*, ciii, t. d. 182-3, mewn erthygl gampus ar Reid a Brown, lle y gellir cael hanes treigliad athronyddol y gair hwn o amser Plato hyd yn awr—"i ddy-nodi ffurfiau gwirioneddol y byd deallol, mewn gwrthgyferbyniad aruchel i ymddangosiadau byd y synwrau," neu y byd allanol. Y beirniad manyl-graff a thywysogaidd hwn a ymddengys i rai yn cyfeiliorni wrth ddywedyd na ddefnyddiwyd y gair hwn ond yn yr ystyr Blatonaidd o hono hyd amser Des Cartes; canys y mae yn cael ei arfer yn yr athroniaeth Ronyn-aid i osod allan y dull ymha un y mae dynion yn canfod pethau y byd allanol; eithr gan ein bod yn ffyddiog iawn yn holl feirniadaethau y cawr llênnyddol hwn, yr ydym yn ammheus pa un a ydym yn dirnad ei olygiad yn drwyadl. Modd bynag, y mae yn amlwg iawn pa beth a olygai Plato wrth y gair.

Y mae yn ddiammheul bod y darlleneydd yn cofio, bod yr athronwyr cyn Plato yn amrywio yn fawr o ran eu golygiadau ar "ddechreuad" neu wreiddyn pethau yn gyffredinol. Rhai a ddalient dros amrywiaeth neu liosogrwydd egwyddorion dechreuol; ond eraill a olrheinient y cyfan yn ol i ryw un egwyddor fawr. Credai Plato fod ymddangosiadau allanol yn cyflwyno i'r meddwl syniadau; ond credai hefyd fod yn y meddwl ryw syniadau gwreiddiol, heb ba rai nis gallai y synwrau gyrhaedd gwybod-aeth, ac o herwydd pa rai y mae gwybodaeth y synwrau yr hyn ydyw. Dyna yr undod mawr ag oedd yn nghyfundraeth Pythagoras. Pan y mae y synwyr yn canfod gwrthdrych neillduol, y mae yn ei ganfod am fod yn ei feddwl "ddelwedd" neu *idea* flaenorol am dano—mewn gair, y mae ffurfiau holl ymddangosiadau amrywiog y byd allanol yn bodoli yn wirion-

eddol yn y meddwl. Duw oedd y cyntaf i roddi yr "*idea*" am wely yn y meddwl; ac am hyny y mae y saer wedi gallu ffurfio gwely; ac felly pob peth arall. Yr oedd y Pythagoriaid wedi dywedyd nad oedd pethau ond adluniau (*copies*) o rifedi; ond dywedai Plato fod pethau yn "cyfranogi" o "*ideas*;" a dywed Aristotle mai yr un peth a olygir gan y ddwy blaid, ond bod Plato wedi newid yr enw. Ond pa mor bell yr oedd yr ymddangosiadau allanol yn cyfranogi o'r "*idea*," nid ydyw yr athronydd yn gallu dywedyd; ac ar faint y cyffelybwydd hwn y dibyna *sicrwydd ein gwymbodaeth*.

Dywed Syr W. Hamilton ei fod yn bwnc amheus pa un a ystyriai Plato y meddyldrychau hyn yn hanfodion annibynol ar y meddwl dwyfol —neu heb fod mewn perthynas â'r Duw mawr; ond mai mwy tebygol, ar y cyfan, ydyw ei fod yn eu hystyried yn perthyn iddo. Y mae Cousin yn dywedyd yn benderfynol iawn mai golygiad Plato oedd, bod y meddyldrychau hyn, pan nad oeddynt yn wrthddrychau dirnadaeth i'r rheswm dynol, yn "briodoleddau o'r rheswm dwyfol: yno y maent yn bodoli yn wirioneddol." Ac y mae yn ymddangos oddiwrth y dyfynnodiad a wnaethom eisoes o un o ymddyddanion yr athronydd ei hun, ei fod yn golygu fod Duw, ar y cyntaf, wedi creû "*cynlluniau*" (*types* neu *ideas*) o bob peth a welir; ond y mae yn ymddangos oddiwrth waith arall o'i eiddo, yr hwn a ystyrir yn uwchraddol i'r llall, ei fod yn golygu fod yr "*ideas*" yn bodoli mor wirioneddol er tragywyddoldeb ag yr oedd y Duwdod ei hun, a bod yr annelwig ddefnydd wedi ei lunio yn fydoedd ac yn bethau yn ol y cynlluniau tragywyddol hyn. Ond y mae y rhai hyn oll yn ymdoddi drachefn i'r rheswm dwyfol; canys megys ag y mae pob ymddangosiad allanol yn cael ei sylweddoli yn y meddyldrych neu yr "*idea*" yma neu arall, felly y mae pob un o'r "*ideas*" yn olrheiniadwy i ryw un "*idea*" mawr, yr hwn ydyw eu ffynnonell, "sef i'r *idea* o'r Bôd hanfodol a pherffaith, yn meddwl yr hwn y bodolant oll, ac yn nhragywyddoldeb yr hwn yn unig y gellir meddwl am danynt fel yn dragywyddol." Y maent, gan hyny, yn ddwyfol.

Yn awr, se wél y darlennydd fod y meddyldrychau hyn yn wahaniaethol oddiwrth yr enaid ei hun—yn *bethau* ag sydd yn dyfod i ymwybyddiaeth dyn, ond heb fod yn rhan na chyfran o'r dyn ei hun. Y dull ymha un y cyfrifai Plato am hyn oedd hwn. Credai, fel Pythagoras, fod yr enaid wedi hanfodi mewn sefyllfa bur a digysylltiad â chorff cyn ymddangos mewn cnawd; a'i fod, yn y sefyllfa berffaith hônno, wedi canfod y drefn ymha un y *gallai* pethau hanfodi. Ond fel y mae yn awr, y mae wedi syrthio o'i sefyllfa gyntefig, ac wedi niweidio ei olygon yn ddirfawr drwy ymgysylltu â phridd y ddaear. Tra yr oedd o'r blaen yn gallu gweled gwirionedd wyneb, heb ymresymu; yn awr, nid yw yn gallu ei ganfod ond megys trwy ddrych, ac mewn dammeg, a thrwy ddeilt; a rhaid iddo ymresymu yn hirfaith, ac olrhain lliaws o ymddangosiadau a chysylltiadau cyn y caiff afael yn yr egwyddor o'r cyfan. Yr oedd Plato unwaith yn esbonio yr athrawiaeth hon wrth Diogenes; a'r arabeddw'r ffraethlym a ddywedai, "Yr wyf yn gweled bwrdd, mae'n wir; ond ni welaf '*idea*' am fwrdd." A Plato a'i hatebai, "Hyny sydd am eich bod yn canfod gyda'ch llygaid, ac nid gyda'ch rheswm." Pe buasai rheswm Diogenes yn bodoli heb fod mewn cysylltiad â'i gorff, efe a ganfyddasai, yn ol Plato, yr "*idea*" am y gwrthddrych allanol; ond y mae y corff yn garchar iddo, ac nid ydyw yn dyfod yn ymwybodol o ddim ond a gyflwynir iddo drwy y peiriannau sydd yn

perthyn i'r carchar. Ond y mae gan y bôd urddasol sydd yn preswyllo yn y "daearol dŷ" hwn un gynneddf ryfeddol wedi ei gadael iddo, yr hon sydd yn ei gymnorthwyo i "dreiddio-dirgelwch hanfodiad" i fesur ehelaeth. Y gynneddf hono ydyw côf. Y mae y gwrthddrychau allanol sydd yn dyfod i'w sylw, ac yn cyffwrdd â'i synwyrâu, yn rhoi rhyw gynhyriad i ymadferthoedd ei enaid, ac y mae yn cael cipolwg megys ar gyfnod ei ieuentyd tu fewn i'r llên. Y mae "adgoſion mebyd" yn dwyn pethau *hen* mewn gwirionedd, i'w sylw fel pethau *newydd*; ac y mae yntau felly yn cael trem ar sylweddau mawrion pethau natur. I fenthyca cymhariaeth darawiadol Mr. Lewes, gellir dywedyd fod yr enaid, yn ol yr athronydd mawr hwn, yn y fuchedd hon yn gyffelyb i dlyn oedranus ag oedd wedi clywed rhyw areithiau gorenwog yn nyddiau ei ieuentyd; ac yn ei hen ddyddiau yn darllen yr araeth yn argraffedig. Nid ydyw y llyfr, mae'n wir, yn estyn bys, nac yn gallu treiddio â'i edrychiad; nid oes yno ysgogiadau areithyddol, nac areinedd yn gloewi y wyneb. Ond y mae geiriau yr araeth yn y llyfr yn galw i feddwl y dyn yr ysgogiadau, yr edrychiadau, y gwir areinedd oedd yn ymueddu ar wyneb-ryd yr areithiwr; ac y mae yn cofio am estyniad y hys, ymbelydriad y llygad, a swynion anorchfygol y llais, fel, mewn gair, y mae yr areithiwr yn fyw gerbron y darlennydd. Felly yr enaid. "Y mae wedi ymdaith yn y diriogaeth oruchel lle y seimia llais Gwirionedd yn eglur, lle y mae ei ymddangosiad yn ddilên a digwmwl. Ond y mae yn awr yn ymdaith yn nhiriogaeth gyfnewidiol afon lifeiriol bywyd, yn ddwysbigedig gan hiraeth nas gellir ei lethu am y nefoedd, ac heb gael ei esmwythâu gan ddim ond adgoſion o'i sefyllfa flaenorel, y rhai a ddefroir yn ei feddwl gan yr ymddangosiadau allanol hyn."

Dyna brif linellau athroniaeth Plato. Y mae yn cydnabod dau fath o wybodaeth, sef y wybodaeth o'r ymddangosiadau allanol, a'r wybodaeth o'r gwreiddyn o honynt. Ac fel y dywedasom eisoes, y mae yn dilyn yr ymddangosiadau allanol yn ol at eu cynlluniau; ac y mae yn dilyn y rhai hynny wed'yn i'r meddwl dwyfol. A chan hynny, y mae yn ymddangos i ni fod yr athronydd yn ystyried, fel y dywed Cousin, nad yw rheswm, neu enaid dyn, yn ddim ond adlewyrchiad o'r rheswm dwyfol, a bod yr "*ideas*" yn cael eu huno oll yn y meddwl dwyfol. O ganlyniad, y mae ein gwybodaeth yn ddilys, a gellir ymddibynu arni.

Mewn perthynas i grëadigaeth y byd, yr ydym eisoes wedi cyfeirio at ddaliadau Plato. Y mae Duw, yn ei gyfundraeth ef, yn Fôd gwirioneddol, yn llawn bywyd, dealldwriaeth, ac ysgogiad; ac wrth grëu dyn, a'r byd, "efe a aeth allan o hono ei hun, i gynnyrchu dyn a'r byd, yn unig drwy ryw dywalltiadau (*effusions*) o'i ddaioni." Nid ydyw Plato yn dywedyd fod mater yn ddeilliad o'r Duwdod, er y gellir dilyn ei athroniaeth cyn belled a hyna. Yr hyn a ddywed ydyw, fod Duw wedi llunio yr annelwig ddefnydd yn drefnus, a'i wneuthur yn fydysawd; ond y deddfau yn ol y rhai y trefnodd ef felly oeddynt ddeddfau hanfodol ei natur ef ei hun. Yr oedd mater yn bodoli o *anghenrheidrwydd*; ond gan fod Duw "yn rhydd oddiwrth genfigen, ac yn dymuno i bob peth ymdebygu iddo ef mor bell ag yr oedd yn bosibl, Efe, gan hynny, a berswadiodd Reidrwydd i ddyfod yn sefydlog, yn unol, ac i gymeryd ei lunio yn ol Prydferthwch. Ie, *perswadiodd* ydyw gair Plato; canys yr oedd dwy egwyddor dragywyddol, *dealldwriaeth* ac *anghenrheidrwydd*, ac o gymysgedd o'r ddwy hyn y gwnaethpwyd y byd; ond Dealldwriaeth a berswadiodd anghenrheidrwydd

i gymeryd ei drefnu yn ol Prydfectura." Ond gan nad oes dim yn brydferth-ond dealldwriaeth, ac "nad oes ddealldwriaeth heb enaid, oſe a raddodd enaid yn nghorff y byd, ac a wnaeth y byd yn anifel." Ac felly, yr oedd y byd yn dwyn tebygolrwydd i'r Crëawdwr.

Ond yn gymaint ag mai o'i ddaioni y mae Duw wedi creu y byd, neu wedi llunio mater yn y drefn bresennol; a chan mai oddiwrtho ef y mae enaid y bydyawd, a'r rheswm dynol, wedi deilliaw, o ba le y daeth *pechod* neu *ddrygioni*? Ai Daw a grëodd hyn? A pha fodd y gallai grëu peth gwrthwynebol i'w hanfod-ei hun? Ac os oedd drwg yn cyd-drigo gyda'r da yn Nuw, pa fodd y mae yn un ac yn berffaith? Ac os nad felly yr oedd, pa fodd y gallai yr hyn nad oedd mewn bod ddyfod i fod? canys *ex nihilo nihil fit*. Y modd yr atebai Plato hyn oll oedd, trwy hōni nad oedd bodolaeth *drwg* yn y byd i'w briodoli i'r Crëawdwr, ond mai deilliaw y mae oddiwrth y mater sydd yn cyfnewid, ac yn pallu utuddhâu i ddealldwriaeth. Ynddynt eu hunain, y mae yr "*ideas*" yn berffaith; ond y mae mater, neu ddefnydd, mor arystwyth, fel y mae yn anafuddhâu i'r cynulluniau yn fyrych. Ac os ydym am gael gwaredigaeth oddiwrth "gorff y farwolaeth hon," y drefn Blatonaidd o wneyd hyny ydyw diddyfnu ein meddyliau hyd y gallom oddiwrth fater a'i gyfnewidiadau, a dyfod i gymdeithasu â'r "*ideas*" perffaith eu hunain, ac esgyn o ris i ris oddiwrthynt hwy at eisteddle tragwyddol Doethineb ei hun, a chymdeithasu â gwirioneddau yn eu sefyllfa bur a dilwgr. Yn ol yr athrawiaeth yna, ynte, yn y byd materaidd y mae gwreiddyn drwg, tra y mae perffeithrwydd yn teyrnasu yn myd y *deall* neu y *Rheswm*; ac nid yw rhinwedd yn cael ei wahaniaethu oddiwrth ddealldwriaeth. A! drueni na buasai y dyn mawr yma wedi mwynhâu pelydrau yr Haul mawr "a ddygodd fywyd ac anlygredigaeth i oleuni drwy yr esengyl;" neu wedi clywed am y drefn ymha un y cyfiawnhêir dyn gyda Daw!

Y mae amryw bethau eraill ymblith gweithion y gŵr hwn ag a deilyngant sylw, y rhai sydd yn ymgyfodi yn naturiol o'i ddaliadau ar feddyl-ddrychau a'u gwreiddyn; ond nis gallwn hebgor gofod i'w gosod gerbron y darlennydd, ac nid ydynt ond canlyniadau ei athroniaeth. Gwelir yn ddiagramheuol fod athroniaeth wedi cael ei chyfoethogi gan feddyl-ddrychau Plato. Y mae ei ddull o erlyn gwirionedd yn un gorchestol iawa; ond yr oedd yn rhwym o syrthio i gamgymeriadau dirfawr wrth ddyrchafu ei olygon mor uchel—wrth ddwyn ei ddychymyg eryraidd i gynnorthwyo ei alluoced beirniadol Titanaid. Ymddengys i ni ei fod yn iawn yn ei ymchwiliad am y dirnadathau, neu yr *ideas*, cyffredinol hyny ag sydd yn gorwedd o dan holl ymddangosiadau allanol natur; ond anghofodd ei nerth pan yr aeth tu hwnt i derfynau meidroldeb i chwilio am eu gwreiddyn. "Tra y mae mewn pethau eraill yn athronydd yn chwilio am oleuni, a phan nas gallai ganfod ei lwybr, yn dangos pa le y dylasai fod, ac oddiwrth ba haul cuddiedig yr oedd i darddu; yma y mae yn dduwinydd uchelboniadol, yn hōni ei fod yn alluog i gyhoeddi yr hyn a raid gael ei ddadguddio, a thrwy hyny yn colli ei lwybr cywir i gael allan yr hyn a ellid ei ddarganfod." (*Encyc. Metrop.*)

Yr oedd ganddo liaws o ddysgybllion brwdfrydig, y rhai a ddalient yn gadarn at ei athroniaeth; eithr nid oes ond un o honynt wedi gadael ei argraff ar athroniaeth, ac, mewn ystyr, wedi creu cyfaed newydd ynddi. A'r dysgybl hwnw oedd

ARISTOTLE.

Gelwir y gŵr hwn weithiau yn "Stagiriad," am iddo gael ei eni yn Stagira, trefedigaeth yn Thrace. Bernir mai yn y fl. 384 C.C. y ganwyd ef. Enw ei dâd oedd Nichomachus, ac yr oedd wedi bod yn feddyg ac yn gyfaill i Amyntas, brenin Macedonia; ac yr oedd yn ddyn mor enwog yn ei gelfyddyd, fel y bernir fod tuedd y mab at anianyddiaeth naturiol yn disgyn iddo yn drefdadol. Modd bynag, fe gollodd Aristotle ei dâd yn fore a chyflwynwyd ef i ofal un Proxenus, yr hwn a fu ffyddlaw'n i'w addysgu yn holl ddoethineb y pryd hwnw. Ond Proxenus hefyd a fu farw, ac wele Aristotle ieuanc yn y fl. 368 C.C. yn dyfod yn ddysgybl i Plato, ac yn ymsefydlu yn Athen, o dan addysg yr hwn y parhâodd am ugain mlynedd. Yn y fl. 343, efe a aeth yn athraw i'r teyrn uchelgeisiol hwnw, Alexander Fawr, er mai Alexander fychan oedd y gŵr y pryd hwnw; a dywedir mai yma y cafodd y fath gymhorth i gwblháu ei waith campus ar Hanesiaeth Naturiol. Ymhen oddeutu un mlynedd ar ddeg wedi'yn, yr ydym yn cael ei fod wedi sefydlu ysgol athronyddol newydd yn rhodfeydd y Lycæum, a gelwid ei ddysgyblion yn Ddargrwydrwyr (*Peripatetics*), am mai dan gerdded y cyfrenid dysgeidiaeth yno.

Yr ydym eisoes wedi son am ddull o athronyddu; ac wedi gweled fod Socrates wedi arwain y meddwl at lwybr cywir i gael allan wirionedd, a'i fod wedi gwneyd defnydd gweddol o Gyfosiad a Darnodiad; ond wele Plato yn dyfod ar ei ol, ac yn ychwanegu atynt Dadansoddiad a Chydresiad, ac yn treiddio yn ddwfn i ddirgelion bodaeath, ac yn esgyn yn eryraidd i fyf mawr y gwirioneddau; eithr yr oedd Socrates yn ymgadw ymron yn hollol at Foeswydd, ac yr oedd Plato yn ymgadw yn gaeth i "chwilio am yr un ymhlith y lliaws"—neu, i chwilio am egwyddorion pethau—fel y gellir dywedyd ar dir tég fod Plato wedi aros gydag Arddansoddiath a Moeswydd. Y mae Plato yn chwalo holl wybodaeth y synwrau i allu treiddio ar ol yr egwyddor fawr hōno ag sydd yn ein cyfansoddiad, ond heb ddeilliaw o'r synwyr. "Ac ar ol cael allan yr elfen hon, y mae yn ei defnyddio fel cychwynfan a gorphwysle, mewn trefn i fyned heibio i'r byd gweledig; y mae meddylddrychau cyffredinol yn y meddwl yn ei arwain at feddylddrychau anghenrheidiol, a'r rhai hyn a'i harweiniant at Dduw, eu gwrthdrych priodol." Ac yr oedd hyn yn beth tra anghenrheidiol, canys yr oedd yr Ymresymwyr y sylwyd eisoes arnynt wedi gwadu pobpeth, mewn effaith. Pob peth allanol, meddent, sydd gyfnewidiol—y nefoedd a'r ddaear, y maent yn myned heibio, fel nad oes dim undod i'w weled mewn dim. "Mae'n wir," meddai Plato, os goddefol ynom ydyw gosod ymadroddion yn ei enau; "ond pa fodd y mae arsyllwyr *arwynebol* fel chwi yn dysgwyl cyfarfod ág undod? Edrychwch yn ddyfnach na'r wyneb, os mynwch weled egwyddor bywyd. Na fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn. Yr ydych wrth ymchwilio am undod yn y lle yr ydych, yn debyg i ddyn yn chwilio am drysorau yn y ddaear heb gloddio ac agor y tir. Y mae undod yn bod, ond cael y llygad priodol i'w ganfod." Gan hyny, os gallodd Plato ei gael allan, y mae wedi gwneyd gwasanaeth dirfawr i athroniaeth. "Canlyniad anghenrheidiol sefyllfa Plato ac o'r dasg oedd wedi ei hymddiried iddo, oedd ei fod bob amser yn ymchwilio am egwyddorion. Y ffeithiau mwyaf cynnefn a chyffredin a'i drysent; nid oedd dim ag yr oedd dynion yn ymddyddori ynddo islaw ei sylw; ond yr hyn yr oedd efe yn chwilio am dano yn barhâus oedd ystyr y pethau hyn,

a'r gwirionedd cynnwysedig ynddynt." Mewn gair, nid oedd Plato yn deall dim ond yn ngoleuni ei arddansoddiaeth—i lawr yn nhiriogaethau dwfn ei "ddirgelwch hanfodiad." Ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y dysgybl a'r athraw; a gellid meddwl mai ychydig o gydymdeimlad a allai fod rhyngddynt. Y mae yr athraw, fel y sylwa Cousin, yn ceisio ymgodi uwchlaw y byd, a'r dysgybl yn ceisio treiddio i'r byd. Y dysgybl a ganiatâ mai gwaith Duw yw y byd, ond y mae yn cau ei hun i fyny ynddo, gan ei efrydu yn ei holl ffurfiau a'i ymddangosiadau; tra y mae yr athraw yn ei ystyried islaw swydd athronydd i aros gyda'r pethau sydd yn amgylchu ei draed. Am y dysgybl dywed Mr. Maurice fel hyn, "Casglu pob ffeithiau dichonadwy, eu rhestru a'u dosbarthu, oedd ei gais uchaf, ac fe allai hefyd mai dyna ei swydd benodedig: nid oes neb yn cael ei demtio lai i dybied fod unrhyw ystyr ddwfn mewn ffeithiau, nac i ymgropian ar ei ol." Y mae yn eglur, o ganlyniad, fod y llwybr a ddilynwyd gan Plato ac Aristotle yn dra gwahanol, a bod y beirniad Ffrengig a enwasom uchod yn dra chywir wrth ddywedyd mai nodwedd Plato oedd bod yn "ddansoddol," a nodwedd Aristotle oedd "trefnu a dosbarthu." Yn awr, fe ganfyddir fod Aristotle yn sefyll mewn rhyw bellder dirfawr oddiwrth Socrates; ond y mae mawredd ac êangder amgyffredion Plato yn uno y ddau. Y mae Socrates yn aros gyda Moeswydd; y mae Plato yn uno Arddansoddiaeth gyda hi; y mae Aristotle yn cydnabod bod y fath beth a Moeswydd, ond mai cyfran fechan o athroniaeth oedd hono, o'i chymharu âg Arddansoddiaeth ac Anianyddiaeth. Ofer fuasai dysgwyl i Plato ddarganfod pethau mawrion yn y celfyddydau a'r gwyddiannau naturiol; ond y mae Aristotle yn sicr o wneyd hyn, canys y mae yn chwilio yn y lle iawn, ac yn twrio gyda'r offerynau priodol.

Y mae y cyfeiriad a roddodd Aristotle i athroniaeth yn un mor naturiol, ac mor debyg i'r llwybr a gyhoeddwyd gan Bacon, fel y mae rhai beirniad medrus yn tybied mai yr un oedd y ddau ddull. Dadleuir dros y golygiad hwn gan ysgrifenydd galluog yn yr *Asiatic Researches*, a dywed fod y dull Baconaidd yn berffaith wybyddus i Aristotle, a'i fod wedi cael ei osod allan ganddo fel dull o ymchwiliad ag sydd yn arwain i sicrwydd, neu wirionedd; a'i fod hefyd, nid yn unig yn berffaith gydnabyddus â threfn cyfosiad, ond â'r "elfenau priodol i'w defnyddio yn ei ddygiad ymlaen, sef ffeithiau a phrawfiadau." Yr hanesydd manylwych a chraffus, Mr. Lewes, a fyntumia yr un peth, a dyfyna froddegau ar froddegau o weithiau Aristotle er profi hyny. "Mae yn sicr," medd efe, "fod dirnadaeth Aristotle o ddull yn un cywir; ond ni fuasai cymhwysiad y cyfryw ddull yn ei arwain nebpell, o herwydd nad oedd profiad digonol wedi ei gasglu y pryd hwnw, oddiwrth ba un y gellid cyffredinolli yn effeithiol." Ac ymbellach, efe a ddywed, "Y gwahaniaeth rhwng Aristotle a Bacon ydyw, tra y mae y ddau yn dal mai sylwadaeth (*observation*) a chyffredinoliad ffeithiau yn unig oedd yn ddigonol i gynnyrchu syniadau cywir, credai Aristotle y gallai ef ddarganfod y ffeithiau gwreiddiol hyny o *fôd* ac *achosiant*, y rhai a ddoeth ystyried gan Bacon tu hwnt i gyrhaeddiadau dynol." Ond y mae Mr. Dugald Stewart yn barnu yn dra gwahanol, a dywed fod gwahaniaeth mawr rhyngddynt, am fod Bacon, nid yn casglu lliaws o ffeithiau, ac yn tynu casgliad oddiwrthynt, ond yn eu dosbarthu yn wahanol ddosbarthiadau cyn tynu ei gasgliad; tra yr oedd Aristotle yn esgeuluso dosbarthu. Y mae yn ddiaf fod hwn yn wahaniaeth gwerth sylwi arno; canys

nis gellir dysgwyl i'un wyddiant fod yn fanol iawn, os na fydd y ffeithiau yn cael eu dosbarthu cyn y tynir y casgliad.

Gellir dywedyd yn briodol fod holl athroniaeth Plato yn gynnwysedig yn ei athrawiaeth ar feddylddrychau; ac fe ellir dywedyd am Aristotle hefyd, fod ei athroniaeth ef yn cael ei ehynnwys yn yr athrawiaeth wrthgyferbyniol. Y mae y darlennydd yn cofio i ni sylwi fod Plato yn ystyried y meddylddrychau cyffredinol ag yr oedd yn eu holrhain ymhlith ymddangosiadau allanol natur, yn meddu hanfodaeth annibynol ar yr ymddangosiadau, canys "dirgelwch hanfodiad" ydynt, a chan iddynt gael eu creu o flaen yr ymddangosiadau—neu, os na chrëwyd hwynt, yr oeddynt yn perthyn i'r Meddwl Dwyfol—y mae yn eglur y gallant fodoli heb yr ymddangosiadau. Y maent, gan hyny, yn fodau annibynol ar, a gwahaniaethol oddiwrth, bob peth a welir yn natur, a phe na buasai ymddangosiadau arian yr hyn ydynt, buasai y meddylddrychau yr hyn ydynt hwy. Ond yr oedd Aristotle ymhell o allu cydolygu â rhyw ddyb fel yna. Caniatâi, mae'n wir, y gallasai sylwedd fodoli yn dryblith annelwig, heb un ffurf arno; ond cyhoeddai yn benderfynol mai amhosibl oedd i ffurfiau (delweddau neu *ideas*) fodoli yn annibynol ar sylwedd. Cydmai â'r Stoiciaid i gymharu y meddwl, o flaen profiad, i lyfr ar ba an nid oedd dim yn ysgrifenedig; a chaelglodd llawis o athronwyr oddiwrth hyny ei fod yn awgrymu mai synwriaeth neu brofiad oedd gwreiddyn ei hell wybodaeth. Y dyb hon a goledwyd yn gyffredinol hyd yn ddiweddar, pryd y dangosodd Eilmyrwr talentog mai cyfeithornad ydoedd. Arferid dywedyd mai Delweddw (*Idealist*) oedd Plato; ond mai Materolydd (*Materialist*) oedd Aristotle. Dangosodd yr Eilmyrwr yn eglur, er fod Aristotle yn ymwrthod yn hollol âg *ideas* ei athraw, a'i fod yn gosod pwys mawr ar brofiad y synwyr, eto ei fod yn myntumio mai rheswm yn unig a allai gyfansoddi gwybodaeth. Efe a ddengys fod tri dosbarth o wirioneddau:—1af, Y gwirioneddau a gyrhaeddir drwy brawf diymwad—gwirioneddau casgliadol; 2il, Gwirioneddau cyffredinol, y rhai ydynt wreiddyn pob arbrawf, a'r rhai a ddeuant oddiwrth y Rheswm ei hun; 3ydd, Gwirioneddau neillduol ag sydd yn dyfod o brofiad y synwyr. Megys y gwnaethai Plato, felly y mae yntau yn cychwyn gyda gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd neillduol a'r hyn sydd gyffredinol. "Profiad synwrol," medd efe, "a ddyry yr hyn sydd yma, neu acw, yn awr yn y dull hwn; ond y mae yn amhosibl iddo roddi yr hyn sydd ymhob man, ac ar bob pryd. "Nid yw y gwirioneddau cyntaf, neu egwyddorion, yn brofedig; y maent yn ein rhwymo ar unwaith i gydweled â hwy; nid ydyw yn anghenrheidiol chwilio allan eu sylfaen, y maent yn gorphwys arnynt eu hunain." Cyhuddir y Stagiriad dysgedig o fod ychydig yn dywyll, os nid yn anghyson âg ef ei hun, ar y pwnc hwn. Syr W. Hamilton a ddywed, y gellir dyfynu o'i weithoedd "adranau i brofi, ar y naill law, ei fod yn cael ein holl syniadau yn *a posteriori* o'r synwyr; ac ar y llaw arall, ei fod yn golygu y synwyr yn unig fel yn cystwyo i'r deall yr achlysuron tuag at ei gynnorthwyo i ddyfod yn ymwybol o'r amgyffredion cynnwynol ac anghenrheidiol ag y mae yn eu rhinweddol feddu yn *a priori*." Tybygid gan hyny, mai ei arbenigrwydd ar y pwnc hwn ydyw, nid gwrthwynebu Plato ar y tir nad oedd y deall yn wreiddyn gwybodaeth, ond ar y tir mai nid dyna unig wreiddyn gwybodaeth. Credai fod gwybodaeth yn rhwym o gael ei zhychwyn oddiwrth *ffeithiau, crediniaethau, neu egwyddorion*

gwreiddiol neillduol, y rhai ydynt wir, a gwirionedd y rhai a bair grediniaeth drwyddynt eu hunain, a'u hunain yn unig. Y rhai hyn, fel cynseiliau, nid ydynt yn wrthddrychau i ymchwilio iddynt; ac fel y maent yn elfennau arbrawf diymwad (*elements of demonstration*), y maent eu hunain yn arbrofedig." Gweler ar hyn ymhellach, *Hamilton's Reid*, tu dal. 265, 764—5, 771—3.

Ond y mae yn eglur mai at synwroliaeth yr oedd gogwyddiad Aristotle. Y mae yn wir ei fod yn cydnabod nas gallai y synwyr corfforol, a'i holl argraffiadau, gyfansoddi gwyddiant—rhaid oedd cael y rheswm at hyn; ond wedi y cyfan, ni chydabyddai fod dim yn *bodoli* ond pethau neu ymddangosiadau neillduol, y rhai nis gellid eu hadnabod ond drwy y synwrau. Ac ar ol i'r rheswm, drwy ei egwyddorion a'i ddeddfau anghenrheidiol, ymaffyd yn yr hyn a gyflwynid i'r meddwl gan y synwyr, a'i gyfansoddi yn wybodaeth neu yn feddylddrych; eto, nid oedd y meddylddrych yn hanfodi ond yn ei gysylltiad â'r meddwl hwnw. Nid oedd yn hanfodi allan o'r meddwl fel "*ideas*" Plato. Yn awr, ynte, nid oes dim gwybodaeth i'w chael, yn ol Aristotle, ond yn unig drwy gyfrwng y synwrau. Nid ydyw y synwrau yn ein twyllo, meddai; a chan mai ein Rheswm ydyw yr adeiladydd o'n gwybodaeth ar ol derbyn yr argraffiadau synwryddol, y mae o bwys mawr fod y Rheswm hwn yn hyddysg iawn yn y gelfyddyd o adeiladu. Y mae y defnyddiau a gludir gan y llygaid, y clustiau, y teimlad, yr arogliaid, a'r archwaethiad, tuag at ddwyn ymlaen adeiladaeth tŵr gwirionedd, o'r fath oreu; ond y mae cywirdeb a phrydferthwch y gwaith mawr i ymddibynu ar fedrusrwydd yr adeiladydd. Os na fydd gan y Rheswm yr offerynau priodol, yn ofer y chwilir am wirionedd oddiwrtho. Eithr pa rai ydynt yr offerynau hyn, fel y galler hwyluso ymdaith athroniaeth? Wel, meddai Aristotle, yr offerynau hyn ydynt ddeddfau Arbwyllleg neu Resymeg; ac y mae wedi gadael ei ôl ar y wybodaeth yna hyd yn awr, a thebygol yw hefyd y bydd ei ôl arni tra y pery. Dywedai fod yn y meddwl ryw ddeg o ddeddfau meddyliol (*categories*), mewn cysylltiad â pha rai y mae y rheswm yn edrych ar bob peth.

Rhyw adeiladydd mawr oedd Aristotle: tynu i lawr oedd nodwedd Plato. Gwrthwynebu, a gwrthddadleu, a gwrthbrofi, oedd un o brif amcanion Plato; ond profi ei bwnc yn ymresymiadol yr amcanai Aristotle ato.

Yn ol Tennemann, daliai Aristotle fod yr enaid yn wahaniaethol oddiwrth y corff; ond ei fod hefyd yn anwahanadwy oddiwrtho. Nid oedd yr enaid ganddo ond "ffurf gynnwynol corff difywyd; ac wrth ddywedyd fod yr elfen ddealldwriaethol yn anfarwol, nid oedd yn caniatáu iddi ond anfarwoldeb heb gof."

"Y mae Aristotle hefyd yn cydnabod fod Achos mawr yn bod yn y bydysawd—achos ag sydd yn cychwyn ysgogiad heb syrthio iddo; ac nid achos anianyddol ydyw hwn, ond dealldwriaeth—dealldwriaeth nad ydyw yn adnabod dim ond ef ei hunan. Y mae Duw Aristotle yn holddigonol ynddo ei hun; y mae yn wahaniaethol oddiwrth y byd, yn gymaint ag nad ydyw yn ei adnabod, yr hyn ydyw yr eithafion gwrthgyferbyniol i Höllduwiaeth, a'r hwn nid ydyw yn llai gwrthun nac yn llai peryglus."

Yr oedd Plato yn gogwyddo at y Pythagoriaid; ac yr oedd Aristotle yn gogwyddo at yr Ioniaid. Yr oedd eu canlynwyr yr un modd yn gogwyddo yn gyffelyb. Canfyddir y Platonïaid hyd yn nod yn myned yn

fwy amgyffredol na'r athraw ei hun; ac y mae yr Aristoteliad yn myned yn fwy materyddol nag Aristotle. Ymhlith y Platonïaid, yr ydys yn cael Xenocrates yn dywedyd fod yr enaid yn rhifedi ag sydd yn ei ysgogi ei hun; ac ymhlith yr Aristoteliad, wele Dicæarchus yn cyhoeddi yn ÷ofn nad yw enaid dyn ond gair, neu fywyd wedi ei ddsbarthu yn gyfartal dros holl ranau y corff. Cicero a ddywed fod un o'r Platonïaid enwocaf wedi gwahaniaethu yr enaid oddiwrth y corff yn y cyfryw fodd, fel na wyddid ymha le yr oedd wedi ei ddodi; ac wele Strato, un o'r Dargrwydrwyr, yn haeru nad oedd dim yn bodoli heblaw mater—nad oedd eisieu i ni dybio Bôd Duw er mwyn cyfrif am grëadigaeth y byd, ond fod pobpeth yn myned ymlaen yn gydweddol ág anghenrheidrwydd pethau. Ac felly y mae yr athrawon wedi cael eu hanghofio, a'u hathrawiaethau wedi cael eu dilyn i gasgliadau annuwiol, er o bosibl eu bod yn hollol deg a chyfreithlawn.

Ond y mae dwy blaid arall yn ymddangos ar y maes, y rhai sydd yn cymeryd lle y ddwy blaid ddirywiedig, sef yr Epicurëaid a'r Stoiciaid. Cafodd y rhai hyn ddylanwad mawr ar y parthau hyny o'r ddaear lle y bu yr apostolion yn llafurio fwyaf. Gyda'r rhai hyn, medd Cousin, y dechreu a dadgorfforiad yr athroniaeth Roegaidd. "Ar y cyntaf, yr oedd yr ysgol Ionaidd a'r ysgol Bythagoraidd yn cyfyngu eu hunain yn neillduol at y byd allanol, ac nid oedd athroniaeth fawr amgen nag athroniaeth natur. Socrates a'i dyga yn ol at efrydiaeth y natur ddynol; y mae Aristotle a Plato, drwy barhâu yn fyddlawn i ysbryd Socrates, wrth gychwyn gyda'r natur ddynol, yn ffurfio cyfundraeth gyflawn, yr hon sydd yn cynnwys, gyda'r natur ddynol, naturiaeth yn gyffredinol, Duw a'r byd. Y mae Aristotle a Plato yn rhoddi i athroniaeth ei holl ranau: hwy a'i cyfansoddasant hi. Ond ar eu hol hwy, digalonwyd yr athrylith drefnus gan ddadieuon y ddwy ysgol, a gwanhâodd, gan ddisgyn oddiar ei huchelfanau, ac ymddarostwng i'r dyffrynoedd; ac yn lle y pwnc mawr o arddansoddiaeth, dygir i mewn y pwnc dyddorol o Foeswydd, yr hwn na chwiliwyd ond yn dra chyfyng. Nodwedd cyffredin Stoiciaeth ac Epicuriaeth ydyw cyfyngâ athroniaeth ymron yn gwbl at Foeswydd." Oddeutu tri chanrif cyn ymddangosiad ein Hiachawdwr y gwnaethpwyd hyn. Ond dechreuwn gyda, yn

1af, Yr Epicuriaid.

Derbyniodd y blaid hon ei henw oddiwrth Epicurus, yr hwn a anwyd yn y fl. 337 C.C., gerllaw Athen. Astudiodd, fel y dywedir, o dan Xenocrates, un o'r Platonïaid, ac yn fuan efe a ddechrenodd ysgol ei hunan. Yr oedd wedi bod yn derbyn gwersi gan y Platonïaid yn nghanol llwyni paradwysaidd Hecademus; ac yr oedd wedi gwrando gyda blâs ar draethiadau y Peripateticiad ar hyd rhodfeydd swynol y Lycæum; a phenderfynodd agor ei athrofa yn nghanol dewisol a pheraroglaidd ffordau gardd.

Ni a welsoem ddechreuad y blaid hon yn hanes y Cyreniaid, y rhai a ddywedent mai y rhinwedd penaf mewn dyn oedd boddio ei frysiau presennol. Felly y dywedai yr Epicuriaid hyn. Y mae rhai yn barnu fod Epicurus yn dywedyd fod dedwyddwch yn gynnwysedig mewn boddio holl frysiau y corff; ond eraill a farnant fod y plieser y sonia gymaint am dano yn deilliaw o ymarferiadau moesol a rhinweddol. Ar y cyfan, y mae yn ymddangos ei fod ef yn ddyn o ymddygiad canmoladwy, ac nas gellir

priodoli iddo yr anianoldeb ag oedd yn perthyn i'w ddysgybllion. Modd bynag, y mae yr Ysgrhythyr Lân yn ein hysbysu am ryw ddyinion yn dywedyd yn eofn, "Bwyttawn ac yfwn, yfory marw fyddwn."

Nid oedd Duw yn holl gyfundaeth yr athronwyr hyn. Yr oedd y byd wedi ei gyfansoddi o fân-ronynau annirnadwy ymron, y rhai oedd yn meddu, yn wreiddiol, ryw allu i gyduno â'u gilydd i ffurfio gwahanol wrthdrysiau. Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at yr athrawiaeth hon wrth sylwi ar Democritus. Democritus a ddywedai fod yr enaid wedi ei gyfansoddi o fân-ronynau crynion; ac felly y dywedai yr Epicuriaid hefyd; ond bod rhywbeth, nas gallent ei ddarnodi, yn achos o synwriaeth—rhywbeth ag oedd o ran ei gyfansoddiad rhwng enaid materaidd ac ysbrydol. "Ac oddiwrth hyn oll y mae yn casglu, os ydyw yr enaid yn fateraid, ei fod hefyd yn farwol. Y mae yn gyfuniad ag a ddattodir yn angeu; y mae y gronynau yn cael eu gwahanu, a rhoddir terfyn ar bob peth." Ac yn y gyfundaeth hon, nid ydym yn edrych am ddim uwch na synwriaeth.

21, Y Stoiciaid

Ydyw y blaidd arall a enwasom. Gellir golygu fod holl athroniaeth y Stoiciaid yn gynnwysedig yn eiddo Zeno, yr hwn a anwyd yn Cittium, yn Cyprus, oddeutu 340 C.C. Cymerwyd yr enw Stoic oddiwrth y Groegair *Stoa*, yn arwyddo porth. Yr ydys eisoes wedi cyfeirio at ddechreuad y rhai hyn gydag Antisthenes a Diogenes, y Cynigiaid; ac y mae hanes yn profi mai gyda'r Ysgol Cynigaidd yr ymgysylltodd gyntaf; ond ei fod wedi blino ar ymarferiadau gwrthun y rhai hyny, ac wedi ymgysylltu â'r Megariaid; ond nid oedd y rhai hyny wed'yn yn ddigon treiddgar a dwfn ganddo, a throdd yn ddysgybl i ddeonglwyr yr athroniaeth Blatonaid—Xenocrates a Polemo. "Ar ol ugain mlynedd o efrydiaeth lafurus yn y gwahanol ysgolion hyn, efe a agorodd ysgol ei hun, i ddyngu i eraill yr hyn yr oedd efe wedi ei benderfynu oddiwrth ei holl ddysgediaeth."

Moeswydd ydyw athroniaeth y gŵr hwn eto, fel Epicurus; ond y mae y ddau athronydd yn sefyll mewn dau eithafion. Nid plaser ydyw y daioni neu y rhinwedd penaf yn yr athroniaeth Stoicaidd; ond bod yn gyson â natur, yr hyn nid yw amgen na dyweyd mai byw mewn cydymffurfiaid â rheswm ydyw byw yn rhinweddol; ac nid ydyw pechod yn ddim ond anghydfurfiaid dyn â'i reswm. Dadleuent nas gallai plaser fod yn rhinwedd, na phoen yn bechod, am nad oedd dim cysylltiad rhyngddynt â Rheswm. Fel y cyfeiriasom eisoes yn ein sylwadau ar y Cyreniaid, y "prif ddedyddwch" oedd eu hegwyddor o foesoldeb; ond am y Stoiciaid, yr oeddent yn hollol wrthwynebol iddynt hwy a'r Epicuriaid, canys os rhinwedd ydyw cydymffurfio â rheswm, heb ystyried na phetruso ynghylch y canlyniadau o hyny, y mae yn canlyn mai nid ein cysur presennol ydyw gwreiddyn y ddyledswydd, ond *daioni* y ddyledswydd ynddi ei hun; a chan hyny, y mae cyfiawnder yn ymddangos yn dra gogoneddus yn ei gwisg annibynol ei hun yn y gyfundaeth hon. Y mae y Stoic yn y dull hwn yn ymddyrechafu goruwch amgylchiadau cyfnewidiol y byd. Yr oedd yr Epicurëad yn llefaru yn erbyn anianyddiaeth (*physics*), am ei bod yn arwain dyn yn ol at ryw Fôd ag oedd yn llywodraethu ar lifeiriant cyfnewidiol y byd hwn. Y daioni neu y plaser mwyaf oedd rheolydd mawr y naill; ond yr oedd y llall yn gorfod cydnabod rhyw-

beth uwch. Nid ydyw hyn yn profi, yr un pryd, fod y Stoic, mwy na'r Epicuread, wedi cyrhaedd y syniad priodol am yr hyn oedd yn dwyn y llywodraeth hon ymlaen. "Ond y mae rhai ag nas gallant fyth gollu eu teimlad dwys o'r anghenheidrwydd am y cyfryw ddeddf; y rhai hyn, yn eu hanobaith i'w darganfod, a wnant eu noddfa yn y peth tebycaf i'r hyn y maent yn chwilio am dano, yn nilyniad gweithrediadau natur. Yr hyn sydd yn canlyn y teimlad hwn yn ddiethriad, ydyw parch i dyngedfeniaeth a rheidrwydd, gydag ymddarostyngiad balchaidd ac ewyllysagar i'w llywodraeth. Y cyfryw dyngedfeniaeth a ddaeth yn Dduw y Stoiciad— a llefaru yn briodol, ei unig Dduw; ond yn gymaint a'i fod yn ei weled yn cael ei bortreiatu yn ysgogiadau y bydysawd, ac yn gymaint a'i fod yn teimlo ar brydiau yr anghen am rywbeth mwy sylweddol, ac mewn cysylltiad agosach âg ef ei hun, na'r meddylddrych noeth, daeth y Byd i fod y fuffr byw ymha un yr oedd yn canfod gwrthdrych ei addoliad."

Yr oedd yr athroniaeth dyngedfenol hon yn deilliaw yn dra naturiol o athrawiaeth y Stoiciad ar feddylddrychau a'r enaid. Yr oedd Zeno yn fwy o Aristoteliad nag o Blatoniad yn y pwnc hwn, ac ni chredai yn *ideas*, nac adgofion tragwyddoldeb Plato. Nid ydyw meddylddrychau, meddai, ond pethau a ffurfiar gan reswm dyn pan yn cyferbynu y pethau a gyflwynir i'r meddwl gan y synwrau corfforol. Dywedwyd eisoes fod Democritus wedi ymholi, Pa fodd y mae y synwrau yn canfod pethau allanol? Y mae hwn yn ymholiad pwysig i bawb sydd yn chwilio am wreiddyn meddylddrychau mewn synwriaeth; canys os o'r synwyr y tardda ein holl wybodaeth, y mae yn ofynol i ni ddangos pa sail a feddwn i dybied fod y wybodaeth hono yn ddilys. Y mae pawb, o anghenheidrwydd, yn credu yn nilysrwydd eu gwybodaeth o bethau allanol; ond wrth ddadlennu ar bwnc fel hwn, dylid rhoddi rheswm dros y golygiad. Gan hyny, gofynai y Stoiciad, A oes rhyw berthynas rhwng y wybodaeth a gyflwynir i'r meddwl gan y synwyr, a'r pethau allanol ag sydd wedi achlysuero y wybodaeth hono? Neu, a oes tebygolrwydd yn bodoli yn y gwrthdrych allanol i'r syniad neu y wybodaeth fewnol? Gwelsom eisoes fod Democritus wedi dyfeiso ei *eidola* i egluro y pwnc tywyll hwn. Ond nid ymfodlonai Zeno ar hyny; canys canfyddai nad oedd yr *eidola* a hedai oddiwrth y gwrthdrychau allanol, ac a ddeuai i gyftryddiad â'r synwrau, yn ddim ond rhai o bethau arwynebol y gwrthdrychau hyny—nid oeddynt yn hysbysu pa beth oedd y gwrthdrych o ran ei natur. Gan hyny, efe a haerai fod yn ngallu y synwyr dreiddio islaw yr holl ymddangosiadau, a chanfod "defnydd" ei hun—yr "*arche*" ag yr oedd yr henafiaid wedi bod yn chwilio gymaint am dano. Felly, yr oedd rhywbeth heblaw ffug yn yr ymddangosiad a ganfyddid—yr oedd gwirionedd ag oedd yn cael ei adnabod gan y rheswm. Y mae rhai o ddarganfodion (*perceptions*) y synwrau yn ymddangos i'r rheswm yn debyg iawn i wirionedd; tra y mae eraill yn annhebyg iawn i wirionedd; ac y mae eraill nad ydynt yn perthyn i'r naill ddosbarth na'r llall. "Nid ydyw canfod gwrthdrych yn cyfansoddi gwybodaeth; canys cyn y bydd yn wybodaeth, bydd yn ofynol cael cydsyniad y rheswm. Y mae canfyddiaeth yn dyfod oddiallan; cydsyniad a ddeillia oddifewn; ymarferiad rhydd rheswm dyn ydyw. Y mae gwybodaeth yn cael ei chyfansoddi o ganfyddiaethau wedi eu seifio mor gadarn, fel nad oes un ymresymiad a all eu hysgwyd. Y canfyddiaethau na seiliwyd felly ni chyfansoddant ond tyb." Dyna athrawiaeth

common sense, ac y mae wedi cadw y gŵr hwn rhag cael ei restru gyda'r Ammheuwyr.

Cafodd Epicurus ei eni 337 o flynyddau cyn Crist; ganwyd Zeno 340 o flynyddau cyn Crist. Ac megys y cyd-dyfodd y ddau athronydd, felly hefyd y cyd-dyfodd eu hathroniaeth, ac y cydfachludasant yn ngwlad Groeg oddentu can' mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol. Dywedir fod ammhenaeth yn un o nodweddion amlwg y meddwl Groegaidd; ac yr ydym wedi gweled mai rhoi gwirionedd ar dir safadwy oedd amcan mawr Socrates, a Plato, ac Aristotle. Yr oedd Socrates wedi ymgadw yn ei ymchwiliad am wirionedd o fewn i derfynan Moeswydd; aeth Plato ymhellach, a daeth âg arddansoddiaeth hefyd i fewn; ond Aristotle a ddaeth âg anianyddiaeth yn gyffredinol i gylch yr ymchwiliad. Mewn anianyddiaeth yr oedd ammhenaeth yr ymresymwyr y buom yn son am danynt wedi gwreiddio; ac felly, nid rhyfedd fydd os cawn yr un effaith yn dilyn yr un achos ymblith dysgyblion Aristotle eto. Felly y bu. Y mae ammhenaeth yn treiddio drwy gyfundraeth y Stoic a'r Epicurëad; ond cadwyd hwy rhag cydnabod hyny. Modd bynag, y mae hyn yn cael ei ddadblygu yn hanes yr

Athrofa Newydd (New Academy),

Prif ddysgawdwy'r yr hon ydoedd Arcesilaus a Carneades, y blaenaf o'r rhai a anwyd 316 C.C., a'r olaf 215 C.C. Dywedwyd eisoes mai yn llwyni Hecademus yr oedd athrofa Plato. Gwelwyd hefyd fod yr athraw mawr hwn yn hollol rydd oddiw'rth ysbryd ammheugar ei gynoeswyr a'i gydoeswyr yr ymresymwyr; ac felly y parhâodd yr ysgol Blatonaid am dymmor maith. Ond yr oedd y ddwy blaid fu o dan ein sylw yn awr, yn enwedig y Stoiciaid, wedi gwneyd ymosodiadau chwerwon ar Plato a'i athroniaeth yn eu hysgol yn y porth. Cynhyrfodd hyn rai o'r dysgyblion Platonaid, ac ymosodasant ar chwilio yn fanwl i Epicuriaeth a Stoiciaeth; cyhoeddwyd yr ymgyreh; a dygwyd hi ymlaen yn llwyddiannus. Ammheuasant yr athroniaeth Stoicaidd; a galwasant eu hunain yn *Athrofa Newydd*. Eu prif waith oedd gwrthwynebu y pleidiau a enwasom; ac nid oes sicrwydd pa faint o athrawiaethau pendant o'r eiddynt eu hunain a adawsant ar ol, er yr ymddengys eu bod, ar y cyntaf, yn meddu daliadau neillduol. Un hen hanesydd a ddywed fod y blaid hon yn waniaethol oddiw'rth yr ammheuwyr, yn gymaint a'u bod yn dywedyd fod pobpeth yn anamgyffredadwy; tra nad oedd yr ammheuwyr yn dywedyd hyny. Yr oedd Plato wedi cyhoeddi nad oedd Tyb, sef y wybodaeth a geid trwy y synwrau, yn ddilys; a dywedai Aristotle nad oedd meddylddrychau, ar y rhai y gosodai Plato y fath annhraethol bwys, yn ddim ond perthynasan yn meddwl yr athronydd. Cyd-ddywedai dysgybl yr athrofa newydd â'r ddau, A pha fodd y gallai lai na bod yn ammheuwyr?

Ond fe allai y dylem ddywedyd rhywbeth yn fwy neillduol am

Yr Ammheuwyr (Sceptics).

Y rhai hyn a gawsant eu cychwyniad, fel plaid, oddiw'rth un Pyrrho, yr hwn a flodeuai oddentu 340 C.C.; ac a barhasant hyd agoriad yr athroniaeth Alexandriaidd. Pwnc mawr yr ammheuwyr ydyw safon prawf gwir-

ionedd gwybodaeth. Eu sefyllfa a osodir allan yn dda gan Mr. Maurice yn yr ymadroddion canlynol:—"Yr ydym wedi bod yn chwilio yn hir; a pha beth a gawsom?" medd yr amhewywr. "A gawsom ni afael mewn unrhyw benderfyniadau sicr? Aristotle a ddywed ein bod. Socrates a Plato a awgrymant i'r gwrthwyneb. Y maent hwy, o bosibl, yn gystal awdurdodau ag yntau. A phan yr ystyriom y fath liaws o syniadau sydd wedi cael eu lledanu yn ein plith mewn dau neu dri chan' mlynedd, pwy a all fod yn hyderus fod unrhyw un yn meddu hawl i fwy o barch nag un arall? Y mae yn ddiammheuol fod rhyw swydd i'r dyn doeth i'w chyflawni. Yr ydym ni y Groegiaid yn sicr o fod eto, fel yr ydym wedi bod erioed, yn bobl ddoeth y ddaear. Ond fe ddichon nad yw yn perthyn i swydd y dyn doeth benderfynu dim. Onid all fod, yn hytrach, mai ei ddyledswydd ef ydyw dyweyd wrthym pa fodd y mae oren i'r rhai hyn ymddwyn, y rhai sydd, fel y dywed Socrates, yn gwybod na wyddant ddim?" Os nad oes un safon yn bod, wrth ba un y gallwn brofi tu hwnt i amhewiaeth, pa un ai gwir neu au ydyw ein gwybodaeth, pa fodd y gallwn gredu? Fe ddywed Plato ac Aristotle fod y cyfryw safon yn bod, ac y mae y ddau yn ei osod yn rheswm, ond bod Plato yn ei wneuthur yn feddylddrychau (*ideas*), tra y mae Aristotle yn ei wneuthur yn egwyddorion anghenrheid-iol, neu ddeddfau perthynol i'r rheswm. Rheswm, ynte, ydyw y safon. "O'r goreu," medd yr amhewydd, "ond pa sail sydd genych i brofi fod y Rheswm hwn yn ddigyfeiliorn, a'i fod yn cyflawni ei waith yn ffyddlawn a cywhir? Y mae Aristotle wedi profi nad yw *ideas* Plato yn ddiin ond enwau ar berthynasau y pethau a gyflwynir i'r meddwl gan y synwryau; ac o ganlyniad, nis gallant hwy fod yn safon. Ac wedi'n, pa beth yw y sicrwydd a gyflwynir i'r meddwl gan arbwylleg Aristotle? canys y mae y synwryau yn dwyn y pethau i'r meddwl—sef yr ymddangosiadau, cofier, ac nid eu hanfod gwirioneddol—ac felly, a chaniatáu fod y rheswm yn sicr o fod yn gywir bob amser, nid yw yn gywir ond mor bell ag y mae yr ymddangosiadau yn myned; ac os nad ydyw yr ymddangosiad yn eilun perffaith o'r hanfod, nis gall fod y syniad a fêdd y meddwl am yr ymddangosiad, yn briodol i'r hanfod o hono." Y mae yr ymresymiad a ddygid ymlaen gan yr amhewydd yn un tra chadarn, ac yn ymddangos braidd yn anatebadwy wrth ystyried y wedd oedd ar athroniaeth y pryd hwnw.

Dyna ni wedi cyrhaedd terfyn ein trydydd cyfnod, sef oddeutu 50 C.C.; ac yr ydym yn gweled y meddwl dynol wedi ei ddyfarnu i ymbalsalu mewn tywyllwch am safon i brofi gwirionedd ei wybodaeth. "Yr wyf yn gofyn, os gallai y meddwl dynol ymfoddloni i hyn? Yr oedd yn ymgynnyg at ddihanfodiad; canys, i'r meddwl, bodolaeth ydyw gweithgarwch, barn, meddyliaeth, ac o ganlyniad crediniaeth. Yr oedd yr anghen am feddyliaeth a chrediniaeth yn parháu, ynte, yn y meddwl dynol; y cyfan oedd yn anghen arno oedd ffurf newydd. A pha ffurf a allai ei gymeryd? Nis gallai gymeryd synwryoliaeth (*sensualism*), canys yr oedd Stoiciaeth wedi ei ddiddymu; nid amgyffrediaeth ymarferol, sef Stoiciaeth, canys yr oedd Epicuriaeth yn ei thro wedi diddymu hono, ac yr oedd amhewiaeth wedi dinystrio y ddwy, ac ar yr un pryd wedi dinystrio ei hun. Oddiyma tarddai yr anghenrheidrwydd am ymgais hollol newydd, canys nis gallai y meddwl dynol ymddiried ond yn unig i ddull o ddeall ag nad oedd amhewiaeth eto wedi ymosod arno. Yr oedd yn anghenrheidol ymwrthod âg olrhain gwirionedd yn y cyfuniad mwy neu lai dysgedig a chywrair o ffeithiau synwry-

yddol a meddylddrychau dansoddol." Y feddyginiaeth a gafwyd allan gogyfer a'r ansawdd hwn er bethau ydoedd, troi oddiwrth y synwyr, ac oddiwrth y rheswm, at yr elfen o *ffydd*, neu grediniaeth seiliedig ar grefydd; a dyma yr hyn sydd yn nodweddu yr agwedd nesaf a ganfyddir ar yr athroniaeth Roegaidd.

§ 3. DIRYWIAD YR ATHRONIAETH ROEGAIDD.

C.C. 60 hyd O.C. 800.

Gorchwyl pruddaidd bob amser yw edrych ar adeilad ardderchog yn dechreu dirywio—ar ddail y goeden luniaidd a phrydferth yn gwywo. Ond dyna fel y mae mewn natur yn fynych. Felly yma; yn y bennod ddiweddaff, ni a welsom ehediadau eryraidd y Groegiaid coeth a dysgedig—gwelsom Socrates yn dyfod âg athroniaeth o'r cymylau, a Plato ac Aristotle yn gwneyd eu goreu i ddiogelu ei hawliau. Eithr megys o dan eu llygaid, wele amhweuaeth yn ymgripiant i mewn, ac yn achos o ffurfiad amryw fân-sectau, ac yn y diwedd yn dyfod yn ddigymysg yn athrawiaeth un sect ei hun. Yr oedd athronwyr y gwahanol sectau hyn oll yn proffesu cychwyn yn gyfreithlawn oddiwrth eu hathrawon mawr; ond yr oeddynt yn teithio mewn gwahanol gyfeiriadau; ac yr oeddynt yn gwarthruddo athroniaeth eu dysgawdwyr ond yn unig cân belled ag yr oedd yn cyddywedyd â'u tybiau hwy; ac felly y maent yn ymddadlau yn gyhoedd yn erbyn eu gilydd, ac wrth geisio dangos gwrthuni eu gilydd, y maent yn syrthio i eithafion, ac yn arwain athroniaeth yn ol i'r ffos o'r hon y tynwyd hi gan Socrates.

Yr oedd y Groegiaid wedi myned yn analluog i ofyn unrhyw holiadau newyddion mewn athroniaeth. Nis gallai y corachod meddyliol, o'u cymharu â'r cewri a fuasent o'u blaen, ond ymdroi megys yn myd meddyliol Socrates, Plato, ac Aristotle; a chymysgu gyda syniadau y doethion hyn rai o olygiadau Heracitus a Democritus. Yr oedd ymherodraeth Groeg hefyd yn gogwyddo i ddinystri; yr oedd ei dyddiaeth palmwyddog wedi myned heibio mewn llywodraeth yn gystal ag athroniaeth. Yr oedd Rhufain yn esgyn i binacl uchel ymherodraeth a llényddiaeth; ac wele athroniaeth yn ymysgwyd, yn ymddyrfhafu, ac yn cymeryd ei haden o hen wlad ei mebyd, gwlad ei phomgranadau a'i phethau dymunol, ac yn ymsefydlu yn Alexandria yn yr Aipht, ac yn ninas fawr y Cesariaid—Rhufain.

Yr Athroniaeth Alexandriaidd.

"Alexandria, canolbwynt masnach aruthrol, yn fuan a ddaeth yn brif-ddinas newydd gwybodaeth, yn eilyddu Athen." Yr oedd ganddi ei gwyddonwr dihafal Euclid, ei seryddwyr, ei daearyddwyr, ei beirniaid, a'i hathronwyr. Cyfodwyd gwahanol ysgolion yno, y rhai a wahaniaethent yn ddirfawr oddiwrth eu gilydd, ond yn unig mewn un peth, sef eu bod yn myned i chwilio am y sicrwydd ag yr oeddynt wedi methu ei gael mewn athroniaeth i ryw le arall. A pha le y tybir iddynt chwilio am dano? "Nid ydyw i'w gael mewn athroniaeth," meddent; "ac eto y mae genym feddylddrych am Dduw, ac am ei ddaioni; yr ydym yn meddu crediniaeth annilëadwy yn ei hanfodiad, ac yn mherffeithrwydd ei natur, ac, o ganlyniad, yn nhiriondeb ei fwriadau. Eto, nid ydyw y meddylddrychau hyn yn

gynnwynol; pe baent yn gynnwynol, hwy a gredid yn unfrydol gan bob dyn, ac ymysg pob cenedl. Os nad ydynt yn gynnwynol, o ba le y daethant? Nid o'r rheswm; nid o brofiad; gan hyny, o fydd y deilliasiant." Dyna *grefydd*, ynte, yn cael ei dwyn i mewn i ateb i ymholion y fynwes ddynol, ac mae ei hatebion yn goleuo ac yn gwresogi y fynwes ar unwaith. Dyna yr elfen newydd sydd wedi dyfod i athroniaeth.

Yr oedd dinas Alexandria wedi ennill enwogrwydd mawr am ei chyrhaeddiadau mewn dysgeidiaeth. Yno fe ellid cyfarfod â'r Indiaid a'i ddysgeidiaeth dywell a chuddiedig; ac yno hefyd y gellid cael ymgom gyda dysgybl Zoroaster a'r Magiaid. Ond wele un dyn arall yno, yr hwn, er mor ddy-syml ei olwg, sydd yn meddu allwedd i "ddirgelwch hanfodiad," ac wedi cael allan hyd sicrwydd "yr un ymlith y lliaws," canys iddo ef yr "ymddiriedwyd am ymadroddion Duw." Yr Iuddew, gan hyny, oedd i fod yn ddyddiwr i gysoni croes olygiadau doethion y byd hwn.

Yr oedd athronwyr Alexandria mewn mantais neillduol i gysylltu athroniaeth y Dwyrain gydag athroniaeth y Gorllewin, canys yr oedd y lle wedi dyfod yn bwysig fel eisteddle llywodraeth a llênnyddiaeth, ac yr oedd yn gyfleus o ran ei sefyllfa i'r dwyreiniwyr a'r gorllewinwyr, canys yr oedd yn gorwedd megys rhwng Africa, Asia, ac Ewrop. Prif nodwedd yr athroniaeth hon oedd uno elfenau yr holl gyfundraethau blaenorol; ac felly aethpwyd yn ol i Persia, ac i guddchwedleuaeth y Groegiaid, i chwilio am ddefnyddiau yr adeilad. Rhoddid lle i'r athroniaeth Roegaidd yn yr adeilad, eithr Pythagoras a Plato oedd yn llywodraethu. Ond yr oedd ysbryd athronyddol y byd dwyreiniol yn llywodraethu arnynt hwy—*crefydd* oedd sylfaen athroniaeth. Gan hyny, os gofynir yr hon ofyniadau dyrys ac anatebadwy a ofynwyd mor fynych ar ddaear Groeg, ni cheisir eu hateb, ond cyfeirir yr ymholydd yn ol at rywbeth sydd yn ei gysylltu gyda'r Anfeidrol. Y mae gwirionedd wedi ei seilio ar grefydd; neu, mewn geiriau eraill, y mae gwirionedd yn bod, ond nid ydyw yn deilliaw o'r synwyr nac o'r rheswm—y mae yn dyfod drwy ryw welediad dirgel a gyflwynir i'r meddwl mewn sefyllfa neillduol. Dyna yr hyn a elwir gan athronwyr diweddar yn Ddirgelyddiaeth (*Mysticism*).

Ar ol traethu cymaint a hyna ar egwyddorion dechreuol y blaid hon, deawn i sylwi ar ei phrif athrawiaeth, yr hon a elwir yn Blatoniaeth Newydd (*Neo-Platonism*), yr hon a ddechreuwyd gan Iuddew dysgedig o'r enw Philo, yr hwn a feddai barch mawr i'r athroniaeth Roegaidd, ac ydoedd hefyd yn gydnabyddus hollol âg ysgrythyrau yr Hen Destament.

Ganwyd Philo ychydig o flynyddau cyn dechreuad y cyfrif Cristionogol—yn Alexandria, medd rhai; ond eraill a ddywedant mai ymsefydlu yno ddarfu iddo. Nad beth am hyny, y mae yn ddiddadl ei fod yn ddysgybl ffyddlawr i Moses; ac ymddengys ei fod, ar ol dyfod yn gydnabyddus âg athroniaeth y Groegiaid, yn enwedig eiddo Plato, wedi canfod ynddi gryn dabygolrwydd i'r ysgrifeniadau Iuddewig mewn llawer o bethau; o ganlyniad, efe a fenthycodd yr athroniaeth Blatonaid, Noethofyddiaeth (*Gymnosophy*) yr Indiaid, ac arwyddluniaeth yr Aiphtiaid, i ddangos mai y grefydd a broffesid gan ei genedl ef oedd y wir grefydd. Credai fod Duw a mater wedi cydhanfodi er tragywyddoldeb. Yr oedd y Duw hwn yn fôd gwirioneddol, anfeidrol, ac anghyfnewidiol, a thu hwnt i amgyffredion dyn. Nid oedd mater yn bod felly; ond efe a gafodd fodolaeth a ffurf gan Dduw. Enaid y Duw hwn sydd yn cynnwys yr holl feddylddrychau am bob peth posibl;

ac oddiyno y rhaid i ddyinion gael gwirionedd. "Nid ydyw gwirionedd," meddai, "yn gasgliad oddiwrth amryw benderfyniadau; nid yr enaid dynol ydyw; nid rhywbeth ag sydd yn treiddio trwy bob peth; yr YDWYF, yr Hwn a lefarodd wrth Moses yn y berth ydyw—hyfforddydd ac ysbyrdolydd yr holl brophwydi—Efe yr hwn a roes y gyfraith ar Sinai." Ond galleisid gofyn i Philo, "Os ydyw y Duw hwn yn trigo yn y tywyllwch nas gellir dyfod ato, pa-fodd y mae dyn yn gallu cyrhaedd gwybodaeth? Os ydyw yn uwch na'r nefoedd, yn ddyfnach nag uffern, yn hŵy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr; ac os gydag Ef, ac Ef yn unig, y mae trigfa deall, —pa fodd y mae yr enaid yn gallu cymdeithasu âg Ef?" Ateb Philo oedd, mai drwy ddylanwad uniongyrchol y Bôd Mawr ar y meddwl. Duw, o ganlyniad, ydyw gwreiddyn gwybodaeth. Yn gyntaf oll, y mae yn F'ôd; yn ail, y mae yn ddealldwriaeth; yn drydydd, y mae yn allu mawr yn amlygu ei hun. A dyma athrawiaeth y Drindod Sanctaidd, yn ol yr Alexandriaid. Y dull ymha un y mae y dealltwriaeth hwn yn cael ei drosglywdd oddiwrth y Bôd mawr ydyw drwy *Y Gair*; neu, mewn geiriau eraill, drwyddo ei hun. Ond y mae yn rhaid cael y meddwl i ryw ansawdd neillduol iawn cyn y bydd yn alluog i'w dderbyn—i fath o *bêrlewyg*. Y mae yn ddiammheu fod yr athronydd yn cofio yn barhâus am y drefn ymha un y derbynai yr hen brophwydi eu cenadwriaethau.

Dilynid yr athrawiaeth hon gan athronwyr, mwy neu lai enwog, hyd y chweched canrif, ac y mae wedi dylanwadu yn fawr ar ffurf athrawiaethau crefydd yn yr eglwys Gristionogol. Gellir symio i fyny y cylch y troai meddyliau yr athronwyr hyn yn y tri phwnc hwn;—Eu bod yn eu rhesymeg yn Blatonïaid; yn eu hathroniaeth ar y Drindod, yn Ddirgelgyddion; ac yn eu hathroniaeth ar grëadigaeth y byd, yn perthyn i'r Holl-dduwiad. Y mae yr ysgol hon yn cael ei rhanu yn dri dosbarth. Y mae y cyfnod cyntaf yn lled gymedrol, a chynnwysir ynddo Plotinus a Porphyry; ond dywedir fod Plotinus unwaith wedi gweled Duw. Yr ail gyfnod a aeth ymhell iawn i dir Dirgelyddiaeth; canys y mae ei athronwyr yn hōni eu bod yn cyflawni gwyrthiau, yn medru ar ddewiniaeth a swyn-gyfaredd, ac yn alluog i ddyfod mewn amser i feddu llywodraeth hollol ar natur. Y mae y trydydd cyfnod yn dechreu gydag un Proclus, yr athronydd mwyaf a gynnyrchwyd yn yr ysgol hon, yr hwn oedd yn dwyn mawr zel dros Plato, ac oedd yn fwy duwinyddol, pe bae modd, na'i ragflaenwyr. A chydag ef y dybenodd yr Ysgol Alexandriaid.

Gan fenthyca geiriau Cousin, dywedwn, "Yr ydym yn awr wedi cyrhaedd terfyniad yr athroniaeth Roegaidd. Yr oedd synwryddiaeth ac amgyffrediaeth wedi methu, wedi eu difa; yr oedd ammheuyddiaeth wedi ei difa, ac wedi difa ei hun, ac heb adael llwybr i droi at ddim ond Dirgelyddiaeth. Gan hyny, gyda Dirgelyddiaeth Alexandria y terfynodd yr athroniaeth Roegaidd, ac yma yr oedd yn rhaid iddi derfynu. Yn Alexandria y gellir dywedyd yr oedd ei gwely angeu; trengodd yn ddiobaith yn y chweched canrif. Mewn trefn i ysgogiad athronyddol gael ei ail gychwyn, y mae yn rhaid i'r chwyldrôad mawr a ysgubodd ymaith hynafiaethau Groeg a Rhufein, gynnyrchu byd newydd, a hwn, bob yn dipyn, athroniaeth newydd. Rhaid i wareiddiad y byd newydd gynnyrchu athroniaeth y byd newydd."

Y mae yn debyg y bydd rhai yn rhyfeddu pa fodd na buasai yr athroniaeth Rufeinig yn cael ei chynnwys yn ein traethawd. Y mae genym

ddau reswm am hyn:—laf, ac yn benaf, Oherwydd nad oedd dim gwreiddioldeb ynddi—yr oedd wedi cael ei dysgu yn ngwlad Groeg, ac yn cael ei thraethu fel y cafwyd hi gan y Groegiaid; ac yn 2il, Gan nad oes newydd-deb ynddi, y mae ein gofod yn rhy gyfyng i wneyd mwy na hysbysu hyn yn fyr—nad oedd athroniaeth, yn yr ystyr briodol o'r gair, gan y Rhufeiniaid. Mae yn wir y cyfarfyddir yno â Lucretius Epicuraidd, ac â Cato a Brutus Stoicaidd, ac y ceir yr Academiciaid yn cael eu cynnrychioli gan Cicero; ond Groeg biau y cwbl, a'r hyn oedd Epicuriaid neu Stoic yn ngwlad Groeg, dyna ydoedd ar heolydd ardderchog Rhufain; a'r hyn oedd yr Academiciaid yn Groeg, dyna oedd yr areithiwr hyawdl Cicero yn llys y ddinas fawr.

Na farned y darlennydd fod ymchwiliadau athronyddol wedi peidio yn llwyr ar ol marwolaeth Proclus. Y cyfan a olygir wrth ddyweyd ei bod wedi terfynu gyda'r gŵr hwn ydyw, ei bod wedi llwyr gollu ei hannibyniaeth; ac nid yw ei hanes am ganrifoedd ond hanes crefydd, neu hanes yr athrawiaethau a ddysgid gan yr henafiaid yn cael eu cymeryd i undeb â chrefydd, ac yn cyfansoddi duwinyddiaeth.

Y mae haneswyr yn cyduno yn gyffredin mai gyda Des Cartes a Bacon y dechreuwyd athroniaeth ddiweddar, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ond ai ni bu athronwyr yn yr holl ganrifoedd a aethent heibio o farwolaeth Proclus hyd y pryd hwnw? Yn yr ystyr briodol o'r gair, ni a ddywedem, Na ddo; canys duwinyddiaeth oedd yn chwyfio ei llumanau dros bob man. Eithr y mae yn ddiau, yr un pryd, fod rhywbeth yn y canrifoedd a aethent heibio o amser Charlemagne hyd gyfnod Bacon, ag oedd yn fath o arweiniad i athroniaeth ddiweddar; ac o herwydd hyny, nis gall ein crynodeb fod yn gyflawn heb sylw byr ar yr Athroniaeth Ysgoleigaidd, ynghyda'r hon a ddilnodd ei chwymp, ac a arweiniodd i mewn gyfnod newydd ac ardderchog ar athroniaeth. Ond dechreuwn gyda'r Ysgoleigwyr.

PENNOD II.—YR ATHRONIAETH YSGOLEIGAIDD.

Y mae y canoloesau yn gyfnod ag y sonir llawer am dano yn ei gysylltiad â hanesiaeth y byd yn yr oesoedd diweddar. Yr oedd dyddiau palmwyddog Rhufain wedi myned heibio, ac yr oedd rhuthrgyrchau ofnadwy wedi eu gwneuthur ar y “ddinas sanctaidd.” Yr oedd Mahomet a'i luoedd wedi difodi esgobaethau Alexandria ac Antiochia, ac nid oedd ond esgob Rhufain yn hōni hawl i gadair St. Pedr. Yr oedd amherawdwyr yn cydnabod yr hawl, ac yn ymgrymu o'i flaen, ac yn tafu ceinion eu buddoliaethau wrth ei draed. Ond yr oedd Rhufain megys rhwng dau dân: yr Arabiaid ar y naill law yn dymchwelyd Spain, ac yn ymddangos yn debyg o groesi yr Alps a'r Pyrenees yn fuan, ac o gyhoeddi enw “Mahomet, prophwyd y Goruchaf,” ar y saith fynydd. Ar y llaw arall, yr oedd y Lombardiaid yn bwgwrth y byddent yn ebrwydd yn llu mawr yn sefyll o flaen pyrth Rhufain, a “Rhufain, yn llawn dychryn, yn edrych o'i hamgylch, ac yn ei thafu ei hun i ddwylaw y Ffrencwr.” Medd D'Aubigné, “Y mae Charlemagne yn ymddangos. Y waith gyntaf, y mae yn myned i fyny yn llawn dyhewyd i eglwys gadeiriol St. Pedr, gan gusanu y grisiau. Pan y mae yn dyfod yno yr ail waith, dyfod y mae fel arglwydd yr holl deyrnas oedd ag oedd yn cyfansoddi yr amherodraeth orllewinol, a Rhufain ei hun.” Wel, dyna ddechreuad y canoloesau; ac y mae y cyfnod yn

cael ei nodweddu gan y ffaith nodedig mai crefydd a lywyddai yn holl Ewrop, hyny ydyw, fe gydnabyddid y Pab yn uwch na'r amherawdwr; a phan y mae y drefn yna o lywodraeth yn cael ei gwrthod, y mae y canol-oesau yn dybennu.

Gwnaeth Charlemagne gymwynas fawr i'r byd Ewropaidd y pryd hwnw: adferodd heddwch, ac ymroddodd i noddi dysgeidiaeth; a'r dull a gymerodd i noddi dysgeidiaeth oedd sefydlu ysgolion i'r offeiriad, a'r rhai oedd i gymeryd rhan mewn swyddau cyhoeddus. Gwelir, gan hyny, mai i wasanaeth crefydd y mae yr ysgolion wedi eu sefydlu; ac y mae eu neillduoledd yn gynnwysedig yn eu bod yn cymeryd rhesymeg (*dialectics*) yr hen athronwyr i esbonio duwinyddiaeth, ac felly cymysgwyd duwinyddiaeth ac arddansoddiaeth eto.

Y mae y cyfnod hwn yn cael ei ddosbarthu mewn gwahanol foddau; ond yr un a dderbynir gan yr ysgrifenydd ydyw eiddo Cousin; y cyfnod *cyntaf* yn cynnwys darostyngiad hollol athroniaeth i dduwinyddiaeth; yr *ail* gyfnod yn cynnwys cyduniad athroniaeth â duwinyddiaeth; a'r *trydydd* yn cynnwys dechreu didoliad y ddwy oddiwrth eu gilydd. "Nid ydoedd y cyfnod cyntaf ddim ond defnyddiad ar athroniaeth fel math o ffurf arwynebol yn seiliedig ar dduwinyddiaeth Gristionogol." Cousin a'n hysbysa fod y cyfnod cyntaf hwn wedi ei dreulio, gan mwyaf, gan ddynion gwir fawr a dysgedig, i geisio profi "nad oedd dwy efrydiaeth yn bod, un yn perthyn i athroniaeth, a'r llall yn perthyn i dduwinyddiaeth; ond bod gwir athroniaeth yn wir grefydd, a gwir grefydd yn wir athroniaeth." Ond dywedir nad oedd gweithion prif athrawon Groeg yn meddiant athronwyr duwinyddol y cyfnod cyntaf hwn hyd tua'r degfed canrif, pan y dygwyd hwy i Ewrop gan yr Arabiaid, y rhai oeddynt wedi dyfod i Spain, ac oeddynt drwy gymeryd rhanau o Affrica ac Asia, wedi dyfod i gyffyrddiad â'r athroniaeth Alexandriaidd ac Aristotelaidd. Yr athronwyr Arabaidd hyn a ddysgent yr athroniaeth hon yn Spain; a dywedir fod y Pab Sylvester II. wedi efrydu o dan yr Arabiaid yn Cordova a Seville, ac iddo, ar ol dychwelyd, ddyysgu yr athroniaeth hono yn y monachdai. Ond yr oedd yr Iuddewon yn cael rhwyddach mynediad i'r athrofeydd Arabaidd na'r Ewropiaid; ac felly yr ydym yn cael rhai o blith y genedl hon yn dyfod yn ddysgedigion o fri, megys Maimonides, ac yn cyfieithu gweithiau yr Arabiaid i'r Hebraeg, ar ol yr hyn y cawsant eu cyfieithu i'r Lladin. Ac felly, dyna holl weithoedd Aristotle, yn arddansoddol, yn foesol, yn anianyddol, ac yn wladyddol, yn cael eu cyflwyno i fonachdai Ewrop; ac y mae y cyfnod blaenaf yn terfynu gyda hyn, yn nechreu y trydydd canrif ar ddeg o oed Crist. Cofier mai duwinyddiaeth oedd yn teyrnasu yn awr; ac er i rai tua'r unfed ganrif ar ddeg geisio dyrchafu athroniaeth yn gyfochrog â hi, eto methwyd, fel y canfyddir yn yr erlidigaeth ar Roscellin. Ond erbyn dechreu yr ail gyfnod, y mae maesydd newyddion yn agored o flaen y doethion; ac yn y fl. 1240, y mae Aristotle yn ddarllenadwy i'r Lladinwyr; ac er fod gwaharddiadau pendant wedi eu gwneuthur i beidio ei ddarllen, yn y blynyddau 1209, 1215, a 1231, eto cynnyddu yr oedd yr awydd o hyd nes y cafwyd holl weithion y Stagiriad i lefaru drostynt eu hunain yn eglur.

Yr ail gyfnod a ddechreua, ynte, gyda bod athroniaeth yn cael y fraint o sefyll ochr yn ochr â duwinyddiaeth, a braint fawr oedd hono yn yr oesau hyn. Tri dyn mawr y cyfnod hwn oedd Albert Fawr, Thomas Aquinas,

a Duns Scotus, y rhai a wnaethant ymdrech i ryddhau y cysylltiad oedd yn bod rhwng athroniaeth a duwinyddiaeth, ond methasant; ac er eu bod, yn ddiammheul, yn feddylwyr treiddgar, eto Aristotle oedd eu hathraw mawr.

Dechreuir y cyfnod nesaf gyda Raymond Sully a Roger Bacon, y rhai a erlidiwyd yn fawr gan y penaethiaid eglwysig a'u bod yn ceisio gosod athroniaeth yn annibynol ar grefydd; a dywedir fod Roger Bacon wedi cael ei garcharu am flynyddau lawer fel dewin. Y gŵr hwn a alwai sylw ei gydoeswyr at wybodaethau eraill heblaw duwinyddiaeth; a safai yn unigol yn ei oes am ei chwaeth at anianyddiaeth a seryddiaeth, a'r gwyddiannau anianyddol yn gyffredinol. Y ddau ŵr hyn oedd "dechreuad trydydd cyfnod yr athroniaeth ysgoleigaidd. Yr oedd rhyw anesmwythder am annibyniaeth yn amlygu ei hun ymhob man. Yr annibyniaeth hwn a ellid ei ganfod hefyd mewn athroniaeth; a bu yn achos, bob yn dipyn, i athroniaeth gael ei hysgaru oddiwrth dduwinyddiaeth drwy wanhâu a dinstrio ysgoleigiaeth (*scholasticism*).” A'r llwybr drwy ba un y dygwyd hyn oddiamgylch oedd yr un canlynol. Y mae yn ddiau fod y darlennydd yn cofio fod Plato wedi adeiladu ei athroniaeth ar yr athrawiaeth fod ein holl feddylldrychau yn *fodau*, neu yn bethau sylweddol; y mae yn cofio hefyd yn ddiau fod Aristotle yn dywedyd i'r gwrthwyneb, nad oeddynt ond enwau a roddid gan y meddwl ar berthynasau darganfodion ein synwrau. Yr athroniaeth Blatonaid ar y pwnc a elwir yn *Realism*; a'r eiddo Aristotle a elwir yn *Nominalism*. Yr athrawiaeth flaenaf oedd yr un a ffynai yn y canoloesau; ac er bod amryw geisiadau wedi bod am ei diorseddiad, eto yr oedd duwinyddiaeth y cyfnod mewn anghen o honi, ac yr oedd doctoriaid yr eglwys yn benderfynol i'w hamddiffyn, os nid â'r pin, eto gyda'r caracterau a'r cadwynau. Ond fel y mae aml donc yn sicr o chwilfriwio y gallestr, felly bu aml ergyd ar yr athrawiaeth hon yn foddion i'w malurio, ac i osod yn ei lle athrawiaeth Aristotle, yr hon a ddysgai, yn nwyllaw yr Ysgoleigwyr hyn, nad oedd dim sylweddol yn bodoli heblaw bodau ysbrydol a chorfforol; ac nad oedd meddylldrychau Plato ond enwau ar berthynasau pethau; ac nad oedd yn bosibl i'r meddwl dynol ddyfod i wybodaeth sicr am bethau ynddynt eu hunain. “Nid adwaenir Duw,” meddant, “ond drwy ei briodoliaethau; felly ni adwaenir yr enaid ond drwy ei briodoleddau.” Gwrthwynebwyd yr athrawiaeth hon yn hir, gan ddynion medrus a dysgedig; ond o'r diwedd, hi a fuddugoliaethodd yn llwyr; ac yr oedd yn naturiol iddi arwain i'r un canlyniad ag y gwnaethai gynt yn ngwlad Groeg, sef ammheuaeth. Ond, fel y sylwa Cousin, yr oedd y byd athronyddol y pryd hwnw yn anaddfed i gyfundrefn o ammheuaeth—yr oedd duwinyddiaeth a chrefydd yn rhy uchel i oddef i'r meddwl deithio yn y ffordd hono—ac y mae Dirgelyddiaeth (*Mysticism*) yn dyfod drachefn i athroniaeth, a chyda hyny y terfyna hanes yr athroniaeth ysgoleigiol, sef mewn troi i chwilio am wirionedd i rywle heblaw athroniaeth.

“Cafodd yr athroniaeth ysgoleigiol ei dydd. Yr ydych wedi gweled fel y daeth, dro ar ol tro, yn gyntaf yn weinidog gostyngedig i dduwinyddiaeth; wedi hyny yn gydradd a chydymaith iddi; ac yn y diwedd yn amcanu at fod yn rhydd, ac i ddattod, yn raddol, heb ddryllio, y rhwymau ag yr oedd wedi bod ynddynt dros chwech o ganrifoedd. Yr ydym wedi nodi y tri nodweddiad hwn yn hanes yr athroniaeth ysgoleigiol; ond nid yw yn llai gwir mai ei nodwedd cyffredinol ydyw ei hymddarostyngiad i

dduwinyddiaeth, tra y mae athroniaeth ddiweddar yn cael ei nodweddu gan ei hysgariaid llwyr oddiwrth dduwinyddiaeth. Y mae athroniaeth yr ysgolion hyn yn diweddu, gan hynny, yn nechreu y pymthegfed canrif, ac y mae athroniaeth ddiweddar yn dechreu gyda dyddiau cyntaf yr unfed canrif ar bymtheg. Y mae cyfwnng rhyngddynt—rhyw gyfnod cyfryngol—a gweddus ydyw i ni gael syniad cywir a manwl am dano."

Cymerodd lliaws o amgylchiadau pwysig le o gwmp yr athroniaeth ysgoleigaidd hyd gyfodiad athroniaeth ddiweddar, y rhai oeddynt yn dra menteisio i'r cyfnwidiad mawr, ac a effeithiasant yn fawr ar dyngهد duwinyddiaeth, athroniaeth, a gwleidiadaeth, gan fyned o dan wraidd y cyfansoddiad gwladol ac eglwysig, ac ysgwyd hyd ei seiliau atgeion yr hen athroniaeth. Dyma y pryd y cyflawnwyd y gwaith mawr o gymeryd Caercysteynyn, ac yr yspiodd Columbus dirieogaethau newyddion y cyfandir Americanaidd. Y pryd hwnw dyfeisiwyd y gelfyddyd ardderchog o argraffu; y dechreuid teimlo yr iau oedd yn gorphwys ar grefydd; ac yr agorwyd y ffordd i'r Diwygiad Protestanaidd. Daeth dosbarth newydd o drigolion i fod yn y wlad, sef y dosbarth anrhydeddus a elwir y dosbarth canol; daeth llais "y bobl" yn fwy pwysig bob dydd; yr oedd y gallu eglwysig yn ei gysylltiad â'r llywodraeth wladol yn colli ei rym; yr oedd y gwyddiannau, a gwybodaeth yn gyffredinol, yn cael eu hefyddu gyda manyldeb; yr oedd isithoedd yn dyfod yn fwy i sylw; ac yr oedd cewri yr "hen fyd" yn cael eu gwysio i lefaru wrth bobl awyddus am rywbeth newydd. "Ar ddiwedd y pymthegfed canrif," ebe Cousin, "ymddangosodd yr hen athroniaeth ymron yn gwbl. Meddiannir holl weithion Aristotle; mynir gweithion Plato; darllenir y ddau feddwl mawr hyn yn eu hieithoedd cysefin; swynir pawb, ac y maent oll yn cael eu meddwi gan yr henafiaeth rhyfeddol hwn; Platoniaeth, Peripateticiaeth, Pythagoriaeth, Epicuriaeth, Stoiciaeth, ac athroniaeth yr Academiaid a'r Alexandriaid, a ymaflant oll yn y meddwl; o'r braidd y cyfarfyddir â Christionogion mwy, ac y mae athronwyr yn brinion eu gwala. Y mae dysgeidiaeth yn gynnwysedig, i raddau mwy neu lai, mewn meddu brwdfrydigrwydd, a digon o ddychymyg; y mae efelychu yn cael ei ddwyn ymlaen mor gampus fel ag i dwyllo y mwyaf cywraïn; y mae digon o ysbryd yn ffynu, ond anfynych y cyfarfyddir âg athrylith. O'r braidd y cynnyrchodd yr unfed canrif ar bymtheg gymaint ag un dyn mawr fel athronydd—yr hwn oedd yn athronydd gwreiddiol. Yr oedd defnyddioldeb y canrif a'i genadaeth yn gynnwysedig yn hollol ymron mewn dileu a dinstrio y canol-oesau, drwy efelychu yr henafiaid, nes, o'r diwedd, yn yr eilfed canrif ar bymtheg, i ŵr o athrylith,—wedi ei goethi, mae'n wir, ond heb feddu rhyw ysgoleigod mawr—o'r enw Des Cartes, roddi bodolaeth i athroniaeth ddiweddar, a'i thynghedion dirfawr." Ond er nad oes dim mawredd athronyddol annibynol yn perthynu yn gyfiawn i'r cyfnod hwn, eto y mae yma wir fawredd hefyd—y mawredd hwnw ag sydd yn nodweddu ysbryd anfarwol yn ymgeisio at ryddhâu ei hunan o afael llyftheiriau tynion a haiarnaidd awdurdod ormesol ac anghyfreithlawn. Gellir dywedyd am y blynyddau hyn, eu bod yn gysylltiedig â'r hen athroniaeth ac â'r athroniaeth ddiweddar, yn o gyffelyb i fel yr oedd Ioan Fedyddiwr yn dal cysylltiad â'r hen oruchwyliaeth ac â'r oruchwyliaeth newydd: Rhagredegwr a pharotôwr y ffordd oedd y naill; rhagredegwr a pharotôwr y ffordd oedd y llall. Ond er bod ysbryd y cyfnod hwn mor rhagorol, eto y mae ei hanes yn dangos fod yr

anffyddiaeth waethaf wedi ei gynnyrchu ganddo—ie, y mae yr anffyddiaeth hwn yn dringo dros furiau yr eglwys, ac y mae holldduwiaeth amgyffredol, neu ynte fateryddol, yn llanw athrawiaethau y rhai a dybient eu hunain yn golofnau a sylfeini y gwirionedd, fel y mae anghenrheidrwydd yn galw am Ddiwygiad, a hwnw yn un mawr a thrwyadl.

“O'r diwedd,” ebe Macaulay, yn ei draethawd beirniadol ar Bacon, “y mae yr anser wedi dyfod pan y mae yr athroniaeth ddiiffrwyth, yr hon am gynifer o oesau oedd wedi caethiwo cynneddfau pigion plant dynion, wedi ei thynghedu i gwmpo. Yr oedd wedi gwisgo llawer gwedd. Yr oedd wedi ymgymysgu gyda llawer o gredöau. Yr oedd wedi gorfyw chwyldröadau yn y rhai y trengasai amherodraethau, crefyddau, ieithoedd, a chenedloedd. Ar ol cael ei gyru o'i thrigfanau cyntefig, yr oedd wedi cymeryd ei noddi yn yr eglwys hönö a erlidiasai, ac fel diaflaid beiddiol y beirdd, wedi ymseddu

‘next to the seat of God,
And with its darkness dared affront his light.’”

Yr ydym wedi cyfeirio yn barod at yr achosion a effeithasant i ddwyn y diwygiad mawr mewn athroniaeth oddiamgylch; ond wrth roddi ei le priodol i bob achos, yr ydym yn cael mai y prif achos oedd y Diwygiad Protestanaidd. “I'r diwygiad mawr ar grefydd yr ydym ddyledus yn benaf,” ebe yr awdwr a enwasom olaf, “am y diwygiad mawr mewn athroniaeth. Yr oedd y cysylltiad rhwng yr ysgolion a'r Vatican wedi bod mor agos am oesoedd, fel nas gallai y rhai a dafient ymaith iau y Vatican barhâu i gydnabod awdurdod yr ysgolion. O'r braidd y dyfynid unrhyw destun gan y Diwygwyr yn fynychach na'r hwn ymha un y mae yr apostol Paul yn rhybuddio y Colossiaid rhag iddynt adael i unrhyw ddyn eu twyllo drwy philosophi. Luther, ymron ar ddechre ei yrfa, a aeth mor bell ag i gyhoeddi nas gallai undyn fod ar unwaith yn fedrus yn ysgol Aristotle ac yn eiddo Crist. Zwingle, Bucer, Peter Martyr, Calvin, a gyhoeddent gyffelyb syniadau.”

Yr ydym yn awr wedi cyrhaedd y cyfnod hynotaf yn holl hanes athroniaeth. Canfyddasom athroniaeth yn cychwyn allan o dan amddiffyniad Thales, gan hönö ei hawl i annibyniaeth; ac yn cael ei noddi gan yr Ioniaid, y Pythagoriaid, a'r Eleatiaid, y rhai a'i gyasant cyn iddi deithio nemawr, i ffosydd erchyll amhneuath.

Amddiffynwyd hi wedi hyny gan Socrates, a hyfforddiwyd hi mewn dull newydd o erlyn gwirionedd, a dyrchafwyd hi yn dra uchel gan Plato, ac olrheiniwyd hi yn fanwl gan Aristotle; ond dybenodd drachefn mewn amhneuath.

Ar ol terfynu yn yr un man ddwywaith, yr oedd yn naturiol iawn i ddynion ddechreu ymholi, Pa fodd yr oedd felly? Yr oeddid wedi gofyn droion—Pa beth oedd safon gwybodaeth? Atebwyd y gofyniad ymhob modd—dywedwyd mai gwrthddrychau synwriaeth, a dywedwyd mai y syniadau cynnwynol ag yr oedd y meddwl yn wreiddiol feddiannol arnynt. Ond arweiniwyd y ddwy blaid i amhneuath. Ac yn y fan, yna wele yr athroniaeth Alexandriaidd yn dwyn yr elfen grefyddol i mewn; ac y mae y gofyniad yn cael ei enhuddo mewn dirgelwch, drwy ddywedyd mai daddguddiad dwyfol a raid fod yn safon i brofi gwirionedd ein gwybodaeth. Y mae yr athroniaeth hon yn cael ei throsglwyddo gan yr Arabiaid i Spain,

ac y mae Ysgolion y Canoloesau yn ei derbyn; ond y mae yr elfen grefyddol yn gwanhau yn raddol hyd nes o'r diwedd y mae crefydd yn cyhoeddi ei hannibyniaeth, ac athroniaeth yn cael ei rhyddhau o'i chadwynau oesol. Ac felly, y mae athroniaeth yn cael ei thraed yn rhydd i gychwyn ar daith ymchwiliadol newydd.

Onid fe allai y rhyfedda y darlennydd at ddiffwythder yr hen athroniaeth. Yr ydym wedi dywedyd ar y dechreu mai hen ystyr y gair athroniaeth oedd arddansoddiaeth; neu gwyddiant yn treiddio i achosion pethau. Ar ol cynifer o ganrifoedd, pa le y mae y gwyddiannau anianyddol, a'r celfyddydau bywyd, sydd yn ffynnu mor ragorol yn ein hoes ni? Nid oeddynt eto yn bod. "Yn flaenorol i gyhoeddiad *Novum Organum* Arg. Bacon," medd Herschell, "o'r braidd y gellir dywedyd fod anianyddiaeth naturiol yn bodoli, yn ystyr briodol ac eangaf y gair." Er nas gallwn gydweled â'r rhai a haerant yn barhâus fod yr hen athroniaeth wedi bod yn ddiffwyth *hollol*, eto y mae yn ddiammheuol nad ydyw wedi bod mor gynnyrchol ag y galleid yn rhesymol ddysgwyl iddi fod. Fel rhagflaenor i'r cnwd presennol oddiar faes y gwyddiannau naturiol, nis gellir golygu fod yr hen athroniaeth yn ddifudd; canys y mae yn cael ei chysylltu o hyd, bob yn ddolen, hyd onid yw yn cyrhaedd ein hoes ni. "Fe'n gorfodir i ddyweyd gyda Bacon," medd Mr. Macaulay "na therfynodd yr athroniaeth ardderchog hon mewn dim gwell na dadleuaeth, nad ydoedd yn winllan, nac yn dir olew-yydd, ond coedwig ddyrys o ddrain a mieri, o ba un y dygodd y rhai hyny a gollasant eu hunain ynddi lawer ysgraffiniad, ond dim ymborth." A pha beth oedd yr achos o hyn? Nid ydym yn amhheu nad oedd yr henafiaid yn golygu gyda Seneca, "nad swyddogaeth athroniaeth oedd dysgu dynion i arfer eu dwylaw," ac i ddyfeisio pethau defnyddiol gogyfer âg amgylchiadau bywyd; ond y mae rhywbeth heblaw hyna ar ei ffordd i gyrrhaedd gwirionedd; a'n gwaith ni yn nesaf fydd sylwi, yn fyr, ar hyny, a nodi yr hyn sydd wedi llwyddo cymaint ar athroniaeth ddiweddar.

CYMDEITHASAU YSWIRIANT.

WRTH sylwi ar natur yn ei gwahanol weithrediadau, neu yn hytrach ar weithredoedd y Goruchaf mewn natur, canfyddwn mai yn raddol y maent oll yn cael eu dwyn oddiamgylch. Nid oes dim yn dyfod i berffeithrwydd ar unwaith. Y mae y fesen yn cael ei phlanu yn y ddaear, ond nid yn fuan y gwelir hi yn dderwen frigog, gadarn; nage; ond yn gyntaf canfyddir y blaguryn egwan, wedi hyny y gangen eiddil, ac yn raddol, wedi amser maith, y goeden nerthol, alluog i wrthsefyll effeithiau difaol elfenau natur am oesoedd lawer. Yn gyffelyb y gel ir dywedyd am ein hymborth cyffredin. Mae yr hâd yn disgyn i'r ddaear, yn tarddu allan yn egin gwanaidd, wedi hyny yn dywysenau, ac yna yr yd llawn ac addfed yn y dywysen, parod i'r cryman. Mae yr un ddeddf i'w gweled yn amlwg yn y byd anifeilaidd,

meddyliol, a chymdeithasol. Mae dyn ar y cyntaf yn cael ei omi yn faben dinerth, yn dibyn yn gwbl ar garedigrwydd rhai eraill, a rhaid iddo wrth ymborth ac ymgeledd am faith flynyddoedd cyn cyrhaedd maintioli ac oedran gŵr. Yn gyffelyb i hyn y mae gyda golwg ar ei feddwl hefyd. Ar y cyntaf, er fod ynddo gymhwysder naturiol i dderbyn addysg, nid yw ond hollol anwybodus. Yn raddol y mae ei feddwl yn ymagor; ac wedi llawer o drafferth i'w ddsygu, ac ymrôad penderfynol o'i eiddo ei hunan, y cyrhaedda y wybodaeth hōno mewn unrhyw wyddor ag a'i hynoda ymhlith ei gyd-ddynion, ac a'i gesyd ar dir manteisiol i fod o ryw wasanaeth yn ei oes. Y mae yr un ddeddf yn amlwg yn y byd cymdeithasol. Yn araf iawn y mae cynnydd wedi ac yn bod mewn cymdeithasau o wahanol natur. Os tafiwn ein meddyhiau yn ol am ond ychydig oesoedd, cawn nad oedd yn y deyrnas hon ond ychydig wedi eu sefydlu o'r cymdeithasau daionus sydd yn britho ein gwlad y dyddiau hyn. Ychydig awydd oedd am danynt, ac amcan at eu fuffio. Nid oes dim yn arddangos cynnydd cenedl yn amlycach na nifer a natur ei chymdeithasau; maent yn fynegiadau cywir o'i hansawdd gymrawdol (*social*) a chrefyddol. Mae yn debyg y gallir dywedyd, heb ofni gwrthwynebiad, nad oes yr un wlad ar wyneb y ddaear y mae y fath gynnydd wedi bod yn ei chymdeithasau yn ystod y can' mlynedd diweddaf, a'r wlad hon. Eto, graddol iawn y bu y cynnydd hwnw; cyffelyb, mewn ystyr, i dyfiant y goeden, neu brifant y plentyn. Ond y mae Prydain erbyn hyn wedi cyrhaedd enwogrwydd mawr trwy amledd ei sefydliadau, a'r daioni anamgyffredadwy sydd yn cael ei gyflawni trwyddynt. Collai ein gwlad ei mawredd pe darfyddai ei Chymdeithas Fiblaid Gartrefol a Thramor, ei Chymdeithasau Cenedol, Llênnyddol, a Chelfyddol, ynghyda lliaws o rai eraill. Mesurir maint dylanwad unrhyw genedl, yn gystal arni ei hun ac ar genedloedd neu wledydd eraill, yn ol amlder ac ansawdd ei sefydliadau.

Yr ydym am alw sylw ein darllenwyr yn bresennol at Gymdeithasau Yswiriant. Mae y sefydliadau hyn yn lled ddyeithr yn Nghymru, ac nid yw sylw ein cydwladwyr hyd yma wedi ei ddwyn yn gymaint ag y dylesid i ystyried y pwys a'r gwerth sydd yn perthyn iddynt. Ein hamcan, gan hynny, ydyw gwneyd i fyny mewn rhan am y difaterwch a fu, gan hyderu y dichon hynny fod yn effeithiol i ddwyn aml un sydd hyd yn hyn heb ystyried dim am y dull cyffus hwn o ddarparu i'w deulu, i ganfod mor rhwydd y gall wneuthur hynny.

Mae Cymdeithasau Yswirol yn gynnwysedig o dri dosbarth, sef, Cymdeithasau Morawl (*Marine*), Tânawl (*Fire*), a Bywydawl (*Life*). Wrth y rhai cyntaf y meddylir cymdeithasau lle y mae llongau, yn gystal a'u llywthan, yn cael eu diogelu, er mwyn digolledu eu perchennogion yn ngwyneb unrhyw anffawd a allai ddygwydd iddynt ar y môr. Yn hytrach nag anturio ei eiddo heb yn gyntaf ei ddiogelu, mae pob perchennog doeth yn yswirio ei lestr, ynghyda'i chynnwysiad, cyn iddi ymadael o'r porthladd, am bob mordaith a gymer. Os bydd y fordaith yn llwyddiannus, mae y perchennog yn colli yr arian a dalwyd am y diogeliad, yr hyn, yn gyffredin, a gyfrifir yn ol ym maint y cant; ond pe dygwyddai i'r llong gollu, derbyniai y swm y byddai wedi ammodi am dano, ac felly cai ei gwbl ddiogolledu er i'w lestr a'i llywth suddo yn y dyfnder. Wrth yr ail ddosbarth a enwyd y meddylir, cymdeithasau i ddiogelu eiddo ar y tir, tai, dodrefn, &c., rhag tân. Mae hyn eto yn cael ei wneyd trwy dalu swm penodol fel arbrid

(*premium*) am bob can' pant a ddiogelir; a phan y dygwydd, trwy ryw anffawd, i'r eiddo gael ei losgi, derbynir gan y colledwr yr hyn y byddo wedi cyttuno am dano gyda'r gymdeithas. Wrth y trydydd dosbarth y meddylir cymdeithasau oes-yswariant, gyda'r rhai y gall dyn sicrhau i'w deula swm penodol i'w dderbyn ar ei farwolaeth, trwy iddo yntau dalu i'r gymdeithas, bob blwyddyn y byddo byw, ar ol y cyttundeb, yr arbrid gofynol. Gellir talu yr holl arbrid mewn un swm, neu mewn nifer penodol o daliadau, ac ar ol hyny ni ofynir dim yn ychwaneg gan yr yswirydd am y gweddill o'i oes.

Y cymdeithasau cyntaf a sefydlwyd ydyw y rhai morawl. Nid oes sicrwydd pa amser, nac ymhlith pa genedl, y cafodd yr arferiad hwn ei ddechreuad. Priodola rhai hyny i'r Rhodiaid, tua mil o flynyddau cyn Crist; ond nid yw yn ymddangos fod yr un hanes y gellir ymddiried ond ychydig i'w gywirdeb am hyny. Yr oedd gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid arferiad a elwid *Bottomry* or *Respondentia*, lle yr oedd perchennog y llong neu ei llwyth yn benthycu swm ar *bottomry* am y fordaith. Ystyr yr hyn a feddylir wrth *bottomry* ydyw llong-wystl, neu, fel y dywed un ysgrifenydd, "fod y llong yn cael ei gwystlo am iawn-daliad dyled a fenthycid arni—nad oedd gan yr echwynwr hawl i gymeryd meddiant o'r llestr hyd nes y byddai ystod parhâd y ddyled wedi myned heibio, nac wedi hyny ond yn unig trwy gyfryngiad y Môrllys (*Admiralty Court*). Os na thelid y ddyled erbyn yr amser y cyttunasid arno, yr oedd y benthycwr at ei ryddid i apelio at y Môrllys, gan yr hwn yr oedd yr awdurdod i orchymyn gwerthu y llong i dalu y ddyled." Yr oedd amryw bethau yn cael eu cymeryd i ystyriaeth, yn y cyttundeb, yn gyffelyb i'r dull presennol o yswirio llongau. Y dyb fwyaf crediniol ydyw mai y Lombardiaid oedd yr Ewropëaidd cyntaf a arferasant yswirio rhag colledion ar y môr, ac mai oddiwrthyt hwy y disgynodd yr arferiad i ni. Ymddengys mai yn y flwyddyn 1648 y ceir yr hysbysiad cyntaf yn y deyrnas hon am yr arferiad dan-sylw, mewn llythyr a ysgrifenydd gan y Nojdwr Somerset i'w frawd, yr Arglwydd Lyngeswr (*Lord Admiral*); ac yr oedd hyny yn bur hysbys erbyn y flwyddyn 1668, fel y gellir casglu oddiwrth araeth a draddodwyd gan yr Arglwydd Geidwad Bacon. Y ddeddf gyntaf a wnaed ar y mater oedd yn 1601, yn yr hon y dywedir fel y canlyn,—“Gweithred berthynol i faterion yswiriant ymhlith marsiandwyr: Y mae wedi bod yn arferiad er yn fore gan farsiantdwy, yn y deyrnas hon a gwledydd eraill, pan yn gwneyd anturiaeth fawr, yn enwedig i barthau pellenig, roddi rhyw gymaint o arian i eraill, er mwyn cael oddiwrthyt hwy ddiogelfa i'w dâ, eu llongau, a phethau eraill a antarid, neu i ranau o honynt, yn ol y pris a'r modd y byddo y diogelwyr, a'r rhai a ddiogelid, yn cyttuno; yr hyn a elwir yn gyffredia yn weithred o yswirio, trwy ba foddion y mae dyn yn cael ei ddiogelu rhag colled pe dygwyddai i'w long suddo neu gael ei dryllio; mae y golled felly yn disgyn yn ysgafu ar lawer, yn hytrach nag yn drwm ar ychydig, ac yn hytrach ar y rhai nad ydynt yn anturio na'r rhai sydd yn gwneuthur hyny.” Daeth môrawl-yswariant, o'r amser y cyfeiriwyd ato, yn beth cyffredin yn y deyrnas hon; ac y mae yn debyg nad oes neb, erbyn hyn, mor annoeth ag anturio ei eiddo i drugaredd y tônau heb yn gyntaf ei ddiogelu trwy yswiriant. Y mae rhai yn hunan-yswiriad, sef perchennogion nifer mawr o llongau; mae yn dyfod yn rhatach iddynt hwy golli llong weithiau yn hytrach na thalu yr arbrid gofynol am yswiriant.

wirio yr oll a feddant. Fel y galleid dysgwyl, y mae llawer o welliant wedi cymeryd lle yn yr arferiad dan sylw, yn nognedd (*rate*) yr arbrid a ofynir gan y gwahanol gymdeithasau. Y mae hyny yn ymddibyni ar amryw ystyriaethau; megys, oedran y llong, natur ei llwyth, y lle y cyfeiria iddo, medrusrwydd y cadben, &c. Y mae llawer o sefydliadau wedi eu ffurfio er mwyn yswirio llongau a'u llwythau; ond gyda'r Digoll-iannwyr (*Underwriters*) yn "*Lloyds*" y mae y mwyaf o lawer o hyny yn cael ei ddwyn ymlaen, y rhai sydd yn gwneyd elw da trwy yr arferiad.

Yn lled ddiweddar y dechreuodd yr arferiad o ddiogelu eiddo rhag tân. Y gymdeithas gyntaf a sefydlwyd i'r perwyl hwn ydoedd yr "*Hand-in-Hand*," yn y flwyddyn 1696. Yn gynnar yn y ganrif ddilynol, ffurfiwyd amryw gymdeithasau newyddion i'r un dyben; ac y maent erbyn hyn wedi lliosogi yn fawr. Y mae yn anhawdd gwybod faint o lês sydd wedi deilliaw trwyddynt. Ystyrir fod gwerth tua mil o filiynau (£1,000,000) o eiddo yn y deyrnas hon a'r Iwerddon yn yswiriedig; ond nid yw hyny ond tua'r drydedd ran o'r hyn a ellid, ac a ddylai gael, ei ddiogelu trwy gyfrwng y gymdeithasau hyn. Wrth ystyried y rhwyddineb sydd i ddiogelu eiddo, a'r taliad isel a ofynir am hyny, gresyn meddwl fod cymaint yn ymwrthod â'r arferiad, a thrwy hyny yn gosod eu hunain yn agored i gollu yr oll, fe allai, a feddant, yr hyn, yn wir, sydd yn dygwyrdd yn aml, fel y gellid yn hawdd dwyn lliaws o enghreifftiau i brofi, pe byddai anghen am hyny.

Wedi sylwi ychydig ar y ddau ddsbarth cyntaf a enwyd, awn ymlaen at y trydydd, sef cymdeithasau bywydawl. Y gymdeithas gyntaf a sefydlwyd er mwyn bywyd-yswiriant oedd yr *Amicable*, yr hon a ffurfiwyd yn y flwyddyn 1706. I un Lorenzo Tonti, gŵr o'r Ital, y priodolir yr eglurhâd cyntaf a wnaed ar yr egwyddor ar ba un y mae y cymdeithasau hyn yn sylfaenedig. Tua chanol yr eilfed ganrif ar bymtheg, aeth Tonti i Paris; ac yn wyneb prinder arian yn Ffrainc, fe gynnygiodd gynllun i'r Llywodraeth er mwyn cyfarfod yr anghen, yr hyn oedd trwy fath o gymdeithas blwydd-daliadol (*annuity association*). Ymunodd nifer o bersonau, heb yr un gwahaniaeth yn eu hoed, i gyfranau swm penodol yn flynyddol, er mwyn ffurfio sawdd (*fund*) gyffredinol; ac ar ddiwedd pob blwyddyn, yr oedd y llôg a ddeilliari oddiwrth y cyfraniadau yn cael ei ranu rhwng yr aelodau. Fel y byddai rhai o'r aelodau farw, yr oedd yr oll o'r llôg yn cael ei ranu bob blwyddyn rhwng y gweddill, hyd y diweddaf oedd yn fyw; ac wedi marw yr olaf, ai yr arian yn eiddo i'r llywodraeth, neu at wasanaeth y goron, yn y cymdeithasau cyntaf a sefydlwyd. Y personau a fyddent byw hwyaf, fel y gwelir, a dderbynient symiau mawrion; ond ychydig yr oedd y llawer, ar y dechreu, yn ei gael. Yn y Tontine (cans dyna fel y gelwid y cymdeithasau hyn, ac y gelwir hwy hyd yn bresennol) a barhâodd o'r flwyddyn 1689 hyd 1696, yr oedd gwraig o'r enw Charlotte Bormemay, gweddw un Lquis Barbier, meddyg yn Paris, wedi goroesi yr holl aelodau eraill; ac o herwydd hyny, yr oedd y blwydd-daliad diweddaf a dderbyniodd yn £3,600, a hyny am ond oddeutu £30 a anturiwyd ganddi ar y cyntaf.

Yr oedd y sefydliadau hyn ar y dechreu yn hynod o amherffaieth, ac felly, ar ryw ystyr, yn annhêg i lawer o'r aelodau; ond yn raddol daethant i gael eu ffurfio ar delerau mwy cywir. Ar y cyntaf, nid oedd oedran yr aelodau wrth eu derbyn i mewn yn hysbys, na'r un gwahaniaeth yn cael ei

wnaeyd-yu y swm a delid i blantyn deg oed. ragor heu wr tringain oed; ac nid oedd ychwaith un cofrestr yn cael ei gadw o oedrau yr aelodau pan yn ntarw. Gwellawyd y diffygiadau hyn yn raddol, a daethant i gael eu ffurfio yn ei heol a chywardb; ac er mor ddiffygiol oeddynt yn y dechreu, cafwyd yadddynt egwyddlor sydd wedi ymwaithio allan yn rhyfedd ac yn berffaith erbyn hyn. Nid llawer o *Tonnes* sydd yn cael eu sefydlu yn y dyddiau hys, er y buont unwaith, yn bur gyffredin mewn gwahanol wledydd ar y Cyfandir yn gystal ag yn y wlad hon. Defnyddid hwynt gan y llywodraeth i foshyca, neu, yn hytrach, i godi arian i amcanion neilldrol, ac yr oedd yr ad-daliad yn cael ei wneyd trwy daliadau penodedig, megys, bleydd-dalion, yr hyn oedd gyanwysedig mewn rhan o'r cynon (*principal*), sef yr arian a gyfransid ar y dechreu, a'r llôg, ac yn parhau hyd farwolaeth yr holl aelodau. Yr oedd y sefydliadau hyn yn cael eu defnyddio yn fwy cyffredin fel moddion masnachol, na ehan y llywodraeth. Fel enghraifft o'u natur, gellid hysbyeu fod heol yn Liverpool, a elwir *Colquhoun Street*, wedi ei phwynu yn y ffordd hon. Ymmodd cant o bersonau i gyfrannu can punt yr un, ya gwneyd y cyfanswm o ddeng mil o bunnau (£10,000). Yn phreawyd y tir, ac adeiladwyd tai amg, ac yr oedd yr ardrefhi yn cael eu rhannu rhwng y cyfrannwyr; ac wedi marw un, yna rhwng y gweddill; ac felly hyd nad ydoedd wedi eu gadael yn fyw namyn dau, a'r gweddill o'u cant wedi syrthio i'r bedd, pan y gwased gweithred, ac y gwerthwyd yn eiddo, ac y tharwyd y cynnyrch rhwng y ddau glaf. Y mae yn werth sylw fod math o gymdeithasau yn bod yn y deyrnas hon, ymhell ayn amser William y Gorchfygar, yn 1066, yn hynod debyg yn eu natur i'r gymdeithasau darvoudus neu gyfeillgar, yn y dyddiau presennol. Mae Mr. Ansell mewn trathawd ar Gymdeithasau Cyfeillgar (*Friendly Societies*), i wedi rhoddi ychydig o reolau oedd yn perthyn i un o'r sefydliadau hys yn Nghaergrawnt (*Cambridge*), ac un arall yn Nghaerwysg (*Exeter*). Rhoddwynt i enghreifftiau o honnynt:—"Pan byddo marw aelod, sef i hebyrnyg ef gan yr oll o'r aelodau i'r man y byddo wedi dewis cael ei gladdu; a rhaid i bwy hynaf at yr aelod, oddigerth i hwnw fod ei gymydog nesaf ef; ac os esgeulusa y goruchwyliwr, roddi cymhorth iddo, rhaid iddo forffedu un bunt (gwerth £3. 1s. 11c. o'n harian ni), &c. "Os bydd i ryw aelod farw, neu syrthio yn glaf, ac yntau oddicartref, rhaid i'w gyd-aelodau anton i'w geisio, naill ai yn farw neu yn fyw, i ba le bynag y byddo wedi ei ddewis, neu ynte byddant yn agored i'r dirwy penodedig; ond os bydd i aelod farw gartref, rhaid i bob aelod nad a i gyrchu ei gerff, a phob un a absennol, ei hun o'i angladd, forffedu *sextarium* o fel." Yr oedd rheolau y Gymdeithas yn Nghaerwysg yn gyffelyb i'r rhai blaenorol: dysyppwn un o honnynt fel enghraifft,—"Pan y byddo unrhyw aelod yn myned ar lled, oddicartref, mae yn debyg, a feddylir, rhaid i bob un o'i gyd-aelodau gyfrannu pum ceiniog; ac os dygwyydd i dy neb o'r aelodau fyned, er dan rhaid i bob un o'r lleill gyfrannu un geiniog." Yr oedd ceiniog o'u harian hwy yn werth tair o'n ceiniogau ni. Ceir fod rheolau cymdeithas a elwid *St. Catherine's Guild*, neu Frawdoliaeth St. Catherine, a ffarwyd yn Nghaer-

Wembyr (*Coventry*), yn amser teyrnasiad Edward y Trydydd, yn bur debyg i reolau a arferir gan gymdeithasau yr amser presennol. Y maent fel y canlyn,—“Os bydd i aelod ddyoddef oddiwrth dân, dwfr, lladrad, neu ryw ddrygyf arall, rhaid i'r frawdoliaeth roddi benthg swm o arian iddo yn ddi-lôg.” “Os bydd yn wael, neu yn fethedig drwy henaint, bydd iddo gael ei gynnal gan ei frawdoliaeth yn ol ei sefyllfa.” “Y rhai a fyddant farw yn dlawd, ac yn analluog i gael claddedigaeth, a gloeddir ar draul y frawdoliaeth.”

Yr amcan mewn golwg genym, wrth roddi y dyfyniadau blaenorol, ydoedd dangos mai nid arferiad diweddar ydyw ymfurfiad nifer o ddynion ynghyd er mwyn gwasanaethu dybenion neillduol, ond fod hyn yn arferedig pan nad ydoedd masnach ond megys yn ei mabandod, ac ansawdd y trigolion yn lled anniwylledig ac anwybodus, wrth ei gymharu âg ansawdd y trigolion yn y dyddiau hyn. Er mai yr egwyddor Tontinaidd, yn ddi-ammheu, ydoedd gwreiddyn dechreuol y cymdeithasau *bywydawl*, nid oedd gan Tonti, yn ol pob tebyg, yr un drychfeddwl y buasai y fath effeithiau yn tarddu o'r hyn, ar y cyntaf, a ymddangosai yn fwy fel *lottery* na dim arall. Yn bur raddol yr oedd yr egwyddor yn gweithio ei ffordd ymlaen, eto yr oedd y naill sefydliad yn fwy eywir na'r un blaenorol, ac o'r diwedd dechreuwyd cadw cofrestrau o oedran pob aelod, pa hyd y byddai byw, a nifer ei ddyddiau pan yn marw. Yn y modd hyn y casglwyd defnyddiau er ffurfio tafeni i ddangos gwerth, neu debygolrwydd parhâd, bywyd dyn, yr hyn yw y cam cyntaf yn egwyddor oes-yswariant. Nid oedd eto ddigon o ddefnyddiau wedi eu casglu i ymddibynu arnynt; ond tua y rhan olaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg, darfu un dinesydd yn Llundain, o'r enw John Graunt, amcanu perffeithio cynllun oedd mewn arferiad er y flwyddyn 1603, ac a ddefnyddid i'r dyben i ddangos nifer wythnosol y marwolaethau yn y ddinas. Achlysurwyd y cofrestrau hyn trwy ymweliad mynych y pla â thref Llundain yn y ganrif hòno, a'u hamcan cyntaf oedd cael allan nifer y marwolion a gymerid ymaith gan y pla. Ysgifenwyd llyfr gan Graunt, yn 1662, fel sylwadau ar y cofrestrau a enwyd, yr hwn a ystyrir y llyfr cyntaf a wnaed ar oes-ddygwyddiadau (*life contingencies*). Ysgrifenwyd llyfr cyffelyb gan Syr William Petty, yn 1674, fel sylwadau ar gofrestrau marwolaethau yn Llundain a Dublin; a ffurfiwyd taflen ganddo yn arddangos gwerth bywyd (dealer mai mewn ystyr fasnachol yn unig yr ydym yn son am werth bywyd). Yn gymaint a bod y daflen a nodwyd wedi ei ffurfio oddiwrth farwolaethau yn Llundain a Dublin yn unig, nid oedd yn addas i'w defnyddio yn gyffredinol, am ei bod yn arddangos gwerth bywyd mewn trefydd bychain, ac ar hyd y wlad, yn llai nag ydoedd; er hyn y'r oedd yn ychwanegiad gwerthfawr at y wybodaeth brin a feddiennid y pryd hyn y'r wyddor oes-ddygwyddiad.

Yn y flwyddyn 1693, ffurfiwyd taflen gan yr enwog Dr. Halley, yn arddangos pa nifer o bersonau a ddysgwyldid fyddai farw bob blwyddyn allan o nifer o blant a gymerid, oll yr un oedran. Cyfansoddwyd y daflen hon o gofrestrau marwoldeb am bum' mlynedd, o 1687 hyd 1691, yn Breslau, prifddinas Silesia, yn Germany. Dyma y daflen marwoldeb (*table of mortality*) gyntaf a gyfansoddwyd, yr hon a fu o fawr ddefnydd er hyrwyddo a chywiro egwyddor bywyd-yswariant. Bu cyhoeddiad y daflen a enwyd uchod, gan Dr. Halley, yn foddion i ddwyn sylw amryw bersonau enwog, megys Simpson, De Moirre, Kerseboom, De Parcieux, ac eraill, at wyddor

oes-ddygwyddiad, y rhai a ysgrifenasant yn lled helaeth ar y pwnc, ac a wellasant lawer arno trwy eu hymchwiliadau. Cyhoeddwyd, yn y flwyddyn 1738, daflen marwoldeb gan M. Kerseboom, o gofrestrau nifer mawr o flwydd-dalogion (*life annuitants*) yn Holland a West Friesland, a gadwyd am tua 125 neu 130 o flynyddau cyn dyddiad y cyhoeddiad. Yn 1746, cyhoeddwyd hefyd daflen gan M. Des Parcieux yn Ffrainc, a gyfansoddwyd ganddo o gofrestrau aelodau (*nominees*) y *Tontines* yn y deyrnas hono, yn gystal ag o gofrestrau marwolion o wahanol dai crefyddol. Yn gymaint a bod y daflen a gyfansoddwyd gan Dr. Halley, yr hon a ddefnyddid ar y cyntaf yn y wlad hon, wedi ei sylfaenu ar nifer y marwolion yn Breslau, a hyny am ond pum' mlynedd, teimlwyd nad oedd llawer o ymddiried i'w roddi ar gywirdeb y casgliadau, ac y gallasai fod gwahaniaeth mawr yn neddf marwoldeb yn y deyrnas hon. Darfu i Thomas Simpson, gan hyny, yn 1742, gyhoeddi taflen marwoldeb a ffurfiad ganddo o gofrestrau marwoldeb yn Llundain am ddeng mlynedd, o 1728 hyd 1737. Nid oedd y daflen hon ychwaith yn gyfaddas i'w defnyddio yn gyffredin, am mai ar farwolaethau yn Llundain yn unig yr oedd yn sylfaenedig; a darfu i Dr. Price,* yn 1771, gyhoeddi taflen marwoldeb a ffurfiad ganddo o gofrestrau marwoldeb a gadwesid yn nhref Northampton am 36 o flynyddau, o 1735 hyd 1770; ac yn 1783, ffurfiodd daflen arall o nifer y marwolaethau a gymerasant le yn yr un dref am 46 o flynyddau, sef o 1735 hyd 1780, yr hon oedd yn llawer cywirach na'r gyntaf. Gwnaed trwy hyn ddiffyg mawr i fyny, oblegid teimlwyd fod defnyddiau cymhwys wedi eu cael, ac y gellid rhoddi pob ymddiried ynddynt.

Y ddwy elfen bwysig ar y rhai y mae cymdeithasau oes-yswiriant yn sylfaenedig, ydyw llôg a thebygoldeb (*interest and probability*); neu, mewn geiriau eraill, yr elfenau a gysoddir wrth ffurfio yr arbridion a ofynir gan y sefydliadau hyn. Wrth lôg y meddylir taliad am fenthyc arian, ac a gyfrifir yn ol cymaint y cant am flwyddyn. Mae un dyn yn benthycu swm o arian gan arall trwy ammodi i dalu pum' punt, mwy neu lai, bob blwyddyn am hyny, hyd nes byddo yr arian wedi eu had-dalu. Weithiau telir y llôg yn amlach nag unwaith yn y flwyddyn, megys bob chwech neu dri mis, yn ol fel y byddo y cyttundeb. Gelwir hyn yn llôg unigol (*simple interest*), am fod y cyttundeb fel yn ail ddechreu bob blwyddyn, a'r swm a fenthyciwyd yn parháu yr un. Ond pan y byddo y llôg, yn lle cael ei dalu pan y byddo yn ddyledus, yn cael ei chwanelgu at y cynswm (*principal*), a llôg yn cael ei dalu am y cyfanswm, mae hyny yn dyfod yn adlôg (*compound interest*); ac y mae y cynswm felly yn mwyhâu bob blwyddyn. Mae swm a roddir allan ar adlôg yn cynnyddu yn gyflym, ac mewn ychydig flynyddau yn dyblu ei hun, yn enwedig os bydd dogonedd y llôg yn uchel. Gellir ystyried llôg yn gyfansoddedig o ddwy ran, sef, yn gyntaf, yr hyn a ganiateir am wasanaeth y swm a fenthycier; ac yn ail, taliad am yr antur o'i gollu, yr hyn sydd yn gyfreithlawn i bob dyn wrth roddi ei arian allan ar lôg.

* Cymro oedd y Paroh, Richard Price, L.L.D., F.R.S. Ganwyd ef yn Tynton, Sir Forgawg, yn 1723, a bu farw yn 1791. Collodd ei dad a'i fam pan yn lled ieuanc. Aeth yntau i Lundain pan yn 17 oed, lle y derbyniodd y rhan olaf o'i addysg. Ysgrifnodd amryw o lyfrau gwerthfawr; ond y rhai sydd wedi anfarwoli ei enw ydyw ei Sylwadan ar Daliadan Olffeddiannol (*Observations on Reversionary Payments*), a'i waith ar Flwydd-dalio, Yswiriannau, Foblogaeth, &c., a'r Ddyled Wladol. Buasai yn dda genym pe buasai syniadau y Cymro dysgedig hwn am grefydd yn fwy efengylaidd.

Wrth debygoiddeb yd gyfylltiadig a'r cymdeithasau llan sylw, y meddylir y tebygolwydd y bydd cynifer o bersonau, allan o nifer penodol, farw bob blwyddyn. Nid prophwydo nifer y rhai a fyddant byw ymhen cymhaint o flwyddau; a phwy, yn y oylfamer, a gymerir ymstith gan angen, a feddylir wrth "debygolwydd marwolaeth" (*probability of death*); ond *dysgwyliad* ydym gyda golwg ar yr hyn sydd i gymeryd lle, yn sylfaenedig ar yr hyn sydd wedi dygwydd eisoes, sef y hydd parhâd bywyd corff o ddyntion, mewn unrhyw amgylchiadau, yn lled debyg i'r hyn y bu gyda dynion eraill a faont byw mewn cyffelyb amgylchiadau. Amlyg yw fod deddf yn perthyn i bob peth mewn natur, ac nad oes y fath beth yn bod a'r hyn a elwir *dam-wain*; sef, dygwyddiad heb un achos iddo, na rheawm a ellir roddi drosto. Os meddyliwn am y gwlaw, sydd yn ymddangos yn disgyn ar y ddaear yn gwbl ddirael, byddai yn anhawdd gan lawer gredu ei fod yn gweithredu yn of un math o ddeddf, oblegid eu bod yn ei weled ya fynoh yn disgyn ar un gymydogueth, ac un arall lled agos ati heb dderbyn yr un dyfaryn en ya wythnosau; ond ceir, er hynny, fod deddf i'r gwlaw, a bod agos yr un faint yn disgyn ymhob air neu wlad y naill flwyddyn ar ol y llall. Gellid rhagddywedyd yn lled gywir, oddiwrth yr arsylwadau a wnaed yr ychydig flwyddau diweddar, pa sawl modfedd o wlaw a ddisgys yn y deyrnas hon y flwyddyn ddyfedol. Y mae deddf hefyd yn perthyn i rathridau y gwyr a chyfodiad ymhwydd y môr, ya hen sydd yn amlwg trwy ei heffeithiau, oblegid y mae agos yr un nifer o longau ya snâdo, ac yn bael eu dryllio, y naill flwyddyn ar ol y llall, fel ag y gellid rhagysbysu, heb gyfeiliorni ond ychydig, pa sawl llestr a llwyth a gollir y flwyddyn nesaf. Hynny sydd yn galluogi cymdeithasau i benderfynu maint yr arbrid am yswirio llong a'i chynnwysiad, ynghyda'r ystyriaethau eraill a nodwyd eisoes. X mae nifer y tânau sydd yn cymeryd lle o flwyddyn i flwyddyn agos yr un; i.e. mae y nifer sydd yn dygwydd mewn unrhyw fis o un flwyddyn, agos yr un faint ag a ddygwydd yr un mis mewn blwyddyn arall. Ychydig, yn wir, o wahaniaeth sydd rhwng y dygwyddiadau hyn y naill wythnos ar ol y llall, gan mor reolaidd y maent yn tori allan, yn enwedig mewn trafydd mawrion fel Liverpool neu Llundain. Dengys y daflen ganlynol nifer y tânau a ddygwyddasant ya Llundain mewn deng mlynedd, o 1836 hyd 1846,—

	1836	1837	1838	1839	1840	1841	1842	1843	1844	1845
Tânau...	564	591	588	584	621	696	769	749	762	707

Y cyfan ynghyd ya 6681; yr hyn a rydd, fel canolrif blynyddol (*yearly average*), 668.1. Canfyddir, oddiwrth y daflen uchod, mai ychydig yw y gwahaniaeth rhwng nifer y tânau y naill flwyddyn ar ol y llall. Nid cant sydd yn dygwydd un flwyddyn, a mil y nesaf; ond y mae cyfartaledd mawr rhwng y naill a'r llall. Mae y cynnydd yn y rhif yn y gwahanol flwyddau yn beaf yn effaith y cymydd sydd wedi bod ar y draf, yn nifer y tai y cynneuir tân ynddynt.

Dengys y daflen ganlynol ymhellach y cysondeb sydd yn y dygwyddiadau hyn, wrth gymharu nifer y tânau a gymerasant le bob mis yn Llundain yn ystod y deng mlynedd a nodwyd,—

Mia.	1836	1837	1838	1839	1840	1841	1842	1843	1844	1845	Cyf-an.	Canol-rif.
Ion...	56	34	63	43	60	59	65	73	59	66	583	53.9
Chwef.	41	89	44	46	50	68	55	57	66	69	535	53.5
Maw...	46	58	49	41	39	63	64	58	54	68	860	56.0
Ebrill.	43	31	37	46	55	59	57	55	56	50	469	48.0
Mai...	57	48	45	50	45	56	64	56	66	45	529	52.1
Meh...	39	44	47	45	62	50	71	50	65	66	539	53.9
Gorph.	55	47	84	42	54	45	73	56	69	53	528	52.8
Aws...	36	43	50	59	68	68	78	81	61	47	585	58.5
Medi...	43	39	50	44	54	51	51	78	62	59	522	52.2
Hyd...	44	41	54	51	43	67	68	52	59	64	543	54.3
Tach.	47	37	50	53	55	63	68	61	55	52	541	51.1
Rhag...	58	40	45	59	70	52	55	75	90	77	627	62.7

Rhydd y daflen uchod ganolrif y tânau a ddygwyddasant bob mis agos yn 55, ac nid yw y gwahanfaeth rhwng y rhif hwn am yspaid y deng mlynedd, a'r canolrif misol mwyaf a gymerodd le, ond *sait*, a hynny yn mis Rhagfyr, pryd, yn gyffredin, y mae mwy o dânau yn dygwydd na'r un amser arall o'r flwyddyn, ac a achosir trwy fod mwy o dân a chanwyllau yn cael eu llosgi, ac o herwydd, fe allai, y gloddesta a'r difyrwch sydd yn cymeryd lle tua'r Nadolig.

Er mwyn ymhellach arddangos mor reolaidd y mae tânau yn tori allan, ni a ddoewn ger bron y daflen ganlynol, sydd yn cynnwys y nifer a ddygwyddodd bob dydd o'r wythnos yn Llundain am yspaid y deng mlynedd a nodwyd,—

Dydd.	1836	1837	1838	1839	1840	1841	1842	1843	1844	1845	Cyf-an.	Canol-rif.
Ion...	76	70	81	82	101	109	111	119	97	100	946	94.6
Maw...	78	75	87	97	106	103	132	100	119	108	1003	100.3
Mer...	87	79	91	78	96	94	112	113	102	118	985	98.5
Lau...	80	74	81	87	107	80	95	99	130	94	927	92.7
Gwe...	91	66	84	73	86	107	108	110	96	98	924	92.4
Sed...	74	61	67	99	103	101	106	111	118	95	985	98.5
Sul...	89	76	77	63	82	102	105	97	100	99	881	88.1

Rhydd y daflen hon ganolrif y tânau a gymerasant le bob dydd o'r wythnos yn 94, yr hyn nid yw ond chwech yn llai na'r canolrif dyddiol uchaf yn ystad y deng mlynedd, sef dydd Mawrth; ac nid yw ychwaith ond chwech yn fwy na'r canolrif isaf, sef, dydd Sul. Cymerwyd y taffem blaenorol allan o draethodyn bychan a ysgrifoswyd gan Mr. W. E. Hillman, yn 1847.

Heblaw y cysondeb sydd yn nifer y tânau, wrth gymharu y naill flwyddyn â'r llall, neu y naill fis â'r llall, y mae cysondeb mawr yn ansawdd yr adeiladau ag sydd yn fynychaf yn cymeryd tân, megys pob-dai, tafarndai, &c. Heb ymhelaethu ymhellach ar y mater hwn, gwelir fod deddf yn perthyn i'r hyn, ar y cyntaf, sydd yn ymddangos mor ddamweiniol a difreftn â nifer y tânau sydd yn dygwydd, ac felly mai nid anhawdd ydyw.

gwneuthur amcan-gyfrif pa nifer sydd yn debyg o gymeryd lle yn flynyddol, yn ol yr hyn sydd wedi dygwydd, a thrwy hyny benderfynu maint yr arbrid sydd yn ddigonol i ateb i'r hap a gymerir gan y cymdeithasau hyn. Nid yr un arbrid a ofynir am bob math o hap, oblegid y mae llawer mwy o berygl i dân ddygwydd mewn rhai tai nag eraill, yn ol natur y fasnach a ddygir ymlaen ynddynt, neu y nwyddau a gedwir ynddynt. Yr arbrid isaf sydd am ddiogelu tai annedd, yr hyn nid yw ond 1s. 6c. y cant, ynghyda 3s. y cant o doll (*duty*) a raid dalu i'r Llywodraeth. Y mae yr arbrid yn mwyhâu yn ol natur yr hap a yswirir.

Wedi sylwi ychydig ar ddamcaniaeth tebygoldeb (*theory of probability*) mewn cysylltiad â'r tânau sydd yn dygwydd, gellid dangos hyny ymbellach gyda golwg ar afiechyd. Y mae deddf yn perthyn i hyn hefyd ag sydd yn gweithredu gyda chysondeb mawr. Pe cymerid nifer o ddynion mewn unrhyw ddosbarth, oll yn agored i'r un amgylchiadau, ac ystyried pob un yn dwyn y canolfed ran o afiechyd y cwbl, ceir fod dyn rhwng

20 a 25 yn analluog i weithio bob blwyddyn at eu gilydd am	7 dydd.
25 a 30 " " " "	7 " "
30 a 35 " " " "	7 " "
35 a 40 " " " "	8½ " "
40 a 45 " " " "	9½ " "
45 a 50 " " " "	9½ " "
50 a 55 " " " "	10 " "
55 a 60 " " " "	13½ " "
60 a 65 " " " "	21 " "
65 a 70 " " " "	39½ " "
70 ac uchod " " " "	116 " "

Y mae anwybodaeth o, neu ddiffyg sylw ar, ddeddf afiechyd wedi bod yn ddinystri i lawer ngain o gymdeithasau cyfeillgar a sefydlwyd yn Nghymru, yn gystal ag mewn rhanau eraill o'n teyrnas, trwy fod yr un taliad yn cael ei ofyn gan yr oll o'r aelodau heb wahaniaeth, pa faint bynag a allai yr anghyfarfaledd yn eu hoedran fod. Y mae hyny yn annhegwch o'r mwyafrâd â'r cymdeithasau eu hunain, ac hefyd â'r aelodau, oblegid nid oes modd iddynt allu parhâu yn hir pan byddo yr aelod 50 oed yn talu ond yr un swm yn wythnosol, neu fisol, a'r aelod 25 oed, a hyny am yr un budd addawedig. Mae arnom ofn fod llawer o'r sefydliadau hyn yn parhâu i gael eu dwyn ymlaen ar egwyddorion hollol anghywir, ac nas galkant yn hir ateb y dybenion daionus oedd mewn golwg wrth eu ffurfio, oni bydd i gyfnewidiad buan er gwell gymeryd lle yn y cyfraniadau a ofynir oddiwrth yr aelodau henaf, trwy iddynt fod yn gyfartal â'u hoedran, yn gystal ag â maint y taledigaeth a ddysgwylir ganddynt yn amser afiechyd a henaint. Ni ddylai dim diffyg fod yn ffurfiad y cymdeithasau hyn, gan fod deddf afiechyd wedi ei gwneuthur mor hysbys, ac nad oes yr un anhawsder i ddarparu tafeni yn cynnwys taliadau cywir ar gyfer pob oedran.

Heblaw afiechyd, yr hwn sydd yn gweithredu gyda chysondeb ymhlith corff o bobl, y mae dyn yn ddarostyngedig i ddygwyddiad pwysig arall, sef marwolaeth, sydd yn gweithredu yr un mor gyson, ond gymeryd i'r cyfrif nifer mawr o ddynion. Nid oes dim mor sicr o gyfarfod dyn ar y ddaear âg angeu. Mae y bygythiad a roddwyd i Adda, pan yn ei ystâd o ddiniweidrwydd, wedi ei gyflawni ar yr holl hîl ddynol, oddigerth dan, y rhai yr ydym yn darllen am danynt a gawsant y fraint o osgoi y ddeddfryd

anniddymedig a gyhoeddwyd gan y Goruchaf,—“Gan farw ti a fyddi farw.” Ond er mor sicr yw y *bydd* dyn farw, nid oes dim sydd yn ei gyfarfod mor ansicr a dydd ei farwolaeth. Nid ydyw yn cael yr un dadguddiad goruwch-naturiol i'w hysbysu pa awr y daw “Mab y dyn;” ac nid ydyw ychwaith yn feddiannol ar allu i esgyn i'r nefoedd i chwilio allan nifer ei ddyddiau; ac nid yw mor amryfus a phenderfynu y bydd hŷd ei oes ef yn “ddeng mlynedd a thriugain,” neu y gall, os yn teimlo yn gryf, gyrrhaedd “pedwar ugain mlynedd.” Y gwir yw, fod y dirgelwch hwn yn guddiedig oddiwrth holl blant dynion, a bod marwolaeth yn un o'r pethau mwyaf dam-wefniol a ddichon fod gyda golwg ar ddyd fel person unigol. Er hyny, canfyddir fod dynolryw yn cael eu tori i lawr yn ol deddf sydd yn berffaith gyson yn ei gweithrediadau, oblegid y mae agos yr un nifer o ddynion o'r un oed, yn yr un amgylchiadau, mewn unrhyw wlad, yn marw bob blwyddyn. A chymeryd trigolion y byd yn fil o filiynau o bersonau, ceir fod agos yr un nifer o honynt yn cael eu cludo i dragwyddoldeb y naill flwyddyn ar ol y llall, a hyny trwy y cyffelyb foddion; canys y mae agos yr un nifer yn marw o unrhyw afiechyd neillduol o flwyddyn i flwyddyn, oddigerth rhai tymmorau, pan y dygwydd i ryw haint arbenig ymweled â'r wlad, megys y cholera, neu ryw blâ arall. Os gwir yr hyn a ddywedwyd am gysondeb deddf marwolaeth, amlwg yw os ydym yn hysbys o'r hyn a fu, fod tebygoldeb y cymer y cyffelyb le drachefn, yr hyn yw sail ein dys-gwyliaid am yr amser dyfodol. Gan hyny, pe ceid cofrestrau yn cynnwys nifer mawr o blant newydd eu geni, ac yn arddangos pa nifer o'r rhai hyny oedd yn marw bob blwyddyn hyd nes i'r cyfan gael eu cymeryd ymraith, mewn oes a oeth heibio, byddai cymharu y nifer oedd yn fyw o unrhyw oedran yn y cofrestrau hyny, â'r nifer a fyddai farw y flwyddyn ganlynol, yn ein galluogi i benderfynu mewn amser dyfodol pa nifer o ddynion o'r un oed sydd yn debyg o farw o fewn y flwyddyn ddilynol; ac er y gall na bydd yr un nifer yn hollol ag a ddysgwylir yn cael eu tori i lawr ar dymmorau penodol, eto, yn ystod amryw flynyddau, a chymeryd y naill flwyddyn gyda'r llall, gellid dysgwyl, ymhlith nifer liosog o ddynion, y bydd ein penderfyniadau yn lled agos i'r canolrif o'r marwolion o gyfryw oed. Dyma, gan hyny, ydyw y sail benaf ar ba un y mae cymdeithasau oes-yswiriant yn gorphwys, ac a ddeallir wrth ddeddf marwoldeb, yr hyn sydd yn ein dysgu i drefnu ein penderfyniadau am yr amser dyfodol; a hyn hefyd a feddylir wrth ddamcaniaeth tebygoldeb yn ei gysylltiad â'r sefydliadau dan sylw. Y mae o bwys mawr ein bod yn lled hysbys o ddeddf marwoldeb yn ei gweithrediadau ymysg gwahanol ddesbarthiadau cymdeithas, yn gystal ag yn yr eithriadau sydd weithiau yn cymeryd lle.

Er mwyn darganfod yn eglurach gysondeb gweithrediadau deddf marwoldeb yn y deyrnas hon, ychwanegwyd, at y tafeni a nodwyd eisoes, un arall gan Mr. Joshua Milne, yn y traethawd rhagorol ar Flwydd-dalioŷn a gyhoeddwyd ganddo yn 1816. Ffurfiwyd y dafsen hon o gofrestri cladd-edigion, yn ninas Carlisle am naw mlynedd, o 1779 hyd 1787. Ystyrir y dafsen hon yn gywirach mesuriad o'r marwolaethau a ellir eu dysgwyl mewn cymdeithasau yn y rhai y mae pob aelod yn iach ar ei ymuniad, ac ymysg dynion bucheddol o ran eu hymarweddiad, na'r un dafsen sydd eto wedi ei chyhoeddi; ac y mae yn dangos fod dynolryw yn byw yn hŷy nac yr arddangosir gan y tafeni eraill a enwyd, ac yn fwy cydweddol â ffeithiau sydd yn cymeryd lle yn y deyrnas hon. Cyhoeddwyd yn y flwyddyn

1826, gan y diweddar Mr. Griffith Davies o Lundain, dafen marwoldeb a gyfansoddwyd ganddo oddiar brofiad, neu yr hyn oedd wedi dygwydd yr yr *Equitable Society* (yr hon a sefydlwyd yn y flwyddyn 1762) am 68 o flynyddau, o 1768 hyd 1825. Mae y dafen hon yn fesuried hynod o gywir o hyd oes dyn wrth ei gymenyd yn gysylltiedig â llawr mawr o bobl; ac y mae cysondeb nodedig rhyngddi a'r dafen a flurfiwyd gan Mr. Milne. Heb law y taflen a nodwyd, y mae amryw eraill wedi eu cyhoeddi, yn ystod y blynyddau diweddar, y rhai sydd yn cadarnhau cysondeb' deddf marwoldeb fel y mae yn cael ei dangos yn y ddwy daflen olaf a enwyd. Rhydd y dafen ganlynol olygiad ar weithrediadau deddf marwoldeb mewn grŵpahanol leocedl.

DEDDF MARWOLAETH.

TABLE I.—Yn dangos o nifer o blant a aned yn fyw yn y lleoedd canlynol, a nifer y rhai a fuont fyw o flynyddyn i flynyddyn, yn gystal a'r nifer a fuont feirio yn flynyddol hyd ddiwedd einnos.

Oed	Northampton.		Carlisle.		Ymarferiaeth yr <i>Equitable</i> , gan Mr. Griffith Davies.		Ymarferiaeth 27 o Gymdeithasau Fawrol.		Yn Ffrainc, yn ol sylwadau gan M. Des Barcieux.	
	Byw.	Marw.	Byw.	Marw.	Byw.	Ma.	Byw.	Marw.	Byw.	Ma.
0	11650	3000	10000	1539
1	8650	1367	8461	682
2	7283	502	7779	505
3	6781	385	7274	276	1000	80
4	6446	197	6998	201	970	22
5	6249	134	6797	121	948	18
6	6065	140	6676	82	930	15
7	5925	110	6594	58	915	13
8	5815	80	6536	43	902	12
9	5735	80	6498	33	890	40
10	5675	62	6460	29	2844	11	100000	676	880	8
11	5623	50	6431	31	2833	11	99324	674	872	6
12	5573	50	6400	32	2822	12	98650	672	866	6
13	5523	50	6368	33	2810	12	97978	671	860	6
14	5478	50	6335	35	2798	13	97307	671	854	6
15	5423	50	6300	39	2785	14	96636	671	848	6
16	5373	53	6261	42	2771	15	95965	672	842	7
17	5320	58	6219	43	2756	16	95293	673	835	7
18	5262	63	6176	43	2740	17	94620	675	828	7
19	5199	67	6133	43	2723	18	93945	677	821	7
20	5132	72	6090	43	2708	18	93268	680	814	8
21	5060	75	6047	42	2687	18	92588	683	806	8
22	4985	75	6005	42	2669	19	91905	686	798	8
23	4910	75	5963	42	2650	19	91219	690	790	8
24	4835	75	5921	42	2631	20	90529	694	782	8
25	4760	75	5879	43	2611	20	89835	698	774	8
26	4685	75	5836	43	2591	21	89137	703	766	8
27	4610	75	5793	45	2570	22	88434	708	758	8
28	4535	75	5748	50	2548	28	87726	714	750	8
29	4460	75	5698	56	2525	24	87012	720	742	8
30	4385	75	5642	57	2501	24	86292	727	734	8
31	4310	75	5585	57	2477	25	85565	734	726	8
32	4235	75	5528	56	2452	26	84831	742	718	8
33	4160	75	5472	55	2426	26	84089	750	710	8
34	4085	75	5417	55	2400	26	83339	758	702	8

Parhad o Dafen I.

Oed.	Northampton.		Carlisle.		Ymarferiaeth yr <i>Equita- ble</i> , gan Mr. Griffith Davies.		Ymarferiaeth 17 o Gymdeithasau Yswirol.		Yn Ffraino, yn ol sylw- adau gan M. Des Par- cieux.	
	Byw.	Marw.	Byw.	Marw.	Byw.	Ma.	Byw.	Marw.	Byw.	Ma.
35	4010	75	5362	55	2374	27	82581	767	694	8
36	3935	75	5307	56	2347	27	81814	776	686	8
37	3860	75	5251	57	2320	28	81038	735	678	7
38	3785	75	5194	58	2292	28	80253	795	671	7
39	3710	75	5136	61	2264	28	79458	805	664	7
40	3635	76	5075	66	2236	28	78653	815	657	7
41	3559	77	5009	69	2208	28	77838	826	650	7
42	3482	78	4940	71	2180	28	77012	839	643	7
43	3404	78	4869	71	2152	29	76173	867	636	7
44	3326	78	4798	71	2123	30	75316	881	629	7
45	3248	78	4727	70	2093	30	74435	909	622	7
46	3170	78	4657	69	2063	30	73526	944	615	8
47	3092	78	4588	67	2033	31	72582	981	607	8
48	3014	78	4521	63	2002	32	71601	1021	599	9
49	2936	79	4458	61	1970	33	70580	1063	590	9
50	2857	81	4397	59	1937	35	69517	1108	581	10
51	2776	82	4338	62	1902	37	68409	1156	571	11
52	2694	82	4276	65	1865	39	67253	1207	560	11
53	2612	82	4211	68	1826	41	66046	1261	249	11
54	2530	82	4143	70	1785	41	64735	1316	538	12
55	2448	82	4073	73	1744	42	63469	1375	526	12
56	2366	82	4000	76	1702	43	62094	1436	514	12
57	2284	82	3924	82	1659	44	60653	1497	502	13
58	2202	82	3842	93	1615	45	59161	1561	489	13
59	2120	82	3749	106	1570	46	57600	1627	476	13
60	2038	82	3643	122	1524	46	55973	1698	463	13
61	1956	82	3521	126	1478	46	54275	1770	450	13
62	1874	81	3395	127	1432	47	52505	1844	437	14
63	1793	81	3268	125	1385	48	50661	1917	423	14
64	1712	80	3143	125	1337	49	48744	1990	409	14
65	1632	80	3018	124	1288	50	46754	2061	395	15
66	1552	80	2894	123	1238	51	44693	2128	380	16
67	1472	80	2771	123	1187	52	42565	2191	364	17
68	1392	80	2648	123	1135	53	40374	2246	347	18
69	1312	80	2525	124	1082	54	38128	2291	329	19
70	1232	80	2401	124	1028	54	35837	2327	310	19
71	1152	80	2277	124	974	55	33510	2351	291	20
72	1072	80	2143	146	919	55	31159	2362	271	20
73	992	80	1997	156	864	56	28797	2358	251	20
74	912	80	1841	166	808	56	26439	2339	231	20
75	832	80	1675	160	752	55	24100	2303	211	19
76	752	77	1515	156	697	55	21797	2249	192	19
77	675	73	1359	146	642	54	19548	2179	173	19
78	602	68	1213	132	588	54	17369	2092	154	18
79	534	65	1081	128	534	54	15277	1987	136	18
80	469	63	953	116	480	54	13290	1866	118	17
81	406	60	837	112	426	53	11424	1730	101	16
82	346	57	725	102	373	52	9694	1582	85	14
83	289	55	623	94	321	50	8112	1427	71	12
84	234	48	529	84	271	47	6685	1268	59	11
85	186	41	445	78	224	43	5417	1111	48	10
86	145	34	367	71	181	38	4306	958	38	9
87	111	28	296	64	143	32	3348	811	29	7

Parhâd o Dafen I.

Oed.	Northampton.		Carlisle.		Ymarferiaeth yr <i>Equitable</i> , gan Mr. Griffith Davies.		Ymarferiaeth 17 o Gymdeithasau Yswirol.		Yn Ffrainc, yn ol sylwadau gan M. Des Parcieux.	
	Byw.	Marw.	Byw.	Marw.	Byw.	Ma.	Byw.	Marw.	Byw.	Ma.
88	88	21	232	51	111	26	2537	673	22	6
89	62	16	181	39	85	20	1864	545	16	5
90	46	12	142	37	65	16	1319	427	11	4
91	34	10	105	30	49	13	892	322	7	3
92	24	8	75	21	36	11	670	231	4	2
93	16	7	54	14	25	9	339	155	2	1
94	9	5	40	10	16	7	184	95	1	1
95	4	3	30	7	9	5	89	52	0	0
96	1	1	23	5	4	3	37	24
97	18	4	1	1	13	9
98	14	3	4	3
99	11	2	1	1
100	9	2
101	7	2
102	5	2
103	3	2
104	1	1

Ymddengys oddiwrth ystadegau bywydol (*vital statistics*), bod dogonedd marwoldeb wedi lleihâu llawer yn y deyrnas hon, yn ystod y canmlynedd diweddaf, yn enwedig ymhlith y dosbarth ieuengaf o'r trigolion; yr hyn, yn ddiâu, a ellir ei briodoli mewn rhan i'r cynnydd a'r gwelliadau sydd wedi cymeryd lle yn y wyddor feddygol, yn gystal ag i'r mesurau iachäol (*sanitary measures*) a ddygwyd i arferiad cyffredinol, yn enwedig yn ein trefydd mawrion, yn ystod y 50 mlynedd diweddaf. Y mae hefyd yn ffaith fod benywaid, yn y cyffredin, yn byw yn hŵy na gwrywaid, a chymeryd yr holl boblogaeth gyda'u gilydd. Mae mwy o wrywaid yn cael eu geni nag o fenywod, ac y maent yn parhâu yn lliosocach hyd nes cyrhaedd oddeutu pymtheng neu ugain oed, pan y maent yn marw yn gyflymach na benywaid. Mae y genedigaethau, yn ystod y pymtheng mlynedd diweddaf, wedi bod yn ol 105 o fechgyn am bob 100 o enethod. Mae nifer y gwragedd gweddwon hefyd yn fwy na rhifedi y gwŷr gweddwon trwy deyrnas yn gyffredin. Pan gymerwyd y cyfrif diweddaf am y boblogaeth yn 1851, cafwyd fod nifer y benywaid yn fwy o dros 600,000 na nifer y gwrywaid, heb gyfrif y gwrywaid oedd yn absennol mewn gwledydd dyeithr, ar y môr, ac yn y meiwad a'r llynges, ynghyd yn 162,490. Yr oedd y cyfartalech yn 100 o feibion i 105 o ferched—bron yr un fath ag yn 1801. Mae y gwahaniaeth hwn yn hanfodi ymhlith trigolion gwledydd eraill, yn gystal a'n gwlad ein hunain, ac y mae yn ddiagrammheu y gellid priodoli hyn mewn rhan i'r ffaith fod nifer mawr o'r gwrywaid yn syrthio yn fynych trwy y cleddyf, yn gystal a'n bod yn ddarostyngedig i heintiau ac afiechyd wrth ddilyn bywyd gwersyllawl, ac yn agored i ddamweiniau, yn eu gwahanol alwedigaethau mewn mŵngloddiau, cloddfeydd llechau, &c., ag sydd yn fynych yn terfynu mewn angsamserol. Ac y mae yn rhaid cyfaddef fod lliaws mawr o ddynion ieuainc yn byrhâu eu hoes, ac yn meirw yn flynyddol, trwy eu rhyseidd a'u hanfoesgarwch.

Y daflen ganlynol a arddengys oes-ddysgwyliant, yn ol Taflen I.

TABLE II.—*Yn arddangos Oes-ddysgwyliaid, neu Fesuriad, yn ol Deddf Marwoltdeb a gynnwysir yn y Daflen olaf.*

Oed.	Northampton.	Caerlisle.	Egystible gan Mr. Davies.	Y 17 Cymdeithasau Yswiriol.	Sylwadau gan M. Des Parcieux.	Oed.	Northampton.	Caerlisle.	Egystible gan Mr. Davies.	Y 17 Cymdeithasau Yswiriol.	Sylwadau gan M. Des Parcieux.
0	25.18	38.72	53	16.54	18.97	19.00	18.16	18.48
1	32.74	44.68	54	16.06	18.28	18.43	17.50	17.58
2	37.79	47.55	55	15.58	17.58	17.85	16.86	17.25
3	39.55	49.82	47.71	56	15.10	16.89	17.28	16.22	16.64
4	40.58	50.76	48.17	57	14.63	16.21	16.71	15.59	16.02
5	40.84	51.25	48.27	58	14.15	15.55	16.15	14.97	15.44
6	41.07	51.17	48.20	59	13.68	14.92	15.60	14.37	14.84
7	41.03	50.80	47.98	60	13.21	14.34	15.06	13.77	14.25
8	40.79	50.24	47.66	61	12.75	13.82	14.51	13.18	13.65
9	40.36	49.57	47.30	62	12.28	13.31	13.96	12.61	13.04
10	39.78	48.82	48.88	48.36	46.88	63	11.81	12.81	13.42	12.05	12.43
11	39.14	48.04	40.02	47.68	46.26	64	11.35	12.30	12.88	11.51	11.86
12	38.49	47.27	47.20	47.01	45.58	65	10.88	11.79	12.35	10.97	11.26
13	37.83	46.51	46.40	46.33	44.89	66	10.42	11.27	11.83	10.46	10.69
14	37.17	45.75	45.60	45.64	44.20	67	9.96	10.75	11.32	9.96	10.14
15	36.61	45.00	44.81	44.96	43.51	68	9.50	10.23	10.82	9.47	9.61
16	35.85	44.27	44.04	44.27	42.82	69	9.05	9.70	10.32	9.00	9.11
17	35.20	43.57	43.27	43.58	42.17	70	8.60	9.18	9.84	8.54	8.64
18	34.58	42.87	42.52	42.88	41.52	71	8.17	8.65	9.36	8.10	8.17
19	33.99	42.17	41.78	42.19	40.87	72	7.74	8.16	8.88	7.67	7.73
20	33.48	41.48	41.08	41.49	40.22	73	7.38	7.72	8.42	7.26	7.31
21	32.90	40.75	40.33	40.79	39.62	74	6.92	7.33	7.97	6.86	6.90
22	32.39	40.04	39.60	40.09	39.00	75	6.54	7.01	7.52	6.48	6.50
23	31.88	39.31	38.88	39.39	38.40	76	6.18	6.69	7.08	6.11	6.10
24	31.36	38.59	38.16	38.68	37.78	77	5.83	6.40	6.84	5.76	5.71
25	30.85	37.86	37.44	37.98	37.17	78	5.48	6.12	6.20	5.42	5.36
26	30.33	37.14	36.73	37.27	36.55	79	5.11	5.80	5.78	5.09	5.00
27	29.82	36.41	36.02	36.56	35.93	80	4.75	5.51	5.38	4.78	4.69
28	29.30	35.69	35.33	35.86	35.30	81	4.41	5.21	5.00	4.48	4.39
29	28.79	35.00	34.65	35.15	34.69	82	4.09	4.93	4.63	4.18	4.01
30	28.27	34.34	33.98	34.43	34.06	83	3.80	4.65	4.30	3.90	3.84
31	27.76	33.68	33.30	33.72	33.29	84	3.53	4.39	4.00	3.63	3.52
32	27.24	33.06	32.64	33.01	32.80	85	3.27	4.12	3.73	3.36	3.21
33	26.72	32.36	31.98	32.30	32.16	86	3.19	3.90	3.50	3.10	2.92
34	26.20	31.68	31.32	31.58	31.52	87	3.01	3.71	3.31	2.84	2.67
35	25.68	31.00	30.66	30.87	30.88	88	2.86	3.59	3.11	2.59	2.36
36	25.16	30.32	30.01	30.15	30.23	89	2.66	3.47	2.91	2.35	2.06
37	24.64	29.64	29.35	29.44	29.58	90	2.41	3.28	2.65	2.11	1.77
38	24.12	28.96	28.70	28.72	28.89	91	2.09	3.26	2.36	1.89	1.50
39	23.60	28.28	28.05	28.00	28.18	92	1.75	3.37	2.03	1.67	1.25
40	23.08	27.61	27.40	27.28	27.48	93	1.37	3.48	1.70	1.47	1.06
41	22.56	26.97	26.74	26.56	26.77	94	1.05	3.53	1.81	1.28	.50
42	22.04	26.34	26.07	25.84	26.06	95	.75	3.58	1.05	1.12	...
43	21.54	25.71	25.40	25.12	25.34	96	.50	3.46	.75	.99	...
44	21.03	25.09	24.75	24.40	24.62	97	...	3.23	.50	.89	...
45	20.52	24.46	24.10	23.69	23.89	98	...	3.0775	...
46	20.02	23.82	23.44	22.97	23.15	99	...	2.7750	...
47	19.51	23.17	22.78	22.27	22.45	100	...	2.28
48	19.00	22.50	22.12	21.56	21.74	101	...	1.79
49	18.49	21.81	21.47	20.87	21.07	102	...	1.80
50	17.99	21.11	20.83	20.18	20.38	10383
51	17.50	20.39	20.20	19.50	19.78	10450
52	17.02	19.63	19.59	18.82	19.11						

Gallesid ychwanegu at y sylwadau blaenorol o barth i gysondeb gweithrediad deddf marwoldeb; ond fe allai fod digon wedi ei ddyweyd i egluro y pwnc a osodwyd i lawr, sef fod dynolryw yn meirw yn ol deddf sydd yn bur reolaidd yn ei gweithrediadau y naill flwyddyn ar ol y llall; ac y gallwn, oddiwrt hyn sydd wedi dygwydd mewn amser a aeth heibio, dynu casgliadau lled gywir gyda golwg ar yr hyn a ellir ddsygwyl mewn amser i ddyfod. Po fwyaf fyddo nifer y personau y cofrestrir eu hoedran a'u marwolaethau, a pho hwyaf fyddo yr amser y parhau y sylwadau i gael eu gwneuthur, ac i hyny gael ei gyflawni yn ofalus, cywiraf fydd y penderfyniadau a wneir oddiwrt hyn, yn gymaint ag y ceir tecach mesuriad oes trwy hyny na phan byddo yr amser yn fyr, a nifer y personau yn ychydig.

Er dangos ymhellach debygoldeb parhau oes dyn yn y deyrnas hon, gallwn hysbysu fod

Taflen	Marwoldeb	Northampton yn rhoddi hyny yn	Mlwydd.	Dyddiau.
			34	a 33
"	"	Carlisle	"	34 a 34
"	"	Y 17 Cymdeithasau Yswiroi	"	34 a 43
"	"	Y Llywodraeth	"	33 a 17

Gwelir mor gyson y mae angu wrth ei waith, wrth gymharu yr effeithiau sydd yn cymeryd lle mewn gwahanol ranau o'r wlad. Y mae deddf marwoldeb yn amrywio yn fawr yn ei gweithrediadau mewn gwahanol hinsoddau, ac hefyd ymhlith gwahanol ddosbarthiadau a galwedigaethau. Mae un gŵr o'r enw M. Lombard, meddyg enwog yn Ffrainc, wedi ffurfio taflen yn arddangos canolrif parhau oes dyn ymhlith y dosbarthiadau canlynol,—

Gemyddion	33	Bl.	Llifwyr	51	Bl.	Garddwyr	60
Melinwyr	a	}	42	Cigyddion	53	}	Marchnadwyr	62
Phobwyr				Meddygon	54		Offeiriad	63
Paentwyr	44	}	Seiri Meini	55	}	Heddynadon	69
Seiri Coed	49								

Gwelwn, oddiwrt hyn, yr effaith y mae galwedigaeth, ynghydag esmwythdra amgylchiadau, yn gael ar estyniad neu fydrda oes dyn. Ymddengys hefyd fod gwahaniaeth mawr yn hŷd oes y dosbarth sydd yn llafurio yn galed â'r meddwl yn barhaus, megys dadlenwyr, llênolygwyr, a gwleidiadwyr, ragor y rhai sydd yn ddilyn llawgelfyddiaeth, neu alwedigaethau sydd heb fod o natur afiachus.

Y mae yn ffaith fod trigolion y deyrnas hon yn byw yn hŵy, a'u cymeryd ynghyd, na deiliaid yr un wlad arall ar y ddaear; ac i hyny, i raddau helaeth, y priodolir y ffyniant sydd wedi bod ar gymdeithasau oes-yswirol yn y Deyrnas Gyfunol, yn hytrach nag mewn gwledydd eraill, fel y ceir sylwi eto.

Fel yr hysbyswyd yn barod, y gymdeithas oes-yswirol gyntaf a sefydlwyd oedd yr *Amicable*, yn 1706; ond yr amser y cychwynodd y sefydliadau hyn ar gynllun cywir a thêg ydoedd yn y flwyddyn 1762, pan y sefydlwyd yr *Equitable Society*, fel y sylwyd, yr hon sydd wedi parhau yn enwog hyd yr amser presennol, ac yn blaenori ar bob cymdeithas arall. Da genym allu hysbysu mai Cymro glân ydoedd prif swyddog y gymdeithas hon, sef ei Har-rifydd, o'r enw William Morgan, yr hwn y gellid, mewn ffordd, ei ystyried fel tād egwyddor bywyd-yswariant, trwy ei fod wedi ei ddblygu yn éangach a chywirach na neb a fu o'i faen ef. Mab i'r Cymro

uchod sydd yn bresennol yn llywyddu yr *Equitable* fel ei Har-rifydd; ac y mae yn ddyn o enwogrydd mawr, ond nid llawn cystal *Cymro* ag oedd ei dād.

Pur araf y cynnyddodd cymdeithasau yswirol o'r flwyddyn 1762 hyd 1840. Ni sefydlwyd ond 77 mewn ystod 78 o flwyddau o amser. Ond o'r flwyddyn 1840, y maent wedi lliosogi yn ddifawr, nes y mae nifer y cymdeithasau bywyd-yswirol drwy y deyrnas oll dros ddau gant a hanner, heblaw llawer o rai nad ydynt ond yn diogelu rhag tân, yn gystal ag amryw eraill i wahanol ddybonion, fel ag y mae eu rhif i gyd dros dri chant; a rhai newyddion yn cael eu ffurfio yn barhâus. Mae rhai yn trengu gyda eu bod megys wedi dechreu byw, ac eraill yn ymlusgo ymlaen am ychydig amser, nes o'r diwedd y derfydd am danynt; ond anfynych y mae y fath anffawd yn dygwydd i'r un gymdeithas fyddo wedi ei sefydlu ar egwydd-orion uniawn, a chyda gwir amcan i wneuthur daioni i ddynion yn gyffredinol. Y drwg yw fod dynion twyllodrus wedi llwyddo i sefydlu rhai cymdeithasau o'r natur hyn, a chario ymlaen eu hamcanion au dymmor, a hudo llawer o rai annichellgar a difeddwl-ddrwg i yswirio gyda hwynt, ac ymddiried eu harian yn ewyllysgar i'w gofal, hyd nes canfod, yn rhy ddiweddar, yr hoced a arferasid ganddynt. Cofier mai nid yn y cymdeithasau y mae y drwg, ond yn y camarferiad a wneir o honynt. Mae rhyw duedd gref mewn dyn i gamddefnyddio yr hyn sydd yn ei natur, yn gystal a'i sefydliad, yn ddaionus. Yr amcan wrth sefydlu cymdeithasau i yswirio rhag tân, ydoedd digolledu yr hwn y dygwyddai yn ddamweiniol i'w eiddo gymeryd tân a llosgi, ac nid er mwyn i ddyn roddi ei fasnachdŷ ar dân yn fwrriadol, fel y gwneir, ysywaeth, yn aml.

Y mae yn perthyn i'r cymdeithasau bywyd-yswirol dri o wahanol ddsbarthiadau, sef y Cydranol (*Mutual*), y Parthranol (*Mixed*), a'r Anghydranol (*Proprietary*). Y math cyntaf ydyw yr hynaf, ac a ffurfir trwy i nifer o bersonau ymuno â'u gilydd, i fasnachu ar yr arbrid a delir gan bob un, er hunan a chyd lês. Mae yr oll o'r elw a wneir gan y cymdeithasau hyn yn cael ei ranu rhwng yr âelodau, yn ol y swm a fyddont wedi yswirio, ac nid oes dim yn myned i neb arall. Os dygwydd i un o'r cymdeithasau fyned mewn dyled, y mae y diffyg oll i'w wneyd i fyny rhwng yr âelodau. Priodol, gan hyny, eu galw yn gymdeithasau cydranol, pa un bynag ai mewn elw ai ynte mewn colled y bydd hyny. Wrth y dosbarth anghydranol, y meddylir, y cymdeithasau hyny a ffurfir gan nifer penodol o bersonau, y rhai sydd yn cyfranu swm neillduol o arian er mwyn cyfansoddi yr hyn a elwir y cyfalaf tansgrifiedig (*subscribed capital*). Mae yn perthyn i'r rhai hyn gyfranau, a phob âelod yn cymeryd rhyw nifer o honynt, ac yn talu cymaint y rhan, fel ag i ffurfio y cyfalaf. Nid oes dim o'r elw a wneir gan y dosbarth yma yn cael ei ranu rhwng y rhai sydd yn yswirio; ond y mae y cyfan yn myned i'r âelodau, fel llôg amfenthg eu harian. Ar farwolaeth pob yswirydd, telir yn unig y swm y byddo wedi ammodi am dano, heb ddim ychwanegiad ato, na thyniad oddi-wrtho. Nid oes yr un rhwymedigaeth yn perthyn i'r yswiriad; a phe dygwyddai, trwy ryw anffawd, i golliaidau gymeryd lle, disgynai hyny yn hollol ar y perchenogion (*shareholders*), a byddent yn rhwym i dalu pob arddelwad (*claim*) a wneid arnynt. Dadleuir, gan eu bod felly yn agored i bob gofyniad arianol, ac nad oes un math o berygl yn gorphwys ar yr rhai fyddo wedi yswirio, mai rhyngddynt hwy, gan hyny, y dylai yr oll o'r

elw fyned. Y mae yr arbrid a ofynir gan y cymdeithasau hyn yn is nag a ofynir gan y dosbarth cyntaf a enwyd, yr hyn a ystyrir yr un mewn effaith a phe byddai yr arbrid yn uwch, a rhan o'r elw yn cael ei dderbyn gan y rhai fyddont yn yswirio ynddynt. Y mae y dosbarth arall yn cyfrangogi o, neu yn cynnwys y, manteision a gyflwynir gan y ddau ddosbarth blaenorol. Mae yn perthyn i'r cymdeithasau parthranol, ranfeddiannwyr a chyfalaf tansgrifedig, ac y mae yr aelodau, sef y rhai sydd yn yswirio ynddynt, yn derbyn cyfran o'r elw, ond heb fod yn agored i'r colledion a ddichon gyfodi. Mae rhai cymdeithasau o'r dosbarth hwn yn rhoddi hanner yr elw i'r aelodau, eraill ddwy ran o dair, eraill bedair rhan o bump, a rhai mwy na hyny; ac y mae y gweddill o'r elw yn myned rhwng y rhanfeddiannwyr, am y defnydd a wneir o'u rhaniadau o'r cyfalaf, yn gystal ag am y sicrhâd (*guarantee*) a roddir ganddynt i'r aelodau am daliad prydlawn o'r arddelwau. Y dosbarth olaf ydyw y lliosocaf o lawer; ac nid oes ammheuaeth yn ein meddwl ni nad hwn ydyw y goreu, a'r mwyaf dymunol ymhob ystyr, ac felly yr ydym yn rhydd i'w argymhell, yn hytrach na'r lleill, i sylw ein darllenwyr.

Wedi myned, fel hyn, yn lled fras dros natur a dyben, dechreuad a chynnydd, y sefydliadau hyn, ni a awn rhagom i wneyd ychydig sylwadau ar y daioni a all ddeilliaw i'r wlad yn gyffredin trwyddynt. Cwestiwn pwysig, yn ddiau, i bob dyn meddylgar ydyw, pa fodd y gall, yn fwyaf effeithiol, wneuthur darpariaeth i'w deulu erbyn yr amgylchiadau y bydd wedi ei gymeryd ymaith oddiwrthynt. Mae yn debyg nad oes yr un dyn o deimladau tyner a ddichon oddef y meddwl am adael ei wraig a'i blant, sydd mor anwyl ganddo, heb unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer mewn amser ag y bydd ef ei hun yn analluog i weinyddu i'w cyfreidiau. Ac, yn bendifaddeu, y moddion cymhwysaf a gafwyd allan hyd yn hyn, ac o bosibl, a ddichon fod, er cyrhaedd hyny o amcan, yn wyneb yr ansicrwydd sydd yn perthyn i barhâd oes dyn ar y ddaear, ydyw cymdeithasau yswirol. Dyna oedd y dyben pwysig mewn golwg yn ffurfiad cyntaf y sefydliadau hyn; ac y mae hyny wedi ei gyrhaedd i raddau helaeth iawn trwyddynt. Mae yr *Equitable Society* wedi talu dros saith miliwn ar hugain o bunnau (£27,000,000) o'i sylfaeniad hyd yr amser presennol ar farwolaeth ei gwahanol aelodau, yn fân symiau, er cysur a chynnaliaeth miloedd o deuluoedd ar eu hymddifadiad o'r rhai yr oedd eu holl ymddibyniad arnynt. Y mae cymdeithas arall, a sefydlwyd oddeutu pedair blynedd ar ddeg ar hugain yn ol, wedi talu erbyn hyn yn agos i bedair miliwn o bunnau ar farwolaeth gwahanol aelodau. Ac y mae lliaws o gymdeithasau eraill wedi talu symiau mawrion—miliynau lawer ynghyd—i weddwon ac amddifaid, ar farwolaeth y gŵr a'r tād, ac felly yn gwneuthur i fyny mewn rhan y colledion a achlysurwyd gan angeu. Mae yn anhawdd amgyffred maint y llës sydd wedi deilliaw i nifer mawr o deuluoedd ar y Cyfandir, yn America, ac yn neillduol yn y deyrnas hon, trwy y sefydliadau hyn. Maent y moddion mwyaf addas i bob dosbarth i'w defnyddio er mwyn darparu cynnaliaeth i'r rhai a ddichon fod yn hollol ymddibynol arnynt; ac y maent hefyd yn gyrhaeddadwy i bob dyn, ymba amgylchiad bynag y byddo ynddo, yn gymaint ag y gall yswirio am unrhyw swm a ewyllysiso, a thalu am hyny, naill ai yn flynyddol, hanner-flynyddol, neu chwarterol. Mae rhai swydd-fâu yn derbyn taliadau misol, er mwyn rhoddi pob rhwyddineb i'r dosbarth gweithiol allu cyfarfod eu taliadau drwy symiau bychain. Nid oes, mae yn

debyg, ond ychydig o ddynion sydd yn dilyn eu galwedigaethau yn gyson, nas gallant hebgor ychydig sylltau yn fisol, er mwyn darparu rhyw gymaint i'w teuluoedd. Gall dyn 30 oed, gyda phedwar swllt a saith geiniog yn y mis, ddiogelu can' punt i'w talu ar ei farwolaeth, neu hanner can' punt gyda thaliad misol o ddau swllt a thair ceiniog, a hyny heb wasgu ond ychydig, os dim, arno ei hun a'i deulu. Ac os dichon fod rhywun mor isel ei amgylchiadau ag i fod yn analluog i hebgor 2s. 3c. yn y mis, mae yn bur debyg y gall hwnw fforddio un swllt a dwy geiniog, yr hyn sydd yn ddigon i yswirio bywyd dyn 30 oed am bum' punt ar hugain, i'w derbyn ar ei farwolaeth. Byddai unrhyw swm, pa can lleied y dichon fod, yn llawer o gymhorth i weddw a phac o blant bychain, ar farwolaeth ei gŵr, oblegid gallai drwy hyny gyfarfod â rhyw lwybr i'w chynnorthwyo i fagu ei rhai bach, a chael bywioliaeth iddi ei hun.

Gwyddom fod lliaws mawr o'r dosbarth gweithiol yn perthyn i gymdeithasau cyfeillgar, nifer y rhai, drwy y deyrnas, sydd yn 33,223, ac yn cynnwys dros dair miliwn (3,000,000) o aelodau, y rhai sydd yn cyfranu yn flynyddol agos i bum' miliwn o bunnau, ac yn meddu cyfalaf (*capital*) o £11,360,000. Mae hyn yn swm mawr iawn i fod yn eiddo i'r dosbarth gweithiol, ac yn profi yn eglur y gallent gynnulo, ond cyflwyno ger eu bron foddion cyfaddas i hyny. Nid ydym yn bwriadu dywedyd dim yn erbyn y sefydliadau cyfeillgar hyn, oblegid y mae llawer iawn o ddaioni wedi, ac yn cael, ei wneyd trwyddynt, yn euwedig y rhai hyny sydd yn cael eu llywodraethu yn gywir a threfnus. Ond nid ydynt, wedi y cwbl, i'w cymharu i gymdeithasau yswirol. Dygir y rhai hyn ymlaen, yn gyffredin, ar egwyddorion cywirach na'r lleill, neu y rhan fwyaf o honynt; ac y mae yr aelodau yn debycach o gael yr hyn y byddont wedi cytuno am dano yn y swyddfaau yswirol nag yn y sefydliadau eraill, llawer o'r rhai nad ydynt yn parhâu ond am ychydig o flynyddau heb ffaelu. Nid oes, ychwaith, gymaint o ofal yn cael ei dalu i'r modd y mae eu soddion (*funds*) yn cael eu defnyddio, ag a wneir yn y cymdeithasau yswirol. Tybir fod tua phedair miliwn o bunnau o'r tansgrifiadau blynyddol perthynol i aelodau cymdeithasau cyfeillgar yn gorwedd yn ddi-ddefnydd, yn lle cael eu rhoddi allan ar lŵg i'w cynnyddu er llês yr aelodau. Mae y golled a achosir drwy yr esgeulusdra hyn yn £120,000 yn flynyddol, a chymeryd y llŵg yn ddim mwy na £3 y cant.

Heblaw i'r dosbarth gweithiol, y mae cymdeithasau yswirol yn foddion manteisiol i fasnachwyr ac ysgrifwision, nad yw eu cyflogau ond bychain, a'r rhai, er hyny, sydd raid iddynt wneyd ymddangosiadau boneddigaidd, i ddarparu i'w teuluoedd. Beth all fod yn fwy o ddoethineb i ddyn, wrth ddechreu mewn masnach, nag yswirio ei fywyd am swm cymedrol, ag y gall yn rhwydd ddefnyddio rhyw gymaint o'i ennill at dalu yr arbrid gofynol, a thrwy hyny sicrhâu i'w deulu yr hyn a all fod o fawr lês iddynt ar ei farwolaeth, pe dygwyddai hyny gymeryd lle cyn gallu o hono wneuthur darpariaeth iddynt trwy elw masnachol? Llawer masnachwr a ddechreuodd ei fyd yn gysurus, a phob dysgwyliad ganddo y buasai yn alluog i wneyd pob darpariaeth anghenrheidiol i'r rhai oedd yn ymddibynu arno am gynnalaieth; ond yr oedd yn gwall mawr yn ei gyfrifon,—nid oedd wedi cymeryd i ystyriaeth y gallai afiechyd ac angu ei oddiweddyd eyn cyrhaedd ei amcanion, ac esgeulusodd ddarparu drwy un ffordd, ond gan ymddiried yn ei fasnach. Y canlyniad gofidus a fu—syrthiodd i'r bedd gyda'r

fod braidd yn dechreu byw, a gorfŵyd gwerthu yr oll o'i nwyddau er talu i'r coelwyr, a gadawyd y teulu heb un cymhorth at eu cynnalïaeth. Pe buasai y cyfryw un wedi yswirio ei fywyd am ychydig gannoedd o bunnau, mor fanteisiol a fuasai hynv erbyn dydd ei farwolaeth, er mwyn galluogi y weddw i ddwyn ymlaen y fasnach er cynnalïaeth iddi ei hun a'i phlant. Nid dychymyg disail ydyw y dybiaeth a wnaed; oblegid byddai yn hawdd dwyn ymlaen liaws o ddygwyddïadau galarus i ardystio i wirionedd yr hyn a ddywedwyd, yn gystal a'r canlyniadau gofidus o esgeuluso moddion sydd mor gymhwys i ddarparu i eraill ag ydyw cymdeithasau yswirol. Dylai pob masnachwr wneuthur sicrach darparïaeth i'w deulu nag a all wneyd trwy ei ddiwydrwydd masnachol, am fod einïoes trefn ar y ddaear mor ansicr. Ymddengys fod nifer mawr o boblogaeth dryfydd, yn enwedig trefydd masnachol, yn gynnwysedig o ysgrifweision, y rhai y gwyddys nad ydynt yn derbyn ond cyflogau lled fychain yn gyffredin, ac yn rhwym o ymddangos yn daclus yn eu gwisgiad. Y mae yn hynod o anhawdd i'r cyfryw allu cynnilo ond ychydig, er mwyn *casglu* defnydd darparïaeth i'w teuluoedd; a phe gallent gael sicrwydd o hir ddyddïau ar y ddaear i hyny, dichon mai bychan iawn fyddai y ddarparïaeth wedi llawer o flynyddau o gynnïlo, tuag at gynnal gweddw, a gorpheu magu lliaws o blant; ond yn gymaint ag nad oes gan yr un dyn brydlës ar ei fywyd, ond ei fod yn gyffelyb i darth, dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hyny yn cilio ymaith, a bod holl gynnysgaeth y teulu yn ymddibynu arno ef, onid ei resymol wasanaeth—ie, ei ddyledsyydd bwysicaf—ydyw defnyddio moddion sydd mor gyfaddas i wneuthur darparïaeth i'r rhai sydd yn ymddibynu arno ag ydyw oes-yswiriante? Yn hytrach nag ymddiried priod a phlant i garedigrwydd cyfeillion a pherthynasau am eu bara beunyddiol, dylai pob penteulu yn ddiodei ymdrechïu effeithio bywyd-yswiriante gyda rhyw gymdeithas. Esgus gwan ydyw dywedyd nas dichon wneuthur hyny,—fod gormod o ofyn ar ei ennill tuag at gadw ei deulu i allu defnyddio un rhan o hono i dalu yr arbrid. Y mae yn lled debygol nad oes yr un teulu nas gall hebgor rhyw ychydig o'i gysuron presennol er mwyn darparu erbyn amser ag y dichon i'w cynnalïydd gael ei ddwyn oddïarnynt. Mae yn anhawdd credu fod gwir ofal gan un dyn am ei deulu os nad ydyw yn darparu ar eu cyfer ond yn unig dros yr amser presennol, ac yntau heb ddim ond ei gyflog iddynt ymddibynu arno, a pharhâd hwnw mor ansicr a'i fywyd ef. Pe byddai dyn yn ystyried yr ddirifol yr amgylchiadau truenus y syrthïai ei deulu iddynt ar ei farwolaeth, yn ol y dybiaeth hon, yr ydym yn credu yr ymdrechai, hyd eithaf ei allu, i gynnïlo rhyw gymaint er mwyn effeithio darparïaeth ar eu cyfer, ac felly eu gwneyd yn annibynol ar elusengarwch cyfeillion. Y moddion cymhwysaf, gan hyny, i'r dosbarth lliosog dan sylw ddarparu i'r rhai sydd yn ymddibynu arnynt yw oes-yswiriante. Byddai yn hawdd dwyn rhestr faith o ddygwyddïadau er dangos hyny, pe byddai raid.

Y mae y sefydliadau hyn yn hynod ddefnyddiol eto i'r dosbarth dysgedig ac athrawol er darparu i'w teuluoedd. Mae nifer mawr o'r rhai hyn heb ddim ganddynt i ymddibynu arno am gynnalïaeth iddynt eu hunain a'u teuluoedd ond frwyth eu llafur beunyddiol; a phe cymerid hwynt ymaith, dyna obaith y teulu wedi ei gollï. Y mae y rhan fwyaf o'r dosbarth yma, megys meddygon a chyfreithwyr, yn ennill arian mawr; a phe caent sicrwydd y byddent byw am ychydig flynyddau, dichon y gallent

gasglu defnydd darpariaeth gysurus i'w teuluoedd. Ond yr anffawd ydyw ansicrwydd einioes gyda hwy fel pawb eraill; gan hyny, eu dyledswydd a'u doethineb yw defnyddio y moddion hyny sydd yn gymhwys i ddarparu i eraill yn wyneb byrder oes, yr hyn a ellir ei wneyd yn unig trwy gyfrwng y cymdeithasau dan sylw. Pa sawl merch a fagwyd yn foethus, ac a ddygwyd i fyny megys ar liniau llawnder, ac a ymsfydlodd yn y byd yn ddy-munol, yn llawn o ddysgwyliadau hyfryd,—Rhagluniaeth yn gwenu arni hi a'i phriod yn nghynnydd y teulu, ac yn eu hamgylchiadau, fel yr ymddangosent fel pe na buasai modd i un anghysur na chwerwder ddygwydd iddynt,—ond ryw ddiwrnod, dyna y gŵr yn cael ei gymeryd yn glaf, ac er pob ymdrech meddygol, gwaeth y mae yn myned, ac o'r diwedd yn marw, ac heb wneyd braidd ddim darpariaeth i'r teulu ar ei ol! Mae yr hon oedd ddoe megys yn cael ei hamgylchu â llawnder o bob cysur, erbyn heddyw wedi ei hamddifadu agos o bob peth. Nid oedd hi, sydd yn awr yn weddw, erioed wedi ymarfer â gwaith o un math, a'r plant bach tyner yn analluog i wneuthur dim er eu cynnalïaeth. O! y fath gyfnewidiad gofidus! ac i'w briodoli i fesur mawr i ddiffyg rhagofal y tād. Pe buasai wedi bod mor ddarbodus ag yswirio ei fywyd wrth ddechreu byw am swm cyfatebol i'w sefyllfa, gadewsid hyny i'r teulu tuag at eu cynnalïaeth, a buasai eu colled a'u galar felly yn llawer llai. Po fwyaf cysurus y sefyllfa y byddo teulu wedi bod unwaith ynddi, mwyaf oll fydd y cyfnewidiad iddynt wrth syrthio i amgylchiadau cyfyng; ac y mae hyny yn cael ei deimlo yn llawer mwy anoddefol ganddynt hwy na'r un cyfyngder gan deuluoedd y mae wedi bod yn lled wasgedig arnynt o'r blaen. Eto, llawer teulu dedwydd sydd wedi cyfarfod â'r cyfnewidiad blin y sonir am dano, ag y buasai yn hawdd iddynt osgoi hyny pe buasai mwy o ragofal yn y pentēulu am ddarbod ar gyfer y rhai oedd yn ymddibynu arno am gynnalïaeth.

Y mae yn ddyledswydd gymdeithasol a moesol ar bob dyn ofalu am ei deulu; i.e. mae y ddyledswydd hon yn un grefyddol hefyd, oblegid dywed yr apostol am yr hwn sydd "heb ddarbod dros yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu, ei fod wedi gwadu y ffydd, ac yn waeth na'r di-ffydd." Nid oes gan yr un dyn hawl gyfreithlawn i ddwyn un arall i drallod a blinder trwy briodi, nag ychwaith i fod yn foddion bodolaeth i neb i'r cyfryw amgylchiadau. Y mae wrth wneuthur hyny yn troseddu yn erbyn cymdeithas, ac yn ymddwyn yn anghyfiawn tuag at ei gydgrēadur, ac felly yn gweithredu yn bechadurus. Nid yw fod dyn, ar y cychwyn, yn meddu moddion cynnalïaeth gysurus trwy ei gyflog, ac yn gobethio am hir ddyddïau i ofalu am ei eiddo, yn ddigon o reswm am ddwyn eraill i ymddibynu arno, os nad yw yn gwneyd dim yn ychwaneg erddynt; oblegid nis gŵyr ef ddydd ei farwolaeth, na pha awr y cymerir ef oddiwrthynt; a pha beth a wnânt y pryd hyny, os na bydd rhyw ddarpariaeth sicrach wedi ei gwneuthur iddynt?

Ond y mae, nid yn unig yn ddyledswydd ar ddyn *ddarparu* i'w eiddo, ond hefyd i ymdrechu ar i'r ddarpariaeth fod yn gyfryw ag y gallont fyw yn lled debyg i'r hyn oeddynt yn arfer wneyd pan oedd ef gyda hwy. Ni byddai hyny mor anhawdd pe baent yn ymattal oddiwrth yr hyn nad ydyw ond moethusder. Mae lliaws yn afradloni llawer o'u harian er mwyn boddio eu blys, a gellid yn fynych yn hawdd hebgor digon i dalu am yswirio swm lled fawr ped arbedid yr arian a dreulir am yr hyn nad ydyw, ac nas gall fod, o fawr lês. Y diffyg mawr yn aml ydyw gallu gwasgu yn

ddifrifol ac effeithiol at ystyriaeth penau-teulaoedd y ddyledswydd sydd yn gorphwys arnynt i wneuthur darpariaeth i'w teuluoedd. Mae hwyrfrydigrwydd yn beth naturiol i ddyn gyda golwg ar yr hyn sydd yn perthyn i'r dyfodol. Addefa llawer yn rhwydd fod cymdeithasau yswiriant yn foddion cyfleus i wneyd darpariaeth ar gyfer gwraig a phlant, ond anhawdd ydyw ennill y cyfryw i'w defnyddio i hyny, am nad ydynt yn gweled fod hyny yn llës iddynt hwy yn bersonol. Mae hyn yn ymddangos yn hynod o hunanol; ac, yn wir, y mae yn ynyd hefyd. Oblegid y gwirionedd yw, fod dyn, wrth ddarparu drwy gyfrwng y cymdeithasau hyn, yn gallu gwneyd hyny gyda llai o draul nag y boddionai wneuthur pe dechreuai gynnulo er mwyn darparu i'w deulu; ac o ganlyniad, mae ganddo fwy o arian at ei wasanaeth ei hun trwy'r moddion hwn nag a gai trwy yr un llwybr arall, ar y dybiaeth ei fod yn rhoddi heibio swm penodol yn flynyddol.

Heblaw hyny, y mae y cysur meddwl a fwynhêr gan ddyn wrth ystyried ei fod wedi gwneyd cystal darpariaeth ag a fyddo yn ddichonadwy iddo i'w deulu erbyn y dygwydd iddo gael ei gymeryd oddiwrthynt, yn hynod werthfawr iddo. Gall feddwl am ddydd ei farwolaeth yn ddioid, gyda golwg ar ei deulu, i.e, gall lawenhâu yn angu wrth edrych ar ei hoff briod a'i anwyl blant o amgylch ei wely, a chofio na bù yn ddiotal am danynt yn ei fywyd a'i iechyd, ond ei fod wedi darparu erddynt hyd y gallai. Llawer gŵr a thâd sydd wedi cael gwely marw yn lled ddreiniog am ei fod wedi esgeuluso darbod dros ei eiddo, ac yn teimlo wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar i hyny nad oedd dim yn aros y rhai oedd hoff ganddo ond tlodi, neu ddibyniad ar garedigrwydd cyfeillion a pherthynasau, neu ynte gynnorthwy plwyfol. Y mae y sylwadau canlynol a wnaed gan y Parch. Dr. Cook o'r America, mewn darlith a draddodwyd ganddo yn ninas Quebec, ar oes-yswiriant, yn hynod effeithiol; gan hyny, gosodwn hwy i mewn:—“Mae braidd yn anhosibl,” medd y Doctor, “gorddarlunio maint y trueni, pan y byddo y penteulu yn cael ei dero i lawr, a'r aeolodau yn cael eu gadael mewn diymadferthwch a thlodi. Nid digon yn y fath amgylchiadau bod y serchiadau yn cael eu llethu. Teimlir yn ddioid drueni anghen—mae ymddibyniad ar yr hyn nad yw yn fynych ond cynnorthwy ansefydlog a chrintachlyd rhai eraill—mae terfyn yn cael ei roddi ar annibyniaeth a chysur yr holl deulu. Mewn mynydyn, drwy ddygwyddiad sydd ynddo ei hun, ac yn annibynol ar amgylchiadau, y mwyaf poenus, mae ffynnonell pob cysur a dedwyddwch yn cael eu sychu i fyny; mae y galarwyr digymhorth ar y pryd yn cael eu gwneyd yn ymddibynol—fe allai agos, os nad yn hollol, yn gardotwyr. Yn nhorriad y teulu i fyny—yn rhanid yr aeolodau—yn yr ymdrechladau egwan i gadw i fyny ryw beth cyffelyb i'r edmygedd blaenorol, a disgyn yn raddol i iselder tlodi,—y mae, fe allai, gymaint o drueni yn cael ei deimlo ag o dan ddifuddiad mwy sylweddol. Y galon, yn y cyfryw amgylchiadau—calon y weddw a'r amddifad—a wŷr ei chwerwder ei hun, a neb arall. Yn ddiâu, y mae yn gweddu iddo ef, i'r hwn y mae serchiadau y galon hõno wedi bod yn fwyaf ymroddgar, ragflaenu y posibilrwydd o'r fath gyfnod o brofedigaeth ac ymddifadrydd, ac mor bell ag y mae yn ddichonadwy, ddarparu moddion er ei liniaru a thawelu ei dristwch. Os nad all droi heibio ddyrnod marwolaeth, er hyny, drwy ragofal doeth, gall droi heibio, o leiaf, aflwyddion tlodi, a thrueni ymddibyniaeth.”

Heblaw i'r dosbarthiadau a nodwyd, mae cymdeithasau yswiriant yn

foddion cyfleys i foneddwy'r a phendefigion wneuthur darpariaeth i'w plant ieuengaf, drwy yswirio er eu mwyn. Mae llawer o'r rhai hyn yn ein gwlad nas gallant hebgor o'r hyn sydd yn dyfod i mewn yn flynyddol ond ychydig tuag at gynnalïaeth y cangenau ieuengaf, fel pan y mae y tād yn marw, a'r mab hynaf yn cael yr etifeddiaeth, mae y plant eraill yn gorfod boddloni ar ran fechan mewn cymhariaeth. Hawdd fyddai i'r tād argystadlu yr anhegwch hwn trwy yswirio ei fywyd yn ddigon helaeth. Mae hyn yn cael ei wneyd y dyddiau hyn yn llawer helaethach nag y bu.

Yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd, mae y sefydliadau hyn hefyd yn hynod o fanteisiol i liaws o amcanion eraill, megys i echwynwr ddiogelu ei hun rhag colled trwy yswirio bywyd ei ddyledwr. Mae gweithrediadau masnachol o wahanol natur yn cael eu rhwyddhâu yn fawr trwyddynt hefyd. Gall dyn fenthyca arian er mwyn ymsefydlu mewn masnach, trwy yswirio ei fywyd yn sicrwydd dros ad-daliad yr arian pe dygwyddai iddo farw cyn gwneuthur hyny. Dau ddyn, wrth gyduno i ddwyn ymlaen unrhyw alwedigaeth, a allant yn rhwydd gydyswirio eu bywydau, a thalu yr arbrid allan o'r elw; yna, ar farwolaeth un o'r ddau, daw y swm a ddiogelwyd yn dderbiniol i'r goroeswr, ac yn gynnorthwy iddo drefnu yr amgylchiadau gyda pherthynasau y trengedig, ac i fyned ymlaen gyda'i fasnach yn rhwydd.

Heblaw bod yn foddion i ddyn ddarparu i eraill ar ol ei farwolaeth, a rhwyddhâu gwahanol weithrediadau masnachol, mae cymdeithasau yswirio yn hynod o fanteisiol iddo ddarparu iddo ei hun yn fwy uniongyrchol trwy brynu blyydd-dâl i ddechreu yn ddioed, neu ynte pan y cyrhaeddo oedran neillduol. Mae hwn yn gynllun sydd yn cyd-daro â theimladau y mwyaf hunanagar. Gellir hefyd ddarparu erbyn dyddiau henaint a methiant, pan y bydd dilyn galwedigaeth wedi dyfod yn orchwyl rhy anhawdd, a dim i ymddibynu arno ond caredigrwydd cyfeillion a pherthynasau, neu elusendai. Wrth ddechreu yn gynnar, hawdd fyddai i ddyn ddarbod moddion cynnalïaeth iddo ei hun erbyn y cyrhaeddo 60 neu 65 oed—mwy neu lai. Pe byddai dyn 30 oed yn prynu blyydd-dâl o £50 yn y flwyddyn, i ddechreu pan y byddo yn 60, ni fyddai raid iddo dalu er sicrhâu hyn ond £7. 8s. 6d. yn flynyddol hyd nes y cyrhaeddi yr oedran olaf; ac o hynny allan, cai agos bunt yn yr wythnos am y gweddill o'i oes, heb fod dan rwyman i neb, ond mwynhâu ffrwyth ei lafur rhagddarbodol ei hun. Gellir prynu blyydd-dalion o bob math trwy gyfrwng y cymdeithasau hyn, pa un bynag ai ar fywyd unigol, cyd-oesiad, neu ynte hwy-oesiad. Y maent hefyd yn foddion cyfleys i wneuthur darpariaeth i blant erbyn y cyrhaeddont oedran neillduol, megis 14 neu 21 oed. Gellid darbod symiau anghenrheidiol er dwyn bachgen i fyny mewn masnach, neu unrhyw alwedigaeth arall y mae yn ofynol cael swm penodol i hyny. Llwyer o rieni sydd yn methu dwyn eu meibion i fyny yn y modd y dymunent, o ddifffyg gallu arianol i gyfarfod y gofyniadau anghenrheidiol i'w gosod allan ar y cyntaf. Byddai yn hawdd cyflenwi y diffyg hwn trwy brynu gwaddoliad, i'w dderbyn pan y byddo y bachgen wedi cyrhaedd oedran priodol i'w freintwasu. Gellid hefyd, trwy y sefydliadau hyn, ddarbod cynnysgaeth i ferched erbyn y cyrhaeddont un ar hugain oed, yr hyn, yn ddiau, a rwyddhâu y ffordd yn fawr i lawer benyw landeg i fywyd gwahanol i'r hyn sydd yn dygwydd i nifer liosog o honynt, o achos bod yn amddifad o'r hyn sydd mor hudoliaethus i galon dyn—arian. Gellid defnyddio cym-

deithasau yswirol i amrywiol ddybenion eraill, heblaw y rhai a nodwyd; mewn gwirionedd, mae yn anhawdd dywedyd mewn pa nifer o wahanol ffyrdd y maent yn hynod o ddefnyddiol a chymhwys i ymwneyd â hwy. Ond y dull mwyaf penodol, ag y carem yn fawr i'n darllenwyr a'n cydwladwyr sylwi arnynt ac ymarfer â hwy, ydyw fel cyfryngau rhwydd ac effeithiol i wneuthur darpariaeth i'w teuluoedd. A phe cymerai hyny le yn llawer mwy cyffredin nag y mae hyd yn hyn, yr ydym yn bur hyderus y byddai hyny yn fendith fawr i'n gwlad, trwy wellhâu amgylchiadau y trigolion. Byddai anghen â thlodi yn llawer llai nag ydynt yn bresennol. Ni welid cynifer o deuluoedd yn syrthio i amddifadrwydd ac eisieu—i fod yn faich ar eraill. Byddai ein trethi yn ysgafnach nag ydynt pe na byddai tlodion i'w cynnal, ac ni byddai anghen mwy am llotai ac elusendaï, pe byddai i bob penteulu ragddarbod dros ei eiddo ei hun. Nid oes yr un deyrnas ar wyneb y ddaear mor ofalus am y tlodion, nac yn treulio cymaint o arian ar sefydliadau elusengar, â'n gwlad ni. Y mae yn anhawdd gwybod maint y swm a gyfrenir yn flynyddol i'r tlodion, rhwng yr hyn a wneir yn blwyfol ac yn ddirgel. Eto nid oes ammheuaeth nas gellid gwneuthur llawer mwy o lês i'r dosbarth iselaf na thrwy gyfranau yn helaeth tuag at eu cynnal yn y modd hwn, sef trwy eu dysgu i ddarparu drostynt eu hunain. Fel y sylwodd un ysgrifenydd, "Rhoddion cyson i berson anghenus, pa mor uchel mewn gradd, neu urddol ei ansawdd, a effeithia bob amser yn fwy neu lai ar gymeriad moesol ei feddwl, a rheoleidd-der ei arferiadau, ac yn raddol a ddyfetha hyd yn nod ymadferthiad penaf egui dynol—ei gariad at annibyniaeth; oblegid y mae bob amser mewn perygl o syrthio i baroddrwydd i edrych am gynnalïaeth at foddion anwadal yn hytrach nag at ei ymdrechiadau ei hun, ac o farweiddio ei deimladau i'r gwarth o ymostwng i dderbyn gan eraill yr hyn y dylai ymdrechu am dano ei hun. Yn ganlynol, y mae i'w ystyried, mai o'r cyffredin, ymysg y rhai y mae effeithiau elusen yn fwyaf amlwg, y rhai sydd yn byw yn nghymydogeaeth teuluoedd cyfoethog sydd bob amser yn yr amgylchiadau truenusaf,—sydd yn mwynhâu lleiaf o gysuron,—ac sydd mewn cyflwr llawer distadlach o ran ymddibyniaeth na phan nad oes ganddynt yr un moddion eraill i fyw, ond gofyniad gwerthadwy am eu llafur. * * * * Nid yw yr un math o elusen, gan nad pa mor ofalus y gweinyddir hi i'r rhai sydd yn byw trwy lafur, yn gwellhâu eu cyflwr pan y derfydd a bod yn achlysurol. Nid yw cynnorthwy parhâus, mewn unrhyw fodd, yn cael ond un effaith arnynt, sef, magu eisieu parhâus, neu ymddibyniad parhâus arno. Nis gall meibion llafur byth lwyddo ond wrth ymagnaio yn barhâus tuag at annibyniaeth, a gwir annibyniaeth sydd ganlyniad eu harferiadau diwyd eu hunain. Rhaid, gan hyny, i holl gynlluniau diymwad gwelliant, y rhai a arferir gan elusendod, arwain yn uniongyrchol, neu yn anuniongyrchol, i gefnogi yr arferiadau hyn, er mwyn taftu, yn y diwedd, y personau hyny ar eu hadnoddau eu hunain. Ymhlith yr holl foddion er cyflawni hyn o amcan, nid oes yr un yn ymddangos yn fwy hollol addas, na chymdeithasau o natur ddarbodus, oblegid ar yr un pryd ag y maent yn cadarnhâu y galluoedd moesol, ac yn èangu cylch cymundeb cymdeithasol (*social intercourse*), y maent yn annogaeth i barhâd diwydrwydd trwy wneyd hyny yn barhâus yn fuddiol. Yr unig foddion trwy y rhai y gall elusen yn wastadol gymwynasu y dosbarth gweithiol, heblaw trwy addysg ac esiampyl, yw trwy eu rhoddi yn y ffordd

i gynnal eu hunain, pan y byddo afiechyd, damwain, neu henaint, wedi eu hanalluogi i lafur; nid oes yr un ffordd mor addas yn ymgynnyg er rhwyddhâu mor effeithiol yr amcan hwn â chydundeb er mwyn cyd-lês, fel yr hyn a effeithir trwy gymdeithas ddarbodus, dosbarth o sefydliadau trwy y rhai y mae dyn yn alluog i wneuthur mwy, gydag ychydig foddion, na thrwy yr un dull arall a all ddefnyddio." Yn ddiammheu, y caredig-rydd mwyaf a ellir ei wneyd i'r dosbarth gweithiol ydyw eu dysgu i rag-ddarbod drostynt eu hunain; ac yn gymaint nas medrant wneuthur hyny mewn un ffordd mor effeithiol a thrwy gymdeithasau yswiriant, dylid ymdrech argymhell yn barhâus y sefydliadau hyn i'w sylw, a dangos iddynt mor hawdd y gallant trwyddynt wneyd darpariaeth i'w teuluoedd.

Mae rhai personau yn hoffi Addodau Cynnilion (*Savings' Banks*) fel moddion i gasglu tipyn i'w teuluoedd. Mae y sefydliadau hyn wedi bod o fawr lês i wahanol ddosbarthiadau, ac yn parhâu felly; ond nid ydynt i'w cymharu â'r cymdeithasau eraill yn maint y llês a all ddeilliaw trwyddynt i'r trigolion. Y mae dyn wrth roddi ei arian mewn Addawd Cynnilion yn eu rhoddi mewn lle y maent yn hynod o gyfleus iddo eu cael yn ol i'w defnyddio pa bryd bynag y dichon iddo deimlo unrhyw anghen am danynt. Mae y ffaith fod swm o arian yn perthyn iddo, ac wrth law, yn hawdd i'w cael, yn fath o demtasiwn iddo, ac yn ei osod ar bob achlysur yn agored i syrthio arnynt, pan y gallai, gydag ychydig o ymdrech a hunanymwadiad ar y pryd, wneuthur hebddynt; ond am eu bod mor hawdd i'w cael, wrth eu bod mewn Addawd Cynnilion, eu defnyddio a gânt. Eithr wrth i ddyn effeithio oes-yswiriant, ni byddai yr un demtasiwn yn ei gyrrhaedd—teimlai nas gallai gael yn ol, pe yr ewyllysiai, ond rhan o'r hyn a dalwyd ganddo i'r swyddfa yswiro, a phe rhoddai i fyny yr yswiriant, nis gallai ail-ffeithio un ar yr un telerau, a chymeryd yn ganiatâol y bydd ei iechyd yn parhâu heb waethgu. Ni wnai yr un dyn ystyriol mo hyny, o herwydd ei ofal dros ei deulu, ond ymdrechai, wedi iddo unwaith yswirio, hyd eithaf ei allu, i gadw hyny i fyny; a gwnai lawer ymdro mewn awr gyfyng i gael moddion i dalu yr arbrid. Heblaw hyny, pe byddai i ddyn, am amryw flynyddau, roddi heibio swm bychan mewn Addawd Cynnilion, dichon na byddai hyny ond darpariaeth fechan erbyn henaint neu afiechyd, ac na pharhâi cyhyd ag y byddai ei eisieu; ond pe byddai yr un swm yn cael ei ddefnyddio yn flynyddol i brynu blwydd-dâl, neu i ddarparu erbyn afiechyd, sicrhâi hyny fanteision llawer mwy parhâus, os nad mwy cyflawn.

Hefyd, wrth effeithio oes-yswiriant, mae dyn yn sicrhâu i'w deulu, ar *unwaith*, gynnalïaeth erbyn y byddo efe farw, pe cymerai hyny le drannoeth, neu ymhen awr, wedi i'r weithred gael ei chyflawni. Fel y sylwyd eisoes, nid oes dim mor anwadal ag oes dyn, a'i gymeryd wrtho ei hun; ond wrth gymeryd lliaws o ddynion gyda'u gilydd, gellir penderfynu agos i sicrwydd pa sawl un allan o nifer neillduol a fydd marw mewn un flynyddyn, neu mewn unrhyw nifer o flynyddau. Er esiampl, allan o fil o ddynion, i gyd yn 25 oed, ac yn yr un amgylchiadau, mae bron yn sicr y bydd deuddeg o honynt farw cyn cyrrhaedd 26 oed; ond y mae yn hollol amhosibl gwybod pwy o'r mil a all y deuddeg anffodus fod. Mae hefyd yr un sicrwydd y bydd 125 o'r cyfryw ddynion wedi syrthio i'r byd arall cyn cyrrhaedd 35 oed. Mae yr hyn sydd yn hollol ansicr gyda golwg ar ddyn arno ei hun, yn dyfod yn ddeddf berffaith reolaidd yn ei gweithrediad wrth gymeryd nifer o blant dynion gyda'u gilydd, yr hyn sydd yn

galluogi trefniad moddion cymhwys er darparu gogyfer ág ansicrwydd marwolaeth ac afiechyd; ac ni chanfyddwyd, hyd yn hyn, sefydliadau mor gyfaddas er mwyn cyrhaedd hyny o amcan a chymdeithasau yswirol. Y mae rhai dynion yn erbyn y sefydliadau hyn, am y dichon iddynt, pe caent oes hir ar y ddaear, dalu mwy i mewn iddynt nag a dderbynir ar eu marwolaeth gan eu perthynasau o honynt, pan y telir i deulu dyn fyddo wedi bod mewn cysylltiad â hwy ond am un flwyddyn, neu wedi talu ond un arbrid, yr un swm a phe buasai wedi byw 20 neu 30 o flynyddau. Gwir y derbynir yr yswiriant ar ol ond un taliad mor sicr ag ar ol ugain neu ychwaneg; ond, yn ddilys, nid achos beio yw hyny, eithr yn hytrach yn y gwrthwyneb. Os gwna Rhagluniaeth estyn bywyd un yn hytrach na'r llall, onid ydyw hyny yn destun diolch i'r ffodus, mai nid ese a dorwyd i lawr yn gynnar, ac na adawyd ei deulu ef yn amddifad? A ydyw yn ddoethineb, gan hyny, ynddo ef ymesgusodi gyda'r fath wrthddadl? oblegid dichon iddo ef ei hun fod yr anffodus hwnw, ac mor hyfryd i'w deimladau fyddai meddwl, er ei oddiweddyd gan angeu yn annysgwyladwy, fod darpariaeth wedi ei gwneyd i'w deulu. Mae pob dyn meddylgar yn teimlo math o ad-daliad yn ei fynwes wrth ystyried ei fod, ar yr un pryd ag yr oedd yn llesoli ei deulu ei hun trwy ddarparu erddynt, wedi bod yn foddion, ynghydag eraill, i gynnorthwyo ei gymydog, a gymerwyd ymaith yn sydyn, i ddarbod i'w deulu yntau, ac felly eu diogelu rhag myned yn faich ar na pherthynas na phlwyf, a rhag syrthio i anghen a thlodi. Amlwg ydyw, pe byddai dynion yn marw oll yn gynnar ar ol ymuno â'r cymdeithasau hyn, nas gellid eu dwyn ymlaen ar y telerau ag y gwneir yn bresennol; ond byddai raid i'r taliadau fod yn llawer uwch nag ydynt, onidê buan y terfynai y sefydliadau oll mewn torgedaeth (*bankruptcy*). Ond mae yr aelodau sydd yn byw yn hir yn gwneyd i fyny am fyrder oes y rhai sydd yn marw yn gynnar; felly, wrth gymeryd y cwbl ynghyd, y maent yn cyrhaedd canolfed ran einioes—mae y naill yn cael ei osod ar gyfer y llall. Mae taliadau y ffodus sydd yn cael hir ddyddiau ar y ddaear—sydd yn myned dros ganolfed ran oes, yn cyflawni y diffyg a achosir trwy farwolaeth yr anffodus nad yw yn cyrhaedd yr oedran dysgwylidig. Nid ydyw yr hyn a dybir yn yr wrthddadl yn hollol gywir, sef bod dyn a fydd byw hwyaf ar yr un tir yn gymhwys ag un arall sydd yn marw yn fuan gyda golwg ar yr hyn a adewir ganddynt i'w teuluoedd, oblegid os bydd dyn yn gofalu am yswirio mewn swyddfa lle mae yr oll, neu ran, o'r elw a wneir yn cael ei ddosbarthu rhwng yr aelodau; yna po hwyaf y parhau yn aelod, a pho fwyaf a dalo i mewn, mwyaf fydd y swm a dderbynir ar ei farwolaeth. Y mae, mewn ystyr, yn cael llôg am ei arian, fel nad ydyw yn gymaint colledwr, os estynir ei ddyddiau gan Ragluniaeth, ag a feddyliar ar y cyntaf.

Y mae y cymdeithasau hyn hefyd yn foddion hynod effeithiol er cynnyddu moesoldeb yn ein gwlad; oblegid rhaid i'r sawl i'w awylysis fod yn aelod o honynt fod yn sobr a chymedrol yn ei holl ymarferiadau, onidê nid oes iddo dderbyniad fel yswirydd. Nid yw yr un gymdeithas a lywyddir yn deilwng yn foddllawn i dderbyn meddwyn i gyfranogi o'i breintiau. Gan hyny, os dymunai y cyfryw un wneuthur darpariaeth i'w deulu trwy oes-yswiriant, rhaid iddo yn gyntaf ddiwygio oddiwrth ei arferion anfoesol, a dyfod yn ddyn sobr. Y mae meddwod yn byrhau einioes dyn, ac o herwydd hyny mae pob cymdeithas o dan fath o anghenrheidrwydd i wrthod pob un

sydd yn yfed i ormoddedd, os ceir prawf o hyny, neu ynte rhaid gwasgaru y dyn a'i chwant oddiwrth eu gilydd. Er nas gellir yn hawdd amgyffred maint y daioni sydd yn deilliaw i gymdeithas trwy offerynoldeb y sefydliadau dan sylw, eto mae yn resyn meddwl cân lleied yw nifer y rhai, hyd yn hyn, sydd yn ymarferyd â hwy, a'u defnyddio fel moddion i ddarparu i'w teuluoedd. Bernir nad oes yn y Deyrnas Gyfunol ddim dros 250,000 neu 300,000 wedi yswirio eu bywydau, yr hyn nid yw ond ychydig iawn o'u cymharu â phoblogaeth y deyrnas—tuag un o bob cant, a chymeryd yr holl ddosbarthiadau ynghyd. Mae y cyfanswm a yswirir ar fywydau yn gant a hanner o filiynau o bunnau (£150,000,000), am yr hyn y telir yn flynyddol, fel arbrid, tua phum' miliwn o bunnau (£5,000,000). Er fod y swm uchod yn ymddangos yn sawr iawn, eto wrth ystyried nifer trigolion ein gwlad, nid ydyw ond ychydig wrth yr hyn y gallai, ac y dylai fod. Mae yn dda genym feddwl fod y cymdeithasau hyn yn cynnyddu yn flyneddol yn eu nifer, yn gystal ag yn nifer eu haelodau, yr hyn yr ydym yn benaf yn hoffi ei ganfod; ac y mae y cynnydd wedi bod yn lled amlwg yn ystod y chwe' blynedd diweddf. Mae mwy o'r dosbarth gweithiol yn dyfod i ganfod buddioldeb oes-yswiriant, ac wedi ymarferyd â hyny yn ddiweddar yn llawer helaethach nag erioed o'r blaen. Byddai yn bur ddymunol pe gellid dwyn y dosbarth hwn yn gyffredin i deimlo eu rhwymedigaeth i ddarparu yn ol eu gallu ar gyfer eu teuluoedd, yn hytrach na'u gadael fel cymynrodd i ofal plwyfolion, heb ddim at eu cynnalïaeth ond a dderbyniont o ddwyllaw elusengarwch. Byddai hyny y llwybr mwyaf effeithiol i attal tlodi a thrueni, a'r ffrwd o anfoesgarwch sydd yn anwahanol gysylltiedig â hyny.

Wrth derfynu y sylwadau hyn, rhaid i ni ddadgan yr hyfrydwch a deimlir genym fod cymdeithas yswirol o'r diwedd wedi ei sefydlu yn Nghymru. Nid oes awydd arnom i feio llawer ar hen "wlad ein tadau;" er hyny y gwir a ddylid ei adrodd, fod Cymru wedi bod, hyd yn lled ddiweddar, ymhellach yn ol mewn sefydliadau masnachol a chymdeithasol nag un ran arall o'r Deyrnas Gyfunol. Nid rhyw gymaint o wahaniaeth sydd rhwng Cymru a'r Alban o ran eu maintioli, a nifer y trigolion; ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt yn amllder yr amrywiol sefydliadau a geir yn y naill rhagor y llall. Nid oes yr un dosbarth o ddeiliaid ei Mawrhydi ymlaen ar yr Ysgotiaid o ran rhif, amrywiaeth, a buddioldeb eu sefydliadau, a diammheu fod hyny yn un achos, os nad y penaf, o'u llwyddiant cyffredinol fel cenedl. Carem weled y Cymry yn eu hefelychu yn fwy yn hyn. Yr ydym yn hyderu y gwna ein cydwladwyr ddefnydd da o'r gymdeithas yswirol sydd wedi ei sefydlu yn eu plith, trwy ddiogelu eu meddiannau rhag tân, yn gystal a darparu ar gyfer eu teuluoedd trwy oes-yswiriant. Yr ydym yn cwbl gredu fod y gymdeithas a elwir y *Provincial Welsh Insurance Company* wedi ei seilio ar egwyddorion perffaith gywir, fel nad rhaid i neb ammheu nac ofni iddi fethu yn ei dybenion. Y mae eisoes wedi llwyddo yn helaeth yn ei hamcan i gael llawer o'r Cymry i yswirio eu heiddo a'u bywydau, na fuasant, mae lle i greu, yn gwneuthur hyny pe na sefydlassid y gymdeithas hon. Y mae awydd arnom am weled y gymdeithas Gymreig yn uchel ei bri ymhlith sefydliadau o'r un natur yn y deyrnas, yr hyn y mae yn sicr o gyrhaedd os gwna y Cymry gyflawni eu dyledswydd i'w teuluoedd trwy ddarparu erddynt, yr hyn a bâr i'r sefydliad hwn fod yn fendith fawr i'n gwlad yn gyffredinol.

FY MAB.

GAN Y PARCH, WILLIAM REES.

"*Y mae fy ymadrodd heddyw yn chwervw.*" Erioed nid ymafodd fy neheulaw hon yn ei hen gydymaith, y pin, i gyflawni tasg mor galed i'm teimladau ag ydyw ysgrifenu coffadwriaeth am fy ymadawedig fab—"dymuniant fy llygaid, ac anwyldra fy enaid." "O! fy mab! fy mab!"

Yn y rhifyn o'r TRAEHTHODYDD am fis Medi, 1856, ymddangosodd erthygl o'r eiddof dan y teitl, "Fy Nhâd;" ac ar y Sabboth, y 14eg o'r un mis, bu farw fy mab. Aethai wyth mlynedd ar hugain heibio wedi marwolaeth fy nhâd cyn i mi ymafyd yn y gorchwyl y bwriadaswn ganwaith, yn ystod y tymmor hwnw, ei gyflawni—sef ysgrifenu fy adgofion am dano. Y gymwynas olaf a allodd fy anwylyf fachgen ei gwneyd i'w dâd ydoedd adysgrifenu rhan o goffadwriaeth ei daid, pan oeddwn yn ei barotöi i'r wasg. Nid oeddwn yn meddwl y diwrnod hwnw, pan yn trefnu yr adgofion hyny am *fy nhâd*, fod y diwrnod gofidus hwn mor agos, pan y'm gelwid eto at y gorchwyl o ysgrifenu adgofion am dano yntau, *fy mab*, er fod natur ei afiechyd, a gwaeledd ei wedd, yn awgrymu hyny yn gryf ar y pryd; ond yr oedd gafaelion y serch yn rhy gryfiou a thynion am dano, fel na fynwn wrando ar lais rheswm. Eisteddai ef y diwrnod hwnw wrth fy ochr; ond wele fi heddyw, ymhen llai na chwe' mis ar ol hyny, yn eistedd ar yr un gadair, wrth yr un bwrdd, yn yr un ystafell; y mae y gadair yr eisteddai yntau ynddi yn fy ymyl yn awr; ond pa le y mae ef? "*A lle Dafydd oedd wâg!*" Y mae y bysedd gwynion tyner hyny a hwylient y pin mor gyfarwydd a destlus, y dydd hwnw, yn gorphwys yn oerion a diffrwyth yn mynwent Capel Sion y dydd hwn!

Enw fy mab oedd Dafydd, yn ol enw fy nhad. Ganwyd ef yn Heol Mostyn, Tachwedd 28, 1835. Efe oedd ein hail fab, a'r chweched o naw o blant. Planigyn tyner a gwanaidd ydoedd o'i fabandod; a daeth trwy lawer o gystuddiau yn ystod ei blentyndod. Symudasom o Heol Mostyn i Ddinbych pan oedd efe tua phymtheng mis oed. Yr oedd tegwch ei wedd, tlysnï ei lygad, bywiogrwydd a lledneisrwydd ei osgedd, yn tynu sylw cyffredinol ato pan oedd yn blentyn. Cof genym am foneddiges yn ei cherbyd agored ar heol Dinbych, un diwrnod o hâf, yn craffu arno fel y dygwyddai fod yn sefyll gerllaw, ac yn ei nodi allan i foneddiges arall oedd yn ymddyddan â hi, gan ddywedyd, "*What a beauty! Just look at the eye of that child!*" Yr oedd prydfwrthwch ei fabandod yn aros ac yn cynnyddu fel y cynnyddai yntau mewn oedran a maintioli; ond byddai yn cael ei wywo i raddau yn fynych gan awelon oerion cystudd. Pan gaffai ambell seibiant o iechyd, ail-flodeuai yn ei wedd, ac adbelydrai yn ei olygon drachefn. Yr oedd ansawdd a thymher ei feddwl yn cyd-daro yn hyfryd â phrydfwrthwch ei wynebpryd, fel y ceir achlysur i sylwi eto. Y mae yn dygwydd weithiau fod y galon falchaf, y meddwl gwamalfaf, yr ysbryd mwyaf taegogaid, a'r dymher fwyaf afrywiog, yn llechu dan y gruddiau glânaf a'r llygad tlysaf. Pan ddygwyddo rhywbeth i gyffröi a

chroesi y nwydau mewnol hyny, ymgyfodant fel ellyllon i'r wynebpryd a'r llygaid, nes ymlid ymaith o'r golwg ar y pryd yr holl dlysu arwynebol. Paentiad tlws ar y tu allan, yn gorchuddio hacrwch a gwrthuni tumewnol, ydyw y fath brydfferthwch; neu megys gemau teg wedi eu gosod i addurno wyneb tomen ffaidd. Ond nid felly yr eiddo ef; pe amgen, ni buasai yn werth genyf grybwyll am dano. Yr oedd ei agweddiad allanol yn wir ddelw o'r dyn oddimewn. Yr oedd ei dymher a'i ymddygiad bob amser mewn cydgordiad â thegwch ei wedd, ac addfwyndra colomenaidd ei lygad.

Yr oedd yr elfenau a addurnasant ei nodwedd yn addfedrwydd ei ieu-enctyd yn nawtio allan i'r golwg yn nhymmor ei blentyndod. "Y plentyn yw tād y dyn," medd hen wireb. Felly, yn wir, gellir dywedyd am dano ef, ddarfod i'r plentyn genedlu gŵr ieuanc ar ei lun a'i ddelw ei hun.

Yr elfen gyntaf y sylwasom ni arni ynddo ydoedd, *ysbryd annibynol*.—Pan yn blentyn gliniau ei fam, ni fynai i neb wisgo na thynu am dano, hyd nes y methai yn lân ei hunan yn gyntaf. Mynai wneyd ymdrech âg bob dydd, cyn yr ymostyngai i dderbyn cynnorthwy. Daeth felly i allu gwisgo a dyosg ei ddillad yn llawer cynt na phlant yn gyffredin; a mawr oedd ei lawenydd wedi iddo unwaith feistroli y gamp hon.

Pan geisid dilledyn newydd iddo, ei ofyniad bob amser fyddai, "Ddaru chwi dalu am dano fo?" Os, *na ddo*, fyddai yr ateb, dywedai yntau, "Fyna' i mo'no fo; 'does arna' i ddim i eisio fo." Ond os, *do*, fyddai yr ateb, y gofyniad nesaf fyddai, "Beth oedd o'n gostio?" Ac os enwid pris uchel, byddai yn bur anfoddlawn i'w gymeryd; ond os rhyw bris bychan a enwid, "O! o'r gore," dywedai, a gwisgai ef yn rhwydd ddigon. Synid ni yn sawr gan y gofyniadau hyn ar y cyntaf, gan nad oedd ond plentyn o dair i bedair blwydd oed ar y pryd. Cynnyddai yr ysbryd annibynol hwn ynddo gyda chynnydd ei ddyddiau. Nid allai oddef y meddwl i neb arall wneuthur dim drosto nac erddo a allai efe ei hunan ei wneyd. Yr oedd ofn rhag bod yn faich a thrafferth i neb arall yn y mesur lleiaf, hyd yn nod i'w dad a'i fam, ei frodyr a'i chwiorydd, yn peri blinder yn wastad iddo. Gwelid yr elfen hon ynddo bob dydd yn ystod ei gystudd diweddaf. Blinodd yr ofn ei fod yn gostus i'w rieni, ac yn drafferth i'r teulu, lawer iawn ar ei feddwl tyner; ac yr oedd gwybod hyny yn myned yn ddwys iawn at ein calonau ninnau. Gofynai beth a gostiasai pob peth a ddygid iddo, ac archai yn fynych na cheisiem ddim ar ei gyfer ef ond a fyddai genym yn y tŷ. Yr oedd yn hynod o anfoddlawn i'w fam a'i chwaer aros ar eu traed i'w wyllo ef, y noson olaf y bu byw, rhag iddynt niweidio eu hiechyd; a mynodd gael ganddynt fyned i'w gwelyau. Gofalai hyd ei fynyddau olaf guddio ei boenau, hyd yr oedd yn bosibl, oddiwrthym, er mwyn arbed ein teimladau.

Ysbryd darllengar ac ymofyngar am wybodaeth.—Ymddangosodd y duedd hon hefyd yn gynnar iawn ynddo. Dysgodd ddarllen yn bur ieuanc, a glynodd wrth ddarllen trwy ei fywyd. Ofnwn ddarfod iddo wrth borthi y tueddfryd hwn, niweidio ei iechyd, a gwanhâu ei gyfansoddiad i raddau. Byddai rhyw lyfr neu gilydd yn ei law bob haumden a gaffai, hyd yn nod wrth fwyta ei brydau bwyd, ac yn fynych gadawai y ganwyll yn oleu ar y ford wrth ben ei wely, yn ngoleu yr hon y darllennai, hyd oni themlai ei feistr, fel y galwai gwsg, yn dyfod arno. Wedi i ni ddeall hyn, cymerem ofal i gyrchu y ganwyll wedi iddo fyned i'w wely.

Yn ystod blynyddau ei efrydiaeth yn y *Mechanics' Institution*, cafodd ei gystuddio yn ddwys am dymmor neu ddau gan wendid gofidus yn ei olygon, fel y bu raid ei gadw o'r ysgol am rai wythnosau y naill dro a'r llall. Gwisgai orchudd dros ei lygaid, a rhoddid ef dan waharddiad caeth i beidio darllen; ond nid oedd yn bosibl ei gadw ef a'r llyfr oddiwrth eu gilydd. Ymgiliai o'r neilldu ar ei ben ei hun; ac er mor boenus oedd raid fod darllen iddo, yr oedd ei awydd a'i syched am wybodaeth yn rhy gryfion i'r boen allu eu gorthrechu. Yn yr yspeidiau hyny, Esboniad Matthew Henry, a gwaith Gurnal, a ddarllenai yn benaf.

Codai dri o'r gloch y bore bob dydd am ddau dymmor gauaf olynol. Cynneuai y tân, ysgubai y llawr, gosodai lestri boreubryd ar y bwrdd—y cwbl mor drefnus a chryno ag y gallasai yr hyswi fwyaf ddeheuig ei wneyd; yna at ei lyfr hyd chwech, pan y cymerai ei foreubryd; ac at y llyfr drachefn hyd amser yr ysgol. Yn y boreuau hyny, darllenodd hanesyddiaeth Rollin, yn chwe' chyfrol, drosodd dair gwaith, nes gwneuthur ei feddwl yn gwbl hyddysg a chyfarwydd yn ei holl bwyntiau.

Gwnaeth ddefnydd da o'i ysgol tra y bu ynddi, a chafodd dystiolaeth ganmoliaethol iawn gan ei athrawon am ei ymddygiad da, a'i gynnydd dymunol mewn *Grammadegaeth*, *Hanesiaeth*, *Dacaryddiaeth*, *Ysgrifenyddiaeth*, *Artuniadaeth* (Drawing), *Rhifyddiaeth*, *Mesuroniaeth*, a *Fferylliaeth*. Rhoddodd yr ysgol yr wyth dalent hyna ato, ond nid hir y bu ar ol ei gadael heb ennill wyth eraill atynt.

Wedi iddo adael yr ysgol, aeth i weini yn swyddfa un o farsiantwyr tywysogaidd y Dyrus brysurfalch hon—Liverpool. Bu mewn perygl o gael ei lygru yn y lle hwnw, yn nghymdeithas bechgyn ieuanc gwamal a digrefydd y swyddfa. Ofnem yn fawr ar y pryd rhag y buasai i'w feddwl a'i foesau gael eu niweidio. Addefodd iddo fod dan brofedigaeth i ymollwng i dyngu a rhegi, am ryw dymmor, wrth glywed swm llwon a rhegfeydd beunydd yn ei glustiau. Cafodd ei iechyd a'i gyfansoddiad tyner gam dirfawr tra y bu yn y lle hwnw. Byddai yn un-ar-ddeg a deuddeg o'r gloch y nos arno yn aml yn dychwelyd adref, a llawer gwaith yn wlyb drwyddo er y bore, wedi bod ar negesau ar hyd y dref. Dyna y pryd yr ymafodd yr afiechyd ynddo a fu yn angeu iddo yn y diwedd; ac nid efe oedd yr unig ŵr ieuanc y bu y swyddfa hòno yn angeu iddo. Cyfrifir y marsiantwr hwnw yn un o ddynion mwyaf crefyddol a haelionus y dref; ond nid llawer o grefydd na dynoliaeth chwaith, fe dybygid, sydd mewn gorweithio dynion ieuanc truan i'r bedd. Chwyda ysbryd Cristionogaeth yr aberthau hyny a ddygir ar ei hallorau, a godir yn dollau trais oddiar nerth, iechyd, a bywydau dynol, trwy orweithio natur. "Y cyfiawn a ofala am fywyd ei anifail;" yn sicr, ynte, efe a ofalai am fywydau ei weision. Tynwyd ef o'r swyddfa hòno, cyn gynted ag y gallasem. Yr oedd yn anhawdd iawn ganddo ef roddi i fywyd ymadael, gan gymaint oedd ei ddiwyd i ennill sefyllfa y gallasai ymgadw heb bwyso arnom am ei gynnal-iaeth. Aeth yn fuan drachefn i swyddfa marsiantwr arall, ffafr yr hwn, a phrif olygydd ei swyddfa, a enuillodd yn fuan. Cymerid ef i mewn, ar y cyntaf, i gynnorthwyo am ychydig ddyddiau ar adeg brysur, ac addawai y boneddwr edrych am le iddo wedi hyny; ond pan gawsom gynnygiad o le arall iddo, ni fynai ef a'i olygwr ymadael ág ef ar un cyfrif. Nid hir iawn y bu yno cyn i effeithiau yr oerni a'r gwlybaniaeth a ddyoddefasai yn y lle arall droi allan yn gystudd trwm—ar y cyntaf yn beswch caled; ac wedi

hyny yn gymalwst llym yn ei aelodau. Mynai fyned i'r swyddfa bob dydd, er mai gydag anhawdra mawr y gallai gerdded. O'r diwedd bu raid iddo roi i'fyny; a chaethiwyd ef i'r gwely am lawer o wythnosau. Dyoddefodd ei gystudd blin a phoenus mor dawel a dirwgnach a'r oen. Darllenai yn ei wely bob hamdden a gaffai gan boen a llesgedd. Gwell-
 aodd yn raddol tua'r haf, ac anfonwyd ef i'r wlad. Dychwelodd yn ol tua diwedd y tymmor hwnw wedi adgyfnerthu yn o dda; ond yr oedd yr hen beswch eto yn aros, i'n rhybuddio nad oedd gwreiddiau yr anhwydeb wedi eu dilëu.

Diwedd y flwyddyn hòno, 1854, cafodd sefyllfa yn swyddfa y *North and South Wales Bank*, yn y dref hon; ac yn fuan iawn ennillodd sylw a chymeradwyaeth neillduol yr arolygwyr, a serch pawb yn y lle. Yr oedd ganddo yn awr lawer o amser iddo ei hun, gan fod y *bank* yn cau yn gynnar; ac ymroddodd yn ddiwyd i brynu ei oriau hamddenol trwy ddarllen a myfyrio. Trôdd ei sylw yn fwyaf neillduol yn awr at weithiau y beirdd Seisonig; ac er ei fod yn naturiol o duedd gynnil, a gofalus iawn i gadw yr ychydig arian a ennillai, yr oedd llyfrau yn brofedigaethau rhy gryfion iddo i'w gwrthsefyll; er cystal oedd y geiniog, yr oedd y llyfr yn well. Un diwrnod, dygwyddodd i'w hen feistr, y buasai ddiweddfaf yn ei wasanaeth, alw yn y *bank*. Traethai ei lawenydd ei weled wedi gwella mor dda, a rhoddai *sovereign* yn ei law, a chanmolai ef yn wresog iawn wrth ei feistri newyddion. Cyn iddo gyrhaedd adref yr hwyr hwnw, yr oedd y *sovereign* wedi myned, agos oll, am lyfrau. Credai, dybygid, mai i bwr casu llyfrau y trefnasai Rhagluniaeth y bunt hòno iddo, ac mai at y pwrpas hwnw y dylasai fyned. Pwrcasodd a darllenodd weithiau y beirdd Seisonig, hen a diweddar, gan mwyaf; a'r cyfieithiadau Seisonig o Homer, Sophocles, Virgil, a Tasso, ac eraill o'r beirdd Groegaidd a Lladinaidd; ac nid ellid crybwyll am nemawr ddiin ynddynt na wyddai ef am dano. Bum yn ei brofi rai gweithiau, drwy ddysgu rhyw linellau y dygwyddai i mi ddisgyn arnynt, yn ngwaith rhyw un o'r awdwyr hyny, gan eu crybwyll wrtho fel gwaith rhyw un arall; ond byddai ef agos yn sicr bob tro o enwi y gwir awdwr; a throai at y llinellau rhag ei flaen. Yr oedd yn hoff iawn o weithiau Jonathan Edwards, yn anwedig "Hanes Gwaith y Prynedig-aeth," yr hwn a ddarllenodd yn fanwl fwy nag unwaith.

Ychydig iawn a ddarllenasai yn Gymraeg hyd y flwyddyn 1852, pan y cynnaliwyd Eisteddfod Drefol yn y *Concert Hall*. Aeth i'r cyfarfod hwnw, a chafodd effaith arno er tynu ei sylw at lênyddiaeth Gymreig. Penderfynodd, ac ymroddodd yn ddiwed, i astudio iaith ei fam, a rheolau ei barddoniaeth. Wedi iddo ddechreu ymgynabyddu â'r hen iaith, daeth yn hoff iawn o honi, a mawr oedd y dyddordeb a deimlai ymhob peth a berthynai i Gymru, Cymry, a Chymraeg. Aeth yn hoffach o ddarllen Cymraeg na Saesoneg o hyny allan; a darllenwr campus oedd ef hefyd, yn anwedig ar farddoniaeth.

Bywiogrwydd, craffder, a chyflymdra dealltwriaethol, oeddynt deithi nodedig ynddo er y bur ieuanc.—Yr oedd ei ddealltwriaeth ymhell o flaen ei oed pan yn blentyn. Dangosai ei agwedd yn gwrandaw pregethau, yn neillduol, fod rhywbeth ragor plant o'i oedran ef yn gyffredin ynddo. Yr oedd yn wrthddrych sylw cyffredinol y gynulleidfia, fel gwrandawr astud a dyfal. Daliai ei lygad dysglær yn sefydlog ar y pregethwr o'r dechreu i'r diwedd. Daliai ar bob gair megys am ei fywyd; a phan draethid

unrhyw syniad tarawiadol, cochai ei wyneb fel marworyn, a dysgleiria i lygaid fel gemau. Byddai dyweddiad ffraeth, arabawl, yn ei oglais drwyddo; gwridai, ymysgydwai, gwênai, a gostyngai ei ben. Ond pan ddygyddai glywed ymgais ddichwaeth at fod yn *witty* yn yr areithfa, trôai ei lygad draw, trôai ei wefus isaf i lawr, ac eisteddai ar ei wedd y fath ddynodiant o anffoddlourwydd, yr hwn, wedi i un graffu arno unwaith, y byddai yn anhawdd iddo ei anghofio. Yr oedd rhywbeth yn orlym, ac eto yn fawreddig a phrydferth, yn ei ddelweddiant hwn, bob amser y cyffroid ef i'r wyneb gan y teimlad a gynnrychiolai. Yr oedd astudrwydd gwrandawgar tymmor ei blentyndod yn parhâu drwy holl dymmor ei oes. Dywedai yr hen Gristiones arhydeddus—y ddiweddar Mrs. Powell, St. Paul's Square—"Y mae yn bleser gan fy nghalon bob amser edrych ar agwedd y bachgen ieuanc yn gwrandaw; byddaf yn methu gwrandaw fy hun, gan fel y bydd fy sylw yn cael ei dynu gan ei ddull ef yn gwrandaw." Sylwai un o gyfeillion Salem, ar ol ei farwolaeth, "Wel, dyna y gwrandaw'r goreu a welais i erioed wedi myned. Yr oedd David Rees yn gynllun o wrandaw'r, teilwng i bob un trwy y gynnulleidfau ddal sylw arno a dysgu oddiw'rtho." Yr oedd ei esgudrwydd *i*, a'i ddullweddau *wrth* wrandaw, yn arwyddion o'r meddwl bywiog a gafaelgar, y dealltwriaeth craffus, a'r ddirnadaeth gyflym, oedd ar waith yn dumewnol—meddwl, a dealltwriaeth, a barn, oedd yn brysur ar waith, yn nithio yr hyn a wrandawai, ac yn dal ar yr hyn a leferid. Yr oedd ganddo, fel hyn, synwyr wedi ei ymarfer er yn blentyn i ddostrarthu drwg a da. Credwn pe buasai yr Hebrëaid cân belled ymlaen yn hyn ag oedd efe pan yn fachgenyn o bymtheg i ddeunaw oed, na chwastent y cerydd llym a rydd Paul iddynt yn niwedd y bummed bennod o'i lythyr atynt.

Wedi iddo unwaith ddechreu efrydu y Gymraeg, buan iawn y meistrolodd yr iaith. Yr wyf yn credu yn ddilys na feddai y Dywysogaeth nemawr ysgolaig Cymreig llawer rhagorach nag ef. Meistrolodd gyfreithiau y gynghanedd gaeth rhag ei flaen, heb ofyn cyfarwyddyd unwaith gan neb, ond a gaffai mewn grammadegau. Yr oedd, cyn pen ychydig iawn o amser wedi iddo ymgymeryd â'r gorchwyl hwn, yn trarhagori ar ei dád mewn gwybodaeth yn elfenau grammadeg a chystrawen y Gymraeg, a deddfau y gynghanedd. Yr oedd yn bur hoff o farddoniaeth dda yn y gynghanedd gaeth; ond yr oedd raid iddi fod o'r rhyw oreu i'w foddio ef. Ni wnai cynghanedd, a dim ond cynghanedd, y tro; nac ychwaith, er iddi gynnwys synwyr da, a dim ond hyny. "Gwell genyf ddarllen synwyr noeth mewn rhyddiaith, heb na chynghanedd, nac odl, na mesur," meddai, "nag mewn cân." "*Give me poetry that will cause my blood to boil, or none at all,*" ebai unwaith. Yr oedd, er yn hoff o'r gynghanedd Gymreig, yn gresynu ddarfod i'n beirdd hen a diweddar gael eu dwyn yn gymaint dan gaethiwed ufudd-dod i'w deddfau, gan y credai i hyny beri mawr golled i'n llênnyddiaeth genedlaethol—y buasai genym, oni bae hyny, gampweithiau barddonol mwy urddunol a gorchestol yn ein hiaith.

Yr oedd hefyd yn nodedig yn ei *dymher wylaidd*, *ddydstaw*, a *dyoddefgar*.—Ni oddefai, o'i fodd, i neb roi cusan iddo, pan yn faban dwy a thair blwydd oed. Gwridai ac wylai yn ddwys pan wneid hyny; ac yr oedd prydfferthwch ei wedd yn denu llawer un a'i gwelai yn y tŷ, neu ar yr heol, i dalu y *compliment* tramgwyddus hwnw iddo, fel yr oedd y brofedigaeth hōno yn ei gyfarfod yn bur fynych. Cadwai gyfrinach ei fynwes dan glo

dystawrwydd ynddi hi ei hun drwy ei oes. Aeth trwy y byd, trwy ei gystuddiau blinion, a thrwy anghydwed, heb i neb ar y ddaear glywed na chwyn nac ochenaid oddiwrtho. Pan oedd tua phedair ar ddeg oed, cwmpodd ar yr heol, wrth ddychwelyd o'r ysgol, a thorodd ei fraich. Daeth i'r tŷ; ni soniodd air wrth neb; aeth at ei lyfr; ond daliodd ei chwaer sylw arno, a deallodd fod rhywbeth arno, wrth ei weled yn ymlwio, ac yn cynnal y fraich doredig â'r llaw arall, a gofynodd beth oedd y mater? "O, dim *harm*," meddai; "brifo tipyn ar fy mraich a wnaethum." Nid oedd ei dâd a'i fam yn dygwydd bod yn y tŷ ar y pryd. Ofnodd hithau fod *harm*, ac aeth âg ef at Mr. E. Thomas yn ddioced. Dododd y meddyg yr asgwrn toredig yn ei le, heb iddo gymaint a gollwng ochenaid, er fod ei loesion yn llymion iawn. Sylwai Mr. Thomas na welsai neb erioed mor ddyoddefgar. Wrth ddychwelyd adref o'r swyddfa yn yr hwyr, ymhen tua dwy flynedd wedi hynny, syrthiodd i geuffos ddofn a dorasid ar yr heol, a thorodd yr un fraich drachefn. Dygwyddodd fod rhywun gerllaw ar y pryd, a chynorthwyodd ef i godi. Bu am ychydig mewn llesmair. Ymhen ennyd wedi dyfod i'r tŷ, dywedodd wrth ei fam, "Y mae arnaf ofn fy mod wedi tori fy mraich eto." Cymerodd hithau ef at y meddyg yn union; ac felly yr oedd; aeth trwy y driniaeth y tro hwnw, fel y tro o'r blaen, heb gwyno dim unwaith.

Yr oedd y dwysder dystaw hwn i raddau yn boenus i ni aml dro. Cadwai ei deimladau gyda golwg ar grefydd, fel pob peth arall, yn gwbl iddo ei hun. Daeth ei frawd ieuengaf ymlaen i ymfyn ei le fel aelod eglwysig o'i flaen ef. Ymddangosai ddarffod i hynny effeithio yn lled ddwys ar ei feddwl; ond pan geisiodd wasgu y peth ato, nid allem gael dim o'i feddwl. Wedi ei adferiad grraddol o dymmor cyntaf ei gystudd, amlygodd ei ddymuniad o gael ei dderbyn i gymundeb yr eglwys i un o'i gyfeillion, yr hwn a hysbysodd y peth i'r eglwys, a chafodd dderbyniad calonog ac unfrydol; a bu ei holl ymddygiad o hynny allan, fel o'r blaen, yn weddus iawn i'r broffes efengylaidd.

Ymdrechasom amryw weithiau, yn ystod ei gystudd diweddf, gael gwybod ganddo pa fodd yr oedd agwedd a theimlad ei feddwl gyda golwg ar farw; ond ychydig iawn a ddywedai ragor na'i fod yn dawel a boddlawn pa fodd bynag y terfynai ei afiechyd. Ei gystudd ydoedd yr hen lofrudd arafaid, twyllodrus, ond sicr hwnw,—y darfodedigaeth. Unwaith ar ol bod yn ymddyddan âg ef ar y pen hwn, pan oeddwn i a'i fam gydag ef yn nhŷ ei chwiorydd yn Mhorthmadog, ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, teimlwn bryder gwasgedig yn ei gylch, a cheisiwn daer ymbil am i ni gael rhyw dystiolaeth eglur ganddo cyn ei symud. Tarawodd y gair a ddywedai Elias wrth Eliseus, cyn ei symud, yn rymus iawn i'm meddwl,— "Gofynaist beth anhawdd." Gan fod pob un yn marw, yn y cyffredin, fel y buasai byw, ac yn enwedig rhai o gyffelyb ysbryd, tymher, a bywyd ag oedd efe, meddyliais, ar y pryd, mai myned yn ddistaw allan o'r byd, fel yr aethai trwyddo, ond odid fawr, a wnelai. Credaf i'r ymbiliau hynny gael eu gwrandaw, a'u hateb hefyd mewn modd dweithr ac annysgwyliadwy iawn ar ol hynny, fel y câf grybwyll eto. Meddyliais lawer tro, o hynny hyd yn bresennol, am hen bennill yn "Theomemphus,"—

"Fel yma Theomemphus a roddodd waedd i'r nef,
Ac ateb wnaed y weddi, er llesiant iddo ef;
Ond nid fel 'r oedd e 'n meddwl, meddyliau Duw y sy,
Fel nefoedd uwch y ddaear, uwch ein meddyliau ni."

Gallid crybwyll hefyd ei *lanweithdra*, ei *daclusrwydd*, a'i *ofal am fod yn drefnus a chryno gyda phob peth*. Ni oddefai i frycheuyn fod ar ei wyneb, ei ddwyllaw, na'i ddillad. Yr oedd ganddo ei le i bob peth, a phob peth yn wastad yn ei le. Efe oedd ein llyfrgellydd, pan fyddai gartref. Gosodai â dosbarthai y llyfrau ar yr estyll yn rheolaidd. Pa lyfr bynag fyddai eisieu, gallai ef fyned rhag ei flaen ato, heb golli moment o amser i edrych am dano. Teimla ei dâd gollod fawr ar ei ol yn hyn, canys y mae efe, druan, mor hynod o ddiffygiol yn y peth hwn, ag oedd ei fab yn rhag- orol ynddo.

Mewn perthynas i deithi moesol ei nodwedd, gellid crybwyll yn un peth, *ei ofal am fod bob amser yn brydlawn wrth ei orchwyl*. Wedi iddo ymgymeryd â dyledswyddau galwedigaeth yn y swyddfa, ni fynai fod moment ar ol yr amser penodol wedi myned heibio cyn ei fod wrth ei *ddesg*. Yr oedd yr elfen a eilw y Saeson *punctuality*, yn ei llawn nerth ynddo ef. Byddai yn dda iawn pe dysgid pob gŵr ieuanc, yn nechreuad ei flordd, i ystyried a theimlo y mawr bwys a'r gwerth o feithrin yr arferiad dda hon. Dysgu elfenau o'r natur yma i ieuentyd ydyw enaid a mèt addysg wedi y cwbl. Gellir dysgu un yn holl elfenau gwybodaeth gyffredinol, heb wneyd nemawr iawn tuag at ei gymhwyso i lenwi cylch o ddefnyddioldeb yn ei oes er y cwbl, os esgeulusir planu yr elfenau moesol ag ydynt yn fwrffio nodwedd teilwng yn y galon. Os gwelwch ŵr ieuanc, yn nghychwyniad gyrfa ei fywyd, yn gydwymbodol a gofalus am fod bob amser yn brydlawn gyda dyledswyddau ei alwedigaeth, gellwch benderfynu yr ennilla hwnw barch a dylanwad yn y cylch y bydd ef yn troi, ac y daw ymlaen yn llwyddiannus yn y byd, os bydd byw. O'r tu arall, pan welwch ŵr ieuanc diofal a dibris o'i amser, amhbrydlawn ac esgeulus o'i orchwyl, gellwch ysgrifenu hwnw "yn ŵr ni ffyn yn ei ddyddiau"—yn un na ennilla ymddiried na dylanwad mewn cymdeithas, nac amgylchiadau cysurus yn y byd.

Ni chawsom achos unwaith erioed i'w ysparduno ef i godi y bore mewn pryd i gychwyn. Pan ddygwyddai weithiau fod galwad arno i fyned yn foreuach nag arferol, rhoddai orchymyn penodol i alw arno yn brydlawn, os na welid ef yn dyfod i lawr yn amserol; ond anfynych iawn y byddai eisieu gwneyd hyny.

Yr oedd yn bur awyddus er ys tro maith i gael ei symud i un o swydd-faoedd cwmpeini y *bank* yn Nghymru, gan ei fod yn hynod o hoff o'r wlad, ac yn enwedig ei wlad enedigol, ac wedi cymeryd yn erbyn y dref yn fawr iawn. Addawai iddo ei hun, pe cawsai fyned i'r wlad, y cryfhasai ei iechyd a'i gyfansoddiad. Pan ddeallodd ei feistri hyny, gwnaethant ei le i fyned i'r swyddfa i Ddinbych yn union. Symudodd yno yn Awst, 1855; ond ni bu y symudiad o nemawr les i'w iechyd. Tynodd sylw, ac ennillodd ffafwr neillduol yn ngolwg pawb a ddaethant i gydnabyddiaeth âg ef. Yr oedd gan Mr. Napier, arolygwr y *bank*, y meddyliau uchaf am dano, a'r ymddiried llwyraf ynddo. Carai Mr. Price, y gweinidog, ef fel ei blentyn ei hun; ac yr oedd yntau yn hoff neillduol o Mr. Price, ac o Mr. J. Griffiths, Vale Street; Mr. T. Edwards, a Mrs. Edwards; Mr. Robinson; ac hefyd y Dr. E. Pierce, ac ychydig bersonau eraill. Yr oedd yn llettya yr ochr arall i'r heol, gyferbyn â thŷ Dr. Pierce. Gwahoddai y Doctor ef ato i giniawa yn fynych ar y Sabbath. Archai iddo ddyfod bob Sabbath rhag ei flaen o'r capel; ond nid ai ef byth, oni ddygwyddai i'r Dr. ei woled, a galw arno; ac weithiau rhedai drosodd i'w lletty i'w gyrchu.

Pan elwais gydag ef yn nhŷ Dr. Pierce unwaith, efe a sylwai, " Nis gwn i o ba le y daeth y bachgen hwn ; dyma fo,—byddaf fi yn ei gyffelybu i'r lleuad. Y mae hōno yn myned yn ei chwrs yn rheolaidd bob nos, heb ddyweyd gair wrth neb, ac eto yn tynu sylw pawb. Felly yn union y mae yntau. Cewch ei weled yn myned i fyny i'r bank, yr un amser bob bore, ac yn dyfod i lawr yr un modd yn y prydnewn, heb sylwi ar ddim, na dyweyd gair wrth neb, a phawb yn edrych ac yn sylwi arno fo."

Yr oedd hefyd yn nodedig mewn cywirdeb, ffyddlondeb, a gomestroydd ei galon, yn ofalus iawn am gyflawni pob gorchwyl yn hollol gywir. Ni chaffai neb, hyd y gallai, le i wella na diwygio dim ar ei ol. Yr oedd felly gyda'i gyfrifon yn yr ariandy. Prin y byddai eisieu edrych dros yr eiddo ef, i weled a oeddynt yn gywir neu beidio. Gofalaf am siarad, acenu, ac ysgrifenu pob gair yn gywir. Yr oedd y cywirdeb manylaf ymhob peth, ac ymhob ystyr, megys yn ddeddf ysgrifenedig ar lech ei galon. I'r neb y byddai yn gyfaill, yr oedd yn gyfaill cywir a ffyddlawn i'r eithaf—nid allai oddef clywed gair bach am un o'r cyfryw gan neb. Gan fod cymaint o neillduedd ac unigrwydd yn ei holl ymddygiad, nid peth hawdd oedd myned i'w fynwes. Ni ddechrenai cyfaillgarwch byth ei ddu ef. Yr oedd raid i'r neb a ewyllysiai fod yn gyfaill iddo nesáu a gwasgu ato yn raddol ac arafaid ; ond os byddai y cyfryw yn medda ar y teithi gofynol i emmill ei sylw a'i serch, ymagorai ei fynwes iddo, a byddai yn hoff iawn o gymdeithasu gydag ef byth wedi hyny. Treuliodd ddenfis neu dri o'r amser y bu yn y wlad, ar ol tymmor cyntaf ei afiechyd, yn Nghaer, gyda Miss Evans, y pryd hyny—Mrs. Edwards, Myrtle Street, Liverpool, yn bresennol. Yno y gwelodd Mr. Edwards ef gyntaf. Cymerodd sylw o hono y tro cyntaf y dygwyddai iddo alw yno. Ceisiodd dynu rhyw ymddyddan ág ef aml dro, ond nid allai gael dim ganddo, ond yn unig atebiad i'w ofynion. Wedi iddo droi ei gefn unwaith, sylwai Mr. Edwards, " Yr wyf yn methu deall y gŵr ieuanc hwn yn lân ; nid allwn yn fy myw dynu ymddyddan ág ef ; y mae fel pe byddai am ochelyd pob cymdeithas, ac eto y mae rhywbeth ynddo sydd yn peri i mi ei hoffi y tu hwnt i nemawr neb a adnabum erioed." Daeth yn raddol yn rhydd iawn gyda Mr. Edwards, a chyfrifai ef a Mrs. Edwards ymysg y rhai penaf o'i gyfeillion. Felly hefyd yr oedd Mr. W. Evans, Caer, brawd i Mrs. Edwards, a H. Hughes (Gethin) ; T. Jones, Bury Street, T. H. Williams, W. V. Jones, ac eraill o wŷr ieuainc Salem ; y Parch. H. E. Thomas, Birkenhead ; a Mr. a Mrs. Davies, Catherine Street, lle y byddai yn hoff o fyned yn bur fynych, tra y gallodd godi allan.

Unwaith yr elai un yn gyfaill ág ef, byddai yn gyfaill byth iddo. Ychwanegai parch a chariad pob un ato, po fwyaf a goreu yr adnabyddid ef. Sylwai ei gyfaill, Mr. J. Edwards, am dano ar ol ei farwolaeth—" Nid adnabum neb erioed a chymaint o gywirdeb ac earnestness ynddo." Casâi bob twyll a hoced â chās cyflawn. Darfyddai ar unwaith ac am byth ág unrhyw un a fyddai yn euog o dro isel a diegwyddor. Ychydig iawn a ddywedai ar achlysuron felly, ond byddai yr ychydig eiriau hyny yn sêl annattodadwy ar benderfyniad ei farn ar y mater.

Megys ag yr oedd yn ffyddlawn a chywir yn ei orchwyliaeth, ac i'w gyfeillion, felly yr oedd hefyd i'w broffes Gristionogol, mewn modd neillduol. Yr oedd profleswyr esgeulus ac anffyddlawn yn gymeriadau anghymeradwy ac annheilwng iawn yn ei olwg. Sylwodd ar rai o'r cyfryw yn ——— ; a dy-

wedodd unwaith, y gwyddai am rai yno a gadwent gyfrinachau i gynllwyn yn erbyn y gweinidog, na chlywid byth mo honynt yn gweddio drosto. Ni fynasai ei enaid ef, er yr holl fyd, fod yn perthyn i'r cyfrinachau hyny. Nid enwodd efe y personau, ac ni ofynais innau iddo pwy oeddynt; ond os dygwydd iddynt ddarllen y llinellau hyn, y mae ganddynt Nathan (cydwybod) yn eu mynwasau, a ddywed wrth bob un yn gyfrinachol, "Tydi yw y gŵr;" a bydded iddynt hwy, a'u brodyr o'r un ysbryd ymhob man, deimlo, edifarhâu, a diwygio.

Yr oedd yn fyddlawn a gofalus iawn am foddion gras, a chyfarfodydd yr eglwys, hyd y gallai, ac yn ei gyfraniadau at yr achos. Pan ddaeth adref ar ymweliad un tro, sylwodd, na buasai ganddo un dychymyg erioed, cyn iddo adael Liverpool, pa mor ychydig a gyfrenid at achosion crefyddol yn eglwysi y wlad. "Y mae yn warthus," meddai. "Paham na phregeth-ech chwi yr hen bregeth a glywais genych ar y testun hwnw, 'Nid offrymaf i'r Arglwydd fy Nuw boethoffrymau rhâd,' ymhob man y byddoch yn myned iddo trwy y wlad?" ebai wrthyf ymhellach; "mae mwy o'u heisieu hi, neu rywbeth tebyg iddi, na dim arall." Yr oedd yn teimlo yn ddwys na buasai ganddo foddion i gyfranu yn helaethach at achos crefydd; a diau iddo addaw wrtho ei hunan lawer gwaith, pan y deuai i ennill cyflog da, y gwnelai ddiffyg y blynyddau blaenorol i fyny yn y peth hwnw. Tua dechreu mis Mehefin diweddf, gwahoddwyd ef gan ein cyfaill, y Parch. J. Jones, Smethcote Farm, gerllaw yr Amwythig (diweddar o Benllys, ger Llanfyllin), i dreulio rhai wythnosau gydag ef, dan obeithio y gwnaethai awyr dyner ac iachus y wlad hono les iddo. Aeth yno, a chafodd bob ymgeledd a chysur a allasai llaw caredigrwydd estyn iddo. Ymddangosai fel yn siriol ac yn gwella i raddau tra y bu yno. Aeth y teulu yn hoff iawn o hono, ac yntau o honynt hwythau. Deallodd Mr. a Mrs. Jones yn fuan pa fath oedd ansawdd ei ysbryd a'i dymher,—ei fod mewn arswyd parhâus rhag bod yn ddim baich a thrafferth iddynt, ac felly ni ofynent byth iddo a ewyllysiai gael y peth yma a'r peth arall, ond ceisid y peth, a gosodid ef ger ei fron, a gorchymynid iddo ei gymeryd. Treuliodd yno tua mis o ddyddiau mor gysurus ag y gallasai fod, yn y cyflwr cystuddiol yr oedd ynddo. Dywedai y buasai yn hoffi byw yn Smethcote, ond yn unig ei bod yn anghyfleus i fwynhâu manteision crefyddol yno, o herwydd pellder y ffordd i'r Amwythig. Pan ddychwelodd adref, yr oeddym yn gweled, er ei fod yn well ei wedd, ac rywfaint yn gryfach, nag ydoedd pan ymadawsai, fod yr hen afiechyd yn dal ei afaelion yn dyn ynddo, ac yn gweithio ei ffordd ymlaen, fel, er i'r cystuddiol allu ennill ychydig ar y cystudd mewn rhai pethau, fod y cystudd yntau yn ennill ar y cystuddiedig mewn pethau eraill.

Y Sabbath cyntaf wedi ei ddychweliad adref o Smethcote ydoedd Sabbath ein cymansa flynyddol. Aeth i'r pregethau nos Wener a nos Sadwrn. Cyn myned i'w wely nos Sadwrn, archodd i'w chwaer ofalu am ei alw mewn pryd i fyned i'r oedfa chwech y bore Sabbath; dadleuai hithau yn erbyn iddo fyned—nad allasai byth ddal allan; ond yr oedd yn gwbl benderfynol ei feddwl i fyned. Eithr erbyn y bore, yr oedd yn rhy lesg; cymarodd ei berswadio i aros. Aeth i'r oedfâon deg, a dau, a'r hwyr. Yr oedd braidd yn analluog gan lesgedd a blinder i gerdded i fyny i'r lloft, a thynu am dano, y noson hono, gan fel yr oedd gwres yr hin a'r tyrfaoedd wedi effeithio arno. Modd bynag, cododd yn lled foreu drannoeth dra-

chefn. Ceisiem ganddo aros yn y tŷ i orphwyso y diwrnod hwnw; ond na, yr oedd raid iddo gael myned i'r gymdeithas eglwysig flynyddol, yr hon a gynnelid y prydawn hwnw yn y Tabernacl, Great Cross Hall Street. "Un society flynyddol a ddygwyddais i gael erioed yn Liverpool," meddai; "ac os collaf hon heddyw, hwyrach na chaf yr un arall byth; nid oes wybod yn y byd pa le y byddaf fi —." Ac felly myned a wnaeth, ac i'r oedfa i Salem yr hwyr hwnw drachefn. Ond erbyn ei ddyfod i'r tŷ, yr oedd yn llesg a lluddedig iawn, er na fynai addaf hyny ar un cyfrif. Yr oedd ei draed a'i goesau wedi chwyddo yn fawr. Ond drannoeth drachefn, mynodd fyned gyda'i gyfnither, Mrs. Davies, i Menai Bridge (yr oedd hi yn dygwydd bod yn Liverpool ar y pryd), i aros yno am dymmor, ar wahoddiad caredig Mr. Davies a hithau. Yr oedd efe a Mrs. Davies yn bur agos yr un oedran, ac yn neillduol o debyg i'w gilydd yn eu hwynebpryd, y llygaid, a lliw y gwallt. Yr oedd y tebygolrwydd mor ddnodol, fel y sylwai pawb a adwaenent y ddau arno, a meddyliwn fod graddau helaeth o debygolrwydd rhyngddynt yn hynawsedd eu tymherau hefyd, ond bod ei gyfnither yn fwy rhydd-gymdeithasol o lawer nag oedd ef. Cafodd yno bob ymgeledd a thiriondeb a allesid. Ymdrechai Mr. a Mrs. Davies, a Mr. Robert Davies, eu goreu ymhob modd i'w sirioli a'i ddedwyddu. Gadawodd hwy, fel y gadawsai deulu Smethcote o'r blaen, â theimladau o barch a serch dŵfn a diffuant yn ei fynwes tuag atynt; ac felly hwythau tuag ato yntau. Yr oedd capel y Methodistiaid yn y Borth yn cael ei ailadeiladu y pryd hwnw. Pregethid allan ar y Sabbothau, pan fyddai yr hin yn caniatáu, ar fuarth gerllaw tŷ Mr. Davies. Yr oedd yn awyddus iawn i beicio colli un moddion tra y bu yno; ond attaliai Mr. Davies ef i fyned i sefyll dan yr awyr yn yr hwyr. Yr oedd gair un o'r ddau Davies yn ddiogon; ymostyngai yn union i'w hawdurdod hwy. Bu ei ewythr, y Parch. H. Rees, yno yn treulio un o'r Sabbothau yr oedd yn aros yno, ac yn gweinyddu yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd. Caniatâwyd iddo yntau fyned i'r cyfarfod hwnw, a chyfranogi o'r ordinhâd; a dyna y cymundeb diweddaf iddo ar y ddaear. Sylwai Mrs. Davies, ar ol ei farwolaeth, pa mor dda oedd ganddi feddwl na ddarfuasai iddynt ei attal i'r oedfa hõno, fel yr oeddynt unwaith wedi meddwl ei berswadio i aros yn y tŷ, rhag iddo gael niwed; a dywedai ei fod yn ymddangos fel yn mwynhâu y bregeth, a gwasanaeth y cymundeb, yn fawr iawn.

Anhunanolrwydd oedd hefyd yn elfen amlwg iawn ynddo trwy ei holl fywyd. Ei ymgais ef bob amser fyddai, nid dangos, ond cuddio ei hun—nid ymwithio i'r golwg, ond ymgadw o'r golwg, fel y sylwai ei gyfaill, y Parch. H. E. Thomas, Birkenhead, yn darawiadol iawn am dano; tystiolaeth yr hwn y cawn achlysur i'w chofnodi eto. Mor wahanol oedd yn y peth hwn i ddyinion ieuainc yn o gyffredin! Ond heb gyfeirio at neb arall, mor wahanol ydoedd i'r hyn oeddwn i fy hun pan oeddwn yn ei oedran ef! Er nad oedd fy ngwybodaeth a'm galluoedd i y pryd hwnw ond bychain iawn yn wir mewn cymhariaeth i'r eiddo ef, eto gallai fy mod ychydig o flaen fy nghyfoedion yn gyffredin yn fy ardal enedigol. Yr wyf yn cofio yn dda fy mod yn bur barod ac awyddus i roddi ar ddeall iddynt, bob cyfleusdra a gawn, fy mod yn rhagori arnynt mewn gwybodaeth, a dawn, a dealltwriaeth, ac yn anfoddlawn os na chydabyddent hwythau hyny. Dichon ei fod ef yn hytrach yn ormod ffordd arall. Dywedais mai ei ymgais fyddai cuddio ei hun o'r golwg; ond nid oedd ymgais yn y peth chwaith—i'w weled, beth

bynag, canys yr oedd megys yn elfen naturiol ynddo. Y mae yn hawdd gwbed ymgais un megys i *guddio* ei hun, yn gystal ag ymgais un arall i *ddangos* ei hun; a gall fod cymaint o hunanolrwydd mewn gwirionedd yn y naill ag sydd yn y llall. Ymddengys hunanolrwydd un yn noeth a di-orchudd, ond yr eiddo y llall dan fantell a ffugostyngyddrwydd. Ond ni phetruswn ddywedyd fod diffuantrwydd ei anhumanolrwydd ef, fel holl elfenau eraill ei nodwedd, uwchlaw amhueaeth yn meddwl pob un erioed a ddaeth i gydnabyddiaeth agos ág ef.

Mor eglur brofedig yn hanes plant dynion ydyw y ffaith mai gwobr gostyngyddrwydd yw anrhydedd?—mai “yr hwn sydd yn gostwng ei hun a ddyrchefir, a'r hwn sydd yn dyrchafu ei hun a ostyngir?” Ac eto, mor hwyrfydig ydyw plaat dynion, yn gyffredin, i ddyngu a chredu y gwirionedd hwn! Byddai yn dda gosod yr ymadrodd hwnw o eiddo Solomon yn rhagtalau rhwng llygaid llawer un, a'i lefain yn barhaus yn ei glustiau, “Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun.” Y fath yw y natur ddynol wedi ei chyfansoddi, fel y mae y neb a fyddo bob amser yn udganu ei glod ei hunan yn annyoddefol ganddi, ac yn ddirmygedig yn ei golwg; ac y mae yr elfen hon ynddi yn un o ddeddfau llywodraeth y Brenin mawr arni, drwy yr hon y mae efe yn cyflawni ei amcan o dynu y balch i lawr, a dyrchafu y gostyngedig i fyny. Bydded talentau, galluoedd, ac athrylith yr ymfrostgar y peth y byddont, y mae y gwibedyn marw o hunanfost yn drewi yr holl enaint. Yr wyf yn meddwl y gellid yn ddbetrus a diryfyg gymhwyso ymadrodd y Gwaredwr at wrthddrych hyn o gofiant, “Pwy bynag a'i gostyngo ei hun fel y bachgenyn hwn, hwnw a fydd mawr.” Ennilodd ef, fel hyn, gymaint o anrhydedd, parch, a chanmoliaeth, ag oedd yn ddichonadwy i un o'i sefyllfa a'i oedran ef ennill, yn ddiarwybod iddo ei hun, ac heb un gair, na meddwl dim am hyny. Y mae y ddau nodwedd cyferbyniol—sef yr un a fyddo yn rhagori ar y cyffredin mewn hunandyb ac ymfrost, a'r un a fyddo, o'r tu arall, yn ddystaw, iselfrydig, a difost—a gadael bod y ddau yn meddu ar alluoedd, talentau, ac athrylith cyfartal—yn sier o dynu sylw cyffredinol atynt. Bydd pawb yn awyddus i gydgynnorthwo i dynu y cyntaf i lawr, ac i ddyrchafu yr olaf i fyny.

Tynerwch ei deimlad a'i gydwybod hefyd oeddynt i'w gweled mewn llawer amgylchiad. Ni fynasai ar un cyfrif ddoluric teimlad neb yn ddi-achos. Nid allai oddef gwranddo ar senau a geiriau trahâus. Cwynai yn fawr i weinidogion yn ngwasanaeth meistriaid croesion. Dygwyddai iddo glywed meistres unwaith yn dwrddio y forwyn yn o chwerw; soniai am hyny wrth ei chwaer, pan oedd yn ei wely yn ei gystudd diweddaf—“*I cannot tell you how it grieved me to hear the poor creature scolded in that manner;*” meddai; “*What is the use of it? How can't they tell them kindly of their faults? It would answer the purpose much better.*” Sylwai dro arall bod llawer o achwyn ar weinidogion, ond fod llawn cymaint, hwrach, o le ac achos i achwyn ar feistri a meistresi—bod meistradoedd drwgnydod yn sier o gynnyrchu gweinidogion anffyddlaw—ei bod yn groes i natur a rheswm ddysgwyl gweinidogion ffyddlaw, ufudd, gonest, ac ewyllysgar, tra y byddai y meistri a'r meistresi yn ymddwyn yn galed, angharedig, a chwerwon yn wastad tuag atynt. Ni fynai un amser roddi y drafferth leiaf i'r forwyn gartref. Aeth i lawr un diwrnod o'r parlwr i'r gegin (cyn iddo gael ei gaethiwo i'r gwely) i geisio rhywbeth oedd arno eisieu. “*Pa-ham na buasech chwi yn galw arnaf fi am dano fo?*” ebe y forwyn, yr hon

a'i hystyriai yn fraint fawr cael gweinyddu unrhyw gynwynas iddo. "Mae genych chwi ddiagon o waith i'w wneyd, a gallaf fi wneyd cymaint a hyn yn hawdd," oedd yr ateb.

Archai ei feddyg, Dr. Gee, i ni roddi ychydig win iddo bob dydd, neu lwyaid o frandi yn achlysurol. Yr oedd yn wrthwynebus iawn i gymeryd y naill na'r llall. Yr oedd yn anhawdd ganddo goelio fod y Doctor wedi gorchymyn felly; a bu raid iddo adnewyddu ei archiad yn ei glyw, cyn iddo lwyr ymfoddloni i'r peth. "Y mae arnaf fi ofa cymeryd y brandi yna mor aml," meddai, "rhag i mi, wrth arfer âg ef, fyn'd yn hoff o hono fo, a methu byw hebdo os gwellâf fi." Gwasanaetha yr ychydig enghreifftiau hyn, allan o laweroedd cyffelyb, i ddangos pa fath oedd ansawdd dyner ei galon a'i gydwybod—dwy o'r gemau prydferthaf a gwerthfawrocaf a addunant y nodwedd dynol a Christianogol.

Yr oedd yn barchus iawn o'i fam. Yma nid allaf ymatal cofiau un sylw o eiddo yr ysgrifenydd enwog hwnw, Jacob Abbott, ar nodwedd y Dyn Crist Iesu:—"Y sylw olaf sydd genyf ar nodwedd Iesu Grist," medd efe, "ydyw y *carai ei fam*. Hwyrach yr adgofia rhai o'm darllenwyr ieuaine, ddarfod iddynt, ryw amser a aeth heibio, pan oeddynt yn glaf, neu yn dyoddef oddiwrth ryw achos neu gilydd, trwy ddrygnawsedd neu anfoddogrwydd, bori tralloed a gofid i'w mham, ac ystyried eu hunain yn egsusodol, am hyny, ar gyfrif yr amgylchiadau yr oeddynt ynddynt. Y mae genyf un peth i'w ddywedyd wrthynt. Eich Gwaredwr a hoelid wrth y groes. Crogai holl bwysau ei gorff ar ei aelodau drylliedig. Yno y bu, awr ar ol awr, nes y llwyr lethid bywyd gan ddirboenau. Ond hyd yn nod yma, nid anghofiai efe ei fam. Rhoddai siars yn y modd mwyaf dwys-esseithiol ag oedd yn bosibl ar ei gyfaill anwylaf i fod yn dirion wrthi, i'w hamddiffyn, a chymeryd gofal am dani tra fyddai byw. Efe a wnai hyn agos â gair, oblegid yn y fath sefyllfa yr oedd siarad yn peri poen ddirdynol—'WELLE DY FAM!' Dyna y cwbl; ond yr oedd yfi ddiagon. Yn awr, caniatâer i mi erlyn ar bob un o'm darllenwyr, pa un bynag ai hen ai ieuac, sydd ganddo fam eto yn fyw, fel y cauo y llyfr hwn, ar ddiwedd y bennod hon, i feddwl am ryw weithred o diriondeb a serch tuag ati, mewn eselychiad o esiampl y Gwaredwr wrth farw. Gwnewch ryw beth i'w lioni a'i chysuro hi, hyd yn nod pe na byddai ond peth bychan a dibwys ynddo ei hun. Parai hyny lawenydd i'w chalon hi, fel prawf o'ch caredigrwydd a'ch serch tuag ati. Rhaid y teimlai Mair y prawf hwn o gariad yn y modd dwysaf. Dywedasad wrth y Gwaredwr, cyn hyn, fod ei fam ef yn fendigedig ymysg gwragedd. Rhaid ei bod wedi dwyn llawer iawn o ofal a phryder yn ystod ei bywyd, a bod y cledddyf yn awr yn myned trwy ei henaidd; ond yr oedd cael ei chofio fel hyn ar y fath amgylchiad, gan y fath fab, yn phiolaid o gysur a dyddanwch i'w meddwl."

Yr oedd ein hanwyl fab yn dwyn gradd o ddelw ein Gwaredwr yn y peth hwn. Nid ydym yn cofio ddarfod iddo erioed, dan un brofedigaeth, roddi atebiad anfoddog, na gair chwerv, i'w fam; a dangosai anfodlonrwydd mawr os clywai un o'r plant eraill yn gwneyd dim yn debyg i hyny. Pan fyddai ar brydiau, yn ei ddyddiau olaf, yn salach na'i gilydd; os na byddai ei fam yn yr ystafell, archai i'w chwaer oedd yn gweini arno beidio dyweyd hyny wrthi hi.

Yn ddiweddaf oll, rhaid crybwyll am y *dylanwad grymus a ennillodd ar feddygiau pawb o'i gydnyddiaeth*—dylanwad ag oedd yn ennill serch

a pharch pob un. Y mae ambell nodwedd yn ennill serch y galon, pan na bydd nemawr o barch yn y gydwybod iddo; ac ambell un arall yn ennill parch y gydwybod, heb serch y galon. Ond yr oedd awdurdod ei ddylanwad ef yn gyflawn. Yr oedd felly yn y teulu gartref. Nid yn unig yr oeddym oll yn ei garu yn anwyl, ond hefyd yn ei barchu yn iawr. Efe oedd y canol-bwnc megys, lle y cydgyfarfyddai ein calonau a'n teimladau. Dywedai Mr. E. Lewis, gŵr ieuanc a fu yn llettya gyda ni am rai blynyddau—“Yr wyf yn methu cyfrif am yr awdurdod sydd gan David Rees arnaf yn dæg. Yr wyf yn meddwl pe gofynai i mi roddi fy mhen iddo nas gallwn ei nacáu.” Yr ail noson ar ol ei farw, torodd ei frawd hynaf allan mewn wylofain—“Pe buaswn erioed heb ei weled, cawswn arbed, yr arteithiau llymion hyn o alar a hiraeth ar ei ol; ond eto gwell genyf eu dyoddef, ar gyfrif y fantais o gael adnabod y fath *garacter* ag oedd David, coffadwr-iaeth yr hwn a fydd yn gysegredig byth yn serchiadau dyfnaf fy nghalon.” Dirgelwch y dylanwad hwn, y mae yn debygol, oedd cydgyfarfyddiad yr holl elfenau a grybwyllwyd o'r blaen mor gyflawn ac eglur ynddo, fel ag yr oeddynt yn cydbwyso mor dæg yn ei holl ymddygiad, ac yn cydffurfio nodwedd mor wastad, gweddus, prydferth, ac ennillgar; nad allai lai na gweithio ei ffordd i bob mynwes a ddelai i gyrhaedd ei riniau. Nid ymddangosodd ef erioed fel yn wybyddus o rin a grym y dylanwad oedd ganddo gartref, nac yn ei gylch cymdeithasol.

Dichon y priodola y darllenwyr na welsant ac na wybuant ddim erioed yn bersonol am dano, y disgrifiad a geisiais roddi o hono, i ddallineb serch a chariad tadol; bydd yn hawdd iawn genyf finnau faddeu hyny iddynt, canys y mae yn ddigon naturiol iddynt farnu felly: eto, dymunwn grybwyll wrthynt fy mod yn cofio ac yn ystyried, wrth ysgrifenu pob llinell, y byddai i lawer ag oeddynt yn ei adnabod yn dda ddarllen y cofiant hwn, ac y gallent hwy farnu pa un a ydwyf wedi gorliwio y darlun, neu beidio. Gallai fy mfof; ond nid wyf yn ymwybyddus o hyny. Ac ymhellach, dymunwn i'r darllenydd anghyfarwydd â'r gwrthddrych oedi ei farn ar y mater hyd nes y gosodom ger ei fron dystiolaethau rhai eraill a'i hadwaenent, nad oedd rhwymau perthynas naturiol ág ef yn bod i ddylanwadu ar eu teimladau.

Wrth derfynu hyn o ddesgrifiad o nodwedd FY MAB, dymunwn ddiolchgar gydnabod anfeidrol ddaioni “Tad yr ysbrydoedd,”—Ffynonon pob rhâd, a dawn, a bendith—yn ei ffafrau grasol tuag ato ef a ninnau; gan briodoli pob dawn a rhagoriaeth a welsom yn ymagor ac yn blodeuo ynddo fel bendithion deilliedig o'i ewyllys da a'i drugaredd benarglwydd-iaethol Ef, heb ynom ni ddim oll ag oedd yn rhyglyddu y fath ffafrau gwerthfawr yn y mesur lleiaf. Gan hyny, boed i ni, wrth eu coffâu, yn hytrach nag ymfalchïo a chnawdol ymffrostio, ymostwng i gydnabod, diolch, ac addoli. “Canys pwy ydym ni, O Arglwydd Dduw! pan gydnabyddit ni fel hyn?” Meddyliem ein bod yn gwerthfawrogi y fraint o gael magu a meithrin y fath blanigyn hyfryd, sydd weithian wedi ei ddiwreiddio o'n gardd ni, a'i adblanu i dyfu, a blodeuo, a ffrwytho yn ugardd Duw, yn fil myrddiwn mwy na phe buasem yn cael ein cynnysgaethu â holl aur mwngloddiau California ac Australia, er nas gallwn attal dagrau hiraeth ar ei ol rhag treiglo yn fynych dros ein gruddiau.

Nid oes genym, bellach, ond ychydig grybwyllion i'w gwneyd am ei ddyddiau diweddaf. Pan aethum i edrych am dano, pan oedd yn Min-y-dôn,

Menai Bridge, cynghorodd Mr. Davies fi i fyned gydag ef drosodd i Dublin, i gael barn a chynghor Dr. Stokes ar ei achos, yr hwn a gyfrifir yr awdurdod uchaf yn y deyrnas mewn achosion o ddarfodedigaeth. Ac felly fu. Aethom drosodd ar noson led dymhestlog; yr oedd yn agos i hanner nos erbyn i ni gyrhaedd Kingstown, a llettyasom yno y noson hòno. Aethom i Dublin bore drannoeth; a gwelsom Dr. Stokes, yr hwn ni roddai i mi ddim gobaith am ei adferiad. O! fel y gwânodd y saeth hòno fy nghalon! Yr oedd ef wedi cesnu pan ddywedodd y meddyg ei farn am dano wrthyf. Pan aethum allan ato, edrychodd yn fy llygad, a dywedai, "Wel, beth oedd o yn ei ddyweyd?" Y mae yr iasau arteithiol a gerddasant trwof y foment hòno heb fy ngadael eto; ond ymdrechwn, hyd y gallwn, guddio fy nheimpladau oddiwrtho ef. "Ni ddywedodd ddim yn wabanol i'r hyn a glywaist Dr. Gee yn ei ddyweyd," ebe fi. "O, mi wyddwn i," meddai, "nad allai wneyd dim lles i mi; os gall neb, Dr. Gee a all—y mae ef yn fy neall yn well na neb arall." Yr oedd ganddo bob amser feddyliau uchel iawn am Dr. Gee; ni fynai glywed sôn am geisio neb arall i'w olwg. Byddai yn lloni bob tro y clywai swn ei draed yn dyfod i fewn—nid yn gymaint, feddyliem, o herwydd fod ganddo gred y gallai ei wellân, ond am ei fod wedi ennill ei serch a'i hyder. Dychwelasom i Kingstown y prydawn hwnw, hwyliasom drosodd yn ol i Gaergybi y bore drannoeth, a chyrrhaeddasom Min-y-dôn tua thri o'r gloch yn y prydawn. Daeth ei fam yno i'n cyfarfod. Cafodd beth anwyd yn y daith hòno i Dublin, a gwaelodd yn gyflym ar ol hyny. Yr oedd wedi rhoddi ei fryd yn fawr iawn ar fyned i ymweled â'i chwirydd i Borthmadog; felly aethom âg ef i Gaernarfon y dydd Sadwrn canlynol, i fod yn barod i gychwyn i Borthmadog bore dydd Llun. Yr oeddwn i bregethu yn Silo Aberpwll, a Bethel, y Sabbath hwnw. Yr oedd hwnw yn un o'r dyddiau poethaf a deimlwyd un amser yn y wlad hon, ond odid. Aethum i Bethel, yr hwn sydd o fewn tair milldir i Gaernarfon, erbyn dau o'r gloch. Cynnelid yr oedfa allan ar y maes, gan fod y capel wedi ei dynu i lawr i'w helaethu. Wedi darllen a gweddio, pwy a welwn yn dyfod i'r lle ond efe! Buasai yn nghapel Pendref, yn gwrandaw Mr. Roberts, y bore hwnw; a chawsai fenthyg merlyn marchogaeth ein cyfaill Mr. J. Hughes, *Watchmaker*, yn nhŷ yr hwn yr oedd yn llettya, i ddyfod i Bethel. Yr oedd Mr. a Mrs. Hughes wedi ennill ei serch yn fawr iawn. Arosodd hyd ar ol yr oedfa y nos, a dychwelodd gyda'i fam a minnau yn ol i Gaernarfon i lettya; ond bu agos iddo lŵyr fethu cyn cyrhaedd yno; yr oedd y gwres mawr, a'i ymdrech gormodol yntau, wedi ei orlethu yn lân. Ond yr oedd ar ei draed chwech o'r gloch y bore drannoeth, i gychwyn i Borthmadog. Ni fynai ei berswadio i oedi hyd drannoeth. Daliodd y daith ar y cerbyd yn lled dda; ond yr oedd yn gwaelu i'w weled bob dydd o hyny allan. Arosasom yno wythnos gydag ef; ond yr oeddym yn awyddus iawn i'w gael adref. Yr oedd yn lled anfoddlawn ar y cyntaf i ddychwelyd; ond ymdawelodd yn fuan. Dywedai ei fam wrtho y deuai hi gydag ef i roi tro i'r wlad drachefn wedi iddo wella ychydig. "Na," ebe efe, "ni bydd arnaf fi eisieu dyfod i'r wlad eto." Daliodd y daith adref, drachefn, yn dda iawn, ar y cyfan. Deuai i lawr i'r parlaur bob dydd yr wythnos gyntaf ar ol dychwelyd; ond yn raddol, aeth yn rhy wan i adael y gwely. Yr oedd yn parháu i ddarllen llawer, er hyny, bob dydd; ac mor dirion, dystaw, a thawel â'r oen; ac weithiau yn bur siriol, yn neillduol gyda'i chwaer, yr hon oedd uwch ei ben ddydd a nos.

Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, daeth ei ewythr, H. Rees, i edrych am dano; a gofynodd iddo, "A oedd arno ofn marw?" Wedi ychydig ddystawrwydd, trodd ei olwg addfwynaid ar ei ewythr, a dywedai, "Byddaf yn teimlo weithiau fod arnaf—bryd arall, ni fydd dim."

Y bore dydd Sadwrn olaf y bu byw, sylwasom ei fod yn gwanhau yn brysur. Yr oedd yn darllen *Dread*, llyfr diweddfaf Mrs. Stowe. Gwilem ei wedd yn newid, ac fod ei anadl yn llesgáu. "Yr wyt yn salach heddyw, fy machgen," meddwn wrtho. "O, nag wyl," ebe efe, gan agor ei lygaid yn siriol, ac ail ddechreu darllen drachefn. Yr oeddwn i ar gychwyn oddi-cartref i Manchester. Daeth Dr. Gee i mewn, a chynghorodd fi i fyned, gan addaw, os gwelai gyfnewidiad, yr anfonid cenadwri ataf gyda'r *telegraph*. Erbyn y bore Sabbath, yr oedd cyfnewidiad amlwg ynddo. Anfonwyd cenadwri ataf yn ddioid, yr hon oedd yn dyfod i'm cyfarfod fel yr oeddwn yn dyfod i lawr o'r areithfa ar ddiwedd yr oedfa y bore. Felly dychwelais yn ddioid. Cyrhaeddais adref mewn pryd i gael un olwg ar fy anwylaf fachgen drachefn, a chanu yn iach ág ef. Aeth Dr. Gee ato tua chanol y dydd, a dywedai, "*Well, dear David, you are very ill.*" "*Yes,*" meddai yn ddystaw. "*Can you think of Jesus now?*" "*Oh, yes.*" "*Is he precious to you now?*" "*Yes.*" "*Very precious?*" "*Yes; very precious.*" Gofynodd am ei dād amryw weithiau ychydig cyn i mi gyrhaedd i'r tŷ. Pan aethum ato, agorodd ei lygaid arnaf. Gofynais a oedd yn fy adnabod. "Ydwyf—fy nhad." Gofynais a oedd efe mewn poen? "Dim poen," oedd yr ateb. Gofynais a oedd yn dawel ei feddwl? "Yn gwbl dawel," meddai. Yr oedd hyn tua phump yn y prydnewn, a chyn saith, yr oedd yr hyn oedd ysbrydol ac anfarwol o'n hanwylaf David, wedi dianc ymaith—yr ysbryd caruaid, addfwyn, gonest, fyddlawn, ac athrylithgar hwnw, wedi adeiniaw ymaith o'r babel brydferth, ond gwanaidd, hōno y buasai yn ei phreswyllo, yn nghymdeithas ysbrydion cydnaws ág ef ei hun, i wlad a sefyllfa o iechyd, a rhyddid, a gwynfyd didrai, didranc, a thragywyddol. Yr oedd rhai o'r ysbrydion puredig hyny wedi bod yn sibrdw rhywbeth wrtho y dydd hwnw, fe ymddengys. Ac yn awr, dodwn o flaen y darllen-ydd y ffaith yr awgrymwyd ati o'r blaen. Nid oedd wedi dywedyd nemawr iawn trwy y dydd olaf, ond yn unig ateb yr hyn a ofynid iddo, a hyny mewn sibrdw dystaw. Ychydig cyn pedwar o'r gloch y prydnewn, agorodd ei lygaid, a gofynodd yn ei lais a'i ddull arferol pan oedd yn iach,—"*Beth oedd o yn ei ddyweyd?*" "*Pwy, machgen anwyl i?*" ebe ei fam. "*Mr. Jones,*" ebai yntau, gan graffu yn ddwys arni. Tybient, wrth reswm, mai Mr. Jones o Smethcote a olygai, yr hwn oedd yn pregethu yn fy lle i y Sabbath hwnw, ac a fuasai yn eistedd wrth ei wely, ac yn ymddyddan ág ef y nos o'r blaen a'r bore hwnw. Fodd bynag, yn rhagluniaethol iawn, gofynodd ei fam drachefn,—"*Pa Mr. Jones?*" "*Mr. Jones, Castle Street, gynt,*" atebai yntau, gyda dwysder pwysleisiol, ac mewn llais hygryw dros yr ystafell. Yr oedd ei fam, ei chwaer, a'i frawd hynaf yn yr ystafell ar y pryd. Edrychasant ar eu gilydd mewn syndod, heb wybod beth i'w ddywedyd wrtho; edrychai yntau arnynt hwythau, fel yn dysgwyl am atebiad; ac ebe ei chwaer toc,—"*Ni wn i ddim yn wir, beth oedd o yn ddyweyd.*" "*O, peidiwch gofalu; nid yw o ddim pwys,*" ebe efe. Adroddodd ei chwaer hyn i mi cân gynted ag y cyrhaeddais adref; a synid fi yn sawr iddo sôn felly am fy hen gyfaill hybarchus a hoffus, Mr. Jones, yr hwn oedd wedi marw er ys blwyddyn a hanner bellach, a'r

hwn na buasai efe newawr iawn yn ei gymdeithas erioed. "Rhaid mai dyrysu yr oedd," meddwn i. "Iâ, y mae yn debyg," ebe hithau; "ac eto nid oedd yn ymddangos felly mewn un modd. Gwelais ef yn colli amryw weithiau cyn y dydd y bore heddyw, ac yr oedd yn hawdd gwybod hyn ar ei wedd, ei lygaid, a'i lais, bob tro; ond yr oedd yn edrych mor *composed*, ac yn siarad yn ei ddull a'i lais arferol, y tro hwnw." Felly gadawson y peth i sefyll ar hyny o bryd. Bore dydd Mawrth canlynol, daeth Miss M. A. Jones i ymweled â ni. Wedi iddi eistedd i lawr, dywedai fy merch wrthi,—"Yr oedd fy anwyl frawd yn sôn am eich tād ychydig oriau cyn marw." "Yr oedd o yn wir?" ebe hithau, fel mewn mawr syndod. "Beth a ddywedodd ef am fy nhâd?" Adroddodd hithau yr ymddyddan uchod. Safai Miss Jones mewn mud syndod am beth amser; ac ebe hi yn y man, "Wel, ni chlywais y fath beth erioed o'r blaen! Gwelais fy nhâd (mewn breuddwyd) y bore Sul, yn edrych yn siriol, ac yn dda iawn, ac wedi ymwisgo yn ei ddillad goreu; ac ebe fi wrtho,—'O, yr ydych chiwi yn myned i daith, fy nhâd.' 'Ydwyf.' 'A gâf fi ddyfod gyda chiwi?' 'Na; y mae genyf ffrind arall yn dyfod gyda mi heddyw.' 'O, Mr. Rees, mi feddylw'n.' 'Nage; ond rhywun pur agos at Mr. Rees.' 'O! pa un o honynt hwy, fy nhâd?' 'Y bachgen *nice* hwnw, fyddi di yn ei alw fo.' 'Ond a gâf finnau ddim dyfod?' 'Nid wyt ti ddim yn barod.' 'A gaiff mam ddim dyfod?' 'Y mae hi wedi myned.' 'Wel, wel; pe baech yn myned i Ganaan, ni chawn i ddim dyfod gyda chiwi, mi feddylw'n.' 'Ti a gei ddyfod eto.' Ar hyn deffroais." Pwy a all roddi cyfrif am ffaith hynod a dyeithr, fel hon? Cyd-darawiad y ddau amgylchiad sydd yn gosod hynodrwydd ac arbenigrwydd neillduol ynddi. Onid allai fod ysbryd perffeithiedig fy hen gyfaill Jones wedi ei anfon i fod yn gwmi i ysbryd fy machgen, ac megys i'w arwain a'i gyflwyno i syd a chymdeithas ysbrydion perffeithiedig? Y mae mwy o gymdeithas a chyfathrach rhwng y ddau fydd nag a wyddom ni, ac nag a feddylasom erioed, fe allai. Tarawodd y ffaith hob yn y mynegasom hi iddo â syndod. Sylwai Dr. Gee ei bod yn un o'r rhai hynotaf, o'r natur yma, a ddarllenasai, neu a glywsai efe erioed am dani. Un prydawn, yn fuan ar ol marwolaeth fy mab, dygwyddodd i weinidog efengylaidd, perthynol i Eglwys Loegr, fod yn cymeryd tē gyda mi. Adroddais yr hanesyn iddo. Torodd i wlo yn hidl; ac ebe efe,—"I suppose you would not take the whole world for that fact." "No, indeed, I would not," meddwn. "No," ebe efe; "you may accept it as a message, direct from heaven; and I never heard of a parent whom heaven has put under such an amount of obligation as yourself." Pan adroddais y chwedl wrth yr hybarch Dr. Raffles, cyfododd ei ddwyllaw, a dywedai,—*O! how wonderful! How strikingly beautiful! Heaven and earth have more intimate intercourse with each other than we ever imagined.*"

Dydd Gwener canlynol, hebryngasom ei ran farwol i dŷ ei hir gartref. Claddasom ef yn mynwent Capel Sion, gerllaw Treffynnon. Darllenodd a gweddiodd y Parch. T. Roberts, Newmarket; a thraddododd y Parch. H. Pugh, Mostyn, anerchiad tra effeithiol a phriodol yn y capel, a'r Parch. D. Price, Dinbych, yr un modd wrth y bedd.

Yr ail nos Sabbath, traddododd ei ewythr, y Parch. H. Rees, bregeth ragorol ar Daniel xii. 13, ar achlysur ei farwolaeth, yn nghapel Salem. Gwnaeth ychydig gyfeiriadau tra effeithiol at ei nodwedd, ei fywyd, a'i farwolaeth, ar y diwedd. Dywedai, "Nid oes genyf ddim llawer i'w ddy-

wedyd am y gŵr ieuanc sydd wedi ymadael oddiwrthym yn ddiweddar, ac ni byddai yn weddus i mi ddywedyd llawer chwaith. Un dystaw oedd ef. Dystawrwydd meddylgar oedd un o'i nodweddion. Erioed ni ddyrchafodd ei lef yn yr heol. Ymgadwai gydag ef ei hunan. Ei amcan yn yr ysgol, ac wedi hyny yn y swyddfa, ydoedd cymhwyso ei hunan i ddyledswyddau galwedigaeth, fel y gallai ymgynnal heb fod yn bwys na baich ar neb. Y mae genym le cryf i obeithio fod addurniadau naturiol ei nodwedd wedi eu sancteiddio â gras y nef; ac i'r tawelwch hwnw a hynododd ei fywyd a'i farwolaeth, derfynu mewn tawelwch a thangnefedd tragywyddol. Yr oedd ei fywyd a'i farwolaeth yn llefaru yn uchel wrthych chwi, ieuentyd, yn neillduol. Ni lefarodd efe fawr iawn â'i dafod—llefaru â'i draed a'i ymddygiad yr oedd ef; ac os bu ei fywyd felly yn offerynol i dynu sylw, a chynnyrchu ystyriaeth rhyw feddwl neu feddyliau at yr elfenau hyny oeddynt deilwng a chanmoladwy ynddo ef ei hun, ni chrëwyd ef yn ofer—ni threuliodd ei fywyd i ddim dyben," &c.

Na ddo; "ni threuliodd ei fywyd i ddim dyben," yn sicr; canys gadawodd argraffiadau a dueddant er daioni ar feddyliau pawb a'i hadnabuant ymhob cych o gymdeithas y bu ynddo. Ni lefarodd nemawr â'i dafod, fel y sylwir uchod; ond y mae genym le i gasglu ei fod yn ystorio ei feddwl â gwybodaeth, gyda'r bwriad, os ca'i fyw, i "ddwyn deall allan," trwy lefaru, rywbryd. Gollyngai ambell awgrymiad allan yn achlysurol wrth ei frawd ieuengaf, cyn, ac wedi iddo ef (Henry) ddechreu pregethu, y gellid casglu oddiwrtho fod y weinidogaeth yn ei fryd yntau. Gofynnodd ei frawd hyny iddo un tro, ond ni ddywedodd ddim; ac yr oedd ei ddystawrwydd ef yn dyweyd llawer, mewn ystyr. Gofynnodd i'w frawd ddarllen yr Epistol at y Rhufeiniaid, ac ysgrifenu y sylwadau a darawent ei feddwl arno—y gwnai yntau yr un modd â'r Epistol at yr Ephesiaid;—ac y caent eu darllen i'w gilydd. Ysgrifenedd ef ryw gymaint, ond methasom gael hyd i'r sylwadau hyny ymysg ei bapyrâu.

Yn awr, ddarllenyddion ieuainc, dymunwn gyflwyno hyn o gofiant am *Fy Mab* i'ch sylw chwi yn neillduol. Pob peth sydd bur, sydd hawddgar, sydd ganmoladwy, sydd rinweddol, a dymunol, yn y nodwedd a osodir o'ch blaen, meddylwch am y pethau hyn. Ymdrechwch fod yn debyg iddo, ac i ragori arno ymhob peth sydd dda.

Am danaf fy hun, dywedaf eto, yr wyf yn ei hystyried fel rhagorfraint uchelfawr ddarfedd i mi gael magu y fath fab ag oedd efe. Yr wyf yn brofiadol o wirionedd geiriau Solomon,—“Mab doeth a lawenhâ ei dâd;” a geiriau yr Apostol Ioan, “Mwy llawenydd na hwn nid oes genyf, sef cael bod fy mhlant yn rhodio mewn gwirionedd.” O! beth a fuasai fy nheimladau heddyw wrth feddwl am dano ef sydd wedi myned, pe buasai wedi treulio ei fywyd yn wyllt ac annuwiol, gan “rodio yn ffyrdd ei galon, ac yn ngolwg ei lygaid,” fel miloedd o ieuentyd yr oes, ac wedi dwyn arno ei hunan gystudd ac angu anamserol, drwy afradlonedd a bywyd halogedig? Pa dâd a allasai eistedd i lawr i ysgrifenu cofiant y cyfryw fab? Byddai adgofion am y cyfryw un yn chwerwach nag angu. Trwy anfeidrol drugaredd, gallaf fi ysgrifenu a darllen cofiant fy mab gyda theimlad cysurus a diolchgar, er i aml ffrwd o ddagrau hiraeth am dano wlychu y dalenau hyn wrth eu hysgrifenu, yr oeddwn yn gallu cymysgu y dagrau hiraeth â dagrau o lawenydd a moliant. O! chwi blant rhieni crefyddol, cofiwch, ystyriwch, eich bod yn sicr o droi allan i fod naill ai y bendithion

penaf, y ffynnonellau o'r cysur a'r dedwyddwch uchaf, neu ynte y meil-dithion trymaf, a'r drain poenusaf, i'ch tād a'ch mam a'ch cenedlasant, ac a'ch magasant gyda gofal ac anwydeb. "Mab ffol a bār ddiğllonedd i'w dād, a chwerwder i'w fam." A pha ddiğllonedd, neu ofid, a ddichon ynwyes tād crefyddol brofi, sydd gyffelyb i hwnw a bār mab ffol iddo? Pwy arall a ddichon gymysgu cwpan mor chwerw i'w roddi at wefusau mam dduwiol, â hwnw a gymysga ei phlentyn afradlawn, annuwiol, ei hunan iddi? Beth pe cyfrifid nifer, yr olrbeimid ac y cyhoeddid hanes, plant annuwiol rhieni crefyddol yn Nghymru yn unig, y dyddiau hyn, byddai y nifer yn sawr iawn, y mae lle i ofni; a pharai yr hanes i laweroedd o dadau gywilydd a gofid, a gyrai laweroedd o famau ar grwydr. A "mab gwaradwyddus, gwarthus, a anrheithia ei dād, ac a yr ei fam ar grwydr," medd y doethaf o feibion gwragedd. Bydded i'r Eglwys Gristionogol ymddeffroi o ddirif i ymasfyd yn nghyfammed ac addewidion ei Duw, am fod i'w had gael ei gyfrif i'r Arglwydd yn genedlaeth, a'i sicrhau ger ei fron Ef.

Y mae genyf eto i dalu diolchigar gydnabyddiaeth i garedigrwydd ein cyfeillion yn Salem tuag atom yn amser ein profedigaeth a'n galar, ac i'r brodyr a'r cyfeillion anwyl a brysurasant i dywallt olew eu cydymdeimlad, trwy lythrau, i archollion dolurus ein calonau, sef y Parchedigion, Ambrose, Porthmadog; y ddau Griffith, Bethel; Roberts, a Griffith, Caernarfon; Hughes (Tegai), Capelhelyg; Jones, Pen y morfa; Thomas, Bangor; Stephens, Dwygyfylchi; Parry, Conwy; Davies, Henryd; Thomas, Beaumaris; Jones, Amlwch; Morris, Bryngwran; Griffith, Caergybi; Williams, Llanddeusant; Jones, Sion; Pugh, Mostyn; Roberts, Newmarket; Price, Dinbych; Roberts, Ruthin; Roberts, Pentrefoelas; Gee, Dinbych; Lloyd, Wern; Evans, Llangollen; Williams, Brymbo; Roberts, Llanbryn-mair; Jones, ac Evans, Manchester; Jones, Smethcote; Roberts, Merton; Rees, Cendle; Oliver, Pont y pridd; Griffiths, Llanharan; Davies, Aberaman; Morgans, Caerfyrddin; Hughes, Penmain; ac L. Edwards, D.D., Bala; ynghyda Mr. E. Thomas, (Eben Fardd); E. G. Salisbury, Ysw., Caer; Mri. J. a T. Hughes, Caernarfon; Mr. E. Jones, Dolgellau; J. B. Beck, Ysw., North and South Wales Bank, Liverpool; J. Napier, Ysw., North and South Wales Bank, Dinbych; Mr. M. Jones, Maesglas; a Mrs. Davies, Min-y-dôn. Mewn modd neillduol dylwn grybwyll enw fy hen gyfaill hoff, a'm cydlafurwr lawer blwyddyn, y Parch. T. Pierce, yr hwn, mor aml ag y gallai gan wendid a llesgedd, a ddeuai i ymweled â'r hwn oedd hoff ganddo, yn ystod ei gystudd; ac a gydgymsygodd lawer o'i ddagrau â'r eiddom ni ar achlysur ei farwolaeth. Yr oedd gan Mr. Pierce bob amser y meddyliau uchaf am dano—ei nodwedd, ei alluoedd, a'i dalentau, fel y dengys yr englynion a gyfansoddodd ar ei ol, y rhai a welir ar ddiwedd hyn o gofiant.

TYSTIOLAETHAU CYFEILLION AM DANO.

Ysgrifonodd ei gyfaill, y Parch. H. E. Thomas, Birkenhead, hanes ei farwolaeth i'r *Arweinydd*, yr hwn a ymddangosodd yn y Rhifyn am Medi 25ain, 1856, lle y dywed,—

"Gellir anturio ei ganmawl, gan na ddarfu iddo ef ddefnyddio sill erioed i ganmawl ei hun. Un dystaw, tyner, siriol, cywir, a gwir dalentog oedd. Bu fyw fel blodeuyn, a bu farw yr un modd. Cynnyddai yn ddystaw, a pheraroglai yn hyfryd. Ynddo ef cawsom yr enghraifft orau o athrylith uchel a phur, heb gorrff na gwisg gwawdol. Pe

busasi y gyfryw athrylith yn meddiant llawer un sydd yn llawn o rym celfyddydol, busasi wedi ei wneyd yn arglwydd Cymru. Yr oedd yn medru y ffordd i fynwes pawb; pob tro yr edrychom arno, yr oeddyn yn teimlo nad oedd elyn iddo ar y ddaear. Yr oedd rhyw ysbrydolrwydd yn perthyn i'w athrylith a'i deimlad, fel yr oedd yn hawdd canfod nad i'r ddaear hon ei ganed."

Fel y canlyn yr ysgrifennai Mr. Beck, un o oruchwylwyr y *North and South Wales Bank*, at ei frawd hynaf,—

"My Dear Sir,—We all here deeply regret the loss you have sustained in the death of your brother David,—but it is his gain. I always admired him for the gentleness of his disposition, and his amiable character. I sincerely sympathize with your father and mother, yourself, and your other friends, in the bereavement that an allwise Providence has suffered to come upon you."

O lythyr y Parch. W. Ambrose, Porthmadog,—

"Ni fyddai dywedyd fy marn am eich anwyl David, yn awr, yn un help i chwi garie eich baich. Cyffyrddai à llinynau tyner, sydd eisoes yn ysgwyd. Gallwn ddywedyd llawer am ei graffier beirmiadol, am burdeb ei chwaeth, am sylledd ac unplygrwydd ei Gristionogaeth, ac am fl o bethau a barent i ni ofyn, 'Beth a fydd y bachgen hwn?' Ond pa les a wnai hyny!—dim ond ail agor archollion, a chwanegu poen a hiraeth."

"Y mae colli un oedd mor dawel, anwyl, a diodid i chwi bob amser, yn rhywm o bŕi i'w hwi deimlo yn alarus ar ei ol; ar yr un pryd, y mae cofio am ei rinweddau dysglær, a'i fywyd diargyhoedd, yn gymhorth i chwi ymgysuro wrth feddwl am ei ddedwyddwch presennol. Y mae genych seiliau oedryn i greu ei fod mewn gwlad y byddai yn greu- londeb ei ddwyn o honi i ofidiau y byd hwn drachefu."—*Y Parch. W. Thomas, Beaumaris.*

"Ac y mae y tyner a'r addfwyn David wedi marw! Gallaf, anwyl frawd, gydymdeimlo à chwi ar yr amgylchiad yn drwyadl."—*Y Parch. R. Thomas, Bangor.*

"Y mae yn anhawdd iawn i ni allu dirnad pa fodd y mae holl ddybenion bywyd yn cael eu hateb yn nhywmor dynion mor obeithiol ag oedd David Rees, Spencer o Liverpool, ac eraill o'r un oedran; eto, rhaid i ni greu fod pob peth yn eu lle, yn llaw Un sydd ry ddoeth i gangymeryd mewn dim, ac yn rhy gywir i ymddwyn yn annheg mewn dim."—*Y Parch. R. Parry, Conway.*

"Nid wyf yn gwybod am neb wedi ei aroholli yn debycach i'r hen Gomer, na chwi; ond ei fod ef wedi colli ei unig fab. Cafodd eich anwyl David chwi, fel ei hoffus John yntau, hir gystudd. Bu farw y ddau yn 21 oed. Ac yr oedd y ddau yn llawn o athrylith, ymhell bell uwchlaw y cyffredin."—*Y Parch. J. Roberts, Rhuthyn.*

"Nid colled gyffredin ydoedd colli gŵr ieuane mor hynaws, mor obeithiol, ac mor athrylithgar ag oedd efe."—*Y Parch. D. Griffith, Ieu., Bethel.*

"Yr ydwyf yn meddwl na fu yr un bachgen erioed y gallwn ei hoffi a'i anwylo yn fwy na David. Byddai ei olwg addfwyn, ei synwyr helaeth, a'i dalentau cryfion, wrth ymddygleirio drwy ei wylder duwiol, yn ennill fy serch ato bob amser."—*Y Parch. R. Williams, (Hufsa) Brymbo.*

"Yr oedd ei olygon treiddiol, ei wyneb hawddgar, a geiriau ei lais gwan, yn sior o wneyd argraff ar bob calon. Ond nid posibl ydyw i mi ddirnad leimladau y rhieni, y brodyr, a'r chwiorydd, ar ol un mor graff, mor gyfeillgar, o'r fath dalent, ac o'r fath oed."—*Y Parch. S. Roberts, Llanbrynmair.*

"Er na chefnais ond ychydig gyfeusdra, mewn cymhariaeth, i gyfeillachu ág ef, ac i gael adnabyddiaeth o hono, cefnais ddigon i'm galluogi i ddeall ei fod o ran ei dymher a'i gymeriad yn cyfateb yn hollol i ystyr ei enw—*caeredig*, neu *anwylyd*. Ie, yr oedd yn wir garedig i baw, ac yn anwyl gan bob un a gafodd y radd leiaf o adnabyddiaeth o hono. Yr oedd yn blaniwyn rhy dynner i gael ei adael yn hŵy yn amiaidur diffaeth y byd hwn, ac felly symudodd ei Dâd nefol ef i'r baradwys fry. Caiff yno dyfu, blodeuo, a ffrwytho yn dragwyddol, heb un bystfil i'w sathru, nac un awel oer a'fachus i'w ddeifio."—*Y Parch. T. Rees, Kendle.*

"Wel! ofer fyddai i mi ddywedyd wrthych, '*Peidiwch a galaru.*' Y mae hyny yn annaturiol ac yn anhmosibl. Amser galar yw hwn i chwi, i'ch teulu da, i'ch ofseillion caredig, ac, wrth ystyried athrylith y gwrthdrysych a gollwyd, i'r genedl yn gyffredinol."—*E. Thomas, (Eben Fardd), Clynnog.*

"Yr oedd yn debycach i angel nag i blantyn dyn."—*L. Pugh, Ysw., Dolgellau.*

Gallwn ychwanegu llawer o'r cyffelyb, allan o lythyrâu brodyr a chyfeillion anwyl eraill, ond gwasanaetha cynifer! â hyn yna i ddangos i'r darlennydd anadnabyddus o wrthddrych y cofiant, na chariodd dallineb cariad tadol fi ymhell oddiar lwybr cywir barn gyfiawn yn yr hyn a ddywedais am dano.

Wedi y cwbl, ychydig gysur a allasem dynu heddyw, wrth adgofio prydfferthwch ei wedd, cryfder ei synwyr a'i ddeall, gloewder ei dalentau, a helaethrwydd ei wybodaeth a'i athrylith, a hyny yn unig. Claddwyd llawer gŵr ieuanc yn meddu yr holl bethau hyn mor helaeth âg yntau, ond na byddai yn un cysur i'w berthynasau a'i gyfeillion i gofio na sôn am dano. Yr elfenau moesol hyny a lywodraethent ei dymher a'i fuchedd,—a ddysgleirient yn ei holl fywyd a'i ymddygiad, y rhai a roddent i ni seiliau da i obeithio ei fod yn blentyn Duw—ei fod yn dwyn y nodau hyny y cyhoedda Gwaredwr y byd wynfydedigrwydd uwchben y neb y byddant arno,—dyna y pethau a barant fod yr adgofion am dano yn felus a hyfryd i'n teimladau. Dywedwn eto wrth ein darlennwyr ieuainc, "Deisyfwich y doniau goreu." Nid pob gŵr ieuanc a allai ddyfod i fyny âg ef yn y doniau naturiol a goffêir ymlaenaf, ond gall pob un gyrrhaedd y doniau goreu oedd ynddo—meithrin tymber lariaidd, teimlad addfwyn, calon garedig, cydwybod dyner, ysbyrd cywir a gonest, fyddlawn, diffuant, gostyngedig, tawel, a hunanymwadol.

Gallwn grybwyll, cyn terfynu, y gallasai *Fy Mab* ddyfod yn fardd rhagorol pe buasai byw, ac yn ymroddi yn y ffordd hono; ond meddwl yr wyf nad oedd ganddo un amcan na bwriad at hyny. Cyfansoddodd rai englynion yn achlysurol; ond ni ddangosai hwynt ond i ychydig iawn o gyfeillion, a dinystriodd y rhan fwyaf o honynt wedi hyny. Cefais yr ychydig a ganlyn ymysg ei bapryau,—

I'r Eryr.

Ei lydain esgyll leda—yr eryr,
O'i oriel ymddyroha;
Chwai'r esgyn, uwch, uwch rhwysga,
A thua'r haul yn syth yr â.

I'r Fagnet.

HAIARN gawodydd yn chwyrn gyda—tharan
Fytheiriol ergydia;—
O! y dinystr a daena—y fagnet;
O gampwyr rhyfel, hi gwyrpa'r hyfa'.

Y Drygonus yn y Farn.

ARGYHOEDDIAD tragwyddol—dŷr yno
Drwy'i enaid annuwiol;
Hwn byth fydd anobeithiol—tan waeau
Ei elyn angeu a'i golyn ingol.

Un tro yr ymwelais âg ef pan oedd yn Ninbych, dywedodd wrthyf, "Y mae' arnaf eisieu i chwi gyfansoddi un gorchestwaith iawn ar ryw destun dyrchafedig yn y *blank verse*—y darn ar Job yn y mesur hwnw ydyw y peth goreu a wnaethoch erioed." "Cynnygia di ati," ebe finnau; "yr wyf fi wedi myned yn rhy hen a difater bellach at orchwyl felly." "Yr wyf finnau yn rhy ieuanc, ynte," ebe yntau. "Bum yn ceisio gwneyd rhywbeth ryw noson yn ddiweddar, ond ni thâl ef ddim yn y byd." A thynodd bapryrn o'i logell, ac estynnodd ef i mi, a hwnw oedd yr unig beth o'i waith a ddangosodd erioed i mi; a dyma fo,—

"Bydded."

MIL cynt na 'r fellten, neu oleuni 'r wawr,
 Y gair a dreiddiai trwy 'r tywyllwch tew
 Tragwyddol oedd ar daen,—Goleuni fu.
 Dychrynid uffern; ac ymlechu wuai
 Dan esgyll y tywyllwch oedd ar ffo
 Rhag wyneb tanllyd y goleuni pur;
 A chan fytheirio ei chableddau erch
 Yn erbyn Brenin nef, a'i engyl glân,
 I lawr yn ddyfnach, ddyfnach, nag erioed,
 I gaddug mwy ofnadwy nag o'r blaen,
 Ymsuddai 'n awr,—nid allai oddef mo
 Oleuni 'r nefoedd i dywynu ar
 A rhwygo 'r gorchudd a gysgodai 'i gwarth.
 Mor fawr oedd ei thrueni weithian, fel
 Y ffôai megys rhagddi hi ei hun;
 Ymlogi wuai mewn annyoddefol ing.
 Satan, er cryfed oedd, nid allai ddal
 Pelydrau 'r gwawl dywynai o wyneb Duw,
 Yn llym felltenu i mewn i'w galon ddu,

Yr hyn a'i hysai 'n fwy na 'r flantau tân
 Euogrwydd oedd yn llosgi tan ei fron.
 O! fel y teimlai! Dirmyggediceo oedd
 Yr hwn a gyfodasai 'i luman ddu
 I wrthryfela yn ei erbyn Ef,
 Yr Ior anfeidrol! Ofer oedd y cais
 I'w ddiorseddu, nac ysgogi 'i sedd;
 Yr hyn a barai i uffern ochi mwy,
 A barai mwy llawenydd yn y nef.

Pan y gair o'th enau elai,
 Dyna 'r t'w'llwch draw yn ffoi,
 A fuasai erioed cyn hyny
 Tros y dyfnder yn gorddai;
 Anwrthwynebadwy ydoedd
 BYDDED DUW, a'r adsain cry';
 BYDDED, glywai 'r uchelderau,
 BYDDED, deimlai 'r dyfnder da!

Cefais y pennill canlynol hefyd ymysg ei baprau,—

Brwydr Alma.

HA! clywch y rhyfeldwrf yn rhwygo yr awyr,
 A swn traed y dewrion sychedig am waed;
 Gweryriad y câdfeirch yn rhuthro i'r frwydyr,
 Y gelyn yn barod fel pe tan eu traed;
 Ar lethrau 'r bryn oer yn awr mae 'n weledig
 Y gloewon fidogau rifedi y dail,
 A miniog gleddyfau uwch ben yn chwifedig,
 Draw, draw, 'n adlewyrchu dysgleirdeb yr haul.

Gellid casglu pa fath ydoedd ansawdd ymarferol, a chwaeth ei feddwl,
 oddiwrth y detholion o weithiau beirdd Seisonig a Chymreig a welir yn
 ei goflyfr. Gwasanaethed ychydig enghreifftiau,—

Ambition.

'Tis a common proof,
 That lowliness is young ambition's ladder,
 Whereto the climber upward turns his face;
 But when he once attains the utmost round,
 He then unto the ladder turns his back,
 Looks in the clouds, scornng the base degrees
 By which he did ascend.

Pride.

Pride hath no other glass
 To show itself but pride, for supple knees
 Feed arrogance, and are the proud man's fees.

Ingratitude.

Blow, blow, thou winter's wind,
 Thou art not so unkind
 As man's ingratitude;
 Thy tooth is not so keen,
 Because thou art not seen,
 Although thy breath be rude.
 Freeze, freeze, thou bitter sky,
 Thou dost not bite so nigh
 As benefits forgot,

Though thou the waters warp,
Thy sting is not so sharp
As friend remembered not.

Doubts.

Our doubts are traitors,
And make us lose the good we oft might win
By fearing to attempt.

Gwnaeth gasgliad helaeth iawn o'r cyffelyb ddetholion allan o'r beirdd Seisonig—pob detholiad yn cynnwys rhyw foeswers werthfawr. Copiodd agos holl waith Goronwy Owen, a chymaint a allodd gael gafael arno o waith Ieuan Brydydd Hir, yr hwn a ystyriai ef yn hafal i Oronwy.

Yn yr "Arweinydd" am Medi 25, yr un rhifyn ag a gynnwysai hanes ei farwolaeth, ymddangosodd yr Englynion canlynol o waith y Golygydd—

DYHUDDIANT

Y PARCH W. REES (*Gwilym Hiraethog*),

ÂR FARWOLAETH EI FAB, DAVID REES, MEDI 14, 1856. OED 21.

BARCH. GYFAILL.—Cyfiwynir yr Englynion canlynol i'ch sylw, fel arwydd o gydym-deimlad â chwi yn eich profedigaeth ddwys. Os nad ydynt wedi eu hynodi âg addurniadau celfyddyd, y maent yn cynnwys y cydymdeimlad cywiraf â chwi, eich priod, a'ch plant, yn ngwyneb y profedigaeth fyw yr ydych yn gorfod bod dani, o herwydd colli eich anwyl David Rees.

Ydwylf yn gywir iawn,
H. TEGAL.

HIRARTHAWG! aethawg euthoch!—urddenw Pa faint mwy y olwy' roes min cledd—angau
Barddonol a gawsoch;
Ei ystyr byw ydyw (Ooh!)
Y loesau a deimlasoch.

Ingol, didrugaredd,
I chwi, O! Rees, a chwerwedd,
Wrth ddwyn mab mor fwyn i'w fedd!

Gwyddem ar eich agweddion,—fâd gyfaill, Llygad ei fâd dâd bob dydd—o'i fywyd
Fod gofid i'ch calon;
Methech er 's misoedd meithion
Ag iachâu briwiau eich bron.

A fu David ufydd;
Un dillyn, a deallydd
Rhin yr iaith a'r awen rydd.

Gwlliech o bell y gelyn,—trist wlliech,
A gwelech ei gelyn,
A hwnw 'n llawn o wenwyn;
Och ddiail i chwi oedd hyn!

Ei ddeheulaw ddihalog—Dewi oedd,
Ond nid yw!—Hiraethog;
Yn wylaw mewn lle niwliog,
Yn ei greddf, mae 'ch telyn grog.

At eich arab fab, a fu—yn anwyl
Iawn, iawn, yn eich teulu,—
Iê 'ch doeth a'ch coeth fab ou,
Oedd nos a dydd yn nesu!

Chwi Rees, a gawsoch roslyn—wnai agor
Yn nhegwch y flwyddyn,
A byw-ledodd o'r blodyn
Beraidd sawr dros glawr y glyn.

Rees anwyl, tra 'n cywir synio,—fel doeth,
Fel dyn mae 'n rhaid teimlo;
Dyn yw dyn,—os doniwyd o,
Ei natur sy 'n wan eto.

Ond O! mor fuan y daeth—oer rewrynt
Dros riwiau marwolaeth!
Am hyn—"y rhosyn, p'le 'r aeth?"
Yw 'ch holiad chwi; och! alaeth!

Er 's talm fe deimlai y Salmwydd,—efe,
Am ei fab anufydd,
A wylai,—rhedai yn rhydd
O'i fynwes heillt afonydd.

Gwenu mae 'r haul o ganol—y moelydd
O gymylau 'n siriol:—
Dewi oedd fachgen duwli;
Nid Dewi, ond ni sy 'n ol.

- O nwyfiant y fro nefol,—o rodio 'r
Baradwys ysbrydol,
O dōnan 'r llu adeiniol—
Nid Dewi, ond ni sy 'n ol.
- O seiniau 'r delyn swynol,—o yfed
Yr afon adfywiol,
O Hosanna gysonol—
Nid Dewi, ond ni sy 'n ol.
- O glawr yr awr dysglæriol,—o edrych
Ar bejydrion dwyfol,
Ac "Oon Duw" yn y canol,—
Nid Dewi, ond ni sy 'n ol.
- O! yn awr mewn gwawr guriol—y gwelir
Corff gwael oedd brydweddol,
Ei Ner a adfer yn ol,
Ar edyn, gorff ysbrydol.
- Haul Ion a saetha oleuni—i byrth
Y bedd lle mae Dewi
Yn isel—os yw 'n nosi,
Duw a ddél i'w dyddio hi.
- Ein gobaith boed yn gwibio—i fyny,
I'r fan daw oddiyno
Ein Iesu glân i wysio
Ei gail o grud gwael y gro.
- Rhowch fy sereh a'm hanerchion—i'ch anwyl
A'ch hynaws wraig fyddlon;
Ni fyn briw dwfn, dwfn, ei bron
Hi siarad am gysuron.
- Eilwaith, eich plant anwylaf,—wiw gyfaill,
O'u gofid anerohaf;
I ohwi a nhwy, heddwch Naf,
A'i ddoniau a eiddunaf.

ETO GAN Y PARCH. T. PIERCE, LIVERPOOL.

- Daw'r REXS, harddbryd rosyn,—oedd goron
Hawddgarweh yn blentyn;
Ebrwydd daeth, fel bardd a dyn,
Yn enwog yn ei wanwyn.
- Adwaenai waith duwinydd,—a dedwydd
Hediadau bardd cafydd;
Ai 'n graffus fedrus fydrydd
Mawr ei ddawn yn more 'i ddydd.
- Darlleuai, gwyddai agweddion—y byd,
Rho'i barch i'n llenorion;
A'r lawnaf gyrol union
Garai ef, sef geirian Ion.
- Dawn ddiwall, deall ei dād,—a'i awen
Oedd fyw yn ei lygad;
A'i gael oedd ein dysgwyliad
O wir les fel athraw 'r wlad.
- Ond Duw a'i penodai ef,—yn iach saut,
I uwch swydd a chartref;
Rhoed iddo, 'n lle hir ddyodde,
Urdd yn un o feirdd y nef.
- Er i'w gorff fyn'd trwy fawr gur—i orwedd
Yn ei weryd amnhur,
Daw eilwaith, heb un dolur,
O waelod bedd i wlad bur.

EGWYDDORION CREDINIAETH.

I.

DYMA lyfr yn cael ei roddi yn ein dwylaw; a dywedir wrthym ei fod wedi dyfod oddiwrth Dduw. Yn awr, mae yn naturiol gofyn, paham yr ydym i roddi derbyniad i'r dystiolaeth hon? A ddylem ei chredu am fod rhyw berson neu bersonau yn ei thraethu; neu ynte a yw yn ddyledswydd arnom yn gyntaf arfer ein rheswm, a barnu drosom ein hunain? Y gofyniad ydyw, nid pa un a ddylem gredu tystiolaeth Duw ai peidio; ond a ydym i roddi crediniaeth uniongyrchol i dystiolaeth ddynol, pan ddywedir wrthym mai Duw sydd yn llefaru.

Y mae atebion annheg ac anghywir wedi eu rhoddi i'r gofyniad hwn gan y naill ochr a'r llall. Dywedir gan rai fod yn rhaid i reswm bob amser fyned o flaen ffydd; ac nas gellir rhoddi crediniaeth i neb, heb iddynt ddwyn ymlaen brofion digonol i argyhoeddi ein rheswm yn gyntaf. Ond nid yw hyn yn hollol gywir; oblegid y mae ffeithiau beunyddiol yn dangos fod pawb yn gweithredu ffydd, ac yn gweithredu oddiar ffydd, cyn i'w rheswm ddyfod erioed i ymarferiad. Nid trwy ymresymu y mae y plentyn yn dyfod i gredu yn y berthynas rhyngddo ef a'i rieni, ac i roddi crediniaeth ddiysgog ymhob gair a ddywedir wrtho. Nid oes neb yn myned i'r drafferth o geisio deall ymresymiad heb radd o ffydd i ddechreu. Nid oes neb yn foddolawn i roddi y sylw anghenrheidiol i ddeall yn llyfr anhawdd, nac i ddechreu ei ddarllen, heb fod ganddo ryw gymaint o ffydd yn y llyfr. Nid deall cynnwysiad y llyfr yw yr achos o'i ffydd; ond ei ffydd yn y llyfr yw yr achos iddo ddeall ei gynnwysiad. Felly hefyd gyda golwg ar y Bibl, y mae cynghor Awstin yn berffaith briodol, "Cred fel y byddo i ti ddeall." Ond drachefn, y mae gofyniad yn codi, Pwy yw y rhai hyn y dylid eu credu? Mae yn eglur nas gallwn gredu pawb yn ddiwahaniaeth; ac y mae mor eglur nad yw gwaith unrhyw nifer o ddynion yn hōni fod ganddynt awdurdod neillduol i ddsygu eraill, yn ein rhwymo, nac ychwaith ynddo ei hun yn ein cyfreithloni, i'w credu. Oblegid y mae rhai yn ein galw i gredu un peth, ac y mae eraill gyda'r un honiad o anffaeledigrwydd yn ein galw i gredu yr hyn sydd yn hollol groes. Ac heblaw hyn, os seilir yr hawl i'n crediniaeth ar awdurdod, y mae hyn ar uawaith yn human-ddinystriol; oblegid y mae pob awdurdod yn sefyll mewn anghen am brofion i'w chadarnhau, ac wrth alw annom i weithredu ffydd mewn personau yn rhinwedd eu hawdurdod, yn annibynol ar reswm, y mae rheswm ar yr un pryd yn cael ei osod o flaen ffydd.

Yr unig ffordd i ochelyd yr anhawsderau ar bob llaw, yw ymddwyn at y Bibl yn ol yr un reol ag sydd yn llywodraethu ein hymddygiad at bob llyfr arall. Pa fodd y mae pob dyn synwrol yn penderfynu pa lyfrau yw y rhai goreu ar bob cangen o wybodaeth? A ydyw yn ymddiried yn unig i'w ddeall ei hun? Neu, a yw yn chwilio pa beth a ddywed rhyw bersonau sydd yn profesu eu bod wedi derbyn hawl benodol i lefaru ar y pwnc? Nid yw yn cymeryd y naill na'r llall o'r llwybrau hyn. Nid yw yn tybied ei hun yn anffaeledig; ac ar y cyntaf, y mae yn teimlo ei fod yn dra anwybodus: ac am hyn y mae yn rhoddi ffydd yn marn eraill y rhai sydd yn gwybod yn well. Ond y mae hefyd yn gweled mai nid y rhai sydd yn ymfroestio mwyaf yw y rhai sydd yn gwybod mwyaf; ac nad yw yn ddiogel iddo roddi ymddiried yn mhawb sydd yn hōni fod ganddynt ryw hawliau mwy nag eraill i'w gyfarwyddo: ac am hyn, y mae yn edrych pwy sydd wedi ymroddi yn fwyaf llwyr i ddeall y pwnc, nid yn unig yn athrawiaethol, ond yn ymarferol; ac yna y mae yn rhoddi crediniaeth, nid i awdurdod allanol, ond i gymhwysder personol. A dyma hanfod ffydd, ei bod yn gweithredu ar berson, ac yn credu yr hyn a ddywedir ganddo heb chwilio am sail tu allan i'w berson ef ei hun.

Yn awr, os dylem gredu y rhai sydd wedi rhoddi eu hamser i efrydu rhyw gangen neillduol o wybodaeth mewn perthynas i'r llyfrau goreu ar y pwnc hwnw, y mae yn iawn i ni roddi crediniaeth i'r dynion mwyaf crefyddol o barth y llyfr a ddylid ei olygu fel safon crefydd. Y mae y rheol hon yn addas i bob math: oblegid, er mai ychydig mewn cymhariaeth bydd

yn deall pynciau, y mae pawb yn deall ymddygiadau. Wrth yr ymddygiadau y mae i ni farnu y dynion; ac wrth y dynion gallwn farnu y llyfr. Yr unig wahaniaeth pwysig yw y gwahaniaeth rhwng y da a'r drwg: a nôd gau-grefydd yw gosod mwy o bwys ar ffurfiau nag ar y moesol a'r tragywyddol. Pa gyfundraeth bynag sydd yn gwrthod cydnabod dynion da o herwydd rhyw wahaniaeth mewn pethau bychain, nis gall fod o Dduw. Mae yn wirionedd y dylem dderbyn y Bibl gan yr eglwys, a rhoddi fydd yn nhystiolaeth yr eglwys mewn perthynas i'w deilyngdod; ond y gofyniad yw, Pwy sydd yn cyfansoddi yr eglwys? Y wir eglwys yw y rhai da ymhob gwlad; a dyma y rhai y dylem dderbyn eu tystiolaeth. Y mae yn anhawdd tynu y llinell ymhob amgylchiad, megys y mae yn anhawdd dyweyd pa bryd y mae y dydd yn dechreu a'r nos yn darfod. Ond wrth gymeryd y cyfanswm, nid oes dim yn fwy amlwg na bod y rhai drwg yn casáu y Bibl; a bod y rhai da yn ei barchu yn fwy na phob llyfr arall, ac yn profesu mai o hono ef yn benaf y maent yn derbyn eu cymhorth a'u cysur. Ac os rhoddir cred i ddynion o gwbl, ar unrhyw achos, onid yw yn ddyledswydd arnom roddi cred i dystiolaeth unfrydol yr holl ddynion goreu ar y ddaear, nid am rywbeth a glywsant neu a ddychymygasant, ond am yr hyn a brofasant yn eu calonau, ac a ddangosir ganddynt yn eu bucheddau?

Er hyny, y mae yn anghenrheidiol sylwi mai fydd mewn dynion yw y fydd hon; ac nid fydd yn Nuw, nac yn ei dystiolaeth. Y mae hono o natur uwch, yn tarddu o'r adnabyddiaeth o Dduw trwy'r gwirionedd. Ond y mae fydd mewn dynion yn suddiol i'n harwain at y gwirionedd; ac i'n dwyn i deimlo fod y Bibl yn haeddu yr ymchwiliad mwyaf parchus a phwylllog. Fe allai y dylid rhoddi iddi le uwch, ac y gellid defnyddio tystiolaeth dynion da fel prawf, neu o leiaf fel tebygolrwydd cryf, fod y Bibl wedi dyfod oddiwrth Dduw. Ond nid ydym yn ewyllysisio gwasgu un mater i'w eithafion, na rhoddi arno gymaint o bwysau ag sydd ddichonadwy iddo gynnal. Gan hyny, y cwbl y dadleuwn drosto yw, fod tystiolaeth dynion yr oes hon yn sail ddigonol i greu fod y Bibl yn llyfr heb ei fath, ac mai ein dyledswydd ninnau o ganlyniad yw chwilio yr Ysgrhythrau. Wrth wneuthur hyn, cawn fod y llyfr ynddo ei hun yn cynnwys profion digonol o'i ddwyfoldeb i roddi pob boddlonrwydd a sicrwydd i'r deall a'r rheswm: ac wrth roddi ystyriaeth ddifrifol, mewn ysbryd gweddi, i'r profion hyn, y mae lle i hyderu y deawn i weithredu fydd yn y Duw digelwyddog.

II.

Nid yr un prawf sydd yn cyfateb i sefyllfa pawb; oblegid y mae yn rhaid cyfarfod â phawb ar y tir y maent. Yn y lle cyntaf, y mae rhai yn gwadu egwyddorion sylfaenol moesoldeb, ac yn ystyried dyn yn ddim amgen mewn natur, ond ei fod ychydig yn uwch mewn gradd, na chreäuriaid direswm. I'r rhai hyn, nid yw cyfiawnder, deddf, a dyledswydd, ond enwau gweigion, heb un arwyddocâd. Er hyny, y mae ganddynt hwythau real, wrth yr hon y maent yn barnu pob peth, a'r rheol hono yw dedwyddwch. Dyma yr unig wrthddrych sydd ganddynt i ymgyrhaedd ato; ac yn ol ei gymhwysder i ddwyn yr amcan hwn i ben y maent yn barnu pob wrthddrych arall. Yn ol eu tyb hwy, nis gall fod un dyben gan y Créawdwr ond gwneyd ei grëaduriaid yn ddedwydd; ac nis gall fod ymfyniad

mwy addas i ddyd na, Pwy a ddengys i ni ddaioni? a hwnw nid ynddaioni moesol, ond daioni naturiol. Y mae diffygion hanfodol yn y gyfndraeth hon: ond y mae yn rhaid i ni ei chymeryd yn awr fel y mae; ac er mor amhherffaith ydyw, y mae ynddi ryw fesur bychan o wirionedd; ac y mae y gwirionedd hwnw yn gorfodi pob meddwl ystyriol i roddi derbyniad i'r Bibl.

Fod dedwyddwch, ac y dylai fod, yn amcan naturiol i bob creadur, ac mai dyma y duedd sydd yn dyfod gyntaf i weithrediad, sydd wirionedd amlwg. A phe na byddai genym ddim ond hyn i sefyll arno, y mae yma ddigon o le i adeiladu prawf cadarn mai y Bibl yw y llyfr goreu a ddaeth erioed i feddiant dynolryw. O ba le bynag, a pha fodd bynag, y daeth, hyd yn nod ar y dybiaeth nad oes un amcan uwch i fod na dedwyddwch, dyma y llyfr a ddylai gael y parch mwyaf gan bawb, fel rheol eu hymddygiadau, a safon yr hyn a ystyrir ganddynt hwy eu hunain yn ddaioni. Nid pawb o amddiffynwyr y gyfndraeth hon sydd yn addef fod Duw yn bod, a thra yn y cyflwr hwnw, y maent o ganlyniad yn analluog i gydnabod fod un llyfr wedi dyfod oddiwrth Dduw. Ond dylai y rhai hyny dalu gwarogaeth i'r Bibl fel llyfr y llyfrau; ac os oes rhywbeth a elwir ganddynt yn Dduw, er gwadu ei bersonoliaeth, i hyny, pa beth bynag ydyw, y dylent ei briodoli, gan mai dyma y llyfr sydd wedi dwyn mwyaf o ddedwyddwch i'r byd. Y mae ffeithiau yn dangos fod pob dyfais arall yn methu. Y mae carcharau a chyfreithiau, addysg wladol a manteision masnachol, yn anni-gonol i ateb y dyben. Ac nid yn unig y mae ffeithiau yn profi hyn; ond y mae synwyr pob dyn yn dangos mai felly y mae yn rhaid iddi fod: oblegid nid amgylchiadau sydd yn gwneyd y dynion, ond y dynion sydd yn gwneyd yr amgylchiadau. Yr unig ffordd i wneyd y byd yn ddedwydd yw gwella ansawdd dufewnol y dynion sydd yn byw ynddo; a'r unig ffordd effeithiol i wneyd hyny yw taenu egwyddorion y Bibl. Dangoser gwlad o bobl yn credu y Bibl, ac yn byw yn ol y Bibl, dyna wlad o bobl ddedwydd. Nis gall neb ddymuno i bawb ymddwyn tuag ato yn well nag y mae y Bibl yn eu dysgu: a phe na byddai eraill yn ymddwyn felly, eto os bydd ef ei hun wedi rhoddi derbyniad i ddysgeidiaeth y llyfr hwn, bydd yn sicr o fod mor ddedwydd ag y dichon i ddyd syrthiedig fod yn y fuchedd hon, er pawb, ac er pob peth.

Y mae yn rhaid i bawb addef hyn, os sylwant ar ffeithiau, ac ar dystiolaeth eu synwyr naturiol eu hunain, er iddynt wadu y bôd o Dduw. Ond os credant fod Duw yn bod, y mae y prawf o gymaint a hyny yn gryfach. Yr unig syniad am Dduw a all fod gan y rhai hyny sydd yn barnu mai dedwyddwch yw hanfod daioni, ydyw, ei fod yn amcanu ymhob modd i wneyd ei grëaduriaid yn ddedwydd. Er fod y Bibl yn dangos mwy na hyn, y mae yn dangos hyn hefyd uwchlaw un llyfr arall; ac felly, yn ol eu cyfndraeth hwy eu hunain, o'r holl lyfrau sydd mewn bod y Bibl yw y mwyaf teilwng o Dduw. Mae yn wir ei fod yn rhoddi ar ddeall nad oes gan Dduw un drefn i wneuthur y drygionus yn ddedwydd, tra y parhânt i fyned ymlaen yn eu drygioni: ond os yw hyn yn ffaith, yn lle bod yn wrthddadl yn erbyn y Bibl, y mae yn rheswm cryf o'i blaid. Mae yn wir hefyd ei fod yn cymeryd yn ganiatâol fod drwg wedi dyfod i mewn i'r rhan hon o ymherodraeth Duw, ac wedi ymdaenu dros yr holl fyd yr ydym yn byw ynddo. Ond y mae hyn drachefn yn ffaith, pa olwg bynag a gymerir, a pha esboniad bynag a gynnnygir ar y mater. Y mae pechod yn y byd; a phe ceisid newid ei natur, trwy beidio ei alw yn bechod, y mae y trueni

sydd ynddo, ac yn ganlyniad o hono, yn rhy amlwg i'w wadu. Yn awr y gofyniad ydyw, nid pa lyfr sydd yn rhoddi yr olwg oreu ar y byd, trwy ei ddangos yn rhywbeth gwell nag ydyw? ond pa lyfr sydd yn cyfarfod â'r ffaith yn fwyaf dihoed, yn cymeryd cyflwr y byd fel y mae, heb geisio cuddio y drwg, ac yn dangos y feddyginiaeth fwyaf effeithiol ar ei gyfer? Gallwn foddloni yn hawdd i'r holl ddadl droi ar hyn. Os gellir dangos neu ddyfeisio rhyw gyfundraeth arall yn gosod cymaint o fawredd ar ddyn a'i ddedwyddwch, yn ei ddesgrifio fel gwrthddrych cymaint o ofal tadol am dano, a chariad anfeidrol tuag ato, yn cynnwys dadguddiad mor deilwng o Dduw mewn perthynas i ddedwyddwch dyn; mewn gair, os gellir meddwl am ryw ffordd arall trwy yr hon y gallasai Duw wneuthur cymaint tuag at sicrhau dedwyddwch dyn mewn cyflwr o brawf ar y cyntaf, neu tuag at ei adferu i ddedwyddwch ar ol iddo syrthio, yna addefwn nad yw y Bibl wedi dyfod oddiwrth Dduw. Ond os ydyw, yn yr ystyriaethau hyn, yn hollol anghymharol, yn aros ar ei ben ei hun yn annhraethol uwch na holl lyfrau'r byd, y mae yn rhaid fod hyn yn rhyw radd o sail i gredu ei fod yn ddedguddiad o feddwl Duw i ddyn. Nid oes un gwaith dynol nas gellir *meddwl* pa fodd y gallasai fod yn well; ac os gwelir gwaith nas gellir *meddwl* am un ffordd i'w wella, y mae hyn yn rhyw brawf mai Duw yw ei awdwr.

Nid yw y sicrwydd hwn o'r fath uwchaf o ran ei natur; ond y mae yr uwchaf a all fod, a'r uwchaf a ellir ddymuno, yn unol â'r dyb sydd yn gosod allan fod pob daioni yn gynnwysedig mewn dedwyddwch. Tra y credir hyn fel gwirionedd sylfaenol, nis gellir cael prawf cadarnach o ddwyf-oldeb unrhyw lyfr na'r un a roddwyd yma gyda golwg ar y Bibl: oblegid y mae y gyfundraeth ei hun yn gwrthod yr egwyddorion sylfaenol hyny sydd yn y meddwl dynol, ar y rhai y gellir adeiladu penderfyniadau diammheuol, a chrediniaeth ddiysgog. Ond hyd yn nod pe byddai cadernid y prawf hwn yn llai nag yw, y mae yn ddyledswydd ar bawb sydd yn ymgais yn ddiragrith at ddedwyddwch, iddynt hwy eu hunain a'u cyd-ddynion, gymeryd y ffordd sydd yn ymddangos yn fwyaf tebyg o ateb y dyben. Y maent, yn amgylchiadau cyffredin bywyd, yn dewis y moddion sydd yn ymddangos yn fwyaf cymhwys, er nad oes ganddynt sicrwydd y bydd y moddion hyny yn llwyddiannus; a llawer mwy y dylent wneuthur rhyw ddewisiad yn yr amgylchiad hwn, pan y mae yr achos yn llawer mwy pwysig, a'r llwyddiant yn llawer mwy sicr. Er y dichon fod tywyllwch ammheuaeth heb ei ymliid yn hollol o'u meddyliau, y maent yn rhwym o ddewis yn ol y goleuni sydd ganddynt. Un ai hwy a ddylent roddi derbyniad i'r Bibl fel rheol eu bywyd, a'i gymhell i eraill yr un modd; neu hwy a ddylent ddangos ei well. Mae y pwnc hwn yn rhy annhraethol bwysig i gellwair âg ef, a'i adael heb ddyfod i ryw benderfyniad. Mae yn anhosibl cael un peth mor berffaith, na fydd rhyw rai yn ymhyfrydu mewn codi gwrthddadleuon; ond y gofyniad yw, pa beth sydd ganddynt i'w roddi yn ei le? Y mae yn annheilwng o ddynion ystyriol fod yn amcanu at ddadwneyd pob peth, heb geisio gwneyd un peth; yn dinystrio yn barhaus, heb gynnyg adeiladu. Ond pe unwaith y llwyddid i ddinystrio y Bibl, pa le y ceid ei gyffelyb?

III.

Ond nid ammheuaeth na thebygolrwydd a fwriadwyd i lywodraethu y byd. Y mae sicrwydd yn gyrrhaeddadwy o barth i wirioneddau naturiol

a moesol. Yn gyntaf, ni a gymerwn y gwirioneddau naturiol. Cydnabyddir yn gyffredin y dyddiau hyn y gellir cael gwyrbodaeth ddiammheuol am lawer o ddeddfau natur; ac y mae dosbarth helaeth yn tueddu i dybied mai dyma yr unig wybodaeth sydd yn meddu perffaith sicrwydd. Ond os rhoddir ystyriaeth ddiragfarn i'r mater, canfyddir fod yr un sicrwydd yn perthyn i'r Ysgrhythyr: a bod yr un egwyddorion ag sydd yn profi fod unrhyw draethawd dynol yn cynnwys amlygiad cywir o ddeddfau natur, yn gwasanaethu i brofi yr un mor ddiammheuol fod y Bibl yn ddadguddiad cywir o feddwl Duw. Yma y perthyn y prawf oddiwrth wyrthiau; yr hwn sydd bob amser wedi bod y mwyaf poblogaidd yn Lloegr: ac nid yw hyn i ryfeddu ato, gan mai naturiaethwyr yn benaf yw y Saeson, fel y dengys y parch mawr, ond nid gormodol, a delir ganddynt i enwau Bacon a Newton; yn enwedig wrth ei gymeryd mewn cysylltiad â'u dirmyg o feddylwyr galluocach hyd yn nod na'r rhai hyn.

Ond er cymaint o arferiad sydd wedi ei wneyd o'r prawf hwn, prin y gellir dywedyd ei fod wedi ei ddeall yn dda gan ei bleidwyr na'i wrthwyrnebwyr. Dadleua anffyddwyr fod ein holl wybodaeth yn dyfod trwy y synwyrâu corfforol, ac nas gallwn roddi crediniaeth i unrhyw dystiolaeth os na fydd yn cydfyned â'n profiad ni ein hunain. Ond y mae gwyrrth yn groes i bob profiad a gawsom erioed; ac am hynny, yn ol eu barn hwy, nis gallwn ei chredu. Mawr yw y drafferth a gymerwyd i ddangos gwendid yr wrthddadl hon, trwy brofi fod tystiolaeth dynion yn gredadwy er iddi fod yn hollol wahanol i ddim a welsom ni ein hunain. Yn un o'r traethodau diweddaraf ar y mater hwn a gyhoeddwyd yn Lloegr, adroddir fel atebiad y chwedl am y Gwyddel, yr hwn, pan oedd un yn tystiolaethu ddarfod iddo ei weled yn cyflawni y weithred, a ddywedai y gallasai ef ddwyn ymlaen ugain y rhai nis gwelsant ef: a rhoddir ar ddeall mai tebyg i hyn yw dadl y rhai ni chredant ddynion geirwyr yn tystiolaethu iddynt weled gwyrrthiau yn cael eu cyflawni. Fe allai fod hyn yn ddigon o atebiad i'r gwrthddadleuon a ddygir gan anffyddwyr yn gyffredin yn erbyn gwyrrthian. Ond y mae yma wir anhawsder, ac y mae yr anhawsder hwnw yn rhy ddfwn i ymresymiaid fel hyn allu ei symud.

Er mwyn deall yr anhawsder, mae yn anghenrheidiol ystyried fod gwyrrth yn rhywbeth mwy na dygwyddiad dyeithr. Nid yn unig, y mae yn wahanol i farn gyffredin y byd; ond y mae yn wahanol i drefn gyffredin y Crëawdwr. Nid amlygiad newydd ydyw o rai o ddeddfau natur, ond dygwyddiad sydd yn croesi holl ddeddfau natur. Nid cymhwysiad o ryw achos neu achosion oedd yn bod eisoes mewn natur i gynnyrchu effeithiau newyddion yn y byd, ond rhyw achosiad newydd, nad oedd yn bod cyn hynny, ac nad yw yn bod wedi hynny. Mae llawer yn medru uno, neu gymhwyso, achosion mewn sŵrf newydd, i gynnyrchu effeithiau na welwyd o'r blaen; ond gwaith rhy anhawdd i holl drigolion y ddaear yw creu un achos newydd, neu ddattod yr hen gysylltiad rhwng unrhyw achos a'i effaith. Pe clywem fod athronydd wedi gwneuthur darganfyddiad, yr hwn sydd yn ei ddyngu i ddefnyddio rhyw allu anianyddol mewn dull newydd, ni fyddai hyn yn anghredadwy; ond pe dywedid wrthym ei fod â gair yn unig yn creu bara i rai mewn anghen bwyd, yn gwella pob afiechyd, ac yn codi y meirw o'u beddau, byddai ein hanghrediniaeth yn dra esgusodol.

Ac ynglŷn â hyn, y mae ystyriaeth arall yn deilwng o sylw. Nid yn unig y mae pob gwyrrth yn newidiad ar ddeddf y Crëawdwr; ond y mae,

wrth edrych arni yn ei chysylltiad â natur, yn gwrthdaraw yn erbyn egwyddorion sylfaenol pob gwybodaeth naturiol yn ein meddyliau ni ein hunain. Un o'r egwyddorion hyny yw crediniaeth yn sefydlogrwydd deddfau anian. Mae yn fwyaf tebygol fod hyn wedi ei blanu gan y Crëawdwr yn meddwl pob dyn; oblegid nis gallasai y teimlad cydfynedol o gyffredinolrwydd ac anghenrheidrwydd ddyfod trwy y synwyrâu corfforol. Y cwbl a allasai profiad y synwyrâu ddangos ydyw, fod y cyfryw achosion yn cynnyrchu y cyfryw effeithiau ar ryw amserau neillduol: ond y mae y grediniaeth sydd ynom fod yr achosion hyny yn cynnyrchu yr un effeithiau bob amser ymhob lle yn rhywbeth hollol wahanol, yr hwn nis gallasai profiad byth ei ddyngu. Ac heblaw hyny, nid yw y grediniaeth o sefydlogrwydd deddfau anian yn cynnyddu nac yn cryfhâu yn y gradd lleiaf trwy brofiad; yr hyn sydd yn sail i dybied mai nid trwy brofiad y daeth i'r meddwl ar y cyntaf. Ond nid yw hyn o bwys hanfodol yn yr achos hwn. Pa fodd bynag y daeth, y mae yr egwyddor yn mhawb yn ddiwahaniaeth. Os yw ynom yn wreiddiol wrth natur, fel y mae y meddylwyr mwyaif yn barnu, yna y mae wedi ei phlanu ynom gan Dduw yn ddigyfrwng: ond os yw yn effaith profiad yn unig, y mae hyd yn nod ar y dybiaeth hon wedi dyfod trwy drefniad Duw, yn sail i bob sicrwydd a feddwn mewn perthynas i natur a'i deddfau. Ar y sail hon yr adeiledir pob sicrwydd oddiwrth gyfatebrwydd (*analogy*): a dyma y sicrwydd uchaf a all fod am feithiau dyfodol yn y byd naturiol. Nid oes sicrwydd cryfach na hyn i'r un dybiaeth mewn seryddiaeth, fferylliaeth, gallofyddiaeth, daeareg, nac unrhyw wybodaeth naturiol arall. Crediniaeth yn sefydlogrwydd deddfau natur sydd yn fywyd i bob anturiaeth, ac yn enaid pob cysur daearol. Os collwn ein gafael yn yr egwyddor hon, yr ydym yn teimlo fel pe byddai sylfeini y ddaear yn ymollwng, a'r rhwymyn sydd yn dal y grëadigaeth weledig wrth ei gilydd yn ymddattod. Ac eto, y mae yn ymddangos fod yn rhaid i'r egwyddor wreiddiol hon, yr egwyddor sylfaenol ar yr hon y mae pob gwybodaeth a phob amcan naturiol yn ymddibynu, gael eu hanghredu bob tro y rhoddwn grediniaeth i dystiolaeth am wyrthiau. Nid yw yn ateb un dyben i ni geisio cuddio yr anhawsder, trwy wneyd gwyrrth yn rhywbeth llai nag ydyw, yn weithrediad deddfau oedd o'r blaen yn guddiedig mewn natur, neu rywbeth cyffelyb: oblegid os credwn y gwyrrthiau a gofnodir yn y Bibl, y mae yn rhaid i ni gredu fod rhai o ddeddfau natur am y tro wedi eu newid neu eu hattal. Dyma olwg yn fyr ar yr anhawsder.

O'r tu arall, y mae yn y meddwl egwyddorion cyferbyniol yn sail i wybodaeth naturiol fwy diammheuol, y rhai sydd yn ein gorfodi i roddi crediniaeth i dystiolaeth y Bibl; ac os gwadwn y rhai hyn, yr ydym yn cyfarfod âg anhawsder mwy. Wrth gredu fod holl dystiolaeth y Bibl am wyrthiau yn anghywir, yr ydym yn credu yr hyn sydd yn llawer mwy anhygoel na dygwyddiad gwyrrthiau. Wrth gredu y naill, yr ydym yn credu yr hyn sydd yn dra rhyfedd; ond wrth gredu y llall, yr ydym yn credu yr hyn sydd yn anmhosibl. Y mae deddfau natur yn sefydlog; ond yr ydym yn teimlo er hyny nad ydynt yn anghyfnawidiol: ond y mae deddfau eraill yn dwyn perthynas â'r byd naturiol, y rhai y gwyddom nas gallant newid mewn un amgylchiad, megys deddfau rhif a mesur; ac i'r dosbarth hwn, mewn rhan o leiaf, y perthyn yr egwyddorion hyny sydd yn ein rhwymu i roddi crediniaeth i wirionedd wrth gymharu gwahanol dystiolaethau; er eu bod, fe allai, fel y maent yn gyfryngau rhwng y gweledig

a'r anweledig, yn dwyn rhyw gymaint o ddelw gwirioneddau moesol yn gystal a naturiol. Mae yn amlwg, pa fodd bynag, nad yw yr egwyddorion hyn o'r un rhyw a'r egwyddor hōno a grybwyllwyd o'r blaen, yr hon sydd yn ein harwain i ymorphwys ar sefydlogrwydd natur; ond eu bod yn sylfaen i sicrwydd llawer uwch. Pe byddem mewn gwlad ddeyithr, ac ar ol bod yno ryw gymaint o amser yn gofyn i un o breswylwyr y lle am enwau amryw wrthddrychau a wyddom yn barod, ac yn eu plith un holiad am enw rhyw wrthddrych yr hwn nis gwyddom; os cawn fod ei holl atebion yn gywir am yr hyn a wyddom, y mae hyny yn rhoddi sail i gredu fod ei dystiolaeth yn gywir am yr un peth nas gwyddom. Y mae y sicrwydd hwn yn rhywbeth cyffelyb i'r sicrwydd am sefydlogrwydd deddfau natur. Er hyny, y mae yn bosibl, er mor annhebygol, ei fod yn yr un peth hwnw yn amcanu ein twyllo. Ond pe byddem yn gadael y tyst hwn, ac yn gofyn yr un holiad i un arall, yr hwn nis gallasai fod yn gwybod am dystiolaeth y cyntaf, ac yn cael yr un atebiad ganddo yntau, y mae y sicrwydd erbyn hyn yn llawer uwch, nid mewn graddau yn unig, ond mewn natur; ac yn gorphwys ar seiliau hollol wahanol. Nid credu tystiolaeth yr ydym mwyach, ac nid credu sefydlogrwydd y byd allanol yn unig; ond credu yr hyn sydd mor anghyfnawidiol ag yw deddfau rhif a mesur. Yr oeddyd o'r blaen yn credu fod yr ateb yn gywir, ond yr ydym yn awr yn teimlo nas gall fod yn anghywir. Pe bae holl ddeddfau y byd gwledig yn cael eu hattal, a phe bae pob dyn yn gelwyddog, ac yn eu plith y ddau a nodwyd er hyny mae yn amhosibl i ni beidio credu mai yr enw a gawsom ganddynt yn annibynol ar eu gilydd, oedd yr enw arferedig ganddynt hwy ar y gwrthddrych y cyfeiriwyd eu sylw ato. Wrth gymharu tystiolaethau annibynol, y mae ein crediniaeth yn gorphwys, nid ar natur y tystion, ond ar yr hyn a elwir *natur pethau*. Ac nid yw y prawf hwn ychwaith yn perthyn yn hollol i'r gangen hōno o wybodaeth rifyddol, o'r hyn lleiaf fel y mae y wybodaeth hōno yn cael ei gosod allan yn gyffredin, yr hon a elwir yn athrawiaeth tebygolrwydd, a'r hon sydd yn ymddangos fel yn tarddu o sefydlogrwydd deddfau natur. Y mae athrawiaeth tebygolrwydd yn ymddibynu ar nifer yr nghreiffitiau; ond y mae y prawf yr ydym ni yn sôn am dano yn cyrhaedd sicrwydd trwy un gymhariaeth. Y mae fod un dyn yn dywedyd celwydd wrthym, heb fod hyny yn fantais iddo, ac yn enwedig os bydd yn dyoddef colled trwy hyny, yn beth tra annhebyg; y mae fod dau yn ymddwyn felly yr un diwrnod yn fwy annhebyg; y mae fod tri yn ymddwyn yr un modd, o blyth y rhai a gyfarfyddwn mewn un diwrnod, yn fwy annhebyg drachefn; ac felly ymlaen yn ddiderfyn. Ond os cymerir unrhyw ddau o honnynt yn unig, ac os ceir fod y tystiolaethau a draddodir ganddynt yn annibynol ar eu gilydd, er hyny yn cyttuno â'u gilydd yn berffaith, y mae fod y dystiolaeth hōno yn gelwyddog yn rhywbeth mwy nag anhebygolrwydd: y mae yn amhosiblrwydd. Neu, os oes eisieu eglurhâd pellach, gellid cyfeirio at y planedau newyddion sydd yn dyfod i'r golwg mor fynych y blynyddoedd hyn. Pe dywedai rhyw un wrthym y darganfyddid un arall cyn diwedd y flwyddyn hon, nid yw hyny yn annhebyg: a phe buasent yn arfer dyfod i'r golwg yn fwy mynych, buasai y dywediad o gymaint a hyny yn fwy tebygol. Pe derbyniem lythyr, gan hyny, oddiwrth un na welsom erioed, ac na chlywsom erioed sôn am dano, yn hysbysu darganfyddiad o'r fath, ni fyddai y dystiolaeth mewn un modd yn anghredadwy. Ond pe derbyniem ddau lythyr ar unwaith oddiwrth

wahanol bersonau, y rhai y gwyddom nas gallent fod mewn cynghrair â'u gilydd, yn dywedyd iddynt ill dau ei gweled, ac yn rhoddi yr un disgrifiad o honi, ac o'i lle yn y ffurfafen, nid tebygolrwydd sydd genym mwyach, ond sicrwydd, a hwnw yn ymddibynnu, nid ar liosogrwydd yr enghreifftiau blaenorol, a'r cydweddiad ag ymddangosiadau cyffredin, ond yn uniongyrchol ar anghenrheidrwydd natur. Yr unig amhheuaeth a all fod ydyw, pa un a yw y ddau mewn cynghrair ai peidio; a phan nas gallwn benderfynu hyn trwy adnabyddiaeth bersonol, y mae yn rhaid i ni farnu trwy brofion anuniongyrchol. Y mae cyttundeb mewn disgrifiad o'r amgylchiadau cydfynedol, ynghyd ag amrywiaeth mewn pethau dibwys, yn wasanaethgar i'r dyben hwn. Ond prin y gellir dyweyd fod hyn, na dim arall, yn anghenrheidiol i ychwanegu at gadernid y tystiolaethau, os unwaith y ceir boddlonrwydd eu bod yn annibynol ar eu gilydd; oblegid y mae y gwahaniaeth rhwng y prawf oddiwrth debygolrwydd a'r prawf oddiwrth gyttundeb tystiolaethau yn gyffelyb i'r gwahaniaeth rhwng y wybodaeth sydd yn dyfod trwy y synwtrau a'r wybodaeth a ddeillia o reswm. Y mae graddau yn y naill, ac y mae yn cynnyddu yn gyfatebol i liosogrwydd yr enghreifftiau; ond yn y llall, y mae y sicrwydd yn myned ar unwaith yn annherfynol. Ond er fod y sicrwydd hwn, ynddo ei hun, ac yn ein meddwl ninnau, o'r fath fwyaf diammheuol, eto pan eir i gymhwyso y rheol, y mae y sicrwydd yn rhwymo o gyfranogi i ryw raddau o ansawdd yr amgylchiadau. Y mae yr egwyddor yn berffaith ac yn ddigyfnawid yn y meddwl; ond y mae yr amgylchiadau, yn neu at y rhai y cymhwysir hi, yn amherffaith ac yn gyfnawidiol. Ond y mae hyn yn wir yr un modd am holl ddeddfau rhif a mesur, y rhai y mae pawb yn addef eu bod yn anghyfnawidiol sicr. Y maent felly ynddynt eu hunain; ac eto, pan gymhwysir hwynt at wrth-ddrychau allanol, y mae graddau mwy neu lai o sicrwydd yn perthyn iddynt. Y mae priodoliaethau y triongl yn berffaith sicr yn y meddwl; ond nid ydynt i'w cael yn hanfodi yn berffaith mewn sylwedd trionglog o waith y celfyddydwr mwyaf cywrair. Er i ddyn fod yn gyfarwydd mewn rhifnodau, os bydd llawer o honynt yn dyfod i mewn i'r cyfrif, nis gall fod yn berffaith sicr nad yw wedi camgymeryd. Y sicrwydd cryfaf a all gael, hyd yn nod yn yr achos hwn, yw sicrwydd tystiolaeth; oblegid pe byddai un arall yn myned dros y cyfrif, ac yn ei gael i gyfateb, y mae hyn yn rhoddi y sicrwydd mwyaf. Felly ni a welwn fod cyttundeb tystiolaethau yn rhoddi mwy o sicrwydd ymarferol na deddfau rhif a mesur.

IV.

I ba raddau y mae y sicrwydd hwn yn perthyn i dystiolaeth y Bibl, nid yw yn anghenrheidiol i ni yn awr ymofyn. Ein gwaith yw gosod i lawr egwyddorion, a gadael y darlennydd i'w cymhwyso. Digon yn bresennol yw dywedyd nad oes yn agos gymaint o sicrwydd am wirionedd un dystiolaeth a ddaeth i lawr o'r hen oesoedd, ag sydd am wirionedd y dystiolaeth yn y Testament Newydd am anghen ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu, yr hyn yw maen clo y dadguddiad dwyfol. Y mae mor amlwg â'r haul nas gallasai yr Efyngylwyr fod mewn cynghrair; oblegid y maent mor wahanol, fel y mae llawer o'r esbonwyr goreu yn barnu nad oedd y tri cyntaf yn gwybod am ysgrifeniadau eu gilydd. Y mae y dybiaeth mor ffol, fel y mae yr holl anffyddwyr callaf erbyn hyn wedi ei rhoddi i fyny yn

llwyr. Ond os yw y gwahaniaeth sydd rhyngddynt yn profi nad oeddynt mewn cynghrair, y mae eu cyttundeb hanfodol yn brawf mor eglur nad oeddynt ymhen oesoedd yn adrodd chwedlau oedd wedi ymgasglu o amgylch yr hanes: ac heblaw hyny, y mae genym Epistolau wedi eu hysgrifennu tua'r un amser at eglwysi mewn gwahanol barthau o'r byd, ac wedi eu cadw yn ofalus gan yr eglwysi hyny; ac y mae y rhai hyn drachefn yn cymeryd yr un ffeithiau mawrion yn ganiatâol fel gwirioneddau diddaddl. Gan hyny, y mae yma liaws o dystion annibynol, yn cyttuno yn hanfodol am holl amgylchiadau bywyd, a marwolaeth, ac adgyfodiad Crist; ac y mae yn rhaid, o ganlyniad, fod eu tystiolaeth yn wirionedd. Os oes rhai yn teimlo fod sefydlogrwydd deddfau natur yn rhy sicr i ganiatâu gwyrthiau, y mae sicrwydd gwirionedd y cyfryw dystiolaethau â hyn yn gryfach ac yn fwy diammheuol.

Ond y mae egwyddor i'w chael yr hon sydd yn symud yr holl anhawsder; a hõno yw crediniaeth sicr fod deddf uwch yn bod na deddf natur. Fel y mae un ddeddf mewn natur yn plygu i ddeddf uwch mewn natur, neu o'r hyn lleiaf, gweithrediad y naill ddeddf yn cael ei attal neu ei lywodraethu gan ddeddf arall, paham nas gallwn feddwl fod natur ei hun yn plygu i ryw ddeddf sydd uwchlaw natur? Pa un a ydym yn foddolawn ai peidio, y mae yn rhaid i ni gredu hyn; oblegid os credwn dystiolaethau, y rhai sydd mor sicr ag un cymhwysiad ymarferol o ddeddfau rhif a mesur, y mae yn rhaid i ni gredu fod gwyrthiau. Ac y mae gwyrthiau yn profi, yn y lle cyntaf, fod Duw yn bod, mor sicr a phe buasem yn derbyn tystiolaeth yr angylion oedd yn wyddfodol pan ddygwyd y grëadigaeth i fod ar y cyntaf. Ond y mae yn profi mwy na hyn: y mae yn profi fod gan y Duw hwn ryw ddeddf sydd yn uwch yn ei olwg na deddf y grëadigaeth weledig. Y mae yn profi, nid yn unig ei fod yn Dduw Hollalluog, ond ei fod hefyd yn "Jehovah, y Duw trugarog, a graslawn, hwyrffrydig i ddi, ac aml o drugaredd a gwirionedd; yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan fadden anwiredd, a chamwedd, a phechod, a heb gyfrif yr anwir yn gyfiaw; yr hwn a ymwêl âg anwiredd y tadau ar y plant, ac ar blant y plant, hyd y drwydded a'r bedwaredd genedlaeth." Yn y goleu hwn y mae i ni gael golwg gywir ar ddyben gwyrthiau. Dylem edrych arnynt, nid fel profion o allu yn gymaint ag fel arddangosiad o egwyddorion moesol. Y maent yn dangos fod Duw yn mawrhâu ei air uwchlaw ei enw oll. Y maent yn eithriadau sydd yn profi y rheol, fod Duw yn anghyfnewidiol, a'i lywodraeth ar y byd yn llywodraeth sefydlog. Ond y maent yn profi hefyd fod y llywodraeth hõno yn llywodraeth foesol; oblegid dyma yr unig esboniad a ellir ei roddi ar gyfnewidiadau gwyrthiol yn y byd naturiol. Y mae yr ysbrydol ymhob dyn yn fwy na'r holl grëadigaeth weledig; ac o ganlyniad, nid yw yn rhyfedd fod deddfau ysbrydol yn fwy grymus na deddfau naturiol. Y moesol yw enaid y naturiol; a chan fod drygau moesol wedi dwyn i mewn ddrygau naturiol, nid oedd modd gwella y byd moesol heb effeithio ar y byd naturiol. Yr oedd yr holl ddeddfau, y gofynol a'r gweinyddol, wedi eu trefnu i weithredu mewn undeb perffaith â'u gilydd; ond yr oedd gwrthryfel y deiliaid wedi peri rhwyg ac anhrefn yn y grëadigaeth, fel yr oedd yn anghenrheidiol anfon cenadau yn achlysurol, gydag awdurdod a gallu y tû allan i'r llwybr cyffredin, i gadw y byd rhag myned yn rhy ddrwg i'w oddef: ac yr oedd yn anghenrheidiol iddynt hwythau, heblaw dŷgû y deiliaid, roddi profion gweithredol o uniondeb y llywodraeth, trwy

arfer y gallu oeddynt yn dderbyn oddiwrth y Llywodraethwr i amddiffyn y diniwed, a chosbi y rhai oedd yn camweinyddu y deddfau. Ond yn hanes Iesu Grist, yr ydym yn gweled mwy na chenadwr oddiwrth y Llywodraeth Ddwylol, i roddi atalfau ar ddrygau y byd; a mwy nag ymweliad i'r perwyl hwn yn unig oddiwrth y Llywodraethwr ei hun. Y mae ei hanes yn dangos hyn, fel rhan o'i waith, oblegid yr oedd yn gwasgaru bendithion pa le bynag yr elai: ond y mae yn dangos mwy na hyn. Yr oedd yn rhaid ail-grëu y ddynoliaeth. Dyma ei waith, at yr hwn y mae yn cyfeirio yn benaf fel prawf o'i anfoniad; ac amgylchiadau oedd o anghenheidrwydd yn cydfyned â'r gwaith hwn oedd ei wyrthiau. Yr oedd y person a'i holl waith yn oruwchnaturiol. Gan nas gallasai creadur ail-grëu, yr oedd yn rhaid i awdwr natur ddyfod i'r byd mewn modd goruwch-naturiol; ac ar ol gorphen y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur, yr oedd yn rhaid ei ddyrchafu o'r bedd, ac o'r byd, yr hyn yw y wyrth fwyaf a allasai fod. Yr oedd cyflawniad y gwaith yn achosi ei ddyrchafiad; ac y mae ei ddyrchafiad yn profi fod Duw wedi ei foddioni ynddo, fod y cwbl a ddywedodd yn wir, fod bywyd newydd i'r byd yn ei berson.

Fel hyn, y mae y prawf oddiwrth wyrthiau yn dyfod, i raddau helaeth, i fod yn brawf moesol. Y mae yn arwain at egwyddorion moesol, ac y mae ei dderbyniad yn ymddibynu yn benaf ar agwedd foesol y galon. I'r graddau yr ydym yn synied yn deilwng am fawredd moesol, i'r graddau hyny y mae yr anhawsder yn diflanu: oblegid nid ydym yn colli ein gafael mewn sefydlogrwydd deddfau o gwbl; gan fod genym grediniaeth mewn deddfau anghyfnawidiol, y rhai sydd yn rhoddi esboniad ar y cynnewidiadau mewn deddfau llai pwysig. Pan y mae tonau yn treiglo dros draeth tywodlyd natur, y mae genym graig gwirionedd moesol i esgyn iddi. Pe adroddid, i rai sydd yn preswyllo mewn hinsawdd arall, am ryw ymddangosiad naturiol yn y wlad hon, os na welsant hwy erioed ddim cyffelyb, gallai yr adroddiad fod yn anghredadwy; ac yn fwy felly, os ydyw yn ol eu tyb hwy yn groes i'w profiad beunyddiol, ac i'r holl syniadau sydd ganddynt am ddeddfau natur: ond pe unwaith yr eglurid iddynt y ddeddf guddiedig sydd yn esbonio yr ymddangosiad mewn dadl, byddai yr holl anhawsder i'w gredu wedi ei symud. Yn yr un modd, os bydd y galon fel y dylai fod, os bydd yn teimlo y gwahaniaeth rhwng drwg a da, os bydd yn rhoddi crediniaeth ddiysgog i egwyddorion tragrwyddol moesoldeb, ac yn enwedig os bydd yn credu fod Duw yn anfeidrol drugarog, bydd yn hawdd credu gwyrtiau, a bydd yn anhawdd credu fod Duw, am chwech mil o flynyddoedd, wedi cynnal y byd i fyned ymlaen mewn drygioni, heb wneuthur dim tuag at ei achub na'i attal. Ond i bob dyn, pa un a yw yn meddu y teimlad hwn ai peidio, y mae y prawf ynddo ei hun mor sicr ag sydd bosibl i sicrwydd deallol fod. Os oes sicrwydd i'r deall mewn rhywbeth, y mae sicrwydd mewn undeb tystiolaethau: ac os oes sicrwydd mewn undeb tystiolaethau, y mae sicrwydd am adgyfodiad Crist: ac os oes sicrwydd am adgyfodiad Crist, y mae sicrwydd ei fod wedi ei anfon oddiwrth Dduw i fod yn Iachawdwr y byd. Y mae adgyfodiad Crist gan hyny yn brawf uniongyrchol o ddwyfol darddiad y grefydd Gristionogol; ac yn brawf mor ddilys, er nad mor uniongyrchol, o ddwyfol darddiad y Bibl. Dewiswyd ac anfonwyd yr Apostolion gan Grist ei hun; a derbyniasant yr Ysbryd Glân i'w haddasu i'r gwaith oedd ganddynt i'w gyflawni; a rhan arbenig o'r gwaith hwnw oedd ysgrifenu y Testament Newydd. Y maent

hwythau yn dywedyd am eu gilydd, ac am danynt eu hunain, eu bod yn ysgrifenu dan gyfarwyddyd dwyfol ysbrydoliaeth: a pha beth bynag a feddylwn am danynt, y mae yn rhaid i ni feddwl eu bod yn ddynion geirwir. Ac yn olaf, y mae Crist a'i apostolion wedi rhoddi eu sêl wrth yr Hen Destament, i brofi ei fod wedi dyfod oddiwrth Dduw.

Nid yw hyn ond golygiad byr ar egwyddorion cyntaf y prawf. Gellid myned ymlaen at egwyddorion uwch; ond nid yw yn debyg y byddai hyn yn dderbyniol i'r cyffredin o'n darllenwyr. Pa fodd bynag, am y tro hwn, mae yn ddiâu fod hyn yn ddigon.

CYMHWYSDEB YR YSGRYTHYRAU I GYFLAWNI EU HAMCAN FEL DADGUDDIAD DWYFOL.

[THE HULSEAN LECTURES FOR 1845 AND 1846. By RICHARD CHEURVIX TRENCH, B.D.]

NID ychydig y mae amddiffyniad ein crefydd yn ddyledus i ddarlithiau a sylfaenwyd gan haelfrydedd crïstionogol boneddigion a boneddigesau, y rhai a draddodir o bryd i bryd gan rai o weinidogion mwyaf doniol a dysgedig ein teyrnas. Ac yn gyffredin, y mae y darlithiau a gynnelir trwy hen waddolion yn cyfeirio yn fwyaf neillduol at yr amcan hwn. Ymysg y rhai gellir nodi yr eiddo Bampton, Moyer, Boyle, Warburton, ac eraill. Amcanant oll ddwyn allan amrywiol brofion crefydd naturiol a dadguddiedig, yn enwedig yr olaf, a'u cyflëu yn y fath fodd ag i gyfarfod yn y modd mwyaf deheuig a llwyddiannus ffurfiau newyddion, a mwyaf diweddar, am-mbenaeth. Ac y niae yn debygol y buasem yn amddifad o rai o'r amddiffyniadau rhagoraf i Gristionogaeth, ac athrawiaethau neillduol ynddi, os eithriadwn ychydig draethodau, megys yr eiddo Esgeb Butler, ac na buasem wedi derbyn rhai o'r atebion mwyaf cyfeiriol i wrthddadleuon anffyddiaid, oni buasai am y darlithiau hyn. Iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am brif gynnyrchion Hurd, Halifax, Bagot, Waterland, &c. Yr un oedd amcan sefydliad yr "Hulsean Lecture," yr hon a enwir felly oddiwrth y Parch. John Hulse, A.C., yr hwn a'i sylfaenodd Gorph. 21, 1777, yn Mhrifysgol Caergrawnt. Yn ol ei gymynysgrif, y mae "y darlithydd i fod yn weinidog urddedig, o Brifysgol Caergrawnt, yn feddiannol ar radd Athraw yn y Celfyddydau, ac islaw deugain mlwydd oed. Y mae i'w ddewis yn flynyddol ar ddydd Nadolig, neu o fewn saith niwrnod wed'yn, gan yr is-ganghellydd am yr amser, ac athrawon Colegau y Drindod a St. Ioan." Mae y darlithydd yn rhwym, yn ol y cymynysgrif, "o bregethu ugain o bregethau ymhob blwyddyn, yn Eglwys St. Mair, Caergrawnt;" ond gan y teimlid y nifer penodedig yn anghyfeus, gwnaed apeliad at y *Court of Chancery* am ganiatâd i ddwyn y nifer i lawr i wyth. Testun y darlithiau.

ydyw,—“Y Prawf o blaid Crefydd Ddadguddiedig; Gwirionedd a Rhagoriaeth Cristionogaeth; Prophwydoliaethau a Gwyrthiau; Profion uniongyrchol neu gyfochrog o'r Grefydd Gristionogol, a'r diweddaſ yn fwyaf neillduol; Rhanau mwyaf tywyll yr Ysgrythyrau;”—y mater i'w ddewis gan y darlithydd ei hun. Buwyd mor ffodus a disgyn ar Mr. (yn bresennol Dr.) Trench, am y blynyddoedd 1845 ac 1846; ac anfynych y dewiswyd neb cymhwysach i ymaflyd yn effeithiol yn y testunau uchod. Y mae enw Dr. Trench yn glodfawr yn Mrydain fel ysgolaig medrus a manwl, ac ysgrifenydd o'r dosbarth uchaf ar grefydd. Er cynifer a ysgrifennodd, a chymaint a ysgrifenydd, ar ddammegion ein Hiachawdwr, ac er bod rhai o'r ysgrifeniadau hyny yn dda, a rhagorol dda, mae yn rhaid ystyried, ni a dybiwn, mai gwaith Trench ar y Dammegion ydyw y goreu o lawer a ymddangosodd yn y deyrnas hon; ni welsom yr un yn deilwng i'w gymharu am fynydd ág ef. Ac y mae ei holl weithiau yn cael eu nodweddu gan yr un rhagoriaethau,—manylwch a phwyll; barn y gellir ymddiried i'w haddfedrwydd a'i chywirdeb; cydnabyddiaeth o'r fath helaethaf á holl lényddiaeth y pwnc a fyddo dan sylw; medrusrwydd ieithyddol mawr; a manylwch i iawn adnabod gwir ystyr a grym priodol geiriau, fel y gellir canfod yn y fan wrth ddarllen ei “*Greek Synonyms* ;” ymlyniad cryf wrth brif egwyddorion crefydd, “cariad at y gwirionedd,” a pharch mawr i'r llyfr sydd yn ei gynnwys;—meddianna ar edmygedd dwfn tuag at brif faddylwyr yr eglwys ymhob oes; teimla gartref gyda'r tadau; dengys gydnabyddiaeth mawr á hen awdwyr Groeg a Rhufain, a chysegra lawer o'u hymadroddion trwy eu dwyn at allor Cristionogaeth; ac y mae yn hawdd gwelod ei fod yn cydymdeimlo á rhagoriaethau duwinyddion y Cysandir; hoffa eu hysbryd ymchwilgar; eto nid yw yn ymddangos ei fod yn rhy bell dan ddylanwad yr un dosbarth, na'r un oes, o ysgrifenydd. Arddengys annibyniaeth meddwl cryf; a thybiwn pe galwai ryw rai yn feistriadau iddo, mai hen dadau yr eglwys fyddent.

Testun y darlithiau am 1845 ydyw, “*The Fitness of Holy Scripture for unfolding the Spiritual Life of Men* ;” a thestun y rhai am 1846 ydyw, “*Christ the Desire of all Nations; or the Unconscious Prophecies of Heathendom*.” Ni oddef ein terfynau i ni wneyd un math o degwch á'r ddau fater, gan hyny, cyfyngwn ein hysgrif at y cyntaf yn unig.

Y mae y darlithiau hyn yn bob peth a allesid ddysgwyl a dymuno yn y cyfryw gynnyrchion, ac yn dyfod i fyny ág amcan eu sefydliad. Yr oedd llygaid yr awdwr yn agored, fel y mae yn hawdd gwelod, wrth ddewis ei fater a'i gynllun. Pan y mae traddodi darlithiau wedi myned yn hen ddefod, yn cyfodi oddiar ryw fath o anghenrheidrwydd, nid oes dim yn haws, ac y dylid gochel mwy rhagddo, nag iddynt fyned yn ddiwerth—iddynt gael eu traddodi yn unig er mwyn yr elw cysylltiedig á hwynt. Ond y mae yn amlwg fod eu hamcan uchel yn cael mwy o le yn meddwl Dr. Trench nag un o'r amgylchiadau eraill; ac yn ei ragymadrodd, ni a'i gwelwn fel cadarn yn ymwregysu at gyflawni rhyw galedwaith. Gwel dri o beryglon ag yr amcana eu hosgoi. Sylwa fod unrhyw draethawd ar brofion crefydd yn ddiwerth, mewn cymhariaeth, os bydd y pwnc a dewisir yn gyfryw nad yw yr ymrysonfa bwysig rhwng y gwir a'r cyfeiliornus yn troi arno. Os ennillir y dydd, nid yw yr ennill yn rhyglyddu yr enw mawreddog “buddugoliaeth,” gan fod y gelyn yn rhy wan a distadl, fel nad oedd ei gollu o'r fintai i'w adnabod yn gollod. Os ydyw y prif wrthwyneb-

wyr—y cadfridogion—heb eu cyffwrdd, y mae yn rhy fuan i ymorfoleddu ar gelaneddau rhai o'r milwyr cyffredin. Pa bwys ydyw fod ambell un o'r mân Philistiaid wedi ei ladd, tra y mae y cawr Goliath eto ar y maes, yn herio yn groch fyddinoedd y Duw byw, ac yn ymddangos fel; pe bae yn anorechfygadwy? Ar ei gwmp *ef* y try y fuddugoliaeth—ei ben *ef* ydyw y colyn y mae y rhyfel yn ymsymud arno. Anneler at ei fywyd *ef*, ac y mae y lleill yn digalonu. Pa les ydyw tori ambell gangen oddiar bren ammheu-aeth, tra y mae y gwreiddyn yn ymledu—y pren ei hun yn llawn freidd-dra? Yn hytrach, cymyner yr hen foncyff; cyfeirier pob ergyd at ei wraidd *ef*; ac yna ni bydd anghenheidrwydd pryderu o barth i'w frigau, ei ddail, a'i firwyth marwol.

Y mae hefyd o bwys ar fod i amddiffynwyr Cristionogaeth “ddeal yr amseroedd,” a thrafferthu gyda'r “gwirionedd presennol,” a chyfaddasu eu dulliau o ymosod at y newidiadau gwastadol sydd yn nhrefniadau y fyddin wrthwynebus. “Nid oes arnom eisieu gwaddolion tuag at gynnorthwyo dynion i wneuthur yr hyn a wnaethpwyd eisoes i ladd y lladdedigion, neu i adeiladu beddau prophwydi blaenorol.”* Ac ni fyddai ond o ychydig fuddioldeb i ni, medd Dr. Trench, ddarswyno hen ddrychiolaethau anfydd-iaeth, y rhai yn wir a fuont unwaith yn fyw a heinyf, ond nad ydynt i'w cael yn awr ond mewn hanes, ac ar ddalenau llyfrau yn unig; nid ydynt yn gwanychu fydd neb, nac yn aflonyddu ar dangnefedd ysbryd neb.

Trachefn, y mae ysgrifeniadau ar grefydd, a'i phroffion, yn syrthio yn fyr o'r amcanion teilyngaf, pan nad ydynt yn anerch yr holl ddyd, ond rhyw ran o hono, a'r rhan neu y gallu hwnw heb fod yn uchaf ynddo. Mae yn sicr fod llaweroedd o ddiffyniadau erefydd yn bradychu y diffyg hwn—a diffyg mawr mewn gwirionedd ydyw. Gallech ddarllen lliaws o draethodau o'r dechre i'r diwedd, a rhan o'r dyn yn effro a sylwgar, ond y rhan arall mewn trymgwsg. Mae llinynau y galon heb eu cyffwrdd; nid oes neb yn ceisio sibrdw swyn i'r fynwes; nid oes un saeth yn cael ei hannelu at y gydwybod gysglyd, nac un anerchiad yn cael ei roddi i'r ewyllys ystyfnig. Y mae y deall yn effro, a'r rheswm a'r farn ar eu llawn egni; ond y mae cwag y galluoedd uchaf—annheimpladrwydd y gydwybod, oerni y galon—yn dwysháu ac yn myned yn drymach, yn ol fel y mae astudrwydd y deall yn chwaneu. Ond y mae hyn yn gwbl anathronaidd, yn gystal ag afwydd-iannus; oblegid y mae gan y galluoedd a adewir heb eu cyffwrdd gymaint o law yn ngwir ddarbyylliad y meddwl ag sydd gan y rheswm. Mae yn wir y gellir dystewi gwrthddadleuon heb ddyweyd un gair wrth galon a chydwybod yr ammheuwyr; gellir trwy resymau oerion hel y gwrthwynebydd i gongl, a chau ei enau, fe ellid ar y cyntaf dybied, am byth; ond, fel y dywed ein hawdwr, “y mae yn bosibl i'r rhai y mae eu calon a'u hewyllys yn ddyeithr i ddylanwad y gwirionedd ddianc ar bob adeg.” Ar ol ladd gwrthddadleuon y deall ammheugar, eto trwy gysylltiad â'r galen annu-wiaidd, a'r ewyllys na fyn gydnabod hawliau Duw a chrefydd, y mae yr hen wrthddadleuon yn derbyn ail fywyd, ac yn “cyfodi eilwaith ar eu traed yn llu mawr iawn,” ac yn ymddangos mor feiddgar a phe buasent erioed heb eu gorchfygu. Mae yn sicr nad yw rhesymau i anerch y deall i'w diystyru. Pa faint o werth a fuasai ein crefydd oni bae fod ganddi ei rhesymau? Oni buasai fod ganddi ddadleuon cryfion i anerch y deall, a'i

*British Quarterly, Jan., 1857.

bod yn canmawl ei hymarferion wrth y meddwl fel “rhesymol wasanaeth,” ni fuasai crediniaeth ynddi ond hygoeloedd anmhosibl rhoddi cyfrif am dano, nac ymarferiad a'i dyledswyddau yn amgen na phenboethni. Ond, ar yr un pryd, nid yw siarad wrth y rhan ddeallawl o'r dyn yn ddigonol. Yn hytrach, dylid cyfaddasu apeliadau crefydd at yr oll o'r dyn. Dylai amddiffyniadau crefydd fod yn cyfateb i grefydd ei hun, fel y mae ynddi gyfaddasrwydd nid yn unig i oleuo, ond hefyd i wresogi, i beri i “galonau losgi,” ac i ddwyn yr holl alluoedd a'r teimladau, i ddarostwng dyn fel creadur myfyrger a gweithgar, dan deyrnged iddi ei hun; a dylid gwneyd hyny yn arbenig am mai amddiffynfa gadarnaf y farn a'r deall ydyw annwiaeth y galon a'r ewyllys. Ond rhag i ni gadw ein darllenwyr yn rhy faith oddiwrt destun y darlithiau hyn, ymaflwn ynddo heb wneuthur ychwaneg o ragymadroddiad.

Un o elfenau hanfodol llyfr a bair ddylanwad eang ac effeithiol, ac a wna argraff ddfon ar feddyliau a chalonau dynion—llyfr, sydd yn tafu ei wirionedd i galon cymdeithas, ac yn amcanu lefeinio y cwbl oll i'w ansawdd a'i ysbryd ei hun, ydyw *unoliaeth amcan* (unity of purpose); fod un drychfeddwl mawr fel gwythien yn rhedeg trwyddo oll; fod un pwynt yn yr hwn y cyfarfydda yr holl belydrau gwahanol. Dichon nad yw pob darlennydd yn ddigon craff i gael allan, a dilyn, yr unoliaeth hwn; eto y mae yn anwybodol yn teimlo ac yn addef ei rym. Ond er fod y wythien hon yn gorwedd yn rhy ddfwn yn naear yr Ysgrythyrau, i bob un sydd yn cloddio yn y maes ei darganfod, eto y mae yn gwbl anghenrheidiol; mae yn rhaid i'r cwbl dyfu oddiar yr un gwreiddyn—ei holl ranau fod yn ddarostyngedig i'r un amcan. Yr ydym yn teimlo fod hyn yn bod mewn gwythiau cyffredin. Pa waith barddonol a all ddylanwadu yn ddfwn a pharhâus ar y meddwl, os ydyw yn amddifad o unoliaeth? Pa mor uchel bynag fyddo athrylith y bardd, pa mor liosog bynag yn ei gynnrychion ydyw rhanau yn meddu gwir dlynsi, os nad oes ganddo ryw un amcan mawr fel nôd o flaen ei feddwl, a barn yn ei gyfarwyddo pa beth i'w gau allan a pha beth i'w gymeryd i mewn, pa beth sydd yn berthynasol ac yn anmherthynasol i'r amcan; os na ofala am gyfeirio holl ehediadau ei ddychymyg at yr un nôd, a bod y cwbl yn edrych ar hwnw fel “llygaid llawforwynion ar law eu meistres,”—fel y modrwyau, y blodau, a'r cnapiau, yn nodrefn y tabernacl, oll yn wasanaethgar i harddwch ac amcan yr adeilad fel un cyfanwaith—gall benderfynu y gall barddoniaeth yr oes nesaf fyw, a bod, a blodeuo, heb gynnorthwy ei awen a'i gynnrychion ef, y rhai y gobeithiai ef a'i cyfodent i safle anfarwoldeb, ac a barent i fân feirddion ei enwi yn yr un frawddeg â Homer, Virgil, Shakspeare, a Milton. Diffyg mawr bywyd llaweroedd ydyw y diffyg yma—nid yw eu bywyd yn un; nid yw eu calon yn un; y mae hōno yn rhanedig, ac am hyny y mae eu hoes felly; nid oes ganddynt un amcan mawr, am hyny y mae eu bywyd yn fethiant ac yn wagedd. Ceisia y dyn fod yn bregethwr mawr ar y Sabbath; ac i gyrhaedd ei nôd, llefa â'i geg, heb arbed; gwna ei draed a'i ddwyllaw, holl ewynau ei gorff, holl gyflymder ei dafod, holl nerth ei ysgyfaint, yn wasanaethgar i'w amcan; ceisia effeithio ar dymher hen wrageddos; ymostynga i lefaru pethau iselwael a sfolion, i gyfaddasu “dirgelwch yr efengyl”—“dyfnion bethau Duw”—at y deall mwyaf pŵl; ac ar ol cael yr hwyl, ymchwydda gan y meddwl ei fod bob Sabbath yn nes i gyrhaedd yr nôd—yn nes i fod yn bregethwr gwir fawr; ond, druan, y mae yn gadael

yr amcan yna nos Sabbath hyd y bore Sabbath canlynol; wele y pregethwr ar ef geffyl am hanner awr wedi wyth, ar ol i chwys y bregeth ddechre cilio, ac yn gyru fel Jehu rhyngddo â chartref. Attolwg, pa beth yw y mater? O! y mae y gwŷr yn myned adref, er mwyn cyfodi yn fore drannoeth i gyrhaedd ei amcan—i ddarllen ac astudio Dr. Owen, John Howe, Isaac Barrow, Jeremy Taylor, ac yn benaf oll—Gair Duw ei hun. Na, nid felly, ddarllenydd, y mae ganddo amcan newydd bore ddydd Llun; y mae arno eisieu elwa yn y ffair trwy brynu a gwerthu anifeiliaid. Amcan masnachwr sydd ganddo heddyw; ac amcan pregethwr, ddoe. Ac y mae y ddau amcan yn lluddias eu gilydd; mae y masnachwr yn tagu y pregethwr, a'r pregethwr yn tagu y masnachwr; y mae ôl y fasnach ar y bregeth, ac ôl y bregeth ar y fasnach. Ac nid aiff y brawd yn bregethwr mawr, nac yn farsiaendr mawr. Y mae ei amcan heb fod yn un. Elfen bwysig, hefyd, mewn pregeth, ydyw unoliaeth amcan; y mae hyn, a'r diffyg o hono, yn un rheswm paham y clywir rhai pregethau yn *annysoddefol* faith, ac eraill yn *hyfryd* faith. Ond i ddychwelyd at y pwnc; y mae gan yr Ysgrythyrau un drychfeddwl, a hwn yn ddrychfeddwl mawr iawn—nid yn ddrychfeddwl sydd yn chwarae yn ysgafn ar arwyneb y meddwl,—ond yn un sydd yn treiddio i'w ddyfnderoedd, yn cyrhaedd o'r golwg i waelodion mwyaf cuddiedig a dirgelaidd y dyn oddimewn. Mae unoliaeth y Bibl yn gynnwysedig, nid yn ei allanolion, ond yn ei ysbryd a'i amcan, yn ei ddrychfeddwl. Mae yn debyg nad oes un llyfr, yn ei bethau amgylchiadol, yn creu y teimlad a gyfyd oddiar amrywiaeth a chymysgedd, yn fwy na Llyfr Duw; ac y mae yn ofynol treiddio trwy y wisg allanol tuag at gael gafael yn y gwir unoliaeth sydd ynddo. Y mae y ddwy iaith ardderchog y lles-arwyd ef ynddynt yn cael eu hysgaru gan agendor mor ddofn, nas gellir dychymygu am ei dyfnach a'i lletach. Nid cyffelybrwydd mewn ffurfiau ac arddulliau sydd yn cyfansoddi unoliaeth yr Ysgrythyrau, oblegid nis gallasant hwy fod yn fwy amrywiol; yn awr y maent yn gân, yna yn hanesiaeth, yna yn ymddyddan, weithiau yn llythyr cyfeillgar, brydiau eraill yn weledigaeth brophwydol. Nid oes braidd un ffurf o gyfansoddiad ag y mae dynion yn gwisgo eu syniadau ynddi, na welir ei chynllun a'i chyn-ddelw yma. Nid yw ei unoliaeth ychwaith yn cyfodi oddiar ei fod yn gynnyrch un oes, a'i amrywiol ranau, o herwydd hyn, wedi eu trwytho a'r un ysbryd ac ansawdd. Treigla dwy fil o flynyddoedd tra y mae yn cael ei gyfansoddi; ac y mae yn rhyfedd fod llyfr sydd yn cael ei gyfansoddi mewn cynifer o oesau, a chan bob oes ei phethau, ei nodweddau, ei dull o feddwl a gosod allan y meddwl hwnw priodol iddi ei hun, yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth yr oes flaenorol a'r ddilynol, ond yn llawer mwy oddiwrth yr oesoedd pellaf oddiwrthi,—y mae yn rhyfedd, meddwn, y dichon y fath lyfr fod mewn rhywbeth yr un, oddieithr ei fod yn *un* casgliad o bob peth. Nis gellir chwaith rhoddi cyfrif am ei unoliaeth oddiar fod ganddo un dosbarth o ddynion yn awdwy'r iddo. Nis gallasai fod yn gynnyrch dosbarth mwy gwahanol ac annhebyg i'w gilydd. Agorer y llyfr, a gellir dyweyd, Dyma fyfyrnodau y bardd breninol; tröer ei ddalenau, a gellir dyweyd, Dyma ysgrifeniadau y bugail anghoeth. Darllenwn yn awr feddyliau y brenin cyfoethocaf, y doethaf o feibion dynion—y dyn mwyaf mewn rhwysg, a mawredd, a gwybodaeth, ar y ddaear; yn y man, disgynwn ar feddyliau pysgodwyr,—“ysgubion y byd,”—dynion a adnabyddid fel rhai anllythyrenog. Fel hyn, y mae y llyfr Dwyfol heb fod yn un yn ei allan-

olion a'i amgylchiadau; ac oni buasai fod rhyw unoliaeth arall mawr yn perthyn iddo, ni fuasai yn cael ei ystyried ond yr amrywiaeth mwyaf anghysylltiedig, gan fod ei holl amgylchiadau a'i furfiau allanol yn tueddu i'w wneuthur yn *llawer*, ac nid yn *wn*.

Ymha le, gan hyny, y mae ei unoliaeth? Pa beth yw rhwymyn ei undeb? Gwelir hyn yn Ephesiaid i. 10. Y mae yn un pan edrychwn arno fel adroddiad yr hanes am y "crynhoäd ynghyd yn Nghrist Iesu yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear, ynddo Ef," am uniad y perthynasau cu a chysegredig a ddrylliwyd gan ddiafol a phechod, am adferiad y creäd i'w undeb cyntefig, am ddygiad y Cyntafanedig i'r byd, er mwyn "casglu ynghyd holl blant Duw y rhai a wasgarasid." Dyma ddrychfeddwl mawr yr Ysgrythyrau; ac nid yw yn ormod dyweyd mai dyma ei unig ddrychfeddwl. Y mae yr oll a ddywedir o ddechreu Genesis hyd ddiwedd y Dadguddiad yn talu gwarogaeth a theyrned iddo. Tra y mae llyfrau eraill yr honir dwyfoldeb ac ysbrydoliaeth iddynt yn colli eu hunain ac yn dyrysu eu darllenwyr, mewn damcaniaethau diddiwedd am y creäd, a dechreuad defnydd—yn rhoddi y damcanol yn lle yr ymarferol—mor annhraethol glir oddiwrth bob peth amhwrpasol a difudd o'r natur yma ydyw yr Ysgrythyrau! Nid hanes y byd elfenol ydyw llyfr Duw; ei ddrychfeddwl mawr ef ydyw "y nefoedd newydd a'r ddaear newydd," y rhai, gan faint eu gogoniant, a allant fforddio i ddynolryw anghofio y rhai cyntaf. Y mae un bennod o'r gyfrol drwchus yn llawn ddigon i fynegu am Dduw yn "creäu nefoedd a daear;" tra y rhoddir lliaws o bennodau i draethu am fab Terah, yr eilunaddolwr, am ei fod ef yn ddolen fawr yn y gadwen euraidd a defiad am nefoedd a daear, yn "ngoruchwyliaeth cyflawnnder yr amseroedd," i'w gwneyd drachefn yn un â'u gilydd "ynddo Ef"—yr had a addawyd i Abraham.

Dirmygid y Bibl gan Voltaire—teimlem y fynyd hon wrth ysgrifenu ei enw fod hyny yn ddarostyngiad ar ein hysgrifell—am ei fod yn rhoddi y nifer fwyaf o'i ddalenau i gofodi hanesion llwyth bychan o bobl, "yn meddiannu darn gul o diriogaeth fynyddig, prin yn lletach na Chymru, ac yn gadael yn ddisylw ymherodraethau galluog yr Aipht ac Assyria," a sylwai y gallasid yn rhesymol ddysgwyl oddiwrth lyfr sydd yn profesu myned yn ol at y dechreuad cyntaf, a bod yn feddiannol ar bob hanes credadwy er y dechreuad hwnw, ryw ychydig gofion, o leiaf, am yr ymherodraethau äng hyn, y rhai a brynasid yn rhad trwy adael allan neu dalfyru y buchedraethiadau sydd wedi eu hysgrifenu gyda'r fath fanylwech dianghenrhaid! A rhaid addef fod hyn yn deilwng o ystyriaeth, ac, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn beth dyeithriol. Dyna fywydau Abraham, Joseph, a Dafydd—personau unigol—yn llanw cymaint o le yn y gyfrol sanctaidd; ac wele ymherodraethau mawrion yn cyfodi ac yn syrthio braidd heb un gair am danynt. Gadewir hwy mewn tywyllwech hollol; nid yw yn wif gan y Bibl dafu un drem arnynt, os nad oes yn y cyfamser ganddynt a wnelant â'r llwyth bychan hwn; ac mor fuan ag y mae eu perthynas äg Israel yn peidio, gollyngir hwy eilwaith i ebargofiant, o'r hwn y cyfodasant megys am un fynyd. Sonir am ryfeloedd y pedwar brenin yn erbyn pump, am fod hyny yn dwyn Melchisedec, "yr hwn a wnaethpwyd yn gyffelyb i Fab Duw," ger bron. Sonir yn foreu am Pharoah, brenin yr Aipht, ond yn unig yn ei gysylltiad äg Abraham a Sarah.

Ond er y gallai hyn ymddangos yn ddyeithriol ar yr olwg gyntaf, wrth

ei ystyried, y mae yn ymddangos mor naturiol fel mai y gwrthwyneb a fuasai yn anhawdd rhoddi cyfrif am dano. Oblegid nid hanes y byd ydyw y Bibl, ond hanes "teyrnas Dduw;" "ac ewyllysiodd ef," medd ein hawdwr,—“ewyllysiodd Ef, yr hwn sydd yn wastad yn dewis ‘gwanbethau y byd, fel y diddymai y pethau cedyrn,’ ar fod i adferiad y ddyndoliaeth gael ei effeithio yn llinell y teulu a'r llwyth anenwog hwn; a phob un a sylweddolai i ryw raddau yr Adferwr i ddyfod, pob un yr oedd y ddolw hono o Dduw, yr hon oedd un diwrnod i gael ei dadguddio yn berffaith yn y Mab, yn ymddangos gydag eglurder mwy na chyffredin ynddo—yr oedd pob dyn fel hyn yn ddolen fwy yn hanes y byd na'r holl filiynau hyny ag y gwrthcdai yr Ysgrhythrau wneyd un sylw o honynt. Mynyddoedd Israel, y gongl fechan hono o'r byd, a ddirmygwyd mor fynych, oedd amddiffynfa gobaith y byd—yr aelwyd ar ba un y cedwid y gwreigion hyny yn fyw ag oeddynt rywbryd i roi y byd ar dân. Yno yr oedd y gwrthweithiad mawr yn erbyn llygredigaeth y byd yn ymbarotöi; ac fel na luddid ni wrth olrhain cwrs aфон gan y siglennydd, y corsydd, a'r pyllau, ar bob llaw iddi, ac nad ystyriem *hwynt* yn rhan o'r aфон ar gyfrif eu hëangder; ond cyrifem mai yr aфон yw hono ag y byddai llifad a symudiad ymlaen ynddi, er na fyddai, fe allai, ond cul a distadl; felly y mae yma. Nid oedd yr Aipht, Assyria, a Babilon yn amgen na'r corsydd a'r pyllau drowedig ar bob tu i'r aфон; y person ag y bendithid holl dylwythau y ddaear yn ei häd, hwn a'i deulu oedd y firwd fechan ag yr oedd bywyd a symudiad y byd rhagddo i'w hadnabod ynddi.”*

A pha beth, fel y sylwa Dr. Trench, ydyw hanesiaeth ond ymdaith dyn-olryw ymlaen at ryw nôd? Ac nid oes gan wlad hanes gwerth ei gofnodi, os nad oes yn nghalon cymdeithas yn y wlad hono ryw gynhyrfaeau, ryw awyddfryd, ryw ddyhead yn cynnyddu mewn angherddoldeb, ac yn sibrd, —Ymlaen, ymlaen. Nid oes, fel y sylwyd o'r blaen, gan ddyn yn unigol hanes, os nad oes ganddo nôd, a'i ddyhewyd yn cynnyddu yn barhäus wrth ymestyn ato; gwagedd, ië, gorgwagedd ydyw ei fywyd; mae yn farw, er ei fod yn fyw. A goddefer i ni, wrth fyned heibio, ddyweyd mai dyma un arwydd er daioni ar Fethodistiaeth Cymru; y mae ynddi y blynyddoedd olaf hyn ymestyniad ymlaen. Y mae yn cael gafael ar ddrychfeddylliau na freuddwydiwyd am danynt ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Beth yw y siarad, yr ysgrifenu, a'r teimlo parhäus a dwys y dyddiau hyn o barth i ar-olygiaeth yr eglwysi, gwellhäd y weinidogaeth, gwneyd cyfiawnder (nid elusen) ä'r rhai sydd yn ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth; rhoddi addysg uchel i'r pregethwyr ieuane, ac yn benaf oll—dyma bwnc Methodistiaeth y flwyddyn 1857 a'r blynyddoedd nesaf—y gromfa tuag at sylfaenu eu Hathrofa arni, yr hon sydd eisoes wedi bod yn achlysur i ddangos mai nid cybyddion pawb, ac mai y dosbarth goreu a mwyaf haelionus o'n cenedl, ac o Fethodistiaid ein cenedl, ydyw y dosbarth ag y gwnaed lleiaf o gyfiawnder hyd yn hyn ä hwynt. Gwyr pawb, neu o leiaf, dylent wybod, mai at y pregethwyr yr ydym yn cyfeirio. Fe allai y meddylia ein darllenwyr ein bod yn crwydro oddiwrth ein testun. Fe allai ein bod i ryw fesur; ond goddefer i ni ddyweyd rhag i neb ddysgwyl rhyw fanylwch a threfn oddi-wrthym, ein bod wedi penderfynu rhoddi rhyddid am y waith hon i'n drychfeddylliau; a rhoddi lle i'r cyntaf a amneidio arnom am dderbyniad.

* Tu dal. 23.

Nid oedd genym un amcan wrth ddechreu yr ysgrif rhoddi yr enw "Methodistiaid," ac "Athrofa" ar lawr; ond gan eu bod wedi dyfod mor naturiol i'n meddwl, nid oedd genym un gwrthwynebiad i'w canmawl, gan ein bod yn dra hoff o honnynt, ac yn teimlo ein hunain dan rwymau mawrion iddynt;—ond, ymlusgwn yn araf at y pwnc;—dyna oeddym yn ei feddwl—fod yr ymgynhyrfaiau, yr awyddfryd, yr ymroddiad, yr ymestyniad ymlaen, yn y Cyfundeb hwn, yn arwydd er daioni i Fethodistiaeth yr oes nesaf, a'r oes hon, hefyd, wrth reswm; yr hyn sydd yn peri i ni fod yn sicr y bydd ganddi ei hanes i'w gyhoeddi ymhen blynnydoedd eto, ac y gall na fydd y bedwaredd gyfrol o "Fethodistiaeth Cymru," pa bryd bynag y daw allan—fe allai yn 1900—yn llai dyddorol na'r tair a ddaethant allan yn ddiweddar, y rhai, o bosibl, a fyddynt yn y flwyddyn ddywededig, yn yr unfed argraffiad ar ddeg. Felly, dyna sydd yn rhoddi i genedl ei hanes, yn sicrhau parhâd cyfundeb o Gristinogion, yn codi dyn i raddfa person, yn gwneyd ei fywyd yn rhywbeth gwirioneddol a sylweddol, ydyw fod ganddynt nôd o'u blaen, a bod ynddynt ymestyniad parhâus, ac awyddfryd cynnyddol, am ei gyrhaedd. Nid oedd hyn yn feddiannol, ond i raddau bychain, gau un genedl yn y cynoesoedd, ond gan hâd Abraham. Hwyt-hwy oeddynt yn ymwybodol yn dysgwyl yn bryderus am y Messiah; gan hyny, nid yw yn rhyfedd fod y Bibl yn ddisylw o ymherodraethau mwyaf y byd, ac yn talu ei holl sylw i'r genedl hon.

Y mae y Dadguddiad Dwyfol, medd ein hawdwr, fel cylch, yr hwn y mae ei ddiwedd yn dychwelyd at ei ddechreuad. Y mae y nefoedd, yr hon a ddiiflanasai o berthynas â'r ddaear, er amser y drydedd bennod o Genesis, yn ail ymddangos drachefn yn mhennodau diweddaf Llyfr y Dadguddiad. Y mae pren y brwyd yn sefyll eilwaith ar fin "afon dwfr y bywyd," ac nid oes melldith mwy. Ac y mae y pethau a gollwyd, nid yn unig wedi eu hadennill, ond wedi eu hadennill mewn ffurf mwy gogoneddus. Nid paradwys ydyw y lle dedwydd mwyach, ond y Jerusalem newydd; nid yr ardd mwyach, ond yn awr, "dinas Duw." Ac y mae y newidiad yma yn llawn o ystyr. Nid yr ardd, yr hon sydd yn tyfu yn rhydd a rhywydd o honi ei hun, fel y buasai dedwyddwch dyn yn ei sefyllfa gyntefig o ddiniweidrwydd; ond *dinas*, yn fwy costfawr, yn fwy ardderchog, ond ar yr un pryd yn waith llafur, a lludded, a chwys, a phoen, yn breswylfa mwy sicr a pharhâus—yr holl feini wedi ei naddu i'w lleoedd priodol.

Y mae yr unoliaeth yma sydd yn yr Ysgrythyrau yn atebiad digonol i lawer o wrthdadaelion a ddygir yn eu herbyn. Yr ydym yn barnu fod yr ymgais a wneir i brofi fod awduriaeth llyfrau Moses yn llawer diweddarach nag a dybir yn gyffredin yn cyfodi oddiar ddiifyg gallu, neu ddiifyg amynedd, a pharch i'r Ysgrythyrau, i olrhain yr unoliaeth hwn sydd yn rhedeg trwyddo. Mae Llyfr Genesis, medd rhai o'n beirniaid diweddar, wedi ei gyfansoddi, nid wrth reswm gan Moses, ond gan liaws, ac wedi ei gasglu a'i gyfansoddi mewn cyfnod diweddar mewn cymhariaeth, o ddarnau o eiddo amryw awdwyr. Oblegid, medd y darganfyddwyr hyn, nis gall mai yr un dyn a ysgrifennodd y tair pennod cyntaf o Genesis; o herwydd yn un llefarir am y Crëwr dan yr enw "Arglwydd," yn y llall, dan yr enw "yr Arglwydd Dduw," &c. Pam, meddynt, y buasai yr un awdwr yn gwneyd y newidiad yna? Nis gallasai—atebant; gan hyny, casglasant mai un a ysgrifennodd y naill, ac mai arall a ysgrifennodd y llall. A dyma y *document* neu y *fragment hypothesis* sydd wedi gwneyd cymaint o dwrf ac ymddan-

gosiad yn y byd beirniadol y blynyddoedd diweddar, nes peri i rai diniwed ofni ac arswydo rhag i dystiolaethau Moses, at yr hwn yr apeliai Mab Duw ei hunan gyda'r fath barch, gael eu gwneyd yn ddim. Ond y mae Haver-nick, Macdonald, ac amryw eraill, wedi dangos nad oedd Iesu Grist a'r Apostolion yn camsynio wrth gyfeirio at Moses; ac wedi dangos hefyd, pe buasai y beirniad hyn yn cloddio yn fwy i'r dwfn nes cael gafael yn unoliaeth yr Ysgrythyrau, y buasent yn dyfod o hyd i'r rhesymau paham y mae enwau y Mawredd yn cael ei newid yn y pennodau cyntaf o Genesis. Y mae y syniad am y Bibl fel yn cynnwys un drychfeddwl mawr yn gwneyd i ffwrdd hefyd âg amryw o wrthddadleuon y Pabyddion yn erbyn yr Ysgrythyrau fel "unig sail ffydd ac unig reol ymarweddiad." Maent hwy yn dra hoff o ddwyn ymlaen yr elfen ddamweiniol oedd yn nghyfansoddiad, a hyd yn nod yn hanfodiad yr Ysgrythyrau,—fod genym un o'r Efengylau wedi ei hysgrifenu ar gais un dyn; un arall am fod heresiauw wedi cyfodi, ac eisieu eu gwrthsefyll: epistolau hefyd yn ddyledus am eu hawduriaeth i ddygwyyddiadau yr un mor ddamweiniol,—un wedi ei ysgrifenu am fod anhrefn wedi cyfodi yn Corinth; un arall am fod apostol, ar ol addaw ymweled â dinas, wedi ei luddio gan rywbeth annysgwyladwy; un arall, i erfyn am i gaethwas gael ail dderbyniad gan ei feistr. A'r casgliad a wneir oddiwrth hyn ydyw fod yn annhebygol fod llyfr, a ffurfiwyd fel hyn, oddi ar ddamweiniau mor ddbiwys gyffredinol, yn cynnwys arweiniad digonol i fywyd, a sail anffaeledig i ffydd; ac felly fod yn anghenrheidiol i'r eglwys wrth ryw addysg ychwanegol ac addfetach.

"Ond pan unwaith," fel y dywed ein hawdwr, "yr eglurir i ni unoliaeth mewnoel Gair Duw—pan ddysga ein llygaid adnabod, nid yn unig arwyddion y ddoethineb uchaf, ond hefyd berthynas pob rhan â'r cyfan—pan adnabyddwn yr Ysgrythyrau, nid fel wedi eu casglu oddiallan, ond wedi eu dadblygu o fewn mewn ufudd-dod i ddeddf fewnol,—yna teimlwn, pa mor ddamweiniol bynag yr ymddengys amgylchiadau cyfansoddiad y Bibl, eto nad yw y damweiniau hyn a berthynent i'w gynnyrchiad yn amgen na'r damweiniau sydd yn cymeryd lle yn wastad mewn Rhagluniaeth."

Un o elfenau gwerthfawrocaf yr Ysgrythyrau, gan hyny, ydyw ei unoliaeth. Ac nis gallasai y meddwl ystyriol a myfyrgar eu derbyn fel dadguddiad dwyfol pe buasai yn amddifad o'r elfen hon; ac y mae ei un drychfeddwl yn ddrychfeddwl mawr a gogoneddus—yn deilwng o'r Meddwl Anfeidrol yr hōna y Bibl dadogaeth y drychfeddwl iddo; a pho fwyaf yr ymglydnabyddo y meddwl â'r Llyfr, mwyaf y cenydd y drychfeddwl hwn yn rhedeg trwyddo; ac wrth ymglydnabyddu â drychfeddwl mawr yr Ysgrythyrau, a phrofi eu dylanwad fel y maent yn *un*, rhydd hyny unoliaeth i'w fywyd yntau; wrth sylweddoli unoliaeth y Bibl, mae y galon ranedig yn cael ei huno—mae y bywyd yn cael amcan newydd—mae ei ddrychfeddwl mawr yn cael ei blanu yn ei enaid, a hwnw fel y tynfaen yn sugno ato ei hun holl ranau gwahanedig y dyn oddimewn.

Elfen bwysig arall yn yr Ysgrythyrau ydyw eu hamrywiaeth. Ceisiasom yn awr ddangos fod y *llawer* yn *un*; a cheisiwn yn ganlynol, trwy gymhorth ein hawdwr, ddangos fod yr *un* yn *llawer*, neu yn amrywiol. A diamheu fod amrywiaeth mor anghenrheidiol i fod yn elfen yn Ngair Duw ag unoliaeth; a galledd dysgwyl amrywiaeth cyfatebol yn ei air i'r amrywiaeth diderfyn sydd yn ei weithredoedd. Dylai llyfr sydd yn amcanu llesinio y byd gynnwys darpariaethau, nid i rai, ond i bawb, a chefnogi

ymhob dyn ddadblygiad yr holl alluoedd a'r tueddiadau a blunwyd ynddo gan Awdwr Natur. Os rhaid sancteiddio yr holl ddyd—ei holl alluoedd, ei deimladau, a'i dueddiadau—mae yn ofynol fod y gair, trwy yr hwn y sancteiddir ef, yn feddiannol i'r graddau uchaf ar yr ansoddau cymhwys tuag at hyny. Ac y mae gwahaniaethau ac amrywiaeth yr Ysgrhythrau yn cyfateb i'r amrywiaeth sydd yn nghyfansoddiadau meddyliol a moesol dnyion. Mae y Bibl yn hulo bwrdd, wrth yr hwn y gall pawb "fwyta a'u digoni."

Adnabyddir yr elfen hon yn rhwydd yn y rhanau hyny o'r Ysgrhythr sydd yn mynegu ei ddrychfeddwl mawr yn fwyaf eglur. Pahan y cynnysgaethwyd yr eglwys, yn y "dyddiau diweddf," â phedwar bywgraffiad o'r Iachawdwr? Oni fuasai un yn ddiagon? A oedd y cofiant am dano gan Matthew yn amherffaith, pan oedd eisieu un arall gan Marc? A oedd Matthew a Marc yn amherffaith, pan y cymerai Luc arno y gorchwyl o ysgrifenu "am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu?" A pha anghen oedd am y bedwerydd gan y dysgybl anwyl? Gallwn ateb, y trefnwyd hyn gan Ragluniaeth ddoeth, fel y gallai pawb "fwyta a'u digoni." Nid yw eu hamrywiaeth yn cyfodi oddiar fod eu hunoliaeth wedi cael ei aberthu; yn hytrach, yr oedd yr eglwys, yn y canrifoedd cyntaf, yn adnabod eu hunoliaeth i raddau mor bell, fel y galwai y pedwar ynghyd yr un "Efengyl;" ac ni phetrusai Origen eu galw yr "Efengyl bedairochrog;" "y Pedair Efengyl," medd Awstin, "neu, yn hytrach, Pedwar llyfr yr un Efengyl." Eto, er yn gwbl un yn eu hamcan mawr, amrywai yr Efengylwyr yn eu his-amcanion; neu, yn hytrach, amrywient yn eu dulliau o gyrhaedd yr un nôd; ceisiai pob un o honynt osod allan ogoniant yr Iesu mewn rhyw wedd wahanol i'r lleill. Ac y mae y dull o deitlo yr Efengylau, medd Dr. Trench, yn dra hapus,—yr Efengyl yn ol Matthew, yr Efengyl yn ol Marc, &c., hyny yw, ysgrifennai pob un yr efengyl fel yr ymddangosai iddo; edrychai arni o'i safte ei hun, a thynai ddarlun o honi. Yr oedd y person yr ysgrifent am dano yn rhy fawr i'r naill na'r llall edrych arno yn holl weddnodau ei gymeriad—y drychau yn rhy fychain i adlewyrchu ei holl ogoniant. Yr oeddynt eu pedwar, hefyd, yn ddyinion o dymherau, a thueddiadau, a theithi gwahanol; ac yr oedd ganddynt wahanol ddoesbeirith o ddyinion o flaen eu meddwl pan gyfansoddasant eu Hefengylau. Fel hyn, ysgrifenyd yr Efengyl yn ol Matthew gyda golwg ar yr Israelid crefyddol, yr hwn a ddysgwyliai am "ddyddan-wch yr Israel," am y Brenin, Mab Abraham, a Mab Dafydd—"yr hwn a ddymunai gael yn y Testament Newydd gyflawniad o brophwydoliaethau yr Hen, ac mewn Crisionogaeth, y blodeuyn perffaith, yn tyfu oddiar wreiddyn Iuddewaeth." Ac a ellir dychymygu fod yn bosibl ysgrifenu hanes am yr Iesu i gyfarfod y gofynion a'r dymuniadau hyn yn fwy perffaith?

Y mae yr ail Efengyl yn gyfaddas mewn modd arbenig i gyfarfod y byd Rhufeinig—i'w rhoddi yn nwyllaw dnyion a weithient, tra yr oedd eraill yn siarad—y rhai a ofynant yn gyntaf ar ol clywed am yr Iesu, pa beth a wnaeth? pa weithredoedd mawrion a gyflawnodd? A hanes *gwaith*, fel y dywed Dr. Trench, ydyw yr efengyl hon. Y mae y feraf o'r pedair; ni chynnwysa ond ychydig mewn cymhariaeth o eiriau yr Athraw, a braidd yr un o'i bregethau meithion. Ei weithredoedd—nerth dwyfol ei ymddangosiad—y dyn Crist Iesu fel yr oedd yn Allu Duw, ydyw y wedd y mae Marc yn ei roddi ar ei Efengyl.

Y mae Luc, drachefn, yn cymeryd golwg arall ar y gwrthdrych mawr;—

nid yn gymaint, gyda Matthew, yn edrych ar Iesu Grist fel "gweinidog yr enwaediad, a chyflawnydd yr addewidion a wnaed i'r tadau," na chyda Marc fel "y Llew o lwyth Judah," yn myned ymlaen o fuddugoliaeth i fuddugoliaeth; ond fel y Gwaredwr eneiniedig, Iachawdwr holl ddynolryw. Desgrifia ef fel Meddyg caruaid pawb a ddeuent ato; ymhyfryda wrth arddangos ei ymstyngiad tuag at bawb yn ddiwahaniaeth—pubcanod a phechaduriaid, Samariaid a Chenedloedd, gwagedd a phlant; portreiaida yr "iachawdwriaeth gyffredinol" sydd ynddo; llama dros y canolfur o wahaniaeth rhwng cenedl a chenedl. "Sonia am y deg dysgybl a thriugain i'r byd mewn cyferbyniad i'r deuddeg gan Matthew i Israel." Crybwyllia am y Samaritan, yr hwn yn unig a arddangosodd diriondeb tuag at y truan; a'i eiddo ef yn unig ydyw dammeg y Mab Afradlawn, yr hon a ddynodwyd gyda phriodoldeb mawr, "Efengyl mewn Efengyl." Y mae hynodion ac amrywiaeth y tair efengyl a elwir yn gyffredin "*synoptical*," wedi eu dwyn i oleuni newydd gan Dr. Da Costa, Iuddew Cristionogol—gwaith yr hwn sydd yn teilyngu astudiaeth ddyfalaf pob efrydydd Ysgrhythrol. Dywed ef mai y wedd y mae Matthew yn gymyred ydyw "Iesu Grist, Mab Abraham a Dafydd; Marc,—“Iesu Grist, Mab y dyn; dwg ei ddynoliaeth i arbenigrwydd;—Luc a Ioan,—Iesu Grist, Mab Duw.

Ond ar ol cael y tair Efengyl, ac er fod pob un o'r tair yn berffaith yn ei chynllun a'i chyflawniad, yn cyrhaedd yr amcan neillduol oedd o flaen meddwl yr ysgrifenydd; eto yr oedd un dosbarth o feddylwyr ymhlith Iuddewon a Chenhedloedd mewn anghen am rywbeth chwangel; ac nid yw yn ormod dyweyd fod nodweddau yn perthyn i'r "dyn Crist Iesu," ag yr oedd y tri Efengylwr cyntaf heb yfed yn ddigon dwfn o'i ysbryd i'w hadnabod yn eglur, ac i'w harddangos yn effeithiol. Yr oedd eisieu efengyl, yn yr hon y cai y tuediadau damcanol uchaf, y rhai a roddwyd i ddynion, nid i'w darostwng neu eu caethiwo, foddhâd digonol,—efengyl yn yr hon y byddai dyfroedd digon dyfnion, fel yr arferai rhai o dadau yr eglwys lesaru; i elephantiaid nofio ynddynt—efengyl a ymgysylltai â meddwl athronaidd Iuddew a Groegwr, a gywirai yr hyn oedd ynddo yn gyfeiliornus, a gyflawnai yr hyn oedd ddiffygiol, ac a ategai yr hyn oedd wir. Ac yn y dysgybl anwyl, "yr hwn a bwysai ar fynwes yr Iesu," yr hwn a adnabyddid yn yr eglwys gyntefig dan yr arwyddlun priodol o "eryr yn ehedeg yn uchel," y cafwyd un, oedd yn naturiol, a thrwy gyfathrach agosach na neb arall â'r Iesu, yn gymhwys i fod yn awdwr y bedwaredd Efengyl. Ac nis gall y darlennydd myfyrgar lai na gweled a theimlo fod rhyw elfenau yn yr Efengyl hon na pherthynant i un Efengyl arall, nac i un gyfran o'r Gair Dwyfol. Mor syml, ac eto mor ddwfn, ydyw ei eiriau; mor hawdd, ac eto, mor anhawdd ydyw eu deall! Y mae yn Efengyl Ioan, fel y sylwa Da Costa, yr un modd ag yn yr Efengylau eraill, adroddiadau o ffeithiau wedi eu cymeryd allan o fywyd, dyoddefaint, ac adgyfodiad Iesu Grist. Ond yr ydym yn canfod ynddynt rywbeth mwy na slymledd plentynnaidd (*childlike*) a diaddurn Matthew; rywbeth mwy na sydynrwydd a phrydforthwch adroddiad Marc; rywbeth mwy nag arddull hanesyddol Luc, yr hon sydd yn llifeirio yn esmwyth a thawel. Gyda'r slymledd, y prydforthwch, a'r esmwythder, a nodweddaid y lleill, y mae yma dôn fwy dyrchafedig ac arddunol—"tôn wedi ei benthycio oddiwrt h gosafdeiliau yr hynafiaeth cysegredig pellaf, ac o ddyfnderoedd cuddiedig y dduwinyddiaeth ddyfnaf,"—tôn yn dwyn i'r cof, weithiau, yr adroddiad am y cread gan Moses,

weithiau ymadroddion doeth Solomon, ac weithiau dduwinyddiaeth ddiweddarach Athronwyr Alexandria. Tra y mae y tri chyntaf yn unig yn cysylltu adroddiadau ynghyd, heb unrhyw sylw nac eglurhâd, y mae Ioan yn aros, yn sefyll uwch ben ei adroddiadau, ac yn awr yn rhoddi rheswm, yn yn sefydlu sylw y darlennydd ar y ffaith, yna yn tynu casgliadau neu yn gwneyd cymhwysiad. Yr oedd ef, mae yn ddiammheu, yn gydnabyddus â chynnyrchion y tri eraill, ac eiddo Paul a Phedr, a gellir dyweyd ei fod yn uno eu holl ragoriaethau. "Y mae ar unwaith yn brophwydol, yn hanesyddol, yn athrawiaethol, ac yn ymarferol." Cofiai, a deallai ef eiriau mwyaf dyfnion y Gair y llefara am dano. Y mae ei ddarlun ef o'r "Gair a wnaethpwyd yn gnawd," mae yn rhaid addef, yn dwyn y Person Mawr ger ein bron mewn agweddau na fuasem yn gwybod am danynt ond i raddau bychan oni bae am ei Efengyl ef. Y mae y gwahaniaeth rhwng yr Efengylau mor fawr fel na phetrusodd un o ysgrifenywyr boreuaf yr eglwys alw y tair cyntaf wrth enw nas gallwn roddi gwell cyfieithiad arno nag "Efengylau corfforol," ac eiddo Ioan, "Efengyl ysbrydol." Ni fwr-iadai, trwy y gwahaniaethiad hwn, dafu y diraddiad lleiaf ar y tair cyntaf; ond yr hyn a wna'i yn unig oedd cyflêu y syniad sydd yn amlwg i bob efrydydd manwl arnynt, fod y rhai cyntaf yn portreâu, yn benaf, fywyd allanol yr Iesu, a'r diweddaf ei fywyd mewnol—dyfnderau ei fôd a'i eiriau, y rhai y rhoddwyd i'r dysgybl anwyl yn fwy na phawb o'r dysgyblion eu deall, a phlymio iddynt.

Nid ydym heb wybod fod hyn—yr hyn sydd, mewn gwirionedd, yn rhagoriaeth, ac yn elfen anghenrheidiol yn yr Efengylau—yn cael ei ddwyn ymlaen gan rai yn wrthddadl yn eu herbyn. Dywedant wrthym, pa mor annhebyg ydyw Crist y bedwaredd Efengyl i Crist y tair eraill; a thynant y casgliad, fod yn rhaid fod cywirdeb hanesyddol yn cael ei aberthu yn y naill neu y lleill; ac nas gall y ddau ddarlun fod yn ffyddlawn i'r Gwrth-ddrych mawr. I hyn atebir; tra yr addefir fod amrywiaeth, eto nad oes dim yn y naill yn wrthwyneb i'r llall. Yr un yw y Gwrth-ddrych, er nad oedd yr arlunwyr yn edrych arno o'r un safle. Dywedir mewn atebiad i'r wrthddadl, fod pethau cyfatebol mewn hanesiaeth cyffredin. Y mae Socrates fel y desgrifir ef gan Plato, ac fel y gwneir gan Xenophon, yn dra gwahanol. Eto ni ddywed yr un ysgolaig, os ydyw darluniad y naill yn gywir, fod eiddo y llall yn anghywir. Na; er fod y ddau ddarlun yn wahanol, eto y mae y ddau yn ffyddlawn. Gosododd pob un i lawr yr elfenau hyny yn nghymeriad ei athraw ag y gallai ef eu gwerthfawrogi fwyaf—y rhai oeddynt fwyaf cydweddol â'i athrylith a'i dueddiadau ei hun. Sylwai Xenophon arno fel "dyn o synwyr cyffredin cryf—yn feddiannol ar y callineb bydol ag yr oedd ef ei hun yn ymestyn ato;" ond yr athronydd dwfn a myfyriol—addysgydd y Da a'r Gwir—oedd Plato yn weled yn ei athraw. Ac os oedd y dysgyblion hyn yn canfod rhyw weddnodau gwahanol yn eu hathraw hwy, pa faint mwy y gwelai dysgyblion yr Iesu hyny ynddo Ef? "Nid oedd," medd Trench, "un drych yn ddigon mawr i dderbyn holl belydrau Haul Cyfiawnder;" ond o dan arweiniad yr Ysbryd, rhoddant oll bortreiaid o'u Hathraw fel yr ymddangosai iddynt, yn ol yr adnabyddiaeth hono a feddent o hono.

Mae y Bibl yn llyfr i bawb; cyfarfydda â phob amrywiaeth mewn galluoedd, tueddiadau, anghenion, a sefyllfaoedd. Pa mor gyfaddas, er esiampl, ydyw Llyfr y Salmu i bob math o ddynt? Pa gyflwr y gall fyned iddo,

pa deimladau a all lanw ei fynwes, nad oes yma ymadroddion o'r cymhwysder uchaf fel cyfrwng iddo dywallt y teimladau hyny ger bron Duw? Y mae Jeremy Taylor yn ei Ragdraith "*to the Psalter of David*," wrth lefaru am y dull yr amddifadwyd ef o'i lyfrau a'i hamdden, gan gynhyrfiadau y Rhyfeloedd Cartrefol, yn adrodd y cysuron a gaffai yn y llyfr hwn:— "Yn wir, pan y daethum i sylwi yn fanylach ar y Salmu, gyda'r amcan o chwilio am ryw leshâd ynddynt, canfyddais gynifer o addewidion gwerthfawr, y fath amrywiaeth o fynegiadau am drugaredd Duw, gynifer o hymnau cysurlawn, adgoffâd am gynifer o waredigaethau o beryglon angeu ac oddiwrth ddynion, cynifer o wyrthiau trugaredd ac iachawdwriaeth, fel y dechreuais fod mor hyderus â chredu nas gallai un gorthrymder ddygwyydd byth a fyddai yn ddigon i dreulio y fath ystôr o gysuron ag a orweddai yn y Salmu; y mae dywediad Paul yn cael ei wireddu yma, 'Lle yr amlhäodd pechod' a thrueni, 'rhagor yr amlhäodd gras;' ac fel yr ydym yn credu am ddyoddefaint Crist, ei fod mor fawr ag i fod yn ddigonol dros fil o fydoedd; felly hefyd y mae cysuron y Salmu yn fwy na digon i gyflenwi eisieu meibion dynion."

Mae gan ein hawdwr rai sylwadau tra phriodol a thlyision ar ddadblygiad yr Ysgrythyrau gyda golwg ar yr oesoedd sydd wedi myned heibio. Mae yn ymddangos i ni fod ei olygiadau ef ar hyn yn dra gwahanol i syniadau y lliaws y dyddiau hyn ar y mater. Mae golygiadau y cyffredin ar "ddadblygiad" (*development*), y rhai a goleddir i ryw raddau gan rai gweindogion perthynol i'r un eglwys â Dr. Trench, yn myned ymhell, dybygern, ar gyfeiliorn, ac yn dra anghydweddol â pherffeithrwydd ac anffaeledigaeth y Gyfrol Ddwylol. Dywedant hwy yn ddigon diamwys fod yr "ymwybyddiaeth Cristionogol"—y ddirnadaeth am wirioneddau yr esengyl, yn llawer mwy addfed a chlir yn bresennol nag oedd yn yr oes apostolaidd; fod syniadau y cristion goleuedig a meddylgar yn yr oes hon yn fwy felly nag oedd syniadau hyd yn nod rhai o'r apostolion, ar un adeg, yn enwedig, o'u bywyd—ie, ar un adeg o'u bywyd apostolaidd, pan oeddynt wedi derbyn yr Ysbryd Glân, a'u gwisgo â nerth o'u uchelder! Dyma olygiadau Jowett, gŵr mewn gradd uchel yn Rhydychain. Ceir yn ei esboniad ef ar rai o epistolau Paul ymadroddion i'r perwyl hwn,—Fod golygiadau yr Apostol mewn un adeg o'i fywyd, pan yn cyfansoddi rhai o'i lythyrau, yn dra chymysglyd ac anaddfed; a'i fod, mewn adeg ddiweddarach, pan oedd ei syniadau wedi ymberffeithio ac addfedu, wedi ysgrifenu epistolau eraill, i gymedroli ei syniadau boreuaf, ac i ddilëu yr argraff gyfeiliornus a wnaed o anghenrheidrwydd ar feddyliaid y darllenwyr. Nid ydym ni wedi gweled fod Dr. Trench yn gogwyddo dim tuag at yr eithafoedd peryglus hyn; na, y mae parch i'r Ysgrythyrau, a mynegiadau diamwys am eu perffeithrwydd fel oraclau Dwyfol, a'u cyfaddasrwydd i gyfarfod holl ffurfiau y meddwl ymhob oes a gwlad, i'w gweled yn wastadol ar ddalenau y darlithiau hyn; ac yn fwy na mynegiadau pendant, dyma egwyddor ac ysbryd y darlithiau oll. Defnyddia ef y gair "dadblygiad" mewn ystyr hoilol wahanol; cymhwysa ef, nid at ysgrifenyddwyr y Bibl, ond at ei ddarllenwyr. Y mae y llyfr yn berffaith; mae yn anmhosibl ei wellhâu; dirnadaeth yr eglwys yn ei gynnywsiad sydd yn anmberffaith; y meddwl sydd yn ymwneyd â'r Ysgrythyr ydyw gwrthddrych y dadblygiad hwn. Dengys ein hawdwr "pa fodd y mae hanes yr Eglwys, yr anhawserau, y tralodau, yr ymladdfeydd, a'r temtasiynau y mae wedi bod ynddynt, wedi esbonio iddi

ymadroddion Duw, dwyn allan eu hystyr, a pheri iddi ddarganfod ynddynt" bethau na fuasent yn bosibl i'w gweled gyda'r fath eglurder, oni buasai am y cyfryw amgylchiadau ag a'i cyfarfyddodd. Mae yr Ysgrythyrau wedi bod i'r eglwys fel eu dillad i'r Israeliaid, y rhai ni heneiddient yn ystod eu hymdaith yn yr anialwch, i.e., yn ol traddodiad y Rabbiniaid, a ymëangent gyda'u cyrff, gan fod yn gymhwys i'r dyn fel yr oeddynt i'r plentyn. Er fod hyn yn ammheus am danynt hwy, y mae yn wirionedd am yr Ysgrythyrau. Nêu fel yr olygfa brydferth, yr hon y mae y naill wrthddrych ar ol y llall yn dyfod i olwg yr edrychydd, fel y mae haul y bore yn ymddyrchafu yn y ffurfafen, ac yn tafu ei oleuni ar faesydd newyddion yn barhâus—nes o'r diwedd y mae yr holl olygfa yn ymddangos yn ei hamrywiaeth a'i theleidion o'i faen.

Cyffelyb i hyn ydyw y gwir syniad am ddadblygiad yr Ysgrythyaau, yr hon a goleddwyd gan brif ysgrifenwyr yr eglwys ymhob oes. Mae y wir eglwys, trwy gael eu harwain i bob gwirionedd gan yr Ysbryd Glân, yn cael allan yn barhâus y trysorau sydd wedi eu cuddio yn maes yr Ysgrythyaau. Mae yn feddiannol ymhob oes ar yr hyn sydd ganddi yn awr; nid yw yn derbyn trysorau newyddion; a pha anghen sydd arni am ddadguddiadau allanol newyddion, gan fod y trysorau sydd ganddi eisoes yn anhysbyddadwy, ac yn "arian cymeradwy" ymhob gwlad a chenedlaeth? Ar yr un pryd, er nad oes dim yn cael ei chwanegu at ei chynnysgaeth, y mae yn barhâus yn dyfod yn fwy ymwybodol o'i chyfoeth. Mae y gynnysgaeth yn aros bob amser yr un; ond y mae mor fawr, mor anhysbyddadwy, fel y cymer oesoedd iddi i gyfrif y tlysau a dderbyniodd gan y priodfab. Cafodd Abraham wlad yr addewid mewn addewid cyn cychwyn o Ur y Caldeaid, ond yr oedd eto heb "rodio trwy y wlad, ar ei hyd, ac ar ei lled"—yr oedd yr addewid ganddo, ond yn araf a graddol y daeth i sylweddoli ei chynnwysiad. Felly y mae yr eglwys, trwy ei thrallodau, ei blinderau, trwy ymosodiadau "ysbryd cyfeiliorni," trwy gymharu athrawiaeth âg athrawiaeth, ysgrythyr âg ysgrythyr, wedi teithio ar hyd, a mesur tiriogaethau èang o'r etifeddiaeth fawr a roddwyd iddi yn y Dadguddiad Dwyfol. Yr oedd yr eglwys yn y canrifoedd cyntaf, nid yn unig yn meddu syniadau cywir—y mae hyn yn anheggorol ymhob oes i'r eglwys, a phob aelod gwirioneddol ynddi, gyda golwg ar hanfodion Cristionogaeth—ond syniadau èang a dyfnion am Berson Mab Duw, am berthynas a phriodoliaethau y Duwdod a'i ddyndod yn ei Berson—am yr ewyllys ddwyfol a'r ewyllys ddynol. Meddiannai yr holl wirionedd, neu o leiaf, yr holl bethau hanfodol, ar y pwnc pwysfawr; sylweddolai y gwirionedd am y Person Mawr gydag eglurder mawr; ac yn nghanol ymosodiadau gelynyon yr athrawiaeth, rhodiai yn ngoleuni yr athrawiaeth, a dalai gymundeb agos, nid yn unig â'r gwirioneddau sydd yn derbyn eu bywyd a'u nerth oddiw'rtho Ef, ond â'i Berson Ef ei hun; a thrwy hyn, oddiar rywbeth tebycach i reddf, oddiar olygiant dwfn a naturiol, yn hytrach nag oddiar gyfresfaith o resymau, gwrthodai bob peth gwrthwyneb ac amherthynasol i'r gwirionedd am Berson y Cyfryngwr.

Yr oedd y Diwygiad Protestanaidd hefyd yn gyfnod pwysig yn hanes athrawiaeth yr efengyl; aeth yr eglwys i bellach mwynhâd o ranau o'i hetifeddiaeth yn amser y Diwygiad nag unrhyw oes cyn hyn. Nid yw yn ormod dyweyd, medd Dr. Trench, fod y Diwygiad wedi galw allan o'u cuddfeydd yr Epistolau at y Rhufeiniaid, y Galatiaid, ac Epistolau Paul

yn gyffredinol. Dyna y cyfnod y daethant yn gyflawn i'r eglwys yr hyn y bwriadwyd hwy i fod. Nid awgrymir yn hyn nad oeddnt yn cael eu darllen o'r blaen a'u hesbonio, ac nad oedd pob oes yn cael adeiladaeth, ac eneidiau afrifed hyd yn nod yn nhywyllwch y canol-oesoedd yn cael ysglyfaeth lawer ynddynt. Ar yr un pryd, tra yr addeifir mai y galon ydyw yr esboniwr goreu, a bod ing enaid, ysbryd yn cael ei orlethu gan euogrwydd, yn marw oddiwrth glwyfau saethau y Duw Hollalluog, y rhai "a ymfydd-inant" weithiau yn erbyn y pechadur,—tra yr addeifir mai yr agwedd meddwl yma ydyw y cymhorth goreu i iawn ddeall trefn cyfiawnhâd trwy ffydd, yr hyn yw baich epistolau Paul; y mae yn hawdd dyfod i'r casgliad fod y diwygiad wedi hyrwyddo hyn. Dyma y cyfnod y daeth dynion i weled gwagder honiadau Eglwys Rhufain, ac i ddechreu meddwl fod rhywbeth yn anghenrheidiol heblaw cydffurfio â'i defodau ffolion mewn trefn i'w hadferu i ffafr eu Barnwr; y daethant i deimlo eu perthynas bersonol âg Ef, a bod arnynt hwy eu hunain, fel dynion ar wahan oddiwrth eu heglwys, anghen am rywbeth nas gallasai hi ei roddi iddynt. Ar ol eu dwyn i deimlo fel hyn, i ba le yr edrychent mor naturiol am ynwared ag at y rhanau hyny o'r Ysgrhythrau ag y sydd yn rhoddi yr atebion cyflawnaf i gwestiynau mawrion y meddwl pryderus; sydd yn cyhoeddi wrth yr euog sydd yn crynu rhag y gosb—"Ynddi hi y dadguddir cyfiawnder Duw heb y ddeddf"—"Crist a'n llwyrbynodd oddiwrth felddith y ddeddf"—"Hwn a osododd Duw yn iawn,"—sydd yn dadguddio "deddf Ysbryd y Bywyd yn Nghrist Iesu" i'r pechadur sydd yn ocheneidio yn rhwymau "deddf pechod a marwolaeth!"

Fel y trôdd honiadau Eglwys Rhufain, a'i maddenadau, yn achlysur o ddadablygu cynnwysiad yr epistolau i'r wir eglwys; felly hefyd y mae ymchwiliadau athronaidd, a chyfundraethau seiliedig ar athroniaeth, "a ganneuir felly," gyda golwg ar Berson Crist, wedi troi yn achlysur i ddad-orchuddio yr Efengylau i'r fyddloniaid. A dyma y rhan fwyaf arbenig o'r Ysgrhythrau sydd yn cael ei dwyn i fwyaf o eglurder yr oes bresenol. Ar yr hanes am y "dyn Crist Iesu," y mae y meddyliau mwyaf yn y byd Cristionogol yn caru aros yn awr. O amgylch y Pedwar Tyst y mae y frwydr yn ymorsafu, a'r ymdrechwyr yn yngasglu. Mae pawb sydd yn ceisio rhoddi dyrnod i Gristionogaeth yn ceisio rhoddi dyrnod iddynt hwy; beirniadu yr adroddiad, neu y ffaith a adroddir; a cheisio rhoddi esboniad arni mewn amrywiol ddulliau, na feddyliasid oesoedd yn ol y buasai un anffyddiwr yn breuddwydio am danynt.

"Ac fel yr oedd yn nyddiau y Diwygiad gydag Epistolau Paul,—fel y mae yn bresennol gyda'r Efengylau,—felly (medd Dr. Trench), nis gallaf amnhewu y gwawria dydd pan fydd holl ystyr Llyfr y Dadguddiad yn cael ei eglurhau i eglwys Dduw, yr hyn nid yw wedi cymeryd lle hyd yma :—y daw amser pryd y bydd wedi ei ddangos yn eglur pa mor werthfawr fel rhodd, ie, pa mor anghenrheidiol fel arfogaeath, ydyw y Llyfr hwn i'r eglwys. Y pryd hyny, pan y bydd y pethau diweddar ar fin cymeryd lle, ac udgorn yr angel diweddar ar gael ei udganu, pan fydd yr olygfa fawr yn nesáu yn brysur i'w therfyn—y pryd hyny mewn rhyw ddull annysgwylladwy, cyfodir y y llên oddiar y Llyfr rhyfeddol hwn, a bydd i'r holl eglwys gyda'u gilydd y peth a fu, pan yn cael ei ddeall yn amherffaith, i filoedd o'i haelodau—sef yn nerth yn nghanol y tân, yn rhoddi "achosion i ganu y nos"—yn ganiadau o orfoledd a gwar-edigaeth yn nos dywyllaf ei chystudd, yr hwn a ragfaena wawr ei thragywyddol ddydd;—ac yn ei galluogi, hyd yn nod pan y mae goruchafiaeth anghrist yn ei bwynt uchaf, i edrych yn dawel a dyogel ymlaen at ei dynged agosâol, a'i goruchafiaeth berffaith ei hun."

Yn awr, ar ol bwrw golwg yn unig ar dair o'r darlithiau hyn, yr ydym yn teimlo y dylem, fel y dywedai un pregethwr "ddybenu cyn gorphen;" a dybenu a wnawn gyda dadgan fod darllen y darlithiau hyn wedi dwysáu yr argyhoeddiad a feddem o'r blaen o berffeithrwydd Gair Duw; a chynghori y dosbarth ieuengaf o ddarllenwyr y TRÆTHODYDD i gymeryd y Bibl yn brif lyfr eu hastudiaeth.

CHINA A'I GWRTHRYFELLOEDD.

[THE CHINESE AND THEIR REBELLIONS, *viewed in connection with their National Philosophy, Ethics, Legislation, and Administration.* By THOMAS TAYLOR MEADOWS, Chinese Interpreter in H. M. Civil Service. London, 1856.]

O HOLL ymherodraethau y byd, yr hynaf, yr éangaf, a'r liosocaf ei thrigolion ydyw China. Mae yn proffesu hanesyddiaeth ysgrifenedig o restr ei hymherawdwyr sydd yn cyrhaedd dros bedair mil o flynyddoedd. Heblaw Manchooria, Mongolia, Turkestan, a Tibet, mae y rhan a elwir China ei hunan yn gorchuddio dros ugain gradd o hydred a lledred, a'i thrigolion mewn nifer yn dri chant a thri ugain o filiynau (360,000,000). Nid hawdd i bobl y gorllewin, yn enwedig trigolion ynys fel hon, ydyw ffurfio drychfeddwl cymhesur á'r fath henafiaeth, y fath éangder, a'r fath liosogrwydd. Gwir ein bod yn gynnefin á hanes ymherodraethau mawrion a grymus yn eu dydd, megys Assyria, Persia, Groeg, a Rhufain; ond erbyn heddyw, prin y canfyddir eu holion ar wyneb y ddaear, ac yr ydys yn tyrchu ac yn cloddio i ddyfod o hyd i adfeilion eu dinasoedd, a cherfwaith eu palasai. Nid felly gyda'r bobl sydd genym dan sylw; maent hwy heddyw yn un mewn cwllwm cymdeithas fel yr oeddynt yn nyddiau Abraham; a phe buasai Alexander Fawr yn gwybod am eu bodolaeth, gallasai arbed ei ddagrau am fyd arall i'w gonero. Bu llawer gwrthryfel yn eu mysg hwy eu humain, ac esgynnodd teulu ar ol teulu i feddiant o'u gorsedd; ond parháodd eu hunoliaeth trwy y cwbl, ac ymgadwasant heb gymysgu na chyfathrachu á chenedloedd eraill. Yn wir, mae y fath wahaniaeth dirfawr rhwng trigolion China a phob cenedl arall dan y nefoedd, fel ag i'n taro á syndod ac ammheuaeth, ac i greu ynom wylder rhag credu na dyweyd dim yn benderfynol yn eu cylch. Dylem arfer, wrth siarad am danynt, yr hen air hwnw a glywir yn fynych gan hen bobl gydwybodol Cymru, wrth roddi eu tystiolaeth am hyn neu y llall,—“Hyd eithaf ein gwybodaeth.” Ac nis gallwn lai na chroesawu pob ychwanegiad at ein gwybodaeth am bobl sydd mor hynod eu hanes, mor éang eu terfynau, ac mor liosog eu nifer. Ar yr ystyriaeth yma, ac yn neillduol o herwydd y prawf a rydd i ni o ddy-

lanwad y Bibl a'r Cenadaethau Cristionogol ar amgylchiadau cymdeithasol a pholiteiaidd China, y mae llyfr Mr. Meadows yn dra derbynol; ac wrth wneuthur adolygiad o hono, ni a ymdrechwn gyfiwyno i'n darllenwyr ryw fras-olwg ar gychwyniad a chynnydd gwrthryfel y Taeping, ynghyd a'r dylanwad mae yn debyg o gael ar y bobl flaenaf yn yr holl fyd o ran eu nifer, a'r hynotaf o ran eu philosophi.

Rhenir yr ymherodraeth yn bump o wledydd, pur wahanol i'w gilydd. Un wlad ydyw Manchooria, trigfan y Tartariaid,—pobl yn codi anifeiliaid, ac yn crwydro o fan i fan, heb ymsefydlu na chartrefu yn unman yn hir. O'r tylwyth yma yr hanodd ymherawdwr presennol China, ac y mae yn atgas i raddau gau y brodorion, am nad ydyw asgwrn o'u hasgwrn hwynt. Mongolia ydyw yr ail wlad a gynnwysir o fewn cylch yr ymherodraeth, a bugeiliaid yn byw mewn pebyll ydyw ei thrigolion. Addolwyr Lama ydynt oll. Turkestan ydyw y drydedd wlad, a'i phoblogaeth yn Fahometaniaid. Cashgar a Yarkand ydyw y ddwy brifddinas. Tibet, y bedwerydd wlad, ydyw cartrefe prif addolwyr Lama, ac yn eu prifddinas, Lossa, y mae teml a thrigfan yr eilun Bùdha. Ond nid yw y rhai yna oll namyn cangenau; y cyff mawr ydyw China ei hunan, yn cyrhaedd dros ddeuddeg cant o filldiroedd ar draws ac ar hyd, ac yn dryfrith o drigolion, fel cwch gwenyn—pobl gelydd, ddiwyd, weithgar, ac anturiaethus. Defnyddiant y pedair gwlad a enwyd megys cyfleuserau i fasnachu, ac i drosglwyddo iddynt ambell swyddog fo yn dryblus neu esgeulus—rywbeth yn debyg fel y bydd Ymherawdwr Rwsia yn anfon pobl aflonydd i ddysgu moesau da yn Siberia.

Rhenir China ei hunan yn ddeunaw talaeth, a phob un o'r rhai hyn gy maint a Chymru, Lloegr, a'r Alban, ac yn cynnwys oddeutu ugain miliwn (20,000,000) o drigolion bob un, yn siarad yr un iaith, ac yn cydnabod yr un prif awdurdod. Barbariaid y galwant bawb o'r tu allan i gylch y deunaw talaeth hyn; ac y mae ganddynt y fath gyfleuserau i fasnachu ymysg eu gilydd, fel na themtir hwynt ond anfynych i fyned ymhell oddicartref i ddysgu gwell pethau. Ond nid yr un ystyr yn gwbl sydd i'r gair "barbariaid" yn eu mysg hwy ag a roddir iddo genym ni. Nid anwariaid, heb ddysgu gwisgo am danynt ac adeiladu annedd-dai a feddylant, ond pobl o'r tu allan i'w cylch hwy,—mewn gair, estroniaid, neu dramoriaid, amddifad o freintiau a manteision yr ymherodraeth nefol.* Ac nid oes amhweuaeth na bu y camgymeriad o ystyr y gair hwn yn achos o lawer camgymeriad arall a gymerodd le rhyngom ni â hwynt yn ystod y ddau can' mlynedd diweddaf.

Mae pob un o'r deunaw talaeth wedi ei dosbarthu i tua phedwar ugain o siroedd, y rhai a seddant eu prif drefydd, amgylchedig â chaerau, lle y cartrefa y prif swyddog a'i gynghorwyr. Ac y mae yn ddigon tebyg mai yr egwyddor hon o awdurdod lleawl (*local government*), a ganmolir gy-maint gan boliticiaid yn y deyrnas hon, ydyw dirgelwch nerth a pharhâd ymherodraeth ryfedd China.

Y prif nôd ac amcan mewn golwg yn holl addysg China ydyw, bod yn gymhwys i swydd dan y llywodraeth, neu yn hytrach i fod yn un o'r llywodraethwyr. Cynnelir holiadau cyhoeddus bob tair blynedd, o holl ysgol-

* Yr hyn a feddylir yn China wrth "ymherodraeth nefol," neu *celestial empire*, ydyw; gwladwriaeth dan nawdd arbenig y Nef, a'i hymherawdwr yn ddewisiedig y Nef, rywbeth yn debyg i'r neillduolrwydd a berthynai i blant Abraham yn yr hanes ysgrythyrol.

eigion pob Sîr, ac allan o'r sawl a ennilliant drwydded o ragoriaeth yn unig y dewisir swyddogion. Darperir fel hyn rhag rhoi dyn anwybodus mewn awdurdod, ac agorir y drws i bawb yn ddiwahaniaeth, os bydd ganddynt ddawn a thalent, i redeg gyrfa llwyddiant ac anrhydedd.

Edrychir yn China ar bob awdurdod megys rhodd y Nefoedd; a mab y Nefoedd, neu fab Duw, y galwant yr ymherawdwr. Nid mab mewn ystyr hanyddol, ond megys, un dewisedig gan Dduw, a'i gynnrchyoliydd yn ngweinyddiad y prif awdurdod. Felly, nid oes terfyn i awdurdod yr ymherawdwr; y mae mor ddiderfyn ag awdurdod Duw ei hunan yn ngolwg y bobl.

Ond ni wyddant ddim am ddwyfol hawl (*divine right*) i lywodraethu, yn disgyn fel trefnadaeth o dâd i fab. Mae yr hanes a hōnir ganddynt am dros bedair mil a dau cant (4,200) o flynyddoedd, yn cynnwys rhesymau y Nef am symud ymaith fab annheilwng, a gosod ei well yn ei le, yn hytrach na chroniclo gweithrediadau llinach o ryw deulu breninol, fel y gwneir gan haneswyr y gorllewinfyd. Mae yn wir yr ystyrir yr ymherawdwr y cymhwysaf i enwi ei olynydd, am mai efe a fernir y goreu a'r doethaf; ond os dygwydd i hwnw fod yn draws ac yn ormeswr, credant fod y Nef wedi ei ddiarddel, ac mai eu dyledswydd hwythau ydyw ei ddiorseddu cân gynted ag y gallont. Pan fo heddwch a llwyddiant yn hanfodi, bydd pawb yn dawel ac yn llonydd; ond pan doru rhyfel allan, boed yr achos y peth y bo, try meddwl China i gwestiyno cymhwysder ei hymherawdwr, a dodir wrth ei ddrws ef bob afwydd a syrthio arnynt, megys prinder, haint, llif-eiriant, tymhestloedd, a daeargrynfâu, fel tyston y Nef nad yw yn meddu ei ffaf. Pan drosedd yr ymherawdwr y gyfraith, barnant fod natur yn gystal â dyn yn gwrthryfela yn ei erbyn. Eithr os edifarhâ, gan gydnabod ei fai, ac ymostwng yn gyhoeddus ger bron Duw, ond odid na faddeuir iddo gan Dduw, y dengys natur ei boddlonrwydd iddo trwy orphwys oddi-wrth ei gwewyr, ac y bydd ei ddeiliaid yn foddolawn iddo trwy fyw yn dawel a heddychol.

Dyma yr allwedd a egyr i'r darlennydd y dirgelwch o lwyddiant gwrthryfel yn China. Yn ngwledydd y gorllewin, achosir gwrthryfel, mae yn wir, trwy drawsder a gormes; ond ni chysylltir damweiniau naturiol, nac anffawd y tymmorau, â beiau yr un a fyddo yn dal y deyrnwialen. Nid felly yn China; yno edrychir ar gometau, gorlifiadau, colledion ar fôr a thir, a phob drwg ag y mae natur yn ddarostyngedig iddo, yn enwedig rhyfel dramor, megys "Mene, mene, tecel, upharsin," geiriau dedfryd na raid dewin i'w darllen, ond rhai eithaf dealladwy gan bob gradd, o'r bwthyn i'r palas. Egwyddor yr olynid ydyw cael y dyn goreu a'r doethaf o fewn yr ymherodraeth i ddal yr awenau; a'r goreu o'i feibion, ac nid yr hynaf, a ddewisir gan yr ymherawdwr.

Bu y teulu presennol yn hynod o sfortunus; teyrnasodd yr ail o honynt, sef Kang-he, am un mlynedd a thriugain; hwn a *sefydlodd* awdurdod y teulu; felly hefyd y pedwerydd, sef Keen-lung—teyrnasodd yntau yr un nifer o flynyddoedd, a rhoddodd ei swydd i fyny y pryd hwnw o herwydd rheswm hollol Chinëaidd, sef *rhag bod yn amgenach dyn na'i daid*. Dan y pummed, dechreuodd eu hawdurdod adfeilio.

Gwneir pob peth yn China, oddieithr gwrthryfel, trwy archiad awdurdod. Nid oes gan y Chinëaidd hawl i ddim arall. Nid oes gan yr hynaf hawl o flaen yr ieuengaf; ac ni rwgnacha pan eir heibio iddo, a dewis un arall yn ei le. Nid oes ganddynt hawl i drethu eu hunain, dim ond talu yr hyn a

ofynir. Ond pan droseddir y gyfraith gan y sawl fyddo yn ei gweinyddu, ystyrir hyn yn sfforffediad o'u comisiwn, a gweithred o rinwedd fydd gwneyd y swydd yn wâg trwy ladd y troseddwr. Ac y mae yr awdurdod ar einioes ac angeu yn cyrhaedd i lawr o'r ymherawdwr, trwy yr holl swyddogion, fawr a mân, yn eu cylch, hyd at y penteulu. Gall tād, dan gyfraith y tir, gymeryd einioes plentyn anufudd; a gall hefyd werthu ei wraig, os clyw ar ei galon. Gyda phobl fel hyn, dylid bod yn ofalus iawn rhag eu barnu yn ol syniadau anghymhwys ac amherthynasol. Rhaid eu cymeryd fel y maent, a gadael iddynt fwyhau pob mantais yn y glorian a rydd y gwir yn noeth iddynt. Ar yr un pryd, nid oes genym ni ond gosod y ffaith ger bron y darlennydd, "hyd eithaf ein gwybodaeth," heb geisio esgusodi un peth na chanmawl y llall. Anhawdd cael pawb i gyttuno ymhob peth a berthyn i bobl o nodweddiad mor anghyson â'n syniadau a'n harferion ni. Dyma gyfeithiad rhydd o eiriau Mr. Meadows ar hynyma:—

"Nid allan o le fyddai sylwi yma ar y gwahanol olygiadau a rydd gwahanol ysgrifenywyr am China a'i hanesyddiaeth. Tynir ein sylw gan rai at hoffder y Chinëaid o'r hyn sydd hen, ac at anghynewidioldeb eu sefydliadau. Bydd eraill, i'r gwrthwyneb, yn aros ar godiad a chwmp y fath nifer o ymherawdwr, a'r rhyfeloedd ymrysongar cysylltiedig â hwynt, hyd oni thueddar ni i feddwl nad oes bobl mwy anwadal ac ansefydlog yn yr holl fyd. Ond, fel y mae yn dygwydd yn bur fynych gyda phleidiâu, yn y geiriau a arferir y mae y dyryswech, ac nid yn y feithiau a gofnodir. *Chwyldrôad a gwrthryfel* ydyw y ddau air sydd yn cael eu cyboli gan y naill a'r llall, heb gadw mewn golwg y gwahaniaeth dirfawr sy rhyngddynt. Newid ffurf y llywodraeth, a'r egwyddorion y gorphwys arnynt, ydyw gwaith *chwyldrôad*; ac nid ydyw, o anghenheidrwydd, yn newid y llywodraethwyr. Ond cyfodi yn erbyn y llywodraethwyr, fe allai o baid egwyddorion y llywodraeth, ydyw gwrthryfel. Yn erbyn egwyddorion y mae *chwyldrôad*; ond yn erbyn personau y mae gwrthryfel. Wrth geisio newid egwyddorion y llywodraeth gan Siarls y Cyntaf, a dwyn i mewn *chwyldrôad*, y cyfododd gwrthryfel yn ei erbyn yntau, gan ddiweddu mewn *chwyldrôad* mwy effeithiol. Trwy ddal sylw manwl ar y gwahaniaeth uchod, tefir goleuni mawr ar hanes China, am dros bedair mil o flynyddoedd, yn y frawddeg hon.—*O bob cenedl a gyrrhaeddodd radd helaeth o wareiddiad, y Chinëaid ydyw y mwyaf gwrthryfelgar, a'r lleiaf eu tuedd at chwyldrôad. A siarad yn gyffredinol, ni bu ond un chwyldrôad yn China, a hwnw pan newidiwyd llywodraeth y mân dywysogion am unbenaeth yr ymherawdwr, tua dwy fil o flynyddoedd yn ol.*"

Mae yn awr dros ddau can' mlynedd er pan lwyddodd y teulu presennol i ddwyn y llywodraeth oddiar y Chinëaid, a'i throsglwyddo i ddwyllaw y Manchooaid; ac er na bu corff y genedl erioed yn hoff o honynt, eto cydddygwyd â hwynt ar y cyfan, gyda rhywfaint o rwgnach, ac ambell ffrwgwd yma a thraw yn erbyn swyddogion gorthrymus, hyd oni thorodd rhyfel yr *opium* allan rhwng y wlad hon a China. Dyna yr ergyd mwyaf effeithiol a gafodd y Manchooaid oll. Dinystriwyd ar unwaith y dyb o'u bod yn anorchfygol; a phan welwyd eu trechu gan y "barbariaid," a thalu o honynt saith miliwn ar hugain o ddoleri megys ammod yr heddwch, barnwyd fod eu hamser ar ben, a bod dydd adferiad y Chinëaid i'r llywodraeth wrth law. Y canlyniad naturiol o gostau y rhyfel, ynghyd a'r swm mawr a dalwyd megys hedd-offrwm, ydoedd tlodi dirfawr yn nhrysordŷ yr ymherodraeth, a throi i lwybrau gŵyrgeimion i godi cyllid. Un ffordd a gymeryd ydoedd gwerthu swyddi am arian, yn hytrach na'u llenwi â'r goreu a'r cymhwysaf, yn ol deddf ac arfer y wlad am filoedd o flynyddoedd. Cymerodd ffafr a llwgrwobrwy le teilyngdod a medrusrwydd; ac felly dygwyd anhrefn ac anfodlonrwydd i mewn, a pharotôwyd y ffordd i wrthryfel "Kwangse."

Cyn myned rhagom i ddarlunio y gwrthryfel hwn, mae yn anghenrheidiol rhoddi disgrifiad byr o'r blaenor, sef Hung-sew-tseuen, a'r dylanwad rhyfeddol a gafodd Cristionogaeth ar ei nodweddiad. Ar yr un pryd, dylem ddyweyd mai ysgrifenydd y llyfr dan sylw ydyw ein hawdurdod, ac nad ydym ni gyfrifol am y ffeithiau a gofnodir ddim pellach nag y mae y darlennydd.

Mab i dyddynwr bychan ydyw blaenor y gwrthryfel presennol. Ganwyd ef yn 1813, mewn pentref distadl, tua 30 milldir i'r gogledd-ddwyrain o Canton. Efe a ddangosodd yn fore ei fod yn chwanoeg iawn i lyfrau; ac felly anfonwyd ef i'r ysgol pan oedd tua saith mlwydd oed, a thrwy gymwynasgarwch ei berthynasau, yr hyn sydd yn beth cyffredin iawn yn China, fel mewn gwledydd eraill a allem enwi, tuag at fachgen astud, cadwyd ef yno hyd unarbymtheg oed. Pan adawodd yr ysgol, trôdd, fel bachgenyn hywaeth, i helpio ei dâd ar ei dipyn tyddyn, ac i fugeilio ei ddefaid a'i eifr ar y mynydd. Ond yn fuan, llwyddodd ei berthynasau a'i gyfeillion i'w wneyd yn ysgolfeistr yn y pentref lle ganwyd ef, rywbeth yn debyg, feddyliem, i'r hyn a welir mewn llawer pentref yn Nghymru. Cafodd felly hamdden i astudio, ac i ymbarotöi gyferbyn â'r holiadau cyhoeddus. Bu yn llwyddiannus yn yr is-holiadau yn y trefydd cymydog-aethol; ac yn 1833, pan yn 20 mlwydd oed, aeth i Canton, yn ymgeisydd am drwydded i awdurdod neu swydd, sef yr hyn a eilw y Saeson yn *degree of bachelor*, rhywbeth tebyg i'r teitl o B.A., neu Wyrŷf yn y Celfyddydau, chwedl y Cymreigyddion. Ymddengys iddo, ar y pryd, glywed cenadwr yn pregethu ar yr heol yn Canton, a chydag ef frodor o China yn cyfieithu drosto, o'r enw Leang-a-fah, yr hwn a ymddyddanodd â Hung-sew-tseuen, ac a roddodd iddo nifer o draethodau a phregethau o'i gyfansoddiaid ei hun; ymha rai yr oedd amryw bennodau o'r Hen Destament a'r Newydd, allan o gyfieithiad y Dr. Morrison. Teitl y traethodau hyn oedd "*Keuen she leang yen*," sef "Geiriau Da i annog yr Oes;" ac er na bu yr ymgeisydd yn llwyddiannus am ei B.A., fe llwyddodd i gael cipolwg ar Gristionogaeth, a dim ond cipolwg, o herwydd dywedir iddo dafu y lyfrau o'r neilldu ar ol myned adref, a dilyn ei alwedigaeth o ysgolfeistr, ac ymbarotöad gyferbyn â holiad arall yn Canton, lle y cawn ef, yn 1837, drachefn yn afwyddiannus.

Mae yn debyg i'w siomedigaeth y waith hon effeithio cymaint ar ei feddwl a'i deimladau, fel ag y syrthiodd i dwymyn a chlesyd trwm, a gôrffu ar ei gydnabod ei gario adref mewn cader-ferfa (*sedan chair*), gyda dim ond gobaith gwan y byddai byw. Bu yn glaf iawn am tua deugain niwrnod, a chafodd freuddwydion neu weledigaethau rhyfeddol yn ystod y tymmor hwnw. Gan mai dyma ei gychwyniad cyhoeddus fel pregethwr, ni a ddefnyddiwn eiriau yr hanesydd, a'r allwedd a ryddd ef i ni fel esboniad ar yr hyn a ddygwyddodd iddo wedi hyny:—

"Efe a ganfu ddraig, llewng, a cheiliog, yn dyfod i mewn i'w ystafell; ac yn fuan wedi hyny llaws mawr o bobl yn chwarae offerynnau cerdd, ac yn cario cader-ferfa harddwych, i ba un y gwahoddasant ef, gan ei gymeryd gyda hwynt. Daethant yn fuan at adeilad gorwch, yn llawn goleuni, ymha un yr oedd tyrfa fawr o wŷr a gwagedd, y rhai a'i derbyniasant yn groesawus dros ben. Ar ol dyfod allan o'r gader-ferfa, arweinwyd ef i lawr at afon; gan hen wreigan, y hon a ddywedodd wrtho, 'Tydi ddy'n arian, paham yr aethost i gwmpeni y bobl acw, i'th halogi dy hun? rhaid i mi yn awr dy olechi di yn lân.' Ar ol cael ei olechi, aeth Hung-sew-tseuen, yn nghwmpeni nifer mawr o hynafgwyr urddasol, ymysg pa rai yr oedd llawer o'r hen batriarchoiaid, i mewn i adeilad sang, lle yr agorasant ei gorff â chylllell, gan

gymeryd allan ei galon, a rhanau eraill, a dodi yn eu lle rai newyddion, gwell, a choch eu lliw. Ar ol gorphen hyn, iachodd y briw ar unwaith, ac nis gallai gymaint a gweled ôl y gylllell. * * * Ymhen enyd, aethant i mewn i neuadd arall, gorwychedd yr hon oedd tu hwnt i bob degrifiad. Ar faine uchel, eisteddai hynafgw arhrhydeddus, laes ei farf, a du ei wisgiad, yr hwn, pan ganfu Hung-sew-tseuen, a ddechreuodd wylu dagrau, ac a ddywedodd,—‘Myfi sydd yn rhoddi bodoliaeth a ohynaliaeth i bob dyn sydd ar wyneb y ddaear; ar fy mwyd i yr ymborthant, a'm dillad i a wisgant; ond nid oes gan un o honynt galon i'm cofio a'm hanrhydeddu; a gwaeth fyth, maent yn cymeryd fy rhoddion, ac yn eu defnyddio i addoli cythreuliaid; maent yn gwrthryfela yn fy erbyn, ac yn cyffro'i fy nigofaint. Paid di a bod yn debyg iddynt.’ Ar hyn fe anrhegodd Hung-sew-tseuen â chleddyf, ac a archodd iddo ddiynystrio yr ysbrydion drwg, ond arbed ei frodyr a'i chwirydd; rhoddodd iddo hefyd sêl, â pha un y gallai orchfygu pob ysbryd drwg, ac afal melyn blasus i'r archwaeth. Ar ol derbyn y symbolau breninol hyn o law yr hynafgw, efe a drôdd ar unwaith i gynghori ac i annog y sawl oedd yn bresennol i ddychwelyd i'r ffordd iawn, ac i barchu yr hynafgw oedd ar yr uchelfaine. Atebodd rhai o honynt, ‘Yn wir, ni a fuom anufudd i'r hynafgw.’ Ond eraill a stebent, ‘Paham y rhaid i ni ei barchu ef? Gadewch i ni fod yn llawen, ac yfed gyda'n cyfeillion.’ Pan welodd Hung-sew-tseuen galedrwydd eu calonau, efe a ymbiliodd â hwynt trwy dagrau; yna y dywedodd yr hynafgw wrtho, ‘Cymer galon, ac ymafi yn dy waith; myfi a fyddaf gyda thi ymhob cyfyngder.’ Yna efe a drôdd at y rhai oedd gydag ef, ac a ddywedodd, ‘Mae Hung-sew-tseuen yn gymhwys i'r gwaith.’ Yn fuan wedi hynny, efe a'i harweiniodd allan, ac a archodd iddo edrych i lawr oddiar ei uchelfan, gan ddywedyd, ‘Gwel mor lygreddig ydyw holl drigolion y ddaear! mae eu calonau yn ddrwg can-dyblyg.’ Edrychodd Hung-sew-tseuen, a chanfu y fath lygredd a mawr-ddrwg nas gallai ei lygaid eu goddef, na'i dafod eu traethu. * * * Parhâodd ei glefyd a'i weledigaethau fel hyn am ddeugain niwrnod, a dywedai yr ymwelid âg ef yn fynych gan ddyn canol oed, yr hwn a alwai ei frawd hynaf; dysgai hwn ef pa fodd i ymddwyn, ac âi gydag ef yn ei deithiau i eithafodd y ddaear, i chwilio am ac i ddiynystrio ysbrydion drwg.”

Nid rhyfedd fod ei berthynasau a'i gydnabod yn meddwl mai dyryswh ei synwyrâu oedd yr achos iddo siarad am y pethau hyn yn mhoethder ei glefyd; ond nid oes ynddynt ddim goruwchnaturiol—dim nad oedd sylfaen iddynt yn y cipolwg a gawsai, yn llyfrau Leang-a-fah, ar ddarnod o'r Ysgrhythyr, yn gymysg â'i syniadau cyntefig am Bûdha a Confucius. Pa fodd bynag, gadawsant argraff annilëadwy ar ei nodweddiad; a phan gyfododd oddiar ei glâfwely, yr oedd yn ddyr arall—llawer mwy wrtho ei hun nag o'r blaen, mwy syml ei agwedd, a mwy astud ei ymddygiad. Adroddai ei “weledigaethau” gyda sobrwydd a difrifoldeb; ond anfynych y cai neb i feddwl fod ynddynt ddim amgen nag effaith ei glefyd ar feddwl dyn uchelgais a siomedig.

Aeth pethau ymlaen heb ddim nodedig i'w groniclo yn ei hanes hyd 1843, pryd y daeth cyfaill iddo, o'r enw Le, yn hoff o ddarllen ac astudio llyfrau Leang-a-fah, a thueddwyd yntau i edrych a chwilio yn fanylach iddynt. Rhoddwn y canlyniad yn ngeiriau yr awdwr:—

“Nid ychydig fu ei syndod pan gafodd yn y llyfrau hyn ddeongliad o'i weledigaethau yn ei glefyd chwe' blynedd o'r blaen. Deallodd yn awr mai Duw, y Tad nefol y dylai pawb ei addoli, a welsai yn yr hynafgw yn eistedd ar uchelfaine; a'r gŵr canol oed a ymddangosai iddo yn fynych i'w ddyysgu a'i hyfforddio ydoedd Iesu Grist, Iachawdwr y byd. Yr eilnod oedd y cythreuliaid; a'i frodyr a'i chwirydd oedd holl drigolion y ddaear. Ymddangosai fel wedi deffro'i o freuddwyd hirfaith; ac ymorfoleddai ddarod iddo o'i diwedd gael allan y ffordd i'r nefoedd, a sicr o'bach am fywyd tragwyddol. Barnodd ei fod ef a'i gyfaill Le wedi eu galw trwy ras; a gweryddasant feddyd y naill i'r llall, yn ol fel yr oeddynt hwy ar y pryd yn deall yr ordinhad. Y peth cyntaf a wnaeth y ddau, ar ol hynny, oedd troi allan i'r prif-fyrdd a'r caeau i bregethu yr athrawiaeth newydd, yn ol esiampl Leang-a-fah, hanes yr hwn oedd yn ei lyfrau.”

Yn ol tyb sydd yn gyffredin i bobl China, sef, fod gan y Nefoedd law yn eu tynghed, daeth Hung-sew-tseuen i'r penderfyniad yn ddioed fod yr Holl-alluog wedi ei ddewis yntau yn offeryn i droi yr holl fyd, sef China, o gyfeiliorni ei ffordd, ac, wrth gwrs, i'w osod ef yn Ymherawdwr, yn lle yr un oedd, yn ol pob argeolion, allan o ffafir y Nef, megys y profid yn amlwg trwy yr oruchafiaeth a gawsai y "barbariaid" (y Saeson) arno, a'r treflys, a'r caledi, a'r prinder, oeddynt yn parhâu i ffino y wlad fyth a hefyd.

Dysgyblion cyntaf Hung-sew-tseuen oedd mân ysgolfeistriaid, fel ei hunan; a'r hynotaf yn eu mysg oedd un Ffung-yun-san, yr hwn fu yn offerynol i argyhoeddi ei rieni, a'i frodyr, a'u gwraidd, y rhai oll, ynghyd a'u plant, a fedyddiwyd ganddo. Y prif nôd o argyhoeddiad ydoedd ymwrthod âg eilunaddoliaeth yn gyffredin, ac yn neillduol tynu i lawr ddeddf-lechi Confucius. Symudwyd y llechi hyn allan o ysgoldai Hung-sew-tseuen a Ffung-yun-san; a'r canlyniad, ymhen ychydig fisoedd, fu cael eu hysgolion yn weigion; oblegid ni fynai y bobl anfon eu plant at ysgolfeistriaid hereticaidd, a dynent i lawr ac a gondemniant ddeddfau crêd y genedl, gan ddewis rhyw newyddian yn y ffydd yn lle y rhai oedd yn meddu urddas hynafiaeth, yn gystal ag awdurdod y doethaf a'r goreu o'u pobl.

Gan mai eu hysgolion ydoedd ffon eu bara, ac i hōno gael ei thori fel hyn megys ar amrantiad, a hyny o achos eu crefydd, gorfu ar y ddau droi allan i grwydro ar hyd y wlad, gan bregethu yr athrawiaeth newydd i bawb a roddent glust-ymwrandawriad iddynt, a gwerthu inc, a phapyr, a chwyr selio, er mwyn ennill ceiniog i gael tamaid a llynaid. Cymhwysent atynt eu hunain yr ymadrodd, "Nid oes i brophwyd anrhydedd yn ei wlad ei hun;" a chymharent eu hunain i'r apostol Paul yn ei dethiau, o herwydd yr oeddynt yn bur hyddysg yn y bedwaredd bennod ar bymtheg o'r Actau, yr hon oedd yn llyfrau Leang-a-fah. Yn nechreu y flwyddyn 1844, cychwynasant o Kwang-se; ac wedi ennill ambell ddysgybl yma a thraw, tua Chalanmai cyrhaeddasant y mynydd-dir, lle y penderfynasant lafurio yn eu gweinidogaeth, ymysg pobl fwy diniwed a hawddach eu perswadio na thrigolion y dînasoedd a'r dyffynnoedd. Ond erbyn cyrhaedd yno, cawsant fod y trigolion yn siarad cangeniaith wahanol i'r eiddynt hwy, rywbeth yn gyffelyb i'r gwahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Llydaweg. Ymhen tua phedwar diwrnod, ar ol llawer o drafferth ac anhawsderau, daethant o hyd i un Keang, yr hwn a ymsefydlasai yno i ddysgu y Chinëaeg lënyddol i'r mynyddwyr. Ymddygodd hwn yn garedig iawn tuag atynt, a phroffesodd ei hun yn ddysgybl i'w ffydd. Ond ni fedrent wneyd dim mwy na gadael yno rai o'u llyfrau, a myned rhagddynt i "Dre'r dyffryn,"* i dŷ un Wang, perthynas i Hung-sew-tseuen, lle yr arosasant tua phum' mis, yn ystod pa rai yr ennillasant tua chant o ddysgyblion. Ond rhag bod yn faich ar eu perthynas, cychwynodd Ffung-yun-san tuag adref; ac ar ol trafaelio tua thridiau, cyfarfu â nifer o weithwyr, a phenderfynodd fyned i weithio gyda hwynt, er mwyn cael cyfle i bregethu iddynt. Enw y lle yr arosasant ynddo oedd "Bryngellyn,"† yn nhalaeth Tsin-chow. Ennillodd ddeg o'i gydweithwyr yn fuan i broffesu y ffydd newydd, a thynodd sylw y meistr, yr hwn a'i penododd yn ysgolfeistr, a bedyddiwyd yntau hefyd cyn pen hir amser.

* Valley House ydyw y gair yn llyfr Mr. Meadows.

† Thistle Mount.

Yn y fan yma arosodd Ffung-yun-san am rai blynyddau, a llwyddodd i droi prif deuluoedd yr ardal a'r gymydogoeth oddiwrth eu heilunod at y Duw byw. "Duwaddolwyr" y galwyd y "sect newydd" hon, a dyma y "sect" sydd bron a disodli y Manchooaid o fod yn Ymherawdwr China. Ac, yn wir, er maint ein petrusder ynghylch dull amherffraith, a syniadau anadfed eu Cristionogaeth, mae yn anhawdd iawn i ni ommedd cydnabod llaw Duw yn nyrchafiad y gweithiwr ffarm—"y cariwr pridd"—i fod yn offeryn, nid yn unig i siglo gorsedd yr ymherawdwr yn Peking, ond hefyd i osod i fyny "Deyrnas yr Immanuel" yn nghanol cenedl baganaid ac eilunaddolgar, dan yr enw o "Gymdeithas y Duwaddolwyr."

Ymhen tua mis ar ol ymadawiad Ffung-yun-san o "Dre'r dyffryn," cychwynodd Hung-sew-tseuen hefyd tuag adref; ac nid ychydig fu ei syndod a'i bryder pan ganfu nad oedd ei gydlafurwr wedi cyrhaedd yno. Achwynwyd arno gan berthynasau ei gyfaill, a mynai rhai sibrdw nad oedd wedi ymddwyn yn dëg; o leiaf, rhyfeddent na fedrai roddi dim o'i hanes. Ond ymroddodd Hung-sew-tseuen i bregethu ac ysgrifenu o fewn cylch ei fro enedigol, am tua dwy flynedd.

Yn nechreu 1847, pan gymerodd Syr John Davis yr amddiffynfeydd ar afon Canton, tynwyd sylw yr holl dalaeth ar y "tramoriaid," ac ymrestrodd nifer mawr ar hyd y wlad yn fyddinoedd i wrthsefyll y "barbariaid." Yn y ffrwd yma daeth Hung-sew-tseuen i Canton, ymha nodweddiad nid yw hysbys; fodd bynag, ymhen tua mis neu chwech wythnos ar ol y dygwyddiad uchod, ni a'i cawn yn astudio yr Ysgrhythrau dan Mr. Roberts, Censadr Americanaidd yn Canton.

Ar ol bod yno ychydig fisoedd, efe a ddychwelodd at ei berthynas Wang, i Dre'r dyffryn, lle y clywodd am "Gymdeithas y Duwaddolwyr;" y canlyniad fu iddo yn ddioced ymuno a'i hen gyfaill Ffung-yun-san, ac erbyn hyn yr oedd nifer y "gymdeithas" tua dwy fil o aelodau. Ymledodd y ffydd newydd trwy yr ardaloedd cymydogoethol, ac ymysg y dysgyblion ceid enwau pobl o ddysg a dylanwad, a rhai o'r penau teuluoedd mwyaf cyfrifol. Er mai Ffung-yun-san oedd sylfaenydd y "gymdeithas," canfuwyd yn fuan mai Hung-sew-tseuen oedd y dyn o ddawn. Crëdent yn ei ddwyfol anfoniad, a dechreuwyd ei alw ef a'i gydweithiwr yn "Dywysogion Nefol." Ar ol cyrhaedd cân uchod yn ngrisiau dyrchafiad, dechreuodd yntau ymafyd yn ei awdurdod fel dyn wedi ei "eni" iddo, a gweinyddodd ei ddysgyblaeth yn egniol a llawdrom. Trôdd ei gynulleidfaoedd yn fyddinoedd arfog, a gwnaeth ei wrandawyr yn filwyr.

Yr hyn a'i gyrodd gyntaf i hynyma ydoedd ei waith yn dinstrio eilunod. Yn China, fel yn Ephesus gynt, yr oedd gan bob dinas a thref ei "Diana," a'r lliaws yn dra eiddigus dros eu duw, a thros eu helw hefyd, yn gyffelyb i'r gofaint hyny. Ond pan welsant y "Duwaddolwyr" yn dryllio y delwau ac yn llosgi yr eilunod, cyfodasant yn eu herbyn, a bu terfysgiadau nid ychydig yma a thraw. O'r diwedd gwyswyd hwynt i lys cyfraith; galwyd hwynt yn "wrthryfelwyr," a thafwyd Ffung-yun-san ac un arall o'r frawdoliaeth i garchar. Yn y cyfwng hwn aeth Hung-sew-tseuen i Canton at y Rhaglaw i eiriol dros ei gydlafurwr yn ngharchar; ond dygwyddodd fod y swyddog hwnw oddi cartref. Yn y cyfamser, bu farw un o'r carcharorion, a chymerwyd y llall, sef Ffung-yun-san, gan yr awdurdodau i'w wlad ei hunan. Cyfarfu y ddau bregethwr yn eu hen gartref tua diwedd y flwyddyn 1848, lle yr arosasant hyd ganol 1849, pryd y cychwynasant

drachefn at eu pobl i Tsin-chow, y rhai oeddynt erbyn hyn i'w cyfrif wrth y miloedd.

Er mai â'r awdurdodau lleawl, ar gyfrif dinystr y delwau, y bu yr ymraffaelion cyntaf, peth digon naturiol oedd trosglwyddo y cweryl at y prif awdurdod; ac yr ydym yn cael yn fynych na phetrusa pobl droi yn wrthryfelwyr, os gelwir hwynt felly, pryd nad oedd dim ymhellach oddiwrth eu bwriadau wrth gychwyn. Pregethu, gweddio, ac ymladd—tri gwaith ag y gwyddom ninnau y deyrnas hon rywfaint am danynt, ac am eu heffeithioldeb hefyd—ydoedd y ffasiwn gyda'r "Duwaddolwyr," ac yn 1850 gosodasant eu blaenor, "y Dwyfol Dywysog," yn ymgeisydd cyhoeddus am orsedd yr ymherodraeth.

Mae proclamsiwn yn llyfr Mr. Meadows, yr hwn a rydd grynhoad lled berffaith o syniadau, amcanion, a dysgwyliadau y bobl hyn. Gwir y swnia yn gableddus, braidd, yn ein clustiau ni; ond rhaid goddef yr arddull dwyreiniol o feddwl ac ysgrifenu, a chynabod nad yw y brwdfrydus a'r penboeth bob amser yn dewis ei ymadroddion mewn pwyll a doethineb.

"Proclamsiwn y Dwyfol Frenin (Celestial King), a gyhoeddwyd yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, sef Tia-toc (1852):—

"Yn y trydydd mis (Ebrill) o'r flwyddyn Mow-shin (1848), daeth ein Tâd Nefol, y Duw mawr, ac Arglwydd pawb oll, i lawr i'r byd, gan ddangos galluoedd a gwyrtbiau aneirif, gyda phroffion anwadadwy, pa rai a ysgrifenyd yn Llyfr yr Ordinhadau. Yn y nawfed mis (Hydref) o'r un flwyddyn, daeth ein Brawd Hynaf, sef yr Iachawdwr Iesu, i lawr i'r byd, a dangosodd yntau hefyd alluoedd a gwyrtbiau aneirif, gyda phroffion anwadadwy, pa rai a ysgrifenyd yn Llyfr yr Ordinhadau. Yn awr, rhag fod cymaint ag un o'n pobl ni, yn fawr neu yn fychan, gwryw neu fenyw, milwr neu swyddog, heb gyflawn ddeall ewyllys sanctaidd a gorchymynion ein Tâd Nefol, ac ewyllys sanctaidd a gorchymynion ein dwyfol Frawd Hynaf, ac felly trwy anwybodaeth droseddau yn erbyn y dwyfol orchymynion a'r ordinhadau, yr ydym ni wedi chwilio i mewn i gynnwysiad gorchymynion ein Tâd Nefol a'n dwyfol Frawd Hynaf, se wedi eu dosbarthu a'u cyhoeddi yn rheolaidd mewn llyfr, fel y gallo pob un o honom eu darllen a'u dwysyfyrio, ac felly ymattal rhag tori y deddfau nefol, a gwneyd yr hyn fo boddlawn gan ein Tâd Nefol a'n dwyfol Frawd Hynaf. Ceir hefyd, gyda'r cyfrw lyfrau, ein Proclamsiwn breninol, i'r dyben o ddysgu i chwi y gyfraith, a pheri i chwi fyw yn ei hofn. Nac esgeuluswch hwn.

"Ar y 16eg dydd o'r trydydd mis (Ebrill 21), yn y flwyddyn Ke-yew (1849), yn ninas daleithiol Kwei, dywedodd ein Tâd Nefol, y Duw mawr, ac Arglwydd pawb oll, 'Ar gopa y bryn, Kaou laou, ar lun croes, mae yn ysgrifenedig, "Gofynwch a rhoddir i chwi."

"Ar y 14eg dydd o'r trydydd mis (Ebrill 19), yn y flwyddyn Sin-k'hae (1851), yn mhentref Tung-heang, dywedodd ein Tâd Nefol wrth y dyrfa, 'O! fy mhiant, a adwaenoch chwi eich Tâd Nefol, a'ch dwyfol Frawd Hynaf?' Hwytbau a atebasant iddo, 'Ny ni a adwaenom ein Tâd Nefol a'n dwyfol Frawd Hynaf.' Yna y Tâd Nefol a ddwyedodd, 'A adwaenoch chwi eich Arglwydd* mewn gwirionedd?' Yna yr atebasant, 'Ny ni a adwaenom ein Harglwydd yn berffaith dda.' A'r Tâd Nefol a lefarodd drachefn, gan ddwyeddyd, 'Myfi a anfonais eich Arglwydd i lawr i'r byd, i fod yn ddwyfol frenin (*celestial king*); mae pob gair o'i enau yn ddwyfol orchymyn; gofalwch am ufuddhâu iddo; rhaid i chwi sefyll o blaid eich Harglwydd, a thalu pob parch i'ch brenin; na feiddiwech ymddwyn yn afreolus na siarad yn amharchus; ac os na ufuddhêwch i'ch Harglwydd a'ch Brenin, gwae fydd i bob un o honoch.'

"Ar y 18fed dydd o'r trydydd mis (Ebrill 23), yn y flwyddyn Sin-k'hae (1851), yn mhentref Tung-heang, y dwyfol Frawd Hynaf, yr Iachawdwr Iesu, a gyfarehodd y dyrfa fel hyn, 'O! fy mrodyr ieuainc, gofalwch am gadw y dwyfol orchymynion, ac am ufuddhâu i'r hyn oll a ofynir genych, gan barhâu mewn heddwoch y naill â'r Hall. Os dygwyrdd fod un o uchel radd yn gwneyd ar gam, a'r un o isel radd yn

* Blaenor y gwrthryfel a feddyllir, medd Dr. Medhurst.

dygwydd bod ar yr iawn,—neu os yr isel radd a fydd dipyn allan o'i le, a'r uchel radd yn nghanol ei le,—na foed i chwi ddal yn fanwl ar eiriau, a'u hysgrifenu mewn llyfr, i'r dyben o greu a chadw lliid a digofaint. Dylech fagu a meithrin yr hyn sy dda, a charthu allan bob drygioni. Peidiwch a myned i'r pentrefi i ladrata eiddo pobl; a phan eloch i ryfel, gofelwch rhag troi eich esfn a rhodog ymaith. Pan fo genych arian, nac ystyrirweh hwynt yn eiddo personol i chwi eich hunain, ond yn hytraeh yn perthyn i'r naill ac i'r llall. Rhaid i chwi ymuno fraich a ohalon i orchfygu y mynyddoedd a'r afonydd. Dylech gael allan y ffordd i'r nef, a rhodio ynddi; ac er fod y gwaith yn awr yn drafferthus ac yn flinderus, eto, cyn pen hir, byddwch eill mawn uchel swyddi. Ac os, ar ol cael eich dysgu, y trosseddwch ddeddfau y Nef, gan egeuloso y gorchymynion a roddir i chwi, neu anafuddhau i'ch swyddogion, neu droi esfn yn nydd y frwydr, peidiwch a rhyfeddu os bydd i mi, eich dryhoafedig Frawd Hynaf, erchi eich gosod i farwolaeth."

Mae "llyfr ordinhadau" y "Duw-Addolwyr," sef y sawl a elwir yn "wrthryfelwyr," yn cynnwys nifer o'r cyfansoddiadau uchod, o'ly yn tynghedu eu dilynwyr, yn y modd mwyaf rhwymedig, i gyd'nabod dwyfol awurdod eu blaenoriaid, i ymddwyn yn heddychol â'u gilydd, yn amyneddgar mewn caledi, ac yn wrol ar y maes. Fel y gallont ennill y nef, sef swyddi, mae yn debygol, dan "fab y nefoedd," pan ennillo yr orsedd ymherodrol. Ac y mae yn anhawdd i'r crïstion syml benderfynu yn ei feddwl pa un ai gofidio o herwydd cabledd yr iaith a wna, ynte llawenhâu am fod gwawr yr efengyl wedi tori mor effeithiol ar y lliaws paganiaid hyn. Ped apeliai at ei deimladau, diau y dywedai mai gresynus ydyw gweled plisgyn Crïstionogaeth yn cynnwys y fath gnewyllyn o Wyrgeinni, bydolrwydd, ac uchelgais; ond os try at ei ffydd yn yr addewidion, ac at y cyffelybiaethau o'r hedyn mwstard a'r surdoes yn y blawd, nis gall lai na gobeithio yn hyderus fod y dydd yn nesáu pryd y gwelir ymherodraeth éang China wedi ei lefeinio drwyddi oll, ac y bydd mewn gwirionedd yn "eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist Ef."

Byddai yn dygwydd yn eu mysg ambell waith, pan fyddent ar eu gliniau yn gweddio, i un o honynt syrthio mewn llewyg, ac yn y cyflwr hwnw, megys dan ddylanwad ysbrydoliaeth, dechreuai hyfforddio, ceryddu, a phrophwydo. Yn fynych llefarai mewn iaith ddyeithr, a dygid ei eiriau gan y brodyr at y blaenor, yr hwn oedd alluog i "farnu yr ysbrydion," ac i ddyweyd pa faint o'r ymadroddion oedd o Dduw, a pha faint o'r diafol.

Collodd un o'r dysgyblion, sef Yang-sew-tsin, leferydd ei dafod yn sydyn mewn cyfarfod gweddi, a bu felly am tua dau fis. Pan y gwyddai y brodyr pa beth i'w wneyd ág ef, ac ofnent ei fod yn "ddrwg ei hwyl gan gythraul;" ond o'r diwedd, gollyngwyd rhwymau ei dafod, a phwy ond efe, ar ol hyny, yn siarad yn ddibaid, ac yn syrthio yn fynych i lewygfeydd, pryd y nodai allan bersonau euog o bechodau, ac y profesai lesaru yn enw y Tâd Nefol. Cymhellai bobl i fyw yn dduwiol, a chymerai arno ragddywedyd dygwyddiadau dyfodol.

Yr ydym yn cael un enghraifft nodedig o ddefnyddioldeb y dysgybl hwn, a'i offerynoliaeth i wared ei frodyr megys o fagl yr adarwr. Penderfynwyd gan yr awdurdodau yn Kwang-se y dalient y ddau flaenor, sef Hung-sew-tseuen a Ffung-yun-san, ac y traddodent hwynt i'w llofruddio, er mwyn cael gwared o'r holl drafferth ar unwaith. Ond anfonwyd gair yn ddiregel iddynt, gan rai o'i brodyr, a'r canlyniad fu eu henciliad i gwmwd yn y mynydd-dir, gyda nifer o'u canlynwyr. Yno gwersyllwyd o'u hamgylch, ac yn ol pob tebygolrwydd nid oedd ond marw yn eu haros, naill ai trwy y cleddyf, neu ynte trwy newyn. Yn y cyfamser, syrthiodd Yang-

sew-tsin i un o'i lewygfeydd, a hysbysodd y brodyr yn Mr yngellyn o sefyllfa beryglus y ddau flaenor. Ymrestrodd nifer o honynt yn ddoied, ac ymosodasant yn ffyrnig ar y milwyr ymherodrol oeddynt yn gwarchae yr ymguddfa, gan ryddhâu eu blaenoriaid, a'u cludo yn fuddugoliaethus trwy drefydd y gymydogaeath. O hyn allan, galwyd y gweledydd hwn yn "Dywysog y Dwyrain;" a chyn pen hir ychwanegwyd tri eraill at nifer y "Tywysogion," sef "Tywysog y Dehau," "Tywysog y Gogledd," a "Thywysog y Gorllewin," pa rai, gyda'r "Tywysog Nefol," a gymerasant y prif awdurdod ymysg y "Duwaddolwyr."

Gellir dyddio hynyma tua mis Hydref, 1860, pryd y cymerasant yr enw "Taeping," sef "Heddwch Cyffredinol;" a than yr enw hwn y ceir hwynt o hyn allan yn ymfyddino yn erbyn y Manchooaid, ac yn llwyddo tu hwnt i bob dysgwyliaid.

Gan fod trosglyddiad Cristionogaeth i China, a llafur Cymdeithas y Biblau a Chymdeithas y Cenedon, ynghyda thrafnidaeth ein masnachwyr â'r ymherodraeth hon, yn dal cysylltiad mor arbenig â'r gwrthryfel hwn, fe allai mai nid gormod, nac annerbyniol ychwaith, fyddai ychwanegu ychydig o hanes y symudiad, ynghyda'r canlyniadau sydd yn debyg o ddyfod i ben, a hyny yn fuan.

Y cyntaf a anfonwyd gan y prif awdurdodau yn Peking i ddarostwng gwrthryfel y Taeping ydoedd Lin, sef y rhaglaw dan ba un y torodd rhyfel yr opiwm allan; ond bu ef farw ar ei ffordd i'r gwersyll, ar y 25ain o Dachwedd, 1860, a phenodwyd Le-sing-yuen yn ei le, gyda pha un yr oedd Chow-teen-choo, dyn nodedig am ei greulondeb, ac a gurasai un o genadon Rhufain i farwolaeth. Dan y ddau yma ffurfiwyd cynghrair grymus a liosog yn erbyn y Taeping, a gyrwyd hwythau i ffurfio cynghreiriau amddiffynol. Llwyddasant i drechu y milwyr ymherodrol mewn llawer brwydr; ac yn mis Mawrth, 1863, yr ydym yn cael y Taeping yn fyddin liosog, bron yn driugain mil o nifer, a Hung-sew-tseuan yn cyhoeddi yn eofn fod y Nef wedi ei anfon a'i awdurdodi ef i "ddyfetha y Manchooaid—i'w llwyr ddyfetha, yn wŷr, gwragedd, a phlant,—ac i ddyfetha hefyd yr holl eilunaddolwyr,—gan adferu yr orsedd i'w Chyfiawn Frenin." Dyma y pryd y cymerasant feddiant o Nanking, un o brif ddinasoedd y wlad; ac er fod yno dros ugain mil o wŷr arfog yn y ddinas, y fath ydoedd dylanwad yr enw a ennillasai y Taeping, fel y syrthiodd y milwyr ar eu hwynebau, gan waeddi, "O! Dywysog, arbed ein bywyd!" "Hwy a wyddent fod y Nef yn eu herbyn," medd proclamasiwn y Taeping, "ac ni a'u *lladdasom* bob copa o honynt, heb adael iddynt wreiddyn na changen;" a thafwyd eu cyrff i'r afon Yang-tse.

Tra bu y Taeping mewn meddiant o Nanking, a'r dinasoedd cymydog-aethol, anfonwyd Mr. Meadows i ymweled â'u blaenoriaid, dan awdurdod a nawdd Syr George Bonham, yr hwn oedd y pryd hwnw yn brif swyddog y llynges Frytanaid yn Shanghai; ac y mae y desgrifiad a rydd o'r amgylchiad yn hynod o fanwl, ac yn agor i ni yn fwy perffaith fyth olygiadau y bobl hyn, ynghyda'r ffurf y mae eu Cristionogaeth wedi ymgorffori ynddi.

"Glaniasom yn un o fadau yr agerlong *Hermes*, a gofynais i'r gwyliwr fy nghyfarwyddo at y prif awdurdodau, fel y gallwn adrodd fy neges oddiwrth brif swyddog fy *remines*. Ar ol cryn lawer o seremoni, a pheth anhawader, cawsom sefyll wyneb yn neb â 'Thywysog y Gogledd,' yr hwn a ofynodd i ni yn gyntaf dim, a oeddym yn

addoli 'Duw y Tâd Nefol.' Atebais innau fod fy mhobl i yn gwneyd hyny er ys wyth neu naw cant o flynyddoedd. Ar hyn, amneidiodd y Tywysog ar y swyddog oedd gydag ef, ac archwyd i ni sistedd i lawr. Ar ol ymddyddan ynghylch y rhyfel, ac egluro iddynt ein neges, holodd y Tywysog ni am ein crefydd, gan sylwi y dylai addolwyr yr un Duw fod yn frodyr; a gofynodd, a oeddyn wedi dysgu y 'Rheolau Nefol.' Atebais innau fy mod wedi eu dysgu, yn ddiau, ond nid dan yr enw hwnw; a gofynais onid oedd deg o honynt. Atebodd yntau yn llawen mai deg oedd eu nifer. Dechreuais adrodd sylwedd y Deg Gorchymyn; ond cyn i mi hanner gorphen, tarawodd ei law yn gyfeillgar ar fy ysgwydd, a dywedodd, 'Yr un peth a ninnau, yr un peth a ninnau!' Yna dywedodd ei fod yn dymuno byw yn heddychol & ni, a bod i'n holl bobl berffaith ryddid i lanio yn Nanking, a chrosaw i rodio i'r man y mynent. Wedi hyny, cyfeiriodd at lwyddiant y Taeping, a'r profion amlwg a welid fod Duw o'u plaid, o herwydd nas gallasant byth lwyddo fel y gwnaethent, yn erbyn y fath nifer a'r fath alluoedd, oni buasai ei fod Ef yn ymladd drostynt. Wrth siarad am y Manchooaid, dywedodd, 'Byddai yn waith anghyfiawn i'r Saeson ymladd drostynt; ac heblaw hyny, gwaith ofer fyddai; o herwydd y mae ein Tâd Nefol yn ymladd drosom ni, ac ni fedr neb ei drechu Ef.' Pan ofynais iddo am Taeping Wang, sef 'Tywysog Tangnefedd,' atebodd Tywysog y Gogledd mai hwnw oedd y 'Gwir Arglwydd neu Frenin,' a bod 'Arglwydd China yn Arglwydd ar yr holl fyd,—Ail Fab Duw ydyw, a rhaid i bawb ymstwgwn iddo a'i ganlyn.'

Y canlyniad o'r ymweliad hwn fu iddynt alw y Saeson, nid yn "farbariaid" mwyach, ond yn "frodyr tramor," er na fedrent yn eu byw ddeall paham y mynent Victoria o flaen y "Tywysog Nefol," hawl pa un i lywodraethu yr holl fyd oedd, yn ol eu tyb hwy, yn anwadadwy; ac ysgrifenasant lythyr, ar ddarn hir o sidan melyn, yn cyfarch y Saeson yn frawdol, a hyny yn behaf am eu bod yn addoli yr un "Duw, y Tâd Nefol, a'r un Arglwydd, sef Iesu Grist, y Brawd Hynaf," gan sylwi fod llawenydd hyd yn nod yn y nef wrth weled y "brodyr" yn dyfod o wlad mor bell i gyd-nabod y Gwir Dywysog, ac i gyfarch yn gyfeillgar yr hwn ar ba un y syrthiasai y gwir gomisiwn [i deyrnasu]. Ystyrient mai yn llaw Rhagluniaeth yr oedd y Saeson yn gweithio pan orchfygasant y Manchooaid mewn rhyfel; ac os oeddynt yn meddwl bod yn gyson, y dylent beidio ffafrio y bobl hyny mwyach, ond troi eu dylanwad a'u harfau o blaid y rhai yr oedd ganddynt ddwyfodlon anfoniad i'w gwaith.

Ymhen tua blwyddyn ar ol hyn, sef tua chanol 1854, cyfododd y gwrthryfelwyr trwy holl dalaeth Kwan-tung, sef yr un y mae Canton yn brif-ddinas iddi. Cymerydd meddiant i ddechreu o Fuh-shan, dinas boblogaidd ar un o'r afonydd sydd yn rhedeg i Canton, a thua deuddeg millird oddi-wrthi. Ymledasant yn raddol i barthau eraill o'r dalaeth, a bu Canton am tua hanner blwyddyn yn warchâedig. Oni buasai y sefydliad Brytanaidd yn Hong-Kong, a bod y môr yn agored iddi, diau y syrthiasai y ddinas y pryd hwnw i ddwyllaw y Taeping. Ond llwyddwyd, tua Chwefror, 1855, i'w gwasgaru; ac yna dechreuodd YEH, y rhaglaw mewn awdurdod o hyny hyd heddyw, eu llofruddio wrth y cannoedd a'r miloedd. Anfonodd ei genadon i'r holl drefydd a'r wlad o amgylch, a gyrwyd pawb a ddangosasant ffafr i'r Taeping, megys deâdellau o ddefaid, i Canton, lle y dienyddiwyd hwynt wrth y nifer o dri chant neu bedwar y dydd. Bernir iddo ladd tua 70,000 fel hyn mewn gwaed oer, a'r rhan fwyaf o honynt heb un esgus cyhuddiad yn eu herbyn. Effeithiodd hyn yn rymus ar y dosbarth mwyaf cyfrifol o'r bobl, a thueddwyd llawer i ddewis y Taeping o flaen y Manchooaid gwaedlyd a dialgar. Ar y llaw arall, dangosodd y Taeping dymher hollol Chinëaidd, sef penderfyniad i ddinystrio, wreiddyn a changen, holl waedoliaeth y Manchooaid, lle bynag y caent afael arnynt. Fel y mae

gwaethaf gorfod addef, ymesgusodent dan yr honiad eu bod hwy, fel yr Israeliaid gynt yn dinystrio y Canaanaeid, yn rhwym, dan archiad y Nef, i ddwyn eu bwriadau gwaedlyd i ben. Y mae yn China gred gyffredinol fod dydd dinystr i orddiwes y "Tartariaid;" a pheth digon naturiol ydyw iddynt ymddyf mewn egus mor awdurdodol ag esiampl y bobl a fuant unwaith dan nawdd ac arweiniad arbenig y Nef.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiweddar, ni bu dim neillduol, o lwyddiant na methiant, yn hanes y symudiad rhyfeddol hwn yn China; ond yn ol yr hanesion diweddaraf, mae y Taeping wedi dangos eu parodrydd i ymddyf ymhob cyfleusdra i ddwyn eu hamcan i ben. Mae yn hysbys i anghyttundeb dori allan yn ddiweddar yn Canton rhwng y Rhaglaw ҮЕН, a'r awdurdodau Brytanaidd, ac i Syr John Bowering, a'r Priflyngesydd Seymour, danio ar a dinystrio yr amddiffynfeydd o amgylch y ddinas boblogaidd hōno; ac nid yn unig hyny, ond trwy ystyfnigrwydd ҮЕН iddynt danio ar y ddinas hefyd, a llosgi a dystrywio llawer o'r adeiladau. Ein hamcan yn dwyn hyn ar gof ydyw dangos pa mor barod ydyw y Taeping i achub eu hadeg; o herwydd yr ydym yn cael fod y milwyr ymherodrol wedi eu galw i Canton o achos y cweryl, a bod y gwrthryfelwyr hwythau wedi cyfodi a meddiannu y gwahanol barthau a amddifadwyd o'u presennoldeb. Felly, yr ydym yn rhwym o addef fod Prydain, yr ail waith, er nad yn fwriadol, wedi ffafrio y gwrthryfelwyr, trwy ddangos nad yw y Manchooaid yn meddu gallu na medr i drechu y "barbariaid."

Mae rhai pobl yn galw yn uchel am i Brydain gymeryd plaid y Taeping, a diorseddu y Manchooaid dreng, balch, a sarhâus. Ond nid ydym yn dysgwyl gweled yr ymyraeth wedi ei gario mor bell a hyny. Nid ydyw yn unol â'n syniadau o degwch a chyfiawnder; er, ar yr un pryd, y gall fod rhesymau dros ddangos rhywfaint o ffafr i bobl sydd mor debyg o ymddwyn yn llawer tecach, ac o ganlyniad yn llawer mwy cymydogol, nag y gwna y teulu presennol. Fe allai y daw hyn cyn hir yn bwnc o flaen y Senedd; ac os felly fydd, nid ofer ein gwaith yn desgrifio eu moesau a'u syniadau crefyddol.

Myn rhai mai "twyll, a rhagrith, a chabledl," ydyw holl broffes Hung-sew-tseuen; a myn eraill nad oes dim yn anghyson â chywirdeb a gonestrwydd yn ei waith yn cymeryd arno y gweledigaethau a'r dadguddiadau nefol. Dangosasom eisoes fod y Chinëaid yn gynnefin â'r dyb o ymyraeth y Nef yn eu hamgylchiadau; ac nid yw yn ymddangos y rhaid fod dyn yn dwyllwr os cymer arno fod y Nef yn ei awdurdodi. Pe amgen, byddai gorfod arnom addef i dwyllwyr gresynus gael y llaw uchaf yn ein gwlad ein hunain cyn hyn. Os bu Oliver Cromwell yn ffrewyll yn llaw yr Hollalluog i geryddu teulu annaheilwng y "Stuart," paham nas addefwn fod Hung-sew-tseuen yn gyffelyb yn ei law i geryddu y "Manchoo" trahâus a gormesol? Fodd bynag am hyny, mae crefydd a moesoldeb y Taeping yn tra rhagori ar ddim a fu yn China o'r blaen. Ysguba ymaith ar unwaith yr ofergoelion o ddewiniaeth, dyweyd tesni, dyddiau anffodus, ac felly yn y blaen; condemnia gaethwasanaeth a chaethfasnach; cydnebydd frawdoliaeth yr holl hil ddynol; ac uwchlaw pob peth, mae "Tywysog y Dwyrain" wedi cyhoeddi, mewn ysgrifen, mai y BIBL, AC NID LLYFRAU CYSEGREDIG CONFUCIUS, FYDD Y LLYFR O BA UN YR HOLIR YMGEISWYR AM URDDAU GWLADOL AC EGLWYSIG, DAN LYWODRAETH Y TARPING.

Mae yn admhosibl desgrifio, ac nid hawdd dychymygu, y dylanwad a ga

y fath benderfyniad a hwnyna ar y drydedd ran o ddynohryw. Bydd yn "eni cenedl mewn un dydd." Pob gwryw, allan o dri chant a thriugain miliwn o bobl, rhwng 25 a 30 mlwydd oed, a fedro gael y modd, yn dysgu y Bibl ar ei dafod lesferydd o'i ddechreu i'w ddiwedd! Ni bu dim yn holl hanes y byd yn gyfartal i'r fath chwyldrôad â hwn, yn ei gyflymdeb, ei ângder, a'i berffeithrwydd; ac er nad ydyw, hyd yn hyn, mewn gweithrediad cyffredinol, mae y "miliwn" o gopïau a argraffwyd yn ddiweddar wedi bod yn anrheg brydlawn, ac yn ddarpariad rhagluniaethol gogyfer âg anghen a llwyddiant y Taeping.

Ni a orphenwn hyn o sylw ar lyfr Mr. Meadows gydag un dyfyniad arall o'i syniadau ar y penderfyniad pwysfawr hwn:—

"Mae bwriad y Taeping o wneyd y Bibl yn gategism eu cymhwysder i swyddau gwladol, yn sicr o gymhell nifer mawr o'r Chineaidd—ysgoleigion yn eu hiath eu hunain,—i ddysgu yr Hebraeg a'r Groeg, fel y gallont ddarllen yr Ysgrthyrau yn yr iaithoedd yr ysgrifenydd hwynt. Ac i'r dyben o wneyd hyn, hwy a ddygant y Saesoneg yn gyntaf, sef iaith y bobl ag y bydd ganddynt fwyaf o gyfathrach â hwynt. Egyr hyn ddorau aneirif i rediad llênnyddiaeth Prydain, ac ymgymysga syniadau a chred y ddwy wlad mewn ychydig amser. * * * * Dywedir yn fynych nad yw y Cristionogion ond ychydig o nifer mewn cymhariaeth i'r Mahometaniaid a'r Brahminiaid; ond os llwydda y Taeping, yn eu hamcan, bydd 480 miliwn, allan o'r 900 miliwn o bobl sydd ar wyneb yr holl ddasaer, a'r rhai hyny yr hanner mwyaf egniol a gwareddiedig, yn gwneyd y Bibl yn gyfnes eu fydd."

Trem ar Fyd ac Eglwys.

"Ac efe a fu farw;" dyna fyrdon y bywgraffiadau cynddylifaidd; ac y mae yr ymadrodd diflas yn aros yn newydd ac yn hen byth: am rywun neu gilydd a gyfrifir yn fawr neu yn dda, yr ystori feunyddiol ydyw, Efe a fu farw! Er pan gyhoeddasom ein rhifyn diweddar o'r TRAETHODYDD, cafodd llênnyddiaeth gollod fawr yn marwolaethau Dr. Harris a Hugh Miller. Yr oedd y Parch. Dr. John Harris yn hysbys fel awdwr y *Great Teacher—Mammon—The Pre-Adamic Earth—Man Primeval—Patriarchy, &c.*; ac efe oedd Prif-Athraw Coleg Newydd yr Annibynwyr yn Llundain; ac yr oedd yn bregethwr poblogaidd. Bu farw yn 52 mlwydd oed. Hugh Miller oedd un o'r *geologists* penaf yn y byd. Bu am faith ffynyddoedd yn gweithio â'i ddwyllaw fel saer maen; a daeth i enwogrwydd yn gwbl trwy ei lasur a'i athrylith. Un o ddynion hynotaf ei oes ydoedd. Nis gallodd ei natur ddal i fyny o dan ymarferiad dygn a dibaid ei alluoedd meddyliol; ac mewn pangfa arswydus o wallgofrwydd, efe a syrthiodd trwy ergyd oddiwrth ei law ei hun! Parodd y fath newydd aesthus brudd-der cyffredinol trwy yr holl deyrnas. Yr ydyw yn hyderu y cawn yn y gyfrol hon ershygl arno. Yn ddiweddar, bu farw y Barwn Alderson, barnydd enwog a Phuseydd brwffrydig; claddwyd ef gyda defodau tra Phabyddol.

Sergeant Wilkins, hefyd, un o ddadleuwyr cyfreithiol goreu y deyrnas, sydd wedi dystewi yn mudandod y bedd. Y Parch. Dr. Medhurst, y cenadwr Chinëaidd enwog, a gyrhaeddodd y wlad hon yn unig i farw ynddi.

Mae ymweliad y Parch. Dr. Livingstone, y cenadwr ffyddlawn, a'r darganfyddwr anturiaethus, yn Nghanolbarth Affrica, â'i wlad enedigol, wedi crëu dyddordeb cyffredinol; a dysgwylir yr effeithiau mwyaf daionus, gyda golwg ar wybodaeth anianyddol, agoriadau trafniadol, a llafurwaith crefyddol, mewn cysylltiad âg Affrica, oddiwrth ei adroddiadau. Da oedd genymwelled pob dosbarth o fawrion Llundain, o'r Tywysog Albert i waered, ymroddi i ddangos anrhydedd i'r gweithiwr difeifi hwn.—Mae yn ymddangos fod Madagascar eto yn myned i groesawu cenadon efengyl hedd. Cafodd Mr. Ellis, y dirprwywyr dros Gymdeithas Genadol Llundain, ei wahodd i'r brifddinas gan y Frenines, a'i dderbyn yno gyda phob parch a sirolddeb.

Tybiem y llynedd fod rhyfel wedi myned ymhell oddiwrthym; ond eleni ni a gawsom ein hunain mewn rhyfel â Phersia ac â China. Cymerodd llywodraeth Persia ei darbwylllo, meddir, gan Rwsia, i dori ei chynghrair â'r llywodraeth Frytanaid. Trawsgymerodd Persia Herat; Herat yw yr allwedd i Affghanistan; ac Affghanistan yw'r drws i India; a chan fod Rwsia yn tra-arglwyddiaethu ar Persia, yr oedd cymeriad Herat yn agor prif ffordd i Rwsia ysgogi at ein meddiannau dymunedig yn India. Daeth ein byddin o India i ymosod ar Persia, ac attafaelwyd yn Karack a Bushire yn Môrgainc Persia. Dygodd hyn y Persiaid i'w pwyll. Y mae cenadwr o Persia wedi ei dderbyn yn llys Ffrainc, gan yr hwn y mae awdurdod i wneuthur ammodau heddwch â Lloegr; a hysbysir fod hyn yn awr wedi ei gwblháu.

Mae y rhyfel â'r Chinëaidd wedi peri llawer mwy o deimlad a chynhwrf yn ein gwlad na'r ymryson â'r Persiaid; ac y mae, ni a welwn, wedi achlysuero dattodiad buan y Senedd. Mae ein darllenwyr yn ddiâu yn gwybod er ystalm bellach am amgylchiadau dechreuol yr ymosodiad ar Canton, a'r ddadl ynghylch yr *Arrow torcha*. Taera un blaidd nad oedd gan y llestr hōno un hawl i'r rhagorffaint a ddiogelwyd trwy gytundeb â'r Chinëaidd i lestr Seis-onig; a bod y rhyfel wedi dechre yn mhenderfyniad balchaid Syr John Bowring i orfodi y Cantoniaid i ganiatáu dyfodiad rhydd y tramoriaid i'w dinas; tra y dywed y llall fod hawl yr *Arrow* i iawnderau y faner Frytanaid mor eglur â'r eiddo unrhyw lestr perthynol i Gibraltar, Malta, neu drefedigaeth Brydeinig arall; bod ymddygiad Yeh, llywydd Canton, yn hollol anwedus a sarhâol, ac ymddygiadau Syr John Bowring, y trafnodwr Parkes, a'r Llyngesydd Seymour yn haeddu pob canmoliaeth. Yn Nhŷ yr Arglwyddi, dygodd Iarll Derby gynnygion i mewn yn collfarnu y gweithrediadau diweddar yn Canton, pryd y pleidleisiodd 110 gydag ef, a 146 yn ei erbyn; felly yr oedd mwyafrif o 36 yn y Tŷ uchaf dros y Gweinidogion. Ond yn Nhŷ y Cyffredin, collodd y Weinyddiaeth y dydd. Yr oedd Gladstone, a Disraeli, a Cobden, ac Arglwydd John Russell, er mor wahanol eu syniadau yn gyffredinol, wedi cydymuno yn erbyn Palmerston; a'r cyfuniad hynod hwn a lwyddodd i gael mwyafrif o 16 yn erbyn y Gweinidogion mewn Tŷ o 510 o aelodau. Dysgwylid, dybygid, gan y gorchfygwyr i Arglwydd Palmerston roddi i fyny ei swydd fel Prif-weinidog; ond y mae efe yn apelio at lais y wlad; y mae etholiad cyffredinol i gymeryd lle yn ebrwydd.

Cofied ein cyfeillion, yn yr etholiad ddyfodol, fod eu hawlfraint etholiadol yn rhoddi cyfrifoldeb mawr arnynt. Hyderwn na roddant eu pleidleisiau ond i bleidwyr profedig rhyddid crefyddol a iawnderau gwladol.

Hudiadau Clewyddol.

Y MAE y wasg Seasonig, yn y misoedd diweddaf, wedi bod yn dra digyn-nyrch mewn llyfrau newyddion a dim rhagoriaeth neillduol ynddynt. Y mae argraffiadau newyddion, gydag ychydig welliadau, o amryw lyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cael eu dwyn allan yn fynych, yn ol yr alwad fyddo am danynt; ond am ddim hollol newydd, a gwerthfawr hefyd, y mae y flwyddyn hon, hyd yn hyn, wedi bod yn hynod o ddiffwrth. Addewir, pa fodd bynag, cyn hir, amryw lyfrau y gellir dysgwyl iddynt gymeryd eu safle ymhlith y dosbarth uchaf o ran dylanwad a defnyddioldeb.

Y mae Mr. Longman yn dwyn allan argraffiad newydd a hardd iawn o holl ysgrifeniadau yr Arglwydd Bacon. Yr argraffiad goreu a gyhoeddased, hyd yn hyn, o'i holl waith ef, oedd yr eiddo Montagu, a ddygesid allan gan Pickering mewn un gyfrol ar bymtheg. Yr oedd yr argraffiad hwnw, er ys blynyddoedd, allan o'r farchnad; a phan y dygwyddai copi o hono droi i fyny yn ail law, yr oedd yn gwerthu yn uchel iawn, yn llawer uwch, weithiau, na'r pris y cyhoeddwyd ef gyntaf. Y mae yr argraffiad presennol yn cael ei ddwyn allan dan olygiad tri o ddysgedigion cymhwys ymhob modd at y gorchwyl, ac yn arwyddo bod yn wir deilwng o'r awdwr äang-fryd. Rhenir yr ysgrifeniadau, yn yr argraffiad hwn, i dri dosbarth,—yr athronyddol—y cyfreithiol—a'r achlysurol. Y mae y dosbarthiad hwn yn dra manteisol, yn gymaint ag y caniatä i'r darllenydd ddethol yn gyflawn y gyfran o'r ysgrifeniadau fyddo yn fwyaf dewisol ganddo. Bwriedir i'r dosbarth cyntaf gynnwys pum cyfrol. Y mae tair o honynt eisoes allan o'r wasg, a chyhoeddir y ddwy eraill yn ddioed. Fe allai yr oedir rhyw gymaint cyn cyhoeddi y cyfrolau a berthyn i'r dosbarthiadau eraill, am nad ydynt eto yn hollol barod. Y mae yr argraffiad ymhob modd yn teilyngu cefnogaeth; ond y mae ei bris, deunaw swllt y gyfrol, yn gwneyd hyny yn amhosibl i lawer efrdydd tlawd fuasai yn hoffi yn fawr ei gael.

Ni chafodd Syr William Hamilton fyw i orphen, yn hollol, golygu yr argraffiad o holl waith Dugald Stewart. Gwelodd gyhoeddi naw o'r cyfrolau. Un eto sydd yn eisieu i gwbleiddio y gwaith. Amcenid i hönö gynnwys, gyda y bywgraffiadau a ysgrifenyd gan Stewart i Robertson, a Smith, a Reid, fywgraffiad hefyd gan Syr William i Stewart ei hunan. Pa faint o hwnw, od oes dim o hono, sydd wedi ei ysgrifenu nis gwyddom. Nid oes un ammheuaeth na wna y cyhoeddwy'r bob ymdrech i ddwyn y gyfrol allan, hyd eithaf eu gallu, yn deilwng o'r cyfrolau eraill yn yr argraffiad prydferth hwn.

Y mae marwolaeth annysgwyladwy Dr. Harris wedi rhoddi teryn ar gwbleiddiad y cynllun a dorasid ganddo iddo ei hunan, ac y dechreuasai weithio arno mor ragorol, yn nghyhoeddiad y rhestr o draethodau yn y rhai yr amcanai esbonio, yn eu cysylltiad dygwyddiadol yn gystal ag athronyddol, yr amlygiadau a wnaed gan y Goruchaf o hono ei hunan, yn ei wahanol oruchwyliaethau tuag at ein daear ni a'i phreswylwyr, o'r "dechreuad" "hyd amseroedd adferiad pob peth." Y mwyaf cydnabyddus

â'r *Pre-Adamite Earth*, y *Man Primeval*, a'r *Patriarchy or the Family*, fydd y parotaf i deimlo a chydabod y golled fawr a gafodd y byd yn ei angeu ef. Nid oedd dim a gyhoeddusid ganddo o'r blaen, mewn cymhar-iaeth, ond parotâd ganddo arno ei hunan at y cyfansoddiadau hyn. Ac er y canfyddir yn achlysurol yn ei ddullwedd nad oedd wedi ymryddhâu yn hollol oddiwrth y goreiriad a'r gorliwiad a anurddent, tra yr amcenid hwynt i addurno, y cyfansoddiadau y mae ei enw trwyddynt yn fwyaf hys-bys i'r byd, eto y mae mor hawdd gweled ei fod yn feddiannol hefyd ar allu anghyffredin i ymaffyd yn hanfod y gwirionedd ar y pynciau mwyaf dyrys, i'w gyflwyno ger bron ei ddarllenwyr gydag yni yn gystal a chyda medrus-rwydd mawr, a'i fod yn teimlo ei hawliau yn oruchaf ar ei feddwl a'i galon ei hun. Y mae yn dda genym ddeall fod lliaws mawr o ysgrifeniadau wedi eu gadael ganddo ar ei ol, a llawer o honynt mewn cyflwr ag na bydd eu cyhoeddi mewn un modd yn ddarostyngiad ar ei goffiadwriaeth, hdyd yn nod â mewn cymharïaeth â'i ysgrifeniadau goreu. Bwriedir iddynt ddyfod allan : cân gynted ag y gellir. Y mae y gorchwyl o ysgrifenu cofiant am dano wedi ei ymddiried i Mr. Phillip Smith.

Y mae yr hen wron Dr. Brown, o Edinburgh, wedi dwyn allan yn ddi-weddard lyfr newydd eto,—*Parting Counsels: an Exposition of the First Chapter of the Second Epistle of the Apostol Peter, with four Additional Discourses*. Cymbellasiid ef lawer gwaith, gan amryw o'i gyfeillion, wedi cyhoeddiad ei waith ar Epistol Cyntaf Pedr, i gyhoeddi gwaith cyffelyb ar yr Ail Epistol. Teimlai, pa fodd bynag, fod ymgymeryd â'r gorchwyl hwnw yn ormod iddo ef os amcanai ei gyflawni yn y fath fodd ag a'i bodd-lonai—fod yr ymosodiadau diweddar yn erbyn dilysedd yr Epistol, a'i hawl i le yn y gyfrol ddwyfol, yn gyfryw, ac ansicrwydd ystyr rhai ymadroddion neillduol yn yr ail a'r drydydd bennod y fath, ag nas gallai gael amser i'w hateb a'u holrhain, ac felly mai doethach iddo, ar y pryd, oedd ymatal oddiwrth y fath amcan. Nid oedd yn teimlo yr un anhawsderau yn ei gyfarfod yn y bennod gyntaf; ac y mae yn tybied ei fod wedi cael dirnad-aeth gywirach o ystyr y rhan yma o'r dadguddiad dwyfol nag un esboniwr adnabyddus iddo ef, ac felly y mae yn cyhoeddi ffirwyth ei fyfyrnodau er add-ysg i eraill. Rheswm arall a deimlai dros gyhoeddi ar y bennod hon ydyw yr addasrwydd neillduol sydd ynddi, oddiwrth natur ei chynnwysiad, i fod yn destyn anerchiad oddiwrth weinidog wedi bod rhan can' mlynedd yn llafurio yn yr efengyl, at y rhai y buasai yn gwasanaethu iddynt. Y mae holl ragoriaethau Dr. Brown fel esboniwr i'w canfod yn amlwg yn y gyfrol hon, yn gymaint felly ag yn yr un o'i ysgrifeniadau blaenorol.

Yn erbyn yr ymosodiadau a wneir o bob parth ar wirionedd a dwyfolder yr hanes ysgrythyrol, yn y pennodau cyntaf yn Genesis, cyhoeddwyd yn ddiweddar lyfr a ddylasem ddwyn cyn hyn i sylw ein darlleawyr,—*Creation and the Fall: a Defence and Exposition of the first three chapters of Genesis*. By the Rev. Donald Macdonald, M.A., Gweinidog yr Eglwys Rydd, Edinkillie. Anaml iawn y cyfarfyddir â llyfr yn arddangos y fath allu, y fath ymchwil, y fath bwyll, y fath onestrwydd, a'r fath benderfyniad, a'r gyfrol hon. Y mae yr awdwr yn perthyn i'r dosbarth goreu o esbon-wyr; ac yr ydym yn hyderu nad yw y llyfr hwn ond ernes o'r hyn a ellir ddysgwyl oddiwrtho mewn eysylltiad â llényddiaeth ysgrythyrol.

Y TRAETHODYDD.

PWYSIGRWYDD YMARFERIADAU DA.

DARLITH,

Sylwedd yr hon a draddodwyd yn Nghapel Rose Place, Liverpool, Rhagfyr 24, 1856,

GAN Y PARCH. HENRY REES.

MAE addysgiadau moesol, wedi eu seilio ar eu hiawn egwyddorion, yn rhan arbenig o weinidogaeth yr efengyl. Ac nid o herwydd eu bod yn anhriodol i'r Sabbath, ac i'r pulpud, yr ydym ni yn sefyll i fyny i'w cymhell arnoch yn y wedd hon yn bresennol. Ar yr un pryd, hwyrach, wedi i ni ymgynnull ynghyd ar noswaith o'r wythnos, a chymeryd ein safle fel hyn o dan y pulpud, y caniatëir i ni arwain meddyliau ein gilydd at ryw bethau mwy cyffredin, ac ymdrin â'r pethau hyny mewn dull ychydig mwy cyfeillgar a rhydd, nag a fuasai yn gweddu cystal, ysgatfydd, i amser a gwasanaeth mwy cysegredig. Un o'r deddfau cryfaf a sefydlodd y Crëawdwr i blant dynion ydyw yr hon a elwir deddf ymarferiad, sef y gallu hwnw ag sydd yn perthyn i ddyw trwy ba un y mae pob egni o'r eiddo, corff neu feddwl, yn dyfod yn fwy cynnefin a hawdd iddo wrth eu mynychu. Yr ydym oll wedi profi bod hyn yn wir. Mae y duedd at unrhyw weithred, a'r medrusrwydd i'w chyflawni, yn ymfurfio ac yn ymgryfhâu ynom trwy fynych gyflawniad y weithred ei hun. Ac felly, o'r diwedd, mae y peth yn dyfod megys yn ail natur i ni. Nis gall bywyd, dybygid, o un math hanfodi heb fod iddo ffurf ac ymarferiadau. Mae i bob créadur ei reddfau a'i arferion (*habits*). Hyd nod ewyn (*foam*) ei hunan, mae hwnw, meddant hwy, mewn cysylltiad â bywyd, yn ymfurfio ac yn ymgaledu nes dyfod i fod yn gragen i'r llymarch. Felly dyn yr un modd. Mae yn dyfod i'r byd, mae yn wir, heb ddim ymarferiadau sefydlog; ond y mae yn dyfod â rhyw allu gydag ef er hyny ag sydd yn sicr o'i arwain i ffurfio ymarferiadau felly. Sylwch, er esiampl, ar y plentyn bach; hyd yn nod wrth friwo ei hunan, mae yn dysgu bod yn fwy gwagelog, ac ymreddfu yn yr hyn a'i diogela. Mae ynddo duedd i sylwi ar ac efelychu y rhai sydd o amgylch iddo, ac i fynychu yr hyn a ddwg ddifyrwch i'w feddwl; ac felly, os caiff fyw, mae o anghenrheidrwydd yn ffurfio ymarferiadau iddo ei hun. Ar y cyntaf, mae yn eich dwylaw fel y priddgist yn llaw y crochenydd; gellwch ei lunio mewn ystyr

bron i'r wedd a fynoch chwi. Ond unwaith y byddo ei garacter wedi ei ffurfio, a'i arferion wedi eu sefydlu, bydd yn anhawdd ei newid ef drachefn. Pwysig iawn, gan hyny, ydyw sefydlu dyn mewn ymarferiadau da o'i ieuencyd. Mae yn wir nad yw yr addysg oreu ddim, o'i rhan ei hunan, yn abl i'w wneyd ef yn ddoeth i iachawdwriaeth, eto trwy fod yn ddyfal i wrthweithio ei lygredigaeth, ac i ddysgu rhinwedd iddo oddiar egwyddorion efengylaidd o'i febyd, chwi a ellwch obeithio, trwy fendith yr Arglwydd, y bydd efe erbyn y byddo wedi tyfu i fyny, nid yn unig yn ddynd moesol a dichlynaidd, ond yn ddynd duwiol—yn greadur newydd yn Nghrist Iesu. Pa fodd bynag, dyma yw ein dyledswydd ni. Wrth nodi, gan hyny, ychydig o'r ymarferiadau hyny ag y dylem eu meithrin ynom ein hunain ac yn ein gilydd, ni a ddymunem yn neillduol gael sylw rhieni plant ac athrawon yr Ysgol Sabbothol.

Er iawya hwyllusdod, ni a'u dosbarthwn yn y drefn ganlynol :

I. YMARFERIADAU CORFFOROL.

Am lawer o'r gweithrediadau yma, maent yn gyfryw fel y gall dyn eu dysgu agos heb yn wybod iddo ei hun. Er hyny bydd eisieu gwyllo drosto yaddant oll. Os yw bwyta, sefyll, eistedd, cerdded, yn bethau hawdd iddo eu cyflawni, eto prin y gall dyn ymarfer ei hunan, hyd yn nod mewn pethau felly, yn briodol, oddieithr i ryw un ei gyfarwyddo. O leiaf, mae yn barod i syrthio i ryw ymarferiadau gwrthun a drwg yn y cyfan. Mae y pren, chwi a wyddoch, yn sier o dyfu, yn rhywfodd, heb ddim help oddiwrthych chwi; ond os mynwch iddo dyfu yn rheolaidd, mae yn rhaid i chwi ei ymgeleddu yn ddyfal—tori ymaith ei gangenau gwylltion, a'i hoelio wrth y mur pan y mae ei flagur yn ieuanc a thyner. Felly am eich plant yr un modd. Hwya a gynnyddant mewn corffolaeth yn annibynol arnoch chwi; ond nid mewn doethineb a harddwch. Os mynech chwi weled eich meibion, yn ol iaith y Salmydd, "fel planwydd yn tyfu yn eu hieuenctyd, a'ch merched fel congifaen nadd wrth gyffelybrwydd palas," yn gysur i chwi, ac yn addurn i'w sefyllfaoedd, mae yn rhaid i chwi naddu eu naddiad hwy yn fanylaidd—tori ymaith yr hyn sydd ormodol, cywiro yr hyn sydd gam, a chyflawni yr hyn sydd ddiffygiol; mewn gair, bod yn ddiwyd gyda hwy o'u mebyd i'w sefydlu mewn ymarferiadau da.

Ond i ddychwelyd yn fwy neillduol at ymarferiadau corfforol. Meddylwch am y pen, er esiampl. Mae yn hwn liaws o aelodau bychain a thra phrydfferth. Ond heb ei gadw dan ddysgyblaeth, yn enwedig pan yn ieuanc, mae dyn yn agored i'w hanurddo yn fawr. Fe syrth gyda rhai o honynt i ryw ddulliau annaturiol, a chydair lleill i arferion yslyfenllyd a bryntion; ac erbyn y tyfo i faintioli, bydd yr arferion hyny wedi greddfu mor ddwfn ynddo fel y bydd yn anhawdd ei feddyginiaethu oddiwrthynt. Y glust o bosibl, o'n holl aelodau, ydyw y fwyaf diogel rhag cael ei hanmharchu genym. Mae dynion, chwi a wyddoch, yn arfer rhoi mŵg yn eu safnau, a llwch yn eu trwynau; ond am y glust, yr aelod brydfferth yma o'r corff, nid ydym ni ddim yn dygwydd gwybod am un drwg-arferiad neillduol ag sydd yn peryglu cymaint ar ei harddwch a'i defnyddioldeb hi. Y mae wedi ei gwneyd o'r fath ddefnydd gwydn, fel y mae yn anhawdd ei hanffurfio. Heb roi llawer o drais arni, nis gellwch ei thynu i un camystum ddedig, a'r fan y gollyngoch chwi hi drachefn, mae yn *springio* yn ol i'w naturiol ei hunan. Ein prif ofal am hon, gan hyny, fel am y dannedd, y gofal a ddylem gymeryd i'w chadw hi a'i holl gelloedd yn lanwaith,

a gofalu gwneuthur hyny yn ein hystafelloedd ein hunain, ac nid mewn cymdeithas neu yn ngwydd ein cyd-ddynion. Ond am y rhanau eraill a berthynant i'r pen, megys y tafod, a'r trwyn, a'r wynebpyrd, &c., yr ydym yn fwy agored i syrthio i ymarferiadau gwrthun a drwg ynddynt. Ni a welson esiamplau o hyny yn fynych. Gellir gweled dynion, ac weithiau ddynion cyhoeddus hefyd, fel pe baent wedi ymroddi i wneyd eu hunain yn annymunol i ddynion eraill: un â rhyw acen chwith gyda thoriad ei eiriau; a'r llall â thôn annaturiol yn ei lais, neu rwnn annaturiol yn ei wddf—y wefus mewn camystum, a'r llygaid yn torwynu; tra mae y trydydd, drachefn, wedi ymarfer ei hunan i bigo ei drwyn neu ei ddannedd, a rhy brin, ar achlysuron, y gall ambell un gadw ei dafod yn ei babbell.

Yr ydym yn cydnabod fod llawer o bethau isel, a rhy isel i'w henwi, yn perthyn yn anocheladwy i'r corff yn y fuchedd hon. Ond dyma y peth sydd yn anfodur, ein bod ni, yn lle gwneyd y goreu o'r pethau isel hyny, yn rhy barod, i'r gwrthwyneb, i ymgynnefino â hwy, ac i ychwanegu at eu hadgasrwydd, trwy ymollwng gyda hwynt i arferion swga ac ansyber. Os rhaid cyd-ddwyn â'r peswch a'r brynti mewn afiechyd—yr olwg a'r sŵn anhyfryd, pa rai sy'n dilyn ymweithiad yr anadl drwy ffroenau llawn o anwyd—neu pan yn carthu y pen a'r gwddf oddiwrth ei effeithiau, eto ni a ddylem wyllo rhag i ymdrechion natur, fel hyn, i ymadael â'i hanhwyl-derau, droi yn *arferion gwneuthur* i ni; bod yn anweddeiddiach ynddynt nag y byddai raid i ni fod, a'u cyflawni pan y gellid eu gochelyd. Fe ellid meddwl ar ambell un fod poeri digon yn rhyw harddwch mawr yn ei olwg ef. Os bydd y dyn wedi dysgu cnoi y tobacco yn enwedigol, fe ddaw yslôm o sudd hwnn allan o'i safn ar bob achlysur. Ac er mor wrthun ac adgas, aflan ac annaturiol, yw yr arferiad hon, eto yr ydym yn sicr i ni weled bechgyn ieuainc cyn hyn, ymysg y dosbarth disyngwr ac anwybodus mae yn hawdd genym gyfaddef, yn ei chyflawni gyda rhyw orchest mawr, ac â golwg chwyddedig ac uchel, gan dybied eu bod drwy hyny yn profi eu hunain yn ddynion. Ow! y creâdur rhesymol, mor isel y gall fyned yn ei syniadau! Gresynu y byddid gynt wrth edrych ar y cythreulig gor-phwyllog yn clafoerian ac yn malu ewyn; ond y mae un o'r pethau tebycaf i hyny yn yr oes hon, sef cnoi ac yslômio sudd tobacco, wedi myned yn arferiad mor gyffredin, fel ag y mae yr esiampl, er mor farbaraidd ydyw, yn temtio ac yn llygru llaweroedd o ieuencyd. A ydyw y pethau hyn yn taraw meddwl y darlennydd fel pethau rhy isel i son am danynt ar achlysuron fel yma?—hwyrach yn wir eu bod felly. Ond fe ellid meddwl, er hyny, os ydynt yn rhy fryntion i'w hadrodd, y dylent hefyd fod yn rhy fryntion i'w harfer; eithr y mae yr aelwydydd a'r addoldai, mewn llawer cymydogeath yn ein gwlad, yn profi nad yw hyny ddim yn bod. Nid oes genym, mae yn wir, ond cyd-ddwyn â'r penllwyd a'r oedranus; maent hwy wedi bod mor anfodur a ffurfio ymarferiadau o'r fath yma pan yn ieuainc, ac yn profi bellach, wedi hir ymreddfu ynddynt, fod yn anhawdd eu gadael o'r neilldu. Ond am danoch chwi, ieuencyd, yr ydym yn eich rhybuddio yn ddifrifol, a hyny yn enw cannoedd o'ch tadau, pa rai sydd erbyn hyn yn gweled eu ffolineb, ac yn ffieiddio eu hen arferion mochynaid, i ochelyd, er dim, rhag ffarfio i chwi eich hunain ymarferiadau cyffelyb; gadewch iddynt farw gyda hwy.

Mae arferion yn rhy fynych yn cael eu priodoli i natur gan blant dynion. Natur a gamolir, a natur a feiir, am y pethau a ennillodd y dyn iddo

ei hunan drwy ymarferiad. Pe baech chwi ddim ond meddwl, er enghraifft, beth yw yr achos fod y naill ddyrn yn gallu llywodraethu ei lais mor rhagorol, pan nad oes gan y llall lywodraeth yn y byd arno. Mae yn ddiammheu, pa faint bynag o fantais oddiwrth natur a gafodd neb i hyny, neu rywbeth cyffelyb i hyny, fod i ymarferiad effaith gref yn y peth. Paham mae y Sais yn medru swnio yr *sh* mor rhwydd, pan mae y Cymro yn methu; a'r Cymro yntau yr *ch* a'r *ll*, pan y mae y Sais yn methu? Ond am fod y naill a'r llall wedi eu hymarfer i hyny o'u mabandod. Byddwch yn arfer dywedyd weithiau os bydd dyn yn methu swnio rhyw lythren yn eglur, bod deilen ar ei dafod ef. Wel, os yw hyny yn bod, nid oedd hi ond odid, ar y cyntaf, ond deilen ag y galleid yn bur hawdd ei symud hi ymaith, pe cawsai y plentyn ond athraw gofalus. Ac y mae gan lawer un o'r fath yma, yn ddiammheu, achos cyfiawn i gwyno ar lywodraethwyr eu hieuencyd, oblegid oni buasai eu hesgeulusdra a'u hanfedrusrwydd hwy, buasai y llygad sydd heddyw yngroes yn edrych yn uniawn, a'r tafod sydd heddyw yn floesg yn medru llesaru yn groew. Drachefu: yn syth y gwnaeth y Crëawdwr y corff dynol, a'i wyneb yn agored tua'r nef. Mae yr ystum yma, dybygid, yn un o ragoriaethau dyn ar yr anifail, ac yn gymhwys i ddyrn ar gof i ni fod a wnelo efe â phethau uwch eu natur na phethau y byd hwn. Dylid, gan hyny, bod yn bur ofalus am sefydlu y dyn ieuanc ynddi, ac nid ei adael ef i wargrymu ac i blygu tua'r llawr yn ddiachos; agwedd a barai i chwi ddychymygu bron fod ei freichiau a'i ddwyllaw wedi eu bwriadu i fod yn draed blaen iddo, eithr yn anffodus wedi eu gwneyd yn rhy fyrion i ateb y dyben hwnw. Llawer sydd i'w cael, naill ai o herwydd meddwl swrth, neu gamfagwraeth a diffyg addysg foreuol, wedi tyfu fel hyn o'u mebyd. Nid oes gan henaint a chys-tuddiau ddim i'w ddyrn arnynt hwy yn y ffordd hon; mae ystym naturiol y corff wedi ei cholli eisoes, a chamystumiau wedi eu ffurfio a'u sefydlu, pa rai ydynt yr un mor niweidiol i iechyd ac i harddwch corfforol. "Sâf ar dy draed yn uniawn," meddai Paul wrth y dyn cloff yn Lystra. Purion gwrs i rieni i'w dysgu i'w plant wrth eu magu. A chwithau ddyinion ieuainc, yr un wedd. Llawer o honoch chwi sydd yn cydgyrmy yn swyddfaau caethion ein trefydd a'n dinasoedd mawrion. Ymarferwch eich hunain i hynyma. Yn eich oriau hamddenol yn enwedig, ymsythwch o'ch ystum fwâog, a sefwech yn uniawn; bydd yn iechyd i'ch *lungs* ac i'ch mynwesau dolurus. Ac heblaw hyny, mae iawn agweddiad y corff yn harddwch yn gystal ac yn iechyd. Ped edrychech ond ar fintai o filwyr ar yr heol, gan eu cymharu hwy â'r segurwyr affuniaidd sydd yn sefyll yn eu hymyl ac yn syllu arnynt, nis gallech lai na chanmawl dysgyblaeth. Yn ffair y milwyr mae y gwahaniaeth i gyd. Mae glendid eu gwisg, trefn a gweddeidd-dra eu hystum, ynghyd a'u cydysgogiadau rheolaidd, yn hynod o'r dymunol i edrych arnynt. Ac ond i ni adael amcan y gelfyddyd fil-wraidd allan o'r ystyriaeth, pwy na ddymunai weled pob dyn ieuanc wedi ei hyfforddi yn gyffelyb?

Daw hyn â ni at y peth olaf sydd genym i'w goffau o dan y pen hwn, a hyny yw glanweithdra a gweddusrwydd mewn corff a dillad. Y dyn sydd yn hael ar y dwfr glân, ac yn wagelog gyda moethau; yn ymolchi yn aml, ac yn bwyta ac yn yfed yn gymedrol, er crysder ac nid er meddwod; chwi a ellwch fod yn sicr y bydd y dyn hwnw yn rhagori mewn iechyd a harddwch corfforol, ac, ond odid, ymhob rhinwedd dda, ar y dyn glwth a

mochynaidd ei arferion. Mae addoli mewn ymolchi, medd un philosophydd; gan gyfeirio, mae yn debyg, at y golchiadau Iuddewig. Ond yn wir, mae rhywbeth mewn ymolchi eto ag sydd yn hytrach yn help i addoli. Wedi i chwi fod yn y llwch a'r parddu ar hyd y dydd, dim ond i chwi ymolchi a newid eich dillad gyda y nos, yr ydych yn profi eich hunain yn ddyinion eraill: mae eich holl natur wedi ei hadnewyddu, a phob teimlad ynoch yn fwy dyrchafedig. Pa ryfedd, ynte, mewn amgylchiad felly, os bydd y teimlad crefyddol yn deffro yn y fynwes, ac yn rhoddi ei naws ei hunan ar bob teimlad arall ag sydd ynddi? Gyda y dyn ag sydd yn agos at Dduw, fe dybygid fod yn amhosibl i bethau fod yn amgen i hyny. Ac yn wir, pe na bae y Sabbath a moddion gras yn gwneyd dim arall, ond yn unig sefydlu dynion mewn ymarferiadau syber o'r fath yma, pa rai sydd o duedd mor iachusol i'w cyrrf ac i'w meddyliau, mae yn ddiaddl y byddent o werth annhraethol i'r byd. Mae yn hen ddywediad fod glanweithdra yn gares i dduwioldeb. Ac, wrth sylwi ar iaith y Bibl, a defodau crefydd o'r dechreuad, ynghyda natur ei heffeithiau hi ar blant dynion a'u hymarferiadau, mae yn hawdd penderfynu, dybygem, fod ei Hawdwr yn amcanu gosod gelyniaeth rhyngddynt â phob budreddi naturiol gystal a moesol; ac yn caru purdeb a glendid yn y dyn oddiallan, fel yn y dyn oddimewn. Fe ddywed Mr. Moffat i ni, os gwelid yr Affrican anwaraidd yn dechreu ymolchi, a bwrw ymaith ei hen wisgoedd bryntion oddiam dano, fod hyny yn ddigon i brofi bod yr efengyl yn cael rhyw effaith ar ei feddyliau. Edrychwn i addysg y Bibl o barth i wisgiadau, drachefn. Ymddengys i ni fod yr awgrymau a geir ynddo ar y pen hwn, yn gwahardd aflawenwch yn gystal ag ynyfdrwydd a balchder. Prif addurniadau y cristion, mae yn wir, ydyw rhinweddau yr efengyl mewn ysbryd ac ymddygiad. A'r pethau hyn y dylai gwragedd yn profesu duwioldeb ymdrwsio, ac felly yr oeddynt yn gwnenthur o'r dechreuad. Ond beth am y dyn oddiallan? O barth i hwn, y cyfarwyddyd dwyfol yw: "trefnu eu hunain mewn dillad gweddus gyda gwylder a sobrwydd." Ac yr oedd hyn ar unwaith, dybygid, yn dysgu y cristionogion cenedlig gynt, i ymwrthod, nid â gorwychder ac addurniadau ofer eu paganiaeth yn unig, ond yn gystal a hyny â'u hen arferion mochynaidd a bryntion. "*Trefnu eu hunain*," nid bod yn yslyfennydd: ond "*trefnu eu hunain mewn dillad gweddus*," ac nid bod yn goegfalch a ffol. Nid oes dim mwy na hyn yn cael ei ganiatáu, na dim llai chwaith yn gymeradwy gan yr efengyl. Ni a ddymunem yn neillduol eich annog chwi sydd yn ieuaine i ochelyd ymarfer eich hunain i wastraff ac ofer-wisgiad. Nid am y mynem i chwi, mewn un modd, fod yn swga ac ymollyngar, yn enwedig yn eich ieuentyd. Dyma yr adeg i chwi ymreddfu mewn glendid a threfnusrwydd diwyg. A'r dyn nad yw dipyn yn orfanylaidd o gwmpas ei berson, pan o'r deunaw i'r deg ar hugain oed, mae hwnw, fel y sylwai Dr. Chalmers, yn ddigon tebyg o fod yn yslebog cyn yn bod yn ddeugain, ac ond odid nad yslebog a fydd efe tra byddo byw. Ond ymhob sefyllfa, y gwisgo ynydd a drudiawr yw y camgymeriad: bod yn goegfalch a gwagdrwsiadus; ac y mae yn bur bosibl bod felly, cofwch, a bod yn yslyfennydd yr un amser. Ond y gamp y mynem ni i bobl ieuaine gyrchu ati yn eu wisgiadau ydyw, uno cynnildeb â thaclusrwydd. Amcanwch na byddo dim yn eich diwyg a ddygo sylw neb—dim a bair gyfeiriad nac estyn bys ati, oddieithr yn unig yr hyn ag y bydd pawb yn rhwym o gymeradwyo—sef ei glendid a'i chymhwysder i'ch sefyllfa. Mae

yn gofus genym gyfarfod â brodor o Poland yn y wlad hon unwaith. Yr oedd hi yn arferiad gan y gŵr hwnw, er nad oedd ond dyn cyffredin, ac yn byw wrth lafur ei ddwyllaw, wneyd i'w blant ymolchi bob dydd, a rhoi rhyw ddilledyn glân am danynt, cyn sistedd gydag ef wrth y bwrdd i giniawa. Ac fel rheswm dros hyny, dywedai, "Nid oes nemawr o drafferth na thraul yn y peth; ond y mae ef yn dysgu y plant o'u mabandod i fod yn fanylaidd a glanwaith yn eu harferion." Pe byddai mwy o rywbeth cyffelyb i hyn yn ein gwlad ninnau, mae yn ddiammheu y byddai ein hieuenctyd yn fwy coeth a syber yn eu hymarferiadau. Ond wrth eu hyfforddi yn y cyfryw bethau, fe ddylid, o'r tu arall, bod yn ofalus iawn rhag rhoi gormod o le i goegwychder a gwisgiad dillad, ac felly porthi ynfydrwydd y meddwl ieuanc.

Ond hwyrach fod y darlennydd erbyn hyn yn barod i feddwl ein bod yn ymdroi gormod gydag ymarferiadau corfforol. Wel, yr ydym bellach yn eu gadael. Ond fe ddylid cofio, pa fodd bynag, fod y corff yn offeryn trwy ba un y mae yr ysbryd yn dangos ei hunan. Pa ddrwgagweddau bynag sydd yn tori allan, ac yn ymsefydlu ar hwn, mae yr achos o honynt oddimewn yn nghyfeiliornad y galon: yr enaid yw y gwir droseddwr. "Oddimewn, allan o galon dyn," medd Iesu Grist, "mae y drwg bethau pa rai sydd yn halogi dyn yn dyfod." Agweddau y meddwl sydd yn dyfod i'r golwg yn y golygon uchel, a'r gweffau llaesion. Y meddwl cûddfrydig a chastig, a rhy ymddifad o gywirdeb a theimladau anrhydeddus, ydyw yr achos, lawer gwaith o leiaf, fod y dyn yn bendrymaidd, a'r olwg arno yn yswilgar ac euog, fel nad all ef byth, wrth ymddyddan â chwl, edrych yn sich llygaid gydag wyneb rhydd ac agored. Yn ynfydrwydd y meddwl, drachefn, y mae y gorwychder a'r oferwisgiad yn gwreiddio; ac o'r tu arall, syrthni hwn yw y gwir achos o'r wisg front, yr asferchw, a'r ystumiau dioglyd ag? y mae llawer o ddynion yn rhy barod i ymollwng iddynt yn aml. Ac wrth geisio meddyginiaethu y meddwl oddiwrth y pethau hyn, yn enwedig meddwl plentyn ieuanc, fe ddylid yn ddiammheu ymdrechu i'w ddiwygio ef oddiwrth yr arferion eu hunain. Dylid ceisio dwyn ei sylw trwyddynt hwy at eu hanweledig a'u pechadurus achosion, yn y dyn oddimewn—a galw arno, nid yn unig i ymrwrthod â'r pethau hyn, ond hefyd â phob ystum allanol ag sydd yn arwydd o honynt. A'r un modd, drachefn, wrth ddyysgu *iawn* ymarferiadau corfforol iddo, gellir dwyn ei feddwl ef i ymarferiad hefyd; dysgyblu ei gydwylbod a'i galon; ac felly, trwy fendith yr Arglwydd, meithrin ynddo y rhifweddau hyny, pa rai ag y mae yr ymarferiadau corfforol yn eu portreiatu.

II. YMARFERIADAU CELFYDDGAR.

Mae dyn yn dechreu gyda yr ymarferiadau hyn pan yn blentyn yn yr ysgol. Oblegid *art* neu gelfyddyd yw darllen, sillebu, ac ysgrifenu; ac i'r dyn sydd yn hyddyysg ynddynt, ac yn eu harferyd i ddybenion da, y maent o werth anmhrisiadwy. Ni a ddymunem rybuddio rhieni yn neillduol na adawont i'w plant dyfu i fyny heb eu perffeithio yn yr ymarferiadau hyn. Beth bynag ar a fyddo, mynwch, os yw bosibl yn y byd, eu gweled hwy yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu yn gywir; a bod yn hyddyysg, i ryw raddau, mewn rhifyddiaeth gyffredin—pethau na chyrrhaeddri byth mo honynt oddieithr eu dysgu mewn ieuencyd, a phethau mor anhebgorol i ddynt yn y bywyd hwn, fel nas gall un anffawd waeth ddygwydd iddo na bod yn ddiffygiol ynddynt. Gresyn yw gweled plentyn yn chwarae ymaith adeg

ei ysgol, ac felly yn cael ei ddedfrydu dros ei oes i fwy o hurtwch ac aflwydd nag a fyddai raid. Mewn blynyddoedd a ddaw, bydd mayrdd o ddrysau i anrhydedd a defnyddioldeb yn ymagor o'i flaen, ond iddo ef yn ymagor yn ofer—myrdd o ddrygau yn ymosod arno, ac yn ymosod i fantais—obligid iddo gael ei droi allan i'r byd heb ei gymhawyso yn ddyladwy ar gyfer ei ddyledswyddau, na'i arfogi i gyfarfod â'i dwyll. Ac os dygwyrdd iddo fod yn berchen mwy o synwyr ac o ymadferthoedd meddwl na'r cyffredin, a dyfod yn nhrefn rhagluniaeth ddwyfol i well amgylchiadau nag eraill o'i gyffelyb, yn y cyflwr hwnw, drachefn, bydd diffyg addysg foreuol yn chwewder ac anfantais iddo dros ei oes. Yr ydym yn llawenyachu yn wir yn y gobaith fod yr alwad am addysg yn myned yn uwch yn Nghymru. Mae y genedl wedi bod, fe wyddys, yn ffyddlawn er ys llawer o flynyddau gydag achosion pellenig; ac mae yn amser iddi weithian, dybygem ni, i edrych gartref yn fwy, a gofyn fel yr hen Jacob i Laban gynt, "Bellach, gan hyny, pa bryd y darparaf hefyd i'm tŷ fy hun?"

Ond yn fuan, fe fydd y plentyn yn gadael yr ysgol, ac yn cael ei osod i ddysgu rhyw gelfyddyd neu gilydd—ei obaith ef a'i deulu mewn amser a ddaw. Cyfnod pwysig iawn ar ei einioes ydyw hwn eto. Dyma lle y mae ei ymarferiadau gweithgar i gael eu greddfau ynddo; lle y dylai ei fyseidd gael eu cynnesio â diwydrwydd, a'u gwneyd yn yscilgar a dysgedig yn ngwaith yr alwedigaeth pa un a ddewis iddo ei hun. Gallwn alw hon yn bresennol yn gelfyddyd y llaw. Yr ydym wedi cyfeirio eisoes at amryw o'n haelodau corfforol, ond ni chrybwyllasom yn benodol am y llaw, yr hon sydd un o'n haelodau mwyaf cywrain a defnyddiol. Y llaw yn arbenig yw yr offeryn trwy ba un y mae cynlluniau y meddwl yn cael eu gweithio allan. Ac wrth ei hymarfer, mae yn dyfod mor fedrus a chelfyddgar, nes y byddwch chwi yn teimlo ac yn siarad weithiau, megys pe byddai doethineb a chywreiniwydd y dychymyg wedi rhedeg i flaenau eich bysedd. Felly y sonia y Cymry am wneyd rhywbeth wrth synwyr y fawd; a Dafydd yntau yr un modd, am i'w ddeheulaw anghosio canu—*forget her cunning*—ei hyfedredd i ganu y delyn. Mae medrusrwydd ei law, fel hyn, o werth mawr i ddyn. Rhaid i'r meddyg, chwi a wyddoch, nid yn unig fod yn ddeallus mewn *anatomy*, ond yn fedrus hefyd i drin ei arfau, ac onide ni bydd ei wybodaeth ddim o gymaint gwerth iddo. Ac felly yr un modd am bobpeth arall. Ni waeth pa mor byddydg a fyddo meddwl y dyn yn ngwaith ei gelfyddyd, os na bydd y wybodaeth yn ymarferol; os na bydd hi yn y llaw gystal ag yn y pen, mae hi yn gwbl ddiffwrth; nid oes dim gwaith yn cael ei wneyd. Ond mewn trefn i'r llaw ddyfod yn y modd yma yn gelfyddgar a medrus, mae yn rhaid i'r dyn ymarfer o'i ieuentyd: ymarfer i fod yn weithiwr da, yn gystal ag yn ddyn o feddwl athrylithgar. Ie, os myn ef wneyd lles iddo ei hun, mae yn rhaid iddo hefyd ymarfer ei athrylith mewn ffordd fuddiol; nid treulio ei oes fel y gwna ambell un i ryw segur-gywreinio—yn dipyn o bob peth, ac yn y diwedd heb fod yn ddim yn y byd. Ni a gynghorem ddynion ieuainc yn neillduol i berffoithio eu hunain yn eu galwedigaeth. Mynwch ragori yn hōno, pa fodd bynag. Mae eich llwyddiant dros eich einioes, eich cysur chwi eich hunain a chysur eich teuluoedd, yn ymddibynu ar hyny. Mae yn gofus genym glywed am ei gydgrefftwyr yn gofyn i un dyn rywbryd: "Pwy a ddywedodd wrthyt ti, hwn a hwn, dy fod yn saer?" Os gofyn neb felly i'r un o honoch chwi, bobl ieuainc, yr ydym yn gobeithio y byddwch chwi yn abl i ateb drwy

ofyn yn ol, a hyny gyda dewrder hefyd, "Pwy a ddywedodd! 'Dyn a adwaenir wrth ei waith.' Mae y dodrefnyn a wnaethum i yn dyweyd fy mod i yn saer, neu mae yr esgid a wneis i yn dyweyd fy mod yn grydd. Pwy a ddywedodd! Edrychwch ar y wisg a gywreiniais i, yr hon sydd megys wedi tyfu am gefn fy nghwsmer; onid yw honacw yn dangos fy mod i yn grefftwr a fedr *fitio* y dilledyn a wnelwyf i'r edefyn?" Mae bod fel hyn yn feistr ar ei waith yn werth mawr i ddyn. Er iddo fod yn was i bawb, eto fe deimla dyn felly na bydd gofal arno rhag neb; waith mae yn gwybod mai digon iddo ef ydyw ei ddoethineb a'i ddiwydrwydd ei hunan, a'i fod, yn ei le, o gymaint o werth i gymdeithas, ag ydyw cymdeithas iddo yntau.

Ond nid i'r crefftwr yn unig, ni a garem i chwi sylwi, y mae y llaw gywrair yn fuddiol. Beth bynag a fyddo sefyllfa neb o honoch yn y byd hwn, chwi a gyfarfyddwch âg amgylchiadau yn fynych ymha rai y profwch y bydd bod i ryw fesur yn gelfyddgar o werth mawr i chwi. Mae gwybod pa fodd i drin ei ardd, ac i goledd ei anifeiliaid,—bod yn fedrus, pan bo achos, i drin y morthwyl, y fwyall, a'r nodwydd, &c., yn bethau gwerth i ddyn eu cyrhaeddwyd, er na byddo achos iddo byth eu hymarfer wrth ei gelfyddyd. Oblegid pa un bynag ai gartref ai oddicartref y byddoch, mae rhywbeth yn dygwydd beunydd, rhyw daclau neu gilydd yn syrthio i anmhariaeth, a hyny lawer tro pan ymhell oddiwrth bob help a chyfeusdra; ac felly y mae ymarferiadau o'r fath yma i bob dyn mor wasanaethgar ag ydynt o ddiwydrus. Y cenadwr Moffat, dybygem, a glywsom ni yn adrodd y byddai ei fam yn gwneyd iddo ef, pan yn fachgen, ymarfer ei hunan i drwsio ambell rwyg yn ei wisg, neu dwll yn ei hosan, ac yn dyweyd wrtho yr un amser, "Ni wyddost ti yn y byd, Robert, pa beth a ddygwydd eto, na pha mor dda fydd i ti dy fod yn medru trin y nodwydd ddur, a rhoi pwyth mewn rhyw ddilledyn yn awr ac yn y man." A llawer gwaith, yn mherfeddion Affrica, y cafodd Mr. Moffat achos i gofio am eiriau ei fam.

Eithr i fyned ymlaen. Meddyliwch am waith y tŷ drachefn, a dyledswyddau y rhyw fenywaidd. Onid yw yn amlwg i bawb fod medrusrwydd ac ymarferiadau da yn anheggorol yma? Ac eto, mae yn rhaid cyfaddef fod dygiad i fyny manylaidd i'r dosbarth hwn o ddyledswyddau yn cael ei esgeuluso yn ddirfawr yn ein mysg. Mae llawer o rieni yn ddigon difedr ynddynt eu hunain, a'r lleill yn ddiotal yn eu cylch. Gellid meddwl bron eu bod yn credu fod naturiaeth ei hun yn ddigonol i ddysgu eu plant yn y cyfryw bethau, a bod eu merched yn dyfod i'r byd yn debyg i'r morgrug neu yr afanc—eu medr a'u hymarferiadau teuluaid yn reddfol ynddynt o'u genedigaeth, heb eisieu dim ond amser i'w dwyn i weithrediad. Ac erbyn y gwelont hwynt wedi tyfu i fyny yn anghelfydd, byddant yn teimlo eu meddyliau yn siomedig a digofus; hwyrach yn barotach na neb i edliw iddynt eu hanwybodaeth, os nad i'w ddynoethi gerbron dyeithriaidd, heb ystyried, un-waith, mai eu cywilydd hwy eu hunain ydyw anfedrusrwydd eu plant. Mae hyn yn hollol ddiffyg i'r graddau y mae yn ffynu. Fe gydnebydd pob dyn ystyriol fod yn gwbl mor ofer dysgwyl i ddynes ieuanc fod yn forwyn dda, heb ei dwyn i fyny i hyny, ag iddi fod yn wniadwraig dda heb erioed gael ei dysgu i'r gorchwyl hwnw. Meddyliwch am holl waith y tŷ. Onid oes *art* yn y cyfan? Ni fedrwrch gymaint a gwneyd y gwely yn yr hwn y gorphwyswch, na chynneu y tân wrth yr hwn yr ymdwynwch, heb addysg ac ymarferiad. Mae rhywbeth celfyddgar yn y gwaith o bob i y bara, ac o drin yr enllyn—golchi, ac ysmwddio, a phlygu pob dilledyn yn gymhwys.

Ac y mae rhyw *art* fechan drachefn ar eu gosod gyda'u gilydd yn daclus, a chyffieu llawer i le bychan: nid pawb sydd yn medru ar hyn; ond y mae yn hynod o'r dymunol a gwasanaethgar, yn enwedig i'r rhai sydd yn teithio llawer. Cofied rhieni a phlant mai trwy ymarferiad yn unig y mae y pethau hyn yn gyrhaeddadwy. Ni a glywsom am rai mamau wedi cymeryd ffordd hynod o'r manteisiol i ddwyn eu merched i fyny yn fedrus yn y dyledswyddau teuluaid, sef gosod y naill yn niffyg y llall i'w cyflawni; pob un yn ei thro i fyned drwy y gwasanaeth; megys glanhâu a threfnu ystafelloedd y tŷ—prynu a darpar at anghenrheidiau y teulu—gosod y bwrdd—a thori yr ymborth; pethau nas gall neb byth eu gwneyd hwy yn ddiwastraff, glanwaith, a deheuig, heb lawer o ymarferiad. Felly yr ydym yn canfod gwahaniaeth mawr rhwng y naill a'r llall yn y pethau hyn. Am ambell un, er darpar yn gostus, nid oes dim a wnelo yn dda; tra y mae un arall yn medru gwneyd llawer o ychydig ddefnydd, a hwnw yn hynod lanwaith a blasus; chwi a gewch ar ei bwrdd hi damaid a allai tywysog fwyta, am swm a allai tlawd fforddio. "Mae rhai mamau," meddai un wraig, "yn bryderus am wŷr da i'w merched; ond fy amcan i ydyw gwneyd fy merched yn wragedd da i wŷr, a gadael i'r Arglwydd ddarparu ar eu cyfer hwy."

Ni a gynghorem bobl ieuainc yn neillduol i gymeryd y rheol hon iddynt eu hunain. Na feddylwch fod eich sefyllfa yn y byd, beth bynag yw, yn caniatáu i chwi fod yn anghyfarwydd yn nyledswyddau bywyd. Mae ymarferiad ynddynt mor anheborol i'r neb sydd i'w harolygu ag i'r neb sydd i'w cyflawni. Os bydd y forwyn yn fwy medrus na'i meistres mewn dim, nid y hi mewn gwirionedd a fydd y feistres yn y peth hwnw. Bydd yn anmhosibl iddi ei orchymyn yn ddeallus, na gwybod pa bryd y mae yn cael ei gyflawni yn ddylladwy. Heblaw hyny, mae y byd yn gyfnewidiol; a gelyn arfog, yn enwedig i'r segurddyn balch, nas gall na chloddio na char-dotta, yw tloedi ac anghen. Ond am y diwyd, o'r ochr arall, ni phetrusa efe ddim cymaint; mae "bywyd ei law" ganddo ef beth bynag a ddygwydda, ac y mae hwnw wedi gwasanaethu i anghenrheidiau miloedd cyn hyn, a'u galluogi, o dan amgylchiadau anfodus a chyfyng, i gadw eu hanrhydedd a'u lian-nibyniaeth. "Edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid," medd y gŵr doeth, "a gofala am dy braidd; canys cyfoeth ni phery byth; ac a bery y goron o genedlaeth i genedlaeth?" Mae y gair fod Louis Philippe unwaith, mewn ymddyddan ág un o benedigion y wlad hon, yn dyweyd wrtho, "Nid oes un pen coronog yn Ewrop mor gymhwys i fod yn frenin â myfi." Ac ar waith y pendefig yn dyweyd rhyw air o ganmoliaeth i'w dalentau, "Ah," ebe yntau, dan chwerthin, "nid am hyny yr oeddwn i yn meddwl; ond y mae brenin-oedd yn awr yn fwy digyfrif na chynt; nid oes neb a wŷr beth a ddygwydd; myfi ydyw yr unig frenin yn Ewrop a fu yn sychu ei esgidiau ei hunan, a ac mi a fedraf eu sychu eto os bydd raid." Sylw teilwng o frenin oedd hwn, a sylw yn cynnwys amlygiad o ddewrder ac annibyniaeth meddwl ag a fyddai o ryw gymhorth i ddyn pan wedi colli ei freniniaeth. "Gwell yw yr hwn a'i cydnabyddo ei hun yn wael, ac sydd was iddo ei hun, na'r hwn a'i hanrhydeddo ei hun ac sydd arno eisieu bara."

III. Y trydydd, a'r dosbarth olaf o ymarferiadau ag y dymunem alw eich sylw atynt yn bresennol ydyw—YMARFERIADAU MOESOL.

Nid nad oes rhywbeth o'r elfen yma ynglŷn â'r pethau y buom yn ymdrin â hwy eisoes; mae y gydwylbod oleuedig a thynner yn tystio fod.

Ar yr un pryd, mae yr ymarferiadau y cawn ni gyfeirio eich sylw atynt rhagllaw, o natur uwch a gwahanol—eu da neu eu drwg yn fwy eglur ynddynt eu hunain,—ac am hyny yr ydym yn eu galw yn ymarferiadau moesol. Fel ychydig o lawer o honynt, ni a grybwyllwn y pethau canlynol. Sylwed y bobl ieuainc arnynt yn neillduol, a chwithau rieni plant yr un modd; mae o bwys i chwi geisio mæithrin eich rhai bychain ynddynt wrth eu magu.

J. Yr ymarferiad o fod yn feddylgar. Mae cyfranu y ddawn o feddwl i grêadur sydd yn alluog i hyny—ymgeleddu a dwyn allan y pethau a roddes ei Grêawdwr ynddo ef, yn sicr yn ddyledswydd bwysig, ac y mae ei hesgeuluso yn dra phechadurus, ac o ganlyniadau difrifol. Nid ellwch chwi ddysgu pob peth i blentyn ar unwaith. Ac yn wir, fe ddywedir wrthym nad doethineb ydyw ceisio dysgu llawer iddo chwaith. Fe ddylai y deall gael ei amaethu yn ddiammheu. Ond yr amcan mawr, er hyny, i rieni ac athrawon i gyrchu ato ydyw, gwneyd y plentyn yn feddylgar: dysgu y llygad i ganfod, a ffurfio yn y meddwl y reddf neu yr *habît* o chwil-frydedd, craffter, a threiddgarwch. Dyma y gwerth mawr sydd mewn addysg fanylaidd yn more yr oes; nid hyny o wybodaeth yn unig ag mae y dyn yn ennill ar y pryd, ond yr ymarferiad mae yn ei gael—y ddysgyblaeth ag y mae y meddwl yn cael ei ddwyn trwyddi—a'r astudrwydd yr hwn y câ ei reddfu ynddo yn ystod ei lafur. Bydd hyn yn fantais i'r dyn dros ei fywyd. Mae yn cael ei osod ar ben y ffordd i gynnyddu mewn gwybodaeth, ac yn sicr o fod yn fwy galluog i fywhâu a defnyddio pob gwybodaeth a gyrhaedda. Fe ganfyddir y gwahaniaeth rhwng y meddylgar a'r anfeddylgar o dan y pregethau yn fynych. Mae y naill, yn enwedig os bydd ynddo chwaeth at bethau crefyddol, a rhywbeth o werth yn dyfod i'r golwg yn y pulpud, i'w weled yn clustfeinio ac yn craffu; chwi a ellwch ddarllen, hyd yn nod yn ei lygaid ef, dreiddgarwch ac egni meddwl i ddeall, ac fel y mae hwnw, drachefn, yn diweddu mewn argyhoeddiad a boddhâd: tra mae yr anfeddylgar, o'r ochr arall, yr holl amser hyn, âg anwybodaeth a dylni, fel cwmwl pygddu, wedi sefydlu ar ei wynebpryd. Ac er y gall dull neu sŵn yr areithydd ei gynhyrfu ambell dro, ni bydd dim meddwl na goleuni yn y cynhwrf hwnw; ac felly mae y cyfan yn diflanu yn fuan, a'r crêadur yn syrthio yn ol i'w hen ddiifrawder. Edrychwch arno mewn cwmni drachefn: os bydd ymddyddan o natur ddeallus yn dygwydd yno, neu lyfr felly yn cael ei ddarllen weithiau, nid yw dyn o'r fath yma yn teimlo chwilfrydedd na dyddordeb mewn dim. Pan y mae eraill oddi-amgylch iddo yn barod i ddal eu hanadl rhag ofn colli yr hyn a ddarllenir, cewch ei weled ef, hwyrach, yn gymhwys ar y fynydd hōno, yn codi i brocio y tân, neu i danio ei bibell, neu ynte yn gwneuthur rhyw sylw neu gilydd ag sydd yn dangos fod ei feddwl ef, yr holl amser hwnw, yn berffaith segur a dyeithr i'r mater. Oni bae y segurdd yma sydd yn meddyliau llawer o'n gwrandawyr, byddai y trwst ag sydd i'w glywed yn aml yn addoldai ein gwlad yn fwy annyoddefol i'r cynulleidfaoedd; ac mae yn sicr genym hefyd y byddai yn well gan famau, pe baent yn fwy meddylgar, na gael mwynhâu un gwasanaeth y Sabbath mewn perffaith lonyddwch, na dyfod i'r addoliad dair gwaith yn unig i chwareu hefo eu plant. Yr ydym yn addef y gall dyn fod yn feddylgar, ac heb fod yn grefyddol; ond nid allwn ni feddwl er hyny fod yn bosibl iddo fod yn grefyddol heb fod i ryw fesur yn feddylgar. Mae crefydd yn gwneyd ei pherchen

yn feddylgar; neu, os bydd efe felly eisoes, mae yn sicr, ar ei dyfodiad i'r galon, o feddiannu a sancteiddio yr ymarferiad yma, a'i droi ef yn wasanaethgar iddi ei hun. Ymarferiad gwerthfawr yw hwn, drachefn, gyda negeseuau y bywyd yma. Mae y dyn meddylgar yn barnu drosto ei hun; yn ystyried ac yn deall beth y mae yn ei wneuthur. Sylwa wrth roi pob offeryn o'i law pa le mae yn ei adael, a chofia ar y fynydd pa le i'w gael ef drachefn. Anaml y daw y gofalus meddylgar o'r farchnad wedi anghofio yr un o'i negeseuau, ac anaml y mae yn colli dim ag sydd yn perthyn iddo wrth deithio y ffordd. Ni bydd dim achos iddo ef golli amser i ail wneyd yr hyn a wnaeth eisoes, nac i edrych i'r un fan am yr un peth fwy nag unwaith. Mae yn ddyn hollol i'r peth a fydd ganddo mewn llaw; ei feddwl gartref yn wastad, a hwnw yn feddwl pwylllog ac effro. Mewn trefn i ddysgu ein plant i fod fel hyn yn ofalus a meddylgar, dylem arfer eu holi yn aml; dwyn eu sylw at bob peth a allant ddeall; eu hymarfer i fod yn wagelog—i gadw eu dillad, a'u pethau bychain eu hunain, yn drefnus, a hyny o'u mabandod; ymresymu â hwy, yn gystal a'u ceryddu, am bob camymddygiad; mewn gair, achub pob adeg i wneyd argraff ar y gydwybod a'r galon; ac wedi llwyddo i ddeffro ynddynt chwilyfrydedd ac ymofyniad, bod yn ddiwyd i'w porthi â gwybodaeth ac â deall. Agos o'r un natur yw y peth nesaf sydd genym i'w gymhell amoch; sef yn

2. Yr ymarferiad o fod yn fanylaidd a chywir yn yr oll a wnelom. Mae yn haws i chwi gael dyn i weithredu, er nad peth bychan yw hyny, nag i weithredu yn iawn. Os gorfodir ef i wneyd rhywbeth hefyd, mae yn tueddu yn hytrach i'w wneyd ef yn rhywfodd, nag fel y dylai gael ei wneuthur; oblegid y mae gwneyd peth yn iawn yn galw am fwy o lafur a gofal oddiwrtho; ac y mae hyny yn siin i grëadur ag sydd yn hoffi segur-dod mewn corff a meddwl. Wel, rhaid gwrthweithio y teimlad hwn ynddo eto. Nid yn unig galw ar y plentyn i ymgnio, ond i edrych am egnio yn ddiwydwy ymhob peth: rhoi ei sain briodol i bob gair a llythyren wrth lefaru; os sillibu, sillibu yn iawn—os darllen, darllen yn gywir a deallus—os cofio, cofio yn berffaith—ac os deall, deall yn drwyadl. Pa un bynag ai pen ai llaw y dysgybl a fyddo mewn ymarferiad, dylid bod yn bur ofalus na byddo dim yn cael ei basio heibio yn yslyfenlyd, na dim yn cael ei gymeradwyo a'i dderbyn oddiwrtho ef yn anmherffaith. Bydd hyn yn boenus i'r plentyn ar y cyntaf, mae yn wir, ond ni phery ef felly o hyd. Wrth fod yn ddiwyd i'w hyfforddi mewn amynedd, fe orchfyga y meddwl yn raddol ei hen arferion dioglyd ac ysmala; ac fe reddir ynddo yr ymarferiad o fanylder a gofal, ac felly, o'r diwedd, fe fydd gwneyd a deall pob peth yn berffaith wedi myned megys yn ail natur i'r dyn, a'r hyn oedd unwaith yn boenus wedi troi yn bleser iddo. Nid all ef wneyd dim ond felly. Mae ei reddfu fel hyn mewn cywirdeb gyda phethau cyffredin yn ben y ffordd tuag at ei gael yn ddyn cywir a ffyddlawn gyda phethau uwch eu natur na hwy. O leiaf, bydd yn rhyw fantais i hyny fod yr ymarferiad neu yr *habit* o fanylwch wedi ei ffurfio ynddo. Ac o'r ochr arall, chwi a ellwch beri niwed, hwyrach, anfddyginiaethol i'w feddwl, yn yr ystyr hwn, os caniatëwch chwi iddo fod yn ddiotal ac anghryno gydag ymarferiadau ei febyd. "Y plentyn yr hwn a oddeir o ddydd i ddydd i fyned ymlaen yn arwynebol ac anghywir gydag un rhan o'i addysg, a duedda," medd un gŵr, "i ymddwyn yn gyfelyb gyda golwg ar gangenau eraill o honi, ac fe gyrhaedda ei ddiotalwch hyd yn nod i'w chwareyddiaeth. Ond nid yw

hyny ond y rhanau lleiaf o'r niwed. Unwaith yr ymffurfio yr arfer ddrwg o anfanlder ynddo, hi a lygra ei ddull ef o ymddyddan, a'i gwna yn fwy diystyr o'r gwirionedd, ac a'i gwanycha yn ei ddyledswyddau moesol; i'e, fe'i dilyna ef i'r addoliad cyhoeddus, ac a ddifwyna ffrwythau boreuol ei grefydd a'i dduwioldeb."

Yn ychwanegol at hyn, ni a allwn sylwi y dylem roi arbenigrwydd i fanlydod mewn crefydd ac ymddygiadau da yn ein haddysgiadau. I'r graddau ag y byddo oedran y plentyn yn caniatáu, mae yn ddyledswydd arnom, nid amaethu ei feddwl yn unig, ond dysgyblu ei galon a'i gydwybod hefyd; bod yn fanylaidd yn hyn fel mewn pethau eraill; dangos drwg iddo yn y pethau hyny pa rai, mae lle i ofni, a ystyrir gan laweroedd yn fychain a diniwed, megys mân-gelwyddau, chwiw-ladradau, pob anghywirdeb, creulondeb, a chastiau twyllodrus; ac ymdrechu i'w gynnefino o'i febyd ág ymddygiadau syml a didwyll. Gwir yw fod effeithiolrwydd yr addysg oreu yn ammheus wedi y cwbl; ond, beth er hyny? y mae y canlyniadau o'i hesgeuluso hi yn sicr. "Y wialen a cherydd a rydd ddoethineb," medd Solomon; "ond y mab a gaffo ei rwysg ei hun a gywilyddia ei fam. Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi." Onid oes lle i ofni, pan y byddo plant yn troi allan yn anfoesol a drwg eu harferion, fod hyny yn dygwydd yn aml, nid er, ond yn hytrach o herwydd, eu magwraeth? Mewn llawer o esiamplau, effaith naturiol ydyw o'r dull y cawsant eu dwyn i fyny. Mae rhieni eu hunain yn rhy ddiffygiol o'r manyldra ag y buom yn son am dano. Meddyliwch, er esiampl, gymaint o ryw anghywiredd mewn pethau bychain a disylw sydd yn rhedeg drwy ymddygiadau llawer yn eu teuluoedd. Chwi a gewch rieni, weithiau, a dwyllant eu plant yn bwrpasol er mwyn ymddigrifo yn eu hygoeolled. Wrth gwyno iddynt pan yn ffin, gwneir hyny mewn ffordd o achwyn ar eraill am wneyd cam â hwy; a dielir drostynt weithiau ar yr offeryn marw a'u doluriodd. Mynych, yr ydym yn ofni, y gweithir ar eu hofnau drwy fygythion gau, ac y porthir eu dysgwyliadau ág addewidion celwyddog. Hyd yn nod wrth gymhell ei physygyriaeth ar y plentyn bach, fe sicrhëir iddo, lawer tro, ei fod yn felus a hawdd ei gymeryd, pan y mae ei archwaeth ef, y fynyd nesaf, yn ei argyhoeddi fod ei fam ei hunan yn dyweyd celwydd wrtho. Mae swm anferth o ddrygfoesau o'r fath yma yn ein gwlad; ac er fod y gydwybod galed a thywyll wedi cynnefino â hwy, ac yn edrych arnynt yn fychain a diniwed, eto, y gwirionedd yw, mae eu pechadurusrwydd yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd, a'u heffeithiau ar ein plant a'r rhai sydd o'n cwmpas yn dra niweidiol. Dywedir fod Robert Hall mewn cwmni unwaith, pan, ymysg eraill o'r ymwelwyr, yr oedd boneddiges yr hon oedd yn fam yn bresennol; yn y man ymneillduai hon dros ychydig amser i'r dyben o roi ei lodes fach, bedair oed, yn ei gwely. Wedi dychwelyd ymhen oddeutu hanner awr, gywedai wrth un o'i chyfeillion, "Mae hi wedi myned i gysgu; mi a roddais fy nghap nos am fy mhen, ac a orweddais yn ei hymyl, a hi a syrthiodd yn ebrwydd i gswg." "Esgusodwch fi, madam," ebe Mr. Hall, yr hwn oedd yn gwrando yr ymddyddan, "a fynech chwi i'ch plentyn dyfu i fyny yn gelwyddog?" "Och fi, syr, na fynwn; mi a arswydwn feddwl y fath beth." "Wel, goddefwch i mi ddyweyd wrthyhych," ebe yntau; "mae yn rhaid i chwi beidio byth ag *actio* celwydd o'i blaen hi; mae plant yn bur gyflym eu sylw, a buant y dônt i wybod fod y peth ag sydd yn cymeryd arno fod yr hyn nid yw yn gelwydd, pa un bynag ai mewn gair

ai mewn gweithred y byddo." Dywedai hyn gyda thynnerwch ag oedd yn attal tramgwydd, ac eto gyda difrifwch nad anghofwyd byth.

3. Ymarferiad arall ag y dymunem gydag awyddfryd pryderus ei gymhell ar ein cydgenedl, ac yn enwedig ar ein hieuenctyd anwyl a hoff ydyw, yr ymarferiad o gymedroldeb ac iawn lywodraethiad y blysiâu anifeilaidd. Mae y sobrwydd, yr hwn a gymhellir arnom yn y Testament Newydd, yn cyrhaedd dros yr holl natur,—ysbryd, enaid, a chorff. Arwydda ddyn a chanddo ynddo ei hunan feddiant arno ei hunan: pob gallu, pob teimlad, tymher, a blys, yn ein natur, â'r ffrwyn yn eu gweflaw, ac awenau hòno yn nwyllaw cydwybod a barn, tra y mae cydwybod a barn eu hunain o dan lywodraeth gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd. A chymeryd sobrwydd yn yr ystyr eang yma, mae argyhoeddiad dynion difrifol yn dyfnhâu o hyd, fod lle mawr iddo gynnyddu hyd yn nod ymysg proffeswyr crefydd. Mae cymdeithas fel pe byddai wedi rhedeg i ddau eithaf gwahanol; moethau ar y naill law, a thrueni ar y llall. Mae y dosbarth cyntaf, yn ein gwlad a'i threfydd poblogaidd, fel y llong odidog, i'w gweled yn nosio rhagddynt mewnllwyddiant; ond yn nosio uwch ben y fath ddyfnderoedd lleidiog o anwyb- aeth a thrueni ag sydd tu hwnt i bob dychymyg. Tra mae y cybydd yn tyru golud, a'r moethus yn pesgi ei hun ar fwydydd a diodydd cryfion—ein benywod hwythau yn gaethion i ffasiynau yr oes, ac yn byw bron i orwychu eu personau, ac i addurno eu tai—mae lliaws yn y dosbarth isaf o gymdeith- as, ar y llaw arall, wedi suddo islau yr anifail ei hunan. Erbyn ond i ym- ylon y gorchudd gael eu codi oddiar eu hwyneb, y mae y fath anfadrwydd o drueni a barbareaidd-dra yn dod i'r golwg, fel ag y mae y llywodraethwr a'r dyngarwr, y cristion a'r athronydd ynghyd, yn troi oddiwrtho gyda dychryn ac arswyd. Eto mae gobaiith i Brydain yn y peth hwn. "Nis dylem byth," medd un ysgrifenydd, "anghofio fod i'r oesoedd hyn," nid yn unig amddiffyniadau, ond ffynnonau o adnewyddiad yn agored, y fath nad oedd yr oesau cyn Cristionogaeth yn meddu arnynt. Yr un dynion ag sydd yn fwyaf gwastraffus yn eu gwaith yn addurno eu hanneddau eu hunain, ydynt yn aml y rhai blaenaf i ddarparu gwell tai, ac i ddysgu gwell flordd o fywyd teuluaidd, i'r tlodion. Mae yr oll o'r natur yma fel halen i gymdeithas, pa un hebddo a fuasai yn cyflymu i lygredigaeth; ond y mae y drwg er hyny (moethau a gwastraff) mor anferthol, a'r tueddiad iddo mor bender- fynol, fel ag yr ydym yn credu nad oes dim ond fflangellau lawer o law rhagluniaeth yn ddigonol i'n hiachau. Pa nifer o'r fflangellau hyny a raid i ni eu dyoddef, a pha mor drymion mae yn rhaid iddynt fod, a ddibyna ar y dull ymha un y cymerwn ni rybudd, ac ar nerth y rheolaeth ag y dichon crefydd ein galluogi i'w hymarfer ar dueddiadau i ba rai y darfu i hen drigolion y byd ar unwaith aberthu eu hunain a'u bywyd cymdeith- asgar."

Onid allwn ni obeithio, erbyn hyn, fod un o leiaf, o brif ddrygau yr oes, wedi derbyn ei ergyd marwol? Yr ydym yn meithrin yr hyder fod syn- iadau cymdeithas, yn araf deg, yn newid o barth i'r diodydd cryfion; a bod y dull cyson o'u defnyddio hwy, yr hyn yn ddiammheu a arweiniai filoedd i feddwod a phob gormodedd, bellach yn ddirmygus yn ngolwg dynion, ac yn syrthio yn brysur o ymarferiad. A gawn ni, ynte, attolwg arnoch chwi sydd yn rhieni, am ddwyn eich plant i fyny yn ddirwestwyr da? "Cyhyd ag na byddom ni byth yn arfer y diodydd meddwol, yr ydym, wrth gwrs, yn ddiogel oddiwrth y perygl o'u camdefnyddio hwy; a phan

yr ystyriom mor fawr, mor amrywiedig, ac mor swynol ydyw y perygl hwnw, ymddengys mai rhan doethineb ydyw dysgu ein pobl ieuainc i'w ochelyd yn hollol. Ac yn wir, nid yw y ddyledswydd gymhwys hon yn cael ei chyfyngu i'r ieuencyd yn unig. Gwyddom yn dda y bydd raid cyd-ddwyn llawer â hen arferion sefydlog dynion wedi myned ymhell ar eu dyddiau; eto pan ystyriom y fath dorfeydd anferth o'n cyd-ddynion sydd yn syrthio beunydd yn aberthau i'r diodydd meddwol; pan edrychom ar gynnuliad ofnadwy yr elusendŷ, y gwallgofdŷ, a'r carchar—yr hyn allan o bob dadl sydd yn effaith y diodydd hyn; pan gariom ein golygiadau ymhellach, a meddwl am y miloedd, ie, y miliynau, pa rai ag y bu y gwlybyroedd alcoholaid yn foddion i'w suddo (fel mae genym le i greu) i ddyfnder-odd diwaelod tragwyddol drueni—dilys ydyw fod genym ddigon o resym- au i'w gadael heibio yn hollol." Wrth ystyried fod syniadau o'r fath yma yn cael eu cyhoeddi bellach yn gyffredinol yn Lloegr, a hyny gan bendefigion ac awdurdodau y wlad, a ydyw yn ormod i ni apelio atoch chwi, y dosbarth mwyaf crefyddol ac anrhydeddus yn Nghymru, am eich dylanwad a'ch cynnorthwy yn y diwygiad mawr hwn? Mae y werin yn ymdrybaeddu mewn meddwod ac anghymedroldeb; ac eto er ys blyn- yddau bellach yn arwyddo yn ffin o'u sefyllfa; ceir lliaws o honynt yn y dyddiau hyn, fel yr anifail mud yn y gors, yn dychlamu ac yn ysboncio mewn pryder, ac yn gwneuthur ymdrechadau gorchestol yn wir i geisio ymlusgo o honi i dir sych. A wrthodwch chwi estyn llaw o gymhorth iddynt, hyd y goddefo iechyd ac amgylchiadau i chwi wneuthur hyny? Onid ceidwaid eich brodyr ydych chwi? "Don't blink that question now," medd *Professor Miller*. "You may put it aside; but you cannot put it away. It will, it must, come again; if not before, it will confront you on 'that day' when all power of settlement is for ever past." Digon tebyg ydyw fod anghymedroldeb yn dechreu yn llawer cynt nag y mae dynion yn chwannog i feddwl. Mae yn ffaith anwadadwy, pa fodd bynag, fod yr ymyfwyr mwyaf cymedrol o'r diodydd alcoholaid, os yn eu harferyd yn gyson, yn yfed llawer mwy na'r dirwestwyr; ac felly hefyd y gwnai y dir- westwyr eu hunain, cyn gadael y gwlybyroedd hyny, a chyfyngu eu hunain yn unig i'r dwfr glân fel eu diod gyffredin. Pa beth a feddylwch chwi o hyny? Onid yw yn alwad i wylidwriaeth? Sier yw fod yn y pethau hyn demtasiwn beryglus i laweroedd, a bod eu hudoliaeth a'u swyn yn alluog i ennill, ie, ar y goreu o ddynion, a hyny yn ddjarwybod iddynt. A ydych chwi yn teimlo eich hunain yn myned hoffach, hoffach, o'r diodydd cryfion? A oes yna rywbeth fel yn dysgwyl am danynt yn eu hamser? A ydyw yr ymddifadwydd achlysurol o honynt yn myned yn fwyfwy blin i chwi? Ac yn enwedig, a oes yna ddirgel duedd yn cryfhau o'ch mewn i'w hyfed yn fwy mynych, ac i ychwanegu y dogn arferol mewn trefn i gyrhaeddyd yr un effeithiau? Wel, croeswch eich hunain, fel y dywed y Pabyddion; neu yn hytrach, fowch at Grist croeshoeliedig; mae y diafol —y diafol o anghymedroldeb—gerllaw. Nid yw dyn ddin yn gweled ei berygl yn aml nes dyfod o hono. Ac y mae yn ddiammheu genym pe byddai dynion fel hyn, yn enwedig dynion crefyddol, ond yn llwrymattal- wyr yn unig am ychydig o amser, y byddent wrth edrych yn ol, a chofio eu hymarferiadau presennol gyda y diodydd cryfion, yn teimlo, yn yr olwg ar eu perygl, a'u rhagluniaethol waredigaeth, gydnabyddiaeth yn meddiannu eu calonau, a hono yn llawn o arswyd a braw,—yn gyflfelyb i'r dyn a elai

drannoeth y bore i adolygu y clogwyn ofnadwy, dros yr hwn na bu ond y dim rhyngddo â syrthio y noswaith o'r blaen.

Mae eto rywogaeth o anghymedroldeb ag y gallem gyfeirio ato, oddiwrth ba un, os yw bosibl, y mae ein peryglon yn fwy dychrynlyd fyth, yn enwedig peryglon ein pobl ieuainc. Byddai dyweyd ei fod yn fwy ffynadwy ymysg y Cymry nag mewn parthau eraill o'r wlad yn hollol anwir-oddus a disail. Ac eto mae yn rhaid cyfaddef bod rhyw warthnod wrtho ei hunan arnom fel cenedl yn y peth hwn. Mae hen arferion wedi dwfn reddfu yn ein plith, pa rai sydd yn anafu llawer o'n hieuenctyd o bryd i bryd; ac y mae yn ddigon sicr i chwi, tra byddo yr arferion hyny yn parhau, na bydd purdeb hyd yn nod y dosbarth mwyaf gobethiol o honynt byth yn ddiogel. Mae yn ddiammheu y dylai rhieni, ac athrawon ieu-enctyd yr oes, fod yn ddyfal iawn i feithrin rhinwedd yn eu meddylian wrth eu dwyn i fyny; amcanu at reoleiddio eu cymdeithas â'u gilydd, a'u cadw hyd y mae yn bosibl o'u mabandod oddiwrth bob ymddyddanion ac ymarferiadau llygredig, pa rai sydd yn tueddu i galedu y gydwybod, ac i ddinystrio gwylder a phob iawn deimlad o'u mynwesau, ac felly yn eu rhagarotöi i syrthio yn ysglyfaeth i demtasiynau y cnawd. Gofynai lodes fach unwaith i'w nain, pan oedd y tŷ yn llawn o ddeyethriaid, "Sut yr awn ni i gysgu hene, nain?" i'r hyn y prysurodd gŵr ieuanc ag oedd yn bres-enrol i ateb, yn rhy gellweirus, mae yn wir, ond mewn dull ag y buasai lliaws yn Nghymru yn ei ystyried yn berffaith ddiniwed. Ond nid felly y plentyn, pa fodd bynag. Yr oedd hi wedi ei chadw yn wastad gan ei mam ymhell o gyffiniau pobpeth croes i wylder a choetheiddrwydd, a'i dysgu i edrych ar bob gair yn y cyfeiriad hwn yn hollol anweddaidd i giustiau benyw; ac ama hyny hi a syllai yn wyneb yr atebwr gyda syndod a chwithdra. Pan gafodd gyfleusdra, adroddodd yr hanes i'w mam; yr hon, wedi clywed, a basiodd y peth heibio gyda sylw byr, ond o natur mor gyrhaeddgar, a chydag ysbryd mor hallt, fel y diflanodd y gŵr ieuanc o dan y cerydd, a dywedai nad anghosfodd byth mo'r amgylchiad. "Gellwch fel hyn," meddai Philip Henry, mewn llythyr at un o'i ferched, ar ei gwaith yn ffurfio cyfeillach â dyn ieuanc—"gellwch fel hyn (meddai) roddi eich cymdeithas i'r gŵr ieuanc yn achlysurol, ond gofalu am wneuthur felly mewn amser, dull, a than amgylchiadau priodol; yn angen i hyny, megys nas gofynir o'i du ef, felly ni ddylai gael ei ganiatáu o'ch tu chwithau." Yr ydyn yn crybwyll yr hanesion bychain yma fel esiampl i benau teuluoedd o'r hyn y cymhellem hwynt iddo yn y llinellau uchod. Ewch chwithau, rieni, a gwnewch yr un modd. Byddai hyny, yn ddiammheu, pe ceid ef yn gyffredinol drwy deuluoedd ein gwlad, yn llawer o wywdra i'w hen arferion llygredig hi, ac yn ddiogelwch mawr ar anrhydedd a moesau ein pobl ieuainc. Gadawn hyn, gyda dyweyd wrthynt hwy, "Chwantau ieuentyd, ffio oddiwrthynt." Mae eu swynion yn;fawr, ond eu heffeithiau yn adgas a dinystriol i gorrff ac enaid. Diar. v. 5—23. Cofiwch fod pob tro ag y gorchfygwch chwi y demtasiwn, yn gwanychu y tueddiadau llygredig, ac yn chwanegu nerth at eich rhinwedd. Wedi i chwi unwaith ymsefydlu mewn rhyw ymarferiad rhinweddol, bydd yr ymarferiad hwnw drachefn, yn y canlyniad, yn troi yn swer i chwithau yn erbyn y drwg; fe ä y demtasiwn iddo yn wanach, wanach, yn ei hymosodiadau arnoch, a'r meddwl yn gryfach, gryfach, i'w gwrthwynebu. Yn y gydwybod a'r meddwl, yn ddiau, y mae llywodraethiad y blysiâu corfforol i ddechreu; ac yn wir, hwynt-

hwy, trwy ras Duw, fel y dywed un awdwr, sydd i'w cadw yn eu lle o hyd. Ond bydd yn hawdd, mewn cymbariaeth, iddynt wneuthur hyny, wedi i chwi unwaith ymsefydlu mewn ymarferiadau cymedrol. Fe gyll yr archwaeth ei orchwant i ddanteithion, ac fe ddaw y cylla i ymwrthod yn naturiol â phob gormodedd, ac fel hyn yn fuan, ni chaiff dyn cymedrol ond ychydig o drafferth gyda'i fysiau anifeilaidd.

4. Y rhinweddau nesaf a grybwyllwn ydyw yr ymarferiadau o ddiwydrwydd, cynnildeb, a rhagddarbodaeth. Mae y pethau hyn goruwch y creaduriaid direswm, ni a wyddom. Ynghylch yr anghen presennol y maent hwy yn ymdeimlo yn gwbl. Neu os oes rhai o honynt yn ddiwyd i ragddarbod gogyfer â'u hanghenrheidiau mewn tymmor arall, eto ysfa y fynyd yn unig sydd yn eu cymhell i hyny, ac nid un amcan gyda golwg ar y dyfodol. I ddyd, a neb arall, y perthyn rhagddarbod yn ddeallus: mae efe yn alluog, nid yn unig i ymdeimlo â mwyniant y fynyd bresennol, ond hefyd i edrych ymlaen, a chrynhöi ei egni a'i holl ymadferthoedd at y gorchwyl o sicrhâu iddo ei hunan ddiogelwch a mwyniant, mewn amgylchiadau ag y mae yn rhagweled ei hunan ynddynt. Ac eto mae pechod wedi anmharu dyn yn fawr yn y peth hwn. Os caiff ei adael yn gwbl iddo ei hunan, i bleser y fynyd yn unig yr ymrodda yntau. Ië, y mae mor ddiystyr o amgylchiadau dyfodol, a hyny yn aml gyda golwg ar y byd hwn, yn gystal a'r hwn a ddaw, fel y cawn ef, yn y Bibl, yn cael ei anfon at y creadur direswm ei hunan i ddysgu y gwersi buddiol o ddiwydrwydd a rhagddarbodaeth. Mae yn syndod meddwl mor ddwfn y gall dyn suddo i'r syfrdandod hwn. Dim ond i chwi ei fagu ef yn anwybodus, a gwastraffus, a dioglyd ei arferion, ac iddo yn y canlyniad syrthio yn gaethwas i'w chwantau drygionus, ac fe fydd dyn bron yn gwbl mor ddiddarbod drosto ei hunan â'r anifail. "Godineb, a gwin, a gwin newydd, a ddwg y galon ymaith," medd y prophwyd. Meddylwch, er esiampl, am gyflwr llaweroedd yn y wlad hon. Er eu bod yn wastad mewn tloedi, ac ar adegau yn syrthio i gyfyngderau dirfawr, eto maent o hyd yn glŷnu wrth eu hen arferion anhrefnus; y fynyd y byddo y wasgfa drosodd, ac iddi wella gronyn ar eu hamgylchiadau, chwi a gewch eu gweled yn gymhwys fel cynt, yr un mor afradus a gwallgof gyda eu chwantau pechadurus—neb yn meddwl am ddarbod dim erbyn awr o gyfyngder. Mae y fath yma o bobl bob amser, naill ai yn gwastraffu ai yn llewygu; ac er i chwi eu pwyo mewn mortar â phestl ymhlith gwenith, eto nid ymedy eu ffolineb â hwy. Ddoe yr oedd y dyn heb damaid o ymenyn i'w roi ar ei fara; heddyw mae yn ei ddwbio arno fel y mortar ar y briddfaen: tybiech na welodd efe anghen erioed. Yr wythnos ddiweddaf, nid oedd ganddo prin farworyn o dân ar ei aelwyd; yr wythnos hon, mae yno ddigon, fel y dywedir, i rostio eidion; a'r holl reswm am y gwahaniaeth ydyw, bod rhywun mwy haelfrydig na'u gilydd wedi rhai cant neu ddau o lo i'r dyn mewn ffordd o elusen; a dyna fe, edrychwch arno, yn ei losgi ef fel pe bae ganddo gan' tunnell o hono, neu fel pe mai ei afradu a fyddai y ffordd i'w wneyd ef yn fwy. Yr ydych yn son am fwy o ryddid a llywodraeth i'r bobl. O! na chaem ieuencyd un oes o dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr i ddechreu! O! na chaem un genedlaeth o rieni a phenau teuluoedd yn medru "llywodraethu eu tai eu hunain yn dda, yn dal eu plant mewn ufudd-dod, ynghyd a phob onestrydd—heb gael y gair o fod yn afradlawn nac yn anufudd!" Wrth ddywedyd hyn, peidiwch a meddwl ein bod ni yn diystyru iawnderau neb mewn gwlad nac eglwys. Ond y mae yn rhydd

i ni ddywedyd, er hyny, am y diog a'r diddarbodus, nad yw ei lwyddiant ef ddim yn dibynu ar y pethau hyn. Mae yn rhaid i chwi waredu hwnw a'i iawnderau o feddiant ei chwantau gorthrymus, a'i ddrwg-arferion ei hunan, cyn y symudwch chwi wir achos ei drueni. Rhaid gwella y dyn mewn trefn i wella ei amgylchiadau.

Ond i fyned rhagom. Mae crefydd, ni a wyddom, yn dysgu dyn i fod yn rhagddarbodus. Y peth cyntaf a wna hi ydyw ei godi ef i ragddarbod erbyn tragywyddoldeb, ac y mae hyny ynddo ei hunan yn tueddu i'w wneyd yn fwy meddylgar am bethau amser. Yr un difrifwch ag sydd yn ei ddysgu yn y byd hwn i barotöi at y byd a ddaw, a'i dysg ef hefyd yn y naill amgylchiad ar ei oes i ragddarbod gogyfer äg amgylchiadau eraill; megys mewn ieuencyd ar gyfer henaint, ac mewn iechyd a llwyddiant erbyn yr amser pan y byddo adfyd a chystudd wedi ei oddiweddyd. Ac nid hyny yn unig, ond y mae crefydd hefyd yn athrawiaethu y pethau hyn yn bendant. Yn y Bibl maent yn ddyledswyddau, heb ddim llai nag awdurdod Duw yn rhwymo y dyn i'w cyflawni. Yno, chwi a gewch fod y llwyddiannus yn cael ei alw i achub ei gynauaf, ac i roddi tipyn heibio erbyn amserau gwahanol; a'r dyn ieuanc yntau yr un modd i ymbarotöi yn ei sefyllfa sengl erbyn dydd ei briodas. "Darpara dy orchwyl oddi-allan," medd Solomon, "dosbartha ef i ti yn y maes; ac wedi hyny adeilada dy dŷ;" hyny yw, prioda dy wraig, ac ymsefydla yn y sefyllfa deuluaidd. "Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth. Nid oes ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, nac i'w feistrolï; ac er hyny mae efe yn parotöi ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynauaf." Yn y Testament Newydd, drachefn, mae yr annogaethau i ofal a diwydrwydd gydag amgylchiadau bydol yn rhyliosogi'w crybwyll. Cymrwch yn unig eiriau hygof yr Arglwydd Iesu ar y mater. Ynddynt, mae yn dysgu ei ddysgybllion hyd ddiwedd amser, yn lle gwastraffu rhoddion rhag-luniaeth, i edrych am eu defnyddio yn sobr, a gofalu am arfer cynnildeb, hyd yn nod pan y byddont yn nghanol rhadlonrwydd a digonoldeb. "Cesglwch," ebe efe, newydd borthi miloedd äg ychydig fara—"cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim." Dyma ei gyfraith ef i'w ganlynwyr. Aneirif yw yr achlysuron ag y gallem ei chymhwyso hi atynt gyda mantais i ni ein hunain a'n teuluoedd. Ni a obeithiwn nad diystyr genych, rieni, fydd dysgu eich plant yn yr ymarferiad hwn—cario allan gyfraith y Gwaredwr i'r manion lleiaf. "Na choller dim." Bydded hyn megys arwyddair y teulu. Llosgwch bob canwyll hyd at y canwyllbren heb ei gwastraffu—fel na choller dim. Os yw y llinyn sydd yn rhwymo y sypyn nwyddau a ddaeth i'ch llaw heddyw yn werth yr amser i'w ddatod, peidiwch a'i dori—fel na choller dim. Ac yn lle dyfetha, hyd yn nod y papyryn diwerth sydd ar y llawr, parotöwch ef i gynneu y tân, neu i oleuo na ganwyll; ie, cedwch y gweddill o hono i'w goleuo hi drachefn—fel na choller dim! Ni a welsom rai cyn hyn mor annyoddefol eu teimlad i wastraff, fel, os na byddai dim gwell i wneyd äg ef, y bwytäent y tamaid a fyddai yn ngweddill e'r ymborth, bron heb ei eisieuo, yn hytrach na gadael iddo fyned yn ofer. Ac wedi gwneyd hyny, byddent yr un mor ofalus, drachefn, am gario y briwsion i'r aderyn bach, fel na byddai i ddim gael ei gollï. Mae yn beryglus, yr ydym yn addef, rhag i ymarferiadau cynnil fel yma lithro i gybydd-dod a chrintachrwydd. I'n cadw rhag hyny, dylem, nid yn unig ymofyn am bethau gwell i'n serchiadau na phethau y byd hwn, ond

ymarfer ein hunain hefyd i elusengarwch a haelioni gyda hwy. Ië, yn ol y cyfarwyddyd ysgrythyrol, gwneud hyn yn gymhelliad i'n llafur,—“gweithio â'n dwylaw yr hyn sydd dda, fel y byddo genym beth i'w gyfranu i'r hwn y mae anghen arno.” Wel, ynte, penderfynwch yn eich meddyliau y dylai pob dyn, beth bynag yw ei sefyllfa, fod nn gynnill; byw islaw ei ardreth, a pheidio gwario ceiniog yn ofer. “Mae yn rhaid i ni oll gofio,” medd un awdwr, “fod einioes yn llawn o gyfnewidiadau, ac'nad yw mewn un modd yn ddiogel rhag cyfyngderau. Er diogelwch, gan hynny, dylai pob dyn, o'r gwael i'r gwych, os yw bosibl, ddarparu tipyn wrth ei gefn. Mae yr arferiad o roi rhywfaint heibio o'n cyllidau, pa mor lleied bynag fyddo ei swm, yn un ag y dylai pobl ieuainc, ië, a phlant hefyd, gael eu hyfforddi ynddi yn ofalus.” Ac meddai drachefn, “Mae trefnidaeth yn ein dysgu i gynnulo y gyfymran hōno o'n cyllid ag y mae ein hamgylchiadau yn ei gyfiawn ofyn: geilw hefyd am y fath ofal a doethineb, y fath gywirdeb ac iawn reolaeth yn ein treuliadau personol a theuluol, yr hwn a edy i ni weddill teilwng, i ateb i alwadau haelioni er dygiad ymlaen leshād tymmorol ac ysbrydol ein cyd-ddynion. Trefnyddwr (*economist*) da yw hwnw, mewn ystyr arianol, yr hwn a gasgla yn ddigonol, a waria yn ddoeth, ac a gyfrana gyda barn, parodwydd, ac effaith.”

Wrth ddarfod â hynyma, ni a ddymunem annog pobl ieuainc yn neillduol i benderfynu, hyd ag y mae ynddynt, i gadw eu hannibyniaeth. Gweithiwrch drwy lonyddwch, a bwytechw eich bara eich hunain. Chwi a ellwch fod yn sicr nad digysur i chwi mewn henaint fydd cofio, wrth adolygu eich heinioes, ddarfod i chwi fyned drwy y byd heb fenthyca, na chardota, na phwyso ar neb; bod y dwylaw hyn, fel y dywedai yr Apostol, wedi gwasanaethu i'ch cyfreidiau chwi a'ch teuluoedd. Mae yn gofus genym ddarllen rywbryd am yr hen Ddr. Johnson, pan yn efrydwr tlawd yn Rhydychain, y gwelid ef weithiau yn nyfnder y gauaf yn cerdded yn ÷ofn ar hyd yr heolydd a'i draed drwy ei esgidiau. Gwr boneddig, ar ryw dro, wedi sylwi arno felly, a osodai bār newydd yn ddystaw wrth ddrws ei ystafell. Yn y man dyma yr efrydidd esgyrniog allan, ac wele efe yn codi yr esgidiau i fyny; yn ysbio arnynt yn lled ddrwgdybus, a'r hunanymddibyniad ystyfnig yn dechreu llosgi yn ei fynwes. “Pa beth? pâr o esgidiau mewn sfordd o elusen! Na, nid felly ychwaith. Mi a fedraf wisgo esgidiau a'u safnau yn agored, yn yfed dwfr, ac yn bwyta llaca; ond dim begeriaeth i mi;” ac ymaith â hwy drwy y ffenestr. Balchder y cyfrifa y llwfrddyn diegni ymddygiad fel hyn. A llawer gwaith y clywsom ef yn ei gyhoeddi felly. Wrth weled ei gymydog tlawd yn gwingo ac yn rhoi pob gewyn ar ei eithaf i gadw ei annibyniaeth, yn hytrach na thafu ei hunan a'i deulu ar y plwyf, balchder yw y cyfan yn ei olwg ef: onid yw y plwyf, meddai, yn ddigon abl? Wel, pa faint o falchder sydd yn ymgymysgu â theimladau goreu dyn, nis gwyddom ni. Ond yr ydym yn sicr o hyn, fod y teimlad o annibyniaeth yn deimlad anrhydeddus, a hapus yw y gymdeithas hōno ag y mae yn ffynu ymysg ei haelodau. Os gwelwch chwi ddyn ieuanc wedi colli y teimlad hwn, ac yn dechreu ymgymmodi yn ei feddwl â bod mewn dyled, benthyca, a llygadrythu am elusen, chwi a ellwch gânu yn iach i'r dyn ieuanc hwnw; mae ei dynged ef wedi ei sicrhâu; un o gynblant segurddod a thlodi yw efe. Ac yn wir, nid oes dim mwy afresymol o dan y ffurfafen na gorfodi y diwyd i gynnal y fath un. Os nad yndrecha yn ol ei allu, bydded farw yn ol ei anghen. Dyma ddeddf Cristionogaeth ei

hunan, enw yr hon yw trugaredd a gras : “ X neb ni fyno weithio, na chaed fwyta chwaith.”

5. Nid llai gwerthfawr eto ydyw yr ymarferiad o ymddarostyngiad ac ufudd-dod. Yr oedd y rhinwedd yma mewn mwy o gyfrif yn y byd, dybygid, yn yr oesoedd a aethant heibio nag ydyw yn bresennol. Mae gorthrymder, o bosibl, wedi dinystrio y parch dyladwy i bob awdurdod. Os ydym yn iawn gofio ei sylw, mae y Dr. Vinet, y dwfnfeddyliwr hwnw, yn dyweyd yn rhyw ran o'i ysgrifeniadau—fod y gair ufudd-dod eto heb ei gollu o iethoedd y byd, ond bod y rhinwedd ei hunan, am ba un y mae yn sefyll, bron wedi diflanu o fysg ei drigolion. Awdurdod sydd yn ymddangos yn deg i blant dynion; ac o'u traserch i hwn, mae ufudd-dod wedi myned yn ddirmygus yn eu golwg. Ond, wedi y cyfan, i ufuddhâu, yn hytrach nag i lywodraethu, y crëwyd dyn. Iawn ymarferiad ei ewyllys yw ymddarostyngiad. Ac yn wir, ni ddylai dyn yngymeryd â lle o lywodraeth, hyd nes y delo hyny yn weithred o ufudd-dod ynddo, a'r ymwrthodiad ág ef yn anufudd-dod a gwrthryfel. A'r un ffunud wrth ymarfer ei awdurdod, drachefn, ufudd-dod a ddylai hyny fod mewn dyn. Hyny yw, cydwytbod i'w ddyledswydd, a theimlad o rwymedigaethau ei sefyllfa, a ddylai fod ei gymhelliadau i weithredu ac i ymarfer ei lywodraeth, ac nid cariad at awdurdod er ei swyn ei hun. Ysfa yw hwnw ag y dylem yn wastad ei farweiddio yn ein calonau. Mae yn wir nad ymddafostwng y cristion i neb ond yn ofn Duw. Ond y mae y Duw, yr hwn a'i gwnaeth ef fel hyn yn annibynol ar bawb, wedi ei wneuthur ef hefyd yr un amser yn was i bawb. Geilw am ymddarostyngiad oddiwrtho, nid yn unig i awdurdodau naturiol a gosodedig, megys rhieni, a llywodraethwyr mewn gwlad ac eglwys, ond hefyd i bob dyn. Mae ei ewyllys i fod yn aberthedig ynddo i ewyllys ei gydgrëaduriaid, a'i fywyd i fod yn un ystod o humanymwadiad i'w lleshâd. Beth lai na hyn a gynnwys y gorchymyn—“ Gan ymddarostwng i'ch gilydd yn ofn Duw ? ” Ond O ! mor bell yw ein hysbryd ni, ac ysbryd yr oes yr ydym yn byw ynddi, o'r tir hwn ! Mae yn rhaid ein haileni mewn trefn i'n dwyn iddo. Cofiw, er hyny, fod y Duw, yr hwn sydd yn gweithio dynion i hynyma, yn eu gweithio iddo trwy foddion; a'n dyledswydd ni ydyw, bod yn ddyfal i feithrin y tueddfryd hwn ynom ein hunain ac yn ein gilydd.

Dylai rhieni yn neillduol ofalu mewn pryd am berffaith fuddugoliaeth ar ewyllys eu plant. Dylent benderfynu y cwestiwn, ar unwaith—Pwy sydd i fod yn ben ? A dedwydd, yn wir, fydd y rhieni a ennillant, a'r plant a gollant, y fuddugoliaeth yn y frwydr hono. Byddai Hall o Bristol, medd yr haues, yr hwn a ystyriai yr awdurdod rienyddol yn batriarchaidd iawn, yn gofidio yn fynyth o herwydd y cyfnewidiad ag sydd wedi cymeryd lle yn ystod y deugain mlynedd diweddaf yn attaliadau a rhwymau yr awdurdod deuluaid : cynwai nad oedd dynion ieuainc yn awr ddim o dan yr un fath ddysgyblaeth a meistrolaeth â chynt : ac os oedd ein hen dadau, y Puritaniaid, yn rhy anhÿblyg, bod eu hiliogaeth, o'r ochr arall, yn rhy rydd. Hwyrach fod gormod o wir yn hyn ; ac mai dyma ydyw yr achos fod ieuencyd yr oes, yn gyffredin, yn hyfach eu hysbryd a'u harferion, ac yn fwy annyoddefol o bob iau. Pa fodd bynag, fe ellir gobeithio, os caiff plentyn ei ddal mewn ufudd-dod i'w rieni o'i febyd, y bydd efe, erbyn y tyfo i fyny, wedi ymreddfu yn y dymher hono, ac o ganlyniad, y bydd yr ufudd-dod dyladwy i bob awdurdod arall yn fwy naturiol iddo dros weddill ei oes.

Edrychwch arno ef yn yr ysgol, mae yn ufudd yno; a'r un modd, fel aelod o'r eglwys neu y wladwriaeth, mae yn parchu trefn a llywodraeth ymhob man. Ië, ni a allwn ychwanegu, a dyweyd mai yr ymarferiad hwn o ufudd-dod o'r mebyd ydyw y rhagbarotôad goreu a all dyn gael i iau yr Arglywydd Iesu ei hunan; ac nid yn unig i'r iau esmwyth hõno, ond hefyd i gyfarfod â holl amgylchiadau anhyblyg einioes, a meistrolaeth galed y byd hwn. "Da yw i w'r ddwyn yr iau yn ei ieuentyd," medd y prophwyd; "efe a eistedd ei hunan, ac a daw a son; am iddo ei dwyn hi arno. Efe a ddyry ei enau yn y llwch, i edrych a oes obaith. Efe a ddyry ei gern i'r hwn a'i tarawo; efe a lenwir â gwaradwydd." Cyfeiliornad mawr, gan hyny, mewn pobl ieuainc, yw edrych ar ufudd-dod fel peth gwasaidd ac isel. Pa beth! ai peth isel ydyw ymdebygoli i Iesu Grist? Ai peth isel mewn dyn, ac yn enwedig dyn ieuanc, yw ymwadu âg ef ei hun mewn trefn i foddhâu eraill? Ai peth isel yw caru Duw a'n cydgrëaduriaid? Na, chwi a addefwch fod y teimlad yma, o leiaf, yn deimlad anrhydeddus a dyrchafedig. Wel, mae ymddarostyngiad ac ufudd-dod yn hanfodol i gariad ynom ni, a hyny, nid yn unig i Dduw, ond yn enw Duw i'n cyd-ddynion hefyd. Byddwch sier, ynte, mai un o'r blodau prydferthaf yn eich cymeriad yw ymddarostyngiad. Pe baech chwi ond yn sylwi ar y byd o'ch cwmpas, chwi allech weled fod hyd yn nod y dynwardiad o hono, yn yr hyn a elwir yn foneddigeiddrwydd a moesgarwch, yn hoffus iawn i edrych arno, ac o'werth mawr i gymdeithas yn gyffredinol. Ac os yw yr ymddangosiad, fel y sylwa Robert Hall, o'r fath bwysigrwydd, pa faint mwy defnyddiol a fyddai y peth ei hun? Os yw dim ond y wedd o ostyngieiddrwydd o'r fath anheborol anghenrheidrwydd, fel pe hebodd nas gallai cymdeithas sefyll wrth ei gilydd, pa faint well eto y cai cydgoriad y byd ei gadw pe byddai yr ymostyngiad, yr anrhydedd, a'r parch a amlygir mor chwannog, yn wir bortrëad o'r galon? Wel, i hyn yr ydym yn eich cymhell, bobl ieuainc. Meithrinwch y dymher yma ar eich calonau; ac ymarferwch eich hunain i'r holl ymddygiadau llednais hyny, pa rai a gynhellir arnoch yn yr Ysgrythyrau. "Cyfod o flaen penwyni, a pharcha wyneb henuriad. Mewn cariad brawdol, byddwch garedig i'ch gilydd; yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd." Chwi a ellwch fod yn sier y bydd agweddau fel hyn ar eich ysbryd yn fwy dymunol i chwi eich hunain, ac yn eich gwneyd yn llawer mwy prydferth a hoffus yn ngolwg eraill, na'r fraethineb a'r hyfdra hwnw ag sydd yn hynodi llawer o ieuentyd yn yr oes hon. "Rhaid i ti fyned yn wir, Edward," meddai hen fam grynedig unwaith wrth w'r boneddig a adwaenem, pan yr ymwrthodai ag ymyryd mewn rhyw achos anhapus yn y gymydogeath,—*"Rhaid i ti fyned yn wir, Edward."* *"Wel, 'mam, os ydych chwi yn dyweyd y rhaid i mi fyned, mi a äf; ac onidë, nid äf fi ddim."* "Wel, yr ydwyf yn dyweyd y rhaid i ti fyned; a gwna dy oreu i gadw y cymydogion yn heddychol." Mae llawer blwyddyn er pan y dygyddodd hyn; ond ni ddarfu i ni byth anghosio yr amgylchiad, oblegid fe ymddangosai i ni mor dlws.

6. Y rhinwedd olaf a gymhellwn ni arnoch chwi yn bresennol ydyw—tymher ac ymddygiadau caruaid ac ennillgar. Nid peth yn perthyn i uwchafiaid yn unig ydyw boneddigeiddrwydd, cofwch. Beth arall mae yr efengyl yn ei gymhell ar ei deiliaid, pan y geilw hwynt i barchu pawb? "Byddai yn dda i ni," medd un awdwr, "holi ein hunain yn wyneb y gorchymyn hwn; oblegid yn wir yr ydwyf yn ammheu a oes un gwirionedd ag y

meddylir llai am dano, na'r un ddyledswydd yn llai adnabyddus na hon, hyd yn nod ymysg crïstionogion; i.e. ymysg y blaenaf o'r rhai yr wyf yn eu cyfarch yn bresennol, fe ddichon fod llawer nad ydynt erioed wedi ystyried y mater." Diammheu fod llawer o wirionedd yn y sylw hwn. Ychydig, mewn cymhariaeth, ydyw nifer y crïstionogion hyny, pa rai y mae eu cynnydd mewn amaethiad a chrefydd mor fawr fel ag i gyrhaedd y lled-neisrwydd hwnw mewn tymher ac ymddygiad yr hwn a gymbhellir arnom yn yr efengyl. Er bod yn grefyddol, y mae y lliaws, rywfodd, yn rhy bwl ac anghoethedig eu teimladau i ganfod dim prydferthwch yn y rhinwedd hwn, nac i ymdeimlo â hwy eu hunain fel créaduriaid anhawddgar ac euog o herwydd eu hymddifadurwydd o hono. "PERCHWCH BAWB." Nid talu rhyw addoliad i fawredd y byd, ond parchu dyn fel y cyfryw—y créadur a fawrhäodd Duw mor rhyfedd—ac felly parchu pob dyn: dyma y *politeness* y mae yr efengyl yn ei ddysgu i blant dynion. Ychydig, mae lle i ofni, yw ei hysgoleigion hi. Ond pwy bynag wyt ti, ddarllenwydd, a pha beth bynag yw dy amgylchiadau, cofia fod gan dy gydgrëadur ymhob sefyllfa—y tlawd yn gystal a'r cyfoethog—dy deulu cystal ag estroniaid—haw! i fwyneidd-dra tymher, ac ymddygiadau parchus, oddiar dy law.

Hwyrach y dywedir wrthym fod naws ei ysbryd a'i dymherau yn bethau annibynol ar ewyllys dyn; a bod yr un mor ofer dyweyd wrtho am fod yn llon, hoffus, a charuaid, ag a fyddai dyweyd wrtho am fod yn iach neu yn llwyddiannus. Ond ni a wyddom fod y Bibl yn dysgu yn amgenach. Mae efe yn gorchymyn y pethau hyn i ni, ac yn gwahardd y gwrthwyneb; mae yn siarad â dyn fel créadur cyfrifol yn yr achos yma—yn un â meddiant ganddo ar ei ysbryd ei hunan, ac un a ddylai, trwy ras Duw, geisio ei adnewyddiad ef. "Tyner ymaith oddiwrthyh bob chwerwedd, lliid, a dig, a llefain, a chabledd, ynghyd a phob drygioni. A byddwch gymwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist a'r chwithau." Yn y gair, fe'n gorchymynir i fod "yn dymherus, yn drugarogion, yn fwynaid; y gwyr i garu eu gwagedd, ac i beidio a bod yn chwerwon wrthynt; a'r hynafwagedd yr un ffunud i roddi athrawiaeth o ddaioni mewn tymher ac ymddygiad, fel y gallont wneuthur y gwagedd ieuainc yn bwylllog, i garu eu gwyr, ac i garu eu plant." Yr ydym yn cydnabod yn rhydd fod tymherau dynion, mewn rhan o leiaf, yn dibynu ar eu cyfansoddiad naturiol hwy; mae y gwahaniaeth sydd rhyngddynt a'u gilydd o'u mabandod yn ddigon i brofi hyny. Ar yr un pryd, er fod natur, fel hyn, wrth wraidd y gwahaniaeth, mae llawer o hono hefyd, nid oes dim dadl, i'w briodoli i amaethiad. Ein hamcan ni, gan hyny, yn bresennol, ydyw ymofyn pa fodd y mae i ni ymarfer ein hunain i dymherau da? Pa beth sydd genym i'w wneuthur tuag at hyny? Mewn atebiad i'r cwestiynau hyn, yr ydym yn dyweyd ar unwaith, y dylem, ymlaen pob dim, amcanu at gael llywodraeth ar ein hysbryd ein hunain. Pa mor gryf bynag y byddo ymweithiad ein nwydau drwg mewn temtasiwn, ni a ddylem, drwy ras Duw, ymdrechu i'w cadw mewn darostyngiad: gwylio na chaffont dori allan yn ormodol ar achlysuron felly, a rhoi eu tôn ar ein llais, eu lliw ar ein hwyneb, a'u hawch gwenwynig ar ein hymadroddion. "Creulawn yw lliid, fel lliiddwfr yw digofaint," medd y gair; mae yn barod i gario y cyfan o'i flaen; ac os gwir ydyw mai caniatâu iddo redeg allan mewn dull doeth a chymedrol yw

y ffordd oreu i dreulio ei nerth ef, ac i ddiogelu ein hunain oddiwrth ei ddrwg effeithiau,—eto, sicr yw nad oes dim yn galw am fwy o brysurdeb i'w darostwng, nag ydyw ymgynhyrfiadau digofaint yn ein mynwesau. "Dig-iwch ac na phechwch," medd y gair. Bydded yr amlygiad o'ch digofaint yn sanctaidd; yn tueddu, nid i'w ennynu, ond yn hytrach i symud yr achos o hono, ac felly i'w ddiffoddi yn ebrwydd yn y galon. Ymgedwch ynddo, yn gydwytbodol, oddiwrth y gair caled, y ffroen wawdus, y llygad a'r wên watworllyd a diglawn; mewn gair, oddiwrth bob dull ac ymddygiad trwy ba rai y gall ein nwydau terfysglyd arllwys eu hunain allan yn afreolaidd a phechadurus.

Sylwch ymhellach: os bydd dyn ar uurhyw bryd, pan y teimla yn annhymerus ei ysbryd, yn ymeginio yn erbyn hyny, ac yn gorfodi ei hunan i ymddwyn fel pe byddai mewn tymher wahanol,—dyweder, yn llon a charuaid,—os nad ydym yn camgymeryd yn fawr, mae tuedd yn yr egui hwnw i ddefro y teimlad priodol iddo ei hunan yn y synwes, ac i ddwyn y dyn o'r naill dymher i'r llall. Bwriwch eich bod chwi ar yr aelwyd, ryw noswaith, yn afrywiog a drwg eich anian; wel, dirgymhellwch eich hunain, yr amser hwnw, i edrych yn llawen, i ganu hymn, neu i gydymddyddan yn serchog a mwynnaidd gyda y teulu, ac yn ebrwydd iawn chwi a brofwch fod ysbryd y pethau hyn wedi disgyn arnoch;—bydd y Jonah anhydyn, a'r Nabal surillyd a thaiogaidd, wedi cilio o'r dymher, a thynerwch ac iawn deimlad wedi meddiannu eich mynwesau. Ac wedi gwneyd hyn unwaith, bydd yn haws ei wneyd drachefn; ac felly, yn raddol, fe ä y peth yn ymarferiad i chwi. Os yw hyn yn bod, i ryw fesur, O! mor euog yw y dyn sydd yn ei esgeuluso. Y dyn ag sydd beunydd yn gwenwyno ei hunan ä meddyliau drwg, ac yn cadw gwrthddrych ei ddygasedd o flaen llygad ei ddychymyg, a hyny hefyd, mae lle i ofni, o dan yr holl ddrygliw hwnw ag y mae gelyniaeth a malais ei galon yn ei osod arno; ac felly, yn lle marweiddio ei nwydau terfysglyd, mae, i'r gwrthwyneb, yn eu hennynu fwyfwy ynddo ei hun. O dan amgylchiadau o'r fath yma, nis gall lai na bydd holl droell naturiaeth, naill ai yn tori allan yn fflamau gorwyllt ar bob achlysur, neu ynte, yr hyn sydd yn llawn cân waethed, yn cael ei hysu a'i harteithio gan ryw fygedig a mudlosgiad parhâus. Mae y dyn weithiau yn ddywedwst, weithiau yn ddreng; weithiau fel y dymhestl aruthrol, ac weithiau fel y defni parhâus. Mae yn gwenwyno, cethru, lliidio, cnoi, ïe, ysgatfydd, yn profi rhyw foddhâd bustlaidd i'w feddwl yn ei waith yn poenydio rhai eraill; ac fel hyn, o dipyn i beth, wrth eu hir feithrin, mae y gwyniaid dieffig yma yn dwfn-reddfu yn ei dueddiadau, ac yn troi yn dymher sefydlog ei ysbryd.

Mae lle i ofni fod rhywbeth yn arferion llawer o deuluoedd ag sydd yn anffafriol i barbâd y serchiadau naturiol. Rhwng rhieni a phlant, pan yn fychain, mae llawer o anwyldeb yn pasio; ond fel y cynnyddant, mae hyny yn darfod i fesur mawr: y rhieni, o'u tu hwy, yn myned yn fwy oer a diserch at y plentyn, ac yntau, o'r tu arall, yn [fwy cywil-yddgar ac yswil o'i serchiadau tuag atynt hwythau, gan edrych arnynt megys rhyw feddalwch plentynaidd ac anwesog; ac felly, yn raddol, mae y tynerwch hwnw, pa un a ymddangosai mor dlws ynddo pan yn ieuanc, yn gwywo ymaith o'i dymher fel blodeuyn teg mewn hinsawdd annhymerus, ac yn ei adael i ymsefydlu mewn oerfelgarwch ac anserchogrwydd. Dengys Dr. Arnold, fod ysgolion y wlad yma yn effeithio yn gyffelyb ar ieuentyd.

"Onid syndod," meddai, wrth apelio at wŷr ieuaine yn yr achos, "yw meddwl eich bod wedi dysgu teimlo cywilydd o foddhâu eich serchiadau naturiol, ac yn neillduol o fod yn ymlyngar wrth eich mamau a'ch chwiorydd, ac yn hoff o'u cymdeithas? Yr ydych yn dychymygu mai bod yn llai na dynion a fyddai gadael i neb feddwl eich bod o dan eu dylanwad hwy; ac y mae arnoch ofn cael eich tybied yn hiraethu gormod am eu tynerwch a'u serchog diriondeb tuag atoch. Ac felly yr ydych yn ffugio dibrisdod a chaledwch, yr hyn, ar y cyntaf, nis gellwch ei wisgo heb ymdrech; ond y mae yr ymdrech yn cael ei wneyd, a hyny i ochel y cywilydd ffïol o gael chwerthin am eich penau o herwydd ymddangos yn rhy hoff o gartref. Mae yr ymdrech yn cael ei wneyd, ac yn cael ei barhâu, nes, weithiau, yr wyf yn ofni, ei fod yn darfod bod yn ymdrech, a'r oerfelgawch, yr hwn, ar y cyntaf, nad oedd ond arwynebol yn unig, yn dyfod, o'r diwedd, yn dymher naturiol.—Yna daw tymnor llafurus bywyd arnoch, a chwi a fyddwch yn myned i ranau eraill o'r byd, neu yn sefydlu ymhell o dŷ eich tad; y cyfeusderau i ddadwneyd argraffiadau drwg ac anserchog bore yr oes nid ydynt mwych yn gyrhaeddadwy; a'r oll ag sydd yn pasio rhwng tad a mab ydyw ychydig o lythrau, ac ychydig o ymweliadau byrion, hyd onid elwir ar y mab i gyflawni y weithred olaf o ddyledswydd, trwy ddilyn corff marwol ei dad i'r bedd."

Gresyn yn wir yw difwyno serchiadau natur fel hyn: meddwl an i ddrwg-anwydau, fel drain ac ysgall, dyfu i fyny a chadeirio yn nhymerau ein plant, a liadd blodau mor ddymunol! Pwy all edrych arnynt, yn eu holl ddiniweidrwydd a'u tlysi, heb ddymuno eu bod yn fendigedig? Yn holl naturiaeth, nid yw y Crëawdwr yn ymddangos yn decach nag ynddynt hwy. Onid allwn ni apelio atoch chwi, wŷr, ac atoch chwi, wragedd—rhieni a phlant;—onid ydych yn rhoddi pris mawr ar serchiadau y naill y llall? Eu colli a fyddai colli cysur einioes; colli eich gilydd cyn marw, a hyny yn llwyrach a chwerwach na thrwy farwolaeth ei hun. Wel, ynte, meddylwch am gynghor Solomon yn yr achos hwn; "Y neb y mae iddo gyfeillion, cadwed gariad." A sicr yw nad oes un ffordd well na mwy effeithiol i gadw cariad nag i bob un edrych yn ofalus am ymddwyn yn serchog a charuaid ei huan. Ni a gymerwn yn ganiatol y bydd eich cydwytodau yn eich rhwymo i gyflawni dyledswyddau pwysicaf cariad y naill tuag at y llall; ond bod yn ddiogel ac esgeulus yn y rhai lleiaf ydyw y perygl. Byddwch yn gyfeillgar a siriol. Gofalwch am ragori yn y cymwynasau bychain, a'r mân-ymddygiadau hyny, ag sydd yn gynnwys-edig yn yr ymadroddion—boneddigeiddrwydd a mwneidd-dra; yn ol iaith y Saeson, bod yn *civil*, yn *courteous*, yn *polite*. Mae hyd yn nod y dynwarediad o ymrafaelio yn beryglus. Ni a welsom gywion yr iâr weithiau, wrth gydymbigo a rhithymliadd yn chwareus, yn briwo eu gilydd, ac yn y diwedd yn troi i ymladd o ddifrif. A'r un modd y mae wedi diwedu rhwng cyfeillion lawer gwaith wrth dafu at eu gilydd a choegymerio. Pa fodd bynag, ni a allwn fod yn bur sicr o hyny, er na byddom yn cyfeirio y naill at y llall ond o ddigrifwch yn unig, ac yn berffaith ddi-niwed, mai mwy diogel yn wastad ydyw fod ymddyddanion chwareugar felly yn rhedeg yn hytrach mewn ffordd o ganmoliaeth a mawrhâd i'n gilydd—ond gochel gwenaeth—nag mewn ffordd o achwyn a beio. Oblegid fe all sylwadau o'r fath hyny, lawer tro, er eu gwneyd yn gwbl gyfeillgar, gael eu derbyn yn ddifrifol gan un arall; ac fel "pentewynion

tân, saethau, ac arfau marwolaeth," glwyfo a llosgi yn y fynwes, er i chwi fod yn dyweyd, ac yn dyweyd y gwir hefyd, "Onid cellwair yr ydwyf?" I ba ddyben yr ymwrthodwn ni â dull o siarad ag sydd ar unwaith yn fwy hawddgar ynom ni, ac yn fwy diogel i'n cyfeillion, ac ymarfer ein hunain i ymddifyru mewn ffordd a ddichon beri blinder, ac oeri cariad? A phaham y cymerwn ni fwy o ryddid yn y dull hwn ar ein cyfeillion mynwesol nag ar estroniaid? "Camgymeriad mawr," medd un awdwr, "yw tybied mai ein cyfeillion a'n cydnabod llai cyfrinachol, neu y cyfryw ag sydd ddyeithriaid i ni yn unig, a allant ofyn oddiar ein llaw yr ymarferiad o fwyneidd-dra. Dylai y rhinwedd hwn, *canys rhinwedd ydyw*, gael ei gario i'r agosaf a'r mwyaf cyffredin o'n perthynasau teuluaid. Heb rodes, dylai gwŷr fod yn foesgar a boneddigaidd wrth eu gwragedd, a gwragedd wrth eu gwŷr—rhieni wrth eu plant, a phlant wrth eu rhieni—gweision wrth eu meistriaid, a meistriaid wrth eu gweision—a'r un modd, gweinidogion y naill wrth y llall. Mae cadw olwynion bywyd fel yma mewn olew, yr hyn sydd mor hawdd ei wneyd, ac mor hyfryd pan mewn ymarferiad, yn resynol o brin mewn llawer o anneddau; ac y mae ei absennoldeb agos yn sicr yn y diwedd o beri rhwygiadau gofidus yn y cariad a'r cydgordiad teuluaid." Yr oedd darllen y sylwadau uchod yn peri i ni adgofio am rai o weinidogion yr efengyl o'n cydnabyddiaeth, y rhai yr oedd "eu clod trwy yr holl eglwysi." Y waith gyntaf erioed ag y buom yn nhŷ y pregethwr ëofn a nerthol hwnw, y Parch. Ebenezer Morris, tarewid ni gan ei ddull rhydd a serchog yn ei deulu. Yr oeddym yn wylaidd yn ei ŵydd, ac yr oedd yntau yn deall hyny; ac yn ol hen arferiad y Cymru o groesawu, dywedai, yn galonog,—“Gwnewch yn ewn, 'mechgyn i; bwytêwch eich goreu;” a'r un modd, gan droi at y wraig, yn awr ac yn y man, “Bwytêwch chwithau dipyn, *dear*.” “Gai i dê i'r wraig?” meddai, wedi dyfod i mewn i dŷ un o'r capelydd yn y gymydogeath; “gwell gyda fi gael tê iddi hi nag i mi fy huu.” A phan ddaeth Mrs. Morris i mewn, yr ydoedd yn barod i'w chyfarach, “Yr ydwyf fi wedi siarad am dê i chwi, *dear*; dewch, i gael i ni fyned tua thre' cyn y nos.” Fe ddywedai y cyfan, yn rhywfodd, mor rhydd a dirodres; y dôn, y dull, a'r edrychiad, oedd ynt yn berffaith naturiol a charuaid. “Gai dy helpio di, calon?” gofynai gweinidog enwog a dylanwadol arall gyda llais tyner unwaith lle y clywem; a chyda'r un cyffelyb fwyneidd-dra atebai merch ieuanc, yr hon oedd yn eistedd wrth y bwrdd, “Os gwelwch chwi fod yn dda, 'nhad.” “Gwnaf yn wir,” ebe yntau; “mi a dy helpiaf di, gyda llawer iawn o bleser hefyd.” Yr ydym yn addef y gall pethau bychain fel yma fod bron yn rhy ddiystyr i'w hadrodd; ond ni waeth i chwi beth a fo, er hyny, pa mor lleied bynag yr ymddangosant, y maent fel rhyw olew tyner ar olwynion y gyndeithas deuluaid—yn llawer o feithriniaeth i gariad a chydgordiad o'i mewn. Ac os yw yn bosibl eu cario hwy yn rhy bell, cofied y darlennydd mai doethineb sydd i'w cymedroli, ac nid y diffyg o dynerwch a serchogrwydd. Ond am y dyn ag sydd fel y crab-osyn sur, ni a wyddom y bydd ef yn barod i gondemnio y cyfan fel ynfydrwydd. Wedi dwfnreddfu mewn anserchogrwydd ei hunan, mae y teimlad tyner, a phob amlygiad o hono mewn gair ac ymddygiad, yn bethau nad yw efe yn deall dim o honynt. Nid oes genym, gan hyny, wrth adael y cyfryw un, ond estyn iddo y sylw a ddarllenasom mewn cyhoeddol Saesoneg yn ddiweddar. Mae yr ysgrifenydd, wedi rhoi esiampl o ledneisrwydd ymddygiad mewn teulu, yn dyweyd fel y canlyn, “Though words

may seem little things, and slight attentions almost valueless, yet, depend upon it, they keep the flame bright, especially if they are natural."

Gadawn y pethau hyn i sylw ein darllenwyr. Cofiwch mor liosog a difrifol ydyw yr annogaethau i iawn lywodraethiad y tymherau yn ngair yr Arglwydd. "Paid â digofaint, a gâd ymaith gynddaredd; nac ymddigia er dim i wneuthur drwg." *Er dim* nac ymddigia. Cynnwys llid ydyw "rhoi lle i ddiabol;" mae y ddau yn gorphwys yn yr nu fynwes; a "mynwes ffylliaid" ydyw hōno. I ba raddau bynag y mae tymherau poethion i'w priodoli i'r cyfansoddiad naturiol, maent yn wastad y drws nesaf i lygredigaeth; a'r man yr ymollyngwch chwi gyda hwynt, trōant yn hollol bechadurus. Eu marweiddio, gan hyny, sydd ddyledswydd grefyddol; a thrwy waed ein Harglwydd Iesu Grist, a nerth ei Ysbryd Ef, mae goruchafiaeth i'w chael ar y flurf hwn o lygredigaeth.

Fel cymhelliadau i feithrin yr ymarferiadau daionus sydd wedi bod dan ein sylw, nid oes genym ond dywedyd,—Os na byddwch chwi yn ddiwyd ac ymdrechgar i ffurfio ymarferiadau da, yr ydych yn sicr o ymollwng i ymarferiadau pechadurus. Mae llygredigaeth yn ddiorthwys yn ei weithrediadau ynom ni. Ac ond iddo gael unwaith, drwy ryw ffordd neu gilydd, le yn y meddwl, neu dori allan yn y fuchedd, fe edy y gorchfygedig yn fwy agored i gael ei orchfygu ganddo drachefn a thrachefn. Mae y gydwylbod yn fuan yn dechreu cynnesfio âg ef, a'r duedd ato yn cryfhâu; ac felly, bob yn rony, wrth fynychu y weithred, mae y peth yn dyfod yn ymarferiad i'r dyn, a llygredigaeth trwyddi yn arglwyddiaethu ar ei galon. Dyma yr hyn a eilw Iago yn orpheniad pechod. Yn ei holl ymweithiad blaenorol yn y galon, amcana at hyn. "Canys yna y temtir pob un, pan y tyner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun. Yna chwant wedi ymddwyn, a esgor ar bechod: pechod hefyd, pan orphener, a esgor ar farwolaeth."

Drachefn, mae ymarferiadau yn bethau cryfion iawn. Edrychwch yn fanwl, bobl ieuainc, pa fath chwaeth, tymherau, ac arferion a ffurfiwch chwi eich hunain; oblegid unwaith yr ymsefydloch chwi ynddynt, byddant fel ail natur i chwi: chwi a'u profwch hwynt yn gryfion iawn i'ch caethiwo, ac yn ystyfnig ac anhawdd eu gorchfygu. "A newidia yr Ethiopiad ei groen? meddai y prophwyd, "neu y llewpard ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur da, y rhai a gynnesfynwyd â gwneuthur drwg." Hyny yw, chwi a ellwch cyngynted ag y gall yr Ethiopiad newid ei groen, neu y llewpart ei frychni. A beth oedd yr achos fod gwneuthur da mor anhawdd a a hyny iddynt? Ond eu bod "*wedi eu cynnesfio â gwneuthur drwg.*" Mae newid ei arferion i ddyn bron fel newid ei groen. Nid ydym, mewn un modd, yn dywedyd fod hyny yn anhosibl iddo, peidiwch a meddwl; ni a gofiwn ras yr efengyl. Ond er y cyfan, o dan bob amgylchiad, mae dyn yn sicr o brofi ei lygredigaeth, ac yn enwedig ei hen arferion llygredig, yn ystyfnig a chaled i'w darostwng. Maent wedi gwreiddio, mae yn ddigon tebyg, yn nghyfansoddiad ei natur, a chyda hyny wedi troi megys yn ail natur iddo trwy hir ymarferiad. Pe baech chwi ddim ond meddwl, fel prawf o hyn, am arferion teuluaid. Os bydd plant, er esiampl, wedi eu dwyn i fyny yn oerllyd neu yn ddiserch at eu gilydd, maent yn dueddol i barhâu felly tra byddont byw. A da fyddai, pe gellid gobeithio, y cyfyngid y peth i'r berthynas hōno yn unig. Ond y perygl ydyw, i'w hen arferion boreuol eu canlyu i'w perthynasau newyddion pa rai a ffurfiant yn ol llaw;

ac y bydd dynion felly yn teimlo, wedi myned i'w tai eu hunain, yn gymhwys yr un modd ag y teimlent yn nhai eu rhieni; y byddant o'r un dymher ac ymddygiad at eu gwragedd a'u plant ag yr arferent fod at eu gilydd fel brodyr a chwiorydd. Heb eu hargyhoeddi o bechadurusrwydd y pethau hyn, a'u codi i ymdrechu yn eu herbyn, ac i'w gorchfygu trwy ras Duw, nid oes dim yn amgen i'w ddsygwyl. A mwy na hyny, y mae *habits* drwg yn hynod o'r heintus. Mae yn beryglus iddynt, nid yn unig ddilyn y dyn ei hunan dros ei fywyd, ond cael eu trosglwyddo ganddo i eraill ar ol ei ddydd, ac y byddant yn byw yn ei blant a'i hiliogaeth pan y byddo efe ei hunan yn y bedd. "Y Cretiaid," medd Paul, "sydd bob amser yn gelywyddog, drwg fwystfilod, boliau gorddiog." Yr oedd y pethau hyn, mae yn debyg, yn dueddol i'r Cretiaid fel cenedl, a'r plant yn eu dysgu oddiwrth esiamplau eu rhieni; ac felly, mae yn ymddangos fod celwydd, creu-londeb, a segurddod, yn hynodi y bobl hyny o genediath i genediath. "Eu ffordd yma yw eu hynfydrwydd," medd y Salmydd, "eto eu hiliogaeth ydynt foddolawn i'w hymadrodd."

Wrth ddiweddu, yr ydym yn dymuno galw y darllenydd i gofio fod holl ymarferiadau drygionus dynion yn cyfodi oddiwrth un gwreiddyn cyffredinol—llygredigaeth eu natur trwy bechod, ac i hwnw nid oes ond un fedygyniaeth, sef adnewyddiad y natur hōno drwy ras Duw. Gwir yw y gall dyn ddiwygio llawer, a bod heb ei ail eni. Ond tra yn aros yn ddiffygiol o'r cyfnewidiad hwnw, mae pechod yn sicr o gadw ei lywodraeth ar y galon. Er pob cyfnewidiad er gwell yn nhymher ac ymddygiadau y dyn, ac o dan ei holl ymarferiadau gwneuthur, pa mor rhinweddol bynag y byddont ynddynt eu hunain, a pha mor gymeradwy bynag yn ngolwg ei gyd-ddynion, eto mae ansawdd yr enaid yn parhâu yr un tuag at Dduw, a'r dyn o hyd yn amddifad o'r sancteiddrwydd hwnw, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Ar yr un pryd ni a ddylem gofio, pan gaffo dyn ei adnewyddu trwy yr Ysbryd Glân, y bydd ei ymarferiadau da yn flaenorol i hyny yn llawer o gymhorth iddo yn y canlyniad. Ni ddinystria gras, pan y delo i'r galon, ddim ond ei llygredigaeth hi. Beth bynag o iawn deimlad a gaffo ynddi, pa ymarferiadau moesol bynag a fydd y dyn wedi ei ennill iddo ei hun trwy amaethiad a llafur, mae gras yn sicr o gadarnhâu y pethau hyny ynddo; a thrwy eu himpio i wreiddyn newydd, a chodi y dyn i'w hymarfer oddiar egwyddorion ac ysbryd efengylaidd, fe'u sancteiddia hwynt, ac a adfero iddynt eu gwir urddas.

Am hyny, "frodyr, pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyflawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy, od oes un rhinwedd, ac od oes dim clod, meddyliwch am y pethau hyn."

R H E S Y M E G .

RHAGDRAITH.

1. **Y MAE** rhoddi darnodiad priodol o'r pwnc y bwriadwn ysgrifenu arno yn un o'r pethau mwyaf anghenrheidiol;—anghenrheidiol i'r ysgrifenydd ei hun, yn gystal ag i'w ddarllenwyr. Heb ddarnodiad priodol, y mae yr ysgrifenydd mewn perygl o ddyweyd pethau anmherthynol i'w destun, ar drail gadael pethau perthynol o'r neilldu. Y mae yn gymaint o ddygwyddiad iddo fod yn ei randir ei hun ag ydyw iddo beidio bod. Teithia heb wybod i ba le. Ac ni fydd ei ddarllenwyr ychwaith—dilynwyr ei gamrau—yn gwybod i ba le y cânt eu harwain, nac ymha le y cânt eu gadael. A chan fod tebygolrwydd y bydd eu llwybrau yn ddyrys a throell-og, y mae yn debyg y bydd mor anhawdd iddynt fynegu, ar ddiwedd eu taith, o ba le y daethant, ag oedd dyweyd, yn ei dechreu, i ba le yr oedd- ynt yn myned.

2. **Y mae** darnodiad priodol o resymeg yn anghenrheidiol iawn ar lawer o gyfrifon, megys, dycethruch y pwnc—yr amrywiol bethau sydd yn myned o dan yr enw—a'r darnodiadau anghywir sydd wedi cael eu rhoddi o honi.

3. **Y mae** y darnodiadau sydd yn barod wedi cael eu rhoddi o resymeg yn aml a lliosog. Ac y mae eu lliosogrwydd yn profi dau beth,—nas gallant i gyd fod yn gywir; a bod yn anhawdd iawn rhoddi darnodiad boddhäol o honi. Dywedwyd gan rai mai gwyddor yw rhesymeg; dywedwyd gan eraill mai celf yw; taerai y lleill ei bod yn wyddor a chelf; tra y dadleuai y gweddill nad ydoedd na'r naill na'r llall.

4. **Y mae** yr amrywiaeth hwn yn fawr; ac y mae dwy ffynnonell iddo. Un ydyw y barnau gwahanol a ffynant ynghylch rhesymeg ei hun: y barnau gwahanol a goleddir ynghylch gwyddor a chelf yw y llall. Y mae llawer o'r rhai a gydunant yn eu golygiadau am resymeg, yn amrywio ynghylch yr enw mwyaf priodol i'w roddi arni, am eu bod yn amrywio ynghylch yr enwau eu hunain. Ac y mae yn eithaf dichonadwy fod eraill yn amrywio ynghylch rhesymeg ei hun, ac er hyŷ yn cyduno ynghylch y priodoldeb i'w galw wrth yr enw hwn neu yr enw arall—gwyddor neu gelf—am eu bod yn amrywio i raddau cyfartal ynghylch yr enwau. Er gwneyd ein darnodiad mor syml ag y gallom, cawn adael o'r neilldu y geiriau gwyddor a chelf, a cheisiwn ffurfio ein darnodiad yn annibynol arnynt. Os ydyw y darlennydd yn ewyllysio gweled ymdriniad galluog â'r gofyniad, Pa un ai gwyddor ynte celf yw rhesymeg?—nis gallwn ei gyfeirio yn well nag at *Discussions* Syr William Hamilton. Y mae y gŵr hwn yn ddysgedicach mewn pob peth cysylltiedig â rhesymeg nag unrhyw un y darlennasom ei waith. Ond y mae yntau wedi ei gymeryd ymaith!

5. Ond pa beth yw rhesymeg? *Y gangen hõno o wybodaeth ydyw sydd yn olrhain, ac yn gosod allan, ffurfiau rheidiol meddwl.* Y mae y darnodiad hwn yn lled agos a bod yr un peth a'r un a roddir gan Thomson yn ei *Outlines of the Laws of Thought*. Er ei fod y mwyaf boddhäol genym, prin y dysgwylw'n ei fod eto yn ddealladwy i'r darlennydd.

6. Y prif achos a bair i'r darnodiad a roddasom fod yn agored i'w gamddeall ydyw yr ystyr triphlyg sydd i'r gair *meddwl* yn y Gymraeg. Weithiau defnyddir ef i arwyddo yr hyn sydd yn *meddwl* (yr enaid), weithiau y weithred o *feddwl*, ac weithiau yr hyn a *feddylir*. Y mae y tri ystyr yma mor gyffredin a phriodol i'r gair a'u gilydd; a gwasanaethant gyda'u gilydd i wneyd y gair yn amwys. Yn yr ystyr olaf—yr hyn a *feddylir*—y defnyddir y gair yn y darnodiad a roddasom. A rheidiol ydyw sylwi mai nid â'r hyn a feddylir (*meddwl*) ynddo ei hun y mae a wnelo rhesymeg, ond â'i *ffurfiau rheidiol*—â'r *holl* ffurfiau y mae yn rhaid iddo ymddangos, o leiaf dan un o honynt, cyn bod yn feddwl.

7. Y mae yn rhaid cael golygiadau cywir ynghylch y gwahaniaeth rhwng meddwl a'i ffurf cyn y gall ein golygiadau ar resymeg fod yn gywir. Ac er nodi allan y gwahaniaeth, fe allai mai y ffordd hawddaf ydyw dechreu gyda'r gweledig. Meddylw'n am unrhyw beth,—delw, er enghraifft. Nid yw yn gofyn ond ychydig o ymdrech, mewn cymhariaeth, i wahaniaethu rhwng ffurf delw a'i defnydd. Y mae ffurf a defnydd yn bethau y gellir eu gwahanu yn y meddwl. Gellid newid y defnydd y gwneir y ddelw o hono, a chadw y ffurf; neu newid y ffurf, a chadw y defnydd. Gellid gosod yr un ffurf ar ddau neu ychwaneg o ddefnyddiau gwahanol—ar bren, ar bres, neu ar aur, &c. A chyhyd ag y cedwir y ffurf, y mae y delwau, gan nad beth fyddo eu defnydd, yn ddelwau o'r un peth. Ac i'r hwn sydd yn edrych ar ffurfiau yn unig, yr un peth ydynt:—delw o ddyn, o ddafad, neu o unrhyw beth y byddo y ffurf yn ffurf o hono. Ac un felly yw y rhesymegwr. Y mae yn hollol ddiotal am fater meddwl, ond iddo gael allan ei ffurf. Yr un peth yw meddwl am angel, a dyn, a gwynt, iddo ef, os bydd ei ffurf yr un. Nid ymhola am beth y meddylir, nac am yr hyn a feddylir; digon ganddo yw gwybod o dan ba ffurf y mae yr hyn a feddylir—y meddwl—yn ymddangos.

8. Y mae dyweyd mai â *ffurfiau meddwl yn unig* y mae a wnelo rhesymeg, yn ddigon penodol i fod yn ddealladwy. Ac y mae hyn yn ddigon eang i nodi allan linellau mawrion rhandir briodol rhesymeg. Y mae yn amlwg, modd bynag, y gallwn edrych ar ffurfiau meddwl mewn dwy ffordd,—gallwn edrych arnynt ar eu penau eu hunain, ac mewn cysylltiad â'u gilydd; a gallwn edrych arnynt mewn cysylltiad â'r hyn y maent yn ffurfiau o hono—gwirionedd. Pan y byddom yn edrych ar ffurfiau mewn cysylltiad â gwirionedd, yr ydym yn euog o gymysgu ffurfiau â sylwedd. Ac oblegid hyn, y mae rhesymeg yn cael ei rhanu i ddau fath—*pur* a *chymysg*. Pan y byddo rhesymeg yn cyfyngu ei hun i ffurfiau yn unig, gelwir hi *Rhesymeg Bur*; ond *Rhesymeg Gymysg* y gelwir hi pan y cymysga ffurfiau a gwirionedd â'u gilydd, neu, mewn geiriau eraill, pan y sylwa ar y naill mewn cysylltiad â'r llall.

9. Yn awr, y mae tiriogaethau rhesymeg *bur* a *chymysg* wedi eu penodi yn eglur. Yr ydym yn gweled ymlaen llaw, i raddau helaeth, pa safur sydd yn ein haros os ydym yn meddwl teithio dros y naill neu y llall o'r tiriogaethau hyn. Y mae maes rhesymeg bur mor eang â maes meddwl, yn gymaint ag nad oes meddwl heb ffurf. Ac yn ychwanegol at hyn, y mae maes rhesymeg gymysg mor helaeth ag eiddo gwirionedd. Diangenrhaid yw dyweyd, yn ganlynol, nas gallwn wneyd cyfiawnder â'r ddau mewn traethodyn. Gwell genym gyfyngu ein hunain at un peth, er gwneyd y peth hwn yn *well*, na cheisio talu sylw i ddau beth a'u gwneyd

yn *waeth*. Rhesymeg bur fydd prif destun ein hymchwiliad; ac ni fydd yr ychydig a ddywedwn ar resymeg gymysg, ond rhywbeth i ddangos ei natur.

10. Dywedasom mai â *ffurfiau meddwl* y mae a wnelo rhesymeg bur. Ac, y mae rhai o'n darllenwyr yn gwybod ein bod, pan yn dyweyd fel hyn, yn gwrthddyweyd un o'r ysgrifenywyr y mae rhesymeg yn fwyaf dyledus iddo o neb yn yr oes hon. Yr ydym yn cyfeirio at yr Archesgob Whately, yr hwn a ddywed *mai ág iaith yn unig yr ymwón rhesymeg*. Dichon mai y meddylldrych mai celf oedd rhesymeg a orbwysai yn ei feddwl ar y pryd. Yr oedd yn gweled mai iaith ydoedd prif fflnonnell twyllresymau; ac er osgoi yr olaf, meddyliai y dylai rhesymeg ymwneyd â'r flaenaf. Y mae dyweyd, modd bynag, mai ág *iaith yn unig* y mae a wnelo rhesymeg yn sicr o fod yn anghywir, pa mor werthfawr bynag, i ddybenion rhesymiadol, fyddai traethawd ar y pwnc hwn. Ond gan nad beth fyddai enw traethawd fel hyn ar iaith, ni ddylai gael ei alw yn rhesymeg. Pe nas gallem resymu *heb* iaith, byddai yn ormod dyweyd mai ág iaith yn *unig* yr ymwón rhesymeg. Ond y mae hyn ymhell o fod yn sicr. Y mae o'r tu arall, yn dra sicr y gallem, i raddau helaeth, feddwl, ac hyd yn nod resymu, yn annibynol ar iaith. Eto, y mae iaith yn anghenrheidiol iawn er gwneyd yn hawdd y gwaith hwnw fyddai yn anhawdd hebddi.

11. Dywed Dr. Whately mai ág iaith yn *unig* y mae a wnelo rhesymeg; dywedasom ninnau mai â *ffurfiau meddwl* yn unig yr ymwón. Ymddengys y gwahaniaeth, gan hyny, yn fawr. Ond dylem gofio, er bod *ffurfiau meddwl* i raddau helaeth, yn annibynol ar iaith, eto ei bod y nesaf peth i anmhosiblwrwydd ymdrin yn briodol â *ffurfiau meddwl* hebddi. Oblegid y cysylltiad agos, er nad hanfodol, sydd rhwng meddwl ág iaith, y mae rhesymeg yn myned ychydig allan o'i llwybr i gymeryd sylw o honi. Yn lle ei gwneyd, wedi y cyfan, yn *unig* destun, ni wna ond rhoddi iddi sylw fel peth gwasanaethgar er ymdrin â *ffurfiau meddwl*—ei thestun priodol ei hun.

12. Pan yn dyweyd fod iaith yn wasanaethgar i feddwl, ac i raddau helaeth yn gydweuedig ág ef, ni ddylem feddwl mai iaith lasar o reidrwydd yw hōno. Iaith ydyw unrhyw beth a wasanaetha i wahaniaethu ein meddyliau, ac i'w cadw yn ein côf, yn gystal ag i'w trosglwyddo i eraill. Y mae nodau, ystumiau, ocheneidiau, &c., gan hyny, yn iaith, yn gystal â'r hyn a leferir â'r tafod. Ond, gan mai iaith lasar ydyw prif gynnorthwyydd y meddyliwr, i hōno, yn ganlynol, y mae y rhesymegwr yn talu yr ychydig sylw a all fforddio i'w hebgor.

13. Wedi dyweyd mai *ffurfiau rheidiol meddwl* ydyw gwrthddrychau priodol rhesymeg, gadewch i ni edrych pa mor éang yw y maes a amgaur gan y rhai hyn. Amlwg yw, y gallwn edrych ar *ffurfiau meddyliau* ar eu penau eu hunain, ac yn eu cysylltiad â'u gilydd. A phan y byddom yn edrych ar gysylltiad un neu ragor o *ffurfiau* ág un neu ragor o *ffurfiau* eraill, y mae yn bosibl gwneyd hyny mewn dwy ffordd—yn *ddigyfrwng* ac yn *gyfryngol*.* Yn gyfryngol, yr edrychwn ar gysylltiad *ffurfiau* pan y byddom yn casglu eu perthynas â'u gilydd drwy eu cydberthynas â thrydydd ffurf. Yn *ddigyfrwng* yr edrychwn ar eu cysylltiad pan fyddo trydydd ffurf yn ddianghenrhaid, neu pan y byddwn yn gallu sefydlu eu perthynas â'u gilydd hebddi. Y mae rhesymeg yn cael ei thori i fyny fel hyn i dair rhandir,—*ffurfiau* ar eu penau eu hunain,—*ffurfiau* mewn

* Delweddau yw y *ffurfiau* y cyfeiriwn atynt yma.

cysylltiad digyfrwng â'u gilydd—a ffurfiau mewn cysylltiad cyfryngol. Gwir y gellir adranu y prif randiroedd hyn; ond tra fyddom yn edrych ar ffurfiau yn unig, nis gallwn gael gwell prif raniad na hwn. Cawn alw ffurfiau ar eu penau eu hunain yn *ddelweddu* (*conceptions*); ffurfiau yn eu perthynas ddigyfrwng yn *farnau*; a ffurfiau yn eu perthynas gyfryngol yn *gyfresymau*. Dyma fydd prif raniadau y traethawd hwn.

14. Amlwg yw, y gellir defnyddio unrhyw beth i arddangos ffurfiau gwahanol meddyliau. Yr unig beth a ddysgwylir oddiwrthym, yw ein bod i ymlynu wrth yr un arddangosiad tra fyddom gyda'r un ffurfiau. Er enghraifft, gellir arddangos delweddu drwy nodau neillduol, megys llythyrenau yr egwyddor, A, B, C, &c. Gellir arddangos barnau drwy osod dau neu ragor o nodau delweddu mewn cysylltiad â'u gilydd, megys $A=B$; neu, $A>B$; neu, $A<B$, &c. A'r un modd, gellir arddangos cyfresymau fel hyn:—

$$\begin{array}{ccc} \begin{array}{c} A=B \\ B=C \\ \hline \therefore A=C \end{array} & \text{Neu fel hyn:—} & \begin{array}{c} A>B^* \\ B>C \\ \hline \therefore A>C \end{array} & \text{Neu fel hyn:—} & \begin{array}{c} A<B^\dagger \\ B<C \\ \hline \therefore A<C \end{array} \end{array}$$

Yn yr enghreifftiau hyn, y mae y berthynas sydd rhwng A ac C, fel y dangosir hi trwy eu cydberthynas â B, yn cael ei harddangos gan y nod \therefore . Gellid, yr un mor hawdd, defnyddio ffyrdd eraill i arddangos y pethau hyn; a chawn ddangos ffyrdd ychwanegol pan y deawn at y cyfreswm. Digon yw dyweyd, yn bresennol, fod nodau arddangosol fel hyn yn hyrwyddo llafur y rhesymegwr yn fawr. Y mae yn ei alluogi hefyd i sylwi ar egwyddorion ynddynt eu hunain, a hyny yn annibynol ar amgylchiadau a allent ddylanwadu yn anffafriol ar ei feddwl. A dylai y darlennydd ddal mewn cof nad oes un cysylltiad rhwng meddyliau eu hunain, os nad yw hefyd rhwng y nodau a ddefnyddir i'w harddangos. Y mae yr hyn sydd yn wir am y ffurf yn wir hefyd am bob meddwl amwisgedig yn y ffurf hono.

15. Y mae y darlennydd deallus, yn ddiaw, wedi sylwi fod rhywbeth tebyg iawn i wrthdarawiad rhwng yr enw *rhesymeg* â'r darnodiad a roddasom o honi. Gellid casglu oddiwrth yr enw nad yw *rhesymeg* ond rhywbeth yn traethu ar *reswm* neu *resymu*. Mae cyfansoddiad yr enw, yn ddiaw, yn cyrbwyllo hyny. Ond dylem gofio nad yw *rhesymeg* ond cyfieithiad caeth o'r gair Groeg *Λόγος* (*Logos*); ac y mae hwn yn air amwys yn y gwreiddiol. Y gwir yw, y mae llawer o enwau wedi cael eu rhoddi ar gwyneid. Ac yr oedd pob enw a roddid arni yn cyfateb i olygiadau y sawl a roddent yr enwau yn ei chylch. Ac yr oedd y farn yn ffynnu, hyd yn ddiweddar iawn, mai â *resymu* yn unig yr oedd *rhesymeg* i ymwneyd; ac nid rhyfedd, gan hyny, iddi gael ei galw yn *resymeg*. Y mae y farn hon, yn awr, wedi rhoddi ffordd i un gywirach; eithr nid yw yr enw a gyfatebai i'r hen olygiad, ond *nid* i'r presennol, wedi cael ei newid. Y mae llawer o *resymau* hefyd yn erbyn gwneyd hyny. Fel enw dynodol yn unig, y mae *rhesymeg* yn gystal ag unrhyw un arall, er nad yw *resymu* ond un o'r pethau yr ymddrinia *rhesymeg* â'u ffurfiau. A chan fod ffurf y gwaith o *resymu* yn bwysicach nag un o'r lleill, nid yw yr enw *rhesymeg* mor anmhrifodol ag y gellid tybied.

* Darllener, Y mae A yn fwy na B, &c.

† Darllener, Y mae A yn llai na B, &c.

16. Cyn gorphen y Rhagdraith hwn, fe allai mai priodol fyddai aros ychydig ar *ddefnyddioldeb rhesymeg*. Y mae llawer wedi ei ddyweyd ar hyn. Ac anaml, os erioed, y gwelwyd cymaint o feddwl yn dadleu dros ac yn erbyn unrhyw bwnc arall. Mae yn hynod hefyd, pan ystyriom rym y meddylwyr, i ba eithafion yr aethant. Ond, o ran hyny, po fwyaf o rym fyddo yn y meddylwyr, pellaf i gyd yr ä i eithafion, os i eithafion y dechreuä fyled. Meddyliai rhai o'r ysgolwyr ei bod yn ddigon o honi ei hunan i gael allan bob gwybodaeth. Meddyliaent nad oedd dim yn eisien, er cael allan wirionedd, ond cyfuno ffurfiau neillduol ä'u gilydd, yn unol ä rheolau rhesymeg. Gwelodd Bacon wrthuni eu barn, a gwrthwynebodd hi. Ac er mai yn erbyn gorweithiad rhesymeg yr ysgrifennodd efe, eto, gan ei fod wedi gwneyd hyny yn effeithiol, arweinwyd eraill i ysgrifenu yn erbyn rhesymeg ei hun. A mawr y dirmygu a fu arni, hyd nes yr ysgrifennodd Dr. Whately, yn ddiweddar mewn cymhariaeth, ei draethawd gorchestol i'w chynnorthwyo i ymgodi o'r llwch. Pa gamsyniadau bynag a lychwinant ei dudalenau ef, ymddengys ei fod wedi bod yn dra llwyddiannus i godi rhesymeg o'r cyflwr dirmygedig y bu ynddo, i sefyll ar dir anrhydeddusach yn ngolwg y lliaws. Y mae golygiadau ysgrifenywyr, yn awr, yn lled gymedrol ynghylch ei defnyddioldeb; nid llawer sydd yn ei cholliarnu fel peth diwerth, ac nid llawer sydd yn ei chodi i safle rhy uchel.

17. Pe na bae rhesymeg ond cangen o wybodaeth, byddai i raddau mwy neu lai yn ddefnyddiol. Y mae pob gwybodaeth felly. "Gwybodaeth sydd nerth," ebe Bacon. Ond y mae rhesymeg yn wybodaeth am ffurfiau yr hyn a'n gwahaniaetha oddiwrth yr anifail diroswn; y mae yn wybodaeth gysylltiedig ä'r hyn a gyflawnwn, yn dda neu yn ddrwg, bob dydd o'n bywyd; y mae yn wybodaeth am ffurfiau MEDDWL. Ac nis gall nad yw yr hwn sydd yn gyfarwydd ä *koll* ac äg *unig* ffurfiau cywir meddwl, yn alluocach, oblegid hyny, i feddwl yn gywirach na'r hwn sydd heb fod. Y mae y blaenaf yn gwybod pa ffurf sydd yn anghywir, ac felly gall ei gadael o'r neilldu; y mae hefyd yn gwybod pa ffurf sydd yn gyfreithlawn, ac felly dichon ei harfer. Ond mewn modd arbenig, y mae rhesymeg yn wasanaethgar er pwysu a barnu meddyliau rhai eraill.

18. Heblaw hyn, y mae rhesymeg yn ddefnyddiol ar gyfrif y geiriau celfol (*technical*) a arfera. Ac y mae pob meddylwyr manwl, yn aml iawn, yn teimlo anghen am y geiriau hyn. Y mae pob ysgrifenydd, os bydd yn arfer meddwl yn fanwl, yn eu defnyddio. Y mae yn anhawdd cael llyfr arddansoddol, mewn unrhyw iaith, nad yw wedi ei dryfrithio ä geiriau celfol rhesymeg. Ond nid oes neb ond y rhai a fedrant eu defnyddio yn ddeallus, a w'yr werth geiriau celfol. Er y gellir gosod allan y meddwl a oblygir mewn geiriau celfol, trwy ddefnyddio llawer o eiriau cyffredin, eto, y mae y gair celfol cyfystyr ä hwynt yn gosod mwy o sefydlogrwydd i'r meddylldrych nag a allai yr holl eiriau eraill gyda'u gilydd. Y meddwl sydd yn rhoddi bodolaeth i feddyliau; ond gair celfol sydd yn eu bendithio ä pharhäd. Y mae hyn yn wir am bob geiriau celfol, pa un bynag a fyddont ai rhai duwinyddol, seryddol, ynte rhywbeth arall; ond addefir yn gyffredin fod geiriau celfol rhesymeg yn berffeithiach nag eiddo unrhyw gangen arall o wybodaeth. Bu dadleuon diddiwedd y canoloesau yn foddion effeithiol i berffeithio ei geiriau celfol; ac yr oedd anamledd testunau eu myfyrdd yn tueddu at yr un peth.

RHESYMEG BUR.

Y RHAN GYNTAF.—*Delweddau—Termau.*

1. Gan mai yma y mae rhesymeg yn briodol yn dechreu, y mae yn rhydd i ni aros i egluro rhai pethau y tybiasom yn y rhagdraith fod y darlennydd yn gyfarwydd â hwynt. A bydd yr hyn a ddywedwn yn gymhorth i'r darlennydd ddeall beth a feddylw'n wrth y gair *delweddau*. Pe bae genym draethawd boddhäol ar *Feddyldraith* yn ein hiaith, at yr hwn y galle'm gyfeirio y darlennydd, byddai yr hyn yr amcanwn ei draethu yma, i raddau helaeth, yn ddianghenrhaid.

2. Yr ydym wedi dyweyd mai â ffurfiau rheidiol meddwl y mae a wnelo rhesymeg bur. Dywedasom hefyd mai yr hyn a *feddylir* ydym yn ei ddeall wrth *feddwl* yn y cysylltiad hwn. Ond amlwg yw, fod yn rheidiol i ni wybod pryd yr ydym yn meddwl cyn y gallwn olrhain ffurfiau yr hyn a *feddylir*. A galle'm ddyweyd, ar unwaith, fod y gwaith o feddwl yn dechreu pan fyddom yn dwyn y meddwl gyntaf i weithrediad, oni bae fod y gair hwn—y meddwl—yn cael ei ddefnyddio yn aml i ddynodi mwy nag a ddylai. Defnyddir y gair *meddwl*, mewn iaith gyffredin, yn gyfystyr âg *enaid*; ond y mae gwahaniaeth mawr rhyngddynt. Nid yw y *meddwl* un amser yn *enaid*; ac nid yw yr *enaid* un amser yn *feddwl*, ond pan y byddo yn gweithredu yn annibynol ar y synwyrâu. *Nid yw y meddwl ond yr enaid yn gweithredu mewn sefyllfa neillduol.*

3. Fe allai fod eisieu manylu ychydig ar hyn er ei egluro. Onid yw pob gweithrediad o eiddo yr *enaid* yn *feddwl*? Nac ydyw ddim. Rhaid i'r *enaid* weithredu llawer cyn y byddo yn alluog i *feddwl*. Ond ni a geis-iwn ddilyn gweithrediadau yr *enaid* am ychydig. Dyma ddy'n yn dyfod i'r byd; a chan mai *dyn* ydyw, y mae yn feddiannol ar gorff ac *enaid*. Ond nid yw yr *enaid* eto mewn gweithgarwch. Y mae fel pe byddai mewn ystad o gysgadurwydd. Cyn y dengys un arwydd o weithgarwch, rhaid ei gyffroi trwy *synwriadau*—(syndebau?)—(*sensations*), neu yr argraffiadau a drosglwyddir trwy y synwyrâu. Ond nid yw y giau yn trosglwyddo synwriadau yn gynt nag y deffroi'r yr *enaid* i'w derbyn. Y mae pob synwyr yn trosglwyddo synwriadau priodol iddo ei hun, a derbynir hwynt gan yr *enaid* gyda pharodrwydd. Nid goddefol yn unig yw yr *enaid* yn y ris yma; y mae, hyd yn nod yma, ychydig o weithgarwch. Ond y mae yr ychydig weithgarwch a arferir wrth dderbyn synwriadau ymhell o fod yn *feddwl*. Nid yw ond gweithgarwch mewn atebiad i argraffiadau y synwyrâu. Ond fel y byddo nifer y synwriadau a dderbynir yn llïos-ogi, y mae ymwybyddiaeth yr *enaid* yn cryfhâu—ymwybyddiaeth o'i fodolaeth ei hun, ac o fodolaeth byd allanol. Wedi hyn, bydd yr *enaid* bob amser yn alluog i ddeongli ei synwriadau fel arwyddion o fodolaeth rhywbeth allanol iddo ei hun. Gelwir hyn yn *ganfyddiad* (*perception*) am fod yr *enaid* yma fel yn canfod bodolaeth rhywbeth allanol iddo ei hun trwy y synwriadau a dderbynia. Y mae gweithgarwch yr *enaid* yma yn cynnyddu; ond gweithio mewn atebiad i'r synwriadau, ac yn ddibynol arnynt, y mae eto. Ond yma cymer gam nês ymlaen. Y mae pob synwriad a drosglwyddwyd hyd yn hyn i'r meddwl wedi darfod. Ond y mae pob un o honynt wedi gadael rhywbeth yn yr *enaid* ar ei ol, i'w gynnrychioli, fel pe byddai, pan y byddo galwad am dano heb bosiblwydd ar y pryd i'w gynnrychu yn weithredol. Y mae

y cynnrychydion a adewir gan y synwriadau yn yr enaid, yn gwneyd eu hunain yn amlwg iawn pan y byddom yn ceisio galw y synwriadau hyny i gôf. Dianghenrhaid yw dyweyd nad yw y synwriadau eu hunain yn dyfod i'r côf; y maent hwy wedi hir ddarfod; ond y mae yno gynnrychydion iddynt. Y mae yr enaid, yn awr, yn rhoddi bodolaeth feddyliol, wrthddrychol, i'r rhai hyn; a chânt eu gosod o dan gadwraeth y côf. Gelwir hyn yn *gynnrychioliad*.

4. Gadewch i ni daflu adolwg ar sefyllfa yr enaid yn awr. Y mae ychydig o weithgarwch wedi cael ei ddangos yn y r^{ts} gyntaf—*synwriad*. Dangoswyd mwy yn yr ail ris—*canfyddiad*. Dangoswyd mwy o weithgarwch eto yn y drydedd ris—*cynnrychioliad*. Ond fel yr awgrymasom eisoes, nid oedd yr holl weithgarwch yma ond peth a ddangoswyd mewn cysylltiad â synwrau y corff, neu, o fwyaf, synwrau y corff ac ymwybyddiaeth; oblegid y mae yr olaf, erbyn hyn, wedi ei ddeffroi. Ond gan y gallwn dybied yn awr fod gan yr enaid gynnrychydion o bob peth y daeth i gyfarfyddiad â hwy trwy y synwrau, neu a ymwybyddwyd ganddo, gall, mor bell ag y maent yn ei feddiant, weithredu o hyn allan yn annibynol ar y naill a'r llall—y synwrau ac ymwybyddiaeth. Gall, yn awr, orchymyn y cynnrych a fydo i ddyfod i'w wyddfod; a gall gyfuno gwahanol gynnrychydion â'u gilydd i gynnrychioli rhywbeth o'i gread ei hunan, heb ofyn cenad na chymhorth y synwrau, nac ymwybyddiaeth ychwaith. Y mae, yn awr, trwy gyfrwng cynnrychydion, yn gallu ymwneyd â'r byd allanol heb fyned allan o hono ei hun. Ac yn yr ystad annibynol hon y mae yr enaid yn cael ei alw yn *FEDDWL*.*

5. Gan ein bod wedi dyweyd mai yr enaid, yn y sefyllfa annibynol hon yw y *meddwl*, gallwn ddyweyd eto mai gweithrediad annibynol yr enaid yn y sefyllfa hon yw y *gwaiith o feddwl*; a chynnyrch y gweithrediad hwn ydyw *meddwl*, neu yr hyn y mae rhesymeg yn ymdrin â'r ffurfiau o hono.

6. Dylid dyweyd mai gwybodaeth o *briodoleddau* yn unig, a roddir i ni trwy y synwrau ac ymwybyddiaeth, yr hwn nid yw ond math o synwyr mewnol. A chyda phriodoleddau, gan hyny, y mae gwybodaeth yn dechreu. Cynnrychydion o briodoleddau unigol hefyd yw y cyntaf a feddwn. Ond nid hir yr erys y meddwl gyda'r cynnrychydion syml hyn; yn hytrach, cymer afael arnynt; una hwynt â'u gilydd; a ffurfia o honynt rywbeth i gynnrychioli, ynddo ei hun, rywbeth y tybia sydd yn cynnal y priodoleddau cyfunedig hyn mewn undeb â'u gilydd. Fel hyn, trosglwyddir synwriadau neillduol o wynder, o lyfnedd, o deneudra, &c., i'r enaid; una yntau y cynnrychydion a adewir gan y rhai hyn ar eu holau, i gynnrychioli, cydrhyngddynt, rywbeth y tybia sydd yn y byd allanol yn dal y priodoleddau o wynder, o lyfnedd, o deneudra, &c., ynddo ei hun—hyny yw, i gynnrychioli *papyr*. O hyn allan bydd y cynnrychydion syml unedig hyn yn cynnrychioli papyr yn y meddwl; ac ystyrir hwynt mewn canlyniad, yn *ddelwedd o bapyr*.†

6. I'r dyben o fod yn fanwl, fe allai y dylem ddyweyd nad oes dim rheidrydd ar fod pob peth y ffurfir delwedd o hono yn meddu bodolaeth wirioneddol. Gallwn ffurfio delweddau o'r hyn sydd yn y dychymyg yn

* Gwel *J. D. Morell's Elements of Psychology*.

† Ystyr y gair *delwedd* yw *portrait* o beth. A thra byddom yn ei gyfyngu i ddynodi yr hyn sydd yn y meddwl yn cynnrychioli pethau, gall wneyd y tro o'r goreu o ddiffyg gair gwel i gyfateb i'r gair Saesoneg *conceptions*.

unig. Er hyny, rhaid i ni ystyried yr hyn sydd yn y dychymyg yn unig, fel peth yn medda ar wir fodolaeth. Nis gallwn feddwl am ddim yn annibynol ar fodolaeth. Fel hyn, y mae genym ddelwedd o "gastell yn yr awyr;" ac y mae ein delwedd o hono fel peth yn bodoli, er y gwyddom nad oes iddo fodolaeth ond yn y dychymyg ya unig. Wrth fyned ymlaen, cawn weled mai bodolaeth ddychymygol yn unig sydd gan y rhan fwyaf o bethau y mae genym ddelweddau o honynt.

7. Yn awr, gyda ffurfio delweddau o bethau trwy gyfuno cynnrychyddion eu priodoleddau, y mae y gwaith o feddwl yn dechreu, mewn ystyr briodol. Ac, yn ganlynol, mewn delwedd y gellir corffori cynnrych cyntaf y gwaith hwnw. *Mewn geiriau eraill, ffurf gyntaf meddwl ydys delwedd.* Yma, gan hyny, y mae dechreuad priodol rhesymeg.

8. Y mae tebygolrwydd neu annhebygolrwydd pethau yn ymddibynu ar eu bod yn meddu, neu heb feddu, yr un priodoleddau. Neu, gan nad yw priodoleddau i ni ond effaith cyfarfyddiad yr hyn y perthynant iddynt a'n synwyrâu, y mae tebygolrwydd neu annhebygolrwydd pethau, yn eu perthynas â ni, yn ymddibynu ar eu bod yn alluog, neu heb fod yn alluog, i gynnrychu ynom yr un synwriadau. Ond y mae profiad yn dyweyd wrthym nad oes dim dau beth yn alluog i gynnrychu ynom yr un synwriadau yn hollol. Y mae rhyw wahaniaeth yn y synwriadau tebycaf a gynnrychir ynom gan bethau gwahanol. Ac yr ydym yn cyfrif dros y gwahaniaeth hwn trwy wahaniaeth priodoleddau. A chan nad yw pethau ond cyfanswm eu priodoleddau, y mae yr un gwahaniaeth ynddynt hwy eu hunain. Yn awr, os dygwn i mewn, pan yn ffurfio delweddau, briodoleddau gwahaniaethol pethau, yn gystal â'r rhai a feddant yn gyffredin, yr ydym, drwy hyny, yn ffurfio delweddau o *unigolion (individuals)*. Ni wna y ddelwedd a ffurfiwn o un o'r rhai hyn, oblegid y priodoleddau gwahaniaethol a gymerasom i mewn, y tro i gynnrychioli unrhyw beth ond ei hunain. Ni pherthyn delweddau unigolion i ddim ond i'r unigolion eu hunain.*

9. Ond amlwg yw y gallwn ffurfio delweddau o bethau heb gymeryd i mewn eu priodoleddau gwahaniaethol,—neu eu *rhaledau (differentiae)*—oblegid dyna yr enw fydd genym ar briodoleddau gwahaniaethol o hyn allan. Ac felly, gwna ein delweddau y tro i gynnrychioli cynifer o unigolion ag y gadawsom eu neillduolion yn ddisylw. Er enghraifft, meddyliwn fod deg o ddynon yn cyduno ymhob peth ond yn lliw eu gwallt. Y mae yn amlwg y bydd genym ddelweddau o honynt fel unigolion os dygwn liw eu gwallt i'r cyfrif. Ond os gadawn liw y gwallt o'r neilldu, y mae yn amlwg y gwna y ddelwedd a ffurfiwn o un o honynt wasanaethu i gynnrychioli unrhyw un o'r naw eraill. A bydd yn ddelwedd mor berffaith o unrhyw un o'r naw hyn ag ydoedd o'r blaenaf. Yr un modd, pe bae genym ddeg eraill yn cyduno ymhob peth ond lliw eu crwyn, byddai y ddelwedd a ffurfiem o un o honynt yn gwasanaethu yn ogystal i gynnrychioli unrhyw un o'r gweddill, os na byddai lliw y croen yn gwneyd rhan o'r ddelwedd.

* Y mae yr ysgrifenydd yn gwybod fod ein rhesymegwyr gorau yn gwneyd gwahaniaeth rhwng ein delweddau o *unigolion* a'n delweddau o *gyffredinolion*, ar y tir o fod *cyffredinol* yn anghenrheidiol er ffurfio yr olaf, tra nad yw er ffurfio y blaenaf. Ond nid ydym yn credu fod y gwahaniaeth hwn yn y gellir ei amddiffyn. Y mae cyffredinoliad yn anghenrheidiol er ffurfio y naill yn gystal â'r llall. Rhaid *cyffredinoli*, drwy adael heibio lawer o bethau dygwyddiadol, o'n y gellir ffurfio unigolion.

Fel hyn, y mae ugain o unigolion wedi cael eu huno â'u gilydd, heb ddim yn rhagor o drafferth na gadael o'r neilldu ddwy briodoledd y gwahaniaethent ynddynt; neu, yn ol y gair a ddefnyddiasom eisoes, drwy adael o'r neilldu eu rhaleddau. Yn yr un modd, galleu uno y teulu dynol yn fuan mewn dosbarthiadau cyffelyb.

10. Meddyliwn ein bod yn awr, trwy adael allan o'n delweddau raleddau neillduol, wedi uno y teulu dynol â'u gilydd mewn dosbarthiadau penodol—aelodau pob dosbarth yn cyduno â'u gilydd, ac yn anghyttuno âg aelodau pob dosbarth arall oblegid rhyw raleddau neillduol. Meddyliwn fod nifer neillduol o'r dosbarthiadau yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn eu taldra; gwahaniaetha nifer o ddosbarthiadau eraill oddiwrth eu gilydd yn llun eu hwynebau; a gwahaniaetha dosbarthiadau eraill oddiwrth eu gilydd mewn pethau eraill. Yn awr, y mae yn amlwg os gadawn o'r neilldu y rhaleddau yma—taldra, llun y gwynebau, &c.—y gallwn ffurfio dosbarthiadau o ddosbarthiadau, mor bell ag y byddont yn meddu yr un priodoleddau. Bydd y rhai a gydunant ymhob peth ond eu taldra yn ddosbarth ar ben ei hunan os gadewir y taldra allan; a'r un modd y bydd y rhai a gydunant ymhob peth ond llun eu hwynebau os gadewir hyny allan. Ac wedi ffurfio, fel hyn, nifer benodol o uchddosbarthiadau, yn cynnwys ynddynt yr isddosbarthiadau y soniasom am danynt o'r blaen, y mae yn amlwg y galleu, drwy adael allan raddellau yr uchddosbarthiadau hyn, eu dwyn hwythau i fod yn gynnwysedig dan ryw ddosbarthiadau mawr, y rhai a fyddant yn uchddosbarthiadau iddynt hwythau. A thrwy barhau yn y gwaith o adael allan raleddau, y mae yn amlwg y galleu, yn fuan, gael rhyw ddosbarth digon eang i gynnwys y cyfan ynddo ei hun.

11. Y mae y darlennydd wedi gweld oddiwrth yr hyn a ddywediasom, ein bod, trwy adael allan raleddau neillduol o'n delweddau, yn eu gwneyd o gymaint a hyny yn fwy *cyffredinol*. Ni wna ein delweddau o unigolion y tro i ddim ond i'r unigolion y cymerwyd eu rhaleddau i mewn. Ond os gadawn eu rhaleddau allan, gwna ein delweddau y tro i gynnrychioli llawer o unigolion ar unwaith. Y mae y gwaith o dynu ymaith raledd ar ol rhaledd, yn cael ei alw, gan hyry, yn *gyffredinoliad* (*generalization*). Neu, a gosod yr un peth mewn geiriau gwahanol, *cyffredinoliad* yw y gwaith o dynu ymaith unrhyw beth fyddo yn neillduoli peth neu ddosbarth o bethau. Ond amlwg yw ein bod yn alluog, nid yn unig i dynu ymaith raleddau pethau, neu yr hyn y gwahaniaethant ynddynt, ond yr ydym hefyd yr un mor alluog i dynu ymaith yr hyn y mae pethau, neu ddosbarthiadau o bethau, yn cyduno yn y meddiant o hono. Gelwir y gwaith hwn yn *ddansoddiad* (*abstraction*). Ac y mae yn ddiau fod y darlennydd yn gweld fod cyffredinoliad a dansoddiad yn hollol wahanol, i.e., a gwrthwynebol i'w gilydd. Y mae cyffredinoliad yn tynu allan, ac yn taffu ymaith, neillduolion pethau; ond y mae dansoddiad yn cymeryd gafael ar yr hyn sydd i bethau yn feddiant cyffredin. Y mae cyffredinoliad yn cymeryd ymaith y neillduolion, ac yn gadael y meddiant cyffredin ar ol; y mae dansoddiad yn cymeryd ymaith y meddiant cyffredin, ac yn gadael y neillduolion ar ol.

12. Trwy ddansoddiad a chyffredinoliad y ffurfir yr holl ddelweddau a feddwn. Ac fe allai fod y darlennydd wedi sylwi ein bod, bob amser y ffurfiwn ddelwedd, yn ffurfio dosbarth hefyd o'r holl unigolion, neu o'r isddosbarthiadau a feddant briodoleddau cyfansodol y ddelwedd a ffurfiwn.

Ac y mae eangedd neu gyfyngedd y dosbarthiadau, yn gyfatebol,* yn ymddibynnu ar y graddau y byddom wedi cyffredinolï neu ddansoddi. Pa fwyaf a gyffredinolwn, mwyaf eang, o anghenheidrwydd, fydd y dosbarth cynnwysedig dan y ddelwedd; ond pa fwyaf a ddansoddw, mwyaf cyfyng fydd y dosbarth. Y mae y darlennydd yn gweled, oddiwrt hyn a ddywedasom eisoes, pa fodd y mae eangedd y dosbarth yn ymddibynnu ar gyffredinoliad; ond fe allai nad ydyw fod ei gyfyngedd yn ymddibynnu ar raddau y dansoddiad mor amlwg iddo. Y mae eisieu dangos, gan hynny, pa fodd y mae hyn yn bod. Meddylwnt ynt eidd bod yn edrych ar nifer o bethau na feddant ond un briodoledd yn gyffredin. Yn awr, os dansoddw y briodoledd hon, ac os corfforwn hi mewn delwedd, bydd ein dosbarth mor eang â'r unigolion a'i meddiannant. Ond os ewyllyswn ddansoddi priodoledd eto, er ei hychwanegu at yr un a ddansoddasom o'r blaen, y mae yn amlwg y bydd rhai o'r unigolion yn cael eu cau allan, o blegid ni fyddant yn meddu y ddwy briodoledd a gyfansoddant ein delwedd. Ac os dansoddw dair priodoledd er gwneyd delwedd o honynt, y mae yn amlwg y bydd ein dosbarth yn gyfyngach eto, oblgid y bydd mwy o unigolion yn cael eu cau allan. Ond er fod y dosbarth yn dyfod yn gyfynach gyfyngach, i'r graddau y byddom wedi dansoddi, y mae yn amlwg fod ein delwedd yn dyfod yn fwyfwy grymus, yn gymaint a bod mwy o briodoleddau yn ei gwneyd i fyny. Gallwn osod yr un peth yn fwy cryno fel hyn:—*Fel y byddo nifer priodoleddau y ddelwedd yn cynnyddu neu yn lleihâu, y mae eangedd y dosbarth odditani yn lleihâu neu yn cynnyddu.*

13. Nid yw yn gofyn rhyw lawer o ymdrech meddwl i ganfod nad yw eangedd dosbarth ond mesur cenedd (*extension*) y ddelwedd sydd yn ei gynnwys. Neu mewn geiriau mwy dealladwy, nad yw eangedd y dosbarth a gynnwysir ond mesur gallu y ddelwedd i gynnwys. Pa fwyaf fyddo cenedd delwedd, mwyaf o unigolion, neu o isddosbarthiadau, ellir gynnwys ynddi. Y mae yr hyn a ddywedir, gan hynny, am eangedd dosbarth yn dal am genedd y ddelwedd sydd yn ei ffurfio. Ac yn gymaint a bod eangedd dosbarth yn cynnyddu neu yn lleihâu fel y byddo nifer y priodoleddau a gyfansoddant ein delwedd o hono yn lleihâu neu yn cynnyddu, y mae yr un peth, mewn canlyniad, yn wir am genedd y ddelwedd ei hun. Y mae ei cheuedd yn cynnyddu, neu yn lleihâu fel y byddo nifer ei phriodoleddau cyfansoddol yn lleihâu neu yn cynnyddu. Neu, gan ein bod yn gwybod fod trwch chwysigen yn cynnyddu neu yn lleihâu, yn ol fel y byddo ei ei chynnwys—ei cheuedd—yn lleihâu neu yn cynnyddu, gallwn ddyweyd, yn ddiweddar, os caniatâ y darlennydd y ffugyr, fod trwch y ddelwedd yn dal yr un cyfartaledd i'w chynnwys hithau. O hyn allan, cawn ddefnyddio y gair *trwch* i ddynodi priodoleddau cyfansoddol delwedd, â'r gair *ceuedd* i ddynodi gallu y ddelwedd i gynnwys, yr hyn, fel y gwelom, sydd yn gyfartal i eangedd y dosbarth odditani.† Y mae trwch a cheuedd delweddau, yn ddau bwnc pwysig mewn rhesymeg: a chynghorem y darlennydd i geisio golygiadau cywir arnynt. Ni chaniatâ ein gofod i ni ddyweyd rhagor.

* Yn gyfatebol (*respectively*)—y cyntaf o un rês yn cyfateb i'r cyntaf o rês arall, yr ail i'r ail, &c., &c.

† Y mae y darlennydd deallus yn gweled ein bod yn defnyddio y geiriau *trwch* a *cheuedd* i osod allan, yn gyfatebol, yr hyn a foddylir wrth y geiriau Saesoneg *intension* ac *extension*; neu, yn ol Syr W. Hamilton, *depth* a *breadth*. Nid yw y gair trwch yn ein boddio yn hollol; ond nid oes genym ei well. Ni wyddom am un gair Cymraeg i ddynodi trwch yn neu amwng.

14. Er cadw ein hunain a'r darlennydd rhag dyrswch, y mae yn ofynol in i *enwi* yr hyn sydd yn olynol yn dyfod yn destunau sylw genym. Yr ydym eisoes wedi enwi llawer o bethau. Dywedasom beth ydyw *priodolodd*; yr hyn sydd yn gwneyd ei hun yn hysbys drwy y synwrau yw, neu, drwy ymwybyddiaeth, yr hwn nid yw ond math o synwyr mewanol. Y mae gwres, caledrwydd, pwys, hynawsedd, &c., yn dyfod, fel hyn, dan yr enw *priodoleddau*. Dywedasom hefyd beth yw delwedd: casgliad yn y meddwl o gynnrychydion y priodoleddau hyny y tybiwn fod rhywbeth gwrth-ddrychol (*objective*) yn eu meddu, ydyw.* Yr ydym hefyd wedi dywedyd beth yw unigolion; y gwrthddrychau hyny ydynt sydd â chyfanswm eu priodoleddau yn wahanol. Ond nid ydym eto wedi enwi y dosbarthiadau, yr isddosbarthiadau, a'r uchddosbarthiadau, ac yr ydym yma mewn arosfa. Mewn arosfa, fodd bynag, nid am nad oes enwau i'w cael, ond am nad yw eu hystyrion wedi eu sefydlu. Gallem, i raddau, mewn cydfurfiad âg arferiad ysgrifenywyr Cymreig, alw y dosbarth mawr sydd yn cynnwys yr holl isddosbarthiadau ynddo ei hun yn *rhyw* (*genus*). Y mae yn arferiad cyffredin genym i alw y teulu dynol, tra na byddom yn edrych ar eu gwahaniaethau, yn ddynol-*ryw*. *Rhyw*, gan hyny, fydd yr enw a roddwn ar y dosbarth ängaf hwnw sydd yn cynnwys yr holl ddsosbarthiadau eraill ynddo ei hun. Ond pa enw a roddwn ar y dosbarthiadau nesaf ato? Y mae *bath* (*species*) yn air i'r perwyl, ond fod ei ystyr yn ansefydlog. *Bathau* y cawn alw y dosbarthiadau mwyaf hyny a gynnwysir yn y rhyw, ac sydd yn nesaf ato. Ac o ddifffyg enwau priodol, cawn alw y dosbarthiadau a allant fod yn gynnwysedig yn y bathau yn *isfathau*. Cawn alw bathau ac isfathau yr un rhyw yn *gydfathau*, ac yn *gydisfathau*. Ac er gwahaniaeth pellach, gallwn alw y bathau agosaf at y rhyw yn *fathau uchaf*, a'r rhai na chynnwysant ddim ond unigolion odditanynt yn *fathau isaf*.

15. Y mae y darlennydd, erbyn hyn, yn gweled pa fodd y mae y rhyw yn cynnwys y bathau, a'r bathau yr isfathau, a'r isfathau y bathau isaf, a'r rhai hyny yr unigolion. Anghenrheidiol yw cofio, gyda hyn, mai gyda golwg ar eu ceuedd y maent felly. Y mae ceuedd, neu allu cynnwysol, y rhyw, yn ddigon mawr i gynnwys y bathau i gyd, a thrywyddynt hwy yr isfathau a'r unigolion. Er enghraifft, y mae ein delwedd o ddynolryw yn ddigon äng i gynnwys pob math o ddynion—gwynion, duon, cochion, &c. Y mae ein delwedd o'r bathau hyn yn ddigon äng i gynnwys yr holl isfathau cynnwysedig ynddynt hwythau, ac y mae ein delwedd o'r rhai hyn yn ddigon äng i gynnwys yr holl unigolion. Y mae yn amlwg, mewn canlyniad, fod ceuedd y rhyw yn ddigon äng i gynnwys yr holl unigolion. Ond y mae yn amlwg, oddiwrth yr hyn a ddywedasom ag gyfansoddiad delweddau, fod yr unigolion, gyda golwg ar yr hyn a alwasom eu *trwch*, yn ddigon galluog i gynnwys yr isfathau; ac mewn canlyniad, y bathau; a'r rhyw ynddynt hwythau. Yn ganlynol, gyda golwg ar eu ceuedd a'u trwch, yn gyfatebol, dywedir fod y rhyw yn alluog i gynnwys y bathau, yr isfathau,

* Gwrthddrych ydyw yr hyn y meddylir neu y gellir meddwl am dano. Ond pa air sydd genym i gyferbynu â gwrthddrych? neu pa air sydd genym i ddynodi yr hyn sydd yn meddwl, mewn cyferbyniad i'r hyn y meddylir am dano? Ni wna meddwl y tro, oblegid enw cyferbyniol i fater yw hwn; a gall y gwrthddrych fod yn feddwl. Ystyr y gair "drych" yw golwg; ond y mae mor briodol, ar bwys cyfansoddiad y gair *gwrthddrych*, galw y meddwl yn *ddrych*, ag ydyw galw pethau anweledig yn *wrthddrychau*. Cyn y byddo *gwrthddrych* yn air cyfreithlawn, rhaid fod y meddwl ei hun yn *ddrych*.

a'r unigolion; a bod yr unigolion yn alluog i gynnwys yr isfathau, y bathau, a'r rhyw. Ond gan ein bod wedi rhoddi enghraifft i ddangos pa fodd y mae y rhyw, gyda golwg ar ei cheuedd, yn cynnwys yr holl fathau, &c., ni a roddwn eto enghraifft i ddangos pa fodd y mae yr unigolion, gyda golwg ar eu trwch, yn cynnwys yr isfathau, a thrwyddynt hwy y bathau, a thrwy y rhai hyny y rhyw. Pa briodoleddau sydd yn gwneyd i fyny ein delwedd o'r rhyw ddynol? Rhesymoldeb, a chorff o lun neillduol. Pa briodoleddau a wnant i fyny ein delwedd o'r bath *Negro*? Rhesymoldeb, corff o lun neillduol, *ac o liw neillduol*. Yma gwelwn fod y ddelwedd o *Negro* yn cynnwys holl briodoleddau (trwch) ein delwedd o ddynolryw, a *mwy*. Yr un modd y mae ein delweddau o unigolion—o Ioan, o Beckett, o Eben, &c.—yn cynnwys holl drwch ein delwedd o fathau, ac o isfathan, a mwy. Gan fod yr egwyddor yma yn bwysig, ni a'i gosodwn eto fel hyn:—*Y mae delweddau yr holl uchddosbarthiadau yn cynnwys eiddo eu hisddosbarthiadau yn eu CEUEDD; ac eiddo yr holl isddosbarthiadau yn cynnwys eiddo eu huchddosbarthiadau yn eu TRWCH*. Ar hyn yr ymddibyna athrawiaeth barnau.

16. Amlwg yw fod y bath yn dal cyffelyb berthynas i'w isfathau ag a ddeil y rhyw i'w fathau. Os anghofiwn y rhyw, gan hyny, y mae yn amlwg y gallwn alw y bath yn ryw, a'r isfathau yn fathau. Gallwn wneyd Cristionogaeth yn fath o'r rhyw crefydd, a'r holl enwadau cristionogol yn isfathau o honi; neu, trwy adael o'r neilldu y ddelwedd o grefydd, gallwn wneyd Cristionogaeth ei hun yn ryw, ac yna daw yr holl isfathau blaenorol yn fathau odditani. Mor bell ag y mae *ffurfiau* yn myned, nid oes na rhyw na bath sefydlog, oddieithr yr hyn a elwir y rhyw uchaf, a'r bath isaf—y rhyw nad oes ond un briodoledd yn ei ddelwedd, a'r bath nad oes ond unigolion odditano. Y mae rhywiau a bathau sefydlog mewn natur, ond ni chaniatêir i ni yn awr fyned ar eu hol yno.

17. Yr ydym wedi bod, hyd yn hyn, yn edrych ar ddelweddau yn gyffredinol. Edrychasom hefyd ar y ddwy briodoledd a berthyn iddynt, yn gyffredinol, fel delweddau—*ceuedd a thrwch*. Y mae y ddwy briodoledd yma yn dal perthynas hanfoddol â delweddau. Nis gallwn weled sut y gallem gael delweddau hebddynt. Ond nid yw yr hyn y cawn sylwi yn nesaf arnynt—*enwau*—yn dal y fath berthynas. Gall fod, ac y mae, delweddau heb enwau. Y mae yn ddymunol i ni, er hyny, ar lawer o gyfrifon, sylwi arnynt; a chawn gyfseudra trwy hyny i sylwi ar amryw fathau o ddelweddau.

Enwau Priodol a Chyffredin.—Enwau priodol yw rhai a ddynodant unigolion. Enwau cyffredin yw y rhai a ddynodant ddosbarthiadau; ond rhaid iddynt fod yr un mor gymhwys i bob aelod o'r dosbarthiadau. Y mae Ioan, Mair, Eryri, Cader Idris, &c., yn enghreifftiau o'r blaenaf; a dyn, dynes, mynydd, &c., yn rhai o'r olaf. Gelwir pob enw cyffredin yn *derm*.

Enwau Dynodol a Chynodol.—Enwau dynodol yw y rhai a roddir i beth yn unig er mwyn ei wahaniaethu oddiwrth beth arall. Enwau cynodol yw y rhai a roddir i beth neu bethau oblegid meddiant o briodoleddau neillduol. Y mae pob enw cyffredin yn gynodol; y maent yn cynodi (cyd nodi) meddiant o briodoleddau, yn gystal ag yn dynodi yr hwn a'u meddianna. Cynoda yn enw "dyn" resymoldeb, &c.

Enwau Dansoddol a Chyflynol.—Yr ydym wedi gwleud eiu bod yn

alluog i ffurfio delweddau drwy ddansoddiad yn gystal a thrwy gyffredinolliad. Galwai Locke enw pob delwedd a ffurfiad drwy ddansoddiad yn enw dansoddol. Ond gan fod yr enwau hyn yn cael eu galw eisoes yn rai *cyffredin*, y mae ysgrifenywyr diweddar yn cyfyngu enwau dansoddol i ddynodi priodoleddau ar eu penau eu hunain, megys doethineb, hynawsedd, &c. Enwau cyflynol yw y rhai a ddynodant briodoleddau mewn undeb â'u meddiannwyr, neu yn *glyn* ynddynt, megys doeth, hyny yw *dyn* doeth; hynaws, hyny yw *dyn*, *dynes*, neu *fôd* hynaws.

Enwau Dirwym a Pherthynol.—Enwau dirwym yw eiddo y delweddau hyny sydd â'u bodolaeth yn hollol annibynol ar rai eraill. Enwau perthynol yw eiddo y delweddau hyny nas gallant fodoli heb ddelweddau eraill mewn cysylltiad neillduol â hwynt. Y mae tŷ, craig, dyn, &c., yn enghreifftiau o'r enwau a'r delweddau blaenaf, am y gellwch feddwl am danynt heb fod eu perthynas â phethau eraill o reidrwydd yn dyfod i'ch meddwl. Y mae tad a mab, brenin a deiliad, gŵr a gwraig, &c., yn enghreifftiau o'r olaf, am nas gall y naill fodoli yn weithredol, neu yn y meddwl, heb fod y llall hefyd. Yr oedd y blaenaf yn *dirwym*; ond y mae yr rhai hyn yn rhwymedig yn rhaffau perthynas, am hyny y maent yn *berthynol*.

Enwau Hônawol a Tholianol.—Pan fyddo gair yn cynodi meddiant o briodoledd neillduol, gelwir ef yn *honawol*; pan fyddo gair yn gwadu meddiant o briodoledd, heb ddyweyd dim am feddiant o briodoleddau eraill, gelwir ef yn *dolianol*. Felly y mae y geiriau anfarwol, diffwrth, &c. Gwada y termau hyn y priodoleddau marwoldeb a ffurthlondeb, heb ddyweyd dim am feddiant o rai eraill. Rheidiol, eto, yw sylwi y gall fod gair yn honawol mewn ffurf, ac yn dolianol mewn ystyr; megys, *segur*, yr hwn a arwydda amddifadrwydd o weithgarwch. Y mae yn amlwg y gelwir defnyddio naill ai geiriau hönawol neu dolianol am bob peth; oblegid y mae pob peth naill ai yn meddu priodoledd neillduol neu yn amddifad o honi.

Gall geiriau fod yn *unystyr*, yn *gyfystyr*, neu yn *amwys*. Y maent yn *unystyr*, pan na fyddo ond un ystyr iddynt. Y maent yn *gyfystyr* pan fyddo yr un ystyr i ddau air gwahanol; ac y maent yn *amwys* pan fyddo dau ystyr gwahanol i'r un gair.

Y mae rhaniadau eraill; ond nis gallwn eu dilyn yn bresennol.

18. Yr ydym, yn awr, wedi edrych ar ddelweddau dan dair arwedd; o dan eu *henwau*, eu *trwch*, a'u *ceuedd*. Gallwn sylwi eto fod gan resymeg dri pheth i ymwneyd, yn gyfatebol, a'r rhai hyn,—*enwad*, *darnodiad*, a *rhaniad*. Y mae *enwad* yn ymwneyd â rhoddi enwau ar ddelweddau; swydd *darnodiad* yw cyfrif priodoleddau cyfansoddol delweddau, neu ddangos eu *trwch*; a dengys *rhaniad* eu ceuedd. Am enwad nid oes eisieu dyweyd dim yn rhagor. Ond gorphwys arnom fanlyu ychydig ar y ddau beth arall.

19. *Darnodiad Rhesymegol.*—Y mae darnodiad rhesymegol yn wahanol i un cyffredin y Geiriadurwyr. Amcan yr olaf yw dangos ystyr geiriau; ond amcan y blaenaf yw dangos rhauau hanfodol, os nad holl ranau cyfansoddol, delwedd. Ond gan y byddai yn ormod gorchwyl cyfrif holl briodoleddau cyfansoddol delweddau yn un ac un, y mae ffordd ferach yn cael ei chymeryd. Oddiwrth yr hyn a ddywedasom eisoes, y mae yn amlwg nad yw *trwch*, neu briodoleddau cyfansoddol, delwedd uwch, yn ddim yn amgen na'i rhaledd ei hun wedi ei ychwanegu at gyfanswm priodoleddau delwedd is. Fel hyn, nid yw *trwch* y bath ond *trwch* y rhyw a

rhaledd y bath gyda'u gilydd. A chan nad yw trwch y rhyw ond cyfanswm ei briodoleddau cyfansoddol, y mae yn amlwg y byddwn yn dangos priodoleddau y bath mor effeithiol drwy osod ei raledd mewn cysylltiad â'r rhyw, a phe byddem yn cyfrif holl briodoleddau y bath yn un ac un. Y ffordd, yn ganlynol, a gymerir gan resymeg i ddarnodi yw hon:—Er darnodi delwedd uwch, gesyd ei phriodoleddau gwahaniaethol—ei rhaledd—mewn cysylltiad â delwedd is. Ei darnodiad o ddyn yw anifail *rhesymol o lun neillduol*. Anifail yw y rhyw, neu y ddelwedd is; a'r geiriau mewn llythyrenau Italaidd yw rhaledd y bath *dyn*. Er darnodi yn iawn, rhoddir y rheolau hyn:—1. *Rhaid i'r darnodiad roddi priodoleddau hanfodol, os nad ellir rhoddi holl briodoleddau cyfansoddol delwedd*. Y mae y rheswm dros hyn yn amlwg. 2. *Rhaid i'r darnodiad beidio cynnwys enw yr hyn a ddarnodir fel rhan o hono*. Fel hyn, nid iawn dyweyd mai aelod o'r teulu *dynol*, yw *dyn*; oblegid rhaid i ni wybod beth yw *dyn* cyn y gallom wybod beth yw *dynol*. 3. *Rhaid i'r darnodiad fod yn gyfaddas at yr hyn a ddarnodir yn unig*. 4. *Dylai darnodiad fod mewn iaith ddealladwy*. Ymddengys y rhesymau dros y rheolau yn ddigon eglur i'r darlennydd gydag ychydig ystyriaeth.

20. Y peth nesaf yw *Rhaniad Rhesymegol*.—Swydd rhaniad rhesymegol yw dangos ceuedd delweddan, neu ddangos eu gallu i gynnwys. Gwneir hyn y trwy ddangos pob peth a gynnwysir ynddynt. Fel hyn, er dangos ceuedd y rhyw, dangosir yr holl fathau cynnwysedig ynddo. Ac er rhanu, neu ddangos ceuedd, y bath, dangosir yr holl isfathau cynnwysedig ynddo yntau. Yr un modd y rhenir, neu y dangosir ceuedd, y bath isaf, drwy gyfrif yr holl unigolion. Paſſ y byddom, er dangos ceuedd y rhyw, yn dangos y bathau cynnwysedig ynddo, y mae yn amlwg ein bod, drwy hyn, yn amlgu fod ceuedd y rhyw yn gymaint a cheuedd yr holl fathau odditano. Yr un modd am y bathau a'r isfathau. Y mae rhaniad rhesymegol, fel hyn, yn hollol wahanol i raniad cyffredin. Y mae hwnw yn gwneyd yr hyn a renir yn llai, lai, fel y byddo y rhaniad yn cael ei barhau; ond y mae rhaniad rhesymegol yn gadael y ddelwedd a renir yn gywir fel o'r blaen, oddigerth fod ei cheuedd, drwy y rhaniad, wedi cael ei wneyd yn hysbys. Y mae rhai o'n hysgrifenwyr goreu wedi dyweyd nad yw rhaniad rhesymegol yn perthyn yn briodol i resymeg bur. Nis gallwn gydweled â hwy. Y mae ceuedd, fel y sylwasom, yn gymaint o briodoledd delweddan pur ag ydyw trwch. Y mae yn hawdd cyfrif am y camsyniad hwn; ond gan fod genym bethau pwysicach i ymdrin â hwynt, gadawn hyn yn breseannol. Gosodir y rheolau canlynol er rhanu yn gywir:—1. *Er dangos ceuedd delwedd uwch, rhaid i'r cyd-ddosbarthiadau a gynnwysa fod yn hollol ar wahan*. 2. *Rhaid i'r cyd-ddosbarthiadau â ddangosir fod gyda'u gilydd yn gymaint â cheuedd y ddelwedd a renir*. 3. *Er cadw y rheol flaenaf, rhaid i'r rhaniad gael ei wneyd ar yr un egwyddor*. Gydag ychydig ystyriaeth bydd y rhesymau dros y rheolau hyn eto yn amlwg.

21. Yr ydym, erbyn hyn, wedi gwled fod tri pheth yn perthyn i delweddan—*enwau, trwch, a cheuedd*; ac y mae gan resymeg dri gwaith i gyfateb i'r rhai hyn—*enwad, dansoddiad, a chyffredinoliad*. Drwy enwad y rhoddwn enwau; drwy ddansoddiad y gwneir trwch; a thrwy gyffredinoliad y gwneir ceuedd. Er argraffu cysylltiad y rhai hyn ar gôf y darlennydd, gosodwn y daflen hon o'i flaen. Y mae, gydag ychydig o gyfnewidiad, wedi ei chymeryd o Thomson.

Delweddau yn eu tair arwedd.

<p>A. ENW.</p> <p><i>Swyddi:— Enwad.</i></p> <p>Rhyw Corff</p> <p>Bath Corff byw ..</p> <p>Isfath Anifail</p> <p>Bath Isaf.. Dyn</p>	<p>B. TRWCH.</p> <p>hyny yw, y cynnyrchyddion a wnant i fyny y ddelwedd.</p> <p><i>Dansoddiad.</i></p> <p>Corff</p> <p>Corff. Bywyd</p> <p>Corff, Bywyd, Teimlad</p> <p>Corff, Bywyd, Teimlad, Rheswm</p>	<p>C. CEUEDD.</p> <p>hyny yw, yr hyn a gynnwysir, fel mesur eu cynnwysiad.</p> <p><i>Cyffredinoliad.</i></p> <p>Careg, Planigyn, Anifail, Dyn, &c.</p> <p>Planigyn, Anifail, Dyn.</p> <p>Anifail, Dyn.</p> <p>Dyn.</p>
---	---	--

Yn y rhyw, y trwch yw y lleiaf, a'r ceuedd yw y mwyaf. Yn y bath isaf, y trwch yw y mwyaf, a'r ceuedd yw y lleiaf.

22. Er dangos enghraifft o arferiad y tri gwaith, neu y tair swydd uchod—*enwad, dansoddiad, a chyffredinoliad*, ac eramlygu y modd y ffurfir delweddau drwy ddansoddiad a chyffredinoliad—cymernw ryw ddull dychymgol fel hyn. Meddylw'n fod rhywun yn cael ei gau i fyny mewn ystâd o unigedd hollol hyd nes y byddo wedi tyfu i oedran a synwyr gŵr. Meddylw'n ei fod, o'r diwedd, yn cael ei arwain allan i fwynhâu cyflawn ryddid. Y fath olygfa ydyw y byd iddo! Y mae y cyfan yn ymddangos yn dryblith di-drefn! Nid oes ganddo, eto, enw ar ddim, er fod ganddo allu i enwi pob peth. Y mae yr anhawsder o ymwneyd â phethau heb enwau arnynt, yn ei ddwyn i ddechreu ar y gwaith o enwi. Gan ei fod yn gweled fod pob peth yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, dechreu a roddi enw *priodol* ar bob peth. Ond, Ow! y mae mawredd ei dasg yn ei ddigaloni; ac y mae yn gweled erbyn hyn, pe bae yn gallu rhoddi enw priodol ar bob peth, y byddent yn hollol ddifudd, oblegid nas gallai eu cofio. Yn ddisymwth, y mae yn canfod fod rhyw debygolrwydd yn y pethau mwyaf annhebyg; a dechreu a feddwl am roddi yr un enw i bob peth yn *ol graddau eu tebygolrwydd*. *Dansodda* y tebygolrwydd y cyduna pob peth yn y meddiant o hono, a rhydd enw arno. A chaiff yr enw a roddir, nid yn unig *ddynodi* y pethau fyddont yn dwyn y tebygolrwydd, ond hefyd *gynodi* y tebygolrwydd a ddygant; hyny yw, caiff *arwyddo* beth yw y tebygolrwydd yr un pryd ag y dynoda y gwrthddrychau. Fel hyn, bydd yr holl enwau a rydd ar bethau, yn ol graddau eu tebygolrwydd, yn enwau *cynodol*. Wrth edrych o'i ddeutu, ac iddo ei hun, y mae yn canfod pob peth yn cyduno yn y ffaith o'u bod yn *bodoli*. Oblegid hyn, rhydd yr enw *bod* ar bob peth; a chynoda yr enw mai ar gyfrif eu cydfeddiant o *fodolaeth* y rhoddir ef arnynt. Aiff oddiamgylch, yn awr, a geilw bob peth yn *fod*. Ond buan y gwel mai ychydig yw gwerth yr enw hwn, am mai ychydig yw ei *drwch*—y priodoleddau tano. Aberthwyd ei drwch er mwyn gwneyd ei geuedd yn ddigon i gynnwys pob peth. Fel y gallai alw pob peth wrth yr un enw, anwybyddodd eu holl briodoleddau, oddieithr yr un y cydunant ynddi i gyd—*bodolaeth*; neu, yn hytrach, *dansoddiwyd* y briodoledd hon oddiwrth y lleill, fel y gellid rhwymo pob peth i undeb drwy ei chyfrwng. Cenydd y dyn, yn awr, mai mwyaf i gyd o briodoleddau a gynodir gan derm, mai mwyaf i gyd fydd ei *werth*, yn gystal a'i drwch; oblegid os gellir rhoddi enw a gynoda ddwy neu ragor o briodoleddau ar wrthddrych, yr ydym yn gwybod mwy am dano na phe bae yr enw yn cynodi dim ond un. Meddylia, gan hyny, am ddansoddi priodoledd arall at yr un flaenorol—*bodolaeth*. Wrth feddwl am bethau, gwel fod dosbarth lled fawr o honnynt yn alluog o effeithio ar y synwyr, tra y mae dosbarth äng arall yn analluog. *Dansodda*, gan hyny, y briodoledd o effeithio ar y synwyr, ac ychwanega hi at y flaenorol. Yn awr, y mae ganddo ddelwedd gyfansoddedig o ddwy

briodoledd—bodolaeth, a gallu i effeithio ar un neu ragor o'r synwyrâu. Geilw yr enw *mater* ar y ddelwedd hon, ac ar bob peth a gyfateba iddi. Geilw y dosbarth arall yn *ysbryd*; a chynoda yr enw hwn fodolaeth ac anallu i effeithio ar un neu ragor o'r synwyrâu. Er cynnyddu trwch ei ddelweddau, ac, mewn canlyniad, eu gwerth, ceisia ddansoddi priodoledd arall. Tra yn edrych o'i ddeutu, y mae yn canfod fod rhai o'r gwrth-ddrychau a gyfatebant i'r ddelwedd *mater* yn cyduno â'u gilydd yn y meddiant o *fywyd*. Dansodda y briodoledd o *fywyd*, ac una hi â'r lleill; a rhydd yr enw o *fater bywiol* ar y ddelwedd hon, ac ar bob peth a feddant eu phriodoleddau cyfansoddol—bodolaeth, gallu i effeithio ar un neu ragor o'r synwyrâu, a bywyd. Trwy gynllun cyffelyb, ychwanega y briodoledd o *deimlad* at y ddelwedd hon; a ffurfia ei ddelwedd o anifail. Wedi enwi hon, dansodda briodoledd arall—rhesymoldeb; y mae yma wedi cael ei ddelwedd o *ddyn*. Nis gall fyned lawer ymhellach heb ddisgyn at unigolion.

23. Fel yma y ffurfir delweddau drwy ddansoddiad. Trwy ddull cyffelyb gallem ddangos sut y ffurfir delweddau drwy gyffredinoliad. Meddyliwn fod y dyn dychymygol fu genym, yn lle edrych ar gydunedbau pethau, yn edrych ar eu gwahaniaethau, neu eu neillduolion. Y mae yn edrych ar nifer neillduol o bethau ag sydd i gyd yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd. Ond cenfydd y bydd ganddo, os gadawa o'r cyfrif neillduolion y pethau yr edrycha arnynt, ddelwedd o'u priodoleddau gweddill, â pha un y byddant i gyd yn cyduno. Trwy adael o'r cyfrif neillduolion dosbarthiadau eraill, ffurfia ddelweddau o honnynt. A thrwy adael o'r cyfrif neillduolion y delweddau hyn, ffurfia ddelwedd o ddelweddau. Ond amlwg yw fod ei ddelweddau yn dyfod yn llai lai eu trwch yn barhâus, i'r graaddau y byddo yn cyffredinoli. Gan ein bod wedi ymylu ar hyn o'r blaen, cawn ei adael am beth pwysig arall.

24. Mae yn briodol, ac yn anghenrheidiol, dyweyd, mai bodolaeth feddyliol yn unig sydd i'r delweddau y buom yn son am danynt. Pethau a grëir gan ddynion eu hunain ydynt. Y mae barnau gwahanol wedi bod. Meddyliwyd fod gan bob delwedd a ddynodir gan enw cyffredin fodolaeth annibynol ar y meddwl. Meddyliwyd fod y delweddau hyn yn dragywyddol, a bod hyd yn nod y Meddwl Dwyfol yn ddarostyngedig iddynt. Meddyliwyd gan eraill nad oedd y delweddau cyfatebol i enwau cyffredin yn ddim ond enwau, ac nas gallent fodoli yn annibynol arnynt. Oblegid y daliadau gwrthwynebol hyn, galwyd y bobl a ddalient fodolaeth wirioneddol ac annibynol y delweddau hyn yn *sylweddolwyr*, a galwyd y lleill yn *enwolwyr*. Y mae yn anhawdd dychymygu gyda pha fath wrës y bu y ddau ddosbarth yma yn dwyn eu dadleuon ymlaen. Rhanasant y byd dadleugar i raddau mwy neu lai cydrhyngddynt. Ac wedi i'r tafod a'r ysgrifell wneyd eu goreu, galwyd am gymhorth y cledd i benderfynu y pwnc. Y mae yr achos erbyn hyn wedi newid. Y mae dynion wedi gadael yr eithafion, ac yn ymgyru at eu gilydd i gydysgwyd dwylaw yn y canol. Ni chredir, yn awr, fod i'r delweddau a ddynonir gan enwau cyffredin fodolaeth weithredol ac annibynol. Ac ni chredir, ychwaith, eu bod yn hollol ddiibynol ar enwau am eu bodolaeth. Credir, yn hytrach, fod iddynt *fodolaeth yn y meddwl fel meddyliau*. Credir fod gan Dduw ddelweddau o bob peth er tragywyddoldeb; fod pob peth a ddygwyd ganddo i fodolaeth, wedi eu dwyn yn ol y delweddau hyn; a bod dyn yn alluog i ffurfio ei ddelw-

eddau yntau yn gyfatebol i'r rhai hyn. Gelwir y rhai a gredant mai bodolaeth feddyliol yn unig sydd i ddelweddan yn *ddelweddwyr*.

25. Fe allai y byddai yn fanteisiol i'r darlennydd, pe rhoddem grynoded, wrth derfynu, o'r hyn a ddywedasom ar ddelweddan. Y mae y wybodaeth a feddwn am bethau, yn dyfod i'r meddwl drwy y synwraau ac ymwybyddiaeth. Nid ydym yn gallu synwyr nac ymwybod dim, ond priodoleddau. Y mae pob priodoledd a synwyrwn, neu, a ymwybyddwn, yn gadael cynrychydd yn y meddwl ar eu hól. Y mae y meddwl yn medru cyfuno y cynarychyddion hyn er cyfansoddi delweddan o honynt. Gellir gwneyd hyn, yn ol fel y dysgir ni gan brofiad, neu, yn ol mympwy y dychymyg. Pa leiaf o briodoleddau a gyfunir mewn delwedd, mwyaf i gyd fydd ei cheuedd. Y mae trwch delwedd yn lleihâu fel y byddo ei cheuedd yn cynnyddu. Ond dansoddi y priodoleddau sydd yn gydfeddiant i wahanol ddelweddan, gellir ffurfio delweddan o ddelweddan. Y mae dansoddiad yn ymwneyd â chydunodebau; cyffredinolïad â neillduolion. Trwy ddansoddiad yr ychwanegir trwch delweddan; drwy gyffredinolïad eu ceuedd. Gelwir y priodoleddau a wahaniaethant ddelweddan oddiwrth eu gilydd yn rhaledau. Gelwir y ddelwedd sydd yn cymeryd i mewn holl briodoleddau adnabyddus yr hyn y byddo iddo fodolaeth weithredol o dan enw priodol. Gelwir delwedd o ddelweddan wrth yr enw cyffredin. Gelwir yr enw a ddy-noda ddelwedd, ac a nodu allan, ar yr un pryd, y priodoleddau cynnwysedig ynddi, yn *enw cynodol*. Gelwir priodoledd ar ei phen ei hun wrth yr enw *dansoddol*. *Enw cystlynol* a roddir ar briodoledd mewn cysylltiad â'r gwrthddrych. Y mae y ddelwedd a ffurfir yn annibynol ar bob un arall, yn *ddirwym*, a gelwir hi wrth yr enw *dirwym*. Gelwir y delweddan sydd â'r fath berthynas rhyngddynt fel nas gall y naill fodoli heb y llall, yn *berthynol*, a'u henwau yn *enwau perthynol*. Swydd rhaniad rhesymegol yw dangos ceuedd delweddan; swydd darnodiad yw dangos eu trwch. Gan nad yw delwedd uwch yn gwahaniaethu mewn dim oddiwrth ddelwedd is, ond ei bod yn meddu rhai priodoleddau ychwanegol, tybir fod enwi y ddelwedd is mewn cysylltiad â rhaled y ddelwedd uwch, yn ddiagon o ddarnodiad o'r ddelwedd hono. Nid oes i ddelweddan ond bodolaeth feddyliol.

Cynghorem y darlennydd i wneyd ei hun mor gyfarwydd ag y gallu â'r geiriau celfol a arferir genym cyn myned ymhellach.

MYNYDDOEDD Y BYD.

MAE mynyddoedd yn wrthddrychau ag sydd yn tynu sylw dynion lle bynag eu gwelont. Mae rhywbeth mawreddig mewn mynyddoedd ag sydd yn derchafu ac yn éangu y meddwl. Mae eu maintioli anferth, eu pinaclau goruchel, eu lluniau amrywiol, a'u clogwyni hagr, yn olwg mawreddog i'r llygaid. Mae y teimlad o éangder, cadernid, diysgogrwydd, a pharhâd, yn ymgodi yn naturiol wrth edrych arnynt. Y mae y meddwl o esgyniad

hefyd yn ymwithio i mewn mewn cysylltiad â hwynt; ac y mae y cwbl yn cynnyrchu teimladau ag sydd yn dra hapus a dyddorol i enaid dyn. Mae mynyddoedd hefyd yn dra defnyddiol. O honynt y cloddir mŵn, a glo, a llawer o bethau eraill. Y mae eu clogwyni uchel yn attal y cymylau yn eu llwybr, ac yn sugndynu eu dyfroedd i'w cistau dihysbydd, ac oddi-yno y dylifant trwy ddirgel-lwybrau filoedd, o dan wyneb y ddaear, nes tori allan yn ffynnonau bychain,—canys nid o'r môr yn uniongyrchol y tardda ffynnonau, fel y mae y dŷb gyffredin, ond o'r *cymylau*, y rhai a godir i fyny o'r môr trwy rym sugndyniad, ac a arllwysant eu cynnwys toreithiog a ffrwythlawn ar fynyddoedd a dyffrynoedd. Y ffynnonau bychain yma, yn gymaint a bod penau y mynyddoedd yn gyffredin yn llaith, a borthir yn ddbaid, ac a ffrydiant allan yn nentydd bychain, y rhai a neidiant i lawr dros y llethri serth o raiadr i raiadr, nes cyrhaedd y dyffrynoedd, a mwydo y ddaear â'u dyfroedd bywhäol. Oni bae fod mynyddoedd, ni fyddai na ffynnon, na nant, nac afon, na llyn ychwaith; canys fe ddychwelai y gwlybyroedd a godid o'r môr fel tarth yn ol i'r ddaear, ac fe'u hyfid i fyny gan y tir sych a'r pridd crasedig. Mae mynyddoedd hefyd, trwy eu codiad a'u hochrau llechweddog, yn helaethu arwyneb y ddaear, ac felly yn lliosogi ei chynnyrch; ac y mae y malurion a ysgubir i lawr yn fennyddiol i'r dyffrynoedd, yn eu ffrwythloni â'u brasder maethlawn. Mae mynyddoedd yn gysgodol iawn hefyd rhag gwyntoedd oerion y gogledd a'r dwyrain, ac y maent yn foddion i buro yr awyr, a'i wneyd yn fwy iachusol i ddyd ac anifail; ac heblaw hyn oll, y maent yn ychwanegu llawer at harddwch golygfaol y ddaear, ac yn offerynau i arwain meddwl dyn at fawredd, prydfwerthwch, a gogoniant eu Crëawdwr Dwyfol.

Pan y dygwyd y bellen yma, ar ba un yr ydym ni yn byw, i fôd ar y cyntaf, nid oedd un mynydd i'w weled ar ei harwyneb. Y dull cyntaf a wisgai ein daear ni, pan y dygwyd hi i lun gan y Duw a grëodd ei helfenau cyfansawdd yn y dechreuad, ydoedd corff tanllyd, cyfansoddedig o'r elfenau hyn wedi ymgasglu at eu gilydd, yn ol deddfau attyniad a gwrthdymnid—deddfau a osodid gan y Crëawdwr ynddynt—corff tanllyd, meddwn, yn hylwybro ei ffordd trwy yr entrych, ac yn cael ei gynnal ar y gwagle trwy y nerth attyniadol ag oedd yn dylanwadu arno oddiwrth gyrff eraill ag oeddent yn ehedeg trwy yr èangder fel yntau. Y llun naturiol oedd arno ydoedd *crown*, tebyg i unrhyw hylif arall yn trafaelu trwy yr awyr; megys y dyferyn dwfr, yr hwn sydd grwn, o herwydd fod yr awyr yn gwasgu yr un faint o bob tu arno. Felly hefyd yr oedd cyfangorff ein byd ni yn grwn ar y cyntaf; a phan yr oerodd crofen y telpyn tanllyd, trwy ei yrfa chwim yn èangder crëadigaeth, yr oedd hwnw ar y cyntaf yn wastad a difylchau; ond galleu ddysgwyl mai nid hir y parhâi fel hyn. Trwy fod y cymysgiad elfenol yn dygyfor oddimewn, a'r gwahanol ddefnyddiau yn cael eu dwyn i gyffyrddiad â'u gilydd mewn gwahanol gyfartaledd, y canlyniad naturiol a fyddai i'r grofen chwyddo mewn manau, a chracio, a thori yn holliadau, trwy ba rai yr ymwithiai y defnyddiau tanllyd i'r wyneb, ac a orlifent trosodd, nes ffurfio o honynt, wedi iddynt ymgaledu, ryw wrým neu dwyn o fynydd, cynnwysedig o'r Creigiau *Granitaidd*, sef creigiau isaf ein daear; neu, fe deifid y defnyddiau i fyny, mewn manau eraill, â nerth mawr, trwy yr holliadau, yn uchel i'r entrych, ac yna disgyntent yn dalpau hanner-toddedig i lawr yn y gymydogaeath, nes ffurfio o honynt fynydd mawr, yn cynnwys y Creigiau *Basaltic*, ac eraill. Dyma fel y

furfiwyd mynyddoedd cyntaf y grëadigaeth. Fe faluriodd y creigiau hyn yn raddol, raddol, a'u malurion a ddisgynai fel gwaddod i waelodion y dyfroedd, lle yr ymgaledasant yn haen ar haen; yr hen ddaearen fel hyn yn oeri yn raddol, a'i chrofen yn tewhâu, a defnyddiau ei mynyddoedd yn ychwauegu o hyd. Tra yr oedd hyn yn myned ymlaen, yr oedd terfysg mawr yn nghorff y ddaear. Nid oedd yr un creadur byw eto wedi ymddangos arni ar lun nac anifail na llysiuyn. Yr oedd y gwres tumewol yn rhy sawr eto, a'i chyfiwr yn rhy ansefydlog a therfysglyd, i un peth byw hanfodi arni. Tymmor cynhyrfus iawn hefyd, mae yn eglur, oedd tymmor ffurfiad yr ail greigiau, sef y Creigiau Trawsnewidiol (*Metamorphic Rocks*). Fel ag yr oedd yr elfenau tanlyd oddifewn yn ymchwyddo ac yn ymwthio allan trwy grofen y ddaear, gan hollti y Creigiau Granitaidd a'r Trawsnewidiol, a thafu ei choluddion i fyny i'r entrych, felly hefyd fe suddai manau eraill yn bantleoedd ac yn ddyffrynoedd, ar ba rai y gorweddai y dyfroedd ag a ymfurfient yn foroedd, tra yr oedd penau y mynyddoedd yn ynysoedd mawrion yn eu canol, megys y mae Ynys Brydain yn awr, yr hon nid yw ond pen llydan mynydd mawr ag sydd a'i wreiddiau i lawr yn nyfnderoedd yr Atlantic. Parhái y cynhyrfaeau hyn trwy dymmor ffurfiad y Creigiau Siluraidd, a'r *Old Red Sandstone*, yn amser pa rai y rhwygwyd drachefn rai o'r creigiau cedyrn a ffurfiadid o'r blaen drwyddynt, ac y tafwyd allan i'r wyneb fynyddoedd mawrion o greigiau y *Trap*, a'r *Porphyritic*, a'r *Basaltic*, ac eraill, y rhai a ddyflifent, fel y darluniasom o'r blaen, yn llynau toddedig dros arwyneb y ddaear, ac a ymgaledent ac a orweddent lle y gwelir hwy heddyw.

I ddangos mai nid dychymyg yw hyn, ni a roddwn hanes, fel esiampl, o amgylchiad cyffelyb i hyn a gymerodd le, hyd yn nod yn ein dyddiau ni. Ar y 24ain o Fehefin, 1863, ymwelwyd âg un o ynysoedd y Môr Tawel âg amryw o ddaeargrynfâau cryfion ac arswydus. Ond o herwydd fod hyn yn cymeryd lle yn aml, nid oedd y trigolion yn talu cymaint sylw iddynt. Yr oedd y daeargrynfâau yn fwy dychrynlyd a garw mewn ardal o'r Ynys o'r enw *Ahau*. Yn *Ahau* nid oedd ond ychydig o deuluoedd yn preswyllo. Nifer y boblogaeth oedd rhywfaint yna hanner cant. Prydnawn y dydd crybwyllledig, nid oedd dim neillduol i'w ganfod tu hwnt i'r cyffredin. Aeth yr holl drigolion i gysgu fel arferol. Ar hanner nos, beth bynag, wele ddaeargryn dychrynlyd yn deffro yr holl bentref mewn braw. Ond fe aeth hyn heibio eto; a chan nad oedd un canlyniad iddo, ond rhyw dreiglwrst yn nghrombil y ddaear, aethant i orphwys drachefn, heb feddwl nemawr eu bod hwy yn gorwedd ar wely o dân, yr hwn a'u llyncai hwy, a'u tai, a'u tiroedd, mewn dwy awr fechan yn ei hylif angerddol i dragywyddoldeb. Am dda o'r gloch y boreu, wele eto ddaeargryn ofnadwy yn hollti y ddaear yn nghanol y pentref anfodus; ac mewn eiliad, wele yr hylif tanlyd a'i fflaglau ysol yn ymwthio allan o'i chrombil, nes gorchuddio y pentref, yn dai, a dynion, a dâ, â'u gorlifant dychrynlyd. O'r trigolion, achubodd deunaw o honynt eu hunain, megys yn wyrthiol. Un dyn a syrthiodd i un o'r agenau a wnaed yn y ddaear,—ond yn ffodus, ennillodd ei draed eilwaith, a chyda ei fod yn neidio i fyny, wele y fflaglau tân yn esgu o'r twll i ba un y syrthiasai! Mewn ychydig o amser, yr oedd cymaint â deng milldir o dir goreu yr ynys wedi ei orchuddio a hylif toddedig, yr hwn a ymgaledodd yn graig galed. Yn y ffordd hyn, gan hyny, y tafwyd llawer o fynyddoedd uchel y byd i fyny. Eto, nid eu bytheirio

allan a gawsant hwy i gyd. Codwyd rhai 'o honynt yn raddol, ac eraill a ymchwyllyd yn ddisymawth trwy rym y nerthoedd tumewnol ag oedd-ynt yn dylanwadu yn fwy ar ddullwedd arwyneb y ddaear pan yr oedd y grofen yn denau, nag ydynt yn awr. Codwyd llawer o fynyddau yn nhy-mmor ffurfiaid y glo, ac wedi hyny yn nhy-mmor bwystfêdol y dyfroedd, ac yn y cyfnod olaf, hefyd, cyn ymddangosiad dyn ar y ddaear. Bu dadymchweliad ac adferiad, eilwaith a thrachefn, nes cael yr hen ddaear yn addas, o'r diwedd, yn ol trefniad ei Chréawdwr doeth, i fod yn drigfa i ddyn. Nid oes ond ychydig iawn o fynyddau wedi eu codi ar ol ymddangosiad dyn ar y ddaear; ac y mae doethineb nawr i'w weled yn hyn; canys pa fodd y gallai dyn fyned ymlaen â'i orchwylion yn y byd, pe bae pob gwlad yn debyg i'r ynys yna yn y Môr Tawel y buom ni yn son am dani?

Mae gwahanol farnau yn bod o barth i drwch crofen y ddaear; ond bernir gan lawer o wŷr dysgedig yr oes hon, trwy gymharu ffeithiau â ffeithiau, nad yw yn fwy nag ugain milldir, os ydyw gymaint; a beth yw ugain milldir o grofen o gwmpas y clamp tanlyd toddedig sydd yn ffurfio cyfangorff ein daear, ac yn agos i wyth mil o filldroedd o drwch? Pliagyn tenau o ugain milldir o drwch yn gorwedd ar wyth mil o filldroedd o ddefnyddiau tanlyd! O! mor ansefydlog yw y byd ag y mae y rhaa fïosocaf o blant dynion yn pwysu arno, ac yn seilio eu gobaiith arno, am wynfyd a dedwyddwch! Nid oedd yn rhyfeddod yn y byd fod Dafydd yn ammben sefydlogrwydd pethau cadarnaf natur; ac O! mor ddoeth yr oedd am wneuthur ei noddfa mewn rhyw fan diysgog, nas gellid mo'i syfŷd byth. "Daw sydd noddfa a nerth i ni," meddai, "cymborth hawdd ei gael mewn cyfngder. Am hyny, nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr: er rhâo a therfysgu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwyllyd ef. Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhânt ddinas Daw; cysegr preswylfeydd y Goruchaf. Daw sydd yn ei chanol, nid ysgog hi: Daw a'i cynnorthwya yn fore iawn." Gwnawn ninnau ein noddfa yn yr un fan.

Dyna ychydig o hanes cyffredinol am *ffurfiaid* y mynyddoedd. Yn awr ni a ddeuwn ar hyn yn nês adref.

Mae mynyddau i'w cael yn gyffredin yn sypiau gyda'u gilydd ar wyneb y ddaear. Anaml iawn y cyfarfyddwch chwi â chawc uchel ar ei ben ei hun yn nghanol dyffryn neu wastadedd. Eto ceir rhai fel hyn, megys y Peak, yn Teneriffe, ar gyffiniau Affrica; Craig Gibraltar yn yr Hispaen; Caer Gwialior yn yr India Ddwyreiniol; a mynydd Egmont yn New Zealand. Ymddangosant yn fynychaf yn gadwynau, neu gyfundraethau, a'u penau yn ymddyrchafu i'r entrych, o wahanol uchder, ond eu traed yn glymedig wrth eu gilydd. Yn gyffredin, ceir uu asgwrn cefn cryf yn rhedeg trwy gorff y rhestr; ac yna y mae gwahanol asenau yn ymestyn allan o bob ochr, rhwng llethri pa rai y gorwedd y dyffrynoedd harddwych a ffurthylawn, yn drigle priodol i ddyn, er cysgod a phob mantaie i gynnyrchu ei ymborth beunyddiol, a dwyn ei wahanol orchwylion pwysig ymlaen. Y mae prif gadwynau mynyddoedd yr hen fyd yn gorwedd mewn gwahanol gyfeiriad i gadwynau mynyddoedd America. Yn Ewrop, Asia, ac Affrica, gorweddant, yn gyffredin, o'r dwyrain i'r gorllewin; yn America, yn y gwrthwyneb, gorweddant o'r gogledd i'r dé. Prif gadwynau yr hen fyd ydynt y rhai a ganlyn:—1. Yr Alps, yn Switzerland, yn gwneyd cadwen o 500 o filldroedd o hyd. 2. Y Carpathian, yn Awstria, yn gwneyd cadwen o 600 o filldroedd o hyd. 3. Y Pyrenees, rhwng Ffrainc a'r

Hispaen, yn gwneyd cadwen o 225 o filldroedd o hyd. 4. Y Balkan, yn Twrci, yn gwneyd cadwen o 600 o filldroedd o hyd. 5. Yr Ural, sydd yn derfyn rhwng Ewrop ac Asia, yn gwneyd cadwen o 1300 o filldroedd o hyd. 6. Y Dofrafeld, yn Norway, yn gwneyd cadwen o 1100 o filldroedd o hyd. 7. Y Caucasus, rhwng y Môr Du a'r Caspian, yn Asia, yn gwneyd cadwen o 700 o filldroedd o hyd. 8. Lebanon, yn Syria, yn gwneyd cadwen o 250 o filldroedd o hyd. 9. Y Belloor-Tagh, yn Cabool, yn gwneyd cadwen o 800 o filldroedd o hyd. 10. Y Kuen-lun, yn cyrhaedd o Beloor-Tagh i China, ac yn gwneyd cadwen o 1600 o filldroedd o hyd. 11. Y Tien-Shân, rhestr arall, yn cyrhaedd o Beloor-Tagh i Mongolia, ar gyffiniau China, ac yn gwneyd cadwen o 1600 o filldroedd o hyd. 12. Yr Altâi, ychydig yn fwy i'r gogledd na mynyddoedd y Tien-Shân, yn gwneyd cadwen o 970 o filldroedd o hyd. 13. Yr Himalayan, yn cynnwys hefyd yr Hindoo-Coosh, yn gorwedd ar hyd llinell ogleddol yr India Ddwyreiniol, rhwng Hindostan a Thibet, yn cynnwys rhai o fynyddoedd uchaf y byd, ac yn gwneyd cadwen o 2000 o filldroedd o hyd. 14. Jeb-al-Kumri, neu mynyddoedd y Lleuad, fel eu gelwir, yn rhedeg drwy ganolbarth Affrica, ac yn gwneyd cadwen o 2000 i 3000 o filldroedd o hyd. 15. Mynyddoedd yr Atlas, tua chyffiniau gogleddol Affrica, yn gwneyd cadwen o 2000 o filldroedd o hyd. Ac yn America, dyna y Mynyddoedd Creigiog (*Rocky Mountains*), yn rhedeg o'r Behring's Straits, yn y gogledd, hyd wddf eul Isthmus Panama yn y deheuol, i'r America Ogleddol, ac yn gwneyd cadwen o 3600 o filldroedd o hyd; ac yna yn cymeryd yr enw mynyddoedd yr Andes, yn yr America Ddeheuol, ac yn cyrhaedd o wastadedd Panama hyd Cape Horn, sef Pentir Deheuol America, ac yn gwneyd cadwen o 4650 o filldroedd o hyd. Mae amryw gadwynau eraill, heblaw y rhai a nodwyd, yn America, yn gystal a'r hen fyd; ond y rhai a enwyd yw y prif rai. Gallasem sylwi ar yr Appenines, yn yr Eidal; mynyddoedd y Taurus, yn Asia Leiaf; yr Elwund a'r Elburz, yn Persia; y Stonovoi a'r Yablonoi, yn Siberia Ddwyreiniol, yn Asia, ac yn rhedeg i fyny i'r *Behring's Straits*, sef y cyfyngfôr sydd yn gwahanu rhwng Asia ac America, lle yr ymgysylltant â Mynyddoedd Creigiog America Ogleddol; a gallasem enwi hefyd mynyddoedd Abyssinia, yn Affrica, a'r Appalachian, yn Ngogledd-dir America, a'r Cordilleras, yn yr America Ddeheuol, ynghyda mynyddoedd Awstralia; ond cymerai ormod o feithder i ni fanylu arnynt bob yn un ac un.

Mae uchder mynyddoedd yn cynnyddu fwyfwy yn gyffredin o'r pwynt gogleddol hyd linell y cyhydedd, neu ganolgyrch y byd, yn agos i ba un y cair y clogwyni anferth hyn ag sydd yn ymdderchafu i eigion y nefoedd, ac yn dal cymdeithas megys â thrigolion gwledydd gwawl. Ac y mae hyn yn beth a allem ei ddysgwyl oddiar y ffaith o fod y ddaear yn troi ar ei hechel—effaith pa un a fyddai i'r defnyddiau tanllyd toddedig ymchwyddo tua chanol ei chyfangorff, trwy y duedd sydd mewn pethau wrth droi i ffoi ymaith oddiwrth y canolbwynt, yr hon duedd sydd bob amser yn gweithredu gryfaf mewn llinell ag a fyddo yn myned tros ganol y corff troedig. Effaith hyn yw fod y ddaear wedi colli peth o'i defnyddiau tua'i phwynt gogleddol a'i phwynt deheuol, a'r llinell ganol wedi ennill yr un cymaint, ac ymchwyddo, fel ag y mae tryfesur y ddaear tua chwe milltir ar hugain yn fwy o'r dwyrain i'r gorllewin nag ydyw o'r gogledd i'r de.

Mae llun mynyddau yn ymddibynu bron yn gwbl ar ddefnyddiau eu cyf-

ansoddiad. Mae y Mynyddoedd Granitaidd yn ymddangos yn dalpau mawrion, a'u clogwyni yn tueddu tuag at fod yn *grwn*. Gwelir y mynyddoedd sydd yn cynnwys y Creigiau Siluraidd yn dangos eu dannedd noethion, a'u clogwyni yn gorwedd, yn haen ar haen, ar eu hosgo, ac yn hytrach yn flaenllym. Mynyddoedd yr *Old Red Sandstone* eto a ganfyddir yn llyfn, a'u pegynau llethrog yn dadguddio ond ychydig o greigiau noeth, ond wedi eu gorchuddio, gan mwyaf, â haen o geryg a phridd, ag sydd yn peri eu bod yn borfa dda i ddefaid ac anifeiliaid eraill. Yn ol eu dullwedd, felly hefyd y dodir gwahanol enwau arnynt. Gelwir rhai yn "nodwyddau," ac eraill yn "ddannedd," ac eraill yn "begynau," ac eraill yn "dwynau," ac eraill yn "gefnau," ac eraill yn "gyrn," &c. Nid yw eu hochrau yr un mor serth o bob tu. Yn gyffredin, gwelir llethr serth ar un ochr, ac yna disgynfa raddol yr ochr arall. Felly y ceir yn yr Alps, y rhai a ymgodant yn raddol o ochr Switzerland, ond ydynt yn llechweddau serth o ochr Itali. Yn fynychaf, y mae yr ochr serth yn gwynebu tua'r môr; felly y ceir, heblaw yr Alps, yn yr Himalaya, ag sydd yn ymgorodi yn ddisymwth iawn o ochr yr *Indian Ocean*, ond yn disgyn yn raddol tua'r gwastadedd o'r ochr ogleddol. Felly hefyd yr Andes, a'r Mynyddoedd Creigiog, yn America, y sydd â'u llethri noeth yn gwynebu y Môr Tawel, tra y mae eu cefnau yn ymestyn, o'r ochr arall, gannoedd o filldroedd i ganol y cyfandiroedd. Yn yr hen fyd, yr ydym yn cael, fel deddf, fod y disgyniad graddol yn gwynebu y gogledd, tra y mae y llethri disymwth yn ysgyrnygu eu dannedd ar y dehau. Yn America, y mae yr ochrau serth yn dangos eu hesgyrn noeth tua'r gorllewin, tra y mae eu cefnau breision yn gorwedd yn llafnau meithion, cyffus i haul y dwyrain lewyrchu arnynt er eu gwresogi a'u ffrwythloni, er cynnalïaeth anifeiliaid dirfeddi, ac ymborth dyn.

Yr ydym eto heb son dim am *wahanol uchder* mynyddoedd y byd. Fel y gallech ddysgwyl, y maent yn gwahaniaethu yn fawr yn hyn eto. Megys ymhlith plant dynion, nid oes ond ychydig o honynt yn fwy o'u hysgwyddau i fyny nag eraill o'u hamgylch, ac ychydig mewn cymhariaeth sydd yn gorynod bychain iawn. Mae y rhan fwyaf o honynt o'r maintioli canol; ac y mae yn debyg mai dyna y goreu wedi y cwbl—bod rywle yn y canol, heb fod yn rhy fawr nac yn rhy fach, gyda golwg ar bob peth. Mae dyn tâl iawn yn bur anfanteisiol i fyned drwy ddrws go isel, ac y mae dyn byr iawn yr un mor anfanteisiol i ymestyn at ryw beth go uchel, pa fo anghen—y canolradd yw y goreu. "Na ddyro i mi na chyfoeth na thlodi," meddai y gŵr doeth. "Nid da rhy o ddim." Felly hefyd, y mynyddoedd o'r maintioli canol yw y rhai mwyaf defnyddiol, a dyna, gan hyny, y rhai lliosocaf, yn ol arfer y Crëawdwr hael yn ei drefniadau a'i fwriadau daionus. Mae yn anhawdd rhoddi y meddwl priodol am *faintioli* rhai o fynyddoedd y byd. Yr ydym ni yn barod i gymharu pethau â'r pethau cyffelyb a syrthiodd o fewn cylch ein gwybodaeth ni. Yn ol ein tyb ni, y mae yr Aran, Cader Idris, a'r Wyddfa, yn fynyddoedd uchel iawn; ac y *maent* hwy felly hefyd, mewn cymhariaeth i'r bryniau bychain o'u hamgylch. Ond pe baem ni yn myned i Ysgotland, a chodi ein golygon i fyny ar hyd ochrau llethrog Ben Nevis, Ben Lomond, Cairngorum, a Phen-Mac-Ddu, er cymaint ein hawydd a'n heiddigedd tros ogoniant Gwylt Walia, byddai raid i ni ostwng ein penau, ac ildio y goron i'n cymydogion Albanaidd. Ond pe baem ni yn estyn ein llywbr, a phenderfynu, gyda llawer o'n cydwladwyr, i gymeryd "Taith ar y Cyfandir," mae yn bur debyg mai tua Switzerland y byddai cyf-

eiriad ein llwybr; ac wedi cyrhaedd yno, fe'n dyrmysid ni yn gwbl yn ein hen ddychymygiion am faintioli ac uchder mynyddoedd; byddai raid i ni daflu ymaith oddiwrthym am byth ein hen syniadau, gan edrych ar y Wyddfa, a Chader Idris, a Ben Nevis, ond fel rhyw grugfrynau bychain mewn cymbariaeth i Mont Viso, y Schrekhorn, y Jungfrau, Mont Cervin, Mont Rosa, ac yn olaf, er nad y lleiaf, ond yr uchaf oll—brenin holl fynyddoedd Ewrop—Mont Blanc, yn ngolwg pa rai nid ä neb i son am uchder mynyddoedd Prydain mwy. Ond ni a awn trosodd, trwy Awstria a Thwrci, a heibio i Sebastopol, i Asia, a dyna gopa y Casbeck, yn nghadwen y Caucasus, ag sydd yn baeddu Mont Blanc ei hun. Ond beth ydym ni yn son? Awn ymlaen tua mynydd yr Ararat, ar bu un y cafodd yr arch orphwysfa gyntaf ar ol ei mordaith ryfedd, a chyda'i thrysor gwerthfawr ag oedd i ddechreu y byd â chenedlaeth newydd. Mae Ararat yn estyn ei globyn i'r nefoedd yn uwch o ryw fil o droedfeddi na Chasbeck. Ond ni a awn rhagom tua Phersia, ac yn mynyddoedd Elburn, dyma ni yn esgyn fil o doedfeddi yn uwch eto na mynydd cribog yr Ararat. Wel, yn siŵr, dyma ni yn ddigon uchel yn awr—dyma ni yn dair milldir o uchder mewn llinell unionsyth oddiar wyneb y môr; ni fuom ni erioed mor uchel o'r blaen. Yr ydym bron a cholli ein hanadl eisoes. Aroschwch, aroschwch, mae eisieu pwysau wrth eich adenydd, meddych chiwi. Wel, ein darllenwyr hynaws, gwnewch chiwi a fynoch; os na ellwch chiwi ein dilyn, ewch i lawr mor gynted ag y gellwch; ond y mae ein hedyn eto yn teimlo yn gryf, fel eiddo yr eryr sydd yn chwifio yn yr entrych tua phenau cribog mynyddoedd yr iâ, ac yn chwareu uwch eu clogwyni ysgethrog, gan gyfarch y dymhestl yn ei rhuthr, a chwareu â'r byrddwynt yn ei orchest, a chartrefu yn ddirfaw a diffal ar glopâu clogyrnog y mynyddoedd tragwyddol. Ni a ehedwn eto yn uwch, gan hyny, tuag ucheldiroedd pellenig yr Himalaya, yn yr India Ddwyreiniol; ac yn awr, i fyny, ac i fyny, ac i fyny â ni, ac i fyny eto; a dyma ni ar ben clogwyn y Gossainthan, sydd yn wyth mil o droedfeddi yn uwch na Mont Blanc (hanner cân uchod eto âg ef), saith mil yn uwch na'r Ararat, a chwe mil yn uwch na'r Elburn! Ond dacw glogwyn uwch eto; felly, gadewch i ni ehedeg tua hwnacw, canys ffarwel i *ddringo* yn awr, y mae y llethri yn rhy serth. Dyma ni yn awr ar gopa y Swetaghar, a chan' troedfedd yn uwch na'r Gossainthan. Yspiwch o'ch cwmpas! Wel, dacw benglog uwch eto. Cyweiriwn ein hadenydd, ac ymaith â ni. Dyma ni yn awr ar ben y Nanda-Devi, tua mil o droedfeddi yn uwch na'r olaf. Dyma ni o'r diwedd, bid siŵr, ar frigyn uchaf y grëadigaeth. Nac ydym; cymerwch bwyll. A welwch chiwi y clogwyn acw, a'r iâ tragwyddol yn dysgleirio arno â thanbeidrwydd yr haulwen? Pa le y mae? O! codwch eich pen, canys y mae yn rhaid ei godi *eto*. Dacw fe, yn siŵr. Wel, awn eto. Ymaith â ni; ni a chwifwn yn yr entrych fel yr eryr ymfrostgar, ac ni a chwarddwn yn ein balchder uwchben y dyfnderoedd odditanom, a'n cyfeiriad i fyny, i fyny tua'r nefoedd, a dyma ni yn awr ar gopa y Chamalari, a mil o droedfeddi yn uwch na'r Nanda-Devi. Ond nid oes i ni arosfa yma eto, canys yr ydym am gyrhaedd mor agos i'r nefoedd ag y mae yn bosibl tra yn anadlu awyr daear, gan dael y byd a'i drafferthion, a'i ddwndwr, a'i ffoledd, ar ol. Dyrchewch eich llygaid i fyny. A welwch chiwi y clogwyn draw? Cyweiriwn ein hadenydd yn lew, canys y mae hwn acw yn ddwy fil o droedfeddi eto yn uwch; a dyma ni wedi ei gyrhaedd. Y mae yr awyr yn denu; mae yn anhawdd anadlu;

mae pwysau anghyffredin yn gwasgu ar y fynwes: prysurwn oddiyma. Beth yw yr enw? Dhawalagiri. Ond y mae un eto—Kunchinginga—y mae yn rhaid i ni gael rhoi ymweliad iddo cyn dechreu ein taith i lawr tuag iseldiroedd trigfanau plant dynion. Ymaith â ni; ac ni a ganwn ar ein haden,—

“Mae 'n dymuniadan 'n 'hedeg fry,
Uwch creadigol fyd;
Gan ddiystyru 'r ddaear hon
A'i da o'r bron i gyd.”

Wel, dyma ni yn awr; wele ni, o'r diwedd, bron wedi “ehedeg,” yn wir, “uwch creadigol fyd.” Dyma ni ar frigyn uchaf y greadigaeth ddaearol, a'n penau yn chwifio yn yr awyr, heb un peth bellach rhyngom â'r nefoedd; braidd na chodai ein traed oddiyma i ehedeg tuag yno. Ni a gychwynwn, beth bynag, i ymweled â'r lleuad yn gyntaf. Nid all hi ddim bod ymhell iawn, bid siŵr. Yn araf, gyfeillion; er eich bod chwi yn 28,178 o droedfeddi yn uwch na gwyneb y môr, eto, mewn cymhariaeth i gyfangorff y ddaear, nid ydych eto wedi cyrhaedd i ben ond megys twmpath y wâdd, ac y mae cymaint â 240,000 o filldroedd rhyngoch a chyrhaedd clogwyni y lleuad. Ond cofwch eich bod yn awr yn uwch na chopa Mont Blanc o ddeuddeg mil o droedfeddi, ac na'r Ararat o un mil ar ddeg. Ond gan eich bod mor wisgi ar eich adenydd, ac mor wrol eich hysbryd, beth pe cymerem ein hymdaith tros gefnôr y Môr Tawel, tua chlopiâu tanlyd a chribog America, a dyma ni yn disgyn ar gopa uchaf mynydd St. Elias, yn y gogledd, ag sydd yn 700 o droedfeddi yn uwch na mynydd yr Ararat. Awn ymlaen tua'r dehau; a dyma ni ar ben clogwyni tanlyd y Popocatapetl, sydd yn bytheirio ei fflaglau i fyny megys o eigion uffern. Y mae yn rhy beryglus i aros yma yn hir, er ein bod ni yn awr yn uwch na'r Ararat o 600 o droedfeddi. Ni a estynwn ein hymdaith, ynte, gyda mynyddoedd yr Andes tua'r dehau. Yn gyntaf, dyma Cotopaxi yn 1100 o droedfeddi yn uwch na Popocatapetl; Antisana yn 300 troedfedd uwch na Cotopaxi; a Cayambè yn 400 troedfedd uwch nag Antisana; Illimani, a'i gopa tanlyd, yn 1700 o droedfeddi yn uwch na Cayambè; Nevado de Sorata yn 140 troedfedd uwch nag Illimani; Chimborazo yn 200 troedfedd uwch na Sorata; Parinacota yn 600 troedfedd uwch na Chimborazo; Sahanma yn 300 troedfedd uwch na Parinacota; ac yn olaf oll, Aconcagua yn 1600 o droedfeddi yn uwch na Sahama, ac yn agos i 7000 o droedfeddi yn uwch na'r Ararat, yn gymaint a'i fod yn 23,910 o droedfeddi o uchder, yn chwydu ei fflaglau allan o'i geudod yn ddiffino bob dydd a nos, ac yn uwch o'i ysgwyddau na holl gewri mynyddoedd America, heb anghen arno i ofni neb o'i frodyr yn yr holl gyfandir o begwn gogleddol i begwn deheuol y byd; ac eto, gwylied rhag tafu ei olwg dros y Môr Tawelog i Asia, canys y mae yno gymydogion a edrychant i lawr yn ddiystyryllyd arno, gan fod 5000 o droedfeddi rhyngddo i'w gystadlu â hwynt.

Yn awr, er mwyn cael golwg briodol ar eu gwahanol uchder, ni a awn trostynt drachefn; ac i'r dyben hyn, fe fydd yn fanteisiol iawn fod genym ryw safon o'n blaen â pha un i gymharu y naill â'r llall. Ac y mae y safon yn ymyl. Cymerwn fynyddoedd uchaf Cymru. Uchder Bânau Brycheiniog yw 2862 o droedfeddi. Mae Cader Idris, yn y Gogledd, yn 2914, neu 52 o droedfeddi yn uwch; Aran Fowddy yn 2955, neu 93 o droedfeddi yn uwch; a'r Wyddfa yn 3571, neu yn 709 o droedfeddi

yn uwch. Mae Carntual, yn yr Iwerddon, yn 3404, neu 542 o droedfeddi yn uwch; Ben Nevis, yn yr Ysgotland, yn 4368, neu yn agos cân uchod ddwywaith â Bânau Brycheiniog. Dyma yr uchaf yn Mhrydain Fawr. Yn y Pyrenees, rhwng Ffrainc a'r Hispaen, yr ydym yn cael amryw tros 10,000 o droedfeddi o uchder; ac erbyn cyrhaedd Sŵitzerland, y mae mynyddoedd yr Alps yn esgyn yn llawer uwch eto—y Jungfrau yn 13,718, Mont Cervin yn 14,710, Mont Rosa yn 15,157, a Mont Blanc yn 15,750. Ond erbyn myned trosodd i Asia, yr ydym yn cael Casbeck, yn y Caucasus, yn 16,532; a mynydd yr Ararat yn 17,112; ac Elbrun, yn Persia, yn 18,493. Eithr, fel y dywedasom eisoes, y mae y rhai hyn yn colli eu henwogrwydd, o ran eu uchder, wrth ochr clogwyni pellenig yr Himalaya yn Thibet. Dyna y Gossainthan yn 24,740; y Swetagar yn 24,860; y Nanda-Devi yn 25,740; y Chamalari yn 26,000; y Dhawalagiri yn 28,073; a Kunchingga, yr uchaf oll, yn cyrhaedd i'r uchder anhygoel o 28,178, sef tua phum milldir mewn llinell unionsyth o wastadedd gwyneb y môr. Yn Affrica, yr ydym yn cael Miltsein, yn mynyddoedd yr Atlas, yn 11,400; a Abba-Jared, yn Abyssinia, yn 15,200; a Kilimandjaro, yn mynyddoedd y Lleuad, tua pharthau dwyreiniol Affrica, yn 20,000 o droedfeddi o uchder. Yn Madagascar y mae un mynydd o'r enw Ambo-tismene yn 11,606; ac yn y Canary Islands, tua chyffiniau gorllewinol Affrica, y mae y mynydd hynod hwnw, y Peak of Teneriffe, yn 12,172. Yn ynys Sumatra, un o ynysoedd yr India Ddwyreiniol, y mae yno un o'r enw Singal-lang yn 16,000; ac yn Awstralia, un o'r enw Warragong o'r un uchder. Yn America, a dechreu yn y gogledd, yr ydym yn cyfarfod â mynyddoedd St. Elias yn 17,860; Popocatapetl, yn Mexico, yn 17,717; Cotopaxi, yn Ecuador, yn 18,875; a'i gymydogion Antisana yn 19,137; Cayambè yn 19,535; a Chimborazo yn 21,424. Mae mynyddoedd Peru yn uwch eto—Parinacota yn 22,030, a Sahama yn 22,350. Wrth drafaelu ymlaen tua'r dè, yr ydym yn cyfarfod âg Illimani yn 21,149; Nevado de Sorato yn 21,286; a'r Aconcagua, yr uchaf oll, yn 23,910. Fel hyn, yr ydym yn cael mai yn Asia y mae mynyddoedd uchaf y byd, yn America y rhai nesaf, yn Affrica y nesaf, a bod mynyddoedd uchaf Ewrop yn is na rhai a geir yn y parthau eraill o'r ddaear.

Nid eu *huchder* yn unig sydd yn peri fod hynodrwydd ar fynyddoedd; na, y mae pethau dyddorol eraill yn gwneyd i fyny eu nodweddiad, fel ag y gall mynydd *bychan*, mewn cymhariaeth, fod eto yn llawer mwy hynod a dyddorol nag eraill nad oes gaeddynt i ymfrostio ond yn mawredd eu maintioli. Yr un ffunud ag y gall dyn go fychan o ran ei faintioli corfforol fod yn llawer mwy dyn, ac yn llawer mwy enwog, na rhyw gawr nad oes ganddo ddim arall i'w hynodi ond yn unig dygwyddiad ei daldra. Y mae cymaint a 303 o fynyddoedd tanllyd (*volcanoës*) yn adnabyddus, ac y mae llawer mwy na hyn a fuont unwaith yn llosgi, ond ydynt wedi diffoddi er ys llawer oes.

Gelwir mynydd tanllyd neu losgedig wrth yr enw *Volcano*—enw ag sydd yn tarddu oddiwrth y gair Vulcanus, yr enw a roddir gan y Rhufeiniaid ar Dduw y tân. Golygid mai *gŵf* oedd yr hen Vulcan, ac iddo gael ei eni a'i fagu yn y nefoedd gyda'r gweddill o'r duwiau, ond i'w dad, Jupiter, ei fwrw i lawr oddiyno am ei waith yn ceisio rhyddhâu ei fam, Juno, yr hon a rwymasid â chadwyn aur o herwydd ei thraba. Dywedir iddo fod naw niwrnod yn disgyn o'r nefoedd i'r ddaear, ac iddo dori ei goss, druan, wrth

gwympto, a'i fod byth yn gloff ar ol yr amgylchiad anffodus hyny. Druan o Vulcan! Bu gorffod iddo ymadael â'r nefoedd; a'r fangre lle y cymerai ei breswylfod i fyny oedd o dan fynydd tanllyd Etna, yn Sicily, lle yr oedd ei weithdŷ, a lle yr arferai weithio y taranfoltau i'w dad, Jupiter, i'w bwrw i lawr ar blant dynion, pan y byddai eisieu eu ceryddu o herwydd eu drwgfoesau! Llyna chwedl yr hen bobl gynt. Digon tebyg mai llygriad yw yr enw Vulcan o'r enw *Tubal Cain*, mab Sillah o Lamech, gweithydd pob cywreinwaith pres a haiarn.

Mynydd yw *Volcano* sydd yn bytheirio allan o'i enau fwg, a fflaglau, a marwor, a ffrydlifoedd dychrynlyd o ddefnyddiau toddedig o'r enw *lava*. Mae yr enw hefyd yn gyfeiriol at yr hyn a elwir *mud Volcanos*—mynyddau ag sydd yn chwydu *llaid* allan. Ceir *volcanoes* Ewrop ac Asia yn gyffredin mewn ynysoedd, ond rhai America gan mwyaf ar y cyfandir. Mae y rhan fwyaf o ynysoedd yr Atlantic, y Môr Tawel, a Môr India, wedi eu tafu i fyny gan *volcanoes*. Yn Ewrop, fe ganfyddir arwyddion tân yn rhai o ynysoedd Ysgotland. Tua chanol Ffrainc, cyfarfyddir â rhagor na chant o gromenau volcanaidd wedi diffoddi. Yn ynysoedd yr Azores, ychydig i'r gorllewin i Portugal, ceir amryw o ynysoedd newydd wedi eu tafu i fyny, ac eraill wedi diflanu. Yn yr Eidal, yn neillduol tua'r parthau deheuol, yn nghymydogaeith Rhufain a Naples, a'r ynysoedd cyfagos, y mae y galluoedd volcanaidd yn gweithredu yn rymus ac yn ddychrynlyd dros ben. Yma y ceir Vesuvius—yma y ceir Etna—yma y ceir Vulcanella—y Chicciola, yn ynys Stromboli, ag sydd yn berwi gan fflamau digofus, heb orphwys na dydd na nos. Ceir hefyd arwyddion tân yn Germani, Hungari, ac ynysoedd gwlad Groeg; ac y mae yn rhaid i ni beidio ac anghofio Iceland, cyn ymadael âg Ewrop, yr hon sydd yn cynnwys lliaws o fynyddau tân yn nghanol yr iâ oesol, tua phegwm gogleddol y byd, megys y Krabla, y Leirunkur, y Trölladyngur, Hecla, yr Eyafiall, y Kötligia, a'r uchaf oll, yr Oerafa-Jökul ag sydd yn llosgi â thân gwas-tadol, yr hwn a ymruthra allan yn y modd mwyaf dyeithr ac arswydol mewn llawer o fanau. Peth arall, mewn cysylltiad â'r rhai hyn, yw y *geysers*, neu y dyfroedd berwedig a chwyrndefir allan o ganol yr iâ i uchder anferth i'r awyr. Yn Affrica, y mae arwyddion o fod *volcanoes* wedi bod yn gweithredu yn rymus yn mynyddoedd yr Atlas, ac yn nghymydogaeith y Môr Coch, o ba un y mae rhwygiad wedi cymeryd lle trwy y Môr Marw, a dyffryn yr Iorddonen, a Môr Galilea, hyd gyffiniau mynydd Lebanon—lle y mae y ddaear yn amlwg wedi suddo yn is na'r wlad o bob ochr. Fe allai mai yn amser dadymchweliad Sodoma a Gomorra y bu hyn. Ynysoedd wedi eu tafu i fyny gan rym tân tumewnol y ddaear yw y Canaries a St. Helena, lle y bu Buonaparte yn treulio tymmor ei alltudiad—fel llew wedi ei gadw mewn ffau, rhag iddo larpio pawb o'i gwmpas, ac aifonyddu heddwch y byd. Yn Asia, mae y rhanau dwyreiniol yn fwy tanllyd nag odid i ddim a'geir ar wyneb y ddaear. Yn Kamschatka, y mae amryw o danchwydfeydd neu losgfaloedd mawrion tra dychrynlyd a grymus yn awr yn fyw; ac y mae y llinell o fynyddau tân i'w dilyn yn cerdded trwy y Kurile Isles, ymysg pa rai y ceir naw o *volcanoes* anferthol yn awr yn chwydu eu perfeddion allan; ac wedi hyny, trwy ynysoedd Japan, a'r Phillipine, a'r Moluccas, nes cyrhaedd yr Ynys Lom (*Barren Island*) yn Môr-gilfach Bengal. Mae y ddaear yn ansefydlog iawn yn y gwledydd hyn—rhai manau yn codi, ac eraill yn suddo yn ddisymwth, o

hyd—daeargrynfâau ofnadwy yn dygwydd yn aml, ac yn dadymchwelyd pob peth o'u lle, gan ysgubo trefydd, a dinasoedd, a'u trigolion oddiar wyneb y ddaear yn ddirybudd! Yn America, y mae cadwen anferth yr Andes yn un gyfundrefn o losgfaloedd drwyddi. Mae cymaint â 46 wedi eu rhifo yma eisoes, o ba rai nid oes dim llai na 41 yn awr mewn grym, a rhai o honynt, megys y Cotopaxi, Antisana, a Tunguragua, o faintioli anferthol, ac yn saethu eu fflaglau i fyny i entrych nefoedd. Nid oes ond un yn awr yn effro yn Peru. Yn Chili, y mae cymaint a 19 yn dangos eu grymusder ar brydiau, ac un o honynt, sef, Villarica, yn llosgi bob amser. Yn Ngogledd-barth America, fe gyfarfyddir â 47 o fynyddau llosgedig, ac y mae cymaint â 30 o'r rhai hyn yn awr yn llosgi tua Mexico a Chalifornia.

Mae rhai llosgfaloedd newydd wedi tori allan yn nghôf dyn, ymysg y rhai y mae yr Ynys Sabrina yn agos i'r Azores, yr hon a dafwyd i fyny yn y flwyddyn 1811. Yn y flwyddyn 1814, ymddangosodd un yn yr Aleutian Islands, yn nghymydogoeth Kamschatka. Yn 1759, cododd chwech o rai mawrion yn ngwastadedd Jorullo, yn Mexico; ac y mae amryw wedi codi i fyny yn y môr er y fl. 1811. Y mae Vesuvius weithiau yn cysgu am gyhyd â chan mlynedd, ac wed'yn yn deffro yn frawychus. Yn y Peak of Teneriffe, nid yw y toriad allan ond yn anaml, weithiau ar ol cannoedd o flynyddoedd o lonyddwch. Yn y mynyddau hyn sydd o uchder cymedrol y tŷ y tân allan fynychaf. Mae rhai, fel yr awgrymwyd eisoes, yn llosgi yn wastadol, megys Stromboli, yr hwn a elwir wrth yr enw "*Light-house mawr Môr y Canoldir*," a Kilanea yn un o'r Sandwich Islands—un o'r rhai rhyfeddaf sydd ar wyneb y ddaear. Dyma y disgrifiad a roddir o hono gan un a'i gwelodd,—“Gwedi i ni gyrhaedd at ymyl genau y llosgorel (*crater*), gwelsom olygfa mwy dychrynlyd a mawreddig na dim a ddychymygasem erioed. Dyna lle yr oeddem ni yn edrych i lawr i lynclyn ofnadwy o dân, tua 1500 o droedfeddi odditauom, a thros ddwy filldir o gwmpas. Yr oedd ymylon y *crater* mor serth, fel y tybiem y gall-em roi naid o'r lle y safem i ganol y cadduglyn berwedig. Yr oedd ei arwyneb yn aflonydd ac yn dygyfor fel y môr. Tónau ar dônau a luchient eu hymchwyyd cynddeiriog i'r awyr, ac weithiau y tónau gwrthwynebol a gyfarfyddent â'u gilydd nes tafu y troch-ddylif tanlyd i fyny i uchder o ddeugain i hanner cant o droedfeddi. Mor ofnadwy oedd yr ymdrech aruthrol oddimewn—y fath oedd y twrf, a'r dadwrdd, a'r dirdrwt brawychus—yn tuchan, yn ochain, yn ebychu, yn gryngian, yn grwnach, yn chwiban, yn chwythu, fel ag i beri i un o honom gilio yn ol gan lefain, 'Gelwch ef yn wendid, neu beth bynag a fynoch, ond nis gallaf fi edrych eto.'” Ac eto, dyma y llynclyn tanlyd, i lawr at ymylon pa un y disgynodd *gwraig*, ag oedd yn un o'r brodorion, ac yn gristion dychweledig, ac a drochoedd ffon yn y llifeiriant tanlyd, i'r dyben i argyhoeddi ei chymydogion coelgrefyddol, ag oeddent yn edrych arni o bell, ac yn dysgwyl ei gweled yn cael ei llyncu i'r gwaelodion ar darawiad, o'u ffoledd yn credu y cosbai *Peli*, duw y tân, pwy bynag a anturiai halogi ei gysegr sanctaidd, sef llosgorel y *volcano*! Beth na wna cristion dros ei Dduw?

Mae grymusder chwilfriwiol y nerthoedd tanlyd yn un o'r pethau mwyaf mawreddog ac arswydus mewn natur. Cynhyrfaeau dirgrynlol, ag sydd weithiau yn ysgwyd y ddaear i bellder mawr—cwynfanau galarus a meithon—tyrfau yn treigltrystio yn y ddaear—yr holl fynydd mewn cyffro,—

dyma yr arwyddion cyntaf. Yna gwelir y mŵg sydd yn esgyn i fyny o ffroenau y mynydd yn cynnyddu, yn myned yn dewach, dewach, ac yn ymddyrchafu yn uchel yn un golofn ddudew. Pen uchaf y golofn hon, o dan ei phwysau ei hun, a sudda i lawr, ac a ffurfia ben llydan crwn, tebyg iawn i goeden frigog, a'i cholfenau wedi eu tori ymaith, gan adael y rhai uchaf i ffurfio clopa pengrych iddi. Gwedi hyn, dyma golofn o dân yn tori trwy y pentwr cymylog o fŵg, ac yn esgyn yn orwyllt i fyny, gan fwgwrth rhoddi y nefoedd ar dân gan ei awch. Y mŵg o'i gwmpas a'i cuddia weithiau o'r golwg am foment, a gwelir mellt yn lluchedu yn arswydus yn ei ganol. I gyd ar unwaith, wele y golen tanbaid yn suddo i lawr i'r ddaear, a thywyllwch fel y fagddu yn ei ddilyn. Eto nid yw y mynydd ddim yn llonydd. Yn ei berfeddion, clywir twrf ofnadwy yn rhüo; a chyda hyn, dyma fytheiriad o farwor, ysgarthion, a swrwd yn ymchwydu allan; darnau anferth o greigiau yn cael eu lluchio tua'r nefoedd; a llaid a dwfr berwedig yn cael eu gwasgaru gyda rhuthr ffyrnigwyllt, ac yn disgyn i lawr dros aeliau y mynydd, gan chwyth-leisio wrth ymdreiglo dros y creigiau poethedig! Ond nid hyn yw y cwbl. Yn union ar ei ol, wele gorff o hylif llosgedig, tebyg i haiarn wedi ei doddi, yn ymgodi o geudod y mynydd, yn llifo dros yr ymylon, ac yn disgyn i lawr ar hyd ochrau y mynydd hyd ei odreu. Yma yr erys, weithiau; oud yn gyffredin, fe ymleda, ac a ymchwydda, ac a lifa ymlaen yn ffrochwyllt fel afon liseiriol, gan ddyfetha pob peth a ddaw yn ei sfordd, a throi milldiroedd o ddaear, ag oedd o'r blaen yn feusydd ffwrthlawn a thoreithiog, yn ulw tanllyd o alanasdra difaol. Nid yw y lava, neu y ffrydlif danllyd, bob amser yn dylifo allan o *ben* y mynydd; weithiau y mae yn rhy bwysig a thew i'w godi i gopa y mynydd; a'r pryd hyn fe ymdora allan trwy rwygiadau o'r ochr, trwy ba rai y ffrydia y cenllif ffrowysol i'r gwaelodion. Ac nid wrth ddamwain y mae hyn i gyd yn cymeryd lle. O! na; y mae o dan reolaeth deddfau ag sydd yn gweithredu yn ol meddwl ac ewyllys y Crëawdwr. Y mae ffroedd gorwylltog y *volcano* tanllyd wrth ei reolaeth! Mae berw angerddol defnyddiau anian wrth ei awgrym a'i amnaid! "Efe a edrych ar y ddaear, a hi a gryna; Efe a gyffwrdd â'r mynyddoedd, a hwy a fygant." Ac os "rhoes Efe ddeddf i'r môr, ac i'r dyfroedd, fel na thorent ei orchymyn Efe," felly hefyd fe osododd derfyn i'r llifeiriaint tân fel nad elont drosto, ac fel na orlifent i orchuddio y ddaear. Dysgwn ei gydnabod, ei barchu, a'i addoli!

Ond y mae yr arwyddion yn wahanol ar brydiau. Weithiau byddant rywbeth fel y canlyn,—Y ddaear yn ymsymud fel meddwyn—murmur anfoddlawn tyrfau tanddaearol i'w glywed—y mynydd a'r wlad o'i amgylch yn crynu; dyma yr arwyddion cyntaf o ymgyrch yr elfenau â'u gilydd. Gyda hyn, dyma'r gwastadedd yn ymchwyddo ac yn ymholli; mynyddoedd yn codi lle nad oedd ond gwastadedd o'r blaen, ac eraill yn diflanu o'r man lle y safent oesoedd cyn hyny. Yn y flwyddyn 1759, fe godwyd, mewn un noswaith, fynydd newydd, a alwyd wedi hyny wrth yr enw Jorullo, yn Mexico, i uchder o 1695 o droedfeddi, tra yr oedd y wlad oddiamgylch, am dair neu bedair milldir, fel chwysigen chwyddedig. Ar yr 8fed o Hydref, yn y flwyddyn 1822, tuag un o'r gloch yn y prydawn, clywyd sŵn aruthrol yn nghymylogaeth mynydd y Galung Gung, yn ynys Java. Gorchuddiwyd y mynydd yn ddisymwth â chwmwl tew o fŵg, ac afonydd o *laid* poeth brwmstanaidd a lifent i lawr ei lechweddau ar bob ochr, ac a

gludent gyda hwynt bob peth a safai ar eu ffordd. Yr oedd golygfa arswydus yn Badang, sef yr afon Tschiwulan yn rhwysgo yn ei llifeiriant dyeithr liaws mawr o gyrff dynion, anifeiliaid, a thai cyfain, ac yn eu cludo gyda'u gilydd i'r môr. Ni pharhâodd y llifeiriant yma o laid poeth ond dros ddwy awr o amser, ond yr oedd hyny yn ddigon i ddyfetha talaeth gyfan. Erbyn tri o'r gloch, yr oedd wedi peidio; ond yn awr, dyma gawod dychrynlyd o ludw a swrd yn disgyn, nes llwyr ddinystrio pob peth a adewsid ar hyd wyneb y ddaear o'r blaen, a llosgi i syny y coed yn ulw. Erbyn pump o'r gloch, yr oedd y cwbl yn llongydd unwaith eto; ond yn y cyfamser byr hwn, yr oedd pob pentref a phob adeilad am filldroedd wedi eu gorchuddio â llaid; ac mewn manau lle nad oedd o'r blaen ond gwastadedd hyfryd, yr oedd y ddaear wedi ymgodi yn fryniau uchel. Ond un o'r esiamplau hynotaf o rymusder y nerthoedd volcanaidd yw yr hanes a roddir i ni am yr hyn a gymerodd le yn Nicaragua, gwlad ag sydd yn gorwedd yn agos i'r Gulf of Mexico rhwng cyfandiroedd gogleddol a deheuol America, ar y 20fed o Ionawr, 1836. Yn y nos, rhwng yr 16eg a'r 17eg o Ionawr, fe ddafrôdd y *volcano* a elwir Cosigüina o'i gwsg blaenorol, gan ddangos arwyddion o aflonyddwch dirfawr. Fe barhâodd hyn am arnyr ddyddiau; ond wele o'r diwedd y rhuthr ofnadwy, ynghyda daeargryn a deimlwyd dros fil o filldroedd oddiyno. Mor aruthrol oedd y twrf, fel y clywid ef, nid yn unig yn holl drefydd Guatemala, ond can belled â Kingston yn Jamaica, tuag wyth gant o filldroedd oddiyno, ac hyd yn nod yn Santa Fè de Bogota, ag sydd fil o filldroedd o bellder o'r lle. Yr un peth oedd hyn a phe baem ni yn clywed sŵn taranau Vesuvius, yn yr Eidal, o fryniau Cymru a Lloegr. Mor ddychrynlyd oedd yr ymarllwysiad o swrd ac ysgarthion, fel yr oedd y wlad, dros bump a thriugain o filldroedd o amgylch, wedi ei gorchuddio â thywyllwch a ellid ei deimlo mewn gwirionedd. Gwthiwyd y traeth wyth gant o droedfeddi i'r môr trwy gwmpiad y swrd, a thafwyd dwy ynys o greision a checys i syny yn yr angoria gyfagos. Cludwyd y lludw mân gyda'r gwynt mor belled a Jamaica, lle y disgynai ar y 24 a'r 25ain o Ionawr, sef ymhen pedwar a phump o ddiwrnodau ar ol i'r rhuthr gymeryd lle; ac yr oedd hyn, fel y dywedasom eisoes, yn wyth gant o filldroedd o'r mân lle y tafwyd hwy allan gyntaf. Mewn lle a elwir Belize, tua thri chant a hanner o filldroedd o'r lle, tybiai y swyddogion Brytanaidd mai sŵn magnelau llongau rhyfel mewn brwydr ydoedd; a thybiai eraill o'r trigolion fod lluoedd gelynl yn ymosod ar y dref.

Y llosgfal *hynaf* y gwyddys am dano, fel un wedi bod yn effro yn nghoffadwriaeth dyn, yw *Etna*, yn Sicily. Ceir hanes am dano ei fod yn effro yn amser Hiero, brenin Sicily, yn y flwyddyn 476 cyn Crist. Mae mynydd Etna yn sefyll ar waelod o tua 90 milldir o gwmpas, a'i uchder yn 10,874 o droedfeddi. Rhodda gwahanol deithwyr wahanol fesuriadau ar enau y mynydd. Golygir ei fod yn rhywle o chwech i wyth gant o droedfeddi o ddyfnder, ac o ddwy filldir a hanner i bedair milldir o gwmpas, hyny yw, y *losgorel* (crater); ond y mae yn agored i newid yn barhâus. Yn y canol, ceir pigwrn yn ymgodi. Weithiau fe gwmp hwn i mewn; ond fe'i hailffurfir yn fuan wed'yn. Yn y fl. 1444, yr oedd y pigwrn hwn yn dri chant ac ugain o droedfeddi o uchder. Yn y fl. 1693, pryd y cymerodd y daeargryn grymus hwnw le ag a siglodd yr oll o ynys Sicily, ac a laddodd 60,000 o ddynion, fe ddisfanodd y pigwrn bron yn gwbl. Heblaw hwn, ar gopa y mynydd, y mae cymaint a phedwar ugain o bigyrnau wedi eu tafu

i fyny yn ochrau y mynydd; ac nid yw uchder mynydd Etna wedi newid llawer er ys dros ddwy fil o flynyddau yn ol. Mae genym hanes am gymaint ag *un waith a thriugain* pryd y bu Etna yn chwydu ei berfeddion i fyny—deng waith cyn amser Crist, deuddeg waith yn ystod y pymtheg can' mlynedd nesaf, dwy ar bymtheg o weithiau yn y ddwy ganrif ddiweddaf ond un, a dwy ar hugain o weithiau o hyny hyd yn awr. Yr olaf a fu yn y flwyddyn 1842.

Yn y flwyddyn 1669, fe daflodd daeargryn yr holl dai yn Nicolosi i lawr. Tref yw Nicolosi ag sydd tuag ugain milldir o gopa Etna. Y pryd hyny fe ymagorodd dwy gagendor yn agos i'r dref, o ba rai y bwrid i fyny gymaint o sindw a thywod ag i ffurfio mynydd o bedwar cant a hanner o droedfeddi o uchder, a dwy filldir o gwmpas. Yn nyffryn St. Lio, fe agorodd y ddaear gyda thrwst mawr, ac a wnaeth hollt o chwe throedfedd o led, ac o ddyfnder anhysbys, yr hwn a gyrhaeddodd dros ddeuddeg milldir o ffordd, hyd o fewn milldir i gopa Etna. O'r hollt hwn yr oedd goleu tanbaid yn llewyrchu. Wedi hyny fe agorodd pump o holltiadau eraill, y naill ar ol y llall, gan anfon mwg i fyny, a thyrst-dyrfu mor uchel fel eu clywid ddeugain milldir oddiyno. Torodd ffrydlif danllyd o *lava* allan hefyd, ac a orlifodd dros bedair ar ddeg o drefydd a phentrefydd, rhai o honynt yn cynnwys poblogaeth o dair i bedair mil o drigolion! O'r diwedd, cyrhaeddodd furia y ddinas Catania, yr hon sydd tua thair milldir ar hugain o Etna. Yr oedd y trigolion wedi rhagweled beth oedd i ddyfod, ac felly wedi codi muriau o driugain troedfedd o uchder, fel gwrthglawdd i wrthsefyll y ffrydlif ddinystriol. Ymlaen, er hyny, y daeth, ac a lanwodd, ac a lanwodd i fyny, nes gorlifo uwchben y muriau, a disgyn yn rhaiadr tanllyd drosodd, nes gorchuddio rhan o'r ddinas â'i lifeiriant difaol. O ugain mil o drigolion yn y ddinas, ni achubwyd ond tair mil. Yr oedd y ffrydlif arswydol hon o dân wedi rhedeg dros bymtheg milldir o dir, yn chwe' chan' llath o led, a deugain troedfedd o ddyfnder, cyn cyrhaedd y môr, ac wedi dyfetha dros saith mil ar hugain o ddynion yn ei gyrfa.

Rhoddir hanes i ni hefyd am y cyffroad a gymerodd le yn mis Tachwedd, 1832. Ar y dydd olaf o Hydref, tua hanner awr wedi dau yn y prydawn, clywyd y ddaear yn crynu amryw weithiau, ynghyda thrwst tyrfau yn y ddaear. Yn nghanol y nos, canfyddwyd yn eglur fod y *volcano* wedi tori allan mewn dau fan yn agos i ben y mynydd. Tefid swrwd a sindw allan trwy dyllau bychain mewn llawer man, ac o un o honynt yr ymgywalltai firwd o *lava* toddedig. Mewn man arall, fe agorodd y mynydd mewn pedwar lle, o ba rai y lluchid ysgarthion a swrwd allan i uchder anhygoel, ynghyda chruglwythau anferth o greigiau llosgedig. Yr oedd y ddaear yn crynu gyda hyn yn ddiymorphwys, a'r twrf tanddaearol yn arswydus dros ben. Yr oedd yr ergydian yn anghyffredin o rymus a pharháus. Codai colofn o dân i fyny i uchder o chwech ugain troedfedd, yr hon wrth blygu i'r ddaear, ryw gymaint o bellder o'r lle y codai, a ffurfiai swa hynodol o dân. Yr oedd y *lava* wedi cyrhaedd pedair milldir mewn pum niwrnod, ac wedi dyfod o fewn tair milldir i dref o'r enw Brontè, yn cynnwys tair mil ar ddeg o drigolion. Yr oedd y trigolion, druan, wedi brawychu am eu bywyd—rhai wedi ffoi oddiyno, ac eraill yn gwneyd pob ymdrech i droi cyfeiriad y ffrydlif i ryw ffordd arall; ond nis gellid myned yn nês na chwarter milldir iddo o herwydd tanbeidrydd y gwrês. "Y mynydd hwn yr wyf yn ysgrifenu," meddai yr hanesydd, "y mae y *lava* wedi cyrhaedd o fewn dwy

filldir i Bronté, ac erbyn prydawn yfory fe fydd tynghed y dref anffodus hon wedi ei benderfynu." Fe arbedwyd y dref, beth bynag. Yr oedd y ffrwd danllyd wedi llifo dros ddeunaw milledir o dir, yn filldir o led, ac yn ddeg troedfedd ar hugain o drwch; ond fe ymranodd yn ddwy afon cyn cyrhaedd Bronté, ac felly yr aeth o'r neilldu heibio.

Un o'r llosgfaloedd hynotaf yn Ewrop yw *Vesuvius*, yn agos i Naples. Nid yw *Vesuvius* ond tua'r un uchder â'r Wyddfa. Nid oedd ond un pigwrn iddo, pan ddaeth gyntaf yn adnabyddus; yn awr y mae dau; ond y mae y mynydd hwn yn newid ei lun yn aml. Yn y fl. 79 y bu y dân-chwydfa foreuaf ag y mae sôn am dano mewn hanes. Buasai y mynydd yn llonydd er ys oesoedd, a choedwigoedd mawrion wedi tyfu ar ei ochr, a threfydd a phentrefydd wedi eu hadeiladu yn ei gymydogeaeth, a'r trigolion mor dawel a digyffro a ninnau yn Nghymru. Ond tua'r fl. 63, dygwyddodd daeargryn ag a wnaeth niwed go fawr i'r dinasyddion cymydogol. O'r pryd hwnw hyd y fl. 79, nid oedd y ddaear ddim yn llonydd yn hir un amser; ac yn mis Awst, yn y flwyddyn hòno, daeth y cynhyrifiadau yn fwy aml a brawychus, nes tori o'r tân tumewinol allan o'r diwedd. Yr oedd Pliny yr Hynaf, cādlywydd y llynges Rufeinig, mewn trefn gymydogeaethol o'r enw *Misenum* ar y pryd, a chymaint oedd ei awydd i gael gweled o agos yr olygfa ryfeddol, fel y collodd ei fywyd, trwy ei fygu â'r mygdarth brwmstanaidd. Arosodd ei nai, Pliny yr Ieuangaf, yn *Misenum*, ac a ysgrifennodd i ni hanes o'r amgylchiad. "Gwelwyd," meddai, "golofn dew o fŵg yn esgyn i fyny yn unionsyth o glopa *Vesuvius*, ac yna yn ymwasgaru i'r ochr. Gwânwyd y cwmwl du yma, yn awr a phryd arall, gan fflachau o dân mor danbaidd â mellen, yr hyn a ddilynid â thywyllwch mwy dudew na thywyllwch y nos. Yr oedd y ddaear yn crynu, a'r môr yn cilio oddiwth y glanau; a chymaint oedd y lludw a'r swrwd a fwridd allan, fel y gorchuddiwyd y ddwy ddinas fawr a poblogaidd *Herculaneum* a *Phompeii*, ddeg troedfedd a thriugain o dan wyneb y ddaear." Cafwyd gweddillion y ddwy ddinas hyn allan yn y ganrif ddiweddaf; ac y mae yr arwyddion a geir yn y tai—y dodrefn yn eu lle—yr arwydd-luniau ar ochrau y tai, &c., yn argoel i ni mai yn ddisymwth, fel dinystr *Sodoma* a *Gommora*, y gwyswyd y trigolion hyn o fyd o amser i gyfarfod â'u Duw. Ar ol y pryd hwn, y mae *Vesuvius* wedi bod yn chwydu ei geudod i fyny bedwar ugain o weithiau.

Yn y fl. 1538, bu daeargrynfau aruthrol tua diwedd mis Medi; ysgwydwyd y ddaear ugain o weithiau o fewn yspaid pedair awr ar hugain. O'r diwedd, yn nos y 29ain o'r mis, wele agendor yn ymagor yn agos i'r dref fechan *Tüpergola*. Yr holltiad a ddynesai at y dref gyda thrwst arswydol, gan luchia allan ysgarthion, a swrwd, a lludw, a dwfr, ynghyda fflamiau. Ciliai y môr yn ddisymwth ddau cant o latheni, a'r holl draeth yn y gymydogeaeth a godai amryw o droedfeddi, ac felly y mae yn aros hyd heddyw. Taffwyd y mynydd a elwir *Monte Nuovo*, yr hwn sydd 440 o droedfeddi o uchder, i fyny mewn noswaith a diwrnod. Yn y fl. 1822, fe orchuddiwyd yr holl wlad o gwmpas â thywyllwch mor dew, gan y cwmwl lludw a defiid i fyny o enau y mynydd, fel y gorfodid y bobl i fyned o amgylch yn y dydd wrth oleu *lantern*. "Nis gall dyn ffurfio gwell barn am y sŵn aruthrol a wneir gan y mynydd," meddai un, "na dychymygu sŵn cymysg trwr y dymhestl, rhuad y môr, a thyrystdwrff taranau a magnelau, ar unwaith. Clywir sŵn *Cotopaxi* yn tyrfu, meddai *Humboldt*, o *Guayaguil*, sydd gant a hanner o

filldroedd oddiwrtho, ddydd a nos, fel pe bae magnelau yn cael eu gollwng allan. Yn y fl. 1744, esgynai fflaglau Cotopaxi mor uchel â thair mil o droedfeddi o enau y *volcano* i'r awyr, a chlywid ei daranau cyn belled â chwe chan' milldir oddiwrtho. Mor ofnadwy oedd rhyferthwy Tomboro, yn ynys Sumbawa, yn y fl. 1815, fel y teimlid y ddaear yn crynu, a chlywid trwst yr ergydion yn ynysoedd Java, Sumatra, a Borneo, sydd dros fil o filldroedd oddiwrtho.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng llosgfaloedd a daergrynfaâu. Yn ngwledydd y llosgfaloedd, po agosaf at y mynydd llosgedig, lleiaf yn y byd yw cryndod y ddaear; ac ychydig cyn toriad y llosgfal allan yw yr amser y cymer daergryn le bob amser; ar ol hyny peidiat yn gwbl. Y mae y llosgfal, fel hyn, yn rhyddhau yr elfenau o'u cyfyngiad yn y ddaear; ac felly *safety-valves* y grëadigaeth yw y *volcanoes*. Hebddynt, y mae yn ddigon tebyg y chwythid yr hen ddaear yn chwilfriw, a'i thrigolion arni. Mae y llosgfaloedd fel hyn o ddefnydd mawr. Ac nid hyn yw eu hunig ddefnydd. Y mae yn wybyddus fod llysiâu yn byw ar y *carbon* sydd yn yr awyr, a bod rhyw gymaint o hono yn anghenrheidiol at gynnalïaeth bywyd dyn; ac y mae yn wybyddus mai y llysiâu o'r natur hyny a geir yn y glo, yw y rhai sydd yn yfed fwyaf o'r *carbon* i mewn i'w cyfansoddiad; ac felly fe welodd y Crëwr doeth yn dda beri i'r llysiâu hyny dyfu yn gyntaf ar y ddaear, i'r dyben o ryddhau yr awyr o'r *carbon*, a'i wneyd yn iachusol i anifeiliaid a dynion, trwy drysori y *carbon* yn nghrombil y ddaear, er llës ac ymgeledd i ddyn mewn miloedd o oesoedd wedi hyny. Felly, tra y mae y coed a'r llysiâu yn gwneyd defnydd o'r *carbon*, ac yn ei sugno i mewn i'w cyfansoddiad; a thra y bo y coraliad mân wrth y myrddynau dirifedi yn ffurfio ynysoedd y Môr Tawel trwy ymborthi ar y *carbon*, a'i drysori yn greigiau celyd o galch yn nghyfansoddiad eu cyrff; mae yn rhaid y bydd i'r *carbon* leihau yn raddol, nes o'r diwedd na byddai digon i'r llysiâu yn fyw arno, nac i'r anifail i anadlu, ac felly i fangre bywyd a harddwch droi yn fro marwolaeth, ac yn anialwch heb drefn. Wel, a oes llwybr i rwystro y canlyniad yma? A oes modd trefnu na byddo *gormod* na *rhy fychan* o'r *carbon*, er cadw y byd rhag trengu yn yr anghau? Oes, y mae; ac yma gwelwn ddoethineb aneirif y Crëawdwr yn ei drefniadau. "Y mae yn ardderchog yn ei waith, ac yn rhyfedd yn ei gynghor." Er mwyn cadw y *balance* i fyny, dyma y *volcanoes*, â'u nerthoedd arswydol, yn gwthio allan y *carbon* ag oedd wedi ei drysori i lawr ymhell bell yn mherfeddion y ddaear, mewn creigiau calch a ffurfiwyd filoedd o oesoedd yn ol, ac yn ei chwydu i entrych y nesoedd, er porthi yr awyr âg ef; ac fel hyn, dyma'r llosgfaloedd yn dwyn i fyny i'r arwyneb y defnyddiau hyny a orweddent yn ddwfn yn iselderau'r grëadigaeth, ac a arosent yno wedi eu claddu am byth, oni bae grymusder eu rhyferthwy bytheiriol yn eu bwrw hwynt allan. Y mae mawredd a daioni fel hyn i'w weled ymhob trefniad. Wele "mawr yw Duw, ac nid adwaen-om Ef; ni ellir chwilio allan ei synwyr Ef. Y mynyddoedd a doddant fel cŵyr o flaen yr Arglwydd, o flaen Arglwydd yr holl ddaear!"

Ac nid yn unig mae cysylltiad rhwng daergrynfaâu â *volcanoes*, ond y mae yn debyg, mai yr un achosion sydd iddynt. Yr achosion hyny ydynt y rhai a ganlyn.

Fe ddywedwyd eisoes mai defnyddiau elfenol yw y rhai a ffurfiant gyfangorff y byd, ond bod crofen wedi ymgaledu o'u hamgylch. Fel y gellid

dysgwyl, gan hyny, wrth oeri fe wneid agenau a thyllau yn nghorff y grofen, ag sydd yn cysylltu yr arwynneb â'r rhanau mewnol. Yn awr, golyger fod dyfroedd yn treiglo i lawr trwy yr agenau hyn, fel y mae profion eu bod, nes cyrhaedd y fath boethder, trwy eu hagosrwydd at y defnyddiau tanlyd, fel ag i droi y dwfr yn agerdd (*steam*), fe barai hyny egni mawr yn yr agerdd i ddianc, trwy fod agerdd yn gofyn mwy o le na dwfr bob amser; ond gan fod y lle yn gyfyng, a'r dyfroedd yn parháu i dreiglo, fe âi yr egni mor gryf, o'r diwedd, fel ag i allu rhwygo y grofen, weithiau yn ei chanol yn unig, a phryd arall drwyddi, nes cyrhaedd yr arwyneb. Pan na byddo y rhwygiad ond yn *nghanol* y grofen, yr effaith fydd *daeargryn*; pan y byddo y rhwygiad yn cyrhaedd i'r arwyneb, y pryd hyny fe chwydir y perfeddiion allan yn nall y llosgfaloedd. Felly fe deimlir y daeargrynfâau yn gryfach ymhell oddiwrth y mynyddau tân, er eu bod yn *fynychach* yn eu cymydog-aeth.

Mewn rhai gwledydd clywir y ddaear yn crynu bron bob dydd, ac eto nid yw hyny yn achosi braw. Y daeargrynfâau mwyaf dinystriol yw y rhai byraf eu parhâd. Weithiau, fe lyncir dinasoedd mawrion i fyny mewn moment, megys Euphemia yn Itali, a Port Royal yn Jamaica; ac—ni wyddom ni ddim—ond fe allai mai dyma dyngهد Rhufain, eisteddle y Butain Fawr. Mae natur y ddaear odditani yn dra pheryglus. Y mae y tân tanddaearol yn gweithredu yn fywiog iawn trwy holl ranau deheuol Itali; ac y mae Rhufain yn agored i ddaeargrynfâau mynych. Dyma yw llais prophwydoliaeth am dani,—“Am hyny, mewn un dydd y daw ei phlâau hi, a hi a lwy'r losgir â than.” “Ac angel cadarn a gododd faen, megys maen melin mawr, ac a'i bwriodd i'r môr, gan ddywedyd, Fel hyn, gyda rhuthr, y tefir Babilon, y ddinas fawr, ac ni cheir hi mwyach.” *Fe allai*, gan hyny, mai ei llyncu a wneir yn ddisymwth, “a'i lle ni cheir mwyach.” Ni pharhâodd y daeargryn mawr a ddinystriodd ddinas Lisbon, yn y fl. 1755, ond ehwe mynyd; ond yn yr yspaid hwnw o amser, fe gollodd 30,000 eu bywydau. Yr ysgydwad cyntaf a ddilynwyd â chwyp pob eglwys, a mynachdŷ, a'r holl dai mawrion yn y ddinas. Mewn tua dwy awr, fe emynodd tân mewn amrywiol fanau, yr hwn a ymgynndeiriogodd i'r fath raddau, nad oedd yn bosibl ei ddiffodd am dri diwrnod! Dwygwyddodd y ddaeargryn ar ddydd gŵyl, pryd yr oedd yr eglwysi a'r mynachdai yn llawn, ac ni ddiangodd ond ychydig ag oedd ynddynt. Fe gyrhaeddodd y daeargryn hwn tros ddwy fil o filldroedd. *Llai na mynyd* y parhâodd y daeargryn dychrynlyd hwnw a ddyfethodd ddinas Caraccas yn y fl. 1812, ac a laddodd 1200 o ddynion. Ac ni fu yr ysgydwad arswydus a wnaeth dinas Conception, yn Neheudir America, yn garneddau, ond *chwech eiliad*, yn y fl. 1835.

Nid oes un amgylchiad sydd yn cymeryd lle yn ein byd ni yn fwy arswydus na daeargryn. Mae y ddaear yn dirgrynu mewn pangfêydd; yn ymgodi ac yn ymsuddo fel tônau y môr; ac yn cynnyrchu teimladau nad oes neb a all eu dychymygu oddieithr y rhai sydd wedi eu profi. Gyda'r ysgydwad *cyntaf*, yn fynych, gwelir y tai yn syrthio—y trawstiau yn cwmpo—y llechau yn disgyn—y ddaear yn trystio—a'r awyr yn rhüo,—y cwbl yn ddigon i ddrysu synwyrâu dynion. Mae dychryn yn eu gyru ar ffô allan o'u tai; ond nid oes diogelwch bob amser yn hyny. Nis gall neb sefyll heb gynnorthwy. Gafaelant yn eu gilydd, neu mewn coed, neu wrth ryw byst. Rhai a'u tafiant eu hunain ar y llawr; ond mor gryfed yw

ysgydwad y ddaear fel ag y bydd raid iddynt estyn eu dwylaw allan ar bob ochr i'w cadw rhag ymdreiglo drosodd. Mae yr anifeiliaid yr un mor frawychus. Safant â'u traed ar léd, a'u penau i lawr, gan grynu yn ddirfawr. Mae yr awyr, megys pe bae yn cyfranogi o'r cynhyrfaid, canys y mae yr adar yn ehedeg yma a thraw mewn cyffro. Yn y cysfamer, y mae y môr yn cilio oddiwrth y lân, ac mewn ychydig fynyddau yn dychwelyd yn ol mewn un dôn fawr, sydd yn rhuthro ymlaen gyda chyflymdra ang-hredadwy, fel mur o ddyfroedd, nes gorchuddio y tir o amgylch. Y mae yn rhuthro yn ol gyda'r un cyflymdra, ac yna yn dychwelyd fel o'r blaen, ac fel hyny yn parháu tra y parháu sigliadau y daeargryn. Heblaw hyn, y mae'r ddaear yn ymagor mewn manau, mynyddoedd yn cael megys eu dadsylfaenu a'u troi ar eu hochr, a threfydd a dinasoedd, ynghyd â'u trigolion, yn cael eu llyncu yn fyw i grombil y ddaear, lle y cauir arnynt drachefn, ac eu cleddir o'r golwg byth! O! mor ofnadwy yw Duw! Os yw galluocedd natur mor ddychrynllyd, pa mor ofnadwy yw Crëawdwr natur? "Mae ei lwybr yn y corwynt, ac yn y rhyferthwy, a'r cymylau yn llwch ei draed Ef. Y mynyddoedd a grynant rhagddo, a'r bryniau a doddant. Y mae Efe yn symud mynyddoedd heb wybod iddynt; y mae Efe yn eu dymchwelyd yn ei ddigofaint. Y mae Efe yn cynhyrfu y ddaear o'i lle, fel y cryno ei cholofnau hi. Ië, y mae colofnau y *nefoedd* yn crynu, ac yn synu wrth ei gerydd Ef. Pwy, gan hyny, a ymgaledodd yn ei erbyn Ef, ac a lwyddodd?" Tywyser ni i ymdafu yn ostyngedig at ei draed, a cheisio ei heddwch.

Y mae yn bryd i ni derfynu; ond y mae yn anmhosibl i ni fyned heibio heb son ychydig am yr hyn a elwir y *glaciers* a'r *avalanches*. Yr ydym yn cael fod penau y mynyddoedd uchaf wedi eu gorchuddio âg iâ oesol. Mae uchder yr iâ yn ymddibynu ar sefyllfa y mynydd. Tua'r cyhydedd, yn ngwledydd poethion y byd, ni cheir dim o hono yn is na 16,000 o droedfeddi. Nid oes un mynydd yn Mhrydain, ar ba un y mae yr eira yn aros heb doddi yn yr hâf; ond tua'r Alps, neu'r Andes, neu'r Himalaya, y mae y clogwyni yn ymgodi mwr uchel i'r nefoedd fel ag y maent yn gartrefe oesol yr iâ, fel ei fangre gynhenid ei hun. Yn wir, ystyr y gair Himalaya yw "*cartrefe yr eira*;" ac yno y ceir ef mewn gwirionedd. Yn nghymydogoeth y mynyddoedd hyn, y mae y dyffrynoedd yn agored i beryglon mawr oddiwrth yr eira, yr hwn a ymdyra at ei gilydd yn yr ucheldiroedd, nes gorbwyso y rhwystrau yn ei ffordd, a rhuthro i lawr gyda nerth a chyflymdra aruthrol, gan gynyddu yn ei lwybr o hyd, ac ysgubo ymaith goed, a cheryg, a phob peth a fyddo ar ei ffordd, nes cyrhaedd y gwaelodion, a dadychwelyd tai a phentrefydd mewn dinystr sicr. Yr enw wrth ba un y gelwir y cwympiadau hyn yw *avalanches*. Rhoddwn hanes am effeithiau rhyfedd un o'r rhai hyn. Yn y fl. 1819, yn un o ddyffrynoedd Switzerland, fe syrthiodd *avalanche* i lawr, ac a orchuddiodd gymaint â dwy fil a phedwar cant o droedfeddi o dir mewn hŷd, a mil o droedfeddi o léd, âg iâ, ysgarthion a cheryg mawrion, o gant a hanner o droedfeddi o drwch. Yn y fl. 1749, fe ddisgynodd *avalanche* i lawr yn nyffryn Tawich, yn Switzerland, ac a gladdodd y pentref Bueras yn ei bentwr, gan ei symud o'i le ar yr un pryd. Dygwyddodd yr anfaud hyn yn y nos, fel nad oedd y trigolion wedi cael un rhybudd; ac felly, pan ddeffrois-ant yn y bore, nis gallent ddirnad beth oedd yr achos ei bod yn parháu mor dywyll arnynt; ond nid hir y bu cyn iddynt deideal eu sefyllfa alarus.

Cloddiwyd triugain o honynt, allan o gant, yn fyw, wedi gallu cael digon o awyr i anadlu trwy yr agenau ag oedd yn yr eira. Yn y fl. 1838, rhoddir hanes i ni am gadwedigaeth tra hynod a dyddorol. Yr oedd yr eira wedi bod yn disgyn yn ddbaid am bedwar diwrnod, ac yr oedd gwas wedi ei adael, ynghyd a chi fel cwmni iddo, i ofalu am ryw dŷ ar un o fynyddoedd yr Alps, dros ystod y gauaf. Ar brydnawn y pedwerydd dydd, clywai sŵn rhyffedd, megys llais un mewn cyfyngder, yn ymgymysgu â'r ysturm: Fe aeth allan, gan feddwl fod yno ryw ymdeithiwr wedi colli ei ffordd; ond na, nid oedd yno neb. Fe ddychwelodd yn ol i'r tŷ, a dyna yr un llais cwynfanus i'w glywed 'drachefu. Un o'r rhybuddion hyny ydoedd ag sydd yn gyffredin yn rhagflaenu ymollyngdod yr eira oddiwrth y mynydd, pan y bydd y pentwr yn siglo ac yn ymryddhâu. Ar darwiad, daeth i'w feddwl gilio yn union i'r tŷ. Felly fe aeth i un o'r ystafelloedd mwyaf mewol, ac a ddechreuodd weddio; a chyda hyn, dyma'r mynydd o eira yn disgyn yn daranllyd i lawr, gan ddystrywio pob ystafell yn y tŷ, ond yr un hōno a *sancteiddiwyd trwy weddi*. Fe arbedwyd hōno, ac fe gafodd ei thrigiannydd, a'i gwmni ffyddlawn, hamdden i gyrhaedd ei gyfeillion yn ddiogel. Beth oedd hyn ond gwiriad o'r ysgrythyr hōno, "Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, a erys yn nghysgod yr Hollalluog?"

Y mae un peth hynodol eto, na chawn bron ond ei enwi, a hwnw yw y *glaciers*, sef cruglwyth anferthol o iâ, o bedwar ugain i chwe' chant o droedfeddi o drwch, yn gorwedd yn y dyffrnoedd, neu ar ochrau y mynyddoedd. Effaith toddiad yr eira yn yr haf, a rhêwi o'r dyfroedd drachefu wrth ymdreiglo i lawr yn y gauaf ydynt. Golygir fod pedwar cant o'r *glaciers* hyn yn yr Alps yn unig, a'r rhan fwyaf o honynt o ddeg i bymtheg milldir o hŷd, ac o un i ddwy filldir a chwarter o léd, a'u bod oll, gyda'u gilydd, yn gorchuddio cymaint a phymtheg cant o filldroedd ysgwar. Weithiau bydd y *glaciers* yma yn hollti, pryd yr ysgydwir y mynyddoedd cymydogol, ac y llenwir y wlad â sŵn trystfawr fel taranau. Dro arall, llithrar i lawr dros y llethri serth i'r dyffrnoedd islaw. O'r *glaciers* yma y tardda prif afonydd cyfandir Ewrop.

Pe buasai ein terfynau yn caniatâu, buasai yn dda genym osod o flaen ein darllenwyr rai o'r pethau hynodol sydd yn perthyn i fynyddau neillduol y byd, heblaw y pethau cyffredinol a enwyd eisoes. Dyna *Adam's Peak* (Pigwn Adda), yn ynys Ceylon, yn 7000 o droedfeddi o uchder, ac yn weledig ar y môr gant a hanner o filldroedd oddiwrtho. Mor serth ydyw fel nas gellir dringo i fyny yn unionsyth, a'r unig ffordd i gyrhaedd ei gopa yw ar hyd llwybr traws, ag sydd, o herwydd ei drôadau lliosog, yn wyth milldir o hyd. Mae ei lun yn debyg i dorth o siwgr gwyn, ac ar ei ben ceir careg wastad, ag ôl troed dyn arni, ond ei fod yn droed go fawr, tua dwy droedfedd o hyd! Credir gan y trigolion mai ôl troed eu duw Buddha yw, yr hwn a wnaeth efe wrth ymadael â'r ddaear yma yn ei esgyniad i'r nefoedd; ac y mae lliaws, ar ddechreu pob blwyddyn newydd, yn dringo i fyny i ben Pigwn Adda i addoli ôl y troed. Dyna fynydd unigol arall ag sydd yn hynod ymhlith mynyddoedd y byd yw y *Peak of Teneriffe*, yn un o'r Canary Islands. Y mae yn codi o'r môr yn golofn gadarn i'r uchder o 12,000 o droedfeddi, ac yn weledig dros gant a hanner o filldroedd oddiyno. Mae hwn yn gwasanaethu fel *lantern* yn aml i'r morwyr, yn gymaint a'i fod yn fynydd tanllyd, er nad yw y tân yn tori allan er ys oesoedd oddiar ei *gopa*, ond mewn gwahanol fanau ar ei ochr. Mae yr

olygfa oddiar ei ben yn un o'r harddaf a hynotaf ar wyneb y ddaear. A dyna fynydd Silla, yn agos i Caraccas, yn America—y mynydd serthaf sydd yn adnabyddus ar y ddaear—yn esgyn i fyny bron yn unionsyth i'r uchder anferth o 8000 i 9000 o droedfeddi. Gallem nodi llawer eraill, a'u pethau hynod; ond ni chawn ymhelaethu, gyda dywedyd mai y ddinas uchaf ar y ddaear yw Potosi, yn Bolivia, Deheudir America, yr hon sydd yn gorwedd ar esgynlawr o 13,360 o droedfeddi o uchder; y fferm uchaf yw un o'r enw Ancochallani, yn Peru, yn 14,683 o droedfeddi; a'r tŷ uchaf ar ein cnwbyn o fyd yw llythyrdŷ o'r enw Rumihuasi, yn Peru, o'r uchder o 15,540 o droedfeddi o'r môr. Dywedir i ni gan Humboldt, iddo weled gwibed, a'r glöyn byw, ar gopa Chimborazo, yr hwn sydd 8000 o droedfeddi yn uwch na mynydd Etna; a bod y *condor*, brenin yr adar a elwir fwlturod, yn ehedeg uwch ei ben pan ar gopa Chimborazo, yn uwch na chopu uchaf yr Andes. Ond er mor uchel yr eheda y *condor*, nid yw plant Adda yn foddllawn i gymeryd eu maeddu gan ddim: fe esgynnodd Guylussac unwaith mewn *balloon* mor uchel, os nad yn uwch, nag yntau, yehydig o fewn uchder copa uchaf yr Himalaya yn Asia, a Mr. Green yn uwch na hyny.

Oddiwrth y cwbl, yr ydym yn cael fod rhyfeddodau yn perthyn i holl waith y Crëawdwr; ac nid hyny yw y cwbl, y mae *dyben* i bob peth. Mae ffurfiad mynyddoedd ar wyneb ein daear wedi ei fwrriadu er buddioldeb a lles, fel y dangoswyd yn y dechreu. Mae meddwl i'w weled yn eu *gwahanol uchder* hefyd.* Pe buasai mynyddoedd uchel yr Himalaya yn agosach i'r gogledd, buasent yn ffurfio gwrthglawdd rhwng rhandiroedd gogleddol a deheuol Asia nas gallesid myned trosodd, o herwydd yr iâ oesol a fuasai ar eu ffordd, yn rhwystr i bob tramwy o'r naill wlad i'r llall; ond yr ydym yn cael y mynyddoedd uchaf tua chanolbarth y ddaear, yn y gwledydd poethaf o'r bron, a cheir hwy yn myned yn is fel ag yr agosëir tua phegynau oerion y grëadigaeth. Trefniad dosth y Crëawdwr da yw y cwbl, yr Hwn a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn cloriannau, er cael chwareufwrdd teg i ddyn chwareu ei ran fel deiliad byd tragywyddol. A thra y galwom ar y "tân a'r cenllysg, yr eira a'r tarth, y gwynt ystormus yn gwneuthur ei air, y mynyddoedd a'r bryniau oll i foliannu yr Arglwydd," ni a *ddyblwn* ein galwad ar *ddyn*, er mwyn yr hwn y mae y rhai hyn oll,—ie, dyn, rhag dy gywilydd—rhag i'r grëadigaeth ddfywyd dy yru i warth—"Pob perchen anadl molianedd yr Arglwydd!"

Ond yr ydym yn sicr na fydd ein darllenwyr yn foddllawn i ni derfynau heb grybwyll dim am rai o'r mynyddau hyny sydd wedi eu cysegru yn ein meddyliau, o herwydd eu bod wedi eu hynodi byth trwy ryw amgylchiadau ag sydd yn dwyn perthynas âg iachawdwriaeth dyn.

Dyna Ararat, y ddechreu, un o'r mynyddoedd hynotaf yn y grëadigaeth, yn esgyn i fyny oddiar wastadedd Armenia, i'r uchder anferth o 14,406 o droedfeddi. Dywed y diweddar Dr. Kitto mai y mynydd ardderchocaf yn y byd ydyw. "Pan yr edrychodd ein llygaid," meddai, "ar fawrwychedd ofnadwy Ararat, yr oeddent wedi gweled mynyddoedd uchaf y byd; ond eto yr oedd yr olwg ar y mynydd hwn yn *newydd*, ac yn *hynod*. Yr achos, mae yn debyg, ydyw, nad yw y mynyddoedd uchaf ond pigynau yn perthyn i gadwyni o fynyddoedd sydd yn derchafu eu hysgwyddau yn uchel o'u hamgylch. Ond nid felly Ararat. Y mae ef yn fynydd *perffaith* a *chrymo* yaddo ei hun. Pan yr edrychir arno, gwelir ef i gyd, o'r godroen

hyd y pen, ar un olwg." "Nis gall dim," meddai un arall, "fod ya harddach ei lun, yn fwy arswydol ei uchder unigol (a'r holl fynyddoedd o'i gwmpas ond fel bryniau bychain mewn cymhariaeth iddo), yn fwy perffaith yn ei holl ranau, heb ddim yn erwin nac yn crogi drosodd yn ei ddullwedd, ond y cwbl mewn cysondeb â'u gilydd yn gwneuthur un o'r gwrthdrysau godidocaf mewn natur." Fe fydd Ararat byth mewn coff-
adwriaeth mewn cysylltiad â dinystr byd o ddynion, oddieithr wyth enaid, trwy y dyfroedd diluw; ac fel y fangre lle y cafodd yr arch, a gadwodd weddillion y dinystr yn fyw i ail-boblogi y byd, fan i orphwys gyntaf, ar ol rhuthr tymhestl y llifeiriaut ofnadwy. Ie, ar *Ararat* y cafodd hi orphwys gyntaf; ac yno, tua'i gyffiniau, y buasai hi yn nofio, â phoblogaeth y byd o'i mewn—hadau pob gwymbodaeth—holl elfenau cynnydd a gwellad trwy holl oesoedd y byd wedi hyny—ie, gobaith parhâd eglwys Dduw ar y ddaear—*yno* y nofiai mewn mawreddigrwydd galarus ac unigol, yr unig beth symudol a byw ar gefnfor garw marwolaeth.

Heblaw Ararat, dyna fynydd Sinai a mynydd Horeb, dau gopa i'r un mynydd yn anialwch Arabia, a'u llethri serth yn ymgodi 3000 o droedfeddi bron yn uniongyrchol i fyny, a'u creigiau clogyrnog yn bwgwith â dinystr y neb a ddelo yn agos, yn nghanol anialwch maith disathr, cartrefle gwylltineb, a hagredd, a dychryn! Tua godreu mynydd Horeb y gyrai Moses y praidd y tu cefn i'r anialwch, ac y deuai i fynydd Duw; ac yma y gwelai efe y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei difa, ag oedd yn arwydd o gystudd pobl Israel yn yr Aipht, a'u gwaredigaeth oddiyno drwy ddwyllaw grymus Duw Jacob; ac yma y derbyniodd Moses ei gomisiwn i fyned i'r Aipht, fel y dygai blant Israel allan o honi; ac yma hefyd y cyhoeddodd Duw ei enw rhyfeddol, "Ydwyf yr Hwn ydwyf," fel rhan ac etifeddiaeth ei bobl. Horeb! ie, dyma y man y tarawodd Moses y graig, ac y pistylodd y dyfroedd allan yn afon groew a phur. Horeb! dyma y mynydd lle yr ymguddiodd Elias y prophwyd, pan ei hymliidiwyd fel petrisen o fan i fan gan y wraig hōno Jezebel. Dros ddeugain niwrnod y gyrai efe ymlaen trwy y diffeithwch gwag erchyll nes cyrhaedd Horeb. Yn sin gan y daith, fe gymerodd ei letty unigol i fyny mewn un o'i ogofâau lliosog; ond fe'i galwyd ef o'i ymguddfa, ac fe'i gorchymynwyd i fyned allan, a sefyll ar y mynydd, lle y canfyddai rai o'r amlygiadau hynotaf o bresennoldeb ei Dduw. Yn gyntaf, wele wynt mawr a chryf yn rhwygo y mynyddoedd, ac yn dryllio y creigiau. Ar ol y gwynt, wele ddaeargryn, nes yr oedd Horeb yn siglo fel meddwyn, ac wele y prophwyd yn gorwedd a'i wyneb ar y ddaear, mewn gobaith am i natur ymlonyddu o'i therfysg dirfawr. Ond wele, ar ol y ddaeargryn, dân, nes oedd y mynydd yn un wenfflam drosto, megys pe bae y grëadigaeth ar losgi yn ulw; eithr nid oedd diwedd y prophwyd wedi dyfod eto. Mae y cwbl yn llonyddu drachefn (a lle y mae Duw yn ei heddwch, yno y mae llonyddwch); ac ar ol cael llonyddwch, wele lef, a llef ddystaw fain, yn arwydd o fod y fangre wedi ei llenwi o Dduw.

Yn ymyl Horeb y mae Sinai—Sinai ofnadwy—Sinai felltenog—Sinai daranllyd—y man lle y gosododd Brenin y nefoedd ei orsedd i lawr, ac yr eisteddodd arni, pan yn rhoddi y gyfraith i Israel, ac yn ei amlygu ei hun fel Llywydd dynion. "A'r trydydd dydd," meddai yr hanes, "ar y boreu-ddydd, yr oedd taranau, a meltt, a chwml tew ar y mynydd, a llais yr udgorn ydoedd gryf iawn. A mynydd Sinai oedd i gyd yn mygu, o her-

wydd disgyn o'r Arglwydd arno mewn tân; a'i fŵg a dderchafodd fel mŵg ffwrn, a'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr. A'r holl bobl a welsant y taranau, a'r melt, a sain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu; a phan welodd y bobl, ciliasant, a safasant o hirbell, a dywedasant wrth Moses, Llefara di wrthym, a nyni a wrandawn, ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw." Ond ni raid i ni yn awr ddyfod "at y mynydd teimladwy, yn llosgi gan dân, a chwml, a thywyllwch, a thymhestl, a sain udgorn, a llef geiriau;" ond ni gawn ddyfod i "fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol."

Ond beth a wnawn ni yn son am Hôr, a Phisgab, a Moriah, a Charmel, a Lebanon, a Hermon, a Thabor; y mae yn hysbys yr amgylchiadau sydd wedi eu hynodi hwy yn neillduol ymysg mynyddoedd y grëadigaeth. Y mae arnom awydd i brysuro ymlaen i arwain ein darllenywyr at ryw fryn bach arall—ryw *gnwocyn* bychan o'r tu allan i furiau Jerusalem—lle bu yr olygfa ryfeddaf erioed—lle y croeshoeliwyd ein Harglwydd ni, ac y bu Tywysog y Bywyd farw.

"Calfaria fryn yw f' unig sail,
Adelliaf arno mwy;
A gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod
Mewn Dwyfol, farwol glwy'!"

Mae rhyfeddodau yn perthyn i lawer o fynyddau y byd; ond er nad oes gan grugfryn Calfaria i ymfrostio o herwydd ei ucheledd, na'i faint, na'i hynod-rydd creädigol, eto y mae efe wedi ei hynodi byth fel y man y bu y "Dyn a'r Duwdod yddo yn trigo," yn hoeliedig rhwng dau leidr, yn marw tros yr annuwiol; ac y mae yn rhaid i holl fynyddau y byd, â'u clogwyni uchel, a'u harddwch cynhenid, ostwng eu penau yn isel, a chydabod ei anrhydedd rhagorach.

"Bydd bryn y groes, bydd Calfari,
Yn uwch na'r brynau mwya' eu bri,
Can's yma llifodd gwaed fy Nuw;
Ac yma rheddodd cariad pur,
Yn afon ddifrychaulyd, glir,
I olchi'r ffaidd, dua' i liw."

Fe fydd son cynhes am Galfaria pan y byddo mynyddau y byd wedi diflanu o'r golwg. Er mai lle y benglog ydoedd, y man lle y rhoddid mwrddwyr a lladron i farwolaeth, eto fe deimlir dyddordeb yn y *spotyn* bychan hwn gan Dduw, ac angelion, a saint, i dragyddlodeb. Os oes rhyw *spotyn* yn fwy cysegredig na'r llall ar wyneb ein daear ni, dyma fe—*Calfaria, Calfaria!* "Nac äed hwnw byth o'm côf!"

Ond y mae arnom chwant i ymdroi fynydyn tua Mynydd yr Olewydd hefyd cyn dybenu. Ië, Olewydd, a'i dri chopa brigog, o ben pa un y gellir gweled gwastadedd a mynydd-dir Judea, hyd at ymylon y Môr Marw. Wrth odreu yr Olewydd yr oedd Bethania, cartref Mair, a Martha, a Lazarus, a'r man lle yr wylodd yr Iesu mewn teimladau o gydymdeimlad ar ol marwolaeth ei gyfaill, ac yr amlygodd Efe ei allu dwyfol trwy ei godi o farw yn fyw. Ar gopa yr Olewydd, wrth edrych i lawr ar Jerusalem wrthnysig, yr wylodd yr Iesu drachefn, yn y rhagolwg o'i galanasedra dinystriol. Ac ar ochr yr Olewydd yr oedd yr ardd a elwid *Gethsemane*, ag sydd yn aros hyd heddyw, i ba un y cyrchai yr Iesu o hyd nos i orphwys ar ol lludded y dydd; a dyma y man yr aeth Ef, yn ol ei arfer, y

noswaith fawr hōno, tua hanner nos, tros afon Cedron, a'i ddysgyblion gydag Ef, ac y gweddiodd ef yn ddyfalach, ddyfalach, o dan faich aruthrol euogrydd dynion, ac y cysegrwyd y ddaear â'i chwys ag oedd yn disgyn fel defnyau gwaed i lawr! Ydyw, y mae yr Olewydd wedi ei sancteiddio byth, trwy ei fod yn drysorgell dagrau a gwaed y Duw-ddyn, Crist Iesu. Ond y mae yr Olewydd yn gysegredig hefyd, fel y man lle y troeddiodd ein Harglwydd am y tro olaf ar lawr ein daear ni, wedi gorphen iachawdwriaeth dyn; ac er nad oes un ôl troed, fel llun troed Buddha ar gopa Pigwn Adda, yn arwydd o'i ymadawiad, eto y mae genym air sicrach tystiolaeth ei ddysgyblion a'i gwelsant Ef yn fyw tros yspaid deugain niwrnod ar ol ei gyfodi o feirw, ac a edrychasant arno yn derchafu i'r nefoedd. Gwelwch acw, ar odre y mynydd, yn nghymydoggaeth Bethania, yr un dysgybl ar ddeg, a'u Harglwydd bendigedig, gyda'u gilydd. Y mae Efe yn ymddyddan â hwy am y pethau a berthynent i'w deyrnas; ac wedi gorphen, y mae Efe yn codi ei ddwylaw i fyny, ac yn eu bendithio, "ac fe ddarfu, tra yr oedd Efe yn eu bendithio hwynt, ymadael o hono Ef oddiwrthyt;" ac wele Ef yn esgyn, yn esgyn, yn esgyn fry, nes diflanu o'u golwg, a chwaml goleu a'i cysgododd, ac felly Efe a gymerwyd i fyny i'r nef.

Mae rhywbeth dyddorol iawn, fel hyn, mewn cysylltiad â mynyddoedd y byd. Ar ben *mynydd* y gweddnewidiwyd ein Harglwydd; i'r *mynydd* y byddai Efe yn arfer myned i weddio; ar ben *bryn* bach y rhoddes Efe i fyny yr ysbryd; ac oddiar ochr *mynydd* yr esgynodd i'w ogoniant.

Ni a ddywedasom yn y dechreu fod mynyddoedd yn arwydd o gadernid, sefydlogrwydd, ac amddiffyniad. Ond er mor gedyrn, nid ydynt yn bethau na siglir mohonynt er hyny, fel y gwelsom. Fe'u symudir weithiau o'u lle gam nerthoedd y llosgfalau a daeargrynfâu. Mewn gwirionedd, nid oes yma un peth gwir sefydlog ar y ddaear. Mae cyfnewidoldeb yn perthyn i bob peth yma. Ond y mae *un* peth disigl, er hyny, a barhá heb syflyd pan y byddo y mynyddoedd yn cilio, a'r brynau yn symud o'u lle— "Cyfammod fy hédd ni syfi, medd yr Arglwydd," fel y cân y prydydd yn rhagorol,—

"Chwi gedyrn binaclau y ddaear
Gydoeswch â huan a lloer;
Safasoch effeithiau difaol
A threulfawr hin wresog, ac oer;

* * * *

Ond gwelaf ryw ddiwrnod gyferbyn;
A ellwch chwi sefyll pryd hyn?
Y ddaear a ymohwel fel meddwyn,
A nerthoedd y nefoedd a gryn!

Ti'r Aran, a'r Wyddfa gyrhaeddafur,
Chwi neidiwch yn awr hyd y ne!
Mynyddoedd yr Andes ymbranciant,
Fel hyrddod y llamant o'u lle!
I hofran fel brain yn yr entych
Chwi chwythair ág anadl yr Iôr!
A'ch twrwf fel myrdd o daranau
Fydd gymysg â rhüad y môr!

Y cloëon a'r clymau cadarnaf
Ddattodant fel dyfroedd yn awr;
Y temlau, a'r tÿrau uchelfrig,
Ysgydwir yn gandryll i'r llawr!

Pe chwelid yn deilchion i'r dyfnder
 O'i chylchoedd y belen 'r wy 'n byw;
 Ymollwng ar ddamchwa dragwyddol!
 Nid ysgog cyfammod fy Nuw!"

Caffer ni oll o fewn rhwymau y cyfammod hwn!

BUGEILGERDD.

BUDDUGOL YN EISTEDDFOD CYMBODORION DIRWESTOL MEETHYB.

GLOGWYN anwyl, hoff gan i
 Yw hamdden am fynydyn,
 Tafu careg i fy nghî,
 Neu eistedd ar dy gribyn;
 Gwyllo 'r afon glir islaw,
 A gollwng fy myfyrion
 I'r terfysglyd drefydd draw
 Yn miwsig ei murmuron.

Bywyd Bugail—bywyd yw
 Nas gwyr y byd am dano,
 Heibio 'r *bryniau* wele 'r byw
 Fel nant yn rhedeg heibio;
 Golud, enw, bydol fri,
 Yw eilundduwiau dynion;
 Mwy na 'r oll i'm golwg i
 Yw praidd y bryniau gwylltion.

Praidd y mynydd—O fy mhraidd!
 Mae pleser wrth eich gwyllo,
 Cyn i'r ser fachludo braidd,
 A chyn i'r dwyrain ddyddio;
 Pan gusano 'r haul y lli',
 Ym gyda chwi ein defaid;
 Fel ein calon, felly chwi
 Yn mynwes eich bugeiliaid.

Gyda phraidd y mynydd gwyllt,
 Tynghedwyd ni a'n dyddiau;
 Llwybrau defaid, wyn, a myllt,
 Yw 'r llwybrau deithiwn ninnau;

Weithiau tan y creigiau certh,
 Yn nghalon y mynyddoedd,
 Dim i'w wel'd ond bryniau serth,
 A thyner lesni 'r nefoedd;

Yna dringo pen y bryn,
 Hyd risiau craig ddanneddog,
 Gwel'd y nant, y cwm, a'r glyn,
 Y ddol, y gors, a'r fawnog;
 Edrych ar y ceunant du,
 Fel bedd ar draws y bryniau;
 Bedd yn wir, medd hanes, fu
 I lawer un o'n tadau.

Llawer craig fygythiol sydd
 Yn gwgu ar ein bywyd;
 Ond mae arnynt ddwyllaw cudd,
 Ac nid oes maen yn syffyd;
 Clywir llais y dymhestl gref,
 A chwiban y corwyntoedd,
 Rhüa croch daranau 'r nef,
 Ond huno wna 'r mynyddoedd.

Fel yr hen fynyddoedd clyd
 Ym ninnau ymysg dynion;
 Ysed tân ddinasoedd byd,
 A chwymped seddau 'r mawrion,
 Llwybro gyda'n defaid wnawn,
 A thrin ein huchel diroedd,
 Hün o bur dawelwch gawn
 Yn mynwes y mynyddoedd.

Fel yna canai llencyn mwyn
 Ar grib y graig, nes iddo ddwyn
 Ei hun i sylw llances lân,
 Yr hon wrandawai ar ei gân.
 Hi ddaethai ar ladradaidd droed
 I lwyn islaw, ac yn y coed
 Ymguddio 'r oedd, yn glust i gyd
 I gerdd yr hwn oedd iddi 'n fyd.
 Ei gwddf oedd fel y lili wen,
 A nos o wallt oedd ar ei phen;
 I'w chariad ar y clogwyn ban,
 Rhy amlwg oedd ei hymgudd fan.
 Ei Olwen oedd! a serch ei fron
 Newidiai 'r gerdd i'r ganig hon:—

Mae genyf wen golomen ddôt,
 Erioed heb golli pluen,

Ac edrych arni leinw 'm côf
 A holl brydferthwch Olwen;
 O mae hi 'n hardd! a hardd fydd byth
 Aderyn diniweidrwydd;
 Pan alwaf arni tan ei nyth,
 Hi ddisgyn ar fy ysgwydd:
 Ond hyn sy 'n tori 'm calon i,
 Pan alwaf Olwen ni ddaw hi!

Ac mewn gwialeg ar y mur
 Mae deryn du bigfelen,
 A dau eithafedd harddwch pur
 Yw 'r deryn du a'r g'lomen;
 Y du yn edrych ar y wen
 Trwy wiail ei gaethiwed,
 A hithau 'n chware uwch ei ben
 Heb gym'ryd arni weled:
 Ac er yr awr caethiwaist fi,
 O Olwen anwyl, felly ti!

Yn fynych iawn gwnai 'r deryn du
 Ryw olwg bur ddigalon,
 A mawr ddymunai gollu 'i blu,
 A chael rhai eraill gwynion;
 Rho'i 'i ben i lawr yn brudd a syn,
 Fel pab yn myn'd i weddi,
 A d'wedai, "O! na bawn yn wyn,
 Doi 'r g'lomen fach i'm hoffi:"
 Ac felly, Olwen, d'wedaf fi,
 O na bawn *wyn* i'th olwg di!

Pan oedd y wen ar nen y tŷ,
 Ryw fore teg yn Medi,
 Mi welwn ryw golomen ddu
 Yn hedeg tuag ati;
 Ac ar ol caru am ddwy awr,
 Addawai 'r wen briodi;
 Ai felly fu?—na choelia 'i fawr,
 Y du aeth adref hebddi;
 Awgrymed hyn i'm Holwen i,
 Rhag ofu mai felly siomir hi.

Cyn i mi gael y g'lomen gu
 Gan un o'm hen gyfeillion,
 Un dystaw oedd y deryn du,
 Heb ganu ar ei galon;
 Ond pan y daeth y g'lomen lân,
 Disgynodd arno 'r awen,
 A'i galon bur a dôdd yn gân,
 I gyffwrdd serch y g'lomen:

Ond ofer canu iddi hi,
Ac ofer cân i'm Holwen i !

Ar draws y fuches adref
Dychwelai Olwen gu,
A'r holl wrthdrysychau welai
A dro'i yn "dderyn du."

Hi feddai galon dyner,
A gwir deimladau merch,
A theimlai 'r anghyfiawnder
A wnaeth at fab ei serch.

Ryw dro wrth fyn'd o odro,
A chynog ar ei phen,
Yn ymyl camfa 'r weirglodd
Cyfarfu 'r "du" ei "wên."

Pan ganfu 'r llanc ei Olwen,
Ei galon deimlodd saeth ;
A phan y gwelwyd yntau,
Fe syrthiai 'r gynog laeth.

Ond cyn i Olwen brydferth
Ailgodi 'r gynog laeth,
'R oedd wedi gorphen ammod
I fyn'd er gwell er gwaeth.

A daeth yr adeg hòno,
A'r naill i'r llall a roed,
A dau o rai dedwyddach
Ni wnaed yn un erioed.

Hwy gymerasant dyddyn
O'r enw "Tyddyn Gwyn,"
Ac yno ganwyd mebyn
I'r deuddyn ieuanc hyn.

Y dydd dywynodd gyntaf
Ar ruddiau 'r mab dinam,
Fu 'r dydd dywynodd olaf
I lygad pur ei fam.

Tra hi yn mreichiau angau,
A'i golwg ar y glyn,
Trodd at ei mab, a galwai
Ei enw 'n Owain Wyn.

Fe gloddiwyd bedd i'r marw
Yn ngladdfa 'r "Tyddyn Gwyn,"

BUGEILGERDD.

A gwelai 'r tad wrth hwnw
Werth einioes Owain Wyn.

Ymben rhyw ddeugain gwanwyn
Ar ol ei chladdu hi,
A deugain gauaf brigwyn,
Dechreua 'n chwedl ni.

Tros un o drumiau Berwyn,
Ryw noson ddystaw oer,
Y teithiai gŵr lluddedig
Wrth oleu cân y lloer.

Fry uwch ei ben yn crynu
'R oedd llawer seren dlos,
A chlywid yntau 'n canu
Fel hyn i glust y nos:—

Hen fynyddoedd fy mabandod,
Syllant eto ger fy mron;
Wele fi yn ail gyfarfod
Gyda 'r ardal dawel hon;
Cwm wrth ochr cwm yn gorwedd,
Nant a nant yn cwrdd ynghyd,
A chlogwyni gwyllt aruthredd
Wyliant uwch eu penau 'n fud.

Mewn pellenig gartrefleoedd
Wedi ofn a phryder hir,
Mae hoff freuddwyd fy mlynnyddoedd
Wedi esgor ar y gwir;
Os ffarweliodd anobeithion
Ar fy ngenedigol wlad,
Ni ffarweliais yn fy nghalon
Gydag anwyl dŷ fy nhad.

Dacw 'm cartref is y goedwig,
Groesaw! hen arwyddion hedd;
Dacw 'r fynwent gysegredig,
Wele 'r ywen—dyna 'r bedd!

Darfyddodd cân y teithiwr
Mewn teimlad llon a phrudd,
A deigryn gloew, gloew,
Ollyngodd tros ei rudd.

Aeth heibio dôr ei gartref,
Os gofyn wnei paham,
Awgrymed dy deimladau,
A chofia *fedd ei fam!*

A threulio 'r noson hòno
 Ar fedd ei fam wnaeth ef,
 Nes suddo 'r seren fore
 I eigion gwyn y nef.

Ar ol i lanw ei ofid
 Ymollwng ar y bedd,
 Ei galon esmwythäodd
 Ac ymdawelai 'i wedd.

A chododd gan ddywedyd,
 O dan brudd gangau 'r fyw,
 "Nid oes ond *un* bedd yma,
 Mae 'm tad—mae 'm tad yn fyw."

A llaw grynedig curai
 Wrth ddôr y Tyddyn Gwyn,
 Merch ieuanc hardd agorai,
 Gan edrych arno 'n syn.

"Yw 'm tad yn fyw?" gofynai,
 "O fewn y muriau hyn?"
 "Ai byw?" atebai hithau,
 "Ei fab ef, Owain Wyn?"

"Byw! byw! eich tad, mi 'ch adwaen,
 Ef welaf ynoch chwi!"
 Medd yntau, "Dwg fi ato,
 Ei Owain ydwyf fi!"

Cyfarfu 'r ddau eu gilydd,
 Dystewi byddom ni;
 I dynu 'r darlun yma,
 Mudanrwydd—tyred ti!

Megys adlais yn y glyn,
 Sef llef y craig-chwiorydd,
 A "Dychweliad Owain Wyn"
 Cyfarchai pawb eu gilydd.

Hen gyfeillion ddoent ynghyd
 I adrodd eu llawenydd,
 Meibion henaint isel fryd
 Yn ieuanc droent o newydd.

Pan oedd serch y wlad fel hyn
 Am Owain i'w fynwesu,
 Gwahodd wnaed i'r Tyddyn Gwyn
 Bob un oedd yn ei garu.

A darpariadau helaeth wnaed,
Y llo pasgedig laddwyd,
A llawer oedd y nifer ddaeth
I wel'd y mab a gollwyd.

Ar ol y wledd, tad Owain Wyn,
A'i lygad yn goleuo,
Gyfododd ar ei draed i ddyweyd,
"Cydlawenychwn heno.

O herwydd wele i fy nhŷ,
Fy anwyl fab ddychwelodd,
Yn awr doed Owain ger ein bron
I ddyweyd yr hyn a welodd."

A welaist ti deimladau dyn
Yn selio ei wefusau ?
Neu ddeigryn bychan mud yn dyweyd
Yr hyn na fedr geiriau ?

A welaist ti hyawdledd syn
A chryfder mewn anallu ?
Iaith felly oedd iaith Owain Wyn
Pan gododd i lefaru.

Cyffelyb deimlad oedd yn dal
Pob gwefus yn gauedig ;
Dychwelodd iaith—a hon oedd cân
Yr hwn oedd gynt golledig :—

Gadewais fy mhraidd ar y mynydd,
A chefnais ar drumiau fy ngwlad,
Breuddwydiais am fyd o lawenydd
Tu allan i furiau fy nhad :
Yn ol i'r mynyddoedd dychwelais,
Ond dysgais â'm dagrau yn lli',
Os bywyd y milwr arweiniais
Mai'r cymoedd yw'r cartref i mi.

Trwy wledydd dwyreiniol tramwyais,
Ond cofio Gwyllt Walia oedd loes ;
O wagedd ieuentyd yr yfais
Nes chwervais feluser fy oes ;
Nid ofnaf lefaru fy nheimlad—
Chwi wledydd goruchel eich bri,
Ymhell byddoch byth o fy llygad—
Mynyddoedd hen Ferwyn i mi !

Mae gobaith cael eto cyn angau
Ailddringo llechweddau fy mro,

I gasglu y praidd i'w corlanau
 Hyd lwybrau cynefin i'm co':
 Uwch bedd anrhydeddus y milwr
 Mae enfys arddunol o fri;
 Ond rhowch i mi farw 'n fynyddwr,
 A beddrod y bugail i mi!

Fe welodd ddeugain gauaf
 Ar Ferwyn wedi hyn,
 A hir yn nghof mynyddwyr
 Fydd enw Owain Wyn.

Yn awr wrth ochr Olwen,
 Yn mynwent fach y plwy',
 O dan yr un dywarchen,
 Y cydorweddant hwy.

Os mewn traddodiad nofiodd
 Eu hanes prudd i ni,
 Mae llawer un a welodd
 Orweddle oer y tri.

Yn einioes bu 'r ysgariad,
 Yn angeu maent yn un,
 Yn dysgwyl aildyfodiad
 Diweddaf Mab y Dyn.

CEIRIOG.

 TAITH I'R DWYRAIN.

Y MAE YN wir, fel rheol gyffredin, er y gellir nodi llawer o eithriadau, fod osgo mawr y byd wedi bod tua'r Gorllewin. Nid ein hamcan yn bresennol ydyw profi hyn; cymerai hyny erthygl gyfan. Nid ydym ar hyn o bryd ond yn tafu y syniad allan, ac yn galw sylw ein darllenwyr at y ffaith hynod a phwysig, fod y byd mawr yma yn ei ryfeloedd a'i chwyldroadau—fod dynolryw yn eu hanturiaethau a'u haneirif symudiadau—wedi bod er ys pedair mil o fynyddodd yn gogwyddo tua'r Gorllewin. Oddeutu tri chant a hanner o fynyddoedd yn ol, darganfyddwyd America, a rhoddodd hyny gynhyrriad newydd a chymhelliad cryfach i'r duedd Orllewinol. Ac yn ystod y can' mlynedd diweddaf, gellir dyweyd fod Prydain Fawr, yn gystal a Chyfangdir Ewrop, wedi bod yn ymfudo drosodd i'r Byd Newydd.

Ond gallem feddwl yn awr fod hil Japheth yn dangos tuedd i ddychwelyd — i droi eu gwyneb tuag at *adref*. Hyn o leiaf sydd sicr, fod yr arbenig-rwydd a dêlir i'r Hen Fyd, a'r dyddordeb a deimlir yn ein helyntion Dwyreiniol, yn un o nodweddau mwyaf pwysig yr oes bresennol. Y mae hyn i'w briodoli yn benaf i ddylanwad Lloegr, ein cysylltiad masnachol â gwladyddol â'r India, ynghyd a chyflusderau teithiol yr *Overland Route*. Gallwn nodi hefyd yr ymchwiliadau a'r darganfyddiadau sydd wedi eu gwneyd yn ddiweddar ar lânau y Nilus, yr Euphrates, a'r Tigris, pa rai sydd wedi taenu rhyw swyn dros y gwledydd hyn nad yw yn perthyn i un wlad arall ar y ddaear. Y fath gyrchu sydd i'r Aipht bob blwyddyn! Yma y mae ein teithwyr mwyaf anturiaethus, a'n hynafiaethwyr mwyaf dysgedig, wedi bod yn gwario eu harian, yn treulio eu nerth, ac yn peryglu eu bywydau; yma y bu Boeckle, a Bunsen, a Lepsius, Stuart Poole, a Gardner Wilkinson, yn dyfal chwilio ei hen adfeilion, yn dirboeni uwch ben cofarwyddion a cherffuniau sydd hyd yn ddiweddar wedi bod yn mocio holl ddysegeidiaeth y byd. Ac o'r diwedd, disgynodd yr ysbrydiaeth arnom ninnau; cawsom weled â'n llygaid "wlad Mizraim." Gyda chyfaill serchog o Gymru, buom yn teithio mil o filldroedd ar hyd yr afon fythgofiadwy, yn rhodiana fel merch Pharoh ar hyd ei glânau gwyrdd, a chydag Abraham a Jacob, Joseph a Moses, yn synsyllu ar ei themlau a'i phyrmidau tragwyddol.

Y mae arnom chwant myned i'r Aipht eto; tyred gyda ni, ddarllenwyd. Ond i gychwyn, rhaid i ni gael llong; dacw hi yn ein haros wrth y llongborth yn Southampton—*steamer* o faintioli anferthol; nid llawer llai, fe allai, nag arch Noah; a gallem feddwl fod byd mewn talfyriad yn y "*Tagus*," fel yn yr arch gynt. Yr oedd un pen iddi at wasanaeth y teithwyr—cwr arall iddi yn meddiant y gwahanol grefftwyr—"pen blaen y llong" fel rhyw fuarth mawr—braidd na feddyliem yma ein bod yn nghanol *live stock* rhyw amaethwr galluog; yma yr oedd y defaid yn y gorlan, a'r eidionau yn y beudai. Ond rhaid i ni ymattal. Oddeutu tri o'r gloch yn y pryd-nawn, canodd y gloch, ac yna ymaith â ni. Dringodd y Cadben i ben y *paddlebox*, tafiai ei freichiau ar led, bwrlymai ei archiadau allan, aeth y rhei'ny mewn eiliad trwy bob cŵr o'r llestr; dechreuodd y ffynel ysmocio a phwffian—llaciwyd y rhaffau—gollyngwyd y cadwynau oedd yn ein dal wrth y lân, ac yna buan, a bron yn ddiarwybod i ni, y llithrodd y "*Tagus*" i'r môr. Drannoeth yr oeddym ddigon pell ar y weilgi; yr oedd Lloegr o'r golwg, a Chymru, gwlad ein genedigaeth, ymbellach fyth; y môr yn awr a'n piodd ni i gyd; ac erbyn hyn nid oedd y "*Tagus*" oedd ddoe wrth y *cei* yn Southampton, gallasech feddwl, yn ansymudol fel Cheops, ond megys cragen, yn chwareu ac yn siglo ar frigau y tonau.

Y trydydd dydd, yr oeddym yn croesi y *Bay of Biscay*, y culfor hwnw rhwng Ffrainc a'r Ysopaen. Lle enbyd yw hwn; y mae yn fath o fwgan gan hyd yn nod y morwyr eu hunain; ofnant dymhestloedd hwn yn fwy na holl dymhestloedd y dyfnor i gyd. Buan y cawsom ninnau ddigon ar y *bay*. Gan mor ddychrynlyd o dost yr oedd y môr yn ein hysgytiau, darfu i ni ddeffro y diwrnod hwnw yn lled foreu yn ein *berth*; a da yr ydym yn cofio eto fel yr oedd y môr yn berwi, a'r tónau yn tasgu dros y canllawiau, a'r gwynt yn chwibianu trwy y taclau, a'r llestr yn crecian bob modfedd o honi, gan rymusder y tywydd. Byddem rai prydiau, oddiar ryw *morbid curiosity*, yn rhoi ein clust wrth yr astellod oedd yn bared

rhyngom â'r môr mawr a'i ferw gwyllt, ac yna—*splash*; ond dyna y gair a ddaeth i'n meddwl, "Ni ddaw yn agos atat ti." Cawsom obenydd cysurus yn y gair yna, rhoisom bwys ein pen i orwedd arno, a chawsom gysgu yn dawel hyd y boreu. Ymhen chwe' diwrnod ar ol gadael Southampton, yr oeddym yn *Straits* Gibraltar. Rhyw gafn llydan dwfn ydyw hwn rhwng Ewrop ac Affrica, trwy ba un y mae yr Atlantic yn arllwys ei ddyfroedd i Fôr y Canoldir. O'r *Straits* y cawsom yr olwg gyntaf ar Affrica. Ni fu Affrica erioed yn bod i ni o'r blaen ond mewn enw—yn y *map*, neu ar y *globe*; ond yn awr yr oedd ein llygaid yn gweled hen lechweddau meibion Ham. Edrychasom unwaith trwy yspienddrych, a beth oedd yn y golwg ond talpiau anferth o eira yn nghanol poethdiroedd Affrica; ac o dan y clogwyni serth yr oedd rhai o fechgyn duon Ham yn llosgi tanwydd *charcoal* ar allorau yr iâ.

Ar ol gadael y *Straits*, aethom i mewn i *harbour* Gibraltar. Lle hynod yw hwn; dyma Cronstadt ynys Brydain, ac allwedd holl longwriaeth y Dwyrain i gyd. Yma aeth cychaid o honom i'r lân; ac ar ol wythnos o forio, yr oedd cael daear galed dan ein traed yn gryn amhenthyn i ni erbyn hyn. Ar ol cyrhaedd y tir, teimlem fel rhyw bethau gwylltion wedi dyfod o'r cyffion; ymaith â ni trwy y dref ar ffrwst; ymaith â ni i fyny y gelltydd, dros y clogwyni, ac i ben y mynydd oddiar y dref. Yno cawsom olygfa ysplenwych; ar ein llaw dde yr oedd cyfandir Ewrop; ar ein llaw aswy yr oedd perfedd-dir Affrica; o'n blaen yr oedd gorddyfnderau Môr y Werydd; o'r tu ol i ni yr oedd Môr y Canoldir, fel môr o saphir, yn ymestyn ymlaen am dair mil o filldiroedd hyd at wlad yr addewid; ac odditanom yr oedd tref fechan Gibraltar yn llechu yn nghesail y creigiau.

Ond rhaid i ni frysio tuag Alexandria, a dyma ni yn awr yn troi ac yn myned i fyny Môr y Canoldir tua Malta. Gelwir ef yn Fôr y Canoldir o herwydd ei fod yn sefyll yn nghanol y byd fel yr oedd yn adnabyddus i'n hynafiaid, neu o herwydd ei fod yn cyfryngu rhwng Ewrop ac Affrica,—

—————*Qua medius liquor*
Secernit Europæ ab Afrâ.

Y mae Môr y Canoldir yn eithriad i foroedd yn gyffredin. Dywed y morwyr am dano "fod pob môr yn ymarllwys iddo, ond nad oes un yn rhedeg allan o hono." Y mae yr Atlantic yn rhedeg iddo trwy *Straits* Gibraltar yn ol pum' milldir yn yr awr; y mae y Môr Du yn ymarllwys iddo trwy *Straits* Constantinople neu y Bosphorus, yn ol pedair milldir yn yr awr, heblaw fod lliaws o afonydd yn myned iddo o Ewrop ac o Affrica. Ond er hyn i gyd, nid yw Môr y Canoldir byth yn treio nac yn llenwi fel moroedd eraill. Y mae yr haul yn sugno cryn lawer o darth oddiwrtho bob blwyddyn, ac yn wir efe sydd yn cael y cwbl; nid yw y lleuad yn cael un lathen e lanw oddiwrtho trwy gydol y fwyddyn i gyd. Y mae hwn hefyd, wrth foroedd eraill, yn fas iawn; ac y mae hyn yn ei hneud yn ddarostyngedig i ystormydd disymwth, a thrwy hyn y mae yn hynod beryglus i'w forio. Yn un o'r rhuthr-wyntoedd hyn y bu agos i'r prophwyd Jona, a'r apostol Paul, golli eu bywydau; ac am lawer teithiwr hefyd a ddaeth o Loegr yn heimif ei ysbryd, ac a groesodd y Bay of Biscay dan ganu, byth nid anghofia "*that nasty short sea*," fel y gelwir o Gibraltar i Alexandria. Bai mawr Môr y Canoldir ydyw ei fod mor gynhyrfus—bod yr awel leiaf yn ei yru i natur ddrwg. Gwelsom ef

yn y boreu mor lonydd ac mor dddiddig ag oedd modd—yn edrych fel llafn o risial, nes yr ydoedd yn bleser calon genym gael rhedeg ar hyd ei wyneb llathr. Ond buan y newidiai ei wedd, ac ymhell cyn y nos edrychai fel peth cynddeiriog, nes y byddai iasau oerion yn cerdded trwy bob cymal o honom. Gresyn fod y “Môr Mawr” mor oriog ac anwadal ei dymher, —mor dueddol i'r fath *ffitiau* ofnadwy. Ymhén oddeutu tair wythnos ar ol gadael Southampton, yr oeddym gerllaw Alexandria. Anhawdd yw i ni ddysgrifio y teimladau dweithr oedd yn ymrithio trwy ein mynwes y boreu dydd Llun hwnw ag y cawsom yr olwg gyntaf ar wlad yr Aipht. Erbyn i ni fyned i fyny i'r dec y boreu hwn, wele ryw grëadur gwyllt, barfog, wrth y llyw, na welodd ein llygaid o'r blaen neb tebyg iddo. Hawyr anwy! pwy ydyw hwna? ebe ni wrth ein gilydd. Dacw ryw un arall yn dyfod i'r dec, newydd godi o'i wely. Edrychai tua'r llyw, a gofynai, gan rwbio ei lygaid, Gwarchod pawb! o ba le y daeth hwna? Efe oedd y *pilot* oedd wedi dyfod yn ei gwch bach *alongside* y Tagus, i'n cyfarwyddo yn ddiogel i borthladd Alexandria. Yr ydoedd yn Aiphtwr perfffaithgwbl, ac yn ddrych trwydd o'i genedl. Un dilledyn oedd am dano—math o grysg glâs yn cyrhaedd i lawr at y gliniau. Yr oedd ein cyfaill wedi eillio ei wallt hefyd, ac yn lle het, fel yn ein gwlad ni, rholyn o galico oedd wedi ei glymu o gwmpas y pen moel; y rheffyn calico yma yw *turban* y Dwyrain.

Dyma ni yn awr yn Alexandria. Adeiladwyd y ddinas enwog hon gan Alexander Fawr, ar ol goresgyn yr Aipht, a dwyn y wlad i feiddiant y Groegiaid. Bwriadwyd hi i fod yn brif ddinas ei ymherodraeth, ac yn brif eisteddle ei fasnach; ac felly y bu, am rai canrifoedd, yn brif borthladd yr Aipht, ac yn brif fasnachfa y byd. O dan nawdd y Ptolemies, daeth Alexandria yn enwog am ei dawn a'i dysg, ei chrefydd, a'i moes. Yma yr eisteddai Rabbies Iuddewig a dysgawdwy'r crigionogol ochr yn ochr â beirdd a philosophyddion Groeg. Yma yr oedd llyfrgell fawr y Dwyrain—llyfrgell ag oedd yn gymaint rhyfeddod â phyramidiau Chizeh, a llyfrgell hefyd a fuasai yn addurn ac yn anrhydedd i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trueni ofnadwy oedd i raib y Saracen gael mantais erioed ar lyfrgell y Ptolemies. Oni bae hyn, buasai holl lënyddiaeth y cerffuniau yn ein meddiant; buasai *hieroglyphics* yr Aipht mor ddealladwy i ni ag ydyw *classics* Groeg a Rhufain; a buasai genym *professors* yn ein colegau mor hyddysg yn y cerffuniau arwyddlunol ag ydoedd Manetho ei hun. Ond yn y seithfed ganrif, yspeiliwyd y byd o'i drysor gwerthfawrocaf, ac aeth hanesyddiaeth yr Aipht i ddyrswch anadferadwy. Oni bae yr ymosodiad Saracenaidd, buasai amseryddiaeth y cynoesau wedi eu dwyn bellach i oleuni: a buasai y dysgedig Bunsen ymhell cyn hyn wedi cyhoeddi “*History of Egypt*,” ag y galleid rhoddi llawn ymddiried ynddo; ond nid felly y mae; ac yr ydym yn priodoli ein colled i gyflafan fawr y seithfed ganrif. Omar oedd y dyn ag y mae ei olafiaid wedi rhegu ei enw, a mell-dithio ei goffadwriaeth fil o weithiau. Edrychai Omar ar y saith mil cyfrolau; a dywedai (ac erioed ni wnaeth dau gorn *dilemma* y fath ddfrod o'r blaen)—“Os yw yr ysgrifeniadau hyn yn cytuno â llyfr Duw, nid oes eu heisieu, ac nid gwiw eu cadw; os ydynt yn anghyttuno â llyfr Duw, y maent yn niweidiol, a dylent gael eu dinystrio.” *Ergo*, ymaith â hwy. Fel hyn yr ymresymai Omar; ac fel hyn y dymchwelwyd Pharos hanesiaeth y cynoesoedd. Y canlyniad yw, y mae yr Aipht wedi myned yn

labyrinth, ymha un y mae rhai o'n dysgedigion mwyaf craffus wedi colli eu hunain, i.e. a cholli *arnynt eu hunain*.

Ar ol gadael Alexandria, aethom i Cairo, yr hon yn awr yw prifddinas yr Aipht; ac, yn wir, yma y darfu i ni deimlo yn iawn ein bod ni yn hen "dŷ caethiwed" plant Israel. Y mae Cairo a'i chymydogeath yn hollol Aiphtaid; ac yma, yn ddiambheu, yn benaf, y cyflawnwyd y gorchestion mawrion ag yr ydym yn cael hanes am danynt yn yr ysgrythyrau. Ffordd acw, rhyngom â'r gogledd, yr oedd "gwlad Gosen," lle y preswyliai meibion Jacob; ar ein cyfer, tua'r gorllewin, yr oedd Memphis ("Noph"), lle byddai Pharaoh yn cadw ei lys; oddeutu dwy filldir tu ol i ni yr oedd Heliopolis ("On" enwog)—Rhydychen yr Aipht am gannoedd o flynyddau. Yma y bu Moses yn myned i'r ysgol pan yn fachgen,—yma yr ymröai i ddysgu *hieroglyphics*, y rhai y pryd hwnw oedd *classics* y dwyrain,—ac yma y daeth yn fedrus yn holl ddoethineb yr Aipht. Llauer gwaith, wrth ymweled â'r lleoedd hyn, y cipiwyd ni gan ryw syn-freuddwyd. Wrth rodiana yn ol ac ymlaen, buom yn meddwl am y Llaw Ragluniaethol hōno fu yn gwylio bachgen y "siaced fraith" mor fanwl, ac yn ei arwain ar hyd y llanerchi hyn, trwy restr o oruchwyliaethau na wyddai ef ar y pryd nemawr am danynt—y Llaw anweledig fu yn gysgod iddo yn y carchar, ac a'i cododd o "dŷ y distain" i lys y brenin. Buom yn edrych ar y dyeithriaid hyny yn dyfod i'r Aipht gyda'u defaid a'u gwartheg, eu hasynod, a'u camelod; ac yna byddai yr hen Jacob, yn ei "sachlian o flew camel," yn codi o flaen ein meddwl: gwelem ef yn myned i'r llys a'i bwys ar ben ei ffon, yn sefyll yn grynedig o flaen y tywysogion a'r pendefigion, yn hen wr cloff a methiantus; a chan godi ei olygon at "Arglwydd Dduw Bethel," gwelem ef yn bendithio Pharaoh brenin yr Aipht. Bellach, "Joseph nid yw fyw." Rhyngom ni a'r dygwyddiadau hyn y mae cyfwng maith o bedair mil o flynyddoedd; ac yn ystod y tymmor hwn y cyfododd llawer "brenin yn yr Aipht yr hwn ni adnabuasai mo Joseph." "Darfyddodd yr eilunod o Noph, Pathros hefyd a anrheithiwyd; rhoddwyd tân yn Soan, a barnedigaethau yn No." Ezech. xxx. 14, 16.

Cairo yw dinas y Caliphiaid; ac y mae delw y Saracen yn argraffedig ar bob peth o'i mewn. Gwisg a thafodiaith y trigolion, llun y tai, ffurf yr ystrydoedd, y tyrau, y temlau—y mae holl saerniaeth y ddinas o wneuthuriad Saracenaidd. Ystryd yn Cairo yw dwy res o dai, oddeutu dwy lath oddiwrth eu gilydd; y muriau yn y cyfredin o glai, y ffenestri o ddellt. Y mae penau y tai yn bur uchel, ac yn dyfod allan bob ochr i'r heol, fel math o esgynlawr crogedig; a'r cwbl a fyddem yn ei weled o'r awyr fyddai ryw ribyn glas rhwng yr hen groglofftydd llwydion. Yr oedd y rhai hyny, wrth gwrs, wedi hen bydru er ys llawer dydd. Ac yn wir, gan mor simsan yr edrychent, buom cyn hyn yn barod i redeg am ein bywyd rhag ofn i'r holl ystryd ddyfod i lawr yn bendramwnwgl ar ein pen. Ond aroswech! dyma res o gamelod yn dyfod. Gadewch i ni edrych arnynt. Tebyg i'r rhai hyn oedd camelod yr hen Abraham—crëaduriaid cefngwrw, gwargam, ysgwyddau hirion, bwäog, penau bychain meinion,—

"Swimming over a sea of turbaned heads."

Dyma res o fulod yn myned, gan deithio tua Boulac; yn fuan, dychwelant yn ol yn llwythog o drugareddau—ŷd, llyisiau, dwfr, tanwydd, &c.

Y mae mulod yn Cairo yn "bobl" barchus iawn; annhebyg iawn i'w brodyr yn Nghymru. Ystyrir yno mai arglwyddi a phendefigion y byd anifeilaidd yw y mulod. Y mae yr asyn yn grëadur buan ei droed, bywiog ei ysbryd, a dygn yn ei waith—yn dirion, yn ufudd, yn wasanaethgar ymhob ystyr. Mewn gair, gallam feddwl ei fod wedi disgyn yn uniongyrchol o'r hybarch "*Sprightly*," yn yr "*Arabian Nights*," a pherchir ef gan bawb. Tra yn Cairo, cawsom lawer o ddifyrwrch gyda'r mulod a'r *donkey-boys* o gwmpas ein *hotel*. Bob tro yr aem allan, byddai gryu hanner cant o *donkey-boys* yn ymosod arnom, ac yna ar eu gilydd; ac am rai mynydau, dyna lle byddai hi yn rhyfel blin ymhlith bechgyn yr asynod, a'r rhai hyn y yn trin, a'r mulod yn nadu, a ninnau bron yn colli ein hamynedd er ein gwaethaf. "*Dis ver good donkey*," meddai un. "*No*," meddai y llall, "*dat donkey only got one eye*." Ac, meddai y trydydd, "*Take my donkey, mine is de best in de whole Cairo; me make him gallop all de way; Ingles ver good, take my donkey, gentleman*." Wel, dyna ddigon o ragymadrodd. Yn awr, gyda phob parch i'r darlennydd, yr ydym yn myned i gael "*donkey ride*." Ar ol dewis yr asyn goreu y gallasai ein llygaid ei bigo, yr ydym, gyda y pwyll a'r difrifoldeb sydd yn gweddu i'r amgylchiad, yn myned ar gefn y crëadur, ac yna i ffordd â ni ar dith tua'r *bazaar*. Ond cyn cychwyn yno, "*Warda, rig-lag*," meddai'r *donkey-boy*. Beth yw y mater? Un o Beys y Pasha sydd yn dyfod yn ei gerbyd, a'i *footman* wedi gwregysu ei lwynau yn rhedeg o'i flaen gan waeddi "*Basha, Basha*," fel Elias gynt o flaen Ahab. I Bren. xviii. 46.* Gwelem liaws o bethau yn y *bazaar* oeddynt i ni yn newydd ac yn rhyfedd. Y mae un yn cario dwfr y Nilus ar ei gefn mewn croen gafr; y mae y llall yn ei werthu bob yn gwpanaid i'r brodorion. Ystyrir y Nilus yn gysegredig yn yr Aipht; ac anfonir tunnelli o'i dyfroedd i Constantinople bob blwyddyn at wasanaeth y Sultan a'r Hareem. Ond y *bazaar*—dyna lle mae y *barber* yn yswatio yn y cysgod, ac yn eillio gwallt rhyw Fahometan penboeth; y mae yn hawdd iddo, newydd fod dan yr un oruchwyliaeth, yn ei gongl, yn golchi ei wyneb yn ddefosiynol iawn; ac yna y mae yn sythu i fyny, ac yn edrych tua Mecca, a chan ostwng ei ben, a chrymu ei wâr, y mae yn sibrdw y pader Mahometanaidd. Ffordd acw y mae swm canu a dawnio; gorymdaith briodasol ydyw. Yn nghanol y cwmni y mae geneth ddeuddeg oed, wedi ei gorchuddio gan leni o sidan; dyna y "*briodasferch* yn myned allan i gyfarfod y priodfab." Ynglyn â'r rhai hyn byddem yn y cyffredin yn arfer gweled mintai arall, yn wâr ac yn wragedd, yn gwneid y lleisiau mwyaf amheraidd a glywodd ein clustiau ni erioed. Yn eu mysg byddai rhês o fechgyn wedi eu gwisgo o'u pen i'w traed fel *puppets*, yn y dull mwyaf coegaidd ac ysmala. Yr oedd y rhai bychain hyn y diwrnod hwnw i dderbyn rhagorfreintiau yr enwaediad. Dyna orymdaith eto; ond llais "*galar ac wylofain, ac ochain mawr*;" beth, attolwg, yw y rhai hyn? "*Rahel*," sydd yna "*yn wylo am ei phlant, ac ni fynai ei chysuro am nad oeddynt*." Y mae y corff wedi ei wisgo mewn huling o frethyn; dyna'r

* Gwel hefyd *Ether* vi. 9, 11; 1 Sam. viii. 11; 2 Sam. xv. 1. Ceidw pob gŵr o urddas yn y Dwyrain ei redegwas i fyned o flaen ei gerbyd, i hwylyso yr ystryd, neu i ddigaregu y ffordd. Dysgir hwynt yn y gelfyddyd o redeg; gorchwyl mawr eu hoew yw gwaeddi, "*Warda, rig-lag*," a rhedeg o flaen eu meistriaid. Cyn cychwyn i daith, irant eu haelodau ag olew; ac y mae rhai o honynt mor fedrus yn eu celfyddyd fel y rhedant ddeugain milldir yn y dydd.

ysgrin, neu yr arch, ymha un y cleddir y bychan, ac yn cael ei dwyn i'r fynwent ar ben moel rhyw Arab. Yn yr orynidaith y mae y "*neddabehs*,"—y galar-wragedd—yn gwneyd y nadau a'r ystumiau mwyaf afafar. Fel hyn y mae dyn eto yn myned i dŷ ei hir gartref, a'r galarwyr yn wylo o bob tu i'r heol.* Y mae yr Arabiaid yn bobl hwyliog, o dymherau awchus, poethlyd; a bu hyn yn fantais nid bychan i Mahomet er lledaniad ei grefydd. Y maent yn ddynion nwydwyllt, tafod-drwg; fe ä Arab o'i hwyl i natur ddrwg am y mymryn lleiaf; a phan yn y dymher yma bydd yn ddychryn i bawb o'i gwmpas. Hawyr anwyl! fel y mae llygad y cre-adur yn gwreichioni; gallem feddwl fod lleng o ysbrydion arian yn y dyn; y mae ei eiriau fel yr ulw poeth, ac yn disgyn oddiwrtho fel o geg y mynydd tanlyd. Ni fuom erioed yn myned i'r *bazaar* na byddem yn cael ein hunain mewn rhyw derfysg—rhyw *row* neu gilydd. Gallem feddwl fod yr holl dref at *loggerheads*, yn benben â'u gilydd—pawb yn siarad nerth asgwrn ei ên, ac yn trin, ac yn cyfarth, ac yn bytheirio y geiriau mawr allan yn y dull mwyaf digofus a mileinig. Yr ydym yn dyweyd o ddirif calon, ddarllenyydd, Lle cothin, chwithig, ydyw y *bazaar* yma; yma y mae y bobl yn un ysa i gyd, a dyma y lle y byddem ninnau, fel rhyw bethau gwirion yn eu canol, yn ddewiniaid ac ymladdwyr, yn chwiw-ladron ac yn *witches*—y bwganod mwyaf diffaeth a welodd ein llygaid erioed.

Yr ydym yn awr yn gadael dyhirod y *bazaar*, ac yn myned yn ol i edrych ar y cewri oedd yn byw ar lânau y Nilus, bedair mil o fynyddoedd cyn iddynt hwy agor eu llygaid. Wrth ymweled â rhyfeddodau yr Aipht, un o'r pethau cyntaf sydd yn taraw y teithiwr meddylgar yw *nerth* a *mawredd* y gorchestion henafol hyn. Nid ydym yn petruso dyweyd na fedr y bedwaredd ganrif ar bymtheg ddangos ddim tebyg iddynt o ran gorwychedd arddunol. Ac yn hyn yr oedd yr Aiphtiaid yn hollol wreiddiol hefyd. Dynwardwyr oedd y Groegiaid, a dderbynient eu drychfeddyliau yn benaf o'r Aipht. Yma y bu Orpheus, Dædalus, Lycurgus, Solon, Thales, Pythagoras, Democritus, Strabo, &c., yn myned i'r ysgol, ac yn cael eu dysgu yn mhreif gangenau gwybodaeth a chelfyddyd. Yn yr Aipht y dyfeisiodd Archimedes ei ddyfroell, ac yma y cafodd gyffe i roi ei beiriant gyntaf mewn gweithrediad. Yn yr Aipht y dealodd Thales fod 365 o ddyddiau mewn blwyddyn; ac yma hefyd y daeth yn alluog i gymeryd mesuriad gwahanol wrthddrychau. Dywed Herodotus wrthym, mai yn yr Aipht—fe allai mai yn y coleg, yn Heliopolis—y cafodd Pythagoras ei syniad am anfarwoldeb yr enaid, a sefyllfa ddyfodol. Fel hyn, efelychwyr gan mwyaf oedd y Groegiaid.† Ond darganfyddwyr—cynllunwyr gwreiddiol oedd yr hen Aiphtiaid. Credu yr ydym fod eu cerffdelwau mwyaf arddunol yn gynnyrchion eu meddwl a'u llafur dwfnwreiddiol eu hunain. Nid oedd yr un o honynt yn ail-law, os nad oedd y drychfeddwl am y pyramid; ac os oedd hwn felly (er nad ydym yn sicr o hyn), cawsant yr *idea* yn dra-ddodiadol, ac yn anuniongyrchol, o dŵr Babel yn ngwastadedd Sinar.

* Credir yn y Dwyrain hyd y dydd hwn, na fedr neb wylo fel gwraig, ac nad yw galar neb i'w gystadlu â'i galar hi; ac am hynny, defnyddir nifer o alarwagedd cyflogedig mewn pob angladd. Dilynant y corff tua'r beddrod gan y galarnadau mwyaf owynanus. Gwelsom hwynt ar brydiau yn anffurto eu gwynebau, yn tynu eu gwallt, yn curo eu dwyfronau, yn dwbio eu hunain â chlai, ac yn gweithio eu holl natur i'r fath deimlad nes y byddent ar lemeirio. Y mae mynych gyfeiriadau yn yr Ysgrhythrau at yr arferiad. Gwel 2 Cron. xxxv. 25; Jer. ix. 17; a Matth. ix. 23.

† Gwel ar hyn *Lepsius' Letters*, p. 382, &c.

Prif nodweddiad athrylith yr hen Aiphtiaid oedd gallu cawraidd, nerth aruthrol. Ni ragorent yn aml yn y prydfeth a'r addurniadol (y *beautiful*), ond yn y mawr a'r arddunol (y *sublime*). Fel enghreifftiau o hyn, gellir nodi yn fwyaf arbenig y pyramidiau, y rhai sydd orchestion, nad oes dim, o ran aruthredd celfyddydol, i'w cystadlu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oes ond un "*Cheops*" yn bod yn ein byd ni; a chredu yr ydym na welir mwy yr un gorchestwaith ar ba un y gellir ysgrifenu, "*Dyma Cheops yr ail*." Y mae llawer o gyfnewidiadau dynystriol wedi pasio dros wlad yr Aipht, ond *aros* y mae "*Cheops*"—eistedd yn orseddol ar ei sylfaeni tragywyddol; ac y mae yr un sefydlogrwydd digyfnawid yn perthyn i'w holl gynnyrchion i gyd. Yr ydym yn ystyried hyn hefyd yn ddrych arddangosiadol (*type*) o brif nodwedd meddwl yr Aiphtiaid. Nid oedd dim yn fwy annyoddefol iddynt hwy na'r syniad o drancedigaeth ac adfeiliad—gwarthrudd a llygredigaeth y bedd. Yr oedd y teimlad o anfarwoldeb yn ddeddf anorchfygol o'u mewn. Yr oedd yr ysbrydiaeth hon wedi eu meddiannu i'r fath raddau nes y gallem feddwl eu bod yn bwriadu i'w holl gynnyrchion bara byth. Os adeiladu oedd i fod, "adeiladu am byth;" os cerfio, cerfio â "phîn o haiarn ac â phlwm, yn y graig dros byth;" os pyramid, pyramid tragywyddol neu ddim. Gall hyn, yn un peth, roi eglurhad i ni ar ddechreuad y gelfyddyd o berarogli a fu mewn bri mawr yn yr Aipht am oesau lawer. Ond ni a ddeuwn at hyn eto. Yr ydym yn priodoli i hyn hefyd, gan mwyaf, y duedd gref oedd ynddynt i gofnodi pobpeth. Y mae adeiladau yr Aipht, nid yn unig yn gofarwyddion celfyddydol, ond hefyd yn gofrestrau hanesyddol a chwedleuol (*mythological*). Yr oedd eu tmlau a'u pinaclau—palasau y byw a beddrodau y meirw—yn dafleni arwyddluniol—yn gofnodau cerffedig o helynion a llênnyddiaeth yr Aipht am filoedd o flynyddoedd. Cerfiwyd mewn gwenithfaen a thywodfaen luniau eu hadar a'u hanifeiliaid, eu hofferynau amaethyddol, defodau teuluaid, seremonïau crefyddol, helyntion gwladol, enwau a theitlau eu breninoedd, prif ddygywddiadau eu hoës, eu brwydrau, eu buddugoliaethau, y llawenydd ar ddydd eu coronïad, y galar ar ddydd eu claddedigaeth, &c. Y mae y cerfiadau hyn yn aros eto, ac yn y cyffredin y mae pob lliw, a llun, ac ystum ar y muriau caboledig yn edrych mor naturiol—mor *fresh*—a'r diwrnod y torwyd hwynt. Nid oes un wlad arall ar y ddaear a fuasai yn eu cadw mor berffâith ddilwgr, ond yr Aipht. (Bydded i'r darlennydd gadw hyn yn ei gof; cawn wneyd defnydd pwysig o hynyma eto.) Yn Mrydain, buasai yr hin wedi dal arnynt ymbell cyn hyn. Yma, mewn ychydig ganrifoedd, y mae gerwindeb y tywydd yn llwyr ddilêu pob olion coffadwriaethol. Buom cyn hyn yn sefyll uwch ben bedd rhyw hen fardd Cymreig, ac yn chwilio am *initials* ei anfarwol enw—

"Y gareg arw a'r ddwy lythyren,
Dorodd ryw anghelfydd law,"

ond nid oeddynt i'w cael; yr oedd yr elfenau wedi eu gwisgo ymaith am byth. Ond nid felly yn yr Aipht; yno nid oes na chên na mwsogl wedi effeithio arnynt yn y gradd lleiaf; y mae rhagluniaeth fawr y Nef wedi eu cadw yn eu perffeithrwydd cyntefig hyd y dydd hwn.

Yr ydym yn ysgrifenu ar gyfer Cymro uniaith na fu erioed yn Ngwlad yr Aipht, ac nad â yno byth. Carem yn fawr, gan hyny, roddi syniad

clir a chywir i'r cyfryw o'r ffugyrau dyeithr hyn. Y mae ein cydwladwyr wedi clywed llawer o son am gerffdelwau yr Aipht; ond, attolwg, Beth ydynt? Beth ydyw yr hyn y mae dysgedigion yn ei alw yn "*hieroglyphics*?" Yn awr, meddylid ein darllenydd ei fod yn edrych ar golofn pedair-ochrog, deg llath ar hugain o hyd, ac yn un darn cyfan cryno o wenithfaen—dyna *obelisk*, mân ddarlun o'r pyramid. Y mae yr *obelisk* wedi ei naddu a'i gaboli; ar ei arwyneb y mae cerfiadau aneirif, sef lluniau tai, ymlusgiaid, anifeiliaid, coedydd, blodau, llyisiau, ffrwythydd, afonydd, dwylaw, traed, &c. Mae y cerfiadau hyn, nid yn unig yn arwyddluniau o wrthddrychau difwyd, ond hefyd yn ffurfiau sydd yn arddangos seiniau arbenig. Felly yr oedd llythyrenau pob iaith ar y cyntaf. Yr oedd ynt yn yr oesau boreuaf yn arwyddluniau o wrthddrychau naturiol, ond ymhen amser defnyddiwyd hwynt yn ffurfiau geneuol, hyny yw, yn llythyrenau. Llun drws pabell oedd y llythyren D (Δ Delta) i ddechreu, ond yn awr nid yw ond arwydd i osod allan y sŵn—Di. Ac felly am *hieroglyphics* yr Aipht; nid yn unig yr oedd ynt yn arwyddluniau o bethau naturiol, ond yr oedd ynt hefyd yn ffurfiau i osod allan seiniau llythyrenol.

Onid pwy oedd i ddëongli y cerfluniau hyn? Pwy a allasai ddangos *pa* sariu neillduol oedd pob un o'r cerfluniau hyn yn ei ddynddi? Fe fu Herodotus yn yr Aipht, a llawer gwaith yn ddiambheu y bu efe yn llygadu ar y tryblith astuniaidd oedd yn britho muriau caboledig ei themlau. Fe allai iddo weled y ffurf—□ □ 4 4—yno. Y mae yr enw hwn i'w weled yn aml yn yr Aipht Isaf; ond os gwnaeth, nid oes genym un lle i feddwl fod Herodotus yn deall ei ystyr seinyddol. Ond y mae y "*Rozetta Stone*" yn hysbysu i ni mai ystyr □ □ 4 4 yw "*aphaph*."* Y mae Erastotenes yn newid ychydig ar y gair, ac yn ei alw yn *Απαφος*. Un o ddarganfyddiadau mwyaf pwysig y ganrif bresennol yw dëongliad y "*Rozetta Stone*." Yn y flwyddyn 1799, tra yr oedd milwr Ffrengig yn codi am-ddiffynfa yn agos i Rosetta, dygwyddodd iddo, wrth gloddio, daraw wrth ddarn o wenithfaen. Ar y gareg hon yr oedd argraff wedi ei gerfio mewn *hieroglyphics*, ynghyd ag argraff arall yn yr iaith Roeg. Cafwyd mai cyflwyniad o barch i Ptolemy Epiphanes oedd y gareg, a *chasglwyd*—nid oedd prawf ar y pryd—mai cyfieithiad ydoedd o'r arwyddluniau. Ymhen yspaid o amser ar ol hyn, cafwyd *obelisk* yn Philæ yn yr Aipht Uchaf; yr oedd hwn hefyd yn cynnwys arwyddlun, ynghyd ag ysgrif hefyd yn yr iaith Roeg—y Groeg yn cyfeirio at Ptolemy, Phiscon, a Cleopatra ei wraig. Yn awr, wrth gymharu y gareg â'r *obelisk*, gwelwyd fod llawer o'r cerfluniau yn y naill yn gymhwys yr un fath â llawer o'r cerfluniau yn y llall. Ar ol ymchwiliad manylach a phellach, daeth Mons. Champollion o hyd i wyddor arwyddluniol. Yn awr, er enghraifft, ni a gymerwn ddwy ddolen; dyweder fod y ddolen rhif 1 yn arwyddo Ptolemeus, a'r ddolen rhif 2 yn arwyddo Cleopatra. Y llythyren gyntaf yn y gair Ptolemeus, a'r bummed yn y gair Cleopatra yw P. Yr arwydd cerfluniol cyntaf yn y ddolen rhif 1 ydyw □ (blocyn ysgwâr); y pummed arwydd yn y ddolen rhif 2 ydyw □; gan hyny, □ ydoedd yr arwyddlun am P. Y bedwaredd llythyren yn y gair Ptolemeus, ynghyd a'r ail yn y gair Cleopatra, yw L. Y pedwerydd arwydd yn y ddolen rhif 1 yw llun llew; yr ail arwydd yn y ddolen rhif 2 ydyw llun llew; am hyny, yr oedd llun llew yn arwyddo L.

* Gwel Gliddon's "*System of Hieroglyphics*."

Wrth gymharu dolenan a geiriau eraill, yr ydym, yn yr enghreifftiau uchod wedi gosod o faen ein darllenwyr egwyddor sylfaenol deongliad y cerffoniau, a dim ond hyny. Fe aed ymlaen eilwaith i wneyd ymchwiliadau manylach a phellach; ac erbyn hyn y mae Champollion, Lepsius, a Glibbon, wedi llwyddo i wneyd iaith gyntefig yr hen Aiphtiaid yn ddealladwy i bobl y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Credid yn ddiysgog gan rai y byddai y darganfyddiad pwysig uchod yn ddadymchweliad hollol i ranau helaeth o'r Dadguddiad Dwyfol. Cydiodd yr anffyddiwr yn ei fforda, ac ergydiodd y "*Rozetta Stone*" at fywyd Cristionogaeth. Gosodwyd Manetho yn erbyn Moses. Gwyswyd Pharaoh o'i fedd i ddyweyd celwydd yn erbyn y Duw Goruchaf. Dadgloddiwyd hen geuflod anferth o berfeddion y ddaear i ddychrynu cristionogion diniwed, ac i siglo eu cred yn ngeirwiredd Cristionogaeth. Dywedwyd yn ddibetrus yn Ffrainc nad oedd dim ymddiried i'w roddi yn ysgrifeniadau Moses—fod ei amseryddiaeth wedi ei dafu i ddyrswch tragywyddol, a bod llawer o'i hysbysiadau hanesyddol yn gwbl dwylloddrus. Ond yr ydym yn camsynied yn fawr os nad allwn brofi, yn y tudalenau canlynol, fod y cerffadau Aiphtiaid yn brofion gwledig a diymwad o wirionedd a dilysrwydd y rhan yma o'r gyfrol sanctaidd.

Prif nod hynafiaethwyr Germany y dyddiau hyn yw—amseryddiaeth y Bibl. Haerant fod amseryddiaeth llyfrau Moses yn anghyson ág achrestrau* breninoedd yr Aipht, fel y maent wedi dyfod i lawr yn ysgrifeniadau y Groegiaid, ac â cherffadau yr Aiphtiaid eu hunain. Casglwyd yr achrestrau hyn gan Manetho (C. C. oddeutu 280), ac Erastosthenes (C. C. oddeutu 200); ond cofier fod eu hysgrifeniadau gwreiddiol wedi colli; ac nad yw yr hysbysiadau sydd genym yn bresennol ond darnau detholedig wedi eu dyfynu, a'r rhai hyny drachefn wedi eu copio, a'u hailgopio, fel nad oes genym yn awr ond rhyw fân bigion, a'r rhai hyny yn hynod o amherffraith, ac yn gydbledhedig o'r fath ddychymygion ofergoelus fel y mae yn amhosibl eu cysoni â'u gilydd, ac yn wir â hwy eu hunain. Mewn gair, o ran eu gwerth a'u pwys hanesyddol, nid ydynt fawr gwell na chwedleuon twylodrus. Ac yn awr, gan fod y fath anghysondeb anghymmodadwy rhwng Manetho ac Erastosthenes, beth, attolwg, am eu dilynwyr, Bunsen, Lepsius, &c.? oblegid dylid cofio mai dilyn yr hen dadau hyn y maent hwythau yn benaf. Wel, os yw y tadau yn anghyson â'u gilydd, ac â hwy eu hunain, y mae eu plant yn fwy anghyson fyth. Cyfrifir Menes yn berson gwirioneddol, ac ystyrir hefyd mai efe oedd sylfaenydd yr ymherodraeth Aiphtiaid. Ond y pwnc cyntaf i'w benderfynu yw—pa bryd y dechreuodd Menes deyrnasu? C. C. 2200, meddai Wilkinson; C. C. 2717, meddai Stuart Poole; C. C. 2387, meddai Knostel; C. C. 3643,

* Y mae y rhestrau hyn yn cynnwys rhai cannoedd o freninoedd, y cyntaf o ba rai yw Menes. Y mae gelyndon y Bibl yn cael profi fod y breninoedd hyn wedi dilyn eu gilydd yn rheolaidd—y naill ar ol y llall. Dyma yw "*the theory of successive dynasties*," sydd yn Germany wedi peri y fath gynhwrf; ag sydd am i ni gredu fod Pharaoh yn llawer henaoh na'i hen dad Adda. Ond y mae Stuart Poole, a Gardner Wilkinson, wedi profi tu hwnt i bob amheuaeth fod llawys mawr o'r breninoedd hyn wedi bod yn cydosi ac yn cyd-deyrnasu am llawer o ganrifoedd, hyny yw, byd y bedwaredd linach ar bymtheg—oddeutu amser Moses. Yn flaenorol i'r cyfnod hwn, cydbenaeth oedd ffurfiwodraeth yr Aipht. Yr oedd y wlad y pryd hwn wedi ei rhannu i nifer o wahanol daleithiau; byddai pen neu raglaw ar bob un o'r mandywsogaethau hyn, a gelwid ef yn frenin—Phra neu Pharaoh. Dyma yw y ffurf o ba un y tarddodd prif ymherodraethau y byd. Dyma agwedd pethau yn Lloegr, Cymru, a Scotland, ar y cyntaf, a dyma fel y mae eto yn Germany a Switzerland. Cydbenaethiad tebyg i'r rhai hyn oedd yr yr Aipht, ac y mae y cerffoniau yn profi hyn tu hwnt i bob dadl.

meddai Bunsen; C. C. 3892, meddai Lepsius; C. C. 5773, meddai Lesneur. Rhyfedd! fel y mae y plant yn anghyttuno eto; ac y mae yr un anhrefn a'r un anghysondeb yn rhedeg trwy eu holl ymchwiliadau i gyd. Ofer a difudd fyddai i ni olrhain achrestrau Manetho, Erastosthenes, Appalodion, &c.; yr ydym yn eu gadael ar unwaith ac am byth gyda dyweyd, fod amseryddiaeth henafol yr Aipt yn fagdu o dywyllwch—yn “bwl diwaelod” o anhrefn a dyrswch; ac am hyny nid ydym yn petruso dyweyd na ddaw nemawr o niwed oddiwrth y fath ofergoelion chwedleu-aid i amseryddiaeth llyfr Duw. Yr ydym yn awr yn troi at yr “Egyptologists;” a'r peth yr ydym yn ei ddyweyd wrth y gweilch dwfn-ddysgedig hyn yw, ac yr ydym yn dywedyd hyny hefyd ar ol dwys a manwl ymchwiliad—Yn gyntaf, cysonwch achrestrau Manetho ac Erastosthenes â'u gilydd, ac yna â hwy eu hunain; yn yr ail le, cysonwch yr achrestrau hyn â'r cerfiadau arwyddluniol; ac yn enw pob peth, cyttunwch â'ch gilydd, neu ynte, *gadewch Moses yn llonydd*.

Yr ydym yn cofio yn dda y diwrnod brâf yr aethom i weled teml Denderah yn yr Aipt Ganol, oddeutu 300 milldir o Cairo. Y mae y deml hon yn perthyn yn benaf i'r cyfnod Rhufeinig. Ar un o'r pyrth y mae darluniau cerfiedig o Cleopatra, Domitian, a Trajan. Ond y peth sydd wedi hynodi y deml yn fwy na dim yw y darganfyddiad—fel y tybid ar y pryd—a wnaed ynnddi gan ryw Ffrancod, oddeutu pedwar ugain mlynedd yn ol, ynghyd a'r ymosodiad digywilydd a wnaed mewn canlyniad i hyny ar amseryddiaeth y Bibl. Yn nghronglwyd y deml yr oedd arwyddgylch astronomyddol (*zodiac*), wedi ei gerfio yn y dull mwyaf cywrain ac ardderchog; ac oddiwrth y cerfluniau oedd yn ei amgylchynu, y gwyr mawr hyn a haerent fod y *zodiac* wedi ei chynllunio, a'r deml yn wir wedi ei chodi, cyn amser Noah. Dychwelasant i Ewrop, a thaenwyd y gair ar led fod teml yn yr Aipt yn chwe' mil o flynyddoedd o oed. Y mae anfyddwyr yn ymgoneddu yn y darganfyddiad, fel rhai wedi cael ysglyfaeth lawer. Haerid gan gristionogion mai adeilad Rhufeinig oedd y deml; a bod y pyrth, y cynteddau, y colofnau, y *capitals*—y saerniaeth i gyd o wneuthuriad Rhufeinig. Na, meddai yr anfyddwyr, gan chwerthin yn groch, y mae hi yn sicr o fod wedi ei chodi ymhell cyn y diluw. Ond ymhen ryw yspaid o amser ar ol hyn, aeth Mons. Champollion i'r Aipt, ac ymwelodd â Denderah; codai ei ben, a thafai ei lygaid eryraidd dros yr arwyddgylch gerfiedig, ac o'i mewn fe welodd enw arwyddluniol Augustus Cæsar—*autkrtr Ksaars*. Dyma beth newydd o gryn bwys. Profodd Champollion oddiwrth hyn mai Augustus Cæsar a gynlluniodd y *zodiac*, ychydig cyn amser Crist, ac nid un o'r cynddiluwiaid. Ac heblaw hyny, ymhlith arwyddion y *zodiac*, cafwyd arwydd y fantol (*scales*). Dyma brawf eto fod yr arwyddgylch o wneuthuriad Rhufeinig, oblegid Augustus Cæsar a ddefnyddiodd yr arwydd astronomyddol hwn *gyntaf erioed*. Dyma ddigon ar y pwnc, a dyna ben ar y ddadl; byth wedi hyny y mae anfyddwyr wedi bod yn bur ddystaw ynghylch teml Denderah, rhag cywilydd. Fel hyn, y mae pob ymosodiad ar eirwiredd y Bibl, a phob ymgais i ddfrio anrhydedd crefydd, wedi llwyr fethu. Yr ydym yn cyffelybu yr ymdrechion hyn i wyllt ystranciau y morfilod hyny a fyddai yn ein dilyn ni yn Môr y Canoldir. Ambell waith, codent eu penau i'r wyneb, a chwythent—poerent eu llysnafedd gwenwynllyd ar bob llaw i ni; brydiau eraill, tafent eu cynffonau i fyny, ysbonciant o'r dŵr, a gwnaent bob math o ys-

tumiau anferth nes y byddai rhai o'r "llestri gwanaf" yn cyffroi trwyddynt. Ond llusgwch hwynt allan o'u dyfnderoedd lleidiog; gadewch iddynt sychu hanner awr yn yr haul; Ah! y mae goleuni y dydd yn annyoddefol iddynt; y mae yr haul yn eu lladd.

Ond beth pe gellid profi perffaith gywirdeb yr achrestrau uchod? Pa niwed a wnai hyny i Gristionogaeth? *Dim*, ie, DIM, hyd nes y ceir am-seryddiaeth gwir a hollol Fiblaidd; sef, hyd nes y ceir rhyw gynllun am-seryddol o awdurdod Dwyfol. A gallwn sylwi yma fod rhai dysgedigion o'r farn nad yw yr Ysgrythyrau sanctaidd yn penderfynu am-seryddiaeth gyntefig y byd mwy nag y mae yn penderfynu ei henafiaeth daear-egol. "Yn y dechreuad y crëodd Duw y nefoedd a'r ddaear," ac felly yn y dechreuad (fel y dywedai rhai wrthym) y crëodd Duw Adda ac Efa. Y mae yr amser, câu belled ag a wnelo y Dadguddiad Dwyfol â hyn, yn an-mhenderfynol yn y ddau fel eu gilydd. Nid oes a wnelom yn bresennol â hyn fel pwnc; yr ydym yn gadael hyny i'n darllenwyr. Ond hyn sydd sicr, nad yw y cyfrifon a welir uwch ben tudalenau ein Biblau ni, ond *ffugyrau dynol*, ac am hyny, hwy a allant fod yn anghywir. Y mae yn wir fod Moses yn llyfr Genesis (pen. v.) yn rhoddi rhestr achyddol i ni o wahanol genedlaethau; ac y mae y Testament Newydd yn cadarnhâu y rhestr hôn, (Gwel Luc iii. 36—38, a Judas adn. 14). Y mae yn rhaid fod y rhestr uchod yn gyfran arbenig o ysbrydoliaeth Ddwyfol: y mae yr enwan a'r symiau a gynnwysir ynddi, os ystyrir hwynt ar wahân ac ynddynt eu hunain, yn fleithiau achyddol, ac yn meddu hefyd awdurdod Ddwyfol. Ond nid yw yr amrywiol dablau anseryddol sydd wedi eu casglu oddiwrt yr achrestrau hyn, ac sydd hefyd mor berffaith anghyson â'u gilydd, ond *ffugyrau dynol*; ac am hyny, yr ydym at ein rhyddid i'w derbyn neu ynte eu gwrthod. Y mae llyfrau Moses wedi treiglo i lawr i'n dyddiau ni mewn tri o wahanol dafodiaethau. Y mae genym y testun gwreiddiol yn yr iaith Hebraeg, y cyfieithiad Samaritanaidd, a chyfieithiad y Deg a Thriugain. Y mae gan bob un o'r rhai hyn wahanol dablau anseryddol, a dyma i'n darllenwyr enghraifft o'u hanghysonderau:—

	Hebræaidd.	Samaritanaidd.	Deg a Thriugain.
O grëadigaeth y byd hyd y diluw ...	1656	1367	2262
O'r diluw hyd Abraham	292	942	1072
O grëadigaeth y byd hyd Abraham	1948	2249	3334

Y mae yn anhosiibl fod pob un o'r rhai hyn yn gywir; y mae rhyw ddau o honynt o leiaf yn rhwym o fod yn dwyllodrus. Y mae Archesgob Usher yn dilyn y testun Hebræaidd, a dyma hefyd yw cyfrif ein Biblau ni. Y mae Dr. Hales yn dilyn cyfrif y Deg a Thriugain; ac o'r ddau hyn mwy tebyg yw mai y Deg a Thriugain yw y cywiraf; a dyma, os nad ydym yn camsynied yn sawr, yw barn dysgedigion yn awr yn gyffredinol.* Dywedir mai y Deg a Thriugain, er mai cyfieithiad yw, ydyw yr ysgrif hynaf sydd yn awr ar gael o lyfrau yr Hen Destament; ac y mae lle cryf i feddwl ei fod yn fwy cydffurf â'r testun Hebraeg gwreiddiol nag ydyw y testun Hebraeg presennol. Gwnaed y cyfieithiad hwn yn Alexandria, oddeutu 300 mlynedd cyn Crist. Er mai Iuddewon a'i hysgrifennodd, yr

* Fel hyn y dywed Kitto ar y mater.—“We are strongly persuaded, with most scholars, that the longer chronology, as preserved in the Septuagint version, is the most correct.” Gwel *Kitto's Bible Readings*, vol. i., p. 116.

oeddynt yn ddyinion o ddysg, a dawn, a medr; yr oeddynt wedi eu dwyn i fyny wrth draed y Ptolemies yn Hieropolis, ac yn mhrifysgol yr Aipht. Y mae lle i feddwl eu bod yn deall y cerfuniaiu; ac os felly, diammheu iddynt ddarllen yn fanwl, ac astudio yn ddyfal, liaws mawr o'r cerfiadau oedd yn britho y temlau a'r beddrodau. Pa fodd bynag, y mae yn sicr fod llyfrgell fawr y dwyrain yn agored iddynt, ac iddynt hwythau wneyd y defnydd goreu o'i thrysorau. Y mae yr ystyriaethau hyn yn peri i ni gredu yn ddiysgog fod llawer mwy o ymddiried i'w roi yn nghynllun amseryddol y Deg a Thriugain. Ond fe wêl y darlennydd, oddiwirth y symiau uchod, fod y Deg a Thriugain yn tasfu cyfnod y diluw 800 mlynedd *ymhellach yn ol* na'r cyfrif yn ein Biblau ni. Ond eto, dylid cofio nad yw hyn yn cyffwrdd dim â *chynnwysiad* y rhan yma o'r gyfrol sanctaidd; nid yw yn effeithio dim ar *ffeithiau* hanesyddol llyfrau Moses, mwy nag yw darganfyddiadau daearegol ar adroddiad Moses am grëadigaeth y byd. Dyma ni yn awr wedi rhoi brasolygiad i'n darllenwyr o wedd bresennol y cwestiwn pwysig hwn. Nid yw wedi ei benderfynu eto. Y mae yn wir fod rhai anhawsderau wedi eu symud yn ddiweddar, ond y mae anhawsderau dirfawr eto yn aros. Wrth adael y pwnc, pa fodd bynag, y mae yn dda geuym ddyweyd gymaint a hyn—fod ymchwiliadau diweddar Stuart Poole wedi tasfu llawer o oleuni arno, ac wedi ei ddwyn yn nês i benderfyniad nag y bu erioed o'r blaen.*

Yn awr, ddarlennydd, os buost mor fwyn a'n dilyn hyd yma, sych dy ael, a chymer dy anadl. Yr ydym yn awr yn gadael tryblith afuniaidd y cynoesoedd, ac yn dyfod allan i awyr iach agored y bedwaredd gaurif ar bymtheg. Prydnawn dydd Mawrth, Ionawr y 30ain, 1855, gadawsom Cairo i fyny i fyny i'r wlad; ar y prydawn brâf, tesog, hwn, pan oedd ein darllenwyr, mae yn debyg, yn rhynu gan y rhew-wynt oer, troisom ein camrau tua'r Nilus; ac yna ffwrdd â ni yn ein cwch bach ar hyd yr afon ddysglaer, loew, tua Nubia a'r *Cataracts*. Bu y cwch yn gartref i ni am saith wythnos; buom yn teithio ynddo yn agos i fil o filldroedd; o Cairo i fyny i Philæ, ac o Philæ i lawr i Cairo yn ol. Yma yr oeddym yn bwyta, yn cysgu, yn darllen, ac yn ysgrifenu adref i Gymru; yn twymno y ffwrn, yn crasu y bara, yn berwi y bwyd, yn golchi ein crysau yn afon yr Aipht, ac yn eu hongian i sychu ar ben yr hwylybren; ac, yn wir, ddarlennydd, ni fuom erioed yn fwy dedwydd, nac erioed yn fwy cysurus, nag yn ein cwch bach ar afon yr Aipht. Yr oedd ein *crew* yn cynnwys deg o ddyinion; yr oedd tri o'r deg yn Nubiaid—dynion duon. Enw un o honynt oedd Hassan, bachgen oddeutu ugain oed—mawr, tâl, syth, esgyrnog, cryf fel llew, mwyn fel colomen. Yr oedd yr olwg gyntaf arno yn lled arswyd-lawn, gan rês o ddannedd iforaidd, a phâr o lygaid fyddai yn serenu arnom oddirhwng yr aeliau duon bwäog; ond o dan y croen garw du y curai calon lawn o deimlad a thosturi. Yn wir, y mae rhai defnyddiau pur dda ymhob dyn, dim ond iddynt gael eu trin a'u meithrin. Felly y cawsom y Negro anllythyrenog hwn; yr oedd *dynoliaeth* y créadur o'r fath oreu, a thrueni na chawsai ei choethi a'i phuro gan grefydd yr esengyl. Maddeued ein darllenwyr i ni am son cymaint am Hassan; a dyweyd y gwir, yr oedd y

* Y mae Syr Gardner Wilkinson wedi dadgan ei gymeradwyaeth o'r ymchwiliadau hyn; ac y mae Mr. Airy, yr *Astronomer Royal* yn Greenwich, wedi dwyn ei dystiolaeth o blaid eu cywirdeb, ac wedi gwirio rhai o honynt trwy broffion seryddol. Gwel *Poole's "Horæ Egypticæ."*

dyn hwn wedi rhyw gymeryd atom yn fwy na'r un o'r lleill, a chawsom ef yn fyddlawn ac yn onest ymhob amgylchiad. Er fod pum' mil o filldir-oedd rhyngom yn awr, y mae ein calon yn dychlamu eto wrth ysgrifenu ei enw; byth nis gallwn anghofio Hassan—y dyn mawr du hwnw fyddai yn cadw gwyliadwriaeth drosom y nos, a fyddai yn ein dilyn ni â'r pastwn mawr hwnw ar ei ysgwydd ar hyd lân yr afon, a fyddai yn ein cario ni ar ei gefn cryf llydan dros y ffosydd a'r creigiau, a ddaeth gyda ni i ddal y ganwyll yn medd Pharaoh, a fu yn ein llusgo gerfydd ein breichiau i ben y *pyramids*—ein hamddiffynwr dewr, ein harweinydd gonest, y gwas da a fyddlawn oedd y dyn du; a phe baem yn myned i'r Aipht eto, a phe bae Hassan ar gael, cai y negro du fod yn ben *dragoman* i ni yn ein holl wib-dethiau i gyd.

Dyma ni yn awr ar y Nilus, neu y *Nile*, ac mor dæg yw yr hin fel mai anaml yr ydym yn gallu codi yr hwyliau. Y mae Hassan a'r *crew*, gan hyny, yn myned i'r lân, ac yn llusgo y cwch o'r tir wrth raff wedi ei gwneyd o ddaill y palmwydd, a hōno yn rhwym wrth y *mast*. Byddai hyn yn rhoddi cyfle i ninnau fyned i'r lân i hela *crocodiles!* i saethu durturod, i redianna fel merch Pharaoh ar hyd glân yr afon, i yspio ansawdd y wlad, ac i ymwled â'r trigolion. Angorasom y noswaith gyntaf dan geulan uchel ar gyfer Memphis, prifddinas yr Aipht yn amser Moses; a chredu yr ydym mai rhywle y ffordd yma y cafodd merch Pharaoh yr Hebrëwr bychan yn ei gawell llafrwyn. Y mae Osborne yn barnu i'r amgylchiad hwn ddygwydd ar un o brif wyliau yr Aipht, pan y byddai parthau o'r afon yn cael eu cau i fewn, a'u gwneyd yn lleoedd cyfleus i'r Aiphtiaid ymdrochi, ac i fyned drwy eu gwahanol olchiadau seremonïol (*ablutions*), ac i Jochebed roi y cawell yn un o'r *enclosures* hyn. Fe allai y goddefir i ni ddyweyd ein bod ystyried y dybiaeth hon yn hollol ddisail. Yn un peth, nid oes sicrwydd oddiwrth y cerffuniau fod gan yr hen Aiphtiaid y fath *enclosures* o gwbl; ac os oeddynt yn eu harferyd, y mae yn dra thebyg na buasant yn eu codi yn y fath le ag y dodwyd y cawell—lle hesgog anghyfleus iawn i ymdrochi. Heblaw hyny, y mae genym le i feddwl y byddai gan ferch y brenin ymdrochle at ei gwasanaeth neillduol ei hun; gosodid rhyw arbenigrwydd mwy nag arferol ar hwnw, a gwyddai pawb am dano. Yr oedd tad y dywysoges hon newydd roi gorchymyn i'r bydwragedd ladd pob bachgen Hebrëaidd ar ddydd ei enedigaeth; ac yn awr—yn ol tyb Osborne—dyma Jochebed, yn lle ysgöi llid y brenin, yn myned ac yn gosod y bychan yn y lle mwyaf peryglus a allasai fod. Ond pa fodd bynag, hyn o leiaf sydd sicr, mai oddeutu y llanerch yma—ar gyfer Memphis—y cafwyd Moses yn ei gawell lafrwyn. Ofer fuaasai i ni ddysgwyl bod mor ffodus â Thermuthis, merch Pharaoh, ond mawr oedd eiu hawydd am gael rhyw gofeb (*memorial*) pa mor fychan bynag, o'r bachgen Moses. Buom yn chwilio llawer am y "llafrwyn" o ba un y gwnaed y cawell, ac am yr "hesg hefyd ar fin yr afon." Ond dywed naturiaethwyr wrthym nad ydynt yn awr i'w cael—eu bod yn *extinct*. Ac yn wir, pa ryfedd? Nis genir yr un Moses bach yn ngwlad yr Aipht mwy; ni fydd eisieu tusw llafrwyn i wneyd cawell mwy; ni raid cuddio yr un Hebrëwr bychan yn yr hesg rhag llid Pharaoh mwy. Y mae Pharaoh wedi trengu, ac mae y llafrwyn wedi darfod, a darfod hefyd i gyflawni geiriau y prophwyd,—“Tôrîr ymaith bob corsen a hesgen; y papyrfrwyn hefyd wrth yr afon, ar fin yr afon, a wywa, a chwelir, ac ni bydd mwy.” *Esaiâh xix. 6, 7.*

Boreu drannoeth, aethom i ymweled â phentref. Ni welir yn yr Aipht yr un bwthyn ar wahân neu wrtho ei hun—fel yn ein gwlad ni. Mae y tai—os priodol eu galw felly—oll gyda eu gilydd yn un tŵr; y mae pob tŵr yn gwneyd pentref, a phob pentref yn rhyw fyd bach ar ei ben ei hun. Safai y pentrefi hyn yn y cyffredin bob yn ddwy filldir ar lôn yr afon mewn llwyni o balmwydd uchel, pa rai oedd yn gysegod iddynt rhag gwres y dydd, a gwllith y nos. Cryn orchest yw rhoi ar ddeall i Gymro y fath bethau ydyw annedd-dai y *Fellahs* tlodion. Yr ydym wedi bod yn chwilio cryn lawer, ond yn ein byw ni fedrwn gael gair digon disgrifiadol o'r twmpathau iselwael sydd yn britho glânau y Nilus. Fe allai fod y gair cutystal ag un i ddynodi cartref truenus *Fellahs* yr Aipht; a gwaeth na'r cwbl, y mae y cut wedi ei wneyd o glai, a'i roi wrth ei gilydd rywsut â'r llaw. Y llaw sydd yn dyfod o hyd i'r pridd, trwy ei grafu â'r bysedd o laid yr afon; y llaw sydd wedi hyn y cymysgu y pridd â'r dwfr, ac yn ei wneyd yn glai; ac ar ol cael y tŵr clai at ei gilydd, y llaw drachefn sydd yn gwneyd y cut, ac yn codi y clai bob yn ddyrnaid i ben y mur, ac yn y diwedd cledr y llaw sydd yn plastro y cut o fewn ac allan. Nid ydym yn dyweyd fod hon yn rheol ddieithriad, ond fel hyn yn gymhwys y codwyd cannoedd o bentrefi yn ngwlad yr Aipht. Yn awr, dyna y cut clai wedi ei orphen; gadewch i ni fyned i mewn. Y mae yno ffwrn* i grasu y bara, a melin i falu yr ŷd, a chrochan i ferwi y ffacys.† Y mae yno hefyd ryw ddeiliach ar lawr ar ba rai y mae yr Arabiaid yn gorweddian y dydd ac yn cysgu y nos; ond am ddodrefn y tŷ, nid oes yno ddim—dim yn wir o'r aml gyfeusderau sydd i'w gweled ymhob bwthyn bach yn ein gwlad ein hunain. Gwarchgeidwaid a gwylieddyddion y pentrefi hyn yw y cŵn. Y mae heidiau o'r crëaduriaid teneu salw hyn yn perthyn i bob pentref: nid ydynt yn eiddo personol i neb; y maent yn hytrach yn feddiant cyffredinol; a chreda y trigolio neu bod hwy a'u plant yn eithaf diogel yn ngofal y fath warchodlu anrhydeddus. Y mae y ci wedi bod mewn brî mawr bob amser yn ngwlad yr Aipht; ac os da yr ydym yn cofio, yr oedd yr hen Aiphtiaid yn ei ystyried yn gysegredig; parchent ef yn fawr yn ystod ei fywyd, ac wedi ei farw, perarogient ef. Pan oedd yr Aipht dan lywodraeth y Rhufeiniaid, gosodid cŵn i warchod y temlau, ac uwch ben y crëadur y byddai yn argraffedig—“*Cave canem*,”—“*Gochel-wch y ci*.” Ond dygwyd ei enedigaeithfaint oddiarno; colodd bob uwchfaeth swyddol, ac yn lle bod yn borthor i warchod temlau y duwiau, gwelir ef yn awr yn ystalcian oddeutu claiythod yr *Arabs* tlodion. I wneyd cyfawnder â'r mater sydd genym dan sylw yn bresennol, dylem grybwyll yn peth arall sydd yn hynodi pentrefi yr Aipht; y nifer mawr o golomenod sydd yn perthyn iddynt. Y mae pob llwyn o goed a welsom ar ein taith yn fath o *pigeon rookery*; nid oes neb yn eu hawlio mwy na'u gilydd; ond fel y cŵn y

* Ffwrn yn iaith yr Arabiaid yw “foorn.” Ai tybed fod rhyw berthynas rhwng yr *Arabaeg* a'r hen *Gymraeg*?

† *Lentils*, math o bys bychain cochion, sydd yn bur gyffredin yn y Dwyrain. Berwant y pys hyn mewn dŵr i wneyd cawl. Dyna yn ddiagramheu yw y “cawl ffacys” a wnaeth Jacob gynt; a nefoedd llawer Esau eto yn y Dwyrain ydyw cael digon o “gawl coch” o'i faen. Y mae hwn yn fwyd da, ac yn feddyginlaeth iachus, ac y mae rhai gwyr da yn Lloegr wedi cael hynny allan o'r diwedd. Dyna yw “*Revalenta Arabica*” Du Barry, sydd wedi gwneyd i lawer un go wan ei ystymog ddyweyd wrth ei feddyg fel y dywedodd *Macbeth* gynt—“*Throw physic to the dogs, I'll none of it*.” Y mae yr enw, mae yn wir, yn hynod glasurwl; ond gall ein darlennydd fod yn dawel, bob tro y bydd yn cael “*Revalenta Arabica*” i'w swper, ei fod yn bwyta dysglaid o “gawl ffacys” dileddryw.

maent yn feddiant cyffredinol y pentref. Nid yw hyn ond peth dibwys ynddo ei hun; ond yr ydym yn crybwyll y ffaith er mwyn galw sylw ein darllenwyr at y neges-golomen—the *carrier pigeon*—fel y gelwir hi. Gwelsom lawer o'r rhai hyn ar ein taith, ac yr oeddym yn eu hadwaen wrth y llain o wŷn oddeutu y llygad. Y peth sydd yn hynodi y *carrier pigeon* yw ei hymlyniad diysgog wrth ei bro enedigol, a'r defnydd a wnaed o honi, o herwydd hyny, i gario negesau ar hyd y wlad. Dylid cofio mai adref yn unig yr ä y golomen gludol. Cedwid nifer o golomenod o drefydd cymydogathol mewn rhai parthau o'r Dwyrain, a phan y byddai eisieu anfon neges i ryw dref benodol, anfonid colomen o'r *dref hono*. Ar ol clymu tipyn o bapyr ar ba un yr oedd yr hysbysiad, am wddf neu wrth aden yr aderyn, gollyngid ef yn rhydd, ac yna codai yn syth i'r awyr fel hedydd, a chan gyfeirio trem ei lygaid tuag adref gyda yr un sicrwydd ag y pwytiai blaen y nodwydd at y *pole*, ymsaethai trwy yr ängader disathr trwy gymhorth greddf anffaeledig. Nid ydym yn gwybod fod gan naturiaethwyr un rheswm i'w roddi dros hyn, mwy na dyweyd ei fod i'w briodoli i fath o *nostalgia*—yr hiraeth greddfol sydd ymhob *carrier pigeon* am ei chartref, ac mor angerddol ac anorchfygol yw y teimlad hiraethlawn hwn fel nas gall amser nac amgylchiadau byth ei ddileu. Ond yr anhawsdra ydyw, sut y mae y golomen yn gwybod pa gyfeiriad i'w gymeryd? Nid oes un atebiad i'w roddi i'r cwestiwn hwn; y mae yma ddirgelwch nas gellir ei amgyffred. Mynych y defnyddid y *carrier pigeon* yn yr Aipht. Yr ydym yn cofio i ni ddarllen am un amgylchiad a ddygwyddodd dan deyrnasiad y Mamelukes. Bu farw un o'r Beys yn Alexandria, ac anfonwyd colomen i Cairo i hysbysu hyny; anfonwyd un oddiyno i Siout yn yr Aipht Ganol; ac anfonwyd un oddiyno drachefn i Assouan, ar gyffiniau Nubia; ac ymhên ychydig oriau—cyflymdra y *carrier pigeon* yw milldir bob mynyd—yr oedd y newydd yn hysbys trwy holl wlad yr Aipht.* Fe allai fod rhywbeth o'r arferiad yma i'w weled yn ngholomen y diluw; pa fodd bynag, y mae yn lled sicr mai at golomen y glúd y cyfeiria Solomon yn llyfr y Pregethwr x. 20, "Na felldithia y brenin, canys ehediaid y nefoedd a gyhoedda y llais, a pherchen aden a fynega y peth."

Y mae ein darllenwyr wedi casglu cyn hyn fod pobl y cutiau clai hyny yn rhwym o fod yn bur druenus ymhob ystyr; ac felly y maent; a drwg genym adrodd, mai o'r holl drigolion i gyd, y dosbarth iselaf yw y gwragedd priod. Ychydig o ganrifoedd yn ol, bu dadl frwd ymhlith y doctoriaid Mahometanaidd. Pwnc y ddadl oedd—a oedd gan wraig enaid; ac hefyd, a fyddai lle iddi hi yn y nefoedd; neu yn hytrach, a yw Mahomet ei hun yn dâl yr athrawiaeth yma yn y Koran. Haerai rhai ei fod; haerai eraill nad ydyw. Nid ydym ni yn teimlo y fath ddyddordeb yn y peth ag yr awn ni i dreio penderfynu y pwnc ar hyn o bryd; ond gallwn ddyweyd y credir hyn yn *ymarferol gan bawb*; ac am hyny edrychir arni gyda dirmyg a gwawd. Os prioda merch, y mae y gŵr yn ei phrynu fel rhyw eiddo cyffredin arall am ychydig o *biastres*, ac o hyny allan y mae ei rhyddid a'i

* Nid yw yr aderyn hwn yn anhysbys yn ein gwlad ein hunain chwaith. Clywsom, yn ddiweddar, am fachgen o forwr aeth ä nifer o *carrier pigeons* gydag ef o un o borthladdoedd Cymru. Ar ol mordaith galed dros y Bay of Biscay, gollyngwyd colomen allan, a fwrdd ä hi adref yn syth ä ddyweyd wrth y fam fod y bachgen wedi cyrraedd Malta yn iach a diangol, a'i fod drannoeth yn bwriadu hwylio tuag Alexandria; anfonodd un drachefn o Alexandria gyda yr un newydd.

hannibyniaeth ar ben.* Nid ei heiddo ei hun yw hi mwy, ond un o gelfi y gŵr, ac y mae hithau yn edrych arni ei hun yn *slave* iddo yntau. Y mae y gŵr yn eillio ei wallt, ac yn golchi ei ben, yn ymptydio, ac yn gweddio deirgwaith yn y dydd; y mae gan y dyn enaid; mae y Koran, gan hyno, yn gorchymyn hyn arno ef, ynghyda chant o bethau eraill, ac wrth gwrs y mae yntau yn ufuddhâu. Ond am y wraig, druan, sydd heb enaid, nid yw hi byth yn gweddïo; nid yw y Koran yn cymhell y ddyledswydd hon arni hi; y mae hi wedi ei "gwneuthur ychydig yn is" na'r dynion, ac edrychir ar y ffaith o'i bod hi yn *wraig* yn warthnod ar ei bywyd a'i chymeriad. Y mae rhyw gelu hefyd ar y gwagedd oedd i ni yn adgas dros ben. Yn gymaint a bod y wraig yn eiddo personol i'r gŵr, nid yw hi i gymdeithasu â neb ond ei phriod; nid oes neb i siarad â hi yn yr ystrôd, na neb i ymweled â hi yn ei chartref, ond ei chydwragedd. Dygasid hi i fyny pan yn blentyn mewn cyflwr o unigrwydd, a chaethiwed, ac alludiaeth; ac yn awr y mae hi yn edrych ar y gwrywaid gydag eiddgedd a rhagfarn annaturiol. Ond gwaeth na'r cwbl ydyw *ofergoledd* y trueiniaid; dwbiant a phardduant eu hunain yn y dull mwya'f ffol ac ysmala—eu llygaid â *khol*, eu hewinedd â *henna*, eu gruddiau âg *indigo*, a gwelsom ar eu breichiau a'u bronau odluniau adar a physgod yr Aipht. Nid yn aml y byddem yn cael y fraint o weled y gwynebau paentiedig hyn, o herwydd y gorchudd (*veil*), heb yr hwn nid yw gwraig byth i ymddangos o flaen y cyhoedd. Gwell yw cuddio y cwbl—yr holl berson i gyd; ond bydded a fyddo, rhaid cuddio y wyneb, a'r holl wyneb. Gwneir y *veil* yn gyffredin o lian du, sydd yn cael ei glymu am y talcen, yn cyrhaedd i lawr at y gliniau, ac yn gorchuddio yr holl wyneb oddigerth y llygaid. Fe fyddai eu llygaid yn y golwg, ac yn wincio arnom fel dwy seren oddirhwng y wahanlen. Dyna i'n darllenwyr ddesgrifiad byr a *phlain* o Aiphtes. Y mae hi yn dyfod i'r byd yma heb enaid, yn byw heb barch, yn marw heb grefydd; yu ei hymddangosiad, y mae hi yn *oddity* gwrthun ac annaturiol; mewn cymdeithas, y mae hi yn alltud ac yn estron fel Hagar; ac o ran ei sefyllfa, nid yw hi ond *private property* rhyw un y mae hi yn alw yn *wr*. Y mae hi yn byw "tu hwnt i'r wahanlen," gan ystelcian yn y dirgel, neu ynte ymlechu dan ei gorchudd; ac y mae hi ryw ddiwrnod yn ymlusgo i'r cut am y waith olaf, ac yna yn marw. Yn marw! na, gan ymgreinio ar ryw ddeiliach ar lawr, y mae hi yn *trengu* fel anifail; yn union wed'yn, y mae "rhyw anghelfydd law" yu crafu bedd iddi, ac ar ol taenu dyrnaid neu ddwy o dywod dros ei gweddillion noeth, dyna y cwbl drosodd.†

Cyfnod pwysig yn hanes yr Israeliaid oedd eu harosiad yn ngwlad Gosen, ac y mae ymosodiad cryf wedi bod gan anffyddwyr ar feithiau a dygwyddiadau y tymmor hwn. Un anhawsdra i wrthbrofi yr haeriadau hyn oedd diffyg profion *cydoesol*, fel sydd genym i brofi dilyrwydd y Testament Newydd; ond y mae yr anhawsder hwn, yn ddiweddar, wedi lleihâu yn fawr, ac nid ydym heb obeithio na bydd cyn hir wedi ei symud ymaith yn llwyr. Y mae Moses, yn ei adroddiad yn llyfr Genesis ac Exodus, yn cyflwyno i'n sylw restr o ddygwyddiadau; gosodir rhai o'r dygwyddiadau

* Son yr ydym yma am blant y Fellahs tlotaf. Gwel Lane's "*Manners and Customs of the Modern Egyptians*" ar hyn, Vol. I.

† The Egyptians have a superstitious objection to keep a corpse in the house over night after death, and to bury the dead after sunset." Gwel Lane's "*Manners and Customs of the Modern Egyptians*," Vol II. p. 287.

hyn o'n blaen gydag arbenigrwydd neillduol; dyma brif linellau neu brif neilldauon ei hanes. Ond y peth yr ydym yn galw sylw ein darllenwyr ato yn bresennol ydyw hyn—fod y cerfluniau Aiphtiaidd yn gwirio y rhan fwyaf o'r dygwyddiadau hyn i'r llythyren; a sylwer hefyd pa fodd y gwnant hyn: nid o friwad; ni seddylodd Pharaoh erioed am wneyd hyn, ond yn *berffaith ddamweiniol cân belled a bod gan ddyn law yn y mater*; ac y mae y prawf o gymaint a hyny yn fwy o werth. Y mae Moses yn cofnodi hefyd liaws o fân-ddygwyddiadau (*details*)—pethau dibwys ynddynt eu hunain, ac nad ydynt, gallem feddwl, yn dal un cysylltiad unioingyrchol â phrif-linellau yr hanes. Yn y dosbarth hwn yr ydys yn rhestru enwau personau, gwledydd, cyfeiriadau lleol, &c; ond eto, yr oedd eisien y pethau bychain hyn i wneyd yr oll yn unffurf ac yn gyson â'u gilydd. Yn wir, y mae hyn yn perthyn i bob cyfanwaith celfyddydol. Dyma sydd yn rhoi *effect* i bob cyfansoddiad, ac yn hyn y mae pob celfyddydwr yn fwy tueddol i gamsynied. Fe all twyllwr ffugio hanes fel ag i ymddangos oddiallan yn lled ddidwyll; fe all gyfeus ei ffeithiau, a'u cysoni â'u gilydd, fel ag i wneyd prif linellau ei hanes i ymddangos o bell yn lled olygus; ond wrth chwilio y *mân-gysylltiadau* y ceir allan y ffug a'r twyll. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, y mae llawer o *details* yn yr adroddiad manwl a geir ynghylch plant Israel yn yr Aipht; ac y maent, yn ddiweddar, wedi bod yn ddarostyngedig i'r ymchwiliad mwyaf difrifol, a'r ddysgediaeth fwyaf manol; y mae aneirif gerfluniau yr Aipht wedi eu chwilio a'u chwalu lawer gwaith drosodd; a'r canlyniad yw eu bod yn gwirio y rhan yma o'r Dadguddiad dwyfol, nid yn unig yn ei briflinellau, ond hefyd yn ei amrywïol fangysylltiadau, a hyny yn y fath fodd ag y mae pob dyn synwrol yn rhwym o gredu yn ddiysgog yn nifuantrwydd yr hanes, a diragrithrwydd yr hanesydd.

Darllener yn bwylllog y geiriau canlynol. Gen. xxxvii. 25, 28—36; "A hwy (brodyr Joseph) a ddyrchafasant eu llygaid, ac wele fintai o Ismaeliad yn dyfod o Gilead, yn myned i waered i'r Aipht, a'u camelod yn dwyn llysiâu, balm, a myrr; a hwy a werthasant Joseph i'r Ismaeliad am ugain darn o arian; hwythau a'i dygasant ef i'r Aipht, ac a'i gwerthasant ef i Putiphar, tywysog Pharaoh." Dyma olygfa gwir ddywreiniol—mintai o farsiantdwy'r o Gilead, tu hwnt i'r Iorrdonen, a rhes o gamelod yn llwythog o llysiâu, balm, a myrr, yn myned i'r farchnad i'r Aipht. Yn awr, gadewch i ni droi at y cerfluniau. Os da yr ydym yn cofio, nid oes un darlun cofarwyddol o'r camel ar gael, yr hyn sydd yn profi nad arferwyd y camel yn ngwlad yr Aipht gynt; ond yr oedd, "llysiâu, balm, a myrr"—hyny yw, *spices*, mewn cymeriad mawr yno, a darlunir hwynt, fel yn yr adroddiad uchod, bob amser, nid fel nwyddau cartrefol, ond fel cynnyrchion *gwlad Canaan—foreign commodities*. Defnyddid y pethau hyn gan yr Aiphtiaid i berarogli eu meirw; y mae potiau llawn o *spices* ar gael eto; yr ydys yn eu cael yn aml gyda'r *mummy* yn yr arch, ac hefyd yn rhyddion yn y beddrodau. Cawsom rai potiau ein hunain mewn bedd yn Thebes, a daethom â hwynt adref yn llawn o falm a myrr gwlad Canaan. Ond y mae y geiriau uchod yn rhoi ar ddeall i ni i'r Ismaeliad brynu Joseph, a'i werthu drachefn i "Putiphar, tywysog Pharaoh." Y mae amgylchiadau cyffelyb i hwn yn cael eu cofnodi yn fynych yn y cerfiadau, sef Aiphtiaid yn prynu caethion o wlad Canaan. Yn meddrod ISMAEL, tywysog o dan Suphis, un o adeiladwyr y pyramidiau, y mae darlun, lle y dangosir

caethion, yn wŷr ac yn wragedd, yn chwaraeu 'campiau o flaen y brenin, ac yr oedd y caethion hyn yn *Ganaaneaid*. Mewn bedd yn Beni Hassan hefyd, y mae cerfwaith ymha un y dangosir nifer o gaethion o *wlad Canaan* yn arfer gorchestion milwrol o flaen pendefig o'r enw *Chetri*. Gallen nodi enghreifftiau eraill; ond y mae hyn yn ddigon i ddangos fod prynu caethion o wlad Canaan yn arferiad go gyffredin yn yr Aipht. Dyma i ni, gan hynny, ffaith sydd yn esboniad ar ddygwyddiad pwysig yn hanes Joseph, ac yn gwneyd ei fynediad i'r Aipht yn hollol gyson a naturiol. Ymhen yspaid o amser ar ol hyn, taftwyd Joseph i garchar—"y lle yr oedd carcharorion y brenin yn rhwym." Dyma ffaith yn cael ei chrybwyll eto am Joseph, a ffaith hefyd ag y mae y cerfiadau yn ei hegluro a'i chadarnhau yn fyny. O herwydd ei fedrusrwydd fel deonglydd breuddwydion, y mae Pharaoh yn rhyddhau Joseph o'r carchar, yn ei godi i anrhydedd, ac yn rhoi *enw* arall arno; "A Pharaoh a alwodd Joseph Saphnath Paaneah." Addefa dysgedigion, yn gyffredinol, mai enwau Aiphtaidd yw y rhai hyn; ac y mae Osborne yn barnu fod "Saphnath" yn dyfod oddiwrth *Tseph Nath*, y cerfluniau; hynny yw, "*yr hwn a dderbynia Neith*." "Neith" oedd ddyfeisyddes (*inventrix*) y gelyfddyd o wehyddiaeth, a dawies doethineb; ac o ganlyniad, wrth roi yr enw "Saphnath" ar Joseph, y mae genym le cryf i feddwl fod Pharaoh yn ei urddo â theitl oedd yn hynod briodol i Joseph, i ddangos ei fedrusrwydd a'i ddoethineb fel deonglwr breuddwydion. Nid oes ammhueaeth ynghylch y gair "Paaneah;" y mae hwn wedi ei gerfio tu fewn i fedd yn Sacchara; a gelwid un o bendefigion yr Aipht wrth yr enw hwn oddeutu cant a hanner o flynyddoedd *cyn* amser Joseph; ei ffruf arwyddluniol yw *Pah Noech*. Ond sylwer ymhellach ar *getyr* y gair; ac mor hynod o briodol oedd yr enw i gymeriad Joseph; ei ystyr yw, "yr hwn sydd yn cilio oddiwrth odineb," a chredu yr ydym i Pharaoh roi yr enw hwn ar Joseph i ddangos purdeb a diragrithrwydd ei garitor, ac i ddangos ei fod yn berffaith lân oddiwrth y cyhuddiad digywilydd a ddygodd gwraig Putiphar yn ei erbyn.

Yn fuan ar ol yr amgylchiad sydd yn cael ei nodi uchod, y dechreuodd y saith mlynedd o lawnder; "a'r ddaear a gnydiodd dros saith mlynedd yr amlra yn ddyrneidiau." Gen. xli. 47. Gŵyr ein darllenwyr fod ffrwythlondeb yr Aipht yn dibynu ar orlifiadau y Nilus;* os metha y gorlifiad blynyddol, y canlyniad yw prinder, fel y gwelir "yn y saith mlynedd newyn;" "oblegid dyma ddwy flynedd o'r newyn o fewn y wlad, ac fe fydd pum mlynedd eto, y rhai a fydd heb nac â'r na medi." Gen. xlv. 6. Ac felly, ar y llaw arall, am y "saith mlynedd o amlra," y mae yn rhaid i ni briodoli y llawnder i ryw orlifiad digyffelyb o'r afon Nilus. Dyma ymlaen llaw, yw y casgliad teg, ac y mae yn amhosibl i ni roi un cyfrif arall o'r fath ddygwyddiad. Yr ydym yn awr yn troi at y cerfluniau. Oddeutu pymtheng mlynedd yn ol, yr oedd Lepsius yn yr Aipht; ac yn Samneh, ychydig oddiar Wady Kalfa (*second cataracts*), tynwyd ei sylw at graig yn codi yn syth o'r afon, ac ar y graig yr oedd argraff cerfluniol, yn nodi uchder gorlifiad y Nilus ar y trydedd flwyddyn ar hugain o deyrn-

* Yr achos o orlifiadau y Nilus yw y gwlawogydd yn Abyssinia. Bydd y gwlawogydd hyn yn dechreu tua mis Ebrill; a thua chanol Mehefin bydd y Nilus yn dechreu codi dros ei glanau, nes gorlifo yr holl ddyffryn hyd at odrea y myyddoedd. Ar ei dyohweliad, bydd yn gadael haen o laid gwrtoethiol ar hyd wyneb y dyffryn, a dyna yr amser y bydd yr Aiphtaid "yn bwrw eu bara ar wyneb y dyfroedd."

asiad Amun Timoeus. Yn awr, sylwer fod y gorlifiaid sydd yn cael ei gofnodi uchod yn ddeg troedfedd ar hugain yn uwch na'r un gorlifiaid fu yn ngwlad yr Aipht erioed; a sylwer ymbellach, nid oes dim yn erbyn, yn hytrach y mae llawer o ystyriaethau o blaid y dybiaeth, fod Joseph ac Amun Timoeus yn cydnesi—Joseph yn yr Aipht Isaf a'r Ganol, ac Anun Timoeus yn yr Aipht Uchaf a Nubia. Eto, ychydig flynyddoedd wedi hyn, yr oedd Syr Gardner Wilkinson yn yr Aipht, pryd y cafodd gyffe i wirio darganfyddiad Lepsius, ac hefyd i ddwyn profion ychwanegol o'r un darganfyddiad. Aeth Wilkinson ymbellach i'r dde na Lepsius, ac oddiar Samneh cafodd wastadedd eang, a sffurid yn ddiammheuol gan laid y Nilus, ryw bryd yn ystod ei gorlifiaid. Y mae yn anhawdd gwybod pa bryd y cymerodd y gorlifiaid hwn le, ond yr ydys yn sicr na bu y fath orlifiaid erioed o'r blaen yn ngwlad yr Aipht. Dyma amgylchiad anghyffredin; dyma brawf arwyddluniol yn gystal a daearegol o orlifiaid digyffelyb yr afon Nilus. Y mae rhyw Aiphtwr, bedair mil o flynyddoedd yn ol, yn cymeryd ei gyn yn ei law, ac yn cerfio y ffaith "yn y graig dros byth;" a dyma ninnau, yn ngoleuni y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ei darllen fel esboniad eglur, ac fel gwiriad anwrthwynebol, o un o'r amgylchiadau mwyaf hynol sydd yn cael ei gofnodi yn hanes Joseph.*

Fel y soniwyd eisoes, yn y carchar y mae Joseph yn enwogi ei hun fel ddeonglwr breuddwydion. Y mae y pen-trulliad yn breuddwydio, ac yn mynegu ei freuddwyd i Joseph; "yn fy mreuddwyd, wele winwydden o'm blaen, ac yn y winwydden yr oedd tair cainc, ac yr oedd hi megys yn blaendarddu; ei blodeuyn a dorasai allan, a'r grawnsypiau a ddyg rawnwin addfed." Gen. xl. 9, 10. Dyma y breuddwyd; nid oes a synom yn awr â'i ddeongliad; ond y mae anffyddwyr wedi gwneyd defnydd o'r cyfeiriad sydd yn y geiriau uchod at winwydd yr Aipht. Nid yw Herodotus, a Diodorus Siculus, yn eu gweithiau, yn gwneuthur un crybwylliad ynghylch y gwinwydd, er iddynt fod ill dau yn yr Aipht yn gwneyd ymchwiliadau manwl a lliosog; ac am hyny, y mae anffyddwyr wedi gwneyd yngais i gyhuddo Moses o dwyll, trwy haeru na fu y winwydden erioed yn tyfu ar lânau y Nilus, ac yn wir, nad oedd yr hinsawdd yn gymhwys i hyny. Ond diolch i'r cerfluniau, y maent wedi rhoi terfyn ar y ddadl am byth; y mae amryw feddrodau yn nghymydogeath y pyramidiau, ymba rai y darlunir i fanylrydd ddull tyfiant a diwylliad y winwydden, ynghyd a gwneuthuriad y gwin, a'r grawnsypiau, yr hyn sydd yn gwrthbrofi cyhuddiad yr anffyddwyr ar unwaith, ac yn rhoddi prawf arwyddluniol o ddiffuantrwydd yr hanes, a didwyllledd yr hanesydd. Yr ydym yn awr yn troi at flynyddoedd y prinder. Gen. xlvii. 13—17: "Ac nid oedd bara yn holl wlad yr

* Y mae yn sicr fod y darganfyddiad uchod yn taflu llawer o oleu ar yr amgylchiad a gofnodir yn Gen. xli. 4. Yr anhawdra sydd gyda'r *amsar*; a'r cwestiwn yw, pa fodd y daeth y Nilus i orlifo am saith mlynedd yn olynol, ac i beidio gorlifo drachefu am saith mlynedd yn olynol. Y mae Osborne yn priodoli hyn i rwygiad llyn yn nyffryn Darfur, yn Ethiopia. Y mae yn wir fod llyn yn Darfur, yr hwn, yn ol tyb yr hynafiaid, oedd tarddiad y Nilus, a gwyddom hefyd iddo dori dros ei geulanau nes gorlifo parthau helaeth o dir; ond fe allai y goddefir i ni ddywedyd nad ydym ni mewn un modd yn gweled fod hyn yn rhoi eglurhad ar y saith mlynedd, yn enwedig y saith mlynedd o *newyn*, hyd yn nod pe gallid profi fod yr amgylchiad uchod wedi cymeryd lle yn amser Joseph. Y mae hyn yn sicr, er nad oes genym un cyfrif i roi am hyny, fod y tymmorau weithiau yn rhedeg ar gylch (*cycles*) am flynyddoedd—tymhorau o sychder yn dilyn tymmorau o wlybanaeth, a hyny am rai blynyddoedd ar ol eu gilydd, ac fe allai fod rhywthob tebyg i hyn wedi cymeryd lle yn yr Aipht y pryd hwn. Ond lle y mae cymaint o ddingelwch, gwell yw bod yn ddystaw.

Aipht, canys y newyn oedd drwm iawn; a hwy (yr Aiphtiaid) a ddygasant eu hanifeiliaid at Joseph, a Joseph a roddes iddynt fara am y *meirch*, ac an y deadelloedd defaid," &c. Yn y rhestr uchod, fe sonir am *feirch* yr Aiphtiaid. Nid yw y ceffyl yn dda priodol (*indigenous*) i'r Aipht, ac felly, ni ddarlunir ef yn y cerfiadau cyn goresgyniad yr Hyksos.* Ond erbyn hyn (amser Joseph), yr oedd yr Hyksos wedi eu goresgyn, a'r wlad dan deyrnasiad brenin Aiphtiaidd, pan y darlunir *meirch* ac asynod yn y gwahanol gerfiadau, yr hyn sydd yn profi perffaith gydgoradiad y Bibl â'r arwyddluniau. Nid enwir y ceffyl yn rhestr yr anrhegion a dderbyniodd Abraham gan Pharaoh, a'r rheswm am hyny ydyw ei fod yn amser Abraham heb ei ddwyn i'r Aipht, ac felly ni ddarlunir ef yn ngerfiadau y tymmor hwnw. Ond dywedir iddo dderbyn "*camelod*." Gwel Gen. xii. 16. Ond pa sut felly? Ystyrid y camel yn *afsan* yn yr Aipht, ac nid oes gymaint ag un darlun cofarwyddol o hono mewn un man trwy yr holl wlad i gyd, ac eto dyma Abraham yn derbyn camelod gan Pharaoh yn anrheg. Ond y mae hyn yn berffaith gyson; yr Hyksos—y bugeiliaid breninol oedd yn teyrnasu yn yr Aipht yn amser Abraham; anifail bugeiliol oedd y camel, bugail oedd Abraham, a bugail oedd Pharaoh y cyfnod hwnw; naturiol gan hyny oedd fod ganddo gamelod yn ei feddiant, a rhesymol oedd iddo roi *camelod* yn anrheg i Abraham, fel y dywed y Bibl iddo wneyd.

Ymhén yspaid o amser ar ol marw Joseph, a'i holl frodyr, a'r holl genedlaeth hòno, y cyfododd brenin newydd yn yr Aipht, yr hwn ni adnabuasai mo Joseph; hyny yw, brenin o linach newydd, yr hwn nid oedd ganddo barch i goffadwriaeth Joseph. Y mae yn hawdd casglu oddiwrth y geiriau uchod, fod rhyw gyfnewidid mawr erbyn hyn wedi cymeryd lle yn ngwlad yr Aipht; ac felly y dywed y cerfuniauw wrthym. Oddeutu yr amser hwn y daeth Sesostris Fawr neu Ramsen Meiamum, o Thebes, (No Amun); a thrwy ryfelgyrch ofnadwy, efe a unodd holl wlad yr Aipht dan un gorou. Preswyliai Joseph yn On a Memphis yn yr Aipht Isaf; ond yr oedd Sesostris o Thebes, yn yr Aipht Uchaf; am hyny "ni adnabuasai mo Joseph," ac ni pharchai ei goffadwriaeth. Y Pharaoh hwn oedd gorthrymydd plant Israel. "A'r Aiphtiaid a wnaeth i blant Israel weithio yn galed mewn clai ac mewn priddfaen." Exod. i. 14. Yn un o feddrodau Thebes, y mae darlun sydd wedi tynu sylw cyffredinol yn Lloegr, Ewrop, ac America, a gellir ei ystyried yn esboniad amlwg ar y geiriau uchod. Perchenog y beddrod oedd Rochscere; ac y mae Lepsius yn barnu ei fod yn byw yn amser Sesostris Fawr, ac mai efe oedd arolygwr ei demlau. Yn y cerfuniad hwn, darlunir y gelfyddyd o briddfeinyddiaeth (*brick making*); yma y gwelir nifer o ddynion—rhai yn cario clai, eraill yn ei gymysgu â gwellt, eraill yn cymeryd y priddfeini o'r moldiau, ac eraill yn eu cario wedi eu gorphen ar eu hysgwyddau. Cytuna pawb yn y farn mai nid Aiphtiaid yw y rhai hyn. Pwy ydynt, ynte? Oddiwrth eu lliw, llun eu wynebau, ffurf eu barfau, &c., yr ydys yn lled sicr mai *Israeliaid* ydynt, a bod y cerfwaith i gyd yn ddarluniad gwirioneddol o lafur caled yr Israeliaid; ac felly, dyna i ni arddangosiad gweledig, a gwiriad sicr a diymwad, o ddilysrwydd y diffuantrwydd y Dadguddiad Dwyfol. "A hwy (yr Heb-

* Bu y rhan isaf o'r Aipht am rai canrifoedd dan lywodraeth llwyth o fugeiliaid—Hyksos. Dywed Manetho iddynt deyrnasu am 511 o flynyddoedd, ac yna i freninoedd cynwyl y wlad ymuno â'u gilydd, ac alltudio yr Hyksos o'u tiriogaeth.

rëaid) a adeiladasant i Pharaoh ddinasoedd trysorau—Pethon a Ramsea." Exod. i. 11. Gwnaed adeiladau y llywodraeth y pryd hwn yn yr Aipht, nid gan grefftwyr cyflogedig, ond gan gaethion a charcharorion rhyfel. Ymhlith y dosbarth isel a diystyredig hwn y dedfrydwyd plant Israel i lafurio, a diammheu i'w caledwaith blin barbâu yn ddiarbed drwy holl deyrnasiad y brenin Sesostris. O ganlyniad, y mae yn naturiol i ni gasglu, yn gymaint a bod gan un Pharaoh rai miloedd mwy o ddwyllaw at ei wasanaeth nag a fu gan neb o'i hynafiaid—y mae yn naturiol i ni gasglu yr ymddengys enw un Pharaoh ar demlau-yr Aipht gyda rhyw arbenigrwydd digyffelyb. Y mae y fath enw—y mae y fath Pharaoh; a'r Pharaoh hwnw yw Sesostris Fawr, "yr hwn ni adnabuasai mo Joseph." Fel prawf o hyn yr ydym yn dyfynu yr hyn a ganlyn. Dywed Osborne,—“Nifer breninoedd yr Aipht o Menes i Alexandria yw 160; ond y mae cofarwyddion Sesostris Fawr yn fwy lliosog na holl gofarwyddion y breninoedd eraill ynghyd, ac hefyd yn traragori arnynt o ran mawredd a gorwycheder eu gwneuthuriaid. Y mae naw o golofnau Aiphtiaidd yn Rhufain y dydd heddyw, a ddygwyd yno gan yr ymherawdwr o Hieropolis, a dinasoedd eraill y Delta; ond Sesostris oedd biau chwech o honynt. Y mae wyth o demlau yn Thebes eto; ond y mae saith o honynt ag yr oedd Sesostris naill ai wedi eu hadgyweirio mewn rhan, neu ynte wedi eu hadeiladu yn gwbl; mewn gair, y mae colofnau, delwau, geuflod, a themlau Sesostris, yn fwy o nifer na holl orchestion y breninoedd eraill i gyd ynghyd.” Ond y cwestiwn yw, Pa le y cafodd Sesostris ddigon o ddwyllaw i gyflawni y fath gampuswaith rhyfedd? Y mae Diodorus Siculus yn sicrhau i ni na chyfarfyddodd llaw Aiphtwr erioed â chymaint ag un o orchestion Sesostris; a dywed wrthym iddo gael yr hysbysiad gan yr offeiriaid Aiphtiaidd eu hunain; a mwy na'r cwbl, y mae yn argraffedig ar y rhan fwyaf o demlau Sesostris yn yr Aipht hyd y dydd hwn,—“Y ma ni lafuriodd un Aiphtwr.” Ond y cwestiwn yw, O ba le y cafodd y brenin ddigon o ddynion i fyned trwy y fath lafurwaith caled? Gadewch i Moses ateb—“A'r Aiphtiaid a wnaethant eu heinioes hwynt yn chwerw trwy wasanaeth caled mewn clai, ac mewn priddfeini, ac ymhob gwasanaeth yn y maes; a'u holl wasanaeth a wnaethant iddynt wasanaethu ynddo oedd galed.” Exodus i. 14. Dyma i ni eto gydgordiad rhyfedd rhwng y cerfluniau Aiphtiaidd ac ysgrifeniadau Moses. Nid ydym yn ammheu llawer na fuom yn edrych â'n llygaid ar aml golofn ac aml linell a naddwyd ac a dorwyd gan rai o blant Israel dair mil a hanner o flynyddoedd yn ol; ac y mae y linellau a'r colofnau hyny yn aros hyd y dydd hwn yn dystion tragwyddol o'u caethiwed, yn gystal ag o wirionedd yr hanes sydd yn ei gofnodi.

Ymhén oddeutu pum niwrnod ar hugain ar ol gadael Cairo, yr oeddym yn Assouan,—“Seyne” yr ysgrhythrau,—wedi teithio ar hyd yr afon dros bum can' milldir, ac wedi tramwy trwy holl wlad yr Aipht, o'r môr hyd yn nherfyn Ethiopia. Ar ol gadael Assouan, troisom ein gwynebau tua Cairo; ymaith â ni heibio i Hadyr Silseli, Quoum Ombos a themlau Esneh ac Edfou. Ymhén tridiau, yr oeddym yn Thebes,—“No” y prophwydolisethau—y lle mwyaf hynod, fe allai, yn y byd i gyd. Y mae llawer o gyfrolau maith a dysgedig wedi eu hysgrifenu ar ryfeddodau Thebes, a gallem feddwl mai rhyw benboethni barddonol a barodd i ddyinion ganmawl cymaint ar y lle enwog hwn; ond y gwirionedd yw, y mae gwneyd cyfiawnder â'r anfarwol Thebes yn beth amhosibl. Thebes oedd

y ddinas henaf a mwyaſ poblog yn holl wlad yr Aipht; bernir ei bod yn ugain milldir o gylch, ac yn cyrhaedd o bob tu i'r afon o fynyddoedd Affrica at fynyddoedd Arabia. Ond nid yw ei "lle yn ei hadnabod hi myn;" a'r cwbl sydd yn aros o honi y dydd hwn yw ei themlau godidog. Yma y mae Carnac a Luxor, Memnonium a Medinet Abou; yma y mae temlau heirdd a phalasaſu gwyh; o'u mewn y mae pinaclau uchel, colofnau cedyrn, a llysoedd äang; ac yn eu cysgod y bu breninoedd ac arglwyddi unwaith yn addoli. O holl demlau Thebes, yr ardderchocaf yw Carnac; y mae yn wir ei bod hi yn garnedd o adfeillion, ond mae rhyw anfarwoldeb yn ei dinystr; y mae ei chynteddau yn balasaſu o farmor, a'i physt fel y cedrwydd tragwyddol. Ond prif ryfeddod Carnac yw y "*grand colonnade*" sydd yn nghanol y deml. Yn y cyntedd hwn y mae deuddeg rhes o golofnau, deg colofn ymhob rhes, a phob un o honynt o faintioli anamgyffredadwy, ac wedi eu naddu, eu cerſio, a'u caboli yn y modd mwyaſ cywraïn ac ardderchog. Y gwirionedd yw, nid oes nac iaith nac ymadrodd a all ddesgrifo yr olygfa hon; ein teinlad yma oedd, ein bod yn sefyll yn nghanol fflorest o golofnau o waith rhyw gewri ofnadwy, na byddem ni ond corachod truenus yn eu hymyl. Nid oedd dim anadlu i gael fan yma; byddem rai prydiau bron arswydo yn ngwydd y fath bresennoldeb—bron colli arnom ein hunain yn ngwyneb mawredd fyddai yn ein gorlethu ni hyd y llawr. Da yr ydym yn cofio eto y pryduawn teg hyn y gadawsom Carnac am y tro olaf am byth; llawer gwaith y darfa i ni droi pen y mul yn ol, ac edrych drach ein cefn i gael un drem yn rhagor ar ei hen adfeillion; a byddem yn gofyn—Pa le yn awr y mae y miloedd fu unwaith yn addoli far. hyn? Pa le yn awr y mae y dwylaw fu yn gweithio y ceryg ac yn naddu y colofnau yma? Dyma eu gorchestwaith yn aros; ond pa le y maent hwy? carem wybod rhywbeth am danynt hwy; pwy oeddynt? beth oedd eu henwau? Ond nid oedd neb yn ateb. Yn wir, druan o ddyn! wedi y cwbl; nis gallwn lai na thosturio wrtho yn nghanol ei holl fawredd i gyd; dyma waith ei fysedd yn para, ond diu hanes am dano fe—y *dyn*; y dyn wedi myned ar goll am byth! Fel hyn y mae yn ngwlad yr Aipht; y mae llawer hen Aiphtwr wedi codi colofn sydd wedi goroesi ei goffadwriaeth ei hun er ys llawer dydd; ac yn awr dyma ninnau yn croesi y moroedd, ac yn dyfod o hyd iddi; yr ydym yn dringo i'w phen hi, ac yn *craſu* ein henwau ein hunain arni—ar golofn a fwriedid i anfarwoli enwau pobl eraill.

Ond cyn gadael Thebes, dere gyda ni, ddarllenwydd, i fedd Pharaoh. Yr ydym yn awr yn croesi yr afon i'r ochr orllewinol. Ar ol myned trosodd yr ydym yn llogi mul, ac yn myned ar ei gefn; yna y mae'r *donkey-boy* gyda'i bastwn yn gyru'r mul ac yn ein harwain ninnau ar hyd ryw gwam unig anial, a elwir yn Arabic, Biban Melook. Yma y mae beddrodau anrheithiedig hen freninoedd yr Aipht. Ond cyn myned at y bedd, y mae genym air i'w ddyweyd ynghylch y gelfyddyd o berarogli. Clywsom atŷ un awdwr yn priodoli yr arferiad ryfedd hon i ofal yr Aiphtiaid am eu hiechyd. Ond fe ŵyr pawb sydd yn gwybod dim am grefydd henafol yr Aipht, nad yw hyn ond camsyniad hollol. Credu yr ydym ni fod ganddynt reswm annhraethol uwch na hyn dros yr arferiad, ac iddi wreiddio yn eu *crefydd*, neu yn hytrach yn eu syniad am anfarwoldeb. Yr oedd yr Aiphtiaid yn credu, nid yn unig fod yr enaid, ond fod y *corff* hefyd, yn anfarwol; bod pob enaid ar ol dychwelyd o'i wahanol drawssymudiadau

(*transmigrations*), i breswyllo yn ei gorff priodol ei hun; o ganlyniad, yr oedd eisieu corff anllygredig yn gystal ag enaid anfarwol; a'r llwybr a ddefnyddid i gyrrhaedd yr amcan hwn oedd *perarogli* y corff, a thrwy hyn y wneyd yn gymhwys i fod yn gartref i'r enaid i breswyllo ynddo byth. Y meddygon fyddent yn perarogli yn yr Aipht; i ddechreu, tyment yr ymysgaroedd allan, yna golchent y corff o fewn â gwin, ac oddiallan â dŵr; ar ol ei lenwi â *spices*—myrr a chassia, gwniid y corff i fyny, a chedwid ef am fis neu ragor mewn gwlybwr cryf; ac yna, ar ol ei ddilladu mewn lliciniau, yr oedd yn gymhwys i fyned i'r arch, yn gorff peraidd ac anllygredig. Yr oedd gan yr hen Aiphtiaid barch sanctaidd i'w perthynasau perarogledig. Yn lle eu claddu o'r golwg yn ddioed, arferent eu cadw yn eu tai am flynyddoedd, ac weithiau am rai cannoedd o flynyddoedd. Byddent yn crogi yr arch yn yr ystafell oreu yn y tŷ; ar y canad, byddai darlun wedi ei gerfio neu ei baentio o'r ymadawedig. Byddai hyn, ynghyd a'r perarogl hyfrydol a ddenai oddiwrth y *mummy*, yn peri iddynt feddwl am dano, ac yn eu galluogi i gymdeithasu âg ef, ac yn gwneyd ei goffadwriaeth yn beraidd, ac yn fendigedig ymhob ystyr. Fel hyn yn gymhwys y gwnaed i Joseph: "A hwy a'i peraroglasant ef, ac efe a osodwyd mewn arch yn yr Aipht." Ar ol y perarogliad, symudwyd y *mummy* i dŷ Ephraim, cyntafanedig Joseph. Dacw yr arch wedi ei rhoi yn ei *niche*; dacw ddarlun y patriarch ar y canad wedi ei dynu gan yr *artist* goreu yn yr holl wlad, ac mor debyg ydyw *Joseph*, fel y mae plant bach Ephraim yn ei adwaen fel pictiwr eu taid.

Ond ar y ffordd yr ydym i fedd Pharaoh; a dyma ni yn awr yn y cwm hyn, ac yn araf duthian rhwng creigiau erchyll, ac ar hyd y llwybr cul ag y byddai y cynhebrwng yn myned rhagddo gynt tua'r beddrod. Yr ydym yn awr, ddarllenydd, "yn rhodio glyn cysgod angen," ac y mae iasau oerllyd yn cerdded trwy bob cymal o honom wrth feddwl ein bod ni erioed wedi bod yn y fath le. Os oes ysbrydion ac ellyllon yn bod, dyma y fan am danynt—dyma lle ceir hwynt yn llechu tu cefn i fedd ryw hen Pharaoh. Ond, aroschw! beth yw y twll acw fan draw? Gallen feddwl mai ogof rhyw hen ysbryd ydyw; dyna, ddarllenydd, fedd Pharaoh. Gadewch i Hassan oleuo y lanternau, ac yna ni a awn i fewn. Hawyr anwyl! y mae yr ogof erbyn hyn yn ymddangos fel *railway tunnel* wedi ei thori a'i thyllu o berfeddion y creigiau, wedi ei naddu a'i cherfio yn y dull mwyaf cywrain; ac y mae pob llun ac ystum ar yr ochrau caboledig yn edrych mor *fresh* a naturiol ag y buont erioed. Pharaoh ei hun a welir fynychaf ymysg y cerfuniau. Ambell waith y mae y creädur yn eistedd rhwng dau dduw, sydd yn ysgrifenu ei enw ar ddail pren y bywyd; bryd arall y mae fel penrhyfelwr yn arwain ei fyddinoedd i'r frwydr, neu yn dychwelyd adref yn ei gerbyd buddugol, a'r carcharorion yn rhwym wrth yr olwynion; ar un llaw, y mae y meddygon yn perarogli ei gorff; ar y llaw arall y mae yr offeiriaid yn gweinyddu yn ei angladd, a'r galarwyr yn wylo wrth ei fedd. Y mae y rhodfa uchod oddeutu ugain llath o hyd; yn y pendraw iddo y mae grisiau, ac yr ydym yn myned i lawr yn raddol â chanwyll yn ein llaw i rodfa neu *bassage* arall; y mae hwn eto wedi ei dori allan o berfeddion y creigiau, ac yn llawn o gerfiadau fel y llall. Y maent i'w gweled ar y muriau—yn hau ac yn medi, yn planu ac yn adeiladu; y mae rhai yn gwledda ac yn dawnsio; y mae y lleill yn canu y delyn a'r nabl; y fan yma y maent yn twymno y fiwrn ac yn crasu y bara; fan acw y maent yn eistedd

wrth y bwrdd ac yn yfed gwin : mewn gair, y mae holl hanes a helynt yr Aipht wedi ei gerfio yn y beddrodau hyn "â phin o haiarn ac â phlwm yn y graig dros byth." Yr ydym yn awr yn yr ail *bassage*; y mae grisiau ymhen draw hwn hefyd, a rhaid i ni fyned i lawr ar hyd iddo, trwy y tywyllwch dudew, i neuadd sawr oddeutu ugain troedfedd ysgwâr. Cymmer di galon yn awr, ddarllenydd; dyma ni o'r diwedd yn y bedd, ac yn ymyl y Sarcophagus—y coffr cared—ymha un y dodwyd *mummy* Pharaoh. Yr oedd y Sarcophagus yma yn bedair llath o hyd, yn dair llath o uchder, ac yn ddwy lath o led; yr oedd hefyd yn un darn cyfan cryno o wenithfaen, ac yn pwysu oddeutu wyth can' tunell o bwysau; a mwy na'r cwbl, fe ddygywyd y darn anferth ddau can' milldir o ffordd, dros y Nilus, ar hyd y cwm hwnw y buom yn son am dano, a thrwy y *passages* i lawr y grisiau, ac i'r bedd i dderbyn corff Pharaoh.* Byddai breninoedd yr Aipht yn llunio eu beddau yn ystod eu bywyd; felly hwn; dyma oedd pwnc mawr ei oes. Llawer gwaith yn ddiammheu y bu yn taro i'r cwm i weled sut yr oedd y bedd yn myned ymlaen, a mawr oedd ei lawenydd pan y dealodd fod y fath Sarcophagus ardderchog i dderbyn ei gorff perarogledig. Meddyliodd yn sicr y cawsai lechu yn ei feddrod tanddaearol hyd byth; a diammheu y buasai yn cael yr anrhydedd hwn oni bae fod gair Duw yn dyweyd yn groes i hyny. Y gwirionedd yw, y mae Pharaoh wedi adgyfodi o'i fedd cyn ei amser i esbonio y Bibl; ydyw! llusgwyd ei hen gorffyn perarogledig o berfeddion y ddaear, a dyma fo yn awr yn cael ei arddangos ar drostan o flaen y byd, a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn estyn bys ato, fel prawf sicr—fel tyst fyddlawn o eirwiredd llyfr Duw! "A holl freninoedd y cenedloedd a orweddasant bob un yn ei dŷ ei hun; ond yn awr ti a'th fwrir allan o'th fedd megys cangen ffaidd." *Esaiah* xiv. 18, 19.

Yr ydym yn awr yn gadael yr Aipht, fe allai am byth. Ffarwel i chwi hen demlau, ac i chwithau binaclau a phyramidiau tragwyddol. Trwm yw darllen tyngned yr Aipht yn ngoleuni prudd ei hen adfeilion. Fe fu yn wlad enwog; yn brif farchnadfa y Dwyrain, ac yn sammaeth dysgeidiaeth y byd. Gallasai yr Aipht ddyweyd—Cyn bod Groeg, cyn bod Rhufain, yr oeddwn i. Yr oedd yr Aipht wedi tyfu i fyny i'w chyflawn nerth pan oedd ymherodraethau eraill yn gorwedd yn eu cregyn, ac yn llechu yn eu plisg. Ond syrthiodd ei choron, ciliodd ei theyrnwialen; y mae y gogoniant wedi ymadael, ac y mae Ichabod yn ysgrifenedig ar ei holl adfeilion i gyd. Y mae ei themlau hi yn garnedd, a'i phalasau yn anrhaith; y mae newyddion ei dinystr wedi llenwi cyfrolau o lyfrau, ac wedi eu hysgrifenu yn mhrif dafodieithoedd y byd; y mae llwch ei hadfeilion wedi dianc ar yr awelon led-led y ddaear, ac y mae esgyrn ei meirw wedi codi o'u beddau i brofi ei dinystr, ac i ddadgan ei gwarth. O Gymru! yr ydym yn dyweyd hyn o galon, O Gymru! na ddisgyned melldith yr Aipht byth ar dy fryniau hawddgar di!

Yr ydym yn gwybod fod yr erthygl hon eisoes yn llawer rhyfaith; ond

* Y mae llawer o'r beddrodau hyn yn Wady Biban Melook; y maent i gyd wedi eu hanrheithio; y rhan fwyaf o honynt er amser y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Y mae amryw o honynt wedi eu cau i fyny a thywod. Cawsom gryn drafferth i weithio ein ffordd fel pryfyn i'r rhai hyn. Cawsom un o honynt yn ymguddfa ystumod; mewn un arall cawsom weddillion corff marw, a daethom a'r penglog i ffordd gyda ni. Fe allai mai penglog Pharaoh ydoedd. Y mae yn debyg mai at y beddrodau hyn y cyfeiria Job, pen. iii. 14—Gyda breninoedd y ddaear, pa rai a adeilasant iddynt eu hunain fanau anghyfanedd." Gwel hefyd Job xv. 23.

yr ydym yn anfoddlawn i adael ein darllenydd yn "nhŷ y caethiwed;" y mae arnom, gan hyny, chwant ei arwain i wlad Canaan. Yn Alexandria, cawsom long yn myned i Joppa; ac ymhen dau ddiwrnod a banner cawsom ninnau lanió yno, a dianc rhag yr ystormydd a'r morflod i gyd. "Dinas ar fryn" ydyw Joppa, "yr hon ni ellir ei chuddio," yn sefyll ar graig sydd yn codi yn syth o'r môr.

Arabiaid gan mwyaf yw trigolion presennol gwlad Canaan—hiliogaeth Ismael o ran eu cenedl, a dilynwy'r Mahomet o ran eu crefydd. Y mae dau fath o Arabiaid; y Fellahs, neu *Arabs* y dref; a'r Bedouins, neu *Arabs* y wlad; a hwy yw y gwir *Arabs*, yn ystyr briodol y gair. Arabiaid dirywiedig yw y Fellahs, wedi troi allan o'r anialwch, wedi colli eu cymeriad nomadaidd, ac wedi ymsefydlu yn y trefydd a'r pentrefydd. Y maent yn bobl wár a diniwed, ac yn byw yn y cyffredin fel dynion eraill. Bugeiliaid ar grwydr ydyw y *Bedouin Arabs*, yn trigo mewn pebyll,* ac yn byw ar laeth eu praidd. Carchar i'r bobl hyn fyddai tref; y mae yn rhaid iddynt hwy gael gweled y byd o'u blaen. Y maent yn byw yn heidiau gwylltion—yn wibiaid direol, yma a thraw; y maent heb gartref, ac eto y maent *gartref* dan yr awyr lás, gyda'r defaid a'r geifr, yn ystlysau y creigiau, ac yn mherfeddion y mynyddoedd, yn gwylied y praidd ac yn darllen y ser.

Y mae llawer o debygolrwydd rhwng y bobl hyn a'r hen batriarchiaid, ac yr ydym wedi cael plieser mawr yn olrhain y tebygrwydd yma. Fel y sylwyd, y mae y Bedouins yn byw yn heidiau ar y mynyddoedd, ac y mae pob haid yn gwneyd llwyth, ac ar bob llwyth y mae pen (*shiek*). Fel hyn yr ydoedd yn Israel gynt; yr oedd gan bob llwyth ei ben, neu ei *shiek*; a'r *shieks* hyn i gyd ynghyd oedd "henuriaid neu dywysogion Israel." Y mae yn perthyn i bob llwyth ymhlith y *Bedouin Arabs* gynifer o dylwythau (*clans*), a phen neu *shiek* ar bob tylwyth; rhai felly oedd Abraham, Isaac, a Jacob—penau teuluoedd oeddynt. Y mae gan bob *shiek* ymhlith y *Bedouin Arabs* ei bastwn; ac y mae y pastwn yn ffon bugail, ac hefyd yn deyrnwialen, i gadw trefn ar y plant yn y babell, ac ar y praidd yn y gorlan. Felly Jacob; yr oedd ganddo yntau ei bastwn, neu ei "ffon;" cymerai ei bastwn gydag ef i bob man; fe aeth â'i bastwn gydag ef dros yr Iorrdonen i Padan Haran, a myn rhai iddo farw a'i bwys ar ben ei ffon. Y mae yr Arabiaid yn ddynion cryfion, celyd; yn lle myned i'w pebyll, cysgant yn eu "sachliain o flew camel" ar y ddaear, heb ddim ond y nesoedd fawr yn gronglwyd uwch eu penau. Y mae ein meddwl ni eto yn rhedeg at Jacob ar ei ffordd i Padan Haran; y mae yn awr yn ffoi rhag ei frawd Esau; nid yw, gan hyny, yn myned â dim gydag ef ond ei walet a'i ffon; ac ar ei daith y mae yn dyfod i Bethel, ac yn bwriadu aros yno dros nos. Dacw fe yn gorwedd ar y ddaear; a chan droi a throsi yn ei glogyn o flew camel, y mae Jacob yn cysgu, ac y mae angylion yn ei wylid. Bugeiliaid ar grwydr yw yr Arabiaid; hyny yw, pan y darfyddo y boria mewn un man, symudant i fan arall; ni wyddant ar y pryd i ba le, ond änt ymlaen ar eu cyfer, gan obeithio cael porfa yn

* Dylid cofio mai trwy ymddirwyad y daeth y dull hwn o fyw i arferiad. Fe wnawd tŷ annedd ymhell cyn gwneyd pabell; yr oedd dynion wedi ymsefydlu mewn trefydd a phentrefydd ymhell cyn iddynt fyned i grwydro ar hyd y byd; fe adeiladodd Cain "ädinas" gannoedd o flynyddoedd cyn i Abraham wneyd pebyll. Y mae hyn o gryn bwys yn awr, yn gymaint a'i fod yn rhoddi pen ar unwaith ar haeriaid yr anfyddwyr—mai *savage* oedd dyn yn ei grëadigaeth; na, nid cael ei *wneyd* yn anwar, ond *myned* yn anwar a wnaeth dyn trwy ymddirwyad.

rhywle cyn yr hwyr. Felly yr hen batriarchiaid. Y mae yn wir y byddent hwy yn symud yn aml dan arweiniad Duw, ond byddent hefyd yn rhyw wibgrwydro fel y *Bedouin Arabs*. Felly y darfu Abraham a'i fintai ar ol gadael Bethel; ffwrdd â nhw fel haid o sipsiwn. Yn y man y maent yn pasio hen lechwedd mynydd Moriah; fe allai na ddarfu Abraham ddim sylwi arno; ychydig oedd y patriarch yn ei feddwl ar y pryd y byddai Isaac ac yntau yn myned i ben hwna ryw bryd; ond y maent yn myned yn eu blaen wysg eu penau yn un rhibyn, ac ymha le y darfu iddynt aros ond yn ngwastadedd Mamre. Yno y mae Abraham yn gweled rhyw goeden, ac yn dyweyd, Dacw le braf i godi y babell; yna y mae Eleazer y *dragoman* yn lledu y babell dan y dderwen. Y mae y *shieks* ar eu taith yn dwyn eu gwragedd ar gamelod, hyny yw, yn eu rhoi i *eistedd* ar gefn y camel mewn math o gader; dyma yw "offer y camel." Gwel Genesis xxxi. 34. Ac fel hyn yn gymhwys y daeth Rebecca o Padan Haran gynt; ar ol rhoi y llances yn "offer y camel," y mae Eleazer yn myned at ei ben, ac yn tywys y creador o'i ol, tra y mae hithau yn eistedd yn ei chader ar ei gefn. Y mae yr Arabiaid hefyd yn hynod am eu llettygarwch; y mae hyn yn rhan fawr o'u crefydd; a thelir cymaint o sylw i'r ddyledswydd, fel mai y *shiek*, neu y penteulu, fydd yn gweini ar y *guests*; a thra y byddant hwy yn gwledda yn eu heistedd ar lawr, fe fydd y *shiek* yn ei sefyll yn gweini arnynt. Nis gallwn lai na chofio am yr hen Abraham eto yn ngwastadedd Mamre; y mae rhyw ddyeithriaid yn dyfod at ei babell, ac y mae yntau, fel y bydd yr Arabiaid eto, yn ymgrymu tua'r ddaear, ac yn dyweyd, "Eisteddwch i lawr i fwyta." Wel, Sarah sydd yn gwneyd y deisen, y llanc sydd yn parotïo y llo pasgedig, ond Abraham ydyw'r *waiter*; Abraham sydd yn cario'r bwyd, ac yn hulario'r bwrdd o dan y dderwen; Abraham sydd yn weithio ar y tri angel. Yn wir, wrth deithio'r wlad, gallem feddwl ein bod wedi myned yn ol ar unwaith i ddyddiau yr hen batriarchiaid. Weithiau byddem yn gweled hen ŵr penwyn yn eistedd wrth ddrws ei babell, yn ngwres y dydd, a'r geifr yn chwareu o gwmpas ei draed; ac wrth edrych arno, temtid ni i weiddi, Dacw Abraham yn ddigon siŵr! Bryd arall, gwelem ryw un mewn "sachliain o flew camel," a phastwn yn ei law, a byddem yn barod i ofyn, Ai nid Jacob ydyw hwna? Byddem, fel hyn, yn byw yn eu canol, ac yn eu gweled a'n llygaid bob dydd—yn gweled y "llancesau yn llenwi'r cafnau," a'r bugeiliaid yn gwylio y defaid a'r geifr; bob dydd byddem yn gweled ryw Rebecca yn "porthi praidd ei thad," a byddai Rahel hefyd yn "dyfod allan a'i hystên ar ei hysgwydd, ac yn myned i lawr i'r ffynnon i dynu dwfr." Byddem hefyd yn byw yr un fath â hwy ein hunain; yn trigo mewn lloestai fel hwythau, yn cysgu dan yr un ser a hwythau, ac yn sangu ar yr un llwybrau a hwythau. Byddai genym ein gweision a'n hasynod hefyd fel hwythau; byddai rhyw Eleazer yn *dragoman* i ni; codai hwnw y *tent* i ni; a byddem ninnau, fel Abraham ei hun, yn eistedd wrth ddrws ein pabell, yn ngwres y dydd, yn ben ac yn *shiek* ar y fintai i gyd.

Ond yr ydym yn awr yn myned i gychwyn o Joppa i Jerusalem, taith dau ddiwrnod. Y mae y *dragoman* yn barod, ac wedi llogi pedwar o ddynion, tri o fulod, dau geffyl, ac un asyn, i fyned â ni yn ddiogel i ben ein taith. Ond cyn cychwyn, dewch i ni edrych ar y mulod oedd yn cario ein *baggage*; y mae y ddau flaenaf yn fyrddau, cadeiriau, gwelyau, gwellt, sofr, polion, hen ddillad,—ofer yw i ni dreio myned trwy y rhestr i gyd; y mae

pob un o honynt wedi ei orlwytho hyd y llawr; prin y gallant sythu i fyny; y mae eu cymalau yn gwegian dan eu beichiau; ac nid oes dim o'r crëadur yn y golwg ond ei ben a'i glustiau, gan y cruglwyth arswydol sydd ar eu cefnau. Ond y mae genym bob parch i'r tri, a chawsom hwynt yn ddefnyddiol a gwasanaethgar mewn llawer modd. Dyma ni yn awr yn myned i gychwyn. Ymlaen y mae y *dragoman*, a ninnau ar geffylau. Tu ol i ni y mae y mulod a'r *baggage*, ac yn olaf oll, ar asyn y mae y *cook* un llygad yn dwyn y *rear*. Yr ydym yn myned yn un rhibyn trwy ddyffryn Saron, yn rhygnu ymlaen trwy y blodau a'r briallu yn lluo o grwydriaid. Erbyn pedwar o'r gloch yn y prydawn, yr oeddym yn Arimathea—dinas Joseph, lle y buom yn aros dros nos. Y mae yr Arabiaid yn awr yn myned i hela brigau i wneyd tân; y mae y côg yn berwi y bwyd, ac y mae y *dragoman* yn codi y babell. I'n darllenwyr ddeall, y *tent* ydyw rhyw *umbrella* mawr; yn y canol y mae polyn—coes yr *umbrella*, ac y mae hwnw wedi ei sadio yn y ddaear. Oddeutu wyth o'r gloch yn y prydawn—dyna yw yr arferiad cyffredin yn y dwyrain—aethom i'n pabell i gysgu. Ar ol gorchymyn ein hunain i ofal "Ceidwad Israel, yr Hwn ni huno ac ni chwsg" yn dragywydd, yr ydym yn gorwedd â'n pen ar y glaswellt i gysgu. Yn eistedd ar lawr, yn gylch o gwmpas y *tent*, a phob un â gwn a chleddyf yn ei law, y mae yr Arabiaid yn cadw *watch* i ni. Oddiarnom, dacw yr awyr a'r ser, ac O! erioed o'r blaen ni welsom y fath ser. Edrychent i lawr arnom fel myrdd o lygaid, ie llygaid anglyion, a'r rhai hyny yn cau ac yn agor eu hamrantau mawrion, fel oddiar drothwy y nefoedd. Mewn gair, y mae myrdd o leisiau, a myrdd o lygaid, yn ein sio ac yn ein swyno i gysgu yn dawel. Ond drannoeth ddaeth—diwrnod mawr ein hoes, o herwydd ar hwn yr oedd ein "traed i sefyll o fewn dy byrth di, O Jerusalem!" Codasom yn bur fore; erbyn pedwar o'r gloch, yr oedd y mulod yn barod i gychwyn, ac ymaith â ni trwy randir Judah, dros fynyddoedd a thrwy geunentydd fu unwaith yn frithion o olew-wydd. Oddeutu canol dydd, tra yn gorphwys wrth ffynnon, darfu i ni gwrdd Dr. Gobat, esgob Jerusalem, ar ei ffordd i Joppa; dyn da a duwiol yw hwn; gwyn fyd na' bae rhai o'n hesgobion trefedigol (*colonial*) yn fwy tebyg iddo. Oddeutu tri o'r gloch yn y prydawn, yr oeddym yn nghanol y mynyddoedd sydd o "amgylch Jerusalem;" a byddem yn awr yn cadw ein golwg ar ryw gopa a fyddem yn ei weled draw yn mlaenau y mynyddoedd, gan obeithio, erbyn cyrhaedd y fan hōno, y byddai Jerusalem yn y golwg; ond siomwyd ni amryw weithiau. Yr oedd ein hawydd i weled "dinas y y Brenin Mawr" erbyn hyn yn angerddol, ac aethom ymlaen yn gynt na'r Arabiaid i gael tremio arni am y waith gyntaf mewn unigrwydd a dystawrwydd. Ac erbyn dringo i ben rhyw glogwyn, dacw hi! ac meddem wrth ein harweinydd, "*Stop, dragoman!*" Nid oedd modd symud cam ymbell-ach, heb wyllo deigrin uwch ben Jerusalem. Y mae llawer o ddesgrifio wedi bod arni; y mae rhai teithwyr yn rhoi *idea* rhy fawreddog i ni o honi; tra y mae eraill yn ei gwneyd yn llai golygus nag yw. Ond fel hyn y dywed y prophwyd Jeremiah am dani—"Fel y mae y ddinas aml ei phobl yn eistedd ei hunan, yn weddw unig ac yn ffin arni." Dyma hi yn gymhwys—"eistedd ei hunan y mae." Fe fu y palmwydd a'r olewydd yn gwarchod o'i deutu, ond yn awr "unig ac amddifad" yw yn nghanol carn-eddi o adfeilion. Ond gadewch i ni symud ymlaen. Ar ein llaw ddê y mae Gibou, "y llyn uchaf;" yma yr eneinwyd Solomon yn frenin, ac yn

y pant yna gerllaw y safai y bobl pan oeddynt yn gwaeddi, "Byw fyddo y brenin." O'n blaen y mae Mynydd Sion, ond y mae y naill hanner o hono yn awr tu allan i'r muriau, ac ar ei ben y mae cnwd o wenith yn plygu o flaen y gwynt. Fe dynodd rhyw Arab ei aradr dros "ddinas Dafydd" i gyflawni geiriau y prophwyd, "Sion a erddir fel maes." Yr ydym yn awr yn ymyl y ddinas; gadewch i ni fyned i mewn; y mae y tai yn ffiائد i'w gwaled, a'r heolydd yn ffiائد i'w cerdded, ac y mae ei deunaw mil pobl yn ymsuddo mewn trueni a thlodi o'r fath waethaf.

Y mae yn anhawdd mewn ysgrifen rhoi syniad cywir o *ffurf* unrhyw wlad; ond rhaid treio. Y mae dau beth yn cyfansoddi nodweddiad daearyddol pob gwlad—ei mynyddoedd a'i dyffrynoedd; ac felly am wlad Canaan. Llain o dir ydyw gwlad Canaan, oddeutu dau can' milldir o hyd; yn y canol y mae rhes o fynyddoedd, fel ryw ganolfur, neu asgwrn cefu mawr, yn rhedeg trwyddi o'r naill ben i'r llall. Bob ochr i'r rhes hona, y mae dyffryn—dyffryn Saron ar un llaw, a dyffryn yr Iorrdonen ar y llaw arall. Ond gadewch i ni fyned dros hyn eto; a thybiwch ein bod yn sefyll ar ben Mynydd yr Olewydd, ac yn edrych yn syth i'r gogledd. Tu ol i ni y mae mynyddoedd Philistia ac Edom, lle bu Simeon yn casglu grawnwin yn nyffryn Eschol, a Judah yn trin "yr olewydd wrth ffynnonau dyfroedd;" ar ein llaw aswy y mae dyffryn Saron, ag yr ydym newydd ddyfod trwyddo; ar ein llaw ddé y mae gwastadedd yr Iorrdonen—y peth gloew acw sydd yn ymddangos fel llafr o risial ydyw yr afon fyth-gofiadwy; y rhibyn gwyrdd acw sydd yn myned i fyny trwy ganol y dyffryn ydyw yr helyg sydd yn crogi ar ei glânau; y rhes mynyddoedd porphorliw sydd tu draw i'r Iorrdonen ydyw mynyddoedd Moab, clawdd terfyn dwyreiniol gwlad Canaan. Yr ydym yn awr yn edrych yn syth tua'r gogledd; o'n blaen y mae y wlad yn chwyddo allan yn domenydd mawrion; gallem feddwl fod rhyw dwrch-daear mawr wedi bod yma yn bur brysur. Dyma, fel y darfu i ni ddyweyd, ydyw asgwrn cefu gwlad Canaan; a gadewch i ni fyned i fyny ar hyd-ddo. Ymlaen y mae Ebal; ymlaen eto y mae Tabor fel rhyw grwb ar gefn y wlad; ymlaen ymbellach fyth, ac yn uwch o'i vsrgwyddaun a'r holl fynyddoedd i gyd, y mae Hermon, wedi rhyw ymorseddu yn nghanol y creigiau a'r cedrwydd am byth. O! yr hen Hermon! ar ei grib y mae rhew ac eira oesol; ar hyd ei ochrau y mae gerddi a pherllanoedd braf; tragwyddol auaf sydd ar ei ben, ond wrth ei draed y mae hi yn dragwyddol haf.

Ond rhaid darfod rywbryd, ac y mae yn hen bryd gwneyd hyny yn awr. Yr ydym, gan hyny, yn rhoi ein hysgrifell heibio, ac yn gadael ein darllenwyr ar hyn o bryd wrth droed mynydd Hermon. Y mae genym lawer yn rhagor i ddywedyd am wlad Canaan, ac fe allai y cawn gyflie eto i fyned yn fwy manwl trwyddi o Dan i Beerseba.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

Y TRAEATHAWD GWOBWRWYEDIG YN EISTEDDFOD CYMBODORION DIRWESTOL MERTHYR TYDFIL, NADOLIG, 1856.*

GAN THOMAS STEPHENS, MERTHYR.

Y MAE cenedl y Cymry, yn ei chysylltiad cenedlaethol (*ethnological*) a'i hynafiaeth, yn rhagoroldeb yr iaith Gymraeg, yn nysgleirdeb ei chrefydd, hynodrwydd ei moesoldeb, a neillduolrwydd ei sefyllfa bresennol, yn ffurfio testun gordeilwng o fyfyrddod; a gresyn yw nad oes genym hanes awdurdodol o honi, er budd i ni ein hunain, ac er dwyn estroniaid i well adnabyddiaeth o wlad, nodweddion, iaith, llênnyddiaeth, a chofnodion yr hen Gymry. Mae olion y genedl yn britho hanes foreuaf yr hil ddynol; mae ei chofnodion yn estyn o'r gorllewin i'r dwyrain, o'r ganrif bresennol i agos amser y diluw; ac y mae ei chof a'i gweithredoedd yn ffurfio rhan odidog o hanes y diriogaeth a'r deyrnas sawreddocaf ar wyneb y ddaear. Estyn ei hadgofion oddiyma i ddechreuad hanesyddiaeth, o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg dros hyd a lled amser, nes myned ar ymgudd yn niwl a chymylau y boreufyd. Yr oedd y Cymry ymhlith poblogion boreuaf Ewrop, pan oedd y wlad eto yn anghytannedd, yn rhanedig rhwng bwystfilod rheibus, ac heb ddelw dyn o fewn ei therfynau; hwynt-hwy a ennillasant ynys Prydain oddiar eirth a bleiddiaid, ac a osodasant gareg sylfaen ei godidogrwydd presennol; gwrthasasant dros ddeuddeg cant o flynyddau holl ymosodiadau y Rhufeiniaid, y Saeson, y Daniaid, a'r Normaniaid; ac wele ffwrth eu gwroldeb! Er holl ddichellion eu gwrthwynebwy, ac er holl chwyldröadau amser, wele ni yma eto, a'n traed ar fryniau ein hynafiaid, ein hanneddleuoedd yn y dyffrnoedd a feddiannent hwythau, ac awelon y nef yn cludo gweddiâu at orseddfainc y Goruchaf yn yr un iaith a esgynai oddiyma filoedd o flynyddau yn ol; fel braidd na chredwn eiriau yr hen Gymro o Bencadair, yn Sir Gaerfyrddin, a dystiai, er ys saith can' mlynedd, y byddwn yma hefyd hyd ddydd y farn fawr, yn moli Duw yn ngwlad ein tadau, ac yn ein pur iaith gyntefig.† Dyrchafasant fawl i'w Créawdwr

* Testun y gystadleuath, fel ei rhoddid gan y Cyfeisteddfod ydoedd.—“Traethawd ar Sefyllfa Wareiddiol y Cymry, ynghyda'r hyn a wnaethant tuag at Wareiddiad y Byd; yn cynnwys hanes feddyliol a moesol y genedl, ynghyda chylch ac ansawdd ei dylanwad yn ei Chyfnodau Derwyddol a Christionogol; ac hefyd ystyriaeth o'r gofyniad, Os meddai gyfundrefn o Athroniaeth, &c.”

† Hoare's Giraldu, ii., 361. “During the military expedition which king Henry the Second made in our day against South Wales, an old Welshman at Pencadair, who had faithfully adhered to him, being desired to give his opinion about the royal army, and whether he thought the rebels would make resistance, and what would be the final event of this war, replied, ‘This nation, O King, may now as in former times, be harassed, and in a great measure weakened and destroyed by your and other powers, and it will often prevail by its laudable exertions; but it can never be totally subdued through the wrath of man, unless the wrath of God shall concur. Nor do I think that any other nation than this of Wales, or any other language, whatever may hereafter come to pass, shall in the day of severe examination before the Supreme Judge, answer for this corner of the earth.’”

yn eithafon amser, canasant yr un anthem unieithog yn eu treigliad dros dir a môr yn y canrifau lawer a aethant heibio, a dichon ei fod yn rhan o fwriad yr Anfeidrol i'r un llafar barhâu yn y Dywysogaeth oddiyma i dragywyddoldeb.

Gofynai testun mor fawreddog gynneddfau dysglaer a dysgeidiaeth hel-aeth mewn unrhyw hanesydd a'i trinia; ond er mor bwysig yw y gorchwyl, gobeithir y cyfyd yn fuan rhyw gawr Cymreig i'w gymeryd mewn llaw. Ar yr achlysur presennol, nid oes galwad arnom ni ymafyd yn y baich hwn; a bydd yn ddigon i ni, wedi tafu brasolwg dros y maes éang yma, gyfyngu ein sylw at ddau neu dri o gofnodau neillduol. Mae testun y Cymrodorion yn dosbarthu ei hun yn naturiol i bump o ranau; ac er mwyn hwyluso y traethawd, bydd yn ofynol i ni eu nodi yma, a'u cadw ar wahân. Ydynt,—I. Gwareiddiad y Cymry yn eu Cyfnod Derwyddol. II. Eu Gwareiddiad yn eu Cyfnod Cristionogol. III. A oedd ganddynt Athron-ddysg neillduol? IV. Cyfran y Cymry yn Ngwareiddiad y Byd. V. Sefyllfa Wareiddiol y genedl yn bresennol. Rhestrir hwynt yma yn eu cysylltiad amseryddol; ac ymdrinir â hwynt yn ol yr un drefn.

I. Y CYFNOD DERWYDDOL.

Y mae y Cymry yn ddosbarth o'r teulu Celtig, ac yn perthyn yn agos i drigolion cyntefig yr Iwerddon a'r Alban, ac yn agosach eto i gyntefigion Cernyw a Llydaw; ac y mae yn hysbys, ar un llaw, fod y teulu Celtig wedi deilliaw o'r dwyrain, ac ar y llaw arall, mai hwy oedd y dynion cyntaf a boblogasant y cyfandir Ewropëaidd. Tarddasant oddiwrth Gomer fab Japhet; yr oeddent yn adnabyddus, dan .yr enw Gomeriaid, fel trigolion gogleddol, i'r prophwyd Ezeziel; a bernir mai yr un bobl oeddent â Chimmeriaid Homer, Galatiaid y Testament Newydd, a Chimbrî yr haneswyr Rhufeinig. Mae eu hanes gyfandirol yn gymysgedig ág eiddo eu perthynasau Celtig, fel y mae yn anhawdd ei ddadgysylltu; ac nid oes digon o grybwylliadau cyfyngedig i'r Cymry yn neillduol i'n galluogi i ffurfio barn eglur ynghylch eu gwareiddiad yno. Gan hyny, bydd yn well i ni gadw golwg ar ynys Prydain yn unig. Ac hyd yn nod o fewn i'r terfynau hyn, nid yw y testun yn rhydd oddiwrth ddyrswch. Bernir gan rai dysgedigion mai nid y Cymry oedd poblogion cyntaf yr ynys; iddynt hwy yru allan y bobl Wyddelig i'r Iwerddon a'r Alban; ac iddynt sefydlu eu hunain yn eu lle. Rhaid gadael hwn yn bwnc agored. Ond y mae eto un pwnc arall. Dywedir, yn y Trioedd, i'r Cymry, y Brython, a'r Lloegrwys, feddiannu yr ynys rhyngddynt; ond y mae y Trioedd yn analluog i benderfynu trigle y Brython. Gwyddom fod y Lloegrwys yn y rhanau dwyreiniol—yn y *Midland and Eastern Counties*, fel eu gelwir yn bresennol; a chymerir yn ganiatâol fod y Cymry yn y parthau gorllewinol; ond yn y cyfeiriadau henaf, nid oes un son am y Cymry. Y Brython oedd yr unig bobl adnabyddus i ysgrifenwyr Groeg a Rhufain; ac y mae yn ddiammheuol mai y Brython a roddasant eu henw i ynys Prydain. Y gwir yw, mai dau enw ar yr un bobl yw Brython a Chymry. Yn ngweithiau beirdd y chweched ganrif, Brython yw enw y bobl, a Chymry yw enw y wlad;* ac y mae yn amlwg, oddiwrth eu cyfansoddiadau, mai yr un iaith

* Dywod Aneurin,—

“Tri theyrn maon
A ddyvu o Vrython

oedd y Frythoneg a'r Gymraeg. Gan gymeryd hyn yn ganiatïol, awn yn y blaen.

Nid yw y Pwyllgor wedi penderfynu pa bryd y mae y cyfnod derwyddol yn diweddu, na'r cyfnod cristionogol yn dechreu; ond dylid gosod terfynau iddynt. Yn ol barn yr ysgrifenydd, terfynwyd y cyfnod derwyddol yn y flwyddyn O.C. 61; ac nid yw y cyfnod cristionogol yn dechreu hyd y bummed ganrif. O ganlyniad, yr oedd cyfnod arall rhyngddynt. Gelwir hwn y cyfnod Rhufeinig; ond ymdrinir âg ef fel rhan o'r cyfnod derwyddol.

Mae tri o dystiolaethau gwahanol ynghylch gwareiddiad y Cymry yn oes y Derwyddon, sef—1. Y Trioedd Hanesyddol, a'r *Iolo MSS.*; 2. Cyfreithiau Dyfnwal Moelmuad; 3. Yr Haneswyr Rhufeinig. Ac y mae traethiadau a ddau faenaf yn hollol anghyson âg eiddo yr olaf. Nid yw tywyllwch a goleuni, du a gwyn, yn fwy croes un i'r llall nag yw yr awdurdodau hyn; ac nid yw yn bosibl i ni dderbyn un o honynt heb lwyr wrthod y llall. Gan hyny, gwrthodir yr ysgrifau Rhufeinig gan amryw haneswyr Cymreig, tra y mae eraill yn collfarnu y Trioedd a Chyfreithiau Dyfnwal fel casgliadau diweddar, annheilwng o ystyriaeth fel awdurdodau hanesyddol. Yn ngwyneb yr amrywiaeth hwn, y mae o bwys i ni farnu drosom ein hunain.

Yn ol tystiolaeth Trioedd y drydedd gyfres,* arweinydd cyntaf y genedl Gymreig i ynys Prydain oedd Hu Gadarn, yr hwn a'u dygodd "o Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, sef y lle mae Constantinoblys." O herwydd y weithred hon, rhestrir ef gyda Phrydain ab Aedd Mawr, ac â Dyfnwal Moelmuad, fel Tri Phost Cenedl Ynys Prydain; gyda Phrydain a Rhitta Gawr, fel gweithredwyr y tair gwrthrym ardwy,—sef diddymiad gormes a difrod; gyda Choll ab Collfrewi ac Illtyd Sant, fe ltri chyfarwysawg cenedl y Cymry, am mai efe a ddangoses iddynt y ffordd i drin tir; gyda Dyfnwal a Thydain Tad Awen, fel tri chynofydd y genedl, am mai efe a wnaeth glud a gosgordd gyntaf; a chyda Gwyddon Ganhebon a Thydain, fel tri deifnogion cerdd a cheudawd, am mai efe "ddodes gyntaf ar gerdd dafawd gynnal cof a cheudawd." Heblaw hyn, yr oedd ganddo ddau o Ychain Bannog, pa rai a gyflawnasant un o dri phrif orchestwaith yr ynys, trwy lusgo afanc y llyn i dir fel na thores y llyn mwyach. Dywedir ymhellach i Prydain osod teyrnedd a gwladoliaeth ar yr ynys, pan nad oedd nac iawn na deddf cyn hyny, ac i'w gyfreithiau ef, a Dyfnwal, a Bran ap Llyr, gael eu barnu yn benorawl ar bob trefnau ereill. Hefyd i Dyfnwal Moelmuad wneyd dosbarth ar gyfreithiau, a breinniau, a defodau gwlad a chenedl; i Tydain Tad Awen, wneyd trefn a dosbarth ar gof a chadw cerdd dafawd a'i pherthynasau, o'r hon drefn y dychymygydd breinniau, a defodau dosbarthus ar feirdd a barddoniaeth Ynys Prydain gyntaf; ac i'r tri chyntefigion beirdd, sef Plennydd, Alawn, a Gwron, ddychymygu y breinniau a'r defodau y sydd ar feirdd a barddoniaeth; gan nad oedd cyn hyny na beirdd na barddoniaeth, nid oedd arnynt ddosbarth drwyddedawg, ac nid oedd idd-

Kynri a Chenon
Kynrein o Aeron"—

yn Sir Aberteifi. Ceir y geiriau "Cymry garneddawg" gan y bardd Taliesin; a chan Llywarch Hen,—“Powys Paraddwys Cymry.” Cymry—sylwer, nid Cymru.

* Cynnwys y *Myvyrian Archaeology* dair cyfres o Drioedd, o ba rai, yr ail yw yr henaf, a'r drydedd yw y ddiweddaraf. Nid oes un cyfeiriad at yr amser cyn Crist yn y ddwy henaf; ac nid yw yn gredadwy i'r drydedd gael ei hysgrifenu cyn yr unfed ganrif ar bymtheg.

ynt na breinniau na defodau, namyn a gaid o addwynder a syberwyd, yn nawdd gwlad a chenedl.*

Wlele grynodeb o draethiad y Trioedd am yr oesoedd boreuol; ac os yw gredadwy, dengys fod y Cymry yn foreu iawn wedi cyrhaedd gradd uchel o wareiddiad. Yr oedd yr enwogion hyn, yn ol yr un awdurdodau, yn byw yn oes Prydain, a'i fab Dyfnwal; er nad ydys eto wedi penderfynu pa bryd yr oedd hyny, pa un ai mil o flynyddau cyn Crist, neu ynte bedwar cant; pa un a oedd Prydain yn fyw yn amser rhyfel Caerdroia, (C. C. 1184), neu ynte a fu farw yn O. C. 85!† Dengys yr amrywiaeth yma o 1270 o flynyddau, nad ydyw yn awr ar dir hanesyddol; a'r gwir yw, na fu erioed y fath berson a Phrydain ab Aedd Mawr; nad yw yr enw ond cam-syniad achyddol;‡ nad oes un son am y fath berson cyn yr unfed ganrif ar bymtheg; ac nad yw yr holl draethiad am ei gyfreithiau a'i drefniadau ond dychymygiad diweddar. Hercules y Groegiad, dan enw arall, yw Hu Gadarn; Tathan, un o'r hen seintiau Prydeinig, yw Tydain Tad Awen; mab i ŵr a laddwyd O. C. 584 oedd Gwron; ac Athraw Cerddorol yn y ddegfed ganrif oedd Alawn, y bardd "cyntefig." Mae mwy o anhawsder ynghylch Plennydd a Gwyddon; ond nid oes un sail i greu y crybwyll- iadau yn eu cylch. Mae profion mewnol ac allanol, nad allasai Trioedd y drydedd gyfres gael eu cyfansoddi cyn y ganrif grybwyllledig; ac nid yw yn bosibl i ni eu derbyn fel hanesiaeth awdurdodol. Hefyd, mae daear- yddiaeth y Trioedd hyn gynddrwg a'u hanesyddiaeth; Ynys Ceylon, yn môr India, *ταπροβανη*—*Taprobane* y daearyddwyr Groegaidd, oedd Desfrobani; ac arwydd o anwybodaeth oedd ei chysylltu â Chonstantinople neu Gaer Cystenyn.

Mae "cyfreithiau Dyfnwal" yn rhoddi mwy o wybodaeth ynghylch cyflwr y wlad yn amser eu hysgrifeniad; ac y mae yn ddiaddadl fod Cymru y pryd hyny yn meddu graddau helaeth iawn o wareiddiad. Yr oedd ynddi freninoedd ac arglwyddi; meddygon a chyfreithwyr; ynadon, rheith- wyr, a phleiddwyr (*counsellors*); eglwysi a dinasoedd; ffefiriau a march- nadoedd; lleygion a gwŷr llên; gofiaid, maenseiri, a phrenseiri; beirdd ac arwyddfeydd, a gwehyddion. Yr oedd barddoniaeth, a fferylliaeth, a llênoriaeth neu lyfryddiaeth, gymaint eu parch, fel y rhoddi hawl gyf- reithlawn i bob bardd, fferyllt, a llênor, gael pum' erw o dir at ei gynnal- iaeth; yr oedd y celfyddydau, a gwybodau moliannus, a gwybodau gwladol, a doethineb a dwyfoldeb, yn cael eu dysgu o dan ofal y llywodraeth; yr oedd llyfrau yn bethau cyffredin; yr oedd rhybuddion *ysgrifenedig* mewn lleoedd cyhoeddus, a llawer o ddynion a fedrent lyfr a llythyr, ac ysgrifenu a darllen y Gymraeg yn gyfiawn; yr oedd y gyfraith yn sefydledig ac *yn ysgrifenedig*; yr oedd cof a chadw am ddadleuon cyfreithiol yn cael eu cadw mewn llyfr llys; yr oedd rheolau penderfynol ynghylch pob math o ddadleuon; ac yr oedd y llysoedd cyfreithiol yn debyg iawn i lysoedd barn yr oes bresennol. Bernid pob achos gan y breuin, neu arglwydd y cwmwd, a deuddeg o farnwyr rhaith, rheithwyr, neu *jurymen*; gwrandewid hawliwr

* *Myv. Arch.*, Cyf. ii, t.d. 57—71. Trioedd, 4, 36, 54, 56, 57, 58, 59, 92.

† Cymharer yr Iolo MSS, t.d. 333, 412, 429.

‡ Yr ydym i ddarllen Dyfnwal Prydain, ab Aedd Mawr,—nid Dyfnwal AB Prydain ab Aedd Mawr. Yr oedd yr achau cyntefig fel y canlyn:—Aedd Mawr; Dyfnfarth Prydain, hyny yw, Dyfnfarth brenin Prydain, wrth yr hon, yn yr hen ysgrifau, y golygid Ysgot- land. Trôwyd Prydain o enw gwlad yn enw dyn, a gwnawd Dyfnwal yn fab i'w deyrnas ei hun! Gweler achyddiaeth Harri VII. yn Caradoc, neu "Hanes Cymru," t.d. 782.

ac amddiffynwr bob yn ail, ac yr oedd yno bleidwyr (*counsellors*) o bob ochr, a swyddogion eraill i gadw trefn yn y llys. Nid yw bosibl i ni sylwi ar y crybwylladau hyn heb deimlo fod y Cymry yr oes hono yn genedl wareiddiedig, a'u bod mewn meddiant o ran helaeth o'r bendithion cymdeithasol a fwyneir gan eu disgynyddion yn ein dyddiau ni.

Ond pa gyfnod yn hanes y genedl oedd hwn? Dywed "Brut y Breninoedd" i Dyfnwal Moelmud deyrnasu o'r flwyddyn 694 cyn Crist hyd y flwyddyn 667. Ond a fernir yn bosibl fod yr ysgrifau a elwir yn Trioedd Dyfnwal Moelmud yn darlunio cyflwr y wlad chwech can' mlynedd cyn Crist? Mae dynion cyfrifol yn barnu eu bod; ond y mae eraill, ac yn eu plith Lappenberg, Aneurin Owen, a dynion cyffelyb, yn haeru mai ysgrifau diweddar ydynt—eu bod yn dwyn arwyddion o ddylanwad Rhufeinig a Saesoneg, ac yn cynnwys amryw gyfeiriadau olynol i ddyfodiad Cristionogaeth; ac yr ydym ni yn tueddu i'r un farn. Dywedir iddynt gael eu cyfansoddi yn amser y Derwyddon; ond nid oes un son am y Derwyddon ganddynt. Dywedir eu bod wedi eu cyfansoddi cyn Crist; ond cyfeiriant at Forganwg, Ceredigion, Caerleon ar Wysg, a lleoedd eraill nad oeddent wedi eu henwi am ganrifoedd lawer wedi hyny; ac enwant fath o arian a elwid *Bygant*, neu Arian *Byzantium*, hen enw Caer Cystenyn, er nad oedd y *Bygeint*, neu y *Bezants*, fel eu gelwid, mewn rhediad cyffredin hyd y bymthegfed ganrif. Eto, dywedir nad oes un cyfeiriad ynddynt at Gristionogaeth, nac at ddefodau eglwysig; ac o ganlyniad, eu bod yn perthyn i gyfnod boreuach yn hanes y genedl. Ond erbyn chwilio, y mae ynddynt gyfeiriadau at "y groes fendigaid," at "esengyl Ieuan" neu Ioan, ac at "offeiriad ac eglwysi Bangor, Clynog, a Phenmon." Mae yn wir fod y swyddog crefyddol yn cael ei alw yn "olychwydwr;" ond nid yw hyn yn brawf o hynafiaeth. Gair perthynol i Gristionogaeth yw "golychwyd," ac yn gyfystyr â "deisyfiad;" defnyddir ef gan William Salesbury wrth gyfieithu Ephes. vi. 18,* lle mae "deisyfiad" yn y cyfieithiad cyffredin; a chan hyny, yr oedd y gair "golychwyd" mewn arferiad yn ac o amgylch y flwyddyn 1678. Hawdd casglu, gan hyny, fod "golychwydwr" yn perthyn i'r un cyfnod; ac y mae yn dygwydd yn ysgrifau Mourig Dafydd a Thomas Lewis, dau fardd a flodeuasant ynghylch 1560 a 1590. Yn ngwyneb y ffeithiau hyn, mae yn anhawdd credu yn hynafiaeth Trioedd Dyfnwal; ac y mae yn fwy rhesymol i ni fabwysiadu casgliad Stephens, mai cyfreithiau Hywel Dda ydynt mewn gwirionedd, ac nad oes dim ond y titlau ffigiol wrth benau yr ysgrifau yn perthyn i Ddyfnwal Moelmud.

Yn eu fflur brenennol, gellir, meddai Mr. Aneurin Owen, priodoli cyfreithiau Dyfnwal i'r unfed ganrif ar bymtheg;† ond nid ydym, gan hyny, i benderfynu na fu y fath berson, ac na fu deddfau perthynol iddo ef. Eto mae yn anhawdd gwybod pwy oedd efe, pa bryd yr oedd yn byw, ac ymha le neu wlad y preswyliai. Dywedir ei fod yn frenin Cymru, C. C. 694; ond nid oes lle i gredu fod y wlad y pryd hyny dan un freniniaeth; nid yw Sieffrey o Fynwy yn ddigon o awdurdod am haerriad o'r fath, ac y mae pob peth a wyddom yn tueddu i brofi na fuasai un côf cenedlaethol am dano pe buasai fyw cyn Crist, gan fod Gildas, O. C. 560, yn dyweyd nad

* "A gweddiwch bop amser a phop ryw weddi ac ervyn yn yr Yspryt: a gweliwch ta ag at hyn y gyd a phob astudrwydd a *golochwyd* dros yr oll Sainots."—*Testament Salesbury*.

† *Owens' Laws and Institutes of Wales. Vol. i., p. 216. xx.*

oedd dim ysgrifau Cymreig yn ei ddyddiau ef. Nid oes ychwaith un sail i'r haeriad i Gildas gyfieithu ei gyfreithiau efo'r Frythoneg i'r Ladinaeg, nac i'r brenin Alfred eu cyfieithu i'r Saesonaeg. Dywedir mewn Cronicle diweddar* i Hywel Dda seilio ei ddeddfau ar Drioedd Dyfnwal; ond y mae cyfreithiau Hywel ei hun, copi Gwynedd,† yn tystio iddo ef hollol ddiddymu pob rhan o ddeddfau Dyfnwal, ond ei reolau ef ar fesur tir. Nid oes, gan hyny, un rhan arall o gyfreithiau Dyfnwal yn awr ar gael; ac ofer dysgwyl am un goleuni oddiyno, hyd yn nod, yr hyn sydd amheus iawn, pe buasai Dyfnwal fyw cyn Crist, ac yn Gymro diledryw.

Ond cyn collfarnu y tystion cartrefol, rhaid i ni ystyried fod pleidwyr y Nôd Cyfrin yn hōni gwybodaeth neillduol ynghylch cyfnod y Derwyddon; a thra y mae rhai yn difenwi y Derwyddon fel paganiaid gwael, llygredig, ac ofergoelus, hwy a'u dyrchafant i uchelder anghyffredin o foesoldeb, ac a baerant fod eu daliadau mor rydd oddiwrth lygredigaeth coelgrefyddol, ag nad oeddynt nemawr neu ddim yn iselach, nag eiddo y Patriarchiaid eu hunain.‡ Ond, fel y dywed y Parch. T. Price, haeriad moel, diawdurdod, yw hwn a wneir o blaid y fath ardderchogrydd ar ran y Derwyddon; ac hefyd un sydd groes i'r hyn y mae Dwyfol Ddaguddiad yn ei fynegu am gyflwr ysbrydol cenedloedd y byd.¶ Ac ymhellach, yr wyf fi yn barnu mai cyfansoddiadau pur ddiweddar yw y Trioedd Barddas. Perthynant, yn nhyb yr ysgrifenydd, i gyfundaeth holldduwiaethol (*pantheistic*) a ymdaenodd dros y parthau gorllewinol yn y canoloesoedd, yr hon sydd fwy adnabyddus fel heresi yr Albignesiaid; ac o ganlyniad, deuant dan sylw gyda mwy o briodolrwydd yn ol llaw.

Am hyny, awn yn y blaen. Nid oes genym un awdurdodau Cymreig a hawl i gael eu gwrandaw ynghylch yr oes dderwyddol; ac er difased y peth, rhaid i ni ymddibynu yn hollol ar adroddiadau estroniaid.

Yn wir, gyda golwg ar ynys Prydain, mae hyd yn nod yr ysgrifenydd Rhufeinig yn ddiffygiol, gan nad ydynt yn sôn nemawr am Dderwyddon y wlad hon; ond tybid, yn ol traethiad Cæsar, i'r sefydliad derwyddol darddu yn Mhrydain, a myned oddiyno i dir Gâl, fel yr oedd, yn yr amser hwnw, y rhai a ddymentent berffeithio eu hunain yn y gyfundaeth, yn teithio yma, oddiar y Cyfandir, i gael addysg. Mewn ystyriaeth o'r ffaith hon, bernir yn gyffredin y gellir cymhwysu at Ynys Prydain yr hyn a ddywedir ynghylch tir Gâl, neu Ffrainc, fel ei gelwir yn awr. Mae sylwedd y traethiadau fel y canlyn:—

“Dros holl dir Gâl, nid oedd ond dau urdd o ddynion mewn un gradd o barch neu anrhydedd, gan nad oedd y bobl gyffredin nemawr gwell na chaethweision. Nid oeddent yn ymgynnyg â dim eu hunain, ac nid oedd iddynt un rhan yn yr ymgyngoriadau gwleidiadol. Gan eu bod yn ormesedig gan ddyled, gan drethau trymion, a chan ofyniadau eu huchafiaid, ymroddent i wasanaethu y mawrin, y rhai a arferent tuag atynt yr un awdurdodaeth a arferid gan feistri dros eu caethweision.

“Y ddau urdd a feddiannent bob awdurdod ac anrhydedd, oedd bonedd y wlad, a'r Derwyddon. Holl fryd a galwedigaeth y boneddwy'r oedd rhyfel. Cyn dyfodiad Cæsar i Gâl, yr oeddent mewn rhyfel ymosodol neu amddiffynol bob bliwyddyn. Ffuriant eu barnau ynghylch gallu a chynneddf eu boneddwy'r oddiwrth eu torf o

* Llyfr Aberpergwm. *Myv. Arch.*, ii., 486.

† *Owen's Laws. Venedotian Code*, i., 185.

‡ Gweler *The Patriarchian Religion of Britain; by the Rev. D. James, formerly of Kirkdale.*

wasanaethwyr, a rhif y bobl a gadwent mewn tâl, gan mai y rhai hyn oedd yr unig beithau a berehid ganddynt.

"Y Derwyddon," meddai Cæsar, yn nghyfleithiad Carnhuanawc, "a oruchwyliant ar beithau cyffredinol; gofalent am aberthau cyhoedd a neillduol; a deonglant ddaroganiadau. Mae niferoedd o'r ieuencyd yn cyrohu atynt am ddysegeidiaeth. Hwyt-hwy ydynt y barnwyr agos ymhob dadl. Ac os bydd i rywun beidio ufuddhâu idd eu dedryd, gwaharddant iddo gyfranu yn yr aberthau, yr hyn sydd gosbedigaeth o'r trymaf; canys y mae'r cyfryw un trwy hyny dan ysgymundod, ac ni fydd i neb ymgyfeillachu âg ef, ac nis gall fwynhâu ei fraint wladol, nac hyd yn nod geisio cyfiawnder mewn llys cyfraith.

"Mae pensaeth ar y Derwyddon oll, yr hwn a feddianna y prif awdurdod yn eu plith. Ar farwolaeth hwn, os bydd un yn tra rhagori ar y lleill, dewisir ef i'r swydd; ond os bydd amryw ymgeiswyr cyfartal, etholir un trwy fwyafrif o bleidleisiau; ac weithiau defnyddir arfau cyn dwyn yr etholiad i ben. Cyfarfyddant un waith y flwyddyn mewn lle cysegredig yn nhirogaethau y Carnutiad, yr hon wlad a ystyrir ei bod yn nghanol Gâl. Yma, cyrch pawb sydd â dadleuon ganddynt; ac ymstyngant yn ufudd i'w penderfyniadau hwy.

"Nid yw y Derwyddon un amser yn cyrohu i ryfel, maent yn rhydd oddiwrth drethau a gwasanaeth filwrol, ac yn freiniol ymhob peth. Cymhellir lluoedd gan y breintiau i gymeryd at y galwad hwn, a danfonir llawer gan eu rhieni a'u perthynasau. Dysgir hwyt i adrodd pennillion aneirif, ac yn fynych i dreulio ugain mlynedd mewn dygyblaeth, gan y cyfrifid ef yn anghyfreithlawn i oedol eu dyg mewn ygrifen, er eu bod mewn pethau eraill, priodol a chyhoeddus, yn defnyddio llythyrenau Groegaidd. Ymddengys i mi, meddai Cæsar, eu bod yn arfer hyn am ddau oeswm, sef i guddio eu cyfrinach oddiwrth y werin, ac i grynhâu cof eu dygybllion, yr hwn a fyddai yn dueddol i gael ei eageuloso pe buasai ganddynt ygrifau i ymddiried ynddynt, fel y dygwyddai yn fynych. Un o'u prif egwyddorion ydyw, nad yw yr enaid byth yn marw, ond ar farwolaeth, ei fod yn symud o un corff i'r llall; a thybiant fod yr egwyddor hon yn meithrin dewrder a chalondid, trwy fwrw ymaith ofn marwolaeth. Dysgant hefyd lawer o beithau ynghylch y ser a'u mudladau, am faintioli y ddaear, am effeithiau anianol, ac am allu ac awdurdod y duwiau anfarwol."

Rhoddir traethiadau cyffelyb gan Pomponius Mela a Diogenes Laertius, a chan Strabo a Diodorus Siculus. Ond y mae y ddau olaf yn chwaneu dau radd arall o ddynion ag oeddent fawr eu parch, sef Ofyddion a Beirdd, ac yn eu dosbarthu yn rheolaidd:—*Βαρδοὶ μὲν ἕμνηται καὶ ποιηταὶ*—y beirdd oeddent *hymnetai* a *phoetai*, hyny yw, hwy oedd yr emynwyr a'r prydyddion. *Οὐάτιες δὲ ἱεροποιοὶ καὶ φυσιολογοὶ*—yr ofyddion oeddnt *hieropoioi* a *physiologoi*, hyny yw, yr offrymwyr a'r anianyddwyr—mewn gair, yr offeiriad. *Διδύβαι δὲ πρὸς τῇ φυσιολογίᾳ τὴν ἠθικὴν φιλοσοφίαν ἀσχουσί*—y Derwyddon, heblaw *physiologia*, neu anianyddiaeth, a arferent neu a ddysgent *ethiken philosophian*, sef athroniaeth foesol. Gwelir yma fod y Derwyddon, yr Ofyddion, a'r Beirdd, yn dri dosbarth gwahanol; *τρία φύλα*; ac y mae o bwys i ddwyn hyn mewn côf, gyda golwg ar ffug-gyfreithiau Dyfnwal, ac ar ddefodau beirdd y Nôd Cyfrin, ymha rai, gan nad oedd nac Ofyddion na Derwyddon yn y bymthegfed ganrif, mae y tri dosbarth yn cael eu gwneyd yn dri gradd o'r un urdd, a'r Bardd, o fod yn isaf o'r tri, yn cael ei wneyd yn uchaf, ac o fod yn ganmolwr y mawrion a'i cadwent mewn tâl, yn cael ei ddyrchafu i ogoniant y swydd offeiriadol.

Nid yw Cæsar yn son am y beirdd a'r ofyddion; ond barnaf y dylesid cysylltu yr olaf â'r crybwylliad canlynol:—

"Mae y Gâlaid oll yn chwano g iawn i goelgrefydd, ac am hyny, pan fygythier hwyt gan glefydau neu beryglon rhyfel, nid ydynt yn petruso aberthu dynion, neu ymrwymo eu hunain i wneyd hyny. Yn hyn o beth defnyddiant offeiriadaeth y Derwyddon; gan fod tyb gyffredin yn eu plith fod yn anghenrheidiol rhoddi bywyd yn iawn am fywyd, yn gymaint a'u bod wedi sefydlu aberthau cyhoeddus o'r fath yma. Rhai a barotiant eilunod dirfawr o faint, o wial plethedig, ac a'u llanwant â

dynion byw; a chan eu gosod ar dân, mae y dynion yn marw yn y ffïmau. Dewisant ladron, a drwgweithredwyr eraill, i fod yn aberthau, gan feddwl eu bod yn fwy derbynol i'r duwiau; ond pan nad ellir cael troseddwy, mae y dieuog yn fynych yn cael dyoddef.

"Y duw a addolant fwyaf yw Merchyr, o'r hwn y mae llawer o ddelwau, gan yr ystyriant ef yn ddarganfyddwr pob celfyddydau, yn dywysydd yn eu teithiau, ac yn noddwr masnach ac elw. Nesaf ato ef mae Apollo, Mawrth, Iau, a Minerfa, am ba rai mae eu tyb yn debyg i eiddo cenedloedd eraill. Apollo a'u gwareda rhag clefydau; Minerva a'u cynnorthwya yn y celfyddydau; Iau a lywodraetha y nefoedd; a Mawrth a reola ryfeloedd. I hwn, pan fwriadant ryfel, addawant yr yspail. Pan yn fuddugoliaethus, aberthant yr anifeiliaid a gymerant; pentyrant yr yspail arall mewn lle cysegredig, fel eu gwelir yn gyffredin, mewn amryw fanau; ac y mae yn anarferol iawn i neb wneyd cymaint o anmharch i'w crefydd a chelu yspail, neu yspellio y rhoddion cyffredin, ac mae y cosbedigaethau trymaf yn cael eu harfer yn erbyn y cyfryw.

"Tybia y Gáliaid eu bod wedi diagyn oddiwrth Pluto [duw y parthau uffernol], yr hyn sydd yn draddodiad sefydledig gyda'r Derwyddon. O herwydd hyny, maent yn cyfrif amser wrth nosau, ac nid wrth ddyddiau; ac wrth goffa dyddiau genedigol, lleuadau newyddion, a dechreuad blynyddau, dechreuant yn wastad gyda'r nos flaenorol.* Maent yn wahanol mewn un arferiad agos i bob cenedl arall, gan na oddefant i'w plant ddyfod i'w presenoldeb nes byddont mewn oed i ddwyn arfa, a bernir ef yn warth i fab ymddangos yn gyhoeddus gyda'i dad, nes bydd yn ei faint-ioli.†

"Pa waddol bynag a ddygir gan y wraig, rhaid i'r gŵr ei gyfartalu o'i gyfoeth ei hun; ac mae y cyfanswm, ynghyd a'i gynnyrchiad blynyddol, yn cael ei gadw yn ddileidid i'r sawl fo fyw ar ol y llall. Mae gan y gŵr awdurdod bywyd a marwol-aeth ar eu gwagedd a'u plant; a phan fydd penteulu boneddig farw, mae ei berthynasau yn ymgynnnull, ac ar y drwg-dybiaeth lleiaf, yn dirboeni ei wragedd yr un fath a'i gaethweision. Os ceir hwynt yn enog, defnyddir haiarn a than i'w poeni a'u dinystrio. Mae eu hanghladdau, mewn cyfartalrwydd i'w bonedd, yn fawreddog ac yn gostfawr. Teflir pob peth oedd yn anwyl gan y trancedig i'r fygedorth, sef y tan anghladdol, hyd yn nod anifeiliaid; ac yn yr amser gynt, yr oedd y cyfryw gaethweision a deiliaid a garent fwyaf yn aberthu eu hunain yn anghladd eu harglwydd.

"Yn y teyrnasoedd mwyaf rheolaidd, mae ganddynt gyfraith, fod i'r sawl aglywai ryw-beth cysylltiedig â'r wladwriaeth, hysbysu hyny yn uniongyrchol i'r ynadon, ac nid i neb arall, gan fod natur y genedl y cyfryw, fel y tueddir dynion byrbwyll ac an-mhroffedig, gan adroddiadau anwireddus, i fyned i eithafon peryglus, ac i gymeryd arnynt eu hunain i benderfynu pethau o'r pwys mwyaf. Celir pethau anmhrifodol i'w gwybod gan yr ynadon; ni hysbysant i'r werin ddim ond a dybir yn lleahöol i'r wladwriaeth; ac ni oddef y cyfreithiau un siaradaeth ynghylch pethau gwladwriaethol, ond mewn cynnadleddau cyhoeddus yn unig.‡

Wele adroddiad Julius Cæsar yn ei gyflawnder, heb gelu na drwgliwio dim. Hwn yw y tro cyntaf iddo ymddangos yn yr iaith Gymraeg; a chan y bydd yn dda gan lawer Cymro uniaith ei weled, bydd y ffaith yn ddigon o esgusawd am ei feithder. Dichon fod enwau y duwiau yn deillio oddiwrth y Rhufeiniaid eu hunain; ond nid wyf yn cydfyned â Charnhuanawc yn ei ymdrech i gyfyngu y rhanau anffafriol o'r dystiolaeth i'r Gáliaid yn unig. Barnaf fod y desgrifiad, drwg a da, yn gywir yn ei sylwedd, ac yr un mor briodol i drigolion Brydain ag i breswylwyr Gâl.

Yr un ysgrifenydd yw ein prif awdurdod ynghylch cyflwr neillduol y Prydeiniaid; ymwelodd â'r ynys yn y blynyddau 55 a 54 cyn Crist; ac y mae wedi gadael darluniad o'r bobl fel y gwelodd efe hwynt. O'i weithiau ef,

* Sylwer ar y cadarnhad sydd yn yr iaith Gymraeg. Nos, wythnos, pythefnos. Nos Calan-gauaf, nos Calan, &c.

† Hyny yw, dygid hwynt i syny yn blant maeth, fel oedd arferol gan y Cymry yn y canoloesoedd.

‡ Cæsar, *De Bello Gallico*, Lib. vi, c.c. xii—xix.

ac eraill, crynhöwyd y desgrifiad canlynol gan y Parch. T. Price; ac er mwyn amrywio fy nhraethawd, nis gallaf well na dyfynu ei eiriau ef:—

“Yr oedd amrywiol raddau o wareidd-dra yn hanfodi ymhlith y Brytaniaid, eithr nid oedd y goreu o honynt ond gwael iawn mewn cyffelybiaeth i'r hyn a geir yn y gwledydd Cristionogol y dydd heddyw. Pobl y mordiroedd cyferbyn i'r Cyfandir, gan eu bod yn arferol o gyfarfod â masnachwyr o wledydd pellenig, a ddilladent eu hunain i raddau yn ol dull y Cyfandir; ond trigolion yr ynys yn gyffredinol oeddent agos yn gwbl noethion, a'r unig wisgiadau a arferent oedd crwyn anifeiliaid. Tynent luniau bwystfilod ar hyd eu cyrff, mewn lliw glas, i'r dyben o wneuthur eu hunain yn ddychrynlyd idd eu gelynyon; ac ymhoffent yn fawr mewn rhyfel a brwydrau. Gwisgent eu gwallt yn hir, ac eillient eu barf, oddieithr yr hyn a dyfai ar y wefus uchaf. Yr oeddent yn ddynion dewrion o reddf, ac yn uchel o gorffolaeth. Eu harfau oedd cleddyfau a gwaewffyn; ac oddiwrth y penau saethau, o faen callestr, a geir mewn hen feddrodau, ymddengys eu bod yn arfer y bwa a'r saeth. Defnyddient darianau ffurfiedig o ddellt; ond am arfau amddiffynol eraill, ni hoffent eu dwyn, gan eu bod, o herwydd eu pwys, yn luaddias iddynt redeg gyda chymaint o fuantra â phan yn rhydd oddiwrthynt. Yr oeddent hefyd yn defnyddio cerbydau mewn rhyfel, tebyg i eiddo y Groegiaid cyntefig, a phladuriau wrth echyl yr olwynion. Ni ofalent lawer am driniaeth tîr, er eu bod yn wybyddus mewn amaethyddiaeth i ryw raddau, ac yn tyfu llafur, fe allai gyda chymaint o gelfydd-dra a hanfodai yn yr amser hyny; ond am drigolion y parthau tufewnol i'r ynys, mae yn debygol mai eu hunig orchawlyion oedd rhedeg yn noethion ar hyd y coedydd a'r mynyddoedd, gan hela anifeiliaid gwylltïon, er ymborth neu ddifyrwrch. Y bobl a berchenogent feirch a oherbydau, nid ellir eu galw yn hollol anwaraidd; a'r rhai a aethent yn noethion, gan ddarlunio anifeiliaid ar hyd eu crwyn, ni feddent lawer o hawl i gael eu cyfrif yn wareiddedigion; felly, rhaid addef fod amrywiol raddau o wareidd-dra yn hanfodi yn eu plith, yn ol eu gwahanol lwythau a'u cyfgyrau cymdeithasol.”*

Mae hwn yn ddarluniad teg o gyflwr y bobl, yn ol yr adroddiadau Rhufeinig; ac nid yw yn anghenrheidiol i ni ychwanegu ond un neu ddau o sylwadau.

Cyn dyfoliad y Rhufeiniaid, yr oedd masnach helaeth rhwng ynys Prydain â Môr y Canoldir. Oddiyma y deuai yr holl alcarn a ddefnyddid gan y Pheniciaid, y Carthaginaid, a'r Groegiaid, ac a daenid gan farsandwyr Tyrus dros yr holl wledydd dwyreiniol; a chan fod y Prydeiniaid yn anfon allan alcarn, aur, arian, haiarn, plwm, crwyn, anifeiliaid—hyny yw—dâ a defaid, caethion, cwn hela, *muscle pearls*, *necklaces*, *ivory bracelets*, teganau *amber*, llestri gwydr, a'r cyfryw fân bethau; ac yn prynu o wledydd eraill, llestri pridd, halen, pres, a llestri pres, rhaid fod y fasnach hon yn unig yn tueddu yn barhâus i wareiddio y wlad.

Fel y dangoswyd eisoes, yr oedd y sefydliad derwyddol yn y wlad hon, fel ar y cyfandir; a chan fod llywodraeth y wlad yn eu dwylaw hwy, yr oedd eu sefydliad yma yr un mor dueddol i ddrwg, ac yr un mor gynnyrchol o ddaioni, ag yr oedd yno. Ond cyn ymadael â hwy, dichon y dylem ateb yn fwy uniongyrchol y gofyniad cyffredin,—A oedd y Derwyddon Prydeinig yn aberthu dynion? Mae yn ddiagramheu genyf eu bod. Yr oedd hyn yn rhan o'r trefniadau derwyddol; mae Cæsar, Strabo, Diodorus, Pliny, ac eraill, yn cyd-dystio hyn; ac y mae côf a chadw am ddeddfau Rhufeinig a wnaed er tori yr arferiad i lawr. Tybia Suetonius i'r ymherawdwr Tiberius wahardd aberthau erchyll Derwyddon Gâl, ac i Claudius eu llwyr ddileu. Yn ngwyneb ffeithiau mor amrywiol, ond cyd-dystiol, mae yn amhosibl i ni wrthod y dystiolaeth; ac y mae crybwylliad Tacitus am Dderwyddon Prydain yn ein gwahardd rhag eu dad-

* Hanes Cymru, t.d. 13.

gysylltu hwy a'u brodyr cyfandirol. Dechreuwyd goresgyniad yr ynys O. C. 41, ond parhâodd y rhyfel rhwng y Brython a'r Rhufeiniaid am lawer iawn o flynyddau. Yn y flwyddyn 61, O. C., canlynwyd Veranius gan Suetonius Paulinus, fel llywydd ar y rhan oedd wedi ymostwng iddynt; a phenderfynodd yntau gyflawni goresgyniad yr ynys ar unwaith, trwy ymosod ar ynys Fôn, yr hon oedd yn noddfa i'r holl Frython gorchfygedig. I'r perwyl hyn, parotôdd fadau llydain eu gwaelodion; a phan oedd pob peth yn barod, daeth i lân afon Menai. "Ar y traeth cyferbyniol, safai y Brython, mewn dull rhyfelgar, ac yn barod i frwydr. Gwelid benywod yn rhuthro trwy y rhesau, megys gwylltion, mewn dillad anghladdol, a'u gwallt yn daenedig yn y gwynt, a faglau tanllyd yn eu dwylaw, ac yn eu holl ymddangosiad yn echrslawn. Y Derwyddon a safent yn rhesi, a'u dwylaw yn dderchafedig tua'r nefoedd, ac a dywalltent felldithion erchyll a dygnawl. Tarawyd y milwyr â syndod gan newydd-dra yr olygfâ; ac fel pe buasai eu haelodau wedi eu glynu, safasant mewn rhyfeddod—yn ddiysgog, ac yn nôd i saethau y Brython. Ar ol ychydig amser, trwy gynhyrfaadau eu blaenoriaid, annogaethau eu gilydd, a chy-wilydd rhag cael eu harswydo gan dorf o fenywod ac offeiriaid gwallgof, dygasant eu banerau yn y blaen, dymchwelasant y rhai a safent ar eu ffordd, a bwriasant y Brython i'w tânau eu hunain. Syrthiodd yr ynys, gosodwyd llu gwarcheidol ar y gorchfygedig, a thorwyd i lawr y llwyni oeddent yn gysegredig i'w coelgrefydd ffyrnig a chreulawn; canys cyrifent yn addas boethoffrymu gwaed caethion ar eu hallorau, ac ymgynghori â'r duwiau trwy gysegr-chwilio ymysgaroedd dynion." Mae yn anhawdd darllen y pethau hyn heb fabwysiadu y grêd fod aberthau dynol yn bethau cyffredin yn Mrydain hefyd, ac heb gynnwysu yr ystiriaeth fod ein cyntefigion derwyddol wedi gadael digon o le i'w hilynwr wellâu eu defodau hwy.

Hwn yw y crybwylliad olaf sydd gan y Rhufeiniaid am Dderwyddon Prydain; ac nid oes un wybodaeth beth ddaeth o honynt yn ol llaw, pa un a ddiddymwyd hwynt yn hollol, fel na chyfodent mwyach, neu ynte, a oddefwyd iddynt gynnal eu sefydliad yn y blaen, ar yr ammod i ymwrthod âg aberthau dynol? Mae *analogy* y Gâlïaid yn ein tueddu at y golygiad olaf, gan fod crybwylliadau am Dderwyddon Gâl yn hir ar ol amser Claudius, ac hyd yn nôd mor ddiweddar â'r bedwaredd ganrif; a chan fod Prydain dan yr un llywodraeth, mae yn rhesymol casglu fod y Derwyddon yn cael eu goddef yma hefyd. Yn wir, nid oedd caniatâd y Rhufeiniaid yn anghenrheidiol. Nid ymostyngodd y Gogleddwyr erioed iddynt hwy; parhâodd y grefydd genedlaethol yno am oesoedd wedi dynistriad Môn; a safodd ei thir hyd frwydr Arderydd, yn agos i Glasgow, yn O. C. 577, pan yr ennillwyd y fuddugoliaeth gan bleidwyr Cristionogaeth, yr hon o hyny allan a daenodd ei hun dros yr holl ynys.

Bu Prydain yn rhan o ymherodraeth Rhufain am bedwar can' mlynedd; ac yn y cyfamser mwynhâai yr holl fanteision deilliedig oddiwrth y cysylltiad hyny. Rhoddodd tai gwaiâl y Brython le i balasau ceryg ysplenydd; sefydlwyd dinasoedd mewn gwahanol fanau trwy hyd a lled yr ynys; adeiladwyd temlau, a chwareudai, ac ymolchfaoedd godidog, yn y prif gaerau; annogwyd y Brython i ddyngu yr iaith Ladinaeg, ac ymorchestu mewn areithyddiaeth; a chefnogwyd addysg, crefyddau, a'r celfyddydau i raddau braidd anghredadwy i'r oesoedd dilynol. Ffurfiwyd heolau neu ffyrdd mawrion o'r gogledd i'r deheu, o'r dwyrain i'r gorllewin, fel yr oedd pob rhan

o'r ynys yn hawdd ei chyrrhaedd, a phob math o fasnach yn cael ei rhwyddhâu. Sefydlwyd llysoedd cyfraith yn y gwahanol ddinasoedd; cefnogwyd amaethyddiaeth i'r fath raddau fel y daeth Prydain yn *ÿdfa (granary)* i'r ymherodraeth, ac y defnyddiodd Julian wyth cant o longau un flwyddyn i drosglwyddo *ÿd* i'r Cyfandir; a breinniwyd colegau o gelfyddydwy, nes aeth Prydain yn enwog am ei chelfydd-*dra*, ac y danfonid yma am weithwyr o Itali a manau eraill. Llenwid y wlad â moethau, nes i'r bobl gael eu Rhufeineiddio mewn iaith, arferion, a theimlad; nes i'r Brython anghofio eu bod unwaith yn annibynol, ymostwng yn ufudd i iau estronol, a cholli y *fordd* a'r ewyllys i amddiffyn eu hunain.

Ond nid yw y sylwadau hyn, yn eu cyflawnder, i'w cyfeirio at y rhan Gymroaidd o'r trigolion. Mwynhâwyd llawer o freinniau a manteision y llywodraeth ymherodrol, fel y dengys yr olion ardderchog a geir yn Nghaerlleon-ar-wysg; ond ni chawsant eu gorlwytho ganddynt; ac y mae yn bur debyg na lwy'r ymostyngodd Cymry y mynyddoedd gorllewinol i'r llengoedd Rhufeinig, fwy nag y gwnaethant i'r Saeson wedi hyny. Cadwasant dir eu tadau, a molasant eu Ner yn eu hen iaith genedlaethol; a phan tua O. C. 418, y galwyd y llengoedd adref, yr oedd y Cymry yn bobl ryfelgar, yn caru rhyddid, ac yn awyddus i hõni eu hannibyniaeth. Eto, os cymherir Cymry y cyfnod Rhufeinig â'r un bobl yn oes y Derwyddon, gwelir fod cyfnewidiad a gwellhâd mawr wedi cymeryd lle ynddynt hwy a'u hamgylchiadau. Dylanwadodd gwareiddiad y goresgynwyr yn fwy ffafriol arnynt hwy nag ar drigolion yr iseldiroedd; cynnysgaethwyd hwy â gwybodau helaethach nag eiddo eu hunain; cynnefuwyd hwy â defodau milwrol prif ryfelwyr y byd; anrhegwyd hwy â chaerau, dinasoedd, a heolydd; a dygwyd hwynt i adnabyddiaeth ac arferiad o'r cyfreithiau goreu a'r sefydliadau perffeithiaf a feddai y byd yn yr amser hwnw. Cynhyrwyd hwy i wellhâu eu cyflyrau eu hunain, a pharotōwyd hwy i dderbyn a mwynhâu bendithion efengyl Crist.

(Y rhelyw yn y ddau rifyn nesaf.)

MYFYRDOD GLAN Y MOR.

Mae tòn ar ol tòn yn disgyn i'r tywod;
 Fe 'u tefir gan fôr o gyflawnder diddarfod,
 A orwedd draw hwnt hyd lānau Amerig,
 Ac Affrica boeth, a'r India bellenig;
 A miloedd o longau ar ei wyneb yn nofio,
 A'u hwylliau clærwynion yn yr awel yn chwiffo,
 Yn llawn o drysorau pob gwlad tan y nefoedd,
 Ac yn rhwym, trwy rād Duw, i amryw borthladdoedd;
 Lle mae aml fasnachwr yn ddyfal yn tremio,
 A'i galon gan ofn a gobeithion yn curo;

Lle mae aml i wraig yn dysgwyl ei phriod,
 Ac na fyn ddyddanwch nes iddo ef ddyfod ;
 Lle mae aml hogyn bach yn siarad yn serchog
 Am ei dad sy ar led ar yr eigion mawr tònog,
 Ac yn dysgwyl bob dydd ei wel'd yn dod adrau,
 A chael ganddo o bell ryw fyrdd o deganau ;
 Lle mae aml eneth wen hiraethus ei chalon
 Yn gweled y dyddiau a'r oriau yn hirion.
 Ond yr olwg ddiweddaf ar dad y bächgenyn,
 Fe allai, oedd hòno a gaed arno yn cychwyn ;
 A'r eneth wen, cariad y llencyn mwyn glandeg,
 Ni wel hithau, hwyrach, mo hono byth chwaneq !
 O herwydd, O fôr ! pa faint o ystormydd,
 Sy'n llechu tan blygion dy dônau di beunydd,
 I ymuno â'r mawrwynt bryd bynag y cyfyd,
 I wneyd yspail o eiddo, a dinystr ar fywyd ?
 Ac ymha sawl un o'th ogofau ofnadwy,
 Y llettywyd marwolaeth pan ddeuai ar dramwy ?
 Eisteddai i lawr yn ystlys yr ogof
 I aros yr awr nas gollyngir yn anghof ;
 A threuliech yr adeg dan felus ymgomio
 Am ddynion yn boddi, am longau yn suddo :
 Efe 'n cael ei wala o werthfawr fywydau,
 A thithau y cyrff, yr arian, a'r perlau.
 A thros ba sawl mynwes mae 'th dônau yn treiglo
 Fu unwaith gan gariad angerddol yn curo ?
 O tan dy lās dôn mae priod y weddw,
 A thad y plant bach yn gorwedd yn farw ;
 Ni chânt yr hyfrydwch pan dyfont i fynu
 O ymweled â'i feddrod ac arno alaru.
 A'r llanc oedd a'i fwriad pan adref y deuai
 Ar briodi y feinir mor gywir a garai,
 Dy dôn sydd yn nofio yn falch a chwyddedig,
 Yn ol ac ymlaen dros ei fynwes siomedig.
 A hi a adawyd ar dir i alaru,—
 Mawr oedd ei chystudd, daeth diwrnod ei ohladdu
 Yn ebrwydd, a rhoddyd hi i orwedd i aros
 I feirw o'r ddaear a moroedd ymddangos ;
 A'r ywen ddifrifol estynai ei chysgod
 Fel o gydymdeimlad yn awr tros ei beddrod.
 Af ymaith, O fôr ! nis gallaf dy garu,
 Er dy fod beunydd yn gwneyd i mi synu ;
 Er mai gwyh genyf weled dy dônau brigwynion,
 Yn rhuthro yn erbyn y creigiau yn ddigllon—
 Er mai swynol i'm clust yw dy uthrol ruadau,
 A gyfyd o'm mewn ryw oruchel syniadau—
 Er mai hoff genyf weled bryd arall dy wyneb,
 Yn llyfn ac yn dawel heb arwydd trychineb—
 Ni fynwn er unpeth, er maint yw fy nhrallod,
 Tan blygion dy dônau gael gwneuthur fy meddrod.

CANIADAU MAES Y PLWM.

DYNA yw teitl cyfrol ddestlus a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys "Gweithiau Barddonol y diweddar Mr. Edward Jones, Maes y Plwm." Ceir yma, am y tro cyntaf erioed, fel y dywed y Cyhoeddwr, "argraffiad cyflawn ac unfurf o'i holl waith: ei Emynau, ei Garolau, ei Ganeuon ar wahanol destunau, ei Englynion, ei Farwnadau, a'i Emynau Claddedig-aethol, oll wedi eu cyfleu ynghyd gyda eu gilydd." Gwnaed yn hyn wasanaeth i'r wlad, ac yr ydym yn hyderu y cydnabyddir y Cyhoeddwr mewn diolchgarwch ymarferol am ei lafur. Gyda y cyfryw argraffiad, dylesid, pa fodd bynag, roddi bywgraffiad byr o'r awdwr; ac y mae y llyfr, o herwydd y diffyg o hyn, yn ymddangos i ni yn anghyflawn. Yr oedd cofiant bychan am dano wedi ei roddi ynglŷn â'r gweddill o'i ganiadau a gyhoeddwyd gan ei feibion yn y flwyddyn 1839; a gallasai hwnw roddi help tuag at gyfansoddi bywgraffiad priodol am dano. Er fod "Maes-y-plwm" wedi dyfod yn enw hysbys yn Nghymru mewn cysylltiad â hymnau a chaniadau Edward Jones, nid oes ond ychydig iawn, heblaw y rhai hyny sydd yn byw yn nghymydogoeth Dinbych, a yddant ymha le y mae y "Maes" hwnw, na pha un ai anaethdŷ ai pentref ydyw. Ac y mae pawb sydd yn cael blâs ar unrhyw gyfansoddiad llênnyddol, yn hoffi gwybod rhywbeth a rhywfaint am yr awdwr, ac yn enwedig am fardd neu brydydd, gan fod ei hanes, yn gyffredin, yn agoriad i mewn i ysbryd llawer o'i gyfansoddiadau.

Y mae Edward Jones wedi marw er ys dros ugain mlynedd bellach, ac yr oedd efe y pryd hyny yn agos i 76 mlwydd oed. Daethom yn gydnabyddus â'r henadur parchus yn ei flynyddoedd diweddaf, a chawsom ef yn "ŵr dysyml," a thra chyfeillgar. Hen ŵr teneu, heinif, heb fod yn dâl nac yn fyr o faint, yn meddu llygaid bychain, craff, dysglaer, ac eto o ymddangosiad gwylaidd ac ofnus, yn lled ddystaw nes y tynch chwi arno, ond yn rhydd iawn gyda ei gyfeillion mynwesol,—un felly oedd caniedydd Maes-y-plwm. Yr oedd yn hawdd gweled ei fod wedi ei drwytho mewn crefydd brofiadol; a rhwydd y gwnai bennill er amlygu ansawdd ei deimlad crïstionogol. Yr oedd ynddo duedd, meddir, at brydyddu er pan yn fachgen chwech neu saith oed; byddai y pryd hyny yn gwneyd llinellau prydyddol i goffâu enwau a chynneddfau ychen ei dad pan yn eu gyru wrth aredig. Er yn ieuanc, yr oedd yn lled gyfeillgar â Thomas Edwards, o'r Nant—Twm o'r Nant, fel ei gelwid yn fwyaf cyffredin; ac yr oedd hyny yn achlysur i'w reddfu yn fwy mewn prydyddiaeth. Bu yn ei flynyddau boreuaf yn dechreu troi ffwrth ei awen at wagedd ac oferedd, yn ol arfer y rhan fwyaf a elwid yn feirdd yn y dyddiau hyny; ond, trwy drugaredd y Goruchaf, ennillwyd ei feddwl at grefydd yr efengyl, pan nad oedd efe eto ond gŵr ieuanc; ac o hyny allan efe a gysegrodd ei athrylith farddonol yn llwyr at wasanaeth crefydd a rhinwedd. Rhai o'i gyfeillion crefyddol, ar ddechreuad ei broffes, a'i hannogasant i roddi heibio i astudio mesurau caethion, gan y byddai hyny, meddent hwy, yn niwed i'w ysbryd

ef ei hun, ac heb fod mor fuddiol i eraill. Pa un ai cywir ai anghywir y syniad hwn, nis gwyddom ni, neu o leiaf ni ddywedwn os gwyddom; ond pa fodd bynag, gwrandawodd Edward Jones ar y cyngor; gadawodd lonydd i'r "pedwar mesur ar hugain," a chanodd ar fesurau rhydd a chyffredin, er fod ei bennillion gan mwyaf mor glymgar a chyseinol â dim a geir yn y caeth-fesurau. Mae genym yn wir ryw dair tudalen o "Englynion, &c." yn y llyfr sydd ger ein bron; ond buasai yn well genym pe gadawsid allan y rhai hyn; canys y maent yn dangos ar unwaith fod gwneyd yr hyn a elwir yn "englyn" yn waith anghynefin iawn i'r awdwr; maent yn rhyw ddarnau lled glogyrnog, ac yn dangos anwybodaeth neu anystyriaeth o'r "rheolau" sydd i'r beirdd caethion yn gyfraith ddiglyfnewid y Mediaid a'r Persiaid.

Y cyfansoddiad cyntaf o'i eiddo a ymddangosodd mewn argraff, tybygid, ydoedd ei garol ar yr hen fesur "Difyrwrch Gwyr y Gogledd," yr hwn a gyhoeddwyd yn yr argraffiad cyntaf o'r "Grawnsypiau Canaan," gan yr hybarch Robert Jones, Rhos lân, ac sydd yn dechreu gyda y llinellau—

"Clyweh lais ac uchel lef,
Tôn telynorion nef,
I'r baban byw,
Oen Duw pan anwyd Ef!"

Yr oedd Carolau Nadolig yn uchel iawn eu bri yn yr amseroedd hyny; ond hen brydyddion meddwon fyddai awdwyr y rhan fwyaf o'r cyfryw, ac nid y dduwinyddiaeth oreu a geid ymhob un o honynt; ac am hyny byddent yn annerbyniol ymysg y crefyddwyr. Ond pan ddaeth carol allan yn gysylltiedig â'r Casgliad o Hymnau a gymeradwyid gan Gymdeithasfa y Methodistiaid yn Ngogledd Cymru, yr oedd hwn, wrth gwrs, yn cael ei groesawu gan y Methodistiaid yn gyffredinol. Nid oedd enw yr awdwr wrth y carol hwn; ond er fod yr awduriaeth yn anhysbys i'r wlad yn gyffredin, deallid yn ebrwydd fod y cyfansoddydd, pwy bynag ydoedd, yn feistr ar gynghanedd, a bod ei waith fel prydyddiaeth yn gymhwys i'w gystadlu â charolau y beirdd Thomas Edwards, Jonathan Hughes, John Thomas, i'e yn wir yn tra rhagori o ran purdeb cyfansoddiad ar yr eiddynt hwy, ac felly yn enwedig gyda golwg ar y meddyliau a'r teimladau efengylaidd a gynnwysid ynddo. Dysgid a chenid y carol hwn gan ieuencyd crefyddol trwy yr holl wlad; nid yn unig yn y Gogledd, ond yn y Deheudir hefyd. Y diweddar Barch. James Hughes, Llundain (Iago Trichrug), mewn cyfarchiad at Edward Jones, ychydig flynyddoedd cyn ei farwolaeth, a ddywed,

"Dy gân—'Clyweh lais ac uchel lef'—
Sydd orchest awen bur o'r nef;
Myfi a'i cenais lawer gwaith
Yn nechre fy nghrefyddol daith.

Ac wrth ei chanu ambell dro,
Mi welais orfoleddu, do;
Hen wragedd bro Llangeitho gu
A wylent,—diau hyn a fu."

Yr oedd yr hen seraph Christmas Evans, yn gyfarwydd iawn yn y carol hwn; a mynych y bu wrth bregethu, gyda ei waedd dreiddiol, yn adrodd darnau dewisedig o hono, i egluro neu yru adref ryw ddrychfeddwl grymus, nes trydanu

yn berffaith ei holl wrandawyr. Cofir yn neillduol am dano yn dyfynu y llinellau canlynol yn ei ddull digyffelyb ei hun :—

“Pan ddaeth Eneiniog doeth y ne’
 I’r groth, daeth Sinai gydag E,
 I wel’ d a ddiangai ’n Frynwr
 Rhag llwgr yn ein lle ;
 Ond Iesu ein cadarn D’wysog ou,
 Wrth ymladd brwydr yn y bru,
 Aeth dan ein pechod gwreiddiol
 Er gwaetha’ r diafol du.”

“Daeth perlan ’r nef yn awr
 Mewn blwch o lwch i lawr ;
 O fewn i hwn
 Ca’dd myrddiwn eiddo mawr ;
 Pob bendith fwya’ i budd,
 Er rhoddi ’r caeth yn rhydd,
 Anfonai ’r Tad
 Dan gauad hwn yn gudd :
 Ond wrth ei guro a’i ddryllio ’n ddrud,
 Ei werthfawr berlau ddaeth i’r byd,
 I gyfoethogi tlodion,
 Oedd ddyinion meirwon mud.”

“Fe dorodd T’wysog hedd
 Holl glôau a barau ’r bedd,
 I’r nefol had
 Fyn’ d adre’ i wlad y wledd ;
 Ond uffern boethaidd, ffaidd ffau,
 Drwy ddirfawr gur, a ddarfu gau,
 Gan gario fry’ r agoriad ;
 Mae ’r rhwymiad yn parhâu.”

Yn y flwyddyn 1810, ac felly er ys yn agos i hanner canrif bellach, efe a gyhoeddodd lyfryn o’i gyfansoddiadau, yr hwn a dderbyniwyd gan ei gydwladwyr gyda pharodrwydd mawr, a chenid lliaws o’i bennillion yn y cynulleidfaoedd gydag ysbrydiaeth hyfryd. Ymhen tua deng mlynedd ar ol hyny, cyhoeddodd lyfryn arall, yr hwn a elwid ganddo yr ail ran o’i emynau a’i ganiadau. Cafodd ei lyfr cyntaf hefyd ail argraffiad. Ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd cyfansoddiadau chwanebol o’i waith, fel y nodwyd eisoes, gan ei feibion, sef, y Parch. John Jones, Runcorn, gynt o Ruthyn, a’r diweddar Barch. Daniel Jones, Cilcen, yr hwn a fu farw yn Genadwr yn Mryniau Cassia, yn yr India Ddwyreiniol. Bellach, dyma y cyfan wedi eu crynhöi ynghyd yn un llyfr, a’u trefnu mewn modd hylaw a rheolaidd.

Nid rhaid i ni ddywedyd fod llawer o’r pennillion yn y llyfr hwn wedi anfarwoli enw eu hawdwr ; ac y mae yn fwy na thebyg yr arferir hwy mewn caniadau llafar “tra byddo Cymru, Cymro, a Chymraeg.” Dyna yr emyn sydd yn dechre gyda y pennill,

“Llon’ d y nefoedd, llon’ d y byd,
 Llon’ d uffern hefyd yw, &c.”

Ac emyn “Y Cyfammod Gras,”

“Cyfammod hedd, cyfammod cadarn Daw,
 Ni syf o’i le, nid fe a nage yw, &c.”

A’r pennillion tlysion, yn dechre gyda y llinellau,—

"Cyflawnwyd y gyfraith i gyd,"
 "Un teilwng wyt Ti i'th foli gan fyrdd,"
 "Mi fum wrth borth uffern yn enro,"
 "Mae gan fy Nhad lywodraeth,"
 "Wele 'n chwysu 'r dafnau gwaedlyd,"
 "Clyw, f' enaid llwythog euog i,"
 "Os pery 'r dydd yn boeth."

Ond rhaid i ni ymattal, onide gallasem gyfeirio at ugeiniau o'u cyffelyb. Gymaint a ganwyd mewn angladdau pregethwyr a gwŷr cyhoeddus gyda chrefydd, ar yr emyn,

"Mae 'n brawd wedi gorphen ei daith,
 Ei lafur a'i waith yr un wedd, &c."

Fel hyn y Cymro dirodres, mewn annedd neillduedig yn Nyffryn Clwyd, a gyrhaeddodd wir enwogrwydd; o herwydd y mae wedi gadael ar ei ol gyfansoddiadau a fyddant yn etifeddiaeth-barhâu i eglwys Crist. Anrhydeddusach na Homer a Virgil mewn gwirionedd yw awdwr y leiaf neu y ddistadlaf o "ganiadau Sion."

Un arbenigrwydd ar bennillion Edward Jones yw y gynghanedd sydd yn uno agos yr holl eiriau a'r bânau ymhob un o honynt. Mae y cyhydeddau, yn draws, yn wastad, yn gyrch, ac felly yn y blaen, i'w cael yn fynych yn gymhlethedig ynddynt. Rhaid fod cyfansoddiadau Salmydd Maes-y-plwm yn archwaethus i awdwr medrus y Rhagdraeth i "Dafol y Beirdd," er mor eiddigus y mae y gŵr hwnw yn edrych ar fesur rhydd. "Y gynghanedd," medd efe, "yw cyfeilles hoffaf y bardd, yr hon a rymusa ei awen, ac a oreura ei ysgrifen; a chwery ei thânau swynol yn ei glust, nes ennyn ei fynwes yn fflam o athrylith. Gwir mai y synwyr yw grym y gerdd, ond y gynghanedd yw y llinyn arian sydd yn dal y cymalau ynghyd; y meddyliau yw y blodau, ond y gynghanedd yw yr ysnoden sydd yn eu boglymu; yn y drychfeddyliau y mae y gemau, ond y gynghanedd yw yr edetyn aur sydd yn eu cysylltu, eu cymblethu, a'u gwau yn addurnwaith cyfroddeg."

Nid hawdd cael dim yn fwy cynghaneddol na'r pennillion sydd yn canlyn:—

"Mab uniganedig, un odiaeth,
 Un maint a naturiaeth a'r Tad;
 Un oedran, un anian, un enw,
 Un ddelw hardd loew, un wlad;
 Un waith, ac un iaith, un yn ethol,
 Un wyllys i'w bobol gael byw,
 Un nerth, ac un werth, ac un wyrthiau,
 Un eiriau, un deddfau, un Duw."

"Ar fynydd Golgotha cilgwithiwyd,
 Cadwynwyd, fe ddrylliwyd y ddraig;
 Rhy weiniaid oedd uffern, a'i hoffer,
 I ateb i gryfder y Graig:
 Ca'dd pechod ei osod yn isaf,
 Condemniwyd yn gaethaf i gyd;
 Mae 'r amser bob mynyd yn nesu.
 I'w hollol ddybenu o'r byd."

"Da iawn i ni yw Duw y nef,
 Rhaid addef;—moliant iddo!"

Hwn oll i ni sy 'n well na neb,
Hawdd ateb heddyw eto."

"O f' ymfydrwydd! pam na fedraf
Garu'r mwyaſ ymhob man,
Ei wir ddeisyfu, a'i ddewis hefyd
Yn bennu' gwynfyd f' enaid gwaa,
A rhoi fy hunan eto hyny
I'w was'naethu is y nef,
Nes myn'd i rodio yn Mharadwys,
Gwedi gorphwys, gydag Ef!"

"Halelulia! wele Lywydd
Ini a roddwyd ar foreuddydd;
Y Gŵr a luniodd y goleuni
Ar wedd ddynol newydd eni."

"Nid da rhy o ddim," medd y ddiareb. Bai ein hen gyfaill o Faes-y-plwm, os bai hefyd, ydoedd dilyn y gynghanedd yn rhy fanwl a dichlyn. Er ei fod, ar y cyfan, yn gallu cydgerdded â hi yn ddiffin a hyfryd, rhaid addef ei fod weithiau yn aberthu iaith, os nid synwyr, i fyned ar ei hôl. Ond bai y rhan fwyaf o emyuwyr, se ddichon, yw cyfansoddi yn rhy benrhydd, heb fod, mewn amryw fesurau, ddim yn cyfodli ganddynt ond y gair diweddaf yn yr ail a'r bedwaredd linell. Hwyrach y bu arch-emynydd Pant-y-celyn yn achlysur i arwain y llwyth lliosog o wneuthurwyr pennillion i'r cyttir gwyllt yn hytrach nag i ardd gaudyd y gynghanedd. Yr oedd ei awen ef yn rhy fywiog a diamynedd i gymeryd ei gwisgo yn harnais cynghanedd gywrain. Ei feddyliau a lifent yn ffrydiau didôr, heb eu cyfyngu gan ddim ond torlânau y mesur a muriau y cydodliad. Ac nid oedd yr odliad hwnw i'w gael ond yn y sillau olaf mewn dau air yn ngwahanol linellau; ac ni cheid ef yno bob amser, canys mynych y byddai raid i *oen* a *sôn*, *grâs* a *maes*, a'r cyffelyb, ateb i'w gilydd; ac os dywedir y gallai y sillgoll lofruddiol eu gorfodi hwy i debygu y naill i'r llall, dywedwn ninnau fod yn anmbosibl i'w gormes hi gyfatebu *gwaa* a *llawenkân*, &c. Eithr ymherawdwr unbenaethol emyniaeth gysegredig Cymru oedd "yr hen Williams," ac yr oedd ei sawredd yn ei drwyddedu i wneyd fel y mynai; yr oedd gwedd ac ystum brenin arno ef yn y wisg salwaf. Ond daeth lliaws o gyfansoddwyr hymnau ar ei ol, y rhai a ddilynasant ei siampl mewn esgeuluso cynghanedd, tra yr oeddent yn ymddifaid o'i athrylith ef i wneyd i fyny am y diffyg o hyny. Nid ydym yn gwneyd y mynegiad hwn fel rheol ddiethriadol; ond y gwir yw, mai y demtasiwn i'r rhan fwyaf o'n pennillwyr oedd gwneuthur eu cyfansoddiadau fel rhaffau gwair heb gordeddiad na chwlmw arnynt.

Gellir nodi, hefyd, fod Edward Jones yn gyfansoddydd tra gwreiddiol a chysefin; nid yw yn efelychu neb, nac yn benthyca ymadroddion neb, ond yn ymgynnal yn gwbl arno ei hun. Y maes yn hawdd adwaen ei waith ymhob man lle ei gwelir, pe na byddai ond am glec a thinc seiniol ei gynghanedd, fel y crybwyllwyd. Mae delw hollol Gymteig ar ei gyfansoddiadau oll; ac yr ydym yn credu nad astudiodd efe nemawr, os dim, ar waith yr emynwyr a'r beirdd Seasonig, er ei fod wedi dysgu Saesoneg cyffredin yn lled dda. Nid cam na dianrhydedd ar Williams, Pant-y-celyn, yw dywedyd fod ymysg ei hymnau ef efelychiadau hapus o Watts ac Young, a bod yn ei "Olgw ar Deyrnas Crist" alleiriadau lawer o ryddiaith barddonol Harvey, sydd yn ddian yn rhagori ar yr *original*. Mae agos holl

bennillion tlyision Ieuan Glân Geirionydd yn gyfieithiadau neu efelychiadau o'r Saesoneg. Ond mae yn ymddangos nad oedd dim masnach rhwng y prydydd o Faes-y-plwm â'r marchnadyddion llênnyddol o'r tu hwnt i Ddyfrdwy na Hafren; yr oedd defnyddiau yn gystal a gwneuthuriad ei nwyddau ef yn gwbl gartrefol. Tra y mae rhai yn darllen heb feddwl, meddwl heb ddarllen a wna'i efe cyn cyfansoddi hymn neu gân. Yr oedd hyn, mae yn wir, yn peri fod llawer o unfurfiaeth yn materion a dull ei gyfansoddiadau; ond, fel yr oedd, efe ei hunan ydoedd, heb achos iddo ddiolch i unflyn am ei ragoriaethau, na beio undyn am ei ddiffygion. Brethyn cartref sydd ganddo, o ddefnydd da, ac yn waith da; er nad yw yn edrych yn wych a dillynaidd fel brethynau diweddar Lloegr ac Yscotland, y mae, serch hyny, yn wla'n pur, heb ddim edef gotwm, fel y mae yn fynych gyda hwy, wedi ei gydweu âg ef. Nid ydym yn meddwl fod ein hawdwr wedi ei hynodi â darfelydd bywiog, a dychymyg ffrwythlawn; ond yr oedd yn perchen deall cryf, barn gywir, chwaeth burach na'r cyffredin, llygad i weled a chalon i deimlo y mawr a'r prydferth. Yr ydym yn ei gael yn dra dedwydd yn fynych yn ei ddefnyddiad o hanes Ysgrythyrol, fel cymhariaeth i egluro rhyw wirionedd neu brofiad crefyddol, megys y rhai canlynol:—

“Yr ydwyf yma yn amal,
Mewn ardal sâl a sych,
Fel Hagar heb olygon
I weld y fynnon wych,
A hithau yn fy ymyl
Drwy'r holl efengyl fawr,
A'i dyfroedd ataf eto
Yn rhwydd ddylifo i lawr.”

“Er cael y gwas a'r ffon ynghyd,
Deddf ac efengyl hedd o hyd,
Meirw a mŷd fydd mawr a mân;
Oni ddaw'r Prophwyd mawr i'n mysg,
A'i awdurdodol ddwyfol ddyg,
Fe gwag y byd tan lysg yn lân.”

“Mae Esther mewn trallod; ryw ddiwrnod hi ddaw
I dd'weyd bob yn dipyn i'r Brenin ei brow;
Hi egyr ei mynwes yn gynhes i'w Gŵr,
Gan ddeisyf ei bywyd—iaith hyfryd i'w Thŵr.”

Pan draetho'r frenines ei neges yn iawn,
Ei thrallod a'i ohystudd i'w Llywydd yn llawn,
Fe ddadleu ei Phriod gwych, hynod, ei chwŷn,
Gan ddisgyn o bwrpas i'w deyrnas i'w dwyn.”

Mae rhywbeth tra tharawgar, dybygem ni, yn y pennillion canlynol ar y Cnawdoliad:—

“Ddw, trwy glustiau pridd, yn gwrando
Llais y gwan a'r llesg pan gwyno;
A thafod pridd yn addaw'n fywiog
Esmwytho'n dirion y blinderog.

Duw yn edrych trwy ffenestri
Llygaid dynol, llawn daioni;
Pob rhan ganddo megys ninnau;
O! dyna ddiwyll ryfeddodau.

Mab Duw, yn gydradd â'r blaidd uchaf,
 Mab dyn, yn d'wysog i'r blaidd isaf:
 Un mor gyfawned â'r Gofynwr;
 Un mor dlawd â fi'r dyledwr."

Nis gallwn ar hyn o bryd sylwi ar ei Ganeuon cyffredinol, oddieithr cyfeirio yn unig at y Gân ar "Ffolineb Swyngyfaredd a phob Ofergoelion eraill." Hon oedd y Gân a ennillodd y wobr ar y testun yn Eisteddfod y Trallwm yn 1824. Yr oedd y testun uchod wedi ei roddi i gyfansoddi arno ar fesur rhydd. Clywsom nad oedd Edward Jones wedi meddwl ymgystadlu, ac mai ei gysaill (ieuanc y pryd hyny) Caledfryn, trwy gryn drafferth, a lwyddodd i'w berswadio i ymgymeryd â'r testun, ac wedi hyny a anfonodd ei gyfansoddiad, drosto, i law y beirniad. Yr oedd y bardd cadeiriol, Robert Davies, o Nantglyn, yn un o'r cystadlwyr; ac y mae ei gân ef ar y testun yn un dda a chymhwys. Ond gwaith ei hen gymydog gostyngedig o Faes-y-plwm, yr hwn oedd y pryd hyny tua thair a thriugain oed, a farnwyd yn fuddugol. Heblaw priodoldeb y syniadau, y mae "nyddiad y cynghaneddion" yn y gân hon, yn orchestol dros ben. Mewn cyfeiriad at F'fynnon Elian, dywed,—

"Ac eraill at Elian y gwyrant,
 Offrymant, ond tybiant gael tâl;
 Am gyfoeth yn boeth hwy obeithiant,
 Rhagdalant, aberthant i'w Baal;
 Fel pe bae gan Elian gynnalïaeth
 Tu cefn i Raglunïaeth, w'r glew,
 I'w rhoi am addolwyr meddalion,
 Trwy 'i F'fynnon, i'w danfon yn dew."

Yn ei gyfeiriadau at ddaroganau a wneid oddiar weled a chlywed creaduriaid diniwed, ceir ef yn feistr ar ei waith. Ond yn lle dyfynu ychwaneg yn y TRAEHODYDD, yr ydym yn cymbell y darlennydd i wneuthur defnydd o'r llyfr ei hun. Pob Cymro sydd yn hoff o'r heu iaith, a gaiff wrth efrydu y gyfrol hon ei foddâu yn fawr yn yr arddangosiadau sydd yma o'i hystwythder a'i grymusder; a phob un sydd yn perchen meddwl crefyddol, nis gall lai na chael blâs arni, a lles drwyddi, canys, fel y dywedir yn y Rhagymadrodd, "mysfyrdodau dyn duwiol yn ngwirioneddau yr efengyl, a dadganiad o'i brofiadau a'i deimladau yn ystod ei yrfa grefyddol, ydyw ei emynau oll."

Crem ar Fyd ac Eglwys.

PAN yr oeddem yn cyhoeddi y rhifyn diweddar o'r TRAEHODYDD, yr oedd yr etholiad cyffredinol yn y deyrnas hon wrth y drws; ac erbyn hyn, y mae amgylchiadau a chanlyniadau yr etholiad wedi myned yn hen ystori i'n darllenwyr. Ymddengys fod Arglwydd Palmerston, fel prif weinidog, yn ennillwr mawr ar yr etholiad; y mae efe wedi cael mwyafrif lliosocach 'w bleidio yn y Senedd newydd nag a gafodd un weinyddiaeth mewn

amserau diweddar. Yr oedd Arglwydd John Russell, ar derfyn y Senedd ddiweddar, yn darlunio ei dattodiad fel *penal measure*; a gwelwyd mai gwir oedd ei air. Troes yr etholiad allan yn "fesur cosbedigaethol" i'r pleidiau a ddygasant i mewn y cynnygiad gwrthwynebus i'r Weinyddiaeth yn niwedd y Senedd o'r blaen; y Derbyiaid a wanychwyd, a'r Cobdeniaid a'r Peeliaid a anrheithiwyd. Oddentu wyth ugain a deg o'r hen aelodau a gollasant neu a adawsant eu lleoedd seneddol, ac yn eu mysg yr oedd amryw a enillasant iddynt eu hunain radd uchel fel cynnrychiolwyr y bobl. Chwith gan laweroedd ydyw meddwl am Dŷ y Cyffredin heb Cobden, Bright, Miall, Gibson, Clay, Fox, Layard, Pellatt, Heyworth, ac eraill a allem enwi, o'i fewn. Ond yr ydym yn hyderu y gwelir hwy eto cyn hir, yn enwedig y ddau gyntaf a enwasom, yn cael eu galw i ailymaflyd yn y gwaith seneddol, ac y ceir fod eu seibiant presennol wedi adfywio eu cyrff a symblu eu meddyliau, tuag at wasanaethu eu gwlad a'r byd yn well nag erioed. Yn lle Llefarydd diweddar Tŷ y Cyffredin, Mr. Lefevre, yr hwn a ganmolid gan bawb, ac sydd yn awr wedi ei ddyrchafu i Dŷ yr Arglwyddi, etholwyd Mr. Evelyn Denison, brawd yn nghyfraith Duc presennol Portland, a dyn da a phwylllog, "meddent hwy," yn llefarydd, heb fod neb yn gwrthwynebu y penodiad. Yr oedd y rhan fwyaf o'r aelodau, cyn ac wrth gael eu dewis gan eu hetholwyr, yn addef fod mawr anghen am ryw drefniad newydd o Ddiwygiad Seneddol, ac yn addaw pleidiomesuri'r perwyl pan ddydig ef ymlaen; ond y mae Arglwydd Palmerston wedi dywedyd nas gellir dwyn i mewn yn y flwyddyn hon un mesur i newid na helaethu y cynnrychioliad, ac y gwna y Llywodraeth yn y gwyliau dyfodol, gymeryd y mater hwn dan sylw difrifol, er mwyn dwyn i fewn yn gynnar yn y flwyddyn nesaf drefniad a fydd, fel yr hydera, yn gymeradwy gan y wlad. Gallasem ni dybied fod pum mlynedd ar hugain, sef er y pryd y pasiwyd y *Reform Bill*, yn ddigon o amser i Arglwydd Palmerston a'i gyd-weinidogion ystyried, pe mynasent, ddiffygion y gyfraith hōno. Ond, wele, rhaid aros blwyddyn eto am y mesur da dymunol. Y mae rheithsgrif er rhyddfreniad yr Iuddewon fel aelodau seneddol, wedi ei dwyn i mewn gan y Prif-weinidog, ac y mae y Cyffredinwyr wedi ei phleidio gyda mwyafrif helaeth, er gwaethaf gwrthwynebiad Syr Frederick Thesiger a'i gyfeillion, dilynwyr Iarll Derby. Enciliodd Syr John Pakington, a gyfrifid gyda y blaenaf yn mhlaid Derby, o fysg ei hen gymdeithion eleni, ac, er eu siom a'u gofid, efe a ddadleuodd am i fab Abraham yn gystal a'r Cenedlddyn, yr Iuddew fel y Cristion, gael drws agored, os bydd yn dewis ac os caiff ei ddewis, i Senedd Prydain Fawr. Ond nid oes un diogelwch am lwyddiant y rheithsgrif yn Nhŷ yr Arglwyddi y flwyddyn hon eto. Er fod arian yr Iuddewon yn wasanaethgar iawn i lawer o'n Harglwyddi, er hyny y mae llygaid Toriaidd y rhan fwyaf o honynt yn edrych yn eiddigus ar ryddfreniad yr hen genedl, ac y maent yn parhau i siarad am lywodraeth Brotestanaidd, a senedd Gristionogol, geiriau sydd yn eu geneuau yn arwyddo cymaint, fel y dywedai Macaulay os ydym yn iawn gofio, â phe sonid am forwriaeth Brotestanaidd, neu amaethyddiaeth Gristionogol. Y mae Palmerston hefyd wedi addaw gwneuthur rhywbeth yn yr eisteddiad sydd yn awr gyda golwg ar symud y Dreth-Eglwys. Gobeithiwn fod yn ei fwriad wneyd diddymiad diammodol arni, onide ni cheiff ei gynllun ond derbyniad oeraidd gan y wlad. Ni ddysgwylir, pa fodd bynag, y gwneir yn y Senedd eleni ond ychydig o waith, er y bwrir allan ynddi amler o eiriau.

Ganwyd nawfed plentyn, a phummed merch, ein Brenines ragoraf, yn mis Ebrill diweddf. Cymraes o Gonwy, a ddewiswyd yn fammaeth y tro hwn. Mae y Dywysoges Freninol, cyntafanedig ei Mawrhydi, wedi ei dyweddio â'r Tywysog Frederick William, nai Brenin Prwsia, ac etifedd ei goron. Ac y mae ein Senedd wedi cydsynio â chais y Gweinidogion i roddi gwaddol anrhydeddus iddi. Gan fod Siôn ben Tarw mor falch o'i mham, nis gallasai beidio rhoddi pwrs llawn i'w merch ar ei hymadawiad â'i theulu, ei phobl, a'i gwlad; er ei fod, yn ol ei arfer, yn cymeryd arno hanner grwgnach wrth ei estyn iddi.

Y mae Arglwydd Palmerston yn parhau i benodi clerigwyr efengylaidd i lenwi yr esgobaethau a ddelo yn weigion. Mae esgob newydd Norwich, yn un o gyffelyb feddwl ac ysbryd i esgobion Llundain, Carlisle, a Ripon. Fel y gellid dysgwyl, mae y blaid sydd mor ymdrechgar yn planu athrawiaethau a seremonïau Pabaidd yn Eglwys Loegr, yn ffroni yn aruthr o herwydd y penodiadau hyn, ac yn achwyn yn gyhoeddus am fod y torthau a'r pysgod mawrion yn disgyn yn unig i ddwyllaw yn dosbarth allan o'r pleidiau amryfath sydd yn gwneyd "Yr Eglwys" i fyny. Ond y mae cyfeillion goreu y sefydliad yn gweled fod y Prifweinidog yn cymeryd y llwybr goreu, os nad yr unig ffordd, i'w dal i fyny yn effeithiol. Mae yr eglwyswyr efengylaidd yn awr yn galonog iawn, ac yn ymroi i wneuthur daioni ymhob modd, heb gymeryd eu llyffetheirio gan hen ffurfiau a defodau. Mae neuadd iawr Exeter, yn Llundain, yn cael ei defnyddio ganddynt bob nos Sabbath i gadw oedfaon i'r werin esgeulus o foddion gras; ac y mae y pregethwyr goreu yn holl Eglwys Loegr yn dyfod yno i bregethu, megys N^o Neile, Stowell, Close, esgob Carlisle, ac esgob Ripon, &c.; ac y mae yr ystafell eang yn rhy fechan i gynnwys y dyrfa sydd yn ymgasglu ynghyd. Arglwydd Dungannon, fel hen Dori gonest, ac ucheleglwsyr zelog, a alwodd sylw Tŷ yr Arglwyddi at y fath ryfgy ac afreolaeth: esgobion, deoniaid, a chlerigwyr urddasol eraill yn pregethu mewn lle anghysegregated — yn yr un fan ag y bu Spurgeon yn pregethu — yn y lle nodedig y bydd Ymneillduwyr, fel Eglwyswyr, yn cael areithio yn ddiwahardd. Gwareder ni! dyma benrhyddid mewn gwirionedd! Ond yr oedd Esgob Llundain, ac Archesgob Caergaint, yn cefnogi yn ddigywilydd y fath newydd-deb aneglwysyddol; ac nid oes gan Dungannon a'i frodyr, druan, ond edrych yn "filain ac anfelus" ar y cyfryw anghanoneiddiuch.

Yn Nghymru, mael liaws yr eglwyswyr yn cynhyrfu, ac nid heb achos, am gael Cymry yn esgobion, ac nid Saeson mwych; ac y mae y gwahanol enwadau Ymneillduol yn ymddangos yn fyw, ac am fyw. Mae y Methodistiaid Calfinaidd yn Ngogledd Cymru wedi dechreu casglu er ys ychydig fisoedd, at sicrhau cronfa o £20,000 at gynnalïaeth eu Hathrofa; ac y maent, trwy swyddogaeth fedrus y Parch. Edward Morgan, o'r Dyffryn, wedi cael eisoes oddeutu £12,000 o addewidion.

Anfonwyd Arglwydd Elgin gan ein llywodraeth i lys China, i geisio penderfynu ar delerau o heddych sicr, a thrafnidiaeth ddirwystr. Ac y mae cenadwr wedi ei anfon yno hefyd o lys Ffrainc, yr hwn a fydd yn cydweithredu â chynnyrchiolydd Lloegr. Mae llywodraeth yr Unol Daleithïau wedi nacâu yn ffurfiol gynnorthwyo Prydain a Ffrainc i agoryd China i'r byd; ond bydd ganddynt hwythau eu swyddog yn sefyll o hirbell ar arfordir China; ac os bydd rhyw fantais yn dilyn trafodaeth Lloegr a Ffrainc, ni ddysgwylir y bydd y brawd Jonathan yn anfoddlawn i gyfranogi o hono.

Nodiadau Elenyddol.

HYNON o ddigynnyrch y mae y wasg Seisonig yn parhâu, hyd yn hyn, y flwyddyn hon, mewn llyfrau newyddion a dim nodedig ynddynt, er teilyngu sylw. Mae meddwl y wlad ryw fodd, gan y naill achos neu y llall, heb ei gwbl ryddhâu oddiwyth yr ansefydlogrwydd y syrthiodd iddo yn ystod y rhyfel diweddar, a phrisiau ymborth cyffredin, a uwyddau eraill, yn parhâu mor uchel, fel y mae ein cyhoeddwyr mwyaf yn hwyrfridig i anturio llawer, oddigerth ar lyfrau cysylltiedig â thestynau yn cyd-redeg âg ysbryd y dydd. Mae lliaws o ffug-chwedlau o bob math yn dyfod allan bob mis, ac yn gwerthu yn rhagorol. Mae ambell un o'r cyfryw, megys, *It is never too late to mend*, yn arddangos gallu anghyffredin, ac o duedd fuddiol i'r sawl a'i darlenco. Ond anfynych, mewn cymbariaeth, y cyfarfyddir â llyfr yn olrhain, yn foddlonol, unrhyw ymofyniad dyrys mewn hynafiaeth, beirniadaeth, moesoldeb, neu grefydd; a phan y cyfarfyddir â'r cyfryw, odid fawr na cheir allan mai lled araf y mae yn gwerthu. Ofer fyddai ceisio dyfalu pa hyd y pery pethau fel hyn; ond er mwyn anrhydedd ein gwlad, a chynnydd ei phoblogaeth mewn nerth meddyliol a moesol, nis gallwn lai na dymuno gwled yn fuan, o fewn ein cylchoedd llênnyddol, fwy o alwad am y sylweddol yn hytrach na'r difyrus.

Un o'r llyfrau gwerthfawrocaf a gyhoeddwyd erioed i'r sawl a fynai ymgynabyddu â'r gwyddoregau naturiol, ydyw, *The Physical Atlas of Natural Phenomena*, by Alexander Keith Johnston, F.R.S.E., F.R.G.S., F.G.S. Yn y flwyddyn 1843, fe gyhoeddodd Mr. Johnston, y Daearlunenydd mawr, a elwir, *The National Atlas of Historical, Commercial, and Political Geography*. Yn hwn ychwanegid at y darlunleni lleol arferol mewn cyhoeddiadau o'r fath, amrywiol leni ar anianyddiaeth y ddaear, wedi eu cymeryd, dan eu cyd-olygiad hwy, o weithiau Dr. Berghaus o Berlin, a Dr. Kambst. Ennilodd y rhai hyn y fath gymeradwyaeth, fel, ymhen ychydig flynyddoedd, yn 1848, y dug Mr. Johnston allan Ddaearlunenydd Anianyddol mawr, na chyhoeddadid ei gyffelyb o ran maint, manylrwydd, a phrydferthwch, erioed o'r blaen. Hwnw, wedi ei ddiwygio, ei helaethu, a'i wychu, ydyw y Llenlyfr mawr sydd yn awr ger ein bron. Fe'i cyhoeddwyd mewn deuddeg o ranau, un swllt ar hugain y rhan. Mae bridd yn anhosibl rhoddi desgrifiad o hono a gyflwyno un drychfeddwl cywir am dano i'r sawl sydd yn ddyeithr i bethau o'r fath. Mae ynddo bymtheg ar hugain o leni mawrion, gyda lliaws o gerfluniau eraill, er egluro cyfansoddiad y ddaear, nodwedd creigyddol ei gwahanol wledydd, ei mynyddoedd, dyffrynoedd, afonydd, moroedd; ei llosgfynyddoedd, dosbarthiad gwres dros ei harwyneb, ysgogiadau a chyfeiriadau yr awelon, diargyniad cymharol y gwlad dros ei gwahanol wledydd, dosbarthiad llysiâu a sffrwythau o bob math dros ei harwyneb, dosbarthiad y gwahanol anifeiliaid, adar, ymlusgiaid, a physg o bob math dros ei thir a'i dyfroedd; dosbarthiad dyn arni yn ei wahanol dylwythau, cyflwr moesol a chrefyddol ei thrigolion, ansawdd iechyd ac afiechyd yn ei gwahanol wledydd, a phob ymofyniad cyffelyb, a ddichon dyn wneyd, ag y mae cyflwr

presennol gwybodaeth ar ei wahanol bynciau yn ein galluogi i'w ateb. Mae yr oll, cysylltiedig â gwahanol ranau yr un testyn, yn y Darlunlen, yn cael ei ddwyn ar unwaith ger bron llygad y darlennydd, ac yn y fath fodd ag i wneyd yn anhawdd iawn iddo beidio ei ddeall a'i gofio. Y mae traethodau helaeth a manwl ar bynciau y darlunleni, gan yr awdwr ei hunan, a chan eraill o'r gwŷr mwyaf cyfarwydd yn y deyrnas, â'r amrywiol destynau a ddygir dan sylw ynddynt, yn cyflenwi pob peth allasai fod yn eisiau er perffeithio y llyfr. Gresyn mawr fod ei bris yn ei dasfu allan o gyrhaedd cynifer ag a allasant wneyd defnydd gwerthfawr o hono. Pa bryd y bydd llyfrgell yn gysylltiedig â phob cynulleidfa y gollid gobeithio drwyddi am weled llyfr fel hwn yn gyrhaeddadwy i'r ychydig nifer ymhob cymydogaeith allai wneyd defnydd da o hono ?

Llyfr cyffelyb yn ei amcan, gyda golwg ar ddosbarth arall o'r grëadigaeth, ydyw, *Atlas of Astronomy, comprising in Eighteen Plates, a complete series of Illustrations of the Heavenly Bodies, drawn with the greatest care, from original and authentic documents.* By Alexander Keith Johnston, F.R.S.E., F.R.G.S., F.G.S., &c. Edited by J. R. Hind, F.R.A.S., &c. Mae y llyfr hwn wedi ei gyfansoddi yn fwy syml, ac yn llai treulfawr, na'r un blaenorol; ond y mae, i'r amcan oedd mewn golwg gan yr awdwr, yn gysylltiedig â'r disgrifiad gofalus a gawn ynddo o ystyr yr holl ddarlunleni, yn gyfryw ag a wasanaetha i'r aefrydydd, yn well na dim adnabyddus i ni, er dwyn ffeithiau mawr seryddiaeth ger bron ei feddwl, a gwneyd ei hegwyddorion yn hawdd eu deall ganddo.

Ni bu cymaint o sylw erioed yn cael ei dalu, yn y deyrnas hon, i'r gwledydd ysgrythyrol, ag a delir yn y dyddiau presennol. Gan gyfleusderau teithio, y mae cynifer yn ymweled â hwynt; a chynifer, ar eu dychweliad, yn cyhoeddi hanes eu teithiau, fel, oni bae fod y nifer fwyaf naill ai yn cymeryd yr un llwybr, neu heb y llygad anghenrheidiol i weled yr hyn sydd hynod neu bwysig mewn llwybr newydd, y gallem obeithio dyfod cyn hir yn hollol gydnabyddus â'r tiroedd cysegredig. Y mae rhai, pa fodd bynag, yn ymweled â hwy, ac yn cyhoeddi ffrwyth eu sylw i'r byd, ag y mae y byd yn gyfoethochach o lawer erddynt. Galwasom sylw yn ddiweddar at *Robinson's Biblical Researches in Palestine*, ac at *Stanley's Sinai and Palestine*, fel esiamplau nodedig o lyfrau felly. Fel cydymaith difyrus iddynt, ac fel addurn i unrhyw lyfrgell neu *drawing-room*, ni a ddymunem arganmol *The Holy Land, Syria, Idumea, Arabia, Egypt, and Nubia, after Lithographs, by Louis Haghe, from drawings made on the spot, by David Roberts, Esq., R.A.* Rhaid gweler y llyfr hwn eto, er cael un drychfeddwl cywir am dano. Y mae mewn chwech o gyfrolau, ac yn cynnwys dau cant a hanner o ddarluniau o'r mynyddoedd, dyffrynoedd, yr afonydd, y llynoedd, y dinasoedd, y temlau, yr adeilion, y trigolion a'u gwisgiadau—pob math o wrthdrysychau y gellir meddwl am danynt ag y cyfarfyddwyd â hwy gan Mr. Roberts ar ei daith trwy y gwledydd hyn. Mae disgrifiadau hanesyddol yn gysylltiedig â phob darlun gan Dr. Croly, neu Mr. Brockedon, er gwneyd ei ystyr yn adnabyddus i'r darlennydd. Cyhoeddwyd y gwaith hwn gyntaf mewn llëni mawrion drudfawr, yn gwerthu am ddeugain *guinea*. Y mae y darluniau, yn yr argraffiad hwn, ar raddeg lai, ond yn cyflwyno yn gwbl yr un golygfeydd; ac y mae yr holl lyfr, ymhob ystyr, wedi ei berffeithio hyd eithaf celfydddyd. Y mae wedi ei gyflwyno i'r Frenhines trwy ei gorchymyn ei hunan.

Llyfr cyfaddas er cyflenwi y diffyg am ryw beth cyffelyb, gyda golwg ar wlad arall, lawn o'r adgofion mwyaf dyddorol, ydyw, *Greece: Pictorial, Descriptive, and Historical*. By Christopher Wordsworth, D.D., *Canon of Westminster*. A new Edition, carefully revised, with a History of the Characteristics of Greek Art, Illustrated by George Scharf, Junr., Esq. Wele ni yma yn nghanol tir Groeg. Trwy y desgriadau mwyaf bywiog a chywir, a darluniau a cherfluniau aneirif bron, naturiol a phrydferth, yr ydym yn canfod y wlad, ei mynyddoedd, ei dyffrynoedd, ei hafonydd, ei dinasoedd, ei hadeiladau, ei hadfeilion, yr oll o honi, agos mor eglur ac effeithiol a phe byddem yn edrych arni â'n llygad noeth. Llyfr gwir werthfawr ydyw hwn i bawb a deimlant—a phwy all fod heb deimlo?—un dyddordeb yn nhir Groeg.

Mae y *Dictionary of Greek and Roman Geography*, Edited by William Smith, LL.D., yn awr wedi ei gwbleiddio. Y mae yn cael ei gynnwys mewn dwy gyfrol fawr, drwchus, ac er ei fod yn cael ei alw Geiriadur Ddaeryddol Groeg a Rhufain, eto y mae yn cymeryd i mewn Ddaeryddiaeth Ysgrhythol hefyd, ac yn cynnwys, yn wir, gorff cyflawn o Ddaeryddiaeth y byd yn y cynosoedd. Y mae hefyd yn Eiriadur hanesyddol yn gystal a daeryddol; ac yn rhoddi hanes y gwledydd a gynnwysir ynddo, yn yr holl hen-amseroedd, ac, yn gyffredin, yn dilyn eu hanes hyd ddymchweliad yr ymherodraeth Rufeinig orllewinol, yn y flwyddyn 476 o'n cyfrif ni. Y mae cwbleiddiad y Geiriadur hwn yn gorphen y cynllun a dorwyd allan gan Dr. Smith, a'i gydlafurwyr, er ys blynyddoedd bellach, i gael corff o ddysgeidiaeth henafol o fewn cyrhaedd yr efrydd, yn cynnwys ffrwyth yr astudiaeth fanylaf ar, a'r ymchwiliadau diweddaraf i, holl ysgrifeniadau y cynosoedd, yn gysylltiedig â phob darganfyddiad a wnaed, yn yr oesoedd diweddar, a allai wasanaethu yn y gradd lleiaf er eu deongli. Fe gyhoeddwyd, fel hyn, dri Geiriadur mawr: un ar Hynafiaethau Groeg a Rhufain, mewn un gyfrol; un arall ar Fywgraffyddiaeth a Chwedlonaeth Groeg a Rhufain, mewn tair cyfrol; a'r presennol ar Ddaeryddiaeth, yn gwneyd i fyny chwech o gyfrolau mawrion, ac yn gwerthu am tua deuddeg punt. Y maent, arnynt eu hunain, bron yn ddigon o lyfrgell ar bob peth perthynol i'r awdwyr dysgedig. Cynnorthwywyd y Golygydd yn y cyhoeddiad o honynt gan amryw o brif ddysgedigion y deyrnas; ac y mae llythyrenau cyntaf enwau yr awdwyr wrth y gwahanol erthyglau, fel ag i wneyd y darlennydd ar unwaith yn adnabyddus, ond troi i'r rhestr o'r awdwyr a roddir yn nechreu pob cyfrol, cyfansoddiad pwy a ddarllenir ganddo. Y mae yr holl waith, a'i gymeryd gyda'i gilydd, y fath nad oes, fe allai, ddim a all ymgystadlu âg ef yn yr holl fydd.

Y mae cyfrol fechan ddifyrus a thra defnyddiol wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar yn America, ond yn cael ei gwerthu hefyd yn y wlad hon, *Religious Truth, Illustrated from Science, in Addresses and Sermons on Special Occasions*. By Edward Hitchcock, D.D., LL.D., *Late President of Amherst College, and now Professor of Natural Theology and Geology*. Y mae lliaws o'n darllenwyr yn gydnabyddus âg enw Dr. Hitchcock, mewn cysylltiad a'i *Religion of Geology*, a thraethodau eraill iddo sydd er ys blynyddoedd bellach wedi eu cyhoeddi, ac wedi cael lledaniaid eang yn y deyrnas hon. Mae pob peth odditan ei law yn ei brofi yn un o feddwl galluog, o ymroddiad mawr, o gydnabyddiaeth helaeth a manwl â'r gwyddorogau naturiol, ac yn un sydd yn meddu parch diledryw i'r Ysgrhythyrau

sanctiaidd. Mae ganddo gyda hyny allu anghyffredin i drosglwyddo ei olygiadau gydag eglurder ac effeithiolrwydd i foddwl ei ddarllenwydd. Nid hawdd i ni fyddai cyfeirio at un llyfr a allai reddi gwell mantais i un ganfod gwerth cydnabyddiaeth â deddfau y byd naturiol i weinidog yr efengyl na'r un presennol. Y mae cywreirwrydd rhyfedd, a phrydferthwch mawr, yn y defnydd a wneir ganddo o feithiau gwyddoniaeth er eglurhau gwirioneddau dadguddiad. Nis gall y cyhoeddiad o hono lai na dylanwadu yn ddaionus ar rai meddyliau, y byddai yn annhebygol, os nad yn anmhossibl, fe allai, eu cyfarfod trwy unrhyw foddion arall.

Gan ein bod gydag awdwr Americanaidd, hwyrach y byddai cystal i ni grybwyll am lyfr arall a gyhoeddwyd yno, er ys tro yn ol, ond y darfu i ni esgeuluso gwneyd un sylw cyhoeddus o hono hyd yn hyn;—*Lectures on the Evidences of Christianity, Delivered in Philadelphia, by Clergymen of the Protestant Episcopal Church, with an Introductory Essay by Alonzo Potter, D.D., LL.D., Bishop of the Diocese of Pennsylvania.* Y mae anffyddiaeth yn gwneyd ymosodiadau haerllug ar, ac yr ydym yn ofni yn cynnyddu yn arswydus mewn rhai parthau o, Unol Daleithiau yr America. Mae y nodwedd cymysg sydd ar boblogaeth y wlad hono, yn gysylltiedig â'r penrhwydd moesol sydd mewn rhai meddyliau yn canlyn trwst gormodol ynghylch annibyniaeth gwladwriaethol, ac yn enwedig oddiar yr ystrywiau a arferir gan gristionogion professedig, i.e, gan liaws o weinidogion yr efengyl yno, i amddiffyn caethwasanaeth yn ei holl erchylldra, yn ei gwneyd, fe allai, yn fwy agored i ddylanwad egwyddorion anghristaidd nag odid ran o'r byd lle mae crefydd bur mor gyffredin ac adnabyddus. Ond y mae y Darlithiau hyn, gydag amddiffyniadau tebyg i'r gwirionedd a ddygir yno yn fynych allan o'r wasg, yn profi fod cyfeillion Cristionogaeth yn fyw i'w perygl, ac yn ddigon galluog i gyfarfod eu gwrthwynebwyr, ar bob tir, gyda hyder llawn am suddugoliaeth. Y mae y gwahanol weinidogion, oll yn dal cysylltiad â'r Eglwys Fsgobol yn yr America, y cawn eu darlithiau yn y gyfrol hon, yn meddu deall da yn y ddadl rhyngddynt âg anffyddiaid, a doethineb anghyffredin i gyflwyno y gwirionedd gerbron y byd, yn rhydd oddiwrth bob llyffetheriau, y mae, hyd yn nod ei garedegion, weithiau, yn wasgu arno. Byddai yn dda iawn genym pe clywem am argraffiad rhad o'r darlithiau hyn yn y deyrnas hon. Nis gallai eu cyhoeddi yma lai na bod o wasanaeth dirfawr i achos yr efengyl.

Llyfr Americanaidd gwerthfawr arall, ond wedi ei gyhoeddi hefyd yn y wlad hon, ydyw, *A Commentary on the Epistle to the Ephesians.* By Charles Hodge, D.D., *Professor of Biblical Literature, in the Theological Seminary, at Princeton, New Jersey.* Mae Dr. Hodge yn dra adnabyddus fel awdwr esboniad rhagorol ar yr Epistol a'r Rhufeiniaid, ac un o olygwyr galluog y *Princeton Review.* Mae holl ragoriaethau yr esboniad at y Rhufeiniaid, gyda mwy, dybygem ni, o bwyll, a dyfnach treiddgarwch i ysbrydolrwydd y dadguddiad ysgrythyrol, i'w ganfod yn y gwaith presennol. Wedi cymaint ag a wnaed gan Ellicott, ac Eadie, ac eraill a'u blaenorent hwy, i eglurhau yr Epistol, fe deimla pob un a ddarlenna Hodge, mai nid yn ofer yr ymgymerodd â'r gorchwyl o'i esbonio, a bod y fath gyfoeth ynddo ag i ganiatau i liaws eto ei ddilyn yntau.

Y mae cyfrol arall, y drydedd, newydd ddyfod allan o'r wasg, o *Sermons, preached at Trinity Chapel, Brighton, by the late Rev. Frederick W. Robertson, M.A., the Incumbent.* Ychydig amser yn ol, ni a alwasom

syllw at y cyfrolau blaenorol, ac yr ydym yn sicr y bydd pwyl bynag sydd yn gydnabyddus â'r rhai hynny yn ddibetrus ynghylch meddiannu y gyfrol hon. Mewn gwirionedd, nid ydym yn gwybod am bregethau gan neb, mewn un oes na gwlad, yn arddangos meddwl cryfach, teimlad crefyddol dwysach, na medrusrwydd mwy i weithio ei ffordd i feddwl a chalon ei ddarllenydd. Er eu bod yn ddiffygiol mewn llawer o bethau a olygir genym ni yn hanfodol i'r efengyl, o leiaf, yn eu cyflwyno mewn gwedd sydd yn ymddangos i ni yn wahanol i'r ffurf apostolaidd arnynt, ac er eu cyhoeddi dan holl anfanteision cyfansoddiadau heb eu bwriadu i'r wasg, eto nid ydym yn petruso eu rhestru ymhlith y rhai blaenaf, os nad y cyntaf oll, o'r cyfansoddiadau adnabyddus i ni dan yr enw pregethau. I'r dyn meddylgar uwch ben yr hyn a ddarlleno, y maent o werth anghymharol. Mae yn canlyn y gyfrol hon ddarlun o'r awdwr.

Y mae cyfrol newydd o'r *Cambridge Essays* am 1846, ac o'r *Oxford Essays* am 1857, wedi eu cyhoeddi. Y mae y rhai hynny yn cadw i fyny y cymeriad uchel a ennillwyd ganddynt ar eu hymddangosiad cyntaf, ac yn cynnwys ar yr amrywiol destynau a ddygir dan sylw ynddynt, ffirwyth ymchwiliadau mwyaf gofalus rhai o feddyliau dysgleiriaf yr oes.

Y mae cyfrol gyffelyb wedi ei chyhoeddi dan yr enw, *Edinburgh Essays, by Members of the University*, 1856. Y mae traethodau y gyfrol hon yn deilwng ymhob modd o gael eu rhestru yn yr un gradd a'r traethodau a gyhoeddir mewn cysylltiad â phrif ysgolion Rhydychain a Chaergrawnt. Yr ydym yn gobethio y derbyniant y fath gefnogaeth ag a sichâ eu hymddangosiad fel yr eiddont hwythau yn slynyddol.

Mae yr ail gyfrol o *Letters of John Calvin, compiled from the original manuscripts, and Edited, with Historical Notes, by Dr. Jules Bonnet. Translated from the original Latin and French*,—newydd gael ei dwyn allan o'r wasg. Y mae y diwygiwr mawr, yn y gyfrol hon, fel yn yr un fraenorol, yn ymddangos mewn cymeriad tra gwahanol i'r hyn a dybir yn gyffredin am dano gan y byd. Y mae yn hawdd gweled erbyn darllen ei lythyrau, nad oedd yn fwy hynod yn ei adnabyddiaeth o'r gwirionedd, a'i ymdrech yn ei blaid, nag oedd yn nhynnerwch ei deimlad tuag at y trallod-edig a'r profedigaethus; a bod y dyn oedd yn llafurio i fyd cyfan yn ymdeimlo yn ddwys â'i helyntion personol a theuluuidd ei hun.

Y mae y Meistri Clark, o Edinburg, wedi dwyn allan yn ddiweddar, *Light from the Cross. Sermons on the Passion of our Lord. Translated from the German of Dr. A. Tholuck, University Preacher, and Professor of Theology in the University of Halle*. Y mae Tholuck yn dra phoblogaidd fel pregethwr. Ac y mae yn gysurus meddwl fod un sydd mor efengylaidd ei feddwl, ac mor awyddus am iachawdwriaeth ei gyd-ddynion, mewn sefyllfa mor fanteisiol i wneyd gwasanaeth mor fawr i efengyl Crist, fel Athraw Duwinyddiaeth, ac fel pregethwr. Duwioldeb dwfn, teimlad cryf, ac amcan cywir ac uniongyrchol, dybygid, i gyraedd y galon, sydd yn hynodi y pregethau yn y gyfrol hon, yn hytrach nag ângander meddwl, treiddgarwch sylw, nac un eglurhâd dedwydd ar unrhyw gyfran o'r dadguddiad dwyfol.

Y mae cymeriad y *Bampton Lectures*, wedi cael ei gadw i fyny yn dda trwy gyhoeddiad *The Mosaic Dispensation considered as Introductory to Christianity. Eight Sermons preached before the University of Oxford, at the Bampton Lecture, for the year 1856. By the Rev. Edward*

Arthur Litton, M.A., *Late Fellow of Oriol College*. Yr oeddem yn adnabyddus â Mr. Litton o'r blaen, trwy un o'r cyfrolau goreu a ddarllenasad genym erioed ar Eglwys Crist, yn ei hystyr, ei phriodoliaethau, a'i gweinidogaeth, gyda chyfeiriad uniongyrchol at y ddadl rhwng y Pabyddion a Phrotestaniaid. Yr ydym yn synu pa fodd y mae y llyfr hwnw cyn hyn heb fyned trwy liaws o argraffiadau. Nis gallwn gyfrif am hynny, oddieithr trwy ei fod mor bell oddiwrth bob eithafion ar y dadleuon sydd yn gwahaniaethu Protestaniaid oddiwrth eu gilydd. Y mae y llyfr presennol ar destyn llai dadleuedig, ac hwyrach, oblegid hynny, y câ well derbyniad. Y mae hefyd ar fater ag sydd wedi ei esgeuluso yn ormodol gan ein duwinyddion goreu. Ceir yn y gyfrol hon sylwadau gwerthfawr a thra anghenrheidiol, yn enwedig yn wyneb y tuedd cryf sydd yn ei ddangos ei hunan mewn llawer man y dyddiau hyn i wadu dwyfoldeb gosodiad yr hen oruchwyliaeth, ar ei natur, ei gwasanaeth, a'r cysylltiad rhyngddi â Christionogaeth. Y mae yr awdwr wedi astudio y pwnc yn drwyadl, ac yn ymdrin âg ef yn ol y pwys a berthyn iddo yn ei gysylltiad â gwirionedd ein crefydd, ac ystyr y dadguddiad dwyfol.

Gadewch i ni edrych mynydyn eto ar Gymru. Y mae Mr. Spurrell, Caerfyrddin, wedi dwyn allan argraffiad newydd o'r hen lyfr gwerthfawr, *Y Ffydd Ddiffuant: sef, Hanes y Ffydd Gristionogol a'i Rhinwedd*. Gan CHARLES EDWARDS. *Dan olygiad y Parch. William Edmunds, Athraw Ysgol Rammadegol Llanbedr*. Mae y llyfr hwn mor hysbys, ni a obeithiwn, i'r nifer fwyaf o'n darllenwyr, fel nad oes anghurheidrwydd am i ni wneyd dim heblaw galw eu sylw at yr argraffiad presennol. Y mae Charles Edwards wedi bod, hyd yn hyn, yn hynod o annedwydd yn y rhai a ymgymerasant â'r gorchwyl o olygu cyhoeddiad ei lyfr. Yu argraffiad y Dr. Williams fe'i gwyrdrôwyd mor lwyr fel mai prin, mewn rhai manau, y gallasai yr awdwr adnabod ei waith ei hun. Er nad yw y Golygydd presennol heb arddangos mwy nag a fuasai ddymunol o'i dueddiadau ei hunan, eto, ar y cyfan, y mae wedi cyflawni ei orchwyl yn y fath fodd ag sydd yn teilyngu ein diolchgarwch. Y mae yr argraffydd yntau wedi gwneyd ei ran yn rhagorol. Y mae holl ymddangosiad y llyfr yn dwyn mwy o ddelw y llyfrau goreu a argreffir ac a gyhoeddir yn y Brifddinas nag a welir ond yn anaml ar lyfrau Seisonig a gyhoeddir allan o Lundain. Yr ydym yn gobeithio y câ dderbyniad helaeth drwy yr holl Dywysogaeth.

Mae Mr. Gee, Dinbych, wedi dwyn allan lyfryn tra buddiol i ieuencyd Cymru, er eu cyfarwyddo i ddsygu y Saesoneg—*English-Welsh Handbook*. *Llawiadur i'r iaith Seisonig: yn cynnwys y Geiriau a'r Ymadroddion a arferir mewn ymddyddanion cyffredin*. Gan T. Lloyd Phillips. Mab ydyw yr awdwr i'r Parch. Thomas Phillips, Goruchwylwr y Fibl Gymdeithas, ac y mae ei hunan, yn awr, mewn swydd bwysig mewn cysylltiad â'r un Gymdeithas, yn un o Olygwyr cyffredinol y cyfieithiadau o'r Ysgrhythrau sanctaidd a gyhoeddir ganddi. Yr ydym yn llawenhâu o'n calon fod gŵr ieuanc o'n cenedl ni wedi ennill sefyllfa mor anrhydeddus trwy ei gymhwysderau iddi, ac yn dymuno iddo hir oes i fod yn ddefnyddiol iawn ynddi. Y mae y lyfryn bychan hwn wedi ei swriadu yn gynnorthwy i'r Cymro ddsygu yr iaith Seisonig—pa un bynag a fyddo ganddo athraw i'w gyfarwyddo ai ni byddo. Ein cyngor i bob gŵr ieuanc a ddymuno adnabyddiaeth o'r Saesoneg ydyw, Meddiennwch ef yn ddiwed, ac astudiwch ef nes ei feistrolu yn hollol.

Y TRAETHODYDD.

HANES ATHRONIAETH.

PENNOD III.—ACHOSION METHIANT YR HEN ATHRONIAETH, A LLWYDD-
IANT ATHRONIAETH DDIWEDDAR.

“OND mewn gwirionedd,” ebe Mr. Macaulay, “y mae yr edmygedd a deimlwn tuag at athronwyr yr hen oesau yn ein rhwymo i fabwysiadu y dyb fod eu cynneddfau wedi cael eu camgyfeirio yn hollol. Canys pa fodd arall y cyfrifir am y ffaith fod y fath alluoedd wedi gwneuthur mor ychydig i ddynolryw? Gall cerddwr mawr ddangos cymaint o yni gïeuol ar y felin-droed ag ar y ffordd fawr. Ond ar y ffordd, bydd ei rym yn sicr o'i gludo ymlaen; ond ar y felin, ni bydd yn myned fodfedd ymlaen. Yr oedd yr hen athroniaeth yn felin-droed, ac nid yn llwybr. Yr oedd yn cael ei gwneuthur i fyny o ymholion anorphen, o ddadleuon ag oeddynt bob amser yn dechreu drachefn. Yr oedd yn ddysais i gael llawer o ym-orchestu ond dim cynnydd.”

“Nis gallai dyn ar y cyntaf,” ebe *Professor Playfair*, “ganfod oddiar ba gyfeiriad yr oedd yn rhaid iddo ddechreu ei ymchwiliadau, ymha gyfeiriad yr oedd i'w dwyn ymlaen, nac wrth ba reolau yr oedd i gael ei arwain. Yr oedd yn gyffelyb i ymdeithydd yn myned allan i wneyd ymchwiliad i anialdir èang ac anadnabyddus, ymha un yr oedd lliaws o wrth-ddrychau mawrion a dyddorol yn ymgynnyg i'w sylw ar bob llaw, tra nad oedd yr un llwybr iddo ef ei ddilyn, nac un reol i lywodraethu ei arolygiad.”

“Cyfeiliornad mawr yr athroniaeth Roegaid,” medd *Herschell*, “oedd tybied y buasai yr un llwybr neu ddull (*method*) ag oedd wedi ei brofi yn llwyddiannus mewn ymchwiliadau gwyddonol, yr un mor llwyddiannus mewn ymchwiliadau anianyddol, ac y gellid, wrth gychwyn oddiwrth ychydig o syniadau neu arwirebau hunan-egllur braidd, ymresymu pob peth oddiwrthynt. O ganlyniad, yr ydym yn eu cael yn barhâus yn trethu eu dyfais i ddarganfod yr egwyddorion hyn, y rhai oeddynt i gynnrychu y fath doraeth o frwyth. Un a wna y *tân* yn sylwedd hanfodol a gwreiddiol y bydysawd; arall *awyr*; y trydydd a ddarganfydda yr allwedd i bob anhawswer, neu esboniad ar bob ymddangosiad, yn y “*το άπειρον*,” neu anfeidroldeb pethau; y pedwerydd yn y “*το όν*,” a'r “*το μη όν*,” hyny yw, mewn bodaeth a difodaeth.”

Y mae yn amlwg iawn mai prif ddiffyg athroniaeth brofiadol ac arddansoddol, hyd amser Arglwydd Bacon a Des Cartes, oedd diffyg *dull cywir*. Yr oedd y gwyddiannau, o ganlyniad, yn ansefydlog a chyfeiliornus. Mae yn ddilys fod cewri meddyliol ar y ddaear y pryd hwnw. Golemid ffurfiasefn athroniaeth Groeg gan gyfryw heuliau a Socrates foesol, Plato ddwfn-dreiddiol, ac Aristotle ddysgedig. Yn eu meddyliau hwy, yn ddian, y gwreiddiodd hadau rhai o brif ddarganfyddiadau athroniaeth ddiweddar. Ond y mae cywirdeb llawer egwyddor a osodasant i lawr fel gwirionedd, i'w briodoli i'w mawredd deallol hwy eu hunain, yn hytrach nag i gywirdeb y dull yn ol pa un yr ymchwiliant am wirionedd. Enghreifftiau i brofi hyn ydyw Democritus a Copernicus. Maentumiai Democritus, mewn llwrthwynebiad i liaws o athronwyr y cyfnod, mai crugiau o ser oedd y llwybr llaethog; ond ymddengys nad oedd hyn amgen na dychymyg o'i eiddo; canys nis gallai ei brofi wrth un reol neillduol. Ymchwiliodd Galileo hefyd i'r un pwnc, ond dygai ei ymchwiliad ymlaen yn ol dull cywir. Cyrhaeddodd yr un penderfyniad a Democritus—*profodd* mai cydgasgliad o ser oedd y llwybr llaethog. Yn awr, y ffaith yw, mai Galileo ydyw darganfyddwr y gwirionedd yma, am mai efe a roddodd *brawf* o hono gyntaf. *Meddyliodd* y Groegwr y ffaith, ac y mae yn glod i'w ddeall; *profodd* y llall y ffaith, a chyflawnodd wasanaeth gwerthfawr i'r wyddiant seryddol. Gellir sylwi yn gyffelyb am symudiadau y cyrff nesol. Yr oedd athronwyr, o ddyddiau Ptolemy hyd amser Copernicus a Kepler, wedi ymchwilio gyda'r dyfalwch mwyaf i gylchdroadau y cyrff wybrenol. Credent mai y belen ddaearol oedd canolbwynt y gyfundraeth, a bod yr haul, y ser, a'r planedau, yn troi o'i hamgylch yn barhâus. Methent ganfod, er hyny, gysondeb y gyfundraeth, a dygai y naill seryddwr ar ol y Hall wrthddadl-euon anatebadwy yn ei herbyn. Yr oedd Copernicus yn gweled fod anghysondeb mawr yn hanfodi; ond beth ydyw yr achos? meddai. Tybiodd y newidiai un egwyddor oedd wedi cael ei derbyn fel gwirionedd drwy yr oesoedd. Haerodd mai yr haul oedd y canolbwynt, a bod y ddaear, &c., yn troi o'i amgylch yn barhâus. Arweiniodd hyn gysondeb i'r gyfundraeth; ond ei brofi oedd y pwnc nesaf. Nis gallai wneuthur hyn; ei anrhydedd ef oedd ei *foddwl*. Yr oedd dau wron i wneuthur eu hymddangosiad cyn y gellid ei brofi—Bacon i ddarganfod *dull cywir* o ymchwilio i natur, a Newton i ymrafael yn y dull hwnw, a'i ddefnyddio i fyfyrio seryddiaeth.

Dwyed Dr. Reid fod dau ddull wedi cael eu dilyn gan ddyinion tuag at ffurfio eu barnau am y meddwl, ei alluoedd, a'i weithrediadau. Y *cyntaf* ydyw y dull *cyfatebiadol*. Mae yn amlwg iawn fod natur yn orlawn o wrth-ddrychau ag a gyfatebant y naill i'r llall mewn rhywbeth neu gilydd, a bod y meddwl yn "ymbleseru mewn olrhain y cyfryw gyfatebiadau." Dilys yw fod y dull yma o ymchwilio i natur o ddefnydd annhraethol mewn rhai amgylchiadau, ac y mae medrusrwydd digyfelyb rhai awdwr wrth ei arferyd—yr Esgob Butler, er enghraifft, yn ei *Analogy of Religion*—yn gosod pwys mawr ar eu casgliadau, a thrwy hyny yn ychwanegu at ystôr werthfawr gwirionedd. Nid ystyrir, yr un pryd, fod y ddadl gyfatebiadol, ynddi ei hun, yn hollol derfynol ar bwnc, ond gwasanaetha yn gyffredin i gau genau y gwrthwynebwyr. Y cyfryw oedd dull yr hen athronwyr yn eu hymchwiliadau arddansoddol. Canfyddent fod y byd allanol yn gyfansoddedig o wahanol wrthddrychau, y rhai a foddent sylwedd a llun; a chasglent, mewn canlyniad, y perthynai yr enaid i un o'r ddau wrthddrych

yma, (os priodol eu galw felly, eithr rhaid i ni eu dynodi â rhyw enw), neu ei fod yn gyfansoddedig o'r ddau. Tybiai rhai athronwyr mai dwfr neu leithder oedd elfen wreiddiol pob peth; haerai y dosbarth arall mai tân ydoedd; a ymnai y trydydd dosbarth mai y gyfryw elfen ydoedd awyr. Maentumiai eraill, mewn gwrthwynebiad iddynt oll, fod yr enaid yn cyfranogi o'r holl elfenau, sef tân, dwfr, awyr, a daear, pa rai a fernid yn yr hen oesoedd fel elfenau symlaf natur; fod yn anghenrheidiol iddo gael ei gyfansoddi o rywbeth a fyddai yn cyfateb i bob peth a ganfyddai; a'i fod, felly, yn canfod daear drwy y gyfran ddaearol, awyr drwy y gyfran awyrol, dwfr trwy y gyfran ddyfrol, a thân drwy y gyfran danllyd. Felly hefyd, yr oedd eu syniadau am weithrediadau yr enaid, yn ogystal a'i natur, wedi eu ffurfio drwy yr un math o gyfatebiant. Enghreifftiau neillduol i brofi hyn ydyw eu hathrawiaethau ar ddarganfodiad (*perception*), a meddyl-ddrychau.

Y mae y dull cyfatebiadol hwn i'w weled yn eglur eto yn Diogenes, Plato, ac Aristotle. Dywedai y blaenaf mai awyr oedd dechreuad pob peth, a bod yr awyr hwn mid yn unig yn elfen *fywydol*, ond hefyd yn elfen ddealltwriaethol—yr oedd yn ei ddysgu gystal ag yn ei fywiogi. Ymresymodd felly gyda golwg ar y byd. Dywedai fod yn rhaid i'r byd, fel yr oedd yn gyfangorff, dderbyn ei allu bywydol oddiwrth yr oll; o ganlyniad, yr oedd gan y byd beiriannau anadlu, y rhai a ganfyddid gan ddychymyg y gŵr hwn yn y ser. Nid oedd yr holl grëadigaeth, a phob gweithrediad materol, ond effaith y byd yn anadlu. Yr oedd yr un anadiad i'w weled yn amlyg yn atyniad lleithder at yr haul, atyniad yr haiarn at yr ehedfaen; a'r unig reswm fod dyn yn uwch nag anifeiliaid mewn deall, ydyw, ei fod yn anadlu awyr burach na hwy, y rhai sydd yn plygu eu penau tua'r ddaear. Eithr y mae yn syn cyfarfod â'r fath ymresymu yn y mawreddog Plato; ond tra y mae yn teithio ar lwybr anghywir, pa fodd y gall gyrhaedd pen ei daith yn ddiogel? Yn ol Plato, y mae y byd yn anifel—"Y mae cynhesrwydd yn y corff dynol; felly hefyd y mae yn y byd: y mae y bôd dynol yn gyfansoddedig o wahanol elfenau, ag a elwir yn gorff; y mae y byd hefyd yn gyfansoddedig o wahanol elfenau, ac y mae, gan hyny, yn gorff: ac megys y mae eneidiau gan ein cyrff ni, felly y mae gan y byd enaid; ac y mae yr enaid hwnw yn bodoli yn yr un berthynas â'n henaid ni, ag y mae gwres y byd yn sefyll ynddo â'n gwres ni." Eithr cofier, mai ochr wan athroniaeth Plato oedd hon. Yn o gyffelyb hefyd yr aeth Aristotle i ddangos nad oedd mater yr haul yn llygradwy, neu yn agored i gyfnewidiad; a gwnaeth hyny drwy y fath ymresymiad dwfn, fel mai anhawdd ydyw ei ddirnad; a chan mai y fath ymresymwr ag Aristotle oedd yn ei ddyweyd, ac yn ei ymresymu, credodd y byd y peth am yn agos i ddwy fil o flynyddau; ond defnyddio rhesymeg at yr haul yr oedd, heb erioed gael trem ar ei wyneb noeth ei hunan. Gan hyny, bu Galileo yn ddigon eöfn i ammheu y Groegwr mawr, a dyfeisiodd, neu perffeithiodd, y syllddrych, ac edrychodd ar wyneb yr haul, a chanfyddodd ei fod yn llygradwy—"fod ysmotiau ar wyneb yr haul." Y mae yr un weithred fechan hon o eiddo Galileo yn dangos yn rhagorol y mawr wahaniaeth sydd rhwng chwilio am wirionedd yn y cyfeiriad priodol; dyna un drem ar wynebpryd "llygad y dydd" yn dadymchwel cyfeiliornad ag oedd wedi teyrnasu ar feddyliau prif ddoethion y byd am ganrifoedd lawer.

Credai rhai, fel y sylwasom eisoes, er hyny, fod y dull cywir o athron-

yddu wedi ei ddarganfod mor fore ag amser Socrates, a rhydd Aristotle i Socrates yr anrhydedd o fod yn ddarganfyddwr y dull cyfisol o ymresymu (*inductive reasoning*). Ond er hyny, y mae ei gyfosiad yn cael ei ddwyn ymlaen yn hollol ar gyfatebiant; ac y mae, felly, yn rhwym o syrthio yn fyr o esbonio natur allanol na meddyliol, canys y mae y ddwy i'w myfyrio ynddynt eu hunain, yn hollol annibynol ar eu gilydd. Tybia eraill fod Aristotle, bid a fynd, drwy rinwedd ei welliadau ar ddull Socrates, wedi cael gafael ar y dull cywir, darganfyddiad pa un a briodolir i Bacon. Ond nid oedd cyfosiad Aristotle namyn "casgliad yn cael ei dynu oddiwrth yr holl neillduolion a gynnwysai." Nid oedd yma gydesriad a threfniad; nid oedd yma "ranu natur drwy wrthodiadau ac eithriadau (*exclusions*) priodol." Yr oedd dull Bacon yn gwneyd hyny; ac efe a arferai lesaru yn ddirmygus am y cyfosiad a ddygid ymlaen drwy niferiant (*enumeration*) yn unig—yr hwn ydoedd eiddo Aristotle—a dywedai ei fod o anghenheidrwydd yn "egwan ac ansicr yn ei benderfyniadau." Ac os nad oes yma wahaniaeth eglur yn cael ei ddynodi, ofer ei chwilio mewn un man arall.

Y mae yn ffaith ddiymwad fod y dull henafol o athronyddu, sef y cyfatebol, wedi methu rhoi dynion ar y llwybr i gael allan ddarganfyddiadau pwysig mewn gwyddiant. Yr oedd athroniaeth naturiol yn dryblith gymysgld ac anghyson. Os trôid at seryddiaeth, yr oedd yr anghydweliad ymhlith ei hefydwyr yn achosi ymrafaelion ac erlidigaethau chwervon. Pe sylwid drachefn ar Fferylliaeth, Anianeg Ddynol, &c., ni cheid nemawr ddim ynddynt ag a ystyrir heddyw yn athroniaeth wirioneddol. Yr oedd meddyliau prif athrylithwyr y gwledydd yn gyfeiriedig at yr achos o'r diffygion hyn. Os ydyw y dull a feddwn yn dda, meddent, paham y mae ein hathroniaeth mor ddiogyunyrrch? Paham y mae gwybodaeth mor gyfyngedig ac anwadal, ar ol cynifer o oesoedd o ymchwiliad? Tua dechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, cyfododd dau wron i ateb yr holion hyn—Bacon yn Lloegr, a Des Cartes yn Ffrainc. Eu hatebiad oedd, mai diffyg athroniaeth oedd ei dull (*method*). Cyfarfyddodd eu hatebiad â chymeradwyaeth dihafal, pan ystyriom ei fod yn cynnwys ynddo y dylid adffurio athroniaeth o'r newydd yn hollol. Myn rhai—yn eu plith, gellir enwi yr hanesydd enwog Macaulay—nad ydyw y caffaeliad yma o ddull i'w briodoli i Bacon, ond ei fod yn ymgfyodi yn naturiol yn y meddwl; ac eraill a haerant, fod rhagflaenwyr a chydoeswyr Bacon yn meddu yr un amgyffrediad ag yntau am ddiffyg athroniaeth. Gan nad pa dyb sydd gywir, y mae yn ymddangos, fel y sylwa Mr. Lewes, fod yr oes mewn anghen o'r ddau wr yma, ac yn addfed iddynt hefyd; a chan hyny derbyniodd hwy. Dywedir am yr athronwyr hyn, nad ydyw yn debygol eu bod yn gwybod am eu gilydd pan ddechreuasant ar y gwaith o gyfansoddi dull newydd; ond eu bod, er hyny, wedi cyduno â'u gilydd yn hollol ar yr elfenau sylfaenol. Credai y ddau mai y modd i fyfyrto meddwl oedd ei fyfyrto ynddo ei hun, ac mai yr unig lwybr cywir i fyfyrto y byd allanol oedd ei fyfyrto ynddo ei hun. Cydweleant hefyd mai drwy drychwalu neu ddadansoddi (*analyze*) y gwrthdrrychau hyn, y deuid i wybod rhywbeth am danynt. Cyn belled a hyna y cyd-deithiant.

Beth, ynte, oedd dull Bacon? Y mae yn anhawdd ateb mewn cylch bychan, a bod yn ddealladwy hefyd; ond ymdrechwn wneyd hyny. Dywedason eisoes mai y dull cyfatebiadol oedd dull yr henafiaid. Cymhwyscut ef at y byd allanol a meddyliol yn ogystal. Yr oeddynt, fel y sylwa

Bacon, yn rhedeg o flaen natur; tra mai yr unig ffordd i gyrhaedd gwybodaeth sylweddol ydyw sylwi ar natur. Mae yr egwyddor yma yn ymwithio i'r golwg yn y frawddeg flaenaf o'r *Novum Organum*. "Y mae dyn (medd efe) fel gweinidog a deonglydd natur, yn gwneuthur ac yn deall cymaint am drefn natur, ag y mae ei sylwadaeth, pa un bynag ai gyda golwg ar beth, neu y meddwl, yn caniatáu iddo, ac nid ydyw yn alluog i wybod na gwneuthur mwy." Tuag at ddwyn yr ymchwiliad yma ymlaen, dangosodd mai y peth cyntaf a ddylid ei wneuthur oedd casglu ynghyd helaethrwydd o ffeithiau—chwilio i'r pwysigrwydd cymhariaethol—eu dosbarthu yn wahanol ddosbarthiadau, yn unol â rheol a dybir yn ddigon éang a phwysig i fod yn rheol y dosbarthiad—yna ymgodi drwy y gwahanol raddau o gyffredinolïad, i ddeddf uchaf yr ymddangosiadau, sef eu hathroniaeth. Gwelir yma fod gwahaniaeth dirfawr rhwng cyfosiad Aristotle a Bacon. Nid niferiant ffeithiau, a chasgliad, yw dull Bacon. Cynnwysa hefyd gymhariaid ffeithiau, yr hyn sydd yn gosod bri mawr ar ei ddull; canys nid oes dim yn amlycach na bod rhai ffeithiau yn meddu llawer mwy o bwysigrwydd nag eraill, ac y gellir golygu un ffaith weithiau yn brawf penderfynol, tra na chyrrhaeddir uwch prawf na thebygolrwydd oddiwrth ugain o ffeithiau eraill. Gesyd Bacon bwys neillduol ar hyn, a noda saith ar hugain o wahanol ddosbarthiadau o ffeithiau, oll yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd i raddau mwy neu lai. Ond a ydyw y dull yna yn gymhwysiadol at fydd y meddwl? Y mae yn ddiammheuol ei fod, er nad ydyw ei awdwr wedi gwneyd y cymhwysiad hwn o hono; eithr dywed ei fod yn ei olygu yn gymhwysiadol at Arbwyllleg, Moeseg, Llywod-ddysg, ac Arddansoddiath. "Fe allai yr ammheua rhywun," medd efe, "yn hytrach na gwrthwynebu, pa un a fwriadwn berffeithio drwy ein dull, nid yn unig athroniaeth naturiol, ond hefyd y gwyddiannau eraill, megys Arbwyllleg, Moeseg, a Llywod-ddysg. Yr ydym yn ateb, ein bod yn dal fod y pethau am ba rai y buom yn siarad yn gymhwysiadol atynt oll." Ac eto, fel y sylwa Dr. Whewell, tra y cymerodd Bacon afael yn nau garn gwyddiant, eto efe a weithiodd gyda'r un allod yn llawer mwy brwdfrydig na chyda'r meddylïol; ac felly y mae awdurdod "y meistr ei hun wedi arwain i'r cymhwysiad cynnil o'i ddull at ymchwiliadau (meddylïol, heb eu cau allan yn hollol, fodd bynag." Yr ydym yn cael Locke, Reid, Stewart, Mill, &c., yn cymhwyso y dull yma at feddylleg; ac y mae dylanwad yr athraw ar y dysgyblion. Collodd Locke ei olwg ar elfen gyntaf y dull hwn yn ei draethawd ar y "Deall," canys y mae yn cychwyn ei ymchwiliad gyda gwreiddyn drychfeddylïau, ac yntau heb benderfynu beth oedd natur a nifer y drychfeddylïau hyn. Dylasai benderfynu i ddechreu pa rai oedd yr holl ddrychfeddylïau a hanfodant yn y meddwl; yna eu cymharu a'u dosbarthu; ac yna chwilio i'w gwreiddyn. Y mae Locke, wrth ddechreu gyda'r ymchwiliad i wreiddyn drychfeddylïau, cyn gwybod pa rai ydyw y drychfeddylïau hyn, a chyn eu hadnabod drwy sylwadaeth, yn chwilio am wirionedd yn y tywyllwch nas gall ei roddi. Ond nid dyna holl fai Locke. Nid yn unig ni thalodd sylw i'r pwnc, pa rai ydyw ein drychfeddylïau, fel y peth *cyntaf* y dylasai ei wybod, ond y mae wedi ei esgeuluso yn gyfangwbl. Y mae yr esgeulusiad hwn yn un pwysig iawn, ac yn rhwng o ddylanwadu yn niweidiol iawn ar athroniaeth, canys gan nad ymchwiliodd i'r holl ddrychfeddylïau a hanfodant yn y meddwl, dichon fod rhai yn aros yno, o natur y rhai yr oedd yn anadnabyddus, a'r rhai nas gallai, o ganlyniad, eu

holrhain i'r un gwreiddyn a'r lleill. Pe caniatëid y gellid olrhain ein holl ddrychfeddyliau i'r gwreiddyn a enwa, ac i hwnw yn unig, damwain hollol fyddai iddo fod yn gywir. Ond os na ellir eu holrhain oll i'r gwreiddyn yma, y mae Locke wedi rhoi bodolaeth i "gyfeiliornad cyffredinol, cyfeiliornad dirfawr, pa un a lygra feddyleg fel ei gwreiddyn, a thrwy hyny arddansoddiaeth yn gyffredinol." (Cousin.)

Deuwn yn nesaf at ddull Des Cartes. Cyduna yr athronydd Albanaid Stewart, yn gystal a'r haneswyr Cousin a Morell, i alw Des Cartes yn "Dad Arddansoddiaeth Ddiweddar." Paham? meddir. Am mai efe ydoedd y cyntaf i droi athronwyr i effrydu y meddwl ynddo ei hun. "Efe oedd yr athronydd cyntaf," medd Stewart, "ag a osododd i lawr, yn oleu a bodd-häol, y gwahaniaeth rhwng meddwl a sylwedd, ac a ddangosodd y llwybr priodol i fyfyrïo ffeithiau y meddwl." Gwnaeth Bacon hyny ág athroniaeth naturiol, a Des Cartes ág athroniaeth y meddwl. Dyna elfen gyntaf ei ddull. Yr elfen nesaf oedd ammheuaeth. "Dechreuodd Des Cartes," medd D'Alembert, "drwy ammheu pobpeth;" ac y mae un ysgrifenydd Ffrengig yn myned mor bell ag i ddywedyd mai ammheuaeth oedd ei ddull. Ynddengys i ni na ddichon ammheuaeth gyfansoddi dull o athronyddu, nac i Des Cartes erioed dybio hyny ychwaith, er ei fod, yr un pryd, yn un o elfenau mwyaf hanfodol dull cywir. Y cyfan a olygai wrth ddyweyd ei fod yn ammheu pob peth oedd, ei fod yn ymddyosg yn llwyr oddiwrth bob hen dybiau a chyfundraethau ag a gredid, gan ei gynoeswyr. Yr oedd yn myned i gychwyn ar wibdaith athronyddol, heb un arweinydd heblaw yr hyn a olygai efe yn ddull cywir. Ar ol iddo ymwrthod yn y modd yna â phob tybiau, dechreuodd chwilio am ffeith feddyliol eglur a sefydlog—un ddigon cadarn a sefydlog i fod yn gynsail ei holl ymresymiaidau. Yr oedd yn cael yn ei feddwl liaws o deimladau, syniadau, &c., ond nid oeddynt yn sefydlog—yr oedd y teimladau yn cyfnewid, a'r syniadau yn amrywio, fel y gellid dywedyd eu bod yn ddamweiniol ac achlysurol. Yr oedd un peth, er hyny, yn aros yn sefydlog a pharhâus. Er fod y syniadau yn cyfnewid, a'r teimladau yn amrywio, yr oedd yr hyn oedd yn meddwl, yr hyn oedd yn teimlo, yn aros yr un. O ganlyniad, ebe efe, *Cogito, ergo sum*—"Meddyliwyf, am hyny ydwyf." Nid ydys i olygu ei fod yn dwyn hyna ymlaen fel prawf ymresymiadol o'i hanfodiad. Pe felly, rhaid fuasai iddo brofi unoliaeth bodaeth a meddyliaeth, neu syrthio yn euog, fel y sylwa Gassendi, ac eraill, o *petitio principii*. Ond gwada ei hun iddo feddwl y cyfryw beth; a dengys na fwriadodd ef ond yn unig fel casgliad a ymgfydai yn naturiol o'r ffeith o feddyliaeth. Yr oedd yn annichon iddo ef, na neb arall, ffurfio ymresymiad i brofi ei fodolaeth ei hun, ac eto pwyl all ammheu nad ydyw yr hyn sydd yn meddwl yn bodoli hefyd? canys byddai hyd yn nod yr ammheuaeth o hyn yn condemnio yr ammheuwyr. Mae y ffeith, ynte, yn sicr: "Meddyliwyf, am hyny ydwyf." Sylwer, yn awr, mai arbenigrwydd yr athronydd hwn ydyw gwneyd ymwybyddiaeth yn wreiddyn pob gwirionedd. Ein hymwybyddiaeth, meddai, sydd yn ein cynnysgaethu â ffeithiau meddwl, canys y mae ymwybyddiaeth personol yn cael ei ragdybied gan bob gweithred feddyliol. Casgliad o'r ffeithiau hyn, ac ymchwiliad iddynt, ynte, a ddylai fod y peth i'w gyflawni wrth dreiddio i wyddiant yr enaid. Y pwnc nesaf ydyw cael rheolau wrth ba rai y gellir barnu y ffeithiau hyn—gwybod hyd sicrwydd beth yw eu natur. Y rheolau hyn, yn ol Des Cartes, ydynt eglurder a gwahanolrwydd (*clearness*

and distinctness). Pa beth bynag, meddai, sydd yn fy ymwybydiaeth, yn eglur a gwahaniaethol, y mae yn rhaid fod gwirionedd yn perthyn iddo. Y mae, gan hyny, yn feddyddrych sicr a safadwy. Sylwa Mr. Lewes nad ydyw hyna ond y naill hanner o ddull Des Cartes. Mae y rhan flaenaf, mewn rhai pethau, yn tebygu i ddull Bacon, er nas gellir golygu fod ei reolau i farnu drychfeddyliau yn gywir yn wastadol. *Deduction* ydyw y rhan arall. Yr oedd ei ddefnyddiad o gyfosiad yn gloff iawn; yn wir, fel y sylwa ef ei hun, ei ddymuniad oedd casglu effeithiau oddiwrth achosion, ac nid achosion oddiwrth effeithiau. "Ymddengys i mi," eb efe, "oddiwrth y cyfresi hirfaith o ymresymiaidau, oll yn syml a hawdd, y rhai a ddefnyddia mesuronwyr er dyfod o hyd i'w harddangosiadau anhawddaf, y rhaid i bob peth sydd yn dyfod o fewn cylch gwybodaeth ddynol ddilyn eu gilydd mewn cyfres gyffelyb; ac os ymgadwn rhag caniatâu dim fel gwirionedd heb yn gyntaf ei brofi, ac os cadwn y gwirioneddau hyn yn barhâus yn y fath drefn ag y gallwn gasglu (*deduce*) y naill oddiwrth y llall, nis gall dim fod yn rhy anghysbell i ni allu ei gyrrhaedd, nac yn rhy ddyrys i ni allu ei ddarganfod." Golygai yr athronydd wirioneddau mesur-eg fel ffeithiau anghenrheidiol, yn cael eu sicrhau gan y ffaith na fnaasai Duw yn cenadu i'n cynneddfau ein twyllo ynghylch perthynasau lle, a'u hystyr-ied yn allanol; ac felly, y mae gyda phob gwybodaeth gasgliadol (*deductive*). Dyna frasluniad o ddull Des Cartes. Ei swm a'i sylwedd ydyw—Fod y meddwl i'w fyfyrio ynddo ei hun; y dylid cychwyn gyda hyn yn hollol ddiragfarn, ac yn annibynol ar bob tybiau blaenorol; y dylid cael un ffaith gyffredinol, yr hon a fyddai yn sylfaen sicr i'r holl adeilad; ac y dylid cael trefn o ymresymu yr hon nis gall ein hudo yn ein casgliadau. Y mae y ffaith gyffredinol i gynnwys ynddi yr holl ffeithiau eraill; nid oes unrhyw beth fyddo tuallan i gylich hōno i berthyn i'r ymchwiliad. Yr oedd yn gynnwysedig yn hyn egwyddor fawr, yr hon sydd wedi rhoddi cyfeiriad i athroniaeth ddwfnreiddiol yr Almaen. Bodaeth a meddyliaeth ydyw y ddau bwynt ar ba rai y saif arddansoddiaeth. Gwyddom ryw faint am y ddau. A ydynt yn un? A ydyw yn anmhosibl hanfodi heb feddwl? neu yn anmhosibl meddwl heb hanfodi? Ai un o briodoleddau bōd yw meddyliaeth, neu a ellir darostwng pob bodaeth i feddyliaeth? *Cogito, ergo sum*, ebe yr athronydd. Fel y sylwyd eisoes, nid oedd hyn yn ddynodiad fod hanfodiad a meddyliaeth yr un; ond y mae yn ddynodiad eglur iawn nad ydyw bodaeth i'w adnabod ond drwy feddyliaeth. Yr unig le y gallaf gael gafael mewn gwirionedd, meddai Des Cartes, ydyw fy ymwybyddiaeth; a chan hyny, pa beth bynag sydd yn bosibl ei wybod am fodaeth yn gyffredinol, rhaid i mi gychwyn yr ymchwiliad yn fy ymwybyddiaeth. Felly y mae dosbarth lliosog o arddansoddwyr yn credu fod pob gwybodaeth yn rhwym o gael ei chychwyn yn y meddwl. Hon oedd egwyddor fawr Kant, er na ddilynodd ef hi i'r un pellter a'i olynwyr. Gwna y byd allanol a byd y meddwl yn ffunonellau ein gwybodaeth. Ond y mae y byd allanol yn hollol amddifad o allu hunanfadol; tra y mae y meddwl yn cynnwys ynddo ei hun achos ei symudiadau a'i weithrediadau ei hun. O ganlyniad, y prif weithredydd yn y canfyddiad o fyd allanol ydyw y meddwl ei hun. Nid ydyw yr ymddangosiadau allanol ond pethau yn cael eu rheoli gan ddeddfau uwchlaw iddynt eu hunain; ac y maent, felly, yn analluog i effeithio ar feddwl ond pan fyddo y meddwl yn ewyllysio hyny. Mae y meddwl yn *myued allan* i weled yr ymddangosiad. Dyna wreiddyn am-

gyffrediaeth (*idealism*). Yr oedd dull Bacon yn meddu tuedd hollol wahanol. Ei bwynt cychwynol ef oedd natur allanol. Ymaffodd Hobbes yn y dull hwn, a chymhwysodd ef at y meddwl. Daeth i'r penderfyniad mai ysgogydd cyntaf y meddwl oedd rhywbeth allanol; yr oedd ymhell o fod yn golygu y meddwl yn fôd ysbrydol ac annibynol ar gorrff. Nid oedd drychfeddyliau ond gwahanol synwriaethau wedi eu hadffurfio a'u huno mewn amryfal foddau. O ran galluoedd, neu gynneddfau, nis meddwn ddim, yn ol yr awdwr anffydddaidd hwn. Dyna yr enaid, ynte, yn gyfran o'r byd allanol, ac yu hollol ddibynol arno, ie, mor ddibynol fel nas gallwn ddychymygu yr hanfodai pe difodid y byd hwnw. Myn rhai na wnaeth Locke amgen na gwneyd golygiadau y gŵr hwn yn fwy poblogaidd a thrwsiadus. Ond ymddengys yn amlwg iawn nad ydyw hyn yn gywir; canys y mae Locke yn cydnabod ac yn maentumio fod yr enaid yn feddiannol ar alluoedd i ymwneyd â'r gwahanol synwriaethau hyn. Modd bynag, y mae Locke yn gorfod cyrchu holl sylwedd ein drychfeddyliau o'r synwyr; ac nid oes dim yn meddu hanfodiad meddylddrychol a'r na fu o'r blaen yn meddu hanfodiad yn y synwyr. Yn ol hyna, nis gallwn feddwl ond mewn cysylltiad â byd allanol. Yr egwyddor hon a arweiniodd i gyfundraeth synwryddol y Ffrancod, y rhai a ddaethant i'r penderfyniad nad oedd bodaeth a meddyliaeth ond yr un peth mewn gwirionedd, eithr mai y gwreiddyn ydyw hanfodiad—y byd allanol. Dyna *faterolaeth*.

Y ddau yma a ddynodir gan M. Cousin yn brif ddulliau athroniaeth y meddwl. Geilw yr un a ddechreuwyd gan Des Cartes yn *rationalistic*, a'r un a wnaed gan Bacon, ond a gymhwyswyd at feddyleg gan Locke, yn *psychological*. Y mae y ddau wedi eu seilio ar wirionedd, ond nid ydynt yn cymeryd i mewn yr holl wirionedd. Bai Bacon a Locke oedd esgeuluso *deduction*. Bai Des Cartes a'i ddilynwyr ydyw esgeuluso *induction*. Mae yn wir, fel y sylwa y dysgedig Professor Playfair, fod dull Bacon yn anheborol anghenrheidiol yn yr ymchwiliad cyntaf i bethau nas gwyddom nemawr am danynt; ond ymhob amgylchiad ymha un y byddo yn ddiogel defnyddio ymresymiaidau gwyddonol (*mathematical*), "ar ol sefydlu ychydig o egwyddorion drwy brofiad, gellir casglu (*deduct*) arddigonedd o wirioneddau oddi wrthynt, drwy y defnyddiad o egwyddorion mesurereg ac alsoddeg, y rhai a fyddant yn gyfartal sicr â'r egwyddorion cyntefig eu hunain." Nid oedd Bacon yn wrthwynebol i hyn, er ei fod yn cael ei ddesgrifio gan rai fel yn hollol gyfyngu yr ymchwiliad i natur i gyfosiad. Yn ei *Nov. Org.*, ii, *aph.* 10, dywed y dylai yr ymchwiliad i natur gynnwys dwy elfen—"Y *gyntaf* a berthyna i gyrrhaeddiad arwirebau (*axioms*) oddiwrth brofiad, a'r *ail* i'r casgliad neu y cyrrhaeddiad o brofegion newyddion oddiwrth arwirebau." Dyna *induction* yn cyrrhaedd egwyddor, a *deduction* yn ymresymu yr hyn sydd yn bod oddiwrth egwyddor. Ond y ffaith ydyw, fel y dywed Whewell, mai gyda'r elfen flaenaf y gweithiodd rymusaf; ac, yn wir, dywed rhai—J. S. Mill a Lewes—fod yr esgeulusiad yma o eiddo Bacon i'w briodoli i'r ffaith ei fod yn anhyddydg mewn gwybodaeth wyddonol (*mathematical knowledge*). Yr oedd Des Cartes, o'r ochr arall, yn gampwr yn hyn; ac y mae wedi gadael ei ol ar y wyddor. Mae dilyn y naill heb y llall yn sicr o arwain i ganlyniadau niweidiol a pheryglus; ond cymerer y ddau yn gyfochrog, a cheir athroniaeth gywir a firwythlawn. Yr oedd Bacon yn esgyn oddiwrth wrthddrychau at ddeddfau, neu y moddau ymha rai y gweithredai natur; ond ni fynai esgyn yn uwch. "Fe

allai y byddai yn ddichonadwy," medd efe, "i angelion, neu fodau ardderchocach na ni, benderfynu ar unwaith beth ydyw esyll pethau, oddiwrth yr ystyriaeth gyntaf o honynt; ond y mae hyny, yn sicr, tuhwnt i allu dyn." Ydyw, yn ddiau; ond y mae yn bosibl i ddyn, tra yn cychwyn o'r pwynt priodol, ac yn gweithio gydag arfau priodol, gyrhaedd y wybodaeth o rywbeth uwch na deddfau Bacon. Os nad ydyw ei adenydd yn ddigon cryf i'w gludo ar wibdaith eryraidd drwy fyd y gwirioneddau anghenrheidiol a thragywyddol, a'i osod i gymdeithasu gyda'r diammodol a'r annherfynol ei hun, a'i nerthu i dreiddio "dirgelwch hanfodiad;" eto, credir y gall gyrhaedd amgyffredion—nacöol, os nad cadarnhäol—am y gwrth-ddrychau hyn.

Sonir yn fynych am ddull Kant, Hegel, Victor Cousin, ac eraill llai enwog; ond nid oes dim mwy i'w olygu na'u herlyniad o'u pwnc mewn cydfurfiad äg un o'r dulliau a nodwyd. Mae y prif elfenau yn gynnwysedig yn y ddau hyn. Mae pob athronydd yn rhwym o gychwyn gyda'r byd allanol neu feddyliol. Gall ddewis wedi hyny pa un ai *induction* neu *deduction*, neu ynte ai y ddau, fydd ei offerynau. Ond bydd y dewisiad hwn yn sicr o ddylanwadu ar ei gyfundrefn.

PENNOD IV.—ATHRONIAETH DDIWEDDAR.

Yr ydym, hyd yn awr, wedi bod yn ymdrin äg athroniaeth o dan yr enw arddansoddiaeth; ond y mae cylch gwybodaeth yn cael ei äangu gan Arglywydd Bacon, ac y mae cyfeiriad newydd yn cael ei roddi i athroniaeth. Y mae yn ddiau genym fod y darlennydd craffus wedi sylwi mai tuedd *dull* Bacon, ydyw dyrchafu y gwyddiannau anianyddol. Yn ol Bacon, os byddis am gael allan wirionedd ar unrhyw beth, y llwybr goreu ydyw myned i chwilio am dano at y peth ei hun, ac nid ei gasglu oddiwrth yr hyn sydd yn wir ynghylch rhywbeth arall. Nid oedd ei fod ef ei hun yn anadlu ddim yn profi i Bacon fod y bydysawd mawr yn anadlu; nid oedd ei fod ef yn feddiannol ar enaid, ddim yn profi iddo ef fod y byd materaidd yn meddu enaid; ac nid oedd bod Aristotlele yn gallu dangos trwy ymresymiad cywraïn, ei bod yn anmhosibl i'r haul fod yn gyfnewidiol neu yn llygradwy, ddim yn profi i Bacon mai felly yr oedd. Nid oedd y prawf yn dyfod o'r man iawn, a chau hyny yr oedd yn pallu ei dderbyn. Clywsom am un o hen bregethwyr mwyaf gwllithog Cymru, fod y ceffyl wedi dianc äg ef ymaith; ond wrth fyned heibio i'r capel, fod un o'r bobl yn galw ar ei ol, "Mr. —, i ba le yr ydych yn myned?" i'r hyn yr atebai yr hen wr ffel, "Gofynwch iddo fe," gan gyfeirio at y ceffyl. Dyna yn hollol fel yr oedd Bacon. Pan fyddai am ddeall rhywbeth, ei ddull oedd myned i ymofyn ä'r peth hwnw ei hunan; neu, fel y dywed yr athronydd, "*interrogate nature.*" Yr oedd y byd yn barod i dderbyn dull oedd yn addaw dyfod ä'r fath-gynnyrch toreithiog o ffrwyth, gan dybied, o bosibl, os nad oedd yn rhagori ar yr hen ddull, nas gallai fod yn waelach nag ef. Ond cawyd allan yn fuan mai dull ardderchog oedd, a bod y byd i symud ymlaen o dan ei arweiniad. Un o'r pethau cyntaf a welir yn cael ei effeithio drwyddo ydyw dosbarthu y gwyddiannau; ac wele dri dosbarth mawr yn hänu megys o'r hen arddansoddiaeth, sef athroniaeth y meddwl—athroniaeth mater yn gyffredinol—ac athroniaeth dyledswyddau; neu, yn ol y termau cyffredin, Athroniaeth Feddyliol, Athroniaeth Naturiol, ac Athroniaeth

Foesol. Ond, i fenthycu geiriau Syr J. Mackintosh, "Nis gellir defnyddio y rhanriad hwn, fodd bynag, yn ddiberygl, heb hysbysu i'r darlennydd nad oes un wyddiant yn hollol unigol, ac yn sefyll ar ei phen ei hun, ac nad ydyw egwyddorion un yn fynych yn ddim ond canlyniadau a chasgliadau un arall." Y mae y rhai hyn, drachefn, yn bwrw allan eu cangenau ymhob cyfeiriad, ac un wyddiant yn deilliaw yn barhaus o wyddiant arall, nes y maent, erbyn ein dyddiau ni, bron yn rhy liosog i'w henwi mewn rhyw erthygl gyfyng o fath hon. Ond, yr ydym yn maentumio drachefn yr hyn a faentumiasom ar y dechre, sef fod athroniaeth y meddwl a'i weithrediadau yn gorwedd o dan y lleill oll—ei bod yn rhyw *substratum*, ymha un y cydgyfarfyddant; ac yr ydym yn barnu y byddwn yn ymgadw yn gaeth at ein testun wrth gyfyngu ein sylwadau o hyn hyd ddiwedd ein hysgrif at arddansoddiaeth. Digon bychan fyddai traethawd llawer helaethach na hwn i roddi dim ond cipolwg ar y wyddiant foesol yn ei holl wahanol ddadblygiadau. Ac mewn perthynas i'r hyn a elwir yn athroniaeth naturiol, yddai yn ofynol cael cyfrol gymedrol ei maint cyn y gellid esbonio ei hegwyddorion, heb son am sylwi ar ei holl raniadau, o seryddiaeth i lawr hyd fesmeriaeth. Gyda'r sylwadau rhagarweiniol yna, yr ydym yn dychwelyd at ein testun.

Victor Cousin a sylwa mai un o nodweddion mwyaf amlwg athroniaeth ddiweddar, ydyw ei hannibyniaeth. Yr oedd athroniaeth y canoloesau yn ddarostyngedig i dduwinyddiaeth; yr oedd athroniaeth y bymthegfed ganrif, a'r unfed ar bymtheg, wedi ei chaethiwo, fel y caufyddir oddiwrth y sylwadau a wnaethpwyd eisoes, gan ryw edmygedd cyffredinol o'r hen athronwyr. Ond y mae yn ffaith amlwg am bleidwyr a chyhoeddwy'r cyntaf athroniaeth ddiweddar, eu bod oll, gyda'r eithriad o Bacon a Leibnitz, yn anwybodus o, neu heb feddu dim parch i, yr hen athroniaeth—"o'r braid y darlennent ddim arall heblaw yr hyn a geir yn natur, ac yn yr ymwybyddiaeth." Ac megys nad ydynt yn parchu henafiaeth, nid ydynt ychwaith yn cymeryd eu harwain gan dduwinyddiaeth. "Na, y mae dau dad athroniaeth ddiweddar yn ddau leygwr; a chydag ychydig eithriadau, gellir dywedyd am yr athronwyr mwyaf ardderchog o'r eilfed ganrif ar bymtheg hyd ein hamser ni, mai nid o renga'u yr Eglwys y daethant." Dyna athroniaeth, gan hyny, yn annibynol ar yr henafiaid, ac yn ymddadrys yn llwyr o'r llyfftheiria'u eglwysig oedd wedi hir attal ei ffiniant.

Yr ydym eisoes wedi sylwi ar dadau athroniaeth ddiweddar, sef Bacon a Des Cartes, ac wedi awgrymu hefyd ymha gyfeiriad yr oedd yn naturiol i ddull y naill a'r llall arwain ei ddygybllion. Cenydd y darlennydd hefyd mai dattod neu ddansoddi pob peth oedd llwybr y ddau o gyrhaedd gwirionedd; ond y maent yn gwahaniaethu yn hyn, sef fod un yn dadansoddi *natur allanol*, a'r llall yn dadansoddi *natur dufewnol*, neu y meddwl: "un a ddibynai fwy ar dystiolaeth ei synwrau nag ar eiddo ei ymwybyddiaeth;" ac y mae y gwahaniaeth hwn yn un mawr a phwysig. Y canlyniad o hyn ydyw, fod athroniaeth yn cychwyn allan ar ddau lwybr gwahanol. Ein gorchwyl blaenaf yn awr fydd olrhain y ddau lwybr yma hyd ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg—o'r cychwyniad cyntaf hyd yr adeg y cawsant eu huno, mewn ystyr, yn Leibnitz. Dechreuwn gyda'r llwybr Baconaidd.

THOMAS HOBBS

Ydyw y cyntaf, dybygid, a ddefnyddiodd y dull Baconaidd o athronyddu

at y *meddwl*. Er, fel yr awgrymasom yn barod, mai tuedd arbenicaf y dull hwn oedd dyrchafu synwriaeth fel y brif gynneddf yn nghyrhaeddiad gwybodaeth; eto, nid oedd ei awdwr wedi bwriadu iddo gael ei gyfyngu yn hollol at natur allanol. Y mae yn eglur nad oedd Bacon ei hun yn nemawr o arddansoddwr, nac yn hyddysg ychwaith mewn gwyddoniaeth yn gyffredinol; a dyna y rheswm paham, o bosibl, na buasai wedi troi ei beiriant i weithio rhywfaint yn y rhan feddyliol. Hobbes a ganfyddai fod y dull hwn wedi cyfoethogi athroniaeth naturiol mewn modd dihafal; cymhwysodd ef, gan hyny, at y byd meddyliol. Olrheiniodd bob ffaith feddyliol yn ol i synwriaeth. Maentumiodd fod y meddwl, o ganlyniad, yn fateraid, ac nid yn fôd ysbrydol, yn meddu gwreiddyn ei holl weithrediadau ynddo ei hun. Ni chredai yn nelweddau Plato, nac yn egwyddorion hanfodol Aristotle. Nid oes, meddai, y fath bethau â chynneddfau deallol. Y mae yn wir y noda ddefnyddiaeth (*imagination*), ond nid yw hyn ond synwriaeth yn diflanu, sef delw wanaidd o'r teimlad a gynnyrchwyd gan wrthddrych neillduol. Ac felly, dyna ddyn wedi cael ei wneyd yn rhan a chyfran o'r byd allanol—ni ddylanwadir arno gan ddim ond gwrthddrychau y byd hwnw—heb na gallu nac ewyllys o'i eiddo ei hun. Dyna ddechreu drwg ar y dull Baconaidd, bid a fyno.

GASSENDI

Ydyw yr athronydd a enwir yn gyffredin ar ol Hobbes, am ei fod yn neillduol hoff o weithion yr awdwr hwnw, ac iddo wneuthur llawer i ledanu ei olygiadau. Gibbon a ddywed am y gŵr hwn ei fod y mwyaf dysgedig o athronwyr ei oes, a'r mwyaf athronyddol o'r dysgedigion. Efe a fabwysiadodd athroniaeth Epicurus, "a threuliodd ei oes i ailgodi athroniaeth y gŵr hwnw; efe a ghymerodd ofal mawr, fodd bynag, hyd yn nôd ar wnebdalen ei lyfr, i hysbysu ei fod yn ymwrthod â phob peth ynddi ag oedd yn wrthwyneb i Gristionogaeth. Ond pa fodd y gallai lwyddo i wneyd hyn? Egwyddorion, gweithrediadau, a chanlyniadau pobpeth yn Epicurus nid ydynt ond synwroliath, materolaeth, atheistiaeth." Dywedir ei fod yn fynych pan yn cyfarfod â Des Cartes, yn gwaeddi, *O mens! O ysbryd!* ac atebai Des Cartes ef, *O caro! O fater!* ac y mae yn ddiau fod gan ei olygiadau ddylanwad mawr ar ffurfiad cymdeithas yn Ffrainc, yn niwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg.

JOHN LOCKE

Ydyw arddansoddwr yr ysgol Baconaidd; a buan y cymylwyd Hobbes gan ei fawredd ef. Y mae yn ddiammheuol mai hwn ydyw yr arddansoddwr mwyaf a gynnyrchodd Prydain Fawr. Y lle ymha un yr ymddangosodd ei athroniaeth gyntaf ydoedd y llyfr gwir fawr hwnw, *Essay on the Human Understanding*, prif achlysur ysgrifeniad pa un ydoedd athrawiaeth Des Cartes ar ddrychfeddyliau, at ba un y cyfeiriasom eisoes, a'r hon y sylwir arni eto. Y mae llyfr Locke yn dechreu trwy wrthbrofi yr hyn a gredid gan yr athronydd hwnw ynghylch gwreiddyn gwybodaeth. Eglur ydyw, oddiwrth hunanamddiffyniadau y Ffrencwr, ei fod yn dal fod yn y meddwl dynol egwyddorion neillduol yn hanfodi, y rhai na ddaethant yno o synwriaeth, ac mai dyna yr oll a faentumid ganddo. Ond ni chredai Locke, hyd yn nod hyny, er ei fod ef, a phob dyn arall, o dan yr anghenrheidrwydd o apelio at ryw egwyddorion, pa rai nis gellir rhoddi un rheswm am danynt,

fel yn sicrhâu ein holl wybodaeth. Heb yr egwyddorion hyn, rhaid cydnabod na byddai profiad yn ddichonadwy; ac fel y cyfryw, y maent yn ammodau profiad; ac fel y maent yn ammodau profiad, rhaid eu bod, a siarad yn arbwyllgeol, yn rhagflaenu profiad. Eithr iaith Locke am wreiddyn drychfeddyliau ydyw, "Ein holl ddrychfeddyliau a ddeuant o synwriaeth, neu adfyfyriad."* Wrth *synwriaeth*, golyga y teimlad hwnw ag yr ydym ymwybodol o hono, pan effeithia rhywbeth ar y synwryau corfforol. Wrth *adfyfyriad*, golyga allu y meddwl i fyfyrio, drwy rym ei gynneddfau, ar yr hyn a ddygwyd iddo o'r byd allanol gan y synwryau. Dyna ddau ddoesbarth o ddrychfeddyliau, ynte. Y mae y rhai synwryddol, o anghenheidrwydd, yn tarddu o wreiddyn allan o'r meddwl; ond nid ydyw y rhai adfyfyriadol ond dullweddiadau o'r rhai synwryddol. Ar y tir yna, golygir nad ydyw yr athronwyr, Ellmynaeg a Ffrenegaeg ymhell o'u lle pan yn dyweyd mai synwriaeth, yn ol Locke, ydyw gwreiddyn ein drychfeddyliau. Y mae yn eglur na olygai fod ein meddyldrychau adfyfyriadol yn ddim mwy na dullweddiadau o'r rhai a geir o'r byd oddi-allan drwy y synwyr; canys dywed, "Ni welaf un rheswm i dybied fod yr enaid yn meddwl cyn i'r synwryau gyflwyno iddo ddrychfeddyliau i feddwl arnynt."† Yr holl wahaniaeth a allwn ni ei ganfod rhwng Locke a Condillac, ydyw hyn.—Y mae y meddwl, yn ol Locke, yn meddu cynneddfau i adffurfio y drychfeddyliau cyntaf; tra, yn ol Condillac, na fêdd y cyfryw gynneddfau. Haera Locke nad ydyw meddyliaeth yn bosibl ond mewn cysylltiad â synwriaeth; a chan hyny, synwriaeth ydyw ffynnonell sawr pob drychfeddwl ddaw i'n hymwybyddiaeth fyth. Y mae pleidwyr a dysgyblion Locke yn dychrynu rhag y dybiaeth mai efe oedd achlysurydd yr athroniaeth synwryddol ag a fynodd mor gyffredin yn Ffrainc yn y ganrif ddiweddaf. Hawdd y gallant; canys y mae y gyfundaeth a gynnwysa hadau y fath gyfeiliornadau erchyll, yn rhwym o fod yn wir beryglus ynddi ei hun. Mynych y sonia dysgyblion Locke am gynneddfau meddyliol, ac y mae yn bwnc hoff ganddynt ddangos fod eu hathraw yn dal fod yn y meddwl alluoedd neu gynneddfau. Ond pa faint y mae hyna yn gwella ar y pwnc? Dim; canys nid ydyw y meddwl yn rhagflaenol i brofiad ond megys *tabula rasa*, ac nid ydyw y drychfeddwl a geir trwy brofiad yn cael ei ychwanegu na'i leihâu drwy weithrediad y cynneddfau. Dylasai ganiatáu, gan hyny, fel y dywed Condillac, nad oedd ond y *gwreiddyn* drychfeddyliau, a hwnw ydyw synwriaeth. Beth bynag ydyw sylwedd y drychfeddwl yn y synwyr, dyna fydd ei sylwedd pan yn adfyfyriadol. Gwreiddyn yr adffurfiad neu ddullweddiad yn unig oedd y gynneddf adfyfyriadol. Myn rhai o'i feirniaid nad ydyw ei waith rhagorol namyn golygiadau ei ragflaenor Hobbes, wedi eu gosod allan ar wedd fwy poblogaidd; ond, er y caniatêir fod cyfeiliornadau pwysig wedi ymlusgo i'w draethawd, eto, y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddo fel dyn â Hobbes. Tueddai egwyddorion yr olaf yn anocheladwy i ddiddymu moesoldeb; ni olygai dda a drwg, ond yn unig fel enwau ar bleser neu boen, sef synwriaethau hyfryd neu anhyfryd. Y mae y cyfryw grediniaeth yn serio y gydwybod, ac yn haiarneiddio y galon; a pharotôa ddynion i gyflawni pob pechod yn unchwant. Y mae ei wersi mewn llywod-ddysg yn gyffelyb hefyd, fel y gellid dysgwyl oddi-wrth ei olygiadau ar foesoldeb. Yn ol y rhai hyn, y mae gallu ac union-

* *Essay on the Human Understanding, Book 2, chap. 1, sec. 2.*

† *Book 1, chap. 1, sec. 20.*

deb (*right and might*) yn eiriau cyfystyr; y mae yn iawn i ddyn ymgyrhaedd at ei ddaioni ei hun pe dinystriai gysur pawb arall drwy hyny. Felly yr yspeilir y doeth a'r da, fel y sylwa Hallam, o'u prif gysuron, yn eu holl orthrymderau. Mae y ddynoliaeth ddiniwed a dyoddefus wedi cyfarfod â balm iachäol i'w briwiau tanllyd, yn y drychfeddwl o gyfiawnder Duw—bod Duw a gosba bechod; ond os ydyw yr awdwr yma yn gywir, y mae y cyfryw apeliadau at gyfiawnder yn hollol ofer a diles. Eithr nid felly Locke. Efe a barchai grefydd, credai yn Nuw, a gosodai bwys mawr ar y gwirioneddau gwerthfawr o ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb yr enaid; ac eto, y mae ei athroniaeth wedi bod yn offerynol i arwain rhai dynion i'r cyfeiliornadau echrystalaf. Y mae grym gwrthdadau Condillac yn fenthycol oddiwrth yr egwyddor hönö mewn fferylliaeth, nad ydyw cyfuniad sylweddau, megys cyfuniad y ddau nwy—*hydrogen* ac *oxygen*—i gyfansoddi dwfr, yn ychwanegu dim at swm y sylweddau yn eu sefyllfa unigol. Haera Dr. Brown nad teg a phriodol gwneyd y cyfryw gyfatebiadau mewn pynciau arddansoddol. Gwir iawn nad diogel eu dilyn yn rhy bell, na'u gwn-euthur yn rhy fynych, ond y mae yn bosibl cael allan ambell egwyddor werthfawr yn y modd yma. Os priodol dyweyd mai *hydrogen* ac *oxygen* ydyw dwfr, am y gellir ei ddadansoddi i'r elfenau hyn, onid priodol dywedyd mai synwyr corfforol ydyw gwreiddyn ein drychfeddyliau, tra y credom nad oes dim yn y meddwl ond a gyfarwyddwyd iddo gan y synwyr? Yr un ydyw elfenau dwfr pan yn y ffynnon fechan greigiog, a phan yn fynyddoedd o iâ; pan yn disgyn i'r ddaear yn ffurf y cenllysg trystfawr, a phan yn cael ei dawel sugno o'r ddaear gan wres yr haul. Felly, tybir mai yr un, yn ol golygiadau Locke, os ydyw am fod yn gyson ág ef ei hun, ydyw y drychfeddyliau cyfunol a ffurfir gan y deall, a'r rhai a gyflwynwyd i'r meddwl ar y cyntaf gan y synwyr; ac, o ganlyniad, mai y synwyr ydyw eu gwreiddyn.

Sylwa un beirniad manylgraff am Locke, ei fod yn ysgrifenu ar y "Deall" er mwyn dysgu rhywbeth newydd; a chan hyny, nid rhaid rhyfeddu ei fod weithiau yn anghyson ág ef ei hun. Enghraifft neillduol o hyn yw yr un ganlynol, "Golygid y dyn hwn yn ddifffygol o synwyr cyffredin, yr hwn a ofynai ar y naill law, neu a geisiai roddi rheswm ar y llaw arall, paham y mae yn anmhosibl i'r un peth fod a pheidio bod."* Dengys Hamilton fod yn y froddeg yna "gyfaddefiad, pwysigrwydd yr hwn ni chanfyddwyd gan Locke na'i wrthwynebwyd;" canys y mae yn ganiatâd eglur a dihoced, er yn wrthwynebol i holl ysbryd y gyfundraeth, nad ydyw ein holl wybodaeth yn tarddu o brofiad allanol. Yr ydym yr un mor sier o wirionedd y ffaith, mai anmhosibl i'r un peth fod a pheidio bod, ag ydym o'r wybodaeth a gawn drwy brofiad allanol; eto, y mae gwirionedd y blaenaf tu hwnt i'n hamgyffred—nid ydym wedi ei gael oddiallan. Y mae yn ddeddf hanfodol yn y meddwl. Nid ydyw ei waith yn apelio at synwyr cyffredin dynion ar hyn, yn ddim amgen na'r hyn a wnaeth Reid mor gampus, a gellir ei olygu yn gydweddol â "*synthetic judgments*" a priori Kant. Gwyddis, fodd hynag, mai golygiad Locke ydoedd, mai y ddwy ffynnonell a enwyd eisoes oedd gwreiddyn ei holl wybodaeth.

Locke, ebe Cousin, yn ei *Elements of Psychology*, tudalen 57, ydyw y cyntaf a roddodd ddadansoddiad o'r synwyr, gan nodi y gwahanol beiriannau

* Book 1, chap. 3, sec. 4.

a'i cyfansoddant, y drychfeddyliau priodol i'r naill a'r llall o honynt, ac i gydweithrediad amryw o honynt. Efe hefyd oedd y cyntaf i roddi y siampl o'r hyn a ddaeth wedi hyny, yn nwyllaw ei olynwyr, yn athroniaeth y cynneddfau meddyliol. Os golyga Cousin mai Locke oedd y cyntaf i ddsodbarthu y meddwl yn gynneddfau gwahanol, y mae y ffaith fod Aristotle wedi gwneyd hyny o'i flaen yn cael ei dwyn yn ei erbyn; ac y mae yn eglur nad oedd prif ddsodbarthiad Locke amgen na hen ddsodbarthiad Aristotle o'r enaid i *ewyllys* a *deall*. Yn ol yr athronydd yma, y synwyr oedd yn dwyn i'r meddwl bob drychfeddwl; ond y mae gan ddyw allu adfyfyriadol hefyd. Y cynneddfau meddyliol ydynt,—*Darganfodiad* (yr hyn sydd yn gyfystyr âg ymwybodolrwydd), *cof*, *gwahaniaethiad* a *chymhariad drychfeddyliau*, *cyfansoddiad*, a *dansoddiad* a *chuffredinol*iad. Gwasanaeth y *cof* ydyw cadw yn y meddwl y gwahanol ddarganfodion, a'u hadalw ar ol eu difaniad. Y gynneddf o *gymhariad* a wahaniaetha ac a gymhara wahanol ddrychfeddyliau y synwyr. Ail unir y rhai hyn gan y gallu o *gyfansoddiad*. Ac yn y diwedd, gweithreda y gynneddf o *ddansoddiad* a *chuffredinol*iad arnynt, gan gasglu beth ydyw eu nodweddion mwyaf cyffredinol. Gwelir yma mai *synwyr* ydyw y brif ffaith, canys y mae gweithrediad y cynneddfau yn hollol ddibynol arni. Mae Locke wedi cymeryd traferth fawr i ddangos nad oes un ffaith yn y meddwl ar nas gellir cyfrif am dani drwy y cynneddfau hyn. Mae y cynneddfau hyn, medd efe, yn sicr o'i holrhain yn ol i'r synwyr mewn rhyw ddull neu gilydd. *Dywedir* mai gwreiddyn y cyfeiliornad hwn yn Locke oedd, nad ydoedd wedi iawn ddeall y dull Baconaidd o ymchwilio i natur, a'i fod felly wedi esgeuluso yn hollol yr elfen gyntaf ynddo, sef casglu ynghyd yr holl ffeithiau. Yn lle ymchwilio yn *gyntaf* i nifer a natur y drychfeddyliau, ymgeisiodd at gael allan eu gwreiddyn.

DES CARTES.

Ar ol traethu cymaint a hyna ar y llinell ymha un yr arweiniodd *dull* Bacon ddynton, dychwelwn yn awr at ddull Des Cartes, yr hwn a ystyrir yr athronydd cyntaf ag a fu yn alluog i gymylu nemawr ar Plato ac Aristotle. Ffaith gychwynol ei athroniaeth ydyw ei ymwybyddiaeth o'i fodolaeth ei hun. Ystyriai hon yn ffaith anwrthwynebol, yn ymgfyodi yn naturiol o'r, neu, yn wir, yn cyd-ddyfod i'r, meddwl â'r ffaith o feddyliaeth. Yr oedd yn ymwybodol hefyd o amryw syniadau eraill, dilysrwydd pa rai a fernid ganddo wrth eu heglurdeb a'u gwahanolrwydd (*clearness* and *distinctness*), sef eu bod, yn 1af, Yn hanfodi yn amlwg a chlir yn y meddwl; ac, yn 2il, Eu bod yn hollol wahaniaethol oddiwrth bob rhai eraill. Wrth ymofyn â'i ymwybodolrwydd, cafodd yno ddwy ffaith yn hanfodi yn eglur a gwahaniaethol, i.e, yn fwy felly o lawer iawn na dim rhai eraill. Y rhai hyn oeddynt y syniadau am *berffeithrwydd* ac *anfeidröde*. Y maent yn briodoleddau rhyw fôd, meddai, a'r bôd hwnw ydyw Duw. Dyna y drychfeddwl am Dduw i'w gael yn *a priori* yn y meddwl. Dyna ddrychfeddwl *cynhenid* (innate), ynte, medd Locke a'i ganlynwyr. "Os ydyw y drychfeddwl am Dduw," medd Mr. Lewes, cyf. iii, tudal. 107, "yn gynhenid ynom, nid ydyw mwyach na bwnc o gasgliad, ond o ymwybodolrwydd." Ymddengys i ni bod hyna yn gamddarluniad; canys y ffeithiau gwreiddiol yn yr ymwybodolrwydd oedd *perffeithrwydd* ac *anfeidrödd*; y galluoedd deallol oedd wedi dyfod o hyd i'r casgliad mai priodoleddau Duw oeddynt.

Cadarnheir hyn gan yr athronydd ei hun, canys ei faith bendant ydyw, "Pan ddywedais fod y drychfeddwl am Dduw yn wreiddiol ynom, ni feddyliais erioed fwy na hyn, bod natur wedi ein cynnysgaethu â chynneddf drwy ba un y gallwn adnabod Duw; ond nid wyf erioed wedi dyweyd na meddwl bod i'r cyfryw ddrychfeddyliau hanfodiad gwirioneddol, na'u bod hyd yn nod yn rhywiau gwahanol i'r gynneddf o feddwl. Er bod y drychfeddwl am Dduw wedi ei argraffu mor ddwfn ar ein meddyliau, fel y mae gan bob person ynddo ei hun y gynneddf i'w adnabod ef, nid ydyw yn canlyn nad all fod amryw bersonau y rhai a dreuliasant eu bywyd heb erioed wneuthur y drychfeddwl yma yn un eglur o welediad; ac mewn gwirionedd, pwy bynag a feddyliant fod ganddynt ddrychfeddyliau am liosogedd o dduwiau, ni feddant unrhyw ddrychfeddwl am Dduw." Dyma yr adran a ddyfynir gan Mr. Dugald Stewart, yn ei "*Dissertation*" yn yr "*Encyclopædia Britannica*," er gwrthbrofi y dybiaeth fod yr athronydd yma yn credu mewn drychfeddyliau cynhenid. Tybygem ei bod yn eglur iawn, ac yn cynnwys ynddi benderfyniad ar y ddadl. Fodd bynag, y mae Mr. Lewes yn penderfynu na chred y casgliad a dynir gan Mr. Stewart, er ei fod yn gorfod cyfaddef cywirdeb y dyfyniad; ac, eb efe, "Yn erbyn y cyfryw adran, ni a ddygwn un arall llawn mor eglur (a gallem ddwyn hanner cant, pe yn anghenrheidiol), pa un a haera fodolaeth drychfeddyliau cynhenid." A dyma y froddeg,—“Wrth y gair meddylidrych, golygaf yr oll a ddichon fod yn ein meddyliau; ac yr wyf yn canfod tri math o ddrychfeddyliau—rhai *damweiniol*, fel y drychfeddwl cyffredin am yr haul; rhai wedi eu *ffurfio* gan y meddwl, y cyfryw ag a rydd ymresymiad seryddol i ni o'r haul; a rhai *cynwynol*, megys y drychfeddwl am Dduw, meddwl, corff, triogel, ac yn gyffredinol yr holl rai hyn ag a *gynnrhychiolant sylwedddau gwir, digyfnwid, a thragywyddol*.” Ofinwn bod Mr. Lewes yn camgymeryd y gwadiad a wneir gan Mr. Stewart, neu yn camgymeryd y froddeg a ddyfynodd i'w wrthbrofi. Nid ydyw y froddeg a ddyfynodd yn wrthddadl o fath yn y byd yn erbyn golygiad Mr. Stewart, canys efe a ddywed fod Des Cartes yn dal fod yn y meddwl egwyddorion neillduol a hanfodol, heb y rhai ni fuasai meddyliaeth yn bosibl—dwy o ba rai oedd *perffeithrwydd* ac *anfeidredd*—a bod genym gynneddf i weithredu ar yr hyn a fo yn y meddwl; a chan hyny, nad oedd y meddwl mwy nag yn ffurfio y drychfeddwl am Dduw, &c., oddiwirth yr egwyddorion a feddai yn wreiddiol yn ei gyfansoddiad. Y mae y drychfeddwl yma o'r un natur a'r ail ryw a enwa yr athronydd, gyda'r gwahaniaeth fod defnyddiau yr ail i'w cael o rywbeth oddiallan i'r meddwl, tra y mae defnyddiau hwn yn ddeddfau y meddwl—yn hanfodol i'r meddwl. Y meddwl oedd wedi *ffurfio* y ddau.

Ystyriwn hyn o ryw bwys i'n gorchwyl presennol, gan mai yn y fan yma y dechreuadl anorphen athroniaeth ddiweddar. Y mae Mr. Dugald Stewart, yr hwn a olygir fel un o'r rhai mwyaf cyfarwydd mewn hanesiaeth arddansoddol, a galluoedd beirniadol pa un oedd yn gawraidd, yn eglur ddynodi na ddaliodd Des Cartes y gyfryw athrawiaeth. Y mae Syr William Hamilton, "prif feirniad yr oes," yn hollol gydolygu âg ef. "Wrth ddrychfeddyliau cynhenid yn gyffredinol," medd efe, "golygai Des Cartes yn unig y gynneddf fewnol a feddwn i ffurfio neu ddadlenu ymddangosiadau neillduol mewn ymwybodolrwydd (pa un bynag ai gwirioneddau anghenrheidiol neu achlysurol), yn ganlynol i, ond yn hollol wahaniaethol oddiwirth, briodoleddau yr hyn fyddo yn dylanwadu, ac ysgogiadau

y cyflawmiad ar yr hwn y dylanwadir; ac nad ydyw yr ymddangosiadau neu y drychfeddyliau hyn yn ddim amgen na sefyllfaoedd y gwrthddrych ymwybodol ei hun. Ar y tir yma y mae ar brydiau yn galw y priodoleddau eilyddol yn gynhenid, yn gymaint a'u bod, yn weithredol, yn foddau o feddwl yn unig, ac yn alluog (*potentially*) yn dueddiadau mewnol i gael eu dullwedd yn y naill fodd neu y llall.* Golygwn, gan hyny, nad oedd Des Cartes yn dal yr athrawiaeth o ddrychfeddyliau cynhenid yn y modd y priodolir hi iddo gan Locke a'i ganlynwyr. Ymddengys, yr un pryd, ei fod, fel Aristotle, yn credu bod gwirioneddau neu egwyddorion anghenrheidiol a thragywyddol yn hanfodi, ar ba rai, fel cynseiliau, y dibynai ein holl wybodaeth. Talai sylw hefyd i brofiad allanol.

Y mae Des Cartes, felly, wedi cymeryd llwybr hollol wahanol i Locke a'i gyfeillion. Yn treiddio i mewn i'w ymwybyddiaeth y mae y Ffrencwr; y mae yn cael yno fod ei enaid yn ysbrydol, a bod Duw yn bod, heb ymresymu dim ar y pwnc; ond, fel y sylwa Cousin, y mae yn ddiammheuol ei fod wedi cyfeiliorni wrth beidio gosod y prawf o fodolaeth y byd allanol yn yr un man. Y mae yn anmhosibl, medd efe, i ddyn beidio a chredu bodolaeth yr enaid, a Duw; ond y mae yn rhaid iddo ymresymu yn hir cyn cyrhaedd sicrwydd am fodolaeth y byd allanol. Dyna Des Cartes wedi ymwadu gymaint â'r byd allanol ag y gwnaeth Hobbes, Gassendi, a Locke, â'r byd meddyliol; ac megys ag y mae gan yr athroniaeth synwryddol ei chanlyniadau echrslawn, felly hefyd y mae i hon ei heffeithiau gwir ofidus.

"I symio i fyny, ynte," medd Mr. Morell, "ein holrheiniad o ddylanwad Des Cartes ar athroniaeth, ni a ddywedem, tra y dysgodd y gŵr y gwir lwybr ar ddadansoddiad meddyliol, ac y tynodd lawer o gasgliadau ardderchog oddiwrtho, eto fod ei ysgrifeniadau, ar y cylan, yn tueddu i ddyrchafu y meddylddrych am yr anfeidrol a'r hanfodol uwchlaw pob rhai eraill, ac felly efe a barotôdd y ffordd, fel y cawn weled yn ebrwydd, i gyfundrefn gyflawn o *amgyffrediaeth wrthddrychol* (objective idealism)."

Y mae gan Des Cartes ddau fath o ddysgyblion,—sef y dosbarth ag sydd wedi derbyn ei athroniaeth, a'i ddull; a'r dosbarth ag sydd wedi ymwrthod â'i athroniaeth, ond wedi derbyn ei ddull. Y mae ei ddull yn treiddio trwy athroniaeth yr Almaen, yr Alban, a Lloegr; ond y mae ei athroniaeth yn cael ei chyfyngu yn neillduol at ddau ddyn mawr, y cyntaf o ba rai, yn ol trefn amser, oedd Spinoza, ond y cyntaf o ran trefn pwnc oedd

Y TAD MALEBRANCHE.

Cychwynfan Des Cartes oedd, "Meddyliwyf, am hyny ydywf." Yr oedd felly yn sefydlu ar unwaith fodolaeth yr enaid, sef y defnydd hwnw ag sydd yn meddwl. Yr oedd yn ei ymwybyddiaeth rai meddylddrychau hynod o aneglur, yr hyn oedd yn profi iddo nad oedd ei enaid yn fôd perffaith; ond y mae yr enaid hwnw hefyd, meddai, yn cynnwys un meddylddrych hynod iawn o eglur, a gwahaniaethol oddiwrth bob un arall, sef y meddylddrych am Fôd hanfodol a pherffaith; ac yn awr, nis gall yr enaid anmherffaith feddwl meddylddrych perffaith, oddieithr ei ddyfod iddo oddiwrth Fôd perffaith; ac os felly, y mae yn canlyn fod y meddylddrych yn gynnwyl yn y meddwl. Ond wele Des Cartes yn awr yn gollwng cyfeiliornad mawr i mewn, sef bod yr holl grëadigaeth yn dibynu yn hollol ar

* Reid's Works, tudal. 782.

ewyllys y Crëawdwr, “ gan wneuthur hyd yn nod gwirionedd anghenrheid-iol yn ymddibynol ar hyny, yn hytrach nag ar natur pethau.” A pha beth ydyw canlyniad hynyna? Wel, hyn: Y mae ail-achosion yn cael eu colli, i raddau mawr, o natur; canys pa ddoethineb sydd mewn rhoi deddfau, os na fydd y gwrthdrysychau yn ddarostyngedig iddynt? Yn ol yr athrawiaeth yna, gall y gwirionedd sydd yn ymddangos i ni heddyw yn anghenrheidol a hanfodol, fod yn rhywbeth arall yfory; y mae yn dysgu hefyd fod yr Hollalluog yn crëu wrth gynnal pob peth yn ystgal ag wrth ei ddwyn i fod ar y dechreu. O'r goreu, meddai Malebranche, y mae pob peth allanol yn syrthio yn fyr o fod yn *achos*, canys y maent oll yn ymddibynol ar yr ewyllys ddwyfol, ac nid ydyw son am ryddid dyn ond ffregod ofer a disail—Duw yw yr achos, a chan fod ynom ddyuniadau, a meddyliau, a gweithrediadau, pwy ond Duw ydyw awdwr o'r rhai hyny? Ac onid ydyw hyny yr un peth â dywedyd mai Duw sydd yn meddwl ynom ni. Ein byd deallol ni yw Duw. Dyna un canlyniad ofnadwy o'r athrawiaeth a gyhoeddwyd gan Des Cartes. Yr ydym yn dyfod yn nesaf at

SPINOZA.

Efe ydyw yr athronydd a ddilynodd egwyddorion Des Cartes i'w heithafion pellaf. Yr oedd Des Cartes wedi sefydlu y ddwy ffaith—ei fodolaeth ei hunan, a bodolaeth Duw. Yr oedd ei brawf o fodolaeth Duw yn dibynu ar y drychfeddyliau am *berffeithrwydd* ac *anfeidroldeb* ag oeddynt yn ei feddl. Ond yn ngolwg Spinoza, nid oedd y rhai hyn ond priodolledau bodaeth, ac nid bodaeth ei hun; nid oedd perffeithrwydd yn ddim ond priodoledd bôd perffaith. Yn awr, meddai Spinoza, y mae yn rhaid fod rhyw sylwedd—nid mater yn ystyr gyffredin y gair, cofier, ond rhyw waelod—o dan bob ymddangosiadau a phriodolledau, ymha un y maent yn gwreiddio. Y sylwedd hwnw ydyw yr hyn sydd yn bodoli yn wirioneddol, canys ymddangosiad yn unig ydyw priodoledd; y mae y briodoledd yn cyfranogi o fodaeth a sylwedd, ac felly yn ymddibynol; ond nid yw y meddylddrych a feddwn am sylwedd yn ddim llai na meddylddrych. Am rhywbeth yn meddu bodolaeth annibynol ynddo ei hun—rhywbeth ag nas gallwn dreiddio tu hwnt iddo. Ond pa fodd yr ydym i gyrhaedd rhyw adnabyddiaeth o'r sylwedd mawr hwn—yr hwn a raid fod o dan bob peth—ac a raid fod yr unig beth, gan nas gall un sylwedd gynnyrchu sylwedd arall, oblegid priodoledd ydyw pob peth a gynnyrchir? Y llwybr drwy ba un y mae i ni adnabod y sylwedd hwn ydyw drwy ei briodolledau, canys yr ydys yn golygu mai y priodolledau sydd yn cyfansoddi y sylwedd. Y ddwy briodoledd fawr ag sydd yn ein harwain i synied am sylwedd, ydyw arlediad a meddyliaeth; ac y mae y rhai hyn, pan yn perthyn i Fôd anfeidrol yn briodolledau anfeidrol, ond pan wedi eu huno mewn bôd meidrol, meidrol ydynt hwythau; ac felly y mae y priodolledau yn alluog o ymddangos mewn llawer o wahanol *fodau*; o ganlyniad, dyna y priodolledau yn perthyn i'r sylwedd mawr, a gwahanol *fodau* y priodolledau yn perthyn i'r priodolledau eu hunain—y blaenaf yn gosod allan natur y sylwedd, a'r olaf yn gosod allan natur y priodolledau. Pa beth, ynte, ydyw y canlyniad rhesymegol oddiwrth hyna? Y mae Duw yn bod, fel y sylwedd mawr anfeidrol ymha un y cyferfydd pob ymddangosiad a phriodoledd; a dyna natur yn gyffredinol, a dyn, yn briodolledau o'r sylwedd mawr, sef Duw. Ond megys ag y maent yn briodolledau, felly y

maent hefyd yn gyd-dragywyddol â'u sylwedd mawr; "Canys, megys nad oes yr un ymddangosiad heb wrthddrych, dim amherffaith heb berffaith, dim anfeidrol heb feidrol, ac megys y mae dyn a natur yn tybied Duw, felly nid oes dim sylwedd heb ymddangosiad, dim perffaith heb amherffaith, dim anfeidrol heb feidrol; ac y mae Duw hefyd yn tybied dynoliaeth a natur." Prif fai y gŵr hwn, fel y canfyddir uchod, yw gosod gormod o berthynas rhwng y briodoledd â'r sylwedd, a'r ymddangosiad â'r gwrthddrych; canys y mae yn golygu fod mor annichonadwy i achos fod heb effaith, ag ydyw i effaith fod heb achos. Yn ol y gyfundraeth hon, gan hyn, nid ydyw Duw yn creu y byd, er mai efe ydyw yr hyn sydd yn uno pob peth yn ei hunan mawr. Y mae yn meddu yn wreiddiol ynddo ei hun, er tragywyddoldeb, briodoleddau a moddau o fodoli y rhai sydd anfeidrol; ac nid ydyw ymddangosiad allanol natur, a dyn, yn ddim ond y moddau ymha rai y mae yn amlygu ac yn dadblygu y priodoleddau hyn. Dyna Dduw, ynte, yn sylwedd; canys nid ydyw yn creu dim, ond yn dadblygu ei hun. "Bod Spinoza yn credu y bôd o Dduw, yn yr ystyr Gristionogol o'r gair, sydd bell o fod yn wirionedd. Nis gall Bôd, i ba un ni pherthyna deall, ewyllys, nac hyd yn nod bersonoliaeth—Bôd ag nad ydyw yn creu, ond yn unig yn *bod*,—yr hwn nid ydyw yn gweithredu, ond yn unig yn dadblygu—yr hwn nid ydyw yn rhagfwriadu, ond dwyn pobpeth i fod yn ol deddf anghenrheidiol ei fodolaeth ei hun—nis gall y cyfryw fôd fod yn dad, yn gyfaill, yn gymwynaswr, mewn gair, nis gall fod yn *Dduw* i ddyw, canys nid ydyw dyn ond rhan o hono ef ei hun." A dyna ddechreuol yr atheistiaeth ag a ddynodir a'r enw Olldduwiaeth—un o'r athrawiaethau mwyaf damniol a gynlluniwyd erioed.

Yr ydym eisoes wedi awgrymu fod Spinoza yn dal fod dyn yn gyfran o'r sylwedd dwyfol, sef o'r meddyliaeth dwyfol, ac o'r arlediad dwyfol. Ond megys nad ydyw y ddwy briodoledd yn ddwy ond yn unig fel priodoleddau, felly y maent yn un yn y sylwedd mawr. O ganlyniad, y mae corff a meddwl dyn yn un mewn sylwedd. "Y corff ydyw *gwrthddrych* y meddwl, a'r meddwl ydyw *meddylddrych* y corff; ac y maent yn cael eu huno â'u gilydd drwy fywyd, nid am fod unrhyw gysylltiad *uniongyrchol* rhyngddynt, ond am fod undeb hanfodol." Y maent yn un, ynte, yn eu sylwedd; ac nid yw meddwl ond math neillduol o gorff, na chorff ond math neillduol o feddwl. Y mae y meddwl, drwy ei gysylltiad â'r corff, yn dyfod yn ymwybodol o holl deimladau a synwriaethau y corff; y mae, ar ol hyn, yn casglu gwahanol benderfyniadau oddiwrthynt oll, ond nid ydyw ei wybodaeth yn treiddio ymhellach na'r wyneb, fel y mae y "dirgelwch hanfodiad" yn parhau yn ddirgelwch o hyd; ond y mae y meddwl yn gallu codi ei olygon uwchlaw ymddangosiadau, ac edrych ar briodoleddau anfeidrol bod-aeth ei hun—yr hon gynneddf sydd yn ateb yr un dyben i'r meddwl ag a etyb y llygaid naturiol i'r corff.

Nis gallwn ei ddilyn ymhellach, sef i Foeswydd a Duwinyddiaeth. Efe oedd yr un a wthiodd ddaliadau Des Cartes i'w heithafion priodol; ac efe oedd yr olaf o ddysgyblion enwog y gŵr mawr hwnw.

Dyna y ddwy lineil ddechreuol wedi terfynu yn ddrwg iawn—un mewn synwrolaeth, a'r llall mewn amgyffrediaeth. Y mae y naill yn terfynu yn atheistiaeth Ffrainc, a'r llall yn olldduwiaeth Germani. Ond yn y cyfng hwn, y mae athronydd yn cyfodi, un o amcanion eglur pa un ydyw uno y ddau ddull o athronyddu i raddau mawr. Efe a deithia rywfaint o'i lwybr

gyda Locke, &c., ac a gyd-deithia hefyd rywfaint gyda Des Cartes; ac er mai yr olaf ydyw ei brif arweinydd, eto y mae wedi cymdeithasu gyda meddylwyr mawrion Groeg, ac y mae yn cael ei ddylanwadu gan Plato a Democritus. Enw y dyn hwn ydyw

LEIBNITZ.

Fel y dywedasom eisoes, yr oedd Locke wedi gwneuthur yn brif amcan i'w waith gorchestol ar y "Deall" wrthwynebu athrawiaeth Des Cartes ar ddrychfeddyliau cynwynol. Yr oedd amryw fân-ymdrechion wedi eu gwneuthur i wrthbrofi cyfundraeth Locke; ond nid yn effeithiol. Eithr pan ymddangosodd Leibnitz, gwelwyd fod yno gawr ar y maes, o flaen yr hwn yr oedd yn rhaid i'r arddansoddwr Prydeinig roddi ffordd. "Y mae y gwahaniaeth rhyngom," meddai Leibnitz, am Locke ag ef ei hun, "yn bwysig. Y pwnc mewn dadl ydyw, pa un a ydyw yr enaid ynddo ei hun yn hollol wâg, fel llechau ar ba rai nid oes dim wedi ei ysgrifenu, yn ol Aristotle, ac awdwr y 'Traethawd;' a pha un a ydyw pob peth a olrheinir yno yn dyfod yn gwbl o'r synwyrâu a phrofiad; neu pa un a ydyw yr enaid yn cynnwys yn gynwynol egwyddorion amryw syniadau ac athrawiaethau, y rhai a ddeffroir gan y gwrthddrychau allanol ar achlysuron, fel yr wyf fi, ar ol Plato, yn credu." Dywedasai Locke fod y meddwl, yn wreiddiol, yn *tabula rasa*, ac mai profiad ydyw yr ysgrifenydd. Nac ydyw ddim yn *tabula rasa* yn hollol, ebe Leibnitz; canys er nad oes genym ddrychfeddyliau cynwynol yn hanfodi yn weithredol yn y meddwl yn flaenorol i brofiad, eto y mae yno egwyddorion gwreiddiol yn *rhinweddol* fodoli yn y deall cyn profiad. Geilw yr egwyddorion hyn yn reddfau, neu yn oleuni natur. Nid oes dim yn y deall ar na fu o'r blaen yn y synwyr, meddai Locke. Nac oes, meddai Leibnitz, *ond y deall ei hun*. Ac felly efe a wrthwynebodd athroniaeth Locke drwy wahaniaethu rhwng gwirioneddau anghenrheidiol a gwirioneddau profiad; a chyda'r un medrusrwydd hefyd efe a wrthwynebodd athroniaeth Des Cartes, ar y tir ei fod yn rhoddi gormod o le i sylwedd yn ei gyfundraeth, ac yn cau allan ymron yn hollol y meddylldrych o achos.

MENDELSSOHN:—EI FYWYD A'I WEITHIAU.

MAE yn yr iaith Saesoneg yn awr ddwsin neu ychwaneg o gyfnodolion chwarterol, yn anfon allan yn rheolaidd bob tri mis erthyglau wedi eu hysgrifenu gan ddyinion mwyaf talentog a dysgedig y genedl, fel mai prin y caiff neb na dim ymddangos, os bydd ynddo ryw bwys, na bydd y rhai hyn â'u cwnpawd a'u dwy droedfedd arno yn y fan. Os bardd newydd a welir yn ymddyrchu uwchlaw y gorwel, bydd yn anghenrheidiol troi y drychau tuag ato yn ddioed, er sicrhâu ei faintiolaeth a'i sefyllfa yn y furfafen farddonol; a bydd erthygl arno wedi ymddangos cyn pen ychydig fisoedd

ymhob un o'n hadolygiadau; ac nid annyddorol yn fynych ydyw gwrandod ar farnau gwahanol y doethorion hyn. Gofelir ar ol hyny na chaiff yr un dernyn o'i waith fyned allan i'r byd heb iddynt hwy roddi eu dedfryd arno. Yr un modd gyda'r duwinydd, yr athronydd, yr hanesydd, yr ieithydd, y gwyddonwr, y gwleidyddwr, y beirniad, a phob peth braidd ag sydd yn dyfod o fewn cylch gwybodaeth neu ymarferiad dyn. Ceir erthyglau da, canolig, neu wael, yn ol nerth gewynau meddyliol a medrusrwydd y neb fyddo yn ysgrifenu, ar bob peth agos. Ond yn y cyfrolau hyn oll, y rhai a dywalltant eu goleuni felly yn gyson a dibaid, y mae un maes helaeth a thra dyddorol yn cael ei gwbl esgeuluso. Byddai ymddangosiad erthygl ar gerddor, neu gerddoriaeth, neu waith cerddorol, mewn un o'r cyhoeddiadau hyn, yn debyg i ymddangosiad un o drigolion y byd dyeithr tu hwnt i'r llên; byddid yn barod i ryfeddu o ba le y daethai, a pha beth fyddai ei neges. Wedi hir gynnefino a bod heb heb y cyfryw, nid oes ond ychydig erbyn hyn yn dysgwyl ei weled, ac yn teimlo yn chwithig am mai felly y mae. Y mae Milton, ei fywyd a'i athrylith, wedi bod yn destun ysgrifau heb rifedi; ond pa nifer o erthyglau a ysgrifenydd erioed ar Händel^a a'i weithiau? Cawsom ysgrifau talentog ar athronwyr yr Almaen—Leibnitz, a Kant, a Fichte,^b a Schelling,^c a Hegel,^b a Humboldt, ac felly yn y blaen; huliwyd i ni wleddoedd danteithiol ar ei beirdd a'i llênorion—ei Klopstock, ei Schiller,^c ei Richter,^b ei Goethe,^d a'u cymdeithion; rhoddwyd i ni lithoedd ysplenydd ar ei duwinyddion a'i haneswyr;—ond pwy sydd wedi ein hanrhegu â dim ar ei cherddorion?—ymha le y ceir erthygl ar Bach,^b Beethoven,^c Haydn,^f Mozart,^g neu Mendelssohn?—ymha le y ceir beirniadaeth ar gerddoriaeth y "*Passione*," y "*Messiah*," y "*Creation*," y "*Quiem*," neu yr "*Elijah*?"

Ac nid yn unig y mae ein cyfnodolion, y rhai wrth swydd ydynt wedi ymorsafu ar dyrau y byd, ac yn nodi ei holl ysgogiadau, yn cadw dystawrwydd y bedd ar y pethau hyn, eithr y mae llênnyddiaeth gyffredinol Lloegr heb ond y peth nesaf i ddim arnynt mewn un ffurf. Y fath ydyw yr esgeulusdra dyeithr hwn fel nad oes, ar y pryd yr ydym yn ysgrifenu, o fewn cylch holl llênnyddiaeth y Saeson, na'r Ellmyn ychwaith, yr un bywgraffiad teilwng o Händel, er fod y dyn hwnw yn rhagori mor annhraethol ar bob cerddor a fu yn y byd erioed o'i flaen, hyd y gwyddys, ac wedi ffurfio creadigaethau cerddorol na ddaethai i ddychymyg neb o'i flaen y cyffelyb; llawer o ba rai, mae yn dddidadi, a dreiglant i lawr oesoedd a chenedlaethau, ie, yn wir, y mae yn ammhens a fydd adsain rhai o'i odlau mawreddog wedi gadael awyrgylch y ddaear hyd ddydd brawd. Y mae yn awr namyn dwy flynedd cant er pan roddwyd ei weddillion marwol yn y pridd. Ie, dyeithr, ond rhy wir ydyw y ffaith, tra y mae talent gerddorol Brydain ar lawn egni yn ymddarparu gogyfer â chynnal cylchwyli o'r fath

^a Cynniad y gair hwn yn yr Ellmynaeg ydyw Händel; ac nid oes un rheswm yn ymddangos i ni dros i'r Cymro ddilyn cynniad llygreddig y Saeson yn hytrach na'r gwreiddiol.

^b Darluned y Cymro y geiriau hyn gan roddi ei sain Gymreig i bob un o'r llythrenau, a bydd yn agos iawn i'w le.

^c Mae yr *Sch* yn y geiriau hyn i'w seinio fel *sh* yn y Saesoneg—Shelinc, Shiler, &c.

^d Seinier y gair hwn—*Gyte*. Nid oes un lythyren gan y Cymro a ddaw yn agosach at oe neu *o* yr Ellmyn nag *y*; ac ni fedd yr Ellmynaeg un sain gyffelyb i'r eiddo yr *th* Gymraeg.

^e Cynniad gwreiddiol y gair hwn yw—*Bttoffen*.

^f Hwn—*Heidin*; nid *Hedin*.

^g A hwn—*Mozart*.

fywaf ysplenydd ar y gaufed fwyddyn ar ol marwolaeth y dyn mawr hwnw, fod llênnyddiaeth y Saeson a'r Ellmyn, er eu holl gyfoeth, yn amddifad o ddim ag sydd yn haeddu ei alw Hanes ei Fywyd. Yr un modd y mae gyda phob cerddor arall, oddigerth Mozart yn unig. Yn sfodus, daeth Edward Holmes heibio i goffadwriaeth y cerddor rhyfedd hwnw, pan yn nychu ymaith ar wyneb y maes, heb lygad yn tosturio wrtho, ac, fel y Samariad trugarog, efe a'i cymerodd ar ei anifail ei hun, ac a'i dygodd i'r lletty. Mawr ddiolch iddo am ei garedigrwydd. Wrth gysylltu ei hun felly â'r enw anfarwol hwnw, gwnaeth gryn lawer tuag at anfarwoli ei enw ei hun. Ond am y lleill, druain—John Sebastian Bach, yr hwn yr oedd ei enaid fel y môr yn dygyfor o gynghanedd; Haydn, yr hwn ni fedrai anadlu ond peroriaeth; Beethoven, yr hwn a gymerasai ei drigfod rhwng y seraph a'r gwallgofddyn, y drws nessaf i bob un o'r ddau, ac yn llawn mor agos, dybygem, at y naill ag at y llall; i.e., a Mendelssohn ddihafal;—nid oes ond ychydig o brif ffeithiau eu bywyd wedi eu gosod gerbron y byd. Mynych y buom yn ceisio chwilio am yr achos o'r esgeulusdra hwn; ond prin y mae dim a ymddangosodd i ni hyd yma yn teilyngu ei anrhydeddu â'r enw rheswm. Ymfyned pob un drosto ei hun; mae y ffaith tu hwnt i amhheuaeth. Y mae llênnyddiaeth, tra yn talu gwarogaeth mor fynych i bob gwyddoriaeth a chelfyddyd arall, wedi gadael cerddoriaeth bron yn hollol ddisylw. Y mae wedi cael ei throï i gongl, i fyw arni ei hun. Os genir iddi dywysog, nid oes neb braidd ond ei phlant ei hun a lawenychant; os syrthio a wna un o'i phenau coronog, nid oes ond ychydig a gydalarant â hi; os bras yw ei bwrd gan ddanteithion, pob peth o'r goreu, pob croesaw iddi o honynt; ond os brithlwyd a gwael yw ei bara, nid ydyw o nemawr bwys gan neb o'r tu allan i'w thriogaeth ei hun.

Ac nid hyn yw y cwbl ychwaith; yr ydym yn ofni y gallwn fyned ymhellach, a dyweyd fod cerddoriaeth a cherddorion, yn rhy fynych, nid yn unig yn cael eu hesgeuluso a'u gadael o'r neilldu, mewn gwahanol ffyrdd, ond hefyd eu dirmygu a'u sarhâu. Nis gallwn ddyweyd am yr argraffwasg gyfnodol yn Nghymru ei bod yn esgeuluso cerddoriaeth fel yr eiddo y Saeson; mae y nifer o erthyglau a ymddangosasant o bryd i bryd yn y TRAEHODYDD, a chyfnodolion eraill, yn brawf parod a phenderfynol i'r gwrthwyneb; ond, ar ol y cwbl, y mae ein llênnyddiaeth ninnau yn dra diffygiol ar y pwnc. Pa faint o wybodaeth sydd gan y Cymry, o ran dim a ymddangosodd yn eu hiaith eu hunain, am gerddorion mwyaf galluog y byd? Ac at ba lyfr neu gyhoeddiad Cymraeg y gellir eu cyfeirio am ddad-gysoddiad a beirniadaeth fanwl ar eu prif weithiau? Ond am yr hyn sydd genym dan sylw yn arbenig yn bresennol, sef y sarhâd a defir ar gerddoriaeth a cherddorion, nid ydym yn meddwl fod gan Gymru gareg i'w thafiu at neb. Canfyddir hyn mewn amryw bethau, ac yn eu mysg yn y syniad sydd gan lawer o oreuon pobl ein gwlad am gerddoriaeth; yn y dull yr ymddygant, o ganlyniad, tuag ati; ac yn y dybiaeth sydd yn ffynu yn y dosbarthiadau parchusaf am gerddorion, neu y rhai hyny a ymarferant fwy na'u cymydogion â'r gelfyddyd. Mae yr argraff yn ddwfn ar ein meddwl, ac wedi ei wneuthur a'i ddyfnhâu trwy hir a manwl sylwadaeth, fod cerddoriaeth ymhell o gael y lle a'r bri sydd yn perthyn iddi yn syniadau y mwyafrif o'n pobl flaenaf, yn Nghymru a Lloegr. Y mae heb ei lle dydadwy yn eu cyfundrefn athronyddol—y gyfundrefn hõno, neu y casgliad hwnw o egwyddorion, oddiar ba un y tardda gweithrediadau eu bywyd.

Nid ydym, ar hyn o bryd, yn bwriadu ôlrhain diffygion a rhagoriaethau gwahanol gyfundraethau athronyddol, na chymeryd mewn llaw gyfansoddi y "*De Emendatione Humani Intellectus*," a adawyd yn anorphenedig gan Spinoza, ac nad ydyw nemawr nês i gael ei gwblhâu ar ol llafur oes gan yr "Opiwm-fwytâwr Saesonig;" ond yr ydym yn maentumio fod ei hathroniaeth yn perthyn i gerddoriaeth—ei bod yn gwneuthur i fynt yn adran arbenig o gyfanswm gwirionedd, a bod diffyg mawr a phwysig ac andwyol yn nghyfundrefn athronyddol y neb a'i gadawo allan. Pa gyfundrefn bynag yw y gymhwysaf i ddylanwadu er-gwareiddio y byd, a dyrchafu y natur ddynol, mae yn sicr ddiammheu fod ynddi le pwysig i gerddoriaeth. Deallai doethion y byd cyntefig y mater hwn yn dda; a'r canlyniad oedd, fod cerddoriaeth yn y bri uchaf yn eu mysg. Amser a ballai i ni yn bresennol, heblaw y byddem trwy hyny yn crwydro yn rhy bell oddiwrth ein testun, i ddisfynu o hanes cenedloedd galluocaf y cyn-oes-oedd, er dangos y lle a roddid i gerddoriaeth yn eu mysg. Digon yw dyweyd, ped efelychid hwynt gan bobl y dyddiau diweddaraf hyn, y byddai agwedd dra gwahanol ar gerddoriaeth yn ein gwlad, ac y byddai y cyfnewidiad hwn yn foddion grymus i effeithio gwelliant ar foesau a chymeriad yr oes. Syniad a goleddir yn gyffredinol—ac y mae yn gywir mor bell ag y mae yn cyrhaeddyd—ydyw, mai rhywbeth er cynnyrchu pleser a difyrwch ydyw cerddoriaeth; ond fe allai ei fod yn cynnwys mwy nag a feddyliwyd gan lawer. Addefwn yn rhwydd mai pleser ydyw gwrthdrys cerddoriaeth; oddiar y teimlad o bleser y mae yn tarddu, a phleser y mae yn ei gynnrychu. Ond fe allai fod gwahaniaeth o bwys rhyngom â rhai a goleddant y syniad hwn o barth y lle a'r dylanwad sydd gan bleser yn nghyfundrefn addysg a dyrchafiad y meddwl dynol. Tra y mae ysgol y deall wedi cael sylw a bri, ofnwn fod ysgol y galon wedi cael ei hesgeuluso. Tybia rhai—llawer e ddichon—mai rhywbeth ydyw pleser ag y gall dyn ei gymeryd neu beidio yn ol fel y gwelo yn oreu; ond y gwirionedd ydyw, ei fod yn hanfodol i wir goethiad ac amaethiad dynoliaeth; y mae cadw y galon mewn tymher gysurus a hapus, meddwn, yn un o ammodau anheborol gwir ddiwylliant; a pha beth bynag sydd yn tueddu yn uniongyrchol i wneyd hyny, y mae yn *ddyledswydd* ar bob dyn ei feithrin. Nid dewisiad sydd yma, ond awdurdod deddf, a chosbedigaeth sicr yn niffyg gwneuthur yr hyn y mae yn ei ofyn. Gŵyr y sawl sydd wedi talu gradd o sylw i weithrediadau y meddwl, am y cysylltiad rhyfedd ac anwahanol sydd rhwng y ddau ddoarbarth, y rhai a alwn, yn niffyg geiriau mwy dealladwy, y deallol a'r teimladol. Profer fod amaethu y deall yn fwy pwysig, ar unrhyw gyfrif, nag amaethu y galon, yna gellir cyfiawnhâu ymddygiad y rhai a gydnabyddir fel blaenoriaid a phrif ddyinion y genedl yn talu mwy o sylw i'r cyntaf na'r olaf. Ond hyd hyny, ni a goleddwn y farn, ac a'i dadganwn yn groew a phenderfynol, fod moddion amaethu y galon—y dymher a'r serchiadau—yn derbyn rhy ychydig o sylw a noddaeth goreuon ein pobl; ac, yn gymaint a bod cerddoriaeth yn un o'r moddion mwyaf grymus er effeithio ar y galon, eu bod yn gyfrifol i radd helaeth am y lle isel a roddir yn anghyfiawn i'r gelfyddyd oruchel hon yn syniadau y werin yn gyffredinol. Wrth adael y pwnc tra phwysig hwn, dymunem argraffu un sylw ymhellach ar feddyliau ein darllenwyr—(fe allai mai y gair o'r ddamneg, "*There's nothing like leather*," a gymhwysir atom gan rai am ein traferth)—a hyny ydyw—fod y neb sydd yn edrych yn isel ar, ac yn

llwyr esgeuluso cerddoriaeth, yn troseddu deddf, ac yn rhwym o dderbyn yn ei fynwes ei hun, yn gystal ag yn nerth ei ddylanwad er daioni ar y byd, y gosbedigaeth ddyledus am hyny; tra mae yr hwn sydd yn ei meithrin, ac yn ei hanrhydeddu, mewn modd dyladwy, yn llawn mor sicr o'r wobr.

Llawer gwaith y buom yn meddwl casglu yr ychydig a wyddem ac a feddyliem am brif feistriaid y gelfyddyd gerddorol, a'i osod mor gryno ag y medrem, mewn cyfres o erthyglau, o flaen darllenwyr y TRAEHODYDD. Yn awr y mae y bwriad hwnw yn dechreu esgor; a'i gyntaf-anedig ydyw yr anfarwol Mendelssohn. Mwy trefnus ac athronyddol, fe allai, fuaasai dechreu gyda John Sebastian Bach, y ddolen gyntaf yn y gadwen ddihefelydd o gerddorion a hynodasant yr Almaen yn ystod y can' mlynedd a hanner diweddf, a'i dilyn i fyny hyd ei dolen ddiweddf, sef gwrthdrrych ein hysgrif bresennol. Dyna oedd ein cynllun ar y cyntaf; ond ar ol rhoddi cwbl ddiwydrwydd, a chwilio pob rhyw gof-ygryfau a ddeuent o fewn ein cyrhaedd, y mae amryw fylchau genym eto heb eu llanw i foddlonrwydd. Deallwn gyda hyfrydwch, pa fodd bynag, fod gweithiau yn awr ar droed, yn yr Almaen yn gystal ag yn y wlad hon, oddiwrth ba rai y gallwn ddysgwyl helaethach a chywirach gwybodaeth nag sydd genym hyd yn hyn am rai o'r cyfansoddwyr crybwylledig.

Ganwyd Felix Mendelssohn Bartholdy, yn Hamburg, ar y 3ydd o Chwefror, 1809. Enw ei dad oedd Abraham Mendelssohn, bancwr cyfrifol a chyfoethog yn y ddinas hono, yr hwn oedd hefyd yn fab i'r enwog hen athronydd Moses Mendelssohn—math o Blato Hebro-Ellmynaid oedd yn byw yn yr Almaen yn nechreu y canrif diweddf—cyfaill mynwesol i Lessing, Wieland a Klopstock, a gŵr ag nad oedd ei osod yn ymyl, a'i gymharu â'r cewri hyny, yn un anfantais iddo. Yma yr ydym yn canfod fod gwrthdrrych ein hysgrif o'r un hâd â Miriam y gantores, a bod agos gyfathrach rhyngddo, o ran y cnawd yn gystal ag ansawdd ei feddwl, â "pheraidd ganiedydd Israel." Mae "yr hen genedl," hyd yn nôd yn ei chyfiwr gwrthodedig, wedi cyfoethogi y byd â rhai o'i brif gerddorion. Yr oedd ei fam hefyd yn hanu o deulu cyfrifol o'r enw Bartholdy—enw a fabwysiadwyd gan Mendelssohn yn ychwanegol at ei gyfenw o ochr ei dad. Felix ydoedd yr ail o bedwar o blant. Dangosodd dueddfryd cryf at gerddoriaeth yn gynnar iawn; ac, yn bur wahanol i rai o brif ymherawdwyr athrylith, cafodd bob cymhorth a chyfseusdra ag oedd yn ddichonadwy i feithrin y duedd hono, ac i amaethu ei alluoedd. Nid oedd raid iddo, fel y bachgenyn George Frederic Handel, ymneillduo yn lladradaid i ystafell ddigysur yn nen y tŷ, berfeddion nos, er cael hamdden i gyfeillachu â'i hen gydymaith yr *harpsichord*; nac, fel y llanc Ludwig Von Beethoven, fyned gyda chylla gwag a siaced garpiog, er cynnilo ychydig o geiniogau i brynu papyr ac inc i gopïo cerddoriaeth, ac wedi llwyr fethu cael digon at bobpeth, yn gorfod cyflawni y gorchwyl gefn nos wrth oleu y lloer. Iddo ef, i'r gwrthwyneb, yr oedd pob peth yn ffafriol. Ei fam a roddodd iddo ei wersi cyntaf mewn cerddoriaeth—a ddechreuodd roddi ymarferiad a chyfarwyddyd iddo i ddadblygu y galluoedd mawrion hyny ag oeddynt i wneuthur y fath argraff ar galon y byd. Dechreuai gydag ef a'i chwaer Fanny, yr hon oedd yr henaf, gan roddi iddynt ar y cyntaf wersi byrion o ddim ond tua phum mynyd o hyd ar y tro; ac felly, o radd i radd, hi a dywysai ei dau blentyn athrylithlawn drwy gwrs rheolaidd o addysg gerdd-

orol, a'u hyfforddïai i drin tânnau y piano, ac a'u gwreiddïai yn dda yn yr egwyddorion mawrion, sefydlog, sydd yn gwahaniaethu y gwyich oddiwrth y gwael. Yr oedd Fanny ei chwaer yn gydymaith hoffus i Felix, fel y cawn achlysur i grybwyll yn nêš ymlaen. Yr oedd ei enaid yn ymglymedig wrthi, fel yr oedd Mozart gyda ei chwaer yntau. Yr ydys wedi sylwi fod rhywbeth nodedig, yn y cyffredin, yn perthyn i famau dynion mawr a da; y mae yn dygwydd hefyd yn lled aml fod dynion a wnaethant argraff ar y byd wedi cael eu breintio â chymdeithas yr ystlen fenywaidd, mewn chwaer lawn o serch a chydymdeimlad, neu ryw agos garenydd, ag oedd yn gadael dylanwad mawr ar eu calonau. Gallem sylwi yn y lle hwn fod Fanny Mendelssohn yn feddiannol, nid yn unig ar galon i garu ei brawd fel ei henaïd ei hun, ond hefyd ar lawer iawn o'r unrhyw athrylith âg yntau. Byddai Felix yn arfer dyweyd ei bod yn ei guro ef ar y piano; a hyny nid ar ryw *waltzes* a *quadrilles* gweigion, dienaïd, o'r fath ag y bydd rhianod ieuainc yn rhy gyffredin y dyddïau hyn, yn Lloegr a Chymru, yn gwas-traffu eu hamser a'u talentau arnynt, ond mewn cerddoriaeth wir glasurol, o'r dosbarth puraf a mwyaf goruchel; a gadawodd amryw gyfansoddiadau ar ei hol ag ydynt yn profi yn ddigon eglur ei bod mewn ysbryd ac athrylith yn wir chwaer i'w brawd.

Symudodd Abraham Mendelssohn a'i deulu, pryd nad oedd Felix ond rhwng tair a phedair blwydd oed, i Berlin. Byd yr arian oedd byd Abraham; ac ymddengys fod ganddo dalent neillduol at hyn, fel y mae gan lawer o'r genedl hono; oblegid daeth ei dŷ yn un o'r sefydliadau arianol mwyaf yn mhrifddinas Prwsia. Ei brif arbenigwydd, ar yr un pryd, oedd ei fod yn ffurfio y ddolen ganol rhwng Moses a Felix—yr athronydd a'r cerddor; a mynych y dywedai gyda hapusrwydd fod pobl yn ei alw gynt yn fab Mendelssohn, ond yn awr yn dad Mendelssohn. Dyddorol iawn yn fynych ydyw edrych ar ambell nodyn o'r fath yma a defir gan Ragluniaeth yma a thraw ar hyd ei chynllunïau—gellid meddwl ar ryw olwg nad oes ystyr yn y byd iddynt, eto, y mae ganddynt eu swydd arbenig yn eu lle; neu ddilyn cwrŷ athrylith trwy deuluoedd—weithiau, yn ymddangos gydag ychwanegïad neu leihâd yn yr olynydd uniongyrchol, bryd arall, yn myned heibio y ddolen nesaf, a'r nesaf drachefn, fe allai, ac yn ymddangos gyda chyfnewidiadau ac amrywiadau yn yr ŵyr neu yr orŵyr. Mae yn bur eglur fod Felix Mendelssohn yn cyfranogi yn dra helaeth o feddwl dwfn, treiddgraff, teulu ei dad, ynghyda mesur mawr o dynerwch a phereidd-dra natur ei fam; os y Mendelssohn a ffurfiai brif sylfonau ei gymeriad, deuai y Bartholdy i'w lenwi i fyny a'i brydferthu. Wedi dyfod o'r teulu i drigo yn Berlin, gosodwyd Felix i ddysgu y piano dan ofal Berger, un o brif athrawon yr Almaen ar yr offeryn hwnw; ac i ddysgu y wyddor dan ofal yr hen athraw garw ond twymngalon Zelter, enw yr hwn sydd yn ddigon hysbys i lônion cyfarwydd â llênnyddiaeth Ellmynaidd, fel un o gyfeillion y bardd Goethe. Byddai yr hen athraw yn falch drôs ben pob terfynau o'i ysgolor bychan a hoffus, a mynych y byddai yn ei foli hyd y cymylau, fel un na fu ymysg dynion neb o'i gyffelyb o'r blaen. Ymfrostïai fod Felix, cyn ei fod yn ddeg oed, wedi darganfod cynifer â chwech o'r beiau grammadegol anafus (?) hyny a adwaenir wrth yr enw ōedau dilynol mewn un *Concerto* o waith J. S. Bach; ac ymysg ymadroddion cryfion eraill a arferai, dywedai fod y llanc "yn chwareu y piano fel y cythraul." Fe allai, pe buasid yn pwysu yn drwm ar yr hen ŵr, mai prin y gallasai efe

brofi fod y cythraul yn alluog i chwareu y piano o gwbl; ond heb ymollwng i orfeirniadaeth, mae yn ddigon amlwg beth oedd y syniad. Gorfu ar y llanc Mozart dynu ymaith y fodrwy oedd ar ei fys wrth chwareu yr organ yn Llundain, o herwydd credai y bobl fod rhyw ysbryd anweledig yn hono yn ei gynnorthwyo, ac nid bychan oedd eu syndod pan glywsant ef yn chwareu yr un fath ag o'r blaen; ac nid oes eto lawer o amser er pan glywsom un o feibion mwyaf athrylithgar Cymru yn dadgan na fedrai efe yn ei fyw ddirnad pa fodd y cynnyrchai bachgen o Gymro gwyneblwyd, eiddil, oedd ger ei fron y fath swm, os nad oedd "cynghrair rhyngddo â'r gŵr drwg."

Y mae M. Jules Benedict, mewn adroddiad byr o'i gyfarfyddiad cyntaf â Mendelssohn yn Berlin, yn dwyn y llanc ger ein bron mewn arwedd tra yddorol. Yr oedd Benedict, yr hwn sydd yn byw yn Llundain er ys llawer o flynyddoedd bellach, ac yn gerddor o'r radd uchaf, y pryd hwnw yn ddysgybl i'r enwog Carl Maria Von Weber, a galleu feddwl ei fod ryw bedair neu bum' mlynedd yn henach na Mendelssohn. Ar foreu hyfryd yn nechreu mis Mai, 1821, yr oedd Benedict a'i athraw yn myned ar hyd yr heol, a gwelent lanc ieuanc, prydferth, a serchog dros ben yr olwg arno, a'i wallt yn gudynau melynion yn chwyfio o amgylch ei ysgwyddau, ei lygaid yn dryloew-on gan athrylith a serch, a gwên ddiniwed yn chwareu yn bleserus o amgylch ei wesusau, yn croesi atynt, ac yn ysgwyd llaw yn wresog a chyfeillgar ág awdwr clodfawr y *Freyschutz*—*opera* ag yr oedd Weber newydd ei gorphen ar y pryd. Mynai Felix i'r ddau fyned gydag ef ar unwaith i'r tŷ; yr oedd Weber yn rhwym i le arall, ond nid oedd rheswm nac esgusawd a wnai y tro i Benedict, ac felly efe a gydsyniodd, a rhedodd y ddau am y cyntaf hyd nes cyrhaeddasant y tŷ. Nid cynt y cafodd Felix afael ar ei fam yn y *drawing-room*, nag yr hysbysodd iddi, gyda llawenydd mawr, fod y dyn ieuanc oedd gydag ef yn ddysgybl i Weber, ac y gallai chwareu llawer iawn o'r *opera* newydd; a bu raid iddo eistedd ar unwaith wrth y piano. Yno y cadwyd ef hyd nes yr oedd wedi chwareu pob rhan o honi a allasai gofio. Yna gofynodd Benedict iddo yntau chwareu rhai o'i gyfansoddiadau ei hun—yr oedd wedi clywed llawer o son am dano yn Dresden. Gommeddodd wneyd hyn, ond eisteddodd wrth y piano, a chwareuodd bob goreilig o eiddo Bach, neu ymarferiad o eiddo Cramer, a allai Benedict ei enwi. Galwodd Benedict gydag ef drachefn ymhen tua phedwar diwrnod; cafodd ef yn brysus iawn yn copio cerddoriaeth. Wedi gofyn pa beth oedd ganddo, atebai yntau yn bur sobr, "Yr wyf yn gorphen *Quartet* newydd i'r piano ac offer tânau;" a dyna y *Quartet*, yn C leiaf, sydd wedi ei gyhoeddi ar ol hyn, fel ei waith cyntaf. Ar ol gorphen, a thra yr oedd Benedict yn rhyfeddu wrth weled y fath waith gorchestol gan lanc deuddeg oed, rhedodd at y piano, a dechreuodd chwareu, nôd am nôd, y darnau hynny allan o *Freyschutz* a chwareuasai Benedict y dydd o'r blaen. Ac nid yw hyn ond un o laweroedd o enghreifftiau y gellid eu crybwyll, y rhai a ddangosant fod nerth ei gôf y fath fel na ollyngai ddim i golli ar ol unwaith gael meddiant o hono.

Yn Hydref y flwyddyn hono, cymerodd Zelter ei hoff ddysgybl gydag ef i Weimar, i ymweld â Goethe. Cyfarfyddiad pwysig a hapus oedd hwn—Goethe, yn yr hwn yr oedd y cyfnod pwysig hwnw ar farddoniaeth Eillmynaidd a gychwynwyd gyda Klopstock, *wedi* cyrhaeddyd ei binacl, a Mendelssohn, yn yr hwn yr oedd y cyfnod ysplenydd ar gerddoriaeth Eillmynaidd a gychwynwyd gyda J. S. Bach, i gyrhaeddyd ei ris uchaf.

Ffurfiwyd cyfeillgarwch dwfn, gwresog, a didor rhwng y cerddor ieuanc â'r bardd yn yr amgylchiad hwn, pa un ni leihâi, eithr yn hytrach a ychwanegai fwyfwy, fel yr oeddynt yn dyfod i adnabod eu gilydd yn well. Ceir ymysg caniadau byrion Goethe, un dlos a gwresog iawn er cof am y dygwyyddiad. Yn y flwyddyn 1825, cymerodd daith gyda'i dad i Paris, ac yno y cyfarfyddodd â'r beirniad manylgraff a llymdost Cherubini, yr hwn oedd ar y pryd yn uchder ei ogoniant. Chwareuodd Felix ei 3ydd *Quartet*, yn B leiaf, o'i flaen, ac ennillodd ei gymeradwyaeth a'i gyfeillgarwch yn y fan. Er nad ydyw ond y trydydd o'i gyfansoddiadau, ac nad oedd yr awdwr eto ond un ar bymtheg oed, y mae ynddo ddigonedd o dystiolaeth i wreiddioldeb a rhagoriaeth athrylith y cerddor. Llinella allan gwrs iddo ei hun, ar hyd yr hwn nid ymlwybrodd yr un athrylith ddynol o'i flaen. Yn ystod yr un flwyddyn, efe a gyfansoddodd ei *Overture* i'r "*Midsummer Night's Dream*," deryn ag y gellir dyweyd am dano yn ddibetrus na chyfansoddwyd ei fath, o ran dyfeisiad na gweithiad allan, gan neb arall mewn oedran mor ieuanc; ac wrth edrych ar ei ddarfelyddiadau, ei ddyfeisiau, ei drawsgyweiriadau, ei gynghanedd, ei wrth-eiliant, a gweled y cwbl mor newydd, mor wreiddiol, ac mor feistrolgar, a chofio fod yr oll yn gynnyrch meddwl llanc un ar bymtheg oed, mae y meddwl yn ymgolli mewn rhyfeddod, heb allu dyweyd dim, ond gofyn yn synedig, "Pa beth fydd y bachgen hwn?" Mae y deryn hwn, nid yn unig yn hawlio iddo le ymysg cerddorion, ond yn ei ddyrchafu ar unwaith i'r rhestr uchaf o gerddorion a gymerasant erioed o awyr ein byd ni at wasanaeth y gelf; ceir yma arddangosiad ysplenydd o'r galluoedd gogoneddus—yr adenydd eryraidd—ar ba rai yr ydoedd yn ymgodi i entyrch y ffurfafen gerddorol. Yn Hydref yr un flwyddyn hefyd—cymysgedig yw cwpan pawb yn y byd hwn—y cyflawnwyd ei "*Camacho*" yn y chwareudŷ breninol yn Berlin; ac er fod y derbyniad cyffredinol yn lled ffafriol, yr oedd beirniadaethau y papyrau lleol mor fustlaidd ac an-nheg, fel nad oedd yr un cymeradwyaeth, croesaw, ad-daliad, nac iawn a gynnygiwyd iddo byth wedi hyny gaa Berlin, yn ddigonol i adennill ei galon, nac i glirio ei fynwes o'r dygasedd a gymerodd at y lle yn y tro. Treuliodd y blynyddoedd 1827 ac 1828 yn y Brif-athrofa yn y ddinas hono; a dyledus ydyw crybwyll yn y lle hwn fod Mendelssohn yn ysgol-aig clasurol o radd uchel—yn hollol hyddysg yn y Lladin a'r Groeg, yn gystal a phrif ieithoedd Ewrop. Yr oedd hefyd yn rhagorol fel dyluniedydd ac arliwydd; yn feirniad galluog mewn pob materion celfyddydol; ac, yn wir, er ei fod y fath gerddor, yr oedd wedi dodrefnu a choethi ei feddwl i raddau mor helaeth—wedi gwneyd ei hun mor gyfarwydd mewn llênoriaeth, a phob gwybodaeth a choethder cyffredinol, â phe na buasai yn gerddor, na dim arall mewn modd arbenig. Yn hyn yr oedd yn eithriad amrhydeddus i'r rhan amlaf o'i frodyr yn y gelfyddyd, ac yn esiampl deilwng o efelychiad i holl gerddorion Cymru. Erbyn ei fod yn ugain oed, yn ychwanegol at ddodrefnu a choethi ei feddwl felly, yr oedd hefyd wedi cyfansoddi lliaws mawr o weithiau—ei dri *Quartet* i'r *piano* a'r offer tânau, ei *ottelo*, dwy *sonata*, dwy *sinfonia*, *Quartet* i'r *violin*, amryw *operas*, lliaws o "*Lieder*" (neu "ganiadau"), ynghyd a'i *overture* i'r "*Midsummer Night's Dream*," y rhai a chwareuid ac a genid gan brif gerddorion, ac yn mhrif gynnuliadau cerddorol y byd, a son am dano wedi ymledu dros holl Ewrop.

Yn 1829, daeth drosodd, am y waith gyntaf, i Frydain, lle y rhoddwyd iddo yn ddibrin y croesaw ag yr oedd ei athrylith a'i weithiau yn ei deilyngu.

Effeithiodd y clod a'r anrhydedd a dderbyniodd yn y wlad hon i ddyrchafu ei enw yn llawer uwch nag o'r blaen ar y Cyfandir. Arol bod yn Llundain, a ffurfio cydnabyddiaeth a chyfeillgarwch â phrif gerddorion y lle, ac yn eu mysg y ddwy "seren" ysplynydd a ddylathrent y ffurfafen gerddorol ar y pryd—Sontag a Malibran—cymerodd wibdaith trwy Y sgotland, a dychwelodd trwy ran o Ogledd Cymru. Nid oedd yn bosibl i daith o fath hon adael meddwl tyner y cerddor ieuanc yn ddiargraff. Anhawdd genym feddwl wrth ddarllen rhai darnau o'i waith, ac yn enwedig ei "Gân y Bugail," na bu iddo, ryw awr yn ystod ei fyr arosiad yn Ngwynedd, ddyfod i gyfarfyddiad âg un o'n hen bregethwyr, y rhai a ganent y rhan fwyaf o'u pregethau, neu ynte "fugail" mewn gwirionedd wedi dysgu y dôn, ac yn ei hefelychu. Yn y "gân" dan sylw, y mae amryw o'r adranau yn gyflawn a pherffaith, fel y clywsom aml "hen bregethwr melus" yn eu dadgan. Y mae yma y chwaraeud pèrlesmeiriol hwnw ag a glybuwyd lawer canwaith o bulpudau Cymru, rhwng y cyweirnod a'i bummed, yn y cywair lleiaf; yr esgyniad hwnw i'r 6ed lleiaf, gyda pha un, ar ol cadw y dorf yn hir ar hyd nodau isaf y raddfa, y gwelsom ambell "feistr y gynulleidfa" yn agor y llif-ddorau wrth y miloedd; ac yma, i goroni y cwbl, y mae y 7fed lleiaf, gyda'r disgyniad hyfryd a thoddiadol hwnw trwy y 5ed i'r 4ydd perffaith, yr hwn, gyda'r gair melus "O diolch!" neu "Bendigedig!" a welsom cyn hyn yn gwneuthur cynulleidfa oedd cyfain yn foddfa o ddagrau. Er mwyn boddloni y rhai hyn o'n cyfeillion a allant fod erbyn hyn yn teimlo gradd o gywreinrwydd ar y pwnc, ni a osodwn yma nodau y rhan gyntaf o'r gân:—



Ond i adael Gwynedd a cherddoriaeth y pulpud Cymreig hyd ryw dro eto, ac i hwylio ar ol ein hawdwr. Yr ydym yn ei gael y flwyddyn ganlynol yn talu ei ymweliad cyntaf âg Itali—gwlad ag sydd yn meddu ar attyniadau heb rifedi i feddwl pob gwir gelfyddydwr; a chredu yr ydym nad ymwelwyd â'r wlad glasurol hono gan neb erioed ag oedd yn fwy galluog i gymeryd i mewn ei hamryfal brydferthion, anianyddol a chelfyddydol, na Mendelssohn. Yr oedd ei feddwl, fel y crybwyllwyd, wedi ei ystorio o bob gwybod-

aeth, fel nad oedd yno ddim yn llythren farw iddo; yr oedd ei lygad bywiog, treiddgraff, yn disgyn ar bob peth gwir brydferth a gwerthfawr; a ihra yr oedd ei lygad yn cymeryd i fewn dllysion y byd gweledig, a'i law fedrus yn cynnorthwyo y cof i'w sicrhâu, yr oedd ei feddwl yn ymwledda ar yr anweladwy, a thrwy ryw weithrediad dirgelaidd yn troi y cwbl yn fath o ddefnydd ysbyrdol, o ba un yr oedd ei grebwyll i ddwyn allan bob rhyw fath o feddylddrychau a cheinion cerddorol yn y dyfodiant. Tra ar y daith ddedwydd a dyddorol hon y cyfansoddodd efe, ymysg nifer fawr o gan-iadau a darnau byrach, ei "*Walpurgis Night*."

Wedi dychwelyd o Itali, drwy Rufain a Switzerland, yn gynnar yn y fl. 1832, efe a dalodd ymweliad drachefn â Pharis; ond methai deimlo yn ddedwydd yn Ffrainc; ac nid ydyw y Ffrancod hyd y dydd hwn wedi dyfod i hoffi, nac i werthfawrogi, ei waith mewn modd dyladwy. Bu yn glaf yno am rai wythnosau, o'r colera; ac wedi gwellhâu, ymadawodd am Loegr. Ni fu ei arosiad yma, ychwaith, y tro hwn ond byr; ond llwyddodd yn yr ychydig amser hyny, nid yn unig i gynnal i fyny, a sefydlu, y farn uchel a ffurfiad am ei alluoedd fel cyfansoddwr, ond hefyd i arddangos ei alluoedd fel chwarydd digymhar braidd ar y piano a'r organ. Ei brif weithiau yn ystod y tymmor hwn oedd ei *Concerto* yn G leiaf, pa un sydd hollol newydd, o gwr bwy gilydd, a'i *overture* i "Ogof Ffingal." Yn yr adeg hon bu farw Zelter, ei hen athraw, a llywydd yr Academi gerddorol yn Berlin. Teimlai ein cerddor ieuanc yn bur awyddus i roddi un prawf teg ar Berlin, a thybiodd y gallai gael mantais i wneyd hyny trwy ddyfod yn olynydd i Zelter. Aeth drosodd yn ddiwed; ond bu yn afwyddiannus: dewiswyd un Rungenhagen yn ei lle; a thrwy hyny gwiriwyd y gair unwaith drachefn, "Nad yw prophwyd heb anrhydedd ond yn ei wlad ei hun." Ychwanegodd hyn ei gasineb at y lle, ac ymadawodd o'r ddinas heb un bwriad ar y pryd i dychwelyd mwy. Yn gynnar yn y flwyddyn ganlynol, daeth drosodd i Lundain drachefn, a chydag ef y tro hwn ei ail simphoni yn A. Yr oedd y deryn godidog, dyeithr, dwfn, gwreiddiol hwn, pa fodd bynag, yn ormod hyd yn nôd i'r Llundainwyr, oddigerth ychydig o'u hetholedig ysbyrdion, i'w ddeall a'i werthfawrogi; ac nid hyl ymhen pymtheg mlynedd ar ol hyny, pan oedd yr awdwr talentog wedi gadael ei dabernacl o glai, y gwelwyd gwir fawredd a rhagoriaethau ysplenydd y cyfansoddiad hwn. Y mae athrylith, gan fynychaf, yn rhwym o fod rai blynyddoedd o flaen ei hamser. Nid rhedeg ar ol, na chyda, y lliaws y bydd hi, ond yn wastad o'u blaen. Gwael ydyw i genad o fyd yr ysbyrdoedd ddyfod i gydroidio â chlai a glaswellt y byd hwn. O flaen yr oes, o anghenrheidrwydd, ac wrthi ei hun, y rhan amlaf, oddigerth iddi ddygwydd cyfarfod â rhyw chwaer-ysbryd, y mae athrylith yn cerdded. Prophwyd i'r byd ydyw hi; ac nid anfynych, ysywaeth, y rhoddir iddi brawf rhy amlwg ei fod ef heb anghofio ei hen arfer, o "ladd y prophwydi, a llabyddio y rhai a anfonir ato." Ar ol byr arosiad yn Llundain, derbyniodd alwad i fyned drosodd i Dusseldorf, i lywyddu cylchwyll deir-blynyddol y Rhine, yr hon oedd i'w chynnal yn y dref hono; a'r fath fu llwyddiant y cyfarfod hwnw fel yr arweiniodd i ymsefydliad Mendelssohn yn y lle, fel prif lywydd cerddoriaeth. Nis gallai ymgartrefu yno, pa fodd bynag, heb redeg am ychydig amser eto i Loegr. Er fod Dusseldorf y pryd hwnw yn gyrchfa cerddorion, yn gystal a chel-fyddydwy erail o enwogrwydd yn yr Almaen, buan yr oedd argraff y fath ysbyrd â Mendelssohn ynddigon amlwg yno. Heblaw dwyn i mewn, dysgu,

a chyflawni darnau mwyaf goruchel y prif feistriaid, cafodd amser i osod i lawr amryw feddylddrychau tlyision o'i eiddo ei hun; ac ymysg ei brif weithiau yn ystod ei arosiad yn y lle hwnw, gellir nodi dechreuad y gyfres dra dyddorol o ddarnau bychain a gyfansoddodd i'r piano, dan y titl "Lieder ohne Worte" (Caniadau heb eiriau). Canfyddodd enaid gwir gerddorol Mendelssohn yn gynnar fod yr offeryn ardderchog hwn yn cael ei ddarostwng i gam ddefnyddiad dirfawr yn yr Almaen, yr un modd ag yn Mhrydain—fod *cerddoriaeth* yn cael ei halltudio o gymydogeath y piano, a rhyw gampwaith peiriannyddol mewn byseddysgogiad, yn rhy fynych, yn cael ei ddwyn i mewn yn ei lle. Prif ogoniant deryn i'r piano oedd—ac ydyw i fesur gormodol—lïosogrwydd y nodau a welid wedi eu pentyru draws eu gilydd mewn un tu dalen, amlder y neidiadau pellafol ac anhawdd eu cyrchu o'r naill ran o'r offeryn i'r llall, y croes ysgogiadau, y signodau, y cryn-nodau, a'r cywrain ddyfeisiau, o bob math; dyna, meddwn, oedd prif ogoniant y cyfansoddiadau: a phrif ogoniant y chwareiyydd, gan hyny, oedd ei gyflymder a'i fedrusrwydd i feistrolï yr holl bethau hyn. Y chydig a feddyllïai y cyfansoddwr na'r chwareiyydd am y gelfyddyd nefol hono o wneyd y tannau yn fyw gan deimlad, a throi yr holl offeryn yn ddëonglydd ysbryd, yn gyfrwng cymundeb rhwng calon a chalon, ac yn borth i'r meddwl i'r dedwydd rodfëydd hyny a agorai o'i flaen ar diroedd swynedig yr awen. Yn y "Lieder ohne Worte" y mae Mendelssohn yn tori tir hollol newydd—yn taflu o'r neilldu yr holl driciau peiriannyddol ag oedd yn y fath fri ac arferiad gan gyfansoddwyr arwynebol ei wlad ei hun, ac yn fwy fyth gan yr eiddo Ffrainc, ac yn dwyn i mewn feddylddrychau cerddorol o'r fath ag a deimlir yn ddiatreg gan y galon; a meiddiwn ddyweyd y bydd y darnau bychain, tlyision, barddonol, ac eneidlawn hyn mewn arferiad ymysg cerddorion o chwaeth bur ymhen llawer o flynyddoedd ar ol claddu holl rwbel diathrylith ysgol drystfawr y triciau peiriannyddol. Byddai yn hyfrydwch mawr genym weled cerddoriaeth Mendelssohn yn gorwedd ar, ac o amgylch, y piano yn Nghymru. Rhoddai hyny fwy o sylweddolrwydd a natur yn ein cerddoriaeth gymdeithasol.

Tra yn Dusseldorf, yn y fl. 1835, derbyniodd wahoddiad i syned i Cologne, i lywyddu cerddoriaeth y gylchwyl yno. Anrhegir ni gan M. Benedict ág arlun tra phrydferth a ffyddlawn, dybygem, o hono fel *conductor* yn y cyfarfod hwnw; a charem gael sylw ein côrau a'n harweinwyr am fynyd neu ddau at y pwnc hwn. Un o'r darnau penodedig i'w gyflawni yn y gylchwyl oedd 8fed *simphoni* Beethoven. Yn y cyfarfod rhagarotoawl, yr oedd llygad pob un o'r cerddorion, tua 500 o bobl, yn graffus a chyson, ar yr arweinydd, ac yn gwylio megys pe am ei fywyd ar ei holl ysgogiadau. Pell iawn o fod wrth fodd Mendelssohn oedd yr *allegretto* ardderchog yn B ledff ar y cyntaf; a dywedai, gyda gwên serchog ar ei wyneb—"Yr wyf yn gwybod, foneddigion, fod pob un o honoch yn alluog i gyflawni, ac hyd yn nod i gyfansoddi, *scherzo* o'i eiddo ei hun, ond *yrwan*, yr wyf am glywed yr eiddo Beethoven; yr wyf yn meddwl fod rhyw deilyngdod ynddi." Aed drosti yr ail waith gyda pharodrwydd. "Rhagorol campus!" gwaeddai yntau; "ond y mae yn rhy drystiog mewn lle neu ddau eto; gadewch i ni gael y rhan olaf unwaith yn rhagor." "Na, na," ebai yr holl fintai yn unllais, "gadewch i ni ei chael i gyd o'r dechreu, er eiu mwyn ein hunain." Felly y bu, ac aethant drosti yn ardderchog. "O! pa beth a roddaswn pe buasai yn bosibl i Beethoven glywed ei waith

yn cael ei ddeall a'i gyflawni yn y fath fodd gogoneddus!" gwaeddai yntau ar ol gorphen. Yn y modd hwn, gyda hynawsedd a serchogrwydd, llwyddai i ennyn yn y cerddorion fyddent dan ei lywyddiaeth yr awydd mwyaf angerddol a diffino i wneyd pob peth yn berffaith yn ol ei ewyllys, ac felly i ddwyn caniaadaeth gôrawl i berffeithrwydd anadnabyddus cyn hyny yn yr Almaen. Nid ydym yn hollol sicr, ond tueddir ni yn gryf i dybied, mai efe, trwy ei esiampl uniongyrchol, neu ynte yn anuniongyrchol trwy gynnrych dymunol ei lafur, a fu yn foddion i gychwyn yr ysgogiad yn y peth hwn ag sydd wedi cael ei ddwyn ymlaen mor alluog a llwyddiannus yn Lloegr gan Costa a Benedict. Oferedd ydyw son am ganu côrawl oni bydd yr holl gôr yn ymroddi yn egniol ac o ddirif calon i gyflawni ewyllys yr arweinydd ymhob peth. Anturiwn ddyweyd, pe byddai y côr yn gyfansoddedig o brif gantorion y byd, a Costa ei hun yn arweinydd iddo, na fyddai y cyflawniad ond gwael ac anefeithiol, oddigerth fod pob un o'r aelodau yn ymdrechgar i weithio allan ewyllys y llywydd. Nid yw gwybodaeth ac anwybodaeth yn gwneuthur gwahaniaeth yn y peth hwn. Hyd yn nod pe byddai pob un o fewn y côr yn helaethach ei wybodaeth na'r arweinydd, efe, tra yn arweinydd, sydd oruchaf ben, a dyledswydd pawb ydyw ufuddhâu iddo, a hyny nid yn hannerog a diflas, ond yn egniol; ac os ydyw anghymhwys i'r swydd, trinier y pwnc mewn lle ac ysbryd cyfaddas, ac ymddyger tuag ato yn ol ei gynihwysder, trwy ei droi o honi. Tra ynddi, efe sydd ben; a gwaeth na diles ydyw sefyll yn gyhoeddus yn ei erbyn. Saif yr un egwyddor hefyd gyda golwg ar flaenor y canu yn y gynnulleidfa grefyddol. Dyledswydd yr eglwys, yn ddiau, ydyw arfer barn deg, ddiuedd, a dewis y cymhwysaf, o ran gwybodaeth a medrusrwydd cerddorol, ymroddiad a ffyddlondeb yn y gwaith, yn gystal a chymeriad cyhoeddus, i'r swydd hono; ac wedi ei dewiser, dyledswydd a doethineb pob un o fewn y gynnulleidfa ydyw rhoddi iddo ei le fel arweinydd, a'i gynnorthwyo i gario allan ei amcanion. Dichon y bydd yno rai yn deall mwy nag ef am gerddoriaeth, neu yn barnu yn wahanol iddo am y naill beth a'r llall; ond diffyg synwyr, heb son am ras, fyddai gwneyd arddangosiad o hyny yn y gynnulleidfa. Nid unwaith na dwy yr archollwyd ein calon wrth weled, yma a thraw, ddynion, i'e, aelodau eglwysig, yn gweuthur yr oll a allent, yn y gynnulleidfa, i rwystro yr arweinydd, trwy ganu mewn amser neu arddull gwahanol iddo, neidio gydag ebwch i bob nod o'i flaen, neu lusgo yn afierw ar ei ol, crochfloeddiâu â'u holl nerth pan yr ewyllysiat efe ganu yn fwyn a thynr, ac felly yn y blaen. Y mae cerddoriaeth y cysegr yn anfeidrol ry uchel a chysegredig i gael ei darostwng yn faes cydymgais ac ymryson; ac ni fynem ar un cyfrif fod yn gyfranog o ysbryd y rhai hyny na phetrusant ddefnyddio mawl y Goruchaf yn gyfrwng i arllwys allan fustl chwerwder cenfigen a gelyniaeth eu calonau, ac na phrisiant droi adhoddiad yr Arglwydd yn watwargerdd.

Ond i ddychwelyd. Llwyddodd gelyn dedwyddwch dyn i chwerwi cwpan, ac annedwyddu sefyllfa ein cerddor ieuainc yn Dusseldorf; ac felly, yn 1835, cyn treulio ond dwy o'r tair blynedd y cyttunasai i aros yno, cawn ef yn ymadael i Leipsic—lle ag oedd y pryd hwnw yn ganolbwn cerddorol yn yr Almaen; ac yno y gwnaeth ei gartref dros y naw mlynedd nesaf o'i oes. Cyn ei fod ond prin wedi ymsefydlu yno, dyma angeu yn yfed ato un o'r cwpaneidiau chwerwaf a brofasai hyd yn hyn. Ar y 19 o Dachwedd, 1835, mae ei dad yn marw. Prysurodd i Berlin yn

ddioed; a bu yn aros yno, gyda'i fam a'i berthynasau, am beth amser. Yn y cyfnod pruddaidd hwn, pa fodd bynag, ni a gawn gerddoriaeth yn ffyddlaw'n i'w galwedigaeth, yn llawforwyn deg i deimladau ei galon; gwelwn ef yn cynnull ynghyd ddigon o egni a humanfeddiant i orphen y gwaith ardderchog hwnw—*oratorio* "*St. Paul*," pa un yr oedd wedi ei ddechreu y flwyddyn flaenorol yn Dusseldorf. Gwisgir y cyfansoddiad gorchestol hwn â dyddordeb ychwanegol wrth ystyried mai tra yn araf ddringo i fyny lethroedd glŷn tywyll marwolaeth, a'i galon yn drwmlwythog gan alar, ar ol bod yn hebrwng ei dad i lân yr afon, y cyfansoddodd yr awdwr ieuanc y rhan fwyaf o hono. Y mae cysgodion y glŷn yn amgylchynu aml ddarn o hono â rhyw swynol sobrwydd. Prin na fynai ein dychymyg i ni gredu mai wrth hebrwng ei dad i'r gororau hyn y cyfarfyddodd efe â Stephan, dan y gawod geryg, yn tywallt ei enaid i ddwylaw ei Dduw, yn odlau tyner a thawel yr hen *gorale*, "I ti, O Dduw," &c. Oni buasai ein bod eisoes wedi cael yr *overture* i'r "*Midsummer Night's Dream*" oddi-wrtho pan yn un ar bymtheg oed, ei *overture* i "*Fingal's Cave*" pan yn ugain, dechreuad ei *simphoni* yn A leiaf—y mwyaf o'i holl weithiau offerynol—yr un flwyddyn, y "*Walpurgis Night*" pan yn un ar hugain, ynghyd â'r fath liaws o bob math o gyfansoddiadau, buasai ein syndod yn annesgrifiadwy wrth weled y fath orchestwaith ag *oratorio* "*St. Paul*" yn dyfod o law dyn ieuanc chwech ar hugain oed. Ofer fyddai dechreu synu wrth gynnrychion Mendelssohn, mwy na'r eiddo Mozart, onidê bydd gan y meddwl ddigonedd o waith synu, a dim ond hyny. Y mae eu holl waith—y cyntaf fel yr olaf, a'r olaf fel y cyntaf—yn destun syndod. Cyflawnwyd "*St. Paul*" am y waith gyntaf yn Dusseldorf, ar yr 21ain o Fai, 1836, dan lywyddiaeth y cyfansoddwr ei hun. Cynnwysai y côr 316 o gantorion, a 220 o offerynwyr, a'r gynnulleidfa tua 1000 o bobl. Dadganwyd y gwaith yn ysplenydd, a derbyniwyd yr awdwr a'i gyfansoddiad, yn ol Mr. Chorley, gydag arwyddion o'r fath wresocaf o gymeradwyaeth ac anrhydedd. Yn fuan ar ol hyn derbyniodd wahoddiad i fyned i Frankfort, i lywyddu yr Academi gerddorol yn y lle hwnw, yn lle ei gyfaill Schelble, yr hwn oedd yn glaf; ac yno y daeth i gyfarfyddiad â'r hyn y mae Rhagluniaeth ddoeth a daionus y nefoedd wedi ei ddarparu, mae'n debyg, ar gyfer pob un o feibion Adda, ac yn enwedig o rai rhagorol y ddaear, sef, ei "ymgeledd gymhwys." Enwy foneddiges ieuainc oedd Cecilia Jean Renaud, yr hon a hanai o un o deuluoedd parchusaf y dref hono. Y mae dyweyd am un o ferched Efa ei bod ymhob dim yn "ymgeledd gymhwys" i Mendelssohn yn ddyweyd llawer, ond nid mwy nag sydd yn ddyledus yn yr achos hwn. Gwelsom eisoes fod ein cerddor o deulu uchel, parchus, a chyfoethog, fel nad oedd yn gwybod dim am y pangfeydd hyny ag y cafodd llawer o anwyliaid athrylith eu profi oddiwrth dloidi. Ni wyddai efe, pan yn blentyn, beth oedd gorfod codi yn fore, a myned wrth hanner digon o fwyd, o'r fath ag ydoedd, i weithio yn galed trwy y dydd, ac wedi hyny, gydag aelodau blinderus a llygaid trymion, i ddarllen darn o ryw hen lyfr a gawsai yn y llaid, wrth oleu y lloer neu ganwyll frwynen. Ni wyddai efe beth oedd byw wrth un pryd o fwyd yn y dydd er cael modd i bryna llyfrau, a chwilio y tomenydd am blu gwyddau a hen bapyrach i roddi i lawr gynnrychion ei feddwl; na dim o'r holl ddyfeisiau a arferwyd, ac a arferir eto, wrth bob tebyg, gan feibion glewion athrylith i orchfygu eu hen elyn dloidi. Cafodd ei fendithio hefyd â rhieni call a thyner, y rhai na fynasent er dim osod un rhwystr yn ei

ffordd, ond yn hytrach a'i hyfforddient, a'u gosodent dan ofal yr athrawon goreu, ac a roddent iddo bob manteision a chyfleusderau er meithrin ei alluoedd ac ymddarparu gogyfer â'r gwaith mawr oedd ganddo i'w gyflawni yn y byd. Felly, o ran amgylchiadau, addysg, a manteision, gellir dyweyd na wyddai ddim trwy brofiad am gynnwysiad y gair diffyg. Pan briododd drachefn, priododd yn hapus; a thrwy hyny cafodd ysgoi mil myrdd a mwy o helbulon a thrallodau teuluaidd ag ydynt yn gwneyd bywyd dynion galluog yn fynych yn Marah. Iawn, yn wir, ar amryw ystyriaethau, y gelwid ei enw yn "Felix;" canys fel yr oedd ei enw felly yr oedd yntau. Nid ydym yn gwybod pa fodd y daeth efe a'r foneddiges ieuanc hon i gyfarfyddiad â'u gilydd;—pa un a oedd efe yn dygwyrdd bod o nifer y dynion ieuanc hyny a dreuliant lawer iawn o'u hamser i chwilio am ddynes ieuanc i fod yn gymhares bywyd—tybiem nad ydoedd; ai ynte ei gyfeillion a chwiliasant drosto, ac a'i rhwymasant i gymeryd eu gwrthddrych dewisol hwynt—tybiwn nad felly y bu ychwaith, oblegid, er fod llawer o hen wrageddos, o bob ystlen ac oedran, byth a hefyd wrth y gorchwyl, ychydig iawn o'r bargeinion hyny sydd yn troi allan yn hapus; ai ynte pur gysglyd oedd yn y mater, fel ei hen dad Adda gynt, ac mai Rhagluniaeth a'i dygodd ato. Nid ydym yn gwybod fod y dirywiad a'r annhrefn a gymerodd le trwy bechod i'w ganfod yn fwy eglur, nac yn gweithredu yn fwy niweidiol, mewn dim nag yn y mater o briodi. Eglur yw, dybygem ni, mai y "drefn Ddwyl" gyda golwg ar y mater hwn ydyw syrthio i drymgwsg—dyn ieuanc i fyned ymlaen, ac ymbarotï ai holl egni, a hyny mor fore ac mor ddiwyd ag y byddo yn bosibl, gogyfer â gorchwyl ei fywyd, gan ymddwyn yn sobr, yn gyflawn, ac yn dduwiol—amaethu ei feddwl a'i galon, talu parch i'r hwn y byddo parch yn ddyledus, a serch i'r hwn, neu yr hon, y byddo ei galon yn ei orchymyn, ac felly hyd y dydd hapus a phwysig y byddo Rhagluniaeth wedi gosod ei Efa ger ei fron, fel na byddo ganddo ddim i'w wneyd, ar ol ymchwiliad dyladwy i'w chymeriad a'i chymhwysderau, ond dadgan, "Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i; hon a elwir gwraig." Ein cred ddiysgog ydyw, pe byddai gan ddyn neu ddynes ieuanc ddigon o wroldeb moesol ac ymddiried yn Nuw a'i ragluniaeth i weithredu felly, na byddai i'r cyfryw gael achos byth i edifarhâu. Yn lle hyny, pa faint o amser gwerthfawr a dreulir mewn oferedd, gan y naill ystlen fel y llall? pa faint o feddwl, o yni, o serch, a wastrefir yn ddibwrpas, a gwaeth na hyny, gan ein pobl ieuanc? a pha faint o dlodi, anghysur, ac annedwyddwch o bob math a gynnrychir trwy yr anfad afreolaeth hwn, o redeg yn barhâus o flaen, ac yn fynych yn erbyn, Rhagluniaeth, i "chwilio am wraig," neu i "chwilio am ŵr?"

Wedi priodi, yn ngwanwyn 1837, daeth Mendelssohn drosodd i Loegr, mewn cydsyniad â chais pwyllgor cylchwyll gerddorol Birmingham, i lywyddu cyflawniad ei "*St. Paul*" yn y lle hwnw. Ar ol dyfod i Lundain, cafodd fod y *Sacred Harmonic Society*, wedi penderfynu ei chanu yn Exeter Hall, a derbyniodd wahoddiad y pwyllgor i fod yn bresennol, ond nid i lywyddu. Cymerodd hyn le—sef dadganiad "*St. Paul*" am y waith gyntaf yn Mrydain, ar y 12fed o Fedi, 1837. Dranoeth, efe a aeth rhagddo i Birmingham; aed trwy yr *oratorio* yno yn gampus; ac nid ychydig oedd y beirniadu a'r canmawl oedd ar y cyfansoddwr newydd a'i waith. Yr oeddid o'r blaen yn ei osod yn agosaf at Beethoven fel cyfansoddwr cerddoriaeth offerynol;

ond yn awr yr oedd yn anghenrheidiol nodi iddo ryw le fel cyfansoddwr cerddoriaeth gorawl a chysegredig; a'r farn gyffredin yn Lloegr ydoedd, ei fod, trwy y gwaith hwn, wedi hawlio sedd yn nesaf at Händel. Dychwelodd i Leipsic gyda llawryf newyddion, ac ymroddodd o ddifrif i ddyrchafu ei hoff gelfyddyd yn y lle hwnw; ac nid hir y bu Leipsic yn llaw Mendelssohn heb ddyfod yr hyn y buasai Vienna a trwy ymdrechion Mozart a Beethoven, yn brif eisteddle cerddoriaeth yn yr Almaen. Yn y cyfnod hwnw llifai ei gyfansoddiadau allan, y naill ar ol y llall, yn ddidor, fel mai hollol anmhosibl, yn yr erthygl hon, ydyw gwneyd cymaint a chrybwyll eu henwau, a phob un ar ddangos rhyw drysorau a cheinion newyddion, yn gystal ag ychwanegiad gallu a medrusrwydd yn y cyfansoddwr.

Wedi ymollwng o flaen nerth y brofedigaeth, a manylu yn ormodol, fe allai, ar y rhan flaenaf o fywyd ein hawdwr, gorfodir ni i fyned heibio y rhan olaf heb nodi ond ychydig o'r prif ddygwyddiadau. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf o'i breswiliad yn Leipsic, a thra yr ydoedd ei "*Sf. Paul*" yn myned ar gylchdaith trwy holl Ewrop a'r byd gwareiddiedig, gellir nodi, ymysg ei brif gynnyrchion, y rhan fwyaf o'r gwahanol Salmu a gyfansoddodd—y 115fed, yr 42ain, y 95ain, y 114eg, a'r "*Lobgesang*" (cân o fawl), yr hon yn ddiau, ydyw y benaf o'i holl gynnyrchion yn yr arddull hon. Yn mis Rhagfyr, 1840, daeth y Brenin Frederic Augustus o Saxony, o Dresden i Leipsic, i'r unig bwrpas o glywed y "*Lobgesang*," ac nid ychydig oedd y ganmoliaeth a roddodd i'r awdwr am y fath anrheg. Pan dychwelodd, penododd Mendelssohn yn Kappelmeister yn ei lys ei hun. Erbyn hyn yr oedd brenin Prwssia yn dechreu teimlo yn falch y gallai ei deyrnas ymfrostio o un yn meddu y fath athrylith; ac anfonodd i gynnyg iddo y swydd ennillfawr ac anrhydeddus o lywydd y cyngherddau yn Berlin, ynghyd ag arlywyddiaeth cerddoriaeth gysegredig trwy yr holl deyrnas. Ond nid mor awchus yr ydym yn cael ein hawdwr i dderbyn y cynnygion hyn. Prin, feddylieim, yr ydoedd wedi anghofio y driniaeth a gawsai oddiar law y Berliniaid; ac nid cyn i'r brenin anfon drachefn a thrachefn, a'i anrhydeddu âg "*Urdd Teilyngdod*," a dysgwyl dros dair blynedd, y cydsyniodd i fyned yno i fyw, er iddo ymgymeryd â chyfansoddi ar gais y brenin yn 1841. Yn y flwyddyn hono, hefyd, yn ychwanegol at y clod a'r anrhydedd a dderbynai braidd o bob parth, y crewyd ef yn Ddoethawr Athroniaeth (D. Ph.) yn Mhrifathrofa Leipsic. Ychydig o gerddorion a anrhydeddwyd â'r teitl hwn. Yn y blynyddoedd 1842 ac 1843 yr ydym yn cael ei iechyd yn gwanhau; ac yn ngwanwyn yr olaf, ar daer erfyniad ei wraig a'i gyfeillion, cydsyniodd i ganu yn iach am ychydig i'w lafur cyhoeddus, ac ymofyn am adnewyddiad nerth mewn taith trwy Switzerland; dychwelodd yn yr haf, a chymerodd ei wraig a'i blant gydag ef i ddyfgrgyrchfa Soden, yn y mynyddoedd, yn agos i Frankfort. Ond er ymneillduo felly o fysg dynion, yr oedd ysbryd y gân yn ei ddilyn i ba le bynag yr äi; ac yno, ar lânau prydferth Llyn Leman, y gorphenodd efe ei gerddoriaeth ysplenydd i'r "*Midsummer Night's Dream*;" ac yn hydref yr un flwyddyn, y mae yn cydsynio o'r diwedd â chais brenin Prwssia, yn ymadael o Leipsic, ac yn cymeryd ei drigfod yn Berlin. Y flwyddyn ganlynol daeth i Lundain drachefn, y chweched tro, gyda'i "*Midsummer Night's Dream*," trwy ba un yr ennillodd fwy o ffair nag erioed. Llafur a lludded dibaid, yn gymysgedig â chanmoliaeth ac anrhydedd, oedd yn ei aros tra yn y Briffidinas. Dychwelodd i'r Almaen, yn llesg a blinedig; ac ymneillduodd drachefn i'w dawel

unigedd yn Soden. Yn yr adeg hon, yn hollol annysgwyladwy i bawb, clybuwyd fod Mendelssohn wedi penderfynu ymneillduo yn hollol o fywyd cyhoeddus; ac, mewn canlyniad i'r penderfyniad hwnw, dychwelodd i Berlin, a rhoddodd ei swydd i fyny: Derbyniodd y brenin ei ddymroddiad; ond gorfododd ef bron i dderbyn y rhan fwyaf o'i gyflog fel cynt, i gadw y teitl o "Brif Lywydd Cerddoriaeth," ac i addaw dyfod yn achlysurol i Berlin, a chyfansoddi ychwaneg o gerddoriaeth at wasanaeth y llys a'r eglwys gadeiriol. Cydsyniodd Mendelssohn, ac i ffordd âg ef i'w dawel drigle yn Soden. Y chydig, os neb, a wyddent ar y pryd pa beth oedd yr achos o'r symudiad hwn. Nid oedd yr un cwmwl gwerth ei nodi yn ymddangos yn yr holl ffurfafen; seiniai ei glodydd trwy bedryfan byd; os rhoddwyd iddo yr ysgwydd unwaith yn Berlin, yr oedd bellach mewn ffaftr yn y llys, ac wedi gweithio ei holl elynion i ddystawrwydd; yr oedd ei iechyd a'i nerth hefyd wedi dychwelyd, fel nad ydoedd rheswm digonol i'w gael o'r parth hwnw. Nid hir, pa fodd bynag, yr arosodd y mater mewn dirgelwch. Gwelwyd fod ei galon wedi ei gosod ar ryw waith mawr, yr hwn yr oedd yn amhosibl ei gyflawni yn nghanol berw a blinder bywyd cyhoeddus. Yr ydoedd wedi ymrwymo i gyfansoddi yr "*Elijah*" i bwyllgor cylchwr Birmingham; ac yn awr yr oedd holl alluoedd ei feddwl i gael eu galw ynghyd a'u gosod ar waith i gyflawni gorchwyl a fuasai yn ei fryd byth er y pryd y cyfansoddasai ei "*St. Paul*." Treuliodd yr hydref a'r gauaf hwnw yn nghanol creadigaethau rhyfeddol ei waith newydd; ac wedi hyny, er llawenydd digymhar i'w gyfeillion yn y lle hwnw, dychwelodd i fyw unwaith drachefn i Leipsic; ac i goroni y flwyddyn hono,—yr hon oedd eisoes wedi gwled amlinelliad yr unig *oratorio* ag sydd eto yn ymddangos megys am gydoesi â'r eiddo y "*Messiah*" gan Händel, ymgyfarfyddiad Moscheles, prif chwareuydd yr oes ar y piano, â Mendelssohn, prif gyfansoddwr yr oes, a'u bwriad i gydfyw yn Leipsic,—ni a gawn y ddihefelydd gantores, Jenny Lind, yn ymuno, yn mis Rhagfyr, i wneuthur triad na welwyd yn aml ei gyffelyb. Arosodd Jenny yno am rai misoedd; ac nid oes un ammheuaeth mai i'w llais hi—odlau tyner a swynol pa un a ymdorent ar ei glust fel yr oedd yn gweithio allan y cyfansoddiad—y trefnodd efe y *soprano part* yn yr *oratorio* ardderchog hono. Llafuriodd yn ddyfal trwy y gwanwyn hwnw i orphen a pherffeithio y cyfansoddiad; ac erbyn mis Mehefin, yr oedd yr holl ranau lleisiol yn nwyllaw y cantorion yn Birmingham.

Y 26ain o Awst, 1846,—dydd a hir gofir gyda serch yn gymysgedig â galar gan gerddorion—oedd dydd mawr cyflawniad yr "*Elijah*" yn Birmingham. Yr oedd y cyfansoddwr yn bresennol, yn iach a siriol; ond nid oedd yn eisien, yn ei wedd welw, ond hynod serchus a chariadlawn, mwy nag yn y cyfansoddiad, arwyddion digonol o bresennoldeb ysbryd ag oedd wedi myned dan orlwyth o lafur. Yr oedd y dydd o'r fath hyfrydaf—nouadd èang ac ysplenydd y dref yn orlawn, a phob calon yn curo yn bryderus, tra yr oedd pob llygad yn hoeliedig ar y ddôr, am weled arwr y dydd yn gwneuthur ei ymddangosiad. Ar yr awr benodig, dacw y dyn; ac nid cynt y mae o fewn y trothwy, nag y mae yr holl adail yn crynu, ac hyd yn nod y ceryg, y coed, a'r clai, megys yn teimlo oddiwrth yr eirias o drydan ymha un yr ymferwai yr holl gynulleidfa. Cyflawnwyd y gwaith yn orgampus; ac am y derbyniad, digon yw dyweyd, fod yr holl gynulleidfa megys wedi llwyr wallgofi ar y cyfansoddwr a'r cyfansoddiad, ac mai prin y diangodd Mendelssohn heb gael ei lethu gan rosyn-

au, a'i ladd gan drwst a gwefrdân serch. Dychwelodd i Lëpsic; ond gorchymynwyd ef yn gaeth gan ei feddyg na chwareuai yn gyhoeddus mwy. Dydd Gwener y Groglith, y flwyddyn ganlynol, ymddangosodd yn gyhoeddus yn ei dref fabwysiedig y waith olaf am byth, a'i orchwyl diweddfaf yno oedd llywyddu ei "*St. Paul*," ac ymhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, yr oedd yn Llundain yn darparu y *Sacred Harmonic Society* i gyflawni ei "*Elijah*." Cymerodd hyn le yn Exeter Hall, ar yr 16eg o Ebrill; ond dywedir mai nid heb lafur dybryd, a phryder annychymygadwy, y cafodd efe y gymdeithas yn alluog i wneyd rhywbeth tebyg i gyflawnder â'r cyfansoddiad. Ymhen yr wythnos, yr oedd ei Mawrhydi a'r Tywysog Albert yn bresennol ar ail gyflawniad y gwaith hwnw; a gwell ydyw gadael i'r Tywysog ei hun esbonio eu teimladau ar y pryd. Bore drannoeth, anfonodd y Tywysog Albert y copi o'r *oratorio* oedd ganddo yn gwrando i'r awdwr, ac yn ysgrifenedig arno, yn ei lawysgrif ei hun, yn yr Ellmynaeg, yr hyn a ganlyn:—

"I'r celfyddydwr godidog, yr hwn, 'tra yn amgylchynedig gan Baal-addoliaeth celfyddyd lygredig, a fu yn alluog trwy ei athrylith a'i wyddonaeth i gadw yn ddi-halog addoliad gwir gelfyddyd, megys ail Elias, ac unwaith yn rhagor i gynnefino ein clust, yr hon a ymgollasai yn nhrefydd gwag-chwareuad o seiniau, & nodau pur cyfansoddiad traethiadol a chynghanedd gyfreithlawn; i'r Meistr mawr, yr hwn a'n gwna yn ymwybyddus o unoliaeth ei gynllun, trwy holl rwydwaith ei grëadigaeth, o'r tyner sibrdw hyd ruadau mawreddog yr elfenau:—Ysgrifenydd fel arwydd o ddiolchus goffadwriaeth, gan ALBERT."

Ah! bychan y meddyliai ei Ûchelder fod y prophwyd hwn, yr hwn a ymddangosasai fel ail Elias, i buro ac i ddyrchafu y gelfyddyd gerddorol, ac a ennillasai y fath oruchafiaeth ar Baal-addolwyr celfyddyd lygredig, i gael ei gipio hefyd mor fuan, mewn cerbyd tanllyd a meirch tanllyd, oddiar y ddaear, heb neb i dderbyn ei fantell. Arosodd yn Lloegr hyd yr 8fed o Fai, a bu amryw droion yn y palas breninol, yn chwareu o flaen y Frenines a'r Tywysog Albert, y rhai a'i derbynient yn fwy fel ymwelydd nag fel celfyddydwr professedig. Erbyn hyn, yr oedd ei nerth unwaith yn rhagor wedi llwyr ballu; ac wrth ganu yn iach i gyfaill yn Llundain, yr hwn a ddadganai ei ofid ei fod yn ymadael mor fuan, dywedodd yntau, "Ah! bydd yn dda genyf os nad wyf wedi aros eisoes yn rhy hir. Un wythnos arall o lafur fel hyn a fyddai yn farwolaeth i mi!" Hwylodd ei gamrau yn flinedig tua Frankfurt; a thra yn y sefyllfa hon, un o'r newyddion cyntaf a ddaeth i'w glustiau oedd fod ei chwaer Fanny wedi marw! Pan glywodd y newydd, syrthiodd ar y llawr yn gwbl ddiideimlad; yr oedd yr ergyd yn fwy nag a allai ei natur dyner a briwedig ei ddal, ac ni orfyddodd byth ei effeithiau. Bu am amser fel un wedi colli ei galon—a diau fod hyn yn wirionedd sylweddol, ac nid ffigyr, am dano i fesur; mynych y cwrwdrai wrtho ei hun ar hyd y maesydd; ysgrifennai lythyrau ag nad oedd ond gofid a galar digymysg yn eu llenwi o gwr bwy gilydd; ac nis gallai oddef clywed cerddoriaeth heb ymollwng i wylu yn ddiarbed. Ar ol ymdrechu ymhob modd yn aneffeithiol i'w gysuro, perswadiodd ei briod ef o'r diwedd i gymeryd taith i Switzerland, gan wybod ei fod yn dra hoff o brydfertion mawreddog y wlad farddonol hono. Yno yr aed, efe, a'i wraig, a'i blant; ac yno, yn mhresennoldeb yr Alpiau godidog, a'r golgyfeydd arddunol sydd yn eu cylchynu, y dychwelodd i'r cerddor ryw gyfran o'r ysbryd a'r iechyd a gollasai. Nid cynt y teimlodd ei hun yn

cryfhân, a'i ysbryd yn dychwelyd, nag y dechreuodd drachefn, gydag awch angerddol a pheryglus, ar ei hoff waith o gyfansoddi. Gorphenodd yr *act* gyntaf o *opera* a alwai "*Loreley*;" a gweithiodd yn egniol ar *oratorio* newydd a gynlluniasai, sef "*Christus*," yr hon oedd i fod yn dair rhan—Genedigaeth ein Hsachawdwr—ei Ddyoddefiadau a'i Angau— a'i Adgyfodiad a'i Ddyrchafiad. Gan feddwl ei fod yn gwella, dychwelodd, gyda'i deulu, i Leipsic; ac yn anffodus penderfynodd cadw ymweliad un-waith drachefn â Berlin. Yn anffodus, meddwn, oblegid yr oedd pob peth a welai yno yn agoryd ei hen archollion, a dychwelodd i Leipsic yn llawer gwaeth. Trôdd eilwaith at ei hen gelfyddyd, a chyfansoddodd gerddoriaeth ar linellau tlysiion o'r eiddo Eichendorf, a elwir "Y Gân Nos;" ond soddi yn gyflym yr oedd ei natur; ac ar y 4ydd o Dachwedd, 1847, am 9 o'r gloch yn yr hwyr, ehedodd ei ysbryd mewn tawelwch i'r byd dycyethr a digyfnewid y tu draw i'r llên. Yr oedd ei dad, a'i fam, a'i chwaer, wedi ei flaenu yno; ac erbyn hyn y mae ei weddw, a'i fab ieuengaf Felix, wedi ei ddilyn. Diau y bydd yn hoff gan garedigion cerddoriaeth glywed fod pedwar o blant iddo eto yn fyw, dau fab a dwy ferch—Carl, Marie, Paul, a Silli. Y mae Carl yn ddyn ieuanc 19 oed, ac yn debyg o gynnal i fyny enwogrwydd ei deulu. Duw fyddo iddynt yn well na thad, ac yn well na mam!

Anmhosibl, ac annyddorol, mae yn ddiau, mewn erthygl o'r fath hon, fyddai cynnyg rhoddi beirniadaeth fanwl ar holl gyfansoddiadau y cerddor enwog a llafurus hwn, na manylu hyd yn nod ar un o honynt; ac i'yn gymaint a bod ein hysgrif eisoes wedi myned yn feithach nag y bwriadasom iddi fod, ni wnawn ond prin grybwyll rhai sylwadau cyffredinol.

Tuag at osod ein hunain mewn sefyllfa gyfeus i ffurfio iawn farn o barth ei athrylith a'i weithiau, mae yn anghenrheidiol cadw mewn côf y cyfnod ymha un yr ymddangosodd. Y mae hyn yn anheborol anghenrheidiol er ffurfio barn deg am waith pob dyn. Ganwyd Mendelssohn, fel y gwelwyd, yn 1809. Yr oedd Händel wedi marw er ys hanner can' mlynedd; Mozart yn y briddell er ys dwy flynedd ar bymtheg; Haydn yn hen ŵr 78 oed; yn crymu mewn tloedi a henaint ar fin y bedd, a bu farw cyn pen pedwar mis; yr unig gerddor o'r dosbarth blaenaf oedd yn fyw oedd Beethoven, a bu yntau farw yn Vienna pan oedd Mendelssohn yn 19 oed. Gŵyr pob cerddor o brofiad pa mor anhawdd ydyw ffurfio brawddeg newydd o felodedd heb ddyfod yn ddisymwth ar draws un neu arall o'r cewri a enwasom. Ymddengys fel pe byddai Händel a Haydn wedi llwyr fedi a lloffa pob tywysen o werth oddiar faes y raddfa drydonawl; ac, yn wir, felly y mae i bawb ond perchen athrylith; a dylid cymeryd i'r cyfrif bob amser, wrth ffurfio cymhariaeth rhwng Händel a Mendelssohn, neu unrhyw ddau eraill, y nwyddau oedd ganddynt at eu gwasanaeth. Naturiol ydyw meddwl fod yn llawer hawddach i Händel, yr hwn yr oedd holl gloddfa y raddfa naturiol bron yn gyfan o'i flaen, gynnrychu delweddau o'r raddfa hono, nag i Mendelssohn, yr hwn a ddeuai ymlaen ar ol i Händel gywain o honi ddwsin, neu ychwaneg o dreithganau mawrion, a chyfansoddiadau eraill yn ddirifedi bron, heb son am yr holl gynnyrchion a ffurfiwyd o honi gan Mozart a Haydn, ac eraill. "Dysgwn gynnrychu y fath effeithiau gyda chàn lleied o foddion â Händel," ebai Beethoven; ond y gwirionedd ydyw fod Händel wedi gwneuthur hyny bron yn anmhosibl —yr oeddyr ar fedr arfer y gair heb un cymedrolydd cyn i ni ddygwydd

cofio nad ydyw "anmhosibl" i'w gael yn ngeirlyfr athrylith. Addefir ar bob llaw fod gweithiau Händel, yn enwedig ei brif weithiau, yn fwy *pobl-ogaidd* na'r eiddo neb a ddaeth ar ei ol. Un rheswm am hyny ydyw y ffaith fod elfenau ei gyfansoddiadau ef i'w cael megys ar y wyneb, a'u bod, o ganlyniad, yn hawdd i'r cyffredin eu deall a'u teimlo. Erbyn hyn, rhaid i'r neb fyddo am gyfansoddi gorchestwaith gloddio yn ddwfn am ddefnyddiau; a'r canlyniad ydyw fod yr hyn a gynnrychir o gymaint a hyny yn fwy annealladwy, oddigerth i'r rhai fyddont wedi mwynhâu mesur o ddysgeidiaeth. Oddiar yr un achos, mewn rhan, y tardda hefyd fod mwy o'r arddunol mewn rhai o gyfansoddiadau Händel nag sydd yn bosibl, fe allai, i un cyfansoddwr ar ei ol ei gynnrychu, heb wneuthur defnydd helaeth o'r un elfenau ag yntau; a byddai yr awdwr a anturiai wneuthur hyny yn gosod ei hun ar unwaith yn agored i gael ei erlyn fel lleidr ac yspeillydd, a ffawd dda os nad ei ddiwedd fyddai cael ei ddiennyddio ar grogbren crachfeirniadaeth. Nid ydym yn sicr a ydyw deddfau beirniadyddol, a syniadau y cyhoedd, yn gwbl gyfiawn mewn perthynas i lënladrad, efelychiad, ac felly ymlaen. Paham nad ellid caniatâu i un y dyddiau hyn osod allan ei ddelweddau, barddonol neu gerddorol, fel y byddo ei ddarfelydd yn ei ffurfio, heb ofalu ynghylch pa un a fydd neb wedi gosod y cyffelyb erioed o'r blaen gerbron y byd? Ymddengys i ni, cyhyd ag nas gellir profi fod yn anmhosibl i ddau feddwl annibynol, ac heb wybod dim am eu gilydd, gynnrychu syniadau neu ddelweddau cyffelyb, fod llawer iawn o'r hyn a elwir beirniadaeth yn yr oes bresennol yn groes i ddeddfau natur, ac felly yn seiliedig ar yr hyn nid yw safadwy. Addefwn fod amrywiaeth diderfyn yn holl waith y Créawdwr. I ba gyfeiriad bynag y trôwn mae y gwirionedd hwn yn ymwithio ger ein bron. Ymddengys nad oes cynifer â dau o'r lluoedd aneirif o lysiau sydd yn harddu wyneb y ddaear, ac yn cynnysgaethu ei thrigolion â defnydd ymborth, yn hollol yr un fath; na cheir dau anifail o'i myrddynau o bob rhywogaeth sydd yn preswyllo y ddaear, na dau o ehediaid yr awyr na physg y dyfroedd, yn hollol gyffelyb i'w gilydd, mewn dim oll; ac nid ydyw y teulu dynol, mewn corff na meddwl, yn eithriad i'r ddeddf. Gwelodd llawer o honom filfloedd o ddyinion; ond nis gwelsom eto yr un dau wyneb hollol debyg i'w gilydd, nis gwelsom yr un dau gwpl yn hollol o'r un ffurf, nis clywsom ddau lais yn hollol o'r un ansawdd; a diau nad oes yr un dau feddwl perffaith gyffelyb i'w cael yn holl deulu lliosog dyn. Mynych y buom yn gorfod sefyll mewn syndod uwchben y gwahaniaeth diddiwedd hwn. Gorchestwaith dyfeisgarwch crëedig ydyw dwyn i mewn lawer o amrywiaeth, a ffurfio prydfferthion na chanfyddwyd o'r blaen; ond dyma drefn gyffredin yr Anfeidrol. Ar yr un pryd, yn nghanol y fath amrywiaeth, a lle nad oes unfurfaeth i'w ganfod mewn dim, y mae tebygrwydd, i raddau mwy neu lai, yn ffynu trwy holl wahanol ddosbarthiadau bodolaeth; ac nid anfynych y bydd rhai, o herwydd anghrafferd synwyr, neu ddiffyg sylw, yn cymeryd tebygrwydd am unfurfaeth, ac yn camgymeryd y naill wrthddrych yn lle y llall. Ac nid yn ngwrthddrychau gweledig y byd hwn yn unig y ceir tebygrwydd; y mae digonedd o brofion o'i fodolaeth rhwng sylweddau ysbrydol y byd arall, o ba un, yn gystal a'r byd materol hwn, yr ydym ni yn ddeiliaid. Megys y ceir weithiau ddau ddyn ag y bydd yn anhawdd gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall o herwydd eu cyffelybrwydd corfforol, nid oes un ammheuaeth na cheir hefyd, ar brydiau, ddau feddwl ag y bydd yn anhawdd

eu gwahaniaethu, gan mor debyg ydynt, a hyny er eu bod yn hollol ddyeithr ac annibynol ar eu gilydd; "annibynol," meddwn, yn yr ystyr y defnyddir y gair yn gyffredin; fe allai, mewn gwirionedd, fod dynion yn llai ymddibynol ar eu gilydd nag y mae y lliaws erioed wedi meddwl. I feddyliau felly nid oes dim yn fwy naturiol, os dygwydd iddynt gael eu galw i weithrediad ar yr un pethau, nag iddynt ffurfio syniadau cyffelyb. Nid anfynych y mae hyn wedi dygwydd—yr un syniadau a meddylddrychau yn cael eu cyhoeddi gan wahanol ddyinion, yn ddjarwybod y naill i'r llall, a hyny bron yn yr un geiriau. Ac mor gyffredinol ydyw y tebygrwydd hwn fel yr ydym yn anturio tybied nad oes nemawr un o'r dosbarth mwyaf meddylgar o ddyinion nad ydyw, rywbryd, wedi dygwydd taro yn ngwaith awdwr arall, wrth feddwl ag yr oedd cyn hyny, ac yn ddigon cyfreithlawn, yn ei goleddu fel ei hoff blentyn ei hun. Y mae anian hefyd yn hoff o adgynnyrchu ac efelychu ei hun; yr un modd athrylith. Yn mherson un o'i meibion yn y presennol hi a gymera i mewn rai o gynnyrchion yr oesoedd a aethant heibio, ac a eistedda arnynt, ac wedi eu dwyn felly i gyfwr o ddadansoddiad, hi a'u hadlunia, ac a anadla ynddynt fywyd newydd, ac a'u henfyn allan yn grädigaethau prydferth i sirioli a dedwyddoli plant dynion; ac felly, o oes i oes, y mae adgyfodiad cyson a pharhâs i fywyd a phrydferthwch yn cymeryd lle ar yr hyn a orphwysai am enyd yn llwch y ddaear. Ond rhy äang ydyw y maes mawr a dyddorol hwn i ni fyned i mewn iddo ar y pryd presennol. Nis gallwn ei adael, pa fodd bynag, heb ddadgan ein tybiaeth fod beirniadaeth anathronyddol, arwynebol, a choegaidd o'r fath ag a geir yn rhy fynych y dyddiau hyn, ac yn yr hon ni wneir un cyfrif o'r egwyddorion ag yr ydym newydd eu crybwyll, wedi bod yn achlysur i fesur helaeth o'r niwl, yr aneglurder, yr annaturioldeb, a'r anorphenedd a welir mewn llawer o ysgrifeniadau a chyfansoddiadau yr oes. Ni chwennychem i neb dybied am foment oddiw'rth y sylwadau hyn ein bod am gynnyg penran newydd yn yr act feirniadaethol, er mwyn cysgodi y sawl fyddo yn ddigon anonest tuag at eraill, a dibris o hono ei hun, i gymeryd a pherchenogi eiddo ei gymydogion. Na; nid ydym am arbed y cyfryw mewn un modd; os ceir ef yn euog ar brawf teg, gweinydder arno gyflawn ddedfryd y gyfraith; yr hyn yr hoffem ni ei gynnyg fyddai gwelliant yn nghyfraith tystiolaeth, a dyfyniad mwy athronyddol o'r trosedd. Nid ydyw y nodiadau blaenorol yn anghenrheidiol ychwaith er cyfiawnhâu yr un cyfansoddiad na symudiad o eiddo yr awdwr sydd dan sylw. Y mae pawb, ar bob llaw, yn cyttuno i roddi credyd iddo am wreiddioldeb ac onestrwydd, pa ddiffygion bynag a gyfrifir iddo. Gwir fod Händel wedi gwneyd daear y raddfa drydonawl yn goch, a Mozart a Beethoven ac eraill wedi cywain llawer o faes y raddfa hanner-tônawl; eto, y fath ydoedd llygaid eryraidd athrylith Mendelssohn fel y mae wedi dwyn i'r amlwg grädigaethau ar grädigaethau, a'r rhai hyny yn llawn o'r prydferthion mwyaf swynol, y rhai ni sangodd gwadn dyn erioed o'i flaen. Y chydig a dramwyodd efe yn ffordd Händel, a hyny, yn un peth, fe allai, o herwydd prinder anghenrheidiol yr adnoddau a weddillasid y ffordd hono, ond yn benaf o herwydd fod tueddfryd naturiol ei feddwl yn ei dywys i gyfeiriad gwahanol. Y gwythenau cyfoethog o ba rai y cloddiodd efe ei brif drysorau ydynt, y raddfa hanner-tônawl, trawsgyweiriant, a chynghanedd.

Heblaw gwreiddioldeb ei gyfansoddiadau, mae y meddwl yn cael ei daro hefyd gan eu lliosogrwydd, eu hamrywiaeth, a'u cyfoeth. Er fod rhyng-

ddo flwyddyn a hanner a chyrrhaeddwyd ei "lawn deugain mlwydd oed" pan yn marw, yr oedd yn yr oes fêr hono wedi cyfansoddi uwchlaw cant o wahanol weithiau, yn amrywio o *oratorio* yr "*Elijah*," sydd yn cymeryd yn agos i bedair awr i'w dadganu, i lawr trwy holl ddosbarthiadau cerddoriaeth hyd y "*Lied*" fechan a chwareneur neu a genir drosodd mewn llai na dau fynydd. Yma dygir ni i olwg llinell fawr a phwysig yn ei gymeriad, sef ei weithgarwch. Diwrnod byr o lafur diorphwys oedd ei fywyd. Bu fyw oesfaith mewn ychydig flynyddoedd. Yr oedd gweithio mor naturiol—a phriid nad ychwanegem mor anghenrheidiol—iddo ag anadlu. Ni fedrai ei natur oddef segurddod. Ac eto, mor ychydig o arddangosiad a wnaï o hyny, fel y gellid meddwl wrth edrych arno mewn cymdeithas mai ymddifyru a difyru eraill ydoedd ei holl waith. Gwnai aberth o bob peth perthynol iddo ei hun er gwneyd ei gyfeillion a ymwelent âg ef yn hapus. Byddai hyny yn achos blinder i rai o honynt—gweled dyn o'r fath alluoedd, yr hwn yr oedd ei amser o'r fath werth aumbrisiadwy, yn ymroddi mor llwyr i'w gwasanaethu; a mynych y synai arnynt wrth feddwl pa bryd y byddai yn cael amser i gyfansoddi y fath weithiau. Y mae gostyngaidrwydd a charedigrwydd cyffelyb yn nodweddu llawer o ddynion gwir fawr; ac y mae dynion call, ystyriol, yn gwybod pa ddefnydd i'w wneyd o hono, tra y mae eraill, llai eu synwyr, heb ei ddeall, yn ei fathru dan draed. Fê allai mai nid y rhai hyny sydd yn siarad bob amser am eu gwaith, ac yn ymddangos yn frostgar yn ngwydd dynion, ydynt y rhai mwyaf gweithgar bob amser; os ydys am ddyfod o hyd i ddirgelwch y dyn sydd yn cael amser i wneuthur llawer, edrycher yn graff arno pan wrtho ei hun. Gweithgarwch dibaid ei feddwl, mae'n debyg, oedd un achos o hoffder mawr a chynnyddol Mendelssohn o Frydain. Er na ddaeth i gyfanneddu yma, fel Händel, bu drosodd laweroedd o weithiau, fel yr arddodasom yn barod. Bu yn Itali, ond yr oedd pobl y wlad glasurol hono yn rhy glaiar a segur ganddo; bu yn Ffrainc, ond yr ydoedd y Ffrancod yn rhy arwynebol i'w ysbryd dwys a difrifol i ymgysylltu â hwynt, ac y mae pobl ysgeifn y wlad hono heb weled gogoniant ei weithiau hyd y dydd hwn; yr oedd yn caru gwlad ei dadau yn fawr, ond yr oedd ei hawyr hithau, ac yn enwedig yr eiddo Berlin, wedi ei dwyn trwy ddylanwad rhewlyd Voltairyddiaeth a Hegelyddiaeth, islaw *Zero*, fel nas gallai natur frwd fel yr eiddo ef fyw yn hapus o'i mewn. Nid oedd hinsawdd gymdeithasol yn dygymod yn well, na chystal, ar y cyfan, â'i dymheredd ef, a'r eiddo Brydain. Gosododd ei wreiddyn i lawr yn y ddaear Frydeinig, a ffynodd yma yn well nag mewn un wlad arall.

Haera rhai o feirniaid yr Almaen—ac y mae Saeson i'w cael, wrth gwrs, a ddywedant ar eu hol yn y peth hwn fel pob peth arall—er ei fod wedi cyfansoddi cymaint, nad oes un o'i gyfansoddiadau wedi cyrrhaeddwyd grîs uwch nag a gyrhaeddwyd gan neb arall o'i flaen yn yr un dosbarth—fod Händel yn uwch nag ef yn nosbarth yr *oratorio*, fod Beethoven yn drech nag ef am *symphony*, am *opera* prin y gellir dyweyd iddo gyfansoddi un o gwbl—mewn gair, fod rhyw un neu arall wedi ei guro ymhob dosbarth. Gyda phob parch i'r beirniaid hyn, yr ydym yn maentumio fod hyd yn nod eu haddefiad hwynt eu hunain yn gosod ein hawdwr ar unwaith yn y dosbarth uchaf. A chaniatáu eu bod yn gywir, pwy ond dyn o'r galluoedd mwyaf ysplenydd a fwasai yn cynnysgaethu y byd, er yn marw cun cyrrhaedd ei ddeugain mlwydd oed, âg *Oratorios* a safant "yn nesaf at" yr eiddo Händel, yr hwn a gafodd oes o 75 mlynedd i gyfansoddi cerddoriaeth;

Symphonies a Concertos a ddeuant "yn nesaf at" yr eiddo Mozart a Beethoven; *Overtures* a safant "yn ail" i'r goreu; darnau i'r organ a safant "yn ail" i waith Sebastian Bach; ië, ac ar yr un pryd, ei hun yn chwareuydd o'r dosbarth "nesaf at y goreu" ar yr organ a'r piano, ac "heb ei well," yn ol addefiad pawb, fel *conductor*? Ond ymddengys fod y byd yn myned i droi yn ol feirniadaeth y bobl dda, ddysgedig hyn. Anhawdd ydyw gwybod pa fodd y try yr ymgystadleuaeth rhwng y "*Messiah*" a'r "*Elijah*;" ond y mae yr olaf, a hyny yn yspaid deng mlynedd o amser, wedi sicrhâu ei lle, nid fel yr agosaf at *oratorios* Händel, ond yr agosaf at ei brif orchestwaith, sef y "*Messiah*;" ac y mae yn ennill tir yn barhâus. Am ei gyfansoddiadau offerynwyl, drachefn, y mae hyn i'w ddywedyd, a dywedyd y lleiaf—ac mae y ffaith, dybygem ni, yn arwyddocaol o ychwaneg—nad gwiw erbyn hyn chwareu yr un o *Symphonies* Haydn nac *Overtures* Mozart ar ol un o brif weithiau Beethoven; ond y mae Mendelssohn yn dal y prawf, ac yn dyfod drwyddo yn ogoneddus, os gwneir cyfiawnder âg ef. Gwir na chafodd yr *opera* ond ychydig—y nesaf i ddim—o'i sylw; ond y mae y *Finale* i'r un act a orphanodd o'r "*Lorely*" wedi esgyn ar unwaith i'r radd uchaf; ac anmhosibl ydyw peidio gweled yn mroddegau annaeol a chynhyrfus y dernyn bychan hwnw, pe cawsai y meddwl mawr, gwreiddiol, a'i cynnyrchasai estyniad oes ar y ddaear, y buasai yn peri i'r *opera* deimlo oddiwrth ei fodolaeth.

Mae ein cyffyrddiad â'r dernyn bychan hwn, pa un ydoedd un o'r pethau diweddfaf a gyfansoddodd, yn ein harwain at nodiad arall perthynol i'n hawdwr—Fod ei athrylith yn ychwanegu cryfder gyda phob cyfansoddiad neu ymdrech mawr a gyflawnai. Fel yr oedd ei feddwl yn ymduwallt o un gorlwyth o ddelweddu, yr oedd yn ymlenwi drachefn o ddefnyddiau hollol newydd a gwahanol; ac yr oedd pob amgylchiad yn dyfod dan dreth, ac yn gorfod bwrw ei hatling i'r drysorfa—yn cael ei orfodi i dalu teyrnged o feddylddrych cerddorol i'r awen. Yn hyn yr oedd yn gyffelyb i Mozart, ond yn wahanol i Händel a Beethoven. Cyfansoddodd Händel ei orchestwaith mawr—y "*Messiah*"—lawn deunaw mlynedd cyn marw; ac nid ydyw ei gyfansoddiadau diweddfaf ond egwan a dieffaith o'u gosod yn ymyl ei orchestweithiau blaenorol; ond y mae Mendelssohn yn ennill nerth ymhob cyfansoddiad fel y mae yn myned ymlaen; ac yn gadarn o nerth, ië yn gadarnach nag erioed, pan yn ymadael o'r byd hwn. Mewn rhyw ystyr gellir edrych ar yr "*Elijah*," yn gyffelyb i "*Requiem*" Mozart, fel cân angladdol yr awdwr; ond nid oes dim yn yr ychydig a gyfansoddodd efe ar ol hyny yn arwyddo fod ei athrylith wedi ei dihybyddu yn y gwaith godidog hwnw; yn hytrach, y mae pob peth yn dangos mai nid felly yr oedd. Mae y "*Lorely*," fel y sylwasom, ynghyd a'r darnau a adawyd i ni o'r *Oratorio* anorphenedig, y "*Christus*," yn llawn gyfartal, a dyweyd y lleiaf, i ddim a geir yn ei weithiau blaenorol; a mwy na fedrwn ni ei wneyd ydyw gwrando ar ei *Quartet* yn F leiaf, pa un a gyfansoddodd ar ol marw ei chwaer, ac ychydig cyn ei farwolaeth ei hun, heb deimlo i'r byw oddiwrth anadliadau trallodus, trwmlywthog, pruddaidd, ië calonrwygol, ei wahanol symudiadau. Mae y nefoedd yn amwisgedig mewn trallod, y ddaear yn ochain dan ein traed; ac Och! y mae ambell gord yn rhwygo ein calon fel pe byddai saeth anghu.

Nodasem amryw bethau eraill i sylwi arnynt yn yr ysgrif hon, megys melodedd (neu ddiffyg melodedd, fel y myn rhai), cynganedd, prydferth-

wch, a dyfnder ei gyfansoddiadau; ond y mae ein herthygl eisoes wedi rhedeg yn faith, a rhaid terfynu, gan gostrelyu y cwbl i fyny erbyn ysgrifau dyfodol.

Goddefer i ni yn brin grybwyll un gair eto cyn ymadael. Er fod Mendelssohn, fel y cyttuna y mwyafrif mawr o'r beirniaid bellach, yn uu o'r prif gerddorion a ymddangosodd yn y byd erioed, ac, yn ol barn Goethe, wrth ba un yr ydym ninnau yn gostyngedig danysgrifio ein henw yn y mater hwn, yn grynodeb ynddo ei hun o ragoriaethau y rhai a aethant o'i flaen, eto, nid ydoedd uwchlaw cael ei gyfran o'r etifeddiaeth sydd yn nghadw yn y byd hwn—y "blinder" sydd yn enedigaethfrait i bwy bynag a ewyllysio ragori. Gwelodd yntau genfigen—"cyntafanedig uffern"—yn twrio dan ei sail yn Dusseldorf; malais yn dewis Rungenhagen o'i flaen i gadair ei hen athraw yn Berlin; ei elynion, y rhai ni fedrent ddal yn ngwyneb dysgleirdeb ei athrylith pan yn fyw, yn gwneuthur hyd yn nod Leipsic yn ddisfater am ei weithiau a'i goffadwriaeth ar ol iddo farw, yn dyrchafu Schumann i'w le, yn rhedeg i lawr ei gyfansoddiadau fel cynnyrchion peiriannyddol diathrylith a dienaidd, a'i "*Elijah*," mewn canlyniad, yn cael ei dadgan i dŷ hanner llawn. Ond dros ychydig yr erys tARTHACH o'r fath yma o flaen haul athrylith; y maent yn prysur ddiflanu y dyddiau hyn; a diau fod diwrnod gogoneddus o flaen ein hawdwr, ac y bydd ei enw yn glodfawr pan y bydd enwau ei elynion goganllyd, fel eu cyrff, wedi huno yn dawel am oesoedd yn nhir ebagofiant.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

(Parhâd o tu dal. 240.)

II. Y CYFNOD CRISTIONOGOL.

RHYFFEDD gymaint o anhawsder sydd i benderfynu pa bryd y dygwyd yr efengyl i'r Ynys hon, a phwy oedd y cenadwr bendigaid a bregethodd gyntaf y newydd da o lawenydd mawr. Nid oes nemawr o ddau hanesydd yn cyduno ar y pen yma; ac am hyny, fel o'r blaen, rhaid i ni chwilio yr awdurdodau gwreiddiol, a barnu drosom ein hunain. Priodolir dygiad yr efengyl i Joseph o Arimathea, yr Apostol Pedr, Aristobulus, yr Apostol Paul, Bran ab Llyr, Simon Zelotes, a Lles ab Coel, neu yn fwy priodol y brenin Lucius. Mae pleidwyr wedi bod i bob un o honynt, yn Nghymru yn gystal ag yn Lloegr a gwledydd eraill. Credai Meurig Dafydd mai Joseph oedd y cenadwr; pleidiai Llywelyn Siôn mai Paul oedd efe; ond y gred gyffredin, hyd o fewn cant neu ddau o flynyddau, oedd mai yn amser Lucius, o gylch O. C. 169—180, y daeth yr efengyl gyntaf. Credai y Parch. T. Price yr honiadau ynghylch Paul, ac yn neillduol yn ei gy-

sylltiad â Bran ap Llyr; ac er fod y *Professor Rees*, yr unig feirniad hanesyddol a fagwyd yn Nghymru, yn gwadu hawliau Bran ap Llyr, mae y farn gyffredinol yn awr yn glynu wrth y Trioedd, a'u haeriadau disail am dano ef. Mae *Thackeray* wedi chwilio, gyda thegwhch a manylrwydd tra chanmoladwy, hawliau pob un o honynt, oddieithr Bran ap Llyr, ac yn methu cael digon o sail hanesyddol yn unrhyw un o'r haeriadau. Gan fod y tystion oll yn yr ieithoedd Groeg a Lladin, nid oedd anhawsder ar ei ffordd ef i gael allan y gwirionedd; ac am hyny, ystyriaf fod ei gasgliad ef yn rhesymol, yn wirioneddol, ac yn benderfynol. Ond gan fod yr iaith Gymraeg yn anhawsder i ddyeithriaid olrhain hanes Bran ap Llyr, dichon y byddai o fudd i mi wneyd hyny, gan fy mod bellach yn bur gyfarwydd â'r Trioedd, ynghyd a'r holl ddefnyddiau hanesyddol eraill ag sydd yn yr iaith hono.

Sylwedd fy ymchwiliadau yw yr hyn a ganlyn:—

I. Yr oedd brenin yn yr Iwerddon o'r enw Leogaire, yr hwn, gan fod y *g* yn ddystaw, a seinid Leary, Lir, neu Lear fel y ceir ef gan *Shakespeare*. Cafodd ei orchfygu mewn brwydr a'i garcharu; a bu farw yn fuan wedi hyny—sef yn y flwyddyn O. C. 468. Yn y canoloesoedd cymerwyd gafael ar y ffeithiau hyn; plethwyd hwynt â hanes ffugiol y Brenin Arthur, ac aeth carchariad Llyr yn un o'r tri hynod garchariadau. Fel hyn yr ymddengys yn y *Mabinogion*, yn y *Romances* Seisonig a Ffrengig, ac yn y Trioedd—pa rai ydynt grynoadau diweddarach na'r *Romances*, ac yn seiliedig arnynt. II. Yn Ngogledd Cymru yr oedd, yn y chweched ganrif, ŵr o'r enw Llyr ab Einion Yrth ab Cunedda Wledig; a Llyr arall fab Brochwel Ysgythrog. III. Symudwyd amser Llyr gan Sieffrey o Fynwy, yn *Mhrut y Breninoedd*, gymaint o flynyddau cyn Crist, ag oedd yn byw wedi Crist. Yn y dull yma, o gamsyniad i gamsyniad, daeth Bran i gael ei osod yn gyfamserydd i Grist. Cymysgwyd yr hanesion, nes aeth carchariad Llyr yn garchariad Caractacus yn Rhufain, yn amser yr Apostol Paul; ac yn yr unfed ganrif ar bymtheg, am y tro cyntaf yn hanes Cymru, ffugwyd i Bran fod yn *feichiau* dros Caractacus, ac iddo ddychwelyd oddiyno ar ryddhâd Caractacus, i Ynys Brydain, ac Arwystli Hen fel cenadydd gydag ef. Pe buasai tyfiad y chwedl yn llai amlwg, buasai o werth i mi nodi—1. Fod genym dri chyfeiriad cyfamserol at frodyr, gwraig, a phlant Caractacus, ond fod ei dad, sef Cunobelinus wedi marw. 2. Nad oedd un son am ddyn o'r enw Bran. 3. Nad oedd un eisieu meichiau, gan fod Caractacus ei hun yn nwylaw y Rhufeiniaid. 4. Nad oedd ei ryddhâd ef ond rhyddhâd *ar parole*; hyny yw, cenad i fyw yn Italy, ond nid i fyned o honi. 5. Fod tystiolaeth bendant iddo aros yn Italy, efe, a'i wraig, a'i blant. Ond bydd yn ddigon i ni roddi yr enghraifft ganlynol o'r modd y darfu i'r chwedl dyfu i'w ffurf bresennol:

I. "Tri goruchel garcharawr Ynys Prydein: Llyr Lletieith a fu gan Euroswydd ygkarchar," &c. *Trioedd, Cyfres 2.*

II. "Tri goruchel garcharawr Ynys Prydain: Llyr Lledieith yng Carohar Oeurswydd Wledig," &c. *Trioedd, Cyfres 1.*

Yn awr, sylwer ar yr ychwanegiadau a'r cyfnewidiadau yn y Drydedd Gyfres:—

III. "Tri *Theulu Teyrnedd* a ddygid yng ngharchar *o'r gorhendaid i'r gorwyrion, heb adu yn nianc un o honynt*: Cyntaf, *Teulu Llyr Llediaeth* a ddygid yn ngharchar hyd yn Rhufain gan y Caisariaid. Ail, *Teulu Madawg ab Medron*, a fuant yngharchar y gan y Gwyddyl Ffiohti yn yr Alban. Trydydd, *Teulu Gair ab Geirion*, Arglwydd Geirionydd, y gan raith Gwlad a Chenedl yng ngharchar Oeth ac Anoeth; *ac o'r rhoi hynny nag un nag arall o honynt yn nianc*; a llwyraf caroharu a wybuwyd eirioed a fy ar y Teuluoedd hynny."

Gwelir fod y carcharorion unigol wedi eu lliosogi i *deuluoedd*, ac Euros-wydd Wledig o Gaer-gwrosydd (*Oystermouth*), yn agos i Abertawe, wedi rhoddi lle i Gaisariaid Rhufain. Sylwer yn neillduol ar yr haer-
iad olaf, na ddiangodd neb o honynt; ac yna, yn y cymhariad canlynol, gwelir nad oedd ysgrifenyddwr y drydedd gyfres yn prisio beth a ddywed-
ent:—

CANRIF XIII.

I. "Tair gwelygorth Sant Ynys Brydain, plant Brychan, plant Cunedda Wledig, a phlant Kaw o Brydain."

Cambro-British Saints, tu dal. 271.

CANRIF XV.

II. "Tri Sanctaidd Linus Ynys Prydain: Llinus Bran ab Llyr (Joseph o Arimathea mewn rhai llyfrau), a llinus Cunedda Wledig, a llinus Brychan Brycheiniog."

Cyfes 1.

CANRIF XVI.

III. "Tair gwelygordd Santaidd Ynys Prydain: gwelygordd Bran Fendigaid ab Llyr Llediaith, *sef y Bran hwnnw a ddug y Ffydd yn Nghrist gyntaf i'r Ynys honn o Rufain, lle bu ef yngharchar drwy Frad Aregwedd Voeddanng merch Afarwy ab Lludd*. Ail, gwelygordd Cynedda Wledig, a roddes Dir a Braint gyntaf i Dduw a'r Saint yn Ynys Prydain. Trydydd, ydoeth Brychan Brycheiniog, a ddug ei blant a'i wyrion ar ddydg a bonedd, fal y gallent ddangos y Ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry, lle ydd oeddent yn ddiffydd."

Cyfes 3.

Gwelir yma dyfiad yr haerriad, mai yn ddiweddar y daeth Bran ab Llyr i blith y Seintiau, fod y cwbl yn ymddibynu ar yr haerriad olaf, ac fod dau *driad* y drydedd gyfres yn croesi eu gilydd. Pe bai yn werth beirniadu haeriadau penrydd fel yma, gellid gofyn pa fodd y daeth Bran yn ol, os na ddiangodd nac un nac arall o deulu Llyr? Ond yr ydym wedi gwastraffu gormod o amser eisoes; a gobeithiwn nad yw yn anghenrheidiol i amhâu profion nad yw y chwedl hon yn meddu un gradd o deilyngdod hanesyddol. Yr oedd Bran ab Llyr yn gyfoeswr y Bardd Taliesin (chweched ganrif), ac yn wŷr i Brochwel Ysgythrog, Tywysog Powys, neu Einion Yrth.

Tra yr oeddwn yn cyfansoddi y traethawd hwn, gofynwyd fy marn ynghylch Bran ab Llyr gan weinidog parchus yn y Corff Wesleyaidd. Mewn atebiad, darlennis y sylwadau rhagflaenol; ond gommeddodd fy mod heb gyffwrdd â'r dywedriad i Bran fod saith mlynedd yn ngwystl ei fab, ac iddo gael ei ryddhâu wedi hynny; a chan y dichon fod eraill yr un mor anfoddlawn i ymadael â'r chwedl hon, ychwanegaf y cyfeiriad hwnw gyda sylwadau beirniadol arno. Mae yn y *Myv. Arch.*, II., 63, *Triad 35*, ac yn rhedeg fel y canlyn:—

"Tri Menwedigion Teyrnedd Ynys Prydain: Bran fendigaid ab Llyr Llediaith a ddygwys gyntaf y ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yngwystl ei fab Caradawc a ddug Gwŷr Rhufain yn ngharchar gwedi ei frad-

yehn drwy hnd a thwyll a chynllwyn Aregwedd Foeddawg. Ail, Lleirwg ab Coel ab Cyllin Sant, a elwir *Lleufer Mawr*, a wnaeth yr Eglwys gyntaf yn Llandaf, a honno a fu'r gyntaf yn Ynys Prydain, ac a ddoddes fraint Gwlad a Chenedl a brawd a bridyw ar a fyddaint o'r ffydd yng Nghrist. Trydydd, Cadwaladr Fendigaid a roddes nawdd o'i diroedd a'i holl ddaoedd ei hun i'r ffyddloniaid a ffoynt rag y Saeson di gred a'r Ammrodorion a fyfnasint eu lladd."

Wele y crybwylliad yn ei holl gyflawnder: beth yw ei deilyngdod? Sylwer yn flaenaf ar ei hynafiaeth. Dyweda *Bede* i frenin y *West Saxons*, o'r enw Cedwalla, roddi i fywy ei deyrnas, a myned i Rufain, O. C. 688, a marw yno; a darfu i Sieffrey o Fynwy briodoli y cyfeiriad at Cadwaladr, brenin Gwynedd. Ond pa un ai yn fwriadol neu yn gamsyniol y gwnaeth hyn, mae'r crybwylliad yn anghywir, gan i Cadwaladr farw yn Nghymru, ac yn y flwyddyn 684, fel y tystia gwell awdurdod na Sieffrey,—

"A. D. 684. *Mortalitas magna fuit in Britannia, in qua Catgualart filius Catguoll-aun oblit*"

Annales Cambriae.

Yn awr, o herwydd camsyniad Sieffrey y gelwid Cadwaladr yn *fendigaid*; ac am hyny nid allasai y triad hwn gael ei ysgrifenu cyn ei amser ef, sef y ddeuddegfed ganrif. Os sylwir ar yr orgraff gwelir ei fod yn ieithwedd ddiweddaraf y Gymraeg, yr hon a sefydlwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg gan y Dr. Davies o Fallwyd, O. C. 1625). Llygriad, fe allai, o "*regina*" yw Aregwedd; ac Aregwedd Foeddawg oedd y frenines ddewr Boadicea, a gollodd ei bywyd yn achos ei gwlad. Bradyches Caractacus oedd Cartismandua. Cymaint a hyny am eirwiredd hanesydd y Triad. Eto, nid Bran oedd tad Caractacus; nid oedd achos am wystl, gan fod y gwron yno ei hun; ni fu yn ngharchar am saith mlynedd nac un flwyddyn, gan iddo gael ei ddwyn yn ddioed ger bron Claudius; a phe buasai Bran yn Rhufain, ni chawsai byth ddyfod yn ol. Ymhellach, nid oes un cefnogiad i'r "saith mlynedd" mewn un man arall; ymddibyna yn hollol ar Drioedd y Drydedd Gyfres, y ddiweddaf o honynt oll, yr hon nid all fod trwy un posibilrwydd yn henach na'r unfed ganrif ar bymtheg. Dewiswyd y rhif saith, am fod hwnw, fel y rhif tri, a math o swyn ynddo; ac nid yw yr haeriad ond ffugiad diweddar a disail.

"Anerchwyd y rhai sydd o *dylwyth* Aristobulus," meddai Paul yn ei Epistol at y Rhufeiniaid. Cesglir oddiwrth y geiriau hyn fod Aristobulus yn fyw ar y pryd, ei fod yn Gristion, ei fod yn y cyfamser allan o dre ar genadaeth, ac yn Ynys Prydain.* Cefnogir y tybiau hyn gan draddodiadau yn yr Eglwys Roegaid, i Aristobulus fyned yn genadydd at y Prydeiniaid, ac iddo farw yma; ac y mae'r ffaith fod yr enw Aristobulus yn cyfateb i'r enw Cymreig Arwystli, yn cael ei gyfrif yn gadarnhâd i'r uu casgliad. Ond mae yr ysgrifenwyr wedi anghofio, un ac oll, nad oes un prawf o fodoldeb Aristobulus yn amser Paul; heb fwrw digon o bwys ar y ffaith mai at *Iuddewon* sefydledig yn Rhufain,—hyny yw, Cristionogion Iuddewig, y danfonodd Paul ei epistol; heb ystyried fod yr enw Aristobulus yn perthyn i deulu breninol yr Iuddewon; ac fod amryw o Aristobuliaid o enwogrwydd yn byw yn yr hanner canrif blaenorol. Bu Aristobulus y Trydydd, breuin ac archoffeiriad, a brawd i Mariamne, chwær Herod Fawr, fyw mor ddiweddar a C. C. 35; ac mae yn llawn mor

* Taylor's *Calmet*, Art. Aristobulus. Claudia and Pudeas by Archdeacon Williams.

debyg genyf mai ei dylwyth ef oedd yn Rhufain, ac nad unrhyw dylwyth arall oeddent.

Ar y cwbl, barnaf nad oes digon o sail i benderfynu pwy a ddygodd yr efengyl i'r wlad hon; ond mae y ffaith fod 48,000 o filwyr Rhufeinig yn yr Ynys, ac fod cysylltiad agos rhwng Rhufain a Phrydain, yn profi fod hawsderau i blanu yr efengyl yma yn oes yr Apostolion; ac mae prawf diamsheul yn nhystiolaeth Tertullian, fod Cristionogaeth yn cael ei phregethu yma yn yr ail ganrif, ac mewn manau tu hwnt i gyrhaedd ariau y Rhufeinwyr. Mae hyn yn cyduno â'r hanes a dderbyniwyd yn fwyaf cyffredinol, i freniu o'r enw Iucius,* rhwng y blynyddau 169—180, ddanfon i Rufain am genadon, a gofyn am gael ei wneyd yn Gristion; ac i'r Pab Eleutherius anfon Ffagan a Dyfan, at y rhai yr ychwanegir Medwy ac Elfan gan y Cymry, mewn cydsyniad â'r cais. O'r amser hwnw parhâodd yr efengyl i ymdaenu dros y rhanau deheuol o'r Ynys; ond gorfu ar y Cristionogion wynebu erlidigaethau lawer oddiwrth bleidwyr y grefydd genedlaethol, yn gystal ag oddiwrth y Rhufeiniaid-sefydledig yn y wlad. Nid oes enwau ond pedwar o'r merthyron Prydeinig yn awr ar gael, sef Alban ac Amphibalus, Aaron a Julius, y ddau olaf yn Nghaerlleon ar Wysg; ond mae yn bur debyg fod desgrifiad Gildas o erlidigaeth Diocletian, O. C. 305, yn gyfeiriedig at Brydain, yn gystal a'r holl fyd Cristionogol. "Dymchwelwyd yr eglwysi trwy yr holl fyd; llosgwyd yn heolydd y trefydd yr holl ysgrifau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd a ellid gael gafael ynddynt; a galanastwyd offeiriadaid praidd etholedig yr Arglwydd, yn nghyda'u defaid gwirion, fel nad adewid, pe bai ddichonadwy, hyd yn nôd ôl traed y grefydd Gristionogol yn un o'r taleithiau. Hysbysir gan Hanes Eglwysig y fath ffoedigaethau gwarthus a gymerasant le, y fath laddfeydd mewn gwahanol ddulliau a achoswyd fel cosbedigaethau, y fath wrthgiliadau ar un llaw oddiwrth grefydd, a'r fath goronau merthyrol a ennillwyd ar y llaw arall, y fath gynddeiriogrwydd a ddangoswyd gan yr erlidwyr, ac amynedd ar ran y seintiau dyoddefedig. Yr oedd yr holl eglwys yn un dyrfa dew yn ymdrechu i adael y tywyllwch daearol ar ol, gan frysio tuag at deyrnas hyfyd y nef, megys at ei phriod-breswylfa."†

Ar esgyniad Constantius (O. C. 307), a'i fab Cystenyn Fawr, mwynhâodd yr eglwys lonyddwch; dychwelodd y Cristionogion o'u llechleoedd yn y coed a'r creigiau; adeilasant eu heglwysi eilwaith; a chyflawnasant eu gwasanaethau mewn heddwch, ac â chalonau glân. Ond ni bu hir oes i ymraniadau gyfodi yn eu plith eu hunain; cyhoeddodd Pelagius, Cymro fe dybir o'r enw Morgan, ei athrawiaeth ef o Ewyllys Rydd, mewn gwrthwynebiad i athrawiaeth St. Augustine; a pharhâodd yr eglwys am flynyddau lawer i gael ei rhwygo gan heresi yr Ariaid; yr hon, fel y tybir, oedd yn bur dderbiniol gan y genedl Brydeinig (O. C. 394). Yn O. C. 406, gorfu ar y Rhufeiniaid ymdynu allan o'r Ynys gan eu hanghenrheidiau cyfandirol; ac er i leng ddyfod drosodd ddwywaith wedi hyny, nid arosasant nemawr o amser, ac ni wnaethant un ymdrech i adfeddiannu yr Ynys.

* Mae rhai, fel y Parch. T. Price (Hanes Cymru), yn canfod tystiolaeth bendant yn ngeiriau Gildas, i'r efengyl ddyfod i mewn o gylch O. C. 61; ond anhawdd penderfynu ei feddwl ef, gan mor gymysgled yw ei eiriau, pa un a ddaoth gwybodaeth am Grist yma yn oes Tiberius, neu ynte i wybodaeth ddyfod yma am Grist, yr hwn a ymddangosodd yn oes Tiberius. Ar ol ystyriaeth o eiriau Gildas yn y gwreiddiol, ymddengys i mi yn fwy ffafriol i oes Lucius nag i un amseriad arall. Ond y mae School *De Fontibus Hist. Eccles. Brit.* hyd yn nôd yn gwadu bodolaeth Lucius, ar dir led gadarn.

† Gildas, *Historia Britonum*, s. viii. p. 9. Ed. Petric.

Ond wele elynion gwaeth na'r Rhufeiniaid. Y Gwyddelod, sef y Pictiaid a'r Ysgotiaid, ar un llaw, a'r Saeson ar y llall, yn lladd, llosgi, a lladratta dros hŷd a lled yr Ynys. Gwardwyd y Brython ddwywaith gan y lleng-oedd, a phryd arall gan y trigolion eu hunain, dan annogaeth St. Garmon; ond nid oedd modd cadw pobl na fedrent ymladd drostynt eu hunain. Gwrthodwyd cynnorthwy Rhufeinig; ac yna bwriadwyd cyflogi Saeson i wrthladd y Gwyddyl Ffichti; ond unasant â'u gilydd i ddirodi y Prydeiniaid. Yn ystod amser, cyfododd ysbryd rhyfelgar yn eu mynwesau. Dan lywyddiad Emrys Wledig a'r Brenin Arthur, amddiffynasant gyda gwroldeb tra chanmoladwy eu bryniau a'u dyffynoedd, eu gwlad a'u breinniau; ond er eu holl ymdrechion, llwyddodd y Saeson, o bryd i bryd, ac o fan i fan, i sefydlu eu hunain ar y gororau deheuol, dwyreiniol, a gogleddol. Parhâodd y rhyfel, o gyfnod i gyfnod, am agos i ddau can' mlynedd, nes tua chanol y seithfed ganrif yr oedd y Saeson wedi sefydlu saith o fân deyrnasau gwahanol ar lánau y moroedd. Methodd Arthur yn y dehaw, a methodd Cunedda, Urien, a Chadwallon yn y gogledd a'r dwyrain, eu gyru yn ol i'r môr; ac er i'r Cymry yn y chweched ganrif ddangos milwriaeth teilwng o'u tadau, a theilwng o'u hathrawon Rhufeinig, ac er iddynt ymladd ac ennill amryw o frwydrau gwaedlyd, cynnyddodd yr estroniaid mewn rhif, nes iddynt wthio eu hunain rhwng gwahanol gangenau y genedl Brydeinig, gwahanu Cernyw oddiwrth Gymru ar un llaw, a Scotland ar y llaw arall, nes iddynt sefydlu eu hunain mewn meddiant o'r rhanau dwyreiniol, a chyfyngu y Cymry i ddolau a bryniau y Dywysogaeth, O. C. 688. Hyd yma yr oedd breninoedd Cymru yn meddu Unbenaeth ar yr holl ranau gorllewinol, ac yn hōni awdurdod dros yr holl Ynys; ond yn awr cyfyngwyd eu trefynau, ac o hyn allan adnabyddir hwynt fel **TYRWS-OGION CYMRU** yn unig.

Mae dau bortrêad o gyflwr y bobl yn y cyfamser—un gan Gildas yn Lladin, a'r llall gan y beirdd Llywarch, Taliesin, Merddin, ac Aneurin. Maent yn amrywio i raddau pell, er yn cyttuno mewn rhai pethau. Mae Gildas yn darlunio pob peth mewn lliwiau mynachol; ond mae y lleill yn rhydd oddiwrth y rhagfarn hwn, ac yn darlunio pethau fel yr oeddent—pa un ai da ai drwg oedd hyny. "Mae gan Brydain freninoedd," medd Gildas, "ond gormeswyr ydynt; mae ganddi farnwyr, ond rhai anghyfiawn ydynt." Dywed eu bod yn yspeilio y diddrwg, yn godinebu, yn cefnogi lladron a throseddwyr, yn barod i gymeryd llwon, a'r un mor barod i'w tori, yn chwannog i ryfela yn erbyn eu cydwladwyr, yn barnu yn anghyfiawn, yn dirmygu y tlawd, yn dyrchafu y beilch, y llofruddwyr, a gelynion Duw, yn llenwi eu carcharau trwy frâd, yn dibrisio yr allor fel pe buasai grug o geryg llwydion, ac yn fwy chwannog i wrandaw caniadau mawl y beirdd a segurwyr, na moliannau yr Arglwydd gan y cerddorion eglwysig. Rhydd bortrêad llawn mor anffafriol o'r urdd offeiriadol. Desgrifia Merddin hwynt fel

"Myneich geuawg, gwydawg, gwydus;"

Ac yn hyn o beth mae y bardd a'r hanesydd yn cyduno. Mae portrêad y beirdd yn fwy ffafriol; ac er fod y rhan fwyaf yn gyfeiriedig at filwyr a phethau milwrol, ceir amryw awgrymiadau ynghylch cyflwr y bobl yn gyffredinol. Yr oedd gwin, mêdd, a gwirawd yn bethau cyffredin; gwerthid hwy mewn tafarnau; ac yr oedd "talbeing" neu bris sefydlog am

danynt. Yr oedd y bobl, fel yn amser Hywel Dda, yn rhanedig i fonedd-wyr, eillion neu ffermwyr, a chaethweision; ac, fel yn amser y Derwyddon, yr oedd beirdd a cherddorion yn crwydro oddeutu y wlad. Rhai o'r beirdd a lynent wrth yr hen grefydd Dderwyddol; ac yn nechreuad y chweched ganrif yr oeddent hwythau yn rhanedig i Feirdd Derwyddol, a Beirdd Cristionogol. Perthynai Merddin ac Aneurin yn more eu hoes i'r dosbarth blaenaf; ond yn eu hen oedran trôdd Merddin yn Gristion, ac y mae Aneurin yn cydgynnal crêd yn y Drindod â'r arferiad Derwyddol o aberthu mewn coelcerthau ar benau mynyddoedd ar ddyddiau Calan Mai a Chalan Gauaf—tra y geilw ei hun yn "fab coelcerth." Dymchwelwyd yr hen grefydd yn a thrwy frwydr Arderydd yn 577, hyd yn nod yn Scotland, ei noddfa ddiweddfaf; ac o hyny allan llwyddodd Cristionogaeth i ymdaenu ei hunan ymhlith y llwythau Albanaidd, fel yr oedd cyn hyny wedi dyfod yn grefydd sefydledig y parthau deheuol; ond yr oedd rhai pleidwyr i'r hen grefydd ymhlith Novantiaid Galloway, neu Wigtonshire, fel eu gelwir yn awr; ac yno, mae yn debyg, y dygwyd Aneurin i fyny, os nad yno hefyd y diweddodd ei ddyddiau. Yn y cyfnod hwn yr oedd yn byw y prif seintiau Prydeinig, megys Dyfrig, Deiniol, Asaph, Cynog, Catwg, Illtyd, Teilio, Padarn, a Dewi Sant; ac yn wyneb feithiau o'r fath hyn, anhawdd credu fod cyflwr yr offeiriad Cymreig cynddrwg ag y disgrifier ef gan Gildas.

Am agwedd deuluaidd y wlad, am gyflwr y gwreng, nid oes cymaint o brofion ar gael; ond ymddengys fod deddfau cyffelyb i eiddo Hywel, llysoedd barn, a rheithwyr a barnwyr yn eu plith, ac yn derbyn parch dyladwy; ac y mae yn rhaid fod cyflwr yr eillion neu y deiliaid yn bur dda, pan y gallodd deiliaid mynyddog gynnyrchu digon o fêdd, a gwin, a maethfwydau i feddwi y fyddin Brydeinig cyn brwydr anffodus Cattræth (O. C. 603); yr hon wedi hyny, er mwyn cuddio y cywilydd, a dröwyd yn Frâd y Cyllyll Hirion.

Nid ydym yn darllen llawer am wybodaethau y bobl; ac nid ydym yn cael dim gweddillion ar eu hol, cyffelyb i Stonehenge, Avebury, neu Stanton Drew; ond yr oedd seryddion yn eu plith, a sywedyddion, gan y crybwyllir am Idris Gawr, brenin Meirionydd, ymhlith y tri gwyn-seryddion, ac y traethir yn y Gododin fod Cydywal fab Suvno (gwel Moel Suvno yn Sir Drefaldwyn),

"A werthws ei eneid
 I'r wyneb grybwylliaid;"

Hyny yw, ysbyrdion yn gwybod sywedydd, beth bynag oedd gynnwysedig yn hyny. Crybwyllir eu bod yn aredig tir, yn hau llafur, yn medi gwenith, ac yn lladd gwair; ac y mae yn amlwg eu bod yn cefnogi cerddoriaeth, yn coleddu barddoniaeth, ac yn cyfansoddi eu caniadau mewn Cymraeg goeth, ffrydlawn, ffrythlawn, er yn dra annealladwy i'r anhyddydg yn yr oes bresennol.

Mewn perthynas i fonedd y wlad yn eu hagwedd filwrol, mae y crybwylliaid yn lliosog. Yn amser heddwch difyrent eu hunain mewn helwiaethau, gan fod y wlad y pryd hyny yn cynnwys, heblaw y créaduriaid a helir yn awr, eirth a bleiddiaid, iyrchod, hychod gwylltion, a belod. Yn amser rhyfel gwisgent baledau neu glogynau arwymion tebyg i dwygau (*togas*) y Rhufeinwyr, a pheisiau amryliw tebyg i *kilt* yr Albanwyr. Am

eu gyddfau yr oedd tyrch auraid. "Oedd aur fy nghorddorch," meddai Merddin. Yr oedd pedwar meib ar hugain Llywarch Hen bob un yn aurdorchog, fel arwydd o'u bonedd; ac ni a wyddom, oddiwrth Aneurin, fod tri a thriugain a thri chant o eurdorchogion wedi myned i frwydr Cattraeth. Yr oedd ethy neu yspardynan aur yn gyffredin; tarianau aur gan amryw, megys Urien Rheged a Cheredig ab Cunedda; a chafwyd lluryg aur yn meddrod Benlli Gawr, a ystyrir yn werth £60, ac a gedwir yn awr yn y *British Museum*. Defnyddient yr un peiriannau â'u hathrawon Rhufeinig; ac y mae yn beth pur deilwng o gofnodiad eu bod hwy yn arfer cadwiledd (*strategy*) y rhyfelwyr hyny yn arddulliad eu byddin-oedd. Crybwyllir yn fynych am "aer gynggrwn," sef *acies sinuata* eu meistri cyntefig; rhestrant eu byddinoedd *more Romanorum*, fel y dywed *Henry of Huntingdon*; ennillasant amryw frwydrau trwy ofalu am hyny; ac y mae y Gododin yn cofnodi un Merin ab Madyen fel "mur cadwiledd," fel gŵr hyddysg yn y gelfyddyd filwrol. Wrth gadw golwg ar y pethau hyn, bydd y casgliad yn naturiol fod Cymry y chweched ganrif ymhell iawn o fod yn bobl farbaraid.

Yn y cyfnod rhwng y chweched a'r ddeuddegfed ganrif, nid oes ond dau beth yn galw am sylw neillduol, sef yr ystyriaeth beth a ddaeth o'r Brython yn y goresgyniad Seisonig, a nodweddion y wlad, fel y maent yn awgrymedig yn nghyfreithiau Howel Dda.

I. Mae wedi peri gryn betruder i haneswyr Lloegr benderfynu pa beth a ddaeth o drigolion y parthau dwyreiniol. Nid oedd eu goresgynwyr Seisonig ond ychydig rif o mewn cyfartalrwydd i drigolion ynys mor boblogaidd ag oedd hon; a phe buasai y Brython a'r Lloegrwys yn meddu cymaint o egni, yr oeddent yn ddigon o rif i'w llarpio aelod oddiwrth aelod. Peth arall hefyd, nid oedd y goresgynwyr yn awyddus i ddyfetha y bobl, ond i feddiannu y tir. Beth, gan hyny, a ddaeth o honynt? A laddwyd hwynt oll gan y Saeson? A yrwyd hwynt oll allan o'u tai a'u tiroedd? neu a sfurfiwyd cyttundeb rhyngddynt a'r trigolion i gadw eu tiroedd, ond arddel uchafiaeth eu goresgynwyr, a thalu *rhent* iddynt hwy, fel y gwnaethent cyn hyny i'w tywysogion eu hunain? Mae hanes y Cymry yn cynnyg hawsderau i benderfynu y gofyniad; ac nid oes genyf un amheuaeth na ddarfu i'r mwyrif o'r bobl aros yn eu hanneddleoedd cyntefig, ymostwng i'r estroniaid, a'u cynnorthwyo wedi hyny i eangu eu tiriogaethau. Aeth goreuon y wlad ymaith; ffôasant i Gymru ac i Lydaw; ond dywedir yn y Trioedd i'r Lloegrwys "droi yn Saeson." Mae yn wybyddus fod y cynnyg yn cael ei roddi i'r Brython, naill ai i ymadael â'u tiroedd neu ymostwng i'r goresgynwyr; ac y mae y "Wealas," fel eu gelwir, yn cael eu henwi yn nghyfreithiau Ina ac Alfred, ac yn meddu agos yr un breintiau a'r deiliad Seisonig; ac y mae enwau Brythonaeg yn ymddangos megys ardstystion i weithredoedd rhwng y breninoedd Seisonig ac eraill. Y ffaith olaf a gofnodir yn y cysylltiad hwn a ddygwyddodd O. C. 838, pan y crybwyllir, "Ac yn oes Merfyn y gorfu ar y Brytoniaid ag oedd yn Lloegr yn byw, ymroddi yn Saeson, neu adael eu gwlad a'u cartrefleoedd ymhenn tri mis;" ac ychydig yn ddiweddarach, sef yn 843, dywedir i'r Cymry "orfod ymddifadu â'r Brytoniaid ag oeddnynt yn byw yn Lloegr, a myned yn un â'r Saeson a wnaethant hwy."* Rhaid, gan hyny, fod llawer

* Brut y Tywysogion, *Myv. Arch.*, II., tu dal. 478.

iawn o waed Brytanaidd yn nhrigolion Lloegr. Mae William F. Edwards wedi profi fod dylanwad y Gymraeg yn weledig yn Ngrammadeg yr iaith Saesonaeg; * ac y mae yn flaith adnabyddus i *Ethnologists* mai Prydeiniaid mewn gwaedoliaeth, ac nid Saeson, yw y mwyrif o bobl Lloegr.

II. Rhaid edrych am nodweddion cyfreithiol y genedl at ddeddfau Hywel Dda. Cyfieithwyd hwynt i'r iaith Ladinaeg, er budd i ddsygedigion Ewrop, yn y ganrif ddiweddar, gan Dr. Wotton, dan yr enw *Leges Wallicæ*; ac o fewn i'r blynyddau diweddar cyfieithwyd hwynt i'r Saesoneg, dan nawdd y Llywodraeth, gan y diweddar Mr. Aneurin Owen, ac y maent yn awr yn gyhoeddedig dan yr enw, "*The Laws and Institutes of Wales.*" Mae llawer o'r nodweddion a enwyd mewn cysylltiad â Dyfswal Moelmut, i'w priodoli i gyfreithiau Hywel, pa rai hefyd, gan eu bod yn cynnwys darnau o gyfreithiau Rhun fab Maelgwn, a Chadwallon fab Cadvan, ynghyd âg ychwanegiadau Bleddyn ab Cynfyn, a d dangosant gyflwr y wlad, nid yn unig yn oes y deddfroddwr hwnw, ond hefyd yn y canrifau blaenorol a chanlynol.

Yr oedd y wlad yn rhanedig i Gantrefydd, Cymydau, Caerau, Trefydd, a Bodau. Y *Bod* oedd annedd yr Arlwydd, ac yr oedd o ddau fath—yr Hafod, sef ei annedd yn yr haf, a phan elai i hela, neu rywbeth cyffelyb; a'r Gauafod; ac yr oedd y rhan fwyaf yn adeiliedig o goed, ac weithiau o wiail. Y *Dref* oedd gasgliad o drigfanau ei ddeiliaid; ac yr oedd y dref hefyd o ddau fath, sef *taeog dref*, perthynol i ddeiliaid rhyddion, a *bilein dref*, perthynol i gaethweision; a gelwid y dref yn *Gaer* pan oedd yn amgauedig â muriau, fel yr oedd llawer o'r rhai sylfaenedig ar safleoedd Rhufeinig. Yr oedd cant o'r trefydd, fel y dengys yr enw, yn cyfansoddi *Cantref*; ac yr oedd y cantref yn rhanedig i ddau neu ragor o *Gymydau*.

Yr oedd cyflwr trigolion y Deheubarth yn amgenach nag eiddo y Gwynddy, neu drigolion Gwynedd, ac yn neillduol cyflwr y caethion, gan fod caethiwed y Deheubarth yn ammodol, ac yn caniatâu i'r *bileiniaid* ennill eu rhyddid, a chaethiwed Gwynedd yn dragwyddol, fel yr aeth yn ddannodiaeth,

"Gwell caethion Dyfed nag eillion Deudraeth."

Hanfodai y gwahaniaeth hwn cyn amser Hywel, yr hwn a'i gadawodd fel yr oedd; ac y mae yn bur debyg ei fod wedi tarddu oddiar amser gorgesgyniad Gwynedd oddiar y Gwyddelod, gan deulu Cunedda Wledig, yn y chweched ganrif.

Yn ol y gyfraith, yr oedd Tywysogion Gymru yn meddiannu y wlad oll ac yn arglwyddi yr holl ddeiliaid a'r caethion; a thelid ardreth ac amrywiol drethau iddynt hwy am y tir, gan y bobl oll; ond yr oedd y deiliaid rhyddion yn addas i gyflawni swyddau, ac yn meddu pleidleisiau yn y llysoedd cyfreithiol, hyny yw, yn Neheubarth, ond nid yn Ngwynedd, am yr hyn y gelwid hwynt yn *uchelwyr*. Yr oedd ganddynt hwy hawl gyfreithiol i'w tiroedd; ond galleid symud y caethddeiliaid o un lle i'r llall, eu gwerthu gyda'r tiroedd, a'u cosbi a'u gyru yn ol os aent allant o'r diriogaeth. Rhoddai celfyddydau, yn enwedig tair celfyddyd freiniol—y gôf, y llênor, a'r bardd, ryddid i'w perchenogion; ond nid ellid eu harfer heb genad yr Arlwydd; ac nid oedd y fraint yn disgyn i seibion y celfydd-

* *Recherches sur la Langues Celtiques*, pp. 11, 13, 81.

ydwyr. Telid yr ardreth mewn arian neu anifeiliaid, yn chwarterol neu yn hanner-blynnyddol. Yr oedd hefyd *Gwyr Maol*, sef gosgordd y tywysogion; *Gwyr tir y porth*, i ofalu am lafur at gynnalieath y brenin; *Gwyr gwaith*, i gludo coed a cheryg, ac i weithio i'r brenin ar eu traul eu hunain; ac yr oedd pawb dan rwyman *gwaith milwyr* pan fyddai galwad arnynt fyned i faes y gwaed. Yr oedd hefyd wahanol *gylchau* rhwymedig i gynnal swyddogion y brenin; megys *Cylch Stalon*, at gynnalieath meirch a gwasanaethddynion y brenin; *Cylch Rhaglon*, at gynnalieath y Rhaglaw; *Cylch Hebogyddion*, *Cylch Greorion*, neu fugeiliaid; *Cylch Dwr-gwn*, at gynnalieath yr helwyr a'u cŵn hela. Ac yr oedd mân drethau eraill.

Ond y peth a ddengys yn egluraf wareiddiad y wlad oedd prawf rheithwyr, neu *Trial by Jury*, yr hwn yn nghyfraith Hywel oedd yn berffeithiach nag y daeth yn nghyfraith Lloegr am oesoedd lawer wedi hyny. Egwyddor prawf rheithwyr, yw eu bod hwy yn ddynion amhleidgar, yn *gwrandaw tystiolaeth* eraill, heb un cysylltiad â swyddogion y llŷs, ac yn *unig farnwyr y ffeithiau* yn yr achos.*

Yn ddiweddar iawn y daeth rheithwyr Lloegr i gyflawni y dyledswyddau hyn. Ar y cyntaf, deuddeg o dystion oedd y rheithwyr Seisonig, yn cyd-dystio ar lŵ yr hyn a wyddent o honynt eu hunain. *Tystion* oeddent, gan hyny, ac nid *barnwyr*; nid oedd yn anghenrheidiol iddynt dderbyn tystiolaeth allanol. Penderfynwyd yn amser Harri VI., eu bod yn rhwym o ddwyn eu *verdict* i mewn, er heb wrandaw un tyst; mor ddiweddared ag amser Charles II., penderfynwyd yr un peth; ac hyd yn nôd yn y flwyddyn 1820, yr oedd yn anghenrheidiol i'r rheithwyr gael eu galw o'r gymydogeath lle y cyflawnwyd y trosedd, neu y cyfodai yr achos mewn dadleuaeth. Ond yn nghyfraith Hywel, yr oedd y sefydliad yn ei pherffeithrwydd presennol; ac yr oedd y rheithwyr yn farnwyr ac nid yn dystion. Yn y Deheubarth, yr oedd y deiliaid rhyddion oll yn addas i fod yn rheithwyr; ond un beirniad swyddog a weinyddai yn Ngwynedd. Yr oedd llŷs ymhob cwmwd ar amserau penodedig; a dengys y cynllun hwn y dull o eistedd mewn Llŷs Breiniol:—

REITHWYR.	HYNAIN.	Y BRENIN.	HYNAIN.	RHEITHWYR.
OFFEIRIAD.	YNAD Y CWMWD.	YNAD Y LLŷS.	OFFEIRIAD.	
CANLLAW.	AMDDIFFYNWR.	CYNGHAWE.	CYNGHAWE.	HAWLIWR.
		RHINGYLL.	RHINGYLL.	CANLLAW.

Mewn Llŷs Cwmwd eisteddid yn yr un modd, ond fod yr Arlwydd yn lle y Brenin. Yn eu dadleuon cyfreithiol mewn brawdlysoedd, nis gadawent allan neb rhyw ranau o areithyddiaeth, gan graffu ac awgrymiaethu, gosod a neillduo, gwrthbrofi a chardarnhâu—yn ol tystiolaeth un oedd yn gynddrychiol; a chan hyny, nid oedd nemawr o bethau yn ddiffygiol yn llysoedd Cymru, hyd yn nôd yn y ddegfed ganrif, ac yn yr oesoedd tywyll. Cofadail Hywel yw ei gyfraith; ac y mae yn brawf boddhäol o

* "The distinctive characteristic of the system, is, that the Jury consists of a sworn body of men.

"That they are not a distinct class.

"That they are not judges, and form no part of the Judicial Court.

"That their duty is to find the truth of disputed facts, decide upon the effect of evidence, and inform the Court truly upon the question at issue."

Forsyth's History of Trial by Jury, page 9.

ddedwyddwch ei deyrnasiad, fod cân lleied o bethau eraill yn cael eu cof-nodi yn ei gylech.

Gwelodd y Cymry amser terfysglyd rhwng marwolaeth Hywel ac esgyniad Gruffydd ab Cynan, rhwng O. C. 940 a 1080; a dyoddefasant lawer o drueni oddiwrth ymosodiadau y Llu Du—sef y Daniaid, ac oddiwrth ryfeloedd cartrefol rhwng eu tywysogion eu hunain; ond nid oes dim yn galw am sylw yn y cysylltiad presennol.

Mae y cyfnod Normanaidd yn fwy firwythlawn. Hwn oedd yr amser mwyaf peryglus yn hanes y Dywysogaeth; a hwn hefyd oedd y cyfnod mwyaf anrhydeddus yn eu hanes filwrol a llênnyddol. Llywyddwyd y Cymry gan rês o dywysogion galluog ac egnïol; amddiffynwyd eu rhyddid gyda gwroldeb teilwng o'r cyfnod godidocaf yn hanes y Groegiaid—sef amser ymosodiad y Persiaid dan Xerxes; ac ennillodd Owen Gwynedd, yr Arglwydd Rhys, a'r ddau Lywelyn, barch ac enwogrydd a ddeil tra fo Cymro a Chymraeg ar wyneb y ddaear.

Yn y cyfamer parhâodd cyfreithiau Hywel yn eu grym, a chan hyny nid oes un galwad arnom draethu ychwaneg am danynt; ond bydd yn fuddiol i ni sylwi ychydig ar nodweddion cymdeithasol y cyfnod dan ystyriaeth. Mae disgrifiad helaeth o nodweddion y bobl wedi ei ysgrifenu, yn O. C. 1188, gan *Giraldus Cambrensis*; ac os bydd achos cyhoeddi y traethawd hwn, dylai ei draethiad ef ymddangos yn ei gyflawnder; ond ar hyn o bryd, ymfoddlonaf fy hun âg ychydig o ddyfyniadau. Yn y cyfnod terfysglyd hwn, ymarferai y Cymry eu hunain at ryfel;—yr oeddent yn hynod am eu hyfdra, eu gwisgirwydd, a'u dewrder; ac ystyrient ef yn warth i farw yn eu gwelyau, ac yn anrhydedd i farw ar faes y gwaed. Torrent eu gwallt yn fyr, fenywod a gwrywod; gofalent gadw eu dannedd yn lân tu hwnt i neb rhyw genedl arall, gan ei ystyried yn un o brif anffodion henaint fod

“O salwedd son
Y dannedd yn felynion;”

ac eillient eu barfau oll oddieithr y wefus uchaf, yn ol yr hen arferiad yn amser Julius Cæsar. Yr oeddent yn bobl awchlwm a chraff eu cynneddfau; coleddent gyfalawiad yn eu peroriaeth—gan ragflaenu Guido yn narganfyddiad *counter point*, arferent dri o beiriannau cerddorol, y delyn, pibau, a'r crwth; a defnyddient fath o gynghanedd yn eu barddoniaeth, tra yr oedd y cyfnod yn cael ei anrhydeddu gan amryw o'r beirdd enwocaf yn llênnyddiaeth y genedl. Llefarent yn hyf ac yn êon; coleddent areithyddiaeth; ac yr oedd eu hymddyddanion cyffredin yn fywiog ac yn llawn digrifwch. Hoffent uchel fonedd ac achau hirion; ac er fod y mwyrif o honynt yn byw mewn tai gwiall, fel unigolion yn y coedydd, yr oedd pob un o'r werin yn cadw achau ei dylwyth; tra yr oedd y genedl yn gyffredin yn medru adrodd ar gof, gyda pharodrwydd, nid yn unig enwau eu teidiau a'u hendeidiau, ond hefyd hyd y chweched a'r seithfed genedlaeth, ac yn uwch na hyny. Cofnodwn

“EU LLETTYGARWCH A'U HAELIONI,”

fel y traethir am danynt gan Giraldus ei hun:—

“Nid oes un cardotyn ymhlith y bobl hyn, canys y mae llettygarwch pawb yn gyffredin i bawb, ac y maent yn gosod haelioni a llettygarwch o flaen pob rhinwedd.

Ac y mae y llettygarwch hwn mor adnabyddus a chyffredin, ag na chynnygir ef i deithiwr, ac ni oheisir ganddynt ychwaith; ond yn unig ar fyned i ryw dŷ, rhoddant eu harfau i gadw, ac yna cynnygir iddynt ddwfr; ac os caniatânt olchi eu traed, derbynir hwy megys gwesteuon; o herwydd ymlith y bobl hyn, mae dwfr i olchi y traed yn gynnygiad o lettygarwch. Ond os gwrthodant y cynnygiad hwn, mae yn arwydd eu bod yn dymuno eu lluniaeth boreuol yn unig, ac nid llettyad y nos. Ac y mae gwŷr ieusainc y genedl hon yn tramwyaw o amgylch yn finteioedd, ac yn deuluoedd, dan dywysiad blaenor, yn hollol roddedig i arfau, yn ddilafur, ac yn eithaf parod at amddiffyniad eu gwlad; ac felly, mae iddynt drwydded diogel i bob tŷ, megys eu heiddo eu hunain.

“Y rhai, gan hyny, a ddeuant yn y boreuddydd, a ddfyfir hyd yr hwyr trwy ymddyddanion y morwynion ieusainc, a sain telynuau, gan fod ymhob tŷ forwynion a thelynuau cyflwynedig at hyn; ac y mae dau beth yn nodedig yma—sef na cheir un genedl yn fwy darostyngedig i ddrwgnywd eiddgedd, na'r un Wyddelaeg, a neb un liai felly na'r un Gymraeg; ac ymhob teulu hoffir medrusrwydd mewn chwaraeud ar delyn uwchlaw pob celfyddyd.

“Ac yn yr hwyr, pan fyddo y dyfodiaid wedi darhod ymgynnull, mae y pryd bwyd yn cael ei osod, yn ol rhifedi a chyflwr y gwŷr, ac hefyd yn ol galluogrwydd y tŷ; lle ni lwythir y gegin ag amledd o ddysglau a moethusdra, a'r tŷ ni harddir â byrddau, na lleiniau, na llawlenau; y maent yn coleddu anian, yn hytrach na gwych ymddangosiad; ac felly gosodant ar ddysglau llydain a helaeth y cyfan o'r bwydydd ar unwaith o flaen y gwesteuon—nid bob yn ddau, fel mewn manau eraill, eithar bob yn dri, er parch i'r Drindod, ar restogau o laswellt glân, a bara llydan a theneu, yr hwn a grasir bob dydd, o'r fath a elwir *bara llechfaen*. Ac weithiau ychwanegant gawl at hyny.

“Tra fyddo y tylwyth yn gweini ar y gwesteuon, mae gwŷr a gwraig y tŷ o hyd yn sefyll ar eu traed, ac yn edrych yn ofalus at bob peth; ac nid ydynt fyth yn cymeryd dim eu hunain, hyd nes byddo pawb o'r gwesteuon wedi eu diwallu, fel os ysgatfydd fod rhy fach o luniaeth, y syrthia y gwall idd eu cyfran eu hunain.

“Yn y diwedd, pan ddolo amser cysgu, y mae gwely cyffredin yn cael ei osod ar hyd ochr y tŷ o ben hwy gilydd, ac yn ffurfiedig yn unig o frwyn taenedig, ar yr hyn y gosodir brethyn garw a chaled, o wneuthuriad y wlad, yr hwn a elwir, yn yr iaith gyffredin, *Brychan*, ac yno gorweddant oll i gysgu. Ac nid oes ganddynt ddillad y nos, arall nag yn y dydd, canys gwrthladdant oerfel bob amser â mantell deneu ac *ts-wysg* yn unig.”*

Diwedda Giraldus ei draethiad gan ddesgrifio y Cymry fel “Cenedl ddedwydd a hylwydd, cenedl yn wir wynfydedig ymhob amgylchiad, pe byddai iddynt Esgobion ac Offeiriaid da, a phe llywid hwy gan un Tywysog, a hwnw yn un da.” Mae yn anhawdd i ninnau beidio eilio sylwedd y golygiad hwn; ond bydd yn fwy derbynol i ni ddyfynu dyweddiad amhleidgar y diweddar M. Augustine Thierry, hanesydd Ffrengig y Goresgyniad Normanaidd—

“The Welsh nation was, perhaps, in that age, of all others in Europe, that which least merited the designation of barbarous.”

Hyny yw, y genedl Gymreig, oedd, fe allai, yn yr oes hono, o holl genedloedd Ewrop, yr un a deilyngai leiaf yr enw barbaraidd.†

Yn amseroedd Llywelyn ab Iorwerth, Dafydd ab Llywelyn, a Llywelyn ab Gruffydd, yr oedd arferion estronol yn cael eu dwyn i mewn. Llwyddodd y Saeson i sefydlu eu hunain yn Nhegeingl, a rhanau eraill o'r Dywysogaeth; mabwysiadwyd rhai o arferion cyfreithiol y Normaniaid; ac yn y dull yma parotowyd y ffordd i dderbyn, ar gwmp Llywelyn ab Gruffydd,

* Mae y traethawd gwreiddiol yn Lladin; ond rhoddir cyfieithiad Saesoneg o hono gan Syr Richard Hoare, a Chymraeg gan y Parch. T. Price, geiriau yr hwn (*Hanes Cymru*, tu dal. 630) a ddefnyddir uchod.

† *History of the Norman Conquest*. Whittaker's Ed., page 155.

y gyfraith a elwid y "*Statutum Wallie*," neu Ystatut Rhuddlan, yr hon a gyhoeddwyd gan Edward I., ac a ffurfiodd reol gyfreithiol y Dywysogaeth hyd amser uniaid Cymry a Lloegr dan Harri VIII.

Disfanodd annibyniaeth y Cymry yn 1282; ond o hyny allan mwynhâ-oedd y Dywysogaeth heddwch a llongyddwch am ddau can' mlynedd. Yr oedd, mae yn wir, eithriadau; megys gwrthryfeloedd Rhys ab Meredydd, Syr Gruffydd Llwyd, ac Owain Glyndwr; ond hyd amser Rhyfeloedd y Rhosynau, nid oedd un terfyag hir-barháus. Y boneddwyr a feddiannent eu tiroedd mewn diogelwch; cafodd y deiliaid hamdden i drin eu tiroedd; ac er fod "Eisteddfodau" yn cael eu gwahardd, yr oedd y Beirdd yn coethi eu llinellau, a'r awen yn cynnyrchu caniadau serch, a chwedlau hanesyddol (*romances*), gyda chymaint o barodrydd ag yr oedd gynt yn cynnyrchu annogaethau rhyfelgar. Nid oes nemawr o grybwylliadau uniongyrchol am gyflwr y wreng Gymreig yn y cyfamser; ond tybygaf fod eu cyflwr yn gwellhâu, mewn cydweddïad ág anian yr oes, er na ddiddymwyd caethwasanaeth hyd yr unfed ganrif a'r bymtheg, fel yr ymddengys oddiwrth weithred yn amser Harri VI., yr hon mewn gwisg Seisonig sydd fel y canlyn:—

"I, Ednyfed Fychan ab Ednyfed, do hereby give, grant, and confirm my free tenements of Rhandir Gadog, &c., and my free tenements of Porthamel, &c., and my seven natives,—viz. Howel ab Dafydd Dew, Matthew ab Dafydd Dew, Evan ab Evan Ddu, Llewelyn ab Dafydd Dew, Howel ab Matto ab Dafydd, Dafydd ab Matto ab Dafydd Dew, a Llewelyn ab Efan Goch, with all their progeny, born, and to be born, and with all their goods, chattels, &c., to William ab Gryffydd ab Gwilym, Esq., to have and to hold the said free tenements, &c., and the said natives, &c., to the said William ab Gryffydd ab Gwilym, his heirs, and assigns, forever.

"Given at Rhandir Gadog, on the 20th day of June, in the Twenty-seventh year of Henry the Sixth."*

Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1429; ac y mae amryw enghreifftiau o'r un fath wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar, allan o hen ysgrifau Sir Fôn, yn yr *Archæologia Cambrensis*. Ni wyddys yn iawn pa bryd y diddymwyd caethwasanaeth yn yr ynys hon; ond gwnaethpwyd hyny trwy offerynioliaeth yr Eglwys Babaid; ac y mae cymaint a hyny o ddyllanwad Cristionogol i'w briodoli i'r Pabyddion. Cyhoeddwyd *Bull* gan un Pab yn erbyn y caethiwed hwn; ac mae yr un *Bull* yn cael ei ddefnyddio yn awr gan Babyddion America, mewn gwrthwynebiad i gaethfasnach y wlad hono. Mae cyfeiriadau yn hanes Teulu Gwydyr "at gaethweision" yn oes dyn a fu farw yn 1526, a dywedir am dano—hyny yw, Meredydd ab Ieuan ab Rhobert—fod ganddo ef a'i ddeiliaid gefylau a chaethion hela (*chasing slaves*), y rhai a ddefnyddid i ddal nythaid o ladron, llofruddwyr, a *chaethion* oedd yn nant Conwy.†

Mae desgrifiadau y beirdd, y rhan fwyaf, yn dwyn perthynas â bonedd y wlad; ac y mae yr olygfa ar arferion ac annedlleoedd y rhai hyny yn llawer mwy cysurus. Dywed Dafydd ab Gwilym am Lys Ifor Hael,—

"Mawr anrhydedd a'm deddys,
Mi a gaf, o byddaf byw,
Hel â chwn nid haelach Iôr,
Ac yfed gydag Ifor;

* Jones's *History of Wales*, page 117.

† Hanes Teulu Gwydyr, tu dal., 88, 97.

Saethu ei geirw saethynt,
 A bwrw ei weilch i'r wybr wynt:
 A cherddau cildannau 'n deg,
 A Solos ym Maesaleg.
 Chwareu ffristial a thawlbwrdd
 Yr un gylwr a'r gŵr gwrdd."*

Rhydd Iolo Goch ddesgrifiad cyffelyb o Sycharth, Llys Owain Glyndwr. Darlunir Maesaleg fel yr oedd tua 1350, O. C., neu yn nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg; ac yn nghywydd Iolo, cawn enghraifft ragorol i ddangos cyflwr y wlad, ac agwedd palas a chymydogoeth boneddw'r Cymreig, oddeutu O. C. 1400. Mae y desgrifiad yn burfaith, ond cymaint yw ei fanylrwydd, ei gywreinrwydd, a'i ffyddlondeb, fel y barnaf yn well roddi agos y cwbl o'r cywydd, nag i mi ymgynnyg ailadrodd y feithiau mewn geiriau eraill. Mae fel y canlyn,—

'Llys Barwn, lle syberwyd,
 Lle daw Beirdd, am le da byd,
 Gwawr Bowys fawr, beus faig,
 Gofyniad, gwiw a fynaig;
 Llyna modd, y llun y mae,
 Mewn eurgylch, dŵr mewn Argae;
 Pand da 'r Llys, pont ar y llyn,
 Ag unporth, lle 'r ai ganpyn.
 Cypplau sydd, bob cwplws ynt,
 Cwppledig bob cwpl ydynt,
 Clochdy Padrig, ffrengig, ffirwyth,
 Cloystr Wesinestr, cloau ystwyth
 Cenghlynrhwyn, bob congl unrhyw,
 Cafell o Aur cyfa oll yw;
 Cenglynion yn y fron frŷ,
 Dordor megys daerdŷ;
 A phob un, fal llun llynglwm,
 Sydd yn eu gilydd, yn glwm.
 Tai Napl, ar folt deunawplas,
 Ty pren glan, mewn top bryn glas.
 Ar bedwar piler eres,
 Ei Lys ef, i nef, yn nés.
 Ar ben pob piler pren praff,
 Llofft, ar dalgrofft adeilgraff;
 A'r pedair llofft o hoffder,
 Ynghyd gwplws, clau cwsg cler;
 Aeth y pedair, dysglairlofft,
 Nyth lwyth, teg iawn yn wyth lofft;
 Tô teils, ar bob tŷ talwg
 Simneiai, lle magai, mwg.
 Naw neuadd, coftadd, cyftun,
 A naw wardrob, ar bob un;
 Siopau glân glwys, gynwys gain,
 Siop landeg fal Siop Lundain,
 Croes Eglwys, gylchlwys, galchliw,
 Cappelau a gwydrau gwiw;
 Pob tŷ 'n llawn, pob tŷ 'n y llys,
 Perllan, gwiallan gaer wenllys,
 Gar llaw 'r Llys, gorlliwio 'r llall,
 Y pawr Ceirw, mewn Parc arall;
 Parc cwning, moestr por comedl,
 Brydr, a Meirch hydr, mawr chwedl,

* Works of D. ab Gwilym, page 1.

Dolydd glân gwyran, a gwair,
 Ydau mewn canau cywair;
 Melin deg, ar ddiffreg ddwr,
 A'i glommendy, gloyw maendwr,
 Pysgedlyn, cuddiglyn cau,
 A fo rhaid, i fwrw rhwydau.
 Amlaf, lle nid yr ymlw,
 Penhwyaid, a gwyniaid, gwiw;
 A'i dri bwrdd a'i adar byw,
 Peunod,* cryhyrod, hoywryw;
 A gaith, i bob gwaith fo gwiw,
 Cyfreidiau, cyfair ydyw,
 Dwyn blaenffrwyth owrw Amwythig,
 Gwiredydd, bragodydd brig;
 Pob llynn, bara gwyn a gwin,
 A'i gog,† a'i dân i'w gegin.
 Pebyll y Beirdd, pawb lle bo,
 Pe beunydd, caiff pawb yno;
 A gwraig orau o'r gwragedd,
 Gwynn y myd, o'i gwin a'i médd.
 Merch eglur, llin Marchawglyw,
 Urddol, hael, o rsiol ryw,
 A'i blant, a ddeuant bob ddau,
 Nythed teg o bennaethau!
 Anodd yn fynych yno,
 Weled, na chlicced, na chlo;]
 Na phorthoriaeth, ni wnaeth neb,
 Ni bydd eisiau budd oseb;
 Na gwall, na newyn, na gwarth,
 Na syched, fyth yn Sycharth!
 Gorau Cymro, tro traglew,
 Piau'r llyn, power y Llew;
 Gŵr meingryf, gorau mangre,
 A phiau'r Llys, hoff yw'r lle."‡

Ceir desgrifiadau eraill, hanner can' mlynedd yn ddiweddarach, gan Guto'r Glyn, Lewis Glyn Cothi, ac eraill, oddiwrth ba rai y mae yn amlwg fod boneddwy'r Cymru mewn meddiant i raddau pell iawn o bob cyfleusderau ac arnodion gwareiddiol a feddid yn Lloegr gan eu cydoesolion. Ac y mae ymhellach yn gysur i ni wybod fod y Cymry, yn ystod y hymthegfed ganrif, trwy gymeryd rhan yn rhyfeloedd Lloegr, wedi ennill parch ac anrhydedd trwy eu gwroldeb a'u ffyddlondeb, ac hefyd fod y pendeigion Cymreig wedi ailennill eu sefyllfaoedd awdurdodol yn y wlad, wedi adfeddiannu eu tiroedd oddiwrth estroniaid, fel y dywed Carnhuanawc|| fod y wlad o ran ei rheolaeth tufewnol wedi dychwelyd i feddiant ei phriodberchenogion.

Achosodd rhyfel Owain Glyndwr lawer o anrhaith yn y wlad, a llawer o ddyoddefaint ymysg y bobl. Llosgwyd amryw o drefydd; a blynyddau ar ol hyny gwelid iyrchod gwylltion yn pori yn eu heolydd. Cyhoeddwyd deddfau celyd yn eu herbyn; gwaherddid Cymro i ddalau a swydd urddasol, nac i feddiannu castell, na dwyn arfau i dref, na phriodi Saeson; ac y mae yn bur debyg mai i gyfreithiau geirwon Harri IV., a'i fab Harri V., y dylid priodoli cynnyrchiad *Coelbren y Beirdd*. Hônir hynafiaeth

* Paunod (*Peacocks*).

† Cook.

‡ Gorocheston Beirdd Cymru, tu dal. 76—9.

|| Hanes Cymru, tu dal. 775.

anfeidrol iddynt gan rai o'r beirdd; ond nid oes un cyfeiriad at yr egwyddor hon yn ngweithiau yr hen feirdd; nid yw un o'r dyfyniadau barddonol yn nhraethawd Ab Iolo, yn cyfeirio at y goelbren, ond y rhai perthynol i'r ganrif dan sylw; ac os sylwir yn fanwl, gwelir nad yw Coelbren y Beirdd ddim yn y byd ond yr egwyddor *Italaidd* wedi ei thori yn onglog fel yr oedd yn naturiol ac yn anghenrheidiol wrth naddu coed ir. Gan hyny, tybiaf fod y crybwylliad canlynol yn cynnwys y gwir, ac fe allai yr holl wir, o'i phlegid. Ar ol traethu mai deg oedd rhif y llythyrenau cyntefig, i Beli Mawr eu cynnyddu i un ar bymtheg, iddynt fyned yn ddeunaw yn y cyfnod Cristionogol, ac i geraint Fardd Glas eu cynnyddu i bedair ar hugain, traetha ysgrif yn y Iolo MSS. fel y canlyn:—

“Ac ar hyny buant yr hir oesoedd hyd yn amser Brenin Harri Bummed, ac *efe a waharddes ysgolion i'r Cymry, a Ugyfrau, a defnydd Ugyfrau*, ac o achos hyny gorfu ar y Cymry gydymgymeryd â Choelbren y Beirdd, a thori a duo llythyrenau ar wiail a gwydd, a chymeryd beirdd i'w tai gan bob perohen tŷ a theulu a fynai wybodau llythyr a darllain. Ac o hyny trefnwyd cymhorth tir ac ar a buarth i'r beirdd, ac aeth beirdd yn niferog yn Nghymru, ac yn fwy gwybod llythyr nag y bu cyn y gwarhadd. Am hyny canodd Llawdden Fardd,—

'Ar gam gochel, gwel, a gwylia—dy ergyd,
Pob argoll a'i redfa;
A dammeg y byd yma,
Nid drwg a ddwg a fo 'n dda.'

Sef, lle nas caid ysgol namyn ond Saesoneg, nac athraw ond Sais, dysgai 'r Cymry eu hiaith a'u gwybodau yn fwy nag erioed, ac a wnaethant wellhâd ac amhâd ar rif llythyr ac ystorryn, oni ddaeth pen y rhif y sydd arnynt yn awr.”* Hyny yw, 38.

Mae y ffeithiau hyn yn gydweddol â hanes y fasnach bapyrrol. Nid oedd un felin bapyr yn Nghymru na Lloegr yn yr oes hono. Cludid yr hyn oll o bapyr a ddefnyddid, o Ffrainc, Venice, a Holland; a chan hyny yr oedd yn hawdd ddigon ei gau allan o'r wlad.

I agos yr un cyfnod y rhaid priodoli “Cyfreithiau Dyfnwal Moelmud.” Mae digon o brofion mewnlol mai cyfansoddiadau diweddar ydynt; ac y mae un prawf union-gysylltiol â'r amser dan sylw. Yn nghyfraith Hywel ni chynnwysai “rhaith gwlad” ond deg a deugain o bersonau; ond yn nghyfraith Dyfnwal mae yn cynnwys trichannyn. Yr oedd un raith neillduol o'r fath yn nghyfraith Hywel; a diddymwyd “rhaith trichannyn” gan Harri V., ar ol rhyfel Glyndwr; ac mae lle i greu i *Statut Rhuddlan* adael i'r rhan hon o'r hen gyfraith sefyll. Mae y ffaith gan hyny yn anffafriol i hynafiaeth “Cyfreithiau Dyfnwal”—hyny yw, y Trioedd a elwir felly—gan fod y rhaith hon mewn arferiad yn y bymthegfed ganrif.†

Rhyfeloedd y Rhosynau, rhwng teuluoedd York a Lancaster, oedd y dygwyddiadau pwysicaf yn nghanol y bymthegfed ganrif; a bu iddynt ddylanwad helaeth ar gyflwr y genedl Gymreig. Yr oedd pleidwyr i'r ddwy ochr ymhlith ein cydwladwyr; rhwygwyd y wlad gan eu cywrysedd hwyt; ac achoswyd llawer o elyniaeth, anrhaith, a thrueni yn eu herwydd. Ymladdwyd llawer o frwydrau yn Nghymru a Lloegr rhwng y ddwy blaid; gosodwyd teulu yn erbyn teulu, brawd yn erbyn brawd, tad yn erbyn mab, a chydgenedl yn erbyn cydgenedl; bu amryw o'r penaethiaid weithiau yn fuddugoliaethus, weithiau yn ffôedigion yn nghoedydd ac ogofâu Cymru; a lladdwyd llawer o oreuon y wlad a'u canlynwyr gwerinol; ond yn y diw-

* Iolo MSS., tu dal. 204.

† *Pennant's Tour in Wales. Vol. III., page 386.*

edd unwyd y ddwy blaid yn mherson Harri y Seithfed. Derbyniodd wasanaeth ffyddlawn a llwyddiamus oddiwrth Syr Rhys ab Thomas, a chenedl y Cymry; ac mewn at-daliad ymdrechodd i ysgafnhâu eu beichiau, a symud y rhwystrau oedd ar eu ffordd i wellâu eu cyflwr cymdeithasol, a chyhoeddodd amryw ddeddfau er ei lles. Dilynwyd ei esiampl gan ei fab Harri VIII.; talodd yntau lawer o sylw iddynt; a dangosodd deimlad gwresog tuag atynt. Gan weled hyny, danfonwyd erfyniad gan Syr John Price, a bonedd Cymru, i ofyn am ddiddymiad y gwahanfur cyfreithiol oedd rhwng Cymru a Lloegr. Cydsyniodd Harri â'r cais; ac o'r bedwaredd flwyddyn ar ddeg ar hugain o'i deyrnasiad ef, daeth y Cymry yn ddeiliaid i'r un brenin, ac yn ostyngedig i'r un cyfreithiau. Unwyd Cymru a Lloegr O. C. 1543; ac y mae canlyniadau dedwydd y ddeddf ddoeth hono yn parhâu hyd yr awr hon. Yma terfynwn gan hyny y bennod bresennol.

III.

a. A FEDDAI CENEDL Y CYMRY GYFUNDREFN O ATHRONIAETH ?

ac os meddai,

b. PA GYFUNDREFN OEDD HONO ?

c. A PHA UN A BERTHYNAI Y CYFRIW GYFUNDREFN IDDI HI YN NEILLDUOL ?

d. YNTE A YDOEDD YN GYFFREDIN RHYNGDDI A RHAI, NEU A'R OLL O'R LLWYTHAU CELTIC ?

Mae yn amlwg fod pwyllgor y Cymrodorion yn gyfarwydd â thraethawd diweddar yr Archddiacon Williams, ac mai dylanwad ei "*Gomer*" ef a gynhyrfodd y gofyniadau uchod; a chan fod yr awdwr dysgedig yn hōni meddiant athrondrefn neillduol, y ffordd oreu fyddai i ni drin y pwnc yn y dull y gosodir ef allan ganddo ef.

Hōna efe fod arweinwyr y Cymry o'r Dwyrain—megys Job, Melchisedec, a Jethro—mewn meddiant o athroniaeth bur, a chred yn yr unig wir Dduw; iddynt ddwyn y daliadau hyn i Ynys Prydain; i'r bobl, ar ddymchweliad y Rhufeiniaid, gymhlethu eu hathroniaeth draddodiadol âg efengyl Crist; mai Gwent a Morganwg oedd prif safleoedd y daliadau hyn; mai yr athroniaeth genedlaethol hon sydd gynnwysedig yn Noethineb y Cymry, priodoleddig i Catwg Ddoeth; ac i Johannes Scotus Erigena, dydu y daliadau cyffelyb a geir yn ei weithiau ef, o'r un ffynonau a'r hen Saint Prydeinig.* Tystia ymhellach fod dwy ysgol lênyddol yn y cyfnod Arthur-aidd—un yn wir baganaidd, er yn rhith Gristionogol; a'r llall yn wir Gristionogol, ond wedi cymeryd ati hen ddoethineb batriarchaidd eu cydgenedl.

Yn awr, y mae genyf barch diragrith i'r Archddiacon, yr hwn sydd ddyn o gymneddfau dysglaer, ac o ddysgeidiaeth éang; ond ynghylch hynafiaethau Cymru, rhaid i ni, er yn anewyllysgar, wrthod ei arweiniad ef; a hyderaf y bydd un ffaith yn ddigon i brofi nad yw mor ofalus ac mor awdurdodol ag y dysgwylid iddo fod. Dywed fod yr ysgol baganaidd uchod yn addoli Hercules, ac Apis, un o dduwiau yr Aipht; dysyna fel prawf y llinellau canlynol,—

"Cyvoethawg Duw Dovydd
Ap-is Lleuver Llawenydd."

"Duw vab Mair, Ap-is nev ac elvydd."†

* *Gomer*, pp. xii., xiv., xvii. † *Gomer*, pp. 8—10.

A dywed eu bod i'w cael yn y *Myv. Arch.*, Cyf. I., tu dal. 6. Ond erbyn chwilio, nid ydynt yn tudal. 6, ond yn 578, lle y ceir hwynt fel y canlyn,—

“Kyuóthauc duu douit. Ap'is lleuver lleuenit.”

“Kyoethauc duu vab meir. Ap'is new ac eluit.”

Sylwer ar y nod uwchben y p': nod o fyrhád yw; ac mewn copi arall, tu dal. 187, gwelir y gair yn ei gyflawnder,—

“Cyfoethauc Duw Dofydd
A beris lleufer llewenydd.”

“Cyfoethawo Dduw Mab Meir,
A beris new ag elvit.”

Wele Apis wedi difanu! Talfyriad ysgrifol oedd unig sail yr haerid; ond os yw yr Archddiacon mor anghyfarwydd ág ysgrifau Cymreig, ac mor fywiog ei ddechymyg, ag y dichon iddo wneyd duwiau o'r fath ddefnyddiau, a chyhuddo ei gydwladyr o addoliad paganaidd ar seiliau o'r fath yma, esgusodir fi am wrthod ei arweiniad yn yr ymchwil presennol, ac ni fernir yn ormod hyfdra i mi farnu drosaf fy hun.

Cynwys ei draethiad ef am Ddoethineb y Cymry dri o osodiadau, sef, (tu dal. 16, 23.)

I. Fod y cyfansoddiadau a briodolir i Catwg Ddoeth yn wir eiddo iddo ef.

II. Y cynnwysant bob peth sydd yn iachus (*sound*) mewn moesoldeb, athroniaeth, a dwyfoldeb (*divinity*).

III. Fod eu meddyleg (*metaphysics*) yn gydweddol â chyfundrefn Syr William Hamilton. Ystyriwn hwynt ar wahân.

I. Ymddengys i mi nad ellir priodoli, na'r cwbl na'r rhan swyaf o “Ddoethineb y Cymry” i Catwg Ddoeth; ac y mae un ysgrifenydd arall o'r un farn, os nad rhagor. Llanwa y diarebion hyn gant o du dalenau y *Myvrian Archaeology*, a phob un yn golofnau dyblyg; adroddir yr un pethau mewn gwahanol ffyrdd, a phriodolir hwynt mewn nianau eraill i bersonau diweddarach; brithir hwynt â chyfeiriadau at arferion canoloesol; cymysgir yr iaith â geiriau Seisonig, megys *cap, ffermwr, dagyr* (dagger), *ceorl*, a gwneyd a vo *reitav*; soniant am foneddigion, offeiriad, cyfreithwyr, meddygon, a llyfrau, fel gwrthddrychau cyffredin; a chafwyd hwynt mewn ysgrifau nad oeddent yn hen, tra mae yr orgraff yn ddiweddar, a rhediad yr iaith mor llyfned ag yw yn ein dyddiau ni. Tueddir fi, gan hyny, i'w priodoli i'r canoloesoedd, ac i amseroedd diweddarach na hyny; ac os sylwir yn fanwl gwelir profion eu bod wedi eu cyfansoddi mewn oesoedd o ddsygeidiaeth gyffredinol. Yn y ddeuddegfed ganrif, fel enghraifft, yr oedd math o dwymyn ymhlith ysgoleigion i draethu eu sylwadau mewn ffurfiau rhesymegol; ac nid allent son am un peth braidd heb ei draddodi mewn *sylogism*. Mae dylanwad yr oes hono yn weledig ar Ddoethineb y Cymry, fel y gwelir yma.

“BONEDD DOETHINEB.

Nid doethineb ond awen,
Nid awen ond arver,
Nid arver ond cymhell,
Nid cymhell ond cariad,
Nid cariad ond dewis,

Nid dewis ond pwyll,
Nid pwyll ond ystyriaeth,
Nid ystyriaeth ond daioni,
Nid daioni ond Duw,

AM HYNX, nid doethineb ond o Dduw.”

Catwg Ddoeth a'i cant, *Myv. Arch.*, III, 27.

Traethir am Awen, Gwybodaeth, a Rhinwedd yn yr un dull.

Mae enghreifftiau cyffelyb i'w cael tu dal. 16, 26, 28; ond bydd hyn yn ddigon i brofi fod argraff rhesymeg ar ranau o'r cyfansoddiadau hyn, ac fod peth o honynt, o leiaf, yn perthyn i'r cyfnod *Syllogistical* a ddesgrifir gan fynach cydoesol—sef John o Salsbri, yn y ddeuddegfed ganrif.

II. Mae moesoldeb y cyfansoddiadau hyn yn ddiammheuol, ac yn haeddiannol o bob clod a roddir iddynt yn yr ystyr hyn; ac y mae y rhan fwyaf o'r dwyfoldeb yn deilwng o'r un canmoliaeth. Ond mae yn amheus genyf fod y cwbl felly, os nad yw holldduwiaeth (*pantheism*) i gael ei chyfrif yn athrawiaeth iachus. Craffodd yr Archddiacon fod ystyr neillduol yn cael ei roddi i'r gair *Dim*, a dangosodd allu beirniadol teilwng o'i enwogrwydd, yn yr esboniad fod dau DDIM yn bod—sef, yn flaenaf, y *nihil purum*, “dim” yn yr ystyr gyffredin, ar *nihil cogitabile*, y dim sydd yn annealladwy; ond dylasai ei ysgoleigaeth Roegaidd ddangos iddo well esboniad. Ceir enghraifft o'r gair yn a ganlyn,—

Nid diddarvod ond Duw,
Nid tragwydd ond Duw,

Nid anveidrol ond Duw,
Nid *dim* ond Duw.

Eto:—

Nid dirgel ond *dim*,
Nid *dim* ond anveidrol,
Nid anveidrol ond Duw,

Nid Duw ond *dim*,
Nid *dim* ond dirgel,
Nid dirgel ond Duw.

Yn awr, os sylwir ar y geiriau, “Nid oes dim ond Duw, nid oes Duw ond Dim,” gwelir fod rhyw ystyr bwysig ond anamlwg yn cael ei roddi i'r gair; ac os na fydd y darlennydd yn gyfarwydd âg ysgrifeniadau Pantheistiaidd, bydd fel awdwr “*Gomer*,” a llawer eraill, yn ymdrybaeddu yn y tywyllwch. Heb yr allwedd Holldduwiaethol, nid ellir ei esbonio. Yr oedd amryw o'r heresiau hyn yn y canoloesoedd; ond yn eu drychfeddl am y Goruchaf, yr oeddent oll, o Gnosticiaid y canrifau boreuol, ac yn wir Plato ei hun, hyd at Gathariaid ac Albigeniaid y ddeuddegfed ganrif, yn cyduno. Yr oedd pob peth o hono ef, yr oedd pob peth *ynndo* ef: nid dim ond Duw. Yr oedd uwchlaw pob peth, tu hwnt i bob peth; deilliai pob priodoleddau oddiwrtho ef, ond nid ellid priodoli dim iddo ef. Yr oedd tuhwnt i bob dirnadaeth, ac nid ellid gydag un priodoldeb hōni dim am dano. Ni wyddid dim am dano ond trwy ei ddadguddiadau: preswyliai yn y *Budo*s—*Cylch y Ceugant*, heb na byw na bod ond ei hun; ond ni welodd llygad o hono erioed. “The Gnostic Bythos,” meddai Neander, “was sometimes identified with the Neo-Platonic *ov*, and made out to be something exalted above all contrarieties, of which even existence could not be predicated—it was the ABSOLUTE—identical with NOTHING.” Deallir yn awr ystyr y gair: y NOTHING hwn oedd mewn golwg gan gasglwyr Doethineb y Cymry; ac yn y dyb hon gallasant hwy ddyweyd—Nid Duw ond DIM; ond braidd y dywedir fod eu dwyfoldeb yn bur, wedi darllen y sylwadau rhagflaenol.

Mae llawer o eiriau eraill yn dwyn yr un berthynas â heresi y Cathariaid, a gellid enwi “*Sylwedd*” yn neillduol. “Sylwedd yw pob ysbryd; ac nid yw y byd a welir ond cysgod o'r byd nis gwelir.” Cymerau ormod o amser i mi fanylu ar bethau o'r fath yma; ond dywedaf, ar awdurdod Neander, fod hon yn athrawiaeth Gnosticaidd, ac fod y gwrthwynebiad rhwng byd gwreiddiol a byd rhithiol yn ffynu ymhlith y Cathariaid.

Mae yn bur debyg, os nad yn ffaith brofadwy, i'r heresi hòno ymdaenu ei hunan i Gymru, a chael ei mabwysiadu gan y beirdd Cymreig; ac os cywir y golygiadau hyn, rhaid gwadu hynafiaeth y cyfansoddiadau dan sylw; ond beth bynag a feddyllir am hyny, mae yn anhosibl i ni gyduno â Mr. Williams ynghylch eu teilyngdod duwinyddol.

III. Gelwir cyfundrefn Hamilton yn **ATHRONIAETH Y CYFLYREDIG**, ("The Philosophy of the Conditioned,") a hòna efe na ffurfi, ac nad ellir ffurfio, un drychfeddwl am amser a lle ynddynt eu hunain; fod y ffeithiau ymwybyddol ynghylch bodolaeth y byd gweledig a'r bôd a'i gwel, yn rhagflaenol i un prawf, ac i'w credu yn reddfol neu uniongyrchol (*intuitively*). Dywedai Des Cartes, *Cogito ergo sum* (meddyliaf, yna ydwyf), gan wneyd y prawf o fodolaeth yn ganlyniad i'r weithred feddyliol. Ond yn wrthwynneb i hyn, cymer Hamilton yr hòniad *ydwyf* yn gareg sylfaen i'w adeilad, yn ffaith reddfol ac annibynol, yn rhagflaenu pob prawf, ac yn bodoli hebdo; ac hefyd, fod tystiolaeth yr ydwyf yma am fodolaeth y byd allanol, yr un mor reddfol ac annibynol. Yr hòniad o fodolaeth, ac o *fôd* dynol, yw gwreiddyn yr Athroniaeth hon; ac am hyny derbyn yr enw *Philosophy of Common Sense*, gan nad oes un dyn a arfer ei synwyr cyffredin yn unig yn amheu ei fodolaeth ei hunan, na bodolaeth y byd allanol. Rhaid i ni yma gymeryd yn ganiatâol fod y darlennydd yn gyfarwydd â hanes athroniaeth y meddwl, ac yn gwybod fod rhai, megys Locke, Condillac, ac eraill, yn gwadu nad oes genym un drychfeddwl ond yr hyn a dderbynir oddiallan; ac fod Berkley, Fichte, ac eraill, yn gwadu bodolaeth y byd allanol. Mae Reid, a Hamilton ar ei ol ef, yn pleidio fod tystiolaeth y Synwyr Cyffredin yn sicrhâu nid yn unig fod byd allanol, ond hefyd fod tystiolaeth ein synwyrâu am dano yn wirioneddol, ac fod genym ddrychfeddyliaid greddfodol nad ydynt ddeilliedig o'r byd allanol, nac wedi eu derbyn trwy gyfrwng y synwyrâu. Tybia yr Archddiacon fod yr hòniad o fodolaeth, sydd mor nodweddol o gyfundrefn Reid a Hamilton, yn ddrychfeddwl adnabyddus i'r hen Gymry hefyd; a hòna fod prawf o'r ffaith yn nghyfansoddiad yr iaith Gymraeg, ac yn neillduol yn y geiriau,

Bod,	Dy-fod,
Can-fod,	Gor-fod,
Cyfar-fod;	Gwy-bod,
Dar-fod,	Han-fod,*

a geiriau cyfansawdd cyffelyb. Ac yr oedd Syr William Hamilton ei hun yn ystyried fod yr iaith Gymraeg, yn ol esboniadau awdwr Gomer, yn brawf o'r un gosodiad, gan y dywedai,—

"I feel much flattered that any speculation of mine should obtain so competent an advocate and so weighty an authority as is the language of your ancient people."

Y mae, gan hyny, yn amlwg fod Hamilton a Williams yn ystyried fod cyfundrefn athronyddol o'r un fath ag eiddo yr Ysgol Ysgotaidd gan ein hynafiaid; ac y mae cydsyniad dau ysgolaig o'r fath enwogrwydd yn deilwng o ystyriaeth bwylllog.

Ond y pwnc yw, Beth yw arwyddiad y geiriau dan sylw, a geiriau cyfansawdd rheolaidd o'r un fath, yn y cysylltiad hwn? Mae yn ddiammheuol

* Gomer, Part II., page vi.

fod geiriau cyfansawdd yn firwyth myfyrdod, ac yn fesur o hono; ac y mae yn ffaith yr un mor amlwg fod iaith gyfoethog, rywiog, a llawn o eiriau cyfansawdd rheolaidd, nid yn unig yn wrthddrych meddyliol ardderchog, ond hefyd yn arddangosiad o ddysg a chrebwyll, ac yn fesur o ddoethineb, myfyrdod, a galluoedd meddyliol y genedl a'i meddianna. Nid oes ychwaith un achos i betruso dyweyd, fod y Gymraeg yn iaith o'r fath yma, ac yn haeddiannol o bob clod a pharch sydd deilwng i wrthddrych mor ogoneddus. Mae yn gyfoethog mewn geiriau, yn rheolaidd yn ei chyfansoddiad, ac yn addas iawn, o herwydd ei hystwythder a'i rhwyddineb cymhlethiadol, at derfyniadeg wyddorol (*scientific terminology*). Mae ynddi arwyddion dealltwriaeth helaeth, ac y mae yn ffaith a ellir ei phrofi yn hanesyddol pe bae raid, fod dynion o gynneddfau dysglauer, beirdd a llenorion, wedi ei wneyd yn amcan ac yn waith arbenig i'w choethi a'i chyfoethogi. Yn ei chyflwr presennol, mae nid yn unig yn iaith ragorol ynddi ei hun, ond hefyd yn brawf fod y Cymry a'i meddianant ac a'i carant yn genedl ddoeth, dreiddiol, a deallus. Gyda golwg ar y gair "canfod," i gymeryd un yn enghraifft o'r cwbl, cydsyniaf â Mr. Williams yn y gred ei fod yn gyfansoddedig o "Bôd," a "can," sef yr un gair a "ken"—*to know*—i wybod. Mae y gair yn rheolaidd, wedi ei ffurfio o'r elfenau crybwylledig, ac yn dangos bwriad i ddynodi y weithred wybyddol trwy y gair—"canfod;" ond a ydyw yn canlyn o anghenheidrwydd fod y gair "Bod" yn ddefnyddiedig mewn ystyr athronyddol?

Mae rhywbeth tra rhyfeddol, rhywbeth a bair syndod mewn hen iaith gyfoethog a rheolaidd yn disgyn trwy oesoedd aneirif o eithafoedd amser; ei pherffeithrwydd mewn cyfartalrwydd i'w hynafiaeth, a'i phriodoldeb gymaint fel nad oes braidd nac achos na modd i'w gwellhâu, ac fel y dywed Alexander Humboldt, fod perthynas riniol ("*mysterious affinity*") rhwng gair a chrebwyll ("*between thought and language*"). Tueddi Warburton gan yr ystyriaeth yma i feddwl fod iaith yn un o anrhegion anwylaf y nef; ac ar y llaw arall barnai Aristotle fod ieithoedd o'r fath yma wedi disgyn o amseroedd cyn cof, pan oedd y gwyddorau a'r celfyddydau wedi eu dwyn i berffeithrwydd, ac ar ol hyny wedi syrthio i dir anghof, heb arwydd o'u bodolaeth ond y geiriau a ddefnyddid i'w dynodi. Mae yn amlwg fod golygiadau yr athronydd Groegaidd wedi dylanwadu yn helaeth ar feddwl yr Archddiacon; a phe buasai dychymyg y doethawr manylgraff hyny yn brawf diammheuol, gallasem ar unwaith gydsynio â Mr. Williams, ac ymhyfrydu yn y drychfeddwl fod ein hynafiaid wedi cyrhaedd graddau helaethach o wybodaeth, yn nhorriad gwawr amseryddiaeth, nag yr ydym ni, eu disgynyddion, yn eu meddiannu yr awr hon. Ni charem wneyd un honiad byrbwyll ar y mater yma; ond barnwn nad yw dychymyg Aristotle yn brawf anfaeledig, ac na ddylai ein rhwystro i edrych am ryw eglurhad arall.

Mae i'r gair **BOD** dri o ystyriaethau, sef, 1. Trigfan, megys Havod (Bod-hav), Bodedeyrn; 2. *Existence* yn yr ystyr gyffredin, yr hyn a briodolir i ddynion a'r byd allanol; ac yn 3. Yr unig wir fod annibynol—y Bod o Dduw. Nid oes a fynom ar hyn o bryd â'r ystyr flaenaf; ac y mae, feddyliem, yn ddigon amlwg mai yr ail ystyr a berthyn iddo yn y geiriau "canfod," "darfod," a'r cyffelyb. Ond beth yw y casgliad naturiol yn ei glych? A ddefnyddir ef fel arwydd o ddrychfeddwl annibynol? Neu ynte mewn cysylltiad â chyfundrefn o athroniaeth? Hyderaf mai yr

ateb a roddid gan y mwyrif o Gymry fyddai hyn,—fod *bodolaeth* yn bresen-nol i'w meddyliau fel drychfeddwl annibynol, ac nad ydynt yn wybyddus o un cysylltiad athronyddol. Mae yn wir y gellir rhoddi nodwedd athronyddol i'r gair; ac mae yr un mor amlwg fod y gair yn meddu addasrwydd neillduol i osod allan y drychfeddwl athronyddol. Ond defnyddid y ferf "*I am*," a'r gair "*existence*," oesoedd lawer cyn amser Reid, a chan filoedd o ddynion na chlywsant son am ei enw ef na Hamilton, heb fod neb o honynt yn breuddwydio am gyfundrefn feddyliol. Mae geiriau cyfatebol gan genedloedd eraill heb un gwybyddiad o'r fath; ac onid yw hyny yn naturiol? Yn ddiweddar iawn y lluniwyd cyfundrefn Hamilton, ac y defnyddiwyd y drychfeddwl o fodolaeth fel sylfaen cyfundrefn; ond nid oes un genedl ar y ddaear wedi bod yn ammheus am eu bodolaeth eu hunain; ac onid yw yn naturiol iddynt feddiannu geiriau i osod allan y drychfeddwl hwnw yn ei symlwrwydd, heb feddwl am un cysylltiad arall? Tybiaf ei fod; tybiaf mai yr ystyr syml yma a roddid i'r gair *bod* gan y Cymry; ac y mae y ffaith nad yw mewn un man yn cael ei ddefnyddio fel rhan o gyfundrefn feddyliol yn cadarnhâu fy ngolygiad.

Atebir, fe allai, fod yr haerriad olaf yn ammheus, gan fod cysylltiad neillduol i'r gair yn Noethineb y Cymry; ond, yn flaenaf, rhaid priodoli yr ystyr yma i'r gair yn oesoedd boreuol yr iaith Gymraeg, ac nid yw yn oddefol i gymeryd y diarebion fel profion, gan eu bod yn cyfeirio at "lyfrau anghyfaith," ac at "rhodriaid a seintiau o bell," ac o ganlyniad at nodweddion neillduol y canoloesoedd; ac yn ail, y mae y drychfeddwl yn wahanol, ac yn groes hollol i eiddo Hamilton a Williams.* Os oes synwyr mewn geiriau, maent hwy yn hòni bodolaeth y gweladur a'r byd gweledig; ond hòna Doethineb y Cymry nad ellir priodoli bodolaeth i'r naill na'r llall; a chydysynia â'r Platonyddion newydd (*Neo-Platonists*) yn yr hòniad nad oes un Bôd ond Duw. Dywedant yn bendant, "Nid dim ond Duw," "Nid bod ond Duw." Eto, "Nid bod ond byw, ac nid byw ond Duw." Ac eto, "Nid bod, ond yr hyn nis gellir dadvod arno—sef Duw." Traethir yr un peth mewn gwahanol eiriau, ac nid wyf yn petruso dyweyd mai y drychfeddwl Neo-Platonaidd a osodir allan yn Noethineb y Cymry, ac mid un peth perthynol i feddyleg Hamilton. Gan hyny, gyda phob parch dyledus tuag at yr Archddiacon Williams, barnaf nad oes un sail i gredu fod cyfundrefn athronyddol gan y genedl Gymraeg.

Os cywir y syniadau hyn, mae y gofyniadau cangenol yn syrthio i'r llawr; ac nid yw yn ofynol cymeryd un sylw ychwanegol o honynt.

Eto, yr wyf yn anfoddlawn i ymadael â'r testun hwn, heb ddyweyd gair neu ddau yn ychwanegol. Mae neillduolrwydd tra theilwng o sylw yn Noethineb y Cymry; ac y mae diolchgarwch y genedl yn ddyledus i'r Archddiacon am ddwyn y ffaith dan sylw dysgedigion. Cydsyniaf âg ef ynghylch neillduolrwydd y gweddillion hyny; ond gwadaf eu hynafiaeth, ac ammheuf gywirdeb yr eglurhâd o honynt a roddir ganddo ef. Yr oedd gan y beirdd Cymreig gyfundrefn—nid o athroniaeth, ond o Ddwyf-oldeb; a chan fy mod wedi cyfeirio ati gymaint o weithiau eisoes, bydd yn fath o gwblhâd i'r traethiadau rhagflaenol, ac fe allai yn foddlonrwydd

* "The fact of consciousness which testify the existence both of the ego and the non-ego, that is, of the perceiving mind, and the external object perceived, are to be believed intuitively, and are prior to any possible demonstration.

i'r darllenydd, os nad i'r genedl, i ni roddi crynodeb o'r athrawiaeth grybwylledig. "*Barddas*," fel ei gelwir gan feirdd Morganwg, yw y peth sydd genyf mewn golwg. Mae y gweddillion a'i cyfansoddant yn gynwysedig yn "*Noethineb y Cymry*"; (*Myvyrian Archaeology*, Cyf. III.); yn y nodiadau at "*Lyric Poems*" Edward Williams, sef Iolo Morganwg; yn yr Iolo MSS.; ac yn nghwyddau Iolo Goch, Gwilym Tew, Rhys Goch o Eryri; Llywelyn Moel a Rhys Brydydd. Hona leuan Myfyr o Bont y pridd, fod gwybodaeth gyfriniol Cadair Morganwg wedi disgyn iddo ef; ond nid ymddengys i ni fod ganddo un defnyddiau ychwanegol at yr hyn sydd gyhoeddedig eisoes.

Yr athrawiaeth sydd fel y canlyn:—

I. Duw, cyn bod na byw na bôd ond efe ei hun, a roddes ei enw ar lafar, nid amgen nag



a chyda'r gair llamodd yr holl fydoedd a'r holl fywydau i fodolaeth o an-fodoldeb, mewn bloedd gorfoledd,



gan adlefaru enw Duw. Yr oedd y llafar hwn yn bereiddlais iselfain; ac nis gellir ei ail cyn y dychwel Duw bob hanfod o'r marwoldeb a ddyg pechod arno, pan adlefar Duw ei enw.

II. Yr oedd y grëadigaeth hon yn rhanedig i dri o gylchoedd, sef *Cylch y Ceugant*, lle nad oes na byw na marw ond Duw ei hun; *Cylch y Gwynfyd*, yn ateb i'r nef yn yr ystyr gyffredin, lle mae yr angelion yn awr, ac y bydd dynion yn ol llaw; a *Chylch Abred*, sef y Byd Antanol. Mae i bob byw dri o gyfyrâu, sef Cyflwr Abred yn Annwn, Cyflwr Rhyddid yn Nyndod, a Chyflwr Cariad neu Wynfyd yn y Nef. Cyfnewidiad yw prif ddeddf Abred, sef mewn geiriau eraill—*the Circle of Metempsychosis*, neu Gylch y trawssynudiad eneidol; ac yn ol y ddeddf hono mae pob hanfod yn esgyn o waelod y deyrnas anifeilaidd—o Annwn hyd gyflwr Dyndod, ac o Ddyndod, a'r farwolaeth, naill ai yn *uniongyrchol* i'r Nef, neu ynte o herwydd ymddygiad drygionus yn cael ei droi yn ol i dreiglo Abred eilwaith, ac felly yn barhaus nes bydd wedi ei buro oddiwrth bob pechod, ac yn addas i esgyn i fyny i Gylch y Gwynfyd. Hyny yw, mewn ffurf fywgraffiadol, yr ydych chwi a minnau, ddarllenydd hynaws, wedi dechreu ein gyrfa oddiar yn agos i seiliad y byd, pan gyfododd gwrthryfel yn Nghylch y Gwynfyd yn erbyn Cylch y Ceugant, ac y bwriwyd Satan a'i ganlynwyr angeliaid o'r nef, i ymgymysg â marwoldeb (*chaos*). Yr oeddem ni yn ganlynwyr Satan y pryd hyny, ac o'r amser hwn hyd yr awr hon, yr ydym wedi bod yn treiglo Cylch Abred; pa mor fynched, ni wyddom yn y fuchedd hon, ond cawn adgofio y cwbl yn Nghylch y Gwynfyd. Ar ein hymddygiad yn ein cyflwr dynol, gan ein bod yma yn ddeiliaid Ewyllys Rydd, yr ymddibyna ein cyflwr dyfodol; os ydym yn feilchion, troir ni yn ol i ddyfnder Cylch Abred—i ANNWN; os yn anwir-eddus, hyd OBRYN; ac os yn annhrugarog hyd at Gydfil, i bori gydag anifeiliaid y maes; ond os yw ein hymddygiadau yn rhinweddol, cawn esgyn

i gylch y Gwynfyd, lle yr oeddem cyn y cwmp, ac yno adgofwn ein treigladau abredawl trwy oesoedd tragywyddol o ddedwyddwch.


III. Mae marwolaeth yn rhan o Ragluniaeth Duw i waredu dyn rhag “corff y farwolaeth hon;” gan fod pob marwolaeth, neu ymddyosgiad corfforol yn danfon yr ysbryd treiglady gam yn y blaen yn ei yrfa osod-edig. Mae yn bechod o’r mwyaf i ladd un creadur, ni waeth pa mor waelled y bydd; ond ar yr un pryd, mae pob marwolaeth yn llesâd i’r dyoddefydd.

IV. Tra y mae yr ysbryd yn y cyflwr dynol, mae iddo Iachawdwr, sef Hu Gadarn; yr Haul yw ei drigfan, a’r arwydd gweledig o’i fodolaeth a’i ymdrechion, i fyd o bechaduriaid; ac fel y mae yr haul anianol yn bywiogi y ddaear, felly mae yntau, yr haul ysbrydol, yn adferu ysbrydion syrthiedig o afael y Drwg, yn ol i Gylch y gwynfyd.

Hyn yn fyr yw sylwedd BARDDAS, ac er yr honir ei bod yn gyfundrefn ddirgel, ac wedi disgyn yn rheolaidd o gyfnod y Derwyddon, nid yw yn gofyn ond adnabyddiaeth â hanes foreuol yr Eglwys Gristionogol i weled nad oes yma un dirgelwch ond dirgelwch yr estrys—neb mewn tywyllwch ond y beirdd eu hunain; ac nid yw, ar y llaw arall, yn gofyn ond adnabyddiaeth â hanes yr Eglwys yn y canoloesoedd i weled pa bryd y daeth i blith y beirdd Cymreig. Ymddengys i’r beirdd ymafyd yn y golygiadau hyn pan oedd *debris* neu adfeilion amrywiol gyfundrefnau athronyddol, yn treiglo ar wasgar trwy y meddwl Ewropeaidd; gan fod Barddas yn gyfansoddedig o ddarnau o wahanol gyfundrefnau anghysylltiedig; ac yn anesboniedig heb eu cymeryd ynghyd.

I. Mae y Nod Cyfrin ∇ yn perthyn i “ddysg Ganapla,” sef KAB-BALA yr Iuddewon; ac nid yw ond un rhan o’r darlun canlynol o’r deg Sephiroth, yn yr hwn y dangosir, yn ol y *theory of emanations*, creadigaeth y byd a’i ddiwedd, yn ei fynediad allan oddiwrth Dduw, a’i sugniad yn ol at Dduw eilwaith.

I. Y Goron, ffrydiad y *Golden* anfeidrol.



Dosberthir y naw cyntaf yn Driodded; a gelwir y cyntaf y Triad Dwyrhol; a ffurfiwyd ef fel y canlyn: Duw, y *nought*, neu y Dim, yn dadguddio ei hun a gynnyrchodd y Sephirah cyntaf; cynnyrchodd hwnw yr

ail, a'r ail y trydydd. Y Triad Dwyfol hwn, yn gosod allan *arllwysiad* y grëadigaeth, yw y Nod Cyfrin. Os chwennychir gwybodaeth helaethach ynghylch y *Sephiroth*, gellir ei gael yn yr *Eclectic Review*, Chwefror, 1856; ond cyn y deallir cymaint a hyn, rhaid ystyried fod y byd anianol—hyn yw, *chaos*, yn hanfodi *cyn y grëadigaeth*, fod y byd hwnw, yn iaith llyfr Genesis, “yn affuniaidd a gwag,” ac mai *trfniad* yr affuniaeth hyn, arllwysiad goleuni, doethineb, deall, ac felly yn y blaen, sydd i ddeall wrth y grëadigaeth.

Ond y mae elfen arall yn y drychfeddwl barddonol; nid yw \sphericalangle ond llun y gair crëadigol; ond y gallu crëadigol oedd y *Gair* ei hun. Cyffyrddir yn awr âg athrawiaeth y *Logos*, yr hon yn ei pherthynas â Plato, Philo, Paul, ac Ioan, sydd yn rhy ddyrys, ac yn rhy helaeth, i ni ymyraeth â hi. Mae yn ddigon fod yr Ysgrythyrau yn gosod pwys mawr ar “Enw” Duw; ac fod y drychfeddwl i'r grëadigaeth gymeryd lle *trwy* y Mab, sef y *Gair*, yn ddigon adnabyddus. “I ni, nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn y mae pob peth. Ac un Arglwydd Iesu Grist, *trwy* yr hwn y mae pob peth.” Defnyddid y drychfeddwl hwn ynghylch crëadigaeth *trwy* y *Logos*, neu y *Gair*, gan y Gnosticiaid, yn neillduol gan un o'r Bardesanes, yr hwn a ddesgrifia y grëadigaeth fel *un llafariad parhâus o enw Duw*. Wrth gymeryd y pethau hyn ynghyd—y gair crëadigol a'i lun, ceir allan ystyr y Nod Cyfrin.

2. Nid yw y cylchoedd ond benthugiadau oddiwrth y Gnosticiaid, yn neillduol oddiwrth gyfundrefn Valentine. Ei *Bodos*—*Bythos* ef yw Cylch y Ceugant; y *πλερομα*—*Pleroma*, yw Cylch y Gwynfyd; a'r *ὕλη*—*Hyle*, yw Cylch Abred. Gellid parhau y cymhariad at berthynasau eraill rhwng y ddwy gyfundrefn; ond nid yw hyn yn afynol.

3. Bwddiaeth (*Buddhism*) yn ei tharddiad yw yr athrawiaeth ynghylch marwolaeth; a dygwyd hon o India gan Manes, y Persiad, a thaenwyd hi dros y parthau gorllewinol gan ei ganlynwyr ef—y Manicheaid. Barnai Buddhu fod pob bywyd yn rhan o'r Duwdod, pa un ai mewn llyisiau neu anifeiliaid; ystyriai bob anifail yn gysegredig; a gommeddai gymaint a sathru deilen lās o dan draed. Tybia rhai mai tynerwch y beirdd sydd weledig yn y rhan hon o'u hathrawiaeth; ond gwelir mai eu Dwyfoldeb ydyw, ac nid moesoldeb.

4. Y Manicheaid hefyd a ddygasant i mewn yr arferiad Persiaidd o addoli yr haul. Barnai Manes, neu o'r hyn lleiaf, dywedai, i ein Harglwydd Iesu Grist, ar ei esgyniad i'r nef, ddyosg ei gorff sylweddol yn yr haul, ei fod yn parhau i gymmodi y byd â Duw, a bod yr haul yn arwydd gwel-edig o hono ef.

5. Y mae llawer iawn o olrhain wedi bod ynghylch enw Hu Gadarn; ond yn ol fy marn i, yr unig lun a ddaeth yn agos at y gwirionedd oedd Humphreys Parry.* Sylwodd efe fod tebygolrwydd rhyfeddol rhwng Hu, yr enw hwn a'r rhagenw Hebraeg— הוּ —Hu, sef *efe*, yr hwn a ddefnyddid weithiau yn yr Hen Destament fel enw personol; ond ni wnaeth efe un cynnyg i'w cysylltu yn fwy agos. Ymddangosodd i mi fod cyfeiriad Rhys Goch at “ddydg Ganapla,” yn pwyntio at y Kabbala, sef dysg ddirgel y Rabbiniaid Iuddewig, ac erbyn chwilio cefais broffion fod yr awgrym yn gywir. Defnyddir הוּ y rhan fynyachaf yn yr Hen Destament

* *Cambro-Briton*, II, page 68.

fel rhagenw, yn un o ddau ystyr—naill ai fel *efe*, y *mae*, neu ynte fel *hwn*, yr *mae*. Ond nid oedd yr ystyr syml yma yn boddloni y Kabbaliaid; ym-hyfydient hwy mewn traddodiadau, a fflug-esboniadau; a gellir ffurfio barn ynghylch nodwedd eu hysgrifeniadau hwy oddiwrth ddywediad Lee,* mai Maimonides (yn y ddeuddegfed ganrif) oedd yr Iudew cyntaf a adawodd chwareu ffolineb—"the first Jew who ceased to play the fool." Wrth ddarllen Esaiiah xliii. 10, (fel enghraifft) tybient hwy fod y gair hwn i'w ystyried fel enw personol, fel un o wahanol enwau y Bôd mawr tragywyddol; a darlennent fel y canlyn:—

Fy nhystion i ydych chwî, medd Iehofah,
A'm gwas yr hwn a ddewisais;
Fel yr adnabyddoch, ac y credoch fi,
Ac y dealloch mai myfi yw Hu: (neu Efe)
O'm blaen nid oedd Duw wedi ei ffurfio,
Ac ni bydd un ar fy ol.

Mae genym dystiolaeth bendant Cornelius Agrippa, yr hen swynwr,† fod y Kabbaliaid yn defnyddio y gair fel yma, "Est aliud nomen (Dei) Hu $\omega\eta$, revelatum Esaiæ, divinitatis abyssum innuens." Ac y mae yn ddiammheu genyf mai oddiwrthynt hwy y cafwyd yr enw Hu, ac fod dylanwad Iudewaeth ddiweddar ar grefydd beirdd y canoloesoedd.

Parhâodd sectau Gnosticaidd a Manicheaidd yn y dwyrain, o'r oesoedd boreuol hyd y canoloesoedd. Yn y ddegfed ganrif daeth sect y Paulitiaid â'r daliadau hyn i Ewrop; ac yn y ddeuddegfed ganrif, dan y gwahanol enwau Cathariaid, Albigeniaid, a'r cyffelyb, yr oeddent yn daenedig dros y cwbl o'r parthau gorllewinol. Erlidiwyd hwynt yn greulawn gan yr Eglwys Babiliaid; ac o hyny allan aethant o'r golwg, er fod eu cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddirgeliaidd am lawer o amser wedi hyny. Yr oedd ddwy blaid o'r Cathariaid, un yn credu yr athrawiaeth Faniecheaidd am ddau Fôd tragywyddol, un yn *Dda* a'r llall yn *Ddrwg*, Ormuzd ac Ahrimanes; a'r llall yn gwrthod personoliaeth yr egwyddor ddrygonus. Perthynai yr Albigeniaid (oddeutu O. C. 1209) i'r dosbarth olaf; ac yr oeddent hwythau yn rhanedig i ddau is-ddosbarth, sef Cymdeithasau Baioli (Tref yn Ffrainc), a Concoreggio. Gelwid Beirdd Morganwg yn ol llaw, *Gwyr Cwm y Felyn*; ond barnaf mai llygriad yw hwnw o ryw enw cyffelyb i Wŷr Cwmpeini Baioli; ac eu bod wedi hanu o'r gymdeithas hono.

Dichon i'r daliadau hyn ffyni ymhlith y beirdd am anser hir cyn eu gwneyd yn gyhoeddus. Gwasgarwyd yr Albigeniaid oddeutu O. C. 1209; ond nid ydym yn cael un cyfeiriad at y daliadau hyn yn Nghymru hyd ddechreu y bymthegfed ganrif, pan y cofnodir Hu Gadarn gan Iolo Goch, Gwilym Tew, Llywelyn Moel, a Rhys Brydydd. Dywed yr olaf,

"Bychanaf o'r byohenid,
Yw Hu Gadarn, wei barn byd,
A mwyaf, a nav i ni,
Da coeliwn, a'n Duw celi.
Ysgawn ei daith ac esgud,
Mymryn tes gloewyn ei glud,
A mawr ar dir a moroedd,
A mwyaf a gav ar g'oeodd;

* *Hebrew Grammar*, xiii.

† *De Occult. Philosoph.*, Lib. III, cap. xi.

Mwy na 'r bydoedd ! 'marbedwn,
Amharch gwael i'r mawr hael hwn." *

Mae yn amlwg oddiwrth y crybwylliadau barddonol mai yn y hymnheg fed ganrif y ffynai *Barddas* yn Morganwg; ond deallir oddiwrth iaith Rhys Brydydd nad oedd yn cael llawer o roesawiad; ac yn iaith Siôn Cent, cawn brawf digon eglur na ddaeth y daliadau yn gyffredinol hyd yn nod ymhlith y beirdd eu hunain. Dywed efe,

"Dwy ryw awen, dioer ewybr,
Y sy'n y byd, loewbryd lwybr;
Awen gan Grist, ddidrist ddadl,
O iawn dro, awen drwyadl,
Awen arall, nid call cant,
Ar gelwydd, vudr argoeliant,
Yr hon a gawas Gwyr Hu
Camrwyg Prydyddion Cymru."

A dichon i'r iaith gref hon yn erbyn "y fudr argoeliant" beri i'r beirdd guddio eu penau. Syrthiodd *Barddas* i dir anghof; ond trwy ddiwydrwydd Llywelyn Siôn, cadwyd peth o'u daliadau mewn ysgrifen; ac yr ydym ninnau yn awr yn alluog i ffurfio barn o'u plegid.

Nid yw yn perthyn i'r traethawd hwn drin *Barddas* mewn cysylltiad â'r grefydd Gristionogol, nac i'w cholffarnu fel heresi a choelgrefydd. Ein prif amcanion oedd dangos ei hansawdd, a *gwadu ei hynafideth Gymreig*; a gobeithir ein bod wedi llwyddo ymhob un o'r ddau amcan.

MANCHESTER.

DINAS y cotwin; tref o ystordai; y pentwr o frics, mortar, a mŵg. Y mae hon yn farchnadfa y byd. Pa le y mae y masnachwr nad yw yn cael ei nwyddau o Fancenion? Pa le y mae y dyn na fu y *calico* a wnaed yno yn cynhesu ei gnawd, neu frethyn a gaed oddiyno yn gôb am ei gefn? Y mae trigolion America yn anfon eu cotwm i Manchester i gael ei nyddu a'i wau, ac yn dyfod ar ei ol i'w brynu eilwaith, yn myned âg ef adref gyda hwynt dros y Werydd, ac yn ei werthu yno yn galico am "dair ceiniog y llath!"

Y mae Manchester yn ail dref yn Mhrydain, dybygem, o ran ei phobl-ogrydd, a'r flaenaf yn y byd o ran ei phwysigrwydd masnachol. Nis gall, mae yn wir, ymfrostio yn lliosogrwydd ei phalasaau, na gwychder ei hadeiladau, fel Llundain neu Paris. "*Warehouse*" dda, yw balchder trigolion Manchester. Ac yn wir, *warehouse* newydd y Maer presennol (Watts), yw yr adeilad ardderchocaf yn y dref. Y melinau, y llaw-weith-faoedd, yr ystordai, yw bywyd y cwbl yno. Y mae pawb yno yn "gweithio mewn *warehouse*," neu mewn *factory*. I roddi rhyw ddrychfeddwl i'r darllenydd am gyflwr masnachol y lle, dealed, o'r pedwar ugain mil

* Geiriadur Pughe, *gair* Mymryn.

adeiladau sydd yno, fod pedwar ugain ac un ar bymtheg o felinau cotwm yno; deg o felinau sidan; un ar bymtheg o felinau mân nwyddau (*small wares*); dau cant ar bymtheg a hanner o ystordai; chwech o weithiau printio; pymtheg ar hugain o weithiau lliwio; un ar ddeg o weithfaoedd hêtiau; tri ugain ac un o weithfaoedd peiriannau; pymtheg a deugain o dawdd-dai (*foundries*); deuddeg a deugain o felinau llifo; deuddeg o felinau blawd; mil deucant a phedair ar ddeg o wahanol siopau gweithio (*workshops*); saith mil tri chant a phedair ar hugain o siopau cyffredinol; un ar ddeg o ariandai; deuddeg o dai marchnad; cant a saith ar hugain o addoldai; pymtheg ar hugain o adeiladau cyhoeddus; a phedwar cant a phedwar ugain a naw o dafarndai. Y mae y cyfrif yma yn ddigon o awgrym i'r mwyaf dweithr, nad rhyw le llonydd a marw yw Manchester. Na, y mae dynion fel llifeiriant ar hyd yr heolydd, pob un yn cerdded fel am ei fywyd, heb sylwi ar ddim na neb, yr hyn sydd yn nodweddiadol o Sais. Y certi, y cerbydau, y *cabs* a'r *buses*, yn gyru ac yn gwau trwy eu gilydd, nes y mae yn berygl i ŵr traed groesi yr ystryd o un pen i'r llall i'r dydd. Y wageni cotwm yn dadlwytho i'r melinau, ac eraill yn dërbyn y calico ac yn ei gludo i'r ystordai—y trwr didaw yn byddaru clustiau, a'r ager-beiriannau o bob math a maint yn crynu y ddaear o amgylch. Y fath grëadur gwasanaethgar yw yr ager yma wedi dyfod, ac mewn amser mor fyr! Y mae yn rhyfedd i'r byd allu myned ymlaen hebdo am gynifer o flynyddau. Ond os bu yn hir cyn rhoi help ei law i lafur dyn, y mae dyn wedi penderfynu peidio ei arbed bellach. Y mae yn rhaid i'r ager wneyd pob peth, braidd, y dyddiau hyn—nyddu a gwau, codi a chario, tynu cerbydau, llusgo y llongau, ac aredig y ddaear. Ac yr oedd un gŵr yn ddiweddar yn barnu y bydd y Saeson yn debyg o yru ager i'r Senedd yn fuan i wneyd cyfreithiau iddynt. Yr oedd Roger Bacon wedi rhagweled ager a pheiriannau ein dyddiau ni, er ys chwe' chant o flynyddau yn ol; oblegid dywedai—"Y gellid ffurfio peiriannau i yru llongau yn gynt nag y medrai llongaid o rwyfwyr ei gyru—heb ddim yn eisieu ond *pilot* i'w llywio; y gellid gwneyd cerbydau hefyd i deithio gyda chyflymdra anghredadwy, heb gymborth un anifail; ac na byddai yn anhosibl gwneyd peiriant gyda rhyw fath o adenydd i ehedeg yn yr awyr fel aderyn." Erbyn heddyw y mae tybiau gwyllt Bacon wedi eu troi yn ffeithiau.

Buom trwy amryw o'r ystorfeydd mwyaf, a thrwy un o'r melinau cotwm. Synwyd ni yn sawr gan y swm anferthol o nwyddau a gynnwysai y blaenaf, ac yn fwy fyth gan gywreinerwydd a dyfeisgarwch yr olaf. Yn wir, yr oedd edrych ar y cannoedd gweithwyr yn y felin gotwm, yn ddigon i dafu teimladau dyn dros y llestri, a gwneyd i'r mwyaf sobr chwerthin â'i holl egni. Un â'i beiriant nyddu, y llall â'i beiriant dirwyn, a'r llall â'i beiriant gwau, oll wrthi fel gwenyn. Yr holl le yn clecian drwyddo, a mil o olwynion o bob maint a llun yn chwynellu, a'r cotwm fel eira yn cael ei wlawio dros y lle, nes oeddem ninnau, fel hwythau, mor wyn â melinydd blawd. Yr oedd yn syn edrych ar grotes ieuanc o ferch, fel y pryf copyn ei hun, yn nyddu neu yn gwau, gyda y fath rwyddineb a chyflymdra. Ac y mae y grotes hono yn gwneyd cymaint o waith yn awr, ag oedd cant o ddwyllaw yn ei wneyd gan' mlynedd yn ol. Ac os gweithia dyfeisgarwch gyda y fath llywddiant yn y can' mlynedd dyfodol, ag y gwnaeth yn y can' mlynedd a basiodd, fe allai mai cant o bryf copynod fydd gan felinydd Manchester yn lle cant o ferched, yn nyddu ac yn gwau ei gotwm erbyn hyny.

Teimlad gweddol ddeieithr yw i Gymro dreulio ychydig wythnosau ymysg y Seison uniaith, i wrando eu siarad, a sylwi ar eu dull, eu ffasiynau, a'u harferion. Cerddda yr ystrydoedd gan ymwithio trwy y dyrfa, heb neb yn ei weled; a bydd pob wyneb yn ddeieithr iddo. Rhoddwn ein pwys am fynydd neu ddau ar ymyl y "*Fountain*" yn Piccadily, o flaen yr *Infirmery*, yn nghanol y dref. Wrth ein cefn y mae cerflun o John Dalton, yr hen fferylllydd enwog, yn eistedd ar ben colofn. Ar ein deheu y mae Wellington, ac ar ein haswy y mae Syr Robert Peel, ill dau yn sefyll yn ddewr ar golofnau uchel. Rhyfedd byth, gymaint o bobl sydd yn pasio! I ba le y maent yn myned? Ar y cyfan, y mae unfurfaeth rhyfeddol yn ngwisgoedd y bobl. Y mae yn wir, fod yna ambell Ffrencyn â'i gap coch, ac ambell Dwrcyn, neu Indiad, â'i *durban*, a'i wisg ysgafn a rhydd. Ond gyda yr eithriadau yma, het ddu, coler wen, a dillad brethyn, yw gwisgoedd y gwrywaid; a'r gŵn, y fonet, a'r clogyn, neu y *shawl*, gan y benywaid. Ac er fod cymaint o unfurfaeth, nid oes dim ar y ddaiar a chymaint o gyfnewidiadau yn perthyn iddo â'r gwisgoedd. A rhyfedd pamor gyflym y rhed "ffasiwn newydd" trwy y wlad weithiau. Byddai y cyfnewidiadau yn ngwisgoedd cenedl neu wlad am ddau neu dri chan mlynedd, yn destun darlith dyddorol i un o ddarlithwyr yr oes. Dywed un o'r beirdd fod "y dillad yn dangos y dyn." Diammheu fod y cyfnewidiadau mynych yn y ffasiynau gwisgoedd yn arwydd o gynnydd gwareiddiad ac addysg mewn cenedl; er mai prin y credwn y derbynid hyn fel athrawiaeth iachus gan bob perchen côb lwyd yn Nghymru. Beth bynag, y mae yn ffaith fod sefydlogrwydd dinewid yn ffasiwn gwisgoedd gwlad, yn arwyddo fod y wlad hono yn sefyll, heb na chynnydd na diwygiad ynddi. Lle byddo drychfeddyliau newyddion—y meddwl yn cael ei oleuo, ac yn ymëangu, a'r syniadau yn dyfod yn fwy rhydd a dyrchafedig, y mae yn sicr o ymddangos bob amser yn ngwisgoedd y bobl. Hawyr bach! beth yw yr olwg yna sydd ar wallt y foneddiges acw? Fffasiwn newydd eto, ai é? Ei gribo yn ol i gyd yn y gwrthwyneb, nes byddo yr holl dalcen a'r arleisiau yn y golwg! Y mae dywediad un hen bregethlwr yn ——— yn taro i'n meddwl wrth edrych arno. Yr oedd hwnw yn cael ei ffino yn dost gan y bobl oedd yn troi eu gwalltau, ac yn cadw "*topi*;" ac wedi gollwng cawod ofnadwy o fellt a tharanau unwaith ar benau y cyfryw, dywedai, "Ond dyua—trowch chwi ei flaen ffordd y mynoch, bydd y bôn yr un man o hyd."

Dyma y fan yr oeddem ni a chyfaill ddoe yn sefyll ar flaenau ein traed, gan estyn ein cegau fel crychyddion, i geisio cael golwg dros ysgwyddau rhai talach na ni ein hunain, ar dywysogion Oude, yn yr India, ynghyd a'u gosgordd, pan yn dyfod allan o'r Albion Hotel yna sydd gyferbyn â ni. Yr oedd yn ddigrifwch nid bychan i ni droi cil ein llygaid i weled ymdrechion diffino dyn bychan rhwng pedair a phum' troedfedd o hyd, i estyn ei wddf, a chodi ei ên, yn nghanol y dyrfa, ac wedi yr holl ymdrech, heb allu gweled dim ond cefn brethyn y nesaf ato. Ymwithiai dipyn y naill ochr wedy'n; ceisiai gael careg dan ei draed er rhoddi ychydig fodfeddi o fantais iddo ei hun, ac ymestynai eilwaith, gan godi ei drwyn ddigon uchel beth bynag, a rhoddi pob cymmal ar ei eithaf. Ond, *poor fellow!* nid oedd dim yn y golwg eto, ond awyr lās. Ei eithaf ef oedd cael cipolwg ar sinneu y tŷ. Bu yn orchesth galed ar ein cyfaill i gadw ei hun o fewn terfynau gweddeidd-dra wrth edrych ar benbleth y dyn bach. Gŵyr y

darllenwydd, mae yn debyg, fod teulu breninol Oude wedi dyfod drosodd i'r wlad hon er ys tro bellach i geisio rhyw ffafr gan ein llywodraeth. Y mae y tywysog ieuanc tua deunaw oed, yn gwisgo het ar ei ben yn debyg i ffurf coron, a rhyw hugan rhydd o frethyn auraid am dano. Yr oedd ei benguwch a'i holl wisg yn orchuddiedig âg aur. Edrychai yn ddigon siriol a diniwed. Am y tywysog arall, ei ewythr, yr hwn yw maeslywydd y fyddin, ymddangosai tua thriugain oed, yn ddyn corffol a dewr; ac yr oedd ei wisg yn debyg i eiddo y gŵr ieuanc, oddieithr ei fod yn gwisgo cap melyn bychan ar ei ben. Ond eu henwau ydynt y pethau rhyfeddaf; rhoddwn hwynt i lawr o gywreinerwydd, ond rhaid i chwi ddarparu eich peiriant llesaru os ydych am eu darllen. Dyma enw y tywysog ieuanc,—Abol Nusser Kaiwan-gudder Hoomayeon Jâh Quaiser Husshum Sahab Aulum Wullee Auhad Miza Mohummud Jowad Allie Bahadoor. Cymewch eich anadl cyn dechreu ar enw y tywysog hynaf. Yn awr ynte,—Sikunder Hushmut Dara Mertabut Sahab Aulum Miza Mohummud Jowad Allie Bahadoor. Gwarchod ni! Y mae yn ddigon o waith chwarter o ysgol i ddsygu eu henwau; a pha synwyr dyweyd nad oes dim mewn enw?

Y mae Cymry yn Manchester—floodd o honynt. Brodorion o Ogledd Cymru ydynt, gan mwyaf, ac ambell "hwntw" yn eu mysg; ac yr oedd yn dda genym ddeall fod sefyllfa naturiol a moesol y Cymry mor dda yno; er y gallai fod yn well, eto nid oes achos iddynt ostwng-pen yn ymyl Sais nac Ysgotyn, nac un genedl arall yno. Y mae yno lawer wedi gweithio eu hunain i fyny i sylw a dylanwad. Dygwyddodd i ni, yn ffodus, gyfarfod â Chymro oedd wedi derbyn y gradd aurhydeddus o M.D., pan nad oedd ond ychydig gydag ugain mlwydd oed; ac y mae yn para i ddringo i fyny ar hyd llwybr defnyddioldeb ac enwogrwydd. Y mae yn foneddwr caredig, difalch, a synwrol. Ac nid yw llettya hanner dwsin o ieithoedd dyeithr wedi peri iddo dafu iaith ei fam dros ei drohwy; ond y mae yr hen Omaraeg yn cael cystal lle a pharch â'r un o honynt. Dangosodd lawer o ryfeddodau y byd sydd yn anweledig oblegid ei fychandra i ni, trwy gymhorth ei chwydd-wydrau (*microscopes*) nerthol. Yr ydym yn ddigon boddlaw'n i'r Saeson gael ffurfio eu barn am danom fel cenedl wrth *specimen* o fath hwn. Ceir gafael ar Gymry yn y rhan fwyaf o sefydliadau Manchester; ac nid

"R un fath a'r Gibeoniaid,
A'r salaf swydd ymhob ryw fan,"

ond mewn sefyllfaoedd cyfrifol, ac o ymddiried. Beth? onid Cymro o'r enw Roberts a ddyfeisiodd beiriant nyddu yn Manchester tua deg mlynedd ar hugain yn ol, ac a dderbyniodd "*patent*" am dano, yr hwn a arferir yn awr ymhob melin yn y dref? Y mae un Cymro ieuanc yno yn awr, o'r enw Baines, newydd ddyfeisio dyfais i ddal yr "*Hoist*."—(math o gludai a ddefnyddir yn y melinau a'r *warehouses*, i godi a gostwng y nwyddau, tebyg i'r *carriage* sydd yn codi ac yn gostwng yn y pyllau glo) rhag syrthio i lawr pan fyddo y rhaff yn tori. Y mae damweiniau mynych yn cymeryd lle trwy doriad y rhaffau, a bywydau lawer yn cael eu colli. Ond y mae y ddyfais yma yn dal yr "*hoist*" yn y fan, pan doro y rhaff, heb iddo syrthio modfedd i lawr, faint bynag o bwysau fyddo arno. Yr oedd y gŵr ieuanc yma fel y clywsom i dderbyn ugain mil o bunau yn arian *patent* am

y ddyfais, a diwrnod wedi ei benodi i liaws o foneddigion yr ardal ddyfod ynghyd i weled y ddyfais yn cael ei phrofi. Y diwrnod blaenorol i'r uchod, er boddio ei hun a boneddwr arall, aeth Mr. Baines ac ychydig o ddwyllaw gydag ef, i wneyd prawf ar y ddyfais. Aeth ef a'r boneddwr a'i fab, a thri o weithwyr, ar yr "*hoist*," a chodwyd hwy i fyny arno i ben uchaf yr adeilad, yr hwn oedd yn anferth o uchel. Yn awr, yr oedd y rhaff i gael ei thori, fel yr oeddent wedi gwneyd droion o'r blaen. Ond pan oedd y gŵr yn codi ei law at y rhaff, diffygiodd ffydd y boneddwr a'i fab, ac ar darwiad, neidiasant oddiarno i'r ochr, lle nad oedd ganddynt ond ryw ddeuddeg neu bymtheg modfedd o ris i sefyll arno. A chyda eu bod yn gadael yr "*hoist*," dyna afael y rhaff yn colli; ac O ddamwain alarus! trwy ryw esgeulusdra, meddid, peidiodd y ddyfais a gweithio, a chwmpodd yr "*hoist*" a'r pedwar dyn i lawr i'r gwaelod fel caeg, gan dael y boneddwr a'i fab i sefyll ar y gris cul yn yr uchder dychrynllyd oddiarnynt. Bu un o'r dynion farw y noson hono yn yr *Infirmary*, ac un arall ymhen dau ddiwrnod; a drylliwyd Baines a'r llall yn beryglus iawn, er fod eu gwellhâd yn awr yn obeithiol. Y fath gyfnewidiad disymwth a siomedig! Bore dydd Llun, pwy oedd yn fwy llawen na Baines, a'i briod a'i blant bychain, a'i dad a'i fam, yn y rhagolwg ar lwyddiant a gwobr ei fedrusrwydd a'i lafur, yr hwn yr oedd bron wedi ei gyrhaedd? ond erbyn y noswaith hono, dacw y gŵr ieuanc yn hanner marw yn yr *Infirmary*, a'i holl berthynasau yn dŵr allan wrth y drws, mewn wylofaen a dagrau, yn methu cael myned i'w olwg! Gobeithiwn, er hyn, nad effeithia y ddamwain ofidus i attal y *patent* oddiwrth ein cydwladwr athrylithgar.

Y mae crefydd hefyd, o'u cymharu â phreswylwyr eraill y Ddinas, yn uchel ymysg Cymry Manchester. Y mae yno saith o gynulleidfaoedd Cymreig—tair yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd, dwy i'r Annibynwyr, un i'r Bedyddwyr, ac un i'r Wesleyaid, ac y mae rhwng saith ac wyth gant o aelodau yn perthyn i'r blaenaf. Ar ein hymweliad, cawsom yr hyfrydwch o wrando tri neu bedwar o bregethwyr Cymreig yno, a gwledd i ni fu eu gwrando. Buasai yn orchwyl digon hapus genym ysgrifenu adolygiad ar bersonau a phregethau pob un o honynt, yr hyn sydd wedi dyfod yn beth pur gyffredin bellach, ond ni oddef amgylchiadau i ni wneyd hyn. Ond, pa faint bynag oedd hyd a lled cyrff y pregethwyr, ffurf eu penglogau, eu talcenau a'u trwynau, lliw eu gwallt a'u llygaid, yr oeddent, i'n tyb ni, yn bregethwyr o'r iawn ryw,—wedi eu cymhwyso at eu gwaith, yn gyfarwydd â thestun mawr y weinidogaeth, wedi eu dysgu i'w drin, ei egluro, a'i gymhwyso,—yn rhai profedig gan Dduw a chan ddynion, yn weithwyr difeaf, yn iawn gyfranau gair y gwirionedd. Wrth eu gwrando, yr oeddem yn teimlo yn chwith na fuasai holl Saeson ac Ysgotiaid Manchester yn ddigon dysgedig i allu eu deall, er mwyn iddynt gael clywed yr efengyl yn ei gogoniant am unwaith allan o'r hen bulpudd Cymreig, a chael clywed pregethu nad yw ei debyg ond eithriadau pur auaml ymysg y Saeson. Rhydd i bob gŵr ei farn a rhydd i bob barn ei llafar; ac os caniateir y rhyddid hnuw i ni, dywedwn yn ddibetrus mai y Cymry dydynt y pregethwyr goreu o ddigon. Fe allai yr ymdaena gwen watwars dros wyneb llawer un wrth ddarllen hyn, ac y cyhuddir ni o anwybodaeth, o falchder, o gulni, ac o rywbeth gwaeth; ond rhaid cael mwy na hony cyn y newid-iwn ein barn. Yr ydym wedi gwrando amryw o brif bregethwyr y Saeson, a Spurgeon yn eu mysg, wedi clywed dynion eraill o farn a'u gwrandawsant

yn traethu eu syniadau am danynt, ac wedi darllen eu pregethau; ac ar ol pwysu a mesur mor deg ag y gallwn, yn gorfod penderfynu nad yw y pulpud Seisonig yn dyfod yn agos i'r pulpud Cymreig, mewn defnyddiau, ysbryd, na thalent pregethu. Yr oedd geirian un o'n beirdd yn ymrithio yn ein meddwl wrth droi adref o un cyfarfod, wedi gwrandao y pregethwr goreu a wrandawsom erioed,—

“Gwir, mai gŵr o Gymru ydyw,—
Ni chyfrifir Cymru 'n fawr;
Eto, ymgytadled *dacar*
Gyda ni, os myn yn awr.”

Yr oedd un Cymro sydd wedi myned at y Saeson, ac yn aelod gyda Dr. ——— (pregethwr o'r dosbarth blaenaf), yn dywedyd wrthym na chafodd ef bregeth gan ei fugail erioed yn rhagori ar bregethau yr ail ddosbarth o bregethawyr Cymreig; a phan fyddai blys arno ef am bregeth *dda*, ei fod yn myned i'r capel Cymreig i'w chael. Bu un offeiriad Cymreig, o farn a chwaeth ragorol, yn aros tro yn Llundaia y mis diweddfaf; a chafodd gyfleusdra i wrando y “*Great Guns*” ymysg yr holl enwadau yno. A buasai yn ddyddorol gan lawer ei glywed yn adrodd ei brofiad siomedig wedi dychwelyd. Dywedai, “ei fod yn drueni mawr na byddai yn bosibl newid a throi y pregethawyr Seisonig i bregethu i'r Cymry am flwyddyn, er dysgu y Cymry i werthfawrogi eu pregethawyr a'u gweinidogaeth Gymreig; ac anfon y pregethawyr Cymreig i bregethu i'r Saeson, iddynt hwythau gael cyfie i ddeall fod gwell i'w gael nag a wyddant hwy am dano.”

Cawsom yr hyfyrdwch o gyfarfod â'r anrhydeddus Neal Dow, o dalaeth Maine, yn America, sylfaenydd y “*Maine Law*” yno, a chawsom “sgwrso” ychydig ág ef. Dyn yn hytrach yn fyr o gorff ydyw, parod, a serchog, gwyneb crwn, o liw Americaidd, a gwallt gwineu a llaes yn cyrhaedd i lawr at ei ysgwyddau. Nid oes dim mawr yn ymddangos yn ei olwg; eto, y mae ei wynebpryd yn arddangosiad cywir a chyflawn o'r hyn ydyw. Buasai yn bur hawdd casglu, dim ond edrych yn graff ar ei wyneb, y byddai ei wisgiad yn syml, eto yn daclus, ei fod yn un manwl ei sylw, cyflym ei siarad, penderfynol ei feddwl, ymroddgar a diysgog yn ei ymgymeriadau, a'i fod wrth gerdded yn rhoi ei draed i lawr bob tro mor gadarn a sefydlog â phe buasai tunnell o bwysau ar ei ysgwydd.

“The face is a book,
Where men may read strange matters.”

Yr oedd ei ddyfodiad i Manchester wedi achosi cryn gynhwrf yn y dref. Dyben ei ymweliad â'r wlad hon yw cefnogi symudiad y *Maine Law*, neu, “Gynghrair y Deyrnas Gyfunol, er attal masnach mewn diodydd meddwol.” Amcan y symudiad yw cael gan y llywodraeth basio Cyfraith i attal gwerthu unrhyw ddiodydd meddwol. Y mae y symudiad yma wedi cynnyddu yn fawr yn y deyrnas hon yn gystal ág America. Manchester yw eisteddle y peiriant grymus hwn yn y deyrnas hon, ac nis gallai ei gyfeillion ddymuno lle gwell iddo. Nid oes na thraul na llafur yn cael eu harbed. Y mae cannoedd o bunnau yn cael eu gwario yn fisol, cenadau cyflogedig ganddo trwy yr holl deyrnas, a miloedd o gymdeithasau cynnorthwyol eisoes wedi eu ffurfio yn Nghymru, Lloegr, Ysgotland, ac Iwerddon. Ac hyd yma, y mae yn para i gynnyddu gyda chyflymdra rhyfeddol ymysg pob dosbarth

mewn gwlad a thref. Ac y mae ymweliad sylfaenydd aiddgar y symudiad hwn â'n gwlad ar y tymmor presenol, yn sicr o roi gwynt newydd yn ei hwyliau eto. Carem yn fawr weled rhyw foddion yn tycio i symud mell-dith y diodydd meddwol oddiar ein gwlad. Y mae ein calon wedi gwaedu lawer gwaith wrth weled cyfwr truenus dynoliaeth dani. Buom yn edrych i mewn i ryw hanner dwsin o brif *gin shops* Manchester rhwng wyth a naw o'r gloch nos Sabbath; ac mewn amryw, yr oedd cymaint o gynnulleidfa, o wŷr a gwragedd, hen ac ieuainc, ag a welir mewn llawer capel yn Manchester ar nos Sabbath. Dylai Cristionogion ein gwlad ddyfeisio a chefnogi moddion i ddyfod i gyffyrddiad â'r miloedd trueiniaid yma, sydd a'u cyrff a'u heneidiau yn pydru yn y fath ffauau llygredig ac uffernol. Y mae Neal Dow yn gryf yn ei farn y daw y diwrnod yn fuan pan fydd y gyfraith i ddiddymu y fasnach yma yn gwbl wedi derbyn sel y llywodraeth yn Mrydain ac America. Yr oedd edrych ar ystafell éang *Free Trade Hall*, Manchester, yn cael ei gorlenwi yn ngwahanol gyfarfodydd y cynghrair, o gefnogwyr gorfrydig, a chofio mai yn yr un lle y bu yr un pobl, mor ddiweddar, yn ymladd, ac yn ennill buddugoliaeth ogoneddus a bythgofiadwy yr *Anti-Corn-Law-League*, yn ennyn hyder a ffydd ynom yn y symudiad hwn. Beth bynag, os na lwydda i gyrhaedd ei amcan eithaf, yr ydym yn credu yr esgor y cynhyrriad grymus presennol ar ryw ddiwygiad pwysig i'r byd.

Mae ein hysgrif yn myned yn fwy na'n dysgwylid cychwynol, a rhaid i ni ymattal. Yr oeddem yn bwriadu wrth ddechreu, arwain y darlennydd trwy rai o'r parciau yn Manchester a Salford, trwy hen adeiladau, sefydliadau darllen, i ddau neu dri o deuluoedd ag yr oedd genym rywbeth i ddyweyd am danynt, hyd at ddrws yr Arddangosiad o Drysorau Celfyddydol,* yr hwn sydd bellach wedi ei agor, ac heibio rhai o "ddynion mawr" Manchester, os oes y fath fodau i'w cael yno; ond er mor ddifyr fuasai, rhaid i ni eu gadael ar ol. Wrth ganu yn iach i'n cyfeillion yno, a throi i gymeryd yr olwg ymadawol ar y ddinas, yr hon nad yw ond gweithdŷ mawr, tybiem ein bod yn rhagweled y diwrnod pan fydd cymdeithas wedi gweithio ei hun yn rhyw enaid i holl fater y byd hwn, fel y mae rhan ysbrydol dyn yn enaid i'w gorff; a holl elfenau natur i gyd wedi eu darostwng mor ufudd a pharod at wasanaeth cymdeithas, ag yw natur yn y corff dynol at wasanaeth yr ysbryd sydd yn preswyllo ynddo.

ARDDANGOSIAD TRYSORAU CELFYDDYD.

Ar ddiwrnod teg a hafaidd yn niwedd mis Mehefin diweddf, cawsom yr hyfrydwch o fyned tua Manchester i weled Arddangosiad Trysorau Celf-

* Arweinir ni i mewn i *Exhibition* Manchester gan ysgrifenydd arall yn yr erthygl ddilynol i hon.

yddyd, fel ei gelwir. Ac er ein bod a'n bryd yn benaf ar gael gweled y darluniau enwog sydd yno, nid oedd sawr lai o bleser i ni fwynhâu y golygfeydd oedd yn daenedig o'n blaen, ar bob llaw i ni, wrth deithio tuag yno. Yr oedd natur yn ei gwisg oren, a'i gwedd flodeuog, dirf, ireiddlawn, dan dywyniad melynaidd yr haul. Weithiau y dyffryn llawn a'r ochrau coediog a ymddangosai i'r golwg; ac arogl peraidd y gwair yn cael ei drin, yn cyfarfod y ffroenan. Bryd arall, caem y creigiau serth yn gwgu i lawr ar y weilgi lydan, yn ein hymyl, a rhyw dir pell megys yr ochr draw i'r môr, yn y tynerwch mwyaf sidanaidd. Gwelid yr awyr weithiau yn glŵr, bryd arall yn frith gan fân gymylau, yn taffu eu cysgod ysgafn ar y tir, neu y môr, i amrywio eu gwedd. Sicrhâu mewn cof a chadw, ar y ddarlunlen, rai o'r golygfeydd gogoneddus hyn yw dyben yr arlunydd; a byddwn yn teimlo yn ddiolchgar iddo am ei wasanaeth, pan gyfarfyddom eilwaith â hwynt wedi eu hanfarwoli ganddo; oblegyd sydyn iawn eu hymddangosiad, a byr eu parhâd i ni mewn natur, ydynt.

Ar ol rhyw awr o deithio oddiwrth Gaer, daethom at dref o adeiladan lled hardd, ac amryw weithfaoedd i'w gweled ynddi; ond buan y gwybuwyd nad Manchester ydoedd (cans cofied y darlennydd mai dyma y tro cyntaf i ni fyned y ffordd hon), oblegid yr olwg gryno a therfynol oedd iddi: yr oedd yn bosibl ei gweled ar unwaith, a chynnwys rhyw ddrychfeddwl rheolaidd am dani, o ran yr olwg allanol. Nid felly yr oeddem yn dysgwyl cael Manchester; ac yr oedd ein dysgwyliad yn gywir—Warrington ydoedd hono. Wedi teithio am ryw awr arall, heb weled dim yn neillduol yn ngwlad y Sais, ond gwastadrwydd unrhywiog; dim ond y coed a'r gwrych-oedd yn ei haddurno, ac ambell ardd flodau yma ac acw ynglyn â'r gorsaf-oedd, a phalasau boneddigion yn dyfod i'r golwg weithiau rhwng y coedydd,—deallasom ein bod yn agosáu at Manchester. Ond er gwneyd ein goreu i gael golwg ar y dref sawr cyn myned iddi, ni chawsom. Aethom iddi yn raddol, nas gwyddom pa sut, ond yn unig ein bod yn gweled tai ar bob llaw i ni yn lle y coed a'r caeau. Arosodd y gerbydres o'r diwedd, a gollyngwyd ninnau o honi, i ganol berw yr heolydd, heb wybod ar ba law i fyned, neu pa heol i gymeryd, y rhai oedd yn ymwasgaru i bob cyfeiriad, yn ddiderfyn, er a wyddem ni. Nid oedd yr un o honom fel cwmpeni wedi bod yma o'r blaen, a digon annifyr yw myned i le dyeithr am y tro cyntaf, heb un pwynt neillduol genym i gyfeirio ato fel lletty. Ond trwy daro ar gyfaill o'r un dref â ni, cawsom ein harwain ganddo i le cymhwys a chysurus. Yr oedd yr heolydd, erbyn edrych, yn llawn o fanerau yn chwifio, bwâu ar eu traws, a phob math o addurniadau ar y masnachdai a'r nwydd-dai mawrion ymhob man: yr hyn oedd yn dangos ar unwaith fod y Frenines i ymweled â'r lle. Deallasom fod dysgwyliad am dani y noson hono i Worsley Hall, preswylfa yr Iarll Ellesmere; a'i bod i fyned mewn gorymdaith, bore drannoeth, trwy y dref, i'r Arddangosiad. Drannoeth a ddaeth, ac erbyn myned allan o'n lletty, yr oedd yr heolydd lle yr oedd y Frenines i fyned heibio yn dŷnion o drigolion y dref a'r wlad, ac orielau mawrion wedi eu gwneyd i fod yn lleoedd cyfleus i weled yr olygfa. Trwy ryw ffawd dda, cawsom ninnau le cyfleus i weled y cyfan o'r dechreu i'r diwedd. Yr oedd ein safle wrth ddrws masnachdŷ James Baines, yn Piccadily. I aros yr orymdaith i ddyfod, yr oedd raid i ni ddifyru ein hunain goreu ag y gallem trwy edrych ar yr ymdrechidau oedd yn cael eu gwneyd gan bob dosbarth o'n deutu i sicrhâu eu mantais

i weled. Yr oeddem weithiau yn cael achos i'n calonau waedu wrth weled ambell dlawd ac anghenus, heb braidd ddigon i guddio ei noethni, yn ceisio gwthio ymlaen i fwynhâu yr olygfa, fel pe buasai hyny yn waredigaeth iddo o'i gyfyngderau. Dacw un hen wraig neu fam dlawd bron colli y dydd yn nghanol y dorf gan y gwthio : y boneddigesau ieuainc yn cael rhywrai i gymeryd eu plaid a'u cynnorthwyo i leocedd da, ond yr hen fam deneu ei gwedd, a llom ei gwisg, druan, yn cael ei thosio yn ol ac ymlaen, fel pe na buasai le i fod iddi hi ar y ddaear. Dacw wraig dlawd arall heb ddim am ei phen, a phlentyn ar ei braich yn crïo, am fwyd, fe allai. Ond rhaid rhoddi heibio aros ar y pethau hyn ; dyma y Frenines yn dyfod ; a dyma wrthgyferbyniad. O fyd rhyfedd yw hwn ! Effaith pechod i fesur mawr yw yr eithafion, hyn, y mae yn debyg, rhwng dosbarthiadau â'u gilydd mewn cymdeithas ; ond mae yn drugaredd na byddai yn waeth—na buasem

"Oll agos â llewygu."

Tua hanner dydd ydyw ar gloc yr *Infirmery* sydd yr ochr draw, a dacw y ffynnonau yn nghanol y llynoedd addurniadol, o faen yr adeilad ardderchog hono, yn cael eu gollwng ar unwaith gyda eu gilydd i saethu eu dwfr i entrych yr awyr. Ar y fynydd y mae y gosgorddu o filwyr yn eu dillad cochion ar gefylau yn myned heibio â'u plu gwynion ar eu penau yn ysgwyd yn y gwynt. A dyma y rhestr cerbydau yn dyfod ymlaen, yn llawn o fawrion y tir, yn gwneyd i fyny y gydgoraith ardderchog. Yr oedd ei Mawrhydi yn edrych yn dda, ac yn plygu ei phen ymlaen yn barhâus, mewn cydnabyddiaeth siriol o deyrngarwch ei deiliaid ffyddlaw. Yr oedd y Dywysoges Freninol a'r Tywysog o Prwssia yn yr un cerbyd â'r Frenines a'r Tywysog Albert, a Thywysog Cymru mewn cerbyd arall. Yr oedd yno wers dda yn yr amgylchiad i Dywysog Prwssia, ac etifedd y goron yno mae yn debyg : diogelwch rhyddid a chwareu teg i'r deiliaid mewn llywodraeth wladol ; a gallem ddysgwyl iddo ei chymeryd, oblegid yn ol yr hyn a glywsom am dano o enau Merle D'Aubigne, ac eraill, y mae efe yn ŵr ieuanc gobeithiol.

Y mae y Tywysog Albert yn deilwng o sylw mewn cysylltiad â'r Arddangosiadau, sydd erbyn hyn wedi myned yn rhai o ddefodol bethau yr oes a'r byd. Efe a roddodd gychwyn iddynt ar y cyntaf, yn sefydliad yr Arddangosiad Mawr yn Hyde Park, i'r hwn y casglwyd nwyddau o bob parth o'r byd. Wedi hyny cafwyd un cyffelyb iddo, ond nid cystal, yn yr America ; ac un tra dyddorol, ond llai ei faintioli, yn Dublin,—dyddorol yn benaf, yn ol yr addefiad cyffredin, oblegid fod yno liaws o ddarluniau o'r fath oreu o amryw wledydd ; ac yn awr dyma Arddangosiad yn Manchester, yn cael ei wneyd i fyny agos yn gwbl o ddarluniau Prydeinig a Thramor, hen a diweddar, yn egluro codiad a chynnydd celfyddyd yn ngwahanol oesoedd y byd. Heblaw ei wasanaeth cyhoeddus gyda y pethau hyn, y mae y Tywysog Albert yn wastad yn barod i roddi ei ddylanwad o blaid pob cymdeithas dda, a sefydliad elusengar yn y deyrnas ; o blaid addysg, a llawer o symudiadau daionus. Pan fyddo yn siarad yn gyhoeddus o blaid y pethau hyn, bydd agos yn wastad yn areithio yn well na phawb arall : yn dangos cydnabyddiaeth â'i bwnc, a medrusrwydd mawr yn ei drin, yn gystal a zel drosto. Yr oedd y pethau hyn yn amlwg iawn ynddo yn y Gynadledd Addysg a gynnaliwyd yn ddiweddar dan ei lywyddiaeth yn Llundain, i chwilio i ansawdd bresennol Addysg, a pha foddion i'w harfer i ddwyn y

plant yn fwy llwyr dan ei dylanwad. Yr ydym yn gwled yn hyn un o arwyddion goreu yr amserau : y rhai sydd yn y sefyllfaoedd uchelaf yn y deyrnas yn flaenoriaid y bobl mewn gwybodaeth a daioni. Bu amser pan nad oeddnt, yn gyffredin, yn enwog ond am eu sefyllfa yn y byd yn unig; ond yn bresennol y mae llawer o honynt yn eiddigedus iawn am ragori mewn defnyddioldeb hefyd. Gellir dysgwyl amddiffyn Rhagluniaeth ar y deyrnas tra byddo cymaint o'r dosbarth pendeigaid ag y sydd yn bresennol, yn cydymdrechu â'r rhai islaw iddynt, mewn gwneyd daioni. Yr oedd raid i'r Tywysog a'r Tywysogion ieuainc gael treulio un diwrnod i ymweled â'r melinau a'r gweithfeydd mawrion yn y dref cyn ymadael, i ymgynabyddu yn well â phrif ffynnonell diwydrwydd a masnach y deyrnas.

Ond, y mae yn bryd i ni bellach ddyfod at yr Arddangosiad ei hun i gymeryd golwg fras arno. Wedi i'r teulu breninol fod ynddo, a derbyn amryw gyfarchiadau, a chyflawni amryw ddefodau,—crêu Maer y dref yn Farchog, &c.; cawsom ninnau ryddid i fyned i mewn, a gwledda ein llygaid i'r eithaf ar y weledigaeth—yr oreu a gawsom erioed o drysorau celfyddyd.

Yr ydym yn teimlo graddau o anhawsder i ysgrifenu am yr Arddangosiad hwn, yn bresennol, o herwydd dyeithrwyth y pethau fydd genym dan sylw i iaith a llênysdiaeth y Cymry; ond eto nis gallwn lai na meddwl eu bod yn bethau o ddyddordeb cyffredinol i bawb fel eu gilydd—dyddordeb mor gyffredinol ag yw prydfferthwyth natur ei hun, lle bynag ei canfyddir gan y llygad dynol; er nas gallwn deimlo yr un rhyddid a hwylusdod wrth son am danynt yn y Gymraeg âg yn y Saesoneg.

Mae yr adeilad yn un hardd ac âng, ar yr un cynllun â hafdy (*summer house*) mewn gerddi, y tô yn fwâog : adeilad hir, cul ydyw, yn driphlyg, y canol yn uchaf, wedi ei adeiladu o haiarn, coed, a gwydr, yn benaf. Y mae yn sefyll ar ddeunaw mil o latheni ysgwâr, ac yn saith mil o droedfeddi o hyd. Wedi myned i mewn, y mae yr olygfa bron yn orchfygol, wrth edrych i lawr y cyntedd hirfaith o'n blaen, hyd yr Organ fawr sydd y pen draw, y delwau marmor gwynion yn ddwy res, a'r darluniau ar y parwydydd bob ochr, arfwisgoedd ar geffylau, a chistiau gwydr yn llawn o bob math o lestri aur ac arian o bob maintioli a ffurf, gemau a thlysau o bob math.

Wedi cerdded ymlaen tuag at yr Organ i'r pen uchaf i'r neuadd fawr ganol, dyma ni yn troi o honi ar yr ochr ddeheuol, i'r neuadd A, neu y gyntaf yn ol fel y maent wedi eu rhestru a'u nodi. Y mae y darluniau sydd yn y neuadd hon yn arddangos celfyddyd o'i hadfywiad cyntaf yn y drydedd ganrif ar ddeg, at ei hail flagur tua diwedd y bymthegfed ganrif. Ar ein mynediad i mewn, tarawyd ni â syndod wrth weled pethau mor wael, wedi eu gosod ar y parwydydd dan yr enw Trysorau Celfyddyd; y gwaith mwyaf anystwyth, crai, ac anaddefed a ellid ei weled; a golwg blentynaidd ar y cyfan. Ond pa ryfedd, erbyn ystyried? plentynaidd oedd yr oes hono ar gelfyddyd. Fel y mae oes dyn yn dechreu gyda phethau plentynaidd, felly y mae cymdeithas hefyd, ac yn codi yn raddol megys i oedran gŵr mewn cynnydd a diwygiad. Er i'r Groegiaid unwaith fod yn enwog am eu cerfwaith a'u darluniadaeth, a bod rhai o'u cerffuniau hyd y dydd hwn yn gynlluniau o'chwaeth a medr i gelfyddwyr goreu y byd, yr oeddent erbyn O. C. 1000, wedi myned yn druenus o analluog ac isel mewn celfyddyd; a Rhufain yr un modd. Y mae amryw bethau yn hanfodol i wir wareiddiad,

ac i barhâd llwyddiant unrhyw deyrnas neu genedl megys, crefydd—gwir grefydd, rhyddid gwladol a masnachol, ac addysg gyffredinol. Lle byddo diffyg y naill neu y llall o'r pethau hyn, nis gellir dysgwyl hir lwyddiant i unrhyw genedl. Caercystenyn, neu Byzantium fel ei gelwir yn fynych yn ol ei henw henafol, a fu yn noddfa celfyddyd tua yr amseroedd a nodwyd, ac yn raddol yr ymdaenodd oddiyno dros yr Ital; a phan y dygwyd hen gerfluniau Groegaidd o'r oesoedd clasurol i'r Ital, diwygiwyd llawer arni. Un o hynodion y darluniau Byzantiaidd ac Italaidd y dyddiau hyn, yw fod y gwrthdychau yn gyffredin wedi eu paentio ar gylch gwastad goreuredig o aur. Yn yr hen amserau, yr oedd cael ardeb wedi ei baentio ar gylchwy o aur felly, a'i osod i fyny mewn teml neu le cyhoeddus, yn cael ei ystyried yn anrhydedd mawr; a chyfyngid hi yn gyffredin i wroniaid a rhai wedi bod o wasanaeth cyhoeddus i'r genedl. Fe ellir gweled y cylch hwn yn barhâus, naill ai yn llinell fain o amgylch y pen, neu fel dysgl y tu cefn iddo ar y pared, yn yr holl hen ddarluniau paganaidd ac eglwysaidd hyn. Byddid yn gorchuddio yr awyr weithiau hefyd ag aur, pa reswm bynag oedd ganddynt dros wneyd hyny. A dyma lle y maent i'w gweled yn eu holl amrywiaeth yn y neuadd hon. Yn raddol, rhoddyd i fyny y pethau hyn, ynghyd a'r caethiwed a fyddai crefydd yr oes yn osod ar y celfyddwyr yn y dyddiau hyn, megys gosod seintiau ac apostolion mewn rhyw ffurfiau penodol, a lliwiau neillduol, yr hyn oedd yn rhoddi golwg unrhywiog ac anystwyth i'r darluniau. Yr oedd gwyn, meddir, yn arwydd o burdeb; glas, o wirionedd dwyfol; coch, o gariad dwyfol, &c.

Tua dechreu y bymthegfed ganrif, cododd un o'r enw Masaccio, gŵr o athrylith a gwreiddioldeb annibynol, yr hwn a roddodd wedd newydd hollol i gelfyddyd, trwy gymeryd natur ei hun fel unig arweinydd, a rhoddi golwg sylweddol i'w wrthdychau trwy offerynoliaeth goleu a chysgod yn eu holl wasanaeth i'r darlun, fel y gwelir hwynt mewn natur, nes y byddent yn sefyll allan, megys yn rhyddion oddiwrth y ddarlunlen; a thrwy roddi golwg fynegiadol i wynebau ei ddynion. Yr oedd yr hen ddarluniau cyn hyny yn gynnwysedig yn benaf o amlinell a lliw; er fod Cimabue, yr hwn a elwir yn dad celfyddyd Italaidd, wedi gweithio yn lled dda, a diwygio llawer ar yr hen ddull. Bu Michael Angelo a Raphael yn efrydu ac yn efelychu gwaith Masaccio, ymhen amser wedi hyny, yn nwyllaw pa rai y codwyd celfyddyd i sefyllfa uwch nag y bu ynndi wedi eu dyddiau hwy, yn ol y syniad cyffredinol. Gan fod yr enwogion hyn wedi bod dan sylw o'r blaen yn y TRÆTHODYDD,* nid ymhelaethwn arnynt yma. Correggio hefyd sydd yn sefyll yn uchel yn y dosbarth cyntaf o gelfyddwyr, ac yn uchaf o honynt oll mewn rhai pethau.

Mae yn debyg nad oes yn y neuadd hon mo'r enghreifftiau goreu o waith enwogion y cyfnod goreu ar gelfyddyd Italaidd. Mae yma ddau o waith Michael Angelo, fel y tybir; ac wyth neu naw o waith Raphael. Mae y fam a'r plentyn yma bedair gwaith—yn enwog am ystwythder yr amlinell, a golwg serchog a naturiol y fam a'r plant. Dylid dyweyd fod un ochr o'r neuadd hon wedi ei rhoddi i'r Ellmyn, tra mae y llall gyferbyn â hi yn Italaidd; felly y mae y naill genedl wedi ei gosod gyferbyn â'r llall yn eu gwaith boreuaf a'u cynnydd graddol. Mae yma un neu ddau o waith Jean Van Eyck, yr hwn a ystyrir yn awdwr arlliwio mewn olew, gwaith manyl-

* TRÆTHODYDD am 1849, tu dal. 166—177.

aidd a da. Memling a Mabuse oeddynt weithwyr manylaidd a chywrain o'r hen ysgol. Dywedir fod Mabuse wedi bod saith mlynedd wrth No. 436, "Addoliad y Breninoedd." Dyna y "Cybyddion" hefyd gan Quintin Matsys (445) o gasgliad ei Mawrhydi, un hen Gyb. yn chwerrthin yn nghil ei foch, wedi gwneyd bargaen dda, a'r llall yn ofalus iawn yn rhifo yr arjan, neu yr aur yn hytrach, rhag rhoddi un darn yn ormod i lawr, am y peth a brynodd. Yr oedd Quintyn, medd ei hanes, wedi syrthio mewn cariad â merch i arlunydd, yr hwn ni roddai ei llaw i neb ond i arlunydd fel ef ei hun; gôf oedd yntau; ond gadawodd ei hen gelfyddyd, a dysgodd arlunio yn ddigon da i gael meddiant o wrthddrych ei serch yn wraig iddo. Y mae hwn yn waith pur gywrain i'r oes y gwnaed ef ynddi. Albert Durer oedd yn gelfyddwr enwog yn yr Almaen yn amser Raphael—enwog fel crifwr (*engraver*), peirianydd, ac ysgrifenydd ar gelfyddyd, yn gystal ag arlunydd. Yr oedd yn amrywiaeth ei alluoedd yn dra thebyg i Leornado da Vinci. Mae yma amryw o'i waith yn dangos gallu, manylder, a dichlynrwydd. Dyma Etholydd Sacsony, Luther, a'r diwygwyr, gan Lucas Cranach, darlun o gryn ddyddordeb, i ni fodd bynag. Dyma yr enwog Erasmus hefyd; wedi dyfod o gasgliad y Frenines. Yn olaf, y mae yma bedwar o ddarluniau o waith Correggio, o 165 i 168, y rhai sydd yn dangos priodoliaethau goreu celfyddyd, yn eu llawn nerth. Medrai ef yn anad neb wneyd y cysgod i edrych yn dywyll heb fod yn ddu, y goleu yn oleu heb fod yn wyn; ond y cyfan yn dryloew ac ysgafn, *luminous* fel y dywedir. Rhoddai olwg sylweddol, lewyrchus, a bywiog i'w waith, a medrai wneyd i'r wyneb fynegu meddwl a theimlad y person. Ond ei enwogrwydd penaf sydd yn y goleu a'r cysgod (*chiar-oscuro*). Un o feddwl isel am dano ei hun ydoedd; "nis gallai gredu ei fod yn gwybod dim yn iawn am ei gelfyddyd, gan fel y byddai yn gweled natur yn wastad y tu hwnt i'w gyrhaeddiadau ef i'w chyflawn efelychu. Yr oedd yn syml a dichlynaidd ei fywyd, yn foddllawn ar ychydig, ac yn byw fel cristion," medd ei hanesydd.* Ymddengys mai wrth efrydu natur yn benaf, os nid yn gwbl, y cyrhaeddodd y fath berffeithrwydd yn ei waith, ag sydd yn gwneyd ei ddarluniau yn brif bethau, (*chef d'ouvres*) y gwahanol gasgliadau Ewrop-aidd.

O'r neuadd A, yr ydym yn myned i'r Cyntedd cyntaf, lle y mae amryw ddarluniau Italaidd da.

Oddiyno yr ydym yn myned i neuadd B drachefn, lle yr ydym yn cael amryw o waith Titian, un o'r dosbarth blaenaf oll mewn celfyddyd yn ei holl gangenau hanesyddol ac ardebol. Dyma y fan i aros ychydig. Wele Rubens, Vandyck, Nicolo, a Gasper Paussin, ynghyd a'r Carracci, yn eu holl ogoniant o'n blaen. Y cyntaf i ddyfod dan ein sylw yw '310, "Y Tair Mair," gan Annibale Carracci, yr hwn a ystyrir yn un o'r rhai goreu yn yr Arddangosiad; ei berchen yw Iarl Carlisle. Ei brif nodwedd yw *gwired*—y cyfan wedi ei wneyd mewn cywirdeb a ffyddlondeb i natur o ran y gwaith, ac o ran ystum y ffigyrau a gwedd eu gwynebpryd. Y maent yn sefyll allan yn fyw, ac fel pe byddent yn ysgogi o'n blaen. Y mwyaf meistrolgar a galluog o ran cynllunio darluniau, fe allai, yw Rubens, o leiaf ymysg yr Eilmyniaid. Efe a hynododd ei hun fel cenadwr heddwch i Loegr dros y llywodraeth Yspaenaidd, yn gystal ag fel arlunydd o'r radd

* *Vasari's Lives of the Painters.*

enwocaf. Hynodion ei ddarluniau yw, gallu, dyfais, a medr; wedi eu gyru yn fynych i eithafion gormodol, fel pe mynai ddangos nad oedd ond megys chwareu iddo gyflawn y pethau anhawddaf; ac felly ymddangosant yn fynych yn arwynebol ac anorphenol. Y maent hefyd yn rhy addurniadol o ran dullwedd, a rhy gyffrous neu derfysgld o ran cyllun, a rhy ddysglær o ran lliwiau yn fynych, o ddiffyg gofalu am fod yn gywir i natur. Felly nid ydynt mor naturiol a boddhäol i'r llygad ag y dylent fod. Vandycyk a Snyders oeddynt ddysgyblion iddo ef. Am y cyntaf, gallwn ddyweyd ei fod yn ardebydd heb ei fath; mae penau ei ddynion yn sefyll allan yn eu crynswth, y tebygolrwydd yn berffaith, meddir, a'r lliwiau yn hynod o naturiol, graenus, bywiog, a chynhes, fel pe bae y gwaed odditanodd. Gasper Paussin yw un o'r *Landscape Painters* goreu (henafol); y mae yma amryw o honnynt yn edrych yn nerthol a naturiol iawn, ond eu bod wedi tywyllu, dybygid, ar ol eu gwneyd. Y mae Nicholas hefyd yn un o'r arlunwyr hanesyddol goreu. Hel y baedd gwyllt a phethau cyffelyb yw gwaith Snyders, ac y mae yn dwyn nodwedd ei feistr yn ei holl waith, ond yn meddu gallu anarferol o'r eiddo ei hun mewn gwneyd cŵn a phob anifeiliaid. Y mae ei gŵn yn fwy ffyrnig, ac wedi eu tynu ymhob gwedd a ffurf, a'u traed i fyny, yn gystal a'u traed i lawr. Am yr Ellmyniaid fel dosbarth, nis gellir dyweyd eu bod yn hapus yn netholiad gwrth-ddrychau eu darluniau—nid ydynt byth yn dangos chwaeth uchel yn y ffordd hono; ond eu rhagoriaethau hwy ydynt amlwg yn y driniaeth o'r gwrthddrychau—eu glewder yn trin y goleu a'r cysgod, y lliwiau, &c., priodoleddau cyffredinol natur, nes ydynt yn rhoddi dyddordeb nid bychan i bethau cyffredin ac annyddorol ynddynt eu hunain; felly am y *Dutch School* yn enwedig.

Onid dyma ni allan o'r Neuadd B, eto, i'r Cyntedd 2, lle mae gwaith Marrillo, yr Yspañwr enwog. Nid oes modd rhagori, dybygid, ar y lliwiau tyner, twymwriddog, a'r arluniad sylweddol a chywir yna sydd yn ei "Ecce Homo,"* ac eraill o'i amgylch. Y mae ei ddynion yn dangos holl nodweddion gweledig bywyd ac ysgogiad: y mae ei holl waith fel wedi ei wneyd gyda y blas a'r plaser mwyaf.

Onid rhag bod yn rhy faith, fel y dywed ein gwŷr cyhoeddus weithiau, rhaid i ni frysio ymlaen; a dyma ni eto yn y neuadd C. Dyma lle y mae Rembrandt yn ymddangos i ni yn ei athrylith ardebol yn gystal a hanesyddol. Neillduolrwydd ei waith ef yn gyffredin yw, ei fod yn gollwng un pelydr bychan main o oleuni i fewn i'w ddarluniau, fel ag i ddisgyn ar y wyneb yn unig, neu y prif beth yn y darlun, a chadw yr oll o gwmpas mewn tywyllwch graddol a darostyngiad i'r man penaf hwnw. Felly y mae yn gosod bri ar yr hyn sydd o fwyaf pwys yn ei ddarlun. Un o'i orchestion ef hefyd yw y sydynrwydd, ac ar yr un pryd y tynerwch, gyda pha rai y mae y goleu a'r cysgod yn toddi i'w gilydd yn ei waith. Iuddew ydoedd, a gwnaeth lawer o gyfoeth oddiwrth ei waith, wedi iddynt gael eu canmawl gan ryw un o chwaeth adnabyddus yn y cyfryw bethau. Dyma brydnawn tawel, hyfryd, a melynaid gan Cuyp, 712: yr awyr i gyd yn oleu, a'u pellder yn cael ei golli yn raddol yn y goleu awyrol hwnw. Campus oedd Cuyp am brydnawnau tawel.

Wedi gadael neuadd C, yr ydym yn rhoddi tro drwy yr oriel yn ymyl

* "Wele y Dyn"—gair Pilat.

y porth; ac yn ein mynediad i fyny y grisiau, y mae hen "Olygfa o Charing Cross," gan Canaletti, yr hon sydd nodedig am ddynwarediad cywir o natur, heb ddim mwy na llai, a gwera i'r *Pre-Raphaelites*,* yn dangos y gellir gwneyd pob peth yn fanwl a pherffaith fel natur, heb y murendod barbaraid y maent hwy yn ymorfoleddu ynddo. Yr ochr arall i'r oriel, y mae amryw o ddarluniau o waith un o brif arlunwyr yr oes yn Ffrainc (ganedig o'r Almaen), Ary Scheffer; rhai o honynt wedi eu rhoddi yn fenthyg, gan Mrs. Schwabe, Glyn y garth. "Crist yn dysgu Gostyngeiddrwydd," a gafael yn llaw plentyn, yn edrych i fyny arno, sydd yn enghraifft pur dda. Mae y lliwiau o'r fath swyaf sobr, a'r cyfan o'r gwaith wedi ei gadw i lawr megys mewn niwl gwan, ac felly yn edrych yn dra swynol neu ysbrydoledig: math o adlewyrchiad meddyliol o'r ffaith hanesiol ydyw. Mae y wynebpryd yn waraidd a dyrchafedig. Wrth fyned i lawr y grisiau yr ydym yn pasio darlun o waith Penry Williams o Rufain, gynt o Ferthyr Tydfil: yr hwn sydd yn waith diwair a da, y gwynebaw yn dra mynegiadol, ei enw yw "Pererinion Italaidd." Cymro yw P. Williams wedi bod yn paentio tai, a gwydro ffenestri yn Merthyr gyda ei dad, pan yn ieuanc, ond a gyfododd i fyny yn un o arlunwyr penaf yr oes dan nawdd y Meistri Crawshays.

Bellach, dyma ni yn troi ar y ddê i Neuadd D, lle y mae gwaith y celfyddwyr Prydeinig yn unig. Yn eu mysg, y cyntaf i dynu sylw yw Richard Wilson, a'r goreu o honynt hefyd, a dyweyd yn ddiuedd. Tad y *Landscape Painters* yn Lloegr y gelwir ef; a'r goreu o honynt yn ddiau ymhob oes a thrwy bob parth o'r byd. Nid am ei fod yn Gymro yr ydym yn dyweyd hyn: pe buasai yn Affricaniad, buasai raid i ni ddyweyd yr un peth; eto yr ydym yn falch o hono mai Cymro ydyw. Ymddengys ei olygfeydd ef fel pe byddent wedi eu gwneyd dan ddylanwad rhyw ysbrydiaeth neillduol, athrylith, awen, neu anian, nis gwyddom yn iawn pa beth i'w alw; ond ein meddwl yw, fod ynddynt, nid yn unig ddynwarediad cywir o wrthddrychau natur, eithr fod swyn yr olygfa wedi ei ganfod ganddo a'i deimlo i'r byw, a'i osod ar y ddarlunlen yn y modd mwyaf effeithiol. Y mae gwir farddoniaeth natur yn ei holl waith. *Romantic* yw y gair a ddefnyddir gan y Saeson wrth osod allan brif nodwedd ei ddarluniau. Pa air Cymraeg a ddefnyddiwn am dano nis gwyddom oddieithr y *dychymyggol*. Mae yr olwg èang, fawreddig, a swynol, sydd ar ei waith yn ei osod ymhell uwchlaw neb a adwaenom o'r rhai galluocaf yn yr un gangen ag ef. Sonied y Saeson am eu Turner, os mynant; ond nid aeth efe erioed mor ddwfn i ysbryd natur â Wilson, heb son am ragoriaeth y gwaith ei hun, ac atherwch gwaith y gŵr nwythus hwnw. Y mae yr olwg hon, "*Vale of Llangollen*," yn un o'i rai goreu,—y fath olygfa dawel hyfryd—y fath orphwysfa ddedwydd,—yr hen bont a'r pentref yn llechu yn nghysgod y mynydd, a'r haul yn tywallt ei belydrau euraidd, prydawnol, ar gopa clegyr Dinas Bran, ac ar frigau y coedydd. Edward Lloyd, Ysw., yw y meddiannydd. Dyma un arall o'r un olygfa: meddiannydd, Syr Watcyn. Gelwir hi "Golygfa yn Nghymru." Y mae "Niobe a'i Phlant" yma hefyd, wedi ei weithio dan ddylanwad teimlad dwfn o ardderchawgrwydd y dymhestl,—yn holltiad y cymylau, rhwygiad y coed, a gwasgariad y dwfr gan y gwynt, ynghyda braw y bodau dynol (*dychymyggol*) yn cael eu taro gan y mell.

* Dosbarth o gelfyddwyr yn dilyn y dull o weithio oedd yn bod cyn amser Raphael.

Nid rhyw ymgais am lawer, a chyrrhaedd ychydig, sydd yma, ond cyflawn feistrolaeth ar y gwaith, a'r cyfan yn dyfod i fyny â natur ei hun, yn un o'i golygfeydd mwyaf mawreddig. Ei berchen yw Wynn Ellis, Ysw. Y mae un arall agos yr un fath yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain, a brynwyd gan y llywodraeth am ddwy fil o bunnau, os ydym yn cofio yn iawn. Fel yn gyferbyniol i'r olaf, y mae yr olygfa ar lán yr "Yr Afon Arnon" yn un ragorol iawn, o ran dysgleirdeb arianaidd diwrnod tawel, hafaidd; y gwrthddrychau o'r fath fwyaf darluniadol—y graig glegryrog, ogofaol, ar lán y pwll, yn cael ei hadlewyrchu ynddo, yn y cysgod; a'r ddôl esmwyth yn ymyl hyny eilwaith; y goeden gancrog yn codi i fyny o ochr y darlun, ac yn lledu ei changau dros ran o'r awyr ysgafn asuraidd, i'w thafu draw; a'r mynyddyddoedd o liw a gradd addas i'r pellder; y cyfan yn cyfranogi o liw yr awyr, ac mewn cydgordiad â'u gilydd ymhob ystyr. Wrth son am ei fynyddoedd, y mae yn dyfod i'n côf sylw trahâus ac anneallus gan un o'r enw Pyne, sydd yn ystyried ei hun yn uchel yn y gangen hon o gelfyddyd,—yn dyweyd fod mynyddoedd Wilson yn rhy wastad—fel cysgodlen (*screen*). Pe buasai y dyn yn ystyried fod pellder bob amser yn talfyru ac yn gwastadau gwrthddrychau i'r llygaid, ni buasai yn gwneyd y fath sylw. Yr oedd Wilson yn eu gwneyd fel yr oedd natur yn eu gwneyd,—fel yr ymddangosent i'r llygad; ac nid ydynt byth yn *rhy* wastad ganddo yn ol eu pellder; nac ychwaith yn cael eu lliwio yn lās, crai, fel pe na bae fodd eu gwneyd i edrych ymhell heb iddynt fod yn lās: medrai ef roddi golwg wan a phell iddynt gyda lliwiau eraill—cymedrol a naturiol. "*Cicerone's Villa*" y gelwir un arall y sydd yma o'i waith; wedi ei gwneyd pan oedd yn Rhufain, y mae yn debyg; eiddo Syr Watcyn. "*View on the Thames*," eiddo y Duc o Newcastle. A "*Landscape*," y gelwir un arall, a wnaed gan Wilson i'r meddyg enwog, John Hunter, am ddeuddeg gini—dim ond deuddeg gini! Er nad yw ond bychan o faintioli, nid yw fawr lai o werth yn bresennol na deuddeg cant o bunnau. Dealler fod pob un o'r rhai mwyaf hyn yn cael eu prisio o ddwy i dair mil o bunnau yr un, er iddo ef eu gwneyd am ail i ddim yn y dechreu. Y mae llawer o'i olygfeydd wedi eu cymeryd yn Nghymru, megys y Wyddfa o Dalsarn, Castell Caernarfon, Pontypridd, a Chastell Cilgeran.

Y mwyaf barddonol o'r arlunwyr golygfeydd yn ddiau oedd Wilson. Ymddengys ei waith fel pe wedi ei wneyd dan ddylanwad hwyll meddwl a theimlad da bob amser. Ni fynai weithio, medd ei hanes, oni byddai yn teimlo awch at ei waith; elai i roddi tro nes dyfod i well hwyll. Nid dynwarediad oeraidd o wrthddrychau natur sydd yn ei ddarluniau, ond y swyn nodweddol i'r olygfa wedi ei drosglwyddo yn effeithiol i'r darlun, ar ol ei deimlo i'r byw yn gyntaf gan y gweithiwr. Tywalltai ei ddychymyg barddonol i'r oll o'i waith; ac ar yr un pryd y maent yn edrych yn berffaith naturiol fel darluniau dynwaredol. Medrai ef gyfansoddi golygfa, a hono mor naturiol a phe buasai yn ddynwarediad manwl o ryw olygfa wirioneddol. Mae ei holl *landscapes* yn gyfryw ag y gallai bodau perffaith fyw yn ddedwydd ynddynt. Mae agos i ganrif wedi myned heibio er pan fu yn y byd, ac y mae llawer o rai glewion wedi bod yn y byd ar ei ol ef; ond nid yw ef wedi colli un gradd o'i enwogrwydd, nac yn debyg o'i golli chwaith; oblegid mae ei ddarluniau yn cynnwys elfenau anfarwoldeb ynddynt, fel gwaith athrylith bur. Rhag i neb feddwl ein bod yn rhy dueddol i'w ganmol, fel Cymro, rhoddwn sylw a welsom yn argraffedig yn ddiweddar, o eiddo un o feir-

iaid Seisnig y dyddiau hyn:—"Richard Wilson was undoubtedly the Landscape genius of the last century. No other man can be named who was at all his parallel."

Mab ydoedd Wilson i offeiriad Penegoes, yn ymyl Machynlleth, ac o deulu anrhydeddus—perthynasau i deuluoedd y Colomendy a Neuadd Coedllai, gerllaw yr Wyddgrug. Dechreuodd ei fywyd yn fywiog gan obeithion, yn drefnus ei wisg, hoff o gwmpeini da, &c. Ymwelodd â'r Ital; urddwyd ef yn gyflawn aelod o'r Athrofa Freiniol; ond fel y mae yn drueni meddwl, gorfu iddo farw (fel llawer o'i flaen) i fod yn enwog. Nid oedd ei oes yn ei ddeall a'i barchu fel y dylasant; ac yr oedd yntau yn un o feddwl rhy annibynol, ac yn teimlo cynhyrfaeau ei athrylith ei hun yn ormodol, i wenieithio i rai, a boddloni chwaeth isel y lleill, er mwyn cyfodiad bydol. Yr oedd yr hwn oedd yn ben ar yr Athrofa Freiniol ar y pryd, o ryw genfigen neu falais ato, yn ceisio chwilio am feiau yn ei waith, yn lle eu harganmawl i sylw y cyhoedd fel y dylasai wneyd. Ac felly, o ddiffyg cefnog-aeth haeddiannol, ac o herwydd esgeulusdra yr oes hōno, ymollyngodd ei ysbryd, i fesur o iselder meddwl ac amgylchiadau, i dymher afrywiog (meddir), a gwisg anhrefnus, ac arferion esgeulus, tua diwedd ei oes. Ond fel pe mynasai Rhagluniaeth ei gysuro, wedi i ddyinion ei adael, daeth i feddiant o ryw etifeddiaeth fechan, medd ei haneswyr, tua Llanberis; ond Llanferras a ddylai fod, mae yn debyg; oblegid yn y Colomendy, plwyf Llanferras, Sir Ffint, y treuliodd y rhan olaf o'i oes yn gysurus gyda y Misses Garnons, y rhai oeddynt berthynasau iddo. Yno y terfynodd ei oes, lle y gwelom rai o'i ddarluniau campusaf, y rhai sydd wedi eu hanfon erbyn hyn i'r Oriol Genedlaethol, fel y clywsom, yn ol ewyllys y Misses Garnons. Dangosir y fan y byddai yn arfer myned beunydd i eistedd o dan goeden i edrych ar, a mwynhâu y golygfeydd o amgylch; a lle y syrthiodd yn farw un diwrnod; ac yr aeth ei gi fyddlaw'n adref i ymofyn dynion ato. Y mae ei hanes yn debycach i ffighanes nag un gwirioneddol, agos; ond felly yr oedd. Y mae ei fedd ef yn mynwent yr Wyddgrug.

Ond bellach rhaid i ni dalsyru, onide fe â ein hysgrif yn rhy faith. Cyn gadael y neuadd hon (D), rhaid i ni sylwi ar rai o'r ardebau, a'r arluniau eraill yma. Y mae Reynolds yn cael ei guro gan ei gydoeswr Gainsborough, yn ddigon amlwg, dybygem, mewn ardebau, fel y gwelir yn y glaslanc a'r ferch ieuanc sydd ganddo yma. Yr oedd John Opie yn un o'r ardebwyr (*portrait painters*) mwyaf galluog. Gwaith bras, bywiog, a nerthol, sydd ar ei holl ddarluniadau: eu dyddordeb yw eu symrwydd, eu nerth, a'u bywiogrwydd naturiol,—y paent wedi ei osod yn drwchus, yn dalpiog—gyda y gyllell neu bren, yn gystal ag â'r wrychell. Mab i saer yn Truro, Cernyw, ydoedd. Byddai er yn blentyn yn poeni ei dad ac yn boddhâu ei fam, trwy fraslunio ar hyd y parwydydd â phob peth o'i amgylch, yn lle glynu wrth y fwyall a'r llif. Un diwrnod daeth gŵr boneddig a'i deulu heibio mewn cerbyd, a galwodd am lestraid o ddwr i'w yfed yn eu tŷ, ac aeth i mewn; ac wedi gweled gwaith y bachgen ar hyd y muriau, galwodd ef i fyny o'r pwll llifo, ac er gwaethaf ei dad cymerodd ef adref gydag ef am fis; yna cafodd John ddychwelyd gydag ugain punt i'w fam. Aeth i Lundain yn ugain oed, a chymaint oedd y cyrchu ato am eu hardebau gan y boneddigion, fel yn ol ei ddywediad ef ei hun, "y tybiodd y byddai raid iddo osod magnel wrth y drws i'w cadw draw." Wedi i'r newydd-deb a'r syndod loihâu, aeth ei ymwelwyr yn ychydig; ond fel yr oedd efe yn cyn-

nyddu mewn glewder yn ei waith, aiddychwelodd ei boblogrwydd. Mae yma ddau neu dri o'i waith, ond nid y rhai goreu. Yr oedd Opie yn R.A. *

Dyma William Owen, R.A., ac ardebydd i Siôr y Pedwerydd, yn cael ei gynnrychioli gan ddarlun (123), "Drws y Bwthyn;" lled ganolig o ran syniad a gwaith. Nid ydym yn gwybod dim yn neillduol am dano ef yn bresennol, heblaw ei fod yn Gymro, ac wedi cyrhaedd y rhestr freiniol o gelfyddwyr, ond nid i ragori ar neb o honynt, dybygem. Fuseli oedd ddyn hynod—mewn dwfn ddysgeidiaeth, dychymyg tanlyd a bywiog, ond mympwyol a nwythus ei ffordd. Pethau dychymybol, annaearol, a dy-chrynlyd, yw ei ddarluniau ef, ac yn fynych yn anghywir, ond yn dangos athrylith a bywiogrwydd mawr. Yr oedd yn ysgrifenydd deallus a swynol iawn. Yr oedd yn ŵr o radd uchel, a llwyddiannus ei fywyd, yn R.A., ac athraw arliwiaeth. "Hotspur a Glyndwr" (102) yw un o'i ddarluniau yma. Yn holl hanes athrylith, fel y dywed Allan Cunningham, nid oes goffadwriaeth fwy truenus na'r eiddo George Morland, dyn o fywyd annynol, wedi ei ddysgu a'i swcro mewn anghymedroleb, gan dad afrad-law'n; ond yr oedd yn meddu athrylith bur, llygad anarferol i ganfod natur, a theimlad gwresog at ei symledd a'i phrydferthwch, ynglyn â glewder digyffelyb i'w darlunio; ond yn anfynych y gwelir hwynt wedi eu gorphen yn fanwl. Mae yma ddau o'i waith, teilwng o sylw—un yw "Croes-aw Affricanaidd"—morwyr Lloegr yn cael eu cysuro gan y dynion duon; ar llall yw, y dynion duon yn cael eu lladrata yn gaethion gan y Saeson—bai ag sydd wedi ei ddileu erbyn hyn o ran Lloegr. Nid anenwog oedd Romney, pan yr ennillai £3,635 mewn un flwyddyn—1785.

Syr Thomas Lawrence oedd un o'r rhai mwyaf poblogaidd a llwyddiannus o'r holl Ardebwyr yn Lloegr. Yr oedd ef yn tra rhagori mewn arlliwio y llygad, ac mewn rhoddi golwg brydferth a swynol dros ben i'w ardebau; ac felly yr oedd pawb yn dymuno cael eu darluniau ganddo, am y medrai eu gwneyd yn dlyision iawn, ac ar yr un pryd yn debyg iddynt. Byddai yn arfer cael o bum cant i fil yr un am ei waith; ond ar y cyfan nis gellir dyweyd eu bod yn meddu hanfodion anfarwoldeb. Mae llawer o'i waith yn edrych yn well yn yr *engravings* o honynt nag yn y *paintings*. Yr oedd Hogarth a Wilkie yn enwog ac anfarwol yn eu cangen briodol o gelfyddyd—natur gyffredin yn eu gwedd ddigrifol, ffrawddus, neu oganol. Syr Henry Raeburn oedd Ardebwr nerthol iawn yn Ysgotland, ac megys tad ardebwyr yno, ac nid oes berygl o'i ddynwared; tra mae Syr T. Lawrence wedi dyfetha chwaeth yr oes bresennol o Ardebwyr yn Lloegr.

Yn y 3ydd Cyntedd y mae Tarw, o waith yr hen James Ward, R.A., nad oes mo'i well, os oes ei gyffelyb, trwy yr holl fyd. Yn ol barn y beirniaid goreu, y mae yn rhagori ar Darw Paul Potter yn yr Hague, yr hwn y mae cymaint o son am dano. Nis gwyddom fawr am anifeiliaid, ond ymdengys o ran golwg yn anghraifft ardderchog o anifail ynddo ei hun, yn gystal a gwaith celfyddyd. Mae y darlun o'r un faintioli â'r tarw byw.

Yn y Neuadd E, eto, y mae gwaith Syr Edwin Landseer, yr Arlunydd anifeiliaid, yn enwedig cŵn a cheffylau,—goreu a fu mewn unrhyw oes o'r byd. Y mae genym awdurdod yr "*Art Journal*" i ddyweyd iddo dderbyn deuddeg mil o bunnau oddiwrth ei waith mewn un flwyddyn. Edrycher at

* Aelod o'r Athrofa Freiniol.

"Gŵn St. Bernard;" y maent yna yn fyw a chorfforol, yn cyflawni eu gwasanaeth dyngarol. (391.) Dyma un o waith Syr Charles Eastlake, P.R.A., pen yr Athrofa Freiniol, 330, "Pererinion yn ngolwg Rhufain." Y mae yn darlun bychan hwn bob cynneddf anghenrheidiol i wneyd darlun da: cynllun trefnus, chwaeth bur, lliw cynhes a naturiol, a gwedd lawn o ddyddordeb ar y gwynebau, ynghyd a chywirdeb a manylder gwaith. Y mae yn rhagori yn ddiau ar y lleill o'i waith yn y Neuadd hon, er fod un o'i brif ddarluniau yma, yr hwn a berthyn i'r Oriol Genedlaethol,—“Crist yn gofidio dros Jerusalem,” am yr hwn y cafodd bum can' guni (500 guni). Y mae eisoes wedi cracio ac adfeilio. Y mae gwaith Turner yn y Neuadd hon hefyd: gwaith a godir gan Ruskin ac eraill yn bresennol i'r radd uchaf mewn golygfeydd (*landscapes*), ond prin y gallwn feddwl fod ei waith yn addas i'w gymharu â gwaith Wilson, wedi y cwbl a ddyweder am dano. Y mae yn wir fod ynddynt athrylith o'r fath oreu, a'u bod yn edrych yn dda bob amser wedi eu crifo (*engraved*)—yn llawn o ddychymyg prydfferth hefyd; ond anfynych y maent yn naturiol; a'r rhai diweddfaf a wnaeth yn rhy *eccentric* i'w goddef. Gadawodd ugain mil o'i ddarluniau i'r genedl i'w dangos yn yr Oriol Genedlaethol, heblaw tua chymaint a hyny eilwaith a werthwyd ganddo mae yn bosibl, yn ystod triugain mlynedd o oes. Un ymroddgar anarferol ydoedd i'w waith, gan ei golli ei hun yn gwbl ynddo. Yn ei Olygfa o "Gastell Dolbadarn," Llanberis, y mae yn hawdd gweled ei fod yn meddwl am waith Wilson wrth ei wneyd. Ond rhaid bod yn fyr. Fe balla amser neu le i ni sylwi ar waith Etty, Stanfield, Calcott, Collins, Constable, ac eraill o enwogion Prydain mewn celfyddyd arliwiol.

Yn Neuadd F., y mae amryw Ardebau tra enwog o waith Syr J. Watson Gordon, pen yr Athrofa Freiniol Ysgotaidd, D. Macnee, R.S.A., Gilbert, R.S.A., a Phillip Westcott o Lerpwl, yn awr o Lundain. Y goreu o honynt yw Dr. Wardlaw, o'i ben i'w draed, gan Macnee, ac ardeb Archddiacon Brookes o Liverpool, gan Westcott. Oddieithr y wedd welw sydd ar y gwyneb yn un Wardlaw, buasai yn gampwaith; fel y mae, y mae yn curo y rhai sydd yma o waith Gordon, yn deg; ac oni buasai gormod o wawr goch yn y cysgodion, buasai Brookes gan Westcott yn bob peth ag a allesid ddymuno mewn ardeb. Y mae golwg iraidd, fywiog, sylweddol, arno, yr hyn ni cheir i'r fath raddau yn un o'r lleill. Mae yn wir nad oes lythrenau eto ar ol enw Westcott. Mae yn y prif gyntedd hefyd rai Ardebau syml a nerthol o waith Thomas Phillips, R.A., a golwg grwn arnynt, heb ond ychydig iawn o gysgodion—y moddion cyffredin i'w gwneyd i edrych yn gryniol. Sylwer ar Byron, Coleridge, Crabbe, a Southey, ganddo. Gellir galw Phillips yn arlunydd awdwyr a dynion o athrylith. Yr oedd iddo gymeriad uchel fel arlunydd, am roddi golwg deallus (*intellectual*) i'w ddarluniau, ac am waith gwrol a chelfyddgar.

Ni oddefa ein terfynau i ni yma i gymaint ag enwi llawer o Arlunwyr Hanesiol (*Historical Painters*) teilwng o sylw. Ond cyn terfynu, goddefer i ni ddwyn tystiolaeth fod y *Water Colour Artists* yn yr ystafell bellaf yn dangos i ni yn eglur y gellir gwneyd golygfeydd yn llawer gwell â dwfrliwiau nag â lliwiau mewn olew. Yr ydym yn llwyr gredu eu bod yn rhagori ar y rhan fwyaf o'r olew-arlunwyr presennol; ond nid oes ganddynt hyder yn eu galluoedd a'u defnyddiau. Y maent yn troi i weithio mewn olew tua diwedd eu hoes, amryw o'r rhai enwocaf o honynt, a hwythau yn rhagori mor amlwg yn y dwfr. Yn eu mysg y mae Haghe, Hunt,

a Haag, Cattermole, a Cox, ynghyd a Fielding, yn enwog iawn. Y mae eu gwaith yn glir, dwfn, ac awyrol eu golwg; yn gystal ag yn dangos gallu i gynllunio, a glewder dihafal i weithio allan eu syniadau.

I derfynu. Un amcan da i arddangosiad fel hyn yw, tynu y lliaws oddiwrth bleserau anifeilaidd at fwyniant rhesymol. Amcan teilwng arall iddo, yw cyffroi cydymgais, ac ennyn gwreichionen athrylith yn ieuencyd yr oes. Hefyd diwyllio chwaeth y genedl mewn cynlluniau gweithfaol (*manufacturing designs*). Mewn cydgasgliad fel hyn o Drysorau Celfyddyd, rhoddir mantais dda i gymharu y naill efo y llall, er canfod eu diffygion a'u rhagoriaethau. Y mae yn ofynol hefyd cymharu y cyfan â natur ei hun yn ei deddfau a'i hymddangosiadau, lle y trig trysorau dihybydd —ffrwyth doethnheb a daioni y Crëawdwr ei hun, ymhob prydferthwch ac ardderchogrwydd, i gyfarfod â'r meddwl dynol a wnaed i'w canfod, eu mwynhâu, a'i ryfeddu Ef ynddynt. Arosed amddiffyn y Goruchaf ar Brydain, i'w chadw rhag pob ymosodiad oddiallan, ac adfeiliad oddifeun trwy falchder a llygredigaeth, ac i gysegru ei hadnoddau i wasanaeth dynoliaeth a chrefydd.

ADGOFION TAD.

TYR'D, ysbryd yr alargerdd! Atat ti
 Y mae fy llef a'm holl ddymuniad mwy.
 Dy bruddaidd ysbrydoliaeth yw fy nghais:
 Fe roddir hyny imi; rhoddir im'
 Allu i ganu am y bedd o leiaf,
 A phrudd fwynhâu y byd a fu drachefn
 Yn Adgyfodiad Adgof, onid êl
 Y bywyd yma heibio, ac y daw
 Y Bywyd Arall a'i dragwyddol bwnc—
 Y Duwdod wedi eglurhâu ei hun.

Arfaethwyd gado dy ddwyfolaf fyd
 Y sydd â'i ddyfroedd o dawelaf bryd
 O risial anfarwoldeb, a'i fynyddoedd
 Yn derbyn ymweliadau angelion nef y nefoedd,
 A golau tragwyddoldeb ar ei fânau,
 A'r arall fyd fel môr mawreddus ar ei lânau;
 Arfaethwyd hyny; ond dangosodd rhod
 Rhagluniaeth im' fod arfaeth uwch yn bod!

Yr oedd y gadair yno yn ei lle,
 A'r ffon fel ninnau yn ei ddysgwyl e.
 Ymledai 'r waen yn werddlas am y tŷ,
 Ond nid oedd yno gartref mwy i mi:

Ac nid adwaenwn braidd y bryn gyferbyn
 A fu fy nghyfaill penaf lawer blwyddyn
 Yn myfyrdodau anian, pan glustfeiniem
 Pa adsain o dragwyddol fyd a glywem.

Caer nefol Gobaith, geir o gylch y galon
 Yn ceisio dal ynghyd dan warchae o drallodion,
 Do, do, cyn hyn derbyniodd lawer adwy
 Ollyngodd ar yr enaid nerth ofnadwy
 O som a gwae; paham y ceisiai weithion
 Ymddal ynghyd, a chuddio ei hadfeilion ?

Diflanodd swynion y boreuol fyd !
 A seren cartref o farddonawl bryd,
 O gylch yr hon y carai engyl hedd
 Ymhongian gynt, machludodd yn ei fedd.
 Yn iach, yn iach, ddedwyddion boreu oes !
 Rhaid newid mwy y breuddwyd am y groes,
 Yr hwyl nefolaidd am y gofal prudd,
 Y seren bell am sorod gwael y pridd.
 Rhaid gwrando bellach pan y galwo 'r byd
 A'i alw i mewn, fu wrth y ddôr gyhyd.
 Rhaid gado mwy borthladdoedd bore byd—
 Aberoedd gobaith, a barddoniaeth brid,
 Lle nad adwaenid o ofidiau bywyd
 Ond swyn y llanw yn y pellder hyfryd—
 Rhaid myned allan bellach gyda 'r dyfroedd,
 Ymollwng i ystormus fyd, o lânau fel y nefoedd.

Nid mwy cynefin idd y lân
 Y llanw hwyr a borau,
 Nag i dy enaid di, fy nhad,
 Ddyfodiad gorthrymderau.
 Y mae fy nghalon oll yn glwy
 Wrth feddwl am eu hamlder hwy.
 Wrth feddwl am y pryder mawr
 O flaen y wawr a gaed yn effro,
 Y baich o amgylchiadau prudd
 Nad oedd y dydd yn ddigon iddo,
 Y baich a deimlid hyd y byw
 Ar ol i bawb ymollwng i freichiau anghof gwiw.

A drysorasoeh chwi ei ddagrau ef,
 Bell, sancteiddiolaf dystion awr y bedd,
 Osododd Duw ar hyd canllawiau 'r nef
 I wyllo yr adfydus gwyw ei wedd !
 O seren canol nos! mynega 'n awr
 Bob cwyn a deigryn ger yr orsedd sawr.
 Nid oedd ond pared rhyngom: llawer gwaith
 Y syrthiodd caer fy mreuddwyd idd ei gwyn;

Na thored boreu bythoedd ar fy nhaith
 O phallaf ddeigryn eto er ei fwyn
 Pan gofiwyf hyn! Y dagrau trymion, prudd,
 Fedyddient ganol nos yn ganol dydd.

E fu ei gylch yn eang iawn un dydd,
 Ac nid oedd gormod iddo ef ei wneyd
 Yn ffordd dyledswydd a thros waith ei Dduw.
 Ni fu yr hin ry oer, y daith ry bell,
 Na lle yr ymgynnulliad ry ddi sylw,
 Ac nid oedd gan y draul ar lechi cof
 Un cerfiad nac un nod o fwydd i fwydd.
 O bu afradlawn, dros ei Dduw y bu.
 Anghofiai 'r cyfan ond teilyngdod mawr
 Y gwaith rhagorol. 'R oedd ei garedigrwydd
 Fel eiddo 'r ffynnon sydd yn rhoi ei dafn
 O dan y cysgod oesol, lle nad oes
 Ond ser ac engyl idd ei chanfod hi.
 Llaw aswy cof ni wypai beth a wnai
 Deheulaw cariad. Roddion bywyd maith!
 Disgyned eich adgofion ar ei fedd
 Fel pelydr crwydrol o dragwyddol fyd.
 O Garedigrwydd! i ba le yr ei?
 Pa fonwes mor ddirodres, mor anghofus
 O'i rhinwedd benaf! Gydag anadl hwyr
 Pan ddelot heibio yn yr awel leddf,
 Tro olwg ar ei feddrod yn y glyn,
 A meddwl nid yn gymaint am ei haeledd
 Ag am ei nefol anghofusrwydd ef.

Ymddifaid! pwyswch ar y beddfaen gawn
 Yn wŷn gan alaeth uwch ei orphwys fan:
 Gall ddwyn i gof y fraich o gariad llawn
 I felus gof, y fraich gynnalai 'r gwan.
 Pan wisgid ffurf Rhagluniaeth oll â du,
 Aech ato ef,
 Ac yn ei gariad ymnewidiai hi
 Fel o flaen drych o brif egwyddor nef.

Ragrithiwr! saf am enyd ger ei fedd!
 Gall Adgof godi o'i gymeriad pur
 Angel o wers i tithau. Mawr yw sedd
 Cymeriad fo â'i sail ar y Tragwyddol Wir!
 Yr oedd gwirionedd fel naturiol wawr
 Ar wyneb ei dduwioledeb: nid oedd crefydd
 Ond monwes arall am ei galon fawr,
 O fewn yr hon y cura yn dragywydd.
 Gwythenau Bywyd o dragwyddol ryw
 Ar hyd ei lawnion ddyledswyddau gaed
 Yn chwyddo, chwyddo fel â gallu Duw,
 A gallu i fyw ar ol y fere byd a gwaed.

Y cyfiawn! O, mae goleu uwch ei fedd
 Na ddeil Uchelfryd ar ei falchaf fan
 Gyffelyb iddo! Y mae yno Hedd
 Y fath a deimla angel ar y lân
 Sy 'n derbyn Duwdod yn weledig mwy,
 A thônau anfarwoldeb, uwch cyrhaedd gloes a chfwy.

“Mae eu gweithredoedd yn eu canlyn hwy,”
 Dros fwa y cyfammod dwyfol sydd
 Goruwch y tywyll fedd, yn uno mwy
 Y ddeufyd, gyda gwawr o fythol ddydd.
 Ac hyfryd, hyfryd pan y teithiom ni
 Tu ol i amser, fröydd adgof wiw
 Ymhlith beddfeini y blynyddau fu,
 Ardderchog megys darn o'r nefoedd yw
 Eu gweled, gweithred ar ol gweithred lawn
 Yn tawel gychwyn tua ffordd y nef,
 Gan wneuthur sw'n hyfrydol hwyr brydnawn
 Wrth fyned heibio i'w orphwysfa ef
 Yn llawen tua 'r Orsedd, erbyn dydd
 Y Farn a fydd.

Lle y gadawsom *weithred dda*
 O'n hol ar lwybrau bywyd,
 Gadawsom angel hoff, a'i gwna
 Yn air o'n tu mewn eilfyd.

Agorai ef bob newydd ddydd
 Fel newydd ddalen yn y llyfr mawr
 I'w lenwi erbyn eilfyd sydd
 A rhad weithredoedd—gweithred am bob awr—
 Ac ynddo ysgrifennai fyth
 A llaw ddi sw'n o gariad,
 Y llythyrenau 'n disgyn fel y gwllith,
 Ei Amddiffyniad.
 Gwelsom y llyfr wedi ei gau,
 Gwaith bywyd oll ar ben,
 Ac yntau 'n marw wrth ei fodd,
 A'i olwg ar y nen.
 Nid am ei fod yn gorphwys dim
 Ar ddynol weithred wnaed;
 Mawr werth yr Aberth oedd ei rym,
 Nid gweithred ddim, ond Gwaed!

Y mae y cyfiawn yn nirgelwch Duw:
 A rhai o dŷrau dinas fawr ei Feddwl
 Sy 'n gorwedd yn nystawrwydd y dyfodol,
 O bell yn amlwg iddo, cyn eu dod
 O fewn gwelediad hyn o farwol fyd.

Y mae meddyliau Duw, fel Duw ei hun,
 I gyd i ymgnawdoli: ac fel yr oedd
 Arwyddion amlwg o'i ddynesiad Ef,
 Y mae i'r cyfiawn y gyffelyb fraint
 Yn ymyl esgoreddiad ei fwriadau.
 Mae Seren ragarweiniol i bob un
 O'i brif feddyliau, er na roir i neb
 Ei gweled ond y doethion megys gynt.

Bu dda genyt deimlo y chwydd
 Yn nyfroedd bodolaeth, y sydd
 Yn arwydd o sicraf nesâd
 Y tragywyddoldeb a fydd,
 A'r Ddinas dragwyddol ei sail,
 Uwch cyrhaedd corwyntoedd mor llym,
 Yn dechreu ymagor, a haul
 Cyfiawnder yn codi i'w rym.
 Rai oriau cyn myned i mewn
 Tawelodd y dyfroedd, a chaed
 Llonyddwch—dy Geidwad oedd yno 'n
 Taenellu y dyfroedd â'i waed!
 Dy Geidwad tragwyddol ei hun
 Yn rhodio y tonau o'th blaid;
 Fe drodd chwerwaf ddyfroedd marwolaeth yn win,
 Ac angel yn ei ymyl a gaed!

O ddyfnder Rhagluniaeth yr Ior!
 Yr wyf yn addoli yn awr
 Ger sanctaidd ymylon ei môr,
 Mae y dôn wedi derbyn y wawr,
 A'r dyrys ofidiau o'r bron
 Yn troi yn ddybenion o hedd,
 Mae yr Arglwydd yn eistedd ar lifeiriaint hon,
 Ar y dôn sydd yn cuddio y bedd!

Ac eto rhoer i Adgof yr allweddau
 I gloi y gerdd—nid allant gloi y beddau!
 O annedd dlos, yn nghanol gwyrdd y meusydd,
 Rhaid canu 'n iach i'th swynion yn dragywydd.
 A'r nant a garodd fyth dy gysgod di,
 Rhaid canu 'n iach i'w hysbrydoliaeth hi.
 Ond O! arosed bythoedd yn fy nghofion
 Dy furiau oll, a llun dy aelwyd dirion,
 Yn berffaith fel yr oedd, a delw y wyneb
 Oleuai 'r oll yn foreu o sirioldeb.
 O faith welediad Adgof na ddfianed
 Un maen arwyddol o fy more dyngهد!
 Blagured mebyd eilwaith yn nhrogerddi
 Nefolaidd Adgof, blana engyl ini.

Ac os canfyddir tua hwyrddydd bywyd,
 Bererin eiddil, a chysgodau eilfyd
 Fel nos sancteiddiaf ar ei ael yn disgyn,
 Ac hyd ei lwybrau swm angylaidd edyn,—
 Ar hyd y meusydd telaid hyn yn rhodio,
 Boed angel boreu yr olygfa yno
 I roi i'r gangen lais, i'r awel deimlad,
 Ac i adfeillion tŷ fy nhad* adfywiol wawr o gariad.

ISLWYN.

ORIAU GYDA BACON.

[THE MORAL AND HISTORICAL WORKS OF LORD BACON, including his *Essays, Apophthegms, Wisdom of the Ancients, New Atlantis, and Life of Henry the Seventh. With an Introductory Dissertation, and Notes, Critical, Explanatory, and Historical.* By JOSEPH DEVEY, M.A. London: Henry G. Bohn, York Street, Covent Garden. 1854.

BACON'S ESSAYS: with Annotations by RICHARD WHATELY, D.D., Archbishop of Dublin. Third Edition, revised. London: John W. Parker and Son, West Strand. 1857.]

YMHLLITH yr ychydig ddynion hyny ag y mae tystiolaeth unfrydol dynol-ryw, nid mewn un oes a gwlad yn unig, ond mewn gwahanol oesoedd a gwledydd, yn eu cydnabod yn gewri yn myd y meddwl, ac wedi sicrhâu iddynt y lleoedd anrhydeddusaf yn nheml enwogrwydd, y mae enw Arglwydd Bacon yn sefyll allan gyda hynodrwydd arbenig. Ac y mae yn anhawdd meddwl, fe allai, am un prawf *allanol* gwell, o wir fawredd, na hyn. Y mae rhith fawredd yn ymddangosiadus, ond ni ddeil i graffu arno; yr olwg gyntaf arno, bob amser, yw yr olwg oreu; po hwyaf yr edrychir arno, a pho manylaf y chwilir ef, mwyaf oll a ganfyddir o'i dlodi hanfodol, a sicraf oll ein hargyhoeddir mai rhith ydyw. Ond megys na raid i'r gwir bendefig wrth addurniadau y *sup*, i dynu sylw ato ei hunan, felly y mae gwir fawredd yn gallu gwneyd heb lawer o ymddangosiad; y mae yn gallu fforddio cymeryd amser; yr olwg gyntaf arno bob amser, yw yr olwg waelaf; y mae ei ragoriaethau yn dufewnol a hanfodol, ac am hyny yn wirioneddol. Y mae ynddo "*guddiad* cryfder;" ac oblegid hyny y mae yn gwella fwyfwy yn ein golwg fel y mae ein eydnabyddiaeth âg ef yn dyfod yn fwy agos a pharhâus. Y mae pob dabblygiad newydd o hono yn dadguddio i ni ryw-

* Mr. Morgan Thomas, Babell, Mynwy, gwrthoddrych yr adgofoa uchod, a adwaenid fel orision cywir yn ei gylich cartrefol, ac fel blaenor fyddlawn a dylanwadol ymyrg Methodistiaid Calfinaidd Sir Fynwy. Bu farw, Mai 15, 1857, yn 81 mlwydd oed.

beth newydd i'w ryfeddu a'i fawrhâu. Ac nid yw yr hyn sydd yn wir fel hyn yn ei berthynas â phrofiad personol un dyn, ond yr un gwirionedd ar raddeg uwch ac éangach, pan y cymhwysir ef at genedlaethau olynol o ddynion. Nid oes dim ond gwir deilyngdod a ddeil brawf tanllyd amser; ond y mae hwn yn sicr o'i ddal, ac o ddyfod allan o hono, fel yr aur, yn loewach ac yn burach. Fel hyn y mae gweithiau Homer a Dante, Milton a Shakespeare, yn dal treigliad canrifoedd heb waethygu; y maent fel y gwinoedd goreu yn cael eu gwella gan amser; y mae dynolryw yn eu rhyfeddu yn awr yn fwy na phan yr ysgrifenydd hwy gyntaf, ac nid yw pob cynnydd mewn goleuni a diwylliant, yn y naill oes ar ol y llall, ond yn cymhwyso y byd yn fwy i'w gwerthfawrogi a'u mawrygu. Yr ydym wedi galw hyn yn un o'r profion *allanol* goreu o wir fawredd a theilyngdod. Yr ydym yn ei alw felly am fod prawf arall, sef un *tufewnol*. Wrth hwn yr ydys yn golygu y prawf hwn sydd yn seiliedig, nid ar y cyfrif a wna y byd a'r oesoedd o awdwr neu waith,—ond ar adnabyddiaeth personol ein hunain o'i fawredd. Fel profion Cristionogaeth, y mae y naill yn hanesiol, a'r llall yn brofiadol—y naill yn allanol, a'r llall yn dufewnol; yn y naill yr ydym yn “credu oblegid ymadrodd eraill,” yn y llall yr ydym yn ei “glywed ef ein hunain.” Yn y prawf tufewnol, yr ydym yn clywed â'n clustiau ein hunain, yn gweled â'n llygaid ein hunain, ac yn teimlo â'n calonau ein hunain, yr hyn yr oeddem o'r blaen yn ei gredu yn hollol ar dystiolaeth eraill. Ond y mae yn amlwg fod y dystiolaeth dufewnol hon yn y meddwl yn rhagdybied, fel ammod anheborol i'w bod, fod y meddwl hwn wedi ei ddyrchafu i radd benodol mewn chwaeth, coethder, a diwylliad; ac os oes rhai o honom yn dygwyrdd bod eto heb gyrrhaeddyd y radd hono, ac felly heb fod genym y “dystiolaeth ynom ein hunain,” gallwn yn y cyfamser—hyd nes y cyrrhaeddwn hi—orphwys yn dawel ar y dystiolaeth arall y tu allan i ni ein hunain; a phan y byddwn yn methu gweled dim i'w sawrygu yn ngweithiau y dynion hyny ag y mae y meddyliau uchaf a mwyaf coethedig ymhob oes a gwlad yn cyduno i dalu gwarogaeth ewyllysgar i'w hathrylith, gallwn, heb nemawr o aberth, gobeithio, i'n hunanbarch, ymfoddloni yn y penderfyniad, fod y diffyg yn gorwedd yn hollol a chyfan-gwbl wrth ein drws ni ein hunain.

Paham y mae fod treigliad amser, fel hyn, yn dyfod yn faen prawf mor gywir o deilyngdod awdwr neu waith? Un rheswm am hyn, dybygem, yw hyn: y mae fod i awdwr oresi mewn bri a chymeradwyaeth ei oes a'i amser ei hunan, yn myned yn bell i brofi fod ei fawredd o *natur hanfodol* ac nid *damweiniol*—fod ei ragoriaeth wedi ei sylfaenu, nid ar unrhyw amgylchiadau neillduol perthynol i'w oes ei hunan, ond ar yr egwyddorion llydain a chyffredinol hyny sydd yn perthyn i ddyd fel *dyn*, y rhai ydynt yn parhau yn ddigysfnewid trwy holl dreigliadau a chyffnewidiadau oesoedd, ac a barhânt felly tra y pery y natur ddynol yr hyn ydyw. Yr ydym yn gwybod fod yn eithaf posibl a hawdd i ddynion ennill poblogrwydd trystfawr, oddiar ryw gydgyfarfyddiad ffortunos o amgylchiadau—priodol i'w hoeseu hunain; y mae y berthynas neillduol y dygir hwy iddi â'r lle, a'r adeg, a'r amgylchiadau, yn eu gosod am enyd ar safle uchel, ac yn eu gwisgo â rhyw fath o hynodrwydd: ond fel y mae neillduolrwydd yr amgylchiadau yn cael ei lyfalu gan amser, y maent hwythau yn cael eu darostwng i'w gwastradedd eu hunain—y mae eu henwogrwydd yn darfod gyda'r amgylchiadau a roddasant fôd iddo—y mae yr adeilad yn rhwym o gyfranogi o wendid y sail,

ac y mae y naill a'r llall yn cael eu cydgladdu yn yr un adfeilion. Y rheswm am hyn oll ydyw, fod eu henwogrwydd yn sylfaenedig, nid ar ddim hanfodol ynddynt hwy eu hunain, ond ar rywbeth damweiniol y tu allan iddynt eu hunain. Ond y mae mawredd gwirioneddol yn gwahaniaethu yn ei sylfaen; y mae hwn yn sylfaenedig ar ragoriaethau hanfodol a digyfnwid *meddwl*, y rhai a barhânt i gael eu cydnabod yn rhagoriaethau tra y byddo meddwl yn y byd i'w gwerthfawrogi. Y mae y mawredd hwn nid yn unig yn annibynol ar amgylchiadau, ond yn gallu gweithio ei ffordd yn erbyn amgylchiadau, ac â grymusder *plastic* yn gallu rhoddi ffurf a llun fanteisiol iddo ei hunan ar yr amgylchiadau mwyaf anhyblyg. Fel hyn y mae cynnyrchion gwir athrylith yn ymgfyodi uwchlaw lle, adeg, ac amgylchiadau, ac yn dyfod yn feddiant cyffredin y ddyfnoliaeth ymhob oes a gwlad. Y mae yn wir y gall fod ynddynt elfenau o natur leol ac amserol; neu yn hytrach, gall yr elfenau bywiol sydd ynddynt gymeryd eu ffurf oddiwrth y lle a'r amseroedd,—ond nid yw pob peth o'r natur yma ond gwisg, ffurf, neu ddelw; nid ydynt ond corff—marw wrtho ei hunan, ond y mae ysbryd athrylith wedi anadlu iddo “anadl einioes;” ac y mae yr “enaid byw” sydd fel hyn yn preswlyio ynddo yn ei gadw rhag llygru, ac yn gosod arno brydfferthwch ieuencyd anfarwol. Y mae yn anhawdd meddwl am ddim mwy llëol ac amgylchiadol o ran eu testunau na llythrau Junius; ond yn rhinwedd yr athrylith a amlygir ynddynt, parhânt i gael eu darllen, a theimlir chwilfrydedd am eu hawduriaeth, tra y pery yr iaith yr ysgrifenydd hwynt ynddi. Yr un modd “*Provincial Letters*” Pascal; y maent yn parhâu i gael eu darllen wedi i bob dyddordeb yn yr amgylchiadau sydd wedi eu cydwân â hwynt ddarfod cael ei deimlo; y mae y wawdiaeth lêm a llosgadwy sydd ynddynt—wedi ei chynnyrchu, fel y mae, gan wir athrylith, a'i chyfeirio at ddybenion gwir deilwng—fel halen, yn eu cadw trwy yr oesoedd yn anlygredig. Y mae y rhan fwyaf o'r amgylchiadau a groniclir gan Boswell yn ei Fywgraffiad o Johnson yn fychain, dibwys, a phlentyn-aidd, fel Boswell ei hunan; ac fel yntau, buasant yn fynych yn destunau gwawd, oni bae am rywbeth arall sydd yn y llyfr: ond y mae y rhywbeth arall hwn yn gosod ei Fywgraffiad yn ben ar Fywgraffiadau y byd; yr oedd hyd yn nod gwendidau a phlentynrwydd Boswell,—yn unedig fel yr ydoedd, â pharch bron yn ymylu ar addoliad i wrthddrych ei Fywgraffiad—yn ei arwain i groniclo gyda'r manylrwydd ffyddlonaf yr amgylchiadau distadlaf cysylltiedig âg ef, ac i gasglu yn ofalus ar bob adeg hyd yn nod friwsion ei ymddyddan, “fel na chollid dim;” a thrwy y pethau hyn, dygir ni i gymundeb bron uniongyrchol â'r Doethawr,—yr ydym yn cael ein hunain o hyd yn ei bresenoldeb a'i gymdeithas, ac yn teimlo ein bod mor gydnabyddus âg ef a phe buasem wedi treulio blynyddoedd yn ei gyfeillach; y mae ysbryd amrosgo, sarug, ond cawraidd yr hen Johnson, yn ymrithio ger ein bron ymhob tu dalen; ac y mae ei sylwadau synwyrgraff, a'i atebion parod a ffraethlym, yn gosod rhyw swyn dirfawr hyd yn nod ar yr amgylchiadau distadlaf a gofnodir ynddo. Ond ni waeth heb liosogi enghreifftiau: y mae y rheswm a grybwyllwyd yn un peth sydd yn rhoddi cyfrif paham y mae treigliad amser yn dyfod yn faen prawf mor gywir i wahaniaethu rhwng rhith a gwir fawredd meddyliol.

Rheswm arall dros fod cynnyrchion uchaf athrylith yn cynnyddu, ac nid yn lleihâu, mewn cymeradwyaeth a bri, gyda threigliad oesoedd, ydyw—fod y meddyliau mwyaf a chryfaf bob amser, i fesur mwy neu lai, o *flaen*

eu hoes eu hunain. Gellid rhestru y rhai sydd yn byw mewn unrhyw oes, yn eu perthynas â'r oes hono, yn dri dosbarth. Y mae un dosbarth o ddynion i'w cael yn y byd bob amser, hyd yn nod o'r rhai hyny ag sydd yn *meddwl* rhyw gymaint, y rhai ydynt ar ol eu hoes. Y mae y rhai hyn yn "byw, yn symud, ac yn bod," o ran eu syniadau a'u holl gydymdeimladau, yn yr amser a aeth heibio. Ymddengys fod eu meddyliau fel pe buasant wedi eu ffurfio i droi ar fachau, ac nid ar olwynion; ac felly y maent fel "dôr ar ei goly" yn yr unman yn wastad, er troi; tra y mae y byd mawr o'u hamgylch yn symud ymlaen yn barhâus ar olwynion cyflym cynnydd mewn masnach, celfyddyd, a phob gwybodaeth—naturiol a moesol, ac felly, o anghenrheidrwydd, yn eu gadael hwy ar ol. Y mae y dynion hyn, hyd y gallant hwy, yn sefyll ar ffordd pob diwygiad—gwladol a chrefyddol; ac nid ysgogant ymlaen gam gyda dim, ond oddiar wir orfodaeth. Y maent fel pwysau marw wrth odre cymdeithas, ac yn cael eu llusgo ymlaen megys gerfydd gwallt eu pen, ac yn wysg eu cefn, a'u llygad yn barhâus ar ryw gyfnod sydd wedi myned heibio—ar yr oes o'r blaen—yr oes aur, byth mwy i ddychwelwyd; gan ymosyn yn wastadol, ond nid "o ddoethineb,"—"Paham y bu y dyddian o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn?" "Megys yr oedd yn y dechreu" gyda phob peth, y maent hwy yn cwbl gredu y dylai fod "yr awrhon," pa newidial bynag a all fod wedi cymeryd lle yn yr amgylchiadau; a'u gwir ddymuniad, os nad eu gweddi, yw—er gwaethaf holl gynhyrifiadau diwygwyr ieuainc penboeth am ddwyn i mewn ryw newydd-beth neu gilydd beunydd—ar iddi fod felly "yn wastad, yn oes oesoedd. Amen." Dosbarth arall—ac yn hwn y mae yn debyg y ceir y nifer liosocaf o ddynion meddylgar pob oes—ydyw y dosbarth hwnw sydd yn cydgerdded â'r oes, yn synio, yn teimlo, ac yn gweithredu i fyny â goleuni eu hoes eu hunain ar bob mater. O'r dosbarth yma, yn gyffredin, y mae dynion mwyaf poblogaidd pob oes. Dyna y dyn mwyaf poblogaidd gyda chorff mawr cymdeithas—y dyn hwnw, yr hwn a fydd y genau goreu drosti, yr hwn a rydd y mynegiad mwyaf cywir i'r syniadau a'r teimladau sydd yn ffynu yn yr oes a'r cyfnod hwnw. Y mae pob oes yn sicr o adnabod a chydabod y dyn hwnw, yn yr hwn y gwêl hi ei hysbryd ei hunan wedi ymgorffoli yn fwyaf perffaith. Y mae hyn yn tarddu i ryw fesur oddiar falchder a hunangariad dynolryw: y mae yr oes yn caru y dyn hwnw oreu sydd yn adlewyrchu ei delw hi ei hunan berffeithiaf—y dyn sydd yn adsain ei lleferydd hi ei hunan gywiraf. Ond y trydedd dosbarth y cyfeiriem ato, ydyw yr ychydig ddynion hyny y rhai sydd o flaen eu hoes. Y mae gan bob oes ryw ychydig o ysbrydion detholedig, y rhai a feiddiant feddwl drostynt eu hunain, er na bydd y meddwl hwnw yn cael ei adsain gan neb na dim o'u hamgylch. Y maent hwy yn rhinwedd treiddgarwch eu galluoedd, ac uchafiaeth eu hathrylith, yn darganfod gwirioneddau, ac yn cymeryd meddiant presennol o honynt,—y rhai nad oes obaith argyhoeddi y lliaws o honynt, ond trwy gyfrwng addysgiaeth maith ac araf profiad—profiad blynyddoedd, ac fe allai, oesoedd. Y maent hwy yn canfod, yn gorwedd yn nghûdd yn mhriodoliaethau hanfodol gwirionedd, ac yn egwyddorion digyfnawid y meddwl, egin yr hyn na chenfydd y byd mo hono, hyd nes y bydd amser a chwrs amgylchiadau wedi ei addfedu i'w lawn faintioli. Dyma wir feistriaid pob oes. Y mae y rhai hyn yn byw yn weithredol, ac nid yn oddefol, yn unig. Nid yr amgylchiadau sydd yn eu gwneuthur hwynt, ond hwy sydd yn gwneuthur yr amgylchiadau. Nid

yr oes sydd yn rhoddi ei delw arnynt hwy, fel gyda'r ail ddosbarth a nodasom, ond hwynt-hwy sydd yn y pen draw yn rhoddi eu delw ar yr oes, i.e., ar oesoedd lawer wedi iddynt hwy fyned ymaith oddiar y chwaraefwrdd. Un o'r dosbarth yma, dybygem ni, oedd yr anfarwol Thomas Charles o'r Bala. Yr oedd efe yn ddyn digon mawr i ddeall gwir anghen ei oes ei hun, a'r hyn a osodai i lawr sylfaen cynnydd a dyrchafiad ei gydgenedl mewn rhinwedd a chrefydd am oesoedd i ddyfod—sefydliad i roddi yn eu dwylaw gyflenwad digonol o Air Duw, a sefydliad arall i'w haddysgu i ddarllen a deall y gair hwnw. Yr ydys yn gwybod yn dda fod y naill a'r llall o'r amcanion hyn wedi cyfarfod ar y cyntaf â gwrthwynebiad grymus a phenderfynol oddiwrth gyfoeth, bonedd, dylanwad, ac hyd yn nod *crefydd* y wlad. Ond yr oedd Mr. Charles yn meddu digon o annibyniaeth meddwl a gwroldeb sanctaidd, a digon o ymddiried yn hollalluogrwydd gwirionedd, a sicrwydd ei lwyddiant yn y pen draw, i lafurio dros yr amcanion hyn, yn addfwyn a boneddigaidd, ond eto yn benderfynol a didroi yn ol—nid fel y comet tanellyd, ond fel y seren yn tywynu yn dawel a chysnon—er gwaethaf gwawd a gwrthwynebiadau, hyd nes y cafodd fyw i weled rhagfarn wedi ei orchfygu, a'i ymdrechadau wedi eu coroni â llwyddiant. Ac erbyn hyn, y mae ei anfarwoldeb wedi ei sicrhau mewn cysylltiad â'r ddau sefydliad mwyaf gogoneddus a fëdd y ddaear—yr Ysgol Sabbothol a Chymdeithas y Biblau; a'i enw yn Nghymru yn cynnyddu mewn bri ac anwyldeb y naill flwyddyn ar ol y llall, fel y mae sffrwyth ei ymdrechadau yn amlhau ac yn dyfod yn fwyfwy amlwg. Rhywbeth lled debyg ydoedd y syniad—pan y cyhoeddwyd ef gyntaf—am yr anghenrheidrwydd am addysg athrofaol i weinidogion Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru—yn gystal ag i weinidogion pob Cyfundeb arall yn y byd. A pherthyn i'r un rhestr, yn ddiu, y mae dau syniad mawr eraill, ag ydynt yn cyfansoddi “gwirioneddian presenol” y dyddiau hyn, gyda golwg ar Fethodistiaeth Cymru; sef, yr anghenrheidrwydd am Gronfa gref mewn trefn i osod Sefydliad Athrofaol y Methodistiaid Calfinaidd; yn Ngogledd Cymru ar sylfaen ddyogel a chysurus, ac mewn amgylchiadau uwchlaw anghen a chardotta, yn gystal a Sefydliadau Athrofaol pob Cyfundeb arall yn y byd: ac hefyd, yn olaf, ond nid mewn un modd y lleiaf ei bwys—oblegid heb hyn nid yw y llall, yn sicr, ond cellwair gwag a diystyr—yr anghenrheidrwydd anheggorol am ryw ddarpariaeth i roddi cynnalïaeth anrhydeddus i'w gweinidogion, i'w galluogi i ymroddi i “weddi a gweinidogaeth y gair,” ac i: “boeni yn y gair a'r athrawiaeth,” heb fod o dan orfod i “ymrwystro gyda negeseuau y bywyd hwn:”—i. weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru, meddwn, fel ag'a roddir i weinidogion pob Cyfundeb crefyddol arall, nid yn unig yn Nghymru, ond trwy yr holl fyd. Yr ydym yn crybwyll y pethau hyn, nid am fod genym y bwriad lleiaf i wneuthur hyn, wrth ddechreu ysgrifenu; ond am ein bod yn ddamweiniol wedi dyfod ar eu traws, fel eng-hreifftau pwrpasol o'r gosodiad y ceisiem ei sefydlu: sef, fod syniadau mawr—y rhai ydynt i roddi eu delw ar gymdeithas am oesoedd i ddyfod—yn cael eu bod mewn meddyliau sydd ymhell uwchlaw ac o flaen eu hoes eu hunain. Ac y mae hyn ar unwaith yn egluro i ni pa fodd y mae cynnyrchion y meddyliau uchaf—pa un bynag ai mewn llyfrau ai mewn gweithredoedd y mae eu syniadau yn ymgorffoli—yn gorfod aros eu hamser. Tuag at gael eu gwerthfawrogi, y mae yn rhaid iddynt aros i'r byd dyfod i syny hyd atynt: ac oblegid hyn y mae yn hawdd gwyled fel y mae treigliad amser,

nid yn unig yn aneffeithiol i leihâu eu bri a'u gwerth, ond, i'r gwrthwyneb, yn hollol angenrheidiol i ddadblygu eu gwir fawredd a'u gogoniant, ac i ennill iddynt y sylw a'r anrhydedd hwnw y maent yn y pen draw yn sicr o'i feddiannu.

Nodwedd arall ag sydd weithiau yn perthynu i gynnyrchion uchaf athrylith, a'r hon sydd, pan y mae yn dygwydd, yn rhoddi cyfrif—yn ychwanegol at y rhesymau eraill a grybwyllwyd—am y ffaith yr ydym yn ceisio ei hegluro, ydyw—fod y cyfryw gynnyrchion, nid yn unig yn cyfoethogi y byd mewn modd uniongyrchol trwy rinwedd y swm penodol hwnw o wybodaeth neu feddwl a gyflânt, ond eu bod hefyd mewn rhyw amgylchiadau yn foddion i roddi *ysgogiad a chyfeiriad newydd i'r meddwl dynol* yn ei ymchwiliad am wybodaeth, nad yw ei effaith yn darfod am oesoedd lawer. Y mae yn bur amlwg fod hyn, yn yr amgylchiadau y mae yn dygwydd, yn rhoddi cyfrif tra boddlonol am y ffaith—nas gellir dysgwyl i gynnyrchion y cyfryw feddwl dderbyn y wobr a deilyngant, yn yr oes y mae y dyn ei hunan yn byw ynddi. Y mae efe wedi meddwl dros, ac i, oesoedd eraill. Y mae efe wedi "llafurio;" a bydd cenedlaethau lawer ar ei ol yn "myned i mewn i'w lafur." Y mae cynnyrch ei athrylith ef, nid yn gymaint yn ffrwyth, ond yn hâd—sydd yn cael ei dasu i'r ddaear mewn un oes, ond a barhâ i ddwyn ffrwyth toreithiog a chynnyddol, am oesoedd a chanrifioedd lawer. Gallwn weled rhywbeth sydd yn cyfateb i hyn, ond ar raddeg llawer uwch, y mae yn wir, yn sefydliad cyntaf Cristionogaeth yn y byd. Yr oedd y gwyrthiau moesol a gyflawnodd yr Efyngyl yn ei chyhoeddiad cyntaf yn yr oes apostolaidd yn lawrion ac yn nerthol dros ben. Buddugoliaethodd ar gyfoeth, dylanwad, a rhagfarnau oesol; dadymchwelodd eilunaddoliaeth y byd Paganaid ac Iuddewaeth gwlad Judea; dygodd filoedd i garu ac arddel enw dirmygedig Iesu o Nazareth—i gymeryd eu hymffrost yn ei groes ef, a'u bywyd yn ei angen ef. Ond heblaw y buddugoliaethau uniongyrchol hyn, y mae yn parhâu i fuddugoliaethu o hyn y hyd yn awr. Yr oedd y gŵr ar y "march gwyn" nid yn unig "yn gorchfygu" y pryd hwnw—ar ei gychwyniad cyntaf, ond efe a "aeth allan i orchfygu," hyd nes y meddianna yn holl ddaear yn eiddo iddo ei hunan. Y chydig bysgodwyr tlodion a diddysg môr Galilea, trwy "hysbysu" i'r byd "nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist—wedi gwelod ei fawredd ef â'u llygaid"—trwy fynegu "yr hyn a glywsant, yr hyn a welsant â'u llygaid, yr hyn a edrychasant arno, ac a deimlodd eu dwylaw am Air y bywyd"—a fuant yn foddion i greu y chwyldrôad moesol mwyaf a gogoneddusaf a welodd y byd erioed, chwyldrôad sydd wedi cyrhaedd yn ei effeithiau o galon cymdeithas hyd ei chyrrion eithaf, ac a edy ei argraff ar y byd hyd ddiwedd amser. Ac oblegid hyn, y mae genym ni, yn yr oes hon, un prawf o wirionedd Cristionogaeth—a hwnw y prawf ymarferol goreu a ellir ei gael—sydd yn gryfach erbyn ein dyddiau ni, nag y bu mewn unrhyw adeg flaenorol ar y byd; sef y prawf hwnw sydd yn codi oddiar effeithiau bendigedig yr Efyngyl, ymhob man lle y mae hi yn cael ei derbyn a'i chredu, i gyfnewid calon pechadur, ac i adnewyddu wyneb y ddaear i sancteiddrwydd a dedwyddwch. Y mae hwn yn ei natur yn rhwym o fod yn brawf cynnyddol (*cumulative*); y mae yn dyfod gryfach, gryfach, y naill oes ar ol y llall, fel y mae buddugoliaethau y groes yn amlhâu. Ac hyd yn nod pe yr addefem, yr hyn nid ydym yn ei wneyd, fod y prawf hanesyddol o wirionedd ein crefydd yn gwanhâu ac yn myned yn swyfwy ansicr gyda threigliad anser, o gymaint

a'n bod yn cael ein symud yn bellach y naill oes ar ol y llall oddiwrth y ffeithiau mawr a gwyrtiol sydd yn ffurfio sylfeini Cristionogaeth;—pe yr addefsem hyn, anturiwn hōni yn ddbetrus fod y colliant hwn yn cael mwy na'i wneyd i fyny yn y ffaith arall y cyfeiriwn ati, set—y profion cynnyddol a ddyry yr Efengyl i'r byd y naill oes ar ol y llall o'i heffethioldeb dwyfol i "grëu" pechaduriaid "o newydd yn Nghrist Iesu i weithredoedd da," yn rhinwedd yr hwn, y mae yr un gwyrtiau rhyfeddol ag a gyflawnwyd yn y byd naturiol yn sylfaeniad Cristionogaeth, yn cael eu hadgynnyrchu, mewn ffurf uwch a rhyfeddach fyth, yn y byd moesol, ger bron ein llygaid bob dydd—a'r prawf felly yn cynnyddu mewn nerth y naill oes ar ol y llall. Rhywbeth cyffelyb i hyn eto, ar raddeg lai,—yn ei effeithiau parhâol a chynnyddol ar gymdeithas, sydd i'w weled yn y Diwygiad Protestanaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Buasai yn anhawdd gwneuthur mwy o gamsyniad na thybied y galleid barnu a mesur effeithiau yr ysgogiad rhyfeddol hwnw, wrth yr hyn a gyflawnwyd trwyddo mewn un oes yn unig—sef yr oes ymha un y dygwyd ef oddiamgylch: Na, nid oedd hyn ond arweiniad neu ragymadrodd byr i'r hyn oedd yn canlyn. Bu y gwaith a gyflawnodd Martin Luther a'i gydlaforwyr, fel offerynau yn llaw Rhagluniaeth Ddwyfol, yn foddion i ysgwyd holl Ewrop megys â daeargryn. Deffrôdd y byd ar unwaith o gwsg oesoedd, i'r hwn yr ydoedd wedi cael ei sŷo gan ddylanwad gwenwynig a marwol dichellion Pabyddiaeth yn gweithredu ar anwybodaeth ac ofergoeledd. Ymysgydwodd y meddwl dynol; ymryddhâodd oddiwrth y llyffetheiriau oedd wedi ei gadwyno am ganrifoedd; daeth allan yn hŷf i hōni ei ryddid a'i annibyniaeth; eglurwyd hawl ddiammheuol pob dyn i ddarllen a chwilio yr Ysgrhythrau drosto ei hun, ac i weithredu yn achos ei grefydd rhyngddo ei hunan a'i Grëawdwr, heb gynorthwy cyfryngwriaeth unrhyw oruchwylwyr daearol. Ac yr ydym ni yn yr oes hon, yn y pellder o tua thri chan' mlynedd oddiwrth y chwyldrôad rhyfeddol hwn, yn meddu llawer gwell mantais i weled ei wir faint-ioli ac i farnu ei effeithiau, na phe buasem yn byw yn nês ato. Oblegid yr oedd yr egwyddorion mawr a ddygwyd allan o'u cuddfeydd ynddo, megys had yn cael ei fwrw i'r ddaear, yr hwn y mae ei ffrwyth yn ymddangos "ar ol llawer o ddyddiau;" bu yn foddion i newid wyneb cymdeithas, a derbyniodd y meddwl dynol ynddo symbyliad ag y mae yn myned ymlaen yn ei rym hyd y dydd hwn.

Tra chyffelyb i'r chwyldrôad a ddygwyd oddiamgylch gan Luther yn y byd crefyddol, ydoedd y chwyldrôad a ddygwyd oddiamgylch gan Arglwydd Bacon yn y byd dysgedig. Yr hyn a wnaeth y naill i grefydd, a wnaeth y llall i athroniaeth. Bu y naill a'r llall yn offerynol i ddadymchwelyd hen syniadau oeddynt wedi dwfn wreiddio yn y byd er ys oesoedd o'u blaen; ac i ddwyn oddiamgylch ddiwygiad ag y mae ei effeithiau yn parhâu yn y byd am oesoedd ar eu hol. Ac y mae yn ddiau fod y naill ddiwygiad wedi bod i fesur mawr, yn foddion i balmantu y ffordd i'r llall. Cyn y Diwygiad Protestanaidd, yr oedd athroniaeth, yn gystal a chrefydd, o dan "iau caethiwed." Yr oedd y meddwl dynol mewn llyffetheiriau. Yr oedd cysylltiad agos rhwng twyll Pabyddiaeth â "philosophi" yr oesoedd hyny, yr hon oedd hefyd yn "wâg dwyll"—rhwng y *Schools* a'r *Vatican*; yr oedd y berthynas hon mor agos, fel wedi i ddynion ymysgwyd oddiwrth orthrymder y *Vatican*, nid oedd yn rhyfedd eu gwled yn fuan yn gwrthod cydnabod awdurdod y *Schoolmen*. Yr oedd y meddwl dynol yn cael ei ddeffro i

chwilio i sylfeini ei grediniaethau blaenorol, ac yn teimlo ei hunan bellaach yn rhydd i rodio hyd feusydd gwyrddion, ac i anadlu yn awyr bur, gwirionedd.

Y mae yn hysbys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr, y mae yn debyg, mai diffyg mawr yr hen athronwyr, er dyddiau Aristotle a Plato, a'r prif achos o anffwrthlondeb yr hen athroniaeth ymhob dosbarth o wybodaeth anianyddol neu wyddorol,—ydoedd,—esgeuluso sylwadaeth fanol, bwylllog, ac éang, ar natur yn eu hymchwiliadau am wirionedd; rhoddi i ymresymiad le ffeithiau a phrosfiad. Yn lle crynhöi, trwy sylwadaeth ddyfal ac amyneddgar ar natur, nifer digonol a phrofedig o ffeithiau, i fod yn sylfaen lydan a chadarn i adeiladu eu hymresymiad arnynt, ac i dynu eu casgliadau oddiwrthynt, a thrwy hyn ynweuthur chwaneigiadau sylweddol at ystôr gwybodaeth ddynol:—aent hwy ymlaen i lunio adeilad gywrain a phrydfêrth o ymresymiad ond ar nifer annigonol neu annhrofedig o ffeithiau, ac yn fynych ar dybiau hollol ddychymyngol a disail—gan anghofio, fel y dywed Whately, “na wna unrhyw fedrusrwydd adeilyddol yn yr oruwchadeilad roddi iddi fwy o gadernid nag sydd gan y sylfaen ar ba un y gorphwysa; ac oblegid hyn, yr oeddynt yn rhwym o fethu yn eu hymchwiliad am wirionedd, gan nad yw yr ymresymiad cywiraf o un lles, os na bydd genym ffeithiau ac egwyddorion cywir i gychwyn oddi wrthynt.” Ni a ddylem gofio ar yr un pryd, wrth son am ddiffygion yr athroniaeth hon, ei bod yn rhifo ymhlith ei dysgyblion rai o'r meddyliau cryfaf ac ardderchocaf, y mae yn debyg, a welodd y byd erioed. Pwy, wrth ddarllen rhai o ysgrifeniadau Plato, a all lai na synu at y syniadau ysbrydol a dyrchafedig a draethir ganddo am “y prydfêrth a'r da,” ac am rai o egwyddorion ac ymestyniadau uchaf natur ysbrydol dyn; ac at y cipdrem y mae yn ymddangos ei fod wedi ei gael yn achlysurol ar ei berthynasau ysbrydol, ei ragolygon, ei dyngهد; a'r cyfan mewn amddifadrwydd o oleuni dadguddiad? Ond a chymeryd athroniaeth yr hynafiaid yn y cyfanswm, y ddau ddiffyg hanfodol ynddi, dybygid, ydoedd—yn ei hamcan, ac yn ei dull (*method*). Y mae yn ymddangos fod y diffyg yn yr amcan eto yn ddeublyg. Ar un llaw, yr oedd yn ddiffygiol mewn awydd cywir am y gwirionedd; ac ar y llaw arall, yr oedd yn ddiffygiol mewn bod yn ymarferadwy. Ar un llaw, nid oedd yn ddigon difrifol; ar y llaw arall, nid oedd yn ddigon ymarferol. Ar un llaw, yr oedd yn rhy isel; ar y llaw arall, yr oedd yn rhy uchel. Ar un llaw, yr oedd dysgyblion yr athroniaeth hon mor ddiffygiol mewn ysbryd o ymofyniad difrifol am y gwirionedd, fel ag yr oeddynt yn ymddifyru mewn “cwestiynau anorphen” am bethau nas gellid eu gwybod, ac na fusant o un lles i neb pe gallesid eu gwybod; yn chwareu â geiriau, fel y plant yn chwareu â'r bêl, megys yn unig er mwyn difyrwch, neu fath o orchestiaeth (*gymnastic*) meddyliol; yn ymlid y naill ar ol y llall mewn cylchoedd diddiwedd o ymresymiaadau dadleuol, heb obaith byth dyfod yn nês at eu gilydd, ac yn gwastrafu eu galluoedd mawrion ar y cyfryw gwestiynau dyfnion ac adeiladol (!) a'r rhai hyn a'u cyffelyb:—Pa beth yw y daioni penaf? A ydyw poen i'w ystyried yn ddrwg? A ydyw pob peth o dan lywodraeth tyngهد? A allwn ni fod yn sicr o unrhyw beth? neu a allwn ni fod yn sicr nad ydyw yn sicr o ddim? A all dyn doeth fod yn annedwydd? A ydyw pob ymadawiad oddiwrth uniondeb yr un mor feius, ai nad ydynt? “Y cwestiynau hyn,” medd Macaulay, “a'u cyffelyb, a fuont yn cymeryd i fyny ymenyddiau, tafodau, ac ysgrifbinau y dynion gallu-

ocaf yn y byd gwareiddiedig dros amryw ganrifoedd. Y mae yn amlwg nas gallai y gyfryw athroniaeth a hon fod yn un gynnyddol. Y mae yn wir y gallai awchlymu a chryfhâu meddyliau y rhai a ymroddent iddi; ac felly y gallai dadleuon y Lilliputiaid uniongred a'r Blesuscudiaid hereticaidd, ynghylch penau mawr a phenau bychain wyau, wneuthur yr un peth. Ond nis gallasai y cyfryw ddadleuon ychwanegu dim at ystôr gwybodaeth. O ganlyniad, nid oedd y meddwl dynol yn myned yn ei flaen, ond yn unig yn marcio amser. Yr oedd yn cymeryd cymaint o drafferth ag a fuasai yn gwneyd y tro i'w gario yn ei flaen; ac eto arosai yn yr un man. Nid oedd yna wirionedd yn cael ei drysori; nid oedd yna etifeddiaeth o wirionedd yn cael ei hennill trwy lafur un genedlaeth, a'i gwneuthur drosodd yn gymynrodd i genedlaeth arall, i'w throsglwyddo eilwaith, gydag ychwanegiadau mawrion, i un arall drachefn. Lle yr oedd yr athroniaeth hon yn amser Cicero, yno y parhâi i fod yn amser Seneca, ac yno y parhâi eto yn amser Favorinus. Yr oedd yr un sectau fyth yn ymladd, gyda'r un rhesymau anfoddlonol, ynghylch yr un cwestiynau anorphenol. Nid oedd diffyg wedi bod mewn cywreinerwydd, zel, na diwydrwydd. Yr oedd yna bob arwydd o ddiwylliad meddyliol, ond cynanaf. Yr oedd yna ddigon wedi bod o aredig, llyfnu, medi, a dyrnu; ond nid oedd yr ysguboriau yn cynnwys dim ond huddygl a sofr."

Diffyg mawr arall yn amcan yr athroniaeth hon ydoedd—ei hamddiffardwydd o bob nodwedd ymarferol neu ymarferadwy. Edrychai yr athroniaeth hon gyda dirmyg ar bob ymgais neu ddarganfyddiad o duedd i wella sefyllfa dyn fel creâdur amser, i amhâu ei gysuron daearol, ac i helaethu terfynau ei lywodraeth ar natur a'i helfenau. Edrychid ar y cyfryw amcanion fel yn rhy isel a daearol i ardderchogrwydd galluoedd dyn, ac i urddas athroniaeth. Ond tra yr edrychai ar y cyfryw amcan fel yn rhy isel, gosodai iddi ei hunan amcan arall, yr hwn oedd yn llawer rhy uchel; ac felly, am nad ymostyngai i ymaflyd yn y naill, ac am na feddai allu i gymeryd gafael yn y llall, syrthiai rhwng y ddau, heb ateb yr un o honynt. Ymfrostiai yr hen athronwyr yn effeithiolrwydd eu dysgeidiaeth hwy i wella y galon, i goethi a dyrchafu y meddwl—y rhan ardderchocaf o'r dyn—i radd uchel mewn doethineb a rhinwedd. Y mae yn ddiau fod y cyfryw amcan a hwn, pe galleid ei gyrhaedd, yn annhraethol uwch a mwy gogoneddus nag unrhyw amcan a'i olwg ar liosogi cysuron, a gwella sefyllfa dyn, fel deiliad y byd hwn yn unig. Ac ar ryw olwg nis gallwn edrych gyda gormod o barch a mawrygiad ar rai o'r meddyliau cryfaf a fu yn y byd erioed, yn ceisio ymbalfalu eu ffordd flinderus, fel "deillion ar bared," cyn i ddrws dadguddiad gael ei agor—yn ceisio deongli argraffiadau aneglur y gydwybod, yn ngoleuni egwan natur, cyn i haul y dadguddiad dwyfol gyfodi—yn gwneuthur ymchwiliad i ddyledswydd, perthynasau, a thynged dyn fel perchen natur ysbrydol, ac ág agoriad aneffeithiol rheswm, yn ceisio dadgloi dirgelion bodolaeth! Fel hyn, y mae yn ddiau fod llawer o'r hyn ydoedd yn oruchel ac yn wir sawreddog, yn gymysgedig â ffoleddau yr hen athroniaeth. Ond fel yr awgrymwyd o'r blaen, yr oedd yr amcan hwn yn rhy uchel, ac allan o gyrhaedd athroniaeth; dadguddiad dwyfol yn unig sydd yn alluog i esbonio perthynasau, dyledswydd a thynged dyn fel deiliad byd ysbrydol, a chrediniaeth fywiol yn y dadguddiad hwn yn unig sydd yn effeithiol i buro y galon, ac i ddyrchafu enaid dyn i rinwedd a dedwyddwch. Mor aneffeithiol a fu holl ymgeision athroniaeth i gyrhaedd

yr amcanion uchel hyn, fel ag y mae ysgrifenydd ysbrydoledig yn gwaeddi uwch ben ei dysgyblion yn eu hymchwiliadau mwyaf llwyddiannus,—“Ofer fuont yn eu rhesymau, a'u calon anneallus hwy a dywyllwyd: pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffylliaid.” Fel hyn, ymddengys fod athroniaeth yr hen oesoedd yn camgymeryd ei hamcan,—yr oedd ei chyfeiriad yn gyfeiliornus; edrychai ar ei nod priodol ei hunan yn rhy isel, a cheisiai anelu at nod arall, yr hwn oedd lawer iawn yn rhy uchel, ac felly, collai y naill a'r llall. Trwy esgeuluso yr hyn oedd yn ei chyrrhaedd, ac ymestyn at yr hyn oedd yn anghyrhaeddadwy, syrthiai i'r un amryfusedd â'r ci yn y chwedl, yr hwn a ollyngodd y cig sylweddol allan o'i enau, er mwyn ceisio gafael yn nghysgod y cig yn yr afon, ac felly a gollodd y cyfan. I ddyfynu eto eiriau hyawdl Macaulay:—“Addawent yr hyn oedd yn anymarferadwy; dirmygent yr hyn oedd yn ymarferadwy.” “Amcan yr athroniaeth Blatonaidd oedd dyrchafu dyn i fod yn dduw. Amcan athroniaeth Bacon oedd cynnysgaethu dyn â'r hyn sydd yn eisieu arno tra y parhâ yn ddyn. Amcan athroniaeth Plato oedd ein cyfodi uwchlaw anghenion cyffredin. Amcan athroniaeth Bacon oedd diwallu ein hanghenion cyffredin. Yr oedd yr amcan blaenaf yn ardderchog; ond yr oedd yr olaf yn gyrhaeddadwy. Tynai Plato mewn bwa da; ond, fel Acestes yn Virgil, anelai at y sêr; ac oblegid hyny, er nad oedd diffyg nerth na medrusrwydd, gwas-traffwyd yr ergyd. Yr oedd y saeth yn cael ei dilyn, y mae yn wir, â llwybr o ddysgleirdeb llachar, ond ni tharawodd ddim. Sefydlodd Bacon ei lygad ar nod yr hwn oedd wedi ei osod ar y ddaear, ac o fewn cyrrhaedd saeth; ac efe a'i hanelodd yn ei ganol. Dechreuodd athroniaeth Plato mewn geiriau a diweddodd mewn geiriau—geiriau ardderchog, y mae yn wir—y cyfryw eiriau ag a allesid ddysgwyl oddiwrth y coethaf o feddyliau dynol yn meddu llywodraeth ddiderfyn dros y goethaf o ieithoedd dynol. Dechreuodd athroniaeth Bacon mewn sylwadaeth, a diweddodd mewn celfyddydau.”

Yr oedd y diffyg arall y cyfeiriem ato, yn gorwedd yn null (*method*) athroniaeth yr henafiaid. Yr oedd yn ddiffygiol mewn sylwadaeth. Dechreuodd yn y pen chwth i'r ysgol. Rhoddid i reswm le natur, ac i dybiau a dychymygon cywrain, le ffeithiau. Nid oeddynt yn ymostwng i “gwestiyno” natur; ac oblegid hyny, cadwai hithau ei chyfrinach dan glo dystawrwydd. Yn lle casglu ffeithiau ynghyd, trwy gyfrwng profiad a sylwadaeth äng, ofalus, a phwylllog, ar natur; ac yna eu cyferbynu, eu dosbarthu, a thynu casgliadau oddiwrthynt, ac felly ymddyrchafu oddiwrth ffeithiau at egwyddorion, oddiwrth wrthddrychau at wirioneddau—äent hwy ymlaen i ymresymu, a hyny yn fynych yn fanol a chywrain dros ben, ond oddiar ffeithiau tybiedig ac heb eu profi, neu oddiar ffeithiau wedi eu casglu yn frysio, yn brin, ac yn ddiotal, ac yn fynych iawn oddiar dybiau noeth a hollol ddisail, neu ddamcaniaeth—ffrwyth eu dychymyg cywrain a chynyrchiol; ac ar y sylfaen dywodlyd hon, äent ymlaen i adeiladu yn fedrus “adeiladau mawrion a theg;” ond am nad qeddynt wedi eu sylfaenu ar greigiau profiad a ffeithiau, y mae yn amlwg, gan nad pa fedrusrwydd a ddangosid yn yr adeiladu, mai eu tynged anocheladwy ydoedd syrthio â “chwymp” mawr. Y mae y nodweddion hyn a berthynai i amcan a dull yr athroniaeth henafol yn esbonio i ni ar unwaith yr achos o'i diffwrthyder. Nis gallasai y gyfryw athroniaeth, ond yn unig trwy ddamwain, chwaneгу at ystôr gwybodaeth ddynol, na chynnyrchu unrhyw ddarganfyddiadau i

llosgoi cysuron nac i wella sefyllfa dynolryw. Yr oedd y pren yn fawr, ac o ymddangosiad ardderchog; ond nid oedd yma ddim ffwrth—dim ond dail geiriau. Dechreuodd mewn geiriau, a diweddodd mewn geiriau.

Onid o'r diwedd, cafodd tynghed yr athroniaeth ddiffwrth hon ei selio. Yr ydoedd wedi byw a theyrnasu am ganrifoedd lawer, ac wedi rhestru ymhlith ei deiliaid rai o'r meddyliau mwyaf a fu yn y byd erioed. Goroesodd chwyldroadau crefyddol a gwladwriaethol; ymgymysgodd â gwahanol gredôau; adgyfododd o oes i oes mewn gwahanol ffurfiau: ond bellach yr oedd ei dyddiau wedi eu rhifo, a'i chwyp wedi nesáu. Tua chanol y bymthegfed ganrif, dechreuodd y meddwl dynol anesmwytho yn y llyffeth-eiriau â pha rai yr oedd wedi ei ddal yn gaeth am gynifer o oesoedd. Deffrwyd ysbryd ymchwiliad. Teimlid yr hen sylfeini yn rhoddi ffordd—y "seiliau" yn cael eu "dinystrio;" ac o ganlyniad, yr oruwchadeilad gywreim-wych a gyfodasid arnynt yn bygwth syrthio. Yr oedd athroniaeth y cyn-oesoedd yn ei ffurf *Peripatetic* neu Aristotelaidd wedi adymddangos yn *Scholasticism* y canoloesoedd; ac awdurdod Aristotle wedi cael ei chydnabod am tua deuddeg cant o flynyddoedd mor oruchaf yn materion rheswm a'r eiddo y Bibl yn materion ffydd. Ond oddeutu y pryd hwn, dechreuodd colofnau ei orsedd grynnu. Aflonyddwyd ar heddwch ei deyrnasiad ef, trwy adgyfodiad yr athroniaeth Academaidd. Ffurfiwyd ysgol o Blatoniaid, yn cael ei blaenori gan un Marsilius Ficinus; fel erbyn hyn yr oedd yr hen ymdrechfa rhwng Aristotle a Plato yn cael ei hadnewyddu ar faes hanesyddiaeth ddiweddar. Wedi diorseddu Aristotle o'i awdurdod unbenaethol, talwyd sylw adnewyddol i wahanol gyfundraethau athroniaeth yr hynafiaid; ailymddangosai pleidiau yr oesoedd gynt, ac ymrestrai dynion dan eu gwahanol fanerau, yn Blatoniaid, Aristoteliaid, Epicureaid, Amheuwyr (*Sceptics*), a Chyfrinwyr (*Mystics*). Dyma gyfnod adfywiad llên yddiaeth ("*the revival of Letters*") yn Ewrop; a chyfnod tra phwysig a dyddorol ydoedd yn hanes athroniaeth, yn ffurfio y cyfwng rhwng difaniad awdurdod yr athroniaeth henafol, a chyfodiad ysgol newydd athroniaeth ddiweddar: cyffelyb i'r cyfnod hwnw mewn teyrnas sydd yn canlyn chwyldroad—rhwng diorseddiad yr hen frenin, ac ymddangosiad un arall o allu a phenderfyniad digonol i gymeryd yr awenau i'w law ei hunan. Yn fuan wedi hyn daeth y Diwygiad Protestanaidd oddiamgylch, yr hwn a fu yn foddion mewn dull anuniongyrchol i roddi i awdurdod yn materion rheswm yr un ergyd marwol, ag a roddasai iddo yn materion ffydd a chrefydd. Cydweithredai lliaws o ddylanwadau eraill tua'r pryd hwn, er parotô i y byd i dderbyn diwygiad mawr mewn athroniaeth. Tra yr ydoedd hen gyfundraethau athronyddol yn cael eu hysgwyd megys oddiwrth lwch oesoedd, yr oedd rhai yma a thraw yn ddigon annibynol i feiddio meddwl drostynt eu hunain. Gwnaeth Peter Ramus ymgais i ffurfio cyfundraeth newydd o resymeg; a Telesius a Campanella i wella athroniaeth anianyddol. Daeth Galileo, Kepler, a Gilbert allan gyda'u darganfyddiadau rhyfeddol yn maes gwyyddoriaeth naturiol. Yr oedd yma bellach gyflawnder o yni meddyliol, wedi ei ryddhâu oddiwrth lyffetheiriau awdurdod, ac wedi derbyn symbyliad newydd a grymus. Ond yr oedd eisieu rhyw feddwl mawr a meistrolgar i ymddangos, i roddi cyfeiriad priodol i'r yni hwn. Tra yr oedd yr ysbryd ymchwilgar wedi ei ddeffrô i'r graddau eithaf, nid oedd yr un pwynt sefydlog yn cael cytuno arno i gychwyn yr ymchwiliad oddiwrtho, nac amcanu penodol a dealladwy i gyfeirio yr ymchwiliad atynt, nac ychwaith

ddull neu reolau cywir wrth ba rai i ddwyn yr ymchwiliad ymlaen. Yr oedd dyfroedd y meddwl dynol, megys, wedi eu cyffroi i'r gwaelod—y llifeiriant yn rymus; ond, yn ngeiriau Morell, “yr oedd eisieu meddwl digon nerthol i gloddio, megys, sianel newydd, yn yr hon y gallai ysbryd athronyddol y byd redeg.”

Yn y cyfwng pwysig hwn—sydd yn ffurfio pont megys i gysylltu yr hen athroniaeth â'r un ddiweddar—ymddangosodd dau o feddylwyr mawr, o alluoedd cawraidd, wedi eu cyfaddasu i raddau nodedig at anghen eu hoess, a'r rhai a ystyrir yn gyfawn yn dadau a sylfaenwyr athroniaeth ddiweddar—Bacon a Descartes: y naill yn Lloegr, a'r llall yn Ffrainc. Crëodd eu hymchwiliadau chwyldroad trwyadl yn myd y meddwl, a ffurfiasant gyfnod newydd yn hanes athroniaeth. Yr oedd y ddau ddyn mawr yma yn gwahaniaethu llawer oddiwrth eu gilydd yn ffurf eu meddyliau, natur eu hymchwiliadau, ynghyda'r canlyniadau yn y rhai yr oedd eu llafur yn terfynu. Cyfeiriai Bacon ei sylw yn benaf at wella ac adnewyddu athroniaeth anianyddol; tra y troai Descartes ei alluoedd at athroniaeth feddyliol. Amcan y blaenaf ydoedd rhoddi cyfeiriad newydd i'r meddwl, a chynnysgaethu y byd â dull (*method*) neu offeryn newydd, yn ei ymchwiliad am wybodaeth; amcan yr olaf ydoedd sylfaenu gwybodaeth ddynol ar ei hegwyddorion cynaf a dyfnaf yn y meddwl. Nodwedd athroniaeth Bacon ydoedd *induction*; a'r eiddo Descartes *deduction*. Dechreuai y blaenaf ei ymchwiliad oddiallan trwy gasglu a chyferbynu ffeithiau y byd naturiol; tra y dechreuai yr olaf ei ymchwiliad oddifewn, trwy ddadansoddi ffeithiau ein hymwybyddiaeth. Ond tra yr oeddynt yn cychwyn fel hyn o ddau bwynt gwahanol, ac yn cyfeirio eu sylw at ddwy diriogaeth wahanol o wybodaeth, ac yn gwahaniaethu i fesur mawr yn null a chanlyniadau eu hymchwiliad, yr oedd athroniaeth y naill a'r llall yn cydgyfarfod mewn un nodwedd bwysig, yr hon oedd yn cyfateb i anghen mawr yr oes, a'r hon a fu yn foddion i uno eu hymchwiliadau, megys, o ran eu hysbryd a'u dylanwad ar oesoedd dyfodol: y nodwedd hwn ydoedd *dadansoddiad* (*analysis*). Dyma oedd arwyddair y ddau athronydd mawr yma, a dyma oedd yr egwyddor fawr a ddygodd i fewn y fath ddiwygiad mewn athroniaeth, yn gyferbyniol i resymeg yr hynafiaid—aneffeithiolrwydd hollol yr hon, fel offeryn i ddarganfod gwirionedd, oedd wedi ei brofi bellach er ys oesoedd. Yr oedd y naill yn elfenu neu yn dadansoddi *natur*; a'r llall yn dadansoddi *meddwl*. “Y mae yr holl athroniaeth ddiweddar,” medd Morell, pa un bynag a ydyw yn cychwyn oddiwrth y pwynt Baconaidd neu Cartesaidd, yn dwyn arni ddelw eglur y dull dadansoddol. Nid yw o un gwahaniaeth pa un ai at y byd allanol neu at y byd tufewnol y cymhwysir ei hymchwiliadau, y mae yn y naill a'r llall yn ein dysgu i sylwi ar, ac i ddadansoddi *ffeithiau*, i gasglu enghreifftiau, ac ar y cyfryw sylwadaeth i sylfaenu ein gwybodaeth o ddeddfau ac egwyddorion. Yn hyn yn unig y cynnwysir unoliaeth gwyddoriaeth ddiweddar, ac o hynyma y cyfoda y gwahaniaeth mawr sydd rhyngddi a'r eiddo yr hynafiaid. Y mae pob athronydd naturiol er dyddiau Bacon yn sylfaenu ei lwyddiant ar gasgliad o ffeithiau y byd allanol; ac y mae pob arddansodd-ydd (*metaphysician*) er dyddiau Descartes wedi myned ymlaen yn ei diriogaeth ef o wybodaeth, trwy ddadansoddi ffeithiau ein hymwybyddiaeth mewnol.”*

* Morell's *History of Modern Philosophy*, Vol. I., pp. 77, 78.

Y mae Bacon yn y llyfr cyntaf o'i *Novum Organum* yn clirio y ffordd i osod i lawr sylfeini ei gyfundraeth, trwy ddynoethi y rhagfarnau hyny sydd yn achosion o gyfeiliornadau, a'r aneirif ffyrdd trwy ba rai y mae y meddwl yn gweithredu twyll arno ei hunan, ac felly yn lluddias ei lwyddiant yn ei ymchwiliad am wirionedd. Geilw y rhai hyn yn *Eitunod*;* a dosbartha hwynt i bedwar dosbarth cyffredinol.† Wedi clirio ymaith fel hyn y pridd a'r tywod, gesyd i lawr sylfeini ei gyfundraeth, ac â ymlaen i adeilada arnynt. Ei amcan cyntaf ydyw ymlid rhagfarnau, a "chrëu dystawrwydd" yn y meddwl, fel y byddai i lais gwirionedd gael ei glywed. Wedi hyny dysgir ni i "gwestiyno" natur, fel ag i gael allan y llais hwnw; a chynnysgaethir ni â rheolau wrth y rhai y mae y meddwl i gymeryd ei arwain yn ei ymchwiliad am wirionedd. Ofer a fyddai i ni o fewn cylch ysgrif fel hon, yr hon sydd eisoes wedi rhedeg yn faith, ymgeisio at eglurhâd manol ar athroniaeth Bacon—yn enwedig gan fod hyny wedi ei wneuthur o'r blaen gyda'r fath fedrusrwydd yn y TRAEHODYDD. Ond galleu nodi yn fyr fod ei rhagoriaeth mawr ac arbenig yn gynnwysedig mewn tri pheth—yn ei *hysbryd*, ei *hamcan*, a'i *dull*. Ysbryd yr athroniaeth hon ydyw—cariad cryf at, ac ymofyniad cywir am, y gwirionedd. Y mae gwir ddysgybllion yr ysgol hon yn gosod o'r neilldu eu holl ragfarnau a'u syniadau blaenorol, ac yn eistedd i lawr, gyda holl hyddysgedd plentyn i holi natur, i wrando ar ei llais, ac i gymeryd eu dysgu ganddi; oblegid, fel y dywed Bacon ei hunan, y mae mor wir am deyrnas gwybodaeth ag am deyrnas gras, fod yn rhaid i'r rhai a ewyllysiant fyned i mewn iddi, gael eu gwneuthur "fel plant bychain." Y mae ei hamcan hefyd yn un cyfreithlawn a chyrrhaeddadwy: caffaeliad "gwybodaeth" yr hon, medd Bacon, sydd yn "nerth"—ddwyn dyn i gydnabyddiaeth â natur, a'i alluogi i droi y gydnabyddiaeth hono i ymarferiad; i ddwyn natur yn ddarostyngedig iddo, ac i wasanaethu er ei gysur a'i ddaioni. Felly y mae ei dull yn rhagori hefyd i ymofyn am wirionedd, ac i gyrrhaeddyd y wybodaeth hon. Yn lle ceisio cyfansoddi y grëadigaeth wledig allan o grëadigaeth arall o eiddo y meddwl—ceisio darganfod ac egluro ei deddfau, heb wneuthur ymchwiliad iddynt, ond yn rhinwedd syniadau *d priori* yn y meddwl—dysgir ni gan yr athroniaeth hon i gasglu ffeithiau ynghyd, (yr hyn ydyw ystyr *induction*)—i eistedd i lawr yn bwyllog i wneuthur ymchwiliad i natur, ac wedi casglu ynghyd yn fanol a gofalus nifer digonol o ffeithiau, eu cyferbynu, eu dosbarthu, tynu casgliadau oddiwrthynt—ac fel hyn ymddyrchafu oddiwrth y ffaith at yr egwyddor, oddiwrth wrthddyrychau at ddeddfau, oddiwrth y gweledig at yr anweledig. Fel hyn nodwedd arbenig a gwahaniaethol yr athroniaeth hon ydyw ei bod wedi ei seilio ar brofiad a sylwadaeth mewn cyferbyniad i dyb a damcan-ddysg; ac yn unol â hyn y gelwir Bacon yn "dad yr athroniaeth brofiadol." Ond er y gwasanaeth mawr hwn a wnaeth Bacon i athroniaeth, y mae yn ffaith nodedig nad ydoedd efe ei hun mewn un modd i'w restru yn uchel fel yr hyn a elwir yn "athronydd naturiol." Gwaith arall oedd iddo. Mewn cyfeiriad arall yr oedd ei athrylith yn gorwedd. Nid ei waith

* Y mae Hallam yn dadleu nad dyma y cyfeithiad cywir o *εἰδωλα*, o ba un y mae *idola* Bacon yn tarddu; ond ei fod ef yn ei ddefnyddio yn yr ystyr lythyrenol a roddai y Groegiaid iddo, sef ymddangosiad gau neu dwyllodrus. Y mae Brown, Playfair, a Dugald Stewart, a'r rhan fwyaf yn wir o ysgrifenywyr, yn ei ddeall, o'r tu arall, fel yn golygu duwiau gau, o flaen y rhai y mae y meddwl yn plygu.

† Caiff y darllynydd Cymraeg ddesgrifiad helaeth o'r rhai hyn mewn arthygl alluog ar "Athroniaeth Bacon" yn y Rhifyn cyntaf o'r TRAEHODYDD, tu dal. 33.

ef, yn uniongyrchol, oedd darganfod deddfau natur, ond dysgu eraill i'w darganfod. Nid oedd efe ei hunan, yn gymaint, yn myned i mewn i ystafelloedd eu rhyfeddodau; ond—yr hyn oedd yn llawer mwy—yr oedd ei ymchwiliadau ef yn ffurfio agoriad, â'r hwn yr oedd ei olynwyr yn myned i mewn, ac yn dadgloi dirgelion oedd wedi gorwedd yn guddiedig er ys oesoedd. Nid at ymchwiliadau uniongyrchol athroniaeth, yn gymaint, yr oedd ei sylw yn cael ei gyfeirio: ond yr oedd ganddo ef y gorchwyl mwy pwysig o ddynoethi a diwygio y gwallau hyny ag oedd wedi peri i ymchwiliadau athronwyr blaenorol fod yn aflwyddiannus, ac o osod i lawr yr egwyddorion a ffurfio y rheolau hyny ag oedd ynt i lywodraethu eu hymchwiliadau rhagllaw. Fel hyn, nid gweithio â'r arfau ei hunan yr ydoedd, ond yn hytrach hogi a pharotôl yr arfau i eraill. I ddefnyddio cymhariaeth Horace, gwaith y gareg finio oedd iddo, ac nid yr ellyn:—“*acutum reddere quæ ferrum valet, exsors ipsa secandi.*” Fel hyn, y mae y bardd Cowley yn cymharu Bacon i Moses.

“Who did upon the very border stand
Of that fair promised land:”

Megys ag yr oedd y deddfroddwr Iuddewig wedi arwain cenedl Israel trwy yr anialwch hyd at derfynau gwlad yr addewid—i olwg y tir yr hwn oedd yn “llifeirio o læth a mêl,” ond er hyny, heb gael myned iddo ei hunan, ond yn unig ei weled o ben y bryn—felly yr oedd ein hathronydd, yn ol darluniad y bardd, wedi dwyn athroniaeth allan megys o'r anialwch gwag a diffrywth ymha un yr oedd wedi bod yn crwydro am gannoedd o flynyddoedd, ac wedi ei harwain megys â derfynau tir goludog darganfyddiadau gwyddoriaeth ddiweddar, ond eraill yn myned i mewn i'w lafur, ac yntau yn marw heb gael rhoddi ei droed ar y tir dymunol. Y mae Archesgob Whately yn sylwi, fod Bacon, er nad oedd yn ddiffygiol o chwaeth at y gwyddorau naturiol, eto fel pe buasai yn ddiffygiol mewn gallu i wneuthur dim yn llwyddiannus yn y ffordd yma. Fel prawf o hyny mae yn crybwyll—er fod darganfyddiadau Copernicus a Galileo wedi tynu sylw yn ei amser ef a chyn hyny, eto ei fod ef yn eu gwrthod, neu yn eu hystyried yn annheilwng o sylw. Crybwylla Whately hefyd enghraifft nodedig arall o'i anallu i weithio allan ei egwyddorion ei hunan mewn athroniaeth naturiol, sef yr eglurhâd a rydd ar darddiad y planigyn a elwir uchelwydd (*mistletoe*). Y grêd gyffredin yn amser Bacon am y planigyn hwn, a'r un sydd wedi ei derbyn ar ol hyny yn gyffredinol er ys llawer o amser, ydyw—ei fod yn wir blanigyn yn cael ei gynyrchu gan ei rawn ei hunan, y rhai a ollyngir gan adar ar gangenan coed eraill: ffaith y cyfeirir ati mewn diareb Ladin i osod allan y rhai ydynt yn créu drygau dyfodol iddynt eu hunain, gan fod y Rhufeiniaid, yn yr hen oesoedd, yn gwneuthur math o sylwedd gludiog (*birdlime*) i ddal adar, o'r uchelwydd a genedlid fel hyn. Y mae yn ymddangos fod Bacon yn gwrthod yr eglurhâd hwn ar y planigyn, fel *vulgar error*, ac yn mynu nad ydoedd yr uchelwydd yn blanigyn gwirioneddol, ond yn orthysiad oddiar y pren ar ba un y mae yn tyfu! “Nis gellir dychymygu,” meddai Whately, “am ddim pellach oddiwrth ysbryd athroniaeth Bacon, na gosod fel hyn dybiaeth ar amcan yn lle ymchwiliad gofalus: a hyny hefyd, pan yr oedd crediniaeth gyffredinol yn ffynnu o berthynas iddo, a phan yr oedd yn amlwg mai y peth cyntaf a ddylesid ei wneyd oedd edrych i mewn i'r grediniaeth hon, pa un a ydoedd ar sylfaen dda ai nad

oedd. Nid yw y pwnc ei hunan, y mae yn wir, ond o ychydig bwys; ond y mae yn profi, yn gystal a phe buasai yr un mwyaf pwysig, ddiffyg yn Bacon mewn cymhwyso ei egwyddorion ei hunan. Oblegid, pan y mae un yn anelu yn bwylllog at unrhyw wrthddrych, ac yn methu ei nôd, y mae yn ei brofi ei hunan yn annelydd gwael, pa un bynag a ydyw y gwrthddrych ei hunan yn ddistadl ai peidio." Ar yr un pryd, dylem gofio fod y galluoedd yn y rhai yr oedd Bacon yn rhagori o radd llawer uwch na'r rhai yr oedd yn ddiffygiol ynddynt: ac yr oedd y gwasanaeth mawr a wnaeth efe i athroniaeth yn llawer mwy pwysig na'r eiddo lliaws o athronwyr ar ei ol, y rhai a aethant ymlaen yn y cyfeiriad y rhoddodd efe hwynt arno—y rhai a gloddiasant drysorau o'r maes cyfoethog y dygodd efe hwynt iddo. I ddefnyddio eto gymhariaeth yr Archesgob, "y mae yn anghenrheidiol wrth feddwl meistrolgar cādlywydd mawr i ffurfio cynllun rhyfelgyrch, ac i lywio yn briodol symudiadau cyrff mawrion o filwyr: ond gall y cādlywydd mwyaf galluog fod yn ol i lawer milwr cyffredin yn nefyddiad y dryll neu y cleddyf."

Rhagoriaeth mawr ysgrifeniadau athronyddol Bacon ydyw eu *hysbryd*: —y ddoethineb ddofn a sylweddol sydd yn eu hynodi, y gochelgarwch y maent yn ei feithrin rhag holl achosion cyfeiliornad,—y parch i ffeithiau, a'r cariad diledryw at *wirionedd*, y maent yn foddion i'w cenedlu yn y meddwl. Y mae yn ddiau fod *induction*—yr egwyddor fawr sydd yn brif elfen yn athroniaeth Bacon—wedi cael ei gorbrisio gan rai. Dysgwylid iddi ar un adeg wneuthur pobpeth; ac felly nid rhyfedd fod y dysgwyliadau hyny wedi cael eu siomi. Y mae yn ddiammheu hefyd fod y sylw ychwanegol i ffeithiau ac i'r gwyddoregau naturiol y bu yr athroniaeth hon yn foddion i'w ddwyn oddiamgylch, ynghyda'i chymhwysiad gan Locke ac eraill at ddeddfau meddwl, wedi rhoddi tuedd *sensational* i athroniaeth yr oesoedd diweddfaf: ac y mae mor amlwg a hyny, dybygem, fod gwrthweithiad neu adweithiad (*reaction*) penderfynol i hyn yn ei amlygu ei hunan yn ein teyrnas er ys blynyddoedd bellach. Yr oedd y symbyliad cyntaf mor nerthol, nes ein tafu yn rhy bell ymlaen: yr ydym yn awr yn araf yn troi yn ol. Y mae dyheuad am rywbeth mwy ysbrydol, yn cyrhaedd egwyddorion dyfnaf meddwl dyn—tuedd i ymddyrchafu oddiwrth yr anianol at yr *uwch-anianol*—a'r grediniaeth yn ennill tir nad yw y sylwadaeth fanylaf ar natur, na'r lliosogiad mwyaf o ffeithiau, o un gwerth heb gael eu cymhlethu a'u cydwáu yn barhaus â'r egwyddorion gwreiddiol hyny y rhai ydynt yn argraffedig ar lechau y rheswm: ac fel hyn yr ydym yn cael ein tafu yn ol yn y pen draw i chwilio i sylfeini crediniaeth ac i'r hyn sydd yn gwneuthur unrhyw wybodaeth yn bosibl, yn egwyddorion dyfnaf ein natur. Ar y llaw arall, yr ydym yn gostyngedig dybied fod y gwasanaeth a wnaeth Bacon i athroniaeth wedi cael ei brisio gan rai yn rhy isel—islaw ei wir werth. Y mae Macaulay, feddyliem, yn gwneyd hyn, yn ei erthygl dra galluog ar *Lord Bacon*, yr hon a ymddangosodd gyntaf yn yr "*Edinburgh Review*." Y mae yn ddiau nad oes neb wedi talu teyrnged fwy ardderchog, o ran talent a hyawdledd, i athroniaeth Bacon, o ran ei *ffrwythau*, na'r dyn galluog hwnw; ond y mae yn anhawdd genym feddwl nad yw yn hytrach yn bychanu gormod ar wreiddioldeb a newydd-deb *egwyddor* yr athroniaeth hono, sef *induction*. Y mae yn wir, fel y dadleua Macaulay, fod yr egwyddor yn hen, ac yn y byd o'r blaen, ac yn un ag y mae pob dyn gwledig, er na wŷr ddim am ei henw, yn ymresymu oddiarni bob dydd o'i fywyd.

Ond paham na buasid yn ei chymhwyso at athroniaeth o'r blaen? Os mai yr *amcan* oedd yn newydd, fel y mŷn ef, ac nad allasai neb a fuasai yn gosod iddo ei hunan yr un amcan, lai na mabwysiadu yr un rheol, paham ynte na fuasai yr amcan hwn wedi ei gymeryd o'r blaen? Fel cymdeithion Columbus gyda'r ŵy, y mae lliaws o bethau ag yr ydym yn methu yn deg a'u cyflawni, y fynydd y cyflawnir hwynt gan arall, yn ymddangos yn hynod o hawdd, ac yn peri i ni feddwl y gallasai y neb a fynai wneuthur yr un peth. Y mae yn ddiau fod y diwygiad mawr y bu Bacon yn foddion i'w ddwyn oddiamgylch wedi creu cyfnod newydd yn hanes athroniaeth—wedi rhoddi symbyliad a chyfeiriad newydd i'r meddwl dynol yn ei ymchwiliad am wybodaeth—ac wedi bod yn foddion i roddi bod i'r darganfyddiadau mwyaf, yn maes natur, a welodd y byd erioed. Dysgybl ffyddlawn yn ei ysgol ef, ac wedi yfed yn helaeth o'i ysbryd, oedd yr anfarwol Newton; yr hwn, yn unol âg egwyddor ei athroniaeth ef, a ymresymai oddiwrth syrthiad afal yn yr ardd at y deddfau sydd yn llywodraethu bydoedd yn eu cylchdroadau anferth; ac, â'r agoriad, megys, a roddasai Bacon yn ei law—a ddadglöödd ddirgelwech trefn y bydysawd—am yr hwn y canodd y Bardd Seisonig Pope, yr hyn sydd yn wir o ran sylwedd, er wedi ei wisgo mewn gormodiaith farddonol:—

“Nature, and nature's laws lay hid in night;
God said, Let Newton be!—and all was light.”

Buddugoliaethau ei athroniaeth ef ydyw yr agerlongau, y ffyrdd heiyrn, y gwefr-hysbysydd, a holl ddarganfyddiadau rhyfeddol celfyddyd yn yr amseroedd diweddfaf. Trwyddi y mae dyn yn dyfod yn “arglwydd y grëadigaeth,” yn meistroli elfenau natur, yn eu troi yn weision ufudd iddo, ac yn darostwng y cyfan megys â swyn i gydwasanaethu i'w gysur a'i ddedwyddwch ef. Ac y mae yn ddiau y parhâ i ennill buddugoliaethau newyddion ar natur yn wastadol, ac felly i brofi ac eglurhâu un o arwirebau enwog Arglwydd Bacon ei hunan, sef fod “GWYBODAETH YN NERTH.”

Fel hyn, yr ydym wedi treulio peth amser “gyda Bacon”—yn ei *Athroniaeth*, y mae yn wir, ac nid yn ei *Draethodau*,—fel y mae teitlau y llyfrau a roddasom uwchben ein hysgrif yn dangos yr oeddym yn bwriadu ar y cychwyn. Gan hyny, nid oes genym bellach ond rhoddi yr ychydig sylwadau sydd genym yn ol ar y Traethodau, yn nghyda dyfyniadau o honnynt, os cawn fywyd a hamdden, i ffurfio ail erthygl mewn Rhifyn dyfodol.

R H E S Y M E G .

YR AIL RAN.—*Barnau.*

25. Yr ydym, hyd yn hyn, wedi bod yn ystyried y ffurfiau cyntaf y corff-orir meddwl ynddynt—*delweddu* (conceptions). Gwelsom eu bodfyn cael eu ffurfio drwy gyfuno cynnrychydion priodoleddau unigol; ac, hefyd, drwy gyfuno sypiau o honynt, neu ddelweddu eraill. Ac y mae

yn eglur, gan ein bod wedi edrych ar ddelweddau ffurfiedig o ddelweddau eraill, ein bod, drwy hyny, wedi bod yn ystyried delweddau, i raddau mwy neu lai, yn eu perthynas â'u gilydd. Ond nid yw y sylw a dalasom iddynt felly, hyd yn hyn, ond rhywbeth gyda llaw. O hyn allan, caiff perthynas delweddau â'u gilydd fod yn brif destyn ein hymdriniaeth. Perthynas *ddigyfrwng* delweddau fydd ein testyn yn y rhan hon : eu perthynas *gyfrwngol* fydd yn y nesaf.

26. Cyn y gallwn gael *perthynas*, y mae yn amlwg fod dau beth, o leiaf, yn anghenrheidiol i gynnal y berthynas rhyngddynt. Ac i gynnal perthynas *ddigyfrwng*, nis gall fod rhagor na dau beth. Gall y ddau beth hyn fod yn syml neu gyfansawdd—yn unigolion neu yn ddosbeirth ; ond nis gallant beidio bod yn ddau. Cyn y gall fod perthynas, rhaid iddi gael ei dwyn gan beth neu bethau, i beth neu bethau eraill.

27. Gelwir yr hyn a ystyriwn fel yn dwyn y berthynas, cyhyd ag y parhâom i'w ystyried felly, yn *sylfon* (subject). Gelwir yr hyn yr ystyriwn fod y sylfon yn dwyn perthynas âg ef yn *draetheb* (predicate). Gelwir yr hyn a amlyga berthynas, neu ddiffyg perthynas, rhwng delweddau yn *gylmydd* (copula). Gelwir y ffurf hono o feddwl sydd yn penderfynu perthynas y sylfon â'r draetheb yn *farn*. Gelwir barn wedi ei gosod allan mewn geiriau yn *osodiad*. Felly barn yw gosodiad tra yn y meddwl ; gosodiad yw barn wedi ei hamlygu mewn geiriau. Gelwir y sylfon a'r draetheb, pa un bynag fyddont ai syml neu gyfansawdd—unigolion neu ddosbeirth—yn *dermau*.

28. Gan nas gallwn benderfynu perthynas dau *beth*, neu ddau gasgliad o bethau, ond fel y byddont yn sefyll yn ein meddyliau fel delweddau, y mae yn amlwg fod termau pob barn neu osodiad yn cynnwys, o leiaf, bawb ei ddelwedd. Os nad oes rhagor nag un ddelwedd yn gwneyd i fyny derm, y mae y gosodiad yn *syml*. Os bydd y naill derm neu y llall yn gyfansawdd, neu os bydd y ddau gyda'u gilydd felly, y mae y gosodiad yn *gyfansawdd*. Gosodiad syml yw, "A sydd B;" ond y mae "A sydd B ac C;" neu, "A a B sydd C;" neu, "A a B sydd C a D," yn gyfansawdd.

29. Gan ein bod wedi dyweyd mai swydd barn yw penderfynu y berthynas sydd rhwng dau beth, neu rhwng peth a chasgliad o bethau, neu rhwng dau gasgliad o bethau, y mae yn ofynol sylwi y gall y berthynas fod yn gadarnhâol neu yn nacâol : hyny yw, y gall perthynas weithredol fod, neu beidio bod, rhyngddynt. Dynodir y gosodiadau a amlygant fod perthynas weithredol yn bod gan y llythyren A, os bydd y berthynas rhwng yr oll o'r sylfon a rhan o'r draetheb : dynodir y gosodiadau a ddangosant nad oes perthynas weithredol yn bod rhwng y rhai hyn gan y llythyren E.

30. Gan ein bod wedi dyweyd mai swydd barn ydyw penderfynu y berthynas sydd rhwng y sylfon a'r draetheb—penderfynu pa un ai nacâol, ynte cadarnhâol yw,—y mae yn anghenrheidiol sylwi ar y gofyniad, pa berthynas a ddysgwylir ? I hyn y mae dau atebiad wedi cael eu rhoddi gan ein Rhesymegwyr goreu :—Perthynas o *unfeintedd*, medd rhai : Perthynas o *gynnwysiad*, medd y lleill. Nid yw y ddau atebiad yna mor anghydweddol â'u gilydd fel nas gallant gydsfyll ; ond y mae y naill yn fwy cymhwys i'r trefniant hwn, a'r llall i'r trefniant arall. Pan ddywedir mai â pherthynas o *gynnwysiad* y mae a wnelo barn, golygir fod ymholiad yn cael ei wneyd ganddi, a ydyw y sylfon yn *gynnwysedig* yn y draetheb

ai peidio?—a golygir nad yw gosodiadau yn ddim amgen nag amlygiad fod y sylfon yn gynnwysedig yn y draetheb neu nad yw. Cymerwn y gosodiad, “Pob dyn sydd farwol,” er enghraifft. Credir gan y rhai a ddaliant mai â pherthynas o gynnwysiad y mae a wnelo barnau a gosodiadau, maidyben y gosodiad hwn yw amlygu fod y dosbarth “pob dyn” yn gynnysgedig yn y dosbarth “marwolion.” Ac yn yr enghraifft, “nid yw angelion yn farwol,” meddylir fod y ffaith nad yw y dosbarth blaenaf, “angelion,” yn gynnwysedig yn y dosbarth olaf “marwolion”—yn cael ei hamlygu. Meddylw'n fod hyn yn wir am bob barn a gosodiad: ond gan fod yr atebiad blaenaf yn llawer mwy cymhwys i'r trefniant rhesymegol a gymeradwyir yn y traethawd hwn, y mae yn well genym, o herwydd hyny, ei dderbyn. Dywedwn, gan hyny, mai â pherthynas o *unfeintedd* y mae a wnelo barnau, ac felly gosodiadau; neu, mewn geiriau eraill, pan y byddom yn gwisgo barn mewn gosodiad, yr ydym yn amlygu fod y sylfon yr un faint a'r draetheb, neu, ei fod heb fod. Pan y gellir dyweyd fod y sylfon yr un faint a'r draetheb, y mae y gosodiad yn *gadarnhaol*: pan y byddom o dan orfodaeth i wadu hyn, y mae y gosodiad yn *nacäol*.

31. Amlwg yw y gellid arddangos perthynas neu unfeintedd y sylfon a'r draetheb mewn gwahanol ffyrdd (Dosran 14). A defnyddir gwahanol ffyrdd mewn iaith gyffredin. Ond gan y gellir dwyn yr holl ffyrdd a gymeradwyir gan iaith gyffredin i un, y mae Rhesymeg, yn ganlynol, yn myned heibio i'r holl ffyrdd eraill, ac yn sylwi ar yr un hono fel yr unig ffordd. Y ffordd y cyfeirwn ati yw, yr un a ddefnyddia ryw ran o'r ferf bod, neu ryw rai o höní mewn cysylltiad â negidydd, i ddangos unfeintedd neu anfeintedd y sylfon a'r draetheb. Er enghraifft, ffordd gymeradwy Rhesymeg i ddangos unfeintedd yw, “y mae A yn B;” neu, “A sydd B;” neu, “B yw A.” Ei ffordd gymeradwy i ddangos anunfeintedd yw, “nid yw A yn B;” neu “Y mae A heb fod yn B,” &c. Fe allai nad yw y darlennydd yn gweled eto, sut y gellir dwyn pob ffurf i hon: ond gydag enghraifft neu ddwy, ynghyd âg ychydig ystyriaeth, daw yn ddiagon amlwg. Y mae y darlennydd, feddyluem, yn gwybod nas gellir traethu neu wadu dim heb ferf. Nis gellir dyweyd fod A yn gymaint a B, neu wadu hyny, heb arfer rhyw ferf neu gilydd. Ac y mae y darlennydd yn gwybod yn ddiau y gellir troi pob berf i'w rhangymeriad ei hun, â rhyw ran o'r ferf bod. Er enghraifft gellir troi y ferf “taraw” yn y gosodiad, “tarawa A, B,” i'r ffurf hon, *y mae A yn taraw B*. Troir y gosodiad, “llosgodd y tân wellt,” i'r ffurf, “*y mae y tân wedi llosgi gwellt*.” Yr un berthynas a ddangosir gan y naill a'r llall o'r gosodiadau yma; ond y mae y rhai gyda'r ferf bod a rhangymeriadau yn fwy hylaw i ddybenion rhesymegol. Byddai yn suddiol i'r darlennydd a fyno ymgyfarwyddo mewn Rhesymeg arfer ei hun i ddwyn gwahanol osodiadau i'r ffurf hon.

32. Y mae y ferf bod yn afreolaidd iawn yn ei threigliad; ac oblegid hyny dylai y darlennydd gofio fod “y mae,” “sydd,” “yw,” &c., yn gymaint o ranau o höní a'u gilydd. Y mae mor briodol dyweyd, “Y mae A yn B;” “A sydd B;” “A, B yw;” a phe dywedem, “B yw A:” neu pe defnyddiem ryw ran arall o'r ferf bod. Ac y mae yn ddiau fod y darlennydd yn gwybod fod i'r cylmyddion “*y mae yn*,” “*sydd*,” “*yw*,” &c., wahanol ddulliau i gael eu harfer ynddynt. Y mae rhai o honynt yn mynu bod rhwng y termau; myn eraill fod rhyngddynt, neu ar ol y diweddaf; a myn arall fod o flaen y cwbl. Sylwed y darlennydd ar leoliad y

cylmyddion hyn—“*Y mae A yn B* ;” “*A sydd B* ;” “*A, B yw* ;” “*B yw A*.” Ac, yn ngwyneb hyn, y mae yn eglur i'r darlennydd mai nid y term blaenaf ymhob gosodiad yw y sylfon, a'r olaf yw y draetheb. Weithiau y mae yr olaf yn flaenaf, a'r flaenaf yn olaf. Y mae yn rhaid i'r darlennydd fod yn alluog i benderfynu pa un yw y sylfon neu y draetheb yn annibynol ar eu lleoliad. Er bod felly, byddai yn dda iddo gofio y rheol hon:—*Y sylfon yw yr hyn sydd yn dal y berthynas* ; y draetheb yw yr hyn y delir y berthynas ág ef. Neu hon:—*Am y sylfon y traethir* ; y draetheb yw yr hyn a draethir am dano. Enghreifftiau:—“*Y mae—Ioan—wedi ei daraw*.” Yma, y mae, yw y cylmydd ; *Ioan*, yw y sylfon ; *wedi ei daraw*, yw y draetheb. “*Ioan, doeth a chyfiawn—yw*.” *Ioan*—sylfon ; *doeth a chyfiawn*—traetheb ; *yw*—cylmydd. “*Ioan—sydd—yn bwriadu haelioni*.” *Ioan*—sylfon ; *sydd*—cylmydd ; *yn bwriadu haelioni*—traetheb, &c.

33. Anghenrheidiol yw dyweyd wrth y darlennydd, mai anaml, mewn cyferbyniad, y bydd ei dermau—y sylfon neu y draetheb—yn syml. O'r tu arall, y maent, y rhan amlaf o weithiau, fe ddichon, yn gyfansawdd. Felly y mae y draetheb yn yr enghreifftiau hyn:—“*Ioan—sydd—ddoeth a da*.” “*Hyfryd a melus—yw—rhinwedd*.” Felly hefyd y mae y sylfon yn y rhai hyn:—“*Mae—Ioan ac Idrys yn gyfeillion*.” “*Mae—fyrdd crefydd a ffridd gwirionedd yn cydreddeg*.” Ymholed y darlennydd yn barhâus, *Am faint y traethir* ; a, *faint a draethir*. Er hyny, nid oes eisieu i ni yn awr wneyd ein sylfonau na'n traethebau yn gyfansawdd: oblegid y mae yr hyn sydd yn wir am sylfon a thraetheb seml, yr un mor wir am rai cyfansawdd. Fel rheol gyffredin, caiff A gynnrychioli sylfonau a B draethebau.

34. Yr ydym wedi bod, hyd yn hyn, yn edrych ar osodiadau *honiadol*, (categorical) yn unig fel *rhyw* (genus); oblegid y mae gosodiadau *nacäol* mor honiadol a'r rhai *cadarnhäol*. Cawn sylwi yn awr ar ddau *fath* o osodiadau honiadol—gosodiadau *ammodol*, a gosodiadau *ysgarol*. Ffurf gosodiad ammodol yw hon:—“*Os yw A yn B y mae B yn C* ;” neu, “*Os yw A yn B y mae C yn D*.” A chaiff y rhai canlynol wasanaethu fel enghreifftiau o honynt:—“*Os yw y bara yn ddrud y mae yr enllyn yn isel*.” Neu, “*Os yw yr haul a'r lloer yn cyd-dynu y mae y llanw yn uchel*.” Ffurf gosodiadau ysgarol yw hon:—“*Y mae A yn B neu y mae A yn C*.” Neu, “*Y mae A, B, C, &c., yn D, E, F, &c., neu y mae A, B, C, &c., yn G, H, I, &c.*” Gosodir y canlynol gan Thomson fel yr holl ffurfiau y gall gosodiad ammodol fod ynddynt:—

1. Os yw A yn B y mae A yn C.
2. Os yw A yn B y mae B yn C.
3. Os yw A yn B y mae C yn A.
4. Os yw A yn B y mae C yn B.
5. Os yw A yn B y mae C yn D.

Rhoddir y canlynol ganddo fel enghreifftiau o'r rhai hyn. Bydd y rhifedi yn cyfateb i'w gilydd. Y mae y drydedd yn eiddom ni.

1. “*Os oes un ongl i driongl yn gyfongl, rhaid iddi fod gyferbyn â'r ochr fwyaf*.”
2. “*Os hyn yw prydyddiaeth, y mae prydyddiaeth yn ddiwerth*.”
3. *Os Prydeiniaid yw y rhai a anwyd yn Mhrydain, y mae y Cymry yn Brydeiniaid*.
4. “*Os yw rhinwedd yn beth ewyllysgar, y mae bai yn beth ewyllysgar*’.
5. “*Os yw yr haul a'r lleuad yn tynu yn yr un llinell, y mae y llanw yn ei uchder eithaf*.”

Gallwn roddi y rhai hyn fel enghreifftiau o osodiadau *ysgarol*:—“Y mae Ioan yn anfodrus, neu y mae Gwilym yn ddewr.” “Y mae Gwilym yn ddewr, Idrys yn ystrywgar, neu y mae Rolant yn ddiotal.” Gall y darlennydd roddi enghreifftiau eraill.

35. Yn awr, y mae y gofyniad yn cyfodi, A oes rhyw ffordd neillduol i ymdrin â'r gosodiadau hyn; ynte a ellir eu trin yr un fath a gosodiadau honiadol cyffredin? Yn ffortunus, fe ellir eu trin felly. Nid ydynt ond bathau (*species*) neillduol o osodiadau honiadol, a gellir, gydag ychydig o gyfnewidiad ar eu ffurf, eu trin yn gyffelyb. Ond pa gyfnewidiad mewn ffurf sydd eisieu? A ellid drwy ryw ddyfais, heb gyfnewid y synwyr, eu dwyn i wisgo ffurf gosodiadau honiadol cyffredin? Gadewch i ni weled. Pan y byddom yn defnyddio y ffurf, “Os yw A yn B y mae B yn D,” beth ydym mewn gwirionedd yn ei ddyweyd? Onid dyweyd yr ydym fod y ffaith, neu yr achos, &c., o fod B yn D, yn canlyn bob amser y ffaith, yr achos, &c., o fod A yn B? Os dywedwn, mewn canlyniad, fel hyn:—Y mae y ffaith, yr achos, &c., o fod A yn B, yn ffaith, neu yn achos, &c., o fod C yn D,—dyna ni wedi dwyn y gosodiad o fod yn ammodol i fod yn *honiadol*, heb gyfnewid dim ar y synwyr. Y ffordd a gymerwn, gan hyny, i ddwyn y ffurf ammodol i'r un honiadol gyffredin yw gadael yr “os,” &c., o'r neilldu, a defnyddio “Y mae yr achos, y ffaith,” &c., yn ei le. Fel hyn, yn dyweyd, “Os yw wedi bwrw gwlaw y mae y ddaear yn wlyb,” dywedwn, “Mae yr achos o'i bod wedi bwrw gwlaw yn achos o fod y ddaear yn wlyb.” Neu defnyddier rhyw air arall yn lle achos, megys ffaith, amgylchiad, neu beth bynag fyddo yn taro oreu i'r synwyr.

36. Gadewch i ni, eto, ymholi sut y mae dwyn gosodiadau *ysgarol* i rai honiadol cyffredin. Yn y frawddeg ganlynol, er enghraifft, beth mewn gwirionedd ydym yn ei ddywedyd—“Y mae Idrys yn dyweyd anwiredd, neu y mae Brochwel yn feddw?” Onid ystyr hyn yw—“Y mae genym ddau beth yn bosibl, ac y mae un o honynt yn wir:—fod Idrys yn dyweyd anwiredd, neu, fod Brochwel yn feddw. Ond eglur yw y gallwn osod hyn allan heb ddefnyddio y ffurf *ysgarol*. Gallwn, er enghraifft, ei osod allan fel hyn:—Y ddau beth hyall (*possible*) yw, fod Idrys yn gelwyddog, a bod Brochwel yn feddw. Ac y mae y darlennydd yn gweled fod y frawddeg hon yn osodiad honiadol cyffredin. Y mae y ffordd hon, gan hyny, yn gymhwys i ddwyn pob gosodiad *ysgarol* i un honiadol cyffredin:—Yr achosion, yr amgylchiadau, neu y ffeithiau posibl yw, fod A yn B neu C yn D.

37. Y mae rhai ysgrifenywyr—Devey, er enghraifft, wedi sylwi ar fath arall o osodiau—gosodiadau *moddiadol*. Cymeriad y rhai hyn yw, eu bod yn amlygu tebygolrwydd mewn perthynas i gysylltiad cadarnhäol neu nacäol y ddau derm. Megys, Y mae “Ioan, *wrth bob tebyg*, yn ddynd da.” Nid ydym, modd bynag, yn gweled, ei bod yn rhan o Resymeg Bur i sylwi ar y bath hwn. Pa ammheuaeth bynag a fodola ynghylch perthynas y ddau derm, nid dim yn y termau sydd yn ei achosi. Cyfyd yr ansicrwydd oddiwrth ein hanwybodaeth ni. Mor bell ag y mae y termau yn myned, y mae yn anhyall (*impossible*) fod ammheuaeth ynghylch eu perthynas. Y mae perthynas yn bod, neu heb fod, bob amser. A phan fyddo ein gwybodaeth yn berffaith am y ddau derm, byddwn yn gwybod digon i wneyd ammheuaeth ynghylch eu perthynas yn amhosibl. Y mae ymdrin â graddau crediniaeth yn perthyn i Resymeg gymysg.

38. Yr ydym wedi dyweyd yn barod, fod yn rhaid i ddau derm, syml

neu gyfansawdd, fod ymhob barn neu osodiad : a chan nas gall fod ond dau derm i gynnal perthynas ddigyfrwng, gadewch i ni ystyried pa nifer o unfeinteddau a ddichon fod rhyngddynt. Ein dau derm yw *A*, *B*. Tra y gelwn *A* yn sylfon a *B* yn draetheb, y mae yn amlwg y gallwn ddyweyd fod *A* i gyd yr un faint â *B* i gyd ; neu, fod yr oll o *A* yr un faint a rhan o *B* ; neu fod rhan o *A* yn gymaint â'r oll o *B* ; neu yn olaf, fod rhan o *A* yr un faint a rhan o *B*. Y mae genym fel hyn bedair o unfeinteddau. A chan ein bod wedi dyweyd mai amlygiad perthynas o unfeintedd yw y gosodiadau, y mae yn amlwg fod genym bedwar bath o osodiadau cadarnhaol. Gosodwn hwynt o flaen y darlleydd fel hyn, gyda'u neillduolion a'u llythyrenau dynodol :—

- | | | | | |
|---|---|--|---|----------------------------------|
| 1 | { | Y mae yr oll o <i>A</i> yn rhan o <i>B</i> ; | } | =oll—rhan=pob—rhai= <i>A</i> . |
| | { | Y mae pob <i>A</i> yn rhai <i>B</i> . | | |
| 2 | { | Y mae rhan o <i>A</i> yn rhan o <i>B</i> ; | } | =rhan—rhan=rhai—rhai= <i>I</i> . |
| | { | Y mae rhai o <i>A</i> yn rhai o <i>B</i> . | | |
| 3 | { | Y mae yr oll o <i>A</i> yn oll o <i>B</i> ; | } | =oll—oll=pob—pob= <i>U</i> . |
| | { | Y mae pob <i>A</i> yn bob <i>B</i> . | | |
| 4 | { | Y mae rhan o <i>A</i> yn oll o <i>B</i> ; | } | =rhan—oll=rhai—pob= <i>Y</i> . |
| | { | Y mae rhai <i>A</i> yn bob <i>B</i> . | | |

Yr ydym yma wedi gosod pob ffurf mewn dwy ffordd ; a hyny oblegid ein bod yn ystyried y ffordd flaenaf o osod y ffurf yn fwy cymhwys, pan y byddom yn edrych ar *A* neu *B* fel dosbarth neu gyfanswm ; a'r olaf pan y byddom yn edrych arnynt fel nifer o unigolion yn cyfansoddi dosbarth. Ac y mae o bwys i'r darlleydd gofio, nad oes dim yn wir am y *pob un*, nad yw yn wir hefyd am yr *oll* ; neu, mewn geiriau eraill, nad oes dim yn wir am yr holl unigolion a wnant i fyny ddosbarth, nad yw yn wir hefyd am y dosbarth a ffurfiant.

39. Yr ydym, fel hyn, wedi cael pedair unfeintedd :—rhwyng *rhan* o'r sylfon a *rhan* o'r draetheb ; rhwyng *yr oll* o'r sylfon a *rhan* o'r draetheb ; rhwyng *yr oll* o'r sylfon a'r *oll* o'r draetheb ; a rhwyng *rhan* o'r sylfon a'r *oll* o'r draetheb. Gosodwn yr anghreiffitiau canlynol o honynt mewn ffordd gyflynol (*concrete*) :—

1. Y mae dynion (*pob*) yn grëaduriaid (*rai*)=*pob*—*rhai*=*A*.
2. Y mae rhai dynion yn ddoethion (*yn rhai*)=*rhai*—*rhai*=*I*.
3. Y mae dynion (*pob dyn*) yn farwolion cyfrifol (*pob*)=*pob*—*bob*=*U*.
4. Y mae rhai dynion yn Negroaid (*oll o honynt*)=*rhai*—*pob*=*Y*.

Ceisied y darlleydd enghreiffitiau eraill iddo ei hun.

40. Yn chwanelog at y bathau hyn o osodiadau, y mae *Professor De Morgan* yn sylwi ar ddau fath arall ; y rhai a allwn eu galw yn osodiadau *Troshannerol*, a *Rhifbenodol*. *Troshannerol* y geilw y gosodiadau hyny a fynegant fod y rhan fwyaf o *A* yn *B* ; a *rhifbenodol* y geilw y gosodiadau a fynegant fod rhyw ran gyfrifadwy o *A* yn *B*, megys, y mae $\frac{1}{2}$ o *A* yn *B*. Y mae yn ddiau genym fod gosodiadau *Troshannerol* a *Rhifbenodol* yn cael eu defnyddio mewn iaith gyffredin, ond, y mae yn amhues genym a ddylid eu gwahaniaethu oddiwrth y rhai a roddasom eisoes—yr *oll* a'r *rhai* yn eu gwahanol gyfuniadau. Yn sicr, y mae yn amlwg fod yn rhaid i bob gosodiad fod yn yr *oll*, neu y *rhai* ; oblegid y mae y *rhai* yn cynnwys yr holl raddau i fyny hyd yr *oll*. Pan y byddom yn dyweyd fod y *rhan fwyaf* o *A* yn *B*, nid ydym yn dyweyd dim ond fod *rhai* *A* yn *B* ;

oblegid y mae y *rhai* mor alluog o sefyll am y rhan fwyaf ag ydyw am y rhan leiaf. Y mae "rhan o A," neu "rai o A," yn anmhenodol; ac felly gallant fod yn dros neu yn dan-bannerol. Ac amlwg yw fod unrhyw beth, pan y gellir ei wneyd yn rhifbenodol, yn dyfod drwy hyny oddiwrth y "rhan" a'r "rhai," i mewn i'r *oll*. Os gallwn ddyweyd, er enghraifft, fod $\frac{1}{2}$ o A yn B, y mae yn rhaid ein bod yn gwybod nad oes dim mwy na $\frac{1}{2}$ o A felly; oblegid, os nad ydym yn gwybod pa un a oes mwy na $\frac{1}{2}$ ai peidio, dylem wneyd y gosodiad yn anmhenodol ac nid yn rhifbenodol. Ond os ydym yn gwybod nad oes dim ond $\frac{1}{2}$ o A yn B, yr ydym yn gweled fod y $\frac{1}{2}$ hwn yn ddosbarth bychan ar ei ben ei hun; a chan ei fod felly yn ddosbarth ar ei ben ei hun, y mae yn gadael yr anmhenodol a'r rhifbenodol hefyd, ac yn dyfod i mewn dan yr "oll." Gallwm, mae yn wir, ddyweyd nad yw y dosbarth hwn ond $\frac{1}{2}$ o A, y dosbarth uwch nag ef; ond nid ydyw yn cydreddeg â thuedd y meddwl i gyfrif rhywbeth fel rhan o ddosbarth eangach, ac mewn canlyniad llai ei werth, pan y gall ei wneyd yn ddosbarth bychan, mwy gwerthfawr, ar ei ben ei hun. Yr unig beth sydd yn ymddangos i ni fel yn tueddu i orfodi y meddwl i wneyd hyny, yw diffyg enw priodol ar y dosbarth is; os nad allem ystyried mai enw ar y dosbarth is yw " $\frac{1}{2}$ o A." Os gallwn ddyweyd mai enw ar y dosbarth is yw " $\frac{1}{2}$ o A," yna, y mae, wrth reswm, yn dyfod i fewn dan yr "oll."

41. A chaniatáu nad yw y gosodiadau troshannerol a rhifbenodol, y soniasom am danynt, yn ffurfio bath gwahanol o osodiadau, y mae genym. fel y gwelsom (dos. 38), bedwar bath o osodiadau honiadol cadarnhäol, Yr unig beth y gwahaniaetha y rhai hyn oddiwrth eu gilydd ynddo yw *swm* y sylfon a'r draetheb. Hyny yw, nid yw y sylfon a'r draetheb i'w cael yr un modd ynddynt. Y mae y sylfon yn cael ei gymeryd i gyd yn rhai o honynt; yn y lleill, ni chymerir ond rhan o hono. Yr un modd y mae gyda'r draetheb. Cofied y darlennydd, gan hyny, mai gwahaniaethu mewn *swm* y mae gosodiadau pan y bydd y graddau y cymerir y sylfon, neu y draetheb, neu y ddau gyda'u gilydd, ynddynt, yn gwahaniaethu. Nid oedd yr hen Resymegwyr yn sylwi ond ar symiad y sylfon yn unig; neu o fwyaf, nid oedd eu symiad o'r draetheb yn myned ymhellach na'r rheol hon:—*Mae swm traetheb pob gosodiad cadarnhäol yn RHANOL, ac eiddo pob gosodiad nacäol yn GYFAN.* Hyny yw, ystyrient nad oedd ond rhan o'r draetheb yn cael ei chymeryd mewn gosodiadau cadarnhäol; a'u bod yn cael ei chymeryd i gyd mewn rhai nacäol. Y mae Syr William Hamilton wedi gweled diffygion yr hen drefniant; ac mewn canlyniad y mae yn ceisio diwygiad drwy symio y draetheb yn gystal â'r sylfon. Y mae ei welliantau wedi cyfarfod â gwrthwynebwy'r grymus; ond wrth gyferbynu y ddwy blaid, yr ydym yn credu mai efe yw y trechaf. Credwn fod ei gyfnewidiadau yn welliantau gwirioneddol. Y maent wedi gwneyd Rhesy meg, ar unwaith, yn gyflawnach ac yn symlach.

42. Ond, fel y cyfeiriasom eisoes, y mae gosodiadau nacäol yn gystal â chadarnhäol. Gallwn wadu yn gystal a haeru. A phan fyddo un gosodiad yn gadarnhäol a'r llall yn nacäol, dywedir eu bod yn gwahaniaethu mewn *ansawdd*. A chofied y darlennydd y gall gosodiadau wahaniaethu mewn *swm* ac *ansawdd* yr un pryd. Fel hyny y gwna y gosodiadau—Y mae *pob A* yn *B*; Nid yw *rhai A* yn *B*. Neu, gallai y gwahaniaeth fod yn fwy eto; gallai symiad y sylfonau a'r traethebau fod yn wahanol heblaw

fod un gosodiad yn nacäol a'r llall yn gadarnhäol—Y mae pob A yn rhai B; Nid yw rhai A yn bob B.

43. Ond pa nifer o osodiadau nacäol sydd genym? Y mae Rhesymegwyr ymhell o gyd-ddyweyd am hyn. Dywed Syr William Hamilton fod genym gynifer o osodiadau nacäol, neu, yn fwy cywir, fod genym gynifer o *furfiau* nacäol, ag sydd genym o rai cadarnhäol. Dywed eraill nad oes. A barnu ymlaen llaw, y mae yn rhaid i ni ddyweyd ei bod yn hawddach genym gydsynio â'r hyn a ddywed Syr William na'r lleill. Y mae braidd yn ymddangos yn hynod, nad oes genym gynifer o ffurfiau i wadu ag sydd genym i haeru. A phe felly y byddai, pa ddiogelwch fyddai i ni yn erbyn cyfeiliornad pan y byddai yn dod drwy y porth nad oes genym un drws o nacäd i'w gau yn ei erbyn? Y mae golwg ymlaen llaw ar bethau, yn ein dwyn i feddwl mai Syr William sydd ar yr iawn. Ac os ar yr iawn y mae, fel y tybiwn, y mae genym, wrth reswm, y ffurfiau nacäol canlynol:—

<i>Gos. Cad. Cyfatebol.</i>	<i>Gosodiadau Nacäol.</i>	<i>Neillduoion.</i>	<i>Llyth. Dyn.</i>
U. Mae pob A yn bob B.	Nid oes un A yn B	oll—oll=pob—pob.....	E
I. Mae rhai A yn rhai B.	Nid yw rhai A yn rhai B...	rhan—rhan=rhai—rhai... ω	ω
A. Mae pob A yn rhai B.	Nid yw pob A yn rhai B ...	pob—rhai=oll—rhan..... η	η
Y. Mae rhai A yn bob B.	Nid yw rhai A yn bob B ...	rhai—pob=rhan—oll.....	O

Pa ffordd neu eiriau bynag a arferir i haeru neu i wadu y pethau canlynol, dylid cofio fod y gosodiadau cadarnhäol a nacäol yn cael eu dynodi gan y llythrenau hyn:—

<i>Cadarnhäol.</i>	<i>Nacäol.</i>	<i>Yr hyn a haerir neu a weidir.</i>
U.....	E.....	Oll—oll=pob—pob.
I.....	ω	Rhan—rhan=rhai—rhai.
A.....	η	Oll—rhan=pob—rhai.
Y.....	O.....	Rhan—oll=rhai—pob.

44. Y mae Thomson, yn ei *Outline*, yn gommedd derbyn y ddwy ffurf nacäol, ω , η Ond gyda phob parch iddo, nis gallwn weled rhyw lawer o rym yn ei wrthresymiau. Yn sicr, y mae ei addefiad ei hun yn dinystrio pob gwrthreswm a ddefnyddia. Dywed "fod Syr W. Hamilton yn rhoddi pob enghraifft o osodiadau nacäol y *gellir meddwl am danynt*; tra nad yw y Rhesymegwyr eraill yn rhoddi dim ond y rhai ydynt mewn arferiad." Ac y mae hyn yn rhoddi lle i ni ddyweyd mai Syr William sydd yn iawn, yn ein bryd ni; ac yn iawn hefyd ar dir Mr. Thomson ei hun. Beth ydyw Rhesymeg yn ol ei ddarnodiad ef? Gwyddor ffurfiau rheidiol meddwl ydyw. Ac os gwyddor ffurfiau *rheidiol*, ac nid *gweithredol*, meddwl ydyw Rhesymeg, y mae yn amlwg fod y Rhesymegwr yn ymddwyn yn annheilwng o hönï, pan y byddo yn aros gyda y gweithredol, ac yn esgeuluso y rheidiol. Fel y dywed Syr William ei hun, y mae gwadu y "rhai—rhai" yn ymddangos yn waith anystwyth; ond fel y dywed efe, nid dim yn y ffurf ei hun sydd yn ei gwneyd felly. Y mae yr anystwythder yn codi o ddiffyg cynefindod. Ac, yn ol ein teimladau ni, y mae yn hawddach gwadu y "rhai—rhai," neu ddefnyddio y ffurf ω yn Gymraeg nag yn Saesoneg. Er enghraifft—Nid yw rhai dynion (seiri) yn rhai dynion (cryddion). Ond yn ddiammheuol gellir gwneyd y ffurf hon yn berffaith hawdd gyda phwysleisiad neillduol. Ymarfered y darlennydd â gwadu yn y pedair ffurf a roddasom. A chyn myned ymhellach, fe allai y dylem ddywydedd

wrth yr anghyfarwydd, fod y ddwy lythyren ω , η , yn cael eu galw, yn gyf-atebol, yn *Omega* ac *Eta*.

45. Y mae y darlennydd yn gwybod erbyn hyn beth a olygwn wrth y ddeuar *swm* (quantity) ac *ansawdd* (quality). Yn awr, y mae genym i ddyweyd fod gosodiadau yn cael eu dosbarthu i gadarnhäol a nacäol, fel y sylwasom eisoes ar gyfrif eu *hansawdd*; i *gyffredinol* a *neillduol* ar gyfrif *symiad y sylfon*; ac i *fwyhäol* a *dirprwyol* ar gyfrif *symiad y draetheb*. Yr ydym wedi dangos eisoes pryd y mae gosodiadau yn gadarnhäol a nacäol—pan yr haerir ac y gwedir; ac y mae eisieu i ni ychwanegu fod gosodiadau yn *gyffredinol* pan fyddo y sylfon yn *gyfan*, neu pan y cymerir ef i *gyd* i mewn; megys—Y mae *pob* dyn yn farwol; Y mae *pawb* yn farwol, &c.: ac yn *neillduol*, pan fyddo y sylfon yn *rhanol*, neu pan na chymerir ond rhan o hönö; megys—Y mae *rhai* dynion yn ddoeth; hyny yw, nid yw *pawb* o honynt felly. Y mae gosodiadau yn *fwyhäol*, pan fyddo y draetheb yn dyweyd rhywbeth am y sylfon sydd heb fod o reid-rwydd yn gynnwysedig yn y sylfon ei hun. Gelwir y rhai hyn yn *fwyhäol* am eu bod yn ychwanegu ein gwybodaeth am y sylfon. Y mae gosodiadau yn *dirprwyol*, pan na fyddo y draetheb ond y sylfon mewn geiriau eraill; megys—Dyn sydd anifail rhesymol. Gelwir y rhai hyn yn *dirprwyol* am y gall y draetheb newid lle â'r sylfon, a'r sylfon â'r draetheb; ac y mae y gallu i wneyd hyny yn ymddibynu ar y ffaith nad yw sylfon a'r draetheb, fel y sylwasom eisoes, ond yr un meddylddrych mewn geiriau gwahanol. Gellir dyweyd, Dyn sydd anifail rhesymol; neu, Anifail rhesymol yw dyn. Gosodiad dirprwyol yw pob darnodiad. Rhoddwn yn awr y dafsen ganlynol, gan Thomson, gydag ychydig o gyfnewidiad o flaen y darlennydd, er ei gynnorthwyo i gofio yr hyn a ddywedasom.

Gelwir gosodiadau ar gyfrif eu HANSAWDD yn—

Gadarnhäol;—pan fyddo y draetheb yn cael ei haeru am y sylfon.

Nacäol;—pan y defnyddir negidydd gyda'r clymydd; neu, pan ddangosir nad oes perthynas rhwng y sylfon â'r draetheb.

Ac ar gyfrif eu SWM yn—

(SWM Y SYLFON)—

Gyffredinol;—pan gymerir y sylfon yn y cyfan o hono.

Neillduol;—pan na chymerir ond rhan o'r sylfon.

(SWM Y DRAETHEB)—

Fwyhäol;—pan ddywedir rhywbeth am y sylfon na chynnwysid ynddo o'r blaen—y draetheb yn rhanol.

Dirprwyol;—pan na fyddo y draetheb ond yr un peth â'r sylfon, ond mewn geiriau eraill,—y draetheb o ran ei swm yn gyfan.

46. Y mae Rhesymegwyr wedi arfer ynholi beth a ellir draethu am unrhyw sylfon; neu, mewn geiriau eraill, a chaniatäu fod y sylfon yn unrhyw beth, pa bethau ellir eu gwneyd yn draethebau iddo. Dywedwyd yn gyffredin, ar ol Aristotl, y gellid traethu y *ddamwain*—neu, yr hyn sydd yn perthyn i rywbeth, heb fod mor agos fel ag i wneyd i fyny ran o'i natur; y *priawd*—yr hyn sydd yn perthyn i bob unigolyn mewn bath, ond heb fod yn ddigon pwysig i gael ei wneyd yn raledd (*differentia*) nag yn rhan o hönö; y *darnodiad*, yr hyn sydd yn cynnwys priodoleddau hanfodol y sylfon, os nad y cyfan o honynt; yn olaf, y *rhyw*—yr hyn sydd yn cynnwys holl briodoleddau y sylfon, oddieithr y *rhaledd*, y *priawd*, a'r *ddamwain*. Galwyd y galluoedd meddyliol cryfaf i weithrediad, er gosod pob peth y gellid meddwl am dano yn y dosbeirith mwyaf cyfleus; a chan fod

pob peth y gellid meddwl am dano i gael ei osod dan un, neu y llall, o'r dosbeirth yma, meddylid nad oedd dim yn anghenrheidiol er cael *sylfonau* ond myned at y dosbeirth hyn; y rhai a alwent yn *Rithegresi*, neu os mynir—y *Bodresi*. Ceisiwyd wedyn ffurfio dosbeirth i gynnwys pob peth y gellid eu gwneyd yn *draethbion*, a galwyd y rhai hyn yn *Hydraethion*. Y mae y *Brodresi*, wedi y cyfan, yn perthyn mwy i'r Arddansoddwr nag i'r Rhesymegwr; ac y mae yr hen *Hydraethion* wedi rhoddi ffordd i ddsbarthiad gwell a symlach—gwell, oblegid nad yw yn ceisio gwahaniaethu rhwng pethau ydynt, os nad yr un peth, yn rhedeg ymhell i'w gilydd—*rhaledd*, *priawd*, a *damwain*. Y dosbarthiad a roddwn ni o'r Hydraethion ydyw i'r *rhyw*, y *bath*, a'r *rhaledd*; gan gynnwys yu y rhaledd bob peth y ceisid eu rhanu o'r blaen rhyngddo ef a'r ddau beth a adawsom allan—y *priawd* a'r *ddamwain*. Anmherffeithrwydd mewn delwedd o *fath* ydyw gadael y *priawd* allan o'i rhaledd: ac anmherffeithrwydd yn ein delweddau o unigolion yw gadael eu damwaenion allan.

47. Cyn gadael y rhan yma, fe allai mai priodol fyddai ychwanegu enghreifftiau cyffynol o'r holl osodiadau honiadol y sylwasom arnynt. Gwelsom fod y rhai hyn yn wyth mewn rhifedi:—pedair yn gadarnhäol, a phedair yn nacäol:

A. Mae'r holl Baganfaid yn (rhaf o) ddyinion.

E. Nid oes un dyn (unrhyw un—pawb) yn aderyn (yn unrhyw un).

I. Mae rhai Cymry yn (rhaf) llenyddwyr.

O. Nid yw rhai Cymry yn (unrhyw) llenyddwyr.

U. Mae'r adar yn (holl rai) bliog.

Y. Mae rhai dyinion yn (yr oll o) Iuddewon.

ae. Nid yw rhai awdwyr (Bacon, Byron, &c.) yn rhai awdwyr (Dewi Wyn, Gwen-ffrd, &c.)

7. Nid yw yr holl bysgod yn (rhaf) ddyinion.

45. Y mae y darlennydd yn cofio yr hyn a ddywedasom am y bath a'r rhyw, neu, yr isfath a'r bath; neu ar fyr am unrhyw isddosbarth ac uch-ddosbarth. Dywedasom fod y dosbarth uwch yn cynnwys y dosbarth is yn ei *geuedd* (extension); a bod y dosbarth is yn cynnwys yr un uwch nag ef yn ei *drwch* (intension). Neu, gan fod yr un peth yn dal am unigolion, yn gystal ag am ddsbeirth, gallwn ddyweyd fel hyn:—Y mae y ddelwedd sydd yn fwy cyffredinol yn amgau yr holl gyd-ddelweddau ydynt yn fwy neillduol, a thrwyddynt hwy y dosbeirth odditanynt—yn ei cheuedd; ond y mae y ddelwedd sydd yn fwy neillduol o hōni hithau yn cynnwys yr holl gyd-ddelweddau mwy cyffredinol na hi yn ei thrwch. Mewn canlyniad, y mae yn eglur ein bod, pan yn dyweyd fod delwedd is tu fewn i geuedd delwedd uwch, yn dyweyd ar yr un pryd fod y ddelwedd uwch tu fewn i drwch y ddelwedd is. Fel hyn, y mae pob gosodiad (cadarnhäol o leiaf) yn gyfansawdd. Os ydyw yn amlgu fod y sylfon yn gynnwysedig *dan* y draetheb, y mae, o reidrwydd, yn amlgu ar ar un pryd fod y draetheb yn gynnwysedig *yn* y sylfon.* Neu, o'r tu arall, os amlgir yn y gosodiad fod y sylfon yn gynnwysedig *yn* y draetheb, amlgir yn gyfamserol fod y draetheb yn gynnwysedig *dan* y sylfon. Y mae trwch a cheuedd delw-

* Yr ydym yma wedi dilyn Syr William Hamilton i ddyweyd fod rhywbeth—rhyw ddelwedd—yn gynnwysedig *dan* y llall, pan fyddo felly gyda golwg ar ei cheuedd; a bod delwedd yn gynnwysedig *yn* y llall, pan fyddo felly gyda golwg ar ei thrwch. Y mae "dyn" yn gynnwysedig *dan* "anifail"; y mae "anifail" yn gynnwysedig *yn* y ddelwedd "dyn." Fe gallom gael dau air i sefyll—un am *gynnwys dan*, a'r llall am *gynnwys yn*, byddai yn dda genym.

eddau, o reidrwydd, yn dilyn eu gilydd. Nis gallwn gael delweddau hebddynt. Ac y mae y cysylltiad annattodadwy sydd rhwng trwch delweddau â'u ceuedd yn gwneyd yr hyn y cyfeiriasom ato yn ddeddf anghyfnewidiol mewn gosodiadau—yn ddeddf sydd yn ddiwahaniaeth yn *mynu* ufudd-dod gan bob un fyddo yn gwneyd gosodiadau. Er hwylusdod, gosodwn y ddeddf y cyfeiriwn ati o flaen y darlennydd yn y geiriau hyn :—*Nis gallwn amlygu fod y sylfon yn gynnwysedig DAN neu YN y draetheb, heb amlygu ar yr un pryd fod y draetheb yu gynnwysedig YN neu DAN y sylfon.* Y mae y geiriau *dan* ac *yn*, *yn a than*, yn cyfateb i'w gilydd. Er rhoddi mantais i'r darlennydd ddeall hyn yn well, siaradwn yn fwy cyflynol. Y mae yn anhyall i ni ddyweyd fod "dyn" yn gynnwysedig *dan* y ddelwedd "anifail"¹—neu os mynir y dosbarth a wneir trwyddi, heb ddyweyd hefyd fod y ddelwedd "anifail" yn gynnwysedig *yn* y ddelwedd "dyn." Y mae trwch y naill yn gwneyd i fynd ran o drwch y llall. Beth ydyw trwch y ddelwedd "dyn?" Holl drwch y ddelwedd "anifail," gyda'r priodoleddau o resymoldeb a ffurf neillduol, mewn ychwanegiad.

49. Yr ydym yn awyddus am i'r darlennydd gael golygiadau cyfaddas ar hyn, oblegid fod un o athrawiaethau pwysicaf Rhesymeg yn seiliedig ar hyn yma. Cyfeiriwn at yr hyn a gawn alw yn *ddatdroad gosodiadau*. Ceisiwn egluro beth ydyw hyny fel hyn :—Dywedasom fod pob gosodiad yn gyfansawdd; a'u bod felly o reidrwydd. Ond y mae yn anhyall i'r *meddwl* dalu sylw i ddau beth ar unwaith. Ac felly, er fod perthynas y ddau derm ydynt yn sylfon y gosodiad yn gyfansawdd mewn gwirionedd, eto ni thelir sylw ond i un rhan o'r cyfansoddedd ar y tro; ac felly y mae pob gosodiad yn syml, mor bell ag y mae y meddwl yn gallu ymwneyd âg ef ar *unwaith*. Nis gall feddwl ond am A yn cynnwys B, neu, B yn cynnwys A, ar y tro; er fod y gosodiad yn cynnwys y naill yn gystal â'r llall yn *gyfamserol*. Ond pa un ai am A yn cynnwys B, ynte am B yn cynnwys A, y meddylia y meddwl gyntaf, gan nas gall feddwl am danynt yn cynnwys y naill y llall ar y tro? Ymddibyna hyny yn gyfangwbl ar y cyfrwng drwy ba un y trosglwyddir y gosodiad—neu a siarad yn gywirach, y *farn*, i'r meddwl. Os trwy ryw arddangosiad cyffelyb i'r un a roddir isod*, y mae y meddwl at ei ryddid i gymeryd ei ddewis. Gall feddwl yn gyntaf am A yn cynnwys B, os myn; neu am B yn cynnwys A. Gan nas gall feddwl am ddwy ran y cyfansoddedd ar unwaith, cymered ei ddewis i ddechrau. Ond os trwy *iaith* y trosglwyddir y *farn* i'r meddwl, y mae pa ran o'r cyfansoddedd a gymerir gyntaf ganddo yn ymddibynu ar y dull y byddo yr iaith yn cael ei defnyddio. Os dywedir, y mae A yn B, rhaid iddo feddwl am A yn gynnwysedig yn B; ac os ydyw yn ewyllysio meddwl am B yn gynnwysedig yn A, y mae yn rhaid iddo newid y geiriau neu y dull o'u defnyddio. Y mae yn rhaid iddo ddyweyd "A yw B," neu "Y mae B yn A." *Datdroad gosodiadau*, mewn canlyniad, *yw y gwaith o ddefnyddio y geiriau a osodant allan berthynas gyfansawdd rhwng dau derm, yn y fath fodd ag a ddygo y meddwl i gymeryd sylw o'r hyn a ystyrir ganddo yn CYNWYS yn ol ffurf flaenorol y geiriau, fel peth CYNWYSEDIG yn awr; ac o'r hyn a ystyrir o'r blaen yn GYNWYSEDIG fel peth sydd yn awr yn CYNWYS.* Mewn geiriau eraill, symlach a hawddach eu deall, ond llawer llai gwasanaethgar i'r dyben sydd genym mewn golwg,

* A ~~B~~ B:—dengys hyn, yn gyfamserol, fod A yn cynnwys B, a B yn cynnwys A.

datt rôad y gosodiad yw y gwaith o wneyd y draetheb yn sylfon, a'r sylfon yn draetheb, fel ag i ddwyn y meddwl i dalu sylw i'r rhan hono o'r berthynas gyfansawdd a adawodd yn ddisylw o'r blaen.

50. Dichon fod y darlennydd yn methu gweled i ba beth yr ymdröwn yma. Ein hamcan ydyw ceisio dangos mai nid tynu casgliad ydym, fel y dywed Thomson ac eraill, pan fyddom yn dattroi gosodiad. Pan yn dattroi, nid ydym ond defnyddio y geiriau hyny, neu y dull hwnw, o'u harfer, ag a sicrhânt ystyriaeth y meddwl i'r rhan hono o'r berthynsa gyfansawdd rhwng dau derm, a esgeuluswyd ganddo o'r blaen, er mwyn ystyried y rhan arall o honi. Gan fod Thomson yn credu nad yw gosodiad datt rôedig ond casgliad oddiwrth yr un blaenorol, y mae, yn eithaf naturiol, yn ymdrin â datt rôad gosodiadau yn y llyfr sydd yn cynnwys ei driniaeth o'r cyfreswm. Pe bai gosodiadau datt rôedig, mewn gwirionedd, yn gasgliadau oddiwrth eraill, dylem ninnau wneyd yr un peth. Ond fel y ceisiasom ddangos, nid ydym yn credu mai casgliadau ydynt: amlygiadau syml o ffaith oblygedig yn y gosodiad blaenorol, ydynt.

51. Cawn alw y gosodiad cyn ei ddattroi yn *gyndroityn* (convertend); ac wedi ei ddattroi yn *ddattroityn* (converse). Fel hyn, *cyndroityn* yw, "y mae (pob) A yn (rhai) B;" a *dattroityn* yw, "y mae (rhai) B yn (bob) A."

52. Yr oedd datt rôad gosodiadau yn waith dyrus ac anhawdd, heb ddyweyd dim am afreoleidd-dra, cyn i Syr William Hamilton ddwyn i mewn symiad y draetheb. Yn awr, y mae dattroi gosodiadau yn un o'r pethau hawddaf. Nid oes eisieu ond gwneyd y sylfon yn draetheb, a'r draetheb yn sylfon. Rhaid gofalu, fodd bynag, i gadw symiad y naill a'r llall heb gyfnewid dim arno. Fel hyn, dattroityn, "mae pob A yn rhai B" yw, "mae rhai B yn bob A;" a byddai rhoi "mae pob B yn bob A" fel dattroityn y blaenaf yn anghyfreithlawn.

53. Yr oedd yn anhyall dattroi pob gosodiad cyn i ddiwygiad Syr William gael ei ddwyn i mewn. Ac y mae De Morgan a Thomson, y rhai a dderbyniant yr athrawiaeth o symiad y draetheb, mewn rhan ac nid yn gyflawn, yn cael eu hunain yn y fan mewn anhawderau nas gellir eu symud. Cyn gallu dattroi pob un o'r wyth gosodiad y sylwasom arnynt o'r blaen, y mae yn rhaid i ni dderbyn athrawiaeth Syr William yn yr oll o honi,—symiad dïeithriad o'r draetheb. Y mae y darlennydd yn gyfod ein bod ni wedi ei derbyn eisoes; ac felly yr ydym yn alluog i ddattroi mewn modd syml, bob math o osodiad. Y cyndroitynau a'r dattroitynau cyfatebol i'w gilydd yw y rhai hyn:—

<i>Cyndroitynau.</i>	<i>Dattroitynau.</i>
A=oll—rhan=pob—rhai.....	Y=rhan—oll=rhai—pob.
E=oll—oll=pob—pob.....	E=oll—oll=pob—pob
I=rhan—rhan=rhai—rhai...	I=rhan—rhan=rhai—rhai.
O=rhan—oll=rhai—pob.....	η=oll—rhan=pob—rhai.
U=oll—oll=pob—pob.....	U=oll—oll=pob—pob.
Y=rhan—oll=rhai—pob ...	A=oll—rhan=pob—rhai.
ω=rhan—rhan=rhai—rhai...	ω=rhan—rhan=rhai—rhai.
η=oll—rhan=pob—rhai.....	O=rhan—oll=rhai—pob.

Nid ydym yn golygu fod unrhyw eglurhâd yn anghenrheidiol yma.

54. Yn awr, y mae y gofyniad yn cyfodi yn naturiol, a chymeryd i mewn *ansawdd* a *swm* gosodiadau, pa wahanol arweddoedd a ddygant y uauill tuag at y llall? Rhaid i sylfon a thraetheb pob un o'r gosodiadau

fod yr un peth; yr unig bethau y cânt amrywio ynddynt yw swm y sylfon neu y draetheb, neu eiddo y ddau gyda'u gilydd, ynghyd âg ansawdd y gosodiad. Os nad all dau osodiad fod yn wir gyda'u gilydd; os rhaid i un o honynt fod felly; ac os nad allwn wadu y naill heb gadarnhau y llall, dywedir fod eu harwedd yn *wrthwedol* (contradictory). Arwedd wrthwedol sydd rhwng "nid oes un dyn yn ddoeth," ac "y mae rhai dynion yn ddoeth." Nid all y ddau osodiad yma fod yn wir gyda'u gilydd; y mae yn rhaid i un o honynt fod yn wir; a phan fyddom yn gwadu un yr ydym yn hōni y llall. Pan nas gall dau osodiad, un yn gadarnhâol a'r llall yn nacâol, fod yn wir gyda'u gilydd, er y gallant fod yn anwir felly, y maent yn dwyn arwedd *groeswedol* (contrary). Fel hyn y gwna A ac E, E ac U, E ac Y, &c. Nis gallwn ddyweyd "fod pob dyn yn ddi-niwed," ac "nid oes un dyn diniwed," yr un pryd. Os yw y naill yn wir nis gall fod y llall; er y gall fod y naill a'r llall yn anwir ar unwaith, ac fel hyn, yn wir, y maent. Os gosodir i lawr un o ddau osodiad croeswedol, gallwn gymeryd yn ganiatâol fod y llall yn cael ei alw yn ol. Ond os gelwir un o honynt yn ol, nis gallwn feddwl fod y llall yn cael ei roddi i lawr. Os rhoddir y gosodiad "y mae pob dyn yn gelwyddog," nis gallwn roddi i lawr hefyd, "nid oes un dyn yn gelwyddog." Ond os gwedir y blaenaf, neu yr olaf, nid yw yr olaf neu y blaenaf yn canlyn. Gall fod *rhai* dynion yn gelwyddog, ac *eraill* heb fod. Arwedd *anghyson* a ddygir gan ddau osodiad cadarnhâol nas gallant fod yn wir gyda'u gilydd, er y allant gyda'u gilydd fod yn anwir. Felly y mae A ac U, A ac Y, &c. Gosodwn enghraifft gyflynol o A ac U. Dywed A, "y mae pob Negro yn ddyn;" hyny yw, y mae yr *hall* Negroaid yn *rhai* dynion. Ond dywed U, "y mae y Negroaid (yr oll o'r) yn ddynion (yr oll o honynt)." Amlwg yw, nad yw yr olaf yn wir, os yw y blaenaf felly: na'r blaenaf os yw yr olaf. Gosodiad *myyhâol* yw A; un *dirprwyol* yw U. A chymeryd fod swm y draetheb yr un peth, y mae dau osodiad yn *gydswyddol* (subalternate), pan y cysylltir hi â'r cyfan o'r sylfon yn un, ac â rhan o hono yn y llall. Felly y mae A ac I, ac E ac O; oblegid, y mae yr un peth yn dal am osodiadau nacâol. Gelwir sylfon y cyfan (Dosb. 41), yn uchswyddog; a'r un rhanol (Dosb. 41), yn is-swyddog. Yn y gosodiadau "y mae pob A yn B," ac "y mae *rhai* A yn B," y mae genym arwedd *gydswyddol*. Gelwir y sylfon, ac mewn canlyniad y gosodiad blaenaf, yn uchswyddog; a'r olaf yn is-swyddog. Amlwg yw fod yr is-swyddog yn canlyn os gosodir yr uchswyddog i lawr: ond nid yw yr uchswyddog, o reidrwydd, i ganlyn yr is. Rhaid i'r gwas ganlyn y meist; ond ni chanlyna y meist y gwas. Arwedd *is-groeswedol* sydd rhwng I ac O, &c: neu osodiadau neillduol nacâol, a rhai neillduol cadarnhâol. Y pump arwedd hyn,—Y *gwrthwedol*, y *croeswedol*, yr *anghyson*, y *gydswyddol*, a'r *is-groeswedol*, yw yr oll yr ymdrinir â hwynt yn ein Gweithiau Rhesymegol. Amlwg yw, fodd bynag, fod un berthynas, neu arwedd arall y gellid sylwi arni:—yr un a hanfoda rhwng A ac Y. Yma y mae sylfon A yn gyfan, ar draetheb yn rhanol; a thraetheb Y yn gyfan, a'r sylfon yn rhanol. Cawn alw yr arwedd hon yn *groes yn nghroes*.

Dyma ni bellach wedi dyfod i ddiwedd yr Ail Ran; a chan fod ein gofod yn myned yn brin, ni a roddwn i fyny ar hyn, gan ddymuno llwyddiant i'r darllenydd wrth astudio yr hyn a ysgrifenasom y tro hwn, hyd nes y caffom y fraint o gyfarfod âg ef eto.

Crem ar Fyd ar Eglwys.

Y GWRTHRYFEL milwraidd yn yr India, sydd yn awr yn destun mawr pryder a siarad Prydain, ac yn wrthddrych sylw y byd gwareddiedig yn gyffredinol. Fel y dywedodd un dyoddefydd yn Benares, dyna brofiad yr holl boblogaeth Brydeinig drwy dalaeth Bengal, "Yr oeddem yn ein tybied ein hunain mor ddiogel yma âg y buasem yn ngwlad ein genedigaeth, ond yn ddisymwth cawsom ein hunain yn noeth i'r trychineb mwyaf. O'r blaen yr oedd meddu gwyneb gwyn yn fantais neillduol; ond er dechreu yr ymosodiad hwn, y mae wedi bod yn nôd i gyllell y llofrudd." Erioed ni chlywyd am y fath gieidd-dra a chynddaredd uffernol ag a weithredwyd gan y gwrthryfelwyr bradwrus tuag at ferched tyner a babanod digymhorth yn Delhi, Cawnpore, a gorsafau eraill y gwrthgodiad. Ymhob tref lle y darfu i'r gatrawd frodorol wrthryfela, y peth cyntaf a wneid oedd anfon nifer o filwyr i bob tŷ Ewropëaidd, a'r rhai hyn yn ebrwydd yn y modd creulonaf a sarhäent, a laddent, ac a gigyddient yr holl deulu. Yr oedd Byddin Frodorol Bengal yn gynnwysedig o bedwar ugain, ac uchod, o gatrodau; ac y mae y rhai hyn oll, gydag ychydig o eithriadau, wedi troi allan yn wrthryfelgar. A cheisiodd un gatrawd yn Bombay ddilyn eu hesiampl; ond darostyngwyd y gwrthryfel yno, dybygir, pan yn dechreu ymddangos. Mae yn lled sicr, meddir, mai eiddigedd Mahometanaidd sydd yn wreiddyn yr holl gythrwf a'r terfysgoedd a'r creulonderau presennol yn yr India. Yr oedd y Mahometaniaid er ys hir amser yn cynllunio yn ddichelgar pa fodd i ddwyn yn ol deyrnwialen yr India i ddwyllaw dilyn-wyr "y Prophwyd," a llywyddasant i ddenu yr Hindwaid ofergoelus i'r cydfradwriaeth. Rhaid fod rhywbeth tebyg i ddallineb barnol wedi meddiannu yr awdurodau Prydeinig yn yr India, onide gallasant weled egin y gwrthryfel yn blaendarddu er ystalm. Fe ddywedir iddynt gael eu rhybuddio fwy nag unwaith yn llythyrenol o'r ymdoriad oedd ar ddyfod, ac nad oedd y cyfryw rybudd ond dychymyg disail yn eu golwg, gan yr hyder mawr oedd ganddynt yn fyddlondeb y Sepoyaid, neu y milwyr brodorol, ac yn eu rheolaeth arnynt. Y farn gyffredin yn awr ydyw, fod y ddysgyblaeth filwraidd a arferid tuag at y Sepoyaid wedi myned yn fethiant drwy ddangos gormod o anwes a charedigrwydd iddynt; canys aeth y brodorion i gredu fod yr hynawsedd a amlygid atynt, a'r parch a delid hyd yn nod i'w rhagfarnau, yn tarddu oddiar wendid, ac yn ffrwyth ofn, ac yr oedd hyn yn eu haddfedu yn raddol i godi yn erbyn eu llywiauwyr. Yn wir, ymddengys fod y drefn o lywodraethu yn yr India yn un gyfres o gamgymeriadau, ac y rhaid ei diwygio yn drwyadl os mynem gadw meddiant rhaglawn yn ein tiriogaethau Indiaidd.

Hyd yma, nid ymddengys fod y gwrthryfel wedi ymledu nemawr oddi-allan i gylch y Sepoyaid. Gellid meddwl fod corff mawr y brodorion yn gwerthfawrogi iau Prydain, gan wybod ei bod yn un esmwyth a manteisiol iawn mewn cymhariaeth i ormeslywiaeth yr hen dywysogion brodorol. Yn ynghanol yr adroddiadau echrslawn am y gwrthryfel a'i weithrediadau waedlyd, mynegir hefyd am liaws o waredigaethau rhyfedd a phwysig sydd

yn galw am ddiolchgarwch arbenig i Arglwydd Dduw Rhagluniaeth. Yr oedd yn ninas Calcutta ei hunan filoedd yn barod, medd Dr. Duff, i wrthryfel, yspellio, a thywallt gwaed; ond y bradwriaeth yno a gafwyd allan ac a rwystwyd mewn modd gwyrthiol ymron; ac onide nid oes neb a all ddyweyd ymha le y buasai y trychineb yn dybennu. Mae y milwyr Prydeinig yn bresennol yn dylifo yn filoedd tua y parthau gwrthryfelgar; ac yr ydym yn hyderu ac yn gweddio am derfyniad buan i'r aflywodraeth a'r holl bethau gofidus sydd yn awr yn ffyni yn yr "India èang fras." Ac yn enwedig dymunwn lfeiniad ei milfiloedd pobl yn ysbryd ac egwyddorion efengyl y tangnefedd.

Bu Ymherawdwr Rwssia yn ymweled â Prwssia, a pharthau eraill o Germany; a chyfarfu yr Ymherawdwr Louis Napoleon ág ef yn llys Brenin Wurtemberg, lle yr ymddangosai y ddau ymherawdwr yn croesawu eu gilydd yn wresog, ac y cynnaliasant gydgyfrinach ddirgel. Er fod materion eu hymddyddan yn anwybyddus, ac nad yw yr archdywysogion hyn, y Rwssiad mwy na'r Ffreneyn, yn wrthddrychau ffydd gref Prydeiniaid, eto hyderir fod y gyfeillach hon rhwng y rhai y bu eu byddinoedd mor ddiweddar yn ymladd y naill â'r llall, yn arwydd, os nad yn ernes o barhâd hir heddwch y Ewrop. Felly y byddo.

Y gynnadledd fawr a gynnaliwyd yn Berlin, prif ddinas Prwssia, mewn cysylltiad â'r Cynghrair Efroglaidd, yw un o'r pethau pwysicaf sydd wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn y byd crefyddol. Yr oedd Uchel-Eglwyswyr Prwssia, gan gael eu blaenori gan Dr. Hengstenberg, wedi prophwydo drygioni, ac nid daioni, am y cynnulliad dysgwylidig. Galwent y Cynghrair yn "gynghrair o herw-helwyr ar y tir eglwysyddol; yn gynghrair o An-, yn hytrach o Wrth-Eglwysyddiaeth; yn gynghrair oedd, o dan rith rhyfela â Phabyddiaeth a Phuseyaeth, wedi cyhoeddi rhyfel, mewn gwirionedd, yn erbyn holl weddillion, a phob adfywiad o, ysbryd eglwysig." Ond, yn gyferbyniol i'w gwrthwynebiad hwy, yr oedd Brenin Prwssia, o'r dechreuad, yn dangos ymlyniad wrth egwyddorion y cynghrair, ac yn dadgan ei foddhâd yn nysgwyliad y gynnadledd i'w briffddinas; ac efe a roes beiriannwaith ei lywodraeth ar waith i rwyddhâu y ffordd a pharatoi lle iddi; a phan ei gynnaliwyd, efe a'i croesawodd yn bersonol. Bu hyn yn fantais fawr i'r Cynghrair, canys, fel yn y dyddiau gynt, felly eto,—“Lle byddo gair y brenin y mae gallu.” Yr oedd cymaint â 876, yn gynnwysedig o brif dduwinyddion a blaenion pobl grefyddol Prwssia, yn wyddfodol yn y gynnadledd, wedi ymrestru fel aelodau y Cynghrair, tra yr oedd yno 103 o'r parthau eraill o Germany. Gyda hyn, yr oedd Ffrainc wedi anfon i'r gynnadledd 12 o bersonau, Switzerland 11, Italy 2, Spain 1, Holland 11, Belgium 4, Denmarc 11, Sweden 2, Rwssia 12, Awstria 7, Prydain 116, Twrci 2, Groeg 2, Asia 3, Affrica 3, America 23, ac Awstralia 3; y cyfan yn 1264. Yr oedd gweled cynifer â hyn wedi dyfod ynghyd o bob cwr o'r byd, ac yn cynnrychioli agos bob dosbarth o Gristionogaeth Efroglaidd, i arddangos eu hymlyniad wrth “yr iachawdwriaeth gyffredinol,” a'u parodrwydd i gydymdrech “yn mhlaid y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint,”—yn olwg ardderchog mewn gwirionedd; a dysgwylir y bydd y canlyniad yn effeithio yn iachusol ar grefydd yn y Cyfandir. Rhaid adddef, fel y cadarnhëir gan rai a fuant yno, fod y cyfarfodydd yn cael eu hynodi yn fwy gan drymder yr Allmaenwr na chan fywiogrwydd y Sais neu y Cymro, ac mai tradddodi a darllen areithiau hirion, neu fath o brogethau sobr meithion, ar

faterion penodol, yn hytrach na gwneuthur *business* ymarferol, oedd yn cymeryd y rhan fwyaf o amser y gynnalredd hon; ond dylid ystyried mai felly yr ydoedd yn fwyaf archwaethus i gorrff mawr y gynulleidfa a ddaethai ynghyd; canys, fel y dywedodd Mr. Cairns o Berwick, mewn anerchiad rhagorol a ddarllenwyd ganddo yn yr Eilmynaeg, "Mae y meddwl Allmaenig yn disgyn oddiwrth egwyddorion: mae y meddwl Prydeinig yn esgyn oddiwrth ganlyniadau. Mae y meddwl Allmaenig yn ymdrechu cysoni symiadau â'u gilydd; ond y meddwl Prydeinig i gysoni symiadau â ffeithiau. Mae y meddwl Allmaenig yn ceisio cyrchu at y nôd trwy ddyfnder ystyriaeth; ond y meddwl Prydeinig yn hytrach trwy yni gweithrediad. I'r meddwl Allmaenig, mae duwinyddiaeth yn hanfodi fel amcan iddi ei hun: i'r meddwl Prydeinig, nid yw duwinyddiaeth ond moddion tuag at fywyd ac ymarferiad Cristionogol."

Ond nid siarad yn unig a fu yn nghynnalredd efengylaidd Berlin; gwnaed yno benderfyniadau oedd yn arwain i weithrediadau ymarferol ar ran rhyddid crefyddol yn Awstria, Rwssia, a gwledydd eraill. Mae y *Times*, yn ol ei duedd anghrefyddol ac anefengylaidd, wedi ceisio codi chwerthiniaid am ben Cynnalredd Berlin, a'r bobl ragorol oedd yn ei chyfansoddi, gan haeru mai diwerth a difudd oedd yr holl gyfarfodydd. Ond heb sôn am ddylanwad moesol cyfarfyddiad ac undeb cynifer o Gristionogion o wahanol enwadau a gwledydd, yr oedd yr egwyddorion rhyddfrydig a bleidiwyd, a'r mesurau y penderfynwyd arnynt er cefnogi rhyddid crefyddol, yn daledigaeth digonol am "draul a thrafferth y gymdeithas deithiol hon," ys dywed y taranwr papyr. Ac, ymhellach, nis gall cyfeillion y Bibl lai na llawenhâu yn ddifrifawr wrth glywed fod oddeutu mil o ddynion goreu Germany, cartref yr anffyddiaeth a elwir yn Rhesymoliaeth, wedi llawnodi eu crêd yn "Nwyfol Ysbrydoliaeth, Awdurdod, a Digonoldeb yr Ysgrhythyrâu Sanctaidd," a'r wyth erthygl arall sydd yn rhwymynau undeb y Cynghrair Efengylaidd.

Tra mae y *Times*, gyda ei rym aruthrol, yn rhoddi seiniau ansicr ar bob achos, ac mor fynych yn gwatwar yr achos goreu o gwbl, mae yn dda genym weled fod yr ysgogiad tuag at sefydlu y "*Dial*" yn myned rhagddo yn llwyddiannus, a bod Cymru yn dyfod allan mor galonog i'w bleidio. Cychwynwyd yr ysgogiad hwn gan un o feddylwyr penaf ein teyrnas, y Parch. David Thomas, o Stockwell, Llundain, Cymro o waed a magwraeth, yn gystal ag o enw, er nad o dafod. Bwriedir sefydlu newyddiadur dyddiol, yr hwn a allo mewn gwirionedd gystadlu â'r *Times*, a gwneuthur y peth na wna y lesiathan newyddiadurool hwnw, sef sefyll i fyny gyda chysondeb a gwroldeb dros iawnderau gwladol a chrefyddol Prydain, Ewrop, a'r byd, gan bleidio yn ddihalog a diysgog yr hen egwyddor ysgrythyrol, "Cyfiawnder a ddyrchafa genedl." Tuag at ddwyn i ben yr amcan teilwng hwn, y cynllun ydyw, cael *ugain mil* o ranfeddiannwyr, gyda chyfalaf o £200,000; ac er fod y ffigurau hyn yn sawrion iawn, mae yr hyn a wnaed ac a gaed eisoes yn sicrhâu y llwyddiant gorphenol. Y mae Cymru fechan eisoes, medd y rhifyn diweddar o'r *Dial Register*, wedi rhoddi mwy na'i chyfran o'r *ugain mil* meddiannwyr, er nad ymwelwyd eto ar yr achos hwn ond â pharthan o honi. Ymysg yr ymrestwyr er dwyn ymlaen y filwriaeth lênyddol hon, ceir enwau chwarelwyr o Sir Gaernarfon, a glôwyr o Sir Fflint; ac y mae hyn, yn ddiâu, yn arwydd er daioni i anwyl wlad ein genedigaeth, yn gystal ag i'r ysgogiad gyda y *Dial*.

Wrth gyfeirio at y marwrestrau diweddar, ni a ganfyddwn rai enwau o gryn bwys ac arbenigrwydd. Y bardd Ffrengig, Beranger, a fu farw yn Paris, wedi cyrhaedd yr oedran o 77 mlwydd. Yr oedd ei ganiadau yn boblogaidd iawn ymysg y Ffrancod, ac yn lled adnabyddus mewn gwledydd eraill. Fel Burns yn Scotland, felly yr oedd Beranger yn Ffrainc; cyfododd o fysg y bobl, canodd i'r bobl, a gwnaeth ei enw yn air teuluaid, fel y dywed y Saeson, ymysg y bobl. Dyoddefodd gryn lawer o bryd i bryd, mewn dirwy a charchariad, am fod ei ganeuon yn rhy ryddfrydig gan lywodraethau gormesol. Rhaid addef nad oedd efe, mwy na'r rhan fwyaf o lenyddwyr poblogaidd Ffrainc, yn rhy ganmoladwy am foesoldeb ei gyfansoddiadau.—Yr Esgob Blomfield, yr hwn, o herwydd ei lesgedd, a roddasai i fyny esgobaeth Llundain yn y flwyddyn ddiweddar, a fu farw yn 71. mlwydd oed. Yr oedd efe yn ysgolaig da, yn *Uchel-Eglwysig* o ran ei duedd, ac yn brelad call a galluog.—Colled fawr i'r Eglwys Sefydledig, fe dybygid, ac, yn sicr i Llenyddiaeth Ysgrhythol, oedd marwolaeth y Parch. W. J. Conybeare, M.A., mab y Tra Pharch. W. D. Conybeare, Deon Llandáf, yr hwn a drengodd yn mlodau ei oes. Ei erthygl ddyddorol ar "*Church Parties*," yn yr *Edinburgh Review*, ddwy neu dair blynedd yn ol, a ennillodd sylw cyffredinol. Ond ei brif waith llenyddol oedd y *Life and Writings of St. Paul*, yr hwn a wnaethpwyd ganddo mewn cysylltiad â'r Parch. J. S. Howson. Cyfeiriwyd o'r blaen at y gwaith gwerthfawr hwn yn rhai o "Nodiadau Llenyddol" y *TRATHODDYDD*; a gallwn eto ddwyed y nas gallai eglwysi a chynulleidfaoedd wneuthur yn well nag anrhegu pregethwyr llafurus â llyfrau o'r fath hyn. Ei dad, Deon Llandáf, a fu farw ymhen ychydig wythnosau ar ol ei fab.—Dr. Thomas Dick, awdwr yr "*Athronydd Cristionogol*," ac amryw lyfrau adnabyddus eraill, a fu farw yn yr oedran mawr o 85 mlwydd. Er na chyfrifid ef yn feddyliwr gwreiddiol a gorddwfn, efe a wnaeth fwy nag un ysgrifenydd arall yn yr oesau hyn i ddwyn gwyddoniaeth yn agos at y bobl gyffredin, ac yn ddeniadol iddynt.

Ond rhaid i ni, ysywaeth, droi adref i'r Dywysogaeth, i alaru am y clwyf anaele a gafodd Cymru yn marwolaeth ei phregethwr enwog, y Parch. JOHN JONES, Talysarn, neu Llanllyfni, fel ei gelwid yn gyffredin, yr hwn a gymerwyd oddiwrthym yn ei drugeinfed flwydd, pan yr oedd efe eto yn amllder ei rym, ei gymeradwyaeth, a'i ddefnyddioldeb. Yr oedd efe yn un o'r pregethwyr galluocaf a welodd Cymru erioed. Yr oedd wedi ei gynnysgaethu âg enaid mawr oddimewn, a chymhwysderau mawrion oddiallan; yn berchen meddwl èang, amgyffred clauer, dychymyg bywiog, dawn ymadrodd oedd ar unwaith yn nerthol ac yn hyfryd, llais soniarus, ac uwchlaw y cwbl, ysbryd y weinidogaeth loned ei galon—cariad Crist yn ei gymhell yn y modd mwyaf angherddol. Er ei anafanteision boreuol, ac er na bu erioed yn meddu tafodiaeth Seisonig, yr oedd wedi cyrhaedd gwybodaeth gyffredinol na chyfarfyddir ond yn anfyndol â'i chyffelyb,—ac fel meist'r y gynulleidfa, nis anghofir ef byth gan y rhai a'i clywsant. Gwelsom y miloedd yn crogi wrth ei wesusau, â'u tymherau yn ei law; efe a'u tywysai fel y mynai, i'r lle y mynai; i Sinai, i Galfaria, i Baradwys, i Gehenna; efe a'i brawychai â dychrynfeydd y farn, neu â'u denai â sugndyniad y groes. Yn y pulpud yr oedd ei elfen, a thywysog y pulpud ydoedd; ac fel y cyfryw y sonir am dano mwyach tra byddo Cymraeg yn iaith, a Chymry yn genedl. Efe a roes anfarwoldeb i

enwau Dolyddelen a Thalysarn; a bendithir yr hen gymoedd a'r llethrau y bu ei draed yn eu sangu yn ol ac ymlaen wrth astudio pregethau a ysgydwasant bobl lawer. Dyagwyliwn yn awyddus am fywgraffiad teilwng o hono, ac am gymaint o'i bregethau yn gyhoeddedig âg y gallir cael gafael arnynt.

Nodiadau Llenyddol.

Y MAE y misoedd cyferbyniol i'r rhai a aethant heibio er cyhoeddiad ein rhifyn diweddfaf yn cael eu hystyried bob amser y rhai mwyaf anfantaisiol yn y flwyddyn, gan fasnachwyr mawr Llundain, i ddwyn allan lyfrau newyddion. Eleni, gan y teimlad dwys sydd yn y deyrnas oblegid y gwrthryfel ofnadwy yn India y Dwyrain, a'r ysgelerderau cysylltiedig âg ef, y maent wedi bod yn fwy felly nag arferol, yn gymaint, yn wir, fel ag y gwelodd Mr. Murray, un o'n prif gyhoeddwyr, yn ddoeth ynddo oedi hyd yn nod cyhoeddiad teithiau a darganfyddiadau y Dr. Livingstone yn Affrica, er fod y llyfr wedi ei argraffu, ac yn ei ystordŷ yn barod i'w ddwyn allan, pan y gwels adeg fanteisiol i hyny. Gan nad oes genym felly yn awr ond ychydig lyfrau newydd hollol i alw sylw ein darlenwyr atynt, ni a ddefnyddiwn y cyfnewidra i'w cyfeirio at rai eraill lled ddiweddar, yr esgeuluswyd genym, ar y pryd, wneyd un crybwylliad am danynt.

Ffe gyhoeddwyd, er ys cryn amser bellach, y gyfrol gyntaf o *Popular Astronomy*: by François Arago, *Perpetual Secretary of the Academy of Sciences*. Translated from the *Original and Edited by Admiral W. H. Smyth, D.C.L., For. Sec. R.S., &c., and Robert Grant, Esq., M.A., F.R.A.S.* In two Volumes. Y mae enw Arago fel athronydd naturiol, ac yn enwedig fel seryddwr, yn glodfawr trwy yr holl byd. Fel Darlithydd ar Seryddiaeth, parhaodd am tua deunaw mlynedd, yn yr Arsyllfa yn Paris, i dynu arno ei hunan fwy o sylw, ac i ennill canmoliaeth uwch na neb arall, a fu erioed, mewn unrhyw wlad, yn darlithio ar yr un testyn. Yr oedd yn credu fod yn bosibl rhoddi syniad cywir am elfenau seryddiaeth i'r rhai a allasant fod heb gael y manteision anghenrheidiol i'w deall trwy gydnabyddiaeth â changenau uchaf mesur a rhifyddiaeth: a'i amcan, yn ei ddarlithiau, oedd ceisio gweithio allan y gred hono yn ymarferol ger bron y byd. Yr oedd yn meddiannu y cymhwysderau uchaf ei hunan tuag at gyrhaedd yr amcan; ac y mae y darlithiau a draddodwyd ganddo am flwyddoedd olynol yn ddigon o brawf nad ofer fu ei ymgais. Y darlithiau hyny, wedi eu cywiro ganddo ei hunan ychydig amser cyn ei farwolaeth, a'u cyfaddasu i'r darlennydd Seisonig, gydag ambell nodiad yn awr ac eilwaith gan y cyfieithwyr, ydyw y llyfr sydd yn awr ger ein bron. Y mae yn anhygoel braidd mor eglur y mae pob peth yn ymddangos dan ei ddwyllaw. Ni chwasmos erioed brawf cryfach o'r hyn a gredid genym bob amser, mai y peth goreu i alluogi un i wneyd rhyw beth yn amlwg i eraill, ydyw ei fod yn ymddangos yn gwbl amlwg iddo ei hunan. Y mae yr ail gyfrol eto heb ei chyhoeddi. Yr ydym yn sicr y bydd pwy bynag a fyno y llyfr hwn, ac a ymdraffertho gydag ef nes ei feistrol, yn ddiolchgar i ni am ei gyfeirio ato.

Fel cyfran o'r gyfres i'r hon y perthyna y gwaith blaenorol, sef cyfieithiad o holl ysgrifeniadau Arago i'r Saesoneg, y mae cyfrol arall newydd ddyfod allan—*Biographies of Distinguished Scientific Men*,—wedi ei chyfieithu gan yr un gwŷr ag a gyfieithiasant yr un flaenorol, ynghyd a'r Parch. Baden Powell, M.A., F.R.S., &c. Mae y gyfrol yn dechreu gyda'r hanes a ysgrifenydd gan Arago am dano ei hunan, yr hwn sydd dra difyrus ac addysgiadol; er fod rhai rhanau o hono yn ymddangos braidd yn terfynu ar y ffugiol. Yna yr ydym yn cael adroddiad bywiog ac eglur o brif feithiau bywyd, ynghyda darganfyddiadau gwyddorol a chelfyddydol Bailly, Herschel, Laplace, Joseph Fourier, Carnot, Malus, Fresnel, Thomas Young, a James Watt. Disgynai ar Arago, oblegid ei swydd fel ysgrifenydd yr *Academy* yn Paris, i draddodi anerchiadau neu areithiau cofiadwriaethol ar farwolaeth aelodau y sefydliad; a'r areithiau hyny, ar ol yr enwogion uchod, ydyw cynnwys y gyfrol hon. Mae drwyddi yn arddangos gallu anghyffredin i gynhoi i'r cylch lleiaf, ac odditan y goleuni cryfaf, y cynnydd a wnaed yn ngwahanol gangenau gwyddoriaeth a chelfyddyd, trwy lasur y gwŷr a ddygir ynddi ger ein bron, gydag aml awgrymiad dedwydd o'r cynnydd a ellir wneyd eto yn yr un cyfeiriad. Yr unig beth y teimlwa ei eisieu yma ydyw rhyw arwydd o ymdeimlad âg anghenion uchaf ein natur, ac amcan i ymwthio trwy ddeddfau y grëadigaeth at y Llywodraethwr mawr ei hun.

Y mae aelodau Prifysgol Dublin yn gwneyd rhan dda tuag at osod ysgrifeniadau yr Esgob Butler yn y ffurf fwyaf manteisiol ger bron y byd. Yr argraffiad goreu, a'r goreu o lawer, a welsom ni o'r *Analogy*, ydyw yr un a gyhoeddwyd, ychydig flynyddoedd yn ol, dan olygiad Mr. Fitzgerald, oedd, ar y pryd, yn athraw *Moral Philosophy* yn Dublin, ond sydd yn awr wedi ei ddyrchafu yn Esgob Cork, Cloyne, a Ross, yn yr Iwerddon. Y mae wedi ei gyfoethogi â nodiadau helaeth, dysgedig, a gwerthfawr, yn galw sylw a darlennydd at ba beth bynag yn y gwaith gwreiddiol a allai fod yn gamsyniol neu yn ddifffgiol, gan gywiro y naill, a chyflenniwi y llall, gyda'r fath barchedigaeth i'r awdwr, a gofal am y darlennydd; fel y mae yn anhawdd meddwl am ddim mwy dymumol. Y mae iddo gyda hyny fynegai cyflawn, sydd yn ychwanegu llawer at werth y llyfr. Y mae yr argraffiad hwn yn awr wedi disgyn i ddwylaw y cyhoeddwr Tegg, ac yn gwerthu amryw sylltau islaw y pris y daeth allan gyntaf.

Yn ddiweddar, fe gyhoeddwyd, gan aelod o'r an Athrofa, *Fifteen Sermons preached at the Rolls Chapel*, by Joseph Butler, L.L.D., Lord Bishop of Durham. With Notes, Analytical, Explanatory, and Illustrative; and Observations in reply to Mackintosh, Wardlaw, and Maurice, by the Rev. Robert Carmichael, A.M., Fellow of Trinity College, Dublin. Y mae pregethau Butler yn arddangos llawn cymaint os nad mwy o allu a gwreiddiollder â'i *Analogy*. Yn yr hyn sydd briodol i'r pulpud a neillduol i'r efengyl maent yn dra diffygiol; ond fel eglurhad ar elfenau mawr moesoldeb, a chydweddiad crefydd yn ei hawliau â chyfansoddiad meddyliol dyn fel perchen cydwybod a chyfrifol i'w Farnwr, y maent yn sefyll ar ben uchaf rhes cyfansoddiadau dynol. Y mae yr argraffiad hwn yn cyfateb yn hollol i'r hyn a broffessa, ac y mae yn ddiammheu y teimlir of gan bob efrydydd yn wasanaethgar iawn er ei gynnorthwyo i ddeall ystyr un o feistriaid meddwl y byd.

Un o'r llyfrau gwerthfawrocaf a gyhoeddwyd erioed ar ei destyn ydyw,

Five Years in Damascus: including an Account of the History, Topography, and Antiquities of that City; with Travels and Researches in Palmyra, Lebanon, and the Hauran, By Rev. J. L. Porter, A.M., F.R.S.L. In two volumes, with Maps and Illustrations. Y mae Damascus yn un o'r dinasoedd hynaf yn yr holl fyd. Yn wir hi yw yr henaf oll o'r rhai ag y mae genym ni hanes am danynt. Yr oedd yn meddu gradd o enwogrwydd pan yr ymadawodd Abraham a Mesopotamia, i ymdaith i'r gorllewin, tua "Gwlad yr Addewid." Y mae felly yn cysylltu oesau y patriarchiaid â'r eiddom ni; ac wedi cadw ei thegwch a'i henwogrwydd am bedair mil o flynyddoedd. Y mae y lleoedd eraill y cawn fantais yn y cyfrolau hyn i gymdeithasu â hwynt yn llawn dyddordeb. Y mae Libanus a Hermon a Basan wedi eu hanfarwoli ar ddalenau ysbrydoliaeth, ac nis gall dim cysylltiedig â hwynt fod yn annerbyniol gan yr efrydydd ysgrythyrol. Mor werthfawr, gan hynny, yw i ni gael y fath arweinydd doeth a chyfarwydd trwyddynt ag awdwr galluog y llyfr hwn. Y cynllun a gymerrir ganddo ydyw rhoddi dysgrifiad manwl o'r wlad y teithiodd trwyddi a'r lleoedd yr ymwelwyd ganddo â hwynt, ac yna attodi cymaint o'u hen hanes ag a allai gael. Y mae wedi gwneyd yn amcan gwastadol iddo ei hunan ddwyn y cwbl y daeth i gyfarfyddiad â hwynt yn y gwledydd ysgrythyrol i egluro gwirioneddau yr Ysgrythyr; ac y mae ei deithiau a'i ymchwiliadau wedi ei wneyd ei hunan yn swyfwy argyhoeddedig mai pa swyaf a olrheiniom ar Palestina, pa un bynag ai mewn cysylltiad â'i henafiaeth, ei daearyddiaeth, a'i sefyllfa gymdeithasol, mai cryfaf oll y prawf a gyflwynir i ni o gyflawniad llythyrenol y prophwydoliaethau, a manylder hollol y cyfeiriadau lleol ac ystadegol, a gynnwysir yn yr Ysgrythyrau. Yr ydym o'n calon yn argymhell y llyfr hwn i holl efrydwyr y dadguddiad dwyfol.

Mewn cysylltiad a'r un testyn, daeth allan yn ddiweddar, *Syria, and the Syrians: or Turkey in the Dependencies, by Gregory M. Wortabet, of Bayroot, Syria.* Y mae y llyfr hwn eto mewn dwy gyfrol. Y mae yr awdwr yn enedigol o Syria, ac yn ymddangos yn teimlo yn ddwys dros ei hadfyd dan lywodraeth Twrci. Y mae llawer iawn o fywyd yn ei ddysgrifiadau o'r wlad ac o'r bobl; ac y mae yn dwyn ger ein bron liaws o ffeithiau nad ydym yn cofio eu cyfarfod o'r blaen; ond, ar y cyfan, y mae yn addaw mwy nag a gyflawnir ganddo, tra, ar yr un pryd, yr ydym yn teimlo, pe cymerasai fwy o amser a gofal i gyfansoddi, y gallasem, hyd yn nod o'r defnyddiau ger ei fron, gael ganddo un o'r llyfrau goreu ar wedd bresennol cymdeithas yn y wlad swyaf cysegredig dan haul i deimlad pob Crïstion.

Y mae amryw lyfrau wedi eu cyhoeddi yn lled ddiweddar er eglurhau rhyw ranau neillduol o'r Ysgrythyrau. Yn eu plith y mae, *The Book of the Prophet Ezekiel, Translated from the original Hebrew; with a Commentary, Critical, Philological, and Exegetical.* By E. Henderson, D.D. Y mae y gwaith hwn ar yr un cynllun a'r llyfrau blaenorol o eiddo yr un awdwr ar Eesaias, ar Jeremiah, ac ar y Prophwydi Lleiaf. Y mae y cwbl o'i ysgrifeniadau yn arddangos meddwl parchus o awdurdod yr Ysgrythyrau—pwylllog a gofalus ac ymdrechgar i gael allan eu hystyr,—tra chydna-byddus âg iaith wreiddiol yr Hen Destament, a'r ieithoedd cyfathrachol iddi—a chyfarwydd â'r ysgrifenywyr goreu, oddigerth y rhai diweddaraf, ar y gwahanol ranau dan ei sylw; ond oblegid rhyw anghydrywiaeth tymher a theimlad â'r hen weledyddion Iuddewig—amddifadrwydd hollol o'r farddoniaeth sydd mor fyw ynddynt hwy—ac arswyd gormod meithder yn

ei nodiadau,—y mae yn syrthio yn fyr o ateb i'r hyn fyddai yn ddymunol mewn un a ymgymerai âg esponio rhanau mor bwysig ac mor ddyrys o'r dadguddiad dwyfol. Y mae ail argraffiad yn ddiweddar wedi ei gyhoeddi o waith yr un awdwr ar y prophwyd Esaiah.

Llyfr yn nodwedd llawer uwch ydyw *A Critical and Grammatical Commentary on the Pastoral Epistles, with a Revised Translation, by C. J. Ellicott, M.A., Rector of Pilton, Rutland; and late Fellow of St. John's College, Cambridge.* Galwasom sylw o'r blaen at ysgrifeniadau yr un gŵr ar yr Epistolau at y Galatiaid ac at yr Ephesiaid. Y mae yn bwriadu parhâu nes myned dros yr holl Epistolau. Nid oes yn yr iaith Saesonig ddim i'w cymharu â'r esboniadau hyn. Y maent yn ymwthio ymhellach i feirniadaeth geiriau a brawddegau yr ysgrifenydd sanctaidd na dim a welsom ni erioed. Y maent yn gwneyd hyny, ar yr un pryd, gyda'r fath sobrwydd meddwl, gwlyder barn, a choethder chwaeth, oll dan ddarostyngiad i awdurdod y gwirionedd ysbrydoledig ac ymroddedig i'w arweiniad, ag sydd yn eu gwahaniaethu yn ddirfawr oddiwrth, ac i ni yn gosod rhagoriaeth annhraethol ynddynt ar, y pethau goreu a welsom o Germany erioed. Bydd yr esboniadau hyn, pan y gorphenir hwynt, yn drysor amhrisiadwy i'r efrwydd ysgrythyrol.

Llyfryn hynod o werthfawr hefyd ydyw, *The Spirit of Love; or, a Practical and Exegetical Commentary on the First Epistle of John.* By the Rev. W. Graham. Yr oeddem yn adnabyddus â'r awdwr o'r blaen, trwy lyfr tra difyrus, er nad tra threfnus, a elwid ganddo, *The Jordan and the Rhine.* Traddodwyd y llyfr hwn gyntaf yn fath o Ddarlithiau yn Bonn, yn Germany. Y mae y gwaith yma yn arddangos dysgeidiaeth uchel, darlenniad äang, a chryn allu i ym-afyd yn ystyr y testun a'i ddwyn allan ger bron y darlennydd—wedi eu huno â ffydd ddiifnant yn sylweddau yr efengyl, cariad gwresog at y gwirionedd yn ei symledd ei hunan, ac eiddigedd calon am ddarostyngiad hollol pob peth arall iddo. Y mae yn hawdd gweled fod yr awdwr yn ysgrifenu dan ddylanwad teimlad dwys o'r perygl y mae Cristionogaeth ynddo oddiwrth anffyddiaeth ar y naill law, a Phabyddiaeth ar y llaw arall.

Y mae y Meistri Clark, o Edinburgh, newydd ddwyn allan y ddwy gyfrol gyntaf o gyfieithiad o'r *Gnomon of the New Testament* by John Albert Bengel, according to the Edition originally brought out by his son M. Ernest Bengel; and subsequently completed by J. C. F. Stendel, with corrections and additions from the Ed. Secunda of 1759. Y mae y gwaith yn cael ei ddwyn allan dan olygiad y Parch. Andrew Robert Fausset, A.M., Trinity College, Dublin. Cynnorthwyr ef yn y cyfieithiad gan dri o ysgoleigion galluog. Gorphenir y gwaith mewn pump o gyfrolau. Galwyd sylw darllenwyr y TRAEATHODYDD, yn lled ddiweddar, at ragoriaethau Bengel fel esboniwr. Y mae yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, gan y rhai cymhwysaf i farnu, fel un o'r rhai galluocaf am ddwyn allan ystyr y Dadguddiad Dwyfol, mewn ychydig eiriau, o'r rhai oll a ymgymerasant âg esbonio y Testament Newydd. Y mae ei synwyr da weithiau fel yn ei adael, ond, ar y cyfan, y mae agos yn ddigyffelyb. Y mae llawer o welliadau ac ychwanegiadau, gan y cyfieithwyr, yn y cyhoeddiad hwn, sydd yn peri iddo ragori braidd ar y gwaith gwreiddiol Lladin y mae wedi ei dynu o hono. Yr ydym yn y modd mwyaf calonog yn annog ein darllenwyr i anfon eu henwau, gyda y tansgrifiad o wyth swllt ar hugain, i

Edinburgh am dano, er cefnogaeth i'r cyhoeddwyr, ac er budd iddynt eu hunain.

Fe gyhoeddwyd yn ddiweddar yn yr America, bedair o gyfrolau o Esboniadau ar yr Epistolau at y Rhufeiniaid, y Galatiaid, yr Ephesiaid, a'r Hebreaid, gan Samuel H. Turner, D.D., *Professor of Biblical Literature and Interpretation of Scripture in the Theological Seminary of the Protestant Episcopal Church, and of the Hebrew Language and Literature in Columbia College, New York.* Y mae yr awdwr, fel y gwelir, yn aelod o'r Eglwys Esgobol yn yr Unol Daleithiau; ond yn dra rhyddfrydig ei deimlad, ac yn hen lafurwr, erbyn hyn, ar faes llényddiaeth ysgrythyrol. Yr ydym yn cael ganddo, yn y cyfrolau hyn, Ragarweiniad i'r gwahanol Epistolau, golygiad cryno ar eu cynnwysiad a'r ymresymiad ynddynt, yr epistolau eu hunain yn y testyn gwreiddiol yn gystal ag yn y cyfieithiad Seisonig; nodiadau beirniadol a deongliadol ar y gwahanol adnodau, a chyfres o holiadau yn y diwedd, ar yr esboniad. Y mae y cynllun yn un rhagorol iawn, ac y mae yr awdwr, ar y cyfan, yn ei weithio allan yn dra boddlonol. Yr ydym yn deall ei fod yn bwriadu parhau i ddwyn allan gyfrolau cyffelyb nes y gorphener ganddo yr oll o'r Epistolau. Yr ydym yn gobeithio y câ einioes ac iechyd i gwbleiddio yr hyn a ddechreuwyd ganddo mor ddymunol.

Daeth cyfrol arall allan yn lled ddiweddar, yn America, y dymunem yn arbenig wneyd ein darllenwyr yn hysbys o honi, a'i chymhell i'w sylw,—*A History of the Christian Church, by Charles Hase, Professor of Theology in the University of Jena. Translated from the seventh German edition, by Charles E. Blumenthal, Professor of Hebrew in Dickson College, and Conway P. Wing, Pastor of the First Presbyterian Church, in Carlisle, Pennsylvania.* Y mae y llyfr hwn yn cyflenwi yn rhagorol ddiffyg a deimlwyd, fe allai, gan bob un fu yn ceisio astudio hanesyddiaeth eglwysig. Yr oedd yr oll o'r llyfrau adnabyddus i ni o'r blaen ar y testun, i raddau mawr, naill ai yn rhyfaith i neb feddwl am allu eu meistrolï yn hollol, neu yn rhy dalfyredig i ateb i anghenion efrwydd trwyadl. Ac nid anhawsder cyffredin oedd cyfansoddi un nas gellid dwyn yr unrhyw gyhuddiad yn ei erbyn. Ond y mae yn ymddangos i ni fod yr awdwr presennol wedi goresgyn yr anhawsder agos yn hollol. Y mae y gwaith hwn mewn gwirionedd yn *hanes yr eglwys*. Y mae yn gryno heb fod yn dalfyredig, ac yn gyflawn heb fod ynfaith. Y mae yn dwyn yr holl hanes ger ein bron, yn ei holl linellau, gyda'r fath fanylwrwydd, fel nad oes dim yn ddiffygiol; ac eto, mewn cân lleied cylch, fel nad rhaid i neb, a dim ymrôad ynddo, anobeithio trwy ychydig lafur ei wneyd yn feddiant iddo ei hun. Byddai yn dda iawn genym glywed fod y gwaith yn cael ei gyhoeddi yn y deyrnas hon, â llythyren frasach a mwy darllenadwy na'r un a arferir yn yr argraffiad Americanaidd. I'r sawl a fyfyrïo yn drwyadl hanes y sefydliad gogoneddusaf a gwerthfawrocaf yn ein byd ni, y mae y llyfr hwn o werth anmhrisiadwy. Hyderwn glywed yn fuan ei fod mewn arferiad cyffredin yn holl athroffeydd ein gwlad.

Y mae y Rhif. 1 newydd ddyfod i'n llaw o *Esboniad y Parch. James Hughes ar yr Hen Testament, sef Nodau Eglurhâol a Chyfeiriadau Ysgrythyrol ar bob adnod. Ail argraffiad gydag Ychwanegiadau a Diwygiadau. Dan olygiaeth y Parch. Roger Edwards, Wyddgrug.* Y mae'r argraffiad blaenorol o'r gwaith hwn wedi cael derbyniad helaeth ymhlith

ein cydgenedl, ac yn adnabyddus, y mae yn ddiammheu genym, i nifer mawr o'n darllenwyr. Gwnaeth yr awdwr ei oreu, dan lawer o anfaiteision, i drosglwyddo ystyr yr ysgrifenwyr yr ymgynghorai â hwynt, mewn dull syml a dirodres gerbron ei gydwladwyr. Ymdeimlai yn ddwys â phwysigrwydd y gorchwyl yr ymaffasai ynddo, a pharai hyny, fe allai, iddo fod yn llai annihynol ei feddwl, a mwy diymddiried yn ei farn ei hunan, nag y buasai yn ddymunol mewn esboniwr, ac nag y gallasai yntau yn hawdd fod o ran ei gymhwysderau at y gwaith. Yr oedd hefyd wedi ymgadw yn ormodol gyda'r awdwyr y cyhoeddased eu hysgrifeniadau cyn y cynnydd diweddar a wnaed yn y gwyddoregau naturiol, ag y mae y golygiad a gymerir ar eu fleithiau dan anghenheidrwydd o ddylanwadu, i ryw fesur, ar y syniadau a gymerir ar ystyr yr ymadroddion ysgrythyrol hyny sydd ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn wrthwyneb iddynt. Heblaw hyny, y mae y darganfyddiadau diweddar a wnaed yn yr Aipht, ac yn Assyria a Chaldea, ac ymchwil-iadau Dr. Robinson yn Palestina, Mr. Porter yn Damascus, ac awdwyr eraill diweddar, yr ydym o bryd i bryd, yn ein nodiadau llenyddol hyn, wedi galw sylw atynt, yn gyfryw ag y byddai yn resyn i Esboniad sydd mewn arferiad mor gyffredin fod yn rhydd oddiwrth bob cyfeiriadau atynt, ac heb ei gyfoethogi trwyddynt â llawer eglurhâd dedwydd ar ranau o'r Ysgrythyrau, a llawer o addysg fuddiol i'n cenedl. Y mae y Sylwadau Arweiniol i'r gwahanol lyfrau, a'r Nodiadau Chwanegol ar y pennodau, a ffrwider roddi yn yr argraffiad hwn, yn ol y cynllun a gawn yn y rhifyn presennol, yn arwyddo amcan tegar ran y golygydd i gyflenwi yr hyn oedd ddiffygiol yn y cyfansoddiad gwreiddiol, ac i wneyd yr Esboniad yn gyfaddas i anghenheidiau yr oes. Y mae y gwaith yn cael ei ddwyn allan o ran maint, ffurf, llythyren, papur, ac argraff, yn yn yr un dull a'r ail argraffiad a gyhoeddwyd o Esboniad yr un gŵr ar y Testament Newydd. Dygir ef allan yn rhanau misol; ac yr ydym yn hyderu nad oes ond ychydig o wŷr ieuaine a phenau teuluoedd ein cenedl na byddant yn awyddus am ei feddiannu, ac yn ddiolchgar iawn i'r Cyhoeddwr anturiaethus am roddi y fath fantais yn eu cyrhaedd i ymgynghyddu âg ystyr y gwirionedd ysgrythyrol.

Dylasem cyn hyn alw sylw ein darllenwyr at *Palestina*; sef *Hanes Taih y Parch. John Mills, Llundain, i ymweled âg Iuddewon Gwlad Canaan, &c.* Yr ydym yn fynych wedi cyfeirio at amryw lyfrau Seionig ar Palestina, yr Aipht, a'r gwledydd ysgrythyrol eraill; ac y mae yn dda dros ben.genym gael y cyfle presennol i gyfeirio y Cymry at lyfr, ar yr un testyn, yn eu hiaith eu hunain, nad rhaid iddynt gwilyddio o hono mewn cymhariaeth rhyngddo ag yr un o'i faint a fedd un genedl, ac sydd mewn rhyw bethau yn rhagori ar bob un, o bob maint, adnabyddus i ni. Y mae yr awdwr yn ein cymeryd gydag ef o Lundain i Paris, o Paris trwy Ffrainc i Marseilles—oddiyno dros Fôr y Canoldir, gan alw yn Malta, i Alexandria yn yr Aipht—oddiyno i Cairo—lle y mae yn ymdroi rai dyddiau yn edrych o'i amgylch ar y dref a'r cymydogasthau, ynghanol rhyfeddodau penaf y byd—oddiyno yn ol i Alexandria er mwyn eael llong i forio eto dros gŵr Môr y Canoldir, tua gwlad Canaan—y mae yn tirlu yn Jaffa (Joppa yr Ysgrythyr) ac oddiyno tua Jerusalem—ond rhaid i ni aros. Y mae yr awdwr yn dwyn y darlennydd i weled pob peth gwerth i'w weled yn y lleoedd y bu trwyddynt, ac y mae yn darlunio ei deimladau ei hunan yn ngwyneb y golygyddiaid a ganfyddai, yn gwbl ddirodres, ac eto yn y fath

fodd ag y mae braidd yn anmhosibl i'r darllenydd beidio teimlo yn gyffelyb. Y mae y darluniadau a dynir ganddo yn dra rhagorol. Y mae y darluniad o Jerusalem a'r gymydogaeith yn nodedig felly. Y mae y ddinas yn rhwym o fod, ar ol edrych arni trwy y drych hwn, yn gwbl adnabyddus i'r dyn byth. Y mae un peth yn y llyfr sydd yn peri iddo ragori ar bob llyfr ar Canaan adnabyddus i ni, a hyny yw y sylw manwl a delir ynddo i amgylchiadau, agweddau, ac arferion, yr Iuddewon yn y wlad hono. Dyma ar ryw ystyr, fel ag y gallesid dysgwyl oddiwrth amcan y daith, brif nodwedd y llyfr, ac y mae yn ddigon o ganmoliaeth iddo ei fod yr unig llyfr, hyd ag y gwyddom ni yn yr holl fyd, ag y gellir cael ynddo y wybodaeth ar hyny a geir yma. Yr ydym yn hyderu y caiff dderbyniad cyffredinol gan ein cyd-wladwyr. Buasai llyfr o'r fath yn Lloegr yn cael ei werthu am bymtheg swllt neu bunt, ac nid am bum' swllt neu chwech. Byddai yn resyn mawr i lyfr a i lyfr a chymaint ynddo am gan lleied pris, fod heb gael y lledaniad helaethaf.

Y mae dwy ran wedi eu cyhoeddi o *Bregethau a Thraethodau y diweddar Barch. Morgan Howells, Casnewydd. Dan olygiad E. Matthews, Ewenny*. Y mae lliaws mawr o'n darllenywyr yn cofio Morgan Howells yn dda. Yn wir os gwelsant, ac os clywsant ef unwaith, prin y gallant byth ei anghofio. Un o gawri y weinidogaeth yn Nghymru ydoedd; un a deimlwyd gannoedd o weithiau yn feistr y gynulleidfâ. Yr oedd y fath loewder yn ei feddyliau, y fath fywiogrwydd yn ei ddychymyg, y fath angerddolder yn ei deimlad, a'r fath eneniad oddiuchod ar ei ysbryd, ag oedd yn peri fod ei weinidogaeth ar brydiau i bob cydwybod dyn, mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr. Omid genym yn fynych pan yn gwrandaw arno y collid y cwbl pan y collid ef. Nid oedd genym un dychymyg ei fod wedi dodi cymaint a llinell o'i bregethau ar bapyr erioed. Ond er ein syndod a'n llawenydd y mae yr oll ar gael. Ac er fod gwedd led afuniaidd arnynt fel y daethant odditan ei law, a'r anhawser yn ddirfawr i wneyd allan eu hystyr, eto y mae wedi bod mor ffodus a chael un i ymgymeryd a'u golygiad a'u cyhoeddiad cwbl alluog a digon penderfynol i wneyd cyfiawnder âg ef, ac â hwythau. Fe ddywedir am *Professor Owen*, ond iddo gael rhyw ddarn o asgwrn créadur, na welodd mo hono erioed, y gall ei wneyd i fyny yn gyflawn oddiwrth y darn hwnw. Felly y mae cydnabyddiaeth Mr. Matthews â phregethau—dull a dawn ac ysbryd—Morgan Howells yn gyfryw, fel y gallai braidd wneyd pregeth iddo i fyny ond cael gafael ar ychydig frawddegau o honi, a hyny mor gywir a phe buasai y pregethwr ei hunan yn ei chyfansoddi oll. Nid rhaid wrth hyny yma pa fodd bynag. Y mae yr holl ddefnyddiau dan ei law. Ysgrifennai Morgan Howells y cwbl. Cawsom olwg ar fasgedaid o'i bapyrau yn *Ewenny Cottage*. Ond yr oedd eisieu penderfyniad ac ym-rôd Mr. Matthews ei hunan, i ddwyn y pentwr tryblieth a orchuddid i'r syllydd cyffredin â'r fath gaddug o dywyllwch, i'r fath oleuni ag yr yddengys rhan o hono yn y cyhoeddiad ger ein bron. Yr ydym wrth ddarllen y pregethau hyn yn gweled ac yn clywed yr heu bregethwr ei hunan. Adgofiant i gannoedd yr amserau gynt, a chânt adnewyddiad bendith y gwrandaw wrth eu darllen. Yr ydym yn hyderu y câ y Golygydd y fath gefnogaeth yn ei anturiaeth ag a'i galluoga i ddwyn allan y cwbl o'r Pregelthau a'r Traethodau ag sydd ar gael, gyda Rhag-draethawl o'i eiddo ei hunan ar gymeriad Morgan Howells fel pregethwr.

Y TRAETHODYDD.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

(Y *Gorpheniad*.)

IV. GWASANAETH Y CYMRY YN NGWAREIDDIAD Y BYD.

NID allaf agor y bennod hon gyda mwy o briodolrwydd na thrwy gyfieithu ychydig o eiriau Emerson, yr athronydd Americanaidd :

“Gwaed henaf y ddaear yw y Celtig. Mae rhai cenedloedd yn fyrhoedlog neu ddarfodedig. Pa le mae y Groegiaid? Pa le mae yr Etruriaid? Pa le mae y Rhufeiniaid? Ond y Celtiaid neu y Sidoniaid ydynt yn hen deulu, heb un cof am eu dechreuad, ac mae eu diwedd yn debyg o fod ymhellach fyth yn y dyfodol; oblegid fod ynddynt ddyoddefiad yn gystal a chynnyrchiad. Hwyt-hwy a blanasant Ynys Frydain, ac a roddasant i'r moroedd a'r mynyddoedd enwau ag sydd yn emynau (*poems*) ynddynt eu hunain, ac a efelychant burleisiau anian. Cofnodir hwy yn barchus yn hanesion henaf Ewrop. Nid oedd ganddynt ddaliadaeth wriogaethol ormesol (*violent feudal tenure*), ond meddiannai yr amaethydd ei dir. Yr oedd ganddynt egwyddor lythyrenol, seryddiaeth, addysg offeiriadol, a chrefydd ysplenydd. Mae ganddynt awen ddiogel ac amrywiol. Gwnaethant y lényddiaeth boblogaidd oreu yn y canoloesoedd, yn nghaniadau Merddin, ac yn ffughanes hyfryd a thyner y Brenin Arthur.”—*English Traits*.

Mae y sylwadau olaf yn perthyn i'r Cymry yn neillduol.

Pe gallasem gredu rhai honiadau, dechreuodd gwasanaeth y genedl yn foreu, gan y dywedir mai hwy a ddysgodd y ffordd i'r Rhufeiniaid wneyd melinau dwfr; ond er fod hyn yn ammheus, mae lle i gredu iddynt anrhegu eu goresgynwyr â rhai pethau buddiol. Enwir yn neillduol basgedi (*Basandæ Britannos*), cwccwll y Beirdd (*bardocucculo*), acamryw fathau o gerbydau olwynog. Y Gauliaid oedd y cyntaf a ddyfeisient sebon, gwlanen, a gwagrau; ac oddiwrthynt hwy y benthyciwyd hwyt. Dichon fod gwahaniaeth barn ynghylch rhinweddau gwareiddiol diod frag; ond y llwythau Celtiaidd a'i dyfeisiodd gyntaf; ac yr oedd cwrw Cymru mewn cymaint o barch ymysg mynachod Peterborough, fel y darfu iddynt ammodi rhoddi darn o dir am ddeg barilaid o gwrw Cymraeg yn flynyddol. Yr oedd y Cymry yn enwog fel helwyr; arferent, cyn eu goresgyniad gan y Rhufeiniaid, ddanfôn cwn hela i'r Cyfandir; ac yn y ddegfed ganrif gwnaethant les mawr i'r Ynys trwy ddileu y bleiddiaid o'r wlad, nes nad oedd braidd un o honynt yn y tir. Enwyd rhai o'u gweithredoedd

hwy yn y rhanau rhagflaenol, a gellid ychwanegu mângofion o'r un fath yma; ond dichon fod hyn yn ddigon; ac am hyny brysiwn yn y blaen.

Gwelsom eisoes fod honiadau yn cael eu gwneyd i Gildas gyfieithu cyfreithiau Dyfnwal Moelmud, wedi eu hëangiad a'u cadarnhâd hwynt gan Beli ei fab, o'r Frythoneg i'r Lladin; a dywedir ymhellach i'r Brenin Alfred nid yn unig gyfieithu cyfreithiau Dyfnwal a Beli o'r Lladin i'r Saesoneg, ond hefyd gyfraith brenines Brydeinig o'r enw Mersia o'r Frythoneg i'r un iaith. Sieffrey o Fynwy yw awdwr yr honiadau hyn; ond nid oes un o honynt âg un gronyn o wirionedd, er fod rhith o sail i'r haerriad olaf. Nid oes un cyfeiriad arall at un cyfieithiad o waith Gildas; ac nid yw Alfred yn addef un dyled o'r fath; ac nid oes un argraff Gymreig ar ei ddeddfau ef; ond y mae yn cyfeirio at, ac yn defnyddio, cyfraith rhagflaenorol a eilw efe *Mercena Lege*, yr hyn yn gyfieithedig ydwy, Cyfraith y Mersiaid, sef gwŷr y Mers, neu ganoldiroedd Lloegr. Teyrnas Saesonaidd oedd Mersia, a chyfraith Saesonaidd oedd y *Mercena Lege*: gan hyny nid oes un sail hanesyddol i'r haerriad dan sylw; personoliaeth o deyrnas Mersia oedd y gyfreithwraig grybwylledig; ac nid oes un prawf o lywodraethiad un frenines Gymreig erioed, na chynt nac yn ol llaw. Buasai yn blyfyn hardd yn nghap Cymro pe byddai yr haerriad yn wir; ond yn lle hyny, yr oedd amryw ddeddfroddwyr Seisonig wedi ymddangos yn gynnar; a darfu i Alfred ragflaenu Hywel Dda, os nad esiampl y Sais a gynhyrfodd y Cymro. Yn wir mae lle i Sais droi yr honiad yn ein herbyn; mae *character* Dyfnwal gan Sieffrey, mor debyg i *garacter* Alfred, fel ei hysgrifenwyd yn flaenorol gan William o Malmesbury, fel y cyfiawnheir casgliad fod y blaenaf wedi ei dynu oddiwrth yr olaf; ac ni fyddai un afresymoldeb yn yr haerriad, pe dywedid mai enwogrwydd y deddfroddwr Seisonig a gymhellodd Hywel Dda i adolygu a gwellhâu hen gyfreithiau Cymru. Nid ydym ni yn hōni y fath beth, nac am hōni hyny; ond ni fyddai y dywediad, pe ei gwneid, yn amddifad o debygolrwydd hanesyddol, tra ar y llaw arall y byddai y ffaith yn amlwg fod Cyfraith Hywel yn tra rhagori ar ddim a ymddangosodd ymysg y Saeson cydoesol.

Onid os yw hyn yn ammheus, mae dyledogrwydd Lloegr, Ewrop, ac yn wir Asia hefyd, i lēnyddiaeth a thraddodiadau Cymru, yn ffaith addefedig gan brif ddysgwyr yr oes. Cyfeirir yn neillduol at y ddeuddegfed ganrif, pan y dihunodd Ewrop o drymgwsg a barbâodd agos i bum' can' mlynedd. Cyn y cyfnod hwn, yr oedd cestyll a llysoedd pendeffion yn ffuriedig o goed, ydag amddiffyniadau o gloddiau pridd a ffosydd. Ond y pryd hyn, cyfodwyd caerau ardderchog, a thyrau a muriau amgylchawg, lluniedig o feini nadd a cherfiadau hardd a chelfydd. Nid oedd eglwysi cyn yr unfed ganrif ar ddeg, ond ystafelloedd bychain a gwael, ffurfiedig o furiau isel, a pharwydydd o wiail plethedig, a thyllau cul yn lle ffenestri. Ond weithian, fel y dywed Carnhuanawc, gwelwn eglwysi cadeiriol mawrion yn cyfodi, y rhai dynt y dydd heddyw yn rhyfeddodau o adeilwaith medrus a gorchestol, a'r sawl ynghyd a'r mynachlogydd, o'r un ddullweithiad, ag oeddylt yn offerynol i hyfforddi gwybodaeth gelfyddydol yn y wlad, mewn modd tra llesol, trwy annog gweithiadau coed, maen, a haiarn at y cyfryw, cymysgiad a thoddiad delidau at fwrw clychau, a gwneuthuriad a lliwiad gwydr ffenestri. Mewn gair, coleddwyd holl gelfyddydau yr oes trwy y gweithredoedd hyn; gwareiddiwyd anianawd y bobl; a helaethwyd gwybodaeth i'r fath raddau anhawdd cu hamgyffred, er y

mwynheir eu heffeithiau buddiol, yr awr hon, trwy holl gyfansawdd y gyfundraeth gymdeithasol.*

Cymerodd y cyffrôad afael yn llênnyddiaeth yr oes hefyd; ond yma cyffyrddid âg anhawsderau mawrion, gan nad oedd gan werinoedd Ewrop na defnyddiau meddyliol, nac ieithoedd addas i'w gosod ar lasar. Hyd yma, y Ladinaeg oedd iaith dysgedigion; yn hon yr ysgrifenid llyfrau, ac y gweinyddid cyfreithiau, ac, mewn canlyniad, esgeuluswyd yr ieithoedd cenedlaethol, fel nad oedd un o honynt yn addas i osod allan ond drychfeddyliau cyfyng ac anghyflawn. Ond yn awr, cyfododd ieithoedd gwerinol i sylw cyffredin; dechreuodd y Ffrengaeg, yr Ysopaeneg, a'r Saesoneg yn ieithoedd llênnyddol; ond hyd yma nid oedd ganddynt nemawr o ddrychfeddyliau, ac ond ychydig o wybodaethau cyffredinol. Yn y cyflwr hwn, daeth llênnyddiaeth a thraddodiadau y genedl Gymreig i'w cynnorthwyo.

Ymgyfranai y Cymry yn y diwygiadau cyffredinol; ymroddai eu tywysogion i adolygu cyfreithiau, adgyweirio defodau gwladol, i gynnal eisteddfodau, ac i adeiladu cestyll, eglwysi, a mynachlogydd, ac ymorchestai y beirdd i goleddu iaith a llênnyddiaeth y genedl. Ond yn hyn o beth, yr oeddent yn blaenori yn fawr ar eu cydoeswyr; oblegid tra yr oedd cenedloedd eraill yn amddifaid o lafarieithoedd rheolaidd, ac yn ymdrafferthu i sffurfio ieithoedd newyddion, yr oedd gan y Cymry iaith goeth a chyflawn, wedi ei choleddu dros oesoedd lawer, a chyfundraeth ardderchog o farddoniaeth yr hon oedd wedi ymwreiddio yn eu plith er cyn côf. Yr oedd ganddynt gronfa helaeth o draddodiadau cenedlaethol; yr oedd gwroldeb eu hen freninoedd wedi cynnyddu mewn gogoniant; ac yr oedd Arthur a'i gyd-oeswyr wedi eu gwisgo âg addurnau barddonol, ac wedi ymestyn o fod yn rhyfelwyr lleol i fod yn fath o hanner duwiau, nes yw wedi myned yn amheus gan rai dynion pa un a fu y fath berson hanesyddol â'r Brenin Arthur. Ond heb ryw gyfrwng, buasent oll yn gyfyngedig i Gymru, ac i'r iaith Gymraeg, ac yn hollol anadnabyddus i genedloedd eraill.

Ymddangosodd cyfrwng yn mherson Sieffrey o Fynwy, yr hwn, er ei holl feiau, a deilynga barch Ewrop yn gyffredinol am hyn o weithred; ac er fy mod wedi ei enwi yn anffafriol amryw weithiau, mae yn dda genyf gael hyn o gyfle i wneyd cyfiawnder âg ef am y gwasanaeth hwn. Gadewir gwirionedd ei hanes i maes o'r golwg, gan nad yw ei waith ef yn awr yn meddu un awdurdod hanesyddol; nid oes neb yn credu ystori Brutus o Gaerdroia, ac nid oes nemawr yn breuddwydio am gael gwir hanes Arthur, yn yr "*Historia Britonum*," nac yn y cyfieithiad Cymraeg o hŏni, *Brut y Breninoedd*. Ymddibyna teilyngdod Sieffrey, neu Galfrai ab Arthur, fel ei gelwir weithiau, ar y ffaith iddo ef grynhoi corff o draddodiadau a ffugchwedlau addas i dderbyn addurniad barddonol, a fuasent heb hyn yn suddo i dir anghof; ac iddo eu cymhlethu mewn traethiad tueddol i ddylanwadu yn rhyfeddol ar deimladan a llênnyddiaeth genedlaethol. Yr oedd yr "*Historia Britonum*," fel y dengys yr enw, yn Lladin; a chan fod yr iaith hono yn adnabyddus i holl ysgoleigion Ewrop, sffurfiodd gyfrwng i drosglwyddo y traddodiadau Cymreig i genedloedd dyeithr, ac i'w taenu dros yr holl gyfandir. Daeth y llyfr i boblogrwydd uniongyrchol; cyfieithwyd ef i'r Ffrengaeg gan Wace, ac i'r Saesonaeg

* Hanes Cymru, tu dal. 535.

gan Layamon; a dygwyd ei gynnwysiad i adnabyddiaeth pobloedd eraill. Aeth Arthur, a chreff y ford gron, yn destun cyffredin cyfansoddwyr y Cyfandir; cyrhaeddodd y chwedlau Brytanaidd i Germany a Scandinavia yn y gogledd, ac i Spaen ac Italy yn y deheu; treiddiasant hyd a lled Ffrainc, cyfieithiwyd hwynt nid yn unig i ieithoedd Lloegr, Ffrainc, Yspañ, Italy, Germany, a Sweden, ond hefyd i iaith Groeg; ac y mae lle i greu iddynt dreiddio hyd yn nod i Arabia. Ffynnonell y cwbl oedd yr "*Historia Britonum*," yr hon oedd un o brif gonglfeini llênnyddiaeth ffughanesiol y canoloesoedd; ac nid oes un "ystoria" o'r fath yma, i waered hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, nad yw yn dangos mwy neu lai o ddylanwad Siefrey o Fynwy. Nid oedd ychwaith y dylanwad hwn yn gyfyngedig i'r oesoedd hyn, nac i'r ffurf hono o llênnyddiaeth; ac nid oedd ychwaith heb ddylanwad pwysig ar feddyliau a moesau dynion. Dyweder a fyner yn erbyn y ffughanesion hyn, atebent i chwaeth a chyrrhaeddiadau yr oes, a thueddent i feithrin teimladau uchel a gogoneddus a ddangosent eu hunain yn fynych mewn gweithredoedd cyfatebol. Rhaid ystyried hefyd ein bod yn ddyledus i ragflaeniaid y cyfansoddiadau hyn, am rai o gynnyrchion godidocaf y meddwl dynol. Gellir hebgor, fe allai, Wace, Layamon, a'r ffughanesion oll; ond rhaid cofio na fuasai genym, hebddynt hwy, nac "Orlando" y bardd Italaidd Ariosto, na "Don Quixote" Cervantes; a phwy a ddarllenodd yr olaf erioed a fuasai yn foddllawn ei hebgor? Gellid hebgor, fe allai, Gorboduc, Ferrex, Porrex, a phethau ereill o'r un tarddiad; ond pwy ymfoddlonai i fod heb weithiau penigamp Shakespeare—"King Lear," a "Cymbeline," y rhai ydynt eill dau yn seiliedig ar waith y gŵr o Fynwy? Gadewch i ni, meddai ysgrifenydd yn y *Quarterly Review* wrth sylwi ar y gweithiau yna, gofio gyda diolchgarwch am Siefrey, i'r hwn y bu Shakespeare yn ddyledus am sylwedd gweithiau rhyfeddol, canys heb ei "*Historia Britonum*," ni fuasem yn ol pob tebygolrwydd byth yn eu cael. Peth bach yw gwreichionen ynddi ei huu, ond dichon gynneu "goleuni i'r holl genedloedd." Eto, nid yw y dylanwad hwn yn aros yma; ni ddilêwyd yr argraff dŵfn a wnaeth y traddodiadau Cymreig; hwynt-hwy fuasent yn ddechreuad llênnyddiaeth gwahanol deyrnasoedd y Cyfandir; ac yno, fel yma, mae y dylanwad yn parháu hyd y dydd heddyw. Cyfansoddodd Spenser y "Faery Queen" dan y cynhyrriad grymus hwn; bwriadai Milton wneyd Arthur yn destun Pryddest (*Epic Poem*), fel y dywedai Price; profa y "Bridal of Triermain," un o'r cerddi goreu yn ein hoes ni, mor ddyfned oedd argraff y ffughanesion yma ar feddwl Syr Walter Scott; ac mae "King Arthur" Syr Bulwer Lytton, yn ddiweddarach eto, yn dangos fod y dylanwad yn parháu.

Lles arall a weinyddwyd gan y Cymry oedd cynnaliaeth ei hannibyniaeth am gymaint o ganrifau yn erbyn ymosodiadau Rhufeiniaid, Saeson, Daniaid, a Normaniaid. Er nad oedd un amcan mewn golwg yn eu hmdrechion gwladgarol a chlodfawr hwy, ond eu lles neillduol eu hunain, eto mewn ystyriaeth arall ymestynai y budd hwn tu hwnt i derfynau y Dywysogaeth i eithafion y Cyfandir, ac o'r oesoedd terfysglyd hyny hyd yr awr hon. Bu y gwroldeb hwn yn fuddiol mewn tri o ffyrdd gwahanol, sef,—

I. Fel cefnogaeth i bobloedd eraill yn yr un amgylchiadau.

II. Yn nghadwraeth yr Iaith Gymraeg.

III. Fel enghraifft o lesoldeb yr Ysgrhythyrau mewn ieithoedd cartrefol.

Cynnygir ychydig, a dim ond ychydig, o sylwadau ar y gwahanol ystoriaethau hyn.

I. Hanes pobloedd mynyddig, yn eu rhyfeloedd cartrefol ac amddiffynol, a ffurfia y rhan odidocaf a blasusaf o hanes Ewrop, hen a diweddar, os nad o hanes y byd yn gyfangwbl. Mae pawb o honom yn aduabyddus â hanes Groeg, a gwroldeb Leonidas a'i drichant o wroniaid, ac yn adgofio yn fynych, gyda theimladau o wresogrwydd, amddiffyniad clodfawr Bwlch Thermophyla; ac mae yr hanes fyth oddiar hyny wedi cysuro a chalonogi pobloedd eraill i mymsgwyd ymaith ieuau gormesol, a sefyll allan yn wrol dros eu rhyddid, a'u breiniau, a gwlad eu tadau. Mae hanes y Siluriaid yn destun clodfawr yn ein hanes ninnau, ac yr un mor dueddol i fabwysiadu gwroldeb yn mynwesau eraill. Siaradwn yr un iaith ynghylch mynyddwyr Switzerland, ac y mae yn dda genym bob amser adgofio William Tell. Yn ein dyddiau ni ein hunain, ymladdodd yr Hungariaid yn wrol o blaid gwlad eu tadau, gwlad glodfawr am ei Phrotestaniaeth gynt, ac a obeithir eu gweled eto yn rhydd. Mae yr hanesion hyn oll yn anwyl i garwyr dynoliaeth; calonogant yr Italiaid yr awr hon i adennill eu hannibyniaeth, a pharhânt tra fo gorthrymder ar y ddaear i fod yn destunau mawl, yn adgofion melus, ac yn gynhyrfiadau grymus i ddymchwelyd trais ac ennill rhyddid. Pe byddai fwy adnabyddus, enwid hanes y Cymry yn yr un gyfres; mae gwroldeb y Siluriaid yn cael ei adgofio eisoes; a dichon y bydd ymdrechion y genedl yn gyffredin yn cael eu henwi yn yr un cysylltiad.

II. Mae cadwedigaeth yr iaith Gymraeg yn fudd i ddynolryw. Ffurfia yr iaith Omeraeg gadwyn ogoneddus yn cysylltu yr oes bresennol â gwawr hanesyddiaeth; disgynodd o eithafion amser, ac y mae eto yn iaith fyw, yn cael ei siarad yn ei phurdeb, gan ddyfion a hoffant iaith eu hendeidiau, ac sydd yn deilwng o feddiannu trysor mor werthfawr. Mae golwg fawr ar y Gymraeg gan ddysgedigion y Cyfandir; cedwir llyfrau Cymreig ar werth yn barhâus yn nghalon Germany; mae *catalogue* yn awr ger fy mron, a chyfres o lyfrau Gymraeg ar werth gan Brockhaus yn Leipzig; ac y mae traethodau dysgedig wedi eu hysgrifenu arni, gan Prichard yn Lloegr, Edwards yn Ffrainc, Villemarque yn Llydaw, Pictet yn Geneva, a chan Leo, Mone, a Zeuss yn Germany. Mae dynion dysgedig, megys Schulz a Ranke, yn ei pharchu ac yn ei dysgu; rhoddir lle anrhydeddus iddi yn ieithyddiaeth yr oes; ac y mae *Profesor Bopp*, penieithydd y dyddiau presennol, yn dwyn y dystiolaeth ganlynol am dani. Tystia yn fynych, meddai Syr Charles Salisb'ury, ei ryfeddod am yr anwybodaeth a'r diffyg ystyriaeth a ddangosir gan rithddysgawdwy'r Lloegr ynghylch rhyfeddod y rhyfeddodau—yr iaith Gymraeg. Tra y mae y Sanscrit wedi trengu fel iaith siaradol, tra y mae yr Hebraeg mewn effaith yn iaith farw, a'r Arabaeg yn gyfrwng siaradol cenedl o yspeilwyr,—wele saif bôst Cymru yn fyw—yn weithredol, ac yn lloni cannoedd o filoedd. Ychwanegai y Dwyreinydd mawr (*great Orientalist*) ei fod yn warth i un ieithydd fod yn anadnabyddus o'i galluoedd, er nad ymddangosai un Sais a gyfarfu ef erioed ei fod yn wybyddus fod y fath ryfeddod wrth ymyl ei ddrws.* Dywed yr Archddiacon Williams mai yr ieithoedd Celtig, y Wyddelig, a'r Gymraeg, yw sylfaen y Roeg a'r Lladinaeg; a barnai Dr. Meyer fod yr ieithoedd hyn yn

* Llythyr yn y "*Remains of the Rev. Thomas Price*," Vol. II., p. 355.

henach na'r Sanscrit na'r Hebraeg; ond er y dichon fod gormodiaith yma, addafir ar bob llaw fod y Gymraeg o'r buddioldeb mwyaf i anlygu ac eglurháu tarddiad a thwyfod yr ieithoedd Ewropeaidd, ac i ddarganfod cyflwr a hanes foreuol dynolryw. Mae cadwedigaeth yr Omeraeg, gan hyny, yn fudd cyffredinol, ac yn ffaith anrhydeddus i genedl y Cymry.

III. Cyfieithiad y Bibl i'r iaith Gymraeg. Bu cyfieithiad yr Ysgrhythrau o fudd annhraethol i'r Cymru; dyrchafodd eu cymeriad fel cenedl; rhyddhâodd hwynt oddiwrth gaethiwed Pabyddiaeth a choelgrefydd; a dysgodd iddynt lanhâ neu moesau, ymarfer eu meddyliau, a chymuno yn uniongyrchol â Duw ei hun, ac â'i Fab, Iesu Grist. Mae fel y dywedwyd eisoes gysylltiad rhiniol rhwng gair a chrebwyll; a chan hyny, er fod Protestaniaeth yn llwyddiannus ar y pryd, sef yn nheyrnasiad Elizabeth, dylanwadodd y Bibl yn filwaith mwy grymus ar y Cymry, yn eu hiaith eu hunain, na phe buasai yn dyfod atynt mewn iaith estronol. Y canlyniad fu iddynt ennill sylw duwinyddion, a chyrrhaedd enwogrwydd neillduol fel cenedl grefyddol. Dênwyd sylw dyngarwyr Iwerddon a'r Alban at ddylanwad yr Ysgrhythrau yn Nghymru; a nododd un o honynt mai y canlyniad dedwydd oedd—hyny yw yn 1812—nad oedd mewn un wlad fwy o rinwedd cyffredinol a phersonol, fwy o ddedwyddwch teuluaid, fwy o dduwioldeb gwresog ac Ysgrhythrol, neu fwy o ufudd-dod ac ymstyngiad i'r llywodraeth. Gwelsant yn eglur fod amgylchiadau y Cymry yn gyffelyb i eiddo yr Albanwyr a siaradent y Gaelaeg, a'r Gwyddelod a barhäent i gynnal eu hen iaith; a chasglent yn naturiol fod yr un achos yn alluog i gynnyrchu yr un effaith, ac y byddai yr Ysgrhythrau yn yr ieithoedd Gaelaeg a Gwyddelig yn debyg o gynnyrchu canlyniadau llawn mor ddedwydd yn yr Alban a'r Iwerddon * ag yr oeddent wedi gwneyd yn Nghymru. Mewn ystyr arall hefyd cafodd esiampl y Cymry ddylanwad pwysig a llesäol. Cyfodododd y Gaeliaid amryw weithiau mewn gwrthryfel, ac yr oedd y Gwyddelod bob amser, hyd yn ddiweddar, yn dueddol i godi terfysg. O herwydd hyn, drwgdybiwyd hwynt gan y Llywodraeth; cysylltwyd grwgnachrwydd â'r ieithoedd cenedlaethol; a daeth agos yn gred gyffredinol y buasai unrhyw gefnogaeth a roddid i'r Gaelaeg a'r Wyddelaeg yn debyg iawn o gynnyrchu mwy o anuffudd-dod ymhob un o'r ddwy wlad. Dan yr amgylchiadau hyn daeth esiampl Cymru i gryfháu dwylaw pleidwyr yr hen ieithoedd, a bu yn llesol iawn i'r Albanwyr a'r Gwyddelod; gwelwyd fod y Cymry yn hynod am eu huffudd-dod i'r llywodraeth, ac fod coleddiad yr iaith Gymraeg, yn cryfháu yn hytrach nag yn gwanychu y rhinwedd hono; a chefnogwyd hwy, gan hyny, i annog eu boneddwyr i rodio yr un llwybr, ac i daenu cyfieithiadau o'r Ysgrhythrau yn ieithoedd y bobl eu hunain. Y canlyniad yw, fod yr efengyl yn cael ei phregethu yn y Gaelaeg a'r Wyddelaeg, fod moesoldeb y ddwy wlad yn ymddyrchafu, ac fod Pabyddiaeth wedi ei dileu agos yn hollol yn yr Alban, ac yn lleiháu yn feunyddiol yn yr Iwerddon. Tynwyd sylw at henafiaeth a godidogrwydd yr ieithoedd hyn; adgofwyd fod ynddynt, y Wyddelaeg yn neillduol, hen lényddiaeth helaeth; cyhoeddwyd yn rhanau hen farddoniaeth a'r croniclau, gyda chyfieithiadau Seisoneg; coleddwyd hwynt gan ddysgedigion; rhoddydd lle helaeth i'r Wyddelaeg gan *Professor Zeuss* yn ei lyfr diweddar a elwir "*Grammatica Celtica*;" ac y maent yn awr yn

* *Dewar's Observations on Ireland, p. 91.*

cyfranogi gyda y Gymraeg yn mharch, sylw, a chanmoliaeth dysgedigion ac ieithyddwyr y Cyfandir.

Ond y lles mwyaf a wnaeth y Cymry i ddynolryw, oedd cynhyrfaid Cymdeithas y Traethodau Crefyddol i ffurfio y Ffibr Gymdeithas. Tarodd hon oddiar ymdrechion y Parchedigion T. Charles o'r Bala, a T. Jones o Creaton, i ffurfio cymdeithas Ffibrallid ar gyfer y Dywysogaeth, pan y cynhyrwyd y Parch. Joseph Hughes, gŵr o haniad Cymreig, i éangu y cyullun, ac i roddi, yn ngeiriau y bardd, y

“Bibl i bawb o bobl y byd.”

Mae y ffaith yn ddiagon adnabyddus, a'r lles anfeidrol a ddeilliodd oddiwrth y gymdeithas wedi ei fynegu gannoedd o weithiau gan ddynton mwy galluog na myf, fel nad yw yn ofynol i mi wneyd rhagor nag enwi y ffaith yn y cysylltiad presennol. Cyhoeddwyd hanes y Gymdeithas yn ddiweddar yn yr iaith Gymraeg, gan y Parch. T. Phillips o Henffordd, dan yr enw “Llyfr y Jubili;” a chan fod y llyfr o fewn cyrhaedd y rhan fwyaf o Gymry, bydd yn ddiagon i mi derfynu fy sylwadau ar y pen hwn gyda dyfyniad o'r traethawd hwnw. Ar ol enwi y gwahanol wledydd i ba rai y mae y Bibl wedi ei wneyd yn adnabyddus, dywed,—

“Hawdd fyddai i ni deithio trwy bob gwlad i ba un y mae y gair Dwyfol wedi myned, a dwyn ger bron ryw arwyddion neu gilydd o'i allu i achub a sancteiddio. Gallen fyned i blith cenedloedd amrywiog yr America, a chroesi oddiyno i ganol y miloedd gwareiddiedig yn Asia, ac yna myned i ymweled ag Africa, a sylwi ar y llwythau mwyaf isel a barbaraidd, ac wedi hyny rhoddi tro trwy Ewrop i frys y cenedloedd mwyaf coethedig; a dygai pob un o honynt brawf diymwad o gynhwysder y Bibl ar gyfer enaid dyn. Tyf y pren bendigedig hwn ymhob hinsawdd; nid yw eira y gogledd yn ei fallu, na gwres difaol y trofanau yn ei wywo: ymhob lle mae yn blaguro, yn blodeuo, ac yn dwyn ffirwyth er mawl gogoniant gras Duw.” *

Pwy na lawenyha mewn sefydliad fel y Ffibr Gymdeithas? a pha Gymro nad ymlawenhâ wrth ystyried y rhan ogoneddus sydd gan feibion “Gwyllt Walia” yn hanes y Gymdeithas hon?

Honir yn bur fynych mai Cymro oedd y cyntaf a ddarganfyddodd y cyfandir Americanaidd; ond er cymaint a ddywedir am Madoc ap Owain Gwynedd, ac er mor berdersynol yw yr haeriad anghywir ynghylch ei fedd-argraff yn “Nrych y Prif Oesoedd,” mae yr hanes yn bur amheus; ac y mae lle i gredu i Madoc gael ei ladd mewn terfysg cartrefol, ac na fu erioed ymhell iawn o wlad ei enedigaeath. † Ond os yw hawl y Cymry i'r anrhyd-

* “Llyfr y Jubili,” t. d. 248.

† Rhag i'r cyfeiriad byr yma gael ei ystyried yn anfoddiol, ychwanegaf y ffeithiau gwreiddiol. Ar farwolaeth Owain Gwynedd, cyfododd terfysg rhwng Hywel a Dafydd, dau o'i feibion, yn yr hon y laddwyd Hywel; ac wedi hyny dygwyddodd ymryson rhwng Dafydd a Rhodri, brawd arall. Yn y terfysgoedd hyn laddwyd, neu yn hytrach llofruddiwyd, Madoc; cyhuddwyd Llywarch ab Llywelyn, “Prydydd y Moch,” o'r cynllwyniad, a chafodd brofi ei ddiuoegrwydd—trwy gydio yn “yr haiarn twyma,” sef “y fiery ordeal,” i'r hwn y cyfansoddodd Awdl; ac y mae ei gyfoesydd Cynddelw yn enwi Madoc, yn “Marwnad teilu Ywain Gwynet.”—

“Eny llas Madawc mur dygynorth uar

Meu auar car tynnorth

Oet anwas cas cad ehorth

Oet anwar par yn y porth.”—*Myo. Arch.*, I., 225.

Hyny yw, o herwydd lladdiad Madawc, mur lliid tymhestlog, mae i ni alar. Câr y bobl oedd yn y *cwrt* ger y llys; yr oedd y gŵr (an-wasaidd) yn lliidiog yn y ffirwydr ddiwyd, ac

edd hwn yn anfodhâol, mae iddynt gysylltiad arall â'r Unol Daleithiau sydd lawn mor urddasol, gan fod Cymru, a dynion o haniad Cymroaidd uniongyrchol, yn britho hanes y cyfandir newydd, ac yn sefyll yn y flaenrhes o enwogion America.

Cymro genedigol yn Nghymru, yn 1599, yn mhlwyf Llansawel, Sir Gaerfyrddin, oedd Roger Williams, sylfaenydd Rhode Island, un o'r Unol Daleithiau, a'r deddfroddwr cyntaf yn y byd a fynodd ac a sefydlodd ryddid cydwybod cyflawn a phenderfynol. Dywedir hefyd fod gwaedoliaeth Cymreig yn William Penn, sylfaenydd Pennsylvania. Yr oedd dau ar bymtheg o danysgrifwyr y "*Declaration of Independence*" o darddiad Cymraeg; ac mae yn hyfrydwch ac yn anrhydedd i gofnodi eu henwan: sef,

Thomas Jefferson, hanedig	o deulu yn Mynyddau Eryri.
Benjamin Harrison, "	o bobl a ddaethant o Gymru.
Samuel Adams, "	} o deuluoedd Cymroaidd.
John Adams, "	
Stephen Hopkins, "	o dylwyth Cymreig,
William Williams, "	eto.
William Floyd, "	eto.
Francis Lewis, ganedig yn Neheubarth Cymru.	
Lewis Morris, o dylwyth Cymreig.	
Robert Morris, (A.S., Pennsylvania), o deulu Cymreig.	
Francis Hopkinson, (New Jersey),	eto.
George Clymer, Cymro, fe dybygir.	
John Morton, (Pennsylvania), o dylwyth Cymreig.	
John Penn, (North Carolina),	eto.
Arthur Middleton, (South Carolina) eto.	
Richard Henry Lee, (Virginia),	eto.
Francis Henry Lightfoot Lee, (Virginia), eto.	
Button Gwinnett, (Georgia), gw'r o Gymru.	

Yr oedd, gan hyny, y goreuon o drigolion America o haniad Cymraeg; arferai Jefferson ymfrostio yn ei waed Brythonawl; ac y mae awdurdod boddhâol am darddiad y lleill. Dywedir hefyd fod pump, os nad saith, o Lywyddion America o'r un gwaedoliaeth, sef

Thomas Jefferson, a enwyd uchod.	} ar oohr y fam.
James Madison,	
James Monroe	
William Henry Harrison.	
John Adams.	
John Quincy Adams.	

Y deddfreithydd (*jurist*) enwocaf yn yr Unol Daleithiau, yr hwn a gyfenwir, "Y Mansfield Americanaidd," sef *Chief Justice* Marshall, oedd wŷr i Gymro o'r hen wlad a sefydlodd ei hun yn Virginia. Mae yn afreidiol dyweyd fod Jonathan Edwards, eu prif dduwinydd, o'r un haniad; dywedir hefyd, fod yr un gwaedoliaeth yn eu prif areithydd, Daniel Webster; a honaf, ar yr un awdurdod, fod y *Chief Justice* presennol, sef Roger B. Taney, wedi disgyn oddiwrth denlu yn Ngogledd Cymru.

Gwelwn felly, meddai Cymro Americanaidd, fod y gwŷr (Jefferson) a gynnygiodd y penderfyniad o blaid annibyniaeth, awdwr y "*Declaration*,"

yn arw goruchymynai yn y porth.—Mae y nodwedd ryfelgar hwn yn hollol groes i'r hyn a ddwywedir am dano yn gyfaredin. Yr oedd rhyw ddirgelwch ynghylch ei lofruddiad, a ddechreu ei fod yn caru bod yn forwr; ond nid oes un sail i'r gred am ddarganfyddiad America.

a chadeirydd y pwyllgor a'i ffurfiodd (Harrison), o hil Gymreig. Cymro hefyd oedd *Governor Morris*, a luniodd yr "*American Constitution*;" a Chymro arall oedd y Prif Ynad Marshall, a esboniodd gyntaf yr egwyddorion sydd gynnwysedig ynddo.

Eto, nid yw hyn ond rhan o wasanaeth y Cymry i America. Cymerasant gyfran helaeth yn y rhyfel rhwng yr Unol Daleithau a Lloegr, ac enwogwyd llawer o honynt yn yr ymdrech hono; a chofnodir yn neifludol y rhai a ganlynant:—

GENERALS.

Gen. Anthony Wayne,	hanedig o Gething-iaid Cymreig.
Gen. Isaac Shelby,	fab Ewan Shelby, o dylwyth Cymroaidd.
Gen. Morgan Lewis,	oedd fab Cymro yn New York.
Gen. William R. Davie,	o dylwyth Cymreig.
Gen. Edward Stephens,	o deulu Cymreig.
Gen. Charles Lee,	a anwyd yn Nghymru yn 1731.
Gen. Richard Winn,	o deulu Cymroaidd yn Virginia.
Gen. Daniel Morgan,	o deulu Cymreig.
Gen. John Cadwallader,	eto.
Gen. Andrew Lewis,	eto.
Gen. Otho H. Williams,	eto.
Gen. John Thomas,	eto.
Gen. Joseph Williams,	eto.
Gen. James Rees	eto.

Ac heblaw y rhai hyn, yr oedd is-swyddogion enwog hefyd, megys

Colonel David Humphreys,
Col. Lambert Cadwallader,
Col. Richard Howell.
Col. Ethan Allen,
Col. Henry Lee,
Col. Thomas Marshall,
Col. James Williams,
Captain John Marshall,
Capt. Rogers,
Capt. Anthony Morris,
Capt. Isaac Davis.
Capt. Davis,
Lieutenant Shelby,
Commodore Hopkins.

Y cwbl o ba rai a olrhainent
eu hachyddiaeth yn ol at Dy-
wysogaeth Cymru.

Cymry eraill, fel y Dr. John Morgan, y Parchedigion David Jones, Samuel Davies, Morgan Edwards, a David Williams, a enwogasant eu hunain yn yr un amser ac yn yr un ymdrech; ac y mae yn ffaith deilwng o gofnodiad fod disgynyddion diweddarach yn parháu yn y celfyddydau a'r gwyddorau i ennill clod ac anrhydedd, ac i addurno yr enw Cymraeg. Gŵr o Sir Frycheiniog oedd Dr. Thomas P. Jones, golygydd Dyddiadur y *Franklin Institute*; Cymro oedd Oliver Evans, darganfyddwr yr "*High Pressure Steam Engine*;" a Chymry hefyd yw y lliwiedyddion Powell, a Thomas Buchanan Read, y cerfiedydd, Thomas D. Jones, yr hanesydd; Samuel Jenkins, a'r meddyg hygloed Alexander Jones. Cymry oedd llawer o ganlynwyr William Penn, y brydyddes Maria James, Anthony Morris, maer cyntaf Pennsylvania, a Thomas Lloyd, llywydd cyntaf y dal-aeth hono; a dywedir fod llényddiaeth, gwyddorau, a gwladgarwch y dal-aeth hon, wedi dylanwadu yn helaeth ar y wlad yn gyffredinol. Mae Cymru Newydd wedi eu ffurfio tu draw i'r Atlantic; mae rhai parthau, fel

Cambria County, yn dwyn enw yr hen wlad; ac mae pum' can' mil o drigolion yr Unol Daleithau yn tanysgribo eu hunain yn Gymry. Cyhoeddir pedwar o gyhoeddiadau misol, a dau o newyddiaduron wythnosol, yn yr iaith Gymraeg; mae llawer o gymdeithasau Cymreig yn New York, Philadelphia, Pennsylvania, ac Oneida; a chynnelir eisteddfodau yno yn flynyddol. Traddodwyd darlith yn New York, dydd Gwyl Ddewi, 1855, gan y meddyg Alexander Jones, ar gais Cymdeithas Elusengarol Dewi Sant; a danfonwyd copi oddiyno at yr ysgrifenydd presennol. Testun y ddarlith yw "Cymry y flwyddyn 1776," sef blwyddyn annibyniaeth America; a'r ddarlith hono yw y prif awdurdod am y traethiadau blaenorol. Os gosodir y ffeithiau hyn ynghyd, gwelir yn amlwg fod gan Genedl y Cymry ran arnhydeddus yn hanes yr Unol Daleithau.

Mae meibion Gwalia wedi gwneyd eu hunain a'u gwlad yn enwog ac yn adnabyddus mewn gwledydd eraill hefyd; a gellir enwi yn neillduol ddau frawd o'r enw Edwards yn Ffrainc. Mae yr athraw Milne Edwards yn adnabyddus fel bywdraethwr (*physiologist*), dros yn agos y cwbl o'r byd gwareiddiol; ac nid yw ei frawd yn llai enwog fel ieithydd, ac fel awdwr y traethawd ar yr ieithoedd Celtig, a elwir *Recherches sur la Langues Celtiques*. Meibion Cymro yw y ddau; ac y mae yr olaf yn ei draethawd ar Nodweddion y Rhywiaw Dynol, sef *Des Caracteres Physiologiques des Races Humaines*, yn cyfeirio yn neillduol at ei darddiad Cymroaidd, ac yn ein galw "fy nghydwladwyr,"—*mes compatriotes* (tu dal. 30).

Ond nid oes achos i ni fyned mor belled o dref, gan nad yw gwasanaeth y Cymry yn gyfyngedig i wledydd tramor. Mae Lloegr hefyd wedi derbyn llawer iawn o fendithion oddiar ddwyllaw cenedl y Cymry. Mae y Gymraeg yn cyfansoddi rhan o iaith ein cymydogion, ac yn ffurfio yr hyn a elwir gan Latham "*the Celtic element in the English Language*;" ac nid yw ei chyfran yn gyfyngedig i'r geiriadaeth yn unig, gan fod, fel y profa William Edwards, dylanwad y Gymraeg yn weledig yn ei grammadeg, ac wedi achosi y gwahaniaeth sydd rhyngddi a'r ieithoedd Ellmynaeg, oddiwrth ba rai y tarddodd ei chyfran Saesonaeg. A chan fod elfen Frythonaidd yn ngrigolion Prydain Fawr, ac elfen Gymreig yn yr iaith Seisonig, mae rhan helaeth o ddylanwad yr iaith hono, ac o ogoniant y bobl Prydeinig, yn ddyledus i genedl y Cymry.

Dylaswn enwi yn gynnarach *Asserius Menevensis*, neu Asser o Fynyw, yr hwn fu farw yn Esgob Sherborne yn O. C. 909. Efe a ysgrifenedd fywgraffiad ei gyfaill mynwesol y Brenin Alfred, yr hwn a'i gwahoddodd o Dŷ Ddewi i ddyfod yn athraw iddo ef ei hun; ac oni buasai y cofnodiad hwnw ni fuasai gan y Saeson ond brithgof am eu brenin enwocaf. Nid yw yn hysbys yn gyffredin mai Cymro hefyd oedd *Henry o Huntingdon*, un o oreuon yr haneswyr mynachol; nid wŷr dysgedigion Lloegr o ba le yr hanodd, na pha bryd y bu farw; ond rhoddir eglurhad ar y ddau ben yn y Cronicleau Cymraeg:—"O.C. 1162. Ac y bu varw Henri vab Arthur yr ysgolheic goreu o'r Kymre ac a oedd yn un oes ac ef."—*Brut y Saeson, Myv. Arch., II., 570.*

Lles anfeidrol i Lloegr, ac i'r byd yn gyffredinol, oedd gosodiad y Tudoriaid ar orsedd Lloegr. Tersynwyd y rhyfeloedd cartrefol trwy hyny. Heb Harri VIII, buasai rhwystriad braidd anorchfygol i'r diwygiad; ac heb Edward VI. a'r Frenines Elizabeth, mae yn lled debyg y buasai sefydliad Protestaniaeth yn yr ynys hon yn cael ei ohirio. Hanasant hwy oddiwrth

Owain Tudor o Benmon yn Sir Fôn; ac heb gefnogaeth Syr Rhys ab Thomas, a thrigolion Cymru, nid yw yn debyg y llwyddasai Harri VII. ar faes Bosworth, ac i esgyn gorsedd Prydain. Cymro oedd yr Arglwydd Herbert o Chisbury, un o brif enwogion teyrnasiad Iago I.; ac felly hefyd oedd George Herbert, gweithiau prydyddol yr hwn a berchir eto, ac Inigo Jones, prif adeiladydd oes y Tudoriaid. Gellid dyweyd yr un peth am Syr Richard Clough, a Syr Hugh Middleton; y blaenaf o'r ddau a eangodd fasnach y deyrnas â gwledydd tramor; a'r olaf a aurbegodd Caerludd â digonedd o ddwfr glân gloew, yr hyn a ddygid ugain milldir o ffordd, pan oedd y trigolion braidd yn newynu o'i eisieu. Yr oedd chwech esgob o darddiad Cymreig yn oes Elizabeth. Gŵr o darddiad Cymroaidd oedd Oliver Cromwel; a bu llawer o Gymry, megys *Colonel Jones*, *General Harrison*, a *Hugh Peters*, yn gefnogwyr iddo ef a'r Senedd, yn eu gwaith o ddysgu cyfiawnder i benau coronog. A Chymro ar ochr ei fam oedd yr hyglod fardd John Milton. Yn nheyrnasiad Iago II. yr oedd amryw o Gymry yn dal swyddau uchel yn y llywodraeth, fel y dengys y crynhöad canlynol. Yr oedd Henry Maurice, D.D., yn gaplan Archesgob Sanctroft; Dr. David Dolben yr Archesgob Caerefracw; Dr. Lloyd yn esgob Llan-elwy; Syr George Jefferies yn ganghellydd; Syr Leoline Jenkins yn *Secretary of State*; Sir Thomas Jones yn *Lord Chief Justice*; Sir John Trevor oedd y *Master of the Rolls*; Sir William Williams yn Llywydd (*Speaker*) Tŷ y Cyffredin; a Sir John Powell yn, un o'r Barnwyr. Effeithiodd y cyffröad ymneillduol yn anffafriol ar y Cymry gyda golwg ar enwogrwydd allanol a chyffredinol, gan gyfyngu eu sylw at aungylchiadau mewnol y Dywysogaeth ei hun; ond mewn amseroedd mwy diweddar darfu i lawer o honynt ail ddyrchafu eu hunain i sylw cyffredinol; ac yn yr oes bresennol mae llawer o Gymry yn mlaen rhesi dysgeidiaeth, y gwyddorau, a'r celfyddydau. Gwneir hyn yn fwy amlwg yn y dosbarthiad canlynol, a deallir yn well eu rhagoriaethau neillduol.

Mewn rhifyddiaeth, gellir enwi Syr Isaac Newton, er nad yw y ffaieth wedi ei nodi erioed o'r blaen. Er hyny mae yn hawdd ei phrofi. Caradoc oedd yr enw teuluaid; ond ar symudiad ei hen deidiau i Loegr, newidiwyd hwn, a chymerasant enw arall oddiwrth *Newtown*, sef y Drefnewydd, yn Sir Drefaldwyn. Wedi hyny daeth y Dr. Richard Price, yr hwn fel Newton oedd yn enwog fel athronydd hefyd. Efe oedd y cyntaf a osododd *Insurance Societies* ar sail sicrhäol; ac o ganlyniad mae llawer o'r lles deilliedig yn briodofledig iddo ef. Rhifyddwr enwog arall oedd William Jones, tad Syr William Jones; ac yn fwy diweddar, yr oedd yr Athraw D. S. Davies o Woolwich yn enwog yn yr un llwybr. Cofnodwyd marwolaeth y diweddar Mr. Griffith Davies, yn y *Times* ar un llaw, ac yn y TRAEHODYDD ar y llaw arall; mae ei nai o'r un enw yn cynnal enwogrwydd ei ewythr; ac mae Cymro arall o'r enw William Morgan yn awdurdod cyrifol fel rhifyddwr yn y briffdinias.

Yn yr eglwys adgofier, heblaw y rhai a enwyd, yr Archesgob Williams, yr Esgobion Humphreys, Gambold, a Griffith, a'r duwinyddion John Owen a Matthew Henry. Ac fel dynion cydoesol, dylem enw y Dr. Jenkyn, Coward College, Llundain; Dr. Thomas Price, golygydd yr *Eclectic*; Dr. Vaughan, golygydd y *British Quarterly*; a Rowland Williams, o goleg Llanbedr. Cymru sydd i fesur mawr yn cyflenwi Lloegr â phregethwyr. Mae capeli gan Gymry yn yr holl briffdinasoedd; mae pregeth-

wyr o Gymru mewn llawer o'r addoldai ymneillduol ; a dywedir hefyd fod dros bump o Gymry ymhob Sir o Loegr, yn llenwi pulpudau yn yr Eglwys Sefydledig.

Fel barnwyr a chyfreithwyr, mae y Barnwyr Kenyon a Richards yn bur adnabyddus ; ac mae Mr. *Justice* Williams yn awr yn dangos nad oes un enwogrwydd cyfreithiol nad all Cymro ei gyrhaedd. Yr oedd ei dad, *Sergeant* Williams, yn awdurdod cyfrifol, fel ysgrifenydd ar gyfreithiau Prydain ; ac y mae y mab yn cael ei ystyried yn un o'r cyfreithwyr mwyaf dysgedig ar fainc y barnwyr.

Mewn ieithyddiaeth a dysgeidiaeth gyffredinol, galleid dysgwyl i'r Cymro ragori ; ac nid yw y dysgwyliad yn ofer. Mae Dr. Davies, Edward Llwyd, a'r Dr. Owen Pugh wedi gwneyd iaith ac enw y Cymry yn adnabyddus dros yr holl Gyfandir ; yr oedd ac y mae Syr William Jones yn adnabyddus dros yr holl fyd fel darganfyddwr a disgrifiwr byd newydd o lēnyddiaeth yn Hindostan ; ac nid ydym heb gynnrychiolwyr enwog yn yr oes hon. Ein cydwladwyr, yr Archddiacon Williams ac Arthur James Johns, ydynt yn adnabyddus fel ieithyddwyr, ac fel awdwyr llyfrau a gyfrifir yn awdurdodol ; ac y mae amryw o Gymry yn y prif athroféydd, megys y Parchedigion Lewis Evans, D. G. Vaughan, J. Llewelyn Davies (Rhydychen), a Robert Ellis (Caergrawnt), wedi enwogi eu hunain fel cyfieithwyr Plato, ac â gweithiau Arglwydd Bacon, a *Bohn's Classical Library*.

Yn y llynges ae yn y fyddin, mae hefyd enwogion Cymreig. Gellid enwi y Llyngesydd Thomas, y Llyngesydd Matthews, y Llyngesydd Price, a Chaptan Griffith, mewn cysylltiad â'r blaenaf ; a'r Cadfridog Picton, Cadfridog Nott, a *Major* Edwards mewn cysylltiad â'r olaf. Dywedir yn wir fod y Duc Wellington yn Gymro ar ochr ei fam, yr hon a ddisgynodd o deulu y Treforiaid ; ac y mae dewrder y *Fusiliers* Cymreig braidd wedi myned yn ddiareb. Ennillasant lawer iawn o glod yn y rhyfel Yspañaid ; mae eu dewrder y pryd hyny yn ffaith adnabyddus i bob darlennydd hanesyddiaeth ; ac yr ydym oll yn wybyddus mai hwy a entillasant fwyaf o glod yn mrwydr yr Alma, pan y gwaeddodd Syr George Brown, wrth weled eu hymosodiad ar y Rwssiaid, "*Well done, my brave Welsh, I shall remember you again.*"

Maent wedi bod yr un mor lwyddiannus yn y Gwyddoran a'r Celfyddydau. Thomas Pennant sydd lawn mor enwog fel naturiaethydd ag yw fel hynafiaethydd ; ac yn hanes y wyddor Fferyllol rhoddir lle anrhydeddus i Dr. Thomas Henry. Mewn Meddyginiaeth, gellir enwi Syr David Davies, meddyg y diweddar Frennes Adelaide ; ac y mae y Doctoriaid C. J. B. Williams, a Thomas Williams, yn blodeuo yn awr. Yn nghyfres lluniedyddion, dywed Mr. Ruskin, nad oes un wedi ymddangos yn ddiweddar yn deilwng o gymhariaeth â'r diweddar G. W. M. Turner ; a Chymro ar ochr ei fam oedd efe. Cymro hefyd oedd Richard Wilson, y "*landscape painter.*" Penry Williams, gŵr o Ferthyr Tydfil yw y lluniedydd blaenaf yn Rhufain ; ac y mae amryw eraill wedi enwogi eu hunain yn Llundain. Bydd enw un, sef Owain Jones, yn ddigon o engraifft. Cymro hefyd yw un o brif gerfwyr (*sculptors*) ei ddydd, sef John Gibson, gŵr ganedig yn Abergele, yr hwn hefyd a drigfana yn ninas y Pab ; ac y mae amryw, megys John Evan Thomas, Joseph Edwards, a William Jones, wedi ennill safleoedd cyfrifol yn y briffdinas. Gwnaeth Edward Jones a John Parry gerddoriaeth Cymry yn adnabyddus i'r byd yn gyffredinol ; ac y

mae Brinsley Richards, Ellis Roberts, John Parry (ieuangaf), a John Thomas, yn alluog i ennill lliaws o wrandawyr yn wyneb yr holl gystadl-euaeth sydd yn Nghaerludd.

Fel cenadon i wledydd tramor, ac mewn ymdrechion i daenu yr Ys-grythrau dros yr holl fyd, mae ein cydwladwyr wedi cyflawni eu rhan. Yn nghofnodiadau y genadaeth, nid oes un enw yn fwy parchus na'r eiddo John Williams, merthyr Erromanga; mae lledaniad y Bibl yn Llydaw yn ddyledus i'r diweddar Barch. Thomas Price; ac nid oes achos cywil-yddio i ddyweyd mai Cymro yw y Parch. Thomas Phillips, Ysgrifenydd Jubili y Fibl Gymdeithas.

Mewn gwleidiadaeth, gellir enwi yr Henuriad Waithman, ac yn neillduol William Williams, A.S. dros Lambeth, gŵr sydd yn llanw lle y diweddar Joseph Hume yn Nhŷ y Cyffredin, ac yn cael ei enwi yn barchus gan bob gradd o ddyinion fel un o'r aelodau goreu yn Tŷ. Cymro o Sir Faes-yfed yw Syr George Cornwall Lewis, y "*Chancellor of the Exchequer.*" Bydd un sylw ychwanegol yn ddigon i derfynu hyn o ddsorbath. Wrth ystyried feithiau cyffelyb, dywedodd Syr James Macintosh fod y Cymry wedi gwneyd cymaint o wasanaeth i'r byd ag y dylesid ddsygwyl oddiwrth-ynt. Wele ei eiriau ef ei hunan:—

"It was not till the reigns of the Tudors, 'Britannia's issue,' that wise attempts were made to humanize the Welsh by equal laws. Their language withheld many of them from contributing to English literature; and yet their small numbers, their constant disorder, and their multiplied links of dependence, repressed a genius which might otherwise assume a national form. *If considered, as they now should be, as a part of the people of England, their contributions have been by no means inadequate to reasonable expectations.* But the mental produce of a nation has been inconsistently expected from a people robbed of national character, and who are only now reappearing on a footing of legal and moral equality with all other Englishmen." *

Yr ydym yn ddiolchgar i Syr James am ei dystiolaeth deg a chyfiawnbwyll am danom; ac nid oes genym un amhheuaeth, pe buasai yn wybyddus o'r feithiau oll, ac yn fyw yn awr, y buasai ei dystiolaeth yn fwy cadarnhäol nag y mae, ac yn fwy ffafriol hefyd i Gymru, Cymro, a Chymraeg.

V. SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY YN BRESENNOL.

Traethasom yn helaeth, yn y pennodau rhagflaenol, ar wareiddiad y Cymry mewn oesoedd gorphenol; ac mae eu henwogrwydd cyntefig yn ei wneyd yn ofyniad naturiol, beth yw eu sefyllfa bresennol.

Ymdrechaf ateb y gofyniad mewn modd, gobeithiaf, a fydd yn foddhäol, yn gystal ag yn wirioneddol; ond rhaid ystyried hefyd, fod yn ofynol i mi wneyd hyny o fewn terfynau rhy gyfyng i wneyd cyfiawnder â'r testun, yr hwn a deilyngai draethawd ei hun, gan nad yw yn ffurfio ond un gyfran o'r testun presennol. Gorfodir ni, gan hyny, i gyfeirio ein sylwadau at brif elfenau gwareiddiad, sef, CREFYDD, MOESOLDEB, ADDYSG, LLENYDDIAETH, a MASNACH; ac i ymfoddloni ein hunain, ar hyn o bryd, â dim ond brith-olwg ar bob un o honynt.

Mae CREFYDD, a chynnalied ordinhadau crefyddol, yn un o brif neillduol-ion Cymru; ac oddieithr trigolion Ysgotland, y Cymry yn ddiammheuol yw y bobl fwyaf grefyddol o fewn cyffiniau Ewrop. Cyn tarddiad Ymneill-

* *History of England*, I., 255.

duaeth, yr oedd yr Eglwys mewn llawer o barch gan y bobl; ond esgeuluswyd eu dyledswyddau gan eu hoffeiriaid, ac mewn canlyniad syrthiodd yr Eglwys i amharch cyffredinol. Mae yn awr yn deimladol o'r esgeulusdod hwn, ac yn ymdrechu yn egnïol i adennill y tir a gollasai, ac i ail sefydlu ei hunan yn mynwesau y bobl; ac y mae, i ryw raddau, wedi llwyddo ac yn llwyddo, yn yr amcan. Ond Ymneillduaeth yw nodwedd gyffredinol y Cymry; mae y mwyafrif o'r bobl yn cyrchu i'r Capelau yn hytrach nag i'r Eglwysi; ac er eu bod yn rhanedig i wahanol enwadau, mae gelyniaeth at y Sefydliad yn deimlad cyffredinol. Mae y cyfartaledd rhwng Eglwyswyr ac Ymneillduwyr yn awr yn wybyddus, oddiwrth y cyfrif (*census*) a wnaed Mawrth 30, 1851; ac yno gwelir fod yr Eglwys yn Nghymru yn paratoi eisteddleoedd i 28 o bob cant o boblogion y Gogledd yn erbyn 61 gan Ymneillduwyr, 25 yn y Deheudir yn ngwyneb 59. Mae yr un cyfartaledd yn weledig mewn ffordd arall, hyny yw, mae Ymneillduwyr y Gogledd yn paratoi 68½ o bob cant o gyfanswm yr eisteddleoedd a barotoir gan bob enwad a'r Eglwys ynghyd, yn erbyn 31½ gan yr Eglwys; ac Ymneillduwyr y Deheubarth 70, yn ngwyneb 30. Gellir casglu, gan hyny, fod saith o bob deg o grefyddwyr Cymru yn Ymneillduwyr; ac os cymerir rhai o'r trefydd mawrion, fel Merthyr Tydfil ac Abertawe, yn engreiffthir, mae y rhif lawer yn fwy. Mae eisteddleoedd i 59 o bob cant o drigolion Abertawe, heb ond 16 o honynt yn perthyn i'r Eglwys; ond o bob cant o eisteddleoedd mae 39 yn perthyn i'r Sefydliad a 61 i Ymneillduwyr. Ond mae y cymhariad yn Merthyr yn llawer iawn mwy anffafriol eto. Cyfartaledd y dref hono yw 58 o eisteddleoedd i bob can' person, o'r hyn nid oes ond 6 yn perthyn i'r Eglwys a 52 i Ymneillduwyr, tra y mae yr olaf yn berchenogion 89%, neu agos 90 o bob cant o eisteddleoedd; yr hyn, mewn geiriau eraill, a ddengys fod naw o bob deg o grefyddwyr Merthyr yn bleidwyr Ymneillduaeth.

Ond pa enwad bynag y byddant, mae y Cymry oll yn bobl grefyddol; mae y mwyrif o honynt yn cyrchu yn gyson i'r Eglwysi, y Capeli, a'r Ysgolion Sabbothol; yn gwrandaw yn astud ar Air Duw, yn ddarllenwyr ystyriol o hono; ac yn llon briodoli y cwbl o ddydd yr Arglwydd at wasanaeth crefydd. Gwelir y canlyniad yn amlwg yn moesoldeb y bobl; yn y cylchrediad helaeth sydd i Fiblau, Testamentau, a gweithiau athrawiaethol; ac yn yr adnabyddiaeth cyffredinol a hanfoda ynghylch prif pynciau duwinyddiaeth ddadleuol. Yn sancteiddiad y Sabbath, mae y Cymry a'r Ysgotiaid yn rhagori ar drigolion Lloegr a'r Iwerddon o lawer; ac yn ymroddiad hollol y gradd gweithgar i astudio duwinyddiaeth, ac i ddadleu testunau crefyddol yn eu cyhoeddiadau misol, saif Cymru ar ei phen ei hun. Dichon fod y meddylddrychau yn arwynebol; ac eu bod yn trin pynciau dyrys heb nemawr o'r paratoad a'r dysg sydd yn anghenrheidiol i un triniaid boddhaol o honynt; ond y mae yn anrhydedd iddynt eu bod yn ymyrtaeth â thestunau o'r fath; ac y mae cyffredinolrwydd yr arferiad yn ffaith deilwng iawn o sylw. Gellir dyweyd hyn yn benderfynol nad oes un genedl arall dan wyneb haul âg ysbryd crefydd wedi treiddio mor ddyfned idd ei natur foesol a meddyliol. Crefydd yw elfen naturiol y Cymro, heb eithrio hyd yn nod ei wladgarwch; yn hon y dymuna fyw a bod; nosia ynddi fel alarch ar lyn gloew; treiddia i'w holl orchwylion; mae yn llywio, addurno, a dyrchafu ei holl ymddygiad; llenwa ei holl feddyliau; mae llênnyddiaeth ei wlad yn arddel crefydd fel y *summum bonum*—y prif

ddaioni, yr un peth rheidol; ei holl ddadleuon a ymddibynant ar yr Ysgrhythrau am eu profion a'u henghreffitia; ac y mae ei eiriau a'i ymadroddion wedi eu llunio a'u cynnyrchu gan Air Duw. Mae crefydd yn Nghymru yn beth nad all un Sais ei deall, na sturfio un dyb briodol am dani. Yn Lloegr nid yw crefydd ond seremoni i fyned trwyddi ar Ddydd Sul; ond yn Nghymru mae yn orchwyl bywyd. Nid oes braidd un diwrnod heb wasanaeth o ryw fath; rhoddir i fyny Suliau a Gwyliau i addoli Duw; treulir yn agos bob awr nad yw yn ofynol gan anghenion bywyd yn y gwasanaeth hwn; a phan fydd y corff yn pallu, tra mae yr ysbryd yn ewyllysgar, braidd na theimlir fod y methiant hwnw yn rhyw fai a ddylid ei hebgor, pe bae yn bosibl. Gellid cyfeirio caniad Burns a elwir "*The Cottar's Saturday Night*" at Gymru yn llawn gystal ag at Ysgotland; ac y mae yn bur rhyfedd genyf na fuasai rhyw Eisteddfod wedi cynnyrchu cyfieithiad o hōni. Mae y "*big ha' Bible*," sef Bibl mawr y neuadd, mewn llawn cymaint o barch yma ac yno; ac mae ei ffrwyth yn anlwg yn ymddygiadau trigolion y ddwy wlad hyn, pan y cymherir hwynt â'r Saeson ac â'r Gwyddelod.

Cyfeirir y sylwadau rhagflaenol at y rhan grefyddol o drigolion Cymru; ond nid yw y cwbl o honnynt yn ymwelwyr addoldai. Mae mwy o'r Cymru yn addolwyr nag sydd o'r Saeson; fel y tystia feithiau ystadegol. Rhif trigolion y Dywysogaeth Mawrth 31, 1851, oedd 1,188,914; ac o'r rhif hwnw yr oedd 623,503, neu chwech o bob un ar ddeg, yn wrandawyr yr efenyl ar y Sabbath blaenorol. Yr oedd trigolion Lloegr yr un diwrnod yn 16,738,695; ond nid oedd rhagor na 6,356,222, neu chwech o bob un ar bymtheg, yn wyddfodol mewn addoldai. Mae y cyfartaledd gan hyny, yn ffafriol i Gymru; ac mae yr un cyfartaledd yn y ddwy rhan o'r Dywysogaeth. Yr oedd 214,348, allan o 404,328, yn nghapeli ac eglwysi Gwynedd; ac yr oedd 328,567, allan o 607,456 yn addoldai y Dehendir. Ond eto nid yw y cyfartaledd hwn mor ffafriol ag y dymunasem ei fod, Dylasai rhagor na 6 o bob 11 fod yn bleidwyr crefydd; ac y mae gan hyny lawer o waith i'w gyflawni eto, hyd yn nod yn Nghymru.

Mae rhagoriaeth o'r un fath i'w weled yn ei MOESOLDEB. Ammheuid hyn, mae yn wir, gan ysgrifenywyr y Llyfrau Gleision; ond cymeraf yr hyfdra, yn ngwynneb y cyhuaddiadau a wnaed ganddynt hwy, i hōni, nid yn unig fod y Cymry yn rhagori ar eu cymydogion mewn moesoldeb, ond hefyd fod y rhagoriaeth hwn yn perthyn i'w gwaedoliaeth, ac yn tarddu, fel effaith oddiwrth ei achos, yn anghenrheidiol oddiwrth ei nodwedd Geltig.

Dechreuwn gyda'r ystyriaeth olaf. Mons. Quetelet, yr ystadegydd Belgiaidd, oedd y cyntaf a dynodd sylw dysgedigion ac athronyddion at gysylltiad hiliau neu rywiau (*races*) â moesoldeb, yn ei lyfr hynod ar "Ddyn,"* yn yr hwn y dywed fod y pwynt hwn o'r pwysigrwydd mwyaf mewn ymchwiliadau o'r fath yma, er nad yw y cyntaf a ymgynnyg ei hun i'r meddwl. Ar ol sylwi ar y tair cenedlaeth sydd yn poblogi Ffrainc, sef Pelasgiaid, Germaniaid (Eilmynwyr), a Cheltiaid, dywed mai yr olaf yw y fwyaf moesol o'r tair; ac mae y ffaith yn deilwng iawn o sylw, pan ystyrir mai Ffrainc yw y wlad leiaf ei throeddwyd yn Ewrop, ac mai y Celtiaid yw y rhan foesolaf o'i thrigolion. Nid oedd yn y flwyddyn 1829,

* *Sur l'homme par M. Quetelet*, nou *Quetelet on Man*. Book Third, chap. III.

pan y cyhoeddwyd y llyfr, ond *un* troseddwr ymhob 4463 o bersonau; ac yn nhiriogaeth y Llydawiad yr oedd trosedd braidd yn anadnabyddus. Yn y "*Department of Creuse*," mewn poblogaeth o 1,264,662, neu ychydig yn fwy na phoblogaeth Cymru, nid oedd yn y flwyddyn a nodwyd ond chwech troseddwr yn erbyn personau, a deugain yn erbyn cyfoeth, yr hyn a ddengys gyfartaledd braidd anghredadwy o ddim ond un troseddwr yn erbyn personau mewn 210,777 o drigolion, a dim ond un lleidr mewn 31,617 o ddynion. Mae yr un ffaith, sef rhyddineb y Celtiaid oddiwrth droseddau mawrion yn weledig hefyd yn y wlad hon, pan yr ystyriom mai Celtiaid o waedoliaeth yw poblogion Cernyw, Dyfneint, Cumberland, Durham, Northumberland, Westmoreland, a Chaerfrog, er eu bod yn gymysgedig yn y siroedd olaf. Yn y flwyddyn 1841, yr oedd y cyfartaledd fel y canlyn:—

	Cymru a Lloegr	18	troseddwr	mewn 10,000	o bersonau.
Parthau Celtaig.	{ Cernyw	9	"	"	"
	{ Cumberland	8	"	"	"
	{ Durham	7	"	"	"
	{ Northumberland	9	"	"	"
	{ Westmoreland	6	"	"	"
	{ York	12	"	"	"
	{ Cymru yn unig	4	"	"	"

Yn y flwyddyn 1845, gwelir ffeithiau o'r un natur. Nid oedd ond saith o droseddwr yn y siroedd gogleddol uchod, i gyfartalu un ar bymtheg yn y gweddill o Lloegr; a phe gadawsid Lancashire a'i thrigolion cymysglyd o'r cyfrif, yn y ddwy ochr, buasai y cyfartaledd fel y canlyn:—

Cymru a'r Swyddau Celtaig	}	8	troseddwr	mewn	10,000.
heb Lancashire,					
Lloegr, heb y Swyddau gogleddol, a Lancashire,	}	17½	"	"	"

Neu ragor na dau cymaint. Os cymerir Lancashire i mewn gyda Lloegr Saesonaidd, lleiheir y cyfartaledd i 17 gan elfen Geltaig y swydd hono; ac os gosodir hi yr ochr arall, ychwanegir y cyfartaledd Celtaig o wyth i ddeg, neu 25 yn y cant, gan eu helpen estronol. Ymhob un o'r ddau amgylchiad mae y rheol yn dala, a'r ffaith yn amlwg fod y Celtiaid a moesoldeb yn gysylltedig. Nid ffeithiau neillduol yw y rhai a nodwyd. Mae yr un peth i'w ganfod yn gyson, flwyddyn ar ol blwyddyn; a gellir rhoddi tystiolaeth amhleidol y diweddar Mr. Joseph Fletcher i'r un perwyl. Dygodd ef y cyfrif hyd y flwyddyn 1847; ac wedi cymeryd y blynyddau rhwng 1842 a 1847 oll ynghyd, cafodd y cyfartaledd yn y chwe' blynedd, fel y mae yna,—

Cumberland	68	yn y cant	<i>islaw</i>	cyfartaledd yn Lloegr
CYMRU (Gwynedd).....	59			a Chymru ynghyd.
CYMRU (Deheudir).....	54			"
Westmoreland	58			"
Durham	53			"
Northumberland	51			"
Cernyw	50			"
Yorkshire	31			"

Gwelir oddiwrth y ffeithiau hyn mai cyfartaledd y parthau hyn yw *un*

troseddwr ymhob dwy fil o drigolion, yr hyn a dueddodd Mr. Fletcher i wneyd y sylwadau a ganlynant, gyda golwg neillduol at y Dywysogaeth :—

“The influence of *race*, too, can scarcely be doubted, in contemplating many of the facts here brought to account, such as those which give a peculiar aspect throughout to the Celtic populations of the West; whose ignorance, poverty, and excess of numbers in proportion to the produce of the soil, are as obvious as their relative deficiency of gross crime and improvident marriages, with only the average of incontinence in other respects, and a deficiency of savings in banks, which however indicative of their genuine poverty, in no respect impugns the industry which characterises the daily life of their peasantry; features which all indicate considerable popular misapprehensions as to the Celtic character, and the structure of society which it is calculated to produce.*

Mae y dystiolaeth hon yn bur anrhydeddus i'r Dywysogaeth; ond buasai yn fwy ffafriol eto, ac yn fwy cadarnhäol o'r gosodiad dan sylw, pe rhanasai efe y parthau gwir Geltig oddiwrth y rhanau eraill o Gymru sydd yn boblogedig gan ddyinion o haniad estronol. Mae rhagor na hanner trigolion Sir Benfro yn Fflandrwysiaid; ac y mae yr un ffaith yn weledig yn Siroedd Trefaldwyn, Maesyfed, a Morganwg. Yr oedd cyfartaledd Cymru oll yn 1841, yn 70 o droseddwy'r ymhob can' mil; ond pan adewir y siroedd uchod allan o'r cyfrif, suddai i lawr i ddim rhagor na 43, sef dim ond y bedwaredd ran o gyfartaledd troseddwy'r Lloegr, yr hyn a ddengys foesoldeb y Celtiaid yn fwy amlwg fyth. Tybiaf, gan hyny, fod y gosodiad hwn wedi ei brofi; a chwblhäf fy sylwadau ar y pen yma gyda'r daflen gymhariaethol a ganly :—

Mae yn Ffrainc.....	250	o droseddwy'r ymhob	CAN MIL.
Nghymru	43	“	“
Y Parthau Celtig Lloegr ...	50	“	“
Austria	80	“	“
Bohemia	80	“	“
Iwerddon.....	100	“	“
Scotland	140	“	“
Saxony.....	150	“	“
Russia	160	“	“
Lloegr	180	“	“
Sir Gaer-gwrangon (<i>Worcestershire</i>)	240	“	“
Sir Gaerloew (<i>Gloucestershire</i>)	290	“	“

Sylwer yn neillduol ar y ffugyrau olaf.

Prysurwn yn awr i draethu yn fanylach am gyfwr Cymru yn neillduol.

Hyd y blynyddau diweddaf, nid oedd neb adnabyddus â'r Dywysogaeth yn tybied llai na bod y Cymry yn uwch ei nodweddiad moesol na nemawr o'u cymydogion; ond wedi cyhoeddiad y Llyfrau Gleision, mae wedi dyfod yn ddyledswydd arnom brofi y peth tu hwnt i un ammheuaeth. Rhoddir sylwedd cyhuddiadau yr ymwelwyr yn y crynodeb canlynol, yr hwn a ddyfynir o waith Syr Thomas Phillips :—

I. Fod y benywod agos oll yn anniwair.

II. Fod cyfwr moesoldeb yn isel, o herwydd fod y syniad o rwymedigaethau moesol yn ddiffygiol; llawer o fân ladradau; anwiredd cyffredinol, o herwydd anwybodaeth fod anwiredd yn bechadurus; a thyngiad anudon mewn llysoedd cyfraith yn beth o ddygwyddiad parhäus.

* *Fletcher on Education, p. 91.*

Nid yw yn hawdd bob amser ateb cyhuddiadau o'r fath yma; ond gellir dwyn y rhai penaf o honynt i brawf ystadegol. Rhifedi plant ordderch yw y safon goreu i brofi y cyhuddiad o anniweirdeb, er nad yw yn rhydd oddiwrt h rai diffygion; ac os cymherir Cymru a Lloegr yn yr ystyr yma, gwelir mai yr unig gyhuddiad gwirioneddol yn erbyn y Dywysogaeth, yw, nid ei bod yn waeth na Lloegr, ond nad yw ddim yn well. Gweler taflenau y "*Registrar General*," lle y gosodir allan y gyfartaledd rhwng y genedigasthau ordderch a'r rhai cyfreithlawn, yn y deg dosbarth i ba rai y mae Cymru a Lloegr yn rhanedig. Rhag bod y darlennydd yn anghyfarwydd â *decimals*, rhoddaf ffugyrau cyflawn, yn lle y rhai degranol:—

Cyfartaledd y plant ordderch ymhob mil o blant cyfreithlawn:—

	1842.	1845.	1846.
<i>Lloegr</i>	67	70	67
Dosb. Deheu Orllewinol	57	61	57
“ Deheu Ddwyreiniol	64	66	63
“ Deheu Ganoldirol	67	69	66
<i>Cymru</i>	68	77	67
Dosb. Gorllewinol	68	72	70
“ Caerfrog	72	75	71
“ Gogleddol	74	79	74
“ Gogledd Ganoldirol	77	83	77
“ Dwyreiniol	79	87	88
“ Gogledd-Orllewinol	88	84	77

Hyny yw, yn 1842, yr oedd yn Nghymru un ordderchfab ymhob mil yn fwy na Lloegr, tra yr oedd chwech o'r deg Dosbarth yn waeth na'r Dywysogaeth, a dim ond tri yn well; tra yn 1846 nid oedd un gwahaniaeth rhwng y ddwy wlad: yr oedd Cymru gynddrwg â Lloegr; nid oedd Lloegr un gronyn yn well na Chymru.

Onid dyma y cwbl. Mae, fel y dywedasom eisoes, elfenau estronol yn Maesyfed, Sir Benfro, a Sir Drefaldwyn; y siroedd hyny yw y rhai mwyaf eu cyfartaledd o ordderchblant; ac oni buasai eu bod hwy yn duo cymeriad y siroedd eraill, buasai cyfartaledd Cymru yn is na'r eiddo Lloegr, a'i chyflwr gan hyny yn well. Sylwer ar y ffeithiau,—

	1842.	1845.	1846.
Sir Faesyfed	145	150	126
Sir Benfro	98	111	88
Sir Drefaldwyn	92	119	111

Onid yn y fwyddyn 1842, nid oedd y cyfartaledd ond 56 yn Sir Aber- teifi, 54 yn Sir Forganwg, a 51 yn Sir Frycheiniog.

Peth arall teilwng o sylw yn y cysylltiad yma yw puteindra y trefydd mawrion. Pwnc cynnil iawn i'w drin yw hwn; ond y mae y ffaith yn eithaf adnabyddus fod cysylltiad agos rhwng y ddau beth; ac fod putein- dra, megys yn Llundain, Llerpwl, &c., yn lleihâu rhif y genedigasthau ordderch. Os yw Cymru, gan hyny, yn gyfartal, a dim ond cyfartal â Lloegr, dylai gael ei hystyried lawer iawn yn well ei chyflwr; gan fod Cymru, oddieithr trefydd Caerfyrddin, Abertawe, Caerdydd, a'r Dref- newydd, bron yn rhydd oddiwrt h fenywod drwg, tra mae yn agos i gan' mi honynt yn Llundain ei hun.

Mae ystyriaeth arall yn deilwng o sylw hefyd, sef cysylltiad gordderchblant a gohiriad priodasol. Bernir fod gohiriad priodasol yn brawf o ddoethineb

gwladol, ac o gymedroldeb a phwyll personol; ond bernir fod cysylltiad rhwng hyny â chynnydd puteindra a phlant ordderch. Ceir enghreifftiau yn Llundain a Sir Henffordd. Yr oedd cyfartaledd Llundain (1844—5) o briodasau annoeth, yn 67 yn y cant yn *is* na chyfartaledd y wlad yn gyffredinol, ac o ordderchfeibion yn 48 yn y cant yn *is* na'r gyfartaledd gyffredin. Ac yr oedd cyfartaledd Henffordd 45 yn *is* mewn priodasau, a 58 yn *uwch* mewn gordderchblant. Yn awr, cymherir Cymru â Sir Henffordd yn y ffeithiau canlynol:—

	Priodasau Annoeth.		Gordderchblant.	
	1844.	1845.	1842	1845.
Gogledd Cymru	— 30	— 32	+ 12	+ 16
Deheudir	— 32	— 37	+ 3	+ 14
Sir Henffordd	— 46	— 68	+ 58	+ 37

Mae y rhagnod — yn arwyddo *llai* na chyfartaledd y deyrnas, a † mwy na hwnw; a gwelir yn ebrwydd fod Cymru yn rhagori yn fawr ar Sir Henffordd, ac yn haeddu canmoliaeth Mr. Fletcher, sef fod ynddi lawer *llai* na'r gyfartaledd gyffredin o briodasau annoeth (hyny yw dan 21 oed), heb ond y gyfartaledd gyffredin o anniweirdeb,—“*a relative deficiency of gross crime and improvident marriages, with only the average of incontinence in other respects.*”

Os yw yn ddymunol cymharu Cymru â'r gwledydd cyfandirol, bydd ychydig o ffeithiau yn ddigon.

Cyfartaledd Cymru yw.....	6	o ordderchblant ymhob cant.
“ Bavaria yw.....	25	“ “
“ Paris yw.....	32	“ “
“ Stockholm yw. 40	40	“ “
“ Vienna	47	“ “

Nid oes achos, gan hyny, i un Cymro gywilyddio o herwydd cyhuddiadau estronol; ond eto, fel y dywed Esgob Tŷ Ddewi, nid ydyw yn ddi-gon i ni brofi nad ydym yn waeth na Lloegr. Yr ydym yn rhagori mewn moesau yn gyffredinol; a gresyn yw na fuasem yn meddu yr un rhagoriaeth yn yr ystyriaeth yma. Cymerer y peth dan sylw, gofaler mwy am leihâu cyfleusderau i feibion a merched ymgyfeillachu dan amgylchiadau amhriodol, a rhodder ystafelloedd gwahanol i fenywod a gwrywod gysgu yuddynt, yn lle bod y gwasanaeth-ddynion o'r ddau ryw yn gorwedd yn yr un ystafell, fel y mae yn rhy gyffredin mewn tai ffermydd yn awr. Yna symudir y brycheuyn hwn, ac ymddengys moesoldeb Cymru yn ei holl ddysgleirdeb naturiol.

Mewn pethau eraill, hyny yw, yn ei ryddhâd oddiwrth droseddau cyfreithiol, cyfaddefir ar bob llaw, hyd yn nod yn y “Llyfrau Gleision,” fod rhagoriaeth y Cymry yn ddiammheul; ond cyhuddir hwynt o fân-ladradau, o anwiredd, ac o dyngiad anudon; a chan fod mân-ladradau ac anudon yn dyfod o fewn cryhaedd profion ystadegol, bydd o fudd i ni sylwi ychydig arnynt yn y fan yma, yr hyn a wnaf mewn talfyriad o oiriau Syr Thomas Phillips. Cymerir y flwyddyn 1846 yn enghraifft: mae yr un ffeithiau yn weledig bob blwyddyn; ond nid oes ystadegau diweddarach wrth law. Yn y flwyddyn hono, yr oedd o bob math o droseddwr,—

Yn Lloegr	17,644
Yn Nghymru	500

Sef *un* mewn *pymtheg* ar *hugain*, tra yr oedd y poblogion yn *un* mewn *pedwar* ar *ddeg*; hyn yw, yr oedd *pump* o drosoddwyr yn Lloegr at bob *dau* oedd yn Nghymru. Mae yr un *ffraith* yn weledig pan ddoberthir y trosoddwyr; ond gwelir hefyd fod y gyfartaledd yn dyfod yn *fwy* ffafriol, o herwydd po waethaf y troseddau, lleiaf i gyd o honynt sydd yn y Dywysogaeth.

	Troseddau } Lloegr	1847
Dosbarth I.	yn erbyn } Cymru a Sir } personau } Fynwy	30, sef 1 mewn 45
Dosbarth II.	Troseddau yn erbyn cyfoeth,	1 mewn 36
Dosbarth III.	Troseddau maleisus yn er- byn cyfoeth	71 yn Lloegr, DIM yn Nghymru.
Dosbarth IV.	<i>Forgery</i> , bathu arian, &c.,	1 mewn 82
Dosbarth V.	Mân droseddau	1 mewn 12

Hyn yw, yr oedd 45, 36, 82 o drosoddwyr o'r gwahanol ddoberthiadau uchod yn Lloegr at bob un oedd yn Nghymru, tra nad oedd y trigolion ond 14 at bob un sydd yma, yr hyn a ddengys fod dros 3 o'r dosbarth blaenaf, 2½ o'r ail, a 6 o'r pedwerydd at bob un oedd yn Nghymru. Os gadewir allan Siroedd Mynwy a Morgangwg, bydd y cyfartaledd yn *fwy* ffafriol eilwaith, fel y gwelir yma,—

DYFARNIADAU (Convictions) :—

Lloegr	17,644	neu 1 mewn	850	o'r trigolion.
Mynwy a Morgangwg	250	" 1 "	1,200	"
Yr Un Sir ar ddeg o Gymru	250	" 1 "	3,000	"

DIENYDDIADAU :— Lloegr..... 6
Cymru *Dim un.*

ALLTUDIADAU (Transportations) :—

Lloegr	2,801	neu 1 mewn	5,300	o'r trigolion.
Mynwy a Morgangwg	29	" 1 "	10,000	"
Y gweddill o Gymru	25	" 1 "	30,000	"

Carohariad dros flwyddyn :—

Lloegr	322	neu 1 mewn	4,500	o'r trigolion.
Mynwy a Morgangwg	10	" 1 "	30,000	"
Yr Un Sir ar ddeg	2	" 1 "	350,000	"

Carohariad, blwyddyn neu lai :—

Lloegr	14,615	neu 1 mewn	1,000	"
Mynwy a Morgangwg	211	" 1 "	1,500	"
Yr Un Sir ar ddeg	223	" 1 "	3,300	"

Gellid olrhain y cymhariad lawer ymbellach, a dwyn allan ffeithiau mwy tarwiadol ato; ond bydd hyn yn ddigon i brofi nad oes gormodedd o fân-ladradau yn y Dywysogaeth, er ei bod yn hollol rydd oddiwrth droseddau mawrion. Mae y mân-ladradau yma yn ymddangos yn yr *ystadegau* rhagflaenol; ac oni buasai hyn, buasai Cymru braidd yn hollol rydd oddiwrth drosedd o un math. Eto ynghylch tyngiad anudon. Diammheu fod hyn yn bod, ond nid i raddau helaeth, ac ymbell iawn o fod yn yr un cyfartaledd ag y mae yn Lloegr. Yn y tair blynedd ar ddeg rhwng 1833 ac 1846, nid oedd ond naw dyfarniad yn Nghymru a Sir Fynwy, yn erbyn 139 yn Lloegr, yr hyn a ddengys y ddwy wlad agos yn gyfartal, ond fod y rhagoriaeth, gymaint ag y mae, o ochr y Dywysogaeth. Yma eto, gresyn yw fod hyn yn bod; ond nid oes gan Loegr yr hawl leiaf i wneyd yn yn gwyn yn erbyn y Cymru. Dylai dylanwad yr efengyl ddiddymu

y pechod hwn yn hollol; ac os gwna gweinidogion eu dyledswydd, dygir hyny i ben yn fuan.

Gwelid yn 1846 fod l troseddwr yn Lloegr ymhob 860 o'r trigolion, ac fod llawer yn droseddau mawrion, tra ar y llaw arall nad oedd ond un troseddwr yn Nghymru ymhob 3000, ac fod troseddau mawrion yn hollol anadnabyddus. Ymddengys cyflwr y Dywysogaeth yn yr un goleuni mewn blynyddau eraill. Mae yn beth arferol iawn yn Nghymru i'r Barnwyr dderbyn menyg gwynion fel arwydd nad oes un troseddwr i'w ddwyn ger ei fron, ac fod y Sir yn lân ac yn rhydd oddiwrth ddrwgweithredwyr. Cofiaf ychydig o flynyddau yn ol i Sirydd Meirion arhegu un o farnwyr y Frenines â menyg gwynion; yn 1845, aeth Mr. Ynad Cresswell allan o Sir Faesyfed heb farnu un troseddwr; ac yn 1855, cafodd yr Arglwydd Brif Ynad Campbell, fenyg gwynion mewn *duy* Sir, fel y tystia efe ei hun, mewn anerchiad at reithwyr Caerlleon Gawr:—

"Gentlemen,—The calendar that lies before me shows a most melancholy list of crimes that have been committed in this county in a short space of time. I have lately visited all the counties in South Wales, as Her Majesty's representative, to administer justice in her name; and in all of them the offences were extremely few. IN TWO OF THOSE COUNTIES, IN THE COUNTY OF CARDIGAN, AND THE COUNTY OF RADNOR, THERE WAS NOT ONE SINGLE PRISONER TO BE TRIED; so that I had the satisfaction of receiving white gloves from the sheriffs, as an emblem of the purity of those counties. It is a very different case in this county; there is a calendar lying before me that is quite appalling. It is only three or four months since the Spring Assizes were held in this county, and the gaol was delivered; and now there is a list that is most tremendous and most heartrending. Not only are the cases very numerous, but they are of a deep dye, and there is hardly a crime to which the depravity of human nature is inclined which is not to be found in the calendar."

Yn wyneb tystiolaeth awdurdodol o'r fath yma, rhaid i gyhuddwyr Cymru gau eu safnau; a gellir rhoddi yr un dystiolaeth am Ogledd Cymru ag a welir uchod ynghylch y Deheudir. Cyhoeddwyd rhestr o rif dyfarniadau Siroedd y Gogledd yn yr *Assize* ddiweddaf; ac y mae fel y canlyn:—

Sir Drefaldwyn :	Dau ddyfarniad :	dim achos cyfreithiol
Sir Feirionydd :	Un dyfarniad :	" "
Sir Gaernarfon :	Pedwar dyfarniad :	" "
Sir Fôn :	Dau ddyfarniad :	" "
Sir Ddinbych :	Pedwar dyfarniad :	" "
Sir Fflint :	Dim un dyfarniad :	" "

A dywedodd y barnwr ei fod lawer gwaith wedi barnu mwy o ddyinion mewn un diwrnod yn Lloegr, nag yn holl gylch Gwynedd; ac ei fod heb nemawr o destunau i siarad am danynt, heblaw canmawl moesoldeb y bobl, a harddwch eu gwlad fynyddig. Ofer fyddai ychwanegu dim ar y pen yma; ac am hyny awn yn y blaen.

Yn ei chysylltiad âg ADDYSG, mae cyflwr y Dywysogaeth yn fwy anffafriol. Ei hiselder yn yr ystyr hwn a barodd yr ymweliad yn 1847; ac er fod yr ymwelwyr wedi drwgliwio y wlad lawer yn ormodol, nid oedd eu hachwyniadau yn hollol ddiachos, gan fod Cymru mewn addysg dyddiol, yn gystal ag mewn rhif ysgolion ac ysgoleigion, ac yn nheithi yr addysg a weinyddid, yn is ei chyflwr na Lloegr. Yn 1833, yn ol adroddiad Lord Kerry, yr oedd cyfartaledd Cymru a Lloegr, yn un ysgolaig o bob un ar ddeg o'r trigolion; ond ar ol cynnyddu dros gan mil mewn trigolion, ac wedi mwynhâu cyfleusderau mawrion i wellâu ei chyflwr, yr oedd Cymru yn 1847, ar

ol pedair blynedd ar ddeg, yn waeth ei chyflwr nag oedd Lloegr yn 1833, gan nad oedd ond un plentyn ysgol i bob *tri ar ddeg* o'r trigolion. Mae y cynhwrf a achosodd y "Llyfrau Gleision," a'r ymdrechion olynol wedi dyrchafu y wlad ryw gymaint; ond y mae eto alwad mawr am ymdrechion ychwanegol, fel y gwelir oddiwrth rif yr ysgoleigion yn 1851.

	Poblogaeth.	Ysgoleigion.	Cyfartaledd.
Gogledd Cymru	412,114	37,084	1 o bob 11
Deheudir	598,607	50,921	1 o bob 11

Yn y cyfamser, yr oedd Lloegr wedi cadw yn y blaen; a thra yr oedd ysgolblant Cymru ond braidd un o bob un ar ddeg, cyflwr Lloegr yn 1833, oedd cyfartaledd Cymru a Lloegr yn un o bob 8, ac o ganlyniad eiddo Lloegr ei hun yn fwy na hyn. Mae prawf arall o iselder addysg ddyddiol i'w gasglu oddiwrth y Cofrestrau Priodasol. Yn 1830, yr oedd o bob cant o'r dynion a briodasant yn Nghymru 48 yn analluog i ysgrifenu eu henwau, a 69 o fenywod, yn erbyn 33 a 49 yn Lloegr; yn 1844 yr oedd y cyfartaledd yn 44 a 67, yn erbyn 33 a 49—ychydig o wellâd; ac yn 1847, yr oedd y Gogledd a'i chyfartaledd o anwybodaeth yn yr ystyr yma 26 yn uwch na'r gyfartaledd gyffredin, tra yr oedd y Deheudir 39 yn uwch. Mae hyn yn dangos diffyg addysg; ac yn neillduol arwydda fod merched Cymru yn cael eu hesgeuloso lawer yn fwy na'r meibion, a llawer iawn yn fwy na merched Lloegr. Gobeithir y deffry Cymry i deimlad o bwysigrwydd y ddysg ddyddiol, ac y gwneir ymdrechion gwrol i roddi chwareu teg i feibion a merched y Dywysogaeth gael ennill eu sfordd yn y byd, ac y cefnogir hwynt trwy addysg foreuol i enwogi eu hunain, i addurno eu hoese, ac i adlewyrchu anrhydedd ar wlad eu genedigaeith. Heb addysg dyddiol yn nyddiau eu hieuenctyd, mae hyn yn anhosibl; a chan hyn, hyderaf yr ymgryfhâ y Dywysogaeth i symud ymaith y gwarth a orphwys arni yn awr.

Ond ni ddylid collfarnu hen Walia, cyn ystyried un o'i phrif neillduolion; canys os yw wedi esgeuloso addysg dyddiol, mae wedi rhagori ymhell ar ei chymydogion trwy ei hegni yn achos yr Ysgolion Sabbothol. Mae ysgol yn gysylltiedig â'r rhan fwyaf o gapeli Cymru, a mawr a mân yn cyrchu i dderbyn yr addysg a roddir yno, i ddyysgu darllen os nad ysgrifenu, i wneyd eu hunain yn hyddysg yn yr Ysgrhythran, ac i wneyd eu hunain yr ddeiliaid teilwng o'r byd a ddaw, heb ofalu am yr hwn sydd yr awrhon. Y canlyniad yw fod y mwyrif yn alluog i ddarllen, er nad i ysgrifenu; ac fod yr Ysgolion Sabbothol yn dylanwadu yn helaeth ac yn fuddiol iawn ar foeseau a daliadau crefyddol y genedl Gymreig. Saif Cymru yn yr ystyriaeth yma yn anrhydeddus yn y *Census* diweddar, sef 1851; yr oedd ynddi 269,378 o Ysgoleigion Sabbothol, sef,

Yn y Gogledd	132,967	hyny yw,	33 o bob cant,	1 o bob 3
Deheudir ...	136,411	22	"	2 o bob 9

a'r cyfartaledd mwyaf yn y Gogledd. Mae y rhif yma yn dyrchafu Cymru ymhell uwchlaw ei chymydoges Lloegr, gan nad yw y cyfartaledd uchaf yno, sef Sir Bedford, ond 19 yn y cant, tra yr oedd yn Llundain ond 5 yn y cant, ac nad oedd cyfartaledd y deyrnas oll ond ychydig yn rhagor na 7, yn erbyn 33 yn Ngwynedd. Mae yr Ysgol Sabbothol yn goron i Gymru, ac yn addurn i Ymneilldunaeth, er fod llawer o le i wellâu yn yr addysg a roddir, a llawer o alwad am hyny o ddiwygiad.

Dylem yn yr un cysylltiad sylwi fod sefydliadau eraill yn y wlad, a chan-

ddynt mewn golwg barhâu yr addysg a roddir yn yr ysgolion, gweinyddu graddau uwch o wybodaeth, a gwrteithio y meddwl â gwybodaethau gwyddorol, celfyddydol, a llênnyddol. Mae llyfrfâoedd a chymdeithasau gwyddorol mewn amryw drefydd trwy y Dywysogaeth. Mae llyfrfa gyhoeddus yn Merthyr, Dowlais, Castellnedd, Abertawe, a Chaerfyrddin, a manau eraill yn y Deheudir; ac amryw eraill yn y Gogledd. Yr oedd 26 o honynt yn 1851, yn Neheubarth, a 14 yn y Gogledd; a dichon eu bod wedi amlhâu yn y blynyddau canlynol. Mae sefydliad o'r fath yn dueddol i wneyd llawer iawn o les, ac i daenu llawer o wybodaeth gyffredinol; a gresyn yw nad ydynt yn cael mwy o gefnogaeth. Da genyf weled hefyd fod llyfrfâoedd yn cael eu sefydlu mewn cysylltiad âg Ysgolion Sabbothol: gwn fod pedair neu bump o'r cyfryw yn Merthyr Tydfil, a gobeithiaf fod y cynllun yn cael ei ddilyn mewn manau eraill. Mae y symudiad yn dra chamoladwy, a charwn ei weled yn gyffredinol. Carwn hefyd weled y cynllun yn cael ei ângau; ac i'r Cymry fynu iddynt eu hunain lyfrfâoedd cenedlaethol, yn cynnwys yr holl lyfrau sydd yn argraffedig yn yr iaith Gymraeg, ymha rai y derbynid, heb un eithriad, gyhoeddiadau misol a chwarterol yr holl enwadau cyffredinol. Byddai sefydliadau o'r fath o les annhraethol, ac nid wyf yn gweled un anhawser anorchfygol ar y ffordd.

Mewn perthynas â MASNACH, mae yr olygfa ar y dalaeth yn bur gysurus, gan fod y mwyrif o'r trigolion yn ennill arian da, ac mewn meddiant o brif gysuron bywyd. Mae y profion o'u diwydrwydd yn taro y llygaid ar unwaith, yu Ngwynedd yn y chwarelau *states* neu lechfeini, ac yn y Deheudir yn y gweithiau haiarn, glo, a chopr. Mae chwarelau Sir Gaernarfon, yn gystal a gweithiau Sir Forganwg, yn rhyfeddodau y byd; maent yn cynnal trigolion niferol y siroedd hyn ac eraill; ac wedi casglu tuag atynt y rhanau goreu a mwyaf deallus o'r gradd gweithgar yn y Dywysogaeth. Llesêir y wlad yn gyffredinol ganddynt, gan fod y siroedd amaethyddol yn ymddibynu ar y rhai celfyddydol; ac y maent yn cynnyddu yn feunyddiol yn swm eu masnach, a rhif eu trigolion; ac nid oes achos i amnhebu na pharhâ y siroedd hyn, a'r Dywysogaeth yn gyffredinol, i ymgryfhâu o flwyddyn i flwyddyn, nes y deuir i ystyried Cymru yn o'r rhanau mwyaf gwerthfawr yn y deyrnas Brydeinig. Mae cynnydd y wlad yn y can' mlynedd diweddaf yn dra rhyfeddol. Yn y flwyddyn 1740 nid oedd ond 59 o ffrweisi haiarn yn Nghymru a Lloegr, y rhai a wnaent 17,500 o dunnelli yn y flwyddyn; ond yn 1839 gwnaed agos i gan' cymaint a hyny,—sef 1,248,781 o dunnelli; ac y mae yn ddiammheu fod y gwneuthuriad yn awr lawer yn fwy. Yn 1740 ni wnaed ond 2000 o dunnelli yn Neheudir Cymru, ond yn 1839 yr oedd y gwneuthuriad yn 453,800 yn y Deheudir a Sir Fynwy, a 33,800 yn y Gogledd, sef agos i ddau can' cymaint a hanner. Gwelir yma fod Cymru yn cynnyrchu yn agos i hanner cymaint o haiarn a wneir trwy y deyrnas; ac os cymherir yr *exports*, ceir fod dwy ran o dair o'r holl allborthiadau yn myned o Ddeheubarth Cymru. Yr oedd yr allborthiadau oll yn 92,313 yn 1827, ac yn 1850 yn 772,865, sef dros wyth cymaint; ac yr oedd cynnydd Cymru yn agos yr un fath. Danfonwyd 82,904 o dunnelli o Gaerdydd a Chasnewydd yn 1817; ond ond yn 1847, danfonwyd oddiyno a threfydd eraill ddim llai na 511,590 o dunnelli.

Gellir dyweyd yr un peth am fasnachau eraill. Yn 1790, yr oedd ychydig o fân longau yn ddigon i gyfeu y cwbl o ddanfonniadau y Deheudir i

wledydd eraill; ond yn 1846, allborthwyd yn Nghasnewydd, Caerdydd, Abertawe, a Llanelli, y rhif rhyfeddol o 1,847,316 o dunnelli o lô yn unig; ac yn y flwyddyn hono ystyrir fod gwerth yr allborthiad o bob math, *dros saith myrddiwn o bunnau*, y rhan fwyaf o'r hwn swm a delid yn y Deheudir a Sir Fynwy, am lafur gweithwyr. Heblaw y glo a'r haiarn, dylid cofnodi y gweithiau copr. Yr oedd cynnyrch y deyrnas yn 1853 yn 22,000 o dunnelli; a phob tunnelli yn werth chwech ugain punt; ac o'r cyfanswm hyny, aeth naw rhan o ddeg o Abertawe, Aberafon, Castellnedd, a Llanelli.

Os rhoddir y cwbl at eu gilydd, bydd y darlennydd yn fwy galluog i ffurfio barn am fawredd masnachol Deheudir Cymru. Danfonwyd 294,596 o dunnelli o haiarn, a 950,829 o dunnelli o lô, i Gaerdydd, o Ferthyr, Aberdare, Glyn Rhondda, &c.; ac y mae y danfoniad presennol lawer yn fwy. Ond cymerer hyn yn safon; a rhaid ystyried fod danfoniad Casnewydd lawn cymaint. Cyfrifer bob tunnelli o haiarn yn werth naw punt, ac o lô yn werth deg swllt. Yna cawn y ffeithiau canlynol:—

		£
CAERDYDD	Glo a Haiarn	3,127,278
CASNEWYDD	Glo a Haiarn	3,127,278
Manau eraill ...	Copr o bob math	3,755,520
	Tin plates, &c.	842,399
	Haiarn o bob math	1,792,880
	Glo Carreg	193,850
	Glo Môr	661,540
		<hr/>
		£13,503,745

Ymddengys gan hyny fod masnach y Deheudir yn unig yn werth dros dair myrddiwn ar ddeg a hanner o bunnau bob blwyddyn; ac y mae yn rhaid fod rhan fawr o'r swm hwn yn cael ei dalu yn gyflog i weithwyr y Dywysogaeth. Nid oes genyf ffeithiau o'r un fath i osod allan gynnydd gweithiau glo, haiarn, a llechfeini y Gogledd; ond gan fod amryw o'r gweithfeydd yn cynnal dwy fil o ddynion, rhaid fod masnach Gwynedd yn dra chyfrifol. Gwelais (yn mis Medi) hysbysiad yn nghanol Iwerddon (Enniskillen) fod *Newcastle Coal and Best Bangor Slates* yno ar werth, ac y mae porthladdoedd Bangor, Caernarfon, ac eraill, yn ymddibynu bron yn hollol ar y fasnach hon. Mae gweithiau mewn a glo yn Sir Fflint, a Sir Ddinbych, ond nid ydynt i'w cymharu â gweithiau y Deheudir. Eto, os gosodir y cwbl ynghyd, gwelir fod masnach y Dywysogaeth yn dra chyfrifol.

Tra yr oedd masnach y wlad yn eangu felly, cynnyddodd y trigolion yn agos yr un cyfartaledd. Yr oedd y cynnydd yn fwyaf yn nghymydogoeth y gweithfeydd. Cynnyddodd Merthyr o 7,705 yn 1801, i 34,957 yn 1841, a 46,389 yn 1851, sef deugain mil mewn hanner can' mlynedd. Cynnyddodd Aberdare o 1,486 i 14,998 yn yr un amser; Caerdydd o 1876 i 16,007; Casnewydd o 1,423 i 19,323; a Llanelli, plwyf o 2,072 hyd 13,516, a'r dref o 4,173 yn 1831 hyd 8,566 yn 1851. Ond yr oedd y cynnydd yn gyffredinol; amlhâodd trigolion Siroedd Cymru yn gyflym iawn yn yr un cyfnod:—

	1801.	1851.	Cyfartaledd yn y cant.
Sir Aberteifi.....	o 42,956	hyd 70,796	65
Frycheiniog ...	" 31,688	" 61,474	90
Gaerfyrddin ...	" 67,817	" 110,682	64

	1801.	1851.	Cyfarfaledd yn y cant.
Sir Faesyfed	o 19,050	hyd 24,716	29
Forganwg	“ 71,525	“ 281,849	228
Benfro	“ 56,280	“ 94,140	66
Sir Gaernarfon,	o 42,521	hyd 87,870	111
Ddinbych	“ 60,352	“ 92,583	54
Drefaldwyn	“ 47,978	“ 67,335	40
Feirionydd	“ 27,506	“ 38,843	32
Fôn	“ 33,806	“ 57,327	68
Ffint	“ 39,622	“ 68,156	72
Gogledd Cymru	o 251,785	hyd 412,114	63
Deheudir Cymru	“ 289,761	“ 593,607	105
Cymru oll	o 541,546	hyd 1,003,724	84

Hyn yw, mewn geiriau byrion, mae pob cant o ddynion oedd yn 1801, wedi cynnyddu yn yr hanner can' mlynedd, i 163 yn Ngwynedd, i 184 yn Nghymru oll, i 205 yn Neheubarth, i 211 yn Sir Gaernarfon, i 323 yn Sir Forganwg, ac i 344 yn Sir Fynwy. Y tri chyfarfaledd olaf yw yr uchaf yn yr holl deyrnas; ac o ganlyniad y siroedd yna a gynnnyddasant fwyaf mewn cyfoeth a masnach hefyd.

Dylem hefyd ystyried **LLENYDDIAETH** y Cymry, yn yr arolygiad hwn o gyflwr gwareiddiol y wlad. Nid yw y Dywysogaeth yn dysgleirio yn y cysylltiad yma gymaint ag yw ei chymydoges Lloegr, a rhai gwledydd cyfandir, er nad yw mewn rhai ystyriaethau mor belled yn ol ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Gellir rhanu ein llenyddiaeth yn dair rhan, sef, y Cyhoeddiadau Misol ac Wythnosol, Gweithiau Eisteddfodol, a Llyfrau Crefyddol. Gadewir allan o'r cyfrif weithiau yr hen feirdd, y croniclau hanesyddol, a'r hen lenyddiaeth ganoloesol, gan nad yw y gweithiau hyn o fewn cyrhaedd y werin, nac yn adnwyddus i nemawr ond ychydig o henafiaethwyr yma a thraw. Nid ydym ychwaith i osod pwys neillduol ar yr ychydig weithiau hanesyddol sydd yn yriaith Gymraeg, megys “Hanes Crefydd yn Nghymru,” “Hanes Cymru,” “Hanes y Ffydd,” gan nad ydynt i'w cael yn gyffredinol, ac nad oes nemawr o hanes eu gwlad o fewn cyrhaedd y mwyrif o'r bobl, ond “Drych y Prif Oesoedd,” a “Hanes y Cymry.” Nid oes nemawr o weithiau gwyddorol, ond yr Anianydd Cristionogol, (cyfieithiad), Daearyddiaeth Jones, ac Amseryddiaeth Simon Lloyd.

Mae amryw o gyhoeddiadau wythnosol, megys yr *Amserau*, yr *Herald Cymraeg*, y *Cymro*, a'r *Gwron*, yn dylanwadu yn helaeth ar feddyliau y genedl, ac i ryw radd yn llanw lle newyddiauron yn Lloegr; ond y mae y newyddion o leiaf yn wythnos os nad yn bythefnos oed; nid yw erthyglau y golygwyr bob amser o radd uchel o deilyngdod; ac yn fynych iawn, yr ysgrifenywyr mwyaf galluog ynddynt yw y gohebwy. Ond y rhai sydd yn gwneyd yr argraff ddyfnaf ar ein cydgenedl yw y cyhoeddiadau misol, cylchrediad pa rai, ynghyd a'r rhagflaenol, a rhai oeddynt mewn bodolaeth ychydig o flynyddau yn ol, sydd fel' y canlyn:—

Yr Herald Cymraeg	9,000 (wythnosol).
“ Amserau	2,500 “
Y Gwron	2,500 “
“ Cymro	“
“ Cronicle Wythnosol	7,820 “

Yr Arweinydd		(wythnosol),
Yr Haul	1,000	(misol).
Y Diwygiwr	2,400	"
" Drysorfa	2,300*	"
Baner y Groes †.....		"
Yr Eglwysydd †.....		"
" Eurgrawn Wesleyaidd.....	900	"
Y Methodist		"
Seren Gomer	1,500	"
Y Greal		"
Yr Annibynwr		"
Y Bedyddiwr	1,800	"
" Dyagedydd.....	1,512	"
" Gwerinwr		"
Yr Ymofynydd	900+	"
" Athraw	3,000	"
" Oenig		"
" Adolygydd.....	900+	(trimisol).
Y Traethodydd.....	1,600	"

Mae yma yn agos ddigon o ddefnyddiau darllen i ateb rhif y trigolion, gan y cyfrifir nad oes ond oddeutu hanner y boblogaeth yn Gymry uniaith, ac yn anadnabyddus o'r iaith Saesonaeg. A phe buasai teilyngdod llênnyddol y cyhoeddiadau hyn yn gyfatebol i'w rhif, ni fuasai nemawr o le i achwyn. Mae mwy o awydd nag o allu ynddynt yn fynych; mwy o goeg-ddysg nag o wir-ddysg; ac nid peth anghyffredin yw gwelod dynion hollol anaddas yn trin pynciau dyfion a ddyrysasant feddyliau y dynion mwyaf enwog, gyda chymaint o ïofudra a phe buasant wedi eu hastudio am lawer o flynyddau.

Gogoniant y cyhoeddiadau fel rhan o lēnyddiaeth Cymru, yw eu bod yn cael eu cynnal i raddau helaeth gan y radd weithgar; nid yn unig gan eu harian, ond hefyd gan eu hysgrifeniadau hwynt. Gwneir hyn weithiau yn destun ymfrost; ac nid yn ddisail. Mae ein cydgenedl yn meddu cynneddfau dysglær; mae hyawdledd mewn araeth ac ysgrifen yn un o'u neillduolion; mae ganddynt hwy fwy o feistrolaeth dros yr iaith Gymraeg, nag sydd gan y Sais, y Ffrancwr, neu yr Eilmyrwr gwerinol ar eu hiaith-oedd; ac nid oes, fe allai, un wlad dan haul lle mae y werin, a'r werin yn unig, yn brif gefnogwyr yr argraffwasg. Mae yn wir fod hyn yn tarddu i ryw raddau oddiar sefyllfa neillduol y rhan uniaith o'r genedl. Saesoneg yw iaith boneddigion y wlad; mae llawer o honynt yn wir yn ddyceithriad, er yn meddiannu trwy bryniad neu briodas diroedd helaeth; ac nid oes nemawr, hyd yn nod o'r rhai sydd o waedoliaeth Cymreig, yn allnog i siarad yr iaith yn hyawdl, nac yn prisio am ei llēnyddiaeth, ond yn hytrach mae llawer yn dibrisio yr hen Gymraeg, ac yn dymuno ei diddymiad. Yn y cyfamser mae eraill yn dilyn eu hesiampl; mae y Saesoneg yn ennill tir yn feunyddiol ar gyffiniau y Dywysogaeth; a mwy nag erioed yn coleddu adnabyddiaeth o'r iaith hono. Saesoneg yw iaith y trefydd mawrion, iaith y llyfrau a werthir yn y siopau, iaith newyddiaduron y boneddigion a'r canolradd, ac iaith y gwyddorau a'r celfyddydau, a phob math o fasnach. Oddiwrth yr iaith Saesoneg y mae y Cymry dwyieithog yn ennill yr hyn a

* Ni wyddom pa le y cafodd Mr. Stephens y cyfrifon uchod. Mae yma amryfodded—yr ydym ni yn gwybod—ynghylch y DRYSORFA. Yr oedd ei chylybregdd yn 1866 dros 5400 bob mis, ac yn 1867 y mae yn 5800.—CYHOEDDWR.

† Wedi marw.

wyddant o wybodaethau tymmorol; ac y mae y teimlad cyffredinol fod y Cymro ieuanc sydd yn anwybodus o'r iaith hono ymhell ar ol ei gyfoedion, yn troi llawer o dalentau dysgleiriaf y Dywysogaeth i wleda yn meusydd toreithiog llényddiaeth Lloegr. Yn wyneb y ffeithiau hyn, nid oes ond un o ddau beth yn bosibl, naill ai ymadael â'r Gymraeg, neu ymdrech cynnal llényddiaeth genedlaethol; ac unig delerau y cyfryw llényddiaeth yw ei bod i ymddibynu yn hollol ar weinidogion ymneillduol a'r werin Gymreig. Mae yn anrhydedd, gan hyny, i'r Cymry uniaith eu bod yn alluog i gynnal llényddiaeth genedlaethol, dan y cyfryw anhawsderau; ac yn brawf amlwg o'u cynneddfau meddyliol. Mae yn wir nad yw y cyhoeddiadau Cymreig, oddieithr y TRÆTHODYDD, i'w cymharu â chyhoeddiadau Lloegr; ac ni fyddai yn un tegwch i'w cymharu, gan nad yw yn bosibl i werinwyr Cymru, heb nemawr o hawsderau addysgiadol, gystadlu â phigion ysgrifenywyr Lloegr, y rhai ydynt yn cael eu talu yn dda am eu gwaith. A chyfrif mai cyhoeddiadau enwadol ydynt, ac eu bod yn cael eu cyflenwi âg erthyglau gan ohebwywr gwirfoddol, heb un tâl ond lles eu henwadau perthynol, nac un wobrwyr ond yr hyfrydwch o weled eu hunain mewn print, mae hanfodiad y cyfryw yn dyrchafu y genedl yn ngolwg estroniaid, ac yn destun teilwng o ganmoliaeth. Eto, rhaid ystyried fod y cyhoeddiadau hyn ymhell o fod yn ateb anghenrheidiau yr oes. Nid pob peth a ymddengys ynddynt sydd yn meddiannu rhagoriaeth. Mae yn bosibl fod hyawdledd heb wybodaeth. Gall dyn feddu mwy o hunangariad heb fwy o synwyr na i gyfeillion; gall fod yn ffraeth heb fod yn ddysgedig; ond nid yw yn bosibl i ddyn fod yn wir athraw heb chwilio mwy, darllen yn helaethach, a myfyrio rhagor na'r mwyrif o'i gyfoedion. Am hyny, prysured bechgyn Cymru yn eu gwaith; gofalent i ymestyn am wybodaeth, ac èangu cylch eu drychfeddyliau; gosoder y safon yn uwch mewn amser dyfodol; ac yna bydd yr ymdrech yn fwy, a'r gwaith yn llawer gwell. Mae llawer o ddynion enwog wedi cyfodi o'n plith; mae y rhif yn amlhau yn feunyddiol; ac nid oes un achos ofni ein bod yn debyg o glywed am yr olaf yn yr oes hon.

Ond rhaid cael rhywbeth yn ychwanegol cyn bod ein cyhoeddiadau y pethau a ddylent fod. Ar rai prydiau, ond yn anfynych, mae dynion enwog, ac o ddoniau cyfrifol, yn ymddangos fel gohebwywr; eto ni wnant hyn ond tra byddant am gyflawni dybenion personol. Nid ydynt yn derbyn tâl am eu cyfraniadau; ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwneyd nemawr o ymdrechion yn yr hyn a ysgrifenant; ond yn hytrach danfonant rywbeth a ddygwydd fod wrth law, megys traethodau anghyflawn, neu gyfansoddiadau eisteddfodol fyddont wedi bod yn afwyddiannus. Heb gynnorthwy pwrpasol prif dalentau y wlad, bydd ei llényddiaeth yn debyg iawn i'r cardotyn a ymddibyna ar friwfyd eraill. Mae yn anmhosibl i'r cyfryw gynnwys cyfoethogrwydd meddyliol y genedl; rhaid llafurio cyn ennill rhagoriaeth; a chyn y llafuria neb yn hir bydd yn dysgwyl tâl am ei waith. Hyd nes telir i ddynion galluog am ysgrifenu erthyglau teilwng, dysgedig, ac addysgiadol, rhaid i'r cyhoeddiadau enwadol ymddibynu ar friwfyd y Dywysogaeth; ond diolch i ysbryd anturiaethus rhai o gyhoeddwyr Cymry, mae gobaith am bethau gwell. Mae y TRÆTHODYDD bellach wedi sefydlu ei hun yn y Dywysogaeth, ac yn cael ei roesawu ymhob rhan o'r wlad. Mae Cymreigwyr galluocaf yr amser presennol yn ei gefnogi, a'i borthi â'u hysgrifeniadau; ac y mae y tâl a dderbyniant, er nad yw ond bychan, yn annogaeth iddynt fyned yn y blaen. Cynnwysa weithiau

erthyglau nad oes achos iddynt gywilyddio yn ngwyneb "Reviews" ein cymydogion; ac y mae bob amser yn deilwng o ddarlleniad, hyd yn nod gan rai sydd â chynnyrchiadau goreuwyr Lloegr o fewn eu cyrhaedd. Ychydig o flynyddau yn ol, buasai y talentau a ddefnyddir yn awr yn ngwasanaeth y Cymry, naill ai yn ddi-ddenydd, neu yn golledig yn llenyddiaeth Lloegr; ond diolch i ymdaeniad gwybodaeth gyffredinol, y mae llenyddiaeth urddasol yn awr o fewn cyrhaedd y genedl; ac y mae yn hyfrydwch genyf weled ei bod yn derbyn cefnogaeth. Mae canmoliaeth gwresocaf y genedl yn ddyledus i Joseph Harris am ddechreuad y *Seren*, ac yn neillduol i gyhoeddwr, golygwyr, ac ysgrifenywyr y *TRAETHODYDD*. Gobeithiaf y parhâ i haeddu ac i dderbyn cefnogaeth, a gobeithiaf hefyd y teimlir eisieu cyhoeddiadau eraill o'r un fath.

Prysurwn yn awr i gyynnw rhai sylwadau ar lenyddiaeth Eisteddfodol.* Nid yw nac amser na therfynau y traethawd yn caniatáu i mi fanylu ar y rhan hon, ac am hyny ni wneir ond cynnyg ychydig o sylwadau cyffredinol. Y Cymry yw yr hawddaf eu disgrifio o neb a wyddwn am danynt. Tai cyrddau ac Eisteddfodau a ffurfiant y rhan fwyaf o'n bywyd meddyliol; yma rhaid i ni edrych am wir nodweddion y genedl; ac mewn Duwinyddiaeth a chyfansoddiadau Eisteddfodol y ceir yr amlygiadau cyflawnaf ac egluraf o feddylfryd y bobl awchus, synwrylwm, a bywiog hyn. Fel y gellid dysgwyl, oddiworth y wybodaeth fod grym a chyflymder llif yn mwya'u po leiaf fo rhif y rhedegleoedd trwy ba rai yr ymarllwys, ymdrinant â'r pethau hyn gyda maint, a phrysurdeb, a diwydrwydd hollol annealladwy i'r Sais pwylllog, dyfal, a threfnus; a gwnant i fyny am ddiffyg cyfrolau helaeth, trwy rif, amrywiaeth a thanbeidrwydd eu darlithiau, cywyddau, a thraethodau. Ond nid yw yn hawdd cael gan y Cymry gyduno a chydweithredu mewn gorchwylion a ofynant amynedd ac egni hir barhâus. Nid oes ganddynt nemawr o gariad at y dull Lloegraidd o weithio, sef, "tyniad hir, tyniad cryf, a thyniad gyda'u gilydd;" ond os atebir y dyben trwy amryw o ymdrechion cynhyrriadol, heb un cysylltiad â'u gilydd, nid oes neb fel y Cymry. Anhawdd iawn eu cael i gynnal Cymdeithasau Cymroaidd yn barhâus ac yn rheolaidd; ond digon hawdd eu tynu i Eisteddfod unwaith bob mis. Gellir cyfeirio yr un sylw at yr ysgrifenywyr. Nid ydynt yn cyfansoddi nemawr o linellau o'u dewis eu hunain; ond can gynted y sonir am Eisteddfod, maent yn llawn tanbeidrwydd; gosodir bywyd newydd ynddynt, ac edrychant gyda'r prysurdeb mwyaf at gyflawnder yr amser; y beirdd a farchogant yr *AWEN* nes bydd yn agos i ddrws marwolaeth, pa un a fydd yr ysbryd yn cyffroi ai peidio; a'r traethodwyr a ddirnadant eu hymenyddiau eu hunain, ac a ladaratant gyda diwydrwydd tra rhyfeddol firwyth ymenyddiau eraill, er mwyn cystadlu am y gwobrwyon cyhoeddedig. Maent oll yn llafurio yn erbyn amser; ac ewyllysia pob un osod "diwedd" ar ryw gyfansoddiad anfarwol erbyn y dydd penodedig. Eisteddfodau Cymru a ffurfiant dwymwelyau talentau ein llenyddwyr; cyfansoddir pob llinell, nid wrth duedd tufewnol, ond wrth gymhelliad allanol; gwelir argraff brys ar ein traethodau goreu; ac nid oes nemawr o'n gwyr llên yn gadael amser i'w tybiadau addfedu, nac i'w meddydrychau restru eu hunain yn eglur ac yn drefnus. Ni fydd genym llen-

* Ymddangosodd y sylwadau canlynol unwaith o'r blaen. Os dygwyrddodd fr beirniad eu gwled, bydded hyn o hysbysiad yn ddigon o brawf mai nid lladrat ydynt, gan na ddichon gw'r ladrata oddiarno ei hun.

yddiaeth haeddiannol o'r enw, nes y rhoddir digon o amser i'r cyfansoddwyr, ac nes y gofynir llyfrau llawn o feddylddrychau gwreiddiol a syniadau pwysig, yn lle y casgliadau dibris a diwerth o weithiau awduron dyeithr, sydd yn pydru yn ddiffwrth yn nghoffrau ein Cymdeithasau Cymröaidd. Yr un wedd mae y beirdd hefyd. Nid oes neb o honynt yn canu dan gynhyrriad yr awen, nac ar destunau dewisedig ganddynt hwy eu hunain; a'r canlyniadau yw, nad oes ganddynt nemawr o ddylanwad ar eu hoes mewn cymhariad â rhai o'r hen bobl, megys yr hen Ficer o Lanymddyfri, neu Williams o Bantycelyn. Bu amser ar awen Cymru pan y gallasai Goronwy Owain ganu Cywydd y Farn, nid' yn unig i'w gyfoedion ond i oesoedd dyfodol hefyd. Bu amser pan y gallasai Dafydd Ionawr arllwys bywyd o fyfyrdod i gywyddau y Diluw a'r Drindod. Ond yn awr pa fardd nad yw mewn brys? pwy a gân dan gynhyrriad ei awen yn unig? a pha un, hyd yn nod y goreuon o honynt oll, a gyfansodda heb gymhelliad Eisteddfodol?

Rhaid i mi drin y llyfrau crefyddol yn yr un modd cyffredinol. Cyfansoddir y dosbarth hwn yn benaf gan Esboniadau ar y Testamentau Hen a Newydd; ac y mae llawer iawn o honynt. Ond nid yw yn un pwrpas gan yr ysgrifenydd roddi cofrestr o honynt, na gwneyd sylwadau beirniadol arnynt, ond sylwi ychydig arnynt mewn cysylltiad â llényddiaeth y wlad, ac â'r meddwl Cymreig. Gwahanant yn fawr mewn athrawiaeth, a chyrrhaeddant o Uwch-Galfiniaeth Gill ar un ochr, hyd Wrth-Drindodaeth Belsham ar y llaw arall; ond y mae un ffaith yn gyffredin iddynt oll; ac nid yw y ffaith hono yn adlewyrchu ond ychydig o anrhydedd ar y genedl Gymreig. Os oes un gangen o lényddiaeth mwy nag eraill a ddylai y Cymry ei neillduoli iddynt eu hunain, duwinyddiaeth yw hono; ond er ein holl ymfrost am ein hadnabyddiaeth o'r Ysgrhythrau Sanctaidd, nid yw y meddwl Cymreig wedi cynnyrchu un gwaith crefyddol o enwogrwydd; cyfieithiadau yw ein hesboniadau oll; ac oddieithr "Bibl Peter Williams," nid ydyw y Dywysogaeth wedi cynnyrchu un o honynt. Mae hyn yn beth i gywilyddio yn ei gylch; ac mae yn arwydd o ddiffwrthyder cenedlaethol ein bod yn ymestwng i dderbyn oddiar ddwyllaw eraill yr eglurhadau Biblaidd a ddylasem ffurfio i ni ein hunain. A ddylem ni ddim ei deimlo yn warth mai cyfieithiadau yw ein duwinyddiaeth goreu, ac ein bod yn gadael i estroniaid y gorchwyl pwysig o ffurfio ein golygiadau mewn perthynas i fydd tragywyddol? Onid ydym wedi esgeuluso ein dyledswyddau? A ydyw dammeg y gwas anfyddlawn wedi ei llefaru er yn agos i ddwy fil o flynyddau, ac eto heb ddwyn un ffrwyth ynom ni? Mae talentau goddïog wedi eu rhoddi i genedl y Cymry; ond pan ofynir pa fodd y defnyddiasom hwynt, mae digon o le i ofni ein bod wedi haeddu y ddeddfryd, "O was drwg a diog, &c."

Heblaw y ddyledswydd arbenig sydd ar bob dyn i ddefnyddio y talentau a ymddriedwyd iddo gan ei Grëawdwr, mae dyledswyddau cenedlaethol hefyd; a dylai cenedl fel y Cymry ofalu am roddi cefnogiad i bob rhyw o ymdrechion meddylgar ynddi ei hun. Dylai benderfynu nad ymfoddlona i gael ei maeddu yn yr yrfa ddeallol; a dylai ddwyn i fyny o'i mewn ddynion galluog i ddeall a defnyddio yr hyn a wybyddir dros yr holl fydd. Mae o'r pwys mwyaf fod dynion o gynneddfau cryfion, myfyrwyr diwyd, a galluog, i ffurfio syniadau gwreiddiol a gwerthfawr, yn hanfodi yn y genedl; ac y mae o les anfeidrol i unrhyw wlad feddiannu dynion o alluoedd dys-

glacwr yn ei mynwes ei hun. Ennill y cyfryw barch i'w cydwladwyr trwy eu henwogrwydd; a thrwy eu dysg a'u cyfrinach a'u cydwladwyr, derchafant eu cymeriad, eangant eu gwybodaeth, a gwnant hwy ymhob ffordd yn fwy teilwng o'r parch ychwanegol a roddir iddynt. Mae y lles a allai dynion o'r fath wneyd i'w cydoesolion bron yn aunhraethol, yn neillduol ymhlith dynion mor wladgarol â'r Cymru, pob gradd o ba rai a garant eu gwlad, eu hiaith, a'u cenedl. Nid wyf am sarhâu dysgawdwyr estronol, ac nid oes genyf un gwrthwynebiad iddynt fod yn adnabyddus i'm cydwladwyr. Maent ya ddiau wedi bod, ac yn bod o les anghymbarol; ac, o ddiffyg awduron cartrefol, ni fuasai ein cyflwr meddylgar gystal ag y mae, heb eu cynnorthwy hwy. Ond ni ddylem ymfoddloni mewn cyfieithiadau yn unig, gan y dylai pob cenedl furfio ei llynyddiaeth ei hun; a dylai y rhan swyaf a gwrthfawrocaf o bob llényddiaeth genedlaethol darddu ymysg y bobl eu hunain. Cyfieither a fynir; ond nac esgeuluser gwrteithiad y meddwl cenedlaethol; ac nac anghofier fod galwad am weithiau gwreiddiol mewn cyfartalrwydd i rif y cyfieithiadau, ac am ymdrechion i gadw y deall cartrefol mewn gweithrediad ac yn ei lawn rym. Po swyaf fyddo y derbyniadau estronol, mwyaf o alwad sydd am gynnyrch cenedlaethol; gan y dylai pob gwlad, i feddyliau yr hon yr arllwysir meddylddrychau estronol beunydd, fod yn berchen llawer iawn o egni tufewnol i wrthsefyll ac i reoli y dylanwad mawr hwnw; onid é bydd yn sicr o syrthio i'r cyflwr gwaelaf o esgeulusdod a diffwrwthder; bydd mewn perygl o adael y meddwl i suddo dan rwymau caethwasanaeth deallol; a byddai braidd yn well i ni fod heb un llynyddiaeth yn y byd, nag i ni ymddibynu yn hollol ar estroniaid am ymborth i'n meddyliau. Llyfrau yw gwir lywodraethwyr y byd yn y cyfnod presennol, ac y maent yn dylanwadu yn feunyddiol fwy a mwy ar feddyliau dynion. Gwir reolwyr gwlad yw y rhai sydd yn furfio eu deall, yn penderfynu ei chynlluniau crebwyllol, ac yn llywio ei thueddiadau; ac ni ddylem er un peth ymddiried yr awdurdod hwnw yn nwyllaw dyeithriaid. Mae teilyngdod gwlad, fel teilyngdod personau unigol, yn ymddibynu yn uniongyrchol ar y graddau ymha rai y mae o humanffuriaid; a chan hyny mae o'r pwys mwyaf i ni gael gwybod pwy sydd i reoli ein meddyliau. Yn ngwynebu yr ystyriaethau hyn, pa beth yw dyledswydd cenedl y Cymry? A ydym ni i ymddibynu am ymborth meddyliol oddiar ddwyllaw dyeithriaid? neu ynte, a oes digon o egni yn y wlad i gynnal ei hannibyniaeth ddeallol? A oes gobaith am llynyddiaeth wreiddiol a gwir genedlaethol?

Mae yn ofynol i ni wynebu y ffaith fod cyfieithiadau yn furfio mwy a mwy o'n defnyddiau darllenol, ac i benderfynu beth a ddylem wneyd. Un o ddau beth sydd yn rhaid i ni wneyd, naill ai cymeryd ein llusgo fel caethion ar ol cerbyd meddyliol Lloegr, neu ynte benderfynu y mynwu llynyddiaeth urddasol o darddiad gwir Gymreig, yn ffrwyth meddyliau Cymry, ac yn ateb anghenion yr oes. Os nad ydym yn barod i wneyd yr ymdrechion anghenrheidiol i furfio a chynnal y fath llynyddiaeth a hyn, bydd yn well gan lawer o honom adael y Gymraeg i suddo i ebargofiant, a rhoddi yr amcan i fyny ar unwaith. Ond os ydym am ei chadw, mae yn ofynol gwneyd yn gystal a dyweyd, a chymeryd at y gorchwyl yn brysur. Nid yw yn ddigon i ni waeddi "Oes y byd i'r iaith Gymraeg." Rhaid defnyddio ein galluoedd, a gosod llyfrau ynddi a fyddant deilwng o sylw yr oes bresennol, ac o drosglwyddiad yn ol llaw i oesoedd dyfodol. Mae y meddwl fel y corff yn galw am borthiant yn feunyddiol; ac os na fydd

y porthiant hwnw i'w gael yn y Gymraeg, rhaid i ni ddysgwyl gweled y rhan ddysgedical o'r genedl yn troi eu cefnau ar wlad eu genedigaeith, ac ar hen iaith eu tadau. Dyma gyflwr y wlad yn bresennol, ac o flwyddyn i flwyddyn; os na wneir rhagor o ymdrechion i fynu llênnyddiaeth wreiddiol yn y wlad, rhaid i oreuon y wlad ymofyn am wybodaeth yn y Saesonaeg; gadewir y Gymraeg i fyned yn etifeddiaeth y mwyaf anwybodus o'r genedl; a rhaid i'r Cymro uniaith foddloni ei hun â llai o wybodaeth, a chylch mwy cyfyng o ddrychfeddyliau, ac â chymeriad iselach na'i gydfrodorion.

Gymry, deffrowch. Mae yr awr hon yn gyfnod pwysig yn eich oes chwi a minnau; ac nid yw yn bosibl i ni aros yn ein cyflwr presennol. Mae y byd yn myned yn y blaen, ac nid oes modd i ni aros yn yr un lle. Rhaid ymdrechu cadw yn y fiasnrhes, onidê, byddwn ar ol yn yr yrfa; suddu yr Omeraeg i ebargoiant, a bydd hen genedl y Cymry yn destun gwawd i genedloedd y ddaear. Yn enw ein hen dadau, deffrowch! Cyfodwch yn eich grym! Penderfynwch na chaiff neb eich maeddu; chwiliwch ryf-
eddodau y ddaear; defnyddiwch y cynneddysau dysglær a roddwyd i chwi gan eich Crëawdwr; mynwch wybodau y byd yn eich iaith eich hunain; a gadewch i ddoethion y ddaear unwaith eto weled plant Gomer yn llewyrch eu gogoniant cyntefig!

HANES ATHRONIAETH.

YR ydym yn awr yn symud i gyfnod newydd. Yr ydys wedi gweled pa fodd y cychwynodd Bacon a Des Cartes; yr ydys hefyd wedi canfod canlyniadau eu dulliau gwahanol. Y mae yn wir, fel y sylwa Cousin, nad ydyw penaeth ysgol yn gyfrifol am holl olygiadau ei ddysgybllion, er eu bod hefyd yn gynnwysedig mewn gwirionedd yn ei gyfundraeth; felly nid ydyw Locke yn gyfrifol am olygiadau ei ganlynwyr ef. Syrthiodd athroniaeth Des Cartes i'r llawr, i raddau mawr, gyda Spinoza; ond nid felly eiddo Locke, canys yr ydys yn eu cael hwy yn Lloegr, Ffrainc, a'r Germani, yn cael eu lledanu yn brysur. Mae yn eglur nad amcan Locke oedd dilyn ei egwyddorion i'w heithafion. Cafodd ddysgybllion a wnaethant hyny yn ei le. Yr ydym yn cael fod Hartley, Priestley, a Darwin, yn Lloegr, wedi cael eu harwain ganddynt i fofydd materolaeth. -Benthycwyd hwy gan Collins i sefydlu yr athrawiaeth o reidrwydd; a thrwy eu cynnorthyw, ymdrecha Mandeville at ddiddymu pob math o wahaniaethau mocoel. Ond yn Ffrainc y tyfodd y fesen fechan a hauodd Locke yn dderwen dewfrigog, yn nghanau pa un y nythodd rhai o'r cyfeiliornadau mwyaf niweidiol a gyhoeddwyd erioed. Cymerodd Condillac afael ynddynt, ac fel y sylwyd eisoes, dywedai fod Locke yn anghyson âg ef ei hun, ac yn anghywir, wrth briodol dau wreiddyn i ddrychfeddyliau. Dywedodd nad ydyw meddyldrychau ond mathau o synwriaethau (*transformed sensations*); fod meddyliaeth yn briodoldd yr ymenydd; fod natur anianyddol

a moesol dyn yr un peth yn hollol; mai ffregod oedd son am ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb meddwl; ac nad oedd enw Duw ond gair cyfystyr â natur. Dengys holl hanes athroniaeth fod golygiadau duwinyddol umrhyw oes yn dibynu i raddau anhygoel ar ei golygiadau arddansoddol. Beth ynnag fo y gyfundraeth o feddylwydd a dderbynir yn fwyaf cyffredinol ymhlith dosbarth o ddynion, bydd eu syniadau mewn moeswydd a duwinyddiaeth yn rhwym o gael eu ffurfio yn ei hol. Felly y bu yn Ffrainc. Os oedd yr arddansoddwyr Ffrengig yn gywir pan yn maentumio na feddai y meddwl ddim ond a gawsai o'r synwyr;—os nad ydyw yn ddim amgen na chyfluniad anifeilaidd, ychydig yn wahanol mewn graddau, ond nid mewn rhyw, i'r grëadigaeth afresymol;—os cynnyrch yr ymenydd ydyw meddyliaeth, fel y mae y caul (*chyle*) yn gynnyrch y cylla;—y mae yn naturiol ganlyn, “fod y bydysawd yn beiriant anferth, yn cael ei roddi mewn gweithrediad yn barhâus gan dynghedfeniaeth amhlygadwy, a dyn yn ddolen yn y gadwen sawr ac annherfynol hono o chwyldroadau,” yn rhwym o fudo ymlaen gyda grym y cenllif, heb allu na rhyddid i wrthwynebu ei weithrediaidau gorfodol. Os gellir dyweyd fod Condillac wedi ymddwyn yn deg a chyfiawn tuag at egwyddorion Locke, wrth eu gwthio i'r eithafion ag y darfu, y mae yn ffaith alarus fod y duwiolfrydig John Locke yn dad i'r athrawiaethau anffydddaidd a gyhoeddwyd yn Ffrainc yn y ddeunawfed ganrif; ei feibion ef ydyw y Barwn D'Holbach, Voltaire, Volney, a'u cydanffyddwyr, athrawiaethau y rhai a fuont yn foddion uniongyrchol i gynnyrchu yn y wlad annedwydd hono yr echryslonderau mwyaf truenus a goffêir ar holl dudalenaau hanesyddiaeth. Y cyfnod ag y bu yr awdwyr hyn yn ddysgawdwyr Ffrainc ydyw y cyfnod a ennillodd iddo ei hun, a hynny yn berffaith gyfiawn, yr enw gwarthus o “Deyrnasiad Dychryn,” pan dywelltid gwaed yn afonydd, ac y medid bywydau dynol i dragwyddoldeb fel y medir yd yn amser cynauaf. Yn yr adeg hon yr adeiladwyd teml i Reswm yno, y diddymwyd y Sabbath Cristionogol, ac y sefydlwyd yn ei le wyl neillduol bob deng niwrnod. Gallai y Ffrancod, y pryd hyn, ymffrostio mai hwy oedd y genedl fwyaf diwylliedig ac addysgedig ar Gyfan-dir Ewrop. Er hynny, yr oedd gwenwyn wedi ei arllwys i'r ffynnon. Yr oedd ei hathronwyr wedi mabwysiadu egwyddorion a fyddent sier o lygru moesddysg a llywod-ddysg y genedl; ac felly yr arweinai y naill gyfeiliornad i'r llall, nes y tywalltwyd am eu pen, o'r diwedd, phiolaid lawn o fellidithion, ac y digonwyd hwy â ffirwyth eu cyfeiliornadau eu hunain. Ni fynem ddyweyd fod anffyddiaeth Ffrainc, a'r effeithiau dinystriol, i'w priodoli yn uniongyrchol i egwyddorion Locke; ond mewn modd anuniongyrchol, y mae yn ymddangos yn fwy na thebyg y gellir eu holrhain. Tra y caniatâwn nad oes randir yn ei draethawd ar y “Deall” ar ba un y dichon Volney a Voltaire osod sylfaen eu hanffyddiaeth, dywedwn yr un pryd,—gadawer i Hartley, Priestley, Darwin, a Condillac, osod sail eu hegwyddorion hwy yno, a'u dilyn ymlaen ychydig, a cheir gweled yr ymlusga yr anffyddwyr i mewn yn hawdd. Rhyfedd meddwl fod David Hume, yr ammheuwyr, wedi seilio ei ammheuaeth ar y traethawd hwn; ond felly y dengys y ffaith. Y mae ffeithiau fel hyn yn dangos fod yr edef sidanaidd o gysylltiad sydd yn uno egwyddorion, yn fynych fel gwê y pryfscopyn, yn anhawdd ei ganfod, ac eto yn eu cysylltu yn berffaith.

Os ydyw y meddwl yn feddiannol ar egwyddorion cynhenid, y rhai nis gellir eu holrhain i synwriaeth fel gweiddyn; os ei ffaith arbenicaf ydyw

gweithrediad, fel y credai yr hen athronwyr Groegaidd; yna yr ydym yn cael ynddo yr elfen o hunanysgogiad ac ewyllys, canys amhriodol syniad am ddyn yn meddu gallu hunanysgogol yn annibynol ar ewyllys, yr hon ydyw, fel y sylwa Coleridge, "y goruwchnaturiol mewn dyn, ac egwyddor ein personoliaeth—y peth hwnw trwy yr hwn yr ydym yn weithredwyr cyfrifol; yn bersonau, ac nid yn unig yn bethau byw." Pwnc arall ydyw, beth yw natur a phriodoleddau yr ewyllys. Ar hyn o bryd, dywedwn yn unig, ei bod yn gynnwysedig yn yr egwyddor o allu hunanysgogol y meddwl. Eithr os yn y gwrthwyneb y mae—os nad ydyw y meddwl yn fod gwahanol i'r corff mewn dim ond ei gyfluniad—os na pherthyna iddo weithrediad anghenrheidiol—os o'r synwyr corfforol y derbynia ei holl gynnwysion,—yna, y mae yn canlyn, ei fod yn hollol dan ddylanwad y gwrthdrysychau hyn—hwy sydd yn ei ysgogi a'i lywodraethu. Y mae yr athrawiaeth sydd yn dyrchafu synwriaeth fel prif ac unig gynnwedd y meddwl, yn arwain i ganlyniadau gwir beryglus i foesoldeb a chrefydd, fel y dangoswyd eisoes. Os credwn hi, yr ydym yn rhwym o gredu hefyd mai creadur tynghed ydyw dyn, ac na fêdd y fath beth ag ewyllys na rhyddid. "Dengys cipolygiad ar hanes arddansoddiaeth, fod y synwryoludd (*sensationalist*) a'r tynghedfennydd (*fatalist*), mewn naw enghraifft o bob deg wedi cyttuno â'u gilydd."

Yr ydys wedi gwelod eisoes yn hanes yr athroniaeth Roegaidd, fod ammeuaeth yn fynu yn fawr ymysg athronwyr yn fynych ar ol dadleuon hirfaith y blaid synwryddol, a'r blaid amgyffredol. Ac felly y mae wedi bod ar ol amser Locke. Cynnrychiolir yr ammeuaeth hwn gan ddau ddyn gwir fawr, sef

ESGOB BERKELEY A DAVID HUME.

Yr ydys wedi ymdrin eisoes â'r pwnc o wreiddyn drychfeddyliau. Gwrthwynebodd Locke athronwyr blaenorol, drwy haeru nad oedd genym ddim drychfeddyliau y rhai nis gellid eu holrhain i synwriaeth neu adfyfyriad. Nid oedd y drychfeddwl adfyfyriadol yn cynnwys ynddo ddim mwy na'r un synwryddol; dullweddiad o hono yn unig ydoedd. Ystyrid fod Locke wedi dyfod o faes y gâd yn suddugol, a bod llawryf buddugoliaeth yn deilwng iddo.

Yn awr, os ydyw pob darganfodiad a feddwn o wrthdrysychau allanol yn gyfyngol—os nad ydym yn canfod y gwrthdrysychau eu hunain, ond delweddau o honnynt,—y mae yn canlyn nas gallwn wybod dim mewn gwirionedd ond am y delweddau. "Ond y mae y delweddau hyn," meddai Locke, "yn tybio ac yn arddangos rhyw wrthdrysychau allanol, o ba rai y maent yn ddelweddau." Y mae Locke yn anghyson âg ef ei hun wrth siarad felly; canys yr oedd wedi dyweyd drosodd a throsodd nad oedd modd i ni fyth esgyn uwchlaw ein galluoedd. Credai, a haerai yn ddiddarfod, bod eangder y wybodaeth i'w farnu wrth rym y gynnwedd. A chan y credai nad oeddym yn cael mewn darganfodiad ond delwedd o'r gwrthdrysych allanol, pa fodd y gallai, yn gyson â'i athroniaeth ar wreiddyn drychfeddyliau, dybied ein bod yn meddu syniad am ddim pellach na'r ddelwedd synwryol? Y ddelwedd a ymddangosodd yn y synwyr; nis gall adfyfyriad byth ychwanegu dim at yr hyn sydd yn y synwyr; o ganlyniad, gan nad ydyw y gwrthdrysych allanol ei hun yn cael ei ganfod gan y llygad, y mae yn rhaid i ni gasglu nad oes genym unrhyw wybodaeth am dano.

Yr oedd tuedd synwryddol athroniaeth Locke wedi cynnyrchu y cyfryw olygiadau ag a ddelid, wedi hyny, gan Hartley, Priestley, a Darwin. Yr oedd materolaeth yn cynnyddu yn gyfym iawn. Teimlodd lliaws o athronwyr, a dynion da eraill, bod anfyddiaeth yn sicr o oresgyn y wlad. Cyfodasant eu llais yn erbyn yr athroniaeth synwryddol, ac ysgrifennodd Shaftesbury, Cudworth, a Clarke, yn gampus dros ben. Ond Esob Berkeley oedd yr un a hynododd ei hun fwyaf yn yr ymgyrch. Yr oedd efe yn credu, gyda'r hynafiaid, mai yn gyfryngol y darganfyddid pob peth allanol. Credai hesyd, gyda Locke, mai y drychfeddyliau a gaem o'r synwyr oedd unig wrthdrysychau ein gwytodaeth. Ni ellid, o ganlyniad, brofi hanfodiad dim ond y ddelwedd allanol. Dangosodd yr Esob mai amhosibl oedd profi hanfodiad mater yn annibynol ar y meddwl. "Ond y mae genym grediniaeth mewn sylwedd allanol," medd rhywun. "Nac oes," meddai Berkeley; "credu yn yr hyn a ganfyddwch yr vdych, sef y ddelwedd." Nid oedd yma wadiad o hanfodiad byd allanol. Ei amcan oedd dangos nas gellid profi ei hanfodiad yn annibynol ar feddwl, ac nad ŵyr y meddwl ddim am dano, canys y mae ei wybodaeth ef yn gyfyngedig at ddelweddau. Nis gellir profi ei fodolaeth, ynta. Meddwl ydyw yr unig hanfodiad y gwyddom am dano, meddai; ac os ydyw mater yn bod, y mae yn bod yn ddibynol ar feddwl. Tybiai Berkeley, gan fod y materolwyr wedi colli meddwl mewn synwriaeth, mai y ffordd oreu i'w cyfarfod oedd profi nas gellid profi hanfodiad mater yn annibynol ar feddwl.

Yn yr adeg yma, cyfododd David Hume, yr hwn a gydnabyddir yn ymresymydd o'r dosbarth blaenaf. Gwelodd nad oedd neb yn gallu gwrthbrofi yr hyn a gyhoeddodd gan Berkeley. "Ond," meddai, "ni ddilynodd Berkeley ei bwnc i'r pen. Ni chredai efe fodolaeth y byd allanol yn annibynol ar feddwl, am nad oedd ein drychfeddyliau yn rhoddi i ni un wybodaeth am dano. Yn awr, nid oes yn y meddwl ond argraffiadau a drychfeddyliau; a chan hyny, nid oes gan neb hawl i dybied bod sylfaen, neu *substratum*, iddynt, mwy nag yr oedd *substratum* i briodoloddau allanol Berkeley." Dyna y byd allanol a'r meddwl wedi cael eu gwadu.

Nid oedd yr amhêuaeth hwn ond cynnyrch naturiol athroniaeth y cyfnod. Yr oedd yn gynwysedig yn yr egwyddorion a dderbynid fel gwirionedd. Y mae llawer yn edrych ar y dynion hyn fel dau symlyn, pan wadent yr hyn oedd mor eglur i bawb ganfod. Nid ydyw hyny ond arddangosiad o naill ai anwybodaeth hollol o amgylchiadau yr amhêuaeth, neu o gangymeriad yn ei gylch. Nid ydoedd Berkeley yn gwadu yr ymddangosiad allanol, ond y *substratum* o hōno. Dangosodd nad ydoedd y priodoloddau hanfodol ac ailraddol ond dullweddiad o'i feddwl ei hun; a chan hyny, nad ydyw yr allanol ond dullweddiadau o'r mewnoi: y mae yn hanfodi yn ymddangosiadol, ond nid ymhellach nag fel rhan o fy meddwl. Yr oedd hyn yn amgyffrediaeth (*idealism*). Nid oedd Hume, o'r ochr arall, yn gwadu hanfodiad yr *argraffiadau* a'r *delweddau*—yr oedd yn ymwybodol o honynt; yr oll a wadai oedd y *substratum* ymha un y cyfarfyddent. Ystyrid ef yn wallgof perffaith pe gwadai yr argraffiadau a'r delweddau, canys yr oedd yn ymwybodol o honynt. Nis gallem byth yn gyson wadu y rhai hyny. Ond pa beth bynag nad ydyw o fewn cylch ein hymwybodolrwydd, y mae dyn yn gyson âg ef ei hun wrth ei wadu. Yr oedd Berkeley yn gyson âg ei hun wrth wadu y byd allanol yn y modd y gwnaeth; y mae Hume yn gyson âg ef ei hun wrth gario yr amhêuaeth i'w

eithafion, a gwadu y ddau. Yr oedd Hume yn gawt. Arweiniodd ei egwyddorion ef i bob cyfeiriad gyda'i bwnc. Gwadodd gysylltiad anghenrheidiol achos ac effaith, ar yr un tir â'r byd allanol a meddyliol. Yr oedd Locke wedi dyweyd nas gallem wybod dim ond a ddaw i ni o'n synwriaethau; gan hyny, ebe Hume, pob syniad yn fy meddwl ar nas gallaf ei olrhain i ryw argraffiad neu ddelwedd, y mae yn dwyllodrus. Dywedir bod yn y meddwl grediniaeth fod *gallu* mewn un peth i achosi un arall. Nac oes, meddai; canys nis gallwn ateb am ddim ond y cyfnewidiadau olynol, y rhai a gymerant le dan amgylchiadau neillduol. Ymha le y mae y gynneddf neu y gallu i weled y *cysylltiad*? Nid oes genym yr un. Effaith ymarferiad (*habit*) ydyw yr oll, ynte.

Dygodd ammhueaeth Hume athroniaeth y cyfnod i gyfyngder. Os gellid profi fod ei gasgliadau yn anghywir, pob peth yn dda; ond os nad ellid, beth a wneid? Cyd-ddywedasai athronwyr yn gyffredinol, o Plato ac Aristotle hyd Berkeley a Hume, nad oedd darganfodiad dynion o fydd allanol yn ddigyfrwng, ond yn gyfryngol. Delweddau, meddent, sydd yn ymddangos i'r meddwl, ac nid yw y wybodaeth, felly, ond gwybodaeth am ddelweddau. Haera un dosbarth nad oedd y delweddau hyn ond dull-weddiadau o'r meddwl ei hun; a thra y maentumia dosbarth arall eu bod yn ddelweddau o fydd allanol gwirioneddol, eto nid allent osod mwy pwys arnynt na delweddau. Y mae yn wir y credid bod sylwedd neu fôd gwirioneddol yn guddiedig o'r tu cefn i'r ddelwedd; ond gan fod ein gwybodaeth yn gyfyngedig i'n profiad, a chan nad oes genym brofiad o'r hyn a dybir yn sylwedd y ddelwedd, ni feddwn ddim gwybodaeth am dano; a chan na feddwn wybodaeth am dano, y fath wrthuni ydyw i ddyinion geisio profi ei hanfodiad! Cyfaddefodd Reid a Kant bod y casgliad ammhueyddol yn eithaf teg; ac os gellid profi dilysrwydd y gosodiadau, ei fod hefyd yn anwrthwynebol. Athronwyr yn gyffredinol, neu mewn geiriau eraill, athroniaeth y cyfnod, biau y gosodiadau; a Hume biau y casgliadau.

Y mae dau ddyyn yn cael eu galw allan gan yr ammhueaeth dychrynllyd hwn, sef Reid yn yr Alban, a Kant yn yr Almaen; a'u prif amcan oedd gwrthwynebu Hume.

DR. THOMAS REID.

"Dr. Reid ydoedd un o'r athronwyr cyntaf a sffurfiodd, dan arweiniad y dull Baconaidd, yr amgyffrediad o ddull hollol adfyfyriadol o ddansoddiad meddyliol.* Mae llawer yn gwneyd gŵr gwellt o brif ddsosbarthiad yr athronydd yma, er mwyn y difyrwch o'i saethu. Gosodant ef allan fel yn dal dros berffeithrwydd ei brif raniad o'r enaid i *ddeall* ac *ewylllys*; tra y dywed ef ei hun yn eglur (tu dal. 242,) mai nid perffeithrwydd y dosbarthiad a barodd iddo ei ddewis, ond y ffaith ei fod yn cael ei fabwysiadu gan athronwyr yn gyffredinol. Mae amcan parhâus y Doctoriaid Brown a Payne i ergydio yr athronydd yma, wedi eu harwain weithiau i gamliwio ei olygiadau. Yr un pryd, pan ystyrir fod Reid yn dal mai prif orchwyl yr athronydd meddyliol ydyw dosbarthu a chyffredinoli, y mae yn syndod na buasai ef ei hun wedi ymddihatu at hyny gyda dheurwydd cyfartal i'w fawredd. Dichon ei fod wedi cael ei arwain i'r eithafion cyferbyniol gan y duedd a sffynai ymhlith athronwyr y cyfnod i ddarostwng pob ffaith feddyl-

* *Reid's Life*, gan Stewart, tu dal. 14; a Morell, II. 50.]

iol i synwriaeth. Dywed Syr W. Hamilton, fod y prif ddsbarthiad hwn o eiddo Reid wedi ei fenthyca oddiwrth yr Aristoteliad, oud maentumia ei fod wedi yspeilio y ddwy gynneddf o'u hystyrion cynhenid; canys yn y lle *cynstaf*, dan y *deall*, cyflwyna Reid i ni ein synwrau, cof, dychymyg, &c., tra na olygai y gair gan y Groegiaid ond cyfran uchaf ein cynneddfau gwybodol, megys barn, tyb, rhesymiad, &c. Yn yr *ail* lle, y mae Reid yn arfer y gair *ewyllys* i gynnwys ein holl fysiau neu ddymuniadau anifeiliaidd, yn ogystal a'n teimladau a'n dymuniadau mwyaf dyrchafedig; tra na arferid ef gan yr Aristoteliad i gynnwys mwy na'n dymuniadau a'n blysiâu uchaf, a'n penderfyniadau rhesymol. Ac yn *drydydd*, y mae y dosbarthiad, yn y ddau ystyr, yn anghywir, am na chynnwysa, neu am y cynnwysa yn anmhrifodol, drydydd dosbarth arbenig o feithiau meddyliol, sef feithiau ein teimlad.* Cymhara Dr. Brown y dosbarthiad hwn i waith dyn yn dosranu y milfodeg i anifeiliaid yn meddu adenydd, ac anifeiliaid yn meddu coesau, yr hyn a fyddai yn wrthuni perffaith; canys medda rhai anifeiliaid adenydd a choesau, a pherthynant felly i'r ddau ddsbarth. Yr un modd yn hollol y mae gyda'r feithiau meddyliol. Y mae rhai feithiau yn perthyn yn uniongyrchol i'r ewyllys neu y deall, ond y mae eraill a berthynant mor uniongyrchol i'r naill a'r llall. Yr oedd Reid yn ymwybodol o hyn, fel y gwelir yn y gyfran o'i waith y cyfeiriwyd ati eisoes. Tybygid mai ei olygiad ydyw hyn—nid bod y galluoedd deallol yn oddefol a diweithrediad, ond *bod gwahaniaeth yn ngeithrediaidau y ddau ddsbarth*. “Nid ydyw ei arferiad o'r gair *gweithrediad*, gan hyuy, yn gosod allan olygiad yr athronydd; neu, yn hytrach, y mae yn gosod allan yr hyn na olygai.”

Ar ol cydnabod y dosbarthiad cyffredinol yna, medd Reid,—“O dan yr *ewyllys* y rhestrwn ein galluoedd gweithredol, a'r oll a arweiniant i weithrediad, neu a ddylanwadant ar y meddwl i weithredu, megys trachwantau, nwydau, teimladau. Cynnwysa y *deall* ein galluoedd adfyfyriol, wrth ba rai y canfyddwn wrthddrychau drwy ba rai y cofiwn neu yr amgyffredwn hwynt, drwy ba rai y trychwalwn neu y cydosodwn hwynt, a thrwy ba rai hefyd y barnwn ac yr ymresymwn yn eu cylch.” (tu dal. 242). Yn rhestr ein galluoedd *deallol*, gesyd y Dr.—1. Y galluoedd a feddwn drwy gyfrwng ein synwrau corfforol (neu ddarganfodiad—*perception*). 2. Cof. 3. Amgyffrediaeth neu dychymyg. 4. Dansoddiad (*Abstraction*). 5. Barn. 6. Rhesymau. 7. Chwaeth. 8. Darganfodiad moesol (neu yr hyn a elwir gan eraill, cydwybod). 9. Ymwybodolrwydd. Sylwer, bod yr athronydd hwn yn golygu fod gan y meddwl alluoedd *goddefol* (yr hyn sydd gyfystyr a phe dywedid galluoedd *diallu*), gwaith pa rai ydyw derbyn yn unig, megys ein synwrau corfforol. Mae y rhai goddefol yn derbyn beth bynag a gynnwysant oddiwrth wrthddrychau ereill; ac y mae y rhai gweithredol yn gweithredu ar hyny, gan ffurfio cynnwysiad ein darganfodion—drwy rinwedd y “deddfau hanfodol” a naturiol a berthynant iddynt hwy eu hunain—yn wahanol ddrychfeddyliau, gan eu dadansoddi a'u hadffurfio yn y dull a fynom. Mae y ddau ddsbarth yna yn wreiddiol berthynu i'r meddwl. Ond y mae yn amlwg iawn fod dynion yn cyrhaedd arferion neillduol, megys dull neillduol o feddwl, purdeb chwaeth, &c., a gelwir y cyfryw bethau yn arferion (*habits*); ond y mae yn rhaid bod yn y meddwl gyf-

* *Hamilton's Reid*, tu dal. 511.

addasder neu duedd i fuffo y cyfryw arferion. Geilw Dr. Reid y gallu yma yn *capacity*, a dynodir ef gan ei olygydd â'r gair *disposition*. Mewn perthynas i ddosbarthiad Reid o alluoedd yr ewyllys, nis goddef ein terfynau i ni roddi crynodeb o hyny; canys y' mae yn gyfandir didrefn a chymysglyd, yn cynnwys casgliad da o ffeithiau, ond olrheiniad gorwael o'r ffeithiau hyny i'w hegwyddorion mwyaf syml. Dyma un o brif feisiau yr athronydd yma; ac y mae ei ddysgyblion a'i wrthwynebwyr wedi cyduno i'w feio am hyn. Cynnwysa ei fywgraffiad gan Dugald Stewart, a golygiaeth ei weithiau gan Hamilton, a hanesiaeth Mr. Morell, feirmiadaethau llymion ar ei esgeulusdra nodedig hwn. Ond pan gofir mai Reid oedd un o'r rhai cyntaf a ymgeisiodd at y cyfryw ddansoddiad a dosbarthiad o ffeithiau y meddwl, a bod athronwyr y cyfnod rhagflaenol wedi gwneyd meddwl yn ei grynswth yn fath o synwriaeth; ac o ddau ddrwg, fel y sylwa Ballantyne, "fod y cyfeiliornad o amlhâu egwyddorion yn ddiachos, yn gyfeiliornad ar yr ochr ddiogel, ac felly yn rhyglyddu rhywfaint o achles;" ac fel y dywed Stewart, "mai y prif *desideratum* yn maboed pob gwyddiant yw amlinell ddigon eang a chynnwysfawr;"—wrth ystyried hyn oll, meddwn, y mae Reid i'w esgusodi. Mae yn ddilys fod ei ddosbarthiad yn cynnwys y defnyddiau anghenrheidiol at ddosbarthiad cywir; y cyfryw na cheir gan neb o'i flaen, a pha un sydd wedi bod yn gynnorthwy dihafal i'w ganlynwyr—ei ddysgyblion a'i wrthwynebwyr. Credai o bosibl, ond iddo ddilyn dull dosbarthiadol Peter Ramus, na byddai y perygl lleiaf i neb gael cyflusdra i osod *et cætera* ar ol ei ddosbarthiad. Ceir yma ddefnyddiau yr adeilad; ond pa le y ceir adeiladydd?

Athrawiaeth Dr. Reid ar wreiddyn drychfeddyliau oedd, bod dynion yn meddu yn wreiddiol yn eu meddyliau, yn annibynol ar brofiad, syniadau, egwyddorion, neu ddeddfau neillduol, hanfodiad pa rai ydynt anhebgorol i feddyliaeth (*thought*). Yr enw a ddyry arnynt ydyw "synwyr cyffredin" dynolryw. Nid golygiadau y lliaws anwybodus a feddylir, cofier; ond yr egwyddorion hyny a ddadlenir mewn cysylltiad â meddyliaeth ymhob parth o'r byd, sef yr hyn sydd yn gyffredin i'r hil fel y cyfryw. Nodweddir y syniadau gan eu hanghenrheidrwydd a'u cyffredinolrwydd. Y maent yn rhanedig i ddau ddosbarth—un dosbarth yn anghenrheidiol ymgyfodi yn y meddwl mewn cysylltiad â synwriaeth a darganfodiad, ac felly, er yn *anghenrheidiol* yn y cysylltiad hwnw, yn achlysurol (*contingent*) fel y maent yn wirioneddau hollol ddibynol ar brofiad; a'r dosbarth arall yn wirioneddau anghenrheidiol ac annibynol ar synwriaeth a phrofiad. Y mae y math blaenaf yn wir o herwydd ein bod wedi ein cyfansoddi yn y fath berthynas â byd oddiallan i ni ein hunain; y mae y llall yn wirionedd am nas gellir byth dychymygu y gallai fod yn amgen, am fod gwirionedd yn hanfodi. Yn y dosbarth achlysurol (*contingent*), ceir yr egwyddorion canlynol:—"Yr ydwyf yr un person heddyw ag oeddwn ddoe"—"Credaf yn hanfodiad pa beth bynag yr wyf ymwybodol o hono"—"Pa beth bynag a gofir genyf, y mae ynwyf grediniaeth o'i ddygwyddiad"—"Credaf fod y gwrthdrrychau hyny a ganfyddir gan fy synwyrâu yn bodoli, a'u bod fel eu canfyddaf"—"Y mae genyf grediniaeth bod genyf awdurdod ar fy ngweithrediadau, a phenderfyniadau fy ewyllys." Nid oes neb yn ceisio ymresymu y gwahanol froddegau yna iddo ei hun. Pa ddyw, am eiliad, a ddefnyddiai y cyfreswm i geisio profi ei fod yr un heddyw a doe? Ystyrid ef yn symlyn perffiaith. Nid ydyw o fewn cylch ymres-

ymiad. Y mae y prawf yn gynywysedig yn y grediniaeth. Y mae y grediniaeth yn ddilys, am nas gallwn wirioneddol gredu yn amgen, ac am ei bod yn dibynnu ar fy ngalluoedd neu gynneddfau, y rhai ni oddefai yr Hollalluog i'm twyllo. Ond y dosbarth arall ydyw y gwirioneddau *anghenrheidiol*. Dosbartha y gwirioneddau hyn i'r gwahanol wyddiannau i ba rai y perthynant:—1. Gwirioneddau anghenrheidiol *gramadeg*, megys y rhaid i bob broddeg gyflawn gynnwys ynddi ferf, &c. 2. Gwirioneddau *rhesymegol*, megys bod pob gosodiad naill ai yn wir neu yn au. 3. Gwirioneddau gwyddonol (*mathematical axioms*), megys, “y mae y cyfanswm yn fwy na'i ranau”—“y mae pethau ag sydd gyfartal i'r unrhyw beth yn gyfartal i'w gilydd.” 4. Gwirioneddau chwaeth. 5. Egwyddorion hanfodol *moesoldeb*, megys bod mwy o ddrwg mewn gweithred anghyfiawn na gweithred angharedig—“na ddylai un dyn gael ei feio am yr hyn yr oedd yn amhosibl iddo ei attal.” 6. Egwyddorion hanfodol arddansoddiaeth. (1) Y rhaid fod gwrthddrych i'r priodoleddau a ganfyddwn oddiallan i ni, ac i'r teimlad a'r synwriadau yr ydym yn wybodol o honynt. (2.) Beth bynag a fodola, rhaid ei fod yn meddu achosydd cynnyrchiol. (3.) Os gellir canfod arwyddion cynlluniad ac o ddeall yn yr effaith, canlyna, o anghenrheidrwydd, ei fod yn yr achos, neu yr achosydd. Dyna gipolwg ar wirioneddau achlysurol ac anghenrheidiol Dr. Reid—mewn un gair, ei gyfundraeth o “*Common Sense*.” Cynnwysa ei waith ar yr *Intellectual Powers* (pen. v, vi,) eglurhâd cyflawn arnynt. Nis gallwn yma roddi dim o'i ymresymiad, onide hyfryd genym fuasai gwneyd felly. Sefyllfa Reid, ynte, gyda golwg ar darddiad meddylddrychau oedd, eu bod yn dyfod o ddyw ffynnonell—y byd allanol, a byd y meddwl. Heb y gwirioneddau achlysurol a ddy-noda, ni fuasai natur allanol o ddefnydd yn y byd; canys am y rheswm fod y gwirioneddau hyny, dyna yr achos pabam y mae ymddangosiadau allanol yn ymddangos i ni fel y maent. Yr oedd athroniaeth Hume yn cynnwys gwadiad o'r crediniaethau hyn; ond cyfaddefai yr amhweuydd ei fod yn gorfod cydnabod yn ymarferol yr hyn a wadau yn ddamcanol. Y mae coeliad y gwirioneddau hyn, fel y sylwa Stewart; “yn anheggorol er diogeliad ein bodolaeth anifeilaidd; ac y mae, gan hyny, yn gyd-ddechreuol â gweithbreidiad cyntaf y deall.” Os ydyw y gyfundraeth yna yn gywir, y mae athroniaeth wedi cael ei gwaredu o'r lle i ba un y tafwyd hi gan amgyffrediaeth (*idealism*) Berkeley, ammheuaeth Hume, a synwryolaeth Condillac.

Fe allai mai anghenrheidiol ydyw cyfswyno rhyw ddrychfeddwl bychan i'r darllynydd ar y dull y cyfarfyddodd Reid ag ammheuaeth ar y tir o “synwyr cyffredin.” Y prif bwnc i'w benderfynu oedd pa fodd yr ydym yn canfod pethau allanol. Yr athrawiaeth ar hyn a elwir yn athrawiaeth darganfodiad (*perception*).

Creda dynion yn gyffredin yn nilysrwydd eu darganfodion. Ofer sefyll o flaen gwerinwr, a dyweyd wrtho, nid ydych yn fy ngweled I; ond delw o honof ydyw yr hyn a ganfyddwch. Ystyriai ni yn ynsydion, ac yn gymhwysach i breswyllo y gwallgofid, nag i fod gyda dynion synwryol. Nid ydyw y gwerinwr tlawd yn meddwl pa fodd y mae ef yn canfod gwrthddrych allanol, ac yntau â'r gwrthddrych yn fôdau hollol wahanol. Gofyner iddo, Pa fodd y mae y meddwl yn alluog i ganfod ymddangosiadau allanol, os nad oes unoliaeth natur yn perthynu iddynt? A phe gofynid iddo, a oes gwahaniaeth rhwng y meddwl a'r byd allanol, ystyriai hyny yn rhy eglur i ryglyddu ei sylw. Yr oll y gall sefyll ato, ydyw, y ffaith ei fod yn

canfod. Gofyner iddo am y *pa fodd*, a tharewir ef â mudandod. Ond ni foddlonai athronwyr ar hyny. Rhaid oedd iddynt hwy gael gwybod pa fodd yr oedd yn ddichonadwy i feddwl—bod hollol wahanol i'r byd allanol—ganfod y byd hwnw. Rhaid bod yr hyn a wybyddir, a'r gallu neu gynneddf sydd yn gwybod, fod yn *gyffelyb* i'w gilydd, neu *yr un* â'u gilydd. Eglur ydyw, meddai athronwyr, nad ydynt yr un â'u gilydd; ac eglur ydyw hefyd, nad ydyw gwrthddrychau allanol yn cael eu canfod yn ddi-gyfrwng; delweddau (*images*) yn unig sydd yn bresennol i'r meddwl. Y mae y delweddau hyn, meddai un dosbarth, yn ddelweddau gwirioneddol o fyd allanol. Nac ydynt, meddai dosbarth arall, ond dullwediadau (*modifications*) o'r meddwl yn unig ydynt. Dyna olygiadau y ddau ddsbarth ar ddarganfodiad cyfryngol. Y mae y ddau yn dal nad oes o flaen y meddwl mewn darganfodiad ond delwedd yn unig, naill ai o'r gwrthddrychau allanol, neu o'r meddwl sydd yn canfod.

Ymosododd Dr. Reid yn ebrwydd ar athrawiaeth darganfodiad (*perception*). Penderfynodd ar unwaith ei fod yn canfod y gwrthddrychau allanol gwirioneddol, ac nid delweddau o honynt. Caniatâi pawb mai felly yr ymddangosai i'r llygaid ar yr olwg gyntaf; ond pa fodd y dichon fod felly? ebe athronwyr, tra y mae y gwrthddrych sydd yn canfod, a'r hyn a ganfyddir, mor wahanol o ran eu natur. Ni ddichon fod felly, ebent drachefn; o ganlyniad, delweddau yn unig sydd yn ymddangos i'r meddwl. "Nagè, (meddai Reid) canys y mae synwyr cyffredin holl dynolryw yn tystio i'r gwrthwyneb. Y mae fy rhagflaenwyr penigamp Des Cartes, Malebranche, a Locke, wedi trethu eu hathrylith hedegog, a'u talentau gorchwyl a nerthol, i geisio profi hanfodiad byd allanol; ond yn hollol ofer. Ymgeisiasant at roddi rheswm am hanfodiad yr hyn a gredai pawb oedd yn hanfodi; ac er yr ymddangosai y cyfryw orchwyl yn hawdd ar y cyntaf, eto terfynodd eu holl ymdrechion mewn methiant. Y mae fy enaid yn dirmygu y gyfryw athroniaeth ddisail a digynnyrch. Deued fy ysbyrd i gyfrinach *synwyr cyffredin*. Mae yr athronwyr hyn eu hunain yn credu y ffaith o hanfodiad byd allanol—y mae *pawb* yn ei chredu; a chan hyny, rhaid ei bod yn ddilys." Sylwer, ni olygir wrth yr ymadrodd "synwyr cyffredin," yr hyn a elwir weithiau yn opinyuau neu dybiau disail dynolryw; ond, yn y gwrthwyneb, y golygiadau neu egwyddorion hyny ag sydd yn perthynu i'r holl hil ddynol fel y cyfryw, a'r rhai a nodweddir gan y ddwy briodoledd o anghenrheidrwydd a chyffredinolrwydd, fel y sylwyd mewn rhan flaenorol y traethawd hwn.

Yn awr, a ydyw y ddadl a gyfodir oddiwrth "synwyr cyffredin," yn atebiad digonol i'r ammheuwyr? Tybiwn ei bod. Y mae yn wir bod Dr. Reid, a'i ddilynwyr Stewart, Beattie, ac Oswald, wedi gwanhâu y ddadl yn eu dwylaw eu hunain, drwy wneuthur ymwybodolrwydd yn gynneddf gyfartal â'r cynneddfau eraill, a pheidio gwahaniaethu rhwng gwybodaeth gyfryngol a digyfrwng. Ond nid ydyw y cyfeiliornadau hyn yn anghenrheidiol berthynu i'r ddadl.

Y mae pawb yn ymwybodol o deimladau, syniadau, &c. Yr ydym felly am fod Dau wedi ein creu â gallu i fod felly. Y mae y ffaith o ymwybodolrwydd ymhell uwch ammheuaeth, canys byddem, wrth ei hamheu, yn rhwym o fod yn ymwybodol o ammheuaeth. Y mae ein hymwybodolrwydd o ddarganfodiad gwrthddrychau allanol yn dangos i ni yn eglur bod gwrthddrychau allanol i ni ein hunain. Cyduna athronwyr yn gyffredinol

a dieithriad ar hyn. Ond gellir gofyn, Pa fodd y gwyddom nad ydyw ein hymwybodolrwydd yn ein twyllo? Atebwn, Trwy wneyd prawf o hŏno. Ond pa fodd ei profir? Atebwn, Gan mai ein hymwybodolrwydd ydyw ammod hanfodol ac arbenig ein holl wybodaeth, y llys uchaf ymha un y gellir profi dilysrwydd ei ffeithiau ydyw eu cymharu â'u gilydd. Dwy ffordd sy drwy ba rai y byddai yn bosibl rhoddi y celwydd i'n hymwybodolrwydd, sef naill ai drwy ddangos bod ei ffeithiau yn uniongyrchol neu uniongyrchol groesi eu gilydd, neu eu bod yn arwain i gasgliadau gwrthun ac anghyson. Ni wnaed y naill na'r llall o'r rhai hyn erioed; ac felly y mae athroniaeth heb un prawf yn erbyn ein hymwybodolrwydd ar y tir yna. Canlyniad o hynyna ydyw, y rhaid caniatáu i-ni haeru bod pob ffaith o'n hymwybodolrwydd yn ddilys a sicr. Os gellir eu dangos yn anghyson ac annilys mewn hyd yn nod *un* amgylchiad, yr ydym yn foddolawn i'w hammheu *ymhob* amgylchiad. Cofier, yr un pryd, mai son am ffeithiau cynhenid a gwreiddiol yr ydym, y rhai nis gellir eu holrhain i brofiad allanol fel eu gwreiddyn. Yn awr, ar ol sefydlu dilysrwydd holl ffeithiau syml ac anghymblyg ein hymwybodolrwydd, y mae yn canlyn, os ydyw ein hymwybodolrwydd yn ein harwain i gredu yn hanfodiad byd allanol i ni ein hunain, yr ydym yn rhwym i gredu ei fod yn hanfodi. Ymhob darganfodiad, yr ydym yn rhwytyn o fod yn ymwybodol o honom ein hunain, ac o rywbeth oddiallan i ni ein hunain—o *myfi*, a *nid myfi*. Gan nad ydym yn dyfod yn ymwybodol o'r naill drwy y llall, ond yn hytrach *ar unwaith*, y mae yn canlyn eu bod yn fodau gwahanol, annibynol hollol. Ymfyned y neb a fydd â'i ymwybodolrwydd, a chaiff mai felly y mae; ac y mae hyd yn nod Berkeley, Hume, Schelling, &c., y rhai ni chredant ddilysrwydd y ffaith, yn gorfod cyfadddef eu bod yn credu y ffaith ynddi ei hun. A pha beth ydyw y canlyniad? Hyn: os ydyw yn ffaith wreiddiol o fy ymwybodolrwydd bod pob darganfodiad o'r eiddod yn fy ngwneuthur yn ymwybodol o ddau wrth-ddrych gwrthgyferbyniol—*myfi*, a *nid myfi*; os nad teg ac athronyddol amnheu dilysrwydd ein hymwybodolrwydd, hyd onid ellir ei phrofi yn anwreiddus mewn un amgylchiad;—y mae yn canlyn ein bod wedi sefydlu y ffaith o'n bodolaeth annibynol ein hunain, a bodolaeth byd allanol—neu mewn geiriau eraill hanfodiad sylwedd ac ysbryd. Nid yn unig y mae yn anathronyddol i ni amnheu y ffeithiau hyn, ond y mae hefyd yn anfri o'r mwyaf ar y Goruchaf ei hun, gan y cynnwysai yr amnheuaeth dybiaeth ei fod ef wedi ein cynnysgaethu â galluoedd deallol i'n twyllo a'n hudo. Y neb a garai weled y ddadl yma wedi ei dadblygu yn gampus, cyfeirir hwy at draethodau penigamp Hamilton, ar ddiwedd gweithiau Reid. Credwn fod y ddadl syml hon yn atebiad digonol i Berkeley a Hume. Y mae yn sefydlu hanfodiad annibynol sylwedd ac ysbryd. Y mae Berkeley, felly, yn cael ei wrthbrofi; y mae Hume a'i gasgliadau yn cael eu dedfrydu; ac athroniaeth yn cael ei gwaredu o'r sfos erchyllaf y bu ynddi erioed.

DUGALD STEWART.

Yr oedd gan Reid ddysgybl athrylithgar o'r enw Dugald Stewart, yr hwn a yfodd, ac a ddeallodd brif nodweddau, ei athroniaeth. Mae dysgeidiaeth a chwaeth bur y gŵr yma wedi ennill iddo sedd ymhlith prif ddysgedigion Ewrop. Ymosododd at ddiwygio geiriadaeth athronyddol y cyfnod, ac i adolygu ac adffurfio dosbarthiad Reid. Yn ei brif ddsbarthiad, yn ychwanegol at alluoedd y *deall* a'r *ewyllys*, enwa yn 3ydd, "Y

galluoedd a berthynant i ddyn fel aelod cymdeithas wladol." Mae yn ymddangos i ni fod Dr. Payne yn sylwi yn gywir pan ddywed nas gellir golygu fod dim galluoedd yn perthyn i ddyn fel aelod cymdeithas, ag nas gellir eu hohlrhain i un o'r ddau ddosbarth blaenorol; ond gostyngedig dybiwn ei fod yn aughywir wrth sylwi nad oedd Dr. Reid yn cydnabod y cyfryw ddosbarthiad yn ei *Intellectual Powers, Essay I, ch. 8*. Mae yn wir nad ydyw yn ei ddynodi ág enw, fel y gwna Mr. Stewart, eithr rhaid priodoli hyny i naill ai esgeulusdra, neu ei fod o'r un golygiad a Payne. Gwahaniaetha dosbarthiad Mr. Stewart o'r galluoedd deallol ryw ychydig oddiwrth un Reid; ond nid yw y gwahaniaethiad yma yn bwysig. Noda ymwybodolrwydd—darganfodiad—sylwadaeth—amgyffrediaeth—dansoddiant—dargrybwylliad meddylddrychau—côf—dychymyg—a galluoedd beirniadol ac ymresymiadol.* Gwelir nad ydyw y gwahaniaeth rhyngddo â Reid yn bwysig, ac y gallwn, gan hyny, gynnyg ychydig sylwadau ar y dosbarthiadau gyda'u gilydd. Y bai *cyntaf* yn y ddau ydyw gwneyd ymwybodolrwydd yn gynneddf gyfochrog â'r cynneddfau eraill. Fe'i gosodir allan gan y ddau fel cynneddf sydd yn ein hysbysu o weithrediadau a theimladau ein meddyliau ein hunain. Y mae yn wir ei bod yn gwneyd hyny; ond ai nid ydyw hefyd yn cymeryd i mewn yr adnabyddiaeth o wrthddrychau oddiallan i ni? Os felly, onid ellir ei golygu yn brif ammod meddyliaeth; yn oleuad ymba un y deun i weled ein hunain, a rhywbeth oddiallan i ni hefyd? Onid ydyw yn rhoi gwybodaeth i ni am y gwrthddrych allanol ynddo ei hun, ac am feddwl yn ei gysylltiad â hwnw? Dywedir i Reid a Stewart, wrth wneuthur ymwybodolrwydd yn gynneddf neillduol, gyfyngedig at y *myfi* yn hollol, fyned yn y gwrthwyneb i'r cyffredin o'r athronwyr a'u rhagflaenasant. Y mae y ddyw ystyriaeth ganlynol yn dangos nad priodol ac athronyddol darostwng ymwybodolrwydd yn gynneddf neillduol gyfochrog â chôf, dychymyg, &c. Yn *mlaenaf*, y mae yn amhosibl i ni ddychymygu am ymwybodolrwydd ar wahân oddiwrth ein *holl* gynneddfau eraill, nac i wahaniaethu unrhyw un o'r rhai hyn oddiwrth ymwybodolrwydd; ac yn *ail*, y mae yn amichon i ni amgyffred am gynneddf yn ymwybodol o'n gwahanol weithrediadau meddyliol, heb fod yn ymwybodol hefyd o'u gwahanol wrthddrychau.† Yna â yr ysgrifenydd campus hwn ymlaen i sylwi, Os, ar y naill law, nis gallwn fod yn ymwybodol o ddim oll ond yn unig mewn cysylltiad â rhyw allu neu gynneddf arall, ac nad all ymwybodolrwydd felly hanfodi ar wahân oddiwrth wahanol gynneddfau y meddwl; ac os, ar y llaw arall, nas gallwn weithredu un o'n cynneddfau ond dan yr ammod (*condition*) o ymwybodolrwydd—canlyna, gan hyny, "nad ydyw ymwybodolrwydd yn un o'r moddau neillduol i ba un y gellir darostwng ein gweithrediad meddyliol, ond y ffurf hanfodol—yr ammod cyffredinol o honynt. Y mae pob gweithred ddeallol, felly, yn ddullweddiad o ymwybodolrwydd; ac ymwybodolrwydd yn air cynnwysfawr am y cyfan o'n gweithrediadau deallol." Y cyfryw hefyd ydyw golygiad y Drd. Brown a Payne ar ymwybodolrwydd. "Nid ydyw Meddyleg (*Psychology*) ond dadleniad o ymwybodolrwydd," medd ysgrifenydd yr erthygl y cyfeiriwyd ati eisoes. Deallwn mai Syr William Hamilton ydyw; o ganlyniad, penderfynwn fod grym yn ei syniadau. Ac

* *Outlines of Moral Philosophy*, tu dal. 11.

† *Edinburgh Review*, No. 108, tu dal. 162.

eto, tybir nad ydyw y casgliad a dynir—sef, nad ydyw ymwybodolrwydd amgen na gair cynnwysfawr am ein holl weithrediadau meddyliol—yn anghenrheidiol ymgyfodi o'r ymresymiad a'i rhagfaena; ac yr ydym felly, tra yn cydnabod cadernid yr ymresymiad, yn gwrthod y casgliad. Mae yn wir nas gallwn fod yn ymwybodol ond yn gysylltiol â rhyw gynneddf; ac nas gall un gynneddf, pa bynag, weithredu ond o fewn cylch yr ymwybodolrwydd hwn; ac eto, nid y gynneddf yw yr ymwybodolrwydd. Y mae yn wir ei fod yn anhawdd gwahaniaethu rhwng pethau sydd yn eu perthynas â ni yn anwahanadwy, ond nid ydyw hyn yn profi eu bod yn *un*. Y mae barn yn anwahanol gysylltiedig â phob darganfodiad—y mae, mewn ffaith, yn ammod y darganfodiad; ac eto, nid y darganfodiad ydyw y farn, na *vice versa*, ac nid yr un ydynt. Heb farn, nis gallem ddarganfod dim byth; ac heb ymwybodolrwydd, byddai ein gweithrediadau meddyliol i ni megys dim, pe, yn wir, yn bosibl. Bai mawr, yn ddiau, yn Reid a Stewart—yn yr hyn y dywedir iddynt ddilyn Hutchison—oedd cyfyngu ymwybodolrwydd fel y gwnaethant; a chyfeiliornad o'r ochr arall, dybygid, yw gwneyd gweithrediad y gynneddf, ac ymwybodolrwydd, yr un peth. Gall-asm gael ein creu heb amryw, os nad yr oll, o'n cynneddfau deallol, ac eto bod yn ymwybodol. Mae ymwybodolrwydd megys rhyw oleuni o eiddo yr enaid (i fenthycu arwyddlun Cousin a Hickok), yma un y mae yn canfod gwrthddrychau—y *myfi*, a'r *nid myfi*; ond cofier gwahaniaethu rhwng y goleuni a'r canfyddiad o wrthddrychau ynddo.

Ymddengys hefyd y gallasai Mr. Stewart hebgor y gynneddf neu allu o sylwadaeth (*attention*). “Gall awrlais (eb efe) leisio yn yr un ystafell a ni, heb i ni fod yn alluog i gofio, y foment nessaf, pa un a glywsom ef ai peidio.”* Wrth y gynneddf hon y golyga, y gallu i sefydlu y côf ar ryw ddarganfodiad neu wrthddrych. Maentumia rhai athronwyr nas dichon y meddwl dalu sylw i fwy nag un synwriaeth ar unwaith, tra yr haera eraill y dichon. Wrth olygu y meddwl yn gyfansoddedig o wahanol alluoedd neu gymeddfau, a bod rhai synwriaethau yn perthyn yn arbenig i'r naill a'r llall o'r galluoedd hyn, heb fod felly iddynt oll, gallem ddyweyd y dichon y cynneddfau hyn gydweithredu, er fod eu gwrthddrychau yn amrywio. Ond pan ystyriom fod gweithrediad yn *brif ffaith* yr enaid, a bod pob gweithrediad yn tarddu o'r ewyllys fel ei wreiddyn, nis gallwn olygu y dichon y meddwl gymdeithasu nac ymwneyd â mwy nag un gwrthddrych ar yr un pryd. Yn awr, nid ydyw sylwadaeth ond gweithrediad o eiddo yr ewyllys yn cyfeirio rhai o'n galluoedd eraill at synwriaethau allanol, neu amgyffredion mewnol. Yr ewyllys ydyw y gynneddf; sylwadaeth ydyw y gweithrediad o hōni. Dilys ydyw fod Mr. Stewart wedi cael ei gamarwain yn y modd yma gan ei brif ddoesbarthiad o'n galluoedd i rai *deallol* a *gweithredol*; canys yr oedd hyn yn rhwym o'i dueddu weithiau i olygu y rhai blaenaf fel rhai goddefol yn unig.

Gesyd Mr. Stewart ddargrybwylliad meddylddrychau (*association of ideas*) yn rhestr y galluoedd neu gynneddfau deallol; tra y dylasai, yn y gwrthwyneb, ei golygu yn ddeddf gynhenid berthynol i ddrychfeddyliau a meddyliaeth. Mae yn natur rhai drychfeddyliau i ddargrybwyll eraill; y mae deddf achos ac effaith yn teyrnasu yn eu plith. Golyga Reid (tu dal. 387), nad ydyw dargrybwylliad i'w olrhain at unrhyw gynneddf wreiddiol

* *Phil. Human Mind*, tu dal. 66.

berthynol i'n cyfansoddiad, ond yn hytrach ein bod wedi arfer gweled yr un drychfeddyliau yn dilyn eu gilydd, ac y gellir, gan hynny, ei briodoli i arferiad (*habit*). Ymddengys hynyna yn ddadansoddiad anghywir o'r ffaith; canys er mai trwy arfer gweled y drychfeddyliau yn dilyn eu gilydd yn olynol, yr awgrymwyd gyntaf i ni am y ddeddf hon; eto y rheswm—yr achos—eu bod yn dilyn eu gilydd, ydyw hanfodiad deddf. Felly, "gallwn egluro arferiad drwy ddargrybwylliad, yn llawn crystal ag y gallwn egluro dargrybwylliad trwy arferiad," ie, ac yn well o lawer. Y mae y ffaith nad ydym yn cael unrhyw wybodaeth drwy ddargrybwylliad ynddo ei hun, yn brawf anwrthwynebol nad ydyw yn allu deallol, ond yn *ddeddf* ag sydd yn llywio ac yn rheoli dylifiad ein drychfeddyliau.

Mae amryw bethan eraill yn y dosbarthiad hwn ag y gellir, ar dir teg, eu gwrthwynebu, megys y gosodiad o amgyffrediaeth a dansoddiant yn gynneddfau deallol, pa rai y gellir eu holrhain i egwyddorion mwy syml ac anghymhlyg. Yr oedd anghen dosbarthiad o'r ffeithiau meddyliol ar y pryd y cyflwynodd Reid ei athroniaeth i'r byd; ac yr oedd yn anghenrheidiol tuag at wneyd un perffaith, gael casgliad cryno a chyflawn o'r cyfryw ffeithiau, a'u dosbarthu a'u holrhain i'w gwreiddyn, yn ol y dull Baconaidd o athronyddu. Yr ydys yn golygu i Reid wneyd hyn i fesur mawr, ond nid yn hollol. Gwahaniaethodd rhwng ein barnau syml a chymhlyg, a dangosodd fod meddyliaeth yn bosibl yn unig drwy egwyddorion neillduol; ac yn y modd yna, efe a waredodd y wyddiant oddiwrth gasgliadau Hume; ond yr oedd yn rhy Baconaidd, ac yr oedd ei olynydd Stewart yn fwy felly nag yntau. Nis gallai Bacon ymgyrhaedd at uwchlaw *deddf* gweithrediadau gwahanol gwrthdrysychau natur allanol; yr oedd yn rhwym o aros mewn tywyllwch am y *rheswm* o'r ddeddf. Digon iddo of oedd gwybod mai felly yr oedd, heb gael allan *paham* yr oedd felly. Ond y mae hunan-gydnabyddiaeth dyn yn ei alluogi i dreiddio yn ddyfnach i'w feddwl, ac i ganfod yno ddeddfau y gweithrediad; canys wrth "sylwi ar weithrediadau ein meddyliau ein hunain, y mae genym nid yn unig y canfyddiad o ymddangosiadau olynol, ond ymwybyddiaeth o'r fath agosaf o'r gallu ei hun, trwy ba un y rheolir yr ymddangosiadau hyn, ac felly esgynwn o'r gweithredol i'r anghenrheidiol—oddiwrth yr hyn *sydd*, at yr hyn a *raid* fod." Y mae yn ddiu y dylid ymochel rhag cyffredinolïd ein syniadau i'r eithafion; ond tra y bo y cyffredinolïad yn cael ei seilio ar egwyddion cywir, nid oes berygl myned yn rhy bell: cyrhaeddir y pen, o anghenrheidrwydd, yn fuan. Po uchaf y cyffredinolïad, ardderchocaf oll fydd yr athroniaeth. Gwelir nodyn campus ar hyn yn "Hamilton's Reid," tu dal. 743, ymha un y mae y golygydd dysgedig yn dangos yr egwyddor yma gyda hyfedredd digyffelyb.

Dwyed Mr. Stewart y gellir dosbarthu ein galluoedd gweithredol i'r dosbeirith canlynol:—1. Dychwantau. 2. Dymuniadau. 3. Serchiadau. 4. Hunan-serch. 5. Y gynneddf foesol, neu gydwybod. Yna olrhainia y ffeithiau perthynol i'r naill a'r llall o'r dosbarthiadau hyn, i'w hegwyddorion gwreiddiol—o'r hyn lleiaf, i'r rhai a dybia efe fel egwyddorion gwreiddiol. Ond paham y symudodd y gynneddf foesol i'r dosbarth deallol? Yr oedd ei ragflaenwr wedi ei gosod ymhlith y dosbarth hwn; a phe caniatëid fod prif ddosbarthiad yr athronwyr hyn yn gywir, gellid gofyn i Mr. Stewart, a ydyw yn golygu fod mwy o weithrediad yn perthyn i ddarganfodiad moesol, nag i ddarganfodiad naturiol? Os ymhlith y galluoedd

deallol y dylai ein canfyddiad o harddwch naturiol fod, onid yno hefyd y dylai ein canfyddiad o harddwch moesol fod ?

DR. BROWN.

Yr oedd y gŵr hwn yn ddysgybl i Stewart, fel yr oedd Stewart i Reid; ond ni ddilynodd ei athraw. Credai mai prif orchwyl athronydd oedd dadansoddi a dosbarthu yr holl ymddangosiadau neu feithiau a geid yn y meddwl, a'u holrhain yn ol i wreiddyn neillduol. Ni olygai y feithiau hyn amgen nag fel y meddwl mewn gwahanol sefyllfaoedd (*states*), megys yn ymlithro o'r naill gyflwr i'r llall. Dywedai fod dosbarthiad Reid a Stewart o'r enaid i *deall* ac *ewylllys*, yn gosod y meddwl allan fel yn cael ei ranu, ac felly yn dinystrio ei unoliaeth. Cafodd ar ei feddwl, gan hyny, gyflwyno i'r byd ddosbarthiad newydd a gwreiddiol: a dyma fe. Am feithiau ein hymwybodolrwydd, dywed, "Rhai o honynt a ymglyfodant mewn canlyniad i weithrediad gwrthdrysychau allanol, ac eraill mewn canlyniad i deimlad blaenorol o eiddo y meddwl ei hun." Geilw y *cynsaf*, gan hyny, yn "affeithiadau (*affections*) allanol y meddwl," a'r olaf, yn "affeithiadau mewnol y meddwl." Yn y dosbarth blaenaf, rhesir ein gwahanol synwrau, ein dychwantau, a'n poenau a'n pleserau corfforol. Dosberthir yr affeithiadau mewnol yn ddau ddosbarth, sef rhai *deallol*, a rhai *teimladol* (*emotions*). Sylwer yma, fod Brown yn dal fod holl ddesfyddiaid yr hyn a fo yn y meddwl yn dyfod iddo o'r byd allanol, drwy yr hyn a eilw efe yn "affeithiadau allanol;" ac nad ydyw, "sefyllfaoedd deallol" y meddwl ond y rhai allanol yn cael eu darostwng i'r ddeddf neu ddeddfiau o ddargrybwylliad. Er enghraifft, mae y synwyr o welediad yn dangos i mi ddyn a lofruddiodd gyfaill anwyl i mi; y mae ymddangosiad y dyn yn uniongyrchol ddargrybwyll neu alw i fy meddwl y drychfeddwl am y cyfaill hwnw; y mae hwnw yn dargrybwyll rhes o ddrychfeddyliau eraill. Dyna esiampl o'r hyn a eilw Dr. Brown yn "sefyllfaoedd deallol" y meddwl. Ond cynnwysa yr "affeithiadau mewnol," heblaw ein sefyllfaoedd deallol, ein *teimladau* (*emotions*) hefyd, y rhai a renir yn dra chelfydd gan Dr. Brown. Golyga y teimlad yma yn gynnodd neu allu annibynol yn y meddwl—rhywbeth rhwng y synwyr a'r deall, ac eto heb fod y naill na'r llall; ac hefyd, y gallasem o ran dim a wyddom yn awr, gael cyfansoddiad deallol hollol amddifad o'r teimladau hyn, ac y dichon i fodau pur, megys yr Hollalluog ei hun, yr hwn sydd Ysbyrd a'r nas gwelodd neb erioed, fywuhâu y teimladau hyn, er yn dderchafedig uwchlaw synwriaethau corfforol.

Dyna ddosbarthiad Dr. Brown. Er ei fod wedi gwrthod llawer oedd yn wael yn nosbarthiad Reid a Stewart, credir iddo wrthod llawer egwyddor werthfawr yn gystal. Ar ol iddo feio Reid am ranu yr enaid i alluoedd y *deall* a'r *ewylllys*, gan ddywedyd fod hyn yn dinystrio ei unoliaeth, naturiol fusai dysgwyl iddo ef ei hun ymgais at berffeithrwydd wrth eirio ei syniadau. Dywed mewn un man, fod pob synwriaeth yn y *meddwl*, ac eto, yn ei ddosbarthiad, medd efe, "y mae sefyllfaoedd mewnol ac allanol" yn perthyn i'r meddwl. Y mae yn wir na olygai y rhai allanol fel oddi-allau i'r meddwl, er iddo ddynodi hyny mewn geiriau; ac y mae yr un mor wirioneddol na olygai Reid yr enaid ond megys un, er fod yn bosibl i'w eiriad gamarwain rhai i olygu yn wahanol. Dylid ymdrechu hyd y gellir,

mewn meddyleg, i gael allan eiriau a ddynodant y syniadau y dewisir eu cyfleu, a dim ond hyn.

Y mae un wrthddadl bwysig a chyffredinol yn erbyn tuedd y dosbarthiad yma, sef nad ydyw yn dal allan yn amlwg allu hunanweithredol y meddwl. Gesyd ddyun allan fel peiriant yn gweithredu yn ol deddf neillduol ar bob peth a gyflwynir iddo. Teifl i lawr ganolfur y gwabaniaeth rhyngddo â'r grëadigaeth afresymol; canys tra y mae yn cydnabod rhagoriaeth mewn *gradd*, eto y mae y *rhyw* yr un. Credwn fod y gwabaniaeth yn annhraethol fwy na hyn. Mae hyd yn nod y llwynwyr barbaraid, ymblith y rhai y diffin ymdrechodd y cenadwr fyddlawn Moffat, ac am y rhai nas gallai yr hanesydd anfyddaidd Gibbon dræthu yn amgen na'u "bod y ddolen gydiol rhwng y grëadigaeth resymol a direswm,"—mae hyd yn nod y crëadur isaf ymblith y genedl iselaf hon, yn rhagori yn annhraethadwy ar y crëadur afresymol mwyaf cywraïn a chall a fodolodd erioed. Mae o bwys i athroniaeth a chrefydd i'r gwabaniaeth yma gael ei gadw; ac y mae yn anmhosibl ei gadw tra y dalwun allan nad ydyw y meddwl ond megys rhyw sylwedd goddefol a diweithrediad ynddo ei hun. Arweiniwyd Brown, o bosibl, i'r cyfeiliornad hwn, gan ei olygiadau cyfeiliornus ar yr ewyllys, yr hon, tra y mae yn wrëiddyn ein holl weithrediadau meddyliol a chorfforol, ni olyga efe ond fel dymuniad cryf, ac nid ydyw dymuniad ond un o'n teimladau. Pe cyflwynasai i'r gynneddf hon ei lle priodol ymblith ein galluedd, digon tebyg na fuasai wedi llwyr ddiddymu y cynneddfau deallol fel y gwnaeth, gan olrhain barn a chof i'r ddeddf gyffredinol o ddargrybwylliad. Yr oedd y cynneddfau yn nosbarthiad Reid a Stewart—ac yn wir, hyd yn nod yn nosbarthiad Locke ei huu—yn cyfleu y drychfeddwl o allu hunanfudol yr enaid; ond y mae eu dileu oll, a'u priodoli i ryw ddeddf, yr hon fyddo yn rhwym o weithredu yn ol ammodau neillduol, y rhai a ymgyfodant i'r drychfeddyliau eu hunain,—y mae hyn, dybygid, yn gamolygiad dirfawr ac yn yspëilio y meddwl o un o'i brif ac ardderchocaf briodolledau, sef gweithrediad.

IMMANUEL KANT

ydyw y nesaf i ddyfod dan sylw. Awgrymasom eisoes pa beth oedd yr achos o'i gyfodiad, neu yr achlysur yn hytrach. Yr oedd yr athronydd Ffrengig Des Cartes, wedi cyflwyno i'r byd gyfundrefn athronyddol, un o brif egwyddorion yr hon oedd, fod y meddwl yn meddu, yn annibynol ar brofiad allanol, egwyddorion neillduol a hanfodol, megys y syniad o *berffeithrwydd*, &c. Ymhen ychydig amser, gwrthwynebwyd y gyfundraeth hon gan Hobbes, yr hwn a fynai briodoli pob ffaith feddyliol i synwriaeth fel ei gwreiddyn; a chan Locke, yr hwn a faentumiai fod y meddwl, ynddo ei hun, yn *tabula rasa* hollol amddifad o un argraff ond a achosid gan brofiad—allanol neu fewnol. Daeth David Hume ymlaen yn fuan, ac yn y grediniaeth o'r athrawiaeth gyfeiliornus o ddarganfodiad cyfryngol (*mediate perception*), efe a ddangosodd nad oedd ein profiad i ymddibynu arno. Gwadodd gysylltiad anghenrheidiol achos ac effaith. Arweiniodd hyn gyfundraeth ammheuyddol i athroniaeth, fel nas gellid profi bodolaeth byd allanol na meddyliol. Cynhyrfwyd Kant i'r fath raddau gan ysgrifeniadau grymus y dyn hwn, i adymchwilio yn drwyadl i elfenau ein gwybod-aeth a'n profiad. Yr oedd Reid, oddeutu yr un cyfnod, yn gwrthddadlëu Hume, drwy ddal allan egwyddorion "synwyr cyffredin" dynolryw, a

ffurfio cyfundraeth newydd y ddarganfodiad. Mynai Kant dreiddio yn ddyfnach i'r meddwl na hyna, a chael allan a oedd y meddwl yn cyfrann rhywfaint er cyfansoddi drychfeddyliaid. Ei ymwybodolrwydd oedd y lle ymha un y dechreuodd ar ei ymchwiliad. Yr oedd yno liaws o ffeithiau, megys syniadau, darganfodion, &c. A ydynt oll yn effaith profiad allanol, neu a ydyw y meddwl yn gyfranog yn eu ffurfiaid? Dadansodder un o'r ffeithiau hyn, a cheir gweled. Gwelwn ddarlun ar y pared; dywedwn ei fod wedi ei wneuthur gan arlunydd medrus. Cynnwysa y ffaith yna dri pheth:—Yn 1af. Canfyddiad o'r darlun. 2il. Drychfeddwl am arlunydd. Yn 3ydd. Y priodoliad o'r darlun i fedrusrwydd yr arlunydd. Gellir ateb am y ffaith gyntaf drwy ddyweyd ein bod yn canfod y darlun â'n llygaid; ond pabam yr ydym yn son am arlunydd ac yn priodoli y darlun i'w fedrusrwydd ef? Nid ydyw yn ysgrifenedig nac argraffedig ar y darlun fod neb wedi ei wneyd, ac eto yr ydym yn *gorfod* meddwl am wneuthurydd. Y rheswm ydyw hyn, ein bod yn rhwym o briodoli pob effaith i ryw achos, pa un a fo yu gyfartal i'r effaith. Mae profiad allanol yn cyflwyno i ni y drychfeddwl o'r darlun; ond y mae y dargrybwylliad o arlunydd yn dyfod yn uniongyrchol o'r meddwl ei hun. Yr oedd y canfyddiad o'r darlun yn ddamweiniol ac achlysurol—dichonadwy hollol fuasai i ni fod heb ei weled; ac felly y mae gyda phob darganfyddiad o'r eiddom. Eithr y mae y priodoliad o'r darlun i arlunydd—yr olrhenniad o'r effaith at achos—yn *anghenrheidiol* i'r meddwl, ac nis gall lai na synied felly; ac y mae yr anghenrheidrwydd hwn yn rhagdybied cyffredinolrwydd y syniad; canys pa beth bynag sy hanfodol i gyfansoddiad un meddwl, y mae felly hefyd i gyfansoddiad pob meddwl. Gwahaniaethir yr amgyffredion *a priori* hyn oddiwrth ein hamgyffredion allanol—megys y canfyddiad o ddarlun—gan y ddwy ffaith o'u bod yn *anghenrheidiol*, ac felly yn *gyffredinol*.

Rhana Kant yr amgyffredion neu farnau *a priori* hyn a berthynant i'r meddwl, i ddau ddosbarth, sef rhai syml (*analytic*) a chymhlyg (*synthetic*). Yna esfe a â ymlaen i chwilio pa faint, yn narganfodion ein synwyrâu corfforol, sydd i'w briodoli i'r ymddangosiad allanol, a pha faint sydd yn perthyn i'r barnau hyn o eiddo y meddwl ei hun. Wrth graffu ar ein darganfodion, a chymhwyso atynt ei reolau o anghenrheidrwydd a chyffredinolrwydd, esfe a gafodd allan fod ymhob darganfodiad ddau amgyffrediad yn cael ei nodweddu gan anghenrheidrwydd a chyffredinolrwydd, sef *amser ac eangder*. Yr ydym yn canfod pob peth yn ei gysylltiad âg *amser* a *lle*. Mae yn amhosibl i ni synied yn wahanol. Pe buasai yr amgyffredion hyn yn dyfod i ni o'r ymddangosiadau allanol, hawdd fuasai i ni synied am eu dyfodiad, canys gallwn ddychymygu difodiad pob ymddangosiad yn natur, i.e., y bydysawd ei hun; ond y mae yn annichon i ni synied am ddi-fodiad *amser* a *lle*; a chan hyny, y maent yn amgyffredion *a priori*, yn cael eu nodweddu gan anghenrheidrwydd a chyffredinolrwydd. Yn awr, mae yr hyn a olygai athronwyr wrth briodoleddau hanfodol (*primary qualities*) sylwedd, yn wahanol ddullweddidiadau o'r amgyffredion *amser* a *lle*, ac fel y cyfryw, nid ydynt yn meddu bodolaeth ond yn y meddwl ei hun. "Týner, gan hyny, o'r byd allanol yr holl briodoleddau hyn, a'r gweddill yn unig sydd yn perthyn i brofiad—gweddill na chynnwys ddim ond y ffaith noeth o'u hanfodiad." Gwelir yma y golygai Kant nad oedd yn bosibl i'r synwyr, fel y cyfryw, gyflwyno i ni wybodaeth. Yr oll a allai wneyd oedd achosi synwriaethau. Mae arnom anghen cynneddf

uwch i roddi ffurf a threfn ar yr ymddangosiadau annhrefnus hyn. Y gynneddff ydyw y *deall*. Cyduna Kant â Leighton, mai "gallu yn barnu yn ol y synwyr" ydyw y *deall*. Barnu a threfnu ydyw ei swyddi arbenig; ond y mae yr hyn a fferni ac a drefnir ganddi yn cael ei gyflwyno iddi gan y synwyr. Ond wrth ba reol y barna y *deall*? Etyb Kant hyna pan ddywed, fod deddfau arbwyllleg (*logic*) yn "allwedd i'r darganfyddiad o holl amgyffredion pur y *deall*." Gan hyny, golyga y *deall* holl ymddangosiadau y synwyr o dan yr un deddfau ag y bernir perthynasau y mynegiad (*predicate*) a'r sylfen (*subject*) mewn arbwyllleg. Y deddfau ydynt maintioli (*quantity*), ansawdd (*quality*), perthynas (*relation*), a dull o fod (*modality*). Perthyna i'r naill a'r llall o'r dosbeirth hyn dair deddf arall—sef deuddeg yn yr oll—pa rai nis gallwn eu cyfleu yn ddealladwy mewn diwyg Gymreig. Ond nid ydynt amgen na chynnwysiad y pedair deddf uchod. Geilw Kant y deddfau uchod yn ddrychfeddyliau *d priori*; a'u cynhwysiad gan y *deall* at gynnwysion y synwyr, yn farnau *d priori*; a dengys pa fodd y mae yr olaf "yn gysylltiedig â'r, ac yn tarddu o'r, blaenaf." Y mae, felly, yn amcanu at seilio yr hyn a alwai Reid yn "*Common Sense*," yn nghyfansoddiad y meddwl ei hun. Yn awr, dyna *sylwedd* y drychfeddwl wedi ei gyflwyno gan y synwyr, a'r *ffurf* wedi ei roddi am y sylwedd diderfyn gan y *deall*. Ond y mae anghen cynneddf uwch nag un o'r ddwy, i ddwyn undeb a chysylltiad i holl ffurfiau (*forms*) y *deall*. Y gynneddff hon ydyw y *rheswm pur*.

Er y dichon y *deall* ffurfio barnau am wrthddrychau, nis dichon gysylltu dwy farn, a thynu casgliad oddiwrthynt. Y *rheswm* sydd yn gwneyd hyn; eithr gwna hyn yn ol deddfau arbwyllleg, yr hon a ddengys i ni y gallwn gysylltu ein barnau, a thynu casgliad oddiwrthynt, mewn tair ffordd, sef drwy ddefnyddio y cyfreswm annibynol (*categorical syllogism*), yr ammodol, neu y dadgysylltiol (*hypothetical or disjunctive*). Drwy ddefnyddio y cyfreswm annibynol i chwilio i berthynas sylwedd a damwain (neu sylwedd a'i briodoliaethau, canys gelwir y priodoleddau hyn yn ddamweiniau, am y gellir eu gwahanu oddiwrth yr hyn a ystyrir yn wreiddyn neu dir ymha un y cydgyferfydd y priodoleddau), yr ydym yn cael ein harwain i ymwrthod â'r naill a'r llall o'r damweiniau, hyd oni ddeuwn yn y diwedd at y gwrthddrych ymha un y cydgyferfydd y damweiniau; ac y mae y meddwl, felly, wedi cyrhaedd y drychfeddwl am yr *enaid*. Wrth ddefnyddio y cyfreswm ammodol, pa un a ddynodir yn wastadol gan yr "os" (*if*), yr ydym yn dyfod o hyd i'r drychfeddwl am y *bydysawd*, ymha un, "os" ydyw yr ymddangosiadau allanol yn hanfodi oll, yr hanfodant—"y cyfanswm o bob ymddangosiadau." Eithr er fod y *rheswm* wedi cyrhaedd y syniad am *enaid* fel deiliad (*subject*) ein syniadau a'n hamgyffredion, ac am fydsawd fel y cyfanswm o bob ymddangosiadau (*phenomena*), nid ydyw yr ymchwiliad ar ben. Mae y drychfeddyliau hyn yn rhagdybied trydydd drychfeddwl, ymha un y cysylltir ac y cynnwysir yr *enaid* a'r *bydysawd*; a dyna y drychfeddwl am *Dduw*.

Dyna olygiad cyffredinol ar ddsobarthiad ein cynneddfau deallol gan Kant. Mae y cyntaf, sef y *synwyr*, yn cyflwyno i'r meddwl ymddangosiadau (*phenomena*); yr ail sef y *deall*, yn eu trefnu a'u barnu yn ol deddfau neillduol; a'r trydydd, sef y *rheswm*, yn eu cyffredinoli. Yr oedd y cyfryw ddsobarthiad o'n cynneddfau deallol, os gellid ymddibynu arno, yn ddyrnod anfeddyginiaethol i gyfundrefn Locke a'i ganlynwyr; a chan hyny,

y mae wedi cael ei wrthddadlu a'i wrthwynebu ganddynt hyd yr oedd yn bosibl; eithr y mae athronwyr o fri, y rhai ni pherthynant i'r dosbarth synwryddol o athronwyr, wedi dwyn rhai gwrthddadleuon lled bwysig yn ei erbyn.

Lle bynag y byddo dosbarthiad yn cael ei wneuthur, credir y dylai gwahaniaeth eglur fod rhwng y gwrthddrychau a ddosberthir. Felly yma. Cydnabyddia Kant—ie, dyma brif nodwedd ei ddosbarthiad—fod yn y meddwl yn wreiddiol amgyffredion *a priori*, y rhai nis gallwn yn dragyfyth eu cael o brofiad allanol. Eithr paham y rhana y rhai hyny rhwng y tair cynneddf—dau i'r synwyr, deuddeg i'r deall, a thri i'r rheswm? Maent i'w holrhain oll i'r un gwreiddyn, sef y ffaith fod dyn wedi cael ei anrhegu â chynneddf wybodol neu ddeallol. Os ydyw y syniadau *a priori* hyn yn gwirioneddol hanfodi, ni hanfodant ond mewn cysylltiad â dyn fel bôd deallol. Mae synwriaeth yn briodoledd yn y grëadigaeth ddireswm, yn gystal a'r resymol; ond a oes gan y créaduriaid hyn amgyffredion am *amser a lle*? Tybiwn nad oes. Gan hyny y mae Kant, wrth ranu yr amgyffredion hyn cydrhwng y cynneddfau, yn euog o "wahanu pethau a ddylent gael eu huno, a'u priodoli i'r un a'r unrhyw gynneddf, sef y gynneddf o *wybod* yn gyffredinol."—(Cousin).

Bai arall yn y dosbarthiad ydyw gwahaniaethu rhwng y *deall* a'r *rheswm*; tra na olygai Kant y rheswm ond yn bersonol a deiliadol (*subjective*). Nis gall cynneddf resymol Kant byth cyrhaedd gwybodaeth am ddim ond yn ei gysylltiad â'r meddwl personol. Gan fod y meddwl wedi ei gyfansoddi fel y mae, ac yn cael ei reoli gan ddeddfau neillduol, yr ydym yn cyrhaedd yr amgyffredion am yr enaid, am y bydysawd, ac am Dduw. Ond beth pe buasai y gwahaniaeth lleiaf yn ei gyfansoddiad, a ydyw yn debyg y buasem yn cyrhaedd yr un amgyffredion yn hollol? Na fuasem, am a wyddom; o ganlyniad, nid ydyw gwirionedd yn anghenrheidiol ond yn ei gysylltiad â'u meddyliau yn unig. "Nis gall rheswm byth ein *sichâu* (medd efe) o hanfodiad y tri drychfeddwl a enwyd; yngeisier at eu caaglu (*deduce*), a syrthir i au-resymiaidau diddiwedd; bodolant fel drychfeddyliau, ac fel y cyfryw yn unig, canys nis gall y synwryau byth eu gwisgo â gwirioneddolrwydd allanol." Paham, ynte (fel y sylwa Hamilton), "y gwahaniaetha rhwng y *rheswm* a'r *deall*, yn unig ar y tir fod y blaenaf yn ymwneyd (*conversant*) â, neu yn hytrach yn tueddu tuag at, y diammodol; tra mae yn ddigon allwg nad ydyw y diammodol yn cael ei amgyffred ond yn unig fel negwyddiant (*negation*) o'r ammodol, a hefyd fod yr amgyffrediad o wrthgyferbyniadau yn un? Yn yr athroniaeth Kantaid, y mae y ddwy gynneddf yn cyfawni yr un swydd, y ddwy a chwiliant am yr un ymhlith y lliaws;—nid ydyw y drychfeddwl (*idea*) ond yr amgyffrediad (*begriff*) wedi ei ddirychafu i'r anamgyffredadwy; na'r rheswm ond y deall ag sydd wedi 'gorlamu ei hun.'"*

Nid oes yma un sylw yn cael ei gymeryd o'r *ewyllys*. Ystyrir y diffyg yma yn un pwysig; canys gan y golygai Kant bod gweithgarwch yn un o brif nodweddion y meddwl, a bod y meddwl yn hunanfudol, dylasai briodoli y ffaith i ryw gynneddf neu egwyddor. Nis dywedir nad oes ewyllysiad yn hyd yn nod ein synwriaethau corfforol, yn ogystal a'n dewisiadau mwy neillduol; eto y mae y synwriaethau hyn yn annhraethol wahaniaethol oddiwrth yr

* *Edinburgh Review*, No. 99, tu dal. 205.

ewyllys ei hun fel cynneddf. Ein hymwybodolrwydd ydyw ammod ein holl ddrychfeddyliau, canys pe na feddem y gallu o ymwybodolrwydd, ni fuasai gwrthddrychau allanol byth yn cael eu hadnabod genym. Ammod ein hymwybodolrwydd ydyw ein bod yn talu *sylw* i ymddangosiadau; ac y mae y ffaith hon o sylw yn tybied cynneddf i ba un y gellir ei phriodoli. Yr *ewyllys* ydyw y gynneddf hon. Y mae rhai o ddilynwyr Kant wedi ychwanegu y gynneddf hon at y dosbarthiad; ac yn wir, y mae efe ei hun, yn ei waith ar y "Practical Reason," wedi rhoddi iddi le a dylanwad arbenig; ond y pwnc ydyw, ys dywed Mr. Morell, "a ydyw yn bosibl rhoddi golgygiad cyflawn q'r ymwybodolrwydd dynol, a'i ystyried yn *ddamcanol*, pan y mae elfen mor bwysig â'r *ewyllys*, gyda'r holl ddrychfeddyliau a darddynt oddiwrti, yn cael eu gadael allan?"*

A pha le yn y dosbarthiad hwn y mae ein teimladau (*emotions*)? Ymddengys i ni nad oes un gyfundrefn o Feddylwydd yn gyflawn, cyhyd ag yr esgeulusir rhoddi sylw a lle priodol i'r neillduolion yma o'n cyfansoddiad. Tra y mae dysgyblion Locke yn arfer olrhain y teimladau i synwriaeth, ac felly yn cymysgu yr hyn a ddylid eu gwahaniaethu, y mae y dosbarth y perthyna Kant iddo yn talu y fath sylw i reswm, fel ag i anghofio fod genym deimladau, a bod cysylltiad agos rhyngddynt â'n rheswm. Y gwirionedd ydyw, yn iaith Dr. Chalmers, fod y meddwl dynol wedi ei gynnysgaethu â galluoedd deallol, er mwyn gallu o honom deimlo. Mae yn canlyn, ynte, fod y rheswm, yn yr ystyr yna, yn ddarostyngol i'r teimlad. Pa goethaf fyddo y rheswm, dyfnaf oll fydd y teimlad. Pe buasai Duw wedi creu dyn i ddarganfod gwirionedd gyda threiddgarwch a chyflymder seraph, y dyben fuasai, ebe yr awdwr a enwyd olaf, "fel y gallai deimlo fel seraph—y gallai brofi cariad seraphaidd, a mwynhâu blaenbrawf gorneddau seraphaidd." Ac yr ydym yn cael yn y Gair Sanctaidd, fod hyd yn nod y Crëawdwr mawr ei hunan—yr hwn a elwir yn "Dduw gwybodaeth," a'r Hwn yw ffynnon wreiddiol pob dealltwriaeth—yn ddarostyngedig i ddylanwad y teimladau hyn.

Gwaith blaenaf Reid oedd gwrthbrofi yr hen athrawiaeth ar ddargansyddiad cyfryngol; dywedir fod Kant wedi cymeryd yn ganiataol wirioneddolrwydd ein darganfodion, a'i fod wedi ymosod yn uniongyrchol i ymchwilio i wreiddyn drychfeddyliau. Os oedd Locke yn gywir ar hyn, y mae Berkeley a Hume yn gywir yn eu hamhweuaeth. Ar ol gwneyd ymchwiliad manwl a threiddgar, daeth i'r penderfyniad fod yn y meddwl dair cynneddf gyffredinol, mewn cysylltiad â'r naill neu y llall o ba rai yr hanfoda pob drychfeddwl y dichon i ni fod yn ymwybodol o hōno. Y cynneddfau hyn ydynt Synwyr, Deall, Rheswm. Y mae y flaenaf o honynt yn cyflwyno i'r meddwl ymddangosiadau o'r byd allanol; yr ail, yn trefnu ac yn ffurfio yr ymddangosiadau hyn mewn cydffurfiad â'i deddfau ei hun; a'r drydedd, yn cyffredinoli ac yn ymgodi at wirionedd. Y synwyr yn unig sydd yn cyflwyno i'r meddwl holl *sylwedd* y drychfeddwl; y deall sydd yn cyflwyno y ffurf. Nid oes dim mwy o sylwedd neu ddefnydd yn y drychfeddwl yn y deall a'r rheswm, nag oedd ynddo yn y synwyr. Cydolyga Locke ág ef cân belled a hyna. Ond dyma y gwahaniaeth. Y mae bod yr ymddangosiad yr hyn ydyw i'r synwyr, i'w briodoli i'r gwrthddrychau allanol mewn rhan, ac i'r meddwl mewn rhan. Nid o'r byd oddiallan i ni, meddai Kant,

* *History of Philosophy, Vol. I., tu dal. 268.*

y tardia ein drychfeddyliau, canys nid oes yno ond ymddangosiadau (*phenomena*) didrefn a chymysglyd; nid o'r meddwl ychwaith y tarddant, canys gallu i drefnu a *ffurfio* yn ol ei ddeddfau ei hun ydyw hwnw. Y mae y drychfeddwl yn gyfuniad o'r ddau; rhaid cael y sylwedd oddiallan, a'r ffurf oddimewn. Dengys fod dwy ddeddf yn cael eu cyflwyno gan y rheswm i'r synwyr, ynglyn â pha rai y rhaid iddi ymwneyd â phob gwrthddrych allanol. Y deddfau hyn ydynt *amser* ac *ëangder*. Y mae yn amhosibl i ni feddwl am ddim oll yn hanfodi, ond yn ei gysylltiad âg amser a lle (*time and space*). Y mae yn rhaid bod y drychfeddyliau hyn yn briodoleddau meddyliol, ac nid yn tarddu o'r gwrthddrychau allanol, canys nis gallem feddwl am ddyn, am fyd, &c., ond fel o fewn y cylch yma; ond y mae yn hawdd iawn i ni feddwl am ddifodiad dyn, a diddymiad byd, eithr bydd y drychfeddyliau yn aros yr un o hyd. Yn awr, gan fod y ddwy ddeddf yma yn briodoleddau meddyliol, ac nid allanol, rhaid i bob priodoledd mewn gwrthddrych ag sydd yn tybied (*implies*) amser a lle, neu *ëangder*, fod yn feddyliol, neu *a priori*, hefyd. Nid ydyw yr hyn a olygai athronwyr wrth briodoleddau hanfodol sylwedd, megys arlediad, parhâd (*duration*), &c., ond cynifer o ddullweddiadau o'r amgyffredion am amser ac *ëangder*; ac y maent, felly, yn *a priori*—yn perthyn i'r meddwl fel y cyfryw, yn annibynol ar bob gwrthddrych allanol. "Y ffaith o fodolaeth gwirioneddol y gwrthddrych, neu ymddangosiad allanol yn unig, a geir drwy synwriaeth. Tuag at gael allan paham y mae y gwrthddrych yr hyn ydyw yn ei nodweddion eraill, rhaid apelio at y meddwl ei hun. Sylwer yma, nad ydyw rheswm yn nghysundraeth Kant yn gynnwedd ag a all gyrhaedd drychfeddyliau am wirionedd ynddo ei hun, ond yn unig yn ei gysylltiad â'n meddyliau ein hunain. Rhaid iddi gael holl sylwedd ei drychfeddyliau o'r synwyr a'r deall. Canfyddir yn awr, ni a hyderwn, y tir ar ba un y gwrthwynebodd Kant yr athroniaeth synwryddol.*

GAIB AR ATHRONIAETH GERMANŶ AR OL KANT.

Ar ol y fath ddyn mawr â Kant, yr oedd yn naturiol dysgwyl y buasai bywyd newydd yn cael ei roddi yn y byd athronyddol. Y prif bwnc a'i cynhyrfodd ef i ysgrifenu, fel y dywedwyd o'r blaen, oedd amhheuaeth Hume; ac os nad oedd ei athroniaeth yn atebiad hollol i'r amhheuaeth yma, nid oedd ei hamcan wedi ei gyrhaeddyd. Cyfododd lliaws mawr yn Germany i haeru nad oedd wedi ateb Hume; oblegid, y mae wedi dywedyd fod dwy elfen yn cyfansoddi gwybodaeth—ac nad all gwybodaeth gael ei chyfansoddi ond yn y dull hwnw; ac yn awr, pa fodd y gellir cael allan wirionedd gyda'r ddau wrthddrych gwahanol yna? Pa berthynas sydd yn hanfodi rhyngddynt? A pha un ydyw y brif elfen yn nghyfansoddiad gwybodaeth? "Kant a ddywed," meddent, "nad yw fy nghrediniaeth yn hanfodiad byd allanol yn ddim ond math o *gasgliad* ag sydd yn cael ei dynu gan fy rheswm—nad wyf yn canfod y byd hwnw mewn gwirionedd—*per se*. Y mae ei wir hanfod allan o'm golwg—ei briodoleddau, ei ymddangosiadau, yn unig a ganfyddaf; a chan hyny, a ydyw hyny yn brawf athronyddol o'i hanfodiad?" Nac ydyw, ebe rhai o ddysgyblion Kant. Y rhai enwocaf o'r rhai hyn ydoedd Fichte, Schelling, a Hegel.

Fichte a olygai fod Kant i'w feio am osod ein syniad am hanfodiad y

* Gwel Morell a Lewes ar Kant.

byd allanol ar yr un tir â'n meddylddrych am ffeithiau ein hymwybyddiaeth ein hunain. Yr ydym yn rhwym o gredu pob peth meddyliol—sef pob gweithrediad meddyliol; a'r cyfan ag sydd yn ein meddwl, meddylddrychau yn unig ydynt; a chan ein bod yn credu mewn gwrthddrychau allanol, nid yw hyny yn un prawf eu bod yn bodoli mewn gwirionedd, canys nid ydym yn eu hadnabod ynddynt eu hunain. Yn awr, ynte, ebe Fichte, os nad ydym yn adnabod gwrthddrychau allanol ynddynt eu hunain, ac os ydym, er hyny, yn credu eu hanfodiad, 'y mae yn eglur nad yw y gtediniaeth ond haeriad dibrawf o eiddo ein rheswm, ac nid yn ffaith brofedig. Y mae Kant wedi caniatáu—ac athronwyr yn gyffredinol—nad ydym yn adnabod pethau ynddynt eu hunain. Y mae byd allanol a byd meddyliol yn bod; ac yn y cysylltiad yma yr ydym ni yn cael gwybodaeth. Ond nid ydyw y ddau fyd yn adnabod eu gilydd yn eu sylwedd neu hanfod. Eithr y mae y naill yn tybied y llall. A pha un ydyw hwnw? Y mae yn ddiagramheuol mai ein hymwybyddiaeth. Nid oes dim yn bod i ni ond fel y mae yn ein hymwybyddiaeth. Gan hyny, ein hymwybyddiaeth sydd yn cyflwyno i ni y wybodaeth am bob peth, a chynnyrch yr ymwybyddiaeth ydyw y drychfeddwl. Y mae yr ymwybyddiaeth yma—neu y meddwl—yn llawn gweithgarwch, ac y mae yn cynnyrchu ynom ddrychfeddyliau am bethau. O ganlyniad, nid y byd allanol sydd yn rhoddi i ni ddrychfeddwl am fyd allanol; canys nis gallai y byd allanol o ran ei hanfod ddyfod i'n meddwl, onid byddem yn gwybod hyny, ac yn ei adnabod ef ynddo ei hun: y meddwl sydd yn gwneuthur y meddylddrych, a chan hyny y mae y byd allanol—neu y drychfeddwl a feddwn ni am fyd allanol—yn gynnyrch y meddwl; ac o'r meddwl, ynte, yr ydym yn cael y byd allanol. Y meddwl sydd wedi ei gynnyrchu. Yr un peth ydyw boddaeth a meddyliaeth—yn ein meddwl ni y mae pob peth yn bod mewn gwirionedd. Mae yn wir fod pa beth bynag a welaf yn bod yn wirioneddol, meddai Fichte; ond nid ydyw yn meddu hanfodiad *annibynol* ar feddwl. Gan hyny, yn ol yr awdwr yma, y mae y gwrthddrych ag sydd yn gwybod, a'r gwrthddrych a wybyddir, yn un; ac o ganlyniad, yn rhwym o fod yn wir. Canlyniad naturiol yr athroniaeth yma ydyw, gan mai ymwybyddiaeth dynion ydyw "mesur y grêadigaeth," ys dywedai yr hen athronwyr Groegaidd, dyma hefyd ydyw y byd allanol, a dyma hefyd ydyw Duw. Nid oes dim yn hanfodi ond sydd yn y meddwl.

Y mae Schelling yn dyfod wed'yn, ac yn dywedyd nad ydyw ein gwybodaeth am y *myf* ag y gesyd Fichte gymaint pwys arno, ond peth cyfryngol—nad ydym yn adnabod yr hyn sydd yn yr ymwybyddiaeth ond mewn cysylltiad â phethau allanol; o ganlyniad y mae y ddau yn sefyll ar yr un tir. Y maent yn un yn y gyfundraeth hon, ond gyda hyn o wahaniaeth, nad ydyw y byd allanol yma yn gynnyrch y meddwl, ond y ddau yn cael eu huno mewn rhyw egwyddor fawr ag a elwir yn *Absolute*. Yr *Absolute* hwn sydd wedi eu cynnyrchu, ac y maent yn anghenrheidiol i'w gilydd. Y gwahaniaeth, gan hyny, rhwng Fichte a Schelling, ydyw fod y meddwl ag sydd yn nghyfundraeth y blaenaf, yn un terfynol; a'r meddwl ag sydd yn nghyfundraeth yr olaf, yn un annherfynol, ac yn cynnwys y terfynol. Yr *Absolute* hwn, ynte, ydyw Duw Schelling; a rhan o hōno ef ydyw sylfon a gwrthddrych gwybodaeth. Ond y mae eisieu profi pa fodd yr ydym yn dyfod yn ymwybodol o'r unoliaeth hwn, ac o hanfodiad yr Anfeidrol a'r Annherfynol. Wel, medd Schelling, drwy ryw fath o ddarweliad medd-

yliol ag sydd yn cael ei roddi i ni ar amserau. Y mae gwirionedd pur yn cael ei ganfod genym felly.

Yn awr, fe welir fod Fichte wedi dyrchafu y meddwl yn bob peth, ac wedi gwneyd y byd allanol yn ddim; ond daeth Schelling, a dywedodd fod y byd allanol yn rhywbeth, a bod byd y meddwl yn rhywbeth, ond fod y ddau yn un ac yn cydgyfarfod mewn Bôd hanfodol. Yn nesaf, wele Hegel yn dyfod ymlaen, ac yn dywedyd nad oedd dim yn y meddwl dynol ond *ideas*, ac nad oeddynt yn ddim ond *perthynasau* y Bod hanfodol. O ganlyniad, nid oes dim yn bod ond Duw ei hun a'i berthynasau. Gwedir sylwedd ac ysbryd—Duw a'i berthynasau ydyw pobpeth.

Dull Des Cartes o athronyddu oedd yr un a ddefnyddiwyd gan athronwyr Germany. Nid oedd arnynt eisieu ond un ffaith: casglent y lleill oll oddiwrth hono. "Yr oedd Kant yn cydnabod dwy egwyddor fel gwreidd-yn ei athroniaeth—*ffurfiau* mewnol y deall yn uno gyda'r elfen allanol, mewn trefn i gynnrychu gwybodaeth sicr. Dygodd Fichte y pwnc o synwryoliaeth ac amgyffrediaeth i benderfyniad. Pa beth bynag a wyddom yn sicr, meddai, a raid fod yn weithred ein hymwybyddiaeth ein hunain. Rhaid i athroniaeth, gan hyny, sefyll ar yr un egwyddor fewnl hon, a chasglu pob gwybodaeth, fel y mae y pryf copyn yn nyddu ei wê, oddiwrth ei ddeddfau mewnol ei hun. Canfyddai Schelling, os yma y safem, mai rhaid fyddai i un o ddau beth ddilyn; naill ai y mae yn rhaid i ni ganiatáu y *myfi* i fod yn egwyddor hollol a chynnyrchiol pobpeth, fel nad yw y byd ond cysgod wedi ei daflu allan gan ei ddeddfau ei hun (canlyniad ag sydd yn terfynu yn rhinweddol mewn negyddiant), neu ganiatáu fod y ddau derm o sylfon a gwrthddrych yn meddu bodolaeth gwahaniaethol; yr ydym yn methu cael un sylfaen sicr i wybodaeth ddynol, ac yn dychwelyd at yr hen ddadleuon rhwng y synwryolydd, yr amgyffredwr, a'r ammheuwyr. I ysgoi yr anhawsder hwn, efe a haerodd unoliaeth hanfodol sylfon a gwrthddrych, gan eu hystyried fel dau begwn bodaeth—yn wahanol yn eu hamlygiadau, ond y naill yn anffaeledig yn arwain i'r llall. Y mae yn wybyddus i Schelling wneuthur llawer ymgais i ddadblygu athroniaeth yr hanfodol, ac unoliaeth ei gyfundraeth, ond ni lwyddodd yn hollol erioed. Yr oedd y pegynau o hyd yn aros ar wahân, a'r man lle yr oeddynt yn un yn aros o'r golwg. Ar y pryd hwn, wele Hegel yn dyfod ymlaen, ac yn haeru fod deiliad a gwrthddrych, bodaeth a meddyliaeth, yn *un yn hollol*; ac mai yr unig wir sylwedd yw yr hyn sydd yn tarddu o'u *cydberthynas*. Cymerer unrhyw wrthddrych materaidd fel enghraifft. Fichte a ddywedai ei fod yn ganlyniad fy ngweithgarwch mewnol. Schelling a faentumiai fod y ffaith allanol, a'r canfyddiad mewnol, ill dau yn wirionedd, ond bod y ddau yn ddadblygiadau o'r sylwedd hanfodol mewn gwahanol foddau. Hegel a wada hyna, ac a ddywed nad ydyw y gwrthddrych allanol yn ddim, na'r canfyddiad mewnol yn ddim, canys nis gallant hanfodi ar wahân,—yr unig wirionedd ydyw eu *perthynas*, neu yn hytrach uniad y ddau, yr hyn sydd, gan hyny, yn dangos i ni, fod esyll neu natur bodaeth ei hun yn gynnwysedig yn nghydfanfodiad dau wrthgyferbyniad. O ganlyniad, y mae yr amgyffrediad cyffredin sydd wedi ei ffurfio gan ddynion am bethau yn cael ei wrthdroi. Yr ydym yn ystyried yn gyffredin fod gwrthddrych unigol, megys dyn neu geffyl, yn *wirionedd*, ac mai y meddwl sydd yn ffurfio y meddylddrych cyffredinol, er ei fantais ei hun. Hegel, ar y llaw arall, a haera mai y meddylddrychau cyffredinol a neillduol, y *genus* a'r *species*

wedi eu rhoddi ynghyd, sydd mewn gwirionedd yn creü y gwrthddrych neillduol. *Drychfeddyliau*, ynte, gan eu bod yn ymgysfodi o gyfuniad dau wrthgyferbyniad, ydynt *wirioneddau cyflawn* athroniaeth Hegel; a'r drefn ymha un y dabblygir meddylddrychau yn y meddwl dynol, sydd, yr un pryd, yn drefn bodaeth yn gyffredinol—yr Hanfodol—Duw. Ar y tir yma, y gwelir mai arbwyllleg ydyw gwreiddyn unghenrheidiol pob cyfndraeth o *amgyffrediaeth hollol*."

CAETHFASNACH : EI HANES A'I DIDDYMIANT.

WRTH ddechreu, da fyddai i ni ddarnodi y prif eiriau yn yr erthygl hon. Y mae llawer o gamddeall wedi bod am *slavery* a'r *slave trade*, neu gaethwasanaeth a chaethfasnach. Diddymwyd y gaethfasnach gan Brydain flynyddau cyn i gaethwasanaeth neu gaethiwed gael ei ddileu o'i hymherodraeth. Caethfasnach yw y gyfndraeth ofnadwy hono o brynu a gwerthu dynion—masnachu mewn bodau dynol; caethwasanaeth yw dal dynion mewn cyflwr o wasiaeth yn erbyn eu hewyllysiau. Deillia y gair Saesonaeg *slave* oddiwrth y *Slavi*, neu y *Sclavoniaid*, y rhai a ddarostyngwyd ac a werthwyd gan y Venetiaid. Y mae ystyr gyntefig y gair Saesonaeg yn golygu, un a gymerwyd yn garcharor mewn rhyfel, neu a brynwyd, ac a wnaed yn rhwym o wasanaethu arall dros ei fywyd.

Ymddengys fod caethwasanaeth a chaethfasnach yn dra hen. Golyga rhai fod Gen. ix. 25, yn awgrymu fod caethiwed cyn y dylif. Pan draddodwyd y gyfraith drwy Moses, cafwyd fod caethwasanaeth yn hanfodi; ac er na chafodd efe orchymyn i ddiddymu yr arferiad fel yr ydoedd yn ei amser ef, rhoddodd amryw orchymynion a chyfarwyddiadau buddiol i gaethion a'u meistriaid. Yr oedd rhyddid i'r Israeliaid feddu caethion, ond yr oedd yn rhaid iddynt gael eu henwaedu, a gofynid iddynt addoli y gwir Dduw. Gen. xvii. 12, 13. Yr oedd prynu dynion am arian gan y dy-eithr yn bod yn amser Abraham. Meddiennid caethion trwy amryw ffyrdd. Yn gyntaf, trwy gaethgludiad, yr hyn, se allai, oedd dechreuad caethiwed. Gen. xiv. 14. Yn ail, am ddyled, pan werthid personau rhydlaw i dalu eu dyledion. 2 Bren. iv. 1; Matth. xviii. 25. Yn drydydd, drwy gyflawni lladrad, heb alla gwneyd adferiad. Exod. xxii. 2, 3; Neh. v. 4, 5. Yn bedwerydd, trwy enedigaeth, pan enid plant caethion yn y tŷ. Gen. xiv. 14; xv. 3; xvii. 23; xxi. 10. Meddai Abraham dri chant a deunaw o gaethion o'r fath yma. Yn bummed, trwy ddynladrad, neu lusgo dynion i wasanaeth orfodol a gormesol, neu i'w gwerthu i eraill. Yr oedd cipio Israeliad rhydd i'r dyben o'i ddarostwng i gaethiwed neu i'w werthu, yn gosbadwy â marwolaeth bob amser yn ol cyfraith Moses. Exod. xxi. 16; Deut. xxiv. 7. Pa un a ydyw yr Ysgrhythyr yn condemnio caethwasanaeth a chaethfasnach, a fydd yn fater ein hystyriaeth cyn terfynu. Yn chweched, gwnai rhieni yn amser newyn werthu eu plant i brynu ymborth iddynt eu hunain a'r gweddill o'r teulu.

Pwy bynag oedd y dyn a ddechreuodd ddarostwng ei gydgrëaduriaid i gaethiwed, i ymelwa arnynt trwy eu gweithio heb dâl, neu eu gwerthu, ymdaenodd yr arferiad yn gyffym trwy wahanol genedloedd. Cydnabyddid caethiwed fel sefydliad gwladol ymhlith amryw genedloedd henafol a phagan-aidd—yr Aiphtiaid, y Phœniciaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. Mewn hen hanesiaeth, y trigolion rhydd a ddygir ger bron y darllenwydd, tra yr arosai yr heidiau caeth ar dir fawr uwch na'r auifeiliaid a ddyfethid. Cyflawnt hwy y gwasanaeth gwaelaf, heb un gobaith gwelliant yn eu sefyllfa. Tua dwy fil o flynyddoedd yn ol, cludai y Rhufeiniaid, y rhai a feddiannasant ran fawr o'n Hynys, lawer o'n cyndadau yn gaeth i Rufain, lle y byddai raid iddynt gydweithio â'r Ethiop du ei liw a mwy ystwyth ei ysbryd. Y mae yn amlwg fod masnach mewn dynion yn myned ymlaen yn yr hen Aipht a'r parthau cyfagos; canys cawn i frodyr annaturiol Joseph gael dynion i'w brynu am arian ganddynt, ac i'r prynwyr ei werthu drachefn, ac elwa arno wrth reswm, os oedd modd, yn yr Aipht. I Joseph gael hyder ei feistr newydd, a chael ei holl bethau dan ei ofal, sydd bwnc arall, dyledus i Ragluniaeth arbenig yn gwylied dros ddyn ieuanc duwiol, ac nid i'w ffawd fel caethddyn. Ymddengys na ddarfu i'r cenedloedd henafol a fasnachent mewn dynion, ddangos un gofid o herwydd eu hanghyfiawnder yn darostwng eu cyd-ddynion i gaethiwed parhâus. Ariangarwch a balchder oeddynt y prif gymhellion i ddechreu ac i parhâu yr arferiad gwrthun. Mewn rhyfeloedd cartrefol ymhlith y Groegiaid, ni wneid y carcharorion rhyfel yn gaethion, ond lleddid hwy yn gyffredin. Heblaw y rhyfeloedd rheolaidd rhwng cenedl a chenedl, gwnai rhyw heidiau crwydrol arneithio gwlad gyfagos, a gwneyd y trigolion heddychol ac amddifaid yn gaethion iddynt. Ymddygywyd felly at y Spartiaid gan y bobl a elwid *Helots*; ac arferwyd y gair *Helots* wedi hyny gan y Rhufeiniaid i ddynodi dynion mewn sefyllfa gaeth. Pan gyfodai y caethion yn Sparta yn erbyn eu meistriaid, gan ymdrechu adferyd eu rhyddid, lleddid hwy mewn modd creulawn. Nid oedd yr henafiaid wedi cael allan yr hyn a ddarganfyddwyd yn ddiweddar gan ladron dynion fel sail gyfiawn i'r fasnach—nad oedd y dyn du yn perthyn i'r hil ddynol, ond ei fod yn rhyw grëadur yn ngraddeg bodolaeth yn sefyll rhwng bôd rhesymol a'r anifail mud, ond yn fwy agos i'r diweddaf nag i'r cyntaf. Bu dynion yn hir cyn addef drygioni y fasnach, ac erlyniwyd hi yn ddibetrus am ganrifoedd lawer. Gwnai y caethion bob math o waith yn hen Rufain, fel y byddai eu meistriaid yn erchi. Llafariai rhai ar y maes; dysgai eraill y gwyddonau i'w meistriaid; byddai eraill yn y gwaith teuluaid; tra y gweithiai dosbarth arall o honynt mewn cadwynau, yn cael eu ffangellu yn dost. Byddai rhai yn cael byw mewn cysur, ac hyd yn nod yn wrthddrychau serch eu meistri. Byddai gan ddinaswyr cyfoethog yn Rhufain, ar ddechreuad y cyfnod Cristionogol, gaethion o bob cenedl, yn cyflawni swyddau gwahanol yn ei dŷ. Meddai fenywod pryderfth o'r dwyrain a'r gogledd; cogyddion o ddeheubarth yr Eidal; dynion dysgedig a cherddorion o Groeg a'r Aipht; a rhai i wneyd pob budrwaith o Scythia, Affrica, neu Brydain. Yr oeddynt mor hollol yn feddiant eu meistri, fel ar ei farwolaeth y trosglwyddid hwy yn ol deddf y tir, gyda ei ddâ a'i nwyddau, i'r etifedd gwrywaidd nesaf. Cyfrifid hwy yn *pro nullis*—*pro mortuis*—*pro quadrupedibus*,—nid yn ddynion—yn ddynion meirw—ac yn auifeiliaid. Ni feddent, yn nghyfrif y llywodraeth, nac enw, na llwyth, na chofyfr. Nid oedd eu drygu hwy yn cael ei gyfrif yn niwed; nid

allent brynu dim, na gadael dim i'r neb a fynent; nid oedd ganddynt etifeddion, ac nid allent wneyd ewyllys. Beth bynag a ennillent oedd eiddo eu meistriaid, oddieithr eu dillad am danynt. Nid allent briodi ychwaith. Ond gellid eu gwerthu, eu trosi, neu eu gwystlo, fel dâ neu eiddo personol arall; canys nwyddau oeddynt, ac fel y cyfryw yr ystyrid hwy.

Y mae caethfasnach yn Negroland, neu Nigritia, wedi cyrhaedd enwogrydd ofnadwy yn y canrifoedd diweddaf; ac at y drafodaeth ddychrynlyd yn y parth hwn, a rhanau eraill o Affrica, y galwn sylw y darlennydd yn awr. Y mae y wlad uchod yn ymestyn o'r anialwch mawr yn y gogledd i gyffiniau anhysbys Caffireland yn y dê, ac o'r Werydd yn y gorllewin i Abyssinia yn y dwyrain. Gwlad y Negrôaid yw yr holl gyfandir mawr hwnw. Gelwid Caffireland yn Lybia, ac Abyssinia yn Ethiopia, gan yr henafiaid. Darfu i'r Prydeiniaid a'r Scythiaid gael eu rhan o orthrymder trwy gaethiwed; ond ymhen oesoedd ymunai gwahanol genedloedd megys mewn cynghrair yn erbyn y Negrôaid. Pa un ai eu lliw, neu ryw amgylchiad arall, a'u gwnaeth yn nod cyffredinol yspeiliaeth a chaethiwed, neu ynte yr arferiad o fasnach yn eu gilydd a ffynai yn eu plith eu hunain, y mae yn anhawdd penderfynu gyda dim sicrwydd. Meddylia rhai fod y felldith wedi ei thynu pan ddaeth Mab Duw i'r byd, mor belled ag y bwriadodd Duw hi i ddisgyn ar Canaan a'i hiliogaeth. Cawn fod y Negrôaid mewn oesoedd boreuol yn caethiwo eu gilydd, ac yn cario ymlaen fasnach yn eu gilydd. Eid yn dra phell i w cyrchu weithiau, a gyrid y rhai a ddelid neu a brynid yn gaeth fil o filldi roedd o'u lle brodorol; a pha bellaf oddicartref y byddai y caethddy'n, mwyaf gwerthfawr yr ystyrid ef, am fod llai o berygl iddo ddianc; am hyny byddai yn arferiad mwy cyffredin i werthu y caethion a gymerid mewn rhyfel oddiar lwyth cymydogaelhol, na'i gadw fel gweithiwr yn agos i'w gartref. Byddai y caethion Negrôaid yn mhentrefi tufewnbarth Affrica yn fwy lliosog yn aml na'u meistriaid Negrôaid. Cafodd Mungo Park yn ei deithiau fod y caethion mewn llawer pentref dair gwaith mor lliosog â'r dynion rhydd. Ymddengys i'r dull diweddar o gaethwasanaeth Negrôaid ddechreu yn y gyfndraeth hon o gaethwasanaeth cartrefol yn eu plith eu hunain. Golyga rhai pe na buasai yn arferiad yn eu plith hwy eu hunain o gaethiwo a gwerthu eu gilydd, na fuasai caethiwed yn eu plith yn hanfodi yn awr. Gan eu bod yn arfer masnachu yn eu gilydd yn y parthau mewnol o'r wlad, daeth yn arferiad i'r rhai a gyfanneddent lánau y môr werthu eu gwladwyr i'r dyeithriaid y cyfarfyddent â hwy. Felly mewn hen amseroedd arferai y Garamantiaid werthu Negrôaid i'r Lybiaid; ac felly rhaid fod nifer mawr o gaethion y Carthageniaid a'r Aiphtiaid yn bobl dduon wedi eu dwyn yn ogleddol dros yr anialwch. Gwerthir y Negrôaid hyn eto o'r Aipht a Carthage i wahanol wledydd yn nehau Ewrop. Gwerthfawrogid hwy yn neillduol ar gyfrif, eu hamynedd, eu tymher fwyn, a'u gallu hynod i ddyoddef; ac ar lawer cyfrif, ceisid caethion Negrôaid o flaen eraill gan y meistriaid Rhufeinig. Ond darostyngid dynion gwynion hefyd i gaethiwed yn gystal a phobl dduon.

Yr Ewropéaid biau yr enw a'r gwaith o ddechreu y gaethfasnach fel y ffyna yn awr yn Affrica. Y Portugaidd oeddent y bobl gyntaf a yspeillent Negrôaid, a hwynt-hwy oeddynt y cyntaf a ddaethant yn adnabyddus âg Affrica. Nid oedd un parth o Affrica yn adnabyddus hyd y pymthegfed canrif, ond y gwledydd a ffuriant lán Môr y Canoldir a'r Môr Coch, yn cyrhaedd o Morocco hyd yr anialwch tu hwnt i Abyssinia. I Ewropéaid, yr oedd yr

holl gyfandir i'r dê yn dir anadnabyddus. Ymddengys fod dau draddodiad o gylch mordwyreth y cyfandir gan y Phœniciadaid a'r Carthageniaid; un i lawr dros y Môr Coch, ac o amgylch Penrhyn Gobaith Da o'r dwyrain, a'r llall drwy Gulfor Gibraltar, ac heibio yr un Penrhyn o'r gorllewin; ond dychymygion oeddynt. Modd bynag, buont yn foddion i gynhyrfu morwyr diweddar i wneyd ymchwiliad, ac ymosodasant, gyda manteision y cwnpawd, ar y gorchwyl o gylchfordwyo Affrica, os oedd hyn yn bosibl. Yn y flwyddyn 1412, gwnaethpwyd amryw gynnygion gan y Portugaiaid, ar ddymuniaid y Tywysog Henry, i fyned yn ddeheuol gyda'r lân orllewinol. Y tro cyntaf, aethant heibio y Canary Isles, Cape Verd, Guinea, a'r Bight of Biafra; ac ymhen cenedlaeth arall, llwyddodd Vasco de Gama, yn 1497, i fyned o amgylch y Penrhyn, ac aeth ymlaen tua glânau India, fel pe buasai wedi darfod âg Affrica. Yn y trydydd a'r pedwerydd cynnyg, daeth y Portugaiaid ar draws y Negrôaid. Mor fore â'r fl. 1434, glaniodd Antonio Gonzales, cadben Portugaidd, ar draeth Guinea, a chludodd ymaith rai bechgyn duon, y rhai a werthodd efe i deulu Mooraidd neu ddau yn neheubarth Hispaen. Bu peth barnu ar y mater y pryd hyn. O hyni allan daeth yn beth cyffredin i gadbeniaid llongau lânio yn y Gold Coast, a pharthau eraill o lánau Guinea, i gludo i fwrdd ychydig o Negrôaid ieuainc, yn feibion ac yn ferched. Cafwyd fod eu help yn y llongau yn fanteisiol ar y fordaith, ac yn y porthladd i ba un y perthynai y llong, a daeth y peth yn fasnach; ac yn lle cludo ychydig fel cywreinbethau, flurfient gyfran o'r llonglwyth, yn gystal âg aur, ifori, neu ryw nwydd arall. O hyni allan âi y llongau am ddynion yn hytrach nag ar chwilyntiau. Cawn fod preswylwyr y pentrefi Affricaidd yn agos i'r traeth yn hoff o gyllyll, brethyn dysglaer, &c., y rhai a dderbynient yn lle aur, ifori, a chaethion. Pan ddechreuodd gofal gael ei gymeryd i barotol y pethau hyn erbyn dyfodiad llong, y gellir dywedyd i'r gaethfasnach ddechreu yn briodol. Yr Hispaeniaid oeddynt y rhai cyntaf wedi hyni i ymfwrw i'r drafodaeth warthus hon. Er mai ychydig gaethion a ddygid ar y cyntaf o Affrica, ymhen tua thriugain mlynedd a deg, daeth y fath'alwad am ddynion duon, fel y cludid hwy oddiyno wrth y miloedd bob blwyddyn.

Columbus, mewn gwirionedd, a ddarganfyddodd America, yn 1493, er i'r cyfandir anferth hwnw gael ei enwi, trwy ffafiaeth anghyfiawn, ar ol Amerigo Vespucci. Yr Hispaeniaid oeddynt y cyntaf i drefedigaethu rhai o'r ynysoedd rhwng De a Gogledd America; ac am y tybid mai hwy oedd y rhai pellaf oddiwrth yr India Ddwyreiniol, galwyd hwy yn India Orllewinol. Daeth brodorion yr ynysoedd hyn yn gaethion i'r Hispaeniaid, eu gorchfygwyr; ac wrth drosglwyddo tir i ryw lywodraeth, trosid yr holl Indiaid hefyd ag oedd ar y cyfryw dir. Gwnaent bob math o galedwaith, megys cludo beichiau, cloddio am aur, a'r cyffelyb. Pan dalodd Bernal Aiaz, mordwywr Portugaidd enwog, ei foes i Velasquez, llywydd Cuba, addawodd y llywydd iddo yr Indiaid cyntaf a allai eu gwerthu. Yr oedd cynfrodorion America yn wan, yn ddiog, ac yn dra anaddas o ran corff a thuedd at waith parhâus. Gwnai gweithio dori calon llawer o honynt. Gwnai llafur camdriniaeth, a'r frech wen, gludo miloedd ymaith; a lle bynag yr ymsefydlai yr Hispaeniaid, gwywai y brodorion o'u blaen. Rhifent 60,000 yn St. Domingo, yn 1508; ond mewn saith mlynedd wedi hyni, nid oeddynt ond 14,000. Darostyngwyd y bobl druenus hyn gymaint gan eu gorchfygwyr, fel y pleidiodd rhai o'r offeiriaid Pabaidd hwy, gan osod eu

hachos gerbron y llywodraeth gartrefol. Achosodd hyn ddadl boeth am flynyddau. Teimlodd y llywodraeth gryn lawer drostunt.

Pan ysgafnhawyd y baich i fesur oddiar yr Indiaid, syrthiodd gyda phwys llethol ar y Negrôaid. Rhaid oedd cael gweithwyr, ac yr oedd y dynion duon yn gyfryw ag a atebent yn dda—yr oeddylt yn gryf, yn amyneddgar, a gweithgar. Ceid y gallai un Negro weithio cymaint a phedwar Indiaid; a thra yr oedd yr Indiaid yn myned lai lai, lliosogai a blodeuai y Negrôaid yn rhyfedd. Y canlyniad fu i ddynion duon gael eu trosglwyddo yno yn gyflym iawn. Ar gais brenin Hispaen, yn 1510, anfonwyd hanner cant o gaethion i Hispaniola neu St. Domingo, yn yr India Orllewinol, i weithio yn y mwnoedd aur, gan yr edrychid ar y brodorion yn bobl rhy wan i'r fath lafur. Wedi gwneyd cychwyniad fel hyn, aeth llong ar ol llong â'i chaethion i'r India Orllewinol. Darfu i Charles y V. roddi yr hawl i un a ffeid ganddo, o gludo pedair mil o Negrôaid i'r byd newydd; a gwerthodd y dyn hwnw ei hawl i fasnachwyr Genoesaidd. Cyfluniodd y masnachwyr hyn y drafodaeth. Gofynid llawer chwaneg na phedair mil o Negrôaid i wneyd y gwaith; ac er fod y caethion yn dra drud ar y cyntaf, trosglwyddwyd hwy mor gyflym a lliosog nes iddynt ddyfod cyn amlod a'r Hispaeniaid yn y trefedigaethau. Pa dir newydd bynag a ennillai yr Hispaeniaid, trawsgymerent ddynion duon gyda hwy.

Dengys yr hanes a ganlyn fod y Negrôaid mor lliosog fel ag i ddangos cyndynrwydd tuag at eu perchenogion a'u gorthrymwyr. Dywed Hersera, hen hanesydd Hispaenaidd, fod nifer mor fawr o ddynion duon yn llywodraethau Santa Marta a Venezula, ac yr arferid cân lleied o ofal yn eu llywodraethiad, fel y caent gario arfau tân, ymha rai yr ymhyfrydent yn fawr; a thueddwyd nifer o'r rhai callaf i benderfynu ymryddhâu o'u caethiwed, gan greu y gallent fyw ymlith yr Indiaid. Lliosogodd y gwrthryfelwyr nes cyrhaedd 250 mewn nifer; aethant i sefydliad Segovia Newydd, ymdrefnasant yn gwmneiau, apwyntiasant gadbenau, galwasant un yn frenin; rhoddodd y blaenoriaid yn y mater addewidion dengar i'w canlynwyr, ac aethant rhagddynt yn eu hamcanion gwrthwynebus peryglus. Lladdasant bump neu chwech o'r Hispaeniaid, ac un offeiriad. Ond ni lwyddasant yn hir, canys lladdwyd cryn nifer o honynt, a rhagflaenwyd ymgynnulliad nerthol o honynt i'r un fan. Erlyniwyd hwy i le cadarn yn y mynydd, a lladdwyd hwy oll ond y menywod.

Ymunodd cenedlaethau eraill gyda'r Hispaeniaid i fasnachu mewn cnawd dynol. Ganddynt hwy yn unig yr oedd meddiannau éang yn America ar y cyntaf, a hwy yn unig a feddent nifer mawr o Negrôaid. Daeth eraill i feddu trefedigaethau yno, a cheid fod dynion duon yn werthfawr ar ddechreuad trefedigaeth, ac am hyny daeth eraill i bleidio y gaethfasnach. Cydnabyddodd y llywodraeth Brydeinig y fasnach yn 1562, yn nheyrnasiad Elizabeth, pan basiwyd deddf i gyfreithloni prynu caethion; ond ni osodwyd y ddeddf hon mewn grym yn ddioed ar ol ei gwneyd, am na fu y Prydeinwyr mor llwyddiannus i sefydlu trefedigaethau yn Ngogledd America, fel ag i beri i longau o'r eiddynt a ymwelent ág Affrica wneyd rhan neillduol o'u llwyth o gaethion. Yn y fl. 1616 y cludwyd y Negrôaid cyntaf i Virginia, parth a ddarganfyddwyd ac a drefedigaethwyd gan Syr Walter Raleigh, ac a alwyd ganddo felly o anrhydedd i'w brenines, yr hon oedd yn anmhrïod. Ymddengys mai nid llong Brydeinig a gludodd y llwyth o gaethion gyntaf i Virginia, ond eiddo yr Isellmyn ydoedd, yr hon a alwodd

wrth fyned i'r trefedigaethau Hispaenaidd. Ond o hyn allan, ni fyddai y planwyr yn dibynu ar longau Isellmynnaidd am ddynion duon i weithio; eithr yr oedd masnachwyr Prydeinig yn cymeryd pob gofal, wedi ymroddi i'r fasnach, i gyfarwyddo cadbeniaid eu llongau i ymweled â glânau Affrica i wneyd trafodaeth mewn Negrôaid yn gystal a chŵyr a dannedd cawrfilod. Yn yr un modd y daeth y Ffrancod a chenedloedd eraill i gymeryd rhan yn y gaethfasnach—rhai a feddent drefedigaethau, ac eraill hebddynt; ond cydument i wneyd eu cyd-ddynion yn nwydd hynod o bwysig yn eu llonglwythau o Affrica. Cyn canol yr eilfed canrif ar bymtheg, yr oedd caethfasnach Affricanaidd mewn llawn weithrediad; ac yr oedd holl Ewrop yn cyfranogi yn y gwaith o brynu a gwerthu Negrôaid.

Wedi i'r fasnach annynol a chreulawn gael ei sefydlu ar raddeg helaeth, ac hyd yn nod dan nawdd y llywodraethau mwyaf nerthol yn Ewrop, cymerid; pob rhagofal ar lánau gorllewin Affrica, fel y caffai pob llong a ddeuai am gaethion gyflenwad buan a rheolaidd o ddynion duon. I raddau bach yr hanfodai caethiwed yn Negroland cyn darganfyddiad y byd newydd. Wedi gweled fod y fath alwad hynod am Negrôaid, cyfröwyd llwythau duon Affrica mewn modd tra annedwydd, yn enwedig y cyfryw a gyfaneddent lán y môr; a themtid hwy gyda yr *hardware*, y brethyn, &c., a gludid gan Ewropëaid cyfrwys ac awyddus am fudr-elw, i chwilio am fodau dynol o honynt eu hunain, i'w cyfnewid am y pethau oeddynt newydd a swynol iddynt hwy. Fel canlyniad naturiol o hyn ymysg dynion anwar, dechreuodd yr holl Negrôaid ryfela â'u gilydd, ac yspeilio eu gilydd amryw filldroedd i mewn i'r wlad. Cyrhaeddodd y drwg ganol y cyfandir anferth hwnw, a themlodd ardal Llyn Tchad, a tharddiad yr afon Niger, oddiwrth yr ysgydwad a achoswyd gan y fasnach ar lán y môr, er na ddarfuasai i ddyngwyn sathru y tir hwnw erioed; a chyn hir yr oedd Negrôaid a dybid fwyaf diogel yn agored i gael eu hyspeilio i gyfarfod â galwad mor fawr. Dygid hwy yn gaethion gan ryfelwyr, neu trosglwyddid hwy o lwyth i lwyth nes cyrhaedd y traeth. Fel hyn y daeth canolbarth Affrica â'i myrddiynau heigiog i fod yn fam fawr caethion i'w hanfon ymaith, a gwnaethpwyd yn pentrefi ar fin y môr yn ystordai mewn ystyr, lle y cyd-dyrid caethion nes y deuai llongau y dynion gwynion i'w cludo ymaith. Weithiau gorfodid y llongau i hwylio cryn lawer o ffordd heb gael ond ychydig gaethion yma ac ychydig draw; ond gwelwyd fod hon yn ffordd ledchwith o drafodi. Heblaw hyny, yr oedd y cyfryw barthau yn dra niweidiol i iechyd Ewropëaid, a byddai gweithio yn y llongau yn gasbeth gan lawer. I gyfarfod â'r diffygion ac â'r rhwystrau hyn, ac i gynhyrfu yr helwriaethau am gaethion, sefydlwyd ystorfâau rheolaidd ar hyd y traeth gorllewinol o Cape Verd i'r Equator, gan fasnachwyr Prydeinig, Ffrëngig, Isellmynnaidd, a Portugaidd. Gelwid y cyfryw fanau yn *factories*—marchnadfeydd. Dewisid y manau mwyaf cyfneus i'r fath sefydliad masnachol,—glân a fon yn ymarllwys i'r môr, neu ynys fechan o fewn ychydig bellder o'r traeth. Adeiledid amddiffynfa reolaidd, ac ymbarotöid i gyfarfod â gwrthwynebiad cryf. Yr oedd dwy fantais yn hyn—yr oeddynt yn agos i'r tir, ac yn ddiogel oddiwrth ymosodiadau llwythau gelynol; ac yr oedd y cyfryw fanau yn oerach ac yn iachach na manau eraill.

Pan gyrhaeddai gyr o gaethion, dygid hwy i'r amddiffynfa, a chaudi y pyrth. Eisteddai perchenog brodorol y caethion i lawr yn nghyfeillach llywydd y *fort*, ac amryw swyddogion eraill. Os byddai modd, meddwid

ef, a gwneid bargaen ddigon manteisiol i'r Ewropëaid. Gorfodid y gwerthwr yn aml i fyned o'r amddiffynfa ág elw bychan truenus am ei lafur ofnadwy. Felly nid yn unig prynid dynion, ond prynid hwy am y peth nesaf i ddim. Byddai milwyr yn yr amddiffynfeydd hyny, ond rhai anghymhwys at wasanaeth y fyddin oeddynt yn gyffredin. Yr amddiffynfeydd mwyaf nodedig oeddynt Fort St. George del Meina, yr hon a adeiladwyd gan y Portugaid, ond a gymerwyd gan y *Dutch* wedi hyny; Cape Coast Castle, sefydliad penaf y Prydeinwyr; Fort Louis, ar wddf yr afon Senegal, yr hon a berthynai i'r Ffrancod; a Goree, ar ynys o'r un enw, yn agos i Cape Verd. Yr oedd o hanner cant i driugain o fagnelau yn y nifer fwyaf o'r rhai hyn, ynghyda chronfeydd mawrion i ddal dwfr; yr oeddynt yn anhreiddiadwy i'r Negröaid, ac yn ddigon cadarn i wrthsefyll gwarchaead rheolaidd gan filwyr Ewropëaidd. Byddai rhai o is-swyddogion yr amddiffynfeydd yn cael eu hanfon i drafodi yn y wlad, y rhai a aent i fyny i afonydd mewn llongau arfog, gan gyfnewid amryw nwyddau am gaethion, llwch aur, ac ifori, gyda'r Negröaid a breswylent yr ardal; ac weithiau trwy agor rhywbeth fel masnachdŷ am amryw fisoedd mewn tref fawr, neu mewn talaeth boblogaidd, i wneyd trafodaeth â'r brodorion. Yr oedd pawb yn y *forts* yn byw dan ddysgyblaeth filwraidd. Meddai pob un ei swydd, a phob un ei le. Dywedir fod rhywbeth oedd ar unwaith yn ddychrynlyd a chwerthinus yn yr olwg ar y gwarchodlu yn y *forts* hyn; canys ymddangosent yn hagr, yn wan, a chlwyfus, a dangosai eu dillad amrywiog a charpiog fod y rhai a'u gwisgent yn haid o enclwyr meddwon, neu garcharorion rhyfel mewn eisieu a than ddrwgdriniaeth. Hwylusodd y drefn uchod y gaethfasnach yn ddirtfawr, gan nad oedd anghen ar i long aros am lwyth o ddyinion duon, na gwibio i chwilio am danynt. Yr oedd math o ddeall rhwng y prynwyr a'r gwerthwyr.

Un o ganlyniadau eraill y fasnach fawr ar lânau y môr, oedd ffurfiad marchnadfeydd mawrion yn y canolbarth i faeleru mewn Negröaid, ymha leoedd y gallai masnachwyr mewn caethion, pa un bynag fyddent ai Negroaidd, Arabaidd, neu Ewropëaidd, gyfarfod i wneyd bargaenion. Yr oedd un o'r marchnadfeydd mawrion hyn yn Timbuctoo. Ond dygid y nifer mwyaf o gaethion i lawr yn yroedd gan fasnachwyr Negröaidd, a gwerthid hwy yn y marchnadfeydd Ewropëaidd ary glanau. Ffynai yr ysbryd i ladrata a gwerthu eu gilydd yn rhyfedd yn Affrica yn yr amser y teithiai Park yno; yr oedd yn alwedigaeth reolaidd yno ar y pryd. Teithiai ef i ranau mewn-barthol Affrica yn 1795—7. Dywedai yr ymddygid gyda chryn garedigrwydd at y gyroedd caethion ar eu ffordd o'r parthau mewnol i'r traeth. Dichon mai iechyd a bywyd y dynion fel pethau gwerthadwy oedd y cymhelliadau i'r cyfryw ysbryd caredig. Gall porthmon creulawn fod yn drugarog wrth ei anifeiliaid, nid o egwyddor, ond gan ddysgwyl mwy o bris am danynt yn y ffair. Cadwynid y caethion wrth eu gilydd i attal iddynt ddianc. Os byddai rhai yn gyndyn, cylymid cippyll wrth eu ffêr; deuent yn sarug a thrist wrth gael eu gyru oddicartref; chwyddai eu traed a'u haelodau wrth gerdded, a thorent allan yn glwyfau; a than y fath amgylchiadau torcalonus, fflangellid hwy yn aml. Er hyny, dangosai y masnachwyr brodorol beth tregaredd at eu caethion yn y teithiau annaturiol hyn. Weithiau gorphwysent ar eu taith, ac annogent y dynion duon i ganu eu darnau o ganeuon, neu chwareu eu campan, neu i ddawnsio dan gysgod y pren *tamarind*. Ond pa gymaint o greulonderau a chyflafan a gyflawn-

wyd i'r dyben o ddal y caethion hyn yn y manau pellenig o'r wlad! Clwyfwyd llawer calon, ysgarwyd llawer perthynas, sathrwyd ar y teimladau tyneraf, a gadewid lliaws o hen bobl, a chlaf a chlwyfus, a meirw, ar ol yn rhywle! Byddai rhieni yn gwerthu eu plant, a phlant eu rhieni; ac ymostyngai teuluoedd i gaethiwed yn hytrach na marw o newyn; gwerthai rhai y cyfryw ag a brynesid o'r blaen; neu, fe allai y ceid pen-aeth yn gwerthu cryn nifer o bobl a gymerodd efe wrth ymosod ar bentref brodorol. Weithiau byddai hynt yn cael ei gwneyd i chwilio am Negrô-aid ar raddeg fawr; gelwid yr hyntoedd hyn yn *slave hunts*. Gwnai brenin un wlad gasglu byddin fawr, a rhuthro i diriogaethau brenin Negrô-aidd arall, gan anrheithio a gwneyd carcharorion fel yr elai rhagddo. Os gwnai y trigolion ei wrthsefyll, cymerai brwydr le, ymau un fynychaf y trechai y fyddin ymosodol. Gyrid y caethion ymaith wrth y miloedd wedi i'r fuddugoliaeth gael ei hennill, i gael eu cadw ar dir y gorchfygwr nes y cai gyffe i'w gwerthu. Yr oedd gan frenin y Foulahs deheuol, llwyth cryf yn Nigritia, yn 1794, fyddin o un fil ar bymtheg o wŷr ar waith yn barhâus yn yr ymosodiadau helgar i diriogaethau ei gymydogion am gaethion. Yr oedd y caethion a werthai yn ffurfio rhan fawr o'i gyllid.

Nid yn ngorllewin Affrica yn unig yr helid dynion er mwyn eu gwerthu yn gaethion, ond cawn fod helfeydd yn cael eu dwyn ymlaen yn Nubia gan anrheithwyr Aiphtaidd a Thyrciaidd. Y prif wahaniaeth rhwng y ddwy fasnach oedd, fod yr Ewropëaidd yn gyffredin yn prynu eu caethion a ddaliesid, tra y gwnai y Tyrciaid eu dal eu hunain. Y mae marchnad-oedd caethion y Dwyrain wedi eu cyflenwi yn hir fel hyn. Cyhuddir Mahomet Ali, Pasha galluog yr Aipht gynt, o ddwyn y gyfundraeth o yspailio i drefn hynod. Nubia oedd ei brif le i gael caethion, ac ni oddefai efe i neb arall fyned yno i gyrchu caethion. Yr oedd ei helfeydd am gaethion yn ddirfawr; a chymerent le yn flynyddol ar ol y tymmor gwlawog, gyda chymaint cysondeb â chasglu treth. Aeth Dr. Madden i'r Aipht yn 1840 â llythyr oddiwrth y Gymdeithas Wrthgaethiwol at Mahomet Ali, i fynegu ei lawenydd ddarfod iddo anfon gorchymyn allan i ddiddymu hela caethion; ond er ei syndod, deallodd wedi cyrhaedd yr Aipht nad ufuddhâwyd i'r gorchymyn, ac nad oedd arwydd ddarfod bwriadu i neb ufuddhâu iddo. Dywed Dr. Madden fod yr helwyr yn gynnwysedig o un fil i ddwy fil o wŷr traed; o bedwar i wyth cant o Bedouins ar gefylau, yn arfog â drylliau a byrddrylliau; o dri i bump cant o filisia, neu ddynion gwylltion hanner noeth, ar dromedariaid, gyda tharianau a gwaewffyn; a thua mil ar draed âg asteilch a tharianau—yn gwneyd i fyny fyddin o ddwy fil a saith gant, yn ol y cyfrif lleiaf. Yn gyffredin, cymerent o ddau i bedwar magnel gyda hwy, a digon o fara am yr wyth niwrnod o helpa. Cipid ychain, defaid, a dâ erall, wrth Kordovan fynychaf, er y gallai y dreth ar anifeiliaid fod wedi ei thalu. Pan gyfarfyddent â gyr o ddâ yn pori neu yn yfed dwfr, cymerent feddiant o hóni yn y fan; anrheithient fel y cerddent ymlaen, ac yr oedd pob achwyniad yn aneffeithiol, am y byddai y llywydd ei hun yn bresennol.

Wedi cyrhaedd y mynyddoedd nesaf yn Nubia, gofynid i'r trigolion roddi nifer o gaethion fel eu teyrnged arferol. Yn aml gwneid hyn yn barod; canys cyfanneddai y bobl hyn mor agos i Kordovan, fel y dysgwyl-ient ddialedd mawr, os dangosent wrthwynebiad cyndyn. Os ceid caethion yn ddidrafferth, cedwid trigolion y mynydd hwnw oddiwrth ddychryn-

feydd ymosoddi; ond yspeiliai y milwyr hwy o'u lluniaeth, pe byddent hwy heb damaid. Dywedir y byddent fel gwaedgwn i gael allan yr ystorfa guddiedig. Aent rhagddynt wedi hyny i gynyddoedd pellach, a gwersyllent yn agos i le y bwriadent ei gymeryd trwy drais y dydd canlynol, os byddai bosibl. Gofynid am y nifer priodol o gaethion cyn ymosod; weithiau ceid hwy, am y gwelai y penaeth nad oedd ganddo fodd i wrthwynebu. Gwnai llawer fyned yn wirfoddol i gaethiwed yn hytrach na chael eu hysgaru oddiwrth eu perthynasau. Ond ychydig iawn yn gyffredin a ymostyngent i'r fath gais. Gorweddai y nifer twyaf o'r pentrefi mewn sefyllfa gyfleus yn agos i glogwyni serth, neu uchelfanau annynsol, ac oddiyno amddiffynai y trigolion eu hunain a'u hiawnderau gyda gwroldeb, dyfalwch, a boddefadau oedd bron yn ddigyffelyb. Cyn dechreu yr ymosodiad, ceuid pob dyfodfa i'r pentref â cheryg mawrion neu bethau eraill; darperid dwf i'r pentref am amryw ddyddiau, a chymerid y dâ ac eiddo arall i'r mynydd. Cymerai hyd yn nod y benywod ran yn yr amddiffyniad; naill ai cymerent ran bersonol yn y frwydr, neu cynnorthwyent eu gwŷr trwy eu lléfau a'u hoernadau, a darparentariau iddynt. Trochent flaenau eu gwaefffyn coed mewn gwenwyn a ddarperid o sudd rhyw lysieuyn. Un teulu yn unig ond anrhaith a llofruddiaeth. Wedi cymeryd y pentref, dechreuai cyflafan ofnadwy. Nid arbedid y claf na'r hen; syrthiai menywod beichiogion yn ysglyfaeth i'w cynddaredd; anrheithid y bythynod, cludid neu dinystrid yr ychydig a adewid gan y trigolion, a phawb a syrthient yn fyw i ddwyylaw yr ymosodwyr a arweinid yn gaethion i'r gwersyll. Dewisent angeu o flaen caethiwed; ac os nad attelid hwy, gwelid y tad yn trywanu ei wraig, ei blant, ac yna efe ei hunan, yn hytrach na syrthio yn fyw i ddwyylaw y gelynyon. Arosent weithiau wyth niwrnod yn eu hencilfeydd heb fwyd; os gallent aros y tri diwrnod cyntaf heb ymborth, gallent aros wyth. Ond yn y cuddfeydd hyny ceid hwy allan gan eu herlynwyr gwaedlyd, a llosgid pŷg, brwmstan, &c., i'w tynu-o'u tyllau. Os dygwyddai i rai ddianc ar eu dychweliad i'r pentref, ni chaent ddim i gynnal natur, ac y mae yn haws dychmygu nag adrodd eu trueni.

Ar ol cael o bump i chwe' chant o gaethion, anfonid hwy i Lobeid, gyda milwyr a rhai o bobl y wlad yn warchodwyr. I attal eu ffoad, cylymid coeden fechan am eu gwddf, a gorweddai y pren o flaen y dyn anffodus; ac, fel y gallai gerdded, gorfodid y dyn o'i ôl i gymeryd un pen i'r goeden ar ei ysgwydd. Gyrid yr oll i'r Aipht, i gael eu gwerthu yn marchnad y caethion. Ac fel hyn y gwasgerid Negrôid a Nubiad trwy y Dwyrain, Persia, Arabia, India, &c. Gwelwn felly fod dwy gangen o gaethfasnach yn cael eu dwyn ymlaen yn Affrica—y gaethfasnach ar y glânau gorllewinol i gyflenwi America a'r trefedigaethau Ewropeaidd, a'r llall ar y parth gogledd-ddwyrainol i gyflenwi yr Aipht, Twrci, a'r Dwyrain. Cawn fod rhai o'r personau mwyaf yn ymherodraeth Twrci wedi hanu o rieni caethion. Ychydig a wyddys am y gaethfasnach Ddwyrainol. Y mae yn peth yn sicr—ei bod wedi cael ergyd ofnadwy gan Brydain a Ffrainc yn fuan wedi dechreu y rhyfel â Rwsia yn 1854. Nid yw y llonglwythau arferol

o fenywod ieuainc yn croesi y Môr Du, o Mingrelia a Circassia, i gael eu gwerthu yn Nghaercystenyn i'r gwragedd-dai Twrcaidd.

Dwyedir fod y Mahometaniaid yn ymddwyn yn fwy tirion wrth eu caethion nag y gwna lladron dynion ag sydd yn dwyn yr enw Cristionogol. Yn y Dwyrain gwna adyn ymfrostio mai caethddyn ac nid gwas ydyw. Y mae caethion o wahanol wledydd yn y Dwyrain; ond Affricaniaid yn unig ydynt gaethion yn y Gorllewin.

Caethfasnach ddiweddar yn Affrica sydd fwy hysbys i'r cyffredin, ac yn hon y mae Prydain wedi cymeryd cyfran bwysig. Tua'r flwyddyn 1750, dygid y fasnach hon ymlaen gyda bywyd anarferol. Yr oedd yr holl brif genedloedd yn meddu marchnadfeydd dynion duon ar draeth Guinea, ac yr oedd llongau perthynol i bob cenedl yn dyfod yn rheolaidd i gyrchu llwythi o honynt. Cludid yn agos i gan mil o Negroaid yn gaethion bob blwyddyn. Yn y flwyddyn 1789, dywedwyd yn y Senedd fod y llongau Prydeinig yn unig yn cario deunaw mil ar hugain bob blwyddyn. Yr oedd genym ar y pryd 130 o longau yn y fasnach fudr! Yr oedd Ewrop a'i threfedigaeth yn gyfrifol am ladroniaeth tua chan mil o blant Affrica bob blwyddyn! Yn y dull yna fe ellid diboblogi Cymru oll mewn oddeutu tair blynedd ar ddeg! Os cyfrifwn i'r fasnach fyned ymlaen am ddau canrif, rhaid fod Affrica wedi cael ei hamddifadu o boblogaeth mor liosog â'r oll o'r Ynysoedd Prydeinig,—oddeutu deng miliwn ar hugain o fodau dynol! Nid ymfadiaeth wirfoddol, cofier, oedd yn myned ymlaen, megys o'n teyrnas ni i America ac Australia yn y blynyddoedd presennol,—ond ysgarid yr Affricaniad trwy orthrech oddiwrt ei berthynasau anwylaf; ac alludiaeth dreisiol oedd ei symudiad o'i wlad frodorol. Nid tldi naturiol yn Affrica a barai iddi gael ei hanmhoblogi mor ddychrynlyd; canys y mae parthau äang yno yn ddirgon i dderbyn poblogaeth holl Ewrop; y mae y tir yn fras yno, yr hydyfiant yn sawr, y coedwigoedd yn llawn helwriaeth, a'r afonydd yn llawn pysgod. Ond dynion gwynion annhrugarog a lusgent y plant yn greulawn ymaith. Y prif fanau a dderbynient y caethion oeddynt ynys- oedd yr India Orllewinol, y Trefedigaethau Prydeinig yn Ngogledd America, Brazil, a sefydliadau eraill yn America Ddeheuol. Yn y manau hyn y gweithient yn y mŵngloddiau a'r planfeydd siwgr. Y mae rhyw fath o aruthredd barbaraid yn y drychfeddwl cyntaf o gaethfasnach y Negroaid, cyfaddas i'r oes a'i dechreuodd,—oes Columbus, Cortez, a Pizarro; ond pwyl all ddychymygu y swm o ddyoddefiadau a achosodd i filiynau o'n cyd- greaduriaid!

Rhaid i ni yn awr arwain y darlennydd trwy rai o gelloedd mwyaf poenus a dychrynlyd y gaethfasnach,—dyoddefiadau y caethion yn y llongau ar eu ffordd o Affrica dros y Môr Werydd i'r byd gorllewinol. Y mae mwy na dau neu dri o dystion wedi profi gwiredd yr adroddiadau mwyaf dychrynlyd am y *middle passage*—y dramwyfa ganol, fel ei gelwir. Y mae llawfeddygon, cadbeniaid llongau, a chapelwyr llongau yn y gaeth- fasnach, oll yn unfryd yn eu tystiolaethau o barthed dyoddefiadau y dynion duon druain pan ar y môr. Holwyd llawer o dystion o Dŷ y Cyffredin pan oedd y pwnc o ddiddymiant caethfasnach gerbron y Senedd Brydeinig. Yr ydym yn cael pob lle i feddwl fod dyoddefiadau y fordaith yn awr yn fwy arswydus nag y bu erioed!

Tra yr oedd y gaethfasnach yn gyfreithlawn, yr oedd y llongau a ddefu- yddid i gludo caethion, yn lled debyg yn eu gwneuthuriad i longau eraill,

ond llenwid hwy â dynion mewn modd creulawn dros ben. Byddai dynion, menywod, a phlant, bendramwnwgl, yn gyffredin yn noethlymyn, ac wedi cael eu chwilio gan feddyg o berthynas i'w hiechyd, rhag ofn nad oeddylt yn werth eu prynu a'u cludo. Yn ol y gyfraith, nid allai llong o faint penodol gludo ond nifer arbenig—pump caethddyn i bob tair tunell o fesur a roddid i longau Prydeinig o gant a hanner o dunnelli a than hyny. Yn 1789, dygwyd ysgrif gan Syr W. Dolben i'r Senedd i reoli cludiad Negröaid, i'r dyben o liniaru eu dyoddefiadau ar y fordaith. Yr ydym yn cael i'r pwyllgor seneddol a benodwyd i chwilio i'r mater, gael mesuriad un llong caethion, ac ymddengys mai chwech troedfedd wrth un droedfedd a phedair modfedd a ganiateid i bob dyn; a phump troedfedd wrth un droedfedd a phedair modfedd i bob dynes; a phump troedfedd wrth un droedfedd a dwy fodfedd i bob bachgen, a phedair troedfedd chwech modfedd wrth un droedfedd i bob merch. Daliai y llong bedwar cant a hanner o ddynion. Y nifer cywir a gludai oedd pedwar cant a phedwar ar ddeg a deugain : ond cludasai fwy mewn môrdeithiau blaenorol. Ni chai y caethion druin yn aml gymaint o le ag a roddid i ddyn marw yn ei arch! Ond trwy gyhoeddi y fasnach yn anghyfreithlawn,—yn för-ladroniaeth, ac yn gosbadwy âg angeu, y mae pob gallu i reoli y llongau yn awr yn y fasnach wedi dianc o ddwyllaw Prydain; ac fel effaith naturiol anghyfreithlondeb y draffod-aeth, syrthiodd i ddwyllaw y dyhirod gwaethaf, y rhai sydd wedi trymhâu dyoddefiadau y Negröaid. Y mae yn anhawdd cyflawni dim da mewn byd drwg heb fod y da hwnw mewn rhyw fodd yn *achlysur*, nid yn achos, o ddyoddefiadau mwy ar ryw ddynion. Oni bae crefydd ni fusasai merthyru er mwyn cydwybod dda.

I'r dyben o allu osgoi y chwil-longau Prydeinig, adeiledir pob llong yn y gaethfasnach yn y fath fodd fel ag i fod yn hwy-l-lestr gyflym. Llwyth mawr, a dianc rhag y chwil-longau, yw y cwbl y gofala masnachwyr dynion am danynt yn awr; ac os gallant gymeryd un llwyth o bob tri heb gael eu dal, ystyriant hyny yn dâl da. Gosodir y Negröaid yn awr mewn gwirionedd fel ysgadan mewn baril. Nid oes ganddynt le i sefyll, na lle i eistedd, na lle i orwedd; ac y mae ymsymud ar y fordaith yn beth anmhosibl. Ceir hwy rywfodd, gwesgir hwy i agenau, neu yn erbyn esyll ceimion. Caniateir naw modfedd o le yn unig i Negro yn ei gyflawn faintioli, ac ar ei ochr yn unig y gall fod. Ceir yr hanes canlynol gan lygad-dyst, o ddadlwythiad caethlong a ddaliesid ac a ddygwyd i Sierra Leone. "Yn awr cyfrifid y caethion; ysgrifenid eu rhif, eu hystlen, a'u hoed, er hyfforddiant y llys o ddiprwaeth gymysg. Yr oedd y gwaith yn adgas. Yn gymaint a bod *hold* y llong wedi ei ranu i wahanu y dynion oddiwrth y menywod, cyfrifid y rhai ar fwrdd y llong gyntaf; yna gyrid hwy ymlaen, gan eu gwasgu gymaint ag oedd modd, a thynid y menywod allan trwy orddor bychan o'u caethle twym a thywyll. Gwnai penbadwr du ym-aflyd ynddynt un ac un, gan eu llusgo o'n blaen am fynydd, pan y gwnai y swyddog priodol, ar gipolwg, benderfynu yr oed, pa un ai dros neu dan bedair ar ddeg; a siglid hwy gerfydd y fraich i'w cell ffaidd, lle yr eisteddai penbadwr du arall, â fflangell neu bren, a gyrai hwy i gymeryd yr agwedd boenus a phlygedig ag oedd yn anghenrheidiol i osod cynifer yn y llong. Gwnai y menywod a'r merched yn gyffredin ymostwng yn dawel, os byddent iach, ac os caniatâi eu haelodau iddynt. Yr oedd mis o amser wedi gwneyd eu sefyllfa yn gynnefin iddynt. Gwnai un neu ddau ddyoddef

yn llymach na'r lleill. Cyfodai eu hysgrechfeydd gwanaidd o'u carchar cuddiedig, fel y gwnai gorfodaeth dreisiol eu wasgu i'w congyl yn erbyn plygiad ochr y llong. Ymdrechais ddisgyn i weled y lletty. Dwy fodfedd ar hugain oedd yr uchder rhwng y llawr a'r nenfwd. Gellir dychymygu am agwedd y caethion crymedig, yn enwedig eiddo y dynion, penau a gyddfau pa rai a blygid gan yr estyll uwchben. Wedi eu sefydlu felly unwaith, yr oedd yn anhosibl ymesmwythâu trwy symud neu newid agwedd. Gwna y corff yn aml sythu i grymiad parhâus; ac yn heolydd Freetown gwelais gaethion a ryddhâwyd ymhob agwedd o ddirdyniant. Yr wyf yn cofio am un a lusgai ei gorff, a'i gefn tua'r ddaear, ar ei ddwy-law a'i fferau. Nid adferir llawer byth i'w hagwedd syth."

Un achos dirfawr o ddinistr ar fywydau y caethion pan ar y môr yw cyfodiad ystorm, pryd y tefir hwy yn fyw i'r eigion i ysgafnhâu y llong! Gwneir felly hefyd pan erlynir y llong gan un o'r chwil-longau. Collir miloedd yn y modd yma bob blwyddyn. Ac nid ychydig fydd dyoddefiadau y Negroaid mewn llongau a ddelir gau y chwil-longau Prydeinig; bydd raid dyfod â hwy i borthladd lle y mae dirprwy i gyhoeddi barn am danynt, pa un a ydynt wedi eu cipio yn gyfreithlawn ai peidio; a thry allan weithiau fod yna ryw anghyfreithlondeb wedi bod yn y gwaith o'u dal, ac yna gollyngir hwy ymaith! Bu enghraifft nodedig o hyn yn 1833, yn Siena Leone. *Schooner* oedd y llong hono, yn cario lluman Brazil; ond gan fod y gaethfasnach yn fôr-ladroniaeth yn ol deddfau y wlad hono, rhaid oeddi "*Donna Maria da Gloria*," canys dyna enw y llong, gymeryd ychydig nwyddau mewn parseli i'r dyben o gydfurfio â rheolau masnach gyfreithlawn; ond mor gynted ag yr aeth allan i'r môr, gwelwyd ei hamcan. Gosodwyd gyda phob brys bedwar cant a deg ar hugain o Negroaid ynddi, y rhai a gasglesid yn barod, a hwyliodd tua Rio Janeiro. Daliwyd hi fel caethlong ar wddf y porthladd hwnw yn mis Tachwedd gan y brig *Snake* o eiddo ei Mawrhydi. Yn Rhagfyr, dygwyd yr achos gerbron y llys sefydledig yno; a phenderfynwyd, gan nad ellid cael allan yn llawn mai llong Brazaillaidd ydoedd, nad oeddid yn alluog i lwyrr derfynu y mater. Bu yn anghenrheidiol apelio at lys y ddirprwyaeth gymysg yn Sierra Leone i benderfynu. Ymfwriodd y llong a'r llwyth anffodus yr ail waith i'r môr, a chroesodd y Werydd yn nghanol dychrynsfeydd mordaith o ddau fis. Wedi cyrhaedd Freetown yn Affrica tua chanol Chwefror, 1834, ac angori yno, cafwyd fod pedwar ugain a phymtheg wedi trengu!

Peth arfer olyw i amryw glefydau dori allan yn y caethlongau, o herwydd agwedd grymol y dynion duon, a'r awyr heintus a grëir gan eu tyndra dychrynlyd mewn lle mof fychan,—dyfrglwyf, crugdarddiant, cornwydydd, y gwaedlif, a'r llygadwst, a ddifrodant y dorf aunedwydd yn alaethus. Mwyhëir eu dyoddefiadau yn ddirfawr o herwydd oediad y llys a benderfyna eu ffawd, canys ni chodir hwy o'r llong, ac ni chymerir un mesur i liniaru eu sefyllfa boenus. Dywed llygad-dyst iddo weled y llong *Donna Maria* wedi ei chadw fel hyn ddeufis yn mhorthladd Freetown. Trôdd allan mai dan liwiau Portugaiaidd, ac nid Brazaillaidd, yr hwyliai; a cheid fod y cytundeb â'r Portugaiaid yn gwahardd caethfasnach yn *ogleddol* yn unig i linell neillduol, ac ddarfod cipio y *Donna Maria* ychydig raddau i'r dê! Penderfynid fod ei chipiad yn anghyfreithlawn. Rhoddwyd hi yn ffurfiol i'r *slave-captain*; a chafodd eirchion ysgrifenedig gan yr awdurdodau Prydeinig i arlywyddion y *British Cruisers*, yn sicrhau iddo dramwyfa ddi-

ogel a rhydd yn ol i Brazils. Aeth yn ol mewn buddugoliaeth falch, gan gludo y trueiniaid y *drydadd* waith yn groes i'r Werydd! Digon tebyg na ddarfu i nemawr o honynt orfyw y caethiwed ofnadwy o *saith mis*.

Pan ddelir caethlongau, ni fydd yr holl gosb yn aml ond sforffediad o'r llong. Gynt gwerthid y cyfryw longau a ddelid; ond yn aml defnyddid hwy i fwyddyn gaulynol yn yr un gwaith arswydus. Ond yn awr llifir hwy, a gwerthir hwy fel hen goed. Er tod Prydain Fawr, Brazil, a Gogledd America wedi cyhoeddi caethfasnach yn fôr-ladroniaeth, ac yn gosbadwy â marwolaeth, dywedir mai llythyren farw ydyw y cyhoeddiad yn gyffredin.

Weithiau delir caethlong ymbell iawn o'r manau hynŷ yn ngorllewin Affrica, lle mae llysoedd penodol i bennu ffawd y cyfryw. Bu enghraifft nodedig o hyn, ar y 12fed o Ebrill, 1843, pan ddaliwyd y llong *Progresso*, caethlong Frazilaid, gerllaw Madagascar, gan y chwil-long Frydeinig, *Cleopatra*. Mordwywyd hi gan ddwylaw Prydeinig i Benrhyn Gobaith Da. Cafodd Mr. Hill, capelwr y *Cleopatra*, ganiatâd i fyned ynddi; ac ysgrifennodd hanes y deng niwrnod a deugain y buont ar y môr cyn cyrhaedd y Penrhyn. Yn fuan wedi i'r *Progresso* ymadael â'r *Cleopatra*, cyfododd gwynt, ac anfonwyd y Negroaid y rhai a ymddifrent ar y bwrdd, ac a gusanent ddillad a dwylaw eu gwaredwyr, i mewn i'r llong. Dywed Mr. Hill, "Gan fod y noswaith yn angherddol gynhes, dechreuodd pedwar cant o drueiniaid a wthiesid fel hyn i le deuddeg llath o hyd, saith o led, a dim ond tair troedfedd a hanner o uchder, ymdrechu yn fuan ddyfod allan i'r awyr agored. Gan gael eu gwrthio yn ol, a chan ymdrechu yn fwy ddyfod allan, cauwyd yr *after hatch* arnynt. Uwchben yr orddor sfordd arall, ymhen blaen y llong, yr oedd rhadellai wedi ei sicrhâu. I'r fan yma, yr unig fynedfa i awyr, yr oedd poethder mygol yr *hold*, ac fe allai dychryn oddiwrth ddeythruch eu sefyllfa, wedi peri iddynt ymwasgu; ac felly gwnaed rhan fawr o'r lle islaw yn ddi-ddenydd. Ymdyrent at y rhadellai, a chan ymgylmy wrtho er mwyn cael awyr, yr oeddnynt, ysywaeth, yn llwyr attal yr awyr. Ymwithient trwy dyllau pedair modfedd ar ddeg o hyd, a braidd chwe' modfedd o led, a llwyddent weithiau. Yr oedd y llefau, y gwres, gallaf ddywedyd heb ormodiaeth, 'mwg eu poenedigaeth,—a esgynai, yn annhebyg i ddim daearol. Rhoddodd un o'r Hispaenwyr rybudd y byddai y canlyniad yn 'farwolaethau lawer.' Drannoeth gwiriwyd rhybudd yr Hispaenwr yn echrydus. Cyfodesid pedwar ar ddeg a deugain o gyrff briwedig a thoredig o'r bwrdd caeth i'r rhodfa, a thafwyd hwy dros y bwrdd. Yr oedd rhai wedi curio gan glefyd, a llawer yn friwedig a gwaedlyd. Dywedai Antonio wrthyf ddarfod cael rhai wedi eu llindegu, a'u dwylaw fyth yn ymafnyd yn ngyddfaeu eu gilydd, a'u tafodau yn ymestyn o'u geneau. Llethesid mysgarodd un allan. Sathresid y nifer mwyaf o honynt i farwolaeth, y gwanaf dan draed y cryfaf, yn nghynddaredd a phoen mygiad oddiwrth ymwasgiad a gwres. Yr oedd yn olwg ddychrynlyd, fel yr aent heibio, un ac un—gweled aelodau syth dirdynol wedi eu lliwio â gwaed a ffeidd-dra—yn cael eu bwrw i'r môr. Rhai mewn dirgrynaiad a osodid ar y bwrdd i farw; tefid dwfr hallt ar rai o honynt i'w bywhâu, a dodid ychydig ddwfr croew yn eu geneau. Adgofiodd Antonio wrthyf ei rybudd neithiwyr. Yr oedd efe yn gwneyd ei oreu, gyda'i gyfaill Sebastian, i weini i'r trueiniaid byw, y rhai yn awr a ryddhesid o'u caethiwed isod; gan ddosbarthu iddynt eu dogu boreuol o ymorth, ac ychydig fwy na hanner peint o ddwfr i bob un, yn yr hyn yr ymaflent gydag awydd annirnadwy,

rhai gan blygu eu gliniau at y bwrdd, rhag ofn colli dim o'r dwfr trwy droediad ansefydlog; am fod eu gyddfau, yn ddiau, yn dra sych wedi llefain a gwaeddi trwy y nos." Glaniwyd y gweddill yn y Penrhyn yn mis Mai, ond cafwyd fod saith ugain a phymtheg o honynt wedi marw ar y fordaith. Diangodd dwylaw y gaethlong am nad oedd llys yn y Penrhyn i'w treio.

Y mae hysbysiaeth mor ddiweddar â misoedd olaf y flwyddyn 1855, oddi-wrth genadon Cristionogol ac eraill, yn ein sicrhâu fod caethfasnach yn myned ymlaen mewn rhwysg ar gyffiniau gorllewinol Affrica. Iê, yr oedd cynnydd ar y gorchwyl brawychus o yspeilio dynion duon, a'u gwerthu i'r llongau, er pan ddechreuodd y rhyfel â Rwssia. Un rheswm a roddir dros hynny oedd, fod Prydain wedi gorfod tynu amryw o'i chwil-longau o'r parthau hynny o herwydd y galw mawr oedd wedi bod am longau rhyfel i'r Môr Dŷ a'r Baltic. Dywed un cenadwr sydd wedi llafurio yn llwyddiannus am lawer o flynyddau yn y wlad hono, ddarfod cludo mil o gaethion o Whydah a'i chymydogaeithau mewn tair wythnos a dreuliodd efe yn yr ardal hono!

Yn gymaint a bod llawer o ddynion a gyfrifant eu hunain, ac a gyfrifir, yn grefyddol, yn enwedig yn America, yn *amddiffyn*, ac hyd yn nod yn *cyfiawnhâu* caethiwed a chaethfasnach, ni fyddai o'i le, feddylieim, i ni roddi yna ein rhesymau yn eu herbyn. 1. Y mae caethiwo, a phrynu, a gwerthu dynion, yn annatural. Bwriada Duw i gorf a meddwl ei holl grêaduriaid rhesymol fod yn rhydd. Y mae carcharu dyn am ei fod yn aelod rhy beryglus o gymdeithas i fod yn rhydd, yn fater hollol wahanol. 2. Dwg caethfasnach y dyoddefiadau mwyaf ofnadwy ar ddynion, a hynny yn llwyr ddiachos. 3. Y mae y fasnach yn ei thuedd naturiol yn dileu y parch anghenrheidiol at ddosbarth hynod o liosog o'r teulu dynol. 4. Cynnrycha y drasodaeth ffaidd hon anfoesoldeb dychrynlyd. Dattodir y sefydliad priodasol, a gygir y Negroaid i eithafion o ddirywiant a drygfoes. 5. Niweidir cymdeithas gan gaethfasnach. Y mae gan y Negroaid feddwl fel y dyn gwyn; ond clöir hwnw mewn caddug am ei oes. Beth yw ei gyflwr ond llethiant parhâus corff a meddwl hyd angen? Tywynodd athrylith allan o fynwes ambell i ddyn du. Y mae enghreifftiau o hyn mewn dynion a menywod duon, wedi synu y byd yn barod; a phrofant nad ydynt mewn un modd yn *llai cyfaddas* i ddiwylliant na'r dyn gwyn mwy ffafriol ei ffawd. 6. Tuedda caethfasnach i wneyd y caeth yn ddiog. Os gweithia, o orfod y bydd hynny. Y mae yn amddifad o'r annogaeth fawr hono i weithio—tâl cyfiawn am ei lafur. 7. Y mae yn afresymol condemnio neb i gaethiwed, a'i ddarostwng i'r un tir a'r anifail, yn unig am fod ei liw yn ddu. 8. Condemnia Gair Duw y gaethfasnach yn ei holl raddau. Y mae dywedyd fod gan Abraham gaethion, ac fod yr oruchwyliaeth Iuddewig yn cydnabod caethion, yn llwyr amherthynasol i gyfiawnhâu y fasnach a gondeimniwn. Dylem egluro rhanau tywyll o Air Duw wrth y manau goleu hynny nad oes perygl i ddyn diragfarn gamgymeryd eu hystyr, os bydd ganddo amynedd i chwilio i'r ystyr. Y mae rhai pethau yn yr Hen Destament, o berthynas i amlwreigiaeth, ysgariaeth, a meddu caethion gan ddynion nad oes neb yn gwadu eu duwioldeb ond anfyddwyr, heb fod yn perthyn i'r pynciau mwyaf eglur, ac yn cynnwys *goddefiant* hynod o eiddo Duw. Ond cawn fod y Testament Newydd, yn ngoleuni yr hwn y dylai yr Hen gael ei esbonio, yn condemnio *lladron dynion*. 1 Tim. i. 9, 10.

Gwnaeth Esgob Horsley ddefnydd da o'r adnodau uchod, yn un o'i arsitiau yn Nhŷ yr Arglwyddi, pan oedd pwne y gaethfasnach yn cael ei

ddadleu o flaen y Senedd. Dangosodd fod yr Ysgrhythyr wedi ei llefaru mewn iaith boblogaidd ; ond nid yw y gwir ystyr a fedd geiriau ysbrydodig wedi eu cyfieithu bob amser yn y Bibl fel ag i ddwyn allan eu meddwl llawn. Y gair gwreiddiol am ladron dynion yw *αυθρανο δυνας*, a'i ystyr yma ydyw *rhai yn masnachu mewn dynion*. Cynnwys hyn, gan hyny, ladroniaeth o'r fath waethaf, a mwyaf ysgeler. Y mae y neb sydd â llaw yn y fasnach yn cael eu condemnio gan y gair arwyddol hwn. Rhestrir hwy gyda'r "tadleiddiaid a mamleiddiaid," a chyda'r "lleiddiaid dynion" yn gyffredin. Cryned holl gaethfasnachwyr dan daranfollt gair Duw.

Y mae yn bryd i ni bellach ddyfod at y llafur a'r llywyddiant a fu yn nidymiant y gaethfasnach yn y tiriogaethau Prydeinig.

Darfu i'r Cardinal Ximenes yn 1512 dystio yn erbyn cludo caethion i'r America. Gwnaeth offeiriad Pabaidd o'r enw Bartholomeus de Las Casas, ymgais i attal masnach yr Hispaeniaid mewn Negrôaid, tua'r fl. 1515. Cyfododd dadl ar y mater mewn canlyniad, a dywedir i argraff dda gael ei wneyd ar y llywodraeth Hispaenaidd. Ond ymlaen yr âi caethfasnach yn ei rhwysg. Y mae yn ddigon tebyg i lawer person dyn-garol a duwiol deimlo yn ddwfn yn achos yr Affricaniaid o'r amser hwnw hyd y fl. 1727, pan ddechreuodd y "Cyfeillion" gymeryd rhan gyhoeddus yn ei herbyn. Y mae Mr. Clarkson yn rhanu pleidwyr y caethion i bedwar dosbarth. Y cyntaf, a gynnwys bersonau o Loegr, prydyddion, ac eraill a ddygasant eu tystiolaeth yn ei herbyn yn eu hysgrifau hyd y fl. 1787. Ymhlith y prydyddion cawn Pope, Thomson, Shenstone, a Cowper; ymysg y duwinyddion yr oedd Richard Baxter, Esgob Warburton, Beattie, Esgob Porteus, Wesley, Whitfield, Wakefield, a Paley; a lleigion hefyd megys Montesquieu, Hutchinson, Wallis, Burke, Postlewaite, Day, Hartley, Millar, a Granville Sharp. Cyhoeddodd Esgob Porteus bregeth ar y pwnc. Ysgrifonodd Wesley draethawd byr, ond cynnwysfawr, dan y teitl o *Thoughts on Slavery*, mor fore â'r fl. 1774; cafodd gylchrediad buan, ac aeth trwy amryw argraffiadau. Ar ffurfiad y Pwyllgor Gwrth-gaethiwol, gwnai Mr. Clarkson sylw neillduol o draethawd Wesley, a mynegai fod yr awdwr wedi caniatâu i argraffiad arall o hŏno gael ei daenu trwy Brydain Fawr a'r Iwerddon. Dim ond pedwar diwrnod cyn ei farwol-aeth ysgrifonodd Wesley lythyr at Mr. Wilberforce, yn cydlawenhâu â'r pwyllgor; ond yn ei rybuddio o'r anhawsderau a gyfarfyddent o wahanol barthau. Dymunai nerth *Duw* iddynt. Tynodd Granville Sharp enwog-rwydd arno ei hun fel pleidiwr gwresog y Negrôaid, trwy gymeryd plaid y negro Somerset: aeth ei hun i'r draul o gael treial yn erbyn y sawl a'i daliai yn gaeth. Dechreuai ar ei lafur yn 1765; ac yn 1772 penderfynodd y llys yn Llundain yn achos Somerset, "fod caethddynt yn rhydd mor gynted ag y gesyd ei droed ar dir Prydeinig." Daeth y Negrôaid yn destun ymddyddan cyffredin yn awr ymhlith pobl o ddysg. Yr ail ddosbarth oedd y "Cyfeillion" yn Lloegr. Pasiodd y bobl dda hyn benderfyniad condemnio i'r gaethfasnach mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llundain mor fore â'r fl. 1727. Ac wedi hyny yn y bl. 1758—61—63 a —72. Yn 1783, deisebasant y Senedd yn ei herbyn. Cyhoeddasant lyfrau ar y pwnc, ac ysgrifenasant ar yr achos i'r newyddiaduron. Y trydydd dosbarth oedd y "Cyfeillion" ac eraill yn Ngogledd America. Condemniasant fasnach mewn dynion yno mor fore â'r fl. 1696; a 1711. Gwnaethant felly yn y blynyddoedd 1754—55—74—76—78; a mynegasant nad oedd gan *neb* hawl

i gaethiwodynion diniwed yn erbyn eu hewyllys. Y prif ddynion yma oeddynt John Waolman ac Anthony Benezet. Teithiodd Waolman gannoedd o filldroedd ar draed i ymddyddan â phlanwyr ac eraill yn erbyn y gwaith ofnadwy o ddal eu cyd-ddynion mewn caethiwed; a gwnai Benezet gasglu hysbysiaeth i'w chyhoeddi i'r byd am y gaethfasnach, gan oebithio trwy hynny dynu gwg y gwledydd yn erbyn y drafodaeth. Cyfododd eraill yn America i gondemnio yr erchyllwaith. Cawn fod James Pemberton, Crynwr, a Dr. Rush, Presbyteriad, ymlaenaf yn y gorchwyl teilwng. Gorfu i'r pwyllgor ohirio ei weithrediadau yn ystod y rhyfel Americanaidd, ond adymafodd yn y pwnc ar ol hynny; ac yn 1787, ymunodd Dr. Franklin â'r symudiad. Yn y pedwerydd dosbarth yr oedd Dr. Peckard, meistr coleg Magdalen, Caergrawnt. Cyhoeddasai bregeth yn erbyn y gaethfasnach. Pan yn is-ganghellwr, yn y fl. 1786, rhoddodd y testun arobryn canlynol allan,—“Ai ydyw yn iawn gwneyd caethion o eraill yn erbyn eu hewyllys?” Ennillodd T. Clarkson y wobr, a daeth yn offeryn yn llaw Rhagluniaeth i fod yn un o'r prif ddynion i eifeithio diddymiant caethfasnach mor belled ag yr oedd ein llywodraeth ni yn myned. Cafodd y fraint o fyw i weled *caethiwed* hefyd yn cael ei diddymu, pan dalodd llywodraeth Prydain ugain mil-iwn o bunnau yn 1833, fel digollediant i'r planwyr yn yr India Orllewinol.

Brodor o Wisbeach oedd Thomas Clarkson, mab i offeiriad; ganed ef yn Mawrth, 1760, bu farw yn Medi, 1846. Yn Lladin yr ysgrifonodd ei draethawd arobryn; ond annogwyd ef gan amryw gyfeillion i'w gyhoeddi yn Saesoneg. Hynny a wnaed, a chafodd dderbiniad mawr a dylanwad grymus. Yn 1786 y bu hyn. Dosbarthwyd copiau o hono i wŷr mawrion, a daeth ei gynnwysiad yn bwnc y dydd. Gwelai Mr. Clarkson ei alwedigaeth—fod Rhagluniaeth wedi ei gyfodi i wneyd gwaith mawr ar ran yr Affricaniaid truin. Nid heb ymdrech galed yr ymfwridded ese i'r gwaith. Ymunodd y “Cyfeillion” âg ef yn nosbarthiad y traethawd, a chyd-nabyddwyd ef fel cydweithiwr galluog. Yna ymroddodd Mr. Clarkson i'w gymhwysio ei hun i'w waith. Cafodd gyfeillach â phobl a fuont yn Affrica a'r India Orllewinol, a chasglodd ystorfa o wybodaeth ar wahanol bethau perthynol i amgylchiadau y caethion. Ymwelai â llongau ar yr afon Tafwys, fel y gallai wybod eu dull, eu maint, &c. Ai i doddŷ Llundain, fel y cai wybod beth oedd y nwyddau a ffurfient y fasnach, ac i gael nifer y morwyr a gollid yn flynyddol yn y drafodaeth, a phethau eraill anghenrheidiol eu gwybod er dwyn ymlaen yn fuddugoliaethus achos y Negroaid dyoddefus. Gohebai âg amryw ddynion yn Liverpool i'r un dyben; a gwahoddai aelodau y Senedd, ac eraill, i ymuno yn y gwaith da. Ymhlith y rhai mwyaf awyddus i gydweithio âg ef, yr oedd Mr. Wilberforce, aelod seneddol dros swydd Gaerefrog. Ganwyd ef yn Hull, Awst, 1759; masnachwr oedd ei dad. Pan nad oedd ond pedair ar ddeg oed, ysgrifonodd y bachgen William Wilberforce lythyr i newyddiadur yn Nghaerefrog yn condemnio y fasnach mewn enawd dynol. Yn 1776, aeth i Gaergrawnt. Etholwyd ef yn aelod dros Hull pan oedd yn un ar hugain oed. Yn 1784, etholwyd ef yn aelod dros Gaerefrog. Bu farw yn Gorphenaf, 1833, pan yr oedd yr ysgrif i ddileu caethiwed yn pasio trwy Dŷ y Cyffredin. Cymerodd y boneddwr hwn y drafferth o holi dynion yn ei dŷ ei hun ynghylch creulonderau honedig y gaethfasnach; apwyntiodd gyfarfod bob wythnos yn ei annedd o gyfeillion detholedig i ymgynghori ar y pwnc. Ymrwymodd ddwyn ysgrif i'r Senedd yn erfyn am diddymiant y gaeth-

fasnach, mor gynted ag y gallai ymbarotô i waith mor fawr. Yma y dechreuodd y mater gymeryd ffurf arbenig. Chwanegwyd amryw at y pwyllgor. Diddymiant y gaethfasnach Affricanaidd oedd amcan mawr y bobl dda hyn. Cyhoeddodd Mr. Clarkson "Olawg gynnwysfawr ar Gaethfasnach, ac o ganlyniadau tebygol ei diddymiant." Lledanwyd y llyfr dros y wlad. Yn y cyfanser, cymerodd yr awdwr daith trwy y gwledydd i gasglu cywrein- ion Affricanaidd, wedi eu gweithio gan frodorion duon. Cafodd hanesion môr- deithiau i ac o Affrica, y rhai a ddynoethent anghyfiawnder a chreulondeb y fasnach a wrthwynebai efe mor egniol. Casglodd offer poenydiant a arferid yn y gwaith o gosbi Negröaid, yn enwedig pan ddangosent gyndyn- rwydd i ymostwng i'r ddrwgdriniaeth a ddygasid arnynt gan y dynion gwynion. Cafodd holl hanes bron bob llong ag oedd yn y drafodaeth. Yn Liverpool, äi ymlaen ä'i ymchwiliadau; ond daeth yn berygl bywyd iddo aros yno o herwydd y lliad a ennynwyd yn ei erbyn gan gaethfasnach- wyr, cadbeniaid llongau, ac eraill yr oedd gobaith eu helw yn y fasnach. Cyhoeddodd y pwyllgor gerfiad tarawedig yn dangos Negro mewn cadwyn- au, yn cyfodi ei ddwyllaw tua'r nefoedd, yn crefu am drugaredd. Ddefro- wyd cydymdeimlad y wlad tuag y bobl dduon gorthrymedig. Yr oedd y teimlad hwn yn lled gyffredin yn y flwyddyn 1788. Erbyn hyn anfonnesid 35 o ddeisebau i'r Senedd yn erbyn y gaethfasnach. Yn nechreu y flwyddyn, caniatäodd y llywodraeth fod ymchwiliad i gael ei wneyd i'r mater; ond yr oedd yr ymchwiliad yn wrthdystiol. Er hyny, cynnyddai hysbysiaeth Mr. Clarkson, a chafodd ef a Mr. Wilberforce lawer o bleid- wyr yn gystal a gwrthwynebwyr. Yn mis Mai, cyrhaeddasai y deisebion i 103. Cyhoeddai y pwyllgor bob hysbysiaeth newydd ar yr hon y gellid ymddiried. Gofalent fod eu tir yn ddiogel wrth gamu yn araf rhagddynt. Yn awr siglid y Senedd gan bleidwyr y Negröaid. Mai yr 21ain, cynnygiodd Syr William Dolben ddyfod äg ysgrif i'r Tŷ i liniaru dyodd- efiadau y Negröaid ar y môr; pasiwyd hi, ar ol ei thynu trwy dân dadleu- aeth, Gorphenaf 12fed. O Orphenaf 1787 hyd Orphenaf 1788, darfu i bwyllgor y diddymiad ddosbarthu 51,432 o lyfrynuau a llyfrau, heblaw 25,526 o *reports* dadleuon yn y Senedd, &c.

Dydddefodd yr achos hwn lawer o anfri oddtwrth y geiriau a arferid gymaint yn eu cysylltiad ä'r chwyldröad Ffrengig, megys rhyddid, cydradd- oliaeth, hawliau dyn, &c. Pan wywodd gwallgofrwydd y chwyldröad i fesur, cynnyddodd y syniad cyhoeddus yn Mhrydain yn erbyn y gaethfasnach. Dygai Mr. Willberforce y cynnyg bob blwyddyn o flaen Tŷ y Cyffredin, a chollai ef mor fynych am lawer tymmor. Er cael ei faeddu ä'i siomi, ni ddigalonai er dim. Yn 1804, cariwyd ei gynnyg yn Nhŷ y Cyffredin, ond collwyd ef yn Nhŷ yr Arglwyddi. Bu cynnydd yr amser yma yn y nifer o gaethion a gludid mewn llongau Prydeinig, o herwydd cymeryd trefedig- aethau yr Isellmyn, a chynhyrfodd y wlad, ac ni oddefai oedaid yn hŷy. Diammheu i Mr. Clarkson wneyd ei ran i gyffroi y wlad i wir eiddgedd o blaid y Negröaid, ac yn erbyn eu gorthrymwyr; canys cawn ef yn 1788 yn myned ar daith i Gernyw, lle bu yn llwyddiannus i ffurfio pwyllgorau. Cyrhaeddai gohebiaeth y pwyllgor mor belled ä Gogledd America, ac at lywodraethwyr Hispaen, Portugal, Sweden, a Germany. Yn 1790 gwnaeth Clarkson daith o ddeuddeg cant o filldroedd mewn tair wythnos i grynhoi tystion, ä chafodd un ar bymtheg. Yn Chatham, Sheerness, &c., cafodd bedwar cant o dystion. Yn 1805, gwaharddwyd cludo caethion i'r trefedig-

aethau newydd a ennillasad oddiwrth y Dutch; y flwyddyn nesaf diddymwyd y gaethfasnach rhwng ein gwlad ni a pharthau tramor; ac yn 1807, cafwyd yr oruchafiaeth fawr. Derbyniodd yr ysgrif i LWRB DDIDDYMU Y GAETHFASNACH BRYDEINIG, y cydsyniad breninol ar y 25ain o Fawrth, 1807, ac yr oedd i ddyfod i weithrediad y 1af o Ionawr, 1808. Gwrandewid pedwar cynghor cyfreithiol yn erbyn yr ysgrif. Ond ar ol ugain mlynedd o lafur difin, gwelodd cyfeillion dynoliaeth a rhyddid fesur gogoneddus o lwyddiant, ie gymaint llwyddiant ag a ddymunasai eu calon mewn cysylltiad ag ysgrif y diddymiant, er i gaethiwed aros wedi hyny am flynyddau; ac er fod y gaethfasnach heddyw gynddrwg ag erioed, eto nid oes llaw gan Brydain ynddi, ond yn unig mewn ymdrech i berswadio gwledydd eraill i ddilyn ei siampl. Heblaw hyny, treulia ein llywodraeth yn flynyddol rai miliynau o bunnau i gadw gwib-longau ar ochr orllewinol môr Affrica i ddal caethlongau, ac i gludo y caethion rhyddedig i Freetown yn Sierra Leone.

Yn 1786, meddyliodd rhai boneddigion yn Lloegr y byddai Sierra Leone yn fan da i ffurfio trefedigaeth o Negröaid rhyddion a heidient y brifddinas ar y pryd. Mr. Wilberforce a'i fath oedd y rhai a ddychymygent haelioni yn y dull yma. Wedi ffurfio pwyllgor, a gwneyd parotöadau anghenrheidiol, anfonwyd tua phedwar cant o bobl dduon a grwydrent Lundain, a thriugain o bobl wynion, y nifer mwyaf yn fenywod anffodus, ac o iechyd gwael. Cadben Thomson o'r llynges freninol a'u cludodd. Gwddff afon Sierra Leone, yn Guinea, yn Ngorllewin Affrica, oedd y fan a ddehthesid i seilio y dref newydd. Cafwyd tuag ugain milldir o dir gan y brenin Tom, y penaeth lleol; a rhoddodd Naimbanna, brenin mwy, ei gydsyniad. Yn 1794 ffurfiwyd Cwmni Sierra Leone trwy ddeddf y Senedd. Yn fuan wedi glanio yno, sefydlwyd Freetown ar wddf afon Sierra Leone. Y bwriad oedd agor lle i gaethion rhyddedig ddilyn gorchwylion diwydrwydd, a mwynhâu holl freintiau dynion gwaraidd a christionogol. Llwyddwyd am beth amser i lanhâu y wlad am rai milldroedd o gwmpas, i drin y tir, i adeiladu anneddau, &c. Ond yn niwedd y fl. 1794, dinystriodd y Ffrancod y lle bron yn hollol; lladdwyd rhai o'r trigolion, a ffödd y lleill. Yr oedd creulondeb yr ymosodwyr yn myned mor bell ag i ladd yr asynod, ac hyd yn nôd y cwn a'r cathod. Yr hyn nid allent ei losgi a daflent i'r afon. Bu yr adfyfn y fawr iawn, a dwfn-deimlodd y pwyllgor yn Mrydain o herwydd anffawd tref a threfedigaeth eu lluniad a'u gofal. Cawsant nad oedd eu trysorfa yn ddiagon cref i adgyweirio y difrod a wnaethai y Ffrancod ar y lle, a'r canlyniad fu, trosglwyddo y drefedigaeth i ddwylaw y llywodraeth i gael ei llywodraethu yr un fath â'r trefedigaethau Prydeinig eraill.

Er fod y parth hwn o Orllewin Affrica wedi ei alw yn "fedd Ewropäid," y mae y drefedigaeth wedi llwyddo yn rhyfedd. Y mae yr hin erbyn hyn yn fwy iachus am fod y corsydd yn cael eu sychu, a'r bobl yn myned i mewn yn fwy i'r wlad; y mae cenadaethau cristonogol yn llwyddo yno; codir ysgolion i addysgu plant y Negröaid; a chawn fod gwelliant yn myned ymlaen yno tu hwnt i ddysgwyliad llawer o gyfeillion gwresocaf Affrica. Y mae yn nhref Freetown yn unig dair mil chwe' chant a phedwar ar bymtheg o aelodau eglwysig yn perthyn ddim ond i un gangen o eglwys Crist. Ac y mae yn Nhalaeth Sierra Leone, yn cynnwys Freetown, Wilberforce, Hastings, York, a rhai lleoedd eraill, chwe' mil pedwar can

a thriugain ac un o aslodau eglwysig yn perthyn i'r un enwad uchod. Y mae Freetown yn dderbynfia dynion duon a geir mewn caethlongau a gipir gan y chwil-longau Prydeinig. Y mae gobaith y parthau hyn o Affrica yn goleuo fwyfwy. Ymdaena dylanwad yr efengyl yno fel yr haul yn ei rym. Y mae breninoedd a phenaethiaid yn Ngorllewin Affrica yn cymeryd eu darbwylllo gan genadon a thrafnoddwyr i roddi heibio hela a gwerthu dynion, a throi i wneyd masnach gyfreithlawn âg Ewropëaid. Mae brenin Dahomi yn awyddus, dybygid, am fyw mewn ammodau cyfeillgar â'r frenines Victoria; ac y mae wedi anfon am genadwr enwog o Freetown, ac am y *British Consul*, i ymgynghori â hwy yn ynghylch *diddymu* y gaethfasnach yn ei deyrnas! Y mae dyddiau y fasnach annynol wedi eu rhifo, a gwelwn draw yr amser pan y gwna y Gwaredwr dori iau pob gorthrymwr; "canys efe a wared yr anghenog pan waeddo: y truan hefyd, a'r hwn ni byddo cynnorthwyr iddo." Yna daw cyflawniaid gogoneddusaf o'r adnod, "Lle nid oes na Groegwr nac Iudew; enwaediad na dienwaediad, Barbariaid na Seythiad, *caeth na rhydd*: ond Crist sydd bob peth, ac ymhob peth."

YR ENAID YN CAEL GORPHWYSDRA YN NGHRIST.

Matth. xi. 25—30.

MAE cysylltiadau y rhan hon o'r Ysgrythyr braidd yn aneglur. Mae yn cynnwys dau baragraph, pob un yn cynnwys tair adnod. Mae cysylltiad y tair adnod cyntaf â'r adnodau blaenorol yn anamlwg; felly hefyd y mae perthynas y paragraph olaf a'r cyntaf. Ond iawn ddealltwriaeth o un gair ymhob paragraph a ddengys y cysylltiad yn amlwg. Yn y tair adnod cyntaf y gair "atebodd" ydyw hwnw; yn y tair adnod olaf y gair "deuwch" ydyw. Mae perthynas y paragraph cyntaf â'r adnodau blaenorol yn ymddibynu ar ystyr y gair "atebodd"—"yr amser hwnw yr *atebodd* yr Iesu ac y dywedodd, &c." Dylid sylwi nad oes yr un gofyniad yn blaenori yr ateb hwn—fel hyn y mae'r geiriau yn darllen: "Yn wir, meddaf i chwi, bydd esmwythach i dir Sodom yn nydd y farn nag i ti"—nag i Capernaum. "A'r amser hwnw yr atebodd yr Iesu ac y dywedodd, I ti yr ydwyf yn diolch, O Dad." Pa reswm, gan hyny, sydd mewn ateb heb fod rhyw *gwestiwn* yn ei flaenori? Fel hyn, dybygid, y mae dangos y meddwl: mae y gair *ateb* yn y fan hon, fel mewn amryw fanau eraill yn yr Eifengylan, yn dal perthynas â rhywbeth oedd yn pasio yn *meddwl* y llefarwr neu y gwrandawr ar y pryd, naill ai â rhyw *gwestiwn* tybiedig na ofsynwyd o herwydd anghyfleusdra, neu ynte â rhyw ofyniad a allasai gyfodi oddiwrth sylwadau blaenorol. Mae yr Arglwydd Iesu wedi bod yn yr adnodau blaenorol yn dangos fod Duw yn rhoddi mwy o fanteision—mwy:

o freintiau—i rai dinasoedd a gwledydd na'u gilydd, ac felly yn mwyhau cyfrifoldeb y dinasoedd a'r gwledydd hyny. Wel, oddiwrth y syniad yna gallasai yn hawdd ryw wrthddadleuon gyfodi yn meddyliau y gwrandawyr: Pahan yr oedd Duw yn rhoddi mwy o fanteision i rai dinasoedd na'u gilydd—pahan yr oedd yn gwneyd cyfrifoldeb rhai gwledydd yn fwy nag eraill? Ac i'r gwrthddadleuon tybiedig yna, dybygid, y mae yr Arglwydd Iesu yn ateb, pan ar yr un pryd y mae yn mawrygu ei Dad am ei Benarglwyddiaeth. Fel pe dywedasai, "Os gofynir am ryw reswm dros yr ymddygiadau a nodwyd o siddo Duw, yr unig ateb ellir roddi yw fod Duw yn Benarglwydd." "Felly y rhyngodd bodd iddo." Fel yna, mae yr ystyr manwl yna i'r gair *ateb* yn y fan hon yn dangos yn eglur gysylltiad yr adnodau hyn â'r adnodau blaenorol.

Mae perthynas y tair adnod olaf eto â'r paragraph cyntaf yn ymddibynu ar y gair "Deuwch"—"Deuwch ataf fi, bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog." &c. Mae y gair a ddarllenir "deuwch" yma yn cael ei wneyd i fyny o ddau air, ac yn ei ddull cyfansawdd, mae iddo ddau ystyr gwanol. Weithiau y mae yn golygu galwad disymwth, annysgwyliadwy; pryd y mae yn dynodi cynghor, neu wahoddiad, fel casgliad oddiwrth sylwadau blaenorol; a'r pryd hwnw bob amser dylai gael ei ddarllen "Deuwch gan hyny, deuwch o ganlyniad." Dyna y golygiad yn y fan hon. Ryw-fodd fel hyn, gellid meddwl, y mae yr Arglwydd Iesu yn ymresymu: "Os ydyw wedi rhyngu bodd i'r Tad guddio pethau teyrnas nefoedd oddiwrth y doethion a'r deallus, a'u dadguddio i rai bychain, fy nghanlynwyr i—os yw y Tad wedi rhoddi pob peth i mi—os nad edwyn neb y Mab ond y Tad—ac os nad edwyn neb y Tad ond y Mab, a'r hwn yr ewyllysio y Mab ei ddadguddio iddo—gan mai fel yna y mae pethau yn bod, "Deuwch, gan hyny—deuwch o ganlyniad—ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, oblegid nid oes neb fedr esmwythau arnoch ond myfi." Yr un fath â phe dywedasai, "Mae y berthynas bersonol a nodais, sydd rhyngof fi a'm Tad—mae fy swydd fel Cyfryngwr yn dadguddio y Tad i'r byd—ac y mae fy sefyllfa fel sylfaenydd teyrnas yr efengyl yn fy ngalluogi i roddi gorphwysdra i'ch eneidiau—dim ond i chwi gymeryd fy iau arnoch, a dysgu genyf—bod yn ddysgyblion i mi—mabwysiadu fy nghrefydd i, chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau; canys addfwyn ydwyf fi a gostyngedig o galon, ac y mae fy iau yn esmwyth a'm baich yn ysgafu."

Canolbwynt yr holl ymadroddion hyn ydyw yr ymadrodd, "Chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau." Mae y lleill i gyd yn cynnwys profion a sylfeini y syniad cynnwysedig yn yr un ymadrodd yna. Dangosiad yw yr holl ymadroddion hyn o ddigonolrwydd—o alluogrwydd Crist i weini gorphwysdra i'r enaid; dangosiad ydynt fod y ddynoliaeth wedi syrthio i'r fath sefyllfa o anesmwythdra ac anhawelwch, fel nad oes neb fedr esmwythau arni ond Iesu Crist ei hunan. Dyna yw amcan mawr pob cyfundrefn grefyddol sydd yn y byd—pob *system* o grefydd sydd wedi ei dyfeisio, cael allan orphwysdra i'r enaid. Mae sylfaenydd pob crefydd, dyfeisiwr pob *system*, wedi deall hyny yn dda. Byddai unrhyw ancan is yn annheilwng o grefydd o gwbl. Ond y mae pob trefniant wedi troi allan yn fethiant hollol, oddieithr trefniant y Prynedigaeth yn unig. Pe gwnai dyn gadw rheolau pob trefn arall i'r manylwch mwyaf, a dwyn allan eu hegwyddorion i'r perffeithrwydd eithaf, byddai rhyw anesmwythdra yn lletya yn yr enaid wedi y cyfan. Nid oes neb ond sylfaenydd Cristionogaeth—neb ond Awdwr Iachawdwriaeth, a fedr esmwythau arno.

Ac y mae gan y cristion "dystiolaeth ynddo ei hun" o ddigonolrwydd Crist yn ei drefn i weini gorphwysdra i'r enaid. Gall yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw ddyweyd, Yr wyf yn *teimlo* Cristionogaeth yn Ddwylol—yr wyf yn *teimlo* yr iachawdwriaeth yn ddigonol i esmwythâu arnaf; ac nis gall neb byth droi yn ol y rheswm yna o eiddo y cristion o blaid Crist a'i drefn. Mae gan y cristion feddiant *presennol* o'r orphwysfa a addewir: nid rhywbeth eto i ddyfod yn unig yw; ond y mae yn *awr* mewn mwynhâd: "Yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn *myned* i mewn i'w orphwysfa ef"—nid "ni a awn i mewn"—ond "yr ydym yn *myned*—yr ydym yn awr mewn meddiant o hōni. A thrachefn, "Yr hwn a *aeth* i mewn i'w orphwysfa ef, hwn hefyd a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau." Yn y fan yna mae y credadyn *wedi myned* i mewn—wedi cael meddiant o'r orphwysfa, er ei fod eto yn y byd hwn; oblegid y mae wedi gorphwys oddiwrth ei weithredoedd ei hun. Dyma yr unig rwystr sydd rhwng pawb â chael gorphwysdra i'w heneidiau, ydyw gorphwys oddiwrth eu gweithredoedd eu hunain; hyny yw, rhoddi i fyny eu trefn eu hunain o gyrhaedd dedwyddwch, a derbyn trefn Duw. Y sawl a orphwysant felly oddiwrth eu gweithredoedd eu hunain, ac a weithredant weithredoedd Duw, i'r cyfryw mae yr Arglwydd Iesu yn addaw, gan ddywedyd, "Chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau." "Canys hyn yw gwaith Duw, gredu o honon. yn yr hwn a anfonodd efe, Iesu Grist." Ynddo ef yn unig y mae yr enaid yn cael gorphwysdra.

Mae yn yr enaid gynneddf feddylol—cynneddf sydd yn dirnad, yn amgyffred, yn barnu, yn rhesymu, yn *meddwl*. Ac y mae y gynneddf hon, yn ei holl ymchwiliadau mwyaf pwysig, yn cael ei chylchynu gan lawer o ammhauaeth, a phryder, a therfysg, a dyryswh. Nis gall y deall ofyn, "Pa fodd," na'r rheswm ofyn, "Paham," gyda golwg ar unrhyw bwnc o bwys, heb fod cryn lawer o bryder a dyryswhc meddwl mewn cysylltiad â hyny. Mae pob dyn meddylgar ac ymchwilgar yn brofiadol o'r fath ansawdd meddwl anesmwyth. Ac y mae yn amhosibl i'r meddwl yn yr agweddu yna arno gael gorphwysdra ond yn y grediniaeth fod Duw yn bod, a'i fod yr hyn yw, ac mewn ymddiried ynddo fel y cyfryw. Mae hyn ryw-fodd yn *ddeddf* yn y ddynoliaeth. Nid yw yn beth y gellir ymresymu nemawr arno, ond anghenrheidrwydd yw sydd yn cyfodi oddiar gyfansoddiad yr enaid. Mewn canlyniad i ddeddfau cyfansoddiad y meddwl dynol, ynghydag egwyddorion y llywodraeth Ddwylol, y mae pob peth braidd y fath ddirgeledigaethau ag y bydd y meddwl yn ymddyrsu ac yn ymdersysgu yn yr ymchwiliad o honynt byth, nes y daw yn ol at y grediniaeth o fôd a pherffeithiau Duw, ac nes y daw i ymddiried pob *dirgelwch* iddo ef. Nes dyfod i'r ansawdd yma, bydd fel llong ar y cefnfor diderfyn heb lywydd, heb lyw, heb gwmpawd.

Onid dyna y pwynt yr oeddym yn tynu ato y ffordd yna,—nid oes yr un olwg ar Dduw a ddwg y meddwl i'r ansawdd grediniol ac ymddiriedol a nodwyd ond golwg arno yn Nghrist. Er fod yn y dyn, yn gyfansoddiadol, ryw ymwybyddiaeth o Dduw, eto, ni wna gredu ac ymddiried yn unol â'r ymwybyddiaeth hono nes y caiff weled Duw fel y mae yr uniganedig Fab wedi ei hysbysu. Mae yn rhaid iddo, yn gyntaf oll, gael adnabod Duw, fel y mae yn "llawn gras a gwirionedd" yn y Cyfryngwr; yna fe fydd yn dda ganddo fod Duw yn bod. Tra mae y meddwl yn amddifad o adnabyddiaeth o Dduw yn Nghrist, mae yn amddifad o'r wybodaeth hono sydd

i lywodraethu ynddo ar bob gwybodaeth arall—mae yn amddifad o'r syniad hwnw sydd i iawn drefnu ac iawn gyfeirio pob syniad arall ynddo. Tra yn yr amddifadrwydd hwn, rhyw ymryson parhâus—rhyw ryfel gwas-tadol, ydyw ynddo, rhwng gwahanol syniadau—rhwng gwahanol wybodaethau. Ond pan y mae gwybodaeth o Dduw yn Nghrist yn dyfod i mewn i'r enaid, mae y brenin yn eistedd ar ei orsedd, a'r deyrnwialen yn ei law, yn estyn ei awdurdod dros yr holl enaid, ac yn creû tawelwch a gorphwysdra ynddo. Y wybodaeth hon ydyw y canolbwynt, ar ba un y mae cyfeiriad pob gwybodaeth arall yn ymddibynu—dyma gysondeb pob syniad am Dduw—dyma y penconglfaen, sydd yn uno yr holl adeilad—dyma y gareg glo, sydd yn clymu yr holl feini mewn cadernid—dyma yr haul, ond iddo gael llewyrchu yn nghanol yr enaid, fe geidw bob gwybodaeth arall i gylchdroi o'i gwmpas gyda y rheoleidd-dra mwyaf. Yn Nghrist, gan hyny, y mae yr enaid yn ei alluoedd meddyliol—y meddwl, yn ei ymchwil-iadau, ei amheuaeth, a'i bryder, yn cael gorphwysdra.

Eilwaith. Un o brif neillduolion yr enaid dynol yw y *syniad o uniondeb* sydd ynddo. Mae ynddo syniad o'r cywir a'r anghywir mewn ystyr foesol—mae ynddo ymdeimlad sydd yn cymeradwyo y da, ac yn anghymeradwyo y drwg—sydd yn cyfiawnhâu y sanctaidd ac yn condemnio y pechadurus Mae *cydwybod* mewn dyn. Ond y mae yr un enaid ag sydd yn feddiannol ar y cymhwysder yna wedi myned yn llygreddig; ac wrth reswm, os oes syniad o uniondeb a llygreddigaeth yn yr un enaid, mae ynddo wrthdarawiad—mae ynddo ryfel—mae ynddo derfysg. Wel, mae yn anmhosibl i'r enaid yn y fath sefyllfa gael gorphwysdra, nes cael, yn un peth, gynllun o *foesoldeb* digon pur a digoll i foddloni y syniad o uniondeb sydd ynddo. Ac yn ofer y chwilir am y fath gynllun yn un man, ond yn nghrefydd a dysgeidiaeth Iesu Grist. Rhyw *ddarn* o beth yw pob cyfundrefn arall. Ceir darn pur lew o foesoldeb yn y *system* hon, a darn pur lew niw y trefniant acw; ond ni cheir perffeithrwydd—ni cheir cysondeb, yn un man oddieithr mewn Cristionogaeth yn unig. Dyna yw neillduolrwydd Cristionogaeth, a'i hystyried yn ymarferol, ei bod yn bur a digoll, yn berffaith ac yn gyson, yn ei mhoesoldeb. Dyna pa fodd y mae iau Crist yn esmwyth, a'i faich yn ysgafn, am eu bod yn unol â'r syniad o uniondeb sydd yn yr enaid; dyna pa fodd nad yw gorchymynion Duw yn drymion, am eu bod yn gyson â gofynion y gydwybod; dyna pa fodd y mae ffordd y troseddwr yn galed, am ei bod yn groes i'r gofynion hyny. Nid oes dim yn wir esmwyth—yn wir ysgafn i'r enaid, ond yr hyn sydd yn ddigon pur a digoll i foddloni yr ymdeimlad hwnw ynddo sydd yn cyfiawnhâu y sanctaidd, ac yn condemnio y pechadurus.

Ond, mewn canlyniad i'r gwrthdarawiad sydd yn yr enaid rhwng cydwybod a llygredd, mae ynddo *deimlad o euogrwydd*. Ac nid yw o un gwahaniaeth pa mor berffaith a chyson y byddo y *moesoldeb* a gynnigir iddo, ni chaiff orphwysdra nes symud ymaith y teimlad o euogrwydd sydd ynddo. Mae yn ddigon i'r anifail fod gwrthddrychau cymhwys ar ei gyfer; mae yn gallu eu mwynhâu, ac y mae y mwynhâd hwnw yn ei wneyd yn ddedwydd. Mae yn ddigon i synwrau y corff fod gwrthddrychau cyfaddas iddynt oddi-allan; maent yn gallu eu gwerthfawrogi, ac y mae hyny yn eu gwneyd yn gysurus. Ond nid yw yn ddigon i'r enaid fod Duw yn wrthddrych cymhwys iddo: ni fedr fwynhâu Duw tra y mae y teimlad o euogrwydd yn aros ynddo. Nid yw yn ddigon i'r enaid fod Cristionogaeth o ran ei moesoldeb

yn bur a digoll, yn berffaith ac yn gyson; nis gall ei gwerthfawrogi fel y cyfryw, nes dilu y teimlad o euogrwydd sydd ynddo. Y cwestiwn, gan hyny yw, pa le y caiff yr enaid orphwysdra yn ngwyneb y teimlad yna? Pa le y caiff dawelwch yn ngwyneb euogrwydd cydwybod? Wel, dyma yr unig fan—yn Nghrist a'i groes—yn yr *iawn* hwnw sydd yn gosod Cristionogaeth yn anfeidrol ry uchel i'w chymharu â'r un grefydd arall. Nid oes yr un gallu mewn bod ond gallu croes ein Harglwydd Iesu Grist a fedr ddilên teimlad o euogrwydd. Gan Fab y dyn yn unig y mae awdurdod i faddeu pechodau; ei waed Ef sydd yn gwneyd cymmod dros yr enaid; ei waed Ef sydd yn puro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon; ei waed Ef sydd yn glanhâu oddiwrth bob pechod. Gan nad pa foddion a ddefnyddir i dawelu yr enaid yn ngwyneb teimlad o euogrwydd, ni fydd ynddo ddim tawelwch nes ei dawelu â gwaed y groes. Ni bydd dim heddwch i'r gydwybod nes ei heddychu yn ngwyneb iawn y Cyfryngwr. Heb hyny, créu ystormydd yn dragywyddol a wna hi. Mae yn rhaid i'r gydwybod gael gwaed, neu hi a drocha ei dwylaw yn ngwaed ei pherchenog. Ond os gwnawn droi ein golwg at Grist a'i groes, cawn deimlo baich yr euogrwydd yn treiglo ymaith, ac fe'i cleddir byth "yn y beddrod dan y pren." "Anobaith, dy sifnfaith bla, gilgwthir wrth Golgotha." "Ceï dastu'th faich i lawr i gyd, wrth gosio dwyfol loes; euogrwydd fel mynyddau'r byd, dry'n ganu wrth y groes." Dyma'r fan am orphwysdra i'r gydwybod.

Drachefn. Gallu mwyaf dylanwadol yr enaid yw ei *allu serchiadol*; y gallu hwnw sydd ynddo yn caru ac yn casáu—sydd yn ymhyfrydu ac yn ymwrthod. Mae y gallu hwn yn ei weithrediadau y mwyaf dylanwadol ar sefyllfa yr enaid gyda golwg ar ei dawelwch a'i esmwythdra. Mae y serchiadau, yn eu herlyniadau ar ol gwrthdychau, ac mewn canlyniad i'r siomedigaethau maent yn eu cael ynddynt, yn créu rhyw lawer o derfysg ac anesmwythdra yn yr enaid. Y gwirionedd yw, mae rhyw anhawelwch gwastadol yn y serchiadau dynol yn y mwynhâd o bob gwrthddrych tu yma i Dduw yn Nghrist. Yr oedd yr anesmwythdra yma yn y serchiadau trwy yr holl oesoedd gynt yn un o'r prophwydoliaethau sicraf am ddyfodiad Duw yn y cnawd. Yr oedd gan yr Arglwydd ryw liaws o brophwydi ymblyth ei genedl etholedig, yn rhagfynegi dyfodiad y Messiah; ond dyma brophwydoliaeth oedd gan y pagan yn gystal a'r Iuddew—yr anhawelwch oesol oedd yn y serchiadau dynol er pob peth a gynnygid i'w tawelu. Duw a osododd y teimlad hwn yn yr enaid, ac nid oedd tawelu i fod arno nes cael yr un Duw i blith dynion. Nid oedd Duw ynddo ei hun yn ddigonol i attynu a boddloni y serchiadau dynol; yr oedd yn rhaid cael Duw yn *natur dyn* cyn gwneyd hyny. A llais i'r brophwydoliaeth a nodwyd oedd Ioan Fedyddiwr—llefaru dros y teimladau anesmwyth yn y serchiadau a'r syniadau oedd yn cyfodi oddiarnynt, yr oedd rhagredegrw Iesu Grist. Dyna, dybygid, yw meddwl yr adnod hono: "Yr hwn sydd o'r ddaear sydd o'r ddaear, ac am bethau y ddaear y mae yn llefaru; ond yr hwn sydd o'r nef sydd goruwch pawb oll;" hyny yw, Ioan, o'r ddaear y mae, o blith dynion, dyn ydyw; ac am bethau y ddaear y mae yn llefaru, am y teimladau a'r syniadau anesmwyth, terfysglyd, sydd wedi bod ar y ddaear, yn yr enaid dynol, trwy yr oesoedd, yn dangos nad oes tawelu i fod arno nes cael yr hwn sydd o'r nef goruwch pawb, i undeb â'r natur ddynol.

A dyma y rheswm mawr fod moesoldeb yr Iuddew yn cael ei oddef i fod

yn is na moesoldeb y crïstion wedi hyny. Mae Iesu Grist yn ei ddysg-eidiaeth, wrth sylfaenu Crïstionogaeth, yn codi safon moesoldeb raddau lawer yn uwch nag yr oedd o'r blaen, yn enwedig yn llywodraeth ysbrydol y meddwl a'r galon. Mae efe yn ysbrydoli "Na ladd," i "Na ddigia;" "Na wna odineb," i "Na chwennycha;" "Na thwng anudon," i "Na thwng ddim;" "Na thelwch ddrwg am ddrwg," i "Na wrthwynebwech ddrwg," &c. Beth yw y rheswm, gan hyny, ei fod yn gosod safon moesoldeb gymaint o raddau yn uwch nag oedd o'r blaen? Dyma y rheswm: yn awr, ar sylfaeniad goruchwyliaeth yr efengyl, yr oedd Duw yn ymwisgo yn y ffurf briodol i ennill a boddloni y serchiadau dynol. Cyn hyn, nid oedd dim yn cael ei osod o'u blaen yn gymhelliaid ond Duw yn nigymysgedd ofnadwy ei hanfod; ond yn awr, dyma Emanuel—Duw gyda ni; yn awr, dyma Dduw yn rhodio ein daear ni yn addfwyn a gostyngedig o galon; yn awr, y mae dyn yn cael ei dynu â rheffynau dynol; yn awr, y mae y serchiadau yn cael eu hattynu gan, ac yn ymdawelu yn y Duwdod yn y dyn, ac felly maent yn alluog i gydymffurfio â rheolau moesoldeb mwy pur.

Felly y mae yn parhâu. Iesu Grist sydd heddyw yn unig wrthddrych priodol a digonol y serchiadau dynol. Er ei fod wedi ymadael a'n byd ni, a'i fod yn awr yn anweledig yn ngororau tragywyddoldeb, eto, nid yw wïw i ni wynfydu mewn neb ond efe. Duw yn natur dyn sydd heddyw yn gwneyd hawliau y pethau sydd yn y nefoedd yn uwch ar ein serchiadau na'r pethau sydd ar y ddaear. "Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, ac nid ar bethau sydd ar y ddaear." Beth yw y rheswm am hyny? "Lle mae *Crist* yn eistedd ar ddeheulaw Duw." Efe sydd yn gosod gwerth ar bethau y nefoedd ei hunan, i ni. Fe chwiliai y serchiadau dynol yn ofer am orphwysdra hyd yn nôd yn y nefoedd oni bae fod Iesu Grist yno. Iê, mwy na hyny, efe ydyw gwrthddrych ymhyfrydiad angelion yn gystal a dynion byth mwy. Nid yw wïw i'r angel yn y nefoedd ddiogio wrth y dyn, oblegid os tyn ef ymaith oddiwrt y dyn, fe dyn ymaith oddiwrt ffynnon-ell dedwyddwch—y Duw-ddyn ydyw ffynnonell dedwyddwch, ydyw canol-bwynt ymhyfrydiad angelion yn gystal a dynion byth mwyach.

Mae yn gryn lawer o orphwysdra i'r serch gael ymsefydlu ar un gwrth-ddrych. Os bydd y dyn yn gosod ei serch ar amryw wrthddrychau yr un pryd, mae yn creû rhyw lawer o anesmwythdra-afreidiol yn ei galon. Mae ymsefydlu ar un gwrthddrych yn llawer o dawelwch i'r serchiadau. Ond er ymsefydlu ar un, ni chânt berffaith ddedwyddwch, os na fydd pob perffeithder yn cydgyfarfod yn yr un hwnw. Ond dyma fan, yn Nghrist, lle caiff y serch ymsefydlu ar un, a'r un hwnw yn fôd o anfeidrol berffeithiau—pob perffeithder yn cydgyfarfod ynddo. Cariad at Dduw yn Nghrist yn unig a gaiff ei foddloni. Mae pob cariad arall yn dyfod o hyd i'w derfynau yn ei wrthddrych; ond y cariad sydd ganddo Dduw yn Nghrist yn wrthddrych, yn ofer y chwilia efe am derfynau, canys nid oes derfynau iddo;

"Llon'd y nefoedd, llon'd y byd,
Llon'd uffern hefyd yw;
Llon'd tragwyddoldeb maith ei hyd,
Diderfyn ydyw Duw."

Nid yw wïw i ni roddi ein hunain yn gyfangwbl i unrhyw wrthddrych meidrol, terfynol; oblegid nis gall ein had-dalu am aberthu ein hunain. Os gwnawn roddi ein serch yn hollol ar un gwrthddrych meidrol, yr ydym yn sicr o gael

colled. Yr ydym ni ein hunain yn fwy o werth i ni ein hunain nag yw un gwrthddrych terfynol arall i ni. Ond gallwn roddi ein hunain yn gyfangwbl i Grist—gallwn roddi ein serch yn hollol arno ef—gallwn dafu ein hunain heb un darneliad i Grist; ni chollwn ni ddim wrth aberthu ein hun iddo ef; ie, ni a ennillwn wrth hyny gymaint ag yw “cyflawnder y Duw-dod.” Dyma y fan—yr unig fan—am orphwysdra i'r serchiadau.

Unwaith eto. Mae cymhwysder o *deimladrwydd* yn perthyn i'r enaid; a phan byddo ymosodiadau yn dyfod i gyffyrddiad â theimladaeth yr enaid, maent yn cynnyrchu rhyw lawer o derfysg ac anesmwythdra ynddo; ie, y fath derfysg, y fath anesmwythdra, nad oes dawelwch oddiwrthynt ond yn Iesu Grist. Mae yr ofnau sydd yn ymosod ar y rhan deimladol o'r enaid y fath nad oes gwaredigaeth oddiwrthynt ond trwy i ni droi ein golwg at y Gwaredwr Dwyfol. Yr un fath â'r dyn a'i gysgod: mae'r cysgod yn dilyn y dyn i bob man; eled ffordd yr elo, ei gysgod wêl ef; eled mor gyflym ag y myno, ei gysgod a wêl; ni chaiff waredigaeth oddiwrtho fel yna. Ond trôed ei olwg at yr haul, ac ni wêl ei gysgod mwyach. Felly mae yr enaid a'i ofnau. Ei gysgod ef ydynt. Eled ffordd yr elo, ei ofnau wêl ef; eled mor gyflym ag y myno ar dir moesoldeb a rhinwedd, ei ofnau a wêl; ni chaiff waredigaeth oddiwrthynt y ffordd yna. Ond unwaith y try ei olwg at Haul y cyflawnder, ni wêl ei ofnau mwyach. Mae dysgleirdeb yr Haul hwnw y fath fel na fedr ofn ddal yn ei wydd; mae gogoniant y Cyfryngwr gymaint fel y mae pob ofn yn diflanu o'r golwg.

Mae cymylau amhweuaeth ac ystormydd anobaith yn aml yn cylchynu yr enaid, ac nid oes orphwysdra oddiwrthynt ond trwy gymdeithasu âg Iesu Grist. Yn y rhan isaf o'r awyrgylch sydd o gwmpas y ddaear, y mae cymylau, a tharanau, a thymhestloedd; yma y mae yr elfenau sydd yn eu cynnyrchu. Rhyw filldroedd i'r lân, yn yr un awyrgylch, mae yn glir ac yn dawel yn wastadol. Felly, yn yr awyrgylch drom, isel, sydd o gwmpas yr enaid, y mae y cymylau, a'r taranau, a'r tymhestloedd; yna y mae yr elfenau sydd yn eu cynnyrchu. Lle y mae Crist yn eistedd, mae yn glir, yn dawel, yn ddigwmwl tragwyddol. Ond i ninnau gymdeithasu âg ef, ac â'r wlad y mae yn byw ynddi, ni chawn weled yr un cwmwl mwy, ni chawn glywed yr un daran mwy, ni chawn deimlo oddiwrth yr un ystorm mwy; ni a gawn orphwysdra yn nghanol tymhestloedd.

Mae gelynyon luoedd yn ymosod ar yr enaid; ac y mae yn aml ymron llwfrhâu a rhoddi i fyny wrth weled grym a lliosogrwydd ei elynion. Ond dyma y fan am orphwysdra: ymddiried yn ngallu a doethineb y Ceidwad; ymddiried yn medrusrwydd Cadben Iachawdwriaeth. Clywsom am gadfridog rywdro a sylwai ar un o'r milwyr yn dadgan ei deimladau gwan a digalon, gan ddywedyd, “Dyna ein *General* ni, a dyn dewr iawn ydyw; ond y mae wedi ein dinystrio y tro hwn: mae yn anmbosibl i ni fyned o'r fan yma heb ymladd â'r gelynyon, ac nid ydym ond dyrnaid bach i wynebu y fath nifer; nid oes dim ond dinystr o'n blaen.” “Ah!” ebe y Cadfridog wrth ei glywed, “ar gyfer faint o'r gelynyon wyt ti yn gosod y *General*? Os yw ein byddin yn fach i wynebu y fath lliosogrwydd, ar gyfer faint o honynt wyt ti yn gosod y Cadlywydd sydd wedi cyflawni cymaint o orchestion ar faes y gwaed?” Felly, ddarllenwydd, y gelli ofyn i'th enaid: os wyt yn mron llwfrhâu a rhoddi i fyny wrth weled grym a lliosogrwydd dy elynion ysbrydol, ar gyfer faint o honynt wyt ti yn gosod dy *Dywysog*—y Cadlywydd Dwyfol hwnw a orchfygodd y byd, a lyncodd angen mewn buddugoliaeth,

ac a goncweriodd holl alluoedd y tywyllwch? Ymddiried yn ei allu a'i ddoethineb Ef, a thi elli fod yn dawel yn nghanol y gelynyon; mae y fuddugoliaeth yn sicr.

Wel, ddarlleneydd, dichon mai yn nghanol terfysgoedd yr wyt yn byw. Trwy lawer o orthrymderau yr wyt yn ymwithio i deyrnas nefoedd. Mae dy daith trwy amser i anfarwoldeb ar hyd môr tônog y byd. Ond bydd dawel yn nghanol y tonau; mae yr Iesu yn dywedyd, "Nac ofna, myfi yw." Medr ef ostegu y gwynt a'r môr; medr dy ddwyn trwy yr holl beryglon i dir diogelwch; a dyma ei iaith wrthyt yn y tonau, "Nac ofna, myfi yw." Ac nid oes achos i ti ofni os wyt mewn undeb â Christ. Mae yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw wedi cael gafael yn y man hwnw y canodd Ann Griffiths am dano, "Dyma fan yn *ymyl* Duwdod," &c. Iê, ni ddywedodd yr emynes ddim digon, er iddi ddyweyd llawer; nid "man yn *ymyl* Duwdod" yw noddfa y crïstion, ond man *yn* y Duwdod yw: "Eich bywyd a guddiwyd gyda Christ *yn* Nuw." Mae mor ddiogel a Duw ei hun. Mae yn rhaid astonyddu tawelwch y Duwdod cyn y gellir cythryblu gorphwysfa y crïstion mwy.

Dyma y fan, wrth derfynu, hynaws ddarlleneydd, y dymunem grynhoi holl bwys y sylwadau hyn arno—dy berswadio i ddyfod at Grist—i wrando ar alwad dyner y Gwardwr, pan y dywed, "Deuwch ataf fi bawb," &c. Ai nid wyt yn teimlo fod pwys annhraethol—pwys tragywyddol—yn yr ystyr-iaethau sydd wedi bod dan ein sylw? Yn Nghrist y mae y meddwl yn ei ymchwiliadau a'i bryder yn cael tawelwch; ynddo ef mae y gydwybod, yn ei gofnyion a'i chyhuddiadau, yn cael ei heddychu; ynddo ef y mae y serchiadau yn cael eu boddloni; ynddo ef y mae holl deimladau anesmwyth a therfysglyd yr enaid yn cael gorphwysdra. Os heb Grist, ni chai orphwysdra na dydd na nos—bydd mwg dy boenedigaeth yn esgyn i fyny yn oes oesoedd; ond yn Nghrist cei orphwys yn nghanol môr o ryfeddodau tragywyddol. Y pwnc, gan hyny yw, cael y ffydd hono sydd yn gwneyd Crist yn feddiant tumewdol a thragywyddol i'r enaid—sydd yn gwneyd egwyddorion yr efengyl yn elfenau cymeriad dyn. Paid ymfoddloni nes cael tystiolaeth ynot dy hun fod "Crist ynot yn obaith y gogoniant."

DYFALBARHAD Y Ffordd I Lwyddiant.

DYWEDODD un gŵr enwog,—“Yr wyf yn dra sicr y gall gŵr ieuanc fod yr hyn yr ewyllysia.” Er fod y frawddeg yma yn myned ymhell ac yn hongar, tybiwn y byddai yn anhawdd i neb brofi fod ynddi ormodiaeth. Crëadur galluog yw dyn. Nis gellir mesur ei gyrhaeddiadau, na dirnad y gorchestion a fedr gyflawni, *os myn*. Nid wrth eistedd yn segur; nid wrth gysgu a breuddwydio; nid wrth chwareu a chwerthin, y medr un dyn gyrhaedd enwogrwydd, rhagori ar ei gymydogion, ac ennill sylw a gwarogaeth gwlad ac oes. Na, rhaid iddo weithio; rhaid iddo ymorchestu; rhaid

iddo ymeginio gydag amynedd a dyfalwch. Ar y tir hwnw yn unig y gall ddysgwyl rhagoriaeth a llwyddiant.

Y mae y Crëawdwr mawr wedi gwneyd pob crëadur at waith. Ni wnaeth ddim i fod yn segur. Golygfa anhapus yw edrych ar unrhyw beth yn segur; dyn segur, tŷ segur, peiriant segur. Ac y mae pobpeth mewn gwaith ac yn llawn bywyd yn olygfa adfywiol a chynhyrfus.

Crëadur at waith yw dyn; rhaid iddo weithio i allu byw. Rhaid iddo weithio ei ffordd trwy bob cyfnod o'i oes trwy lafur ac ymdrech. Y mae dyn yn fwy o grëadur ymdrechiau nag un crëadur arall. Medr yr anifail fyw wrth lai o ymdrech na dyn. Nid oes y filfed ran o'r gwaith dysgu gan y ceffyl, y fuwch, yr asyn, neu y ddafad, ag sydd ganddo ef. Medr yr oen yn fis neu ddau oed, gerdded, pori, bresu, a phrancio, lawn cystal â'i fam. Ond rhaid i ddyn gael blynyddau meithion cyn y daw i weithio ffordd ei fywiolaeth cystal â'r ddafad. Pa sawl cynnyg raid iddo wneyd cyn y gall sefyll ar ei goesau ei hun? A pha faint fydd y llawenydd, os ar ol misoedd o lafur dibaid, y gwelir y bychan wedi meistroli cymaint ar ei goesau, fel ag i gerdded hanner dwsin o gamrau ar y llawr teg.—

"A mwy gwrolwaith na chylchdeithio gwlad
Fydd myn'd oddiwrth ei fam hyd at ei dad."

Pa sawl blwyddyn o lafur y rhaid iddo fyned trwyddynt cyn y gall gymaint a galw yn groew am "fara a chaws?" Gymaint o lafur a dysgyblaeth wedi hyny y rhaid i'r plentyn a'r llanc wrthynt cyn dysgu y gelfyddyd, neu fod yn gymhwys i lenwi unrhyw swydd o ymddiried. Gwanaidd iawn yw dyn yn ei ddechreuad; araf iawn yw ei gynnydd; ond nid oes ond llygad Hollwybodaeth yn canfod mawredd y galluoedd ydynt yn cysgu o'i fewn, a'r dabbygiad gogoneddus fydd wedi ei wneyd arnynt ymhen miliwn o flynyddau i ddyfod. Llafur ac ymroddiad sydd i'w deffro a'u gweithio allan.

Y mae y byd yn ddyledus i lafur dyn am yr agwedd bresennol sydd arno—ei wybodaeth, ei gyfleusderau, a'i gysuron. Fel y mae yr holl grëadigaeth—elfenau natur, mŵnau y ddaear, a choedydd y maes—yn ymestwng ac yn talu gwarogaeth i fraich rymus llafur! Yr hen dderwen gadarn gynydd yn gostwng ei phen, ac yn ildio ei hun i fyny iddo, i fod yn ystol i eistedd arni, yn fwrdd o'i flaen, yn bren dan ei wely, neu yn llong i'w gludo dros donau terfysglyd y môr! Y mae dyn wedi troi y ddaear yn siop weithio; a thrwy ei lafur a'i ddiwydrwydd y mae wedi creu y byd megys o newydd. Edrychwch ar holl gynlluniau a darganfyddiadau dyfais ddynol—ar holl gynnyrch bendithlawn y celfyddydau—fel y maent wedi breintio ac addurno wyneb y byd, ar dir a môr: yr hwyliu gwynion yn chwyfio uwchben tônau y moroedd, a'r llongau fel môr-adar mawrion yn ehedeg gan gludo dyn o ynys i ynys, ac o gyfandir i gyfandir. Edrychwch ar y dinasoedd teg, y palasau prydferth, a'r adeiladau mawrion; y lampau dysglær yn goleuo yr ystrydoedd, heb na phabwyr na gwêr yn perthyn iddynt; y gledrffordd yn ymestyn ac yn ymdorchi fel sarph anferthol, ac yn cario yr anghenfil chwibanog ar ei chefn: y *telegraph*, neu yn hytrach y fellten, wedi ei dal a'i darostwng, a hono âg yn ysgydwan i'w haden danllyd yn tafu meidyliu a negeseuon dyn o begwn i begwn o'r byd. Daw y ddyfais hon â'r holl fyd cyn hir yn un gymydogeath, a

"Phellder ac amser yn gam ac yn eithad."

Y mae y peiriant argraffu yn barod i'r awdwr, a'r esgynlawr i'r areithiwr; a bydd pen cyntaf yr araeth yn cael ei ddarllen ar y papyr newydd yn New York, cyn y byddo yr areithiwr wedi gorphen ei thraddodi yn Liverpool. Nid trwy segurdd a diogi y mae pethau wedi dyfod i'r agwedd yma: nage, ond coron fuddugoliaethus llafur caled, ac yndrechion diffino, am flynyddau, oesau, a chanrifau lawer, ydynt.

Ped edrychem ar hanes bywyd unrhyw gangen o wybodaeth, gwelem mai nid ar unwaith y cyrhaeddodd ei sefyllfa bresennol. Meddyliwch am seryddiaeth, er enghraifft. Pa sawl mil o nosweithiau y bu y naill seryddwr ar ol y llall, ar ben ei glogwyn unig, yn tremio ar y sêr a'r planedau, yn gwyltio eu hysgogiadau gyda'r dyfalwch mwyaf amyneddgar, cyn cael allan eu llwybrau a'u deddfau? Gwelwch

“Y meddwl byth ddiwyd,
Wrthi 'n cylchdremio, ymysgwyd, ymsymud,
Troi, barnu, cymharu, dyfeisio, cynllunio,
Trin, profi, dosbarthu, cysylltu, cymhwyso.”

Daliodd ati yn ddi-ildio, oes ar ol oes, a chanrif ar ol canrif; a bob yn ychydig ac yn ychydig, enillai fuddugoliaeth ar ol buddugoliaeth; cai allan ddarganfyddiad ar ol darganfyddiad; dyfeisiai offeryn ar ol offeryn i hyrwyddo ei ymchwiliadau, nes y mae erbyn hyn i raddau pell, wedi meistrolï ei dasg oruchel—wedi cael allan “droion ser y nef.” A bellach, fel y desgrifia y Bardd talentog, Dewi Wyn o Eswyllt,

“Mae 'n galw y sêr wrth eu henwau,
Yn adwaen eu hansawdd, yn olrhain eu llwybrau;
Fe ddring i'r lloer wylaid, rhydd hynt ar ei mhoroedd,
A mapia 'i chyfaudir yn uchder y nefoedd.
Maidd fesur y ffamillyd gomedau ar hedfan,
Maidd fesur a phwyso yr haul mawr ei hunan.
Ond fel pe 'n anniwall ar dremio o'r pellder,
Mae 'n awr yn ymdrechgu rhoi naid i'r uchelder;
Gwél, gwél, fel mae 'n esgyn! fry, fry i'r lās awyr,
I gyrau nas treiddiwyd gan lygad yr eryr,
Mewn cerbyd o sidan a'r nwy yn ei dynu,
Mae 'n esgyn mor esmwyth a'r angel i fynu,
Mae 'n awr yn rhoi trem ar amgylchoedd y ddaear
Yn gweled ei bryniau fel brychau ar waegar,
A'i llydain afonydd fel meinion linyrau,
A'i mhawrion ddinasoedd fel bychain lanerchau.
Fry, fry mae 'n ymgodi, uwch uwch i'r uchelder,
Nes gadael y ddaear fel niwl yn y pellder,
Ac yntau 'n ymgrwydro yn mro y dystawrwydd,
Heb ddim yn ei wyddfod ond mawredd ei Arglwydd;
Yn myn'd ac yn dyfod trwy byrth y cymylau,
Ac eistedd yn ymyl y mell t'ar taranau!
Y fellten ofnadwy sy 'n taro 'r awyrgylch
Nes rhuo 'n wallgofus gan wewyr o'i hamgylch,
A'i chrochlef yn ysgwyd colofnau y ddaear,
A'i tharo dros enyd yn fud ac yn fyddar.”

Ond,

“Er ei holl ddychryn ofnadwy a'i rhwysgedd,
Mae 'n gorfod ymgrymu i lawr wrth ei orsedd.”

Iê, y fellten ei hun! Ydyw, mae'n wir; ond hi ddeifiodd ei wallt lawer tro wrth ei rhagod; hi losgodd ei fysedd; ysgydwodd ei enaid â dychryn; mygodd ef â'i gwrês. Ond er hyn oll, ni adawodd lonydd iddi, nes cael y

trechaf arni. Mynodd ennill y fuddugoliaeth. A chyffelyb i hyn y bu gyda hanes gwahanolgan genau gwybodaeth, a graddol berfeithiad y celfyddydau, sydd erbyn hyn yn addurn ac yn fywyd i'n gwlad. Coron ogoneddus ymroddiad a dyfalbarhad yw holl ddyfeisiau a darganfyddiadau gwerthfawr ein byd ni.

Y mae llafur ac ymdrechion dyn yn cael eu cymhell a'u cynhyrfu gan ddysgwyliaidau am lwyddiant. Llwyddiant, fe allai, yw egwyddor gynhyrfiol llafur y byd, fel y mae y galon yn dychlamu mewn pryder cyffrous wrth swm y gair. Y mae dyn yn awyddu ac yn blysiu am dano o'r foment y gesyd ei droed bychan gyntaf ar y llawr, hyd nes y gogwydda ei ben lluddedig i orwedd yn y bedd. Cymaint yw bryd dyn am fod yn llwyddiannus, fel y bu, ac y mae eto, mewn gwledydd ofergoelus, yn ymofyn â dewiniaid, ac yn ceisio brudio, a chwilio allan trwy y sêr a'r planedau, pa un a fyddai yn llwyddiannus yn ei ymgymeriadau ai peidio. Ydyw, y mae llygad dyn o hyd ar lwyddiant, a'i galon yn llosgi mewn awydd am dano. Ond, os yw y gŵr ieuanc am wybod ei ran ddyfodol, ymgynghored âg ef ei hun. Nid oes raid iddo fyned at ddewin na phrophwyd, pe byddent i'w cael. Y mae ei fywyd presennol,—ei lafur, neu y diffyg o hono, yn rhagddywedyd ei dynghed. Gwroldeb meddwl, ymroddiad a dyfalbarhad, gydag ychydig o dalentau, ac uniondeb egwyddorion, a sicrhant lwyddiant i ddyn. Nid ydym yn anghofio Rhagluniaeth y Brenin Mawr wrth ddywedyd fel hyn. Cyfraith neu ammod Rhagluniaeth yw, mai "Llaw y diwyd a gyfoethoga." Y mae diogi dyn yn aml yn peri llawer o gamachwyniadau ar Ragluniaeth y Nefoedd. Y mae llawer dyn yn blysiu am wobwr llafur, ond nid ymgymera er dim â'r llafur sydd yn ennill y wobwr. Y mae hwn yn debyg i'r gath, yr hon sydd yn hynod hoff o bysgod, ond hi drenga cyn y gwlycho ei throed i geisio eu dal.

Y mae y dyn sydd yn ymgymeryd â'r fasnach, neu yr alwedigaeth, gydag ymroddiad difino gyda hi, fel rheol gyffredin, bob amser yn llwyddiannus. Y mae edrych ar lawer llerpyn diog yn ymaflyd mewn gorchwyl neu alwedigaeth, yn ddigon i beri i waed dyn gynhyrfu o'i goryn i'w sawdl. Byddai yn wyrth ei weled ef yn llwyddo; a phrin y byddai Rhagluniaeth yn ddifai pe caniatâi lwyddiant i'r fath seguryn. Digrif yn wir yw clywed ambell ddiogyn fel hyn, yn cwyno ar ei ledorwedd yn ei gadair, neu ar ei gefn yn ei wely, *fod y byd yn myned yn ei erbyn!* Na, ni chafodd y byd ddim cynnyg myned yn ei erbyn ef, druan, erioed. Rhedeg o'i flaen y mae y byd, ac yntau yn eistedd i lawr yn lle rhedeg ar ei ol i'w ddal, yr un fath â'r plentyn yn teri, ac yn eistedd yn sopyn ar gauol y ffordd, am na fuasai ei fam yn aros iddo. I'r cyfryw nis gwyddom am well cynghor nag eiddo Hercules i'r certwr yn y chwedl. Yr oedd y ceffyl yn methu tynu y cart i fyny dros y rhiw leidiog, a chwymppodd y gyrrwr ar ei liniau i weddio ar Hercules am help i'r ceffyl; a'r ateb a gafodd oedd, "Y lleban diog! rho dy ysgwydd wrth yr olwyn!" Os ydych am i'r cart fyned, rhaid i chwi roi eich ysgwydd wrth yr olwyn. Yr ydych ar ffordd llwyddiant yn eich anturiaeth pan ydych yn rhoi nerth ysgwydd gyda hi. Yr ydym yn gwybod am lawer bachgen o Gymro, wedi dechreu mor isel â'r llawr—un gyda'i aradr ar y cae,—un arall yn brentis di-geiniog tu cefn i'r counter—ac un arall yn y pwll glô, a'r olwg arno bob dydd mor ddu â'r glô yr oedd yn dori—y maent heddyw wedi dringo i fyny i gylchoedd uchel, yn rhifo eu harian wrth y miloedd—y rhai mwyaf eu defnyddioldeb a'u

dylanwad yn eu cymydogoethau, ac y maent yn ffeithiau byw yn gwirio uniondeb ein gosodiad, fod dyfalbarhâd yn ffordd i lwyddiant.

Y mae hanes William Hutton o Birmingham yn esiampl hynod o dâr-awiadol o lwyddiant ymroddiad a dyfalbarhâd yn nhrefnogaeth y byd hwn. Mab i gribwr tlawd o dref Derby oedd Hutton, ac yn un o deulu lliosog. A chan fod cyflog ei dad mor isel, ac yntau mor dueddol i yfed, yr oedd y teulu mewn tloidi mawr, a'r tŷ lawer diwrnod heb damaid o fara ynddo. Gorfû i William ddechreu gweithio yn y llaw-weithfa pan yn saith mlwydd oed, er nad oedd ond plentyn llwydlas, yn droednoeth, yn bennoeth, ac heb ddim ond carpiâu am dano; a gorfû iddo wisgo pâr o *pattens* am ddeuddeg mis, oblegid ei fod yn rhy fyr i gyrhaedd y peiriant, hyd nes iddo dyfu eu trwm, a dyfod yn ddigon tâl hebddynt. Pan yn ddeg oed, colodd William ei fam, aeth ei dad yn feddwn direol, ac aeth yntau a'r plant eraill yn drueiniaid tlodion, amddifaid, a digartref. Pan yn bedair ar ddeg oed, ymrwymodd yn brentis 'Saneuwr gydag ewythr iddo yn Nottingham; a digon tlawd a chaled y bu ar William yno. Bu yn gweithio blynyddau cyn cael cymaint â phâr o ddillad. Ac ar ben y pedair blynedd, oblegid iddo fyned i weled y *aces*, ac aros yn rhy hir cyn dychwelyd at ei waith, rhoddodd ei ewythr gosfa iddo nes y bu agos iddo dori ei esgyrn.

Dyoddefodd meddwl William gymaint a'i gorff oddiwrth y driniaeth hon; a bore y Sabbath canlynol, wedi iddo gael y tŷ iddo ei hun, cymerodd hen gwdyn lledr main oedd yno, ac ystwrffiodd y pâr dillad newydd i mewn iddo; a chymerodd gwdyn llian arall, yn yr hwn y rhoddodd dorth chwech, ychydig o ymenyn mewn dalen hen gopi, a'i Fibl bach—cylmodd y naill ben i un cwdyn wrth ben y llall, tafodd hwynt ar draws ei ysgwydd, a'i het yn crogi ar fotwm ei wasgod, ac â dau swllt yn ei boced, gwnaeth y goreu o'i draed. "Yr oeddwn yn cario baich trwm, a chalon drom," meddai; "nid oedd dim yn ysgafn o'm cwmpas ond pelydrau yr haul a'r arian oedd yn fy llogell." Yr oedd wedi cyrhaedd Derby erbyn deg o'r gloch y noswaith hono. Ond wedi myned hyd at ddrws tŷ ei dad, pan glywodd ei lais, cafodd ormod o ofn myned i mewn, trôdd i gae gerllaw, a threuliodd y noswaith fel Jacob gynt ar wyneb y maes, gyda hyn o wahan-iaeth,—mai careg oedd gan Jacob dan ei ben, a'i gwdyn a'i ddillad gan William. Yr oedd ar ei draed gyda'r dydd drannoeth, a chawn ef am hanner dydd yn Burton, pellder o wyth ar hugain o filldroedd; a chyrrhaeddodd Lichfield erbyn yr hwyr. Nid oedd ganddo fodd i alw am fwyd a llety, ac nis gallasai oddef y meddwl am gardota; felly rhoddodd ei gydau dan fôn y clawdd tra fyddai yn myned trwy y dref i chwilio am waith. Ond er cerdded y dref yn fanwl ni chafodd addewid am orchwyl, a dychwelodd at ei gydau. Ond er ei fawr siomedigaeth, yr oedd ei gydau wedi myned. Bu yn rhedeg yma a thraw, ac yn holi yn wyllt ac wyllofus, ond ni chlywodd byth air o'u hanes. Gorweddodd i orphwys y noswaith hono, ar ol ei daith faith a'i ludded, ar faenc cigydd, yn yr ystryd agored.

Aeth William rhag ei flaen trwy Walsall, ac i Birmingham. Tri 'Saneuwr oedd yn Birmingham ar y pryd. Galwodd gyda'r tri. Gyrodd y cyntaf ef i'w ffordd yn sarug; rhoddodd y llall geiniog iddo am fyned allan a'i adael yn llonydd; a'r trydydd, un Mr. Grace (er na ddangosodd fawr o râs i William), a wrthododd roi gwaith iddo, er iddo ei gadw am gyn amser i'w holi. Yn lluddedig, yn newynog, a digalon, eisteddodd i lawr,

ac ymollyngodd ar ei ledorwedd ar draws yr "*Old Cross*," yn nghanol y dref. Ymhen ychydig, daeth dau weithiwr heibio, ac wedi ei holi, a deall ei amgylchiadau, cymerasant ef i dasarn, rhoddasant fara a chaws a pheint o gwrw iddo, ac aethant gydag ef i chwilio am lety, am yr hwn y talodd bore drannoeth y swm anferth o *geiniog a dimai!* Gadawodd Birmingham ac aeth i Coventry, ac oddiyno i Hinckley, lle y cyfarfyddodd â hen gyfaill i'w dad, yr hwn a roddodd lety noswaith iddo ar yr ammod ei fod i ddychwelyd at ei ewythr. Rhodd William ei air y buasai yn gwneyd, a safodd ato. Ac yno y treuliodd weddill ei saith mlynedd prentisiaeth mewn mwy o galedi, a llai o barch.

Wedi gadael ei ewythr, ceisiodd William ennill ei damaid trwy wneuthur hosanau, a'u cario i'r farchnad; ond nid oedd llewyrch yn y byd arni, a phenderfynodd droi ei hun i wasanaethu ar feddyliau yn lle ar goesau ei gydwladwyr. Ymgymrodd â rhwymo a gwerthu llyfrau. Aeth i Llundain i brynu taclau at ei alwedigaeth newydd. Cafodd ei chwaer fenthyg arian iddo; gwniodd dri gini yn ngholer ei grŷs rhag ofn yspeilwyr, a rhoddodd un swllt ar ddeg yn ei boced, ar gyfer y draul, ac i'w cynnyg i'r lladron, os deuant ar ei draws. Dacw William yn cychwyn tua Llundain—taith o 125 o filldroedd—ar ei draed! Treuliodd dri diwrnod i fyned, tri diwrnod yno, a thri i ddychwelyd; ac erbyn cyrhaedd tŷ ei chwaer, yr oedd ei draed allan trwy ei esgidiau, ac yn bothelli mawrion. Cymerodd yn awr ystafell fechan am bunt y flwyddyn yn Southwell, ac elai yno unwaith yr wythnos (bob dydd marchnad) â baich o lyfrau ar ei ysgwydd, er fod y pellder yn ddeunaw milldir. Byddai yn cau i fyny am bedwar y prydawn, yn tafu ei faich ar ei ysgwydd, ac yn cyrhaedd adref erbyn naw. Byddai yn gwneyd o *swllt i chwech* swllt y tro; a pharhâodd felly yn ddfiwch am ddeuddeng mis.

Cymerodd daith unwaith eto i Birmingham, gan obeithio y byddai yn fwy llwyddiannus yno gyda'i alwedigaeth newydd, a chymerodd yno ystafell fechan at werthu llyfrau. Cyfarfyddodd yno â blinderau lawer; bu yn glaf iawn yno, a bu arolygwyr y tlodion yn gâs wrtho, ac yn ceisio ei orfodi i fyned yn ol i'w ardal enedigol, rhag iddo fyned i bwyso ar y plwyf. Ond anaml y gwelwyd neb o gymeriad William Hutton yn pwyso ar y plwyf. Rhaid i ni beidio dilyn y gwron hwn ymlaen trwy yr holl amgylchiadau, er cymaint o demtasiwn ydyw, rhag blino y darlennydd â meithder. Beth bynag, wrth ymladd â thlodi a gwrthwynebiadau, ac ymdrechu yn ddiffino ddydd a nos, cynnyddodd trafodaeth William; dechreuodd godi ei ben uwchlaw y dwf, ac ymunioni. Cymerodd siop oedd fwy ymhen rhai blynyddau; gwellhâodd ei amgylchiadau fwyfwy; priododd wraig (cystal cam a'r un yn ffordd llwyddiant); daeth i sylw a bri ymysg trigolion Birmingham; etholwyd ef yn arolygwr y tlodion (y crwydryn tlawd hanner newynog fu yn gorwedd yn erbyn yr "*Old Cross!*") prynodd dir, adeiladodd balas arno; gwnaed ef yn Ynad Heddwch; etholwyd ef yn *Recorder* y dref; a rhoddwyd amryw swyddi pwysig ac anrhydeddus eraill iddo. Ysgrifonodd lyfrau, ac ymysg eraill,—“Nodiadau tra dyddorol ar Ogledd Cymru.” Bu farw yn nghanol cyfoeth, bri, a dylanwad. “Yr oedd fy nhad,” meddai y ferch wrth ysgrifenu am dano, “yn enghraifft hynod o ymroddiad penderfynol a dyfalburhâd, ac yn esiampl i'r byd o'r hyn a all y pethau hyny wneyd.”

F'e allai y dywedir mai un o fil oedd William Hutton, a bod yn anhawdd

cyfarfod â'i gyffelyb. Nagê, ddarllenydd, ond un ymhlith mil o'i gyffelyb ydyw. Trowch eich golwg i Senedd Prydain heddyw, neu i ryw un o gylchoedd uchel y wlad hon neu wlad arall, a chewch weled ymysg eu blaenoriaid rai wedi ymddyrchafu o'r tomenau. Dyna yr Anrhydeddus Syr Samuel Morton Peto, yr hwn fu yn Aelod Seneddol, ac sydd yn Farwnig. Ychydig o flynyddau yn ol gallasech ei weled, fel rhyw saer maen cyffredin arall, yn gweithio gyda'i forthwyl a'i lwyarn. Teimlodd Samuel ei fod yn ddyw, fod ysbryd ynddo, a bod y byd mawr llydan o'i flaen. Gosododd nôd uchel iddo ei hun i gyrchu ato, ac ymroddodd i'w gyrhaedd gydag egni a phenderfyniad di-ildio. Dacw ef yn cymeryd adeilad ar ol adeilad i'w gwneyd; yn myned rhagddo gan ymddyrchafu yn raddol o ris i ris, ac o gylch i gylch, nes y mae o'r diwedd yn cymeryd Senedd-dai Prydain Fawr i'w hadeiladu. Wedi hyny cawn ef yn eistedd fel Aelod Seneddol yn y tŷ a adeiladodd. Gwnaethpwyd ef wedi hyny yn Farwnig. Ac efe oedd y gŵr a gymerodd arolygiaeth rheilffordd Balaclava a Sebastopol yn ddiweddar yn y Crimea. Adeiladodd y gŵr enwog hwn gapel i'r Bedyddwyr yn Llundain ar ei draul ei hun, ac y mae yn talu cannoedd o bunnau yn y flwyddyn i gynnal y gweinidog, ynghyd a threuliadau eraill yr achos. *Well done*, Sannuel y "meiswn," onidê?

Dyna John Lindsay, yr aelod seneddol dros Tynemouth—y crwydryn tlawd, dilety, fu yn cysgu yn hanner noeth ar hyd ystrydoedd Liverpool, yr hwn o dosturi a gymerodd rhyw gadben i fwrdd ei long i fod yn "*cabin boy*." Y llencyn hwnw, cyn ei fod yn ddeugain oed, a gynnygiai ei hun i gynnrychioli Tynemouth yn y Senedd, ac a osodai ei amgylchiadau ger bron yr etholwyr, pryd y dangosai fod ei ennill ef a chyfaill, oddiwrth fasnach oedd ganddynt ar y môr yn unig, yn *bun can' mil o bunnau!* Gallen nodi lliasiau mawr o enghreifftiau cyffelyb, yn profi fod llwyddiant yn dilyn llafur ac ymroddiad, ac nad oes rwystrau a saif ar ffordd penderfyniad a dyfalbarhâd.

Nid talentau rhagorol, a galluoedd dysglaer, ydynt ammodau llwyddiant, ond ymroddiad a dyfalbarhâd. Dywedai y dyn mawr hwnw sydd â'i glod mor llydan â'r byd—Syr Isaac Newton—os gwnaeth ragori ar ddynion yn gyffredin mewn rhywbeth, fod ei ragoriaeth i'w briodoli i'w amynedd â'i ddyfalbarhâd. Diau fod gwahaniaeth gwreiddiol rhwng galluoedd dynion a'u gilydd; ond y mae mor wir a hyny fod rhai o'r galluoedd mwyaf ysplenydd wedi eu gwastraffu trwy segurddod ac oferedd, tra mae eraill o alluoedd gwreiddiol llawer llai, yn eu hymyl, wedi ymddyrchafu i anrhydedd a bri. Cwynai Robert Nichol, y bugail Ysgotaid tlawd, ond perchen un o'r meddyliau mwyaf rhagorol, fod Coleridge, yr enaid mawr cawr-fil-aidd hwnw, wedi ymestyn am, ac ymdroi mewn, cylch rhy uchel ac esmwyth i'w alluoedd gael chwareu teg. "Pe buasai ddim ond beiddio bod yn dlawd," meddai; "pe buasai ddim ond credu y gallai bara a chaws a dwfr gynnal natur llawn cystal â'r danteithfwyd goreu, y gallai dillad gwlanaid garw fod yn gystal clydwch iddo â'r sidanau, a phe buasai yn beiddio actio yn ol y wybodaeth hono, pa faint mwy o amser a gawsai i feddwl? A pha faint mwy o gynnyrchion cyfoethog y meddwl mawr hwnw a gawsai y byd fwynhâu? Buasai yn fendith i Coleridge, ac i'r byd, pe buasai yn gweithio allan egwyddor Jean Paul—'Os yw nesoedd Duw yn mhen y dyn, pa wahaniaeth pa un ai cap sidan ai cap calico fyddo am dano?'"

Y mae digon o alluoedd gan bob dyn i ragori mewn rhyw bethau, os

myn. Diogi, llwfrdra, ac ysbryd llifrynaidd, sydd yn arafu dyn. Y mae llawer i'w cael eto yn debyg i'r dyn hwnw y dywedai y bobl am dano, "fod diogi wedi myned i'w asgwrn mawr." Y mae dywediad yr hen Negro dioglyd yn deimlad rhy gyffredin, ysywaeth, mewn llawer gŵr ieuanc yn ein gwlad. "Beth yw dy feddwl di, Sambo, am y byd yma?" "Wel," ebe Sambo,— "fi gwyeid meddwl fi nawr; meddwl fi yw bod cered yn gwell na rhyteg ynddo, a sefyll yn gwell na cered, a bod iste 'n gwell na sefyll; ond bod gorwedd yn gwell na nhw i gyd." Gochel, anwyl ddarllenydd, y fath athrawiaeth anathronyddol. Nid yw y cyfryw ymadroddion yn deilwng o ddyn. Pe buasai mochyn wedi dysgu siarad, ac yn gallu gollwng ei deimladau allan mewn geiriau, rhywbeth fel hyn fuasem yn ddysgwyl oddiwrtho. Ond na ato y Nefoedd i ddyn ddisgyn i raddfa y mochyn. Crëadur uwchraddol yw dyn; crëadur yn berchen ar alluoedd nerthol a dysglauer yr angel; crëadur sydd yn y man i fyned at angelion a seraphiaid i'r nefoedd—i gydfyfyrion ar ryfeddodau y nefoedd—i gyd-ddyfalw uwchben perffeithiau gogoneddus y Duw Mawr, ac i ledw a dadblygu ei alluoedd ei hun yn mhalas y grëadigaeth, o flaen gorseddfainc yr Iôr yn ngwlad y goleuni!

Y mae rhwystrau ar y ffordd, mae yn wir; ond goreu oll yw hyny: y mae eisieu rhwystrau arnom. Y mae cyfarfod anhawderau yn cynhyrfu ac yn galw allan fwy o egni a phenderfyniad. Buasai glewion y byd heb eu geni oni bae rhwystrau. Buasai gwroniaid y byd heb gyflawni y gorchestion hyny a anfarwolasant eu henwau oni bae dylanwad anhawderau ar eu hysbrydoedd. "Anghenrhaid yw dyfod rhwystrau," a bawddyn yw y gŵr a dry yn ol oblegid fod rhwystr at y ffordd. Y mae prif allu dyn yn llechu yn ei waith yn *peidio rhoi i fyny*, er methu. "Peidio rhoi i fyny" yw dirgelwch llwyddiant a gogoniant dyn. Yr ysbryd hwn ynddo sydd yn ei gario agosaf at Hollalluogrwydd. Peidiwch a rhoi i fyny, ac yr ydych yn rhwym o orchfygu a llwyddo:—

Peidio rhoi 'fyny yw dirgelwch gogoniant,
Gwers well ni fedda athroniaeth ei hun;
Gwelwch bob enw sy 'n ddysglauer mewn cofiant,
Peidio rhoi 'fyny addysgant bob un.
Podd y gwnaeth dynion orchestion anfarwol?
P'odd, 'n ol eu 'wyllys y moldiasant y byd?
Ain, trwy enbydrwydd a rhwystrau olynol,
Fod peidio rhoi 'fyny 'n arwyddair o hyd.

Paid a rhoi 'fyny, er beichiau o drallod;
Paid ysgwyd yr iau—hi wasga dy groen;
Paid a rhoi 'fyny, mae trannoeth yn dyfod
A llwyth o wobrwyon yn dâl am dy boen:
Paid a rhoi 'fyny, ond goddef yn dawel,
Paid crymu yn llwfr fel caethwas i'r llaid;
Ffordd arw yw bywyd i gylchoedd goruchel,
Mae 'r daith yn un dywell—ond teithio a raid.

Paid a rhoi 'fyny, b'ai bechod it gynnyg,
Os mawr dy drallodau, adgofia dy fri;
Mae coron, a thrysor na welwyd ei debyg—
Didral a thragywyddol, yn aros i ti.
Yn fuan, fe allai, 'n Mharadwys y byddi
Yn gydstatd â'r angel yn gwledda yn llon,
Pob rhwystrau am byth wedi 'u cwbl orchfygu,—
Wel, peidio rhoi 'fyny fo 'n llô dan dy fron.

Ar y cyfan, prin y gellir doddi prinder amser, arian, a'r cyffelyb i lawr fel *rhwystrau* ar ffordd dyn, oblegid eu bod mor fynych yn actio fel cynhyrfiadau grymus i'r meddwl penderfynol. Y mae y palas gwyech, y llyfrgell éang, a'r pwrw llawn ac agored i brynu y llyfr diweddaf a ddaeth allan o'r wasg, yn profi yn aml fwy o rwystrau ar ffordd gwir lwyddiant dyn. Nid oes gan hwnw un mynydd i'w ddringo—yr un ymgyrch i'w hynladd—yr un anhawser mawr i'w orchfygu, ac felly y mae yn cael ei amddifadu o ddysgyblaeth fwyaf effeithiol y meddwl. Dyma, fe allai, sydd yn rhoi cyfrif am ddyrchafiad uchel, a llywyddiant gogoneddus, cynifer o ddynion o'r cylch iselaf ymhob gwlad ac oes. Mab i gerddor tlawd o Hanover oedd Syr William Herschell, y seryddwr enwog. Trwy garedigrwydd cymydog y cafodd yr hen Ddoctor Johnson dipyn o ysgol i ddechren ei fywyd o enwogrwydd. Hugh Miller, y daearegwr a'r llênor clodfawr, nid oedd ond saer maen cyffredin. Dr. Jenkyn o Lundain, pwy ydyw? Neb angen na'r Cymro tlawd fu yn gweithio blynyddau yn hen weithiau myglyd Merthyr. Dyna Elihu Burritt, y gŵr sydd yn gyfarwydd mewn tua hanner cant o wahanol ieithoedd, nid yw ond mab i grydd, yn ôf du ei hunan wrth ei alwedigaeth, ac wedi bod yn gweithio am flynyddau, ac yn cario ei lyfr yn nghopa ei het at ei waith i'w astudio ar y pentan tra fyddai yr haiarn yn poethi.

Dywedir nad oes un alwedigaeth a all ddangos cynifer o enwogion wedi codi o honi â galwedigaeth *crydd*, gan nad pa fodd y mae rhoi cyfrif am hyny. Y mae y mynawyd, y droedbren, a'r *lapstone*, wedi eu hanfarwoli gan ddwyllaw enwogion. Crydd oedd Bloomfield; crydd oedd yr enwog T. Cooper; crydd oedd Hans Sach, bardd mawr Germany. Crydd oedd Boehmen, yr athronydd a'r duwinydd; crydd oedd y clodfawr George Fox, sylfaenydd a blaenor y Crynwyr. Crydd oedd yr enwog Dr. Carey, ieithydd mawr y Dwyrain, a chyfieithydd y Bibl i amryw o'r ieithoedd hyny—y mae yr esgid olaf a wnaeth, heb ei chwbl orphen, yn y *British Museum* yn Llundain. Yr oedd Dr. Morrison hefyd, chyfieithydd y Bibl i iaith miliynau China, yn perthyn yn nês na chefnider i'r crydd, waith *last-maker* ydoedd. Cryddion hefyd oedd Gill, a Blakett, William Gifford, a Thomas Hartwell Horne, awdwr enwog yr "*Introduction*;" a gellid nodi tyrfa chwanelog o'r cyffelyb enwogion, oll wedi codi oddiwrth y *lapstone* a'r mynawyd, y rhai ydynt yn profi fod y sêr dysgleiriaf a lewyrchasant yn ffurfafu dynoliaeth wedi codi o dywyllwch a thlodi y cylchoedd iselaf.

Buasai yn hawdd i ni yma hefyd nodi enw llawer Cymro a weithiodd ei hunan i fyny yn uchel trwy ganol drain a mieri, ac yn erbyn mynyddoedd uchel o'r rhwystrau mwyafr cyndyn. Un o'r rhai mwyafr hynod a dynodd ein sylw yn y blynyddoedd diweddaf yma yw y llanc y ceir ei hanes yn y TRAEATHODYDD am 1847, tu dal. 503—506. I arbed y drafferth i ni i'w hadysgrifio yma, tröed y darlennydd ati. Ac os nad yw y gyfrol genych, mynwech hi yn ddiwed. Y mae yr hanesyn hwnw yn werth y gyfrol deirgwaith i bob dyn ieuanc. Yr oedd y llanc hwnw yn deilwng o'r ganmoliaeth uchaf; yr oedd yn "wron Cymreig." Y mae ei ymroddiad a'i ddyfalbarhad yn haeddu eu cofresu gydag eiddo Demosthenes, a'i esiampl yn deilwng o fod yn gopi o flaen pob gŵr ieuanc. Gosododd y teiliwr tlawd, anllythyrenog, nôd uchel o'i flaen, ac ni orphwysodd nes ei gyrhaedd.

Peth manteisiol iawn i lafur ac ymroddiad yw fod gan y dyn nôd o flaen ei lygaid i ymestyn ato. Llafurio yn ddiereol ac annyben—rhedeg yn ofer i raddau pell, y mae y dyn, os na fydd ganddo nôd o'i flaen i gyrchu ato. Ennill rhyw amcan gosodedig—deall a meistrolï rhyw gelfyddydau—cyrhaedd rhyw ris penodol mewn gwybodaeth lênyddol neu grefyddol—nodi allan rhyw gyfeiriad iddo ei hun, yn lle gadael ei hun yn agored i gael ei chwythu yn ol a blaen fel y byddo y gwynt yn chwythu. Ac wedi i chwi roi eich llinell i lawr, yna rhoddwch ager ar eich peiriant.

Y mae penderfyniad ymroddgar yn gwneyd i anhawsderau ddiflannu, ac yn agor llwybr rhydd trwy yr anialwch tywyll. Y mae gwirionedd yn yr hen ddiareb—“*Where there is a will, there is a way*”—“Lle bo ewylllys, fe fydd gallu.” Fe gafodd Mair allan lwybr a moddïou i olchi traed ei Harglwydd pryd nad oedd llygad neb arall yn eu canfod. “Hi a olchodd ei draed â'i dagrau, ac a'u sychodd â gwallt ei phen.” Fe ffeindia y meddwl ymroddgar i'w amcan eto ffordd a chyffe i weithio allan ei ewylllys. Dyna Gifford, y crydd tlawd, pan oedd ei feistr caled yn gwrthod dalen o bapyr iddo i ysgrifenu ei fyfyrdodau arni, cymerai ddarnau diffrywth o ledr oddiar lawr y siop weithio, curai hwynt yn denu a llydain ar y *lapstone*, ac ysgrifennai ei bennillion â mynawyd ar y rheiny. Dyma y gŵr a welwyd wedi hyn y derbyn pymtheg cant o bunnau yn y flwyddyn am olygu y *Quarterly Review*.

Dyna Benjamin West, arlunydd enwocaf ei oes, un diwrnod, yn fachgenyn tlawd, wedi cael ei anrhegu â blychaid o liwiau; a dywedid wrtho fod yn rhaid iddo gael gwrychell (*brush*) teg i ddefnyddio y liwiau. Ond nid oedd yno yr un *brush* i'w gael, nac arian gan Ben i'w brynu pe buasai i'w gael. Rhaid gadael y liwiau yn llonydd, ynte: na, mae yn *rhaid* eu defnyddio. Yr oedd cath ddu fawr yn y tŷ; a dacw y llanc ar ei hôl, a chylllell fawr yn ei law; torodd ddwy fodfedd o'i chynffon, a gwnaeth wyrthiau wedi hyn y gyda'i chynffon a'i liwiau.

Edrychwch ar y llencyn tlawd yn Sir Gaernarfon, yn brentis gwehydd, heb arian na manteision; eto, wele ef yn gosod nôd uchel o'i flaen. Llwyddodd i gael ychydig o lyfrau, ond nid allai gael amser i'w darllen. Yr oedd yn gweithio “o oleu i oleu,” hyd yn nôd yn yr haf, ac nis gallesid fforddio canwyllau i'r prentis i'w llosgi. Beth y mae John yn ei wneyd? Dacw ef yn crafu yr ymenyn ymaith yn llwyr oddiar ei fara bob pryd, yn ei roddi o'r neilldu yn ofalus, ac wedi hyn y gwneyd canwyllau brwyn o'r ymenyn i gael darllen ac astudio ei lyfrau wedi i'r teulu fyned i orphwys. Pwy oedd y llanc dewr? Neb amgen na John Elias—un o'r pregethwyr mwyaf, a'r areithiwr penaf, a fagodd Cymru erioed. Y gŵr,

“Pan esgynai i'r areithfa,
Y tawai myrddiwn ger ei fron.”

Fel yma, tra y mae y diog yn edrych ar y rhwystrau sydd o'i flaen trwy y chwydd-wydr, ac yn gweled brychau yn fynyddau, ac yn dychymygu rhwystrau lle nad ydynt, “gan ddywedyd, fod llew allan yn yr heol”—y mae y meddwl penderfynol yn chwalu mynyddoedd o rwystrau fel mwlwg o'i flaen, a'i ddyfalbarhad yn ennill concwest.

Y mae yr un priodoldeb yn ein gosodiad gyda golwg ar grefydd. Nid yn unig mae y masnachwr, y celfyddydwr, a'r athronydd, ond y mae y cristion hefyd, dan yr un ddeddf gyffredinol. Y mae llwyddiant y cristion

yn-yyddibynu ar ei ddyfalbarhâd. Nid oes dim y mae y Bibl yn ei argymhell yn fwy, na dim yn fwy cydweddol âg egwyddorion Cristionogaeth, na llafur ac ymroddiad. Yr oedd Iesu Grist yn myned mor bell wrth wasgu y pwnc yma at feddyliau y gwraudawyr, fel y dywedai fod Teyrnas Nef-oedd yn cael ei chymeryd trwy drais, ac mai "treiswyr sydd yn ei chipio hi." "Ychwanegwch at eich ffydd rinwedd," meddai y Bibl, "ac at rinwedd wybodaeth," &c. Os mynwn fod yn gristionogion, rhaid i ni "weithio allan ein hiachawdwriaeth." Os mynwn gael y trechaf ar y gelyn, rhaid i ni "gymeryd atom holl arfogaeth Duw—a milwrio ynddynt filwriaeth dda." Os mynwn lwyddo gyda Duw, rhaid "dyfalbarhâu mewn gweddi." Os ceir y fendith, rhaid gwneyd gorchest am dani. "Gollwng fi, Jacob." "Na, nis gollyngaf oni'm bendithi." Aeth hwn i ymdrech â'r Hollalluog ei hun, a llwyddodd ei ddyfalbarhâd i "orchfygu gyda Duw." A mynodd Duw ei alw yn Orchfygwr (Israel) byth wedi hyny. Pwy fydd yn gadwedig? Yr hwn a barhâo hyd y diwedd. Pwy gaiff eistedd ar yr orseddfainc gyda Christ? Pwy gaiff

"Ddwyn y palmwydd yn eu llaw,
A gwiago'r hyfryd goron draw,
A blooddio concwest ddydd a ddaw,
Yn nheyrnas nef!"

Y rhai sydd yn *gorchfygu* gydag ef ar y ddaear. Gan hyny, gristionogion, "ymwrolwch, ymgryfhewch, na laesed eich dwylaw, canys y mae gwobr i'ch gwaith." Ond cofiwch mai i'ch *gwaith* y bydd gwobr. Gan hyny, os bydd eich camrau yn arafu, eich dwylaw yn ymollwng, a'ch ysbryd yn llwfrhâu, cymhellwch hwynt ymlaen,—

"Draed lluddedig dewch i fyny,
Ymestynwch ddwyllaw ymlaen,
'Mlaen mae'r wobwr, ymlaen mae'r goron,
'Mlaen mae 'Mhriod hawddgar glân,
Pen y bryniau
Mae fy llygaid am fwynhâu."

Hyderwn y rhydd y sylwadau yma ysgogiad i feddwl a chalonn y darllenydd ieuanc, i beri iddo ymestyn ymlaen at wybodaeth a defnyddioldeb, ac uwchlaw y cwbl, mewn "darparu iddo ei hun sail dda erbyn yr amser a ddaw." Er nad yw eich manteision ond ychydig, eich amser ond prin, a'ch galwedigaethau yn galw yn hwyr ac yn fore, eto prynwch yr adegau sydd o fewn eich cyrhaedd; cymerwch asael yn eich oriau a'ch mynyddau hamddenol, a dywedwch fel y dyn oedd yn myned â'i gaib a'i ferfa at waelod y mynydd i'w symud,—“Bob yn ychydig, ac ychydig”—ac wrth wneyd felly, byddwch wedi cyflawni gorchestion cyn diwedd eich oes.

Peidiwch chwaith ymfoddloni ar ris cyffredin, ond mynwch ragori. Dywedai John Foster yn un o'i lythyrau,—“Yr wyf yn casâu y drychfeddwl o fod yn un cyffredin (*I despise mediocrity*); yr wyf am losgi yn fflam gan frydaniaeth athrylith. Yr wyf yn cael siomedigaeth farwol bron wrth gael fy meddwl mor gul a chyfyng, a'i alluedd mor wanaidd a musgrellaid. Yr wyf yn darllen gweithiau ysgrifenwyr fel Young a Johnson gyda chymysg deimladau o bleser a gofid. Yr wyf yn methu peidio gofyn i mi fy hun, Pam nad allaf fi feddwl mor rymus a gwreiddiol a hwythau? Pam nad allaf finnu godi i't un uchelderau godidog, neu ehedeg i fyny i uch-

der mwy aruthrol fyth? Pam nad allaf finnau ymsaethu trwy natur ar un tremiad? Pam nas gallaf finnau dywallt y pelydrau hyny o athrylith sydd yn treiddio trwy bob gwrthddrych, ac yn llewyrchu dros bob golygfa? Yr wyf yn credu fod cynnydd ac ymëangiad y meddwl dynol yn ddiderfyn, ac-nad yw y Nefoedd wedi gosod terfynau fel nad èl drostynt o'i flaen."

Ewch chwithau rhagoch yn ëon, gyfeillion ieuainc, y mae cyfandiroedd mawrion o'ch blaen. Agoiwch eich safnau fel y bedd—peidiwch a dyweyd byth, "digon." Bydded llef eich ysbryd fel merched y gele, yn gwaeddi, *Moes, moes!* Dywedwch fel y tabyrddwr hwnw a gymerwyd yn garcharor rhyfel, ac a ddygwyd i wersyll y gelynyon. Ceisiwyd ganddo guro y tabwrdd,—“Gwnaf,” ebai, “er eich bod yn ceisio genyf o sarhåd,” a chur-odd y “Deffrôad” iddynt. “Curwch y ‘Cychwyniad’ eto.” Gwnaeth hyny. “Curwch yr ‘Ymosodiad.’” Gwnaeth eto. “Curwch yr ‘Enciliad,’” ebe y gelynyon. “Na,” ebai yntau, gan ollwng yr hen dabwrdd i lawr, “nis gallaf; ni ddysgais erioed guro enciliad.” Dilynwch chwithau ei esiampl. Curwch y deffrôad, y cychwyniad, a'r ymosodiad, ond na fydded enciliad na gorphwysiad yn eich geiriaduron chwi; ond ewch rhagoch o hyd. Gwnewch hyn yn llafur eich bywyd, yn debyg i'r bachgenyn hwnw a benderfynodd roi ei wadn ar goryn uchaf mynyddoedd yr Alp; er gwaethaf yr iâ a'r eira, a'r creigiau peryglus, ac er taergymhelliadau ei gyfeillion a'i gymydogion. “*Excelsior!*” oedd ei arwyddair ef. Dyma frys gyfieithiad o'i hanes.

Disgynai lleni 'r nos ar daen,
Pan llanc & baner elai 'mlaen,
Trwy 'r eira at droed yr Alpaidd fryn,
Ac arni 'r argraff hynod hyn,
“ I Ffyn.”

Ei wedd oedd brudd, a'i lygad cain
Ddysgleiriai megys cledd o wain;
Ac fel pib arian hyfryd waith,
Oedd acen yr anhysbys iaith,
“ I fyny.”

Fe welai gartrefleoedd clyd,
A thân, a theulu llon ynghyd;
Uwchben dysgleiriai 'r oesol iâ,
Ochenaid dros ei wefus â,
“ I fyny.”

“Na fentra 'r rhyd,” medd hen ŵr, “nen
Sy 'n duo i'r ystorm uwchben;
Mae 'r cenlli gwyllt yn ddwfn a chry’,”
Ond eto 'r llais atebai 'n hŷ’,”
“ I fyny.”

“O saf!” 'be merch, “rho 'th ben yn llon,
I orphwys ar y fynwes hon;”
'N ei lygad gloew glâs y sâ’
Y deigrin mawr, ond ateb wna,
“ I fyny.”

“Gochel gangenau 'r pinwydd gwiw,
A'r anferth iâ-lithriadau, clyw!”
Hwn oedd yr ymadawol gais,
O'r uchder fry atebai 'r llais,
“ I fyny.”

Ar doriad gwawr pan un o blant
Mynachawl, ffyddlawn, Bernard Sant,
Adroddai 'i weddi tua 'r nef,
Trwy 'r nen frawychawl treiddiai 'r llef,
"I fyny."

Y ffyddlawn helgi, teithiwr prudd,
Mewn eira gai yn hanner oúdd,
A'i law o íá, yn dal yn dŷn
Y faner a'r arwyddair syn,
"I fyny."

Dan lewyrch gwawr, ei wyneb cun,
Mor oer a'r íá, oedd hardd ei lun;
Ac yno clywid swm y llef
Yn disgyn lawr o entrych nef
"I fyny."

Dyma'r arwyddair ydym am i chwithau roi ar eich banerau,—I fyny! I fyny! pa faint bynag o rwystrau sydd ar eich ffordd. Y mae genych alluoedd at ddringo. Y mae y Duw mawr wedi eich anrhegu á *meddwl*. Y mae angel Duw yn trigo o'ch mewn, ac y mae eisieu iddo ddangos ei hunan. Nid yw wedi ei osod yna, fel carcharor yn ei gell, er mwyn ei gadw yn ddyogel, ond y mae wedi ei roi fel chwareuwr ar yr esgynlawr i ddangos beth all ef wneyd. Y mae eisieu rhoi prawf ar ei alluoedd. Rhoddwch y faner yn ei law, trowch ei wyneb i'r cyfeiriad iawn, a mynwch wybod beth all ef wneyd. Y mae maesydd éang gwybodaeth o'ch blaen; y mae llyfr llydan créadigaeth wedi ei dafu yn agored ger eich bron, ac un oes ar ol y llall yn troi dalenau newyddion ynndo, ac yn dadguddio gwirioneddau newyddion a phwysig i fod yn destunau myfyrdod a llafur i ddyd. Y mae hanes dynoliaeth ar y ddaear, ei character, ei threigliad trwy wahanol lywodraethau, ac amgylchiadau y byd, yn faes difyr a buddiol i'r meddwl grwydro ynndo, a myfyrio uwch ei ben. Ac uwchlaw y cyfan, y mae perfffeithiau a chymeriad y Duw mawr, hanes ei oruchwyliaethau tuag at ddyd, dadguddiad ei feddyliau yn y Bibl, a chyfryngdod ei Fab i adferu pechadur colledig, yn destunau mawrion a gogoneddus—yn destunau ag y mae angelion "yn chwennychu edrych" arnynt—ac yn destunau ydynt yn cymhell pob gallu sydd yn enaid dŷn i ddyfalu uwchben eu rhyfeddodau. Ac y mae yn drueni canplyg fod galluoedd mor odidog ag eiddo enaid yn ofera mewn segurddod yn nghanol y fath faesydd éang a chyfoethog.

Ac, o ran hyny, pe na byddai un wobr ddyfodol i'w chael, y mae bywyd a dedwyddwch y meddwl *mewn gweithio*. Créadur at waith tragywyddol ydyw. Y mae wedi ei roi yn ei sefyllfa bresennol er mwyn ei ddysgyblu a'i gymhwyso at waith diddiwedd yn y byd a ddaw. Ysgol mewn gwlad ddyeithr yw y bywyd hwn; y mae y meddwl wedi ei anfon iddi i ddysgu gwersi nas gallasai eu dysgu yn unlle arall. Bydd yn dychwelyd adref i'w wlad ei hun yn y man—at ei Dad—Tad yr ysbrydoedd—ac yno bydd yn troi y cwbl a ddysgodd yma i wasanaethu ei alwedigaeth nefol dros ystod bywyd annherfynol. Y mae wedi profi yma ei fod yn grëadur galluog, ond yno y daw ei sawredd i'r golwg. Y mae wedi gwneyd ôl ei law yma, a bery tra dalio y blaned yr ydym ni yn byw arni wrth ei gilydd—y mae wedi ysgrifenu ei enw mewn llythyrenau a bery tra paro haul; ond yn y byd a ddaw y mae gorchestion mawrion meddwl i gael eu cyflawni. Peir-

iant i fyned rhagddo heb sefyll byth yw meddwl—ac i ennill nerth ychwanegol bob cam wrth fyned ymlaen. Afon fawr ydyw sydd i weithio ei hunan ymlaen gan ymlenwi, ac ymddyfnhâu, dros gyfandir diderfyn tragwyddoldeb. Aderyn ieuanc yn y nyth ydyw, a'i adenydd heb dyfu digon eto i'w gario dros ei ymyl; ond yn fuan daw ei adeg i ben, ac fe gymer ei aden i'w fyd ei hunan, lle y caiff ddigon o gylch i chwaren ynddo, heb daro ei aden yn erbyn un pared, na chyrhaedd y terfyngylch byth. Carcharor yn llusgo ei gadwynau yw y meddwl ar y ddaear—lamp wedi cau arni mewn llestr pridd—enaid wedi ei ystwffio i mewn i babell o glai. Ond yn y man, fe dery ei Dduw ei gadwynau yn chwilfriw oddi am dano, fe ddryllia y llestr pridd, ac fe neidia y meddwl allan yn ysbryd noeth, rhydd, a galluog, i fyd y caiff ddigon o le i ymuniawni ynddo, ac y caiff ei alluoedd mawrion, cynnyddol, ddigon o ëangder i dyfu ac ymestyn yn oesoedd; waith

“ Mae, mae,
Y meddwl mawr anfeidrol o hyd i ymgryfhâu,
Egora 'i wyrdd flaguryn, byth, byth, mewn nefol fau;
Mae rhyfeddodau mawrion,
Yn gorwedd rhwng ei blygion,
Pa rai yn ol anghenion
I sylw 'r oloesollon,
A roir i'w heglurhâu.

Daw 'r awr,
Yr egwr cronfa meddwl fel mynydd tanllyd wawr,
Mae twrf rhyw faith alluoedd yn ei ddyfnderoedd mawr;
Daw eto ei fuddugol
Orchestion anghymharol,
A'i nerthoedd adnewyddol,
Yn llif ar lif i lawr.

E'le bydd,
Eithafion anweledig buddugoliaethau rhydd,
Y meddwl mawr bob enyd, yn symud, symud, sydd!
Nid oes i'w haul ysplenydd
Gyhydedd na chanolddydd,
Ond esgyn esgyn beunydd,
Ac agor yn dragwydd,
Hyd fythol, ddwyfol ddydd!”

RHESYMEG.

Y DRYDEDD RAN.—*Y Cyfreswm.*

55. YSTYB y gair cyfreswm yw *cyd-reswm*; a defnyddir ef i ddynodi y *gwaith neu y ffordd o benderfynu perthynas* dau derm oddiwrth eu cydberthynas â thrydydd term.* Ystyrir y cyfreswm er ys ychydig yn ol, gan lawer o'n hysgrifenwyr goreu, fel yr unig ffurf y dylai Rhesymeg ymwneyd yn uniongyrchol â hi. Telid sylw, mae yn wir, i'r ffurfiau eraill—termau a gosodiadau—ond nid fel rhai yn dyfod i mewn o honynt eu hunain i randir Rhesymeg. Sylwid arnynt hwy er hyrwyddo y ffordd i sylwi ar y cyfreswm. Y mae y darlennydd wedi gweled ein bod wedi rhoddi i dermau a gosodiadau gystal hawl i sylw Rhesymeg ag a allwn yn awr ei roddi i'r cyfreswm. Gyda golwg ar *wybodaeth*, y mae y ffurfiau eraill yn ddiau yn *iswasanaethgar* i'r cyfreswm; ond fel ffurfiau meddwl, y mae y rhai hyn yn meddu hawl annibynol i sylw Rhesymeg.

56. Y mae Syr William Hamilton, Thomson, Devey, ac eraill, yn ystyried y cyfreswm fel bath yn y rhyw—"Casgliad." Neu, mewn geiriau eraill, ystyriant fod dwy ffordd o gasglu; un o ba rai yw y cyfreswm. Galwant y ddwy ffordd hyn yn gasgliad *digyfrwng* a *chyfryngol*. Yr olaf wrth reswm, yw y cyfreswm ganddynt. Rhoddir llawer o enghreifftiau o gasgliadau digyfrwng gan Thomson.

57. Nis gall y meddwl gymharu dau derm â thrydydd ond drwy gyfrwng *barhaus*; neu, os bydd yn ceisio gwneyd hyn mewn geiriau, drwy *osodiadau*. A chan fod cymharu y ddau derm â'r trydydd yn gofyn bawb ei osodiad, mae yn amlwg nas gallwn gael cyfreswm heb dri o osodiadau:—un o'r gosodiadau yn amlygu perthynas un o'r termau â'r trydydd; y gosodiad arall yn amlygu perthynas y term arall âg ef; a'r olaf yn golygu perthynas y ddau derm â'u gilydd trwy eu cydberthynas â'r trydydd. Gelwir y trydydd term yn *derm canol*; gelwir y gosodiadau a osodant allan berthynas y ddau derm arall âg ef yn *gynseiliau*; gelwir y gosodiad sydd yn gosod allan berthynas y ddau derm â'u gilydd trwy eu cydberthynas â'r term canol yn *glôad*. Fel hyn, os ydym am gael allan berthynas A ac C, drwy eu cydberthynas â B, y mae genym risiau tebyg i hyn i fyned trwydynt:—

$$\left. \begin{array}{l} \text{Y mae A yn B} \\ \text{Y mae B yn C} \end{array} \right\} = \text{Cynseiliau.}$$

Felly, Y mae A yn C = Glôad.

Y mae y darlennydd yn canfod fod pedwar term yn y cynseiliau—dau ymhob un; ond gan fod y term canol B yn gwneyd i fyny un o'r termau yn y ddau osodiad, nid yw rhifedi y termau gwahanol ond tri. Yn y cyfreswm nis gallant fod yn fwy nac yn llai.

58. Gan nad pa un a oes y fath bethau â chasgliadau digyfrwng ai

* Yr ydym wedi defnyddio y gair *perthynas* yma, mewn ffordd gyffredinol—fel *riay*: a bwriadwn iddo sefyll am y ddau *fath* o berthynas—*Cadarnkhol* a *Nacbol*. Pe bai genym air penodol i ddynodi y rhyw, ac eraill i ddynodi y bathau, byddai yn well.

peidio, y mae yn ymddangos i ni nas gall Rhesy meg dalu ond ychydig o sylw iddynt. Os ydynt yn bodoli, nis gall wneyd dim yn rhagor na gwneyd eu bodolaeth yn hysbys. Nis gallai, pe ceisiai, eu hegluro; oblegid, os oes y fath beth yn bod a chasgliadau digyfrwng, y mae yn rhaid ei fod yn gorphwys yn hollol ar ein *pwylldremion*: ac y mae yn anhyall gwneyd yr hyn sydd yn gorphwys yn hollol ar bwylldremion* yn eglurach nag ydyw. Pe gellid ei wneyd yn eglurach nag ydyw, nis gallai fod yn gorphwys ar bwylldremion. Ond ymddengys i ni fod genym gymaint o le i wadu bodolaeth casgliadau digyfrwng ag sydd genym i'w hōni. Y ffordd a gymerem i wadu eu bodolaeth ydyw hon:—Cyn y gellir casglu un gosodiad, y mae yn rhaid fod gosodiad arall i'w gasglu oddiwrtho. Nid oes eisieu profi hyn. Cyn y gallwn gasglu un gosodiad, hefyd, oddiwrth un arall, y mae yn rhaid fod rhywbeth yn ein darbwyllo i dynu y gosodiad hwnw yn hytrach nag un arall. Ond beth a all ein darbwyllo? Yr unig atebiad ellir ei roddi yw *pwylldrem*: ein bod yn gweled, ar unwaith, fod yr ail osodiad yn dyfod oddiwrth y blaenaf. Ond, yma, gallem ofyn eto, A allem ni weled hyn ar unwaith oni bae fod rhyw osodiad cyffredinol yn y meddwl yn gyntaf? Er enghraifft, gallem ddyweyd, “Y mae dau a dau yn bedwar;” “y mae dau gan hyny yn llai na phedwar.” Y mae hyn, yn ol y Rhesy megwyr y cyfeiriasom atynt, yn gasgliad digyfrwng. Ac y mae yn ddiau ein bod yn gweled ar unwaith fod y gosodiad olaf yn dyfod oddiwrth y blaenaf; ond, y gofyniad yw, a allem ni weled hyn oni bae ein bod yn gwybod yn flaenorol y gosodiad cyffredinol, “Y mae y rhan yn llai na'r cyfan?” Os nad allem, y mae y casgliad blaenorol yn gyfryngol, fel hyn:—

Y mae rhan o beth yn llai na'r cyfan o hono;
Y mae dau a dau yn rhanau o'r cyfan pedwar;
Y mae dau, gan hyny, yn llai na phedwar.

Y mae y gofyniad olaf a roddasam yn cydreded â hwn—A ydyw seilwira (axioms) yn wreiddiol yn y meddwl, ynte eu casglu oddiwrth amgylchiadau neillduol yr ydym? Pa un a ydyw fod rhan o beth yn llai na'r cyfan o hono yn wirionedd planedig gan Dduw yn y meddwl, ynte gwirionedd wedi ei gasglu oddiwrth brofiad ac ymarferiad ymdyby? Credwn fod bodolaeth neu anfodolaeth casgliadau digyfrwng yn ymddybynu ar yr atebiad sydd i'w roddi i'r gofyniadau hyn. Credwn, hefyd, fod genym oddeutu cymaint o le i ateb y naill ffordd neu y llall. Ac y mae y ffaith fod y byd meddyliol yn ymrannu ar y pwnc i ddwy ran gyfartal, o'r braidd, yn myned ymhell i brofi yr hyn a gredwn. Ond yr ydym yn ddiarwybod i ni ein hunain wedi gadael Rhesy meg i raddau, ac wedi myned at Arddansoddiad: ni a geisiwn, gan hyny, ymdynu tuag yn ol.

59. Y mae egwyddor sylfaenol y cyfreswm yn un hollol gyfarwydd i'r darlennydd, pwy bynag ydyw. Nid oes un dyn nad yw yn ei dwyn i arferiad gwastadol, nid yn unig yn y gwaith o resymu, ond hefyd yn ei orchwyllion dyddiol a chyffredin. Y mae y dilledydd yn tynu ei liun mesur dros

* Er chwilio, am hir amser, i gael gair Cymraeg i osod allan yr hyn a feddylir wrth *intuitions*, yr ydym wedi llwyr fothu. Y gair agosaf y gwyddom am dano ydyw *cyngbreddf*; ond heblaw fod hwn yn anystwyth, y mae yn llawer llai dealladwy na'r un y cymerasom yr hyfira o'i ddefnyddio—*Pwylldrem*. Rheidiol, todd bynag, ydyw dyweyd yn eglur beth a feddylir wrth y gair hwn. *Pwylldrem ydyw yr hyn a welir ar unwaith gan y meddwl*—*rhywbeth nas gellid ei wneyd yn eglurach trwy unrhyw ddyfais*. Gallwn aiw y ffer yn *Bwylldremu*—y weithred yn *Bwylldremiad*—yr hyn a bwylldremir yn *Bwylldremion*.

ysgwyddau yr hwn a ddaw ato i ymofyn hugan, gan wybod os bydd ysgwyddau y dyn, a'r hugan a gâ ei gwneyd ganddo, yn dal cyffelyb berthynas â'r llinyn, y bydd yr un berthynas rhyngddynt â'u gilydd. Yr un modd y mae gyda'r saer: os ewyllysia wybod pa berthynas a hanfoda rhwng dau beth nas gellir eu dwyn i gyffyrddiad, er mwyn eu profi, tyn allan ei "ddwy droedfedd" yn fawreddog i fesur y ddau, gan wybod pa berthynas bynag a ddygir gan y ddau beth â'i ddwy droedfedd ef, fod yr un berthynas rhyngddynt â'u gilydd. Y llinyn mesur yw term canol y dilledydd; a'r ddwy droedfedd yw eiddo y saer. Y mae Syr William Hamilton yn corffori yr egwyddor hon yn ei chysylltiad â Rhesymeg yn y geiriau hyn:—*Beth bynag yw y berthynas wanach a ddeil y naill neu y llall o ddau derm, fel sylfon neu draethb, â thrydydd term fyddo yn gyffredin iddynt ill dau, i ba un y mae y ddau yn perthyn, ac un o honynt, o leiaf, yn gadarnhäol—dyna yw y berthynas a ddaliant â'u gilydd.* Y mae y rheol hon wedi llyncu yr holl fân reolau a roddid yn flaenorol yn hollol iddi ei hun. Er ymresymu yn gywir, nid oes raid i'r darlennydd ond ymgadw at hon. Y mae yn cynnwys holl athrawiaeth y cyfreswm ynddi ei hunan. Ond er ei deall yn well, y mae yn rhaid i ni ei chymeryd bob yn ddarn.

1. *Y mae perthynas dau derm â'u gilydd yn cael ei dangos drwy eu cydberthynas â thrydydd term.* Ac amlwg yw bod yn rhaid eu cymharu â'r un trydydd term, ac â'r un rhan neu ranau o hono. Os dywedwn "fod dyn yn anifail," a "bod dafad yn grëadur gwlanog," nis gallwn gasglu dim oddiwrthynt. Ni fyddem yn cymharu "dyn" a "dafad" â'r un peth. Byddem yn cymharu un âg "anifail," a'r llall â "chrëadur gwlanog;" ac felly, os oes unrhyw berthynas rhyngddynt, fel y mae yn ddiau fod, nis gellir ei chanfod oddiwrth hyn. Ac y mae yn rhaid cymharu y ddau derm â'r un rhanau o'r trydydd term; oblegid, pe dywedem, "Fod dyn yn anifail," a "Bod dafad yn anifail," nis galleu gasglu oddiwrth hyn fod "dyn yn dafad." Y mae dynion yn *rhai* anifeiliaid, mae yn wir, ond fy mae defaid yn *rhai eraill*. Yn yr enghraifft hon, yr oedd "anifail" yn rhanol genym yn y ddwy gynsail; a chymharasom "ddyn" âg un rhan, a "dafad" â rhan arall. Er osgoi hyn, rhaid fod y trydydd term yn *gyfan* mewn un gosodiad o leiaf. Hyny yw, yn un o honynt, o leiaf, rhaid ei gymeryd yn y cyfan o hono. Ac os cymerir y trydydd term yn gyfan mewn un gosodiad, y mae yn rhaid ein bod yn cymharu y ddau derm â'r un rhanau o hono, er y dichon nad ydyw ond rhanol yn y gosodiad nesaf. Os dywedwn, "Mae pob dyn du yn (bob) Negro," y mae genym ddigon o le i gasglu fod Affricaniaid felly, er nad ydynt hwy ond *rhai* Negroïad. Fel hyn:—

Mae pob dyn du yn (bob) Negro;

Mae'r Affricaniaid yn (rhai) Negroaid;

Gan hyny, Mae'r Affricaniaid yn (rhai) dynion duon,

2. *Rhaid i un, o leiaf, o'r ddau derm ddwyn perthynas gadarnhäol â'r trydydd.* Pe dywedid, "Nid yw dyn yn angel," a "Nid yw dynes yn angel," nid ellid casglu dim am eu perthynas â'u gilydd. Amlwg yw nad yw "dyn" a "dynes" yn cael eu cymharu yma â dim. Ni wneir dim ond gwadu eu perthynas âg angel. Ond pe bae un o'r gosodiadau hyn yn gadarnhäol; neu, mewn geiriau eraill, pe bae un o'r termau hyn yn dwyn perthynas gadarnhäol â'r trydydd term, "angel," yna gellid gweled y berthynas a ddeil y ddau derm â'u gilydd. Pe dywedid:—

Mae pob dyn yn angel;
Nid oes un ddynes yn angel;
Yna, gellid dyweyd, Nid oes un dyn yn ddyneâ.

Mae y darllenydd yn cofio fod traetheb gosodiad nacäol cyffredinol yn gyfan.

3. *Fel y gwelsoim, gall fod y ddau derm a gymherir â'r trydydd yn dwyn perthynas wahanol ág ef.* Gall y berthynas sydd rhwng A a B, fod yn wanach na'r un sydd rhwng C a B. A chyn myned ymhellach, rhaid i ni ddyweyd beth a olygwn wrth berthynas wanach. Ystyrir mai y berthynas grefaf a ddichon hanfodi rhwng dau derm yw yr hon a fodola rhwng dau derm *cyffredinol*, pan fyddo'r berthynas yn *gadarnhäol*. Y mae pob un arall yn berthynas wanach, mewn cyferbyniad i hon. Felly y mae y berthynas a hanfoda rhwng y *neillduol* a'r *cyffredinol*, neu rhwng y *cyffredinol* a'r *neillduol*—y mae pob A yn *rhai* B, neu y mae *rhai* A yn *bob* B. Perthynas wanach hefyd yw un *nacäol* mewn cyferbyniad i'r *cadarnhäol*. Ac fel y dywedir, pan fyddo un term yn dwyn perthynas wanach â'r trydydd nag a ddwg y llall, y berthynas wanach hono sydd yn hanfodi rhwng y ddau derm eu hunain â'u gilydd. Meddyliwn am yr enghraifft hon:—

Mae pob A yn (bob) B;
Mae rhai B yn C;
Gan hyny, Mae rhai A yn C.

Yma deil A berthynas gryfach â B nag a ddelir gan B ág C; ond perthynas wanach B ac C sydd yn sefyll rhwng A ac C. Mae *rhai* A yn C.

60. Anhebgorion y cyfreswm yw, fod genym dri therm, dau o ba rai ydynt i gael eu cymharu â'r llall, ac â'u gilydd trwyddo: fod un o'r term-
au, o leiaf, yn dwyn perthynas gadarnhäol â'r trydydd: fod y trydydd term, yn y cyfan o hono, yn cael ei gymharu ág un, o leiaf, o'r termau: fod y berthynas wanaf sydd yn hanfodi rhwng un o'r ddau derm a'r trydydd, i hanfodi rhwng y ddau derm eu hunain. Meddyliwn fod yr holl anhebgorion hyn yn ddigon dealladwy i'r darllenydd yn ngwyneb yr hyn a ddywedason eisoes. Os oes rhyw dywyllwch yn bod, yn y rhan olaf y mae: ac oblegid fod pwys ar ddeall y pethau hyn yn gywir, cawn osod y darn olaf mewn geiriau eraill, fel hyn:—Os yw un o'r ddau derm yn dwyn perthynas nacäol â'r trydydd, perthynas nacäol a ddygant â'u gilydd; o'r tu arall, os yw un o'r ddau derm yn dwyn perthynas neillduol â'r trydydd, perthynas neillduol a ddygant y naill tuag at y llall. Er fod *pob* A yn B, a *phob* B yn *rhai* C, nid yw *pob* A ond *rhai* C. Eto, gan mai *rhai* A sydd yn B, ac er fod *pob* B yn C, nid oes ond *rhai* A yn C. Ac er fod A yn B, eto gan nad yw C yn B, y berthynas wanaf—yr un nacäol, sydd yn aros rhwng A ac C—nid yw A yn C.

61. Awn ymlaen yn awr at beth arall—y *Ffugrau*. Y mae y darllenydd yn gweled yn ddiau na waeth pa ffordd a gymerir i fesur dau beth os â'r un peth y mesurir hwynt. Ni waeth pa un ai cyfleu yr hyn a fesurir at ei “ddwy droedfedd,” ynte ei ddwy droedfedd at yr hyn a fesurir, a wnelo y saer. Gall roddi ei ddwy droedfedd ar un o'r pethau, os myn, a rhoddi y peth arall ar ei ddwy droedfedd. Tra y mesurir y ddau beth wrth yr un reol, ni waeth o lawer pa reol a gymerir i wneyd hyny. Yn hollol yr un fath y mae hi gyda'r Rhesymegwr. Ni waeth ganddo pa un ai dwyn ei ddau derm i'w profi wrth y trydydd a wna, ynte dwyn y trydydd at ei ddau

derm. Mewn geiriau eraill, ni waeth ganddo, tra yn edrych yn unig ar ffurfiau, pa un ai sylfon ynte traetheb fyddo ei drydydd term yn ei gynseiliau; ynte a fydd y trydydd term yn sylfon yn un ac yn draetheb yn y llall. Gellir ffurfio cyfresymau trwy y naill ddull yn gystal a'r llall. Ac er y gallai rhyw bwnc o wybodaeth ofyn am y dull hwn yn hytrach na'r dull arall, eto nid oes un o honynt yn fwy cymeradwy na'u gilydd gan y Rhesymegwr Pur. Y mae y gwahanol ffyrdd a gymerir gan y Rhesymegwr i gymharu y ddau derm cyntaf â'r trydydd, yn cyfansoddi yr hyn a elwir ganddynt yn *Ffugrau*.^{*} Pan fyddoy term y profwr y lleill wrtho yn sylfon yn y gynsail gyntaf, ac yn draetheb yn y llall, ymae genym yr hyn a elwir yn *Ffugr Cyntaf*. Pan fyddo y term hwnw yn draetheb yn y ddwy gynsail, y mae genym yr *Ail Ffugr*. Pan fyddo yn sylfon yn y ddwy gynsail, y mae genym y *Trydydd Ffugr*. A chymeryd A a B yn ddau derm cyntaf—cyntaf ac ail—a chymeryd C yn drydydd term, gallwn arddangos y tri ffugr fel hyn:—

Ffugr I. Y mae C yn B; Ffugr II. Y mae B yn C; Ffugr III. Y mae C yn B;
 Y mae A yn C; Y mae A yn C; Y mae C yn A;
 Gan hyny, Y mae A yn B. Gan hyny, Y mae A yn B. Gan hyny, Y mae A yn B.

Yr oedd y ran fwyaf o'n hysgrifenwyr hyd yn ddiweddar yn ychwanegu ffugr arall—y *Pedwerydd*. Y mae Syr William Hamilton, fodd bynag, wedi dyweyd digon i ddangos nad yw yr hyn a elwid yn bedwerydd ffugr ond moddiad o'r cyntaf.

62. Meddylid, hyd yn ddiweddar, ei bod yn rhaid i bob enghraifft o gyfreswm fod yn un neu y llall o'r ffugrau hyn. Ond y mae Syr William yn y peth hwn eto wedi bod yn ddigon craff i ganfod fod genym fath o gyfreswm hollol wahanol i'r ffugrau hyn. Gelwir y bath hwn ganddo, gan hyny, y *cyfreswm diffugr*. Yn y bath hwn nid yw y termau a gymherir yn dal perthynas â'u gilydd fel sylfon a thraetheb; ond y maent naill ai yn gyd-sylfonau neu yn gyd-draethebau. Fel enghreifftiau o'r bath hwn, rhoddir y rhai canlynol:—

Y mae pob Negro (A) a rhai dynion (B) yn gwneyd i fyny yr un personau;
 Y mae pob dyn (B) a phob marwol rhesymol (C) yn gwneyd i fyny yr un personau;
 Gan hyny, Y mae pob Negro (A) a rhai marwolion rhesymol (C) yn gwneyd i fyny yr un personau.

Cymherir y termau yma fel cydsylfonau. Yn yr enghraifft a ganlyn, gwneir hyny â hwynt fel traethebau:—

Mae rhai pethau newidadwy (*convertible*) yn bob C a rhai B;
 Mae rhai pethau newidadwy yn bob B a phob A;
 ∴ Mae rhai pethau newidadwy yn bob C a rhai A.

63. Y mae gwahanol ddyfeisiau wedi cael eu gwneyd er arddangos y ffugrau y soniasom am danynt. Ac er y cawn sylwi ar hyn yn helaethach ymhen ychydig, eto bydd dyweyd ychydig yma ar un neu ragor o'r ffyrdd

^{*} Gelwid y trydydd term gan yr hen Rhesymegwr yn Derm Canol: a sylfon a thraetheb y cload, yn gyfatebol, yn Derm *Lleiaf* a *Mwyaf*. Gan fod symiad y draetheb, fodd bynag, yn gwneyd yr enwau yma yn anmhrudol, byddai yn well galw dau derm y cload, pan y cyfeirir atynt yn ddiwahaniaeth, yn dermau cyntaf. Ac wrthynt eu hunain, galwer sylfon y cload yn derm cyntaf, a'r draetheb yn *ail*.

a gymerwyd i'w harddangos yn gynnorthwy i'r, darllenydd i ddeall athroniaeth y cyfreswri. Gosodwn o flaen y darllenydd y ffordd a gymerwyd gan Euler. Meddyliwn ein bod yn cymeryd y ffugr cyntaf:—"Mae C yn B;" "Mae A yn C;" gan hyny, "Mae A yn B." Arddangosir hyn ganddo fel hyn:—Tyner cylch (*circle*) o unrhywf aintioli, a galwer ef yn B. Yn y cylch hwn, ac o'r un craidd (*centre*), tyner cylch arall ychydig yn llai, a galwer ef C. O'r un craidd eto, tyner cylch arall ychydig yn llai na'r cylch C, a galwer ef yn A. A chawn felly arddangosiad o'r cyfreswm, "Mae C yn B;" "Mae A yn C;" gan hyny, "Mae A yn B." Dangosir y cyfreswm yma yn unol â cheuedd y gosodiadau. Ac y mae yn amlwg, gan fod C yn gynnwysedig yn B, ac A yn C, fod A mewn canlynig yn gynnwysedig yn B. Drwy ddyfeisiau cyffelyb, gellid arddangos cyfresymau yn y ffugrau eraill. Ond gan y cawn gyffwrdd â hyny eto, ni a'i gadawn yn bresennol.

64. Os cymerwn sylw o'r ffugrau, yn un ac un, cawn weled ein bod yn alluog i wneyd gwahanol fathau o gyfresymau ynddynt. Er enghraifft, a chymeryd y ffugr cyntaf, yr ydym yn alluog i wneyd un o'r gosodiadau yn nacïol yn gystal ac yn gadarnhäol;—yn gyffredinol neu yn neillduol. A phan fyddom yn cymeryd i mewn swm ac ansawdd y gosodiadau a ffurfiant ein cyfresymau, yr ydym yn sylwi ar yr hyn a elwir eu *moddau*. Dynodir *moddau* cyfresymau (.) yn ol swm ac ansawdd eu gosodiadau cyfansoddol, gan gyfuniadau o'r llythyrenau a ddynodant y gosodiadau ar eu penau eu hunain. Fel hyn, dynodir y cyfreswm, "Mae pob dyn yn anifail;" "Mae pob Negro yn ddyd;" "Mae pob Negro, gan hyny, yn anifail"—gan y llythyrenau A A A, oblegid dyma yw y llythyrenau a ddynodant y gosodiadau yn un ac un. Yr un modd, dynodir y cyfreswm, "Nid oes un dyn yn aderyn;" "Mae pob gwenol yn aderyn;" gan hyny, "Nid oes un wenol yn ddyd"—gan E A E. Dynodir y cyfresymau eraill â llythyrenau dynodol eu gosodiadau cyfansoddol.

65. Gan fod genym wyth o osodiadau gwahanol, gellid casglu oddiar egwyddorion Rhifyddogol y byddai genym 512 o foddau; am y gellir trefnu wyth o bethau, tra byddom yn eu cymeryd bob yn dri, gynifer a hyny o weithian mewn ffyrdd gwahanol. Ond erbyn edrych dros y nifer hwn, canfyddwn fod llawer o'r cyfuniadau yn croesi y rheol a roddasom yn y dechreu. Y mae rhai o honynt yn rhoddi dwy gynsail nacïol, megys:—E E E, E O E, &c. Rhydd eraill drydydd term rhanol. Y mae eraill o honynt yn rhoddi clöad neillduol, pan y gallai y cynseiliau roddi un cyffredinol. Wedi gadael y rhai hyn o'r neilldu, cawn weled fod rhai moddau yn fwy priodol i un ffugr nag ydynt i ffugr arall. Tra fyddom yn edrych ar yr holl bethau hyn, y mae yn aros i ni, ymhob ffugr, 36 o foddau —12 cadarnhäol a 24 nacïol. Y mae Thomson, mewn cysondeb äg ef ei hun, yn tynu ymaith o'r nifer yma lawer o foddau gweinion, gan ystyried eu bod yn hollol ddifudd. Ond y gofyniad yw, pa un ai buddioldeb ynte cyfreithloudeb ydym i edrych arno, tra fyddom yn traethu ar Resymeg. Os y blaenaf, y mae Thomson yn iawn; os yr olaf, nid yw felly. Y mae y dafsen ganlynol yn cynnwys pob modd cadarnhäol a nacïol cyfreithlawn, yn y naill a'r llall o'r tri ffugr.

TAFLEN O'R MODDAU.

FFUGR I.		FFUGR II.		FFUGR III.	
Cad.	Nac.	Cad.	Nac.	Cad.	Nac.
1. UUU.	EUEUEE	UUU.	EUEUEE	UUU.	EUEUEE
2. AYL	7 Y ^o . A ^o O ^o .	YYL	OY ^o . YO ^o .	AAAL	7 A ^o . A ^o 7 ^o .
3. AAA.	7 A ^o 7 ^o A ^o 7 ^o .	YAA	OA ^o 7 ^o Y ^o 7 ^o .	AYA.	7 Y ^o 7 ^o A ^o 7 ^o .
4. YYY.	OYO.YOO.	AYY.	7 YO. AOO.	YAY.	OAO.Y 7 ^o O.
5. AIL	7 IW. A ^o O ^o .	YIL	OI ^o . Y ^o O ^o .	AIL	7 I ^o . A ^o O ^o .
6. IYL	7 Y ^o . IO ^o .	IYL	7 Y ^o . IO ^o .	IAL	7 A ^o . I 7 ^o .
7. UYY.	EYO.UOO.	UYU.	EYO.UOO.	UAY.	EAO.O 7 ^o O.
8. AUA.	7 U ^o . AE 7 ^o .	YUA.	OU 7 ^o . YE 7 ^o .	AUA.	7 U ^o . AE 7 ^o .
9. UAA.	EAE.U 7 ^o .	UAA.	EAE.U 7 ^o .	UYA.	EYE.UO 7 ^o .
10. YUY.	OOU.YEE	AUY.	7 UO.AEE	YUY.	OOU.YEE
11. UIL	EIO.U ^o O ^o .	UIL	EIO.U ^o O ^o .	UIL	EIO.U ^o O ^o .
12. IUL	7 E ^o . IU 7 ^o .	IUL	7 U ^o . IE 7 ^o .	IUL	7 U ^o . IE 7 ^o .

Ystyried y darlennydd fod clôadau y moddau cadarnhäol a naciol hyn yn gyfatebol, yr un peth ymhob ffigur, gyferbyn a'r un rhifnod. U yw y clôad cadarnhäol gyferbyn a'r rhif 1 ymhob ffigur. Dengys y daflen hon mewn canlyniad pa wahaniaeth a ofynir yn y ffigurau, yn y cynseiliau, er rhoddi yr un clôad.

66. Yr ydym, yn awr, yn alluog i ymdrin yn fanylach âg arddangosiad cyfresymau nag oeddym. Yr ydym yn gwybod pa gyfresymau sydd yn oddefol; ac y mae genym enw penodol ar eu gwahaniaethau—y gwahaniaethau ydynt yn seiliedig ar swm ac ansawdd:—*moddau* ydynt. Yn yr enghraifft a roddasom o'r blaen, y mae y darlennydd yn gweled sut yr arddangosid y modd A A A, ffigur 1, gan Euler. Awn ymlaen yn awr i arddangos rhai moddau eraill yn y ffigur hwn. Arddangosid E A E, ac A I I ganddo, yn gyfatebol, fel hyn: *—a chymeryd y cyntaf, E A E, tyner cylch o unrhyw faintioli, a galwer ef yn B; yn ddigyffyrddiad â hwn, tyner cylch arall, a galwer ef yn C. Yn y cylch C, ac o'r un craidd, tyner cylch arall, llai nag ef, a galwer ef yn A. Ac fel hyn arddangosir y modd. Nid yw C yn B=E. Y mae A yn C=A. Gan hyny nid yw A yn B=E, yr hyn sydd eglur os edrychir ar yr arddangosiad. Eto, cymerer A I I; ac er arddangos y modd hwn, tyner cylch o unrhyw faintioli, a galwer ef B. Yn y cylch hwn, ac o'r un craidd ag ef, tyner cylch arall, ychydig yn llai, a galwer ef yn C. Yn awr cymerer craidd newydd, ychydig o'r tu allan i'r cylch B, a thyner cylch am draws y ddau flaenorol fel ag i dori ymaith ddarn o'r cylch mewnol C, ac arddangosir felly y modd. Fel hyn: Y mae C (yr oll) yn B; Y mae rhan o A yn C; gan hyny, Y mae rhan o A yn B, yr hyn sydd eglur yn ngwyneb y darlun os gwnaed ef gan y darlennydd yn ol y disgrifiad.

67. Nid ydym yn rhoddi yr enghreifftiau hyn er arwain y darlennydd at fanylion dull Euler o arddangos cyfresymau; ond, er dangos gwaelder ei ddull mewn cyferbyniad i eiddo Syr William Hamilton. Y mae y dar-

* Bwriadem roddi ariuniau priodol, *parod*, o flaen y darlennydd, er ei gynnorthwyo; ond y mae *d*—*l* yr argraffydd wedi ein hysbysu nas gall, er ei holl gyfrwysder, wneyd hyny drosom—prawf arall fod yn well ganddo ffinio dynion na'u gwasanaethu. Ac, oblegid hyn, rhaid i'r darlennydd geisio gwneyd ariuniau iddo ei hun, yn ol y disgrifiad a roddir. Yr ydym i raddau wedi brochi wrth y *d*—*l* am ei fydrda, gan y teifi ni i gryn anghyfeusod; yn neillduol mewn cysylltiad âg arddangosiadau Syr William Hamilton. Ond rhaid iddo ef, druan, ddangos ei fod yn deilwng o'i enw!

lenydd yn cofio ein bod wedi dyweyd fod pob gosodiad, o reidrwydd, yn gyfansawdd. Os dywedwn fod "A yn B" ar gyfrif un peth—*ceuedd* neu *drwch*, yr ydym yn dyweyd, yr un pryd, fod "B yn A" ar gyfrif peth arall—*trwch* neu *geuedd*. Ond eglur yw, nas gall arddangosiad Euler ond dangos un ran o'r cyfansoddedd hwn. Y mae yn ddigon cymhwys i arddangos A fel yn gynnwysedig yn B, ar un cyfrif; ond nis gall ddangos, yn gyfamserol, fod B yn gynnwysedig yn A, ar gyfrif arall. Y mae dull Euler yn ein gosod o dan orfodaeth i arfer un ddyfais i arddangos y cymdrotyn, a dyfais arall i arddangos y dattrotyn. Ond y mae dull syml a chynnwysfawr Syr William yn dangos yr holl gyfansoddedd ar unwaith. Dengys yn gyfamserol y sylfon yn gynnwysedig yn y draetheb, a'r draetheb yn gynnwysedig yn y sylfon. Rhoddwn ger bron y darlennydd arddangosiad Syr William Hamilton o'r deuddeg modd cadarnhâol yn y tri ffugr.*

68. Mae cadernid pob cyfreswm yn ymddibynu ar ei chyduniad â'r rheol a roddasom yn y dechreu (Dos. 59). Y mae Rhesymegwyr, fodd bynag, wedi rhoddi rheolau byrach i daraw y naill neu y llall o'r ffugrau, yn fwy neillduol. Cymerwn y ffugr cyntaf, er enghraifft: os edrychwn ar *geuedd*, yr ydym yn gweled fod y trydydd term yn un [o fewn] o'r terfynau, a'r terfyn arall yn y trydydd term; ac, mewn canlyniad, y mae yn canlyn, o reidrwydd, fod y terfyn olaf yn y blaenaf. Y mae hyn yn cydffurfio â'r reol a roddwyd gan Aristotle, a'r hon a gyfrifwyd, hyd yn ddiweddar, fel rheol sylfaenol Rhesymeg. Y rheol y cyfeiriwn ati yw y *Dictum de Omni*, yr hon sydd fel hyn: "*Beth bynag a ddywedir am ddosbarth, gellir ei ddyweyd am bob peth cynnwysedig yn y cyfryw ddosbarth.*" Yr un modd, os edrychwn ar Gyfresymau Naciol, yn y ffugr cyntaf, yr ydym yn cael rheol arall, a elwir *Dictum de Nullo*, yr hon sydd fel hyn—"Beth

* Gan fod *d*—*i* yr argraffydd yn teimlo fod ei gyfrwysder, fel y cyfeiriasom eisioes, yn rhy fach i osod allan ddull Syr William o arddangos gwahanol foddau, trwy arluniau priodol, rhaid i ni grefu sylw y darlennydd at y deagriiad canlynol o'i ddull yn arddangos y ddau *fodd* cadarnhâol yn y Ffugr I., y sylwasom arnynt mewn cysylltiad â dull Euler:—A A A, ac A I I. Y mae y darlennydd yn cofio mai nod gwahaniaethol y Ffugr I., yw fod y Trydydd term yn sylfon yn y gynsail gyntaf, ac yn draetheb yn yr ail. Tra yn dal hyn mewn cof, cymerer C i sefyll am y Trydydd term, ac A a B am y ddau derm cyntaf; a bydd arddangosiad y modd A A A, yn ol y deagriiad hwn:—Ysgrifener A C B, yn y drefn y maent yma o fewn pellter cyfneus i'w gilydd—dyweder modfedd. Ar du dehau y llythren A, ac yn ei hymyl, gosoder Rhagwahannod, fel hyn—A. Ar du aswy y llythren C rhodder dryllymadrodd, fel hyn:—C, a gosoder Rhagwahannod ar y tu dehau iddi. Ac yn olaf, gosoder dryllymadrodd o flaen B fel hyn:—B. Yna tyner llinell bigfain, fŷndew, rhwng A a C, a rhwng C a B,—y pigfneidd tuag A yn y naill, a thug C yn y llall. Caiff y darlennydd felly arddangosiad Syr William Hamilton o'r Modd A A C, yn y Ffugr I. Arwydda y nod (:) y dylid cymeryd y term yn gyfan—yn yr oil o hono; ac arwydda y nod (,) y dylid ei gymeryd yn rhanol. Y mae gan y trydydd term ddau nod, ac arwydda hyn y dylid ei gymeryd yn gyfan mewn cysylltiad âg A, ac yn rhanol mewn cysylltiad â B. Y llinell bigfain, fŷndew, sydd i arddangos y cymlydd; ac arwydda fod y term fyddo wrth y pen lletaf iddi yn gynnwysedig yn y term fyddo wrth y pen arall iddi, mor bell ag y mae *ceuedd* yn myned; a bod y term wrth y pen culaf iddi yn gynnwysedig yn y term arall mor bell ag yr *trwch*. Yn unol â hyn, gellir darllen yr arddangosiad a ddeagriafasom yma fel hyn gyda golwg ar *geuedd*:—Y mae pob C yn (rhai) A; y mae pob B yn (rhai) C; gan hynny, y mae pob B yn (rhai) A: yr hyn yn ol y ffordd o ddynodi gosodiadau a wna i fyny y modd A A A. Er arddangos y modd A I I, cymerer yr un darlun ag o'r blaen; ond yn lle y nod (:) o flaen B, gosoder y nod (,) a chawn arddangosiad o'r modd, yr hwn a ddarllenir fel hyn—Y mae pob C yn (rhai) A; y mae rhai B yn (rhai) C; gan hynny, y mae rhai B yn (rhai) A.

Y mae gan Syr William arddangosiad cyffelyb i'r rhai hyn i gyfateb i bob un o'r moddau yn Dos. 65; ac ystyrir ei ddull o arddangos moddau yn ddyfais âg iddi lawer o fanfeision. Rhagora ar y lleill yn ei symbedd a'i chyflawnder, ac yn neillduol yn ei gallu i arddangos perthynas ddyblyg termau â'u gilydd gyda golwg ar *geuedd* a thrwch yn ogystal; tra nas gallai y dulliau blaenorol ond eu harddangos yn ol eu *ceuedd* yn unig.

bynag a wedir am ddoisbarth, rhaid ei wadu hefyd am bob peth yn y dosbarth hwnw.—Nid yw y rheolau hyn ond achosion neillduol o'r rheol flaenorol.

69. Y mae cyfresymau wedi cael eu rhanu i *O-dynol* (deductive) ac *I-dynol* (inductive). Mewn cyfreswm *O-dynol*, yr ydym yn disgyn oddiwrth y cyffredinol at y neillduol; ac mewn cyfreswm *I-dynol*, yr ydym yn esgyn oddiwrth y neillduol at y cyffredinol. Y mae amcan y naill, gan hyny, yn hollol wahanol i eiddo y llall. Cyfreswm *O-dynol* yw hon:—“Mae pob dyn yn farwol;” “Y mae Ioan yn ddyn;” “Y mae Ioan, gan hyny, yn farwol.” Disgynasom yma oddiwrth y cyffredinol “pob dyn” at y neillduol “Ioan.” Cyfreswm *I-dynol* yw hon:—“Mae Ioan ac Idwal, Brychan a Dafydd, &c., yn farwol;” “Dafydd a Brychau, Idwal ac Ioan, &c., yw y cyfan o ddynolryw;” “Y mae y cyfan o ddynolryw, gan hyny, yn farwol.” Yr ydym, yma, wedi esgyn oddiwrth y neillduol, “Dafydd,” a “Brychan,” &c., at y cyffredinol “y cyfan o ddynolryw.” Ac ond i'r darlennydd sylwi, y mae un ffugr yn fwy cymhwys na'r llall at gyfresymau *O-dynol* neu *I-dynol*: ac, nid yn unig hyny, ond y mae rhai moddau yn yr un ffugr yn fwy cymhwys na'u gilydd at y naill na'r llall.

70. Gan ein bod wedi gommeidd derbyn yr hyn a elwir gan rai yn Gasgliadau Digyfrwng, y mae yn amlwg ein bod yn dal fod pob casgliad yn gyfryngol. Gallwn ychwanegu at hyn, fod pob casgliad cyfryngol yn cael ei gynrychioli gan y cyfreswm. Neu mewn geiriau eraill, gellir dwyn pob casgliad cyfryngol i un neu arall o foddau y cyfreswm. Y mae, fodd bynag, ryw fathau neillduol o gasgliadau cyfryngol y byddai yn suddiol sylwi arnynt cyn terfynu. Sylwasom eisoes ar osodiadau *Ammodol* ac *Ysgarol*; daugesasom hefyd sut y mae eu dwyn i adael eu nheillduolion o'r neilldu, ac i wisgo ffurf gosodiadau honiadol cyffredin. Y mae hyny yn ei gwneyd yn hawdd, yn awr, i ni ddangos sut y gellir dwyn casgliadau ammodol i un o foddau y cyfreswm. Dyma gasgliad ammodol:—“Os yw A yn B y mae C yn D;” “Y mae A yn B;” “Y mae C, gan hyny, yn D.” Gellir ei ddwyn i'r cyfreswm fel hyn: “Mae pob achos o fod A yn B yn achos o fod C yn D;” “Mae hwn yn achos o fod A yn B;” “Y mae hwn, gan hyny, yn achos o fod C yn D.” Y mae hon yn gyfreswm reolaidd o'r modd A I I, yn y ffugr cyntaf. Eto, “Os yw A yn B y mae B yn C;” “Y mae A yn B;” “Y mae B, gan hyny, yn C.” Tynir y casgliad hwn i'r cyfreswm fel hyn:—“Mae pob achos o fod A yn B yn achos o fod B yn C;” “Mae yr achos hwn yn un o fod A yn B;” “Y mae yr achos hwn, gan hyny, yn un o fod B yn C.” Mewn ffordd gyffelyb y gellir dwyn casgliadau ammodol nacäol i gyfresymau nacäol.

71. Y mae yn hawdd, eto, dwyn casgliadau ysgarol o dan ryw fodd yn y cyfreswm. Dyfynwn yr hyn a ganlyn o Thomson, tu dal. 259:

“1. (Modd A U A. Ffugr i.)
C, D, ac E, sydd P;
Mae pob S yn C, D, neu E;
∴ * Mae pob S yn P.

2. (Modd E U E. Ffugr i.)
Nid yw C, na D, nac E, yn P;
Mae pob S naill ai yn C, neu D, neu E;
∴ Nid yw S yn P.

* Arwydda y nod hwn . . gan hyny.

3. (Modd U E E. Ffugr ii.)
Mae pob P yn naill ai C, neu D, neu E;
Nid yw S yn C, na D, nac E;
∴ Nid yw S yn P.
4. (Modd E U E. Ffugr ii.)
Nid yw P yn C, na D, nac E;
Y mae S naill ai yn C, yn D, neu yn E;
∴ Nid yw S yn P.
5. (Modd E A L. Ffugr iii.)
Y mae naill ai A, B, neu C yn P;
Mae A, B, ac C, yn S;
∴ Mae rhai S yn P.
6. (Modd A U A. Ffugr iii.)
Mae C, D, ac E, yn B.
Mae C, D, ac E, = A (yr un faint ag A.)
∴ Mae A yn B."

Peth hawdd iawn i'r darlennydd yw rhoddi enghreifftiau cyflynol o'r rhai hyn. Rhoddwn un yma er dangos y ffordd—

(U U U. Ffugr i.)

Mae'r Cynry, y Saeson, a'r Albaniaid yn Brydeiniaid;
Mae pob un a anwyd yn yr ynys yn Gymro, yn Albaniaid, neu Sais;
∴ Mae pob un a anwyd yn yr ynys yn Brydeiniaid.

72. Ceir bath o gasgliad drwy gymysgu gosodiadau ammodol ac ysgarol a'u gilydd. Meddyliwn am yr hyn a ganlyn fel enghraifft:—

"Os yw A yn B, neu E yn F, yna y mae C yn D;
Ond rhaid fod A yn B, neu E yn F;
∴ Mae C yn D.

Os yw A yn B, yna y mae C yn D, neu E yn F;
Ond nid yw C yn D, nac E yn F.
∴ Nid yw A yn B.

Os yw rhai A yn B, y mae naill ai yr *m* sydd yn A, neu yr *n* sydd yn A, yn B;
Ond nid yw yr *m* sydd yn A, na'r *n* sydd yn A, yn B.
∴ Nid yw A yn B.

O ddiffyg enw gwell, cawn alw y bath hwn yn *Nidreb* (dilemma). Y darnodiad a roddir o'r nidreb yw hyn: *Nidreb sydd gyfreswm gyda chynsail ammodol, yn yr hon y mae y blaenredydd* (antecedent) *neu yr olredydd* (consequent) *yn ysgarol*. Dyma y ffurf effeithiolaf o un i ddystewi gwrthwynebydd. Pa un bynag ai cadarnhâol ynte nacöol fyddo y nidreb, nis gall y gwrthwynebydd wingo yn ei herbyn, os bydd yn gywir. Er rhoddi enghraifft o'i ddefnyddiad, meddyliwn fod rhywun yn taeru wrth y darlennydd nad oes un budd yn debyg o ddeillio iddo o fyfyrïo y traethawd hwn; gellid ei wrthwynebu drwy y nidreb fel hyn;—

Gan nad pa un a fydd y traethawd yn gwbl ddealladwy i mi ai peidio, gwna ei fyfyrïo les i mi;
Y mae yn rhaid iddo fod yn gwbl ddealladwy neu beidio bod;
∴ Y mae ei fyfyrïo yn sior o fod yn lles i mi.

Trwy y nidreb y ceisiai Bias gynt amddiffyn "henlanciaeth." Ymresymai fel hyn :—

{ Os yw gwraig yn un lân, enyna ddrwgdybiaeth ;
 { Os nad yw ond cyffredin créa gasineb ynom ati ;
 Y mae yn rhaid ei bod yn lân neu yn gyffredin ;
 ∴ Y mae yn sicr o enyn ynom ddrwgdybiaeth neu gasineb.

Pan y gellir defnyddio y nidreb yn erbyn gwrthwynebydd, dywedir ei fod rhwng ei "dau gorn." Y mae hyn, fodd bynag, yn tarddu oddiwrth wybodaeth amherffaith o natur y nidreb ; am y gall ei "chyrn" fod yn llawer yn gystal ag yn ddau. Gellir dyweyd,

Os yw A yn B, neu A yn C, neu A yn D, neu A yn E, y mae A yn M ;
 Y mae A naill ai yn B, C, D, neu E ;
 ∴ Y mae yn M.

Y mae'r "cyrn" yma yn llawer.

73. Y mae bath arall o ymresymiad cyfansawdd yr hwn y cawn ei alw y *gadwen*. Yma gwneir traetheb y gosodiad blaenorol yn sylfon yr ail ; ac felly am yr ail a'r trydydd, &c., i unrhyw belllder. Er galluogi y darllenydd i ddeall hyn yn well, gosodwn yr enghraifft hon o'i flaen :—

Mae A yn B,
 — B yn C,
 — C yn D,
 — D yn E,
 — E yn F,
 ∴ Mae A yn F.

Y mae yn eglur, gydag ychydig ystyriaeth, nad yw y gadwen ond casgliad o gyfresymau, fel hyn :—

Mae B yn C,	Mae C yn D,	Mae D yn E,	Mae E yn F,
Mae A yn B,	Mae A yn C,	Mae A yn D,	Mae A yn E,
[∴ A yn C.]	[∴ A yn D.]	[∴ A yn E.]	[∴ A yn F.]

Sylwodd un o'r enw *Goelenius* ar fath arall o ymresymiad, yr hwn sydd yn hollol wahanol i'r gadwen flaenorol ; oblegid dechreua hon lle mae'r llall yn diweddu, fel hyn :—

Mae A yn B,
 — B yn C,
 — C yn D,
 — B yn C,
 — A yn B,
 ∴ A yn E.

Gelwir y bath hwn *Cadwen Goelenius*. Gellid ei dwyn i rës o gyfresymau mewn dull tebyg i'r un flaenorol. Dyfynwn y ddwy enghraifft hyn o Thomson, tu dal. 265.

CADWEN GOELENUS.

Mae bodau teimladwy yn ceisio dedwyddwch ;
 Mae pob bod meidrol yn deimladwy ;
 Mae pob dyn yn fod meidrol ;
 Mae Caius yn ddyn ;
 Mae Caius yn ceisio dedwyddwch.

CADWEN ARISTOTLE.

Mae Caius yn ddyn ;
 Mae pob dyn yn fod meidrol ;
 Mae pob bod meidrol yn deimladwy ;
 Mae pob teimladwy yn ceisio dedwyddwch ;
 ∴ Mae Caius yn ceisio dedwyddwch.

74. Y mae dau enw arall y byddai yn beth priodol i'w hegluro—*Y gyn-gyfeswm* a'r *ol-gyfeswm*. Os byddwn mewn ymresymiad yn defnyddio clôad cyfeswm blaenorol fel cynsail cyfeswm arall, y mae y gyfeswm blaenorol hwnw yn cael ei galw yn *gyn-gyfeswm*. O'r tu arall, os byddir yn gwneyd clôad cyfeswm yn gynsail cyfeswm dylunol, y mae y cyfeswm dylunol hwnw yn *ol-gyfeswm*. Y mae hyn yn ddigon dealladwy heb enghreifftiau.

75. Y mae Syr William Hamilton wedi nodi dau *ryw* o gyfesymau :— un rhyw yn gosod y cyneiliau ymlaenaf, a'r clôad yn olaf; a'r llall yn gosod y clôad—neu, fel y dylid ei alw yn awr, y *gofyniad*—ymlaenaf, a'r profion (cyneiliau) yn olaf. Nid yw hyn ond gwahaniaeth trefniad—y mae hanfodion y ddwy gyfeswm yr un peth. Geilw y rhai hyn, yn gyfat-ebol, yn gyfeswm *grynhöl* a *thrychwaliadol*. Enghreifftiau :—

(Cyfeswm Crynhöl—*synthetic*).

Mae B yn A;

Mae C yn B;

∴ Mae C yn A.

(Cyfeswm Trychwaliadol—*analytic*).

Mae C yn A;

Oblegid, Mae C yn B;

ac y Mae B yn A.

RHESYMEG GYMYSG.

76. Y mae yn gôf gan y darlennydd i ni ddyweyd fod Rhesymeg Bur yn ymwneyd â ffurfiau meddwl ynddynt eu hunain, yn unig; a bod Rhesymeg Gymysg yn ymwneyd â hwynt mewn cysylltiad â gwirionedd. Ymhola Rhesymeg Bur a ydyw y ffurfiau yn gywir; ymhola Rhesymeg Gymysg a ydyw eu mhater* yn wir, &c. Gofala y naill fod cynllun ein hadeilad meddyliol yn gymeradwy; gofala y llall fod y defnyddiau o'r iawn ryw. Gwna Rhesymeg Gymysg ei goreu i wyllo rhag mater gau; gwna ei goreu i sicrhau mater gwir.

77. Un peth y telir sylw iddo gan Resymeg Gymysg ydyw *twyllebau*, y casgliadau a'r gosodiadau anghyfreithlawn hyny a wneir wrth resymu. Y mae twyllebau o ddau fath :—twyllebau mewn *ffurf* a thwylllebau mewn *mater*. Ac ymddengys i ni, mor bell ag y mae y blaenaf yn myned, y dylai Rhesymeg Bur eu cymeryd dan ei hystyriaeth; ond gan ei bod yn ddymunol ymdrin â'r ddau fath o dwyllebau gyda'u gilydd, bernir nad oes un anmbriodoldeb, er mwyn hyny, i ddu ychydig o'r hyn a berthyn i Resymeg Bur er ychwanegu rhan ei chwaer, er fod y rhan hon eisoes yn fawr.

78. Nid yw twyllebau mewn ffurf ond troseddiadau o'r rheol fawr a roddasom yn Dos. 59. Gellir eu dosbarthu fel hyn :—

1. *Trydydd term amwys a rhanol*. Fel y dywedasom yn y rhan flaenorol, y mae yn rhaid cymharu dau derm y clôad—y ddau derm cyntaf—â'r un trydydd term, cyn y byddo genym gasgliad cyfrngol. Ond y mae llawer trydydd term amwys; ac felly cymherir un term âg un ystyr iddo, tra y cymherir y term arall â'i ystyr arall. Y mae hyn yr un peth â phe bae genym ddau drydydd term; ac mewn gwirionedd, nid ydynt ond dau drydydd term o dan yr un enw. Wele enghraifft o drydydd term amwys :—

Llif sydd wedi tori y pren hwn;

Mae yr hyn a red dros geulanau yr afon yn *lif*;

∴ Mae yr hyn sydd yn rhedeg dros geulanau yr afon yn beth sydd wedi tori y pren hwn.

* Mater ffurf yw yr hyn a osodir allan ganddi.

Y mae dau ystyr i'r trydydd term *llif* yma. Eto:—y mae y trydydd term yma, pe na bae yn amwys, yn *rhanol*; ac ar y tir hwn, eto, y mae y clôad yn dwylleb. Gosodwn enghraifft arall o drydydd term rhanol:—

Mae pob dyn yn anifail;
Mae pob dafad yn anifail;
∴ Mae pob dafad yn ddyn.

Yma, gan nad yw “pob dyn” ond *rhai* “anifail;” a chan nad yw “pob dafad” ond *rhai* “anifail;” nid yw yn canlyn fod “pob dafad yn ddyn:” oblegid, gall fod y *rhai* anifeiliaid sydd yn ddynion, yn wahanol i'r *rhai* anifeiliaid sydd yn ddefaid. Ac fel hyny y mae, fel y gŵyr y darlennydd. Ffurfa y dosbarth “pob dyn,” un rhan o'r dosbarth pob “anifail;” a ffurfia y dosbarth “pob dafad” ran arall o hono. Cyn y gellir tynu casgliad, rhaid i'r trydydd term gael ei gymeryd yn y cyfan o hono, yn un o'r cynseiliau, o leiaf.

2. *Dwy gynsail nacöol*. Y mae yn eglur oddiwrth yr hyn a ddywedasom eisoes, nas gallwn gasglu beth yw perthynas dau beth â'u gilydd, os na fydd un, o leiaf, o honynt yn dal perthynas gadarnhäol â thrydydd peth. Os tynir, gan hyny, gasgliad am gysylltiad dau beth â'u gilydd, tra nad yw eu cysylltiad â'r trydydd term ond nacöol, y mae yn rhaid fod yno dwylleb. Twylleb yw yr enghraifft hon:—

Nid oes un A yn B;
Nid oes un C yn B;
∴ Nid oes un A yn C.

Gall fod y clôad yn wir, ond nid yw yn canlyn oddiwrth y cynseiliau.

3. *Cymeryd y berthynas grefach sydd yn hanfodi rhwng dau derm â thrydydd, fel yn hanfodi rhyngddynt â'u gilydd, ac nid y berthynas wanach*. Gellid galw hyn yn *eangiad anghyfreithlawn* o'r term cyntaf neu o'r ail. Fel hyn:—

Mae rhai A yn bob B;
Mae rhai C yn rhai B;
∴ Mae rhai C yn bob A.

Y mae yma eangiad anghyfreithlawn o'r ail derm. Yn lle dyweyd fod rhai C yn bob A, ni oddef y cynseiliau i ni ddyweyd dim yn rhagor na bod rhai C yn rhai A. Eto:—

Mae pob A yn B;
Nid oes un C yn A;
∴ Nid oes un C yn B.

Y mae yr ail derm* yma, eto, mewn eangiad anghyfreithlawn. Cymyer ef yn yr oll o hono yn y clôad; ond ni chymerir ond rhan o hono yn y ddwy gynsail. Y mae y dwylleb hon yn amlwg oddiwrth yr enghraifft gyflynol hon:—

Mae pob dyn yn farwol (rhai);
Nid oes un ddfadad yn ddyn;
∴ Nid oes un ddfadad yn farwol (yn unrhyw).

* Dylasom ddyweyd yn gynt ein bod yn cymeryd sylfon y clôad yn *derm cyntaf*; ei draethob yn *ail derm*; y ddau gyda'u gilydd yn *ddau derm cyntaf*; y term y cymheir hwynt ag of yn *drydydd term*.

Cymerer yr enghraifft hon o ëangiad anghyfreithlawn y sylfon—y term cyntaf:—

Mae pob dyn yn farwol;
Mae rhai anifeiliaid yn ddymion;
∴ Mae pob anifail yn farwol.

Mae y clôad hwn yn wir; ond nid yw yn canlyn oddiwrth y cyNSEILIAU. Nid ellir, oddiwrth y cyNSEILIAU, ddyweyd mwy na bod "*Rhai* anifeiliaid yn farwol."

79. Mor bell â hyna mae twyllebau rhesymegol pur yn cyrhaedd. Mae Rhesymegwyr, fodd bynag, wedi ychwanegu eraill. Ac y mae Whately, fe ddichon, wedi bod mor ffodus yn ei driniaeth o dwyllebau â neb. Y mae ef, yn gystal ag eraill, wedi ceisio rhoddi dosbarthiad rheolaidd o'r twyllebau gweddill. Ond, y mae anghysondeb y dosbarthiadau a wnaed, yn profi eu hanmherffeithrwydd. Y gwir yw, gellir rhoddi twylleb yn y dosbarth hwn, os cymerwn yr egwyddor hon i ddosbarthu, ac yn y dosbarth arall, os cymerwn egwyddor arall. Ceisiwn ni sylwi ar rai twyllebau eraill, heb argymeryd unrhyw ddosbarthiad o honynt. Sylwn ar—

1. *Dwylleb y cyfan a'r rhan.* Sylwasom fod yr hyn sydd yn wir am ddosbarth yn wir hefyd am bob aelod o'r dosbarth hwnw. Ond nid yw hyn yn wir am unigolion. Nid yw yr hyn sydd yn wir am dŷ yn wir hefyd am bob rhan o'r tŷ hwnw. Gellir dyweyd fod tŷ yn drigiannol, ond nid ellir dyweyd fod un neu ragor o'i briddfeini felly. Ymddengys i ni i Dr. Carson syrthio i'r dwylleb hon wrth geisio profi fod pob gair yn yr Ysgrythyrau yn ysbrydoledig, neu yn hytrach wrth geisio gwneyd gwadw o Dr. Henderson am wadu hyny. Wedi ei rhoddi i'r olaf, gofyna mewn teimlad buddugoliaethus, "Beth yw y llyfr hwnw sydd i gyd yn ysbrydoledig, tra nad oes un ran o hono felly?" Rhaid mai ymresymiad y Dr. yw hyn:—

Y mae y Bibl i gyd yn ysbrydoledig;
Mae geiriau yn rhanau o'r Bibl;
∴ Mae y geiriau hyny yn ysbrydoledig.

Rhoddir yr enghraifft ganlynol gan Leechman i ddangos trosiad priodol-
eddau y rhanau i'r cyfan:—

Mae dau a thri yn gynifer ac yn anghynifer;
Mae dau a thri yn bump;
∴ Mae pump yn gynifer ac yn anghynifer.

2. *Y dwylleb o gardota y gofyniad.* Cardota y gofyniad yw cymeryd yn ganiatäol, yn y gynsail, yr hyn a ddylid ei brofi yn y clôad. Er enghraifft, meddylw'n fod galwad ar rywun i brofi fod pob dyn yn farwol. Dywed yntau:—

Mae pob bod rhesymol meddiannol ar gorff yn farwol;
Mae dyn yn grëadur rhesymol meddiannol ar gorff;
∴ Mae dyn yn farwol.

Yn awr, y mae yn amlwg fod y dyn wedi cymeryd y clôad hwn yn ganiatäol yn y gynsail gyntaf; oblegid nid yw "crëadur rhesymol meddiannol ar gorff" ond enw arall ar ddyn.

Agos a bod yr un peth â'r dwylleb hon yw yr hyn a alwn y *cylchdro*. Yn hon y mae y clôad yn cael ei brofi oddiwrth y gynsail, a'r gynsail oddi-

wrth y clôad. Rhoddir enghraifft darawiadol iawn o'r cylchdro gan ysgrifenydd ar resymeg yn y TRAEHODYDD. "Pa fodd y profwch," meddai Rhys, 'fod hyn yn ddrwg?' 'Mae yn amlwg ei fod yn ddrwg,' meddai Cadwaladar, oblegid y mae y Bibl yn dyweyd yn ei erbyn.' 'Ond, pa fodd y profwch fod y Bibl yn dyweyd yn ei erbyn?' 'Mae yn rhaid fod y Bibl yn ei erbyn, oblegid mae y Bibl yn erbyn pob drwg.'"

3. *Y dwylleb o gamsynio graddau tebygolrwydd.* Meddyliwn fod genym y ddwy gynsail ganlynol:—

Mae 3 i 10 fod John yn feddw;
Mae 1 i 10 mai hwn (y dyn hwn) yw Joha;
∴ Mae 3 i 100 fod hwn yn feddw.

Gellid tybied, ar y tarawiad cyntaf, y dylai y clôad fod "Mae 1 i 10 fod hwn yn feddw." Ond, eglur yw, gan nad oes ond tri i ddeg fod Ioan yn feddw; a chan nad oes ond un i ddeg mai hwn yw Ioan, mai swm y tebygolrwydd fod hwn yn feddw, yw, y ddegfed ran o dridegran ($\frac{1}{10} \times \frac{1}{10}$), neu dri i gant. Y mae yn hawdd iawn bod yn euog o dwyllebau pan yn ymresymu oddiar debygolrwydd. Er enghraifft, meddyliwn fod rhywun yn dyweyd:—

Mae yn fwy na thebyg fod Geraint yn gelwyddog;
Mae yn fwy na thebyg mai y dyn hwn yw Geraint;
∴ Mae yn fwy na thebyg fod y dyn hwn yn gelwyddog.

Yn awr, gall y clôad hwn fod yn gywir neu yn anghywir; yn ol graddau tebygolrwydd y ddwy gynsail. Meddyliwn mai tri i bump ($\frac{2}{5}$) yw y tebygolrwydd fod Geraint yn gelwyddog: meddyliwn, hefyd, mai hyny yw y tebygolrwydd mai Geraint yw y dyn hwn. Ac, er fod tebygolrwydd o dri i bump yn ein cyfiawnhâu i ddyweyd ei "Bod yn fwy na thebyg fod Geraint yn gelwyddog," &c., eto, nid yw yn gyfreithlawn dyweyd, ar bwys hyn, yn y clôad, ei bod yn fwy na thebyg fod y dyn hwn yn gelwyddog; oblegid nid yw y tebygolrwydd o hyn ond tri phumran o dri phumran ($\frac{2}{5} \times \frac{2}{5}$); yr hyn sydd gyfartal i naw pumran ar hugain o un, neu naw i bump ar hugain— $\frac{4}{25}$. Ac y mae yn eglur fod hyn yn llai na hanner tebygolrwydd— $\frac{1}{2}$. Ond nid yw unig syrthir i'r dwylleb o gymeryd mwy o debygolrwydd nag a ddylid, ond hefyd syrthir yn fynych i'r dwylleb wrthwnebol o gymeryd llai nag a ddylid. A rhoddi pob mantais ddychymygadwy i anffyddwyr, meddyliwn fod tebygolrwydd o un, fod pob un o'r efengylwyr yn anghywir. Meddyliwn hefyd fod tebygolrwydd o ddaau, fod pob un o honynt yn gywir. Beth, gan hyny, yw swm y tebygolrwydd o wirionedd yr hanes a roddir ganddynt i gyd?—*Un ar bymtheg.* Collodd Hume olwg ar hyn, fel y dangoswyd gan Dr. Chalmers, yn ei *Institutes*.

80. Ond, i beidio dilyn hyn yn rhy bell, cawn symud ymlaen. Gan mai oddiwrth gynseiliau y cawn glôadau, y mae y gofyniad yn codi yn naturiol, O ba le y mae y cynseiliau yn dyfod? Y mae dau atebiad i'r gofyniad hwn. Dywed rhai mai drwy idyniad (*induction*) yn unig. Dywed eraill mai trwy idyniad a phwyllidrem (*intuition*). Meddyliwr, gan yr olaf, fod rhyw wirioneddau yn ysgrifenedig gan y Creawdwr ar feddwl pob dyn; a galwant y gwirioneddau hyny yn bwyllidremion. Mor bell, gan hyny, ag y mae y rhai hyn yn myned, meddyliant fod genym gynseiliau yn amibynol ar idyniad. Ond addeffir, hyd yn nôd gan y dosbarth hwn, nad yw

ein pwyllremion ond ychydig, mewn cyferbyniad, mewn nifer. Ac felly, y mae y gofyniad yn cyfodi pa fodd y gallwn gael cynseiliau drwy idyniad? Beth yw idyniad? Mewn atebiad i'r gofyniad olaf hwn, gallwn ddyweyd mai idyniad yw y *gwaith o gasglu fod rhywbeth yn wir am wrthddrychau anadnabyddus i ni, oblegid ei fod yn wir am rai adnabyddus; rhwng pa rai â'r blaenaf y mae cysylltiad neillduol*. Nid arsylwad (*observation*) yw idyniad: er nas gellir idynu heb arsylwi. Arsylwi yw y *gwaith o gymeryd sylw o bethau fel yr ymddangosant: idynu yw y gwaith o dynu casgliad am bethau nas gwelsom, oddiwrth ryw ddeddf y tybiwn eu bod hwy yn ei mheddu yn gyffredin â'r rhai a welsom*. Y pwnc mawr, gan hyny, yw cael gafael ar y ddeddf: oblegid gallwn fynegu y pethau hyny am y gwrthddrychau ydynt yn ddarostyngedig i hon, oeddynt yn wir am y pethau eraill oeddynt yn ddarostyngedig iddi. Gan na oddef y terfynau a osodasom i ni ein hunain, na'r gofod a ellir ei hebgor, i ni ddilyn y pwnc hwn ymhellach, y mae yn rhaid i ni ei adael. Gwyddom fod y terfyniad yn anamserol; ond, nid oes help am dano. Ymgysurwn yn y ffaith nad yw Rhesymeg Gymysg, eto, wedi ei thafu i ffurf orphenedig gan neb. Y mae y sawl a'i triniasant helaethaf, wedi bod dan orfodaeth i'w gadael yn anmherffaith. Pan yn dechren ysgrifenu arni, nid oedd dim yn ein bwriad ond ceisio dangos y llwybr a gerddai; a gobeithiwn fod hyny i ryw raddau wedi ei wneyd.

ORIAU GYDA BACON.

AIL ERTHYGL.

[THE MORAL AND HISTORICAL WORKS OF LORD BACON, *including his Essays Apophthegms, Wisdom of the Ancients, New Atlantis, and Life of Henry the Seventh. With an Introductory Dissertation, and Notes, Critical, Explanatory, and Historical.* By JOSEPH DEVEY, M.A. London: Henry G. Bohn, York Street, Covent Garden. 1854.

BACON'S ESSAYS: *with Annotations by RICHARD WHEATELEY, D.D., Archbishop of Dublin. Third Edition, revised.* London: John W. Parker and Son, West Strand. 1857.]

YN ein hysgrif flaenorol ceisiasom roddi bras-olwg ar Athroniaeth Bacon, yn ei hanes, ac mewn rhai o'i nodweddion mwyaf arbenig. Dylasem grybwyll fod ysgrifeniadan athronyddol Bacon yn cael eu cynnwys o dan un teitl cyffredinol, sef "*Instauratio Magna*" (The Great Instauration). Ei gynllun gwreiddiol oedd rhanu y *gwaith mawr hwn* i chwech o ddosbarthiadau, fel y canlyn:—

1. Arolygiad a Helaethiad y Gwyddorau; neu Gynnydd Dysgeidiaeth.
2. *Novum Organum*; neu Gyfarwyddiadau i ddeongli Natur.
3. Ymddangosiadau y Grëadigaeth; neu Hanesiaeth Naturiol a Phrawfiadol, ar yr hon y mae Athroniaeth i gael ei sylfaenu.

4. Ysgol (*ladder*) y Deall.

5. Rhagredegwyr, neu Flaenbrofion, yr Ail Athroniaeth.

6. Ail Athroniaeth; neu Wyddoriaeth weithredol.

Nis gellir dywedyd ei fod wedi gweithio allan ychwaneg na'r tri dosbarth cyntaf o'r cynllun eang hwn, i unrhyw radd o berffeithrwydd. Ac o'r tri dosbarth yma eto, y cyntaf a'r ail ydynt y rhai pwysig. Nid yw y trydydd ond rhestr sychlyd o ymddangosiadau (*phenomena*) naturiol. Ond y mae y gwaith cyntaf—*De Augmentis*, yr hwn a gynnwysir mewn naw o lyfrau, a'r ail—y *Novum Organum*, yn gynnwysedig mewn dau o lyfrau (neu raniadau) yn dadblygu yn gyflawn amcan, egwyddorion a rheolau ei Athroniaeth, ac yn arddangos i raddau tra helaeth, neillduolion a rhagoriaethau ei feddwl.

Yn awr, yr ydym yn ei adael fel athronydd; ac am ei ddwyn am ychydig ger bron ein darllenwyr yn yr ysgrif hon fel traethodwr (*essayist*). Ac fe allai mai wrth edrych arno yn y cymeriad yma, y cawn ein hunain yn y fantais oreu i ffurfio barn am dano, at i weled gwir fawredd a rhagoriaethau neillduol ac amryfal ei feddwl. Nid y ffordd oreu i adnabod cymeriad moesol dyn ydyw edrych arno mewn amgylchiadau mawr, pwysig, ac anghyffredin; y mae dyn yn ymbarotïi i gyfarfod âg amgylchiadau fel yna, ac fe all ar brydiau o'r fath wisgo am dano gymeriad benthyciol, tra gwahanol i'r hyn ydyw mewn gwirionedd. Y ffordd oreu i adnabod cymeriad, ydyw edrych pa fodd y mae dyn yn byw bob dydd, pa fodd y mae yn gweithredu gyda phethau bychain, pa fodd y mae yn ymddwyn ac yn ymddyddan gyda'i gyfeillion mynwesol yn ei oriau anochelgar—y mân bethau hyn i gyd gyda'u gilydd sydd yn gwneuthur i fyny gyfanswm y cymeriad. Y mae yn rhywbeth lled debyg gyda'r cymeriad meddyliol ag ydyw gyda yr un moesol. Y ffordd fwyaf manteisiol i adnabod mawredd—i ganfod gwir deithi meddwl, ydyw, nid pan yn edrych ar y meddwl hwnw yn ymwneyd â phynciau mawrion, uchel, a dy-eithr, ond yn hytrach pan yn ymdrin â materion bychain, agos, a chyffredin. Os llwydda efe gyda y rhai hyn, i dywallt goleuni ychwanegol ar yr hyn yr oedd pawb yn tybied eu bod yn ei ddeall yn drwyadl—i dafu newydd-deb a phrydfferthwch dros yr hyn a ystyriai pawb yn hen a chyffredin—os llwydda, meddwn, i wneuthur hyn gyda y pethau lleiaf, gellir yn hawdd ymddiried iddo am y pethau mwyaf. Y mae yr un ddeddf yn ffynu gyda golwg ar hyn yn y byd meddyliol ag sydd mewn grym yn y byd moesol: "Y neb sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer; a'r neb sydd anghyfiawn yn y lleiaf, sydd anghyfiawn hefyd mewn llawer." Yr ydym yn meddwl y gellir cymhwyso y sylwadau hyn at Bacon—wrth gymharu yr hyn ydyw yn ei Athroniaeth â'r hyn ydyw yn ei Draethodau. Yn ei ysgrifeniadau athronyddol, y mae yn ymdrechu gyda'r cwestiynau mwyaf a phwysicaf a ddichon gymeryd i fyny sylw dyn, mewn cysylltiad â gwybodaeth naturiol. Yn y traethodau drachefn, y mae yn ymdrin â materion bywyd cyffredin; y mae yma wedi "trynu athroniaeth i lawr o'r cymylau" i ymsymud ymlith dynion ar y ddaear, ac i'w gwasanaethu yn achosion ymarferol bywyd. Y mae yma wedi disgyn o rodfeydd uchel a neillduedig athroniaeth, i gerdded byd lwybrau sathredig bywyd—i ymdrin â materion, a defnyddio ei eiriau ef ei hunan, "sydd yn dyfod adef at orchwyllion a mynwesau dynion." Yn y traethodau, yr ydym yn ei gyfarfod mewn math o *dishabille* medd-

yliol—ac o gymaint ag y mae ei destunau yn fwy cyffredin yn y rhai hyn, yr ydym mewn gwell mantais i ganfod treiddgarwch a gwreiddioldeb ei feddwl, pan y mae yn gallu eu gwisgo gyda'r fath newydd-deb a phrydferthwch.

Buom yn tybied lawer gwaith nad oes dim yn fwy prydfferth na gweled meddwl mawr yn ymwneyd â phethau bychain a chyffredin. Po fwyaf nerthol ydyw y bwa, mwyaf dyddorol ydyw yr olwg arno wedi ymddad-blygu. Po fwyaf ydyw gallu a maintioli y cawr, mwyaf oll ydyw ein hyfrydych wrth ei weled, fel Æsop, yn chwareu gyda'r plant. Pwy a all beidio teimlo dyddordeb wrth ddarllen y llythyr syml, plentynnaidd, wedi ei wneyd i lyny o eiriau bychain o un a dau sill, a ysgrifennodd Dr. Chalmers, pan oddicartref un tro, at ei wŷr bychan? Mor dra dyddorol ydyw clywed y meddyliwr dwfn hwnw, John Foster, yn ei "*Journal*," yn adrodd i ni ei hanes, un tro, yn ysbïo am hir amser, trwy ryw agorfa mewn lluest (*shed*), yn ngwyneb buwch a llo, a'r naill a'r llall yn ysbïo yn ei wyneb yntau! ac yntau yn ceisio dyfalu pa beth oedd natur yr ymwybodaeth a'r gydnabyddiaeth y naill o'r llall, oedd yn cymeryd lle rhyngddynt ar y pryd—ac hefyd yn beirniadu ar y gwahaniaeth rhwng edrychiad y fuwch a'r eiddo y llo—y gradd mwy o ddealltwriaeth oedd yn ymddangos yn edrychiad y blaenaf rhagor yr olaf, &c.! Megys ag y mae yr haul yn ymddangos yn fwy, yn brydferthach, ac yn llawer haws syllu arno, yn ngwyll yr hwyr, pan y mae megys yn dyfod i lawr i'r ddaear, ac wedi ymwisgo yn ei fantell ruddgoch fel yn ymneillduo yn dawel i orphwys yn nherfyn-gylch y gorllewin, na phan y mae yn y cyhydedd yn tywynu yn danbaid uwch ein pen—felly hefyd y mae y meddwl mawr yn ymddangos yn fwy rywfordd, ac yn fwy prydfferth, pan y mae wedi dyfod i lawr megys i ymyl y ddaear, a'i oleuni wedi ei dyneru, na phan y mae yn nghanol y nefoedd yn dysgleirio yn ei nerth. Fel hyn y mae Bacon yn llawer mwy adnabyddus i'r cyffredin yn ei Draethodau nag yn ei Athroniaeth. Yn ei ysgrifeniadau athronyddol, y mae yn uniongyrchol uwch ein pen, yn tywynu yn nhanbeidrwydd mwyaf ei athrylith; ac nid oes ond ambell eryr yn meddu aden digon cref a llygad digon craff i ehedeg ato a syllu yn ei lygad. Y mae ei ysgrifeniadau athronyddol yn dylanwadu ar ac yn goleuo y lliaws, nid yn uniongyrchol, ond fel y maent yn cael eu hadlewyrchu gan y sêr a'r planedau sydd yn tywynu yn ffurfafen llênnyddiaeth. Ond y mae dynion yn gallu cymdeithasu âg ef yn ei Draethodau yn ddigyfrwng, ac yn gallu edrych arnynt a'u mwynhâu yn eu goleuni eu hunain. Ac wrth ei weled yn trin materion sydd o fewn cylch eu hamgyffred gyda'r fath ddoethineb a medrusrwydd, y mae dynion yn hollol barod i ganiatáu iddo y clod uchel y mae yn ei gael am drin y materion sydd y tu hwnt i'w hamgyffred. Dywed y beirniad galluog Macaulay ar hyn:—"Trwy y Traethodau y mae Bacon yn swyaf adnabyddus i'r cyffredin. Sonir llawer am ei *Novum Organum*, a'i *De Augmentis*, eithr ni ddarllenir ond ychydig arnynt. Y mae yn wir eu bod wedi effeithio yn ddirfawr ar farnau dynolryw; ond y maent wedi effeithio felly trwy gyfrwngwriaeth rhai eraill. Y maent wedi symud y meddyliau a symudasant y byd. Yn y Traethodau yn unig y mae meddwl Bacon yn cael ei ddwyn i gyfarfyddiad uniongyrchol â meddyliau darllenwyr cyffredin. Yno y mae yn agor ysgol allanol (*exoteric*), ac yn siarad â dynion plaen, mewn iaith y mae pawb yn ei deall, am bethau y mae a wnelo pawb â hwynt. Y mae efe fel hyn wedi galluogi

y rhai y buasai raid iddynt heb hyn gredu yn ei ragoriaethau ar sail tystiolaeth, yn awr i farnu drostynt eu hunain; ac y mae y corff mawr o ddarllenwyr drwy amryw genedlaethau wedi addef y gellir caniatâu yn rhwydd fod y dyn sydd wedi trin gyda'r fath fedrusrwydd perffiaith gwestiynau â pha rai y maent hwy yn gydnabyddus, yn teilyngu yr holl glod a roddir iddo gan y rhai a eisteddasant yn ei ysgol fewnol."

Buasai yn naturiol i ni dybied, oddiwrth gymeriad uchel Bacon fel athronydd, ac oddiwrth natur yr ymchwiliadau i ba rai yn y cymeriad hwnw yr oedd yn ymroddi, y buasai ei feddwl yn dra amddiffiad o bob elfen o natur farddonol. Buasem yn casglu mai deall mawr, pur, a noeth ydoedd—yn dra goleu, ond y goleuni yn un oer, fel yr eiddo y lleuad; yn finiof fel y dur, ond yn oer fel y dur hefyd. Ond y gwirionedd ydyw, fod awdwr y *Novum Organum*—y llyfr a argraffodd ei ddwl yn fwy na'r un arall ar holl ymchwiliadau athronyddol yr oesoedd diweddaf—ar yr un pryd yn berchen crebwyll a dychymyg o'r fath gryfaf a mwyaf ysplenydd, yn gystal a barn o'r fath fwyaf clir a chywir. Yr oedd ei ddarfelydd yn wastad yn barod, gyda'i phwyntel a'i llian, i wisgo delweddau ei feddwl yn y lliwiau mwyaf cyfoethog. Yr oedd ei dychymyg yn gryf, ond ar yr un pryd wedi ei ddwyn o dan ddsygyblaeth drwyadl. Ymostyngai yn y fan i bob awgrymiad o eiddo y farn a'r rheswm, a medrai ar yr un pryd roddi y profion ardderchocaf o'i nerth a'i ffirwythlondeb. A'r hyn oedd yn nodedig yn Bacon mewn cysylltiad â hyn oedd, fod ei farn yn ymddangos megys wedi cyrhaedd addfedrwydd o flaen ei grebwyll a'i dychymyg. Yr ydym yn gwybod mai yn groes i hyn y mae yn dygwylld yn gyffredin. Y rheol gyffredin ydyw, fod y crebwyll yn ei lawn rym a'i berffeithrwydd yn nhymmor ieuencyd, tra y mae blynyddoedd yn anghenrheidiol i addfedu y farn. Ac erbyn y bydd y rheswm a'r farn wedi cyrhaedd addfedrwydd, y mae y galluoedd eraill yn dechreu oeri a gwywo. Anfynych y mae y farn a'r crebwyll yn cyd-dyfu. Anfynychach fyth y mae y farn yn cyrhaedd addfedrwydd o flaen y crebwyll a'r dychymyg. Ond y mae yn ymddangos mai fel hyn yr ydoedd gyda Bacon; ac yr oedd yn hyn, meddai Macaulay, yn dwyn tebygrwydd mawr i feddwl Edmund Burke. Pan yr oedd Burke tua pump ar hugain oed, ysgrifennai ar bwnc (y traethawd ar "Yr Arddunol a'r Prydfeth") a fuasai yn debyg, os buasai dim, o fradychu yr arddansoddydd oeraf yn achlysurol i arddull gwresog a blodeuog—ysgrifennai Burke ar y testun yna, ac yn yr oedran yna, mewn arddull sydd y fwyaf noeth a diaddurn o'i holl ysgrifeniadau: tra, ar y llaw arall, pan wedi cyrhaedd henaint, ysgrifennai ar y pynciau mwyaf sychlyd yn yr arddull fwyaf barddonol ac ysplenydd. Felly dangosai Bacon yn y llyfr cyntaf a roddodd i'r byd yr un addfedrwydd barn, a'r un ysbryd o ymchwiliad a sylwadaeth fanol a phwylllog, ag a nodweddent ei gynnyrchion olaf, tra y mae y rhai olaf drachefn yn tra rhagori mewn hyawdledd a meddylddrychau barddonol ar y rhai cyntaf. Dyma enghraifft o'r arddull gyntaf a nodwyd, wedi ei hyagrifenu ganddo yn y flwyddyn 1697:—

"Y mae dynion dichellgar yn dirmygu efrydiau; ynion diddysg yn eu rhyfeddu; a dynion doeth yn eu defnyddio; canys nid ydynt yn ein dysgu pa fodd i'w defnyddio: y mae hono yn ddoethineb sydd y tu allan iddynt, ac i'w hennill trwy sylwadaeth. Na ddarllenwch i wrthwynebu, nac i gredu, ond i bwyso ac ystyried. Y mae rhai llyfrau i'w profi, eraill i'w llyneu, a rhyw ychydig i'w onoi a'u treulio. Darllen sydd yn gwneuthur dyn cyflawn, ymddyddan sydd yn gwneuthur dyn parod, ac ysgrifenu ddyn manwl. Ac felly os na ysgrifenu dyn ond ychydig, y mae yn rhaid iddo wrth

gof cryf: os na ymddyddana ond yohydig, y mae yn rhaid iddo wrth ffraethineb parod; ac os na ddarlenna ond yohydig, y mae yn rhaid iddo wrth lawer o gyfrwydra i ymddangos i fod yn gwybod yr hyn nad ŵyr. Y mae Hanesiaeth yn gwneuthur dyrion yn ddoeth, barddoniaeth yn ffraeth, mesuroniaeth yn dreiddgar, athroniaeth naturiol yn ddwfn, mossddyag yn ddirifol, rhesymeg a rheitheg yn alluog i ymddadlau."

Dyma eto enghraifft o'r arddull ddiweddaraf— a ysgrifenydd ganddo yn 1625, wyth mlynedd ar hugain ar ol y gyntaf:—

"Llwyddiant ydyw bendith yr Hen Destament; ac adfyd ydyw bendith y Newydd, yr hon yw y fwyaf bendithiol o'r ddwy, ac sydd yn cynnwys prawf cryfach o ffaf Duw. Eto, hyd yn nod yn yr Hen Destament, os gwrandewch ar delyn Dafydd chwi glywch gynifer o alawon eloraidd ag o garolau; ac y mae pwyntel yr Ysbryd Glân wedi myned i fwy o drafferth i ddesgrifio profedigaethau Job na dedwyddwch Solomon. Nid yw llwyddiant heb lawer o ofnau a phethau diflas; ac nid yw adfyd heb lawer o gysuron a gobeithion. Yr ydym yn gweled mewn brodiaeth (*embroidery*) a gwaith edau a nodwydd ei fod yn fwy dymunol gael gwaith siriol ar waelod tywyll a dwl, na ohael gwaith trwm a phrudd ar waelod ysgafnaidd. Bernwch gan hyny am bleser y galon wrth bleser y llygad. Y mae rhinwedd yn ddiaf fel perarogiau gwerthfawr, yn fwyaf peraroglus pan y maent yn cael eu llosgi neu eu malurio; oblegid llwyddiant ydyw y goreu am ddwyn i'r golwg ddyrygion, ond adfyd ydyw y goreu am ddwyn i'r golwg rinwedd."

Un o ragoriaethau arbenig Traethodau Bacon ydyw eu nodwedd awgrymiadol (*suggestive*). Y mae eu darllen "fel pe bwriai dyn had i'r ddaear." A dyma un o'r prawfnodau goreu wrth ba un y gellir gwahaniaethu rhwng meddylwyr o'r radd uchaf a rhai cyffredin. Wrth ddarllen cynnyrch meddwl o radd isel neu ganolig, yr ydych yn teimlo eich bod yn cymeryd i fewn ar unwaith lawn cymaint ag oedd yr awdwr ei hunan yn ei feddwl, a mwy fel allai! Ond wrth ddarllen cynnyrchion athrylith o radd uchel, yr ydych yn gorfod teimlo fod y syniad yn cynnwys mwy o feddwl nag yr oeddych chi ar y cyntaf yn alluog i'w gymeryd i fewn. Y mae yna amryw blygion o ystyr; wedi cael gafael ar un plyg, y mae yna blyg o dan hwnw, ac un arall o dan hwnw drachefn. Y mae syniad fel hyn yn debyg i flwch cywrain yn cynnwys celloedd dirgel— anweledig ar y cyntaf; y naill yn dyfod i'r golwg ar ol y llall, a'r cyfan yn llawn o berlau. Y mae hwn yn nodwedd arbenig o waith y Crëawdwr ymhob man; yn ei weithredoedd yn gystal ag yn ei Air. Y mae pob peth o'i eiddo ef yn gwella yn ein golwg fel yr ydym yn dyfod yn fwy cydnabyddus âg ef. Y mae yn y blodeuyn distadlaf ddigon o ryfeddodau i ddal pob ymchwiliad; po fwyaf a chwilir iddo mwyaf oll a ganfyddir i'w ryfeddu ynddo; a bydd ynddo ryw-beth a erys yn ddirgelwch ar ol pob ymchwiliad. Fel hyn y mae geiriau Duw hefyd, fel ei weithredoedd, yn "dra eang." Y mae yn yr adnod fwyaf cynefin, fel yn y Duw a'i llefarodd, ryw "ogoniant mwy ofnadwy" na dim a ganfyddwyd eto, hyd yn nôd gan y deall mwyaf treiddgar. Po fwyaf dwfn y cloddir i eiriau y Bibl, mwyaf oll a geir o berlau ynddynt, ac nid oes berygl i'r trysorau ddyhysbyddu. Y mae un gair bychan yn y Bibl yn fynych yn agor cil y drws megys o'n blaen, ac yn rhoddi cipolwg i ni ar olygfa sydd yn ymestyn yn ddiiddiwedd, ac yn ymgolli o'n golwg yn yr Anseidrol a'r Tragywyddol! Y mae y geiriau yn "ysbryd ac yn fywyd." Ac i'r graddau ag y mae gwaith dyn yn dwyn rhyw gyffelybrwydd bychan i waith y Crëawdwr, y mae rhywbeth yn tebygu i'r ansawdd yma ynddynt hwythau. Yn nghynnyrchion uchaf athrylith, y mae rhywbeth o feddwl, ac ystyr, a phrydfertwch fel yn aros o hyd, ar ol pob ymchwiliad. A dyma y' rheswm

paham y maent yn dal i'w darllen lawer gwaith drosodd heb waethygu; ie, yn hytrach yn gwella bob tro. Nid ydych byth yn gallu bod yn sicr eich bod yn gweled pen draw y golygfeydd o ardderchogrwydd a phrydfferthwch y mae y geiriau yn eu hagog o'ch blaen. Fel hyn y mae meddyliau mawr Milton a Shakespear, a Bunyan; a phob peth arall o gynnyrch gwir athrylith. Ychydig o'r ysgrifenydd diweddar, dybygem, sydd yn arddargos mwy o'r nodwedd hwn na John Foster. Y mae ei weithiau yn llawn o newydd-deb a bywyd gwir athrylith. Y mae yma ryw rinwedd *bywiol* yn y meddylddrych sydd yn cynhyrfu y darlennydd i feddwl. Y mae y syniad a gyflwynir i ni, nid yn ddodrefnyn wedi ei saernio yn daclus o ddefnyddiau wedi eu casglu o bell; ond yn hytrach yn bren ffrwythlawn wedi tyfu yn naear ei feddwl ef ei hunan, ac yn cynnwys hadau bywiol, trwy rinwedd y rhai y mae yn ei liosogi ei hunan, ac yn cynnyrchu ei ryw yn meddwl y darlennydd drachefn. Ond y mae yn rhaid i ni beidio a chwrtydro fel hyn, onid ni welwn byth ben ein taith! Ceisio dywedyd yr oeddym fod y nodwedd hwn yn amlygu ei hunan i raddau anghyffredin yn Nhraethodau Bacon; ac ar y cyfrif hwn cynghorem ddarlennyddyr ieuanc y TRAETHODYDD sydd yn ymgais at hunan-ddiwylliant, ac yn dygwydd bod yn ddy-eithr i'r Traethodau hyn, i'w mynu yn ddioced, ac i'w darllen a'u hastudio yn drwyadl. Ac os na fydd hyn yn ddigon o gymbelliad, goddefer i ni grybwyll fod gŵr mor fawr a Syr James Mackintosh wedi dadgan ei farn, na fuasai efe yn ystyried cwrs o addysg gŵr ieuanc yn un cyflawn heb ei fod wedi darllen ac astudio Traethodau Bacon.

Nodwedd arall y dymunem alw sylw ati yn y Traethodau hyn ydyw *clirder* y meddyliau. Yr oedd Bacon yn gallu meddwl yn ddwfn, ac ar unwaith yn glir. Y mae rhai yn tybied os bydd sylw neu ddrychfeddwl yn hollol eglur a hawdd ei ddeall, ei fod o anghenrheidrwydd yn un bäs ac arwynebol. Camsyniad mawr ydyw hyn, gyfaill! Yr achos paham yr ydym yn clywed ac yn darllen yn fynych bethau mor anhawdd eu deall, ydyw—fod eu hawdwyr wedi eu gadael heb eu gorphen, nid ydynt wedi cymeryd y drafferth o'u *meddwl allan*. Nid yw y dyn wedi meddwl yn ddigon trwyadl i allu gweled y peth yn eglur ei hunan, ac am hyny gallwn fod yn dra sicr nas gall byth lwyddo i'w wneuthur yn eglur i eraill. Y mae y dwfr yn dywyll, nid am ei fod yn ddwfn, ond am ei fod yn gymysglyd. Tra ar y llaw arall, y mae y llall wedi cymeryd trafferth i feddwl y peth yn drwyadl, nes y mae y syniad wedi ymfurfio yn eglur o flaen ei ddeall ef ei hunan, ac oblegid hyny y mae yn gallu ei gyflwyno yn eglur i eraill—nes y mae fel y penadur (*sovereign*) newydd yn dyfod o'r *mint*, a phob llinell o hono yn sefyll allan yn llym a dysglær. Po fwyaf llwyr y bydd un wedi meistrolu unrhyw bwnc, mwyaf oll fydd ei allu i'w wneuthur yn eglur i eraill. Yn yr achos hwn, y mae y gwaelod i'w weled, nid am fod y dwfr yn fäs, ond am ei fod yn loew. Dyma ydyw y rheswm am y ffaith sydd yn hysbys i bawb, mai y dynion uchaf eu cyrhaeddiadau mewn unrhyw wyddor neu gelfyddyd a ystyrir bob amser y rhai mwyaf cymhwys i gyfansoddi hyd yn nod lyfrau mwyaf elfenol y wyddor hono. Y dyn sydd wedi meistrolu y wyddor yn fwyaf trwyadl yn ei phynciau dyfnaf, ydyw y mwyaf galluog o bawb i wneuthur hyd yn nod ei hegwyddorion cyntaf yn eglur a dealladwy i eraill. Y mae yr ysgrifenydd tra galluog hwnw, yr Archesgob Whately, yn cyfeirio sylw neillduol at y nodwedd hwn, fel un o brif ragoriaethau Traethodau Bacon—yn y Traethawd Arweiniol campus o'i eiddo

sydd wedi ymddangos yn yr argraffiad newydd a ddygwyd allan ganddo o'r "Traethodau," teitl yr hwn a roddasom uwchben yr ysgrif hon. Y mae yr Archesgob ei hunan yn un o'r rhai mwyaf clir a defnïol (*definite*) yn meddwl ac yn ysgrifenu o bawb y gwyddom am danynt; ac nid oes ganddo ddim cydymdeimlad â'r arddull aneglur, oraclaidd, a hanner-dammegol y mae rhai o ysgrifenywyr a darllenwyr yr oes hon yn ymhyfrydu cymaint ynddi. Fel yr oedd un ysgrifenydd yn dyweyd am dano, wrth adolygu ei weithiau yn un o'r cyhoeddiadau chwarterol Seisonig, er ys amryw flynyddoedd yn ol:—"He is the sworn foe of all mysticism, and has a reason to give for everything he says." Y mae Whately, yn y Traethawd Arweiniol crybwylledig, yn aros cryn lawer ar y rhagoriaeth hwn sydd yn perthyn i Draethodau Bacon—cyfuniad o ddyfyniad ac eglurder; ac wrth wneyd hyny, yn condemnio gyda llawer iawn o fedrusrwydd, ac arabedd digrifol weithiau, yr arddull gyferbyniol, sef yr eiddo Carlyle, Emerson, ac eraill o ddysgybllion y "*mystical school*" yn Lloegr ac America. Y mae yn ysgrifenu mor nodedig o dda, fel y mae yn ein tentio i ddyfynu rhai darnau o hono, er mwyn ein darllenwyr "uniaith," ac er mwyn y rhai hyny o'r dosbarth arall sydd yn dygwydd bod heb weled y Traethawd. Dyma fel y dywed:—

"Fe allai y tybir ef gan rai yn orchwyl afreidiol i ddyweyd dim mewn modd yn y byd am waith sydd wedi bod yn nwyllaw y rhan fwyaf o bobl am oddeutu dwy ganrif a hanner, ac sydd, yn ystod yr amser hwnw, wedi ennill yn hytrach na cholli mewn poblogrwydd. Ond y mae rhyw ansoddau yn ysgrifeniadau Bacon, at y rhai y mae o bwys, o bryd i bryd, i gyfeirio sylw neillduol, ar gyfrif tuedd sydd yn fynych yn ei hamlygu ei hunan, ac y mae yn dyfod i'r golwg yn lled gref yn y dyddiau hyn, i edrych gydag edmygedd gormodol ar ysgrifenywyr o nodwedd hollol wrthwyneb; sef rhai yn ffugio rhyw fath o ardderchogrwydd cyfriniol, tywyll, hanner-dealladwy.

Y mae yn hysbys y fath anair i'n hinsawdd ni, ydyw yr amlra o darth a niwl sydd yma, a chymaint yn fwy o berygl ac anghyfleusdra sydd yn tarddu o'r cymysgedd hwnw o oleuni a chaddug nag oddiwrth dywyllwch y nos. Ond bydded i rywun ddyohmygu iddo ei hunan, os gall, niwl mor ysplenydd gan lwiau gwych ac amryfal, nes y byddai dynion yn anghoŵo ei anghyfleusderau mewn hoffder at ei brydferthwch, a bod rhyw fath o chwaeth gymylog yn ffynu, i ddewis y tywyllni gorwch hwnw yn hytrach na goleuni diaddurn canol dydd; nis gallai dim llai na hyn fod yn ddarlun cyfatebol o'r niwed a wneir i feddwl y cyffredin gan rai ysgrifenywyr diweddar yn Lloegr ac America;—rhyw fath o 'Blant y Niwl,' y rhai a ddygant allan eu golygiadau,—y rhai ydynt yn fynych yn burffol ac nid yn anfynych yn bur niweidiol,—o dan gysgod y cyfnos. Y maent wedi arfer eu dysgybllion i fawrygu fel arddull oruchel o athronyddol, yr hyn a ddesgrifir yn oreu trwy ei alw yn rhyw dawch o eiriau heb eu deall ond yn amherffaith, trwy yr hwn y mae rhyw ddryohfeddylliau—gwreiddiol mewn ymddangosiad, tra nas gellir ond yn brin wahaniaethu eu llinellau— yn *hofran*, megys, ar y golwg, mewn math o fawrwycheder llwyd-dywyll, sydd yn mwylhau yn ddifawr eu gwir faintioli."

Y mae yr Archesgob yn awr yn ein ffafrio âg amryw ddarnau detholedig—blasus, a thra adeiladol, y mae yn debyg, i bwy bynag a fedr eu deall (!) o'r arddull fawreddog, niwliog, a gondemnr ganddo, wedi eu dyfynu o weithiau diweddar, y rhai ydynt mewn cryn fri, o eiddo dysgybllion yr ysgol gyfriniol hon. Dodwn yma enghraifft neu ddwy, o ran cywreinerwydd, ger bron ein darllenwyr. Rhaid i'r darlennydd Cymreig faddu i ni am eu rhoddi yn yr iaith Saesoneg; oblegid y maent yn anghyfieithadwy. Gan eu bod mor dywyll yn yr iaith yr ysgrifenydd hwynt, buasai y tywyllwch yn Aiphtaid, dybygem, mewn cyfieithiad!

"In truth, then, the idea (call it that of day or that of night) is threefold, not two-

fold :—day, night, and their relation. Day is the thesis, night the antithesis, their relation the mesothesis of the triad,—for triad it is, and not a mere pair or duad, after all. It is the same with all the other couples cited above, and with all couples, for every idea is a trinitarian. Positive pole, negative one, and that middle term wherein they are made one; sun, planet, their relation; solar atom, planetary one, their conjunction, and so forth. The term of relation betwixt the opposites in these ideal pairs is sometimes called the point of indifference, the mesoteric point, the mid-point. This mid-point is to be seen standing betwixt its right and left fellow-elements in every dictionary: for example, men, man, women; or adjectively, male, human, female. ‘So God created man in His own image: in the image of God created He him; male and female created He them.’”

“Now, this threefold constitution of ideas is universal. As all things seem to go in pairs to sense, and to the understanding, so all are seen in threes by reason. This law of antinomy is no limited, no planetary law, nor yet peculiarly human; it is cosmical, all-embracing, ideal, divine. Not only is it impossible for man to think beauty without simultaneously thinking deformity and their point of indifference, justice without injustice and theirs, unity without multiplicity and theirs, but those several theses (beauty, justice, unity, namely) cannot be thought without these their antitheses, and without the respective middle-term of the pairs. As the eye of common sense cannot have an inside without an outside, nor a solar orb without a planetary orbicle (inasmuch as it ceases to be solar the instant it is stript of its planet), so the eye of reason cannot see an inside without seeing an outside, and also their connexion as the inside and the outside of one and the same thing, nor a sun without his planet, and their synthesis in a solar system. In short, three-in-one is the law of all thought and of all things. Nothing has been created, nothing can be thought, except upon the principle of three-in-one. Three-in-one is the deepest-lying cypher of the universe.”

Mewn perthynas i'r frawddeg olaf, sylwa Whately mewn gwawdiaeth, fod yn rhaid fod yr un syniad yn meddwl y bardd, pan yn son am ryw gerbyd yn cario “tri oddiffewn,”—

“So down thy hill, romantic Ashbourne, glides
The Derby Dilly, carrying three insides!”

Dyma eto “choice bit”—yr bwn yn ddiau sydd yn un o'r pethau y dywed Bacon ydynt i'w “cnoi a'u treulio;” ond fod lle cryf i ofni mai nid hawdd fydd dyfod o hyd i ddannedd a chylla galluog i'r gwaith. Am ei “lyncu” heb hyny, ofnwn fod hyn yn anobeithiol, heb gael fydd a gwddf digon llydan ganddi i lyncu unrhyw beth! Dyma y deryn :—

“Thus to the ancient, well-known logic, which we might call the logic of identity, and which has for its axiom, ‘A thing can never be the contrary of that which it is,’ Hegel opposes his own logic, according to which ‘every thing is at once that which it is, and the contrary of that which it is.’ By means of this he advances *a priori*; he proposes a *thesis*, from which he draws a new *synthesis* not directly (which might be impossible), but indirectly, by means of an *antithesis*.”

Rhag i'r darlennydd Cymreig “uniaith” fod heb ddim i'w “guoi a'i dreulio” o'r darnau maethlon hyn, rhoddwn iddo yma un tamaid bychan o'r deryn olaf a ddyfynwyd, yr hwn, os nad ydym yn camsynied, a bery iddo am hir amser. Dyma y gosodiad :—“Y mae pob peth yr hyn ydyw, ac ar unwaith y gwrthwyneb i'r hyn ydyw!”

Ar fynegiadau yr oraclau mwys a thywyll hyn, mewn cyferbyniad i feddyliau clir, dwfn, a sylweddol Bacon, gwna yr Archesgob y sylwadau rhagorol a ganlyn :—

“Yn awr, heb gymeryd arnom i awgrymu nad yw y darnau a ddyfynwyd yn cyflfed dim ystyr bendant i unrhyw ddarlennydd, nac i'r ysgrifenydd, gellir yn ddiogel faen-umio nad ydynt yn cael eu deall ond yn dra thywyll, os yn ddealladwy o gwbl, i fwy

ddaear—yn ymsaethu mor bell tua'r nefoedd! Yr ydym yn tybied fod hyn yn nodwedd perthynol i'r meddyliau hyny yn y rhai y mae y gallu o gyngreddf (*intuition*) yn gryf; ac yn y meddyliau mwyaf, dybygem, y mae y gallu hwn gryfaf. Yn rhinwedd y gallu hwn, y mae y meddwl yn syllu ar wirionedd, yn ei oleuni dysglær ei hunan, ac nid fel y mae yn cael ei adlewyrchu trwy gyfrwng meddyliau eraill, na thrwy unrhyw ffurfiau rhesymegyddol. Y mae y drychfeddyliau a gynnyrchir yn rhinwedd y gallu hwn fel y mellit, yn goleuo yn sydyn a thanbaid; ond y maent fel y mellit hefyd yn dangos yn amlycach nag o'r blaen y *tywyllwch amgylchynol*. Y mae yn bosibl fod dad-blygiad cryf y gallu rhesymegyddol yn meddwl Whately yn peri nad oes ganddo ond ychydig o gydymdeimlad â meddyliau o'r nodwedd olaf a enwyd. Yr ydym yn tybied fod graddan o'r tywyllwch yma yr ydym yn sôn am dano yn perthynu hefyd, a hyny, o anghenrheidrwydd, i ymchwiliadau arddansoddol dwfn. Am un o'r dyfyniadau a roddir gan Whately o'r natur yma,* fel engraifft o'r arddull a gondemnr ganddo, buasai yn anhawdd iawn, dybygem, gyfleu y meddwl sydd ynddo (os ydym yn ei ddeall) mewn iaith fwy eglur. Y mae y tywyllwch yn ymddangos i ni fel yn perthynu yn hanfodol i'r pwnc yr ymdrinir âg ef, ac nid i'r meddwl sydd yn ymdrin â'r pwnc. I symio i fyny yn fyr yr hyn a ddywedwyd ar y ddwy ochr i'r mater yma. Fel y mae "eithafon yn cydgyfarfod," y mae y meddyliau mwyaf, mewn rhyw bethau, yn tebygu i'r rhai lleiaf. Y mae dan fath o sylledd (*simplicity*); un yn cyfodi oddiar fychandra a gwendid meddwl; ond y llall yn cyfodi oddiar fawredd a nerth meddwl. Felly hefyd y mae dau fath o'r tywyllwch y soniasom am dano: un yn cael ei gynnyrchu gan ffug-fawredd, a'r llall yn effaith mawredd gwirioneddol—y naill yn cael ei achosi gan dywyllwch y meddwl, a'r llall yn cael ei achosi gan dywyllwch a phellder y rhandiroedd hyny ag y mae y meddwl yn meddu-digon o nerth a beiddgarwch i weithio ei ffordd i'w cyffiniau! I ddychwelyd at gymhariaeth Whately, y mae meddylddrychau y naill yn niwliog, am nad ydynt ond "pentwr o darth disylwedd;" a'r eiddo y llall felly, am eu bod yn "gadwen o fynyddoedd mawreddog," a'u penau yn ymgolli o'n golwg mewn awyr ysbrydol ac uwchddaearyl! Ac megys ag y mae y ddau ddsbarth hyn o feddyliau yn gwahaniaethu yn sawr oddiwrth eu gilydd hyd yn nod yn y pethau hyny yn y rhai y maent yn tebygu i'w gilydd, felly yr oll sydd genym i'w wneyd gyda hyn fel gyda phob peth arall, ydyw—bod yn ofalus i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau, rhwng rhiith a sylwedd.

Yr ydym yn gweled y bydd raid i ni "ddiweddu cyn gorphen" y waith hon eto. Yr ydym, gan hyny, yn gadael y cyfan sydd yn ngweddill genym i ffurfio "trydedd Erthygl,"—ac ar yr un pryd yn ymrwymo i'n darllenwyr mai hono fydd yr *olaf*; ac hefyd yr *oreu*, am y bydd yn cael ei gwneyd i fyny bron yn gwbl o ddyfyniadau o'r "Traethodau" eu hunain.

* Bacon's Essays, &c. by Whately. Preface, page vii.

Nodiadau Elenyddol.

Er mor lwyf y mae sylw y deyrnas yn cael ei dynu ar y gwrthryfel yn India y Dwyrain, ac er y cyfyngder arianol y mae masnach yn ei holl gangenau, yn ystod y misoedd diweddfaf, wedi bod ynddo, eto y mae mwy o fywiogrwydd yn ymddangos yn y fasnach mewn llyfrau nag a welwyd er ys amser maith, ac y mae lle cryf ar hyn o bryd i obeithio mai cynnyddu a wna y bywiogrwydd hwnw yn y misoedd dyfodol.

Y prif lyfr sydd wedi tynu sylw y wlad yr wythnosau diweddfaf ydyw, *Missionary Travels and Researches in South Africa*. By David Livingstone, L.L.D.; D.C.L. Y mae y galwad am y gwaith hwn wedi bod yn fwy nag am yr un llyfr o'i faint a'i bris a ymddangosodd er ys blynyddoedd, oddieithr *Macaulay's History of England*. Gwerthwyd yn agos i bedair mil ar ddeg o hono yn y *Trade Sale* gan y cyhoeddwr yr un diwrnod, a bu raid cael ail gyfleuwad drachefn a thrachefn. Y mae pum' mil ar hugain o hono yn awr wedi eu cyhoeddi, ac y mae yn ddiammheu na orphwysa y galwad am dano heb amryw filoedd eto. Y mae y llyfr wedi rhoddi boddlonrwydd cyffredinol. Y mae pob pleidiau yn cyduno i'w ganmawl. Yr ydym yn bwriadu, os cawn hamdden, ei ddwyn yn helaeth dan sylw ein cydwladwyr yn y rhifyn nesaf o'r TRAEHODYDD.

Un o'r llyfrau gwerthfawrocaf ar Dduwinyddiaeth yn ein bryd ni a gyhoeddwyd er ys amser maith, ydyw *Systematic Theology*, by Ralph Wardlaw, D.D. Edited by James R. Campbell, M.A. Y mae yr oll o hono yn awr wedi dyfod allan. Y mae y gwaith, ag ystyried ei faint, wedi ei gyhoeddi yn nodedig o radlawn. Y mae mewn tair o gyfrolau trwchus, yn cynnwys rhyngddynt tua dwy fil a thri chant ac ugain o du dalenau. Y mae wedi ei argraffu ar lythyren eglur, ac y mae holl ymddangosiad y llyfr yn gyfryw ag sydd yn ddigon i demtio un i'w ddarllen. Traddodwyd cynnwys y gwaith fel darlithiau i'r gwŷr ienainc cysylltiedig â'r sefydliad Duwinyddol yr oedd yr awdwr yn athraw ynddo o'i ffurfiad cyntaf yn 1811 hyd ei farwolaeth ef yn 1863. Bu y gwaith felly yn cael ei barotôj yn raddol ganddo am dros ddeugain mlynedd. Yr oedd hyd fisoedd diweddfaf ei oes yn parhâu i'w adolygu, gan ychwanegu ato, neu dynu oddiwroth, ei gywiro, neu ei gyflenwi, yn ol fel yr oedd ei feddwl ar y pryd yn cael ei dueddu. Y mae ôl yr adolygiad yma ar yr holl waith. Y mae yn cyfeirio at, ac yn ymosod yn erbyn, ffurfiau diweddaraf gwahanol gyfeiliornadau mor amlwg a phenderfynol ag y gwna at yr un cyfeiliornadau dan ffurfiau llawer henach a mwy adnabyddus. Fe gyhoeddodd Dr. Wardlaw lawer o lyfrau yn ei ddydd. Y mae ei enw fel awdwr yn dra adnabyddus yn y deyrnas hon ac yn Unol Daleithiau yr America. Ond nid ydym yn amheuedu dim na bydd yn fwy adnabyddus trwy y llyfr hwn i'r oesoedd a ddêl na thrwy ddim arall a ysgrifenyd ganddo. Nid ydym yn profesus cydolygiad âg ef ar yr holl destynau yr ymdrinir ganddo yma â hwynt; ond, ar y cyfan, tueddir ni i feddwl y byddai yn anhawdd iawn, os nad yn anmhosibl, ymhlich yr holl lyfrau adnabyddus i ni a gyhoeddwyd ar Dduwin-

yddiaeth fel Trefniant, i'r efrydydd ieuanc gyfarfod âg un a allai fod mor wasanaethgar iddo yn ei fyfyrdodau duwinyddol a'r cyfrolau hyn. Yr ydym yn mawr obeithio y bydd i'w cyhoeddiad effeithio er sobri meddyliu meddyliu lliaws o'r efrydwyr ieuainc yn athrofydd Lloegr yn eu hymchwiliadau duwinyddol, ac er attal y gogwydd ag sydd yn ffynu, yr ydym yn ofni, mewn lliaws o honynt, i gilio oddiwrth symlurwydd yr efengyl, a hen dduwinyddiaeth dda eu tadau.

Mae cyfrol fechan nodedig o werthfawr wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar—*Modern Anglican Theology: Chapters on Coleridge, Hare, Maurice, Kingsley, and Jowett, and on the Doctrine of Sacrifice and Atonement.* By the Rev. James H. Rigg. Un o weinidogion y Wesleyaid ydyw yr awdwr. Fe gyhoeddwyd y rhan fwyaf o'r llyfr o'r blaen mewn adolygiadau yn y *London Quarterly Review*, ac yn yr *American Methodist Quarterly Review*, cyhoeddiadau sydd yn dal cysylltiad â'r enwad parchus y perthyna yr awdwr iddo. Nid ydym yn gwybod ymha le y gallai y darlennydd gael golygiad mor gywir, ac ar yr un pryd mor gryno, ar syniadau ag sydd mor ddylanwadol ar feddyliu cynifer yn y wlad hon y dyddiau hyn, ag a ga yn y gyfrol hon. Y mae yr ysgrifenydd wedi astudio ei awdwr yn drwyadl; y mae yn beirniadu arnynt yn y modd mwyaf boneddigaidd, gan arddangos y parch mwyaf i'w galluoedd, ac eto gyda'r argyhoeddiad cryfaf a'r ymdeimlad dwysaf o'r perygl y gallai yr hyn sydd hanfodol i'r efengyl fod ynddo oddiwrth eu hathrawiaeth a thrwy eu dylanwad hwy. Nid ydym yn gwybod i ni nemawr o weithiau erioed gyfarfod â chyfrol yr arddangos o du ei hawdwr fwy o degwch meddwl tuag at y rhai a wrthwynebir ganddo, ac ar yr un pryd yr ymlyniad mwyaf diysgog wrth hanfod ac ysbryd a bywyd yr efengyl. Yr ydym o'n calon yn ei gymhell i sylw ein darlennywyr.

Ymgais arall tra galluog i gysoni yr Ysgrhythrau â darganfyddiadau gywddor, ydyw, *The Bible and Astronomy; an Exposition of the Biblical Cosmology, and its Relations to Natural Science.* By John Henry Kurtz, D.D., *Professor of Church History in the University of Dorpat, &c.* Translated from the third and improved German Edition, by T. D. Simpton. Y mae yr awdwr yn dra adnabyddus yn Germany fel Duwinydd galluog ac efengylaidd, ac y mae y gyfrol bresennol yn llawn o broffon o hyny. Pa beth bynag a ddyweder am egwyddor yr awdwr er ceisio cysoni yr hyn sydd yn yr Ysgrhythrau yn ymddangos yn groes i ddarganfyddiadau y gwyddoregau naturiol, y mae yn anhosibl darllen y llyfr heb deimlo ein bod yn nghymdeithas meddwl duwiolfrydig, addolgar, a thra chydabyddus â gweithredoedd yn gyystal ag â geiriau yr Hollalluog. Yr un pryd yr ydym yn tybied na bydd ei ddisgyblion yn aml yn y wlad hon ar egwyddor cysoni y naill â'r llall.

Mae *Quiet Hours*, by the Rev. John Pulsford, yn un o'r llyfrau hyny nad oes eisieu ond ychydig gydnabyddiaeth â hwynt er sicrhau iddynt y cymeradwyaeth uchaf. Mae yn hawdd gwelod mai nid dyn cyffredin ydyw yr awdwr. Y mae rhywbeth nodedig o wreiddiol, annibynol, a thra barddonol yn ei feddwl. Y mae yn edrych drosto ei hunan ar natur a dadguddiaid, ac yn canfod yn y naill ryw arlun o'r llall. Mae rhai ymadroddion o'i eiddo braidd yn amwysawl—yn terffynu ar y cyfriniol. Ond y mae pwysau a nerth ei feddyliu ar y cyfan yn sicr o beri iddo gael ei gofio wedi i lawer awdwr o ymddangosiad llawer mwy ymhongar a rhwysgafwr syrthio i ebar-
tragwyddol.

Mae cyfrol hynod wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar,—*The History and Life of the Reverend Doctor John Taulere of Strasbourg; with Twenty-Five of his Sermons* (Temp. 1340). *Translated from the German, with Additional Notices of Tauler; Life and Times, by Susanna Winkworth, Translator of Theologia Germanica; and a Preface by the Rev. Charles Kingsley, Rector of Eversley and Canon of Middleham.* Yn yr ymchwiliadau a wnaed yn y blynyddoedd diweddaf i hanes yr eglwys, nid oes odid ddim wedi tynu mwy o sylw na hanes y rhai a elwir gan Ullmann, y Diwygywr cyn y Diwygiad. Yr oedd rhai o'r cyfryw, megys Wickliffe, Lord Cobham, Huss, a Jerome o Prague, bob amser yn dra hysbys. Ond yr oedd eraill o honynt, hyd yr ymchwiliadau y cyfeiriwn atynt, wedi cael agos eu llwyr anghofio, a'r gwersi gwerthfawr sydd i'w cael yn eu hanes ac yn eu hysgrifeniadau agos yn gwbl ddyeithr i'r byd. Ond trwy yr ymchwiliadau hyn, yn benaf yr eiddo Ullmann, y maent wedi eu tynu i'w adnabyddiaeth a sylw y rhan fwyaf o'r rhai sydd yn cymeryd dim dyddordeb yn helyntion eglwys Crist ar y ddaear mewn gwahanol oesoedd, ac nid ychydig ydyw y parch a delir iddynt fel tystion ffyddlawn dros y gwirionedd, can belled ag yr oedd yn adnabyddus iddynt hwy, mewn amser pan oedd corff yr hyn a elwid yn eglwys gristionogol yn ei wadu. Y mae yr ymchwiliadau a wnaed wedi profi fod amryw cyn amser Luther, ie yn mynwes eglwys Rhufain ei hunan, wedi cael gafael ar y gwirionedd er yn gymysgedig â llawer o amhuredd, yn teimlo yn ddwys oblegid y llygredigaeth a'r drwg-fuchedd oedd yn gwarthruddo y rhan fwyaf o'r offeiriaid a'r bobl, yn pregethu yn onest ac yn wrol yn ei erbyn, ac yn tynu arnynt eu hunain, oblegid hyn, gryn lawer o wrthwynebiad oddiwrth yr awdurdodau eglwysig yr oeddent ddarostyngedig iddynt. Ac er nas gellir dywedyd iddynt fod yn llwyddiannus iawn mewn gwneuthur daioni i'w cydoeswyr, y mae yn sicr fod eu hysgrifeniadau a'u hesiamplau wedi bod yn dra bendithiol i Luther a'i gyd-ddiwygywr, a bod rhai o honynt, hyd y dydd hwn, yn cynnwys defnyddiau myfyrdod i rai o feddylwyr dwysaf a dyfnaf ein hoes. Un o honynt, ac ar ryw ystyr un o'r rhai hynotaf o honynt, oedd yr hen fynach Dominicaidd a ddygir ger ein bron, yn ei hanes a'i bregethau, yn y llyfr hwn. Mae amseriad a manylion ei hanes yn dra ansicr. Dybygid, pa fodd bynag, ei ddychwelyd i adnabyddiaeth o'r efengyl yn brofiadol tua y ffyddlyn 1340, pan oedd tua hanner can' mlwydd oed. Bu farw yn 1361. Y mae hanes yr hyn a olygid ganddo ei hunan fel ei droedigaeth yn dra hynod, ac yn dangos yn amlwg, er nad esgynodd byth i symledd ffydd yr efengyl, fel ag y mae yn cael ei deall yn yr eglwys Protestanaidd yn gyffredin, eto ei fod wedi bod mewn gwasgfeuson meddwl dirfawr, ac mai yn Iesu Grist yn unig y cafodd lonyddwch. Ac er y rhaid addef, dybygid, fod y tawelwch hwn yn hytrach yn gynnyrch ansawdd meddwl darostyngedig i Grist nag ymddiried calon yndo, yn yr hyn ydyw i bechadur fel y cyfryw, eto nis gallwn betruso dim nad oedd yn dawelwch hollol gyfreithlawn. Ond yr ydym yn gweled ein bod yn myned yn rhy faith. Mae y llyfr yn cynnwys rhagymadrodd gan Kingsley—hanes dyddorol iawn am Tauler a'i amserau gan y foneddiges a gyfieithodd y pregethau—a saith ar hugain (nid pump ar hugain) o'i bregethau. Y mae yr holl gyfansoddiad yn gyfryw ag yr ydym yn teimlo yn hyderus i'w gyftwyno i sylw ein darllenwyr meddylgar, gyda sicrwydd y bydd i'w hadnabyddiaeth o hono wneyd daioni i'w deall a'u calon.

Llyfr arall o Germany, o'r un duedd ddefosïynol, ac yn arddangos gyda meddwl hollol grefyddol athrylith gref anghyffredin, ydyw, *Gotthold's Emblems: or Invisible things understood by things that are made.* By Christian Scriver, Minister of Magdeburg in 1671. Translated from the *twenty-eighth German edition, by the Rev. Robert Menzies, Hoddam.* Mae y llyfr mewn dwy gyfrol. Yr oedd yr awdwr yn ei ddydd yn un o'r gweinidogion parchusaf a mwyaf poblogaidd trwy holl Germany. Yr oedd y llyfr hwn mor boblogaidd ar ei gyhoeddiad cyntaf, ac am rai blynydd-oedd wedi hyny, fel yr aeth trwy ddau ar hugain o argraffiadau. Yr oedd yn llyfr cyffredin ymhlith teuluoedd crefyddol ymhob man trwy y wlad. Ond rywfodd, wedi hyny, gan y naill achos neu y llall, yn benaf gan yr anghrefydd a ymdaenodd fel diluw dros y tir, fe syrthiodd i esgeulusiad cyffredinol, fel nad oedd ond ychydig yn gwybod am dano, ac nad oedd un copi o hono i'w gael gan y llyfrwerthwyr yn un man. Gyda'r adfywiad a ddaeth yn y blynyddoedd diweddaf ar grefydd efengylaidd yn Germany, fe dynwyd y llyfr i sylw drachefn. Yr oedd erbyn hyn, pa fodd bynag, mor werthfawr yn ngolwg yr ychydig oedd yn ei feddu, fel nad oeddent barod i ymadael ág ef am unrhyw bris. Y mae golygydd y trydydd argraffiad ar hugain yn dywedyd, mai un o'r anhawserau mwyaf y cyfarfuasai efe â hwynt oedd,—cael gafael ar gopi o hono i'w argraffu, am nad oedd neb yn foddllawn i ymadael â'r un oedd ganddo. Y mae yn ymddangos fod y llyfr, er y pryd hyny, yn dra phoblogaidd yno, oblegid y mae y cyfieithiad hwn wedi ei wneyd o'r wythfed argraffiad ar hugain, ac fe gyhoeddwyd hwn yn 1846. Y mae yn dra thebyg fod amryw argraffiadau wedi eu cyhoeddi yno ar ol hyny. Y mae y llyfr dan anghenrheidrwydd o foni yn boblogaidd lle y byddo yn adnabyddus. Y mae yr awdwr yn tybied gŵr duwiol, o'r enw Gotthold, yn edrych ar natur, ar y byd a'i amgylchiadau, ac ar ymddygiadau dynion ynddo, â llygad ysbrydol, ac yn defnyddio pob gwrthddrych sydd yn dyfod dan ei sylw, pob amgylchiad y mae yn cyfarfod ág ef, yn gymhariaeth er gosod allan trwyddo ryw wirionedd mawr ysbrydol ger bron meddyliau ei ddarllenwyr. Y mae yma ryw beth naturiol *felly*, am bob dydd yn y flwyddyn, yn arwyddlun o ryw wirionedd mawr, pwysig, tragwyddol. Fe wel y pregethwr, ar unwaith, werth llyfr o'r fath iddo ef, er ei gynnorthwyo i ddwyn pethau yr efengyl yn agos at ddeall ei wrandawyr.

Mae yn dygwydd yn fynych iawn, fel gyda Scriver yn Germany, fod rhai o'r awdwyr goreu gan ryw achos neu arall yn syrthio o'r golwg heb fod braidd neb, oddieithr ambell un yn ddamweiniol, yn gwybod dim am danynt. Yr ydym ni ein hunain yn gwybod am rai awdwyr nas gallwn mewn un modd gyfrif am ddyeithrwech y byd yn gyffredin iddynt, pan y mae eraill annhraethol is na hwynt, dybygem ni, ymhob rhagoriaeth meddyliol a llenyddol, agos yn adnabyddus yn gyffredinol. Y mae amryw o'n cyfeillion yn gwybod ein bod wedi amcanu, ac wedi gwneyd rhyw gymaint o barotadau tuag at ymdrechu dwyn rhai o'r cyfryw i sylw, gyda gobaith y gall-em felly wneyd daioni i'n cydwladwyr, a gwneyd rhyw fesur o gyfiawnder â nifer o rai rhagoraf y ddaear, y mae y byd, hyd yma, wedi ymddwyn yn dra annheilwng tuag atynt. Ymhlith y cyfryw, ac un o'r rhai penaf yn eu mysg, yr oeddem yn golygu awdwr y llyfr canlynol, ag y mae y golygydd parchedig wedi cael y blaen arnom i'w ddwyn i sylw, ac wedi ennill hawl iddo ei hunan, trwy y cyhoeddiad o hono, i ddiolchgarwch gwresocaf pob

gwir efrdydd:—*Of the Light of Nature, a Discourse by Nathanael Culverwel, M.A. Edited by John Brown, D.D., Edinburgh. With a Critical Essay on the Discourse by John Cairns, M.A., Berwick-on-Tweed.* Mae enw y golygydd, Dr. Brown, yn adnabyddus i'n holl ddarllenwyr; ac y mae enw awdwr y Rhagdraethawd yn sicr, cyn hir, o fod yn adnabyddus trwy holl Ewrop. Yn wir, fe ddarllenwyd anerchiad ganddo yn y Germanaeg, yn nghyfarfod y Cynghrair Efynglaidd a gynnaliwyd yn ddiweddar yn Berlin, âg sydd wedi ei ddyrchafu yn meddyliau y rhai oll oeddent bresennol i'r dosbarth uchaf fel cristion ac fel ysgrifenydd. Dywedai gohebydd y *Times* fod yr anerchiad hwn yn rhagori ar yr oll o'r cyfansoddiadau a gyflwynwyd ger bron y Cynghrair. Y mae y rhagdraethawd o'i eiddo i'r llyfr presennol ymhob modd yn deilwng o hono ei hunan ac o'r llyfr hefyd. Nid rhaid dywedyd fod y golygydd wedi cyflawni ei orchwyl yn y modd mwyaf galluog a gofalus. Ac am y Traethawd ei hunan ni a ddymunem gymhell ein holl ddarllenwyr i fynw ei weled a barnu drostynt eu hunain. Yr ydym yn gobeithio y câ y golygydd y fath gefnogaeth yn ngwerthiant y llyfr presennol ag a'i tueddo i ddodi yn y wasg yn ddiwed y gweddill o'r traethodau gan yr un awdwr, ac y cyfyd enw Culverwel yn fuan i'r parch a'r poblogrwydd ag a deilynga.

Y mae amddiffyniad grymus a phenderfynol, dybygem ni, i brif athronydd meddyliol Lloegr, yn erbyn camddarluniadau Cousin, Syr William Hamilton, ac eraill, wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar:—*The Intellectualism of Locke: An Essay.* By Thomas E. Webb, M.A. Peth tra boddlonol ydyw cyfarfod â thraethawd fyddo yn olrhain unrhyw ymfyniad yn drwyadl, ac yn gadael argraff ar feddwl y darlennydd am y pwnc dan sylw—*dyna hwna wedi ei benderfynu.* Anaml iawn y cyfaryddir â'r fath, ond y mae y llyfr yn hwn yn un o'r cyfryw. Y mae eraill wedi bod yn ymgais yn yr un cyfeiriad, rhai yn fwy ac eraill yn llai llwyddiannus: ond wele un, o'r diwedd, wedi dwyn y fath ymrôad, gallu, a thegwch, i'w ym-driniaeth â'r testyn, ag sydd, os nad ydym yn camgymeryd, yn ddigonol i sicrhâu iddo sylw cyfredinol, ac i effeithio er newid tŷn beirniadaeth Ewrop ar un o'r meddylwyr dwysaf, gonestaf, a mwyaf annibynol, a welodd y byd erioed.

Y mae argraffiad newydd, prydferth, wedi ei ddwyn allan o *The Biographical History of Philosophy, from its Origin in Greece down to the Present Day.* By George Henry Lewes. Y mae y llyfr hwn, yn yr argraffiad blaenorol o hono yn dra adnabyddus. Fe'i cyhoeddwyd yn rhestr cyfrolau swllt Charles Knight, ac fe werthwyd o hono filoedd lawer. Y mae yr argraffiad presennol yn un gyfrol wythplyg, ac wedi ei ddiwygio a'i helaethu i'r fath raddau, fel y gellir, o herwydd y cyfnewidiadau a wnaed arno, a'r ychwanegiadau a wnaed ato, ei olygu bron fel cyfansoddiad newydd. Nid oes gan yr awdwr y ffydd leiaf mewn arddsoddiaeth. Ei safle ef yw gwyddor. Rhaid i holl athronwyr y byd gilio o'r neilldu a rhoddi lle i Auguste Comte a'i *Positive Philosophy.* Dyma eithaf y byd yn ol ei feddwl ef. Y mae maen penaf teml gwybodaeth wedi ei ddwyn allan, yn ei fryd ef, gan y Ffrencwr hwn. Fe dybia efe fod yr ammheuaeth hwn ynghych posibl-rwydd pob *philosophy* yn fantais iddo i ysgrifenu ei hanes. Ond o'n rhan ein hunain, ymddengys i ni yn dra ansfanteisiol; oblegid nid yw, yn y diwedd, ond yn newid yn dosbarth o ragfarnau am ddosbarth arall. Pa fodd bynag, y mae y llyfr, mewn rhyw bethau, yn rhagori fel hanes athron-

iaeth ar ddim arall adnabyddus i ni. Y mae yn anmhosibl ei gymharu â'r eiddo Morell, er esiampl, heb deimlo y gwahaniaeth dirfawr sydd rhwng ysgrifenydd yn meddwl ac yn barnu drosto ei hunan, ag yn ni binyu am ei syniadau ar lafur rhai eraill. Y mae y gwaith oll yn arddangos darlenniad eang, ymchwil manwl, gallu anghyffredin i esbonio, mewn dull eglur, ystyr cyfundraethau athronyddol tra thywyll a chymysglyd, a gonestrwydd mawr yn ei sylwadau ar, a'i gymbariaethau o'r gwahanol syniadau arddansoddol, sydd wedi ennill bri mewn gwahaniael oesoedd a gwledydd. Y mae mwy o gryn lawer o sobrwydd a dwysder yn yr arddull yn yr argraffiad hwn nag oedd yn yr argraffiad blaenorol; tra y mae y bywiogrwydd a'r ysbrydiaeth oedd yn hynodi hwnw yn aros yn hwn.

Bydd rhai o'n darlennwyr, os nad ydynt yn adnabyddus eisoes â'r gwaith, yn ddiolchgar i ni am eu cyfeirio at *The Ethics of Aristotle, Illustrated with Essays and Notes*, by Sir Alexander Grant, Bart., M.A., *Fellow of Oriel College, Oxford*. Bydd y gwaith mewn dwy gyfrol. Nid oes ond y gyfrol gyntaf eto allan o'r wasg. Y mae hon yn cynnwys chwech o draethodau dysgedig a galluog, gyda thri o Attodiadau, ar amrywiol gwestiynau cysylltiedig â'r *Ethics*. Yn y rhai hyn y mae yr ysgrifenydd yn dwyn profion digonol ei fod wedi astudio ei awdwr yn drwyadl, wedi gwneyd y defnydd goreu o'r holl fanteision adnabyddus iddo i ddeall ei athrawiaeth, ac ymhob modd yn gymhwys i lefaru gydag awdurdod ar y gwahanol destynau a ddygir dan ei sylw. Bydd yr ail gyfrol allan yn fuan, yn cynnwys testun gwreiddiol yr *Ethics*, gyda nodiadau beirniadol a deongliadol arno.

Un o arwyddion mwyaf gobeithiol athroniaeth a llênnyddiaeth yr oes bresennol, ydyw y sylw mawr a delir i ysgrifeniadau Arglwydd Bacon. Y mae cyfrol hynod o alluog ar ei athroniaeth wedi ei dwyn allan yn ddiweddar. *Francis Bacon of Verulam. Realistic Philosophy and its age*. By Kuno Fischer. *Translated from the German*, by John Oxenford. Y mae tuedd gyffredin wedi cael ei dangos yn Germany, ac mewn parthau eraill o'r cyfandir, i dynu Bacon i lawr o'r orsedd yr honir gan y Prydeiniaid yn gyffredin sydd gyfreithlawn iddo. Prin yr addefant ef yn athronydd oll. Y mae rhyw nifer, yn y deyrnas hon hefyd, o'r rhai parod i efelychu pa beth bynag fyddo yn perthyn i'r Cyfandir, wedi bod fel y gareg ateb yn adsain y difriad oddiyno i glustiau ei ddysgyblion yma. Ond yn awr, wele ŵr o Germany, a gydnabyddir yn awdurdod yno, yn talu i Bacon y warogaeth a deilynga. Y mae cyhoeddiad llyfr o'r fath yn arwyddo yn dda am Germany ei hunan. Pe gellid dwyn meddwl y wlad hono i gyfarfyddiad â synwyr da, ymarferol, Bacon mewn athroniaeth, byddai yn rhyw ernes y gellid dysgwyl yr un synwyr, yn raddol, yn gweithio ei ffordd i'w chrefydd hefyd. Y mae y llyfr hwn yn dra chyfaddas er effeithio y fath gyfnewid- iad. Y mae ystyr athroniaeth Bacon fel ag y gosodir hi allan ganddo yn y "De Augustinis Scientiarum," ac yn y "Novum Organum," wedi ei grynhoi yma i ychydig bennodau byrion, gyda'r fath eglurder a manylder ac effeithiolrwydd, ag sydd ar unwaith yn ei wahaniaethu oddiwrth bob ymgais arall i hyny a welsom ni erioed.

Y mae y prif ysgrifenyddwyr i'r gwahanol adolygiadau Trimisol yn Lloegr, yn parhau i gyhoeddi naill ai yr oll neu ddetholion o'u cyfraniadau iddynt, yn gyfrolau gwahanol, ac â'u henwau wrthynt, i'r byd. Felly daeth allan yn ddiweddar, *Essays from the Edinburgh and Quarterly Reviews*, with

Addresses and other Pieces. By Sir John F. W. Herschel, Bart., K.H. Y mae enw Herschel yn ddigon i sicrhau rhagoriaeth uchel pa beth bynag a gyhoedder ganddo. Gwyddor yn ei ffurfiau uchaf sydd ganddo dan sylw yn y rhan fwyaf o'r gyfrol hon; er fod rhai o'r caniadau a ddodir ganddo ar ei diwedd, yn profi y gall yntau ymddarostwng at bethau bychain, a'i fod ambell waith yn ei ddifyru ei hunan â theganau tebyg i'r eiddo dynion llawer iawn llai nag ef.

I'r un dosbarth (detholion o adolygiadau) perthyna, *Essays Biographical and Critical, chiefly on English Poets.* By David Mason, A.M., Professor of English Literature, in the University College, London. Cyfrol lawn o athrylith o'r fath buraf. Y mae yr awdwr yn amlwg yn feirniad o'r iawn ryw. Y mae yn treiddio i mewn i ysbryd y gwahanol gyfansoddiadau sydd yn dyfod dan ei sylw; ac yn edrych arnynt, nid yn unig yn eu perthynas â'r oes neu yr oesoedd y cyfansoddwyd hwynt ynddynt, ond yn eu perthynas â theimladau hanfodol dynoliaeth, ac ymddangosiadau sefydlog natur, sydd gyffredin i bob gwlad ac oes. Llyfr, nid yn unig i'w ddarllen, ond i'w astudio ydyw.



P. M. EVANS, ABRRAFFYDD, TREFFYNNON.





